



This is a digital copy of a book that was preserved for generations on library shelves before it was carefully scanned by Google as part of a project to make the world's books discoverable online.

It has survived long enough for the copyright to expire and the book to enter the public domain. A public domain book is one that was never subject to copyright or whose legal copyright term has expired. Whether a book is in the public domain may vary country to country. Public domain books are our gateways to the past, representing a wealth of history, culture and knowledge that's often difficult to discover.

Marks, notations and other marginalia present in the original volume will appear in this file - a reminder of this book's long journey from the publisher to a library and finally to you.

### **Usage guidelines**

Google is proud to partner with libraries to digitize public domain materials and make them widely accessible. Public domain books belong to the public and we are merely their custodians. Nevertheless, this work is expensive, so in order to keep providing this resource, we have taken steps to prevent abuse by commercial parties, including placing technical restrictions on automated querying.

We also ask that you:

- + *Make non-commercial use of the files* We designed Google Book Search for use by individuals, and we request that you use these files for personal, non-commercial purposes.
- + *Refrain from automated querying* Do not send automated queries of any sort to Google's system: If you are conducting research on machine translation, optical character recognition or other areas where access to a large amount of text is helpful, please contact us. We encourage the use of public domain materials for these purposes and may be able to help.
- + *Maintain attribution* The Google "watermark" you see on each file is essential for informing people about this project and helping them find additional materials through Google Book Search. Please do not remove it.
- + *Keep it legal* Whatever your use, remember that you are responsible for ensuring that what you are doing is legal. Do not assume that just because we believe a book is in the public domain for users in the United States, that the work is also in the public domain for users in other countries. Whether a book is still in copyright varies from country to country, and we can't offer guidance on whether any specific use of any specific book is allowed. Please do not assume that a book's appearance in Google Book Search means it can be used in any manner anywhere in the world. Copyright infringement liability can be quite severe.

### **About Google Book Search**

Google's mission is to organize the world's information and to make it universally accessible and useful. Google Book Search helps readers discover the world's books while helping authors and publishers reach new audiences. You can search through the full text of this book on the web at <http://books.google.com/>

10/6



BH 7472.6


Harvard College Library



FROM THE FUND OF  
FREDERICK ATHEARN LANE  
OF NEW YORK  
(Class of 1849)



"137



L  
27236790

5 Llandwisi St  
Cardiff 10/8  
Dec 11/89

Dear Sir:

In reply to yours of the 9th I beg to inform you that Hanes Morgannwg (2 vols) were sold in 18 months. However I kept 20, with the intention of leaving them to the family, but from time to time some one would come asking me to spare a copy, so they are gone down to 12. The price of the Vol is 10/- I don't expect to sell, but if you are very anxious to get one, I would not care much to spare you one.

As soon as I can spare time to call at the S.W. University, I shall enquire who is the publisher of the *Llyfr Coch* & *Llyfr Du*, and

shall drop you a Post (if I can).

I cannot call to mind at present the name of the professor at Oxford who publishes the bottle.

Yours &c

Daffydd Morganwg

2)

1  
tu

)

=

)



*Yr eiddoch yn barchus*  
*Dafyddol Morganwg*  
*4*



HANES

MORE ANWG.

AND VERGANG.

1877

Printed by the University of Chicago Press



H A N E S

M O R G A N W G .

---

G A N

DA F Y D D M O R G A N W G .


---

ABERDAR:

ARGEAFFWYD GAN JENKIN HOWELL, 16, COMMERCIAL PLACE.

1874,

Rn 7472.6



*Lane fund*

## RHAGY MADRODD.

HOFFUS DDAELLENYDD,

Dyma HANES MORGANWE wedi ei orphen goreu y gellais. Bu hwn yn destun cystadleuol mewn Eisteddfod Genedlaethol yn 1861, a chefais yr anrhydedd o'm cyfrif yn fuddugol. O'r pryd hwnw hyd 1878, llafuriais gymmaint a ellais i gasglu ychwaneg o'r hanes, gan ei drefnu mor ddeheuig ag oedd modd i mi, cyn ei ddwyn i sylw'r cyhoedd. Teithiais y sir yn fanwl ddwy waith, er mwyn gweled y gwrthddrychau y sonir am danynt genyf, rhag i mi roddi disgrifiad anghywir o honynt. Nid ymgeisiais at iaith flodeuog, farddonol, a chwyddedig, ond cyfleais yr hanes mewn can lleied o le ag oedd ddichonadwy i mi. Ymdrechais pa fodd bynag i wneyd yr hanes mor gywir a gwirioneddol ag oedd yn bossibl i mi, gan ochel y chwedlonol ar un llaw, a'r anffyddol ar y llall. Diamheu fod traddodiadau chwedlonol wedi cael gormod o goel gan ein cenedl, a gormod o'u coledd gan haneswyr Cymreig yn yr oes o'r blaen; a dichon fod rhai haneswyr yn yr oes hon yn tueddu gormod at yr anffyddol, gyda golwg ar hanes ein gwlad. Tueddir rhai i ddiystyru pob *Hanes Gymreig*, a hyny gyda gwawd; ond rhoddant hyder neillduol ar bob peth a ddywed *estroniaid* am ein gwlad a'n cenedl, a'r *estroniaid* hyny feallai heb gael un fantais i wybod dim am danom ond yn unig yr hyn a gasglwyd ganddynt dan ddylanwad rhagfarn, tra yn talu ymweliad damweiniol a'n gwlad am ychydig ddyddiau. Er enghraifft, yn 1868, talodd Golygydd y *Good Words* ymweliad â Merthyr Tydfil, a bu yno *ddau ddiwrnod*. Wedi iddo ddychwelyd i'w gartref, ysgrifennodd erthygl faith i'w gyhoeddiad, yn yr hon y traetha yr hyn a welodd yn Merthyr a Dowlais, meddai ef. Ymddangosodd yr erthygl yn rhifyn Ionawr, 1869. Mae mwy na hanner yr ysgrif hono yn anwiredd noeth, yr hyn a brawf nad oedd gan yr estron hwnw yr un amcan mewn golwg wrth ei hysgrifenu ond sarhau y Cymry. Dywed yn mhlith pentwr o anwireddau ereill, fod y merched sydd yn gweithio allan yn Merthyr, yn *ymocio* braidd yn ddiethriad, ac er gosod hyn allan yn fwy effeithiol o flaen ei ddarllenwyr, aeth i'r drafferth o gael *darlun merch* yn *ymocio* i addurno ei lyfr! Cofier mai ymwelydd *dau ddiwrnod* oedd yr estron hwnw, tra yr wyf finau wedi fy ngeni, fy magu, a byw yn Merthyr dros 80 o flynyddau, a gweled y merched sydd yn gweithio

allan yno braidd bob dydd. Yn awr gofynaf, pa un ai gan yr estron, neu ynte genyf fi y mae'r fantais oreu i wybod y *gwir* am y lle? Wel, yr wyf fi yn tystio, na welais yr un ferch sydd yn gweithio allan yn ysmocio erioed. Yn awr, meddylier fod yr erthygl a nodwyd yn cael ei darllen yn mhen can mlynedd etto, ac i'r sylw hwn gael ei ddarllen hefyd. Os bydd darllenwyr yr oes hono fel *rhai* o ddarllenwyr yr oes hon, credant anwiredd yr estron, am ei fod yn wr o *Lundain*, gan ddiystyru y gwir am ei fod wedi ei ysgrifenu yn Gymraeg.

Haera rhai nad oedd gan y Cymry lenyddiaeth o gwbl hyd yn ddiweddar, ac nad oedd y genedl nemawr gwell na phaganiaid anwaraidd, barbariaidd, ac anwybodus. Etto, nis gallant wadu *bodolaeth* ein Rheolau Barddoniaeth, y rhai nad oes gan yr un genedl ar wyneb y ddaear ddim yn deilwng i'w cymharu a hwy o ran cywreinrwydd, ac athroniaeth eu cyfansoddiad. Nis gallant wadu *bodolaeth* ein *Cerddoriaeth* ychwaith; ac ni raid i'r Alawon Cymreig wrth ganmoliaeth neb. Ni thyfodd y rhai hyn o'r ddaear, ac ni ddisgynasant o'r nef; nid cenedl anwar a allodd eu cynnyrchu ychwaith; ac os na ellir gwadu na gwrthod ein Rheolau Barddoniaeth, a'n Cerddoriaeth, paham y gwadir ac y gwrthodir Hanesiaeth Gymreig? Y cwbl a hawliwn i'n cenedl yw y safle a deilynga yn mhllith cenedloedd ereill, a honwn hefyd, y dylid rhoddi yr ymddiried priodol i Hanesiaeth Gymreig.

Os gwel y darllenydd erthyglau yn y gyfrol hon yn debyg i erthyglau argraffedig yn "Cymru," dan olygiad y Parch. O. Jones, cofied mai ysgrifenydd y gyfrol hon, ysgrifonodd y rhai hyny hefyd. Yr wyf yn gwneyd y sylw hwn rhag fy ngham-gyhuddo o len-ladrad. Nid wyf yn honi fod y gyfrol hon yn berffaith, ond y mae goreu y gellais i ei gwneyd; ac felly hyderaf y cydymddygir a mi yn yr hyn sydd ddiffyg-iol ynddi.

Yn anffodus, y mae un gangen o gledrffordd wedi ei gadael allan o'r *map*, sef y gangen o Bontypridd i Lantrisant, a drwg genyf hyn. Er hyny, y mae yn fwy cyflawn nag un *map* o'i faint ag sydd wedi ei gyhoeddi o'r Sir.

Dymunaf ddiolch i'm holl gefnogwyr yn yr anturiaeth hon, yn ddoeparthwyr a derbynwyr, ac hyderaf nad yw yn edifar ganddynt hwythau.

DAVID WATKIN JONES,

Hirwaun, Tach. 1874.

## CYNNWYSIAD.

|                                 |     |     |     |    |
|---------------------------------|-----|-----|-----|----|
| Rhagymadrodd                    | ... | ... | ... | 1  |
| <b>SIR FORGANWG.</b>            |     |     |     |    |
| Enw y sir                       | ... | ... | ... | 2  |
| Terfynau y sir                  | ... | ... | ... | 2  |
| Maint a phoblogaeth y sir       | ... | ... | ... | 8  |
| <b>RHANIADAU Y SIR.</b>         |     |     |     |    |
| Rhaniadau Anianyddol            | ... | ... | ... | 8  |
| Bro Morganwg                    | ... | ... | ... | 4  |
| Blaenau Morganwg                | ... | ... | ... | 7  |
| Gŵyr                            | ... | ... | ... | 7  |
| Bro Gŵyr                        | ... | ... | ... | 8  |
| <b>AFONYDD MORGANWG.</b>        |     |     |     |    |
| Afon Elyroh—Rhymini             | ... | ... | ... | 9  |
| „ Taf                           | „   | ... | ... | 10 |
| „ Elai                          | „   | ... | ... | 14 |
| „ Dawen                         | „   | ... | ... | 14 |
| „ Ewenni                        | „   | ... | ... | 14 |
| „ Ogwy                          | „   | ... | ... | 15 |
| „ Afan                          | „   | ... | ... | 16 |
| „ Nedd                          | „   | ... | ... | 16 |
| „ Tawy                          | „   | ... | ... | 18 |
| „ Lliw                          | „   | ... | ... | 18 |
| „ Llwehwr                       | „   | ... | ... | 18 |
| Mynyddau Morganwg               | ... | ... | ... | 19 |
| Rhaniadau swyddogol y sir       | ... | ... | ... | 22 |
| Plwyfi Morganwg                 | ... | ... | ... | 24 |
| Undebau Plwyfol Morganwg        | ... | ... | ... | 28 |
| Hynodion Morganwg               | ... | ... | ... | 29 |
| Daeareg Morganwg                | ... | ... | ... | 39 |
| Glofeydd Morganwg               | ... | ... | ... | 57 |
| Ffrwydriadau Nwyol (Explosions) | ... | ... | ... | 68 |
| Gweithfeydd Haiarn              | ... | ... | ... | 64 |
| Tawdd-dai Haiarn a Phres        | ... | ... | ... | 65 |
| Gweithfeydd Alcan               | ... | ... | ... | 66 |
| Gweithfeydd Efydd               | ... | ... | ... | 66 |

|                      |     |     |     |     |    |
|----------------------|-----|-----|-----|-----|----|
| Gwaith Dur, &c.      | ... | ... | ... | ... | 87 |
| Cyfleustra Masnachol | ... | ... | ... | ... | 88 |
| Cledrffyrdd ...      | ... | ... | ... | ... | 89 |

## HANES WLADOL Y SIR.

|   |     |     |     |     |
|---|-----|-----|-----|-----|
| O'r Cyfnod Rhufeinig i'r Cyfnod Normanaidd    | ... | ... | ... | 71  |
| Dechreuad y Cyfnod Normanaidd                 | ... | ... | ... | 91  |
| Hanes Wladol y Sir dan Robert Iarll Caerloyw  | ... | ... | ... | 99  |
| Hanes Wladol y Sir dan William Iarll Caerloyw | ... | ... | ... | 102 |
| Helyntion Morganwg dan y De Clares, &c.       | ... | ... | ... | 104 |
| Gwladwriaeth Morganwg yn amser Owen Glyndwr   | ... | ... | ... | 109 |
| Morganwg yn amser Harri VII a Harri VIII.     | ... | ... | ... | 111 |
| Morganwg yn amser Charles I., ac O. Cromwell  | ... | ... | ... | 116 |
| Meddiannad Morganwg o 1091 hyd 1874           | ... | ... | ... | 118 |
| Aelodau Seneddol Morganwg                     | ... | ... | ... | 180 |
| "    "    Caerdydd, &c.,                      | ... | ... | ... | 184 |
| "    "    Abertawy                            | ... | ... | ... | 185 |
| "    "    Merthyr                             | ... | ... | ... | 185 |
| Hanes Grefyddol                               | ... | ... | ... | 186 |
| Eglwysi Morganwg                              | ... | ... | ... | 189 |
| Yr Offeiraiad ddiswyddwyd gan Cromwell        | ... | ... | ... | 144 |
| "    "    "    Charles II                     | ... | ... | ... | 146 |
| Dechreuad a Chynnydd Ymneillduaeth            | ... | ... | ... | 147 |
| Yr Annibynwyr a'u capeli                      | ... | ... | ... | 151 |
| Y Bedyddwyr a'u capeli                        | ... | ... | ... | 157 |
| Y Trefnyddion Calfinaidd a'u capeli           | ... | ... | ... | 160 |
| Y Wesleyaid a'u capeli                        | ... | ... | ... | 165 |
| Hanes Lenyddol Morganwg                       | ... | ... | ... | 166 |
| Beirdd Gorsedd                                | ... | ... | ... | 174 |

## TREFI A PHENTREFI MORGANWG.

|              |     |     |     |     |
|--------------|-----|-----|-----|-----|
| Aberafan     | ... | ... | ... | 184 |
| Abercennfig  | ... | ... | ... | 188 |
| Aberdar      | ... | ... | ... | 188 |
| Aberddawen   | ... | ... | ... | 206 |
| Aberdulais   | ... | ... | ... | 206 |
| Aberogwy     | ... | ... | ... | 207 |
| Abertawy     | ... | ... | ... | 207 |
| Abertridwr   | ... | ... | ... | 219 |
| Baglan       | ... | ... | ... | 221 |
| Barri        | ... | ... | ... | 221 |
| Barri (Ynys) | ... | ... | ... | 222 |
| Bettws       | ... | ... | ... | 222 |
| Blaen Gwrach | ... | ... | ... | 228 |
| Blaenllechau | ... | ... | ... | 224 |
| Bonvilston   | ... | ... | ... | 225 |
| Boverton     | ... | ... | ... | 226 |
| Briton Ferry | ... | ... | ... | 226 |
| Brynaman     | ... | ... | ... | 228 |



|  |     |     |     |     |     |     |     |
|--|-----|-----|-----|-----|-----|-----|-----|
| Bryntroedgam                                   | ... | ... | ... | ... | ... | ... | 229 |
| Cadoxton                                       | ... | ... | ... | ... | ... | ... | 229 |
| Caerau   | ... | ... | ... | ... | ... | ... | 229 |
| Caerdydd                                       | ... | ... | ... | ... | ... | ... | 229 |
| Caerffili                                      | ... | ... | ... | ... | ... | ... | 247 |
| Caalwohwr                                      | ... | ... | ... | ... | ... | ... | 255 |
| Castell Aberafan (Gwel Aberafan 184).          |     |     |     |     |     |     |     |
| „ Aberbarri (Gwel Barri 221).                  |     |     |     |     |     |     |     |
| „ Aberogwy (Gwel Aberogwy 207).                |     |     |     |     |     |     |     |
| „ Abersili (Gwel Suli).                        |     |     |     |     |     |     |     |
| „ Abertawy (Gwel Abertawy 207).                |     |     |     |     |     |     |     |
| „ Alain  | ... | ... | ... | ... | ... | ... | 258 |
| „ Beaupre (Gwel St. Hilari, 470).              |     |     |     |     |     |     |     |
| „ Caerdydd (Gwel Caerdydd 229).                |     |     |     |     |     |     |     |
| „ Caerffili (Gwel Caerffili 247).              |     |     |     |     |     |     |     |
| „ Cenffig                                      | ... | ... | ... | ... | ... | ... | 264 |
| „ Coch   | ... | ... | ... | ... | ... | ... | 258 |
| „ Llangynwyd (Gwel Llangynwyd 858).            |     |     |     |     |     |     |     |
| „ Coetty (Gwel Coetty 270).                    |     |     |     |     |     |     |     |
| „ Craig-y-llwyn                                | ... | ... | ... | ... | ... | ... | 259 |
| „ Denis Powys.—Gwel Dinas Powys, 287.          |     |     |     |     |     |     |     |
| „ Dindryfan.—Gwel St. Bride Fawr, 458.         |     |     |     |     |     |     |     |
| „ Du.—Gwel Llandilo Talybont, 827.             |     |     |     |     |     |     |     |
| „ East a West Orchard.—Gwel St. Athan, 4 6.    |     |     |     |     |     |     |     |
| „ Eglwys Newydd                                | ... | ... | ... | ... | ... | ... | 298 |
| „ Ffonmon.—Gwel Penmarc, 440.                  |     |     |     |     |     |     |     |
| „ Gelligaer.—Gwel Gelligaer, 296.              |     |     |     |     |     |     |     |
| „ Grinstone.—Gwel Wenvoe, 477.                 |     |     |     |     |     |     |     |
| „ Hen.—Gwel Penybont, 448.                     |     |     |     |     |     |     |     |
| „ Hensol.—Gwel Pendaulwyn, 486.                |     |     |     |     |     |     |     |
| „ Llanbedr.—Gwel Llanbedr-y-Fro, 806.          |     |     |     |     |     |     |     |
| „ Llandathan.—Gwel St. Athan, 456.             |     |     |     |     |     |     |     |
| „ Llandochwy.—Gwel Llandochwy'r Bontfaen, 828. |     |     |     |     |     |     |     |
| „ Llandremor                                   | ... | ... | ... | ... | ... | ... | 828 |
| „ Llanddewi.—Gwel Llanddewi, 880.              |     |     |     |     |     |     |     |
| „ Llandunwyd.—Gwel St. Donatts, 462.           |     |     |     |     |     |     |     |
| „ Llanfleiddian.—Gwel Llanfleiddian, 886.      |     |     |     |     |     |     |     |
| „ Llantrisant.—Gwel Llantrisant, 878.          |     |     |     |     |     |     |     |
| „ Llanufelwyn.—Gwel St. George, 469.           |     |     |     |     |     |     |     |
| „ Morgraig.—Gwel Caerffili, 247.               |     |     |     |     |     |     |     |
| „ Morllais                                     | ... | ... | ... | ... | ... | ... | 260 |
| „ Morlais.—Gwel Merthyr Tydfil, 408.           |     |     |     |     |     |     |     |
| „ Nedd   | ... | ... | ... | ... | ... | ... | 260 |
| „ Newydd.—Gwel Penybont, 448.                  |     |     |     |     |     |     |     |
| „ Oxwich.—Gwel Oxwich.                         | ... | ... | ... | ... | ... | ... | 482 |
| „ Oystermouth.—Gwel Oystermouth, 488.          |     |     |     |     |     |     |     |
| „ Penllin.—Gwel Penllin, 487.                  |     |     |     |     |     |     |     |
| „ Penmarc.—Gwel Penmarc, 440.                  |     |     |     |     |     |     |     |

|                                     |     |
|-------------------------------------|-----|
| „ Pennard.—Gwel Pennard, 440.       |     |
| „ Penrhys.—Gwel Penrhys, 441.       |     |
| „ Rhossili.—Gwel Rhossili, 454.     |     |
| „ Scarlage ... ..                   | 268 |
| „ St. Ffagan.—Gwel St. Ffagan, 468. |     |
| „ Talyfan.—Gwel Ystrad Owen, 478.   |     |
| „ Weobly ... ..                     | 264 |
| „ Woodland ... ..                   | 264 |
| Cenffig ... ..                      | 264 |
| Cheriton ... ..                     | 268 |
| Cogan ... ..                        | 269 |
| Coly ... ..                         | 269 |
| Coetty ... ..                       | 270 |
| Cwm Afan ... ..                     | 272 |
| Cwmaman.—Gwel Aberdar, 188.         |     |
| Cwmbach.—Gwel Aberdar, 188.         |     |
| Cwm Bargod Rhymni ... ..            | 278 |
| Cwm Bargod Taf ... ..               | 278 |
| Cwmdar.—Gwel Aberdar, 188.          |     |
| Cwm Nedd ... ..                     | 279 |
| Cwm Ogwy ... ..                     | 281 |
| Cwm Rhondda ... ..                  | 281 |
| Cwm Tawy ... ..                     | 286 |
| Cwm Twrch ... ..                    | 287 |
| Denis Powys ... ..                  | 287 |
| Dowlais.—Gwel Merthyr Tydfil, 399.  |     |
| Eglwys Brewis ... ..                | 288 |
| Eglwys Elian ... ..                 | 288 |
| Eglwys Fair y Mynydd ... ..         | 292 |
| Eglwys Newydd ... ..                | 298 |
| Ewenni ... ..                       | 298 |
| Fochriw ... ..                      | 295 |
| Flemingstone ... ..                 | 295 |
| Gelligaer ... ..                    | 296 |
| Gileston ... ..                     | 801 |
| Glyncorrwg ... ..                   | 801 |
| Hirwaun.—Gwel Aberdar, 188.         |     |
| Hensol.—Gwel Pendeulwyn, 496.       |     |
| Ilston ... ..                       | 804 |
| Knelston ... ..                     | 804 |
| Laleston ... ..                     | 805 |
| Lavernock ... ..                    | 805 |
| Leckwith ... ..                     | 805 |
| Llanbedr-ar-Fynydd ... ..           | 806 |
| Llanbedr-y-Fro ... ..               | 806 |
| Llancarfan ... ..                   | 807 |
| Llandaf ... ..                      | 808 |
| Llandeilo Ferwallt ... ..           | 827 |

|                                |     |     |     |     |
|--------------------------------|-----|-----|-----|-----|
| Llandeilo Talybont             | ... | ... | ... | 827 |
| Llandochwyr Bontfaen .         | ... | ... | ... | 828 |
| Llandochwy Penarth             | ... | ... | ... | 829 |
| Llandwf                        | ... | ... | ... | 829 |
| Llandyfodwg                    | ... | ... | ... | 829 |
| Llanddewi                      | ... | ... | ... | 880 |
| Llanedeyrn                     | ... | ... | ... | 881 |
| Llanfabon                      | ... | ... | ... | 881 |
| Llanfadog                      | ... | ... | ... | 888 |
| Llanfair                       | ... | ... | ... | 884 |
| Llanfedwy                      | ... | ... | ... | 884 |
| Llanfihangel                   | ... | ... | ... | 885 |
| Llanfihangel-ar-Elai           | ... | ... | ... | 886 |
| Llanfihangel-y-Pwll            | ... | ... | ... | 886 |
| Llanfleiddian Fawr             | ... | ... | ... | 886 |
| Llanfrynach                    | ... | ... | ... | 888 |
| Llangan                        | ... | ... | ... | 888 |
| Llangattwg Glyn Nedd           | ... | ... | ... | 888 |
| Llangeinor                     | ... | ... | ... | 852 |
| Llangennydd                    | ... | ... | ... | 852 |
| Llangiwc                       | ... | ... | ... | 852 |
| Llangrallo                     | ... | ... | ... | 855 |
| Llangyfelach                   | ... | ... | ... | 856 |
| Llangynwyd                     | ... | ... | ... | 858 |
| Llanharan                      | ... | ... | ... | 866 |
| Llanharri                      | ... | ... | ... | 867 |
| Llanilid                       | ... | ... | ... | 867 |
| Llanilltern                    | ... | ... | ... | 868 |
| Llanilltyd Faerdref            | ... | ... | ... | 868 |
| Llanilltyd Fawr                | ... | ... | ... | 869 |
| Llanilltyd Nedd                | ... | ... | ... | 874 |
| Llanisan                       | ... | ... | ... | 875 |
| Llanrhidian                    | ... | ... | ... | 875 |
| Llansamlet                     | ... | ... | ... | 877 |
| Llansannor                     | ... | ... | ... | 878 |
| Llantrisant                    | ... | ... | ... | 878 |
| Llantryddyd                    | ... | ... | ... | 889 |
| Llanwynno                      | ... | ... | ... | 890 |
| Llysaen                        | ... | ... | ... | 891 |
| Llysyfronydd                   | ... | ... | ... | 892 |
| Maesteg.—Gwel Llangynwyd, 858. |     |     |     |     |
| Marcros                        | ... | ... | ... | 892 |
| Margam                         | ... | ... | ... | 892 |
| Merthyr Dyfan                  | ... | ... | ... | 898 |
| Merthyr Mawr                   | ... | ... | ... | 899 |
| Merthyr Tydfil                 | ... | ... | ... | 899 |
| Monknash                       | ... | ... | ... | 428 |
| Mountain Ash                   | ... | ... | ... | 429 |

|  |     |     |     |     |     |
|--|-----|-----|-----|-----|-----|
| Newton Nottage                           | ... | ... | ... | ... | 480 |
| Nicholaston                              | ... | ... | ... | ... | 482 |
| Oxwich                                   | ... | ... | ... | ... | 482 |
| Oystermouth                              | ... | ... | ... | ... | 488 |
| Penarth                                  | ... | ... | ... | ... | 484 |
| Pendulwyn                                | ... | ... | ... | ... | 486 |
| Penllin                                  | ... | ... | ... | ... | 487 |
| Penmaen                                  | ... | ... | ... | ... | 489 |
| Penmarc                                  | ... | ... | ... | ... | 440 |
| Pennard                                  | ... | ... | ... | ... | 440 |
| Penrice                                  | ... | ... | ... | ... | 441 |
| Pentyrch                                 | ... | ... | ... | ... | 442 |
| Penybont-ar-Ogwy                         | ... | ... | ... | ... | 443 |
| Pil                                      | ... | ... | ... | ... | 445 |
| Pontardawe.—(Gwel Llangiwc), 852.        |     |     |     |     |     |
| Pontfaen                                 | ... | ... | ... | ... | 446 |
| Pontlottyn                               | ... | ... | ... | ... | 450 |
| Pontypridd                               | ... | ... | ... | ... | 450 |
| Porthcawl.—(Gwel Newton Nottage, 481).   |     |     |     |     |     |
| Porthoerri                               | ... | ... | ... | ... | 452 |
| Porth Einion                             | ... | ... | ... | ... | 453 |
| Rhadyr                                   | ... | ... | ... | ... | 453 |
| Reynoldston                              | ... | ... | ... | ... | 454 |
| Rhossili                                 | ... | ... | ... | ... | 454 |
| Rhydgwern                                | ... | ... | ... | ... | 455 |
| Rhydri                                   | ... | ... | ... | ... | 455 |
| St. Andrews                              | ... | ... | ... | ... | 456 |
| St. Andrews Minor                        | ... | ... | ... | ... | 456 |
| St. Athan                                | ... | ... | ... | ... | 456 |
| St. Bride Major                          | ... | ... | ... | ... | 458 |
| St. Donatts                              | ... | ... | ... | ... | 462 |
| St. Fagan                                | ... | ... | ... | ... | 468 |
| St. George                               | ... | ... | ... | ... | 469 |
| St. Hilary                               | ... | ... | ... | ... | 470 |
| St. Lythan                               | ... | ... | ... | ... | 473 |
| St. Nicholas                             | ... | ... | ... | ... | 473 |
| Sully                                    | ... | ... | ... | ... | 475 |
| Tregolwyn                                | ... | ... | ... | ... | 475 |
| Tythegston                               | ... | ... | ... | ... | 476 |
| Welsh St. Donatts                        | ... | ... | ... | ... | 476 |
| Wenvoe                                   | ... | ... | ... | ... | 477 |
| Wig                                      | ... | ... | ... | ... | 477 |
| Ystalyfera.—(Gwel Llangiwc, 852).        |     |     |     |     |     |
| Ystrad-dyfodwg.—(Gwel Cwm Rhondda, 281). |     |     |     |     |     |
| Ystrad Owen                              | ... | ... | ... | ... | 478 |
| Attodiad I                               |     |     |     |     |     |
| Attodiad II                              | ... | ... | ... | ... | 459 |

DARLUNIAU.

Darlun yr Awdwr ar y dechreu

Map o'r Sir

|                     |     |     |     |     |     |     |
|---------------------|-----|-----|-----|-----|-----|-----|
| Aberdar             | ... | ... | ... | ... | ... | 188 |
| Abertawy            | ... | ... | ... | ... | ... | 207 |
| Caerffili           | ... | ... | ... | ... | ... | 247 |
| Llanfleiddian Fawr  | ... | ... | ... | ... | ... | 386 |
| Bontfaen            | ... | ... | ... | ... | ... | 446 |
| Pontypridd          | ... | ... | ... | ... | ... | 450 |
| Castell Llanddunwyd | ... | ... | ... | ... | ... | 460 |

GWELLIANT GWALLAU.

- Tudal. 4, 33 llinell o'r top, yn lle "Macros," darlener Meiros.  
 9, 39 llinell o'r top, yn lle "Gwenau'r Glyn," darlener Genen'r Glyn.  
 12, 23 llinell o'r top, yn lle "Crair yr Hesg," darlener Craig yr Hesg.  
 15, 8 llinell o'r top, yn lle "Nant Alam," darlener Nant Alain.  
 18, 22 llinell o'r top, yn lle "Neuadd Fawr," darlener Hen Neuadd.  
 32, 41 llinell o'r top, yn lle "Twill y Bacon," darlener Twll Bacon.  
 33, 28 llinell o'r top, yn lle "alosg-goed," darlener olog-goed.  
 35, llinell 1, "droedfedd" i fod ar ol "2."  
 38, 8 llinell o'r top, yn lle "1,10" o droedfeddi," darlener 1,100 o latheni.  
 62, 19 llinell o'r top, yn lle "Phos," darlener Rhos.  
 64, 41 llinell, dodder rhif 119 ffwrnesi puddling, a 2 felin.  
 72, llinell 1, yn lle "fynyddua," darlener fynyddau.  
 72, 42 llinell, yn lle "mun," darlener mud.  
 75, 44 llinell, yn lle "Bren," darlener Brenin.  
 92, 29 llinell, yn lle "Mapres," darlener Mapes.  
 106, 17 llinell, yn lle "Caerffii," darlener Caerffili.  
 121, 42 llinell, yn lle "1863," darlener 1863.  
 152, 14 llinell, Benybont a'r Bettws ddylai fod wedi eu cyplysu.  
 176, 2 llinell, yn lle "erch," darlener arch.  
 178, 35 llinell, yn lle "Iorwerth IV.," darlener Iorwerth VI.  
 183, llinell 1, yn lle "Ganwyf," darlener Ganwyd.  
 190, 17 llinell, yn lle "Llwyddion," darlener Llwyddion.  
 193, 12 llinell, yn lle "Leyland," darlener Leland.  
 207, 33 llinell, yn lle "Gwlad haf yr," darlener Gwlad yr Haf.  
 211, 26 llinell, yn lle "yn nghlyn," darlener yn nglyn.  
 214, 38 llinell, yn lle "yn gyssylltion chamlas," darlener a chamlas.  
 230, 4 llinell, yn lle "144," darlener 194.  
 232, 45 llinell, yn lle "gweddi," darlener gwedi.  
 239, 19 llinell, yn lle "Redit darlener Redif."  
 257, 17 llinell, yn lle "a ddygasant," darlener ac a ddygasant.  
 270, 19 llinell, yn lle "Dygir," darlener Dygid.  
 283, 16 llinell, yn lle "Bacon," darlener Morley.  
 297, 6 llinell, yn lle "Gardd," darlener Garth.  
 328, 38 llinell, yn lle "tai yn 1871," darlener tai yn 1861.  
 353, 40 llinell, yn lle "yn mhlwyf Llangiwo," darlener Llangyfelach.  
 354, 49 llinell, yn lle "derthyn," darlener perthyn.  
 363, 35 llinell, yn lle "fani," darlener fan i.  
 364, 16 llinell, yn lle "di gladdu," darlener ei gladdu.  
 366, 38 llinell, yn lle "Malog," darlener Maelog.  
 382, 49 llinell, yn lle "leaganus," darlener Paganus.  
 384, 48 llinell, yn lle "tai y plwyf yn 1891," darlener 1861.  
 385, 11 llinell, yn lle "wasnaeth," darlener wasanaeth.  
 394, 36 llinell, yn lle "tynodd llawer," darlener tynodd lawer.  
 427, 24 llinell, yn lle "1872," darlener 1862.














# MORGANWG

Milsstöedd.  
Scale of Miles.



HANES MORGANWG.

Light Vessel.

# HANES MORGANWG.

## HANESIAETH.

HANESIAETH yw'r gadwyn sy'n uno'r gorphenol a'r presenol. Dyma'r yspiadur a'n cynnorthwya i edrych yn ol trwy niwl amser, a sylwi ar wrthddrychau a dygwyddiadau y cynoesoedd, a'u sylweddoli yn ddelweddau byw o flaen ein llygaid yn y presenol. Y cyfrwng hwn sy'n galluogi dyn i weled gweithredoedd gorchestol ei flaenafiaid, ac yn rhoddi iddo destyn llawenydd, trwy ddadblygu o'i flaen y dull y darfu i'r naill oes ddiwygio gweithredoedd yr oes flaenorol, nes dyfod o bethau i'w sefyllfa berffaith bresenol.

Mae hanesiaeth fel mynegfys mawr, yn cyfeirio at brif ddygwyddiadau y gorphenol, gan nodi allan gyda manylrwydd elfenau codiad a chwympt teyrnasoedd ac ymherodraethau yn ngwahanol oesau'r byd, a dengys yn eglur ysgogiadau llaw fawr Rhagluniaeth yn nhrefniad materion amser.

Mae dyddordeb pob hanes yn ymddibynu i raddau pellârnatur ei wrthddrych. Os na fedd y gwrthddrych neillduollon a'i gwahaniaetha oddiwrth bethau yn gyffredinol, nis gall hanes y cyfryw feddu y fath ddyddordeb fel ag i hawlio sylw y lluaws. O'r tu arall, os bydd cymmeriad y gwrthddrych yn cael ei ffurfio a'r fath neillduolion ag a'i hynoda yn mblith gwrthddrychau ereill, gellir dysgwyl i'w hanes gynnwys dyddordeb i'r darllenydd, a budd i'w feddwl.

## SIR FORGANWG

yw gwrthddrych y gyfrol hon, ac os yw hanes wedi ei nodweddu â dygwyddiadau ddarfu ddylanwadu ar dynged cenedl,—os yw amledd gwrthddrychau hynafiaethol, lluosogrwydd ac amrywiaeth golygfeydd, helaethrwydd maesydd hanesiaeth naturiol, digonedd o gyfoeth mwnol, eangder gweithfeydd a masnach, yn peri i Sir fod yn ddyddorol i'r hynafiaethydd, carwr golygfeydd natur, y sylwedydd celfydd, a'r cyfoethgar, y mae Morganwg yn enwog am yr holl bethau hyn, ac felly yn hawlio sylw arbenig.

## ENW Y SIR.

Enw cyntaf y rhan hono o Ddeheudir Cymru sydd yn cynnwys Morganwg a Mynwy yn bresenol, oedd Essyllwg. Dyna yr enw a roddid i'r parth hwn gan y Cymry pan diriodd y Rhufeiniaid i'r wlad hon gyntaf, dan arweiniad Publius Ostorius Scapula, ac felly y parhaodd yr enw yn amser Julius Frontinus, yr hwn a lwyddodd i orchfygu ein cenedl, gan sefydlu gorsafoedd milwrol mewn gwahanol fanau, a llunio heolydd o'r naill orsaf i'r llall, y rhai a elwid *Julia Strata*. Wedi i'r Rhufeiniaid sefydlu gorsafoedd yn y rhan hon o'r wlad, darfu i'r Ymherawdwr Severus Ladinio y gair Essyllwg yn *Siluria*, ac enwodd yr Essyllwyr yn *Siluries*. Tardda y gair Essyllwg o sylt—syllu, syllfa, neu olygfa; ac wrth gyssylltu yr ol-ddod *wg* a'r gwreidd-air, cawn mai ystyr yr enw yw, golygfa swynol neu hyfrydol. O'r gair Essyllwg y tarddodd yr enw Gwlad Essyllt a Bro Essyllt.

Dywed Chwedloniaeth mai gwraig ordderch Lloegyr oedd Essyllt, ac iddynt fyw flynyddoedd gyda'u gilydd mewn ogof, lle y ganwyd merch iddynt, yr hon a enwyd yn Hafren; a phan ddaeth Gwendolen, gwraig gyfreithlon Lloegr, o hyd i'w gwr a'i ordderchwraig, gorchymynodd dafu Essyllt a'i merch i'r afon i'w boddi; ac o hyny allan, galwyd enw yr afon Hafren, a'r wlad ar ei glan yn Wlad Essyllt. Defnyddiodd Milton y chwedl hon yn destyn barddonol.

Enw hynafol arall ar y parth hwn o'n gwlad yw Gwent; ond cynnwysai Gwent y cynoesoedd siroedd presenol Morganwg a Mynwy, yn nghydag Euas, Erging (Archenfield), Sir Henffordd, ac Ystrad Yw, yr hon sydd yn awr yn Sir Frycheiniog. Bernir fod Gwent yn tarddu o'r gair Gwên neu Gwèn, ac mai ei ystyr yw teg neu hardd, ac yn agos yn gyfystyr a'r gair Essyllwg; ac y mae pryderfthwch y wlad yn teilwng hawlio yr enw.

Mae amrywiol dybiau gwahanol o barth tarddiad ac ystyr yr enw Morganwg. Tardda rhai ef o *môr* a *cant* (ymyl), a barnant mai ei ystyr yw gwlad yn ymyl môr. Ereill a'i tarddant o *môr* a *geni*, a barnant mai ei ystyr yw gwlad wedi ei geni o'r môr. Yn ol y tybiau hyn, gellid rhoddi yr enw Morganwg i bob parth sydd yn ymyl y môr yn mhob man. Mae yr hen Gofnodion Cymreig, pa fodd bynag, yn symmud pob dyryswech gyda golwg ar hyn, ac yn dynodi tarddiad yr enw yn ddigon eglur, fel nad oes achos i neb gamsynied. Wedi ymadawiad y Rhufeiniaid o'r wlad hon, ac adsefydliad man lywodraethau y tywysogion Cymreig, ar farwolaeth y brenin Arthur, yn y flwyddyn 542 B.A., rhoddwyd Cantref Gwent, ac Essyllt, a Gorwennydd, a Rheged i Morgan Mwynfawr, yr hwn a'i galwodd ar ei enw ei hun, Morganwg.

## TERFYNAU Y SIR.

Yr oedd terfynau Morganwg yn llawer eangach gynt nag ydynt yn bresenol. Ei therfyn yn y cynoesoedd ar du'r dwyrain oedd afon Gwy (Wye); ar du'r gorllewin, cyrhaeddai hyd afon Llychwr, fel y prawf

yr enw Rheged. Ei therfyn deheuol y pryd hwnw fel yn awr oedd Môr Hafren; a'i therfyn gogleddol gynt oedd mynyddau Brycheiniog. Wedi marwolaeth Morgan Mwynfawr, bu llawer o ymryson ac ymladd rhwng tywysogion Morganwg a thywysogion Dinefwr am y parth sydd rhwng afon Nedd ac afon Llychwr, am fod y naill a'r llall o honynt yn honi hawl i'r lle; a thrwy ymdrechion egniol y cadwodd gwyr Morganwg feddiant o hono, hyd nes penderfynwyd y ddadl yn y ddegfed ganrif trwy gyflafareddiad, fel y cawn sylwi etto.

Wedi y Goresgyniad Normanaidd yn 1090, ymddengys fod gan y Cymry a'r Normaniaid eu terfynau gwahanol i'r Sir. Terfynau'r Sir yn ddwyreiniol a gorllewinol gan y Normaniaid oedd afon Elyreh (Rhymini), a phwll Cynan, neu afonig Crymlun, rhwng afon Nedd ac afon Tawy. Dyna'r terfynau dwyreiniol a gorllewinol a ddynodai Leland yn 1540. Yn Llyfr Syr Edward Stradling, o Gastell St. Donatts hefyd, a ysgrifenyddwyd yn 1584, dywedir mai terfynau y Sir y pryd hwnw oedd, "O bont afon Rhymini ar y dwyrain, hyd Bwll Cynan yn y gorllewin, 27 milldir; ac o Aberddawen yn y dê, hyd ffiniau Brycheiniog yn y gogledd, 22 o filldroedd." Yr oedd Cymry Morganwg, pa fodd bynag, yn cyfrif bob amser fod Gwyr, sef rhwng Nedd a Llychwr, a Bro Gwyr, a elwir *Gower* yn bresenol, yn rhanau o'r Sir hon, er fod y Normaniaid yn ei therfynu yn wahanol.

Terfynau'r Sir yn awr ydynt fel y canlyn:—Terfynir hi ar y dê gan Fôr Hafren (*Bristol Channel*); ar y gogledd gan Sir Frycheiniog, a rhanau o Sir Gaerfyrddin; ar y dwyrain gan afon Rhymini, yr hon a'i gwahana oddiwrth Sir Fynwy; ac yn orllewinol gan afon Llychwr, yr hon a'i gwahana oddiwrth Sir Gaerfyrddin.

#### MAINT A PHOBLOGAETH Y SIR.

Mesura Morganwg o afon Rhymini ar y dwyrain, hyd Benrhyn Gwyr, sef Pen-y Pyrod (*Worm's Head*), yn y gorllewin, 58 milldir; a'i lled mwyaf o Aberddawen yn y dê, hyd y Cae Drain, sef y cwr mwyaf gogleddol o blwyf Merthyr Tydfil, tua 29 milldir; a'i lled lleiaf yn Mro Gwyr tua 4 milldir. Mae yn 125 milldir o amgylchedd, a chynnwysa 547,494 o erwi arwynebol.

Poblogaeth y Sir yn ol Deiliadeb (*Census*) y Llywodraeth sydd fel y canlyn:—

|                    |        |         |         |         |         |         |         |
|--------------------|--------|---------|---------|---------|---------|---------|---------|
| Blynyddau 1801.    | 1811.  | 1821.   | 1831.   | 1841.   | 1851.   | 1861.   | 1871.   |
| Poblog. . . 70,879 | 85,067 | 102,078 | 126,612 | 177,188 | 231,849 | 317,752 | 396,010 |

#### RHANIADAU Y SIR.

##### I. RHANIADAU ANIANYDDOL.

Mae rhaniadau naturiol y Sir hon yn cyfateb yn hollol i'r enwau roddwyd iddynt gynt gan y Cymry, yr hyn a brawf fod ein hynafiaid yn ddigon o anianyddwyr i enwi gwahanol ranau y wlad,—ei mynyddau, afonydd, &c., yn unol â theithi y gwrthddrych neu wrthddrychau.

Yr enwau a roddent i brif raniadau naturiol y Sir ydynt, Bro Morganwg, Blaenau Morganwg, Tir Gwyr, a Bro Gwyr; ac y mae'r enwau yn ddarluniad perffaith o'r gwahanol ranau.

## BRO MORGANWG.

Bro Morganwg briodol yw y rhan hono o'r Sir sydd yn gorwedd rhwng afon Rhymini ac afon Ogwy, ac o lanau Hafren yn y dê, hyd odreu y gadwyn o fynyddau sydd yn rhedeg o ddwyrain i orllewin, gan ddechreu ar lan afon Rhymini ar gyfer Machen, ac yn rhedeg ar y tu deau i Gaerfili hyd y Castell Coch; ac oddiyno heibio Llantrisant, Mynydd Garth Maelwg, &c. Mae ei hyd o Bont Rhymini (tua dwy filldir i'r dwyrain o Gaerdydd) hyd Benybont-ar-Ogwy, ei therfyn gorllewinol yn 20 milldir, a'i lled o lan môr Hafren ger Llanilltyd Fawr yn y dê, hyd Lan Haran yn y gogledd, tua 10 milldir; ac addefir yn gyffredin ei bod yn un o'r llennyrech ffrwythlonaf, prydferthaf, a pharadwysaf yn Nghymru.

O fan hytryd, ar fin Hafren,—bro fras,  
Bro o fri, ail Eden;  
Bri a haedda'n Bro addien,—  
Hon yw Gardd Morganwg Wen.—D. M.

Mae y rhes fynyddau y cyfeiriwyd atynt yn rhedeg fel mur mawr ar du gogleddol y Fro, gan ei chysgodi rhag anadl oer gwynt y gogledd; ac yn y mur hwn y mae bylchau neu agoriadau, trwy y rhai y rhed afonydd tryloywon i ddyfrhau tiroedd breision y gwastadedd islaw. Rhwng afon Rhymini ac afon Taf, y saif Mynydd Cefn On, fel ag i ffurfio rhan o'r mur, a Chraig Ruperra, Craig Siencyn, Craig Llanisan, Craig y Ddraenen, a Chraig y Wenallt, fel cynnifer o feini mawrion yn ffurfio y rhan yma o'r mur.

Rhwng afonydd Taf ac Elai, saif Mynydd y Garth, gyda Chraig Gwilym, Craig Coed y Creigiau, a Chraig Llantrisant, y rhai sydd yn ffurfio rhan arall o'r mur cysgodol hwn. Rhwng afon Elai a'r Ewynwy (Ewenni) drachefn, y saif Mynydd Garth Maelwg a Mynydd Macres; a rhwng Ewynwy a'r Eogwy (Ogwy), saif Mynydd y Gaer a Chefn Hirgoed.

Mae'r heirdd fynyddau hyn yn uthr a bannog—  
Dadblygiad ynt o'r gorwch a'r mawreddog;  
Ac ar bob un o'u bannau dyrchafedig,  
Mae enw y Gwnenthurydd yn gerffedig.  
Ha! nid trwy ddamwain ddall y rhoed mynyddau  
Y gymmydogaeth hon yn eu morteisiau,  
Ond gwelir mawr ddoethineb y Gosodwr  
Yn hynod eglur ar bob un o'r pentwr:  
Doethineb llai nâ'r Dwyfol nis gallasai  
Bennodi'r lleoedd i roi lawr eu seiliau;  
Ac eglur yw mai'r amcan mawr mewn golwg  
Oedd codi Mur Gogleddol Bro Morganwg!  
Mur ydyw hwn a godwyd â mynyddau,  
Yn amddiffynfa Hytryd Fro y ffrwythau;

A phan y ceisia'r Gogledd ohwythu arni,  
 Fe deif y mur yr anadl rhewllyd drosti.  
 Ha! dyma fur ág ôl llaw Ddwyfol arno—  
 Mur ydyw a mynyddau'n feini ynddo!—D. M.

Yn gymmaint a bod y mynyddoedd hyn yn ffurfio'r fath gysgod i'r Fro, a'i bod yn cael ei dyfrhau yn dda, a natur ei thir yn fras a chynnyrchiol, a bod ei hinsawdd yn hynod dymherus, mae ei ffrwythlondeb yn ddiarebol, fel y gelwir hi yn fynych yn Ardd Cymru. Tyf y llysiau a'r ffrwythau tyneraf ynddi yn yr awyr agored, a cheir gwellt ei gwenith yn aml yn chwech troedfedd o hyd, fel nad yw y desgriafiad canlynol o honi yn eithafol:—

Mae maesydd y Fro fel yn plygu dan bwysau  
 Y beichiau sydd arnynt o rawn brás ac fr;—  
 Maent wedi eu llwytho yn drymion & ffrwythau,  
 Er llenwi angenion preswylwyr y tir;  
 Fe welir yr yd mewn aur godau melynion,  
 A'r gyrs tég o arian ar wyneb y maes,  
 Y rhai a ymchwysiant o flaen yr awelon,  
 Yn ol ac yn mlaen megys gwallt hir a llaes.—D. M.

Un o'r manau manteisiaf i gael golwg eang ar y fro hon, yw pen Mynydd Garth Maelwg, rhwng Llantrisant a Llanharan. O'r fan hono gellir gweled y rhan fwyaf o'r fro ar unwaith, os bydd yr awyr yn glir. Ymddengys y gwastadedd fel bwrdd eang a llydan, wedi ei addurno â digon o amrywiaethau swynol a durus; ymestyna Cledrffordd Deheudir Cymru (*Great Western* yn bresenol) yn agos trwy ganol y Fro, gan ffurfio llinell dywell a gwyrog o'r dwyrain i'r gorllewin. Ar bob tu i'r Gledrffordd, yn ddeheuol a gogleddol, y mae'r gwastadedd wedi ei addurno â phalasau gwychion hwnt ac yma, y rhai a amgylchir â gerddi ffrwythlaw a phlanigfeydd prydferth. Gwelir hefyd luaws o Eglwysi hynafol a'u clych-dyrau dyrchafedig, fel yn argymhell eu hunain i sylw yr edrychydd; yn nghyda nifer o bentrefi bychain, wedi eu prydferthu â Gwyngalch Cymru; a lluaws mawr o amaethdai yn mhob cyfeiriad, a'r maesydd o'u cwmpas yn arddangos olion llafur a diwydrwydd. Yn y Fro hefyd, gwelir lluaws amrywiol o hen Gestyll Normanaid, y rhai fuont gynt yn amddiffynfeydd cedyrn, ond yn awr yn adfeilion gan mwyaf. Dyfrheir y Fro gan luaws o afonydd a nentydd, ffurf wyrog igam-ogam y rhai sydd fel yn llefaru eu bod yn anffoddlon myned i'r môr i orphwys cyn disychedu pob rhan o'i thir. Ond er mor swynol yw yr olygfa, mae yn dwyn adgofion galarus i feddwl y Cymro gwladgarol, y rhai a bortreadir yn y llinellau canlynol:—

O! Fro deg, hyfyddol, dy harddwch ddwg adgof  
 I'r meddwl o'r amser y syrthiaist trwy frad;  
 Ac nis gall dy feibion byth ollwng yn annghof  
 Y cyfnod du, blin, pan gollasant eu gwlad;  
 Pan syrthiodd dy goron i ddwyllaw Normaniaid,  
 Dy faesydd rudd-liwiwyd,—a fwydwyd â gwaed;  
 A gwelwyd dy ddewraf a'ih hoffaf anwyliaid  
 Yn gorwedd yn feirwon bentyrâu dan draed.

Dy gostus deg Gestyll, fu'n britho dy wyneb,  
 Y mae eu hadfeilion yn profi yn awr  
 Dy fod wedi gwelod ystormydd trychineb,  
 A gwaedlyd ryfeloedd yn beichio dy lawr;  
 Ond boed i ti bellach hir ffyniant gwir heddwch,  
 Na feiddied un gelyn roi ynot ei saeth;  
 A'th blant fyddo'n trigo dan goron dyddanwch,  
 Tra dyfroedd Môr Hafren yn golchi dy draeth.—D. M.

Dichon fod gormod o bennillion wedi eu rhoi eisoes genym, etto nis gallwn wrthsefyll y brofedigaeth o gyfleu yma y gân boblogaidd hono a elwir

THE GARDEN OF WALES.

"The sun was diffusing its rays in its splendour,  
 The clouds they were gliding through mild and soft gales,  
 On mountain's high summit by chance I did wander,  
 I mused on Glamorgan, the Garden of Wales:  
 My heart was delighted, my views were unbounded,  
 The hills and the forests with luxury surrounded,  
 The villager's song through the mountain resounded,  
 Proclaiming Glamorgan the Garden of Wales.

O'er all the gay objects my views were extended,  
 Till lost in amazement, beholding the vales,  
 Convinced of that adage from strangers descended,  
 "The spot called Glamorgan 's the Garden of Wales:"  
 The streams and the rivers so pleasantly flowing,  
 That glide through the valleys, their echoes bestowing,  
 The songsters of nature with energy glowing,  
 And warbling "Glamorgan, the Garden of Wales."

Let foreigners boast of their country and beauty,  
 Italians and Germans their flattering tales;  
 Can Frenchmen, with all their congees and courtesy,  
 Now equal Glamorgan, the Garden of Wales?  
 Our lasses with lustre all others excelling,  
 So modest and artless, so neat in their dwelling,  
 The muses of Cambria their praises are swelling,  
 Their beauty adorning the Garden of Wales.

Ye bards of the North, if ye now can deny it,  
 Pray sing of your mountains and desolate dales,  
 The youth that doth challenge will constantly term it,  
 "Glamorgan the beauty, and Garden of Wales:"  
 In Cowbridge fair village this youngster doth flourish,  
 The Garden's sweet centre this flower did nourish,  
 And on her fair bosom he'll sing till he perish,  
 "Glamorgan 's the beauty and Garden of Wales."

GARDD CYMRU.

"Tra'r haul yn gwasgaru pelydrau ardderohog,  
 Awalon yn llithro'r cymmylan mewn bri,  
 Ar fynydd go uchel myfyriwn yn serchog  
 Ar lendid Morganwg—Gardd Cymru yw hi:  
 Mi gefais ddigrifwch, do, eithaf hyfrydwch,  
 Y bryniau a'r llwyni yn orlawn o degwch,  
 A lleisiau'r pentrefwyr yn seinio difyrwch,—  
 "Morganwg lân olwg, Gardd Cymru yw hi."



'Roedd harddwch a thegwch Gwlad Morgan mewn goiwg,  
 Ei glynoedd yn llawnion o swynion i mi,—  
 Mai gwir yw'r ddiareb, a brofais yn amlwg,  
 " Morganwg lân olwg, Gardd Cymru yw hi :"  
 Afonydd a nentydd yn hyfryd gydsio  
 Wrth fyn'd trwy'r ardaloedd, gan felus ddatgeinio,  
 A cherdd-gôr y goedwig yn siriol gydseinio,  
 Trwy ddatgan—" Morganwg, Gardd Cymru yw hi.'

Hyf fostied estroniaid eu gwledydd a'u teithi,—  
 Eidaliaid ac Ellmyn, i'w broydd ro'nt fri ;  
 Eill Ffrangcod a'u coegni a'u moeseg gystadlu  
 Eu gwlad â Morganwg?—Gardd Cymru yw hi :  
 Ein merched mewn glendid ar ereill ragorant,  
 Mwy gwylaidd a didwyll, mwy tlws eu tai drefnant,  
 Beirdd Cymru a'u molant, a hwythau addurnant  
 Gain fynwes Morganwg,—Gardd Cymru yw hi.

Chwi feirdd y gogledd-barth, nis gellwch ei wadu,—  
 I'ch diffaith fynyddau gwnewch gerddi diri' ;  
 Y llanc sy'n eich herio wna gysson ddyrchafu  
 Morganwg a'i harddwch,—Gardd Cymru yw hi :  
 Yn mhentre'r Bontfaen ca y llange hwn ei fagu,  
 Yn nghanol yr Ardd mae'n blodeuo a thyfu,  
 Ac ar ei theg fynwes y cana nes trengu—  
 I geinion Morganwg,—Gardd Cymru yw hi.

BLAENAU MORGANWG.

Blaenau Morganwg yw holl fynydd-dir gogledd-barth y Sir, rhwng afon Rhymini ac afon Nedd ; ac y mae yr enw yn cyfateb natur y lle yn hollol, yr hyn a ddengys mai nid cenedl anwybodus, hanner bararaidd a ffurfiasant yr enw, ond cenedl o athronwyr naturiol, y rhai a fathent enwau i ateb natur y gwrthddrychau. Yn y mynydd-dir a nodwyd, y mae *Blaenau* agos yr oll o nentydd ac afonydd y Sir ; a chan mai yma y tarddant, rhoddwyd yr enw Blaenau Morganwg i'r ardal. Ceir yr enwau canlynol yn awr ar amaethdai, &c., y rhai sydd yn agos i darddleoedd nentydd ac afonydd, ac wedi cael eu henwi oddiwrthynt, ac yn unol â'u sefyllfaoedd :—Blaen Bargoed neu Bargoed, Blaen Canaid, Blaen Gwrach, Blaen Aman, Blaen Clydach, Blaen Rhondda, Blaen Ewenni, Blaen Ogwy, Blaen Garw, Blaen Llyfnwy, Blaen Corrwg, &c. Mae yn amlwg oddiwrth yr enwau hyn fod ystyr i'r enw eangach Blaenau Morganwg, a'i fod yn cydweddu â natur yr ardal yn berffaith.

GWYR.

Gwyr briodol, neu Dir Gŵyr, yw'r mynydd-barth rhwng afonydd Nedd a Llychwr, yn cynnwys plwyfi Llangattwg Nedd, Cilybebyll, Llansamlet, Eglwys Fair Abertawy, Llangyfelach, Cas'lychwr, Llan-deilo Talybont, a Llangiwc. Cafodd y parth hwn o'r Sir yr enw Gwyr gan ein hynafiaid, o herwydd ei ffurf *cyrog* ; ac y mae y rhan fwyaf o hono yn fynyddig fel Blaenau Morganwg.

Mae amryw o'n hawduron diweddar yn tueddu i wneyd cam a'r Brutiau Cymreig, o ddiffyg sylwi ar y gwahaniaeth a nodir yno rhwng *Gwyr* a *Bro Gwyr*; ac ymddengys nad oedd yr enwog Iolo Morganwg yn ystyried hyn pan y dywedai mai nid yn Ngwyr y mae Llan Giwc, &c.

Rhed afon Tawy trwy dir Gwyr, gan ei wahanu yn ddwy ran, sef dwyreiniol a gorllewinol.

## BEO GWYR.

Bro Gwyr, neu Browyr, a elwir Gower yn bresenol, yw y parth hwnw sydd yn gorwedd rhwng afon Burry a Morgilfach Abertawy, ac yn ffurfio math o ornyns dros 50 milldir o amgylchedd, sef o Abertawy gyda'r traeth i'r *Mumbles*, oddiyno heibio *Caswell Bay*, *Oxwich Bay*, *Port Eynion Bay*, &c., hyd at Bentir Gwyr (*Worm's Head*); yna heibio *Rossilly Bay* hyd at Llanmadog; ac oddiyno gyda'r traeth gogleddol hyd Gastell Lluchwr. Mae Browyr i raddau helaeth yn amddifad o brif-fyrdd a chledrffyrdd; ac nid oes ond un gwaith o bwys neillduol yn y lle, sef Penclawdd. Er hyny, y mae'r Fro Wyrog hon yn meddu digonedd o wrthddrychau amrywiol, a digon o swynion i'r ymwelydd, fel ag i'w dalu yn dda am ei drafferth o'i theithio. Mae golygfeydd glanau y mor—yn neillduol y cilfachau creigiog—yn ofnadwy o wyllt yn y parth hwn o'r Sir; ac yn y creigiau hyny, y mae ogofeydd o hynodrwydd neillduol, hanes y rhai, gyda disgrifiad o honynt, a welir dan y penawd "Hynodion Morganwg."

Mae yma luaws o adfeilion hen Gestyll Normanaidd hefyd o ddyddordeb mawr i'r hynafiaethydd. Y gwir yw, mae amrywiaeth gwrthddrychau hynod, yn naturiol a chelfyddydol, dull ac arferion y trigolion, &c., yn hawlio i Fro Gwyr yr enw o "Amgueddfa Hynodion Naturiol ac olion Hynafiaethol."

## AFONYDD MORGANWG.

"That RHYMNEY when she saw these gallant nymphs of Gwent,  
On this appointed match were all so hotly bent,  
Where she of ancient had parted as a mound  
The Monmouthian fields and Glamorgan ground,  
Intreats the TAFF along, as gray as any glass,  
With whom clear *Cynon* comes, a lusty Cambrian lass;  
Then ELY, and EWENNY, with her hold her way,  
And OGMORE, that would yet be there as soon as they,  
By AVAN called in; when nimbler NEATH anon  
(To all the neighbouring nymphs for her rare beauties known;  
Besides her double head, to help her stream that hath  
Her handmaids *Mellte* sweet, clear *Hepste*, and *Tregath*),  
From Brecknock forth did break; then *Dukas*, and *Cledaugh*,  
By Morgany do drive her through her watery sough;  
With TAWY taking part t' assist the Cambrian power,  
Then LHV, and LOGOR, given to strengthen them by Gower."

DRAYTON.

Dyna ddesgrifiad y bardd Scisnig o Afonydd Morganwg, gan ddechreu ar y tu dwyreiniol; ac felly y gwnaf finau. Gan fod Blaenau Morganwg yn gyfansoddedig o fynyddau a chymoedd, mae yn naturiol fod

yma llawer o nentydd ac afonydd o wahanol faintioli; ond byddai manylu ar bob un o honynt yn chwyddo gormod ar y llyfr; o ganlyniad, ni wneir ond sylwi ar y prif rai, gydag enwi y lleill fel cangenau perthynol iddynt.

I. AFON ELYRCH (*Swan's River*) NEU Y RHYMNI.—Tardd hon yn sir Frycheiniog, tua thair milldir i'r gogledd o Bont Rhymni (Pont Llechryd), a thua 5 milldir i'r gogledd o Waith Haiarn Rhymni, mewn ardal a elwir Blaen Rhymni, yn agos i'r Pyllau Duon. Yn ngwely yr afon, ychydig i'r de o'i tharddle, y mae'r man hynod hwnw a elwir Rhyd y Milwyr, lle y mae llunaws o fân dyllau yn y graig yn debyg i olion traed defaid, gwartheg, mulod, ceffylau, &c. Mae llawer o wahanol farnau am yr olion hyn, a llawer o ddadleu yn eu cylch. Barn rhai yw, mai olion traed ydynt, a wnaed pan oedd y lle yn llaith, a'i fod wedi ffurfio yn graig ar ol hyny; tra ereill a farnant mai yr afon sydd wedi treulio y graig i'w ffurf bresenol. Ofer fyddai ceisio penderfynu'r pwnc, ac felly gadawaf ef yn agored, gyda dweyd nad oes un rhan o bedair o'r olion yn weledig yn awr ag oedd 80 mlynedd yn ol, gan fod gwely yr afon yn llawer culach yn awr na'r pryd hwnw, a brwyn yn tyfu dros y rhan fwyaf o'r olion, yr hyn a brawf fod yma weithiad daiaregol cryf yn myned yn mlaen yn bresenol. Tua milldir islaw Rhyd y Milwyr, troir llawer o ddwfr yr afon o'i wely naturiol i ffosydd a wnaed bob ochr iddi, i gario y dwfr i gronfeydd mawrion at wasanaeth Gweithfeydd Rhymni ac i ddisychedu y trigolion. Mae man yn ngwely yr afon, tua chwarter milldir islaw Inn Rhymni, lle y gall dyn osod un droed yn sir Frycheiniog, y lall yn Morganwg, a'i law yn Mynwy. Rhed Nant Melin i'r Rhymni yn y fan hon o'r tu dwyrain, a ffurfia'r ffin rhwng Brycheiniog a Mynwy. O'r nant hon i'r mor, y mae afon Rhymni yn ffin rhwng Morganwg a Mynwy. Y prif nentydd a ymarllwysant iddi o ochr Morganwg ydynt y rhai canlynol:—1. Bargoed Fach, sef Bargoed Rhymni. Tardd hon ger y Fochriw, yn mhlwyf Gelligaer; ac ar ol rhedeg amryw filldiroedd trwy gwm cul a dwfn, abera yn y Rhymni mewn lle a elwir Pont Aberbargoed. 2. Nant Pengam, yr hon a dardd yn yr un plwyf, ac a abera ger Pont Aberpengam. 3. Nant y Cylla, yr hon a dardd yn Fforest Gwladus, yn yr un plwyf a'r ddwy flaenorol, ac abera yn y Rhymni ger Ystrad Mynach. 4. Y Tridwr a dardd mewn tair ffononell yn mhlwyf Eglwys Elian, y rhai a unant a'u gilydd yn Abertridwr; ac ar ol rhedeg heibio Hendredeny, Gwneu'r Glyn, a Virginia House, abera y nant yn y Rhymni ger Ty Bedwas. 5. Nant y Gledyr. Tardd hon hefyd yn mhlwyf Eglwys Elian; ac ar ol rhedeg rhai milldiroedd, pasia Gastell a thref Caerffili, ac yna fel ei chworydd, cyll ei henw yn y Rhymni. 6. Nant Dulas, yr hon sy'n dyfrhau rhanau o blwyfi Llysfaen a Llanedeyrn. 7. Nant y Dderwen Deg, yr hon sydd afonig fechan, ac amryw fân nentydd yn rhedeg iddi, megys Nant y Wedal, y Nant Fawr, &c., y rhai ar ol uno a'u gilydd, a redant i'r de heibio Roath, gan ymarllwys i'r Rhymni yn agos i'r fan yr abera hithau yn Hafren. Rhed afon Rhymni o'r gogledd i'r de nes dyfod o fewn ychydig i Gaerffili, ac yna rhydd dro tua'r dwyrain am rai milldiroedd,

a thry yn ol i'r dè-orllewin cyn ymarllwys i Hafren tua dwy filldir i'r dwyrain o Gaerdydd.

II. AFON TAF.—Hon yw'r gadwyn ddyfrol sydd yn uno Merthyr Tydfil a Chaerdydd a'u gilydd. Tardd mewn dwy ffynnonell yn Mrycheiniog, ffrydiau y rhai cyn eu huniad a'u gilydd, a elwir y Taf Fechan a'r Taf Fawr. Tardd y Taf Fechan ger Bwlch y Fan. Yn 1858, gwnaed Dwfr Gronfa (*Reservoir*) eang ychydig islaw ei tharddle, mewn man a elwir Dol-y-gaer, trwy adeiladu mur cryf yn groes i'r cwm. Dyben y gronfa fawreddog hon yw diwallu Haiarnfaoedd Merthyr a dwfr yn nhymhor sych yr haf, gan fod Bwrdd Iechyd y dref yn defnyddio llawer o ddyfroedd y ffynnonellau sy'n ffurfio yr afon at ddiwallu trigolion y dref a dwfr iachus. Mae llawer yn credu fod y dref yn cael ei diwallu o'r Gronfa Fawr, ond y mae hyn yn hollol gamsyniol. Cludir y dyfroedd i'r dref o'r tarddleoedd mewn pibellau haiarn am tua 7 milldir o ffordd; a chyn cyrhaedd y dref, purir ef yn y Burfa.

A Merthyr Tydfil ymwrthyd,—bellach,

A rhyw byllau bawlyd;

Y Ddwfr-Weithfa dda a ddyd

I'w phobloedd ddyfroedd hyfryd.—D. M.

Yn misoedd yr haf, ymdyra lluaws o drigolion Merthyr a Dowlais i ymbleseru ar y Ddwfr Gronfa mewn badau, y rhai a gedwir yno i'r dyben hwnw. Rhed yr afon oddiwrth y Gronfa am ychydig ar balmart o'r hen Dywodfaen Coch, ac yna dros wely o Galch-graig Fynyddig; pasia Bont-y-Sticyll, Eglwys y Faenor, a Chastell Morlais yn lled ddiseremoni, gan lithro dan bont fwaog Cledrffordd Merthyr ac Aberhonddu a'r Bont Sarn, y rhai ydynt bynt newyddion. Mae hen Bont Sarn, yr hon oedd o goed, wedi rhoi ffordd i bont geryu ardderchog. Ger y bont hon mae'r afon yn gul iawn, ac wedi cafnu ei gwely mor ddwfn yn y graig galch, fel y mae yn ddigon i ddychrynu calon cawr i edrych arni dros y bont, i lawr yn yr agen ddofn, dywell, a'i chlywed yn ymlithro rhwng y clogwyni; ac yna yn ddisymwth yn rhoddi naid ar ei phen dros graig serth i'r Pwll Glas, yr hwn sydd 21 troedfedd o ddyfnder. Ar ol ymddadebru ychydig ar ol y owymp, hi rêd ar du gogleddol Parc Gyfarthfa, gan yfed Nant Glais ar y ffordd, a chyferfydd a'i chwaer—y Taf Fawr, ger Gwaith Haiarn Gyfarthfa. Ca y Taf Fawr ei bodolaeth mewn mawndir mynyddig ger Tafarn y Mynydd (Brycheiniog), a rhed yn sionge a bywiog heibio Cryw, Capel Nant Ddu, y Darren Fawr, a Chladdfa eang Merthyr, a elwir Claddfa'r Cefn; ac ychydig yn is, ger hen Bont y Capel, derbynia y Ffrwd i'w mynwes o'r tu gorllewinol. Mae Cwm Ffrwd yn ddwfn, cul, coediog, a chreigiog iawn, a'r olwg arno mor wyllt a rhamantus ag unrhyw fan yn y Sir. Mae ochrau'r cwm mor serth, a'r graig dros yr hon y disgyna'r Ffrwd mor syth, fel nas gellir myned allan o'r cwm ond trwy yr un ffordd ag yr eir iddo ger Pont y Capel.

Du, uthr lwngo, dyeithrawl \*g!—ac am ffroen

Cwm Ffrwd mae hyll gilwg;

Hir geulan arw ei golwg,

Noeth, hagr drem,—nyth y Gwr Drwg.—*Abram Fardd.*

Yn ymyl y fan hon y mae pont ardderchog yn croesi y Taf Fawr, dros yr hon y rhed peiriannau Cleddrffordd Merthyr ac Aberhonddu. Gelwir hi Pont y Cefn. Y mae iddi 16 bwa, 40 troedfedd o ryohwant (*span*) yr un, a'i uchder o'r afon yn 120 troedfedd. Costiodd ei gwneyd £25,000.

Pont gylchog gaerog yw gwel—uwch ffren-dwrdd  
Iach ffrydiau Taf isel,—  
Pont copa pant y capel.—*A. Fardd.*

Pont orwech uwch pant arwain,—ffordd na sigl  
Ffwrdd yn syth y llemain  
Dros ei gwar, y gerbydres gain  
I'w thaith ymaith, heb chwith ddamwain.—*Morgan Morganwg.*

Wedi uniad y ddwy gangen a'u gilydd, gelwir y corff dwfr yn Afon Taf, gan adael allan yr ansoddeiriau *Fechan* a *Fawr*. Dyma ddarlun naturiol, cywir, a barddonol o'r afon hon :—

Wale afon orlifawg—afon Taf,  
Hufen tir Brycheiniawg ;  
A chwyrn gyfeiria o'i chwag  
Hyd Hafren ei chorff dyfrawg.

Ei gwely'n y graig galed—a rygnodd  
Drwy egni ei myned ;  
I'r oror ar i waered  
Mae ei threigl, ac ymaith rhed.

Edrych pan fo'r storm hydrwyllt—ar wgu  
Gynddeiriogiad gorwyllt ;  
Argoda'i llif ergydwylt,  
A lliw gwaed, yn genlli' gwyllt.—*Dafydd Bowen.*

Gyda bod y ddwy chwaer yn coffeidio eu gilydd, mae llaw celfyddyd yn arwain peth o'r dyfroedd i wasanaethu Gwaith y Gyfarthfa, trwy gynnorthwy'r tân i gynnyrohu ager, er ysgogi cymmalaen gwahanol beiriannau yr haiarnfa eang hon. Try celfyddyd lawer o gorff yr afon hefyd o'i gwely naturiol i wely celfyddydol y Camlas, sef y culfor sydd rhwng Merthyr a Chaerdydd. Tua chanol tref Merthyr, derbynia'r Taf y Morlais i'w mynwes ar ei thu dwyreiniol ; ac yn fuan ar ol hyn, troir llawer o'i nerth i'r Ddwfrffos sydd yn arwain i Haiarnfa Plymouth, &c., a derbynia yr unrhyw drachefn ger Troedyrhiw. Tua milldir islaw Merthyr, derbynia'r Taf Nant-y-Bwch dan ei chesail ddwyreiniol ger Gwaith Plymouth ; a thua milldir yn is drachefn, derbynia Nant Canaid yn ei llaw orllewinol. Tardd hon yn Mlaen Canaid—cychwynle Ymneillduath Cymru. Ger Troedyrhiw, mae ager-beiriant nerthol yn codi 20 tunell o ddwfr yr afon bob mynyd i'r Camlas.

Mae agerdd beiriant myg hardd bery—'n glod  
I feib glew y Cymry,  
Wrth Bont Rhun, trwy nerth ban try  
Hen Daf fwyn, rhed i fyny.

Unwaith egyr ei thagell—o'r llyn dwr  
Ei llon'd dyn i'w phibell ;  
Symmud bob mynudd mae'n mbell  
O gant hon ugain tunell.

I mewn y tyn gymmaint a all—o'r tew  
 Ddwfr Taf yn ddiaball;  
 Yf un llif, denfyn y llall  
 I'w boeri'r wyneb arall.—*Ifor Cwm Gwys.*

Ar ol ymadael ág ardal Troedyrhiw, rhed afon Taf tua'r dê yn ei chwam isel, rhwng dau fynydd bannog; ac â yn wylaidd dan Bont y Gwaith a'r bont fwaog newydd perthynol i gwmini Cleddrffordd y *Great Western*, ac yna dan bont uchel fwaog Cleddrffordd Cwm Taf, lle try tua'r dwyrain i gyfarfod afonig y Bargoed Fawr ger Mynwent y Crynwyr. Tardd Bargoed Fawr tua milldir i'r dê o Dwyn-y-Waun, a rhed tua'r dê trwy gwm cul, gan wahanu plwyfi Merthyr a Gelligaer, ac ymgyll yn y Taf fel y nodwyd, ger Mynwent y Crynwyr. Ychydig yn is drachefn, ychwanegir maint a nerth y Taf trwy ymarllwysiad afon Cynon iddi. Tardd afon Cynon yn Llygad Cynon, yn mhlwyf Penderyn, Brycheiniog; a rhed tua'r dê heibio pentref Hirwaun; llwngc afonig Dar yn Aberdar, a'r Aman yn Aberaman, yn nghyda lluaws o fan ffrydiau ereill ar ei ffordd i gyfarfod a'r Taf, yr hon a'i llwngc hithau. Tua dwy filldir yn is drachefn, rhed Nant Cludach i'r Taf ar ei thu gorllewinol, a Nant Cydudwg ar y tu dwyreiniol. Tardd y flaenaf yn mhlwyf Llanwynno, a'r olaf yn Llanfabon. Ar ol derbyn y rhai hyn, rhed y Taf yn araf nes cyrhaedd y lle cyn garw hwnw a elwir Berw Taf, wrth droed Crair-yr-Hesg. Wrth ymdrechu myned dros y clogwyni geirwon yno, mae'r afon yn glafoeri a malu ewyn fel pe wedi ymgynndeiriogi:—

Dwfr-llwngc, disgynfa dwfr-lif—yw Berw Taf,  
 Obry tyr yn wynllif;  
 A phair adlais y ffrydlif  
 I'r ddwy lan roddi ail lif.—*Cawr Cynon.*

Ar ol gadael y crochan garw hwn, â yr afon yn ostyngedig dan Hen Bont-y-Pridd a'r Bont Newydd sydd yn ei hymyl, ac yna derbynia afon Rhondda i'w chol.

Rhondda a Thaf mewn ymrafael—eriodd  
 Redant i gad-afael;  
 Ond Taf wrth fyth ymrafael  
 Yf nerth eu gwrth-afon hael.—*Morgan Morganwg.*

Mae afon Rhondda yn tarddu mewn dwy ffynnonell, a gelwir y ddwy gangen cyn eu huniad, y Rhondda Fach a'r Rhondda Fawr. Tardd y flaenaf rhwng Craig-y-Bwlch a Chraig-y-Llyn, yn ngogleddbarth y Sir; a rhed dan Bont 'Lluest Wen, ac yna trwy ei chwam cul heibio Castell y Nos, pentref Blaenllechau, dan Bont y Gwaith, &c., ac ymarllwysa i'r Rhondda Fawr mewn lle a elwir y Cymmer. Afon Rhondda Fach yw'r ffin rhwng plwyf Aberdar ac Ystrad-dyfodwg am amryw filldroedd, ac hefyd rhwng plwyf Llanwynno a'r Ystrad. Ffurfir afon Rhondda Fawr trwy gygyfarfyddiad amryw ffrydiau mynyddig mewn man a elwir Blaen Rhondda, lle y disgyna amryw nentydd dros greigiau serth, gan ffurfio rhaiadrau trystfawr a phrydfertth. Tardd un o'r nentydd hyn, a elwir Nant Rhyd y Cyllyll, mewn

siglen gorslyd yn agos i ben mynydd Carn Moesen, lle y mae colofn gref o ddwfr yn ymwithio allan o'r mynydd, digon i droi rhodau amryw felinau; a byddai yn berygl i ddyn fyned yn rhy agos at y ffynnonell, rhag iddo suddo o'r golwg i'r siglen. Rhed ychydig ddwfr i'r nant hon o ffynnon fechan sydd ar ben Craig-y-Llyn, yr hon sydd mor gywir ar ben y graig, fel y rhed peth o'r dwfr o honi tua'r gogledd a thros y dibyn i'r Llyn Mawr, a'r gweddill tua'r dde i Nant Rhyd y Cyllyll, yr hon yw'r fwyaf ddwyreiniol o benau Rhondda Fawr. Mae'r un fwyaf gorllewinol a'i rhediad o'r gorllewin i'r dwyrain ar du gogleddol mynydd Pen Pych, yr hon a red am tua hanner milldir fel dros risiau mawrion, ac yna hi naid dros graig serth tua 40 troedfedd i gyfarfod a'i chwiorydd. Mae un o'r golygfeydd rhyfeddaf yn y Sir ger y man y cydgyferfydd y gwahanol nentydd hyn yn Mlaen Rhondda. Mae'r creigiau yno wedi eu tafu bendramwnwgl ar draws eu gilydd, fel pe baent wedi eu tafu i fyny i'r awyr gan nerth daeargryn cryf, ac yna syrthio yn bentwr annhrefnus i bob ystum a ffurf. Ar ol uno o'r man nentydd a nodwyd, gan ffurfio y Rhondda, hi red am tua milldir gan lyfu troed mynydd Pen Pych, ac yna derbynia fwy o nerth trwy dderbyn Nant Cwm Selsig i'w mynwes o'r gorllewin. Mae dau raiadr pert iawn yn Nghwm Selsig, sef Berw Nant-y-gwaw a Berw Gwion, yr hert a elwir hefyd Berw Nant-yr-ychain. Yn Nhrefherbert, croesir afon Rhondda gan bont haiarn a adeiladwyd yn 1865.

Pont haiarn gadarn gydia—a'u gilydd  
Ddwy geulan y Rhondda;  
Ac ar agen ddofn croga  
Uwch y dwr yn wych a da.—D. M.

Tua milldir a hanner yn is, derbynia y Rhondda Nant Gorchwy yn Abergorchwy (Abergorki y Saeson), ac yna rhed heibio pentref ac Eglwys Ystrad-dyfodwg, Llwynypia, a'r Ddinas (Dinas y Glo), gan uno a'i chwaer yn y Cymmer. Ystyr y gair "Cymmer" yw uniad dwy afon o'r un enw. Cyn uno o'r ddwy afon, a y fwyaf dan Bont y Cymmer, yr hon sydd yn hollol o'r un arddull a'r pynt adeiladodd yr enwog W. Edwards, adeiladydd Pont-y-pridd, yr hyn sydd yn ein tuoddu i gredu mai efe, neu Dafydd ei fab, adeiladodd hon.

Arch-adeilad goruwch dylif—y fyg  
Rondda Fawr, a'i ffrydlif  
Ydyw hon, a llon a'r llif  
O tani'n hynod heinit.—D. M.

Yn 1870, adeiladwyd pont brydferth dau fwa dros y Rhondda, ychydig islaw uniad y ddwy. O'r bont hono hyd at Bont-y-pridd, rhed yr afon rhwng dau fynydd uchel a elwir Mynydd y Glyn a Tharen y Pistyll—a chyn i gelfyddyd ei niweidio—yr oedd yn ffurfio rhaiadr a elwid Berw Rhondda:—

Rhediad gwyllt Rhondda rudadwy,—a'i chwymp  
Chwyrn i'w Berw'n rhyferthwy;  
Rua fal draig,—rhyfel drwy  
Gendod y graig rwygadwy.—*Morgan Morganwg.*

Ar ol gadael ardal Pont-y-pridd, rhed afon Taf heibio Eglwys Glyn Taf, Treforest, &c., ac ar ol derbyn Nant Garw, pasia waith a phentref Pentyreh, y Castell Coch, a Llandaf, ac yna ymarllwysa i Hafren yn Nghaerdydd.

III. AFON ELAI.—Tardd hon tua chanolbarth y sir mewn amryw fan ffynnonellau, yn ardal Penrhiwfer, ar du gogleddol pentref Ton-yrefail, heibio yr hwn y rhed. Ar ol pasio Tonyrefail, rhed i gyfeiriad dê-ddwyreiniol, gan olchi godre Mynydd Garth Maelwg. Pan ar gyfer Llantrisant, tua milldir i'r gorllewin i'r dref, cymmer Elai Nant Muchudd i'w mynwes wleb. Derbyniodd Muchudd ei henw oddiwrth liw du y ddaiar y rhed trwyddi, oblegyd ystyr "muchudd" yw du—*jet*. Y nant nesaf a ymarllwys i'r Elai yw y Clun, neu'r Clown, fel ei gelwir yn gyffredin; yr hon a dardd yn Llanilltyd Faerdref, ar du dwyreiniol y brif heol sydd yn arwain o Lantrisant i Bontypridd. Derbynia y Clun Nant Dowlas (Dulas) ger fferm Rhiw'r Saeson, a Nant y Cesail tua hanner milldir yn is, ac yna rhydd dro tua'r dê-orllewin, gan aberu yn Elai ger Pont Clun, yn agos i orsaf Llantrisant ar Gledrffordd y *Great Western*. Wedi derbyn y Clun, rhed Elai am tua milldir i'r dê; ac yna try i'r dê-ddwyrain, gan basio Palas Meisgyn (Miskin), yr hwn sydd ar ei thu dwyreiniol, tra y saif Castell Hensol y tu arall. Ar ol cyrhaedd Llanbedr y Fro, try yr afon yn fwy dwyreiniol drachefn, gan basio Pentref St. George's, St. Ffagan, a Thre Lai; ac yna try ei phen tua'r dê, gan wthio ei hun dan Bont Lecwydd (*Leckwith*), ac ymarllwysa i Fôr Hafren ger Penarth, lle y dygir yn mlaen lawer o fasnach arni. Mae hon, fel afonydd ereill y Sir, yn heigio o bysgod; ac yn misoedd yr haf, ymblesera llawer o foneddwy'r ar ei glanau yn y gorchwyl o bysgotta. Gan ei bod yn rhedeg trwy lawer o faesydd breision y Fro, ceir rhai o'r golygfeydd hyfydaf ar ei glanau.

IV. AFON DAWEN.—Tardd hon tua 2 filldir i'r gogledd o Lansannor; ac ar ol taith o 4 milldir, cyrhaedda dref y Bontfaen. Oddiyno rhed trwy ei dyffryn swynol a ffrwythlawn, gan fyned trwy ganol pentref Llanfleiddian Fawr, ac heibio Llandochwy'r Bontfaen, Hen Gastell Beauprè, Castell Fonmon, &c., ac ymarllwysa i Hafren yn Aberddawen. Swynodd glanau yr afon fechan hon galonau amryw o'r Marchogion Normanaidd yn 1091, fel y dewisasant yr ardal brydferth yma yn fan i adeiladu eu Cestyll, adfeilion y rhai a welir yma yn awr.

V. AFON EWENNI.—Enw priodol hon yw Ewynwy (*Frothy River*), ac y mae yr enw yn ddesgrifiad cywir o honi. Tardd yn Mlaen Ewenni, ar du gorllewinol Mynydd Garth Maelwg. Oddiyno rhed tua'r dê, heibio Llanharan; ac yna i'r dê-orllewin am tua 2 filldir a hanner, lle y derbynia afonig fechan, yr hon a ffurfir trwy uniad dwy nant o'r enwau Crymlun a Ciwc. Tardd y flaenaf ar Fynydd y Gaer, yn Mlaen Crymlun, a rhed i gyfeiriad dê-ddwyrain ar y tu gogleddol i fynydd Cefn Hirgoed; ac una a'r Giwc ar du gogleddol Cledrffordd y *Great Western*, tua hanner milldir i'r dwyrain o orsaf Pencoed. Tardd y Giwc ychydig i'r dê i Lanbedr ar fynydd, lle mae tri amaethdy o'r enwau



Cwm Ciwc Uchaf, Cwm Ciwc Canol, a Chwm Ciwc Isaf. Wedi uniad y ddwy nant, rhed yr afonig am tua milldir a hanner i'r dê, lle yr ymarllwysa i'r Ewenni, mewn lle a elwir Pont y Coc, neu Bont Ciwc, yr hon sydd tua chwarter milldir i'r gogledd o Eglwys Fair y Mynydd. Rhed Ewenni oddiyno i'r dê-orllewin am ddwy filldir a hanner, nes cyrhaedd pentref ac hen Abbatty Ewenni. Rhed drachefn am tua milldir yn yr un cyfeiriad cyn derbyn Nant Alam, neu y Groes Gwtta. Tardd hon yn ardal Llanfrynach, a rhed i gyfeiriad gorllewinol, heibio Llysyfronnydd ac hen Gastell ar Alam, a derbynia amryw fan nentydd ar ei thuaith cyn aberu yn Ewenni, ychydig i'r dê-orllewin o Bont Ewenni. Tua thri chwarter milldir yn nes i'r môr, ymarllwysa Ewenni i'r Eogwy, ar ol dyfrhau rhanau helaeth o'r Fro. Mae'r afon hon yn hynod enwog am ei physgod, yn enwedig y Brithyll a'r Eog.

VI. AFON OGWY, NEU YR EOG-WY, (*Salmon River*), NEU OGMORE.—

Hen Eogwy gain ei hagdodd.—a dreigl  
Drwy ddau gwm mewn gwylltedd:  
Yna, arafa'n rhyfedd,—  
A gan bwyll i eigion bedd.—D. M.

Tardd hon, fel yr awgryma'r englyn, mewn dwy ffynnonell, a rhed y frydiau am amryw filldiroedd yn wahanedig, y rhai a elwir yr Ogwy Fach a'r Ogwy Fawr. Tardd yr Ogwy Fach rhwng y Garn Fach a'r Garn Fawr, tua 1,700 troedfedd uwchlaw gwyneb y môr, a rhed oddiyno tua'r dê, heibio'r Gilfach Goch, ac yna rhydd dro i'r dê-orllewin, gan basio Llan Dyfodwg, neu Eglwys Glyn Ogwy; ac abera yn yr Ogwy Fawr ger y Felin Ddu ar ol derbyn Nant Cerdin yn Abercerdin, a Nant Iechyd yn Aberiechyd, &c. Tardd yr Ogwy Fawr yn Mlaen Ogwy, allan o Fynydd Craig Ogwy, yr hwn sydd 1,870 troedfedd o uchder. Rhed oddiyno am rai milldiroedd trwy gwm cul, garw, a gwyllt, gan dderbyn Nant Cwmmfuch ar y ffordd; a phasia ar du dwyreiniol i Langeinor, nes cyfarfod yr Ogwy Fach ger Melin Ifan Ddu. Oddiyno rhed am tua dwy filldir i'r dê-orllewin hyd Abergarw, lle y derbynia afon Cwm Garw ar ei thu gogleddol. Mae afon Garw, neu Garw-wy, yn tarddu mewn dwy ffynnonell, frydiau y rhai a elwir yr Arw Fawr a'r Arw Fechan. Tardd y flaenaf yn Mlaen Garw, ger Bwlch Garw, o Fynydd Llangeinor, tua 1,760 troedfedd uwchlaw'r mor, a rhed yn chwyrn trwy gwm gwyllt a garw nes derbyn ei chwaer fechan i'w mynwes ychydig islaw Braich y Cymmer. Oddiyno rhed trwy gwm isel rhwng Mynydd Llangeinor a Mynydd Moelgiliau, gan basio Eglwys y Bettws, ac abera fel y nodwyd, yn afon Ogwy. Tua milldir i'r dê-orllewin o Abergarw Isaf, mae Aber Llyfnwy, lle yr ymarllwysa afon Llyfnwy i'r Ogwy. Mae Llyfn-wy wedi cael yr enw hwn mewn cyferbyniad i'r enw Garw-wy, am fod y naill o'r afonydd yn llyfn, a'r llall yn arw. Tardd y Llyfnwy yn Mlaen Llyfnwy, tua thair milldir i'r gogledd o'r Maesteg; a chyn anmhuro ei dwfr gan weithfeydd y lle hwnw, cyfetyb i'r desgriafad canlynol:—

Y Llyfnwy deg, ar lawr ei dyffryn isel,  
Ymlithra'n dawl dros ei phalmant cwrel;

A'i gloyw frwd fel arian byw rhedegog,  
 A'i ffurf fel cain fodrwyau ymddolenog;  
 A'r gwigoedd tr sydd ar ei glanau'n tyfu,  
 Ymblygant gyda gwylder i'w ehusanu.

O'r Maesteg hi rêd i'r dê-ddwyrain, heibio Llangynwyd, Bryn Llywarch, Cefn Ydfa, a'r Tondu, wedi derbyn Nant Cydfyw ger Pont-y-rhyd-ddu, ac abera yn Ogwy yn ymyl Llansantffraid-ar-Ogwy. Ychydig islaw Aberllynwy y mae Abercenffig, lle yr ymarllwysa Nant Cenffig i afon Ogwy. Tardd y nant hon yn mhlwyf Margam, ac y mae ei rhediad yn ddwyreiniol. Wedi derbyn hon, rhed yr Ogwy am tua 2 filldir a hanner hyd dref Penybont-ar-Ogwy, a rhed drachefn oddiyno i'r mor mewn cyfeiriad dê-orllewinol. Mae'r Ogwy yn enwog iawn am ei physgod; ond cyfyngir y rhyddid i'w dal i bysgotwyr, y rhai a ardrethant yr afon gan berchenogion y tiroedd trwy y rhai y rhed. Amser dal y Brithyll a'r *Salmon Pink*, yw o fis Ebrill hyd Fehefin, *Seuin* o Fai hyd Gorphenaf, a'r Eog (*Salmon*) o Awst hyd Dachwedd.

VII. AFON AFAN.—Tardd hon yn Mlaen Afan, ger Crug Afan, mewn mynydd-dir gwyllt, ar du gogleddol Mynydd Llangeinor; a rhed lluaws o fân nentydd iddi yn agos i'w tharddle, megys Nant Gwynfu yn Abergwynfu; Esgeirnant drachefn, a Nant-y-fedw, yr hon a rêd iddi o'r tu deheu. Mae cyfeiriad rhediad yr Afan o'r dwyrain i'r gorllewin; ac mewn lle a elwir Cymmer, rhed afon Corrwg iddi ar ei thu gogleddol. Tardd afon Corrwg mewn dwy ffynnonell a elwir y Corrwg Fawr a'r Corrwg Fach. Cychwyna'r flaenaf ei thaith yn Mlaen Corrwg, yn agos i Garn Moesen; ac unant a'u gilydd ger Eglwys Glyn Corrwg. Yna, ar ol derbyn Nant-y-tewlaeth, rhydd afon Corrwg ei hun i ofal Afan i'w dwyn i'r mor. Ar ol rhedeg tua milldir o'r Cymmer, derbynia Afan Nant-y-gregen ar ei thu gogleddol, a Nant-y-trafael ar ei thu deheuol. Yna rhed yn yr un cyfeiriad, gan dderbyn adgyfnerthion ar ei thaith trwy bentref Pont-rhyd-y-fen, ac yna rhed trwy Gwm Afan, heibio Llanfihangel Ynys Afan a'r Gweithfeydd poblog sydd yn ymyl, ac yna gwna ei gwely yn y mor ychydig islaw tref hynafol Aberafan.

VIII. AFON NEDD.—Ystyr y gair "Nedd" yw trôllog; a chafodd yr afon hon yr enw o herwydd ei ffurf. Ffurir hi yn afon trwy gydgyfarfyddiad amryw nentydd, megys y Llia, y Dregarth, y Pyrdin, neu Purdden; y Felltwy, a'r Hepste; y rhai a darddant yn Mrycheiniog mewn ardal wyllt a rhamantus dros ben. Nid yw y ddwy nant flaenaf a enwyd ond bychain a dibwys; o ganlyniad, y flaenaf i gael ein sylw yw y Pyrdin. Rhed hon yn chwyrn yn ei chwam cul a choediog; ac mewn un man, neidia dros graig serth 85 troedfedd o ddyfnder, gan ffurfio rhaiadr mawreddog a thyrstfawr, a elwir—

SCWD EINIION GAM.

Llam Scwd Einion Gam i gyd—dros y graig,

Dyry sgrech daranllyd:

Dan y graig, mewn llydan gryd,

Daw i fuan adfywyd.—D. M.

Disgyna'r dwfr yn y gwaelod ar ddarn o graig sydd wedi ei threulio gan yr "elfen denen ysplenydd" i ffurf padell, yn 56 troedfedd o amgylchedd. Arferai Syr Herbert Mackworth, o Gastell y Ganol, dalu ymweliad aml â'r fan yma i fwynhau yr olygfa; a chan mai efe oedd perchenn y lle, parodd wneyd llwybr trwy'r coed at y rhaiadr. Ar ei ymweliad olaf â'r fan, aeth pigyn draenen i'w law wrth droi cangen o'r ffordd; canlynwyd y pigiad gan dwymyn, a bu'r boneddwr farw o'r effeithiau. Islaw Scwd Einion Gam, ymarllwysa'r Pyrddin i'r Nedd Fechan, ac ychydig islaw hyny, disgyna'r afonig hono fel llen o sidan dros graig 45 troedfedd o uchder, gan ffurfio

SCWD GWLADUS.

Wela hudawl Scwd Gwladus—yn rhoi sponge  
Dros ben craig ramantus;  
I wneyd prango, rhydd naid heb rus,  
Yn hyl, yn bert, a nwyfus.—D. M.

Yr oedd Maen Chwyf tua 15 tunnell o bwysau yn ymyl y rhaiadr hwn, a galleisid siglo'r gareg ag un bys; ond yn 1851, darfu i'r Gwyddelod a weithient i wneyd Cledrffordd Cwm Nedd fyned ar fore Sul, a throsolion haiarn ganddynt, a symmud y gareg o'i lle, gan feddwl cael trysor dani, ac felly dinystrwyd ei gogoniant. Mae ar y Felltwy dri rhaiadr, y rhai a elwir Glyn-gwyn Uchaf, Canol, ac Isaf. Pan yw'r afonig hon yn ymdreiglo dros ei phalmant garw, ymddengys ei dyfroedd fel llaeth berwedig; ac mewn un man, disgyna dros graig 70 troedfedd o uchder, gan raiadru yn drystfawr.

Afon Melltwy, ddotn, ymwylltawg,—a draidd  
Rhwyng dwy drum serth gribawg  
A magwrydd amgaerawg,  
Yn boer gwyn, idd ei berw gawg.

Bwrllyma, lleibia y llif—oehr y graig  
Chwerw grych taranllif;  
Ei ffrau raiadrau di rif,  
A'i sw'n deil fel sain dylif.—*Nathan Dyfed.*

Mae afon Melltwy yn myned am gryn ffordd trwy ogof hefyd, a elwir Y Porth Mawr. Mae geneu yr ogof yn 48 troedfedd o uchder, a 19 o led, ond yn lleihau wrth fyned tuag i mewn. O'r ogof hon, y mae dau dwll i'r arwyneb trwy y graig galch, a thrwy y tyllau hyn gellir clywed yr afon yn llyfu ochrau'r creigiau ar ei thaith danddaiarol.

Y PORTH MAWR.

Dros y cwm cul dorus cau—wela bont  
Ddeil byth ar ei seilliau;  
Nia rhaid ofn i'w cholofnau  
Na'i meini hen ymwanhau.

Dan y drum geill dyn dramwy—hyd a lled  
Y llwybr calch-bibonwy,  
A'i fynediad ofnadwy  
Na'i bwy mawr sydd yn bum mwy.—*Nathan Dyfed.*

Mae i afonig Hepste hefyd ddau raiadr, un sef Srawd yr Eirwy dros graig serth 50 troedfedd o ddyfnder, lle y gellir pasio dan yr afon heb wlychu. Bu llawer yn sefyll dan y ffrwd, neu yn hytrach rhwng y srawd a'r graig, i gysgodi rhag cawod o wlaw! Y ddisgynfa arall sydd fath o dreigliad chwyrn dros glogwyni geirwon am tua 800 o latheni. Una'r mân afonydd a enwyd yn ardal Pont Nedd Fechan, gan ffurfio Afon Nedd briodol. Oddiwrth Bont Nedd Fechan, rhed yr afon trwy un o'r dyffrynoedd Larddaf yn y Sir, gan fyned heibio pentrefi Glyn Nedd, Rhesolfen, Aberdulais, a thref Castell Nedd, a derbynia ar ei thaith luaws o fân nentydd heblaw y rhai a enwyd, ac ar un o honynt, ger Melin Court, y mae rhaiadr prydferth. Wedi gadael tref Castell Nedd, rhed yr afon trwy dir gwastad nes aberu yn Môr Hafren ger Briton Ferry. Mae'r afon hon yn fordwyol i fyny hyd Gastell Nedd, lle y dygir llawer o fasnach yn mlaen arni.

IX. AFON TAWY.—Tardd prif gangen hon yn Llyn y Fan Fawr yn Mrycheiniog, a rhed heibio Mynydd Talsarn, y Fforest Fawr, &c., gan adael Capel Pont-rhyd-arw ar y dwyrain, ac ychydig yn ddeheuol i hyn derbynia Nant Llech. Mae rhaiadr ar y Llech ger Capel Coelbren, a elwir Srawd Hen Rhyd, lle naid y nant dros graig anferth dros 100 troedfedd o ddyfnder. Ar ol derbyn y nant hon, rhed y Tawy agos yn ddeheuol nes cyrhaedd y Neuadd Fawr, lle y troir llawer o'i dyfroedd o'r gwely naturiol i ffurfio Camlas Cwm Tawy. Yn Ystradgynlais, rhed afon Giedd i'r Tawy ar ei thu gorllewinol. Tua milldir yn is, croesa'r Tawy y ffin o Frycheiniog i Forganwg ar du gogleddol Ystalyfera, lle yr ymarllwysa afon Twrch iddi o Gwm Twrch, ar du'r gorllewin. Ar ol gwasanaethu ardal Ystalyfera, rhed y Tawy dros ei phalmant graian hyd ardal boblog Pontardawe, lle y rhed Nant Heol iddi. Oddiyno rhed i waered heibio gwaith Ynyspenllwch, a derbynia'r Clydach i'w chol, gan ei chludo gyda hi dan Bont Treforris a Phont Glandwr, ac yna abera yn Abertawy.

X. AFON LLIW.—Mae hon mewn ystyr briodol yn ddwy afon, oblegyd ni una'r ddwy gangen a'u gilydd nes o fewn hanner milldir i'r mor. Tardd y gangen ddwyreiniol yn ardal Cil Cynwyr, tua dwy filldir i'r gorllewin o Langyfelach, a rhed heibio'r Efail Wen, a than Bont Llewylde, yr hon sydd ar ffordd Abertawy a Chas'lwchwr, ac oddiyno i gyfeiriad gorllewinol braidd hyd ei haberiad. Y Lliw briodol, sef y gangen orllewinol, a dardd yn ardal Gelli Wyrain, a rhed dan Bont Lliw, ar ffordd Abertawy a Phontarddulais. Yna rhed am tua dwy filldir yn gydfynedol â Chledrffordd Abertawy a Phontarddulais, yr hon a'i croesa yn Rhyd-y-mardy. Yna try yr afon yn fwy i'r gorllewin, gan fyned dan Bont y Brenin, ar ffordd Abertawy a Chas'lwchwr, ac oddiyno dan bont Cledrffordd Deheudir Cymru (*Great Western*); ac yn mhen ychydig ar ôl hyn, derbynia ei chwaer i'w chol, ac abera ar Forfa Lliw, yn agos i Aber Lluchwr.

XI. AFON LLWCHWR, neu Llychwyr.—Hon yw ffin gorllewinol Morganwg, ac a'i gwahana oddiwrth Sir Gaerfyrddin. Tardd hon yn Llygad Lluchwr, Sir Gaerfyrddin. Rhed afon Aman iddi ger Pantyffynnon, a'r Dulais ger Pontarddulais, a'r Gwili Fach ar gyfer Llan-

deilo Talybont. Ar ol derbyn y Gwili Fach, rhed y Lluchwr trwy fash o forfa llydan a brwynog, a than Bont Cas'lwchwr, a phont fawr y Gledrffordd, ac yna abera yn dawel fel y lleill yn mynwes hallt y mor.

## MNYDDAU MORGANWG.

Gwir nas gellir bostio *uchder* mynyddau Morganwg, etto y maent yn lluosog, cyfoethog, a dyddorol; ac felly cyfleaaf res o enwau y prif rai o honynt yn y fan yma, gan ddechreu ar ochr ddwyreiniol y Sir.

1. *Cefn Brithdir*.—Saif y mynydd hwn yn mharth gogledd-ddwyreiniol plwyf Gelligaer, rhwng afon Rhymni a Bargod Rhymni. Credwyf mai Bargod y dylid ysgrifenu'r enw, ac nid Bargoed. Ar ben y mynydd hwn y mae Maen Teyron, a bernir ei fod yma er y 7fed ganrif, yn goffadwriaeth am Teyron, un o deulu Brychan Brycheiniog. Ychydig oddiwrth y Maen y mae Capel y Brithdir, perthynol i Eglwys Gelligaer.

2. *Cefn Gelligaer*.—Mae hwn etto yn yr un plwyf, ac yn gorwedd rhwng y ddwy afonig a elwir Bargod Rhymni a Bargod Taf. Ar ben hwn y mae carnedd o geryg a elwir Carn y Bugail, ac yn agos iddi y mae careg fawr a elwir Y Maen Hir, yn sefyll fel post ar ychydig ogwydd, tuag wyth troedfedd allan o'r mynydd, a bernir mai y Rhufeiniaid a'i gosodasant yma. Ar ran o'r mynydd hwn y mae adfeilion hen Gapel Gwladus. (Gwel Gelligaer.)

3. *Cefn Merthyr*.—Saif hwn yn mhlwyf Merthyr Tydfil, rhwng Bargod Taf ac afon Taf, a'i gyfeiriad o'r gogledd i'r de.

4. *Mynydd Eglwysilan*.—Saif hwn rhwng afonydd Rhymni a Thaf. Mae ei odre dwyreiniol yn cyrhaedd hyd Ystrad Mynach, a'i odre gorllewinol yn cyrhaedd hyd Bontypridd.

5. *Mynydd Mayo* sydd barhad o Fynydd Eglwysilan tua'r deau.

6. *Mynydd Cefn On, Cefn y Carnau, &c.*, ydynt res o fryniau yn cyrhaedd o afon Rhymni, yn ardal Machen, hyd afon Taf, ger y Castell Coch. Mae'r holl fynyddau hyn rhwng afon Rhymni ac afon Taf.

7. *Mynydd Aberdar, Mynydd Merthyr, a'r Cefn Glas*.—Nid yw y rhai hyn mewn gwirionedd ond un mynydd, yn gorwedd rhwng afon Taf ac afon Cynon. Gelwir y parth mwyaf gogleddol o hono Mynydd Aberdar, y parth canol Mynydd Merthyr, a'r rhan ddeheuol Y Cefn Glas. Mae amryw garneddau ar y mynydd hwn, megys Carn-tylehir, Carn y Frwydr, Carn Gwenllian Dociar, Carn y Ffwlbert, &c. Agos uwchben y tunnel rhwng Merthyr ac Aberdar, sef ychydig yn fwy gogleddol, y mae adfeilion Caer neu wersyllfa, gyda ffos o'i hamgylch, yr hyn a brawf fod yma orsaf filwrol ryw gyfnod.

8. *Cefn Rhos Gwawr*, neu Fynydd Craig y Mynach, a orwedd rhwng afon Dar ac afon Aman, yn mhlwyf Aberdar, lle y gwelir rhan o'r heol oedd gan y mynachod gynt i deithio o Fynachlog Penrhys i Fynachdy Aberdar. Gelwir yr heol yn bresenol, Rhiw'r Mynach.

9. *Mynydd Bach* sydd glogwyn uchel rhwng afon Aman a blaen afon Cludach, yn mhlwyf Llanwynno.

10. *Cefn Gwingil*, neu Gwaungul, sydd fynydd uchel rhwng afon Cludach ac afon Rhondda Fach, plwyf Llanwynno.

11. *Cefn Rhondda*, rhwng y ddwy Rondda, yn mhlwyf Ystrad-dyfodwg.

12. *Mynydd y Cymmer*, a 18. *Mynydd y Ddinas*, ydynt ddau fynydd go uchel ar du gorllewinol afon Rhondda, yn agos i'r Cymmer.

14. *Mynydd y Glyn* a orwedd rhwng afon Taf ac afon Elai, ac a ymestyna i'r dwyrain i ardal Pontypridd. Craig y Fforest a Chraig y Maes Bach ydynt fath o barhad o'r mynydd hwn i waered ar du gorllewinol afon Taf, yn mhlwyf Llanilltyd Faerdref.

15. *Mynydd y Garth*, ar du gorllewinol y Taf, yn mhlwyf Pentyrch.

MYNYDDAU CANOLBARTHOL Y SIR.

16. *Mynydd Garth Maelwg* a saif rhwng Llantrisant a Llanharan. Mae ffynnon rinweddol iawn ar ben hwn, gyda thair carnedd fawr. *Mynydd Meiros\** sydd barhad o hwn tua'r gorllewin, tra y saif *Mynydd y Pentref* ar y gogledd-orllewinol iddo. Yma y tardd afon Ewenni.

17. *Cefn Hirgoed* sydd rhwng Ewenni a'r Ogwy, a bernir iddo fod unwaith yn orchuddiedig gan fforest fawr o goed.

18. *Mynydd y Gaer*, *Mynydd Maendu*, a *Mynydd Gelli'r-haidd*, ydynt res o fryniau uchel rhwng afon Elai a'r Ogwy Fach, ac fel yr awgryma enw'r blaenaf, y mae olion caer fawr ysgwar ar ei ben.

19. *Mynydd y Gwyr*, rhwng y ddwy Ogwy; ac ar ei du gogleddol y mae lluaws o fryniau uchel, gyda dwy garnedd neillduol a elwir Y Garn Fawr a'r Garn Fach, a bernir fod rhai o enwogion ein cnedl yn huno danynt.

20. *Mynydd Llangeinor* a saif fel tywysog urddasol, a'r Ogwy Fawr yn golchi ei odre dwyreiniol, a Nant Garw yn golchi ei odre gorllewinol.

21. *Mynydd Pen Pych*, yn agos i Flaen Rhondda, plwyf Ystrad-dyfodwg.

Hen foneddig fynyddau—yr Ystrad  
Ewystnant y cymylau;  
Ond Pen Pych sy'n topio'n pau,—  
Ef yw'r uchaf ei freichiau.

22. *Craig y Llyn*, neu Fynydd Carn Moesen, sydd dalach nag un o fynyddau Morganwg. Saif yn mharth gogleddol plwyf Ystrad-dyfodwg, a'r Graig yn gwynebu tuag at randir Rhigos a Chwm Nedd. Mae natur wedi trefnu dau llyn grisialog wrth draed gorsedd greigiog yr ymherodres hon, y rhai ydynt fel dau ddrych iddi gael gweled ei llun ynddynt.

Crugyll uthr yw Craig y Llyn,—a bannog  
Obenydd uwch dyffryn;  
Tomen fawr,—uchel glawr glyn  
Yw ei garw dal goryn.—D. M.

23. *Mynydd Moelgiliau*, rhwng y Garw-wy a'r Llyfnwy.

24. *Mynydd Margam*, yn mhlwyf Margam, ac y mae wedi ei wisgo

\* Camlythyreuwyd hwn yn "Maeres," yn nhudalen 4.

yn hardd â choed derw prydferth. Ar ei ben y mae careg hynod a elwir y Maen Llythyrog. (Gwel Hynodion y Sir.)

25. *Craig Afan, Mynydd Bychan, Moel Trawnant, a Cefn yr Argoed*, ydynt res o fryniau ar y tu deheuol i afon Afan.

26. *Mynydd Dinas, Mynydd y Gaer, Y Foel, Cefn Morfudd, a'r Cefn Mawr*, ydynt bentwr o fynyddau wedi eu cadwyno wrth eu gilydd fel carcharorion rhwng afon Afan ac afon Nedd.

27. *Cefn Crug a Mynydd Rhesolfen* a orweddant fel gefeilliaid rhwng Cwm Corrwg a Chwm Nedd.

MYNYDDAU GORLLEWIN-BARTH Y SIR.

28. *Cefn Hir Fynydd*, rhwng y Nedd a'r Dulais. Gwnaeth y Rhufeiniaid heol dros gefn hwn o Gastell Nedd i Aberhonddu, yr hon a elwir Sarn Helen, ac y mae mildiroedd o honi yn amlwg yn awr.

29. *Mynydd March Hywel*, yn mhlwyf Cilbeyll, a'i ranau gogleddol rhwng y Dulais a'r Tawy, tra ei barth deheuol rhwng y Dulais a'r Clydach sy'n aberu ger Abbaty Nedd. Mae pedair carnedd fawr yn addurno pen hwn.

30. *Mynydd Drumau*, rhwng y Clydach a nodwyd ac afon Tawy. Ar ben hwn mae Careg hynod, a elwir y Gareg Bica.

31. *Tarren Wyddon*, ar du dwyreiniol afon Tawy, ger Ystalyfera.

32. *Gallt y Grug*, yn mhlwyf Llangiwc; ac y mae llawer o bentref Ystalyfera wedi ei adeiladu ar ei llechwedd.

33. *Mynydd Gelli Wastad* (plwyf Llangyfelach), *Mynydd y Gwair, Mynydd y Garn Fach, Mynydd Pysgodlyn, a Cefn Drum*, ydynt res o fryniau rhwng y Tawy a'r Llwchwyr.

34. *Mynydd Lliw*, rhwng afon Lliw ac afon Llwchwyr.

35. *Mynydd y Garn Goch a Mynydd Cas'lochwr*, rhwng Llangyfelach a Chas'lwchwyr.

36. *Cefn y Bryn* sydd fynydd bychan yn Mro Gwyr, ar ben yr hwn y mae Cromlech, a elwir Coeten Arthur, a Maen Cetti.

A ganlyn ddengys uchder y prif rai o'r mynyddau hyn mewn troedfeddi:—

| RHEIF. | ENW.                           | UCHDER. | RHEIF. | ENW.                | UCHDER. |
|--------|--------------------------------|---------|--------|---------------------|---------|
| 1.     | Craig y Llyn                   | 1,971.  | 12.    | Cefn Rhos Gwawr     | *1,257. |
| 2.     | Mynydd Llangeinor              | 1,872.  | 13.    | Gallt y Grug        | *1,175. |
| 3.     | Y Garn Fawr                    | 1,706.  | 14.    | Tarren Wyddon       | *1,068. |
| 4.     | Mynydd Merthyr                 | 1,619.  | 15.    | Mynydd Margam       | 1,139.  |
| 5.     | Cefn Gelligaer (Carn y Bugail) | 1,574.  | 16.    | Y Foel (Cwmafan)    | *1,122. |
| 6.     | Mynydd Aberdar                 | 1,507.  | 17.    | Mynydd y Garth      | 1,008.  |
| 7.     | Cefn Merthyr                   | 1,488.  | 18.    | Mynydd Garth Maelwg | *884.   |
| 8.     | Twyn y Waun                    | *1,459. | 19.    | Craig Llantrisant   | *555.   |
| 9.     | Mynydd Carn Celyn              | 1,382.  | 20.    | Cefn On             | 850.    |
| 10.    | Cefn Brithdir                  | *1,278. | 21.    | Penrhiw Fforest     | *760.   |
| 11.    | Mynydd Eglwysilan              | 1,259.  | 22.    | Mynydd Cefn y Bryn  | 609.    |

D.S.—Y rhai sydd a'r nod hwn \* wrthynt a feurusis fy hun â'r Barometer,

## II. RHANIADAU SWYDDOGOL NEU AWDURDODEDIG Y SIR.

Rhenid Gwent gynt yn bump arglwyddiaeth, fel y canlyn:—1. Gwent Uwchcoed; 2. Gwent Iscoed; y rhai sydd yn Mynwy yn awr. 8. Gwent-llwg, neu Gwaenllwg, sef Gwent Gorslyd, yn cynnwys y parth a elwir plwyf Gelligaer yn bresenol, gyda rhanau gorllewinol sir Fynwy. 4. Blaenau Gwent, sef holl fynydd-dir parthau gogleddol Mynwy a Morganwg yn bresenol. 5. Gorwennydd, neu Gor Went, sef y wlad rhwng afon Taf ac afon Nedd. Rhenid Gorwennydd hefyd yn ddwy ran, sef Uchaf ac Isaf; ac afon Ewenni yn eu gwahanu. Llygriad o Gorwennydd yw *Gronedd* y rhaniad Eglwysig. Mae lle yn awr yn mhlwyf Llandyfodwg, o'r enw Penllwyn Gwent; hyny yw, Prif Blanigfa Gwent; ac ystyrir y fan hon gynt yn Gorwennydd Uchaf. Mae plwyf Llysfronnydd yn y parth a elwid Gorwennydd Isaf; a barnai D. Williams, awdwr "*The History of Monmouthshire*," mai llygriad yw'r enw o Lys Gorwennydd; ond pe buasai yr awdwr hwnw yn ystyried mai sant o'r enw Nudd a sylfaenodd Eglwys y plwyf hwnw, barnwyf y cydunasai mai Llys Bro Nudd yw'r enw iawn.

Gelwid parthau gorllewinol y Sir hon wrth yr enwau Gwyr a Bro Gwyr, fel y sylwyd yn barod. Ymddengys bod yr enwau, a'r rhaniadau hyn wedi ei gwneyd, cyn tiriad y Rhufeiniaid i'n gwlad. Ond wedi iddynt hwy gymmeryd meddiant o honi, darfu i'r Ymherawdwr Severus yn y flwyddyn 207 o.c., ranu Ynys Prydain yn ddosparthiadau; a'r enw a roddwyd ganddo ar Gymru oedd *Britannia Secunda*; a'r parth sydd yn cynnwys siroedd Morganwg, Mynwy, Brycheiniog, Maesyfed, Caerloyw, Henffordd, a rhanau o sir Gaerwrangon (*Worcestershire*), a enwyd ganddo yn *Siluria*, oddiwrth Essyllwg y Cymry.

Y rhaniad swyddogol nesaf ar Gymru ag y mae genym hanes am dano, a wnaed tua'r flwyddyn 877 o.c. gan Rodri Mawr, mab Merfyn Frych, yr hwn a'i rhanodd yn dair Talaeth, sef Gwynedd, Powys, a Deheubarth; ac a'u rhoddodd i'w dri mab, Anarawd, Merfyn, a Chadell.

Yr oedd Morganwg hyd y nod y pryd hwnw, yn Dalaeth Annibynol, yn cael ei llywodraethu gan dywysog annibynol, ac wedi ei rhanu yn bedwar Cantref a phymtheg Cwmmwd, fel y canlyn:—

| I. CANTREF NEDD.<br>Cymmydau. | II. CANTREF PENLWYN.<br>Cymmydau. | III. CANTREF BREINIOL.<br>Cymmydau. | IV. CANTREF GWENTLLWG.<br>Cymmydau. |
|-------------------------------|-----------------------------------|-------------------------------------|-------------------------------------|
| 1. Rhwng Nedd a Thawy         | 1. Meisgun                        | 1. Cibwrn                           | 1. Yr Ardd Ganol                    |
| 2. Rhwng Nedd ac Afan         | 2. Glyn Rhondda                   | 2. Senghenydd                       | 2. Elthaf Dylogion                  |
| 3. Tir yr Hwnderwd            | 3. Talyfan                        | 3. Uwch Caesach                     | 3. Yr Haith                         |
| 4. Glyn Ogwy                  | 4. Maenor Rhuthyn                 | 4. Is Caesach                       | 4. Y Mynydd                         |

Ychwanegwyd Cwmmwd y Mynydd at y pumtheg arell, er mwyn cael pedwar Cwmmwd yn mhob Cantref.

Yn 945 o.c., gwnaed Rhaniad Awdurdodedig arall ar Gymru trwy orchymmyn y brenin Hywel Dda, yr hwn, medd haneswyr, a'i rhanodd yn siroedd, yr un fath ag y rhanodd Alfred Fawr deyrnas Lloegr.

Dywedir yn "*Y Cwta Cyfarwydd*," a ysgrifenyd gan Meurig, Trysorydd Llandaf, fod Morganwg yn amser y rhaniad hwnw yn Dalaeth Annibynol, ac ynddi saith Cantref, sef,—1. Cantref Bychan; 2. Can-



tref Gwyr a Chydwelli; 8. Cantref Gorwennydd; 4. Cantref Penychen; 5. Cantref Gwaunllwg ac Edelygion; 6. Cantref Gwent Iscoed; 7. Cantref Gwent Uwchgoed, Ystrad Yw, ac Euas; y rhai a elwid Dwy Lawes Gwent Uwchgoed, ac Erging, yn nghyd ag Anerging hefyd.—*Myv. Arch.*, p. 739; *Iolo MSS.*, p. 222.

Nid oes hanes am un rhaniad ar Forganwg ar ol hyn am 145 o flynyddau, sef hyd y flwyddyn 1090 neu 1091. Dywed llyfr Syr Edward Stradling i Syr Robert Fitzhamon, ar ol iddo orchfygu y Sir, ei dosparthu yn un-ar-ddeg o arglwyddiaethau, fel hyn:—1. Meisgun; 2. Rhuthyn; 3. Llanfleiddian Fawr; 4. Tir yr Iarll; 5. Glyn Rhondda; 6. Senghenydd; 7. Afan; 8. Nedd; 9. Y Coetty; 10. Tal-Afan; 11. Llanilltyd. Ymddengys mai wrth enw arall y gelwid Tir yr Iarll y pryd hwnw; oblegyd ar ol amser Fitzhamon y rhoddwyd yr enw hwn i'r lle.

Yn 1282, mesurwyd a rhanwyd Cymru, gyda rhifo'r trigolion trwy orchymmyn y Tywysog Llywelyn ab Gruffydd—Ein Llyw olaf. Trefn rhaniadau Morganwg, yn ol y mesuriad hwnw, oedd fel y canlyn:—

|  |   |  |
|--|---|--|
| <p>I. CANTREF GORWENNYDD.<br/>Cymmydau.</p> <ol style="list-style-type: none"> <li>1. Rhwng Nedd a Thawy</li> <li>2. Tir yr Hwndrwd</li> <li>3. Rhwng Nedd ac Afan</li> <li>4. Y Coetty, sef Penybont</li> <li>5. Tir yr Iarll</li> <li>6. Maenor Glyn Ogwy</li> </ol> | <p>III. CANTREF GWENT-LLWG.<br/>Cymmydau.</p> <ol style="list-style-type: none"> <li>1. Cibwrn, neu Cibwr</li> <li>2. Yr Haidd</li> <li>3. Y Dref Berfedd</li> <li>4. Edylogion, neu Edylogon</li> <li>5. Eithaf Edylogon</li> <li>6. Y Mynydd</li> </ol> | <p>2. Lle Mynydd<br/>—</p> <p>V. CANTREF GWENT UWCHGOED.<br/>Cymmydau.</p> <ol style="list-style-type: none"> <li>1. Tref Grug</li> <li>2. Uwchgoed</li> </ol> |
| <p>II. CANTREF PENYCHEN.<br/>Cymmydau.</p> <ol style="list-style-type: none"> <li>1. Meisgun</li> <li>2. Glyn Rhondda</li> <li>3. Talyfan, neu Tal Afan</li> <li>4. Rhuthyn</li> </ol>   | <p>—</p> <p>IV. CANTREF GWENT ISCOED.<br/>Cymmydau.</p> <ol style="list-style-type: none"> <li>1. Iscoed</li> </ol>   | <p>—</p> <p>VI. CANTREF BREINIOL.<br/>Cymmydau.</p> <ol style="list-style-type: none"> <li>1. Is Caeau,—Caeach</li> <li>2. Uch Caeau</li> </ol>                |

Cofier mai Rhaniadau y Cymry oedd y rha'r hyn, oblegyd yr oedd gan y Normaniaid raniadau gwahanol y pryd hwnw.

Cymmydau Morganwg, yn ol cyfrifiad y Normaniaid oeddynt a ganlyn:—1. Cibwr; 2. Senghenydd, neu Is Caeach; 3. Uwch Caeach; 4. Llandaf; 5. Meisgun; 6. Glyn Rhondda; 7. Tu dwyreiniol afon Dawen; 8. Tu gorllewinol afon Dawen; 9. Tir y Coetty; 10. Tir y Brenin, sef Tir yr Iarll; 11. Afan, sef rhwng Afan a Nedd. Parhaodd y rhaniadau Normanaidd hyn heb gyfnewidiad hyd amser Harri VIII., pryd y gwnaed cyfnewidiadau mawrion ar raniadau Cymru yn gyffredinol, trwy ychwanegu siroedd cyfain ati, fel y cawn sylwi etto.

Yn ol y trefniad diweddaf a wnaed ar raniadau cyffredinol y Sir hon, dosparthwyd hi yn ddeg Cantref, fel y canlyn:—

|                            |                  |   |                  |
|----------------------------|------------------|---|------------------|
| 1. Cantref Abertawy        | ERWI.<br>78,322. | 9. Cantref Cibwr                        | ERWI.<br>15,487. |
| 2. Bwrdeisdref Abertawy    | 4,363.           | 10. Bwrdeisdref Caerdydd                | 1,877.           |
| 3. Cantref Llangyfelach    | 51,468.          | 11. Cantref Dinas Powys                 | 40,601.          |
| 4. Bwrdeisdref Aberafan    | 2,598.           | 12. Cantref y Bontfaen                  | 82,410.          |
| 5. Cantref Castellnedd     | 71,100.          | 13. Cantref Glyn Ogwy                   | 86,798.          |
| 6. Bwrdeisdref Castellnedd | 1,486.           | 14. Cantref Castell Newydd,<br>Penybont | 71,278.          |
| 7. Cantref Meisgun         | 81,323.          |   |                  |
| 8. Cantref Caerfili        | 62,966.          |   |                  |
| Maint y Sir                | -                |   | 547,070 o Erwi.  |

## PLWYFI MORGANWG.

Ymddengys nad yw yn hyspys pa bryd y rhanwyd Morganwg yn blwyfi; ond sicr yw fod rhai o honynt yn llawer hynach na'r lleill: oblegyd nid yw Llanfabon, yr Eglwys Newydd, y Bontfaen, &c., ond plwyfi o ddyddiad diweddar mewn cymhariseth, ac nid oeddynt gynt ond rhanau o blwyfi Eglwys Elian, Llandaf, a Llanfeiddian Fawr.

Mae awdwyr o safon uchel yn gwahaniaethu yn fawr yn eu tystiolaethau o barthed rhifedi plwyfi Morganwg, fel mai gorohwyl anhawdd yw penderfynu hyn. Dywed Webster & Co., awdwyr y "*Postal & Commercial Directory*" am 1865, mai 108 o blwyfi sydd yn y Sir hon. Yn y "*Guide to Merthyr*," gan T. E. Clarke; "*Guide to Swansea*," a lluaws o lyfrau ereill, dywedir mai 118 yw rhif plwyfi Morganwg. Yn y "*Myvrian Archaeology*," ceir rhës o'u henwau, yn 188 o nifer, gyda nodiad eu bod yn 140 i gyd; a nodiad ychwanegol gan Iolo Morganwg, yn dweyd mai 128 yw gwir nifer plwyfi Morganwg.—*Myr. Arch.* p. 749. Amlwg yw nas gall yr awduron uchod fod yn gywir i gyd; ac nid yw yn ymddangos y gellir ymddibynu ar y naill na'r llall o honynt. Ar ol llafur maith, ymchwiliad manwl, a chryn draul, cefais mai nifer enwau, a mesuriad arwynebol plwyfi gwahanol Gantrefi Morganwg sydd fel y canlyn:—

| RHIF. | ENWAU'R PLWYFI.                          | MAINT MEWN ERWI. | POBL YN 1871. |
|-------|--|------------------|---------------|
| 1.    | Abertawy, sef Eglwys Fair                | 9,029            | 43,170.       |
| 2.    | Caergwrosydd ( <i>Oystermouth</i> )      | 5,194            | 8,574.        |
| 3.    | Castell Llŵchwr ( <i>Loughor</i> )       | 3,999            | 1,765.        |
| 4.    | Cheriton                                 | 1,419            | 153.          |
| 5.    | Knelstone                                | 537              | 95.           |
| 6.    | Llandeilo Ferwallt ( <i>Bishopston</i> ) | 2,387            | 457.          |
| 7.    | Llandeilo Talybont                       | 7,401            | 1,760.        |
| 8.    | Llanddewi                                | 1,853            | 141.          |
| 9.    | Llanfadog ( <i>lanmadock</i> )           | 6,127            | 178.          |
| 10.   | Llangennydd                              | 3,479            | 860.          |
| 11.   | Llanilltyd Gwyr ( <i>Ilston</i> )        | 2,879            | 287.          |
| 12.   | Llanrhidian                              | 22,064           | 2,151.        |
| 13.   | Nicholston                               | 731              | 105.          |
| 14.   | Penhardd ( <i>Pennard</i> )              | 2,292            | 285.          |
| 15.   | Penmaen                                  | 1,598            | 161.          |
| 16.   | Penrhys ( <i>Penrice</i> )               | 2,248            | 290.          |
| 17.   | Porth Eymion ( <i>Porteynon</i> )        | 1,186            | 254.          |
| 18.   | Reynoldstone                             | 1,047            | 277.          |
| 19.   | Rhossili ( <i>Rosstly</i> )              | 2,470            | 267.          |
| 20.   | Trenynni ( <i>Ozwich</i> )               | 1,602            | 255.          |

CANTREF LLANGYFELACH.

| RHIF. | ENWAU'R PLWYFI. | MAINT MEWN ERWI. | POBL YN 1871. |
|-------|-----------------|------------------|---------------|
| 1.    | Llangiwo        | 12,550           | 8,312.        |
| 2.    | Llangyfelach    | 27,305           | 17,714.       |
| 3.    | Llansamled      | 8,885            | 6,128.        |

CANTREF CASTELL NEDD.

| RHIF. | ENWAU'R PLWYFI.   | MAINT MEWN ERWI. | POBL YN 1871. |
|-------|---|------------------|---------------|
| 1.    | Aberafan  | 2,598            | 3,896.        |
| 2.    | Castellnedd ( <i>Neath</i> )                              | 1,121            | 9,258.        |
| 3.    | Cilybebyll  | 4,014            | 1,592.        |
| 4.    | Glyn Corrwg   | 11,294           | 1,058.        |
| 5.    | Llanfaglan ( <i>Baglan</i> )                              | 6,479            | 621.          |
| 6.    | Llanfihangel Ynys Afan ( <i>Michaelstone Super Avon</i> ) | 5,035            | 5,920.        |
| 7.    | Llangatwg Nedd ( <i>Cadoxton juxta Neath</i> )            | 32,060           | 8,778.        |
| 8.    | Llanilltyd Nedd ( <i>Lantwit juxta Neath</i> )            | 10,990           | 2,554.        |
| 9.    | Llanisawel ( <i>Briton Ferry</i> )                        | 1,593            | 4,803.        |

CANTREF MEISGUN.

| RHIF. | ENWAU'R PLWYFI.     | MAINT MEWN ERWI. | POBL YN 1871. |
|-------|---------------------|------------------|---------------|
| 1.    | Aberdar             | 16,310           | 37,774.       |
| 2.    | Llanilltyd Faerdref | 5,311            | 5,024.        |
| 3.    | Llantrisant         | 16,669           | 8,086.        |
| 4.    | Llanwynno           | 13,013           | 11,434.       |
| 5.    | Pentyrch            | 3,975            | 2,105.        |
| 6.    | Y Rhadyr            | 1,530            | 422.          |
| 7.    | Ystrad Dyfodwg      | 24,515           | 17,777.       |

CANTREF CAERFFILI.

| RHIF. | ENWAU'R PLWYFI.                     | MAINT MEWN ERWI. | POBL YN 1871. |
|-------|-------------------------------------|------------------|---------------|
| 1.    | Eglwys Elian                        | 13,619           | 8,200.        |
| 2.    | Eglwys Newydd ( <i>Whitchurch</i> ) | 3,192            | 2,722.        |
| 3.    | Gelligaer                           | 16,573           | 9,193.        |
| 4.    | Llanfabon                           | 5,369            | 2,263.        |
| 5.    | Llanfedwy (Cantref Gwentillwg)      | 2,299            | 493.          |
| 6.    | Merthyr Tydfil                      | 17,744           | 51,949.       |
| 7.    | Y Rhydri                            | 2,639            | 374.          |
|       | Rhydgwern, rhan o Machen            | 706              | 284.          |

## CANTREF OIBWR, NEU CIBWRN.

| RHIF. | ENWAU'R PLWYFI.                  | MAINT MEWN ERWI. | POBL YN 1871. |
|-------|----------------------------------|------------------|---------------|
| 1.    | Caerau,—Llanweirydd              | 746              | 102.          |
| 2.    | Caerdydd,—Eglwys Fair (St. Mary) | 8,164            | 28,509.       |
| 8.    | “ “ Ieuan (St. John)             | 1,442            | 11,027.       |
| 4.    | Llandaf                          | 4,852            | 11,922.       |
| 5.    | Llanedeyrn                       | 2,686            | 818.          |
| 6.    | Llanisan (Llanishan)             | 2,915            | 515.          |
| 7.    | Llysfan                          | 1,338            | 242.          |
| 8.    | Roath                            | 8,500            | 7,991.        |

## CANTREF DINAS POWYS.

| RHIF. | ENWAU'R PLWYFI.                                | MAINT MEWN ERWI. | POBL YN 1871. |
|-------|--|------------------|---------------|
| 1.    | Aberbarri (Barry)                              | 885              | 112.          |
| 2.    | Cogan  | 602              | 294.          |
| 3.    | Gwaenfo (Wenno)                                | 2,955            | 466.          |
| 4.    | Llan Andras (St. Andrew's)                     | 3,149            | 537.          |
| 5.    | Llanbedr-y-fro (Peterstone Super Ely)          | 2,010            | 219.          |
| 6.    | Llancarfan                                     | 4,500            | 568.          |
| 7.    | Llandochwy Penarth (Landough)                  | 689              | 198.          |
| 8.    | Llaneinydd (St. Nicholas)                      | 2,104            | 419.          |
| 9.    | Llanfhangal ar Elai (Michaelstone Super Ely)   | 299              | 42.           |
| 10.   | Llanfhangal y Pwll (Michaelstone le Pit)       | 790              | 100.          |
| 11.   | Llanfhangal Legwydd (Leckwith)                 | 1,802            | 169.          |
| 12.   | Llanfeiddian Fach (St. Lythan's)               | 1,248            | 121.          |
| 18.   | Llangatwg Barri (Cadoxton juzta Barry)         | 1,028            | 252.          |
| 14.   | Llansantffraid ar Elai (St. Bride's Super Ely) | 676              | 108.          |
| 15.   | Llansant Ffagan (St. Fagan's a Llanillteyrn)   | 3,321            | 691.          |
| 16.   | Llantryddydd                                   | 1,391            | 188.          |
| 17.   | Llanfelfwyn (St. George's)                     | 1,058            | 236.          |
| 18.   | Llywernog (Lavernock)                          | 1,014            | 109.          |
| 19.   | Merthyr Dyfan                                  | 1,396            | 146.          |
| 20.   | Penarth  | 1,507            | 2,612.        |
| 21.   | Penmarc  | 3,395            | 496.          |
| 22.   | Porth Cerry (Porthkerry)                       | 1,181            | 158.          |
| 23.   | Sili, neu Abersili, (Sully)                    | 2,167            | 151.          |
| 24.   | Tre Simwn (Bonvilstone)                        | 1,171            | 235.          |

CANTREF Y BONTFAEN.

| RHIF. | ENWAU'R FLWYFI.                                     | MAINT MEWN ERWL. | POBL YN 1871. |
|-------|---|------------------|---------------|
| 1.    | Eglwys Brewis                                       | 867              | 15.           |
| 2.    | Llandathan ( <i>St. Athan's</i> )                   | 1,771            | 388.          |
| 3.    | Llandoehwy'r Bontfaen ( <i>Lan-dough</i> )          | 688              | 112.          |
| 4.    | Llan Ddunwyd ( <i>Welsh St. Donatt's</i> )          | 2,175            | 200.          |
| 5.    | Llanfabon-y-fro ( <i>Gilestone</i> )                | 496              | 49.           |
| 6.    | Llanfaes  | 1,085            | 148.          |
| 7.    | Llan Fair y Beaupre ( <i>St. Mary's Church</i> )    | 727              | 144.          |
| 8.    | Llanfhangel, ger Bontfaen                           | 586              | 88.           |
| 9.    | Llanfhangel y Twyn ( <i>Fleming-stone</i> )         | 672              | 68.           |
| 10.   | Llanfleiddian Fawr ( <i>Lanblethian</i> )           | 3,148            | 756.          |
| 11.   | Llan Haran  | 3,050            | 811.          |
| 12.   | Llan Harrai, neu Llanharri                          | 1,554            | 290.          |
| 13.   | Llanilid  | 1,574            | 185.          |
| 14.   | Llanilltyd Fawr ( <i>Lantwit Major</i> )            | 5,298            | 1,097.        |
| 15.   | Llansannor  | 1,798            | 205.          |
| 16.   | Llysfronnydd—Llys-bro-nydd—<br>( <i>Lisworney</i> ) | 897              | 166.          |
| 17.   | Pendulwyn   | 3,504            | 452.          |
| 18.   | Sant Hilari   | 1,200            | 166.          |
| 19.   | Y Bontfaen ( <i>Cowbridge</i> )                     | 96               | 1,184.        |
| 20.   | Ystrad Owen   | 1,494            | 232.          |

CANTREF CASTELL NEWYDD PENYBONT.

| RHIF. | ENWAU'R FLWYFI.                                    | MAINT MEWN ERWL. | POBL YN 1871. |
|-------|--|------------------|---------------|
| 1.    | Bettws, sef Llanysbythel                           | 5,086            | 404.          |
| 2.    | Castellnewydd Penybont-ar-Ogwy.                    | 2,870            | 3,450.        |
| 3.    | Cenffig, sef Llanfawlden                           | 3,868            | 270.          |
| 4.    | Coetty   | 4,571            | 3,251.        |
| 5.    | Llandudwg ( <i>Tytheystone</i> )                   | 2,871            | 1,490.        |
| 6.    | Llangrallo ( <i>Coychurch</i> )                    | 9,105            | 1,436.        |
| 7.    | Llangynwyd   | 15,460           | 8,944.        |
| 8.    | Llansantffraid-ar-Ogwy ( <i>St. Brides Minor</i> ) | 2,215            | 1,182.        |
| 9.    | Margam   | 18,725           | 5,205.        |
| 10.   | Pil ( <i>Pyle</i> )                                | 1,883            | 683.          |
| 11.   | Trelales ( <i>Laleston</i> ) Llangewydd<br>gynt    | 1,631            | 571.          |
| 12.   | Tre Newydd yn Nottais ( <i>Newton Nottage</i> )    | 3,877            | 1,455.        |

## CANTREF GLYN OGWY.

| RHIF. | ENWAU'R PLWYFI.                                  | MAINT MEWN ERWI. | POBL YN 1871. |
|-------|--|------------------|---------------|
| 1.    | Eglwys Fair y Mynydd ( <i>St. Mary Hill</i> )    | 1,404            | 192.          |
| 2.    | Ewenni ( <i>Ewenny</i> )                         | 1,975            | 295.          |
| 3.    | Llandwfi ( <i>Landow</i> )                       | 1,086            | 117.          |
| 4.    | Llandyfodwg, neu Eglwys Glyn Ogwy                | 6,508            | 1,028.        |
| 5.    | Llantai ( <i>St. Andrew's Minor</i> )            | 227              | 18.           |
| 6.    | Llanddunwyd Fawr ( <i>St. Donatt's</i> )         | 1,018            | 188.          |
| 7.    | Llanganna, neu Langan                            | 1,175            | 227.          |
| 8.    | Llangeinor                                       | 6,710            | 1,005.        |
| 9.    | Llansantffraid Fawr ( <i>St. Bride's Major</i> ) | 6,402            | 766.          |
| 10.   | Marcoros   | 1,041            | 88.           |
| 11.   | Merthyr Mawr                                     | 2,590            | 144.          |
| 12.   | Monknash—Yr Aes Fawr                             | 1,584            | 108.          |
| 13.   | Penllin ( <i>Penlline</i> ) Llanfrych gynt       | 1,784            | 820.          |
| 14.   | Tregolwyn ( <i>Colwinstone</i> )                 | 1,760            | 247.          |
| 15.   | Y Wig ( <i>Wick</i> )                            | 1,370            | 884.          |

Yn y *Myv. Arch.*, enwir Llanbedr ar Fynydd, Llanelldeyrn, St. John Abertawy, Castell Ogwy Penybont, Ogsמידs, yr Aes Fach, &c., yn mhlith plwyfi Morganwg; ond nid plwyfi ydynt. Capeliaeth yn Llangrallo yw Llanbedr ar Fynydd; capeliaeth yn mhlwyf St. Ffagan yw Llanelldeyrn; capeliaeth yw St. John, Abertawy; capeliaeth yn mhlwyf y Coetty yw Hen Gastell Penybont; a chapeliaeth yn mhlwyf Penllin yw Llanfrynach yn awr, er mai Llanfrynach oedd y plwyf gynt. Hen blwyf yn Morganwg yw Llan Fedwy, ag sydd wedi ei uno â Llanfihangel Fedwy, Mynwy, yn awr; ac y mae rhan o blwyf Machen, sef rhanbarth (*hamlet*) Rhydygwern, yn Morganwg yn bresenol.

Yn ddiweddar, er mantais i Swyddogion y Sir, cyfrifir y Fan yn blwyf yn Nghantref Caerfili; Llanfeithin a Highlit yn Nghantref Dinas Powys; Nash a Stembridge yn Nghantref y Bontfaen; ac Ynysawdre yn Nghantref Glyn Ogwy. Cofier, er hyny, mai *hamlets* ydynt, ac nid plwyfi. Sylwir yn fanylach etto ar y rhanbarthau (*hamlets*) yn hanes y plwyfi.

## UNDEBAU PLWYFOL MORGANWG.

Mae yn y Sir yn bresenol saith o Undebau Plwyfol wedi eu corffoli ar wahanol amserau, yn unol â Chyfraith Bwrdd y Tlodion. 1. Undeb Caerdydd, gorffolwyd yn 1885. 2. Undeb Abertawy. 3. Undeb Penybont a'r Bontfaen. 4. Undeb Castellnedd. 5. Undeb Merthyr Tydfil, 1886. 6. Undeb Gwyr, 1857. 7. Undeb Pontypridd, 1868.

## HYNODION MORGANWG.

Mae Hynodion Morganwg yn ddau ddosparth, sef naturiol a chel-fyddydol, ac felly dechreuir gyda'r

## HYNODION NATURIOL.

1. *Y Ffynon Ddyspyddol*.—Gelwir hon yn Ffynon Standford, a Ffynon Trenewydd Nottais. Mae ei sefyllfa ar draeth tywodlyd yn ymyl y môr, ger pentref Trenewydd Nottais. Er ei bod yn nghanol tywod y môr, mae ei dyfroedd yn groyw, ac ynddi y mae trigolion y pentref yn cael dwfr at eu gwasanaeth; ond nid hyn yw ei hynod-rwydd penaf. Yr hyn sydd yn ei hynodi yw, ei bod yn cael ei rheol-eiddio gan lanw a thrai y môr. Ar y llanw, mae'r ffynon yn sychu; ac ar y trai, y mae ynddi ddiagon o ddwfr blasus; ac etto, nid yw un amser yn ffrydio neu redeg o honi! Mae ffynonau ereill i'w cael yn llanw gyda llanw y môr, ac yn treio fel yntau; ond am hon, y mae yn treio a llanw yn groes i'r môr, ac felly yn sefyll ar ei phen ei hun, mor bell ag wyf yn gwybod, yn mhlith ffynonau'r byd. Sonia Joyce yn ei *Scientific Dialogues*, p. 259, am ffynonau hynod, ond nid yw eu llywodraethiad mor rheolaidd a hon.

2. *Ffynon Cefn y Bryn*.—Dywed Evans (*Tour in S. Wales*, p. 179,) fod y ffynon sydd dan Faen Cetti, ar Gefn y Bryn, yn Mro Gwyr, yn llanw a threio yr un fath â'r môr.

3. *Ffynon Llanrhidian*.—Prif hynodrwydd hon yw, fod corph mor fawr o ddwfr yn dyfod allan gyda'i gilydd o'r graig, fel y mae yn troi olwynion dwy felin cyn rhedeg 200 o latheni o'r tarddle. Ymddengys i Malkin gam-gymmeryd hon am ffrwd arall yn mhlwyf Bishopton, lle mae afonig yn rhedeg trwy ogof am filldroedd.

4. *Ffynon Aberogwy*.—Dywed rhai awdwyr fod i'r ffynon hon naw tarddle, a bod dyfroedd pob un o honynt yn wahanol ei natur i eiddo'r lleill.

5. *Ffynon Marcros*.—Mae dyfroedd hon yn rhinweddol iawn at bob math o glwyfan, ac hyd y nod Clwy'r Brenin. Mae yn arferiad gan y rhai a iacheir ynddi, i gylmu darn bychan o lian neu gotwm wrth frigau pren sydd gerllaw, ac y maent yno mor aml a'r dail braidd.

6. *Ffynon Llancarfan*.—Mae hon tua lled dau gae allan o bentref Llancarfan. Ni wahaniaetha ei dwfr ond ychydig o ran ei flas, oddi-wrth ddwfr cyffredin; etto medda ar rinwedd anhygoel at wella Clwy'r Brenin (*King's Evil*). Mae rhai wedi cael llwyr wellhad o'r clefyd hwnw wrth ddefnyddio dwfr y ffynon hon am tua thri mis, ar ol bod â'u cnawd yn bwdr am eu hesgyrn. Arferir yr un ddefod wrth ymadael â hon ág a wneir yn Marcros; ac y mae'r carpiaw sydd yn crogi ar y pren ger y ffynon, yn lluosog iawn.

7. *Ffynon Taf*.—Tardd hon yn ngwely afon Taf, ger Tongwynlas; a phan y mae llif yn yr afon, mae yn orchuddiedig; ond er ei llenwi â graian a mân gerryg gan lifogydd, mae yn ei glanhau ei hun trwy wthio allan bob gronyn, er ei bod tua 4 troedfedd o ddyfnder. Dwfr cynhes yw dwfr hon, ac y mae ei rinwedd yn ddiarebol at wella Clefyd

y Giai (*Rheumatism*). Mae llaweroedd wedi dyfod tuag ati gyda ffyn baglau, y rhai yn mhen mis a aent ymaith yn holliaich.

"Ffynon lân wyt yn nghanol—Afon Taf,  
Hufen tan-ddaearol;  
Ac ynot, firwd dycianol  
Gawn a âd ei gwin o'i hól.

Y cur sy drwy'r cyhyrau,—y gwaew trist  
A gwyd trwy'r cymmalau;  
Y gwŷn sy drwy'r gewynau,  
A'r nych hir a wna iachau.

Nid dysg fu'n ei chymmysgu,—nid meddyg,  
Nid moddion ga'i llygru;  
Duw Ior pur fu'n darparu  
Ei dwfr llwys, er adfer llu."—*Essyllt*.

8. *Ffynon Garth Maelwg*.—Mae'r feddygfa ryfeddol hon ar ben Mynydd Garth Maelog, neu Maelwg, rhwng Llantrisant a Llanharan. Tua'r flwyddyn 1866 y daeth hon i sylw fel Ffynon Feddygol, pan yr anfonwyd costrelaid o'i dwfr i Dr. Herapath, yr hwn wrth ei ddostranu, a'i cafodd yn debyg o ran ei natur i ddwfr Llanwrtyd, ond ei fod yn gryfach. Er y flwyddyn a nodwyd, y mae canoedd wedi derbyn llwyr iachad trwy rin ei dwfr oddiwrth y *Piles*, *Gravel*, *Diffyg Anadl*, ac anhwylderau y gwaed. Mae hon yn feddygfa anffaeledig at bob math o doriadau yn y croen, y *Scurvy*, &c. Try ei dwfr liw darn o arian mor felyn a phrës mewn deng mynyd.

O Fwnawl Feddygfa Anian—y daw  
Ei dw'r gloyw allau,  
A rhinwedd rhyfedd i'n rhan,  
Yn groyw dros balmant graian.

Y nwyon drud a giuda—o gelloedd  
Gwyllion y Feddygfa,  
A Hufen Iechyd nofia  
Ar ei dw'r yn oer a da.

Y Gweinid mewn mawr gynt—ymlusgant  
A'u haml lesgedd ati;  
Ond er eu lles, drwy ei lli',  
Yn heiniif dont o honi.—D. M.

9. *Ffynon Ynysecynon*.—Mae hon yn agos i Balas Ynysecynon, Aberdar. Bu llawer o ysgrifenu am hon yn 1862-3, ac anfonwyd galwyn o'i dwfr i Dr. Herapath i'w ddostranu, yr hwn a'i cafodd yn cynnwys:—

|                          |      |                    |       |
|--------------------------|------|--------------------|-------|
| Organic Matters          | 11   | Chloride of Sodium | 80    |
| Organic Salt of Magnesia | 1.78 | Carbonate of Lime  | 13.71 |
| Nitrate of Soda          | 1.92 | Carbonate of Iron  | 1.47  |
| Sulphate of Soda         | 5.76 | Sulphate of Lime   | 5.92  |

Aeth Gwilym Williams, Ysw., (*Ab Alaw Goch*), i'r draul o wneyd lle cyffens i wneyd defnydd o'r dwfr, a bu llawer o gyrehu i'r lle am yspaid; ond erbyn hyn, ni wneir ond ychydig sylw o honi.



10. *Ffynon Gellionen*.—Tardd hon ar fynydd Gellionen, yn Nghwm Tawy, ac y mae lluoedd yn cyrchu ati i geisio iachad. Cynnwysa ei dwfr—

|                       |      |                       |         |
|-----------------------|------|-----------------------|---------|
| Organic Matters       | 1.16 | Sulphate of Magnesium | 1.60    |
| Chloride of Magnesium | 48   | Carbonate of Lime     | A trace |
| Chloride of Sodium    | 2.24 | Bi-carbonate of Iron  | 80      |
|                       |      | Sulphate of Lime      | 36.     |

Ei rhinwedd a gyfrana—i'r afiach,  
Gan eu rhyfedd wella;  
Hon heb ball a'n diwalla,  
Ac o'n plith y dwg ein pla.—D. M.

11. *Ffynon Cwmtyrch*.—Gelwir hon gan lawer, “Y Ffynon Ddrewllyd,” am fod arogl cryf gan y dwfr, ac effeithia ar bobpeth braidd a ddaw i gyffyrddiad ag ef, i'w wynu fel calch. Mae llawer o gyrcu ati gan rai yn dyoddef oddiwrth y *Scurvy*, yn nghyda pob math o darddiadau yn y croen, ac yn derbyn llesad buan.

Er llesiant, yn hael arllwysa—ei budd  
I bawb a'i derbynias;  
Heb dâl pridd, hon newidia  
Nychiad hir am iechyd da.—D. M.

12. *Ffynon Penrhys*.—Mae hon ar Fynydd Penrhys, yn mhlwyf Ystrad-dyfodwg; ond ni wneir nemawr sylw o honi yr oes hon. Tua dechreu'r ganrif bresenol, yr oedd llawer o gyrcu iddi, a llawer o son am dani fel meddyginiaeth ragorol rhag y Gymmalwst. Yr oedd y pryd hwnw le cyfleus wedi ei adeiladu wrthi, fel y gallai gwrrywod a benywod ddefnyddio'r dwfr heb fod yn ngolwg eu gilydd. Yr oedd yn arferiad gan bob claf i dafu pin bach i'r ffynon bob tro y gwnai ddefnydd o'r dwfr, fel yr oedd yn hanner llawn o binau bach yn fynych.

#### OGOFAU.

1. *Ogof Penllwyn Guent*.—Er nad yw teithwyr nag haneswyr yn son am yr ogof hon, etto y mae yn deilwng o gael ei rhesu yn mhlith hynodion y Sir. Mae ei sefyllfa i fyny yn uchel yn Nglyn Ogwy, ac y mae o gryn faint. Mae un rhan o honi yn myned dan yr enw “Lletty'r Diawl,” a dywed chwedlau ofergoelus fod ei fawrhydi Satan-aidd yn perchenogi y rhan hono yr amser gynt. Gelwir rhan arall o honi wrth yr enw “Lletty'r Bardd,” lle y preswyliai bardd Derwyddol gynt, medd traddodiad.

2. *Ogofau Tresilian*.—Mae'r graig galch ar fin y mor yn ardal Tresilian a Llan Ddunwyd (*St. Donatt's*) yn frith o ogofau, fel nas gallwn fanylu ar bob un o honynt. Mae 29 o honynt mewn tua hanner milldir o ffordd. Mae Ogof y Llwynog, neu Eglwys y Llwynog, fel ei gelwir, ger *St. Donatt's* yn llawn 85 llath o hyd. Mae traddodiad wedi ei goleddu am oesoedd, fod ffordd danddiarol o'r ogof hon i

Gastell St. Donatt's; ond y mae Dr. J. W. N. Carne yn gwadu hyn, ac yn dweyd nad oes gwirionedd yn y traddodiad. Bu yr ogof hon yn fan cyssegredig iawn yn yr "Amser gynt," mewn cysylltiad a'r holl briodasau a gymmerent le o'i mewn. Yn hon y priododd tad a mam yr enwog Syr Thomas Picton. Gelwir un man o'i mewn wrth yr enw "Bwa Tynged Dwynwen." Twll yn y graig yw hwn ar lun bwa, ac y mae wedi bod yn arteriad er cyn cof, ac felly yn parhau, i ddynion ieuainge y gymmydogaeth ymgynnull i'r ogof yn achlysurol i dafu ceryg trwy dwll y bwa, er cael gwybod eu tynged priodasol. Os teifi gwr dibriod gareg trwy y twll deirgwaith yn olynol, y dywediad yw ei fod i briodi o fewn y flwyddyn; ond bob tro y metha, y mae hyny yn estyn ei briodas flwyddyn yn mhellach.

8. *Ogofau Southerndown*.—Mae y rhai hyn yn dair mewn nifer, ar lan y mor, rhwng Castell Dindryfan ac Aberogwy. Enwir hwy gan drigolion yr ardal, Yr Ogof, Yr Ogof Deg, a'r Chwyth Dwell. Mae i'r *Ogof* ddwy fynedfa, a gellir myned iddi trwy un, a dyfod allan trwy y llall. Mae hyd y nod y rhai mwyaf cyfarwydd a'r lle, ac yn byw yn ymyl, yn cael llawer o ddifyrwech yn hon wrth wrando swm y mor yn llanw a threio. Er fod tuedd mewn dyn wrth ymgyfarwyddo a lle, i golli ei olwg ar ei hynodrydd, y mae preswylwyr y parth hwn yn teimlo dyddordeb yn yr Ogof, a dywedir y rhag-ddywedant y tywydd yn lled gywir wrth wrando swm y mor o honi.

*Yr Ogof Deg*.—Yr hyn sydd yn ei gwneyd yn deg, neu hardd, yw y pyst sydd yn cyrhaedd o'i gwaelod i'w thop, y rhai sydd wedi eu ffurfio gan weithrediad dwfr; ac y mae rhai o honynt yn bert iawn.

*Y Chwyth Dwell*.—Mae'r twll hwn yn cyrhaedd o lan y traeth i ben y graig, ac yn 77 llath o hyd. Yn amser llanw'r mor, y mae curiad y tonau mor nerthol yn erbyn y twll ar y traeth, nes gwthio yr awyr iddo gyda'r fath egni, fel y chwytha hat gwr ymaith oddiar wyneb y twll ar ben y graig. Gyrrir 2,000 o droedfeddi cyfangorff o awyr trwy y twll hwn mewn mynyd, rai troion. Y mae creigiau y parth hwn yn hynod, yn annibynol ar yr ogofau. Mewn rhai manau, crogant allan dros eu bôn tua'r mor, ac y maent dros 800 troedfedd o uchder; a phan mae'r mor yn arw, ac yn curo yn erbyn y creigiau hyn, mae'r olygfa yn ofnadwy.

4. *Ogofau Bro Gwyr*.—Mae y rhai hyn yn dra lluosog, ac yn hynod, nid yn unig yn mhlith hynodion Morganwg, ond yn mhlith hynodion y byd. Sylwir arnynt fel y canlyn:—

*Twll y Bacon (Bacon Hole)*.—Ffurfir y twll hynod hwn trwy fod y graig yn troi ar lun bwa yn y top. Mae yn gwynebu i'r mor, a'i waelod tuag 20 troedfedd uwchlaw'r traeth. Bu ei lawr yn llyfn fel gwyr, ac yn hynod lithrig; ond y mae bellach er ys amryw flynyddau wedi ei anharu a'i ddryllio trwy rym pylor. Wrth wneyd hyny, gwelwyd fod y gwaelod yn amryw haenau gwahanol, a phob haen yn cynnwys lluwys o esgyrn gwahanol greaduriaid. Yr haen uchaf oedd ddaiar ddwfrgludol (*alluvial*); ac wrth ei dryllio, cafwyd ynddi esgyrn gwartheg, ceirw, llwynogod, a iyrehod. Yn yr ail haen, cafwyd esgyrn sirth, bustych, a sheirw. Yn y drydedd haen, cafwyd esgyrn y blaidd,

yr yeh, y carw, yr arth, yr *hyana*, yr afon-farch, a'r mammoth. Yn y bedwerydd haen, cafwyd esgyrn y mammoth, y daiar-fochyn, a'r ffwlbert. Yr oedd un o esgyrn y mammoth yn ddwy droedfedd o amgylchedd, a phump troedfedd a phump modfedd o hyd. Y mae hwn i'w weled yn awr yn Amgueddfa Abertawy. Cafwyd amryw fathau o gregyn ac esgyrn adar dan yr haenau hyn yn gorwedd ar y graig galch. Mae lluaws o esgyrn wedi eu darganfod mewn ogof arall hefyd, ychydig i'r gorllewin i Dwl Baown, y rhai a gedwir gan y gwahanol bersonau a'u cawsant.

*Ogofau Esgyrn Paviland.*—Mae y rhai hyn yn mhlwyf Rhossili, ger pentref Pitton, yn nghwr gorllewinol Browyr. Maent fel y lleill, yn gwynebu'r môr, ac yn uchel iawn yn y graig, fel y mae yn anhawdd myned iddynt. Mae tua 100 troedfedd o ben y graig i lawr atynt, ac y mae hono yn serth iawn; ond o'r ogofau i'r traeth, y mae yn llai serth.

*Twll yr Afr* y gelwir un o'r ogofau hyn, ac y mae yn teilyngu sylw neillduol ar gyfrif y gwahanol bethau gaed ynddi. Er fod trigolion yr ardal yn ddigon cyfarwydd yn hon, etto ni wnaed fawr sylw o honi hyd y flwyddyn 1822, pryd y darfu i offeiriad Porth Eynion ddyfod o hyd i ddau ddant Cawrfil o'i mewn. Darfu i'r darganfyddiad hwnw ddefiro cywreinerwydd Syr C. Cole, L. W. Dilwyn, Ysw., ac ereill, y rhai a wnaethant ymchwiliad manylach; ac er eu mawr syndod, cawsant esgyrn lluaws o greaduriaid o'i mewn. Yn nechreu 1828, talodd Dr. Buckland, awdwr *Reliquiae Deluvianae*, ymweliad a'r lle, a daeth o hyd i gregyn, ac esgyrn yr *elephant*, y trwyn-gorn (*rhinoceros*), yr yeh, y march, yr arth, y blaidd, yr *hyana*, y carw, llygoden y môr, yn nghydag ochr aswy benyw. Cafodd ychydig alosg-goed hefyd, a darn bychan o gallestr, ac esgyrn amryw fathau o adar. Cafwyd yn yr ogof hon hefyd, amryw ddarnau o *ivory*, wedi ei gweithio i wahanol ffurfiau, megys modrwyau, &c.; ac amryw ddarnau bathol ac argraff Bufeinig arnynt, y rhai a welir yn awr yn Amgueddfa Abertawy. Mae ogof arall ychydig i'r gorllewin i hon, agos yr un faintioli, tua 80 troedfedd uwchlaw'r traeth, a chafwyd ynddi bethau cyffelyb i'r hyn a gaed yn Nhwl yr Afr. Mae ogof arall tua chwarter milldir yn fwy i'r gorllewin, yr hon nas gellir dringo iddi; ac un arall drachefn yn ardal Llanmadog, yn yr hon y cafwyd amryw esgyrn yn 1889.

Mae ogof arall yn nghwr pellaf Pen-y-Pyrod (*Worm's Head*), i'r hon nid oes hanes ond am un wedi anturio, sef gwr o'r enw W. Beynon, yr hwn a arferai arwain dyeithriaid yn y parthau hyn; a dywedai na chymmerai unrhyw swm o arian am anturio iddi drachefn. Mae yr ogof hon yn agor i'r môr, a'r tonau yn gweithio i mewn iddi. Aeth W. Beynon iddi mewn båd, a barnai ei bod yn 800 o latheni o hyd. Ar ben y graig, yn uchel uwchlaw'r ogof, y mae math o agen neu hollt, tua 18 modfedd o hyd, a hanner modfedd o led, a elwir Twll-y-Gwynt. Ar rai adegau, mae y gwynt yn tramwy i lawr ac i fyny trwy yr hollt hwn yn y graig mor gyflym a nerthol, fel y gellir etywed ei swm yn y nos am 6 milldir o ffordd. Am ychydig, mae yr

awyr yn chwythu allan o'r agen, ac yna yn cael ei sugno yn ol gyda nerth, gan beri swn amrywiol a dyeithr. Bernir fod cyssylltiad rhwng y twll hwn a'r ogof odditanodd; a bod y tonau wrth ymdafu i mewn i'r ogof, yn gwthio yr awyr o'u blaen gyda nerth anorohfygol trwy yr hollt, a phan fyddo ton yn dychwelyd, fod yr awyr yn cael ei sugno yn ol.

*Ogof Cefn y Bryn.*—Mae hon ar dir Stout Hall, ger Reynoldstone, yn Mynydd Cefn y Bryn, ac yn ddigon eang i ddal 2,000 o ddynion ar unwaith. Bernir mai hon yw yr ogof fwyaf yn yr holl deyrnas.

#### RHAIADRAU.

Er nad yw Morganwg yn enwog am ei Rhaiadrau, ac nad yw y rhai sydd ynddi yn fawrion, etto y maent yn bert, ac yn deilwng o le yn mhlith ei hynodion.

1. *Rhaiadr Melin Cwrt.*—Mae hwn yn Nghwm Nedd, lle y chwyrn-dreigla Nant Cleddau dros graig serth 80 troedfedd o ddyfnder, gan grych-ferwi'n orwyllt.

2. *Rhaiadr y Rheolau.*—Mae hwn ger Palas y Rheolau, Cwm Nedd, ac yn un hardd iawn, ond ni chaniateir i ddyeithriaid ymweled ag ef.

3. *Rhaiadr y Ganol.*—Mae hwn ger tref Castell Nedd, ac yn cael cryn sylw gan ddyeithriaid. Mae'r disgyniad yn amryw ugeiniau o droedfeddi.

4. *Rhaiadr Ogry.*—Mae hwn yn un prydferth dros ben; a'i safle ger Blaen Ogry, tua milldir i'r gorllewin o Fwlch y Clawdd, mewn lle gwyllt a rhamantus.

5. *Rhaiadrau Blaen Rhondda.*—Mae yn Mlaen Rhondda amryw raiadrau heirdd iawn, lle y mae'r gwahanol nentydd a gyd-gyfarfyddant er ffurffo aфон Rhondda, yn disgyn dros greigiau anferth, yn amrywio o 80 i 40 troedfedd o ddyfnder.

6. *Rhaiadrau Cwm Ffrod.*—Mae'r cwm hwn yn nghwr gogledd-orllewinol plwyf Merthyr Tydfil, yn agos i Bont Fawr Cefn Coed y Cymmer. Mae yma ddau raiadr hardd iawn,—yr agosaf i aфон Taf yn 18 troedfedd o gwmp, a'r llall tua 15 troedfedd. Mae yn y cwm rhyfedd hwn, goedydd mawrion yn tyfu allan o'r graig noeth; nid yn syth tuag i fyny, ond yn wastad allan o ochrau serth y cwm, fel pe tyfent allan o fur anferth. Peth hynod arall yma yw, fod dwfr yn troi yn graig galed ynddo, ac yn caboli ceryg nes y maent mor llyfn a gwydr.

#### HYNODION CELFYDDYDOL.

Yn mhlith yr hynodion celfyddydol, sylwir ar wahanol adeiladau hen a diweddar ag sydd yn deilwng o'r enw *hynod*, yn nghyda gwahanol wrthdryschau ereill ag sydd yn ddangoseg o fawredd a medrusrwydd y rhai a'u gwnacthant. Gellir ymfrostio fod Morganwg yn cynnwys adeiladau hynafol, teg, a chywrain, fel eiddo'r Cyfandir; yn nghyda'r cadarn a'r gorchestol, lle y dangosir gallu a medrusrwydd ein cyn-deidiau yn dra eglur.

*Y Gareg Bica.*—Saif hon fel post ar ei phen yn y ddaiar, ar ben Mynydd y Drumau, i'r gogledd o Sciwen. Mae ei hyd yn 18 troedfedd

a 6 modfedd allan o'r ddaiar, a thua lllathen o led, a 2 o drwch. Mae yr hen gerfiadau oedd arni yn rhy aneglur i'w deall; ond y mae amryw lythyrenau o ddyddiad diweddar yn amlwg ddiagon arni yn awr. Nid oes hanes pa bryd, na chan bwy y gosodwyd y gareg hon yma; ond y mae yn eglur ei bod yma er ys oesoedd lawer; a diamheu iddi gael ei gosod i ddyben neillduol ar y cyntaf, naill ai i ddynodi terfyn tirol, neu yn goffadwriaeth o ryw amgylchiad hynod.

## GROMLECHAU.

1. *Maen Cetti*, neu *Goeten Arthur*.—"Tair gorchwyl gadarn Ynys Prydain,—Codi Maen Cetti, adeiladu Gwaith Emrys, a thyru Cludai'r Cyfrangon."—*Trioedd*. Barna lluaws o hynafiaethwyr mai at Gromlech Cefn y Bryn, yn Mro Gwyr, y syfeiria'r triad hwn, dan yr enw Maen Cetti. Mae'r maen hwn wedi bod yn llawer mwy nâg ydyw yn bresenol, oblegyd y mae rhai meini melinau wedi eu tori o hono. Maint prif gareg, sef Clawr yr adeilad, yn awr yw 14 troedfedd o hyd, a thua 25 tunnell o bwysau. Pwysa ar bedair careg o faintiol i aruthrol, y rhai ydynt y traed, neu'r colofnau. Cyn i drigolion yr ardal dori y clawr, yr oedd yn pwysu ar naw colofn, y rhai sydd i'w gweled yn bresenol, ac un o honynt yn llawer mwy na'r lleill.

2. *Cromlech Marcross*.—Gelwir hon "Yr Hen Eglwys," a bernir iddi gael yr enw hwn o herwydd iddi gael ei defnyddio fel Eglwys ar ddechreu y cyfnod Cristionogol; a bernir hefyd fod y Derwyddon ar eu gwaith yn colledu Cristionogaeth, yn cyssegru eu temlau, eu gorseddau, a'u cromlechau, yn Eglwysi. Mae gweddillion cromlech yn mhlwyf Trelales hefyd, yn cael yr enw "Hen Eglwys," yr hon sydd yn debyg i eiddo Marcross.

3. *Cromlechau Dyffryn Goluch*.—Ystyr "Goluch" yw *Addoliad*; ac y mae yn amlwg fod y dyffryn hwn wedi bod yn brif orsaf Dderwyddol Morganwg. Dyffryn Golwg y gelwir y lle yn bresenol, ac y mae yma olion amryw gromlechau, a rhai o honynt yn gyfan yn awr. Mae'r lle hwn yn mhlwyf St. Nicholas, Bro Morganwg. Ger Palas y Dyffryn, preswylfa y diweddar John Bruce Pryse, Ysw., tad yr Anrhydeddus H. A. Bruce, Ysw., y mae'r Gromlech fwyaf yn Ynys Prydain. Ymddengys na wyddai Carnhuanawc am hon, pan y dywedai mai Gromlech Pentref Ifan, yn sir Benfro, yw'r fwyaf yn yr Ynys. Mesuriad Gromlech Pentref Ifan, yw 18 troedfedd o hyd, 9 o led, a 8 o drwch; ond y mae Gromlech y Dyffryn, yn Morganwg, yn 24 troedfedd o hyd, 17 o led yn y man lletaf, a 10 yn y man culaf, a 2½ o drwch; a'i harwyneb yn 324 o droedfeddi ysgwâr. Pwysa ar bump colofn, y rhai a ffurfiant fur o tani ar y tu gogleddol, dwyreiniol, a gorllewinol, gan adael y tu deau yn agored; ac felly, y mae ystafell eang tani, yn 16 troedfedd o hyd, 15 o led, a 6 o uchder; a bernir fod tair troedfedd o yspwriel yn y gwaelod, yr hyn a'i gwna yn 9 troedfedd o uchder. Mae'r golofn ogleddol yn 16 troedfedd o hyd, a'r lleill tua 9 troedfedd yr un. Mae'r adeilad hwn gan mwyaf yn orchuddiedig gan iorwg yn bresenol.

4. *Y Maen Chwyf*.—Saif y maen enwog hwn yn mhlwyf Eglwys Elian, ar du dwyreiniol afon Taf, ger Pontypridd. Mae arwynebedd y Gareg Siglo tua 200 troedfedd, ac yn sefyll ar bigyn tua 2 droedfedd o dryfesur. Mae hwn wedi bod am oesoedd yn Faen Gorsedd Beirdd Morganwg. Yma y derbynient yr Urdd, a'r Drwydded, &c.; ac yn ymyl, y mae'r Cylech, y Sarff Dorchog, &c. Ar y maen hwn y bedyddiodd Dr. Price, Pontypridd, ei ferch, trwy wlychu brigau bedw mewn gwllith, a'i daenellu ar y plentyn, gan ei henwi yn Iarlles Morganwg. Er fod y maen hwn yn pwyso amryw dunnelli, gellir ei siglo yn ol a blaen fel cryd, heb nemawr orchest; a bu yn hawddach ei siglo cyn i ryw ynyfytyn osod ceffylau i'w dynu o'i le gwreiddiol, er mwyn dial ar un o edmygwyr y maen.

## MEINI HYNOD.

Mae lluaws o feini yn Morganwg ac arnynt gerfiadau hynod iawn, ond ni wnawn sylwi ond ar y prif rai.

1. *Maen Ogham Kenffig*.—Tua dechreu'r canrif presenol, daeth amaethwr o hyd i'r maen hwn mewn clawdd; a symmudwyd ef oddi-yno i ymyl y ffordd sydd yn arwain o Genffig i Fargam. Mae tua 5 troedfedd o hyd, ac 1 o led, yn sefyll yn syth yn y ddaiar, ac arno'r cerfiad,—

“*Pumpeius Carantorius.*”

Bu rhai yn coleddu'r syniad mae maen coffadwriaeth Morgan Mwyn-fawr yw, ond y mae'r syniad hwn wedi ei ddirymu yn llwyr gan Mr. J. O. Westwood, yn *Arch. Cam.*, cyf. 1., tu. 182; a bernir yn awr ei fod yn perthyn i'r Rhufeiniaid.

2. *Y Maen Lythyrog*.—Mae hwn ar ben Mynydd Margam, rhwng Aberafan a'r Maesteg; yn 4 troedfedd o hyd, ac arno lun croes, a thani'r cerfiad canlynol:—

“*Bodvacus hic jacit filius Catotis irni pro nepos Aeternali Demo.*”

8. *Maen Marimo*.—Cafwyd y maen hwn, fel llawer o weddillion ereill, wrth wneyd Llongborth Talbot, ger Aberafan, yn 1889. Mae'r cerfiad sydd ar y maen fel y canlyn:—

“*Imp. C. Flav. M.C.L. Maximino.*”

Barna C. R. M. Talbot, Ysw., A.S., mai coffadwriaeth yw hwn am yr Amherawdwr Rhufeinig *Flavius Magnus Clemens Maximinus*, yr hwn, meddir, a anwyd yn Mhrydain, a'i fod yn gefnder i Cystenyn Fawr. Priododd y Maximinus hwn ag Helena, merch Enda, brenin Cernyw; a dywedir mai efe sylfaenodd dref Caerfyrddin. Barna ereill mai coffadwriaeth yw'r maen hwn am yr Ymherawdwr *Maximinus Daza*; a seiliant eu barn ar y ffaith mai argraff bathol hwnw oedd:—“*Imp. Galerius Maximus Inviclus Augustus.*” Etto, gan nad oedd a fynai yr Ymherawdwr hwnw â Phrydain, mae y rhan amlaf o'n hynafiaethwyr bellach yn coleddu y syniad blaenaf. Bernir hefyd fod ar y maen hwn

goffadwriaeth am dad Pawl Hen, syifaenydd Bangor y Tŷ Gwyn ar Daf, am fod ar un tu i'r maen y cerfiad canlynol:—

“*Contusus Pater Paulinus.*”

4. *Maen Eglwys Merthyr.*—Darn o'r hen Dywodfaen Coch yw hwn, ac arno gerfiad eglur a chelfydd, ond nid oes neb yn ei ddeall. Cafwyd y maen wrth dynu hen Eglwys Merthyr i lawr yn 1807; ac wrth adeiladu yr Eglwys bresenol, cafodd y maen hynod hwn ei osod yn nghongl ddwyreiniol mur y gangell, y tu allan, lle ei gwelir yn awr. Cafwyd arch careg y pryd hwnw hefyd, yn cynnwys esgyrn cawr; a bernir mai esgyrn un o'r tri brawd o gawri oeddynt, y rhai a adeiladasant fur ger Caerdydd yn 12 troedfedd o uchder, heb help adeilglwyd (*scaffold.*)

PYNT HYNOD.

1. *Pont Maes-y-Cwmur.*—Mae hon yn croesi afon Rhymni, ac felly yn uno Morganwg a Mynwy. Mae iddi 16 bwa, a'i hyd yn 640 troedfedd, a 180 o uchder. Mae hon yn bont ardderchog; a throsti y rhed llinell cleddrffordd y *Great Western.*

2. *Hen Bont-y-Pridd.*—Mae'r bont enwog hon wedi ei chodi er y flwyddyn 1755. Mae rhychwant ei bwa yn 140 troedfedd, ei huchder yn 85, a lled yr heol drosti yn 11. Cynnwysa ei phedriantau (*haunches*) dri thwll orwn, y naill uwchben y llall; yr isaf yn 9 troedfedd tryfesur, yr ail yn 6, a'r uchaf yn 8, y rhai a wnaed er cryfhau'r muriau i ddal pwysau anferth y bwa. Adeiladwyd hi gan William Edwards, o blwyf Eglwys Elian. (Gwel *Eglwys Elian.*) Rhesir hi yn mhlith pynt un bwa hynotaf y byd, ar gyfrif ei maint a'i hysgafnder. Ni ddefnyddir hi yn awr, gan fod pont hardd arall wedi ei chodi yn ei hymyl yn 1857. Pan oedd yr hen bont yn cael ei ohanmlwydd oed, canodd D. Wyn o Essyllt iddi yr Englyn canlynol:—

“Adeilad un-fwa uwch dyli—Taf,  
Pont hardd llawn mawrhydi;  
Cant oed, yn awr cawn wyt ti,  
Cant arall gai eyn tori.”

3. *Pont Mynwent y Crymwr.*—Adeiladwyd hon tua'r flwyddyn 1840, gan berchenogion Cleddrffordd Cwm Taf, dros afon Taf. Mae hyd y bont yn 600 troedfedd, a 100 o uchder.

4. *Pont y Cefn.*—(Gwel *Afon Taf.*)

5. *Pont Rhydyfen.*—Adeiladwyd y bont ryfedd hon tua'r flwyddyn 1826. Saif yn mhen uchaf Cwm Afan; yn 459 troedfedd o hyd, 75 o uchder, 18 o led, ac iddi bedwar bwa. Prif amcan ei hadeiladu oedd cario dwfr yn groes i'r cwm o un bryn i'r llall. Mae camlas ar ei hyd rhwng dau fur i gludo'r dwfr. Mae'r ddwfr-ffos, neu'r camlas, tua 4 troedfedd o led a 8 o ddyfnder. Pob tu i'r ddwfr-ffos, y mae tramwyfa tua 8 troedfedd o led, a muriau allanol y bont yn ddyogelfa i'r tramwyfeydd hyn. Costiodd ei hadeiladu £16,000.

6. *Pont Glandwr*.—Mae hon tua milldir o Abertawy, ar afon Tawy, yr hon sydd yn 1797 troedfedd o hyd, wedi ei hadeiladu o goed a haiarn yn rhwydwaith prydfferth a chelfydd. Codwyd hi ar draul Cwmni Cledrffordd Deheudir Cymru, a rhed peiriannau a'u cludresi drosti uwchben y dyfnder trochionog.

HYNODION AMRYWIOL.

1. *Ffummer Cwm Afan*.—Mae hon yn 1,100 o droedfeddi o hyd, yn cyrhaedd o waelod y cwm i ben Mynydd y Foel. Mesura y tufewn iddi 8 troedfedd o uchder, a 15 o led; a chostiodd ei gwneyd £4,000. Adeiladwyd hi i ddau ddyben:—1. Sugno'r mwg a'r nwyon afiach o'r Gwaith Copr ar waelod y cwm rhag niweidio iechyd y gweithwyr. 2. Er dâl y mân ronynau o efydd a esgynent gyda'r mwg allan o'r gwaith; ac er cyrhaedd yr amcan hwn, gosodwyd amryw ddôrau yn y Ffummer, mewn pellder neillduol oddiwrth eu gilydd, y rhai sydd yn ei chau yn rhanol, ac y mae'r gronynau wrth daro yn erbyn y rhai hyn yn disgyn i'r gwaelod, a chesglir y llwch ar amserau i'w ail-doddi; a dywedir fod y llwch a gasglwyd fel hyn ynndi, wedi talu traul ei hadeiladu lawer gwaith drosodd. Mae pen uchaf y ffummer yn weledig am lawer o filldroedd, a chwml du o fwg ar ei phen bob amser, ac y mae'r ddaiar o'i hamgylch yn noeth, heb ddim yn tyfu arni o herwydd gwenwyn y mwg.

“Corn uchel anhefelydd—ar goryn  
Oer, garw'r Foel Fynydd  
Yw'r Ffummer, o bellder bydd  
Yn weladwy i wledydd.”—*R. ab Morgan.*

2. *Eglwys a Chlochdŷ Llangyfelach*.—Yr hyn sydd hynod yn y rhai hyn yw, bod y naill wedi ei hadeiladu mewn un man, a'r llall mewn man arall. Mae yn anhawdd penderfynu yr achos o hyn; ond ein barn yw, mai yn mhen amser ar ol adeiladu yr Eglwys yr adeiladwyd y Clochdŷ, ac nad oedd yr awdurdodau plwyfol yn dewis gwneyd cyfnewidiad yn y blaenaf wrth adeiladu yr olaf, ac felly iddynt godi'r Clochdŷ mewn cwr arall o'r fynwent. Mae hen draddodiad ar lafar gwlad mai methu adeiladu'r Clochdŷ yn nghlyn â'r Eglwys wnaed, a bod yr hyn a godid y dydd yn syrthio y nos; ac un diwrnod i adeiladydd dafu ei forthwyl oddiar ben y mur, gan gynnig ar fod i'r Clochdŷ gael ei adeiladu yn y man y disgynai, ac i bawb gyduno, ac felly y bu, ac ni syrthiodd mwy.

3. *Carnedd Cwm Parc, Bro Gwyr*.—Mae lluaws mawr o Garneddau ar fynyddau Morganwg, ond ychydig sylw sydd yn cael ei dalu iddynt, ac nid oes wobodaeth pwy a'u cododd, na pha bryd, nac i ba ddyben; ond y mae agoriad diweddar Carnedd Cwmparc yn awgrymu eu bod gynt yn lleoedd cyssegredig, a bod gweddillion ein hynafiaid yn gorwedd dan amryw o honnynt. Yr oedd y Garnedd hon ar dir Mr. Vivian, yn mhlwyf Penmaen; yn mesur 5 troedfedd o uchder, 50 tryfesur yn un ffordd, a 80 y ffordd arall. Yn ngwanwyn y flwyddyn 1869, gorehymynodd y perchenog wneyd heol newydd trwy'r tir ger y



Garnedd, a darfu i'r gweithwyr ddechreu defnyddio ceryg y Garn i garegu yr heol, yr hyn a barodd i natur y twmpath ddyfod i'r golwg. Wedi clirio cryn lawer o'r ceryg ar du gogleddol y Garnedd, daeth y dynion o hyd i feini wedi eu gosod yn uniongyth yn y ddaiar, fel ag i ffurfio ystafell. Pan hyspyswyd hyn i Mr. Vivian, rhoddwyd atalfa ar y gwaith yn union. Ar y 14eg o Awst, 1869, aeth ef ac amryw foneddwy'r perthynol i Gymdeithas Hynafiaethau Cymru i'r lle i chwilio'r Garnedd, er gweled beth oedd ynddi. Wedi clirio'r ceryg rhyddion ymaith, cafwyd allan ei bod yn cynnwys pedair ystafell, y rhai a droisant allan i fod yn bedwar bedd. Yr oedd yr adeilad wedi ei drefnu yn y fath fodd, fel yr oedd mynedfa trwyddo, 16 troedfedd o hyd a 12 o led yn un pen, ac yn lleihau hyd 8 yn y pen culaf. Yna yr oedd y tyndfa, neu'r llwybr, yn parhau am 17 troedfedd drachefn, wrth 8 o led, a beddau ar bob ochr. Wrth chwilio'r beddau, deuwyd o hyd i esgyrn 24 o bersonau, y rhai a archeiliwyd yn fanwl gan Dr. D. M. Douglas. Barnai ef eu bod yn gwahaniaethu o ran oedran, o 8 hyd 70 mlwydd; a synwyd ef gan drwch esgyrn rhai o'r penau, a barnai eu bod yn eiddo dynion o faintioli mawr iawn. Nid oes wybodaeth pa bryd y claddwyd y rhai hyn, ond amlwg yw eu bod dan y Garnedd er ys amryw ganoeedd o flynyddau; a thebyg yw, mai claddfeydd cyffelyb yw lluaws o'r Carneddau ereill sydd yn y Sir.

4. *Y Twmpath Diwlith.*—Math o Garnedd Bridd yw'r twmpath hynod hwn, ar ben Mynydd Margam. Mae tua 250 o droedfeddi o amgylchedd, ac o gryn uchder. Yr hyn sydd hynod ynddo yw, nad oes gwlith un anser arno. Dywedir na welwyd defnyn o wlith erioed arno hyd y nôd pan fyddai y mynydd o'i amgylch yn wlyb gan wlith, a hyn fu yr aches o'i enwi yn "Dwmpath Diwlith."

#### DAIAREG MORGANWG.

Gogoniant Morganwg yw trysorau cuddiedig ei seleri: Mae llawer wedi ei ysgrifenu o bryd i bryd ar Faes Glo Deheudir Cymru, ac addefir gan y daiaregwyr galluocaf, ei fod y Maes Glo perffeithiaf a chyssonaf yn yr holl fyd. Saif Morganwg megys ar ganol y maes hwn, sef yn y man y mae'r trysorau oraf o ran natur.

Prif fwnau, neu drysorau daiaregol, Morganwg ydynt Greigiau Calch, sef y Galch-graig Wyol (*Oolite*), y Galch-graig Fynyddig, ychydig o'r Galch-graig Fagnesaid, ychydig Fwn Plwm, a digonedd o Fwn Haiarn a Glo.

Rhenir crawen y ddaiar yn haenau naturiol; ac y mae gan ddaiaregwyr enwau neillduol ar yr haenau hyn; ac er mwyn trefn, sylwn ar y gwahanol haenau yn ol eu sefyllfaoedd yn y ddaiar, gan ddechreu gyda'r ffurfiad uchaf a diweddaraf, a myned ddyfnach, ddyfnach fel y byddwn yn myned yn mlaen.

Y ffurfiad uchaf yn Morganwg yw y Dwfr-gludol (*Alluvial and drift deposits*), yr hwn a geir ger Pentyrch, ger Castell Hensol, Llantrisant, &c.

## Y GALCH-GRAIG WYOL (OOLAIDE).

Mae'r Galch-graig ragorol hon o ffurfiad diweddarach na'r Gwelyau Glo, ac felly yn gorwedd yn uwch yn nghrawen (*crust*) y ddaiar. Yr haen isf yn y dosparth Oolaidd, neu Wyol, yw y *Lias*, yr hon graig sydd yn ffurfio gwaelod holl Fro Morganwg, gan ymestyn o ymyl Caerdydd ar y tu dwyrain, hyd yn agos i'r Pil yn y gorllewin. Mae y *Lias*, fel rheol, yn gorwedd ar greigiau y Dosparth Triasaidd (*Triassic*), sef y Tywodfaen Coch Newydd; ond y mae ychydig eithriadau i'r rheol hon yn Fro Morganwg. Rhwng y Pil a Phenybont, mae'r *Lias* yn ei lle priodol, ar y Creigiau Triasaidd. Ychydig yn ddeheuol i hyn, sef o Aberogwy hyd y Bontfaen, mae'r *Lias* yn gorwedd ar y Galch-graig Fynyddig, yr hon, yn y parth hwn, sydd wedi bod dan ddyllanwad cynhyrfaeau daiargrynfaol, nes ei chodi o'i gwely priodol. Ar y Creigiau Calch Mynyddig hefyd, y gorwedd y *Lias* yn ardaloedd Tregolwyn, Ewenni, Southerdown, a Dindryfan.

Yn Llanfeiddian Fawr, tua mildir i'r deau o'r Bontfaen, y mae'r Galch-graig Fynyddig yn codi i'r arwyneb, fel pe wedi ei gwthio i fyny trwy y *Lias*, yr hon sydd yn ffurfio ymyl neu wreigs o gwmpas yr un fynyddig.

Ger Llanbedr y Fro, ar lan afon Elai, y mae'r *Lias* yn gorwedd ar y Tywodfaen Coch Hen (*Old Red Sandstone*), yr hyn a ddengys yn amlwg fod yma gryn gymmysgfa. Lleodd manteisiol iawn i weled ac efrydu y Creigiau Wyol, yw ger Ynys Barri, lle y mae amryw haenau wedi eu codi i fyny gan *fault*. Mae Trwyn Penarth, Pwynt Lavernock, a chydau glan y môr ger Dindryfan, &c., yn lleoedd manteisiol iawn hefyd. Mae creigiau y dosparth hwn yn cynnwys llawer iawn o gregyn *ffoselaidd* o wahanol fathau. Mae'r calch a wneir o'r *Lias* yn un rhagorol at wneyd cynmrwd (*morter*), a medda ar y priodoedd o galedu mewn dwfr; a thrwy hyny, y mae wedi cyrhaedd enwogrwydd mawr, ac y mae llawer o alw am dano yn y sir hon a siroedd ereill. Yr enw a roddir iddo yn gyffredin yw "Calch Aberddawen."

## Y TYWODFAEN COCH NEWYDD.

Gelwir hwn y "Dosparth Triasaidd" gan rai. Cafodd y creigiau hyn yr enw *Triassic* gan ddaiaregwyr Germanaidd, am eu bod yn y wlad hono yn ffurfio tair haen:—1. Claibridd (*Marl*) amryliw; 2. Calchfaen a elwir *Muschelkalk*; 3. Tywodfaen brith. Cafodd yr enw "Tywodfaen Coch Newydd" (*New Red Sandstone*) er mwyn ei wahaniaethu oddiwrth y Tywodfaen Coch Hen. Mae safle y Tywodfaen Coch Newydd yn y ddaiar uwchlaw y Dosparth Carbonaidd, sef y Galch-graig Fynyddig, y Gwelyau Glo, &c., tra y gorwedd yr Hen Dywodfaen Coch dan y Dosparth Carbonaidd. Y manau y ceir y Tywodfaen Coch Newydd yn Morganwg, yw ger Llanbedr y Fro, Penarth, y Coetty, a'r Pil.

## Y DOSPARTH PERMAIDD.

Mae'r Creigiau hyn yn gorwedd dan y Tywodfaen Coch Newydd. Cawsant yr enw "Permaidd" oddiwrth wlad Perm yn Rwsia, lle

mae'r math hyn o greigiau yn ymestyn am gannoedd o filldiredid yn mhob cyfeiriad. Ceir y Creigiau hyn yn Morganwg yn dra helaeth, yn ardal oedd Llandaf, y Rhadyr, St. Ffagan, Llanharan, Llanharri, a Llantrisant. I'r dosparth hyn o greigiau y perthyn Mŵn Coch (*Heamite*) cymmydogaeth Llantrisant.

Y DOSPARTH CARBONAIDD (CARBONIFEROUS SYSTEM).

Dyma'r prif ddosparth o greigiau sydd yn ffurfio gwaelod holl Sir Forganwg, oddieithr y Fro, lle mae'r Lias yn ffurfio'r gwaelod, fel y sylwyd eisoes. Mae'r Dosparth Carbonaidd tua 4,250 o droedfeddi o drweh mewn rhai manau, ac yn cynnwys yr holl haenau glo a mŵn haiarn eleiog (*Argillaceous Carbonate Iron Stone*), yn nghyda'r gwahanol greigiau sydd rhyngddynt; a'r Graig Lwyd (*Farwell Rock*), y Gritfaen (*Millstone Grit*), a'r Galch-graig Fynyddig, y rhai sydd dan y mŵn a'r glo.

Mae'r Galch-graig Fynyddig fel dysgl fawr, yn pwyso ar y Tywodfaen Coch Hen; ac y mae'r gwahanol haenau o fŵn haiarn a glo fel cynnifer o deisenau wedi eu gosod ar eu gilydd ar y ddysgl Galch-graig. Dim ond ymylau y ddysgl sydd yn y golwg,—mae y canol yn rhy ddwfn i ni ei weled, a'r lluaws teisenau a nodwyd yn ei guddio o'n golwg. Mae ymyl gogleddol y Galch-graig Fynyddig fel yn ffurfio ffin gogleddol y Sir, gan ddechreu ar y Twynau Gwynion, lle y cloddir ceryg calch at wasanaeth Gweithfeydd Rhymini; ac ymestyna oddiyno heibio Castell Morlais, lle y cloddir ceryg calch at weithfeydd Dowlais a Marthyr; ac oddiyno dan y ddwy Daf, gyda chwyr gogleddol Morganwg, i blwyf Penderyn (Brycheiniog); ac ymestyna oddiyno yn orllewinol gyda gogleddbarth Morganwg, nes cyrhaedd sir Gaerfyrddin. Mae'r ymyl deheuol yn weledig yn nghwr gorllewinol Morganwg, yn Mhen-y-Pyrod (*Worm's Head*), Bro Gwyr, ac ymestyna o Ben-y-Pyrod, gydag ochr ddeheuol Browyr, hyd Ystumllwynarth (*Oystermouth*), lle yr â o dan Gilfôr Abertawy. Ymddengys drachefn yn Aberogwy, ac oddiyno cymmer gwrs dwyreiniol nes cyrhaedd Llantrisant, Pentyrch, a Chaerfili; ac oddiyno, dan afon Rhymini, i sir Fynwy.

Mae trwch y Galch-graig Fynyddig yn Morganwg, yn amrywio o 500 hyd 1,500 o droedfeddi. Mae'r trwch mwyaf yn Mro Gwyr, a'r trwch lleiaf yn yr ymyl gogleddol. Mae ychwanegu ar ddefnyddioldeb y Galch-graig Fynyddig mewn amaethyddiaeth, adeiladaeth, yn ngwneuthuriad haiarn, &c., sylwn ar brif adnodd masnachol Morganwg mewn ystyr ddaiaregol, &c.

Y GLO.

Mae awduron yn barnu yn wahanol iawn i'w gilydd gyda golwg ar *Ffurfiad y Glo* ar y cyntaf. Tybia un dosparth iddo gael ei greu "yn y dechreu" yn y dull ag y ceir ef yn bresenol; ac na fu yr un cyfnewidiad arno o gwbl. Barna awduron ereill ei fod o ddechreuad llysiennol; ond gwahaniaethant yn eu barnau am ei ffurfiad yn faesydd amrywiol a gwasgareddig fel ag eu ceir yn bresenol.

Barna un dosparth o ddaiaregwyr i'r glo gael ei ffurfio o goedydd a llyisiau a dyfent mewn helaethrwydd yn amser ei ffurfriad yn y manau lle y ceir y glo yn awr; ac i'r coedydd suddo dan ddwfr, a'u gorchuddio gan laid a thywod; ac yn y sefyllfa orchuddiedig hono, i'r coed a'r llyisiau fyned dan gyfnewidiad fferyllol, nes troi yn haen o lô; ac i'r laid a'r pridd ar wyneb yr haen isaf ffurfio gwely i goedwigfa newydd dyfu arno, ac i hono suddo drachefn fel y blaenaf; a bod hyn wedi ei gario yn mlaen am gyfnod maith, nes ffurfio y llauws gwythienau glo sydd yn gorwedd yn rheolaidd, y naill uwchben y llall, yn nghrawen y ddaiar. Seilia y dosparth hwn ei farn ar y ffaith ganlynol a'i chyffelyb:—Mae yn Nova Scotia, mewn lle a elwir Joggings, rês o greigiau yn sefyll yn unionsyth (*perpendicular*) braidd, y rhai sydd yn cynnwys llauws o haenau o lô, yn gwahaniaethu o ran trwch o ddwy fodfedd i bedair troedfedd. Mae nifer yr haenau hyn yn 16; ac mewn 10 o honynt, mae gweddillion coed yn ddigon amlwg, a'r rhai hyn yn gorwedd yn wastad: hyny yw, yn groes i drwch y glo. Pe buasai y creigiau yn wastad, buasai y gweddillion hyn yn unionsyth. Yr achos, meddant, eu bod yn eu ffurf bresenol yw, fod y creigiau wedi eu tafu i fyny o'u ffurf wastad gan ddaiargryn; o ganlyniad, fod y coed fuont gynt yn tyfu yn unionsyth, yn awr yn gorwedd, ac fel yr oeddynt pan yn tyfu yn y lle. Nid oes yn ngweddill o'r coed hyn ond y rhisgl yn unig, yr hwn sydd yn ffurfio amwisg o lô am golofn o gleigraig neu dywodfaen. Amrywia y gweddillion hyn o 6 troedfedd i 25 troedfedd o hyd, ac o 14 modfedd i 4 troedfedd o dryfesur.

Dosparth arall o ddaiaregwyr a farnant fod y sylweddau llysieuol sydd yn ffurfio'r glo wedi tyfu yn mharthau mewnol y tiroedd, ac wedi eu cludo gan orlifiadau afonydd i lanau'r moroedd, a'u pentyru yno ar eu gilydd, a'u gorchuddio drachefn gan bridd, llaid, &c.; ac i'r coed a'r llyisiau yn eu sefyllfa gladdedig fyned dan gyfnewidiad trwy ymweithiad fferyllol cryf, nes troi yn haen o lô. Y sail i'r farn hon yw, fod y glo yn gorwedd ar y Galch-graig Fynyddig, yr hon, yn ol barn y dosparth hwn, sydd yn cynnwys gweddillion morawl.

Gwrthwynebir y dybiaeth hon gan y dosparth blaenaf, am nad yw yn ymddangos yn debygol y buasai y glo yn haenau rheolaidd pe cludasid y coed a'r llyisiau i lan y môr gan orlifiadau, ond y buasai yn hytrach yn bentwr annhrefnus a chymmysgedig o bridd, ceryg, a glo. Dadleuant hefyd mai mewn dwfr croyw y ffurfiwyd y Galch-graig Fynyddig, ac nid yn y môr.

Amryw flynyddau yn ol, dygwyddodd amgylchiad yn Maes Glo De-heudir Cymru, sydd a thuedd ynddo i ddwyn syniad hollol newydd i mewn am ffurfriad y glo. Wrth dori yr hyn a elwir *open cut* mewn man, tarawyd i ffrwd fechan, yr hon a gludai fan ronynau brithrywiog o glai, gro, a sylweddau ereill. Ychydig o'i tharddle, ymarllwysai i lyn bychan, ar wyneb yr hwn yr ymgasglodd plisgen deneu o sylwedd pyg-gleiol (*bituminous*). Tra yr oedd boneddwr deallus yn sylwi yn fanwl ar wyneb y llyn, dygwyddodd i frigrin bychan gael ei gludo iddo gan y ffrwd; a chyda ei fod yn y llyn, fe safodd yn llongydd. Pan ddaeth i gyffyrddiad â'r gorchudd pyg-gleiol, canfyddwyd arwyddion

fod ffrydiau bychain o drydan yn ymadael a'r brigyn, yr hyn a aflonyddai y croen ar wyneb y dwfr. Cymmerodd y cynhyrfaadau hyn le chwech neu saith o weithiau, a thuag eiliad rhwng y naill a'r llall. Yna suddodd y brigyn dan y croen, gan nofio am beth amser rhwng yr arwyneb a'r gwaelod; ac ysgogai i lawr ac i fyny, nes o'r diwedd iddo fyned i'r gwaelod. Yn union wedi iddo fyned i'r gwaelod, cymmerwyd ef i fyny gan y boneddwr; ac er ei fawr syndod, yr oedd y rhisgl wedi ei orchuddio âg haen deneu o byg-glai, tra'r sylwedd mewnol wedi ymadael, ac ychydig dywod mân o fewn y rhisgl yn ei le. Wrth weled hyn, gosodwyd amryw frigau yn olynol yn y ffrwd, a dygwyddodd yr unrhyw ganlyniad i bob un o honynt. Oddiwrth yr amgylchiad hynod hwn, y penderfyniad y daeth y boneddwr hwnw iddo am ffurfiad y glo oedd hyn:—Iddo gael ei ffurfio ar wyneb y dwfr trwy ddylanwad trydanol ar elfenau brithrywiol o byg-glai a sylweddau ereill wedi eu tynu o'r byd llysieuol, mwnol, ac anifeilaidd.—(*Coal Field of South Wales*, p. 141-2.)

Mae un dosparth etto, sydd yn barnu yn wahanol iawn i'r rhai a nodwyd, am ffurfiad y glo; a thueddir fi i gredu mai barn y dosparth hwn sydd gywiraf. Barna'r dosparth hwn mai'r cyfnewidiad fferyllol cyntaf a gymmer le yn nghyfansoddiad llysiâu cyn ymffurfio yn lô, yw troi yn Fawn (*Peat*). Dyma farn Dr. Göppert, i'r hwn y dyfarnwyd y wobr o £100 am y Traethawd goraf ar "Ffurfiad y Glo," gan Gymdeithas Wyddonol Hearlein, yn 1846. Dadleua y Profeswr Göppert dros y syniad hwn, am fod llawer o'r haenau glo a geir yn bresenol yn y ddaiar yn fwy o drwch nag a allai unrhyw blangfa gynnyrchu, tra y mae digon o fawnogydd i'w cael yn 40 neu 50 troedfedd o drwch. Dengys hefyd mai mwy tebygol a rhesymol yw, fod y llysiâu yn tyfu, yna yn marw, a dadgyfansoddi, a llysiâu ereill yn tyfu yn eu lle o flwyddyn i flwyddyn, nes ffurfio gwely o fawn, a hwnw drachefn yn nghwrs amser yn troi yn haen o lô trwy ymweithiad fferyllol cryf, na bod y llysiâu yn cael eu cludo gan aflonydd, &c. Rheswm arall dros y golygiad hwn yw, pa ddyfnaf y cloddir mewn mawnog, tebycaf i lô yw'r mawn; ac os yw y syniad hwn yn iawn, yn mhen cyfnodau meithion etto, bydd y mawnogydd presenol yn gynnifer o haenau o lô toreithiog a defnyddiol.

#### ELFENAU CYFANSAWDD Y GLO.

Wrth ddostranu (*analysing*) y Glo, ceir ei fod yn cynnwys yr elfenau canlynol:—*Carbon, Hydrogen, Nitrogen, Sulphur, Oxygen*, a Lluadw. Yr wyf yn rhoddi yr enwau hyn fel y maent yn arferedig, yn hytrach na'r enwau Cymreig Llosgfaen, Blornwy, &c., am y barnwyf eu bod yn fwy dealladwy felly.

Ar gyfartaledd y gwahanol sylweddau a nodwyd, yr ymddibyna gwerth, natur, ac ansawdd y glo. Rhenir y glo i dri math, sef Glo Rhwym (*Bituminous Coal*), Glo Rhydd Losgiad, a elwir yn fwy cyffredin wrth yr enw Glo Ager (*Free Burning, or Steam Coal*), a Glo Careg (*Anthracite Coal*); ac y mae'r tri math yn Morganwg. Tuag at


welod elfennau syfansawdd y naill a'r llall o honnynt, cyfleaf yma y tafleni canlynol allan o *Museum of Practical Geology*, gan Syr Henry De la Beche a Dr. Lyon Playfair.

| GLO CARRG. |         | GLO RHWTM. |         | GLO AGER. |         |
|------------|---------|------------|---------|-----------|---------|
| Carbon     | 84. 25. | Carbon     | 88. 12. | Carbon    | 91. 19. |
| Hydrogen   | 5. 61.  | Hydrogen   | 4. 81.  | Hydrogen  | 8. 44.  |
| Nitrogen   | 1. 56.  | Nitrogen   | 1. 45.  | Nitrogen  | 0. 21.  |
| Sulphur    | 1. 21.  | Sulphur    | 1. 77.  | Sulphur   | 1. 72.  |
| Oxygen     | 8. 52.  | Oxygen     | 1. 88.  | Oxygen    | 2. 82.  |
| Lludw      | 8. 26.  | Lludw      | 8. 84.  | Lludw     | 1. 55.  |

Mae'r gwahaniaeth hyn yn nghyfansoddiad y glo, yr hyn a roddir yma ar gyfartaledd, yn gwneyd llawer o wahaniaeth yn ei bris yn y farchnad, ac hefyd yn ei ddefnyddioldeb at wahanol ddybenion.


#### FFURF CAWG MWNOL MORGANWG.

Dywed F. Moses, Ysw., C.E., ac ereill, fod ffurf yr haenau yn Maes Glo Morganwg yn debyg i ddau gafn mawr, wedi eu gosod ochr yn ochr, a'u cyfeiriad o'r dwyrain i'r gorllewin, y rhai a alwent y Cafn Gogleddol a'r Cafn Deheuol; a galwant yr ymylon a gyffyrddant a'u gilydd o'r cefnau dychymmygol hyn, wrth yr enw Cefn y Cyfrwy. Rhywbeth yn debyg i hyn:—



Dywed coleddwyr y syniad hwn am Faes Glo Morganwg, fod y gwythieni yn rhedeg ar oledd o'r Brig Gogleddol, ac yna yn codi i Gefn y Cyfrwy; a goleddu i lawr drachefn i waelod y Cafn Deheuol, a chodi oddiyno i'r Brig Deheuol.

Mor bell ag y mae fy ymchwiliad i wedi myned yn y mater hwn, yr wyf yn cael y darluniad yn anghywir. Yr wyf wedi methu cael mwy nag un cafn, neu gawg yma, ffurf yr hwn sydd yn debyg i hyn:—



O'r Brig Gogleddol hyd waelod y cawg, goledda'r haenau tua 12 y cant, sef tua 4 modfedd y llath; ac o waelod y cawg i'r Brig Deheuol, codant tua 40 y cant, sef tua 15 modfedd y llath. Fel rheol, dyna ffurf y cawg, ond ceir ynddo yr hyn a elwir "Pedyll" mewn rhai manau, fel pe bae rhanau o'r cawg wedi pantu, nes yw goleddiad yr haenau yn y manau hynny yn amrywio. Ceir enghreifftiau o hyn yn Blaen Rhondda, Blaenllechau, &c. Yn yr olaf, gostynga'r haenau 60 gradd De-ddwyr. Mae Brig Gogleddol y Glo yn dilyn cyfeiriad y Galch-graig Fynyddig, ond yn fwy i'r de. Ceir ef yn brigo allan yn afon Rhymini, yn agos i'r Hen Ffwrnes Uchaf, ac oddiyno ymestyna gyda gogledd-barth Morganwg heibio Dowlais, Merthyr, Hirwain, Cwm-nedd, Onllwyn, Ystalyfera, Cwm Twroh, a Brynaman.

Rhed y Brig Deheuol hefyd o ddwyrain i orllewin, gan ddechreu yn Morganwg yn ardal Machen, ac oddiyno heibio Caerffili, Pent-y-roh, Llantrisant, Llanharri, y Ton Du, Mynydd Cefnfig, a'r Pil, ac yna dan y môr.

Rhwng y ddau frig a nodwyd, y gorwedd y gwythieni uchaf, sef Dosparth Mynydd Islwyn, y rhai a weithir yn ardal Pontypridd, y Gilfach Goch, Blaen Ogwy, Maesteg, Bryntroedgam, Owmafan, Castellnedd, Llansamlet, Llangyfelach, &c.; ac y maent yn gorwedd ar *Graigiau Pennant*; a gelwir y parth lle eu gweithir, fel y sylwyd, yn *Gefu* y Cyfrwy, er nad yw y cawg o'r ffurf hynny. Glo Rhwym yw y gwythieni uchaf, sef Dosparth Mynydd Islwyn, i gyd, ac adnabyddir ef wrth yr enw "Glo Tai" (*House Coal*). Mae ychydig o natur rhwymo yn y gwythieni isaf hefyd yn Rhymini, ond yn myned yn llai rhwym wrth ymestyn tua'r gorllewin, fel y maent yn lo ager rhydd-losgiad yn ardaloedd Merthyr, Aberdar, a Ohwm Rhondda; ac erbyn cyrhaedd Cwm Nedd, y maent yn hanner Glo Careg (*Semi-Anthracite*); ac yn Nghwm Tawy, Llangiwc, &c., y mae'r un glo, neu'r un gwythieni, wedi troi yn Lo Carreg.

Cymmer y cyfnewidiad hwn le mor raddol yn natur y gwythieni, o'r rhwym i'r garreg, fel nas gellir nodi gydag un math o sierwydd yn mha le y mae yn cyfnewid; ond y mae fel lliwiau Bwa'r Enfys, y naill yn ymdoddi i'r llall. Dywedir pa fodd bynag mai yn ngwaith y Gyfarthfa y ceir yr arwyddion cyntaf o Lo Carreg; a dichon mai *Fault Fawr* Merthyr sydd yn achosi'r cyfnewidiad. Amlwg gan hynny yw, mai rhwng afon Taf ac afon Rhymini y mae'r Glo Ager goraf yn y Brig Gogleddol; ac nid hynny yn unig, ond y goraf yn y deyrnas. Er cadarnhau hyn, gellir hysbysu fod Llywodraeth Prydain, yn y prawf diweddaf a wnaed ar y Glo at wasanaeth y Llynges, wedi cydnabod Glo Dowlais y goraf yn y wlad. Nid oes eisiau canmol Glo Ager dyffrynoedd Aberdar a Rhondda ychwaith, oblegid y mae ei glod a'i ddefnyddioldeb yn daenedig dros y byd.

Glo Rhwym sydd yn rhedeg yn un llinell o afon Rhymini, heibio Pontypridd, Maesteg, Owmafan, ac oddiyno hyd Langyfelach, &c. Defnyddir ef gan mwyaf at wasanaeth teuluaid, ac yn y gweithfeydd haiarn, tin, ac efydd; a gwneir llawer o hono yn ologlo (*coke*). Mae glo'r Brig Deheuol fel eiddo'r Brig Gogleddol o ran ei natur.

Wrth sôn am Lo Rhwym, cofier nad yw yr hyn a elwir yn Lo Rhwym yn Morganwg, nac yn un man yn Neheudir Cymru, yn agos mor rhwym a pheth o lo Gogledd Lloegr, Sir Flint, &c. Ychydig rhy fach o natur rhwymo sydd yn nglo ager cymoedd Aberdar a Rhondda, a diamheu y gellid ei wneyd yn llawer gwell, pe cymmysgid ychydig o'r Glo Tai ag ef, neu gymmysgu glo Morganwg a Mynwy a'u gilydd.

Mantais fawr tuag at weithio y gwahanol wythieni yw, bod y wlad yn fynyddig; fel y gellir gyrru leflau (*levels*) yn ochrau y mynyddau at y gwythieni uchaf. Oni bai hyn buasai yn anhawdd, os nad yn annichonadwy gweithio yr haenau isaf, am y buasai yn rhaid cloddio pyllau o 800 i 1,000 o latheni o ddyfnder cyn eu cyrhaedd.

Mae o'r arwyneb hyd waelod y Galchgraig Fynyddig, ryw 500 o wahanol haenau o greigiau, yn amrywio mewn trwch a hanner modfedd hyd 188 o latheni; ond gan fod yr haenau glo uchaf ar Greigiau Pennant, y rhai sydd yn 188 o latheni o drwch, ac yn ffurfio llawer o fynyddau Morganwg, ceir y glo sydd arnynt heb gloddio yn ddwfn. O'r tu arall, gan fod dosparth y gwythieni isaf, sef y Glo Ager, dan Greigiau Pennant, arbedir suddo trwyddynt trwy agor pyllau yn y dyffirnoedd. Mae Maes Glo Morganwg yn 546 o filldroedd ysgwar o arwyneb; 84 o'r cyfryw sydd yn Lo Carreg.

Yn ol y "*Philosophical Transactions*" Vol. xcvi, p. 845, lley dangosir fod yn Maes Glo Deheudir Cymru 95 troedfedd o drwch o lo gweithadwy, neu 64,000,000 tunnell yn mhob milldir ysgwar, profir hefyd fod yma ddigon o hono i barhau dros *fil o fynyddau*, a'i weithio ar y raddfa eang bresenol.

Swm y glo anfonwyd o holl borthladdoedd Morganwg yn 1870 oedd 4,884,767 o dunnelli; sef 1,415,677 i wahanol borthladdoedd y deyrnas hon, a 2,969,090 i wledydd tramor; gyda 12,592 o dunnelli o ologlo (*coke*); ac os na ychwanegir y swm blynyddol yn y dyfodol, mae yma ddigon o lo yn seleri Morganwg am oesoedd lawer.

Cryn anhawsder yw rhoi desgriiad cywir o'r gwahanol haenau, am fod eu trwch yn gwahaniaethu mewn gwahanol ardaloedd, ac yn fynych yn yr un Lofa. Ceir gwythieni hefyd mewn rhai manau yn un o'r top i'r gwaelod; ac mewn manau ereill bydd haen o graig yn y danol, nes bydd y glo yn ddwy haen.

Dyryswech arall yw, fod cynnifer o wahanol enwau yn cael eu harfer ar yr un wythien, ond mewn gwahanol fanau. Er enghraifft, yn Rhymni, a Sir Fynwy, gelwir un wythien "*Yr Eled*;" yn Merthyr gelwir hi Y Llathen; ac yn Aberdar a Chwm Rhondda, gelwir hi Y Ddwy a Naw. Gelwir haen arall yn Merthyr wrth yr enwau Hen Wythien, a'r Gloyn Mawr; yr hon a elwir y Chwech Troedfedd yn Aberdar a Chwm Rhondda. Gwythien Naw Troedfedd Cwm Aberdar a Rhondda, a elwir Y Rhes Las yn Merthyr a Dowlais. Gelwir yr haenau sydd dan y wythien Naw Troedfedd wrth luaws o enwau, megys Y Ddau Lo, Glo Trybeddau, Y Wythien Bresaid, rhif 1, 2, 8, a 4. Saith Troedfedd y Gadlys, Y Gellideg, &c.; ond diamheu mai yr enwau goreu ar y rhai hyn yw a ganlyn:—*Dirty Vein*, Rhif. 1,



Dirty Vein, 2il, Y Saith Troedfedd, Dirty Vein, Rhif. 8, a'r Pedair Troedfedd isaf, yr hon a elwir Y Gellideg.

Gelwir y Glo Tai yn ngodre Cwm Rhondda wrth yr enwau No. 1, No. 2, a No. 8. Gwythien arall a elwir Y Graig, neu lo Abergorchwy : a gwythien arall a elwir Glo'r Pinau Duon yn Merthyr, a elwir Y Gorllwyn yn Aberdar, &c. Byddai yn fantais fawr pe mabwysiedid yr un enwau ar y gwythieni yn mhob ardal ; ond yn lle hyny, y mae gan lowyr pob ardal eu henwau neillduol eu hunain ar y gwythieni, fel y gwelir etto wrth fyned yn mlaen.

Yn y Brig Gogleddol, saif y prif wythieni yn y ddaiar fel y canlyn :—

1. Dosparth Mynydd Islwyn yn uchaf.
2. Y Graig Fach ; a weithir ger copa'r mynydd yn ymyl Hirwaun.
3. Y Graig, neu Lo Abergorci, neu Lo uchaf Troedyrhiw.
4. Y Gorllwyn, neu Lo'r Pinau Duon.
5. Y Ddwy a Naw, neu'r Eled.
6. Y Pedair Troedfedd Uchaf.
7. Y Llathen, neu Lo Top Ffos-y-fran.
8. Y Chwech Troedfedd.
9. Y Wythien Goch, neu'r Lathen dan y ChwechTroedfedd.
10. Y Naw Troedfedd, neu y Rhes Las.
11. Y Wythien Front, Rhif. 1. (*Dirty Vein, No. 1.*)
12. Yr Ail Wythien Front (*Dirty Vein, No. 2.*)
13. Y Saith Troedfedd, neu'r Gadlys.
14. Y Drydded Wythien Front (*Dirty Vein, No. 3.*)
15. Y Pedair Troedfedd Isaf, neu'r Gellideg.

Mae amryw fan wythieni rhwng rhai o'r gwythieni hyn, ond dyma y prif haenau, yn Merthyr, Aberdar, a'r Rhondda. Prif wythieni y Glo Ager, ydynt y 2 a 9, y 4 troedfedd uchaf, y 6 a'r 9. Gwahaniaetha y rhai hyn o ran trwch yn fawr, fel y dengys y daflen ganlynol.

ENWAU'R GWYTHIENI A'U TRWCH.

| ARDALOEDD.                   | Y 2 A 9.      | Y 4 UCHAF.     | Y 6 TROED.     | Y 9 TROED.       |
|------------------------------|---------------|----------------|----------------|------------------|
| Fochriw Dowlais              |               | 2. 7. i 3. 7.  | 3. 7. i 5. 0.  | 5. 6. i 9. 0.    |
| Cyfarledd yn Merthyr         | 8. 0. i 8. 6. | 3. 9. i 5. 6.  | 3. 8. i 5. 10. | 7. 8. hyd 10. 0. |
| "    "    Aberdar            | 2. 9. i 3. 6. | 3. 6. i 5. 6.  | 3. 8. i 7. 6.  | 7. 0. i 12. 0.   |
| "    "    Cwm Rhondda        | 2. 9. i 3. 6. | 4. 0. i 4. 8.  | 4. 0.          | 5. 4.            |
| <i>Glofeydd Neillduol :—</i> |               |                |                |                  |
| Y Seubor Wen, Aberdar        | 2. 9.         | 3. 6.          | 7. 6.          | 6. 9. i 12. 0.   |
| Bwlifa Dar                   | 2. 5.         | 3. 10.         | 3. 10.         |                  |
| Merthyr Dar                  | 2. 6. i 2. 9. | 3. 10. i 4. 6. | 3. 10.         | 7. 0. i 10. 0.   |
| Abernant                     | 3. 0.         | 5. 6.          | 3. 10.         | 9. 0. i 12. 0.   |
| Cwmbach                      | 2. 8.         | 5. 4.          | 3. 10.         | 8. 0. i 10. 0.   |
| Bute Merthyr, C. Rhondda     | 2. 11.        | 4. 0.          |                |                  |
| Ty Newydd                    | 2. 9.         | 4. 8.          | 4. 0.          |                  |
| Tyle Coch                    | 3. 6.         |                |                |                  |
| Pwll y Pentre                | 4. 2.         |                |                |                  |
| Blaenllechau                 | 4. 0.         | 5. 6.          | Glo Bach 3. 9. |                  |

## TRWCH AMRYWIOL Y WYTHIEN 7 TROEDFEDD A'R 4 ISAF.

| GLOFYDD.            | Y 7 TROED. | Y 4 ISAF. |
|---------------------|------------|-----------|
| Dowlais             |            | 4. 6.     |
| Plymouth, Merthyr   |            | 3. 0.     |
| Scubor Wen, Aberdar | 4. 6.      | 3. 0.     |
| Abernant            | 6. 0.      | 3. 5.     |
| Werfa, Aberdar      | 6. 0.      |           |
| Cwmbach „           | 5. 6.      |           |
| Upper Dyffryn       | 5. 10.     |           |

## ENWAU A THRWCH HAENAU GLO RHWYM YN NGHWMAFAN.

| Y GWYTHIENI UCHAF.            | Fellder rhyngddynt<br>mewn lliathen. | Trwch.<br>Troed. mod. |
|-------------------------------|--------------------------------------|-----------------------|
| 1. Y Wernddu                  |                                      | 2. 8.                 |
| 2. Glo Gwernypistyll          | 56                                   | 2. 3.                 |
| 3. „ Torymynydd               | 160                                  | 2. 0.                 |
| 4. Gwythien Jonah             | 16                                   | 2. 0.                 |
| 5. Y Wythien Wen              | 8                                    | 3. 0.                 |
| 6. Y Wythien Glai             | 40                                   | 2. 0.                 |
| 7. Black Band                 | 58                                   | 2. 0.                 |
| 8. Y Wythien Euraidd          | 116                                  | 2. 0.                 |
| CRAIG Y COCKSHOT NEU PENNANT. |                                      |                       |
| Y GWYTHIENI ISAF (GLO AGEB).  |                                      |                       |
| 9. Y Finery                   |                                      | 2. 0.                 |
| 10. Y Sulphury                | 8                                    | 2. 0.                 |
| 11. Y 4 Uchaf                 | 16                                   | 4. 0.                 |
| 12. Y Wythien Fawr            | 28                                   | 9. 0.                 |
| 13. Gwythien Glai             | 16                                   | 1. 8.                 |
| 14. Glo a Mwn                 | 12                                   | 2. 0.                 |
| 15. Y Wythien 5 troedfedd     | 48                                   | 5. 0.                 |
| 16. Y 4 Isaf                  | 26                                   | 4. 0.                 |
| 17. Gwythieni 4 a 5 Troedfedd | 126                                  | 6. 0.                 |
| 18. Y Lliathen                | 24                                   | 3. 0.                 |
| Cyfanswrch                    | 916                                  | 56. 2.                |

## Y BRIG DEHEUOL.

A ganlyn yw enwau a thrwch gwythieni glo y Brig Deheuol yn ardaloedd Abercennig a Mynydd Cennig. Prif lofa Abercennig yw Slôp y Parc, perthynol i waith y Ton Du. Gweithir yno dair gwythien, —1. Y Gribwr, yr hon sydd yn amrywio mewn trwch o 8 i 8 troedfedd. 2. Y Slatog Fawr; trwch o 5 i 6 troedfedd. 3. Y Drydedd, ond a elwir Yr Ail yn bresenol.

## MYNYDD CENFFIG.

| RHIF. | ENWAU'R GWYTHIENI.                                       | TRWCH Mewn TROED-FEDDI. |
|-------|--|-------------------------|
| 1.    | Yr Haul, y fwyaf deheuol ; ni weithir hi.                |                         |
| 2.    | Coes y Fran. Ni weithir hon ychwaith.                    |                         |
| 3.    | Y Gribwr Fach.   | 8                       |
| 4.    | Y Gribwr Fawr. Dyma'r oraf yn y lle.                     | 6 neu 7                 |
| 5.    | Y Pump Chwarter.—Dan lo.                                 | 7                       |
| 6.    | Y 9 troedfedd ; yn amryw haenau.                         | 10                      |
| 7.    | Y 6 Troedfedd a'r Ail.                                   | 4                       |
| 8.    | Y Fawr. Amrywia ei thrwch o 8 troedfedd i amryw latheni. | 8                       |
| 9.    | "Y Bodor." Hon yw'r fwyaf ogleddol a weithir.            | 4                       |

## Y GLO CAREG.

Gweithir y Glo Careg yn y Brig Gogleddol, yn mharthau Gorllewinol y Sir, yn mhlwyfi Cilybebyll a Llangiwc ; a defnyddir ef yn ngwaith Ystalyfera, Brynaman, &c., at doddi mŵn haiarn. Mae yma ryw 14 o wythieni yn cael eu gweithio, enwau a thrwch y rhai sydd fel y canlyn:—

## BRYNAMAN.

| RHIF. | ENWAU'R GWYTHIENI.           | TRWED. | MOD. |
|-------|------------------------------|--------|------|
| 1.    | Y Stwrdyn                    | 2      | 0    |
| 2.    | Y Wythien Wen                | 2      | 6    |
| 3.    | Y Wythien Ddu                | 2      | 9    |
| 4.    | Y Wythien Newydd             | 2      | 9    |
| 5.    | Yr Hen Wythien, neu'r Harnlo | 2      | 10   |
| 6.    | Y Wythien Fawr               | 5      | 0    |
| 7.    | Y Bresen                     | 4      | 6    |
| 8.    | Y Tri Glo                    | 2      | 10   |
| 9.    | Y Wythien Fach               | 3      | 0    |
| 10.   | Y Bresen Fach                | 1      | 6    |
| 11.   | Y Wythien Ganol              | 3      | 0    |
| 12.   | Y Wythien Isaf               | 3      | 0    |
| 13.   | Gwythien Y Bryn              | 1      | 6    |
| 14.   | Y Wythien Astell             | 1      | 8    |
|       |                              | 88     | 10   |

Barnwyf mai nid anfuddiol, yn nglyn â'r tafeni uchod, fyddai ychydig Sections, er dangos safie'r gwythieni yn y ddaiar mewn gwa-hanol ardaloedd. Rhoddaf enwau yr haenau, &c., yn Seisneg, yn hytrach na'u cyfieithu.

## SECTION OF CASTLE PIT, OYFARTHFA.

|   |                        | FEET. | INCHES. |
|---|------------------------|-------|---------|
|   | Soil containig stones. | 7     | 0       |
|   | Pont Rhun Rock         | 41    | 6       |
|   | Blue Shale             | 11    | 5       |
| █ | Castell y wiwer coal   | 2     | 4       |
|   | Strong Fireclay        | 6     | 1       |
|   | Hard Gritty rock       | 13    | 6       |
|   | Blue shale             | 8     | 8       |
|   | Bastard quarry         | 6     | 5       |
|   | Fine Cliff             | 24    | 0       |
| █ | Coal                   | 1     | 0       |
|   | Fireclay               | 7     | 10      |
|   | Cliff with balls       | 9     | 0       |
|   | Rock                   | 0     | 10      |
|   | Bass                   | 20    | 4       |
| █ | Coal                   | 1     | 6       |
|   | Fireclay               | 1     | 9       |
|   | Rock                   | 0     | 10      |
|   | Bass                   | 17    | 2       |
|   | Rock                   | 1     | 10      |
|   | Hard Cliff             | 35    | 4       |
|   | Rock                   | 0     | 11      |
|   | Cliff                  | 2     | 4       |
|   | Mine                   | 0     | 9       |
|   | Cliff                  | 1     | 11      |
|   | Rock                   | 0     | 8       |
|   | Bass                   | 5     | 10      |
|   | Rock                   | 9     | 4       |
|   | Cliff                  | 16    | 10      |
|   | Rock                   | 2     | 1       |
|   | Cliff                  | 11    | 1       |
|   | Fine Cliff             | 7     | 2       |
| █ | Coal                   | 0     | 10      |
| █ | Fireclay               | 3     | 10      |
|   | Coal                   | 1     | 4       |
|   | Fireclay               | 2     | 0       |
|   | Cliff                  | 13    | 8       |
|   | Coal                   | 1     | 2       |
|   | Fireclay               | 3     | 10      |
|   | Strong Cliff           | 17    | 4       |
|   | Mine                   | 0     | 4       |
|   | Strong hard cliff      | 34    | 4       |
| █ | Coal                   | 1     | 11      |
|   | Fireclay               | 6     | 7       |
|   | Bass mixed with rock   | 23    | 6       |
|   | Bass                   | 37    | 6       |
|   | Cliff                  | 13    | 0       |
|   | Bass                   | 5     | 6       |
|   | Coal                   | 0     | 1       |
|   | Fireclay               | 7     | 3       |
| █ | Coal                   | 0     | 8       |
|   | Strong Cliff           | 22    | 10      |
|   | Fireclay               | 5     | 4       |

SECTION OF CASTLE PIT, CYFARTHFA.  
(Parkad).

|  |                         | FOOT. | INCHES. |
|--|-------------------------|-------|---------|
|  | Rock                    | 9     | 0       |
|  | Strong Cliff            | 19    | 11      |
|  | Shale                   | 23    | 0       |
|  | Coal                    | 1     | 6       |
|  | Fireclay                | 4     | 6       |
|  | Rock                    | 3     | 6       |
|  | Shale                   | 10    | 6       |
|  | Coal                    | 1     | 6       |
|  | Strong shale with balls | 4     | 6       |
|  | Coal                    | 1     | 6       |
|  | Strong F.ireclay        | 3     | 6       |
|  | Rock                    | 2     | 7       |
|  | Rock and Stead          | 3     | 5       |
|  | Strong Cliff            | 5     | 0       |
|  | Mine                    | 0     | 3       |
|  | Shale                   | 8     | 0       |
|  | Strong Shale            | 11    | 3       |
|  | Coal                    | 1     | 6       |
|  | Strong Bass             | 15    | 6       |
|  | Shale                   | 2     | 0       |
|  | Strong Cliff            | 17    | 0       |
|  | Mine                    | 0     | 2       |
|  | Fine Cliff              | 12    | 10      |
|  | Coal                    | 0     | 6       |
|  | Dark Shale              | 0     | 6       |
|  | Rock                    | 13    | 6       |
|  | Black Shale             | 0     | 6       |
|  | Rock                    |       | 6       |
|  | Strong Fireclay         | 5     | 0       |
|  | Cliff                   | 6     | 6       |
|  | Cliff and Fireclay      | 6     | 0       |
|  | Fine Fireclay           | 3     | 6       |
|  | Cliff                   | 10    | 0       |
|  | Coal                    | 0     | 6       |
|  | Strong Cliff            | 4     | 3       |
|  | Rock                    | 11    | 6       |
|  | Cliff                   | 16    | 9       |
|  | Shale                   | 0     | 6       |
|  | Fireclay                | 1     | 10      |
|  | Bass                    | 1     | 8       |
|  | Coal                    | 0     | 9       |
|  | Black Clod              | 1     | 3       |
|  | Coal                    | 0     | 8       |
|  | Clod                    | 0     | 4       |
|  | Coal                    | 0     | 6       |
|  | Strong Cliff            | 5     | 6       |
|  | Balls of mine           | 0     | 3       |
|  | Strong Cliff            | 7     | 4       |
|  | Black Clod              | 3     | 0       |
|  | Yard Coal (o'r 2 ft. 9) | 3     | 0       |
|  | Clod                    | 1     | 6       |
|  | Coal                    | 0     | 6       |

## SECTION OF CASTLE PIT, OYFARTHFA.

(Continued).

|  |                         | FEET. | INCHES. |
|--|-------------------------|-------|---------|
|  | Clod                    | 1     | 3       |
|  | Fireclay with balls     | 11    | 9       |
|  | Rock                    | 5     | 6       |
|  | Clod                    | 3     | 6       |
|  | 4 feet coal             | 5     | 6       |
|  | Fireclay with nodules   | 11    | 0       |
|  | Strong cliff with balls | 6     | 0       |
|  | Mine                    | 0     | 4       |
|  | Strong Cliff            | 3     | 3       |
|  | Bass                    | 3     | 0       |
|  | Rock                    | 4     | 1       |
|  | Mine                    | 0     | 4       |
|  | Strong Cliff            | 5     | 3       |
|  | Fine Cliff              | 3     | 3       |
|  | 2 ft. 9, or Yard coal   | 2     | 4       |
|  | Fireclay                | 14    | 6       |
|  | Cliff with balls        | 9     | 6       |
|  | Soft Black clod         | 2     | 0       |
|  | Coal                    | 0     | 6       |
|  | Clod                    | 0     | 2       |
|  | 6 feet (or Fos y Fran)  | 3     | 6       |
|  | Fireclay with nodules   | 3     | 0       |
|  | Strong Cliff            | 21    | 0       |
|  | Bass and Cliff          | 13    | 4       |
|  | Coal                    | 1     | 3       |
|  | Cliff, Shale, and rock  | 52    | 0       |
|  | Carbonaceous shale      | 19    | 9       |
|  | Rock, Mine, & Cliff     | 10    | 6       |
|  | Coal                    |       | 7       |
|  | Clod                    |       | 4       |
|  | Coal } 9 feet coal      |       | 9       |
|  | Clod                    |       | 6       |
|  | Coal                    | 6     | 6       |

SECTION GWAITH Y GADLYS, DYFFRYN ABERDAR, YN DANGOS  
Y GLO A'R MWN.

|  |   | FT. IN. |
|--|---|---------|
|  | Sil rock with thinly bedded sandstone                 | 9 0     |
|  | Carbonaceous shale                                    | 5 0     |
|  | Argillaceous shale                                    | 10 0    |
|  | Graig Coal—Top Coal 2. 0. Shale 0. 6, bottom Coal 0 6 | 3 0     |
|  | Fireclay  | 2 6     |
|  | Carbonaceous shale with kind of bluish cliff          | 6 6     |
|  | Hard Sil rock with layers of sandstone                | 15 0    |
|  | Argillaceous shale                                    | 12 0    |
|  | Arenaceous shale with nodules of ironstone            | 13 6    |
|  | Carbonaceous shale with combination of Black Band     | 1 3     |
|  | Sil rock, with thinly bedded Arenaceous sandstone     | 21 6    |
|  | Carbon shale, and thin vein of coal at its bases      | 2 6     |
|  | Argil shale with nodules of ironstone                 | 7 6     |
|  | Argil Aren shale with sandstone                       | 5 0     |

SECTION GWAITH Y GADLYS, DYFFRYN ABERDAR, YN DANGOS  
Y GLO A'R MWN—(Continued).

|   | FT. IN. |
|---|---------|
| Hard gritty arenaceous rock   | 10 6    |
| Carbon cliff  | 5 9     |
| Argil shale with bands of sandstone   | 4 9     |
| Light Gray Sil rock with sandstone  | 51 8    |
| Argil shale, with Gorllwyn Black Band   | 8 9     |
| Gorllwyn Coal   | 1 6     |
| Upper soap vein, with coal at its basis   | 5 5     |
| Carbonaceous shale  | 4 0     |
| Upper Black Vein.—Rough Pins 0 2½—Gray pins 0 1½  | 7 9     |
| Sil Rock, with bands of Argil shale   | 8 0     |
| Mica Cliff with thin layers of Carbon shale   | 5 0     |
| Argil shale   | 10 0    |
| Aren shale with sandstone   | 9 6     |
| Carbon shale  | 8 9     |
| Argil shale with ironstone  | 7 6     |
| Sil Rock, with beds of Arenaceous shale   | 8 9     |
| Aren Rock   | 12 6    |
| Argil shale with traces of ironstone  | 14 6    |
| Sil rock, with beds of Carbon Cliff   | 16 6    |
| Mica Cliff with beds of sandstone   | 9 0     |
| Argil shale, with nodules of ironstone  | 0 10    |
| Sil rock, with layers of Carbon shale   | 10 6    |
| Hard gritty rock, with Aren sandstone   | 15 0    |
| Carbon shale  | 9 0     |
| 2 feet 9 Coal   | 1 6     |
| Sil rock, with bands of clay and sandstone  | 6 0     |
| Gray purplish Aren sandstone  | 24 6    |
| Argil shale with balls of ironstone   | 4 3     |
| Mica Cliff, with bands of Carbon Cliff  | 4 6     |
| Vein of Coal  | 1 6     |
| Mica Cliff, and bands of Carbon Cliff   | 10 0    |
| Sil rock, and balls of ironstone  | 12 0    |
| Carbon shale  | 3 10    |
| Upper 4 feet.—Top Coal 1, 6, Carb Shale 2. 0. Bottom Coal 4 0                           | 7 6     |
| Carbon shale  | 3 0     |
| Mica Cliff with beds of Aren shale  | 12 0    |
| Sil Rock, and Darkish Carbon Shale  | 8 0     |
| Argil Aren shale and ironstone  | 8 0     |
| Vein of Coal with partings of Carbon shale  | 2 0     |
| Underclay   | 7 0     |
| Sil rock, and bands of Aren sandstone   | 18 0    |
| Mica Cliff and beds of Carbon shale   | 20 0    |
| Argil shale   | 3 0     |
| 6 feet Coal.—Top Coal 4. 2. Carb shale 5. 0. Bottom Coal 2. 6                           | 11 8    |
| Sil rock with bands of gray sandstone   | 18 0    |
| Argillaceous shale and hard sil rock  | 44 6    |
| Lower Soap Vein. Soap pin 0 3. Shale 1. 3. Middle pin 0. 1. Shale 1. 3. Helper pin 0. 2 | 5 0     |
| Argil shale   | 6 0     |
| Black Pins layers   | 2 0     |

SECTION GWAITH Y GADLYS, DYFFBYN ABERDAR, YN DANGOS  
Y GLO A'R MWN—(Parhad).

|   | FT. IN. |
|---|---------|
| Sil rock with bands of sandstone  | 33 0    |
| Carbon shale  | 8 0     |
| 9 feet Coal.—Top Coal 4. 0. Carbon shale 0. 6. Bottom Coal 5. 0   | 9 6     |
| Sil cliff, with bands of Argil shale  | 9 0     |
| Mica Cliff and hard gritty rock   | 7 0     |
| Carbon shale and sandstone  | 12 0    |
| Argil shale   | 3 0     |
| Coal. Dirty Vein No. 1.—Top Coal 2. 4. Carb shale 1. 6. Bottom coal 2. 0  | 5 10    |
| Sil rock and Mica cliff   | 13 0    |
| Mica cliff and Carbon shale   | 11 4    |
| Carbon shale  | 7 8     |
| The 2 Coals, or No. 2 Dirty Vein. Top Coal 1. 8. Shale 4. 6. Bottom Coal 0. 9   | 6 11    |
| Underclay   | 3 3     |
| Sil rock, and Carbon shale  | 17 3    |
| Carbon shale  | 5 2     |
| Three veins of Coal.—Top 2. 6. Shale 3. 5. Middle 0. 8. Shale 2. 3. Bottom 1. 2   | 10 0    |
| Under clay and Argil shale  | 5 6     |
| Arenaceous shale and ironstone  | 11 8    |
| Gadlys 7 feet. Top Coal 2. 0. Shale 0. 2. Bottom Coal 5. 0  | 7 2     |
| Underclay with dark Mica cliff  | 6 6     |
| Argil gray shale  | 5 9     |
| Argil Aren shale with ironstone   | 15 6    |
| No. 3. Dirty Vein. Top Coal 2. 6. Shale 1. 9. Bottom Coal 2. 3  | 6 6     |
| Underclay and beds of cliff   | 7 0     |
| Sil rock and beds of Mica cliff   | 33 6    |
| Gellideg or Lower 4 feet. Top Coal 3. 6. Shale 0. 6. Bottom Coal 0. 6   | 4 6     |
| Sil Cliff with grayish sandstone  | 18 0    |
| Ironstone, with Argil Shale at its basis  | 4 10    |
| Lower Black Pins. Pin Cam 0. 4½. Shale 1. 6. Pin Gwer 0. 4. Shale 1. 3. Pin brith 0. 4. Shale 1. 8. Black vein 0. 4. Shale 1. 9. Pin du 0. 2½ | 7 9     |
| Aren Argil shale and cliff  | 8 4     |
| Pins of Ironstone.—Pin Robyn 3½. Shale 1. 2. Pins vein 3 Red pin 4. Lower pin 2½  | 5 9     |
| Argil shale and gray sandstone  | 7 0     |
| Rock  | 5 0     |
| Yellow vein ironstone   | 6       |
| Carbon cliff with traces of ironstone   | 15 0    |
| Blue vein ironstone and shale   | 4 6½    |
| Argil shale with sandstone  | 3 7     |
| Sil Rock and Carbon shale   | 4 0     |
| Pin Henry   | 4       |
| Carbon shale  | 3 0     |
| Argil shale   | 4 7     |
| Big vein. Big vein 3½. Shale 4. 6. Knobby vein 3½. Shale 4. 2. Garw vein 3  | 8 2     |



SECTION GWAITH Y GADLYS, DYFFRYN ABERDAR, YN DANGOS  
Y GLO A'B MWN—(Parhad).

|  |                           | FT. IN. |
|--|---------------------------|---------|
|  | Carbon shale              | 1 6     |
|  | Garw Coal                 | 1 8     |
|  | Under clay                | 3 6     |
|  | Sil rock and Carbon shale | 13 6    |
|  | Argil shale               | 3 6     |
|  | Rosser vein of ironstone  | 0 3½    |
|  | Total .. .. .             | 939 7   |

SECTION O BWLL TY NEWYDD, CWM RHONDDA,  
GER TREHERBERT. (Yr Enwas'n Gymraeg.)

|  |                                | TR. MD. |
|--|--------------------------------|---------|
|  | Pridd a cheryg                 | 18 0    |
|  | Glo                            | 0 3     |
|  | Plisg-graig                    | 16 0    |
|  | Craig-yr-Hafod                 | 16 0    |
|  | Plisg-graig                    | 6 0     |
|  | Glo yr Hafod                   | 0 9     |
|  | Clai tân a chraig              | 2 0     |
|  | Haenau o graig                 | 4 0     |
|  | Cleigraig a mwn haiarn         | 24 0    |
|  | Craig fastardaidd dywell       | 18 0    |
|  | Tir mwn cryf a chaled          | 36 5    |
|  | Glo                            | 0 1     |
|  | Clai tân caled                 | 1 6     |
|  | Craig                          | 2 0     |
|  | Cleigraig ddu                  | 5 0     |
|  | Glo                            | 0 8     |
|  | Clai Priddfeini                | 3 4     |
|  | Plisg-graig gref               | 5 0     |
|  | Craig Abergorchwy              | 2 6     |
|  | Craig Fastardaidd gref         | 6 0     |
|  | Craig                          | 2 0     |
|  | Plisg-raig                     | 21 6    |
|  | Glo Abergorchwy. Glo top 2. 0. |         |
|  | Canol 0. 7. Isaf 1. 2.         | 3 9     |
|  | Clai Priddfeini Abergorchwy    | 2 0     |
|  | Tir cryf a mwn haiarn          | 3 6     |
|  | Craig                          | 7 0     |
|  | Craig fastardaidd dywell       | 24 0    |
|  | Tir cryf a mwn                 | 9 0     |
|  | Tir cryf a chraig              | 7 6     |
|  | Glo top gwythien Y Pentre      | 0 6     |
|  | Bast                           | 0 8     |
|  | Glo gwaelod                    | 0 9     |
|  | Clai tan a chraig              | 7 0     |
|  | Tir caled                      | 14 0    |

SECTION O BWLL TY NEWYDD, CWM RHONDDA,  
GER TREHERBERT—(Parhad).

|  |                          | TR. MD. |
|--|--------------------------|---------|
|  | Glo                      | 0 5     |
|  | Clai tan a chraig        | 11 0    |
|  | Tir caled                | 9 0     |
|  | Glo                      | 1 2     |
|  | Clai tan caled a mwn     | 5 0     |
|  | Tir caled                | 16 0    |
|  | Glo                      | 0 5     |
|  | Clai cryf                | 8 0     |
|  | Glo                      | 0 7     |
|  | Tir du                   | 1 0     |
|  | Clai tan, a chraig       | 11 0    |
|  | Tir cryf a mwn           | 21 0    |
|  | Glo                      | 0 1     |
|  | Tir mwn du a chaled      | 7 0     |
|  | Glo                      | 0 8     |
|  | Clai tan                 | 4 0     |
|  | Craig                    | 8 0     |
|  | Tir                      | 8 6     |
|  | Glo uchaf'r Gorllwyn     | 1 0     |
|  | Clai tan                 | 4 0     |
|  | Craig                    | 13 0    |
|  | Tir                      | 2 0     |
|  | Craig                    | 1 0     |
|  | Glo'r Gorllwyn           | 1 10    |
|  | Cleigraig dywell         | 9 0     |
|  | Tir y Pinau Duon         | 15 0    |
|  | Tir gyda phelan o fwn    | 4 0     |
|  | Glo                      | 0 1     |
|  | Clai tan, gyda mwn ynddo | 8 0     |
|  | Craig                    | 15 0    |
|  | Haenau o dir a chreigiau | 54 0    |
|  | Plisg-dir du             | 0 6     |
|  | Clai-tan                 | 2 0     |
|  | Tir cryf                 | 15 0    |
|  | Craig fawr               | 33 0    |
|  | Glo                      | 0 9     |
|  | Tir tyner                | 8 0     |
|  | Tir caled                | 4 2     |
|  | Glo                      | 0 6     |
|  | Clai tan                 | 5 0     |
|  | Glo                      | 0 4     |
|  | Tir                      | 2 0     |
|  | Glo                      | 0 7     |
|  | Haenau o Graig           | 15 0    |
|  | Craig                    | 9 0     |
|  | Glo y 2 a 9              | 2 9     |
|  | Tir cryf                 | 6 0     |
|  | Craig                    | 78 0    |
|  | Tir cryf                 | 18 0    |
|  | Glo Rider y 4 uchaf      | 0 7     |
|  | Tir gyda mwn haiarn      | 18 10   |

SECTION O BWLL TY NEWYDD, CWM RHONDDA,  
GER TREHERBERT—(Parhad).

|  |                                  |         |
|--|----------------------------------|---------|
|  | Glo'r Driver                     | TR. MD. |
|  | Tir                              | 1 8     |
|  | Glo'r 4 Uchaf. Glo top 3. 8. Tir | 4 4     |
|  | llaith 0. 6. Glo isaf 1.         | 5 2     |
|  | Clai tan                         | 4 0     |
|  | Tir cryf gyda mwn                | 17 6    |
|  | Glo'r Llathen                    | 2 7     |
|  | Clai tan                         | 2 0     |
|  | Craig galed                      | 1 6     |
|  | Tir cryf gyda mwn                | 28 0    |
|  | Craig haenog                     | 2 0     |
|  | Tir a mwn haiarn                 | 2 1     |
|  | Glo'r 6 troedfedd                | 4 0     |
|  | Clai tan                         | 2 6     |
|  | Glo                              | 0 5     |
|  | Tir a mwn haiarn                 | 6 0     |
|  | Cloden ddu                       | 3 0     |
|  | Glo                              | 5 4     |

Gwasanaethed y Sections hyn, heb ychwanegu rhagor, gan y cymmerent ormod o le.

GLOFEYDD MORGANWG.

Cyn gadael pwngc y Glo, cyfieaf yma rës o enwau Glofeydd y Sir, gyda'u safleoedd, neu'r porthladd agosaf atynt, allan o'r *Mineral Statistics* gan R. Hunt, F.R.S., am y flwyddyn 1871.

| NRIF. | ENW'R LOFA.     | ARDAL.           | PERCHENOGION.                 |
|-------|-----------------|------------------|-------------------------------|
| 1.    | Aber            | Penybont-ar-Ogwy | Aber Coal Co.                 |
| 2.    | Aberaman        | Aberdar          | Powell Duffryn Steam Coal Co. |
| 3.    | Abercanaid      | Merthyr Tydfil   | Plymouth Iron Co.             |
| 4.    | Abercraue       | Abertawy         | British Iron Co.              |
| 5.    | Aberowmboy      | Aberdar          | D. Davis.                     |
| 6.    | Aberdar         | Aberdar          | Aberdare Coal Co.             |
| 7.    | Aberdar Merthyr | Hirwaun          | Aberdare Merthyr Coal Co.     |
| 8.    | Aberdar Rhondda | Hirwaun          | Aberdare Rhondda Coal Co.     |
| 9.    | Abergarwed      | Cwmnedd          | Glyn Neath Coal Co.           |
| 10.   | Abergwawr       | Aberdar          | Powell Duffryn Steam Coal Co. |
| 11.   | Abergorki       | Cwm Rhondda      | Insole & Son.                 |
| 12.   | Abernant        | Aberdar          | B. Fothergill & Co.           |
| 13.   | Aberpergwm      | Cwm Nedd         | M. S. Williams.               |
| 14.   | Adare           | Pontypridd       | Daniel Thomas.                |
| 15.   | Avon Vale       | Briton Ferry     | Avon Vale Coal C.             |
| 16.   | Bargoed         | Merthyr Tydfil   | Dowlais Iron Co.              |

## GLOFEYDD MORGANWG—(Parhad).

| BNIF. | ENW'R LOFA.       | ARDAL.              | PERCHENOGION.                 |
|-------|-------------------|---------------------|-------------------------------|
| 17.   | Beaufort          | Abertawy            | Phillip Richard               |
| 18.   | Bedwlyn           | Aberdar             | Kenway & Co.                  |
| 19.   | Benson's Graigola | Abertawy            | Graigola Coal Co.             |
| 20.   | Berrington        | Penclawdd           | Penclawdd Lead Co.            |
| 21.   | Birchgrove        | Llansamlet          | Pegg & Co.                    |
| 22.   | Birch Rock        | Pontarddulais       | Birch Rock Coal Co.           |
| 23.   | Blaenafon         | Briton Ferry        | T. Walter                     |
| 24.   | Blaen Clydach     | Pontypridd          | Dunraven Coal Co.             |
| 25.   | Blaengwawr        | Aberdar             | D. Davis                      |
| 26.   | Blaennant Pit     | Aberdar             | Aberdare Iron Co.             |
| 27.   | Blaennant-y-groes | Aberdar             | Blaennant-y-groes Coal Co.    |
| 28.   | Blaen Rhondda     | Cwm Rhondda         | London & South Wales Coal Co. |
| 29.   | Bodringallt       | Cwm Rhondda         | Bodringallt Colliery Co.      |
| 30.   | Brithdir          | Sciwen              | Dynevor Coal Co.              |
| 31.   | Brithdir Newydd   | Gelligaer           | Dunraven United Coal Co.      |
| 32.   | Brithwennydd      | Briton Ferry        | Glyncorrgw Coal Co.           |
| 33.   | Brombill          | Taibach             | Vivian & Sons.                |
| 34.   | Brynoech          | Castellnedd         | Neath Abey Coal Co.           |
| 35.   | Brynoech          | Eglwys Elian        | D. Morgan.                    |
| 36.   | Bryn              | Cwmafon             | Governor & Co.                |
| 37.   | Bryngwyn          | Hirwaun             | London & Merthyr Coal Co.     |
| 38.   | Bryndewi          | Mynachlog Nedd      | Dyffryn Main Coal Co.         |
| 39.   | Bryndu            | Pil                 | Bryndu Coal & Coke Co.        |
| 40.   | Bryn Strait       | Port Talbot         | English Copper Co.            |
| 41.   | Bryn Willach      | Abertawy            | H. H. Vivian, M. P.]          |
| 42.   | Bute Merthyr      | Treherbert          | Ardalydd Bute.                |
| 43.   | Bute Works        | Rhymni              | Rhymney Iron Co.              |
| 44.   | Buxton            | Dowlais             | Dowlais Iron Co.              |
| 45.   | Bwlfa             | Aberdar             | J. Brogden & Sons.            |
| 46.   | Bwlfa             | Cwm Rhondda         | Aberdar Iron Co.              |
| 47.   | Caedu             | Penybont            | J. Brogden & Sons.            |
| 48.   | Cae Newydd        | Comin Cas'lwchwr    | Cae Newydd Coal Co.           |
| 49.   | Cae Pridd (1873)  | Llansamlet          | Llansamlet Coal Co.           |
| 50.   | Cargethin         | Caerffili           | E. D. Williams & Co.          |
| 51.   | Caergynydd        | Abertawy            | E. Dangerfield                |
| 52.   | Castle Pit        | Troedyrhiw, Merthyr | R. T. Crawshay.               |
| 53.   | Castle Level      | Troedyrhiw, Merthyr | R. T. Crawshay.               |
| 54.   | Cefnowsg          | Penybont            | Bryndu Coal & Coke Co.        |
| 55.   | Cefn Llwynan      | Gelligaer           | R. Lewis & E. Jenkins.        |
| 56.   | Cefn Merthyr      | Hirwaun             | London & Merthyr Coal Co.     |
| 57.   | Charles Pit       | Llansamlet          | Foxhole Colliery Co.          |
| 58.   | Cilfach Fargoad   | Gelligaer           | George Batters.               |
| 59.   | Cil Haul          | Cwm Bargoed         | Bargoed Coal Co. (Limited).   |
| 60.   | Coedcae           | Cwm Rhondda         | Coedcae Coal Co.              |
| 61.   | Coly              | Gelligaer           | Dowlais Iron Co.              |
| 62.   | Copper            | Abertawy            | John Glasbrook                |
| 63.   | Court Herbert     | Mynachlog Nedd      | Dynevor Coal Co.              |
| 64.   | Craig y Darren    | Hirwaun             | T. W. Williams.               |
| 65.   | Craig-yr-Allt     | Cwm Taf             | T. W. Booker & Co.            |
| 66.   | Creunant          | Castellnedd         | Evans & Bevan.                |

GLOFEYDD MORGANWG—(Parhad).

| REF. | ENW'R LOFA.       | ARDAL.           | PERCHRENOGION.               |
|------|-------------------|------------------|------------------------------|
| 67.  | Cwm               | Merthyr Tydfil   | R. T. Crawshaw.              |
| 68.  | Cwm Pit           | Aberlawy         | John Glasbrook.              |
| 69.  | Cwm Afan          | Port Talbot      | Governor & Co.               |
| 70.  | Cwm Aman          | Aberdar          | Cwmaman Coal Co.             |
| 71.  | Cwm Bach          | Abertawy         | T. Glasbrook.                |
| 72.  | Cwmbach Pit       | Aberdar          | Aberdare Iron Co.            |
| 73.  | Cwmbargoed        | Merthyr          | Dowlais Iron Co.             |
| 74.  | Cwmbwrria         | Aberlawy         | Swansea Tin Plate Co.        |
| 75.  | Cwm Capel         | Clydach          | Moody Brothers.              |
| 76.  | Cwm Clydach       | Castell Nedd     | Neath Abbey Coal Co.         |
| 77.  | Cwm Clydach       | Dinas Pontypridd | Cwmclydach Coal Co.          |
| 78.  | Cwmdar            | Aberdar          | Powell Dyffryn Steam Coal Co |
| 79.  | Cwmdu             | Sciwen           | Johnevor Coal Co.            |
| 80.  | Etto              | Penybont         | Dyfnbrogden & Sons.          |
| 81.  | Cwm Llwydrew      | Cwmbargoed       | Bargoed Coal Co.             |
| 82.  | Cwmllynfell       | Cwm Twrch        | James & Aubrey.              |
| 83.  | Cwm Nantddu No. 1 | Ystalyfera       | Cwmnant-ddu Colliery Co.     |
| 84.  | Cwm Nantddu No. 2 |                  | Cwmnant-ddu Colliery Co.     |
| 85.  | Cwmneol           | Aberdar          | Powell Dyffryn Steam Coal Co |
| 86.  | Cwmpeanar         | Aberdar          | Powell Dyffryn Steam Coal Co |
| 87.  | Cymmer            | Cwm Rhondda      | Insole & Son.                |
| 88.  | Cyfarthfa         | Merthyr          | R. T. Crawshaw.              |
| 89.  | Dare              | Pontypridd       | D. Davies & Co.              |
| 90.  | Danyderi          | Merthyr          | Aberdare Iron Co.            |
| 91.  | Darren Pit        | Cwm Bargoed      | Rhymney Iron Co.             |
| 92.  | Darrenddu         | Pontypridd       | Z. Beachim & Co.             |
| 93.  | Deri Newydd       | Cwmbargoed       | Lewis, Jones, & Lewis.       |
| 94.  | Dinas             | Cwm Rhondda      | Coffin & Co.                 |
| 95.  | Dinas Level       |                  | Coffin & Co.                 |
| 96.  | Dowlais           | Merthyr          | Dowlais Iron Co.             |
| 97.  | Dyffryn, Deep     | Aberdar          | Nixon, Taylor & Cory.        |
| 98.  | Ditto High        | Ditto            | Powell Dyffryn Steam Coal Co |
| 99.  | Ditto Middle      | Ditto            | Powell Dyffryn Steam Coal Co |
| 100. | Ditto Old         | Ditto            | Powell Dyffryn Steam Coal Co |
| 101. | Ditto Upper       | Ditto            | Powell Dyffryn Steam Coal Co |
| 102. | Ditto Lower       | Ditto            | Powell Dyffryn Steam Coal Co |
| 103. | Dunraven          | Treherbert       | London & S. Wales Coal Co.   |
| 104. | Dunraven Adare    | Nedd             | Gregory.                     |
| 105. | Dunvant           | Abertawy         | Silvanus Padley.             |
| 106. | Eagles Bush       | Castelluedd      | Eagles Bush Coal Co.         |
| 107. | Earlswood         | Briton Ferry     | G. Tissington.               |
| 108. | Emely Pit         | Llansamlet       | Jones & Saunders.            |
| 109. | Energlyn          | Caerfili         | Energlyn Coal Co.            |
| 110. | Eskyn             | Castellnedd      | Eagles Bush Coal Co.         |
| 111. | Falart            | Abertawy         | Tir Glandwr Coal Co.         |
| 112. | Farteg            | Ystalyfera       | Ystalyfera Iron Co.          |
| 113. | Ferndale          | Cwm Rhondda Fach | D. Davis.                    |
| 114. | Fochriw           | Dowlais          | Dowlais Iron Co.             |
| 115. | Fernhill          | Blaen-Rhondda    | J. Crosley                   |
| 116. | Ffos              | Penybont         | Maes-y-Bettws Coal Co.       |
| 117. | Fforchaman        | Aberdar          | Powell Dyffryn Steam Coal Co |

## GLOFEYDD MORGANWG—(Parhad).

| RHIF. | ENW'R LOFA.            | ARDAL.         | PERCHENOGION.             |
|-------|------------------------|----------------|---------------------------|
| 118.  | Fforchneol             | Aberdar        | Bevan.                    |
| 119.  | Fforest                | Abertawy       | John Glasbrook.           |
| 120.  | Fforest Level          | Hirwaun        | London & Merthyr Coal Co. |
| 121.  | Fforest Level          | Mountain Ash   | Nixon, Taylor & Cory      |
| 122.  | Forge Pit              | Aberdar        | Aberdare Iron Co.         |
| 123.  | Fowling                | Abertawy       | Foxhole Colliery Co.      |
| 124.  | Gadlys                 | Aberdar        | Gadlys Iron Co.           |
| 125.  | Garth                  | Maesteg        | John Brogden & Sons.      |
| 126.  | Garth                  | Abertawy       | John Glasbrook.           |
| 127.  | Gelli No. 1            | Ystrad Rhondda | Edward Thomas.            |
| 128.  | Gelli No. 2            | Etto           | Edward Thomas.            |
| 129.  | Gelliargwellt          | Gelligaer      | Etifeddion T. Powell.     |
| 130.  | Gellin                 | Castell Nedd   | Evans & Bevan.            |
| 131.  | Gelliwion              | Pontypridd     | B. Rowland.               |
| 132.  | Gethin No. 1           | Merthyr        | R. T. Crawshay.           |
| 133.  | Gethin No. 2           | Etto           | R. T. Crawshay.           |
| 134.  | Gilfachgoch            | Cwm Ogwy       | Glamorgan Coal Co.        |
| 135.  | Gilwen                 | Ystalyfera     | Ystalyfera Iron Co.       |
| 136.  | Gin Pit                | Maesteg        |                           |
| 137.  | Glanywern              | Llansamlet     | Foxhole Colliery Co.      |
| 138.  | Glyncorwg No. 1        | Glyncorrgw     | Glyncorewg Coal Co.       |
| 139.  | Glyncorrgw No. 2       | Ditto          | Glyncorrgw Coal Co.       |
| 140.  | Glynmil No. 2          | Merthyr        | Plymouth Iron Co.         |
| 141.  | Gnol                   | Castell Nedd   | Gnol Coal Co.             |
| 142.  | Gorwydd                | Abertawy       | Alfred Sterry.            |
| 143.  | Graig                  | Abertawy       | Evan Daniel.              |
| 144.  | Graig                  | Merthyr        | Plymouth Iron Co.         |
| 145.  | Graig                  | Merthyr        | Graig Coal Co.            |
| 146.  | Graig                  | Hirwaun        | J. Brogden & Sons.        |
| 147.  | Graig Rhymney          | Rhymni         | Rhymney Iron Co.          |
| 148.  | Graig Merthyr          | Cwm Tawy       | Cory, Yeo & Co.           |
| 149.  | Graigola               | Cwm Tawy       | Benson.                   |
| 150.  | Grawarth               | Merthyr        | Plymouth Iron Co.         |
| 151.  | Greenway               | Castell Nedd   | Neath Abbey Coal Co.      |
| 152.  | Great Western          | Pontypridd     | Great Western Coal Co.    |
| 153.  | Gwaencaeurwen          | Brynaman       | R. Morgans & Sons.        |
| 154.  | Gwyndwn                | Clydach        | Hill & Nicholas.          |
| 155.  | Gwernllwynwith         | Llansamlet     | Maddock & Howells.        |
| 156.  | Glanddu                | Gelligaer      | Latch & Cope.             |
| 157.  | Gwladus                | Gelligaer      | Price.                    |
| 158.  | Gyfeillion             | Pontypridd     | Great Western Coal Co.    |
| 159.  | Hendreforgan           | Cwm Twrch      | Alexander Baine.          |
| 160.  | Hendredenny            | Caerffili      | Eneu'r Glyn Coal Co.      |
| 161.  | Hengoed                | Gelligaer      | Thomas & Lewis.           |
| 162.  | Insoles Merthyr        | Pontypridd     | Insole & Son.             |
| 163.  | Lan Level              | Pontypridd     | Penrhiwfer Coal Co.       |
| 164.  | Lantwit and Black Vein | Caerffili      | Simeon Holmes             |
| 165.  | Llan                   | Caerdydd       | T. W. Booker & Co.        |
| 166.  | Lancaiach              | Gelligaer      | Duncan & Co.              |
| 167.  | Llansamlet             | Abertawy       | Foxhole Colliery Co.      |
| 168.  | Llantwit Wallsand      | Pontypridd     | J. Lewis.                 |

## GLOFEYDD MOBGANWG—(Parhad).

| REF. | ENW'B LOFA.           | ARDAL.         | PERCHENOGION.                |
|------|-----------------------|----------------|------------------------------|
| 169. | Lletty Shenkin        | Aberdar        | Lletty Shenkin Coal Co.      |
| 170. | Llwyncelyn            | Cwm Rhondda    | Edmund Thomas.               |
| 171. | Llwynypia             | Cwm Rhondda    | Glamorgan Coal Co.           |
| 172. | Llynvi No. 5 Colliery | Maesteg        | J. Brogden & Sons.           |
| 173. | Lower 4 feet          | Merthyr        | Dowlais Iron Co.             |
| 174. | Lower Pit             | Aberdar        | Powell Dyffryn Steam Coal Co |
| 175. | Lower Resolven        | Glynnedd       | William Jones.               |
| 176. | Maes y Bettws         | Penybont       | Maesybettws Coal Co.         |
| 177. | Maesteg No. 8         | Maesteg        | J. Brogden & Sons.           |
| 178. | Maesteg No. 9         | Maesteg        | J. Brogden & Sons.           |
| 179. | Maes-y-Marchog        | Glynnedd       | Penrose & Starbuck.          |
| 180. | Maes Melin            | Sciwen         | Dynevor Coal Co.             |
| 181. | Main                  | Sciwen         | Dyffryn Main Coal Co.        |
| 182. | Maindy                | Pontypridd     | D. Davies & Co.              |
| 183. | Mansel                | Abertawy       | Evan Daniel.                 |
| 184. | Merthyr Dar           | Aberdar        | J. Brogden & Sons.           |
| 185. | Merthyr Valley        | Merthyr Tydfil | Nixon, Taylor & Co.          |
| 186. | Mills                 | Abertawy       | Mills.                       |
| 187. | Moffatt Level         | Maesteg        | Llynvi Vale Iron Co.         |
| 188. | Morfa                 | Taibach        | Vivian & Sons.               |
| 189. | Mountain              | Merthyr        | R. T. Crawshay.              |
| 190. | Mountain Level 1 & 2  | Merthyr        | Plymouth Iron Co.            |
| 191. | Mountain Pit          | Aberdar        | Aberdare Iron Co.            |
| 192. | Mynydd Newydd         | Abertawy       | Vivian & Sons.               |
| 193. | Nantmelin             | Aberdar        | Mordecai Jones.              |
| 194. | Navigation            | Mountain Ash   | Nixon, Taylor & Cory.        |
| 195. | Newbridge             | Pontypridd     | R. Rowland.                  |
| 196. | New Brithdir          | Rhymni         | Dunraven Coal Co.            |
| 197. | New Rhos              | Caerdydd       | Williams, Lewis & Co.        |
| 198. | New Place             | Gelligaer      | Charles Protheroe.           |
| 199. | Nixon's Graigola      | Cwm Tawy       | Nixon & Co.                  |
| 200. | North Llantwit        | Llantrisant    | L. Williams.                 |
| 201. | Oakwood               | Maesteg        | W. Davis.                    |
| 202. | Oakwood               | Port Talbot    | Governor & Co.               |
| 203. | Ogmore                | Gilfachgoch    | Ogmore Colliery Co.          |
| 204. | Old Brithdir          | Rhymni         | P. T. Woodruffe & Co.        |
| 205. | Onllwyn               | Castellnedd    | James Evans.                 |
| 206. | Palleg                | Cwm Tawy       | Palleg Coal Co.              |
| 207. | Park                  | Penybont       | J. Brogden & Sons.           |
| 208. | Park                  | Llansamlet     | Foxhole Colliery Co.         |
| 209. | Park                  | Pontypridd     | D. Davis & Co.               |
| 210. | Park                  | Aberdar        | Aberdare Rhondda Coal Co.    |
| 211. | Park                  | Aberdar        | Aberdare Iron Co.            |
| 212. | Pantywaun             | Dowlais        | Dowlais Iron Co.             |
| 213. | Penalltan Levels      | Gelligaer      | W. & E. Beddoe.              |
| 214. | Penclawdd             | Penclawdd      | Amman Iron Co.               |
| 215. | Pendyrus              | Rhondda Fach   | A. Tylor & Co.               |
| 216. | Penrhiwfer            | Cymmer Rhondda | Penrhiwfer Coal Co.          |
| 217. | Pentre                | Cwm Rhondda    | Pentre Coal Co.              |
| 218. | Pentre                | Abertawy       | Vivian & Sons.               |
| 219. | Pentrefelin           | Abertawy       | Vivan & Sons.                |
| 220. | Pentrepoeth           | Gelligaer      | James Latch & W. Cope.       |

## GLOFEYDD MORGANWG—(Parhad).

| ENIF. | ENW'R LOFA.          | ARDAL.            | PERCHENOGION.             |
|-------|----------------------|-------------------|---------------------------|
| 221.  | Penvillia            | Abertawy          | Penvillia Coal Co.        |
| 222.  | Penygraig            | Pontypridd        | Penygraig Coal Co.        |
| 223.  | Penydarren           | Merthyr           | Plymouth Iron Co.         |
| 224.  | Penydarren           | Merthyr           | Dowlais Iron Co           |
| 225.  | Perthigleision       | Merthyr           | Perthigleision Co.        |
| 226.  | Plymouth             | Merthyr           | Plymouth Iron Co.         |
| 227.  | Pontcynon            | Aberdare Junction | Phillip Davies.           |
| 228.  | Primrose             | Pontardawe        | Primrose Coal Co.         |
| 229.  | Pwllfa'r On          | Glynnedd          | Neath Abbey Coal Co.      |
| 230.  | Pwlllywaun           | Pontypridd        | Pontypridd Coal Co.       |
| 231.  | Rhesolfen            | Glynnedd          | Cory, Yoe & Co.           |
| 232.  | Rheolau              | Glynnedd          | Plymouth Coal Co.         |
| 233.  | Rheolau Main         | Glynnedd          | Rheolau Main Colliery Co. |
| 234.  | Rhondda Merthyr      | Treherbert        | P. E. Lewis.              |
| 235.  | Rhondda Mountain     | Glynnedd          | Glyn Neath Coal Co.       |
| 236.  | Phose Pit            | Gelligaer         | Carngethin Coal Co.       |
| 237.  | Rhos Llantwit        | Caerfili          | Rhos Llantwit Coal Co.    |
| 238.  | Rhyding              | Castell Nedd      | Evans & Bevan.            |
| 239.  | Rhydydefaid          | Abertawy          | Phillip Richard.          |
| 240.  | Rhydyrhelyg          | Nantgarw          | T. W. Booker & Co.        |
| 241.  | Rhiwsaison           | Idanilltyd Fardre | William Lewis.            |
| 242.  | Rhydwaun             | Hirwaun           | Rhydwaun Coal Co.         |
| 243.  | Skewen               | Castell Nedd      | Neath Abbey Coal Co.      |
| 244.  | Staulers             | Castell Nedd      | Neath Abbey Coal Co.      |
| 245.  | Sguborwen            | Aberdar           | Samuel Thomas.            |
| 246.  | Taibach              | Merthyr           | Plymouth Iron Co.         |
| 247.  | Do. South No. 2      | Merthyr           | Plymouth Iron Co.         |
| 248.  | Tanyrheol            | Gower Road        | Tanyrheol Coal Co.        |
| 249.  | Tewgoed              | Port Talbot       | Margam Tin Plate Co.      |
| 250.  | Tir Isaf a Tir Gwylt | Llansamlet        | Foxhole Colliery Co.      |
| 251.  | Tir Phil             | Gelligaer         | Rhymney Iron Co           |
| 252.  | Tor-y-Cefn           | Castell Nedd      | Evans & Bevan.            |
| 253.  | Tir Gibbon           | Caerfili          | Energlyn Co.              |
| 254.  | Troedyrhiw           | Cymmer Rhondda    | Troedyrhiw Coal Co.       |
| 255.  | Trybeddau            | Merthyr           | Plymouth Iron Co.         |
| 256.  | Troedrhwiw'rhuwch    | Gelligaer         | D. Joseph.                |
| 257.  | Top Hill             | Glancaiaoch       | W. S. Cartwright          |
| 258.  | Two Sisters          | Abertawy          | Pegg & Co.                |
| 259.  | Ty Draw              | Abertawy          | Maddock & Howells.        |
| 260.  | Ty Draw              | Llansamlet        | Tydraw Coal Co            |
| 261.  | Ty Gwyn Bach         | Maesteg           | J. Brogden & Sons.        |
| 262.  | Tylacoch             | Owm Rhondda       | Tylacoch Coal Co.         |
| 263.  | Tynant Lantwit       | Pontypridd        | Powell's Lantwit.         |
| 264.  | Ty Newydd            | Penybont          | J. Brogden & Sons         |
| 265.  | Tycanol              | Abertawy          | John Glasbrook.           |
| 266.  | Ty'r Edmund          | Castell Nedd      | Neath Abbey Coal Co.      |
| 267.  | Tir Glandwr          | Abertawy          | Tir Glandwr Coal Co.      |
| 268.  | Tywith               | Maesteg           | John Brogden & Sons.      |
| 269.  | Tunnel Put           | Aberdar           | Aberdare Iron Co.         |
| 270.  | Waunycod             | Pontardawy        | Primrose Coal Co.         |
| 271.  | Waunwylt             | Merthyr           | Graig Coal Co.            |



GLOFEYDD MORGANWG—(Parhad)

| NRIF. | ENW'R LOFA.  | ARDAL.       | PERCHENOGION.                 |
|-------|--------------|--------------|-------------------------------|
| 272.  | Weig         | Abertawy     | T. Glasbrook.                 |
| 273.  | Weig         | Abertawy     | Weig Coal Co.                 |
| 274.  | Wenallt      | Castell Nedd | Aberdulais Co.                |
| 275.  | Werfa        | Aberdar      | Heath, Evens & Co.            |
| 276.  | Wern Plumins | Ystalyfera   | Ystalyfera Iron Co.           |
| 277.  | Wernddu      | Pontardawe   | Primrose Coal Co.             |
| 278.  | Westernmoir  | Castell Nedd | Eagles Bush Coal Co.          |
| 279.  | Wingfield    | Gelligaer    | James, Reed, Bevan & Price.   |
| 280.  | Worcester    | Abertawy     | Thomas Glasbrook              |
| 281.  | Ditto        | Abertawy     | Thomas Glasbrook.             |
| 282.  | Wyndham      | Penybont     | J. Brogden & Sons.            |
| 283.  | Ynysarwed    | Glynnedd     | T. C. Hinde.                  |
| 284.  | Ynysawel     | Glynnedd     | T. C. Hinde.                  |
| 285.  | Ynyscynon    | Aberdar      | Powell Dyffryn Steam Coal Co. |
| 286.  | Ynysgeinion  | Cwm Tawy     | T. Walters.                   |
| 287.  | Ynysfeio     | Cwm Rhondda  | Ynysfeio Coal Co.             |
| 288.  | Ynysshir     | Rhondda Fach | Thomas Jones.                 |
| 289.  | Ynys Wen     | Treorci      | S. W. Kelly                   |

IFRWYDRIADAU NWYOL (EXPLOSIONS) YN NGLOFEYDD MORGANWG.

| DYDDIAD.         | ENW'R LLE.                            | Y NIFER LADDWYD. |
|------------------|---------------------------------------|------------------|
| Medi, 1806       | Plymouth, Merthyr                     | 2                |
| 1817 neu 1818    | Level Abergorci                       | 1                |
| Mehefin 9, 1820  | Cwmgwrach, Glyn Nedd                  | 5                |
| Ionawr 1, 1844   | Dinas, Cwm Rhondda                    | 12               |
| Awst 2, 1845     | Pwll Cwmbach, Aberdar                 | 23               |
| Awst 10, 1849    | Pwll Lletty Shenkin, Cwmbach, Aberdar | 53               |
| 1850             | Middle Dyffryn, Aberdar               | 13               |
| 1851             | Pwll y Morfa, Taibach                 | 16               |
| Medi 10, 1852    | Middle Dyffryn, Aberdar               | 68               |
| Hydref, 1852     | Cyfarthfa, Merthyr                    | 2                |
| Hydref, 1852     | Cwmbach                               | 2                |
| Chwefror, 1853   | Blaengwawr, Aberdar                   | 2                |
| Gorphenaf, 1. 53 | Ffos-y-fran, Merthyr                  | 2                |
| Medi, 1853       | Lletty Shenkin, Aberdar               | 4                |
| Ionawr, 1854     | Cyfarthfa, Merthyr                    | 2                |
| Ebrill, 1855     | Aberaman, Aberdar                     | 5                |
| Chwefror, 1856   | Ysguborwen, Aberdar                   | 3                |
| Mawrth, 1856     | Werfa, Aberdar                        | 2                |
| Mawrth, 1856     | Aberowmboy, Aberdar                   | 2                |
| Mai 15, 1856     | Cwmaman, Aberdar                      | 12               |
| Mai 24, 1856     | Pwll Ynys Dafydd, Cwmafan             | 13               |
| Gorph. 15, 1856  | Pwll y Cymmer, Cwm Rhondda            | 114              |
| 1857             | Pwll y Morfa, Taibach                 | 4                |

**FFBWYDRIADAU NWYOL (EXPLOSIONS) YN NGLOFEYDD  
MORGANWG—(Parhad).**

| DYDDIAD.          | ENW'R LLE.                            | RHIF. |
|-------------------|---------------------------------------|-------|
| Mawrth, 1857      | Pwll Ynysbir, Rhondda Fach            | 4     |
| Chwefror 25, 1858 | Lower Dyffryn, Aberdar                | 19    |
| Mawrth, 1858      | Aberaman, Aberdar                     | 2     |
| Mai 28, 1858      | Bryndu, ger y Pil                     | 12    |
| Awst, 1858        | Mynydd Kenffig                        | 6     |
| Tachwedd, 1858    | Ysguborwen, Aberdar                   | 3     |
| Tachwedd, 1859    | Plymouth, Merthyr                     | 2     |
| Mawrth, 1860      | Pwll Powell, Cwmdar                   | 1     |
| Tach. 6, 1860     | Cwmpenar, Aberdar                     | 12    |
| Mawrth 7, 1861    | Blaengwawr, Aberdar                   | 13    |
| Chwefror 19, 1862 | Gethin, Merthyr                       | 47    |
| Awst, 1862        | Lletty Shienkin, Aberdar              | 4     |
| Chwefror 7, 1863  | Mountain Ash                          | 9     |
| Mawrth, 1863      | Abernantgyroes, Aberdar               | 1     |
| Medi 21, 1863     | Abernant, Aberdar                     | 1     |
| Hydref 17, 1863   | Pwll y Morfa, Taibach                 | 39    |
| Rhagfyr 26, 1863  | Pwll Gwaith Newydd Maesteg            | 14    |
| Mawrth, 1864      | Plymouth, Merthyr                     | 3     |
| Awst, 1864        | Abernant, Aberdar                     | 3     |
| Rhagfyr 20, 1865  | Gethin, Merthyr                       | 34    |
| Gorph. 21, 1866   | Tyle Coch, Cwm Rhondda                | 2     |
| Rhagfyr 8, 1867   | Blaenllechau, Rhondda Fach            | 178   |
| Rhagfyr, 1868     | Fforchaman, Aberdar                   | 3     |
| Mawrth 26, 1869   | Pwll Mynydd Newydd, Llangyfelach      | 3     |
| Mehefin 19, 1869  | Blaenllechau, Rhondda Fach            | 53    |
| Tachwedd, 1869    | Hendreforgan, Ystalyfera              | 6     |
| Chwefror 14, 1870 | Pwll y Morfa, Taibach                 | 28    |
| Chwefror, 1871    | Pwll y Pentre, Cwm Rhondda            | 40    |
| Hydref 4, 1871    | Gadlys, Aberdar                       | 4     |
| Ionawr 10, 1872   | Pwll No. 1 Oakwood, Colliery, Maesteg | 11    |

**GWEITHFEYDD HAIARN MORGANWG.**

| ENWAU'R GWEITHFEYDD.               | Nifer y<br>Ffwrnneol<br>Tawdd. | Nifer yn<br>gweithlo. | Nifer<br>ffwrnneol<br>Puddling. | Nifer y<br>Mellinau. |
|------------------------------------|--------------------------------|-----------------------|---------------------------------|----------------------|
| Aberaman Aberdar                   | 3                              | 2                     | 0                               | 0                    |
| Abernant a Lilwydcoed              | 5                              | 4                     | 60                              | 4                    |
| Banwen                             | 2                              | 0                     | 0                               | 0                    |
| Rriton Ferry                       | 2                              | 2                     | 42                              | 4                    |
| Brynaman                           | 3                              | 3                     | 8                               | 3                    |
| Bute Rhymani                       | 6                              |                       |                                 |                      |
| Cefn Cwsg                          | 2                              | 2                     | 0                               | 0                    |
| Cwm Afan ac Oakwood                | 7                              | 3                     | 30                              | 5                    |
| Cyfarthfa ac Ynysfach              | 11                             | 9                     | 73                              | 6                    |
| Dowlais (2 ereill yn cael eu codi) | 17                             | 17                    | 161                             | 13                   |
| Gadlys, Aberdar                    | 4                              | 2                     | 11                              | 2                    |
| Maesteg a Llyfni Vale              | 7                              | 4                     | 54                              | 6                    |

GWEITHFEYDD HALARN MORGANWG—(Parhad).

| ENWAU'R GWEITHFEYDD.          | Nifer y Ffwrnodi Tawdd. | Nifer yn gweithio. | Nifer Ffwrnodi Pudding. | Nifer y Melluas. |
|-------------------------------|-------------------------|--------------------|-------------------------|------------------|
| Pentyrh a Melingriffith .. .. | 2                       | 2                  | 11                      | 12               |
| Penydarren, Merthyr .. ..     | 7                       | 0                  | 19                      | 0                |
| Plymouth a Dyfryn .. ..       | 10                      | 5                  | 54                      | 5                |
| Tondu .. ..                   | 2                       | 2                  | 31                      | 4                |
| Treforest, Pontypidd .. ..    | 2                       | 2                  | 0                       | 0                |
| Venallt .. ..                 | 2                       | 0                  | 0                       | 0                |
| Ystalyfera .. ..              | 11                      | 6                  | 42                      | 16               |

TAWDD-DAI HALARN A PHRES.—(Iron and Brass Foundries).

| RHIF. | ENWAU A SEFYLLFAOEDD.                      | PERCHENOGION.           |
|-------|--|-------------------------|
| 1     | Atlas Works, Caerdydd .. ..                | Winby Brothers          |
| 2     | Britannia Foundry, Caerdydd .. ..          | R. M. Gough             |
| 3     | Briton Ferry Foundry, Briton Ferry .. ..   | W. Davies a'i fab       |
| 4     | Bute Dock Foundry, Caerdydd .. ..          | J. B. Roe               |
| 5     | Bwlfa Foundry, Clydach .. ..               | George Davies           |
| 6     | Cambrian Foundry, Abertawy .. ..           | John Lewis              |
| 7     | Cardiff Foundry, Caerdydd .. ..            | M. A. Lisle             |
| 8     | Clydach Foundry, Abertawy .. ..            | John Player & Co        |
| 9     | Coedpenmaen Foundry, Pontypridd .. ..      | Morgan, Williams & Co   |
| 10    | Copperhouse Foundry, Treforris .. ..       | John Evans              |
| 11    | College Iron Works .. ..                   | D. Davies a T. Williams |
| 12    | Croekherbtown Foundry, Caerdydd .. ..      | J. Tunnel Jones         |
| 13    | Crown Foundry, Treforris .. ..             | Williams a'i fab        |
| 14    | Dare Foundry, Aberdar .. ..                | Richard Lewis           |
| 15    | Eagle Iron Foundry, Llandaf .. ..          | David Evans             |
| 16    | Eaglebush Foundry, Melincryddan .. ..      | Sankey Gardner          |
| 17    | Glaneynon Foundry, Aberdar .. ..           | W. Williams             |
| 18    | Hirwaun Foundry, Hirwaun .. ..             | Thomas Llewellyn        |
| 19    | John Street Foundry, Caerdydd .. ..        | W. Sneezum & Co         |
| 20    | Melin Gorwg Foundry, Pontypridd .. ..      | A. & E. Jones           |
| 21    | Merthyr Foundry, Merthyr .. ..             | Mathew John             |
| 22    | Millbrook Iron Works, Glandwr .. ..        | Millbrook Iron Co       |
| 23    | Mill Lane Foundry, Caerdydd .. ..          | Newbrey & Co            |
| 24    | Mount Street Iron Works, Caerdydd .. ..    | E. H. Michell           |
| 25    | Neath Abbey Iron Works, Abbatty Nedd .. .. | Neath Abbey Iron Co     |
| 26    | New Cut Foundry, Abertawy .. ..            | E. Thomas a'i fab       |
| 27    | Ogmore Foundry, Penybont .. ..             | C. Sheppard             |
| 28    | Railway Bridge Foundry, Castell Nedd .. .. | Howell & Jones          |
| 29    | Rhondda Foundry, Pontypridd .. ..          | John Jones              |
| 30    | Strand (119), Abertawy .. ..               | John Griffiths          |
| 31    | Tubal Cain Iron Works, Caerdydd .. ..      | Parfitt a Jenkins       |
| 32    | Union Foundry, Caerdydd .. ..              | Enos Lacey & Co         |
| 33    | Upper Boat Foundry, Pontypridd .. ..       | Evan Jones              |
| 34    | Victoria Foundry, Treforris .. ..          | Thos. Phillips          |
| 35    | Vulcan Factory, Abertawy .. ..             | Isaac Jones             |
| 36    | Waterloo Foundry, Abertawy .. ..           | William Rogers          |
| 37    | West Dock Foundry, Caerdydd .. ..          | B. C. Davies            |
| 38    | Ynysangharad Works, Pontypridd .. ..       | Brown, Lenox & Co       |

## GWEITHFEYDD ALCAN—(Tin Plate Works).

| RHIF. | ENWAU A SEFYLLFAOEDD.                   | PERCHENOGION.                  |
|-------|---|--------------------------------|
| 1     | Aberafan (Avon Vale Tin Plate Works)    | T. & R. Jenkins & Co           |
| 2     | Aberdar, Tre cynon ... ..               | Chivers, Son & Smith           |
| 3     | Aberdulais, Castell Nedd ... ..         | Aberdulais Co                  |
| 4     | Baglan Works, Briton Ferry ... ..       | Edmund Morewood                |
| 5     | Beaufort, neu Lower Forrest, Llansamlet | Beaufort Tin Plate Co          |
| 6     | Black Vale, Abertawy ... ..             | James Stephens                 |
| 7     | Cwmafan, Cwmafan ... ..                 | Governor & Co                  |
| 8     | Cwmbwrla, Abertawy ... ..               | Swansea Iron & Tin Plate Co    |
| 9     | Cwmfelin, Abertawy ... ..               | Cwmfelin Tin Plate Co          |
| 10    | Eagle Wharf, Abertawy .. ..             | Wood (Townshend) & Co          |
| 11    | Glandwr, Abertawy ... ..                | Landore Tin Plate Co           |
| 12    | Llwydarth, Maesteg ... ..               | Llwydarth Tin Plate Co         |
| 13    | Machen Forge, ger Caerfili .. ..        | Machen Iron & Tin Plate Co     |
| 14    | Margam Tin Plate Works, Taibach         | Robert Blake, Byass & Co       |
| 15    | Melincryddan, Castellnedd .. ..         | Leach, Flower & Co             |
| 16    | Melin Griffith, Pentyrch .. ..          | T. W. Booker & Co              |
| 17    | Penclawdd .. ..                         |                                |
| 18    | Pontardawe, Cwm Tawy .. ..              | W. Gilberton & Co              |
| 19    | Trefforest, Pontypridd .. ..            | Lewis, Morgan & Evans          |
| 20    | Upper Forrest, Llansamlet .. ..         | E Bagot & Co                   |
| 21    | Vernon Works, Briton Ferry .. ..        | David Morris & Co              |
| 22    | Worcester Tin Plate Works, Llansamlet   | Llansamlet Tin Plate Co        |
| 23    | Ynyspenllwch, Cwm Tawy .. ..            | Ynyspenllwch Tin Plate Co      |
| 24    | Ystalyfera, Cwm Tawy .. ..              | Ystalyfera Iron & Tin Plate Co |

## GWEITHFEYDD EFYDD—(Copper Works).

| RHIF. | GWEITHFEYDD.                         | PERCHENOGION.                   |
|-------|--------------------------------------|---------------------------------|
| 1     | Black Vale Copper Works, Abertawy    | James Stephens                  |
| 2     | Briton Ferry .. ..                   | Sweetland, Tuttle & Co          |
| 3     | Cwmafan — .. ..                      | Governor & Co. of Copper Miners |
| 4     | Dan-y-Graig, Abertawy .. ..          | A. C. Hadland & Co              |
| 5     | Hafod Copper Works .. ..             | Vivian & Sons                   |
| 6     | Landore Copper Works                 |                                 |
| 7     | Mine Royal Copper Works, Castellnedd |                                 |
| 8     | Morfa Copper Works, Abertawy         | Williams, Foster & Co           |
| 9     | Rose Copper Works, Abertawy          |                                 |
| 10    | Middle Bank Copper Works, Abertawy   |                                 |
| 11    | Upper Bank, Abertawy                 | Grenfell, Pascoe & Sons         |
| 12    | Port Tennant, Abertawy .. ..         | C. Lambert                      |
| 13    | Red Jacket, Castellnedd .. ..        | Bankart & Sons                  |
| 14    | Taibach Copper Works .. ..           | Vivian & Sons                   |

GWAITH DUR.

1. Siemens Steel Works Limited, Glandwr ac Hirwaun. }
2. Malin Ddar Dowlais.

GWAITH PLWM.

Penclawdd Lead Works, eiddo Stock & Co.

GWEITHFEYDD SPELTER.

Crown Spelter Works, Castellnedd.  
 Hafod, Abertawy, } eiddo Vivian & Sons.  
 Morriston Spelter Works, }  
 Taibach Spelter Works, }  
 Llansamlet Spelter Works, eiddo Dillwyn & Co.

GWEITHFEYDD CADWYNI, ANGORION, &c.

Abertawy, Vulcan Factory, North Dock.  
 Abertawy, 46, Strand, eiddo Shadrach Davies.  
 Abertawy, 119, Strand, eiddo John Griffiths.  
 Abertawy, New Cut Foundry.  
 Caerdydd, Maindy, eiddo Dornford & Co.  
 Yuysgangharad, Pontypridd, Brown, Lenox & Co.  
 Y Green, Castellnedd, gan George James May.

GWAITH CRUCIBLES.

Mile end Glandwr. Defnyddir y rhai hyn i doddi aur, arian, copr, pres, &c. Cafodd rhai o'r gwaith hwn eu barnu yn oreu yn Arddan-gosiadau Llundain 1862, Paris 1867, Havre 1868, Amsterdam 1869; a dyfarnwyd bathodau y dosparth blaenaf i'r perchenogion.

GWEITHFEYDD PIBELLAU PRIDD (*Drain Pipes*).

1. Abertawy, yn Ostermouth road, gan D. Davies & Co. 2. Caerdydd, yn East Street, ger y Gwaith Nwy, gan Stoccombe. 3. Castell-Nedd, yn Mill Lands, gan Thomas Andrew. 4. Cwm Tawy, yn Ynysymendwy, gan Lewis a Morgan. Mae gan y rhai hyn Waith Llestri Pridd yn y lle hefyd. 5. Nantgarw, Pontypridd, gan Pardoe a'i Frodyr.

GWEITHFEYDD PIBELLAU TOBACCO.

1. Hafod, Abertawy, eiddo Palmer a Kennicott. 2. Canton, Caerdydd, eiddo G. W. Priest. 3. Merthyr, eiddo F. Taylor. 4. Nantgarw, eiddo Pardoe a'i frodyr.

GWEITHFA BAPUR.

Ely Paper Works, Ely, Llandaf.

## GWAITH ALKALI.

Glandwr, a Hafod, Abertawy,—Vivian &amp; Sons.

## GWAITH ARSENIC.

Black Vale, a Danygraig, Abertawy.

GWEITHFEYDD FFERYLLOL—(Chemical Works).

| NRIF. | ENWAU A SAFLEOEDD.                       | PERCHENOIGION.            |
|-------|--|---------------------------|
| 1     | Cambrian Vinegar Works, Pontypridd       | Cambrian Vinegar Co       |
| 2     | Cwmafan Chemical Works, Cwmafan          | Governor & Co             |
| 3     | East Moor Chemical Works, Caerdydd       | Henry Johnson Jones       |
| 4     | Melinyrddan Chemical Works, Castell-Nedd | Pencader & Melinyrddan Co |
| 5     | Morrison Chemical Works, Treforris       | T. Bowen a'i fab          |
| 6     | Old Copperhouse Chemical Works, Glandwr  | Mc Dougall Brothers       |
| 7     | Pentrepoeth Chemical Works, Treforris    | Josiah Rees               |
| 8     | Pontardawe Chemical Works, Pontardawe    | J. Lewis a'i Fab          |
| 9     | Pontypridd Chemical Works, Pontypridd    | Chivers, Todd & Chivers   |
| 10    | Rhondda Chemical Works, Pontypridd       | E. Smith                  |
| 11    | Tir-pendry Chemical Works, Treforris     | T. Lewis & Co             |
| 11    | Union Chemical Works, Treforris          | J. E. Bowen a Henry       |
| 13    | Ynys Chemical Works, Clydach             | Ynys Chemical Co          |

## CYFLEUSTERAU MASNACHOL MORGANWG.

Y dull cyntefig o gludo nwyddau o'r naill fan i'r llall yn Morganwg, oedd ar gefnau mulod,—yn y dull hwnw y dygid yr haiarn, &c., o Ferthyr i Gaerdydd. Canlynwyd y dull cyntefig hwnw gan y pedrol-feni (*wagons*). Yna daeth y *Camlesi* i sylw a bri mawr. Y camlas hynaf yn y sir yw, *The Glamorganshire Canal*, o Gaerdydd i Ferthyr Tydfil. Dechreuwyd ef yn 1791, a gorphenwyd ef yn 1798; yn 25 milldir o hyd, ac arno 40 *lock*, am fod y codiad rhwng y ddau le yn 611 troedfedd. Yn 1811, gwnaed cangen o hono o'r Basin, ger Aber Cynon, i fyny trwy gwm Cynon i Aberdar. Nofia badau gyda llwythi o 25 tunnell ar y camlas hwn, a dygir masnach helaeth yn mlaen arno yn awr. Yr ail Gamlas yw un Glynnedd, a ddechreuwyd yn fuan ar ol y Hall yn 1791. Cyrhaedda o Lansawel hyd Abernant Uwm Nedd, sef 14 milldir. Gwnaed Camlas arall yn Nghwm Nedd yn 1822, a elwir Camlas Pennant, yr hwn sydd yn cyrhaedd o Borth Tennant, ger Abertawy, hyd Aberdulais, Cwmnedd, pellder o wyth milldir. Dygir hwn dros afon Nedd, ger Aberdulais, ar bont 10 bwa. Dygir masnach helaeth yn mlaen ar y rhai hyn, er fod y cleddrffyrdd wedi eu hagar yn gyfochrog â hwy.

*Camlas Cwm Tawy*, a orphenwyd yn 1798, yn 17 milldir o hyd, o Abertawy hyd Ystradgynlais. Coda hwn 878 troedfedd, ac y mae

arno 86 *look*. Y rhai hyn ydynt brif Gamlesi y Sir. Wrth orphen â'r Camlesi, priodol sylwi mai gwr o'r enw John Trew, o Forganwg, gynlluniodd Gamlas hynaf y deyrnas yn agos i Exeter yn 1568.

## CLEDBFFYRDD.

Yn Morganwg y gwnaed y gledrffordd gyntaf yn Mhrydain, ag y cafwyd Act Seneddol arni. Gwnaed hi yn 1802, o Ferthyr Tydfil hyd Aber Cynon, pellder o naw milldir. Rhedodd y peiriant cyntaf arni, Chwefror 14, 1808, a gelwid ef "*Trevethick's High Pressure Tram Engine*." (Gwel. Merthyr). Pan wawriodd cyfnod y cledrffyrdd presenol, i gario teithwyr, &c., manteisiodd cyfoethogion Morganwg ar yr adeg, dechreuwyd gwneyd cledrffyrdd trwy wahanol barthau y Sir, fel y maent erbyn hyn yn dra lluosog a manteisiol. Dyma y prif rai o honynt:—

1. *Cledrffordd Cwm Taf*.—Corpholwyd y Cwmni Mehefin 1886. Agorwyd y llinell o Gaerdydd hyd Bontypridd yn 1840; a rhwng Merthyr a Chaerdydd Ebrill 12, 1841. Rhed cangau o honi trwy Gwm Cynon i Aberdar; ac o Bontypridd i fyny trwy Gwm Rhondda, hyd Flaen Rhondda, gydag amryw fan gangenau ereill.

2. *Cledrffordd Deheuolir Cymru*—(G. W. R. yn awr). Bu siarad mor foreu a'r flwyddyn 1824, am wneyd cledrffordd o Abertawy i Lundain trwy Gaerloyw, &c., fel y gellid cludo nwyddau rhwng y ddau le, yn ol y cyflymdra o 12 milldir yr awr. Ystyrid y meddylddryoh yn un ynyd a fiol y pryd hwnw gan laweroedd, a syrthiodd i'r llawr. Yn 1836, dygwyd y peth i sylw drachefn, cyhoeddwyd y bwriad yn y *Railway Monthly Magazine*,—cefnogwyd ef gan gwmni y *Great Western Railway*, a chyfoethogion Morganwg, pennodwyd Brunel yn beirianydd, &c. Appeliwyd i'r Senedd am Act i'w gwneyd, ond gwrthodwyd hyn. Yna cyfnewidiwyd yohydig ar y cyllun, appeliwyd at y Senedd drachefn, Chwef. 26, 1845, a chafwyd yr Act, Awst 4, 1845. Daw hon i Forganwg ar y tu dwyreiniol, tua dwy filldir i'r dwyrain o Gaerdydd, ac a yn orllewinol trwy dref Caerdydd, ac oddiyno i St. Ffagans, Llantrisant, Penybont, y Pil, Aberafan, Castell Nedd, Abertawy, a Chaslchwyr. Hon yw prif Gledrffordd Morganwg.

3. *Cledrffordd Cwm Nedd*.—Corpholwyd y cwmni Awst 1846,—dechreuwyd ei gwneyd Awst 28, 1847,—agorwyd hi i Aberdar, Mai 28, 1851, ac i Ferthyr yn 1854; estynwyd hi i Abertawy yn 1863;—unwyd hi â'r *Great Western* yn 1865.

4. *South Wales Mineral Railway*.—Corpholwyd y cwmni, Gor. 1848, ac ar ol cael Act arni, gwnaed hi o Briton Ferry i Glyncorrwg, yn 14 milldir o hyd. Yn Mai 1855, lêswyd hi gan Gwmni Glo Glyncorrwg.

5. *Cledrffordd Dyffryn Llyfnwy*.—Math o tramroad oedd hon hyd 1855, pan y cafwyd Act i'w gwneyd yn Gledrffordd o'r Tŷwith, Maesteg, hyd Borthcawl a Phenybont. Agorwyd hi i gario teithwyr rhwng Maesteg a Phenybont yn 1861, a rhwng Maesteg a Phorthcawl yn 1865.

6. *Cledrffordd Dyffryn Elai*.—Corpholwyd cwmni hon, Gorph. 18, 1857, i wneyd llinell o orsaf Llantrisant ar y G. W. R., hyd Benrhiwfer, gyda Changen i Gwm Muchudd, a Mynydd Gelli'r Haidd. Nid yw hon wedi ei hagor i gario teithwyr.

7. *Cledrffordd Glyn Ogwy*.—Corpholwyd y cwmni, Gorph. 1863, i wneyd llinell o'r Ton Du i flaen Ogwy, gyda hawl i redeg i Borthcawl. Yn 1864, appeliwyd at y Senedd am hawl i wneyd cangen o hon, o Felin Ifan Ddu i gyfarfod â llinell Dyffryn Elai, er cael ffordd i gludo nwyddau Glyn Ogwy i Gaerdydd. Hyd llinell Cwm Ogwy yw 14 milltir. Mae y gangen o Felin Ifan Ddu i Lân Elai, yn agos a bod yn orphenol,—gwnaed hi yn 1871-2-3.

8. *Cledrffordd Penarth*.—Corpholwyd y cwmni yn 1856, i wneyd llinell o lân afon Elai, ger Penarth, i uno â Chledrffordd Cwm Taf, 5½ milltir o Gaerdydd. Mae hon wedi ei phrydlesu gan gwmpeini Cledrffordd Cwm Taf.

9. *Cledrffordd Cwm Tany*.—Agorwyd hon o Abertawy hyd Bontardawy, yn 1860, ac oddiyno drachefn i Ystalyfera, a thrwy Gwmtwroh, i Fryn Aman.

10. *Cledrffordd Abertawy a'r Mumbles*.—Math o tramroad fu hon am flynyddau lawer; a llusgid cerbydau ar hyd-ddi gan geffylau; ond y mae oledrau a oherbydau arni er ys blynyddau bellach.

11. *Llinell y Bontfaen a Llantrisant*.—Rhed cangen o'r T.V.R. o Bontypridd i Lantrisant, ac agorwyd llinell o Lantrisant i'r Bontfaen yn 1865.

12. *Llinell Abertawy a Phontarddulais*.—Rhed y llinell hon o Abertawy i Bontarddulais, gan uno y lle blaenaf â Chledrffordd Llanelli, Llandeilo, Caerfyrddin, &c. Rhed cangen i Brynaman hefyd. Ar hyd hon gellir myned trwy Lanymddyfri, Llanwrtyd, &c., i Ogledd Cymru, Liverpool, Manchester, &c. Agorwyd hon yn 1867.

13. *Llinell Merthyr ac Aberhonddu*.—Agorwyd hon yn 1868, i dref Merthyr. Mae yn rhedeg trwy Gwm Taf Fechan, rhwng y ddwy dref a nodwyd, gan roddi cyfleustra i wŷr Morganwg fyned trwy Aberhonddu i Ogledd Cymru, &c. Rhed cangen o honi hefyd o Bontysticyll, ar du gogleddol Merthyr, heibio Dowlais, y Fochriw, &c., i'r Casnewydd.

14. *Llinell Castell Nedd ac Aberhonddu*.—Rhed y llinell hon o Gastell Nedd, heibio'r Creunant, &c., gan uno'r parth hwn o Forganwg a phrif dref Brycheiniog.

15. *Llinell Rhymini a Chaerdydd*.—Mae hon yn llinell bwysig, gyda masnach helaeth yn cael ei ddwyn yn mlaen arni. Rhed trwy dref Caerffili, heibio Ystrad Mynach, i fyny i Gwm Rhymini, hyd bontref ac haiarnfa Rhymini. Rhydd hyn i'r darlennydd fras olwg ar gyfleustra masnachol a theithiol Morganwg, a cheir manylu ar hyn etto.



## HANES WLADOL MORGANWG.

## I. O'R CYFNOD RHUFEINIG I'R CYFNOD NORMANAIDD.

Mae hanes wladol foreuol Morganwg wedi ei gylhynu gan y fath gaddug, fel mai annichonadwy yw gweled feithiau gwirioneddol y cyfnod Cyn-Rufeinig, er cael help pob llyfr sydd yn dal cyssylltiad â'r pwngc. Yn ychwanegol at brinder feithiau, y mae lluosogrwydd chwedlau mynachod yr oesau tywyll wedi eu cyssylltu â'r ychydig feithiau sydd ar gael, nes gwneyd yr hanes gwirioneddol yn fwy anhawdd fyth i ddyfod o hyd iddo. Dymunol iawn fuasai crynnodedb byr o hanes cywir am yr Essyllwyr cyn ac yn ystod y cyfnod Rhufeinig; ond ymddengys fod cael hanes gwirioneddol o'r cyfnodau hyny yn annichonadwy. Mae yn ddigon amlwg, pa fodd bynag, fod gan y Rhufeiniaid orsafoedd yn Essyllwg, heblaw y brif orsaf yn Nghaerlleon-ar-Wysg. Yr oedd ganddynt orsaf yn Nghaerdydd, un arall yn y Caerau, un arall yn Nhrebefered (*Boverton*), ac un arall yn Nghastell Nedd, y rhai oeddynt ar y brif heol rhwng Casnewydd-ar-Wysg a Chaerfyrddin; ond y mae hanes wladol a chymdeithasol yr Essyllwyr yn y cyfnod hwnw yn gorwedd dan gaddug.

Hoff fuasai cael seiliau digonol i greu mai Essyllwr oedd yr enwog Caradog, yr hwn a ddewr amddiffynodd ein gwlad am naw mlynedd yn erbyn ymosodiadau byddinoedd Rhufain; ond ofnwyf fod y traddodiadau a gofnodir yn y *Trioedd* a manau ereill o barthed Caradog mab Bran Fendigaid, &c., yn rhy weiniaid i ymddibynu arnynt. Barna yr awdurdodau goreu mai mab Cynfelyn oedd Caradog y Rhyfelwr, ac mai brodor o Colchester, yn swydd Essex, ydoedd. Yr enw a roddai y Rhufeiniaid i Cynfelyn oedd *Cynobeline*; ac enwent le ei lys yn *Camulodunum*. Yn ganlynol i hyn, enwyd y lle gan y Sacsoniaid yn *Colon-cestre*—*Colne-cestre*, &c., ac yn y diwedd yn *Colchester*. Pa fodd bynag, addefir gan haneswyr yn gyffredin mai yr Essyllwyr oeddynt yr olaf i ymostwng dan iau Rhufain; ac mai hwy yn benaf oedd yn ffurfio byddin Caradog yn y frwydr olaf ymladdwyf ganddo. Yr oedd Caradog wedi bod yn arwain byddinoedd y Cymry am flynyddau cyn iddo ddyfod i Essyllwg; a bu yn ymladd deg-ar-hugain o frwydrau â *Flavius Vespasian* (yr Ymherawdwr wedi hyny), cyn dyfod yn flaenor i'r Essyllwyr.

Yn y flwyddyn 50 o.c., daeth Ostorius Scapula i'r wlad hon i lywyddu y byddinoedd Rhufeinaidd; ac ar ol gorchfygu y Brigantiaid ac ereill o'r llwythi Cymreig, efe a droes ei wyneb yn erbyn gwŷr Essyllwg. Yr oedd son am ddewrder Caradog wedi lledu dros y wlad erbyn hyny; a phan ddaeth i Essyllwg i gynnyg ei wasanaeth yn erbyn y gelyn, derbyniwyd ef gyda llawenydd, a rhoddwyd iddo lywyddiaid yr holl fyddin. Ymladdasant dano yn ddewr ac egniol am amser; ond yr oedd eu hanfanteision y fath, yn ngwyneb dysgyblaeth fedrus, a rhagoroldeb arfau y Rhufeiniaid, fel y gorfu arnynt roddi ffordd, a'r gelynyion a'u canlynasant hyd y tuhwnt i afon Dyfi, i wlad y Gordofigion, lle yr ymladdwyd brwydr fyth-gofiadwy Caer Caradog, yr hon

a benderfynodd dynged ein cenedl am tua phedwar cant o flynyddau. Parhaodd y Rhufeiniaid i ddal awenau llywodraeth y wlad hon hyd tua'r flwyddyn 440 o.c., pryd y cododd terfysgoedd cartrefol yn Itali, ac y galwyd y byddinoedd Rhufeinig adref o'r wlad hon.

Braidd gyda bod y Rhufeiniaid wedi troi eu cefnau ar yr ynys hon, ac i'r Tywysogion Cymreig ddechreu adsefydlu llywodraethau yn ngwahanol rannu y wlad, daeth y Saesoniaid yma yn lluoedd. Y brenin cyntaf ar diriogaeth Essyllwg, ar ol ymadawiad y Rhufeiniaid, oedd Tewdrig ab Teithfallt; a phriodol yw olrhain ei achau cyn myned yn mhellach.

Yn "Achyddiaeth Iestyn ab Gwrgan," olrheindir llinach Tywysogion Morganwg, i lawr o Brydain ab Aedd Mawr, fel y canlyn:—

1. *Anwyn Dro*, neu Einion Dro, mab Prydain ab Aedd Mawr. *Æneas* o Gaerdroia oedd hwn, ac a elwir Pius *Æneas* gan Virgil ac ereill.

2. *Selys Hen ab Anwyn*, sef Silvius mab *Æneas* o Lavinia merch Latinus, yn ol Nennius ac ereill. Yr un oedd hwn, meddir, a Selyf y Britaniau Cymreig.

3. *Brwth ab Selys*.—Hwn, meddir, oedd Brutus yr haneswr Lladinaidd.

4. *Cymryw ab Brwth* a sefydlodd gyfreithiau gyntaf yn Mhrydain. Camber y galwir hwn gan haneswyr estronol.

5. *Ithon ab Cymryw*.

6. *Gweirydd Fawr ab Ithon*.—Hwn ddechreuodd gasglu a chadw gwair dros y ganaf i anifeiliaid yn Ynys Prydain.

7. *Peredur ab Gweirydd*. 8. *Llyfeinydd ab Peredur*.

9. *Gorwest ab Llyfeinydd*. 10. *Tewged Ddu ab Llyfeinydd*.

11. *Llariau Fwyn ab Tewged*.

12. *Ithel ab Llariau*.—Hwn drefnodd berchenogaeth ar dir gyntaf yn yr ynys hon.

13. *Enir ab Ithel*, a elwir Enir Fardd, am ei fod yn gefnogydd i'r Beirdd Derwyddol.

14. *Calchfynydd Hen ab Enir*.—Calchwynnydd yn hytrach. Hwn ddysgodd i'r genedl y ffordd i losgi calch, a gwneyd cymmrwd (*morter*).

15. *Llywarch ab Galchwynnydd* oedd y cyntaf i adeiladu amddiffynfeydd â muriau o geryg a mortar yn y wlad hon.

16. *Idwal Falch ab Llywarch*; ei hoffder oedd chwareu gwrol gampan.

17. *Archwyn ab Idwal* oedd frenin mud a byddar; ac am hyny, di-swyddwyd ef, a chafodd ei frawd

18. *Rhun Gambler ab Idwal* ei le.

19. *Gorfyniaw ab Rhun*.—Lladdwyd hwn gan ei frawd.

20. *Cynfarch ab Rhun*.—Lladdwyd hwn hefyd.

21. *Bleddyn ab Rhun*, a elwid Bleddyn Flaidd, am ei ddewrder mewn rhyfel.

22. *Morgan ab Bleddyn*.—Gwnaeth hwn gyfraith, fod llofruddion a bradwyr i gael eu llosgi i farwolaeth; a holl gyfoeth yspeilwyr i gael ei gymmeryd oddi arnynt, a'i roddi i'r rhai a yspeilwyd.

23. *Berwyn ab Morgan* a fu ddoeth fel ei dad.

24. *Ceraint Feddw.*—Hwn ddechreuodd wneyd diod feddwol, a bu farw yn ei feddwod.

25. *Brywlais ab Ceraint.*

26. *Alafon ab Brywlais.*

27. *Anyn Grych ab Alafon.*—Yn amser hwn y daeth y *Picts* i'r wlad hon gyntaf o'r Iwerddon.

28. *Dingad ab Anyn Grych.*—Hwn gododd lu o feirch-filwyr gyntaf; ac a drefnodd i filwyr fyw mewn caerau.

29. *Greidiol ab Dingad*, a fu ryfelwr dewr, ac a yrodd yr estroniaid yn llwyr o Gymru.

30. *Ceraint ab Greidiol.*—Dywedir i synwrau hwn ddyrysu o herwydd i'r ferch a garai ei wrthod, er ei fod yn frenin.

31. *Meirion ab Dingad*, ewythr Ceraint, a'i canlynodd. Hwn roddes ei enw ar Feirionydd, lle y bu yn arglwydd, cyn ei wneyd yn frenin.

32. *Arch ab Meirion.*

33. *Caid ab Arch*, yr hwn a wnaeth bontydd gyntaf dros afonydd.

34. *Caradog ab Arch.*—Yn ol "Achyddiaeth Iestyn," hwn oedd Caradog Fawr y rhyfelwr, a dywedir iddo ennill llawer o frwydrau ar y Rhufeiniaid, ond yn y diwedd iddo gael ei drechu drwy frad, a'i ddwyn yn garcharor i Rufain, a dychwelodd drachefn i Gymru, ac adeiladu Llys yn Abergwerydwyr (St. Donatts), ar ddull tai Rhufain, &c. I'w ferch Eurgain briodi a phendeig yn Rhufain, yr hwn a ddaeth drosodd i'r wlad hon i fyw, ac mai hwy ddygsasant wybodaeth o Grist gyntaf i'r Cymry; ac iddynt anfon i Rufain am Ilid Sant yr hwn oedd Iuddew, i ddyfod i bregethu i'r Cymry, &c. Dywedir hefyd mai Ceri nai Caradog oedd yn teyrnasu yma pan ddychwelodd ef o Rufain. Nid yw yr holl bethau hyn ond crugiau o anghysson-derau; oblegyd yr oedd Ceri yn byw lawn can mlynedd cyn y cyfnod Cristionogol.

35. *Ceri ab Caid.*—Oddiwrth hwn y mae Porth Ceri (*Porthkerry*) wedi cael yr enw.

36. *Baran ab Ceri.*—Bu i hwn 18 o wragedd, a dywedir iddo gael cant o blant; ac iddo fyw nes oedd yn 187 mlwydd oed.

37. *Lleyn ab Baran*, mewn rhyfel a orchfygodd frenin Gwynedd, ac o hyny allan galwyd y parth hwnw yn wlad Lleyn.

38. *Tegid ab Baran*, a orchfygwyd gan ei elynion, y rhai a'i boddasant mewn llyn, yr hwn a elwir yn Llyn Tegid yn bresenol.

39. *Llyr ab Baran.*—Hwn unodd Gymru a Chernyw yn un freniniaeth, ac a aeth i fyw wedi hyny i Gernyw (*Cornwall*), gan adael Essyllwg i'w fab.

40. *Bran ab Llyr*, yr hwn ar ol marw ei dad, a aeth i Gernyw i fyw, gan roddi Essyllwg i'w ail fab Caradog. Daeth y Bran hwn yn Ymherawdwr ar holl Ynys Prydain, a chan i'w feibion oll ond Caradog feirw o flaen eu tad, daeth yr Ymherodraeth i Caradog.

41. *Caradog ab Bran.*—Dyma Caradog fawr y rhyfelwr medd y rhan fwyaf o haneswyr, ond y mae tywyllwch dudew o amgylch y ffeithiau. Yn ol "Achau Iestyn," dywedir iddo ar farwolaeth ei dad, fyned i Gernyw i fyw, a gadael Essyllwg i'w fab Cyllin.

42. *Cyllin ab Caradog*.—Hwn, meddir, a barodd roddi enw ar blentyn. Cyn hyny, nid enwid plant nes gweled prif linill eu cymmeriadau, a'u henwi yn unol a hyny. Dywedir hefyd i lwydd mawr fod ar grefydd yn ei oes of trwy lafur Saint Cor Eurgain.

43. *Owain ab Cyllin*.—Dywedir i hwn adeiladu Llys yn Llanddunwyd, lle y bu Llys gan Caradog ab Arch; ac iddo waddoli Cor Eurgain a chyfoeth i gynnal 12 sant.

44. *Eirchion ab Owain*, sef Eirchion Fawdfilwr.

45. *Gorwg ab Eirchion*.—Dywedir i hwn anfon i Rufain am gelfyddydwyr i adeiladu tai yn y wlad hon, a dysgu'r bobl i drin tir yn briodol: a barna rhai mai oddiwrtho ef y mae Glyn Corrwg wedi cael yr enw.

46. *Gorddyfen ab Gorwg*.

47. *Rhun ab Gorwg*.

48. *Einydd ab Gorddyfen*.—Dywedir mai hwn oedd y cyntaf i adeiladu trefi yn y wlad.

49. *Arthfael ab Einydd*, a elwid Arthfael Hen, a barodd adeiladu llawer o drefi, pentrefi, ac Eglwysi.

50. *Gurgan Frych ab Arthfael*.—Gwaharddodd hwn i'w filwyr gario tarian; dim ond cleddyf a bwa yn unig.

51. *Meirchion ab Gwrgun*.—Hwn ddosparthodd ei deyrnas yn Gantrefi gyntaf, ac a barodd adeiladu amryw drefi newyddion.

52. *Meurig ab Meirchion*.—Yr oedd llys hwn yn y lle a elwir Tref Befered (*Boverton*). Yn ei amser ef y daeth y Gwyddyl Ffichti i'r wlad hon, y rhai a orchfygwyd ganddo mewn rhyfel; ond ymguddiodd Gwyddel mewn coed, ac oddi yno gollyngodd saeth, a lladdodd Meurig mewn lle a elwir Ystrad Meurig heddyw.

53. *Crair ab Meurig* a laddwyd gan yr anghred.

54. *Edric ab Crair* oedd lwth a meddw, a bu farw trwy fwyta yn ormodol.

55. *Bran ab Edric*.

56. *Tryhaiarn ab Edric*.—Yn amser hwn, daeth rhai Sacsoniaid a Ffichtiaid i dir Gwyr; ac am na fynai efe eu gyru ymaith, lladdwyd ef gan ei wyr ei hun.

57. *Nyniaw ab Bran*.—Bu hwn farw mewn gwallgofrwydd.

58. *Teithiaw ab Nyniaw*, a elwir Teithfalch mewn rhai llyfrau. Ymddengys mai gwr crefyddol iawn oedd hwn, a bu yn foddion i adeiladu amryw Eglwysi. Yn amser hwn mae'n debygol yr ymadawodd y Rhufeiniaid o'r wlad hon yn 440 o.c., ac nid yw yn debygol fod ganddo ef na'i flaenafiaid am oesoedd, nemawr lywodraeth yn y parthau lle yr oedd gorsafodd Rhufeinig.

59. *Tewdrig ab Teithfallt*, llys yr hwn oedd yn Nghaerlleon-ar-Wyag. Cafodd hwn ei glwyfo yn farwol wrth ymladd yn erbyn y Sacsoniaid yn Tintern, sir Fynwy yn awr, a bu farw yn mhen tri diwrnod yn ei dŷ ei hun yn Mathern (*Merthyr Tewdrig*), ac yno y claddwyd ef. Yn nghangell Eglwys Mathern, mae'r coffadwriaeth canlynol am dano:—  
“Yma y gorwedd Tewdrig Brenin Morganwg, yr hwn a elwir yn gyffredin Tewdrig Sant, am iddo gael ei ladd wrth ymladd a'r Sacsoniaid,

y pryd hwnw yn beganaidd, ac yn mhlaidd Cristionogaeth." Yn ol un MS., yr oedd Tewdrig yn briod â merch Maelor, Arglwydd Llŷs Talybont ger Caerdydd.

60. *Meurig ab Tewdrig* a ganlynodd ei dad i lywodraeth Essyllwg; ond ychydig o'i hanes sydd ar gael, a'r ychydig hyn yn gydblethedig â llunau o chwedlau Mynachaidd. Haera rhai haneswyr, ac yn eu plith Iolo Morganwg, a D. Williams, awdwr *The History of Monmouthshire*, fod Meurig trwy ei ymdrechion llwyddiannus yn erbyn y Sacsoniaid, wedi ei ddyrohafu gan y Cymry yn ben teyrn yr holl ynys; ac iddo gael teitl Uthr Bendragon.

61. *Arthwys, Adras, Arthur*.—Dyma dri enw ar yr un person, a'r person hwnw yn fab i Meurig ab Tewdrig: ac y mae mwy o dywyllwch yn nglyn ag hanes hwn nag eiddo ei dad. Mae dau ddosparth o haneswyr galluog yn gwahaniaethu yn fawr yn eu barnau o barthed y person hwn. Dywed y dosparth y cyfeiriwyd ato, sef Iolo Morganwg a'i ganlynwyr, mai yr un person yw Arthwys, brenin Essyllwg, ag Arthur Fawr y Cymry. Olrheiniant ei achau mor gelfydd a chywraïn, ac adroddant ei hanes mor fanwl, nes yr ymddengys fel gwirionedd disygl. Dywedant mai teitl oedd Uthr Bendragon, ar benaeth milwrol yr Ynys, ac nid enw person; a bod sefyllfa wladol Prydain yn ei amser ef, yr un fath ag yw yn Germany yn awr, fod ynddi luaws o fân dywysogion yn llywodraethu gwahanol barthau y wlad; a'u bod yn dewis y dewraf yn eu plith i fod yn brif arweinydd yr holl fyddinoedd yn erbyn y Sacsoniaid, ac yn rhoddi iddo y teitl o Uthr Bendragon, yr un fath ag y darfu i fân dywysogion Germany roddi y teitl o Ymherawdwr i William, brenin Prwsia, ar ol rhyfel Ffraince a Germany, 1870—71. Yn y Trioedd hynaf, rhif 58, dywedir—"Tair Priflys Arthur, Caer Llŷon ar Wysg Ynghymru, a Chelliwig yn Kernyw, a Phenrhyn Rhionedd yn y Gogledd." Cadarnheir hyn gan y Trioedd ereill, a chan feirniaid hanesiol o safle uchel; sef bod un o lysoedd y Brenin Arthur yn Nghaerlleon-ar-Wysg. Mae dosparth galluog arall o haneswyr yn dweyd mai mab Emrys Wledig oedd Uthr Bendragon, ac mai mab i Uthr oedd y Brenin Arthur, ac iddo gael ei eni yn Ngelliwig yn Nghernyw; ond y mae'r chwedl o barth ei genedliad, yn gwanhau y gred hon yn fawr iawn. Y chwedl yw, fod Uthr Bendragon, wedi ymserchu yn Eigr, gwraig Gorlais, Iarll Cernyw; ac yn chwenych cyd orwedd â hi. I'r dyben iddo gyrhaedd ei amcan, dywed y chwedl i Myrddin Ddewin, draws-ffurfio Uthr Bendragon i ffurf Gorlais, nes twyllo Eigr i gredu mai ei gwr oedd, ac felly iddi ganiatau iddo gysgu noson gyda hi, a'r noson hono y cenedlwyd Arthur. Dyna rediad y chwedl; ond pell ydym o greu yn ngallu dewinol Myrddin, a thraws-ffurfiad corff Uthr Bendragon, &c.; ac y mae'r chwedl hon yn taro yn erbyn y dyb mai mab Uthr oedd Arthur. Pa un bynag ai mab Meurig-brenin Essyllwg oedd y Brenin Arthur, neu ynte wyr Emrys Wledig, mae yn bur debygol fod ganddo lys yn Nghaerlleon-ar-Wysg, a'i fod yn Ben-aeth ar yr holl Ynys, er fod llunau o fân dywysogion ynddi ar y pryd, yn llywodraethu eu talaethau eu hunain. Bellach deun at gyhwybydd a chychwyniad yr enw Morganwg, a dechreuwn

ninnu gyfrif rhes ei Thywysogion gyda yr hwn a roddodd iddi ei henw.

1. **MORGAN MWYNFAWR.**—Pwngc anhawdd i'w benderfynu yn nglyn â'r person hwn yw, mab i bwy ydoedd; gan fod cymmaint o anghydweddiad mewn perthynas i'w flaenafaid. Dywed "Bonedd y Saint" am dano fel hyn:—"Morgan Mwynfawr—Morgan Morganwg, ab Adras Arthrwys, ab Meurig, ab Tewdrig, ab Teithfallt, ab Niniaw, ab Bran, ab Trahaiarn, ab Edric, ab Crair, ab Meurig, ab Meirchion, ab Gwrgan, ab Arthfael, ab Einydd, ab Gorddwfn, ab Gorwg, ab Eirehion, ab Owain, ab Cyllin, ab Caradawc, ab Bran, ab Llyr Llediaeth, 6fed canrif. Efe a gafas gantref Gwent, ac Essyllt, a Gorwenydd, a Rheged, ac a'i gelwis o'i enw ei hun Morganwg."

Mae yn bur ddiameuol fod Morgan Mwynfawr yn fab i Adras, yn ol y deagrifiad hwn o hono yn "Monedd y Saint," ac fel y sylwyd, dadleua un dosparth o haneswyr mai yr un yw Adras ac Arthur; ac felly mai mab Arthur Fawr oedd Morgan. Dywedant fod yr enw Morgan yn tarddu o Mor a Geni, a'i fod o'r un ystyr â'r cyfenw Seisnig *Seaborn*; ac i'r enw hwnw gael ei roddi iddo am ei fod wedi ei eni ar y môr, pan oedd Arthur a'i frenines Gwenhwyfar ar un o'u môr deithiau. Dadleuant eu pwngc yn mhellach trwy ddweyd fod Morgan pan yn ddyng ieuange o dymher wyllt ac ymrysongar; ac iddo yn un o'i ymrysonau ladd ei wrthwynebydd; a phan fu farw Arthur yn mrwydr Camlan yn y flwyddyn 542, i Cystenyn Goronawg (nai mab brawd Arthur,) gael ei ddewis yn olynydd iddo fel Penaeth Milwrol yr Ynys; ac na chafodd Morgan ond y manau a nodwyd o herwydd y llofruddiaeth a gyflawnodd. Dywed y dosparth arall o haneswyr fod Morgan yn fab Adras, ond nad oedd un berthynas naturiol rhyngddo ag Arthur, rhagor na'i fod yn un o Farchogion y Ford Gron. Barned y darlennydd drosto ei hun ar y pwngc hwn.

Dywed y rhai a farnant mai mab Arthur oedd, mai yn y flwyddyn 542 y dechreuodd Morgan lywodraethu; tra y barna y blaidd arall iddo ddechreu yn y flwyddyn 580; ond tebygol mai'r blwyddiad cyntaf sydd gywiraf.

Er fod un o lysoedd y brenin Arthur yn cael ei gynnal yn Nghaerlleon ar Wysg, ac er i'r lle hwnw ddyfod yn eiddo i Morgan, nid ymddengys iddo ef gynnal ei lys yno. Dichon mai y rheswm am hynny oedd, fod y Sacsoniaid yn gwasgu ar ei derfynau o'r cyfeiriad hwnw, ac iddo yntau farnu yn ddoeth cael ei lys i fan mwy canolog o'i dir-iogaeth, ac felly sefydlodd ei lys yn Yr Adyr (Rhadir), ger Llandaf.

Fel deddf-rodwr, rhoddir i Morgan Mwynfawr yr anrhydedd o fod yn awdwr *Y Gyfraith Apostolaidd*, yr hon, meddir, oedd cychwyniad Prawf trwy Reithwyr (*Trial by Jury*): anrhydedd mwy nis ennillodd unrhyw deyrn yn Ewrop. Sylwedd y gvfraith a sefydlwyd ganddo oedd a ganlyn:—"Fod pob ymryson rhwng pleidiau i'w farnu gan ddeuddeg o bersonau,—fod y naill a'r llall o'r pleidiau mewn dadl i ddewis chwech gwr doeth a duwiol, a'r deuddeg i gyd-eistedd i wrando triniad yr achos mewn dadl, a'r brenin yn arweinydd iddynt; a'i fod ef a'r deuddeg i gyhoeddi eu barn ar y mater, a bod eu barn hwy i

derfynu pob ymryson." Seiliodd ei gyfraith ar esiampl Crist yn dewis 12 apostol, ac felly galwyd y gyfraith hon "Y Gyfraith Apostolaidd."

Y brenin doeth hwn sylfaenodd Margam, a bu y lle yn cael ei alw wrth yr enw Morgan am oesau lawer. Dywedir y cynnalai ei lys yno yn achlysurol, fel y cyfrifid y lle yn un pwysig iawn, ar gyfrif y Crefydd-dŷ a'r llys oedd ynddo. Ymddengys oddiwrth yr awdurdodau hanesyddol goreu, fod Morgan Mwynfawr yn deyrn o gynneddfau cryfion, yn hoffi heddwch, ac yn llywodraethu ei ddeiliaid yn dda. Yr oedd yn briod â Meinwen, merch Cadell Deyrnllwg, o'r hon y cafodd amryw blant.—*MSS. Welsh Charity School.*

2. *Ithel*, mab Morgan Mwynfawr, a ganlynodd ei dad i'r llywodraeth, a bu farw yn fuan wedi esgyn i'r orsedd, fel na cheir nemawr o hanes ei weithredoedd, nac o hanes y dalaeth yn ei amser.

3. *Finydd ab Ithel*.—Tywysog crefyddol iawn oedd hwn, a rhoddodd lawer o olud i Eglwysi Llandaf, Margam, a Llangatwg Glyn Nedd. Efe hefyd adeiladodd Llaneinydd, yr hon a elwir St. Nicholas yn bresenol.

4. *Rhys*, mab Euiydd, a ddilynodd ei dad i'r orsedd, a bu yn llwyddiannus yn ei ymdrechion milwrol i yru y Sacsoniaid allan o'i derfynau. Yr oedd yn ŵr o duedd grefyddol hefyd, ac ar ei draul ef yr adeiladwyd Llanbedr y Fro.

5. *Hywel ab Rhys* ydoedd dywysog llwfr a diyni, a darfu i'r Saeson gymeryd mantais ar hyn, trwy ddyfod yn lluoedd ac ymsefydlu yn ngwahanol barthau Morganwg heb wrthieb. Pa fodd bynag, ni fu Hywel yn llywodraethu yn hir, fel na chafodd y Saeson ymgadarnhau llawer yma.

6. *Arthfael ab Rhys*, brawd Hywel, a ddaeth nesaf i'r orsedd, yr hwn a elwir *Artimalus* yn yr ysgrifau Lladin, ac yr oedd yn elyn ffyrnig i'r Saeson. Un o'r pethau cyntaf a wnaeth wedi cael awenau llywodraeth Morganwg i'w ddwyllaw, oedd casglu byddin o Gymry, a gyru y Saeson ymaith o'i derfynau. Dan arweiniad y tywysog dewr hwn, mae'n debyg, yr ymladdwyd brwydrau gwaedlyd Pencoed a Garth Maelwg, yn y flwyddyn 720, pryd y llwyr orchfygwyd y Saeson gan wyr Morganwg. Mae tair carnedd ar ben Mynydd Garth Maelwg i'w gweld yn awr, a bernir mai claddfeydd lladdedigion y frwydr ymladdwyd yno ydynt. Nid yw Rhiw'r Saeson yn mhell o'r lle ychwaith, a dichon i'r Rhiw gael yr enw hwn oddiwrth Saeson yr oes hono. Lladdwyd Arthfael mewn brwydr yn erbyn y Saeson yn ymyl Eglwys Roath, ger Caerdydd, lle y claddwyd ef. Pan welodd ei filwyr ei fod wedi syrthio, ffyrnigasant i'r fath raddau nes penderfynu dial ei waed; ac er yn amddifad o arweinydd, gyrasant y gelynion ar ffo, gan ladd agos eu hanner.

7. *Meurig ab Arthfael*.—Preswyliai hwn yn Treberefed (*Boerton*), ger Llanilltyd Fawr, lle yr oedd ganddo balas. Yr oedd hwn yn llywodraethwr galluog, ac ychwanegodd lawer at gyssur ei ddeiliaid trwy ad-sefydlu cyfreithiau Morgan Mwynfawr, y rhai oeddent wedi eu hesgeuluso i raddau helaeth. Gwnaeth ymdrechion llwyddiannus yn erbyn y Saeson hefyd, fel y daeth yn hynod enwog, ac aml y seinid y ddiareb,

"Enw mawr yw enw Meurig."

8. *Brochfael ab Meurig*.—Portreadir hwn yn y Cofnodion Cymreig fel gwr duwiol ac heddychol, ond hynod lwfr ac aflwyddiannus. Dywedir iddo adeiladu amryw Eglwysi newyddion yn Morganwg, ac i lwydd mawr fod ar grefydd yn ei amser; ond gan ei fod mor heddychol, cafodd y Saeson lonydd i luosogi yn ei diriogaeth. Dywedir hefyd mai efe wnaeth yr ymgais gyntaf at adeiladu Caerdydd ar ol ymadawiad y Rhufeiniaid.

9. *Gweirydd ab Brochfael*.—Yr oedd hwn, fel ei dad, yn gymmeriad pur lwfr, a bu yn hynod anfodus yn ei ymgais i geisio gyru y Saeson o'i dalaeth, fel y darfu i Iarll Eadred ac ereill o'r llywyddion Seisnig honi cryn hawl ac awdurdod yn Nhalaeth Morganwg. Cynnaliai hwn ei lys yn Nghaerdydd, yn y ty a adeiladwyd gan ei dad; ond yr oedd yn byw yn y Caerau, lle yr adeiladodd Eglwys Llanweirydd, yr hon a elwir "Y Caerau" yn awr. Blinwyd y wlad yn fawr yn ei amser ef gan stormydd a llifogydd trymion, yrhai a ganlynwyd gan glefydau a newyn.

10. *Arthfael*, ail fab Gweirydd, a ddilynodd ei dad i'r llywodraeth, ac ymddengys ei fod yn dywysog galluog a synwrol iawn. Bu yn hynod ffodus yn ei ymdrech i yru y Saeson o Forganwg hefyd. Ond yn ei amser ef, ymddangosodd gelyn arall, sef y Llu Du, yr hwn a ddaeth drosodd i'r wlad hon o Denmarc, a thros Hafren i Forganwg, gan ddi-frodi y wlad, a chymmeryd o honi yspail fawr. Bu yr Arthfael hwn farw pan ar daith bererind yn Rhufain, yn y flwyddyn 895 B.A.

11. *Rhys ab Arthfael*.—Yr oedd hwn yn un o'r llywodraethwyr goraf a doethaf fu yn Morganwg erioed, a byddai yn fendith annhraethol i'n gwlad pe byddai i Lywodraeth Prydain Fawr yn bresenol efelychu y llywodraethwr call hwn. Yn amser Gweirydd (ei dadeu), fel y sylwyd, bu newyn trwm yn y wlad o herwydd ystormydd, llifogydd, a thywydd annhymherus. Yn amser ei dad drachefn, daeth y Llu Du i yspeilio y diriogaeth, fel y teimlid prinder eilwaith. Yn ngwyneb hyn, gwnaeth Rhys gyfraith ragorol, i beri i'w ddeiliaid wneyd gwell defnydd o'r tir. Cyhoeddodd trwy ei holl diriogaeth fod hanner tir Bro Morganwg i gael ei drin i godi ŷd, a'r hanner arall i godi gwair, ac yn borfeydd anifeiliaid. Hefyd, bod un ran o bedair o'r Blaenau i'w drin i godi ŷd, a'r gweddill i borthi anifeiliaid; a bod cymmaint o'r tir ag na fuasid yn ei ddefnyddio yn myned i'r brenin. Bu ffurfiad y gyfraith hon yn foddion i ddefro gwyr Morganwg i dalu mwy o sylw i amaethyddiaeth; cafodd llechweddau a phenau mynyddau y Blaenau eu haredig, eu gwrteithio, a'u hau, a gwelwyd hwy wedi eu gwisgo â mentyll o ŷd melynawwr, a llanwyd y wlad â digonedd o yr borth dyn ac anifail, a gwyn fyd pe gwelem ein mynyddau yn derbyn yr unrhyw driniaeth etto. Cofier mai nid chwedl ddisail yw hon, oblegyd y mae olion yr erydr yn gwysi hŷrion i'w gweled hyd heddyw ar amryw o fynyddau y Sir, yn tystio tuhwnt i bob amheuaeth eu bod wedi cael eu hamaethu gan rywrai.

Nid at amaethyddiaeth yn unig y troes y tywysog doeth hwn ei sylw ychwaith; ond talodd sylw mawr i forwriaeth hefyd. Yn gymmaint â bod Morganwg yn ffinio a'r mor, barnodd y buasai yn fanteisiol cael llongau i'w nofio; a mynodd luaws o honynt wedi eu



hadeiladu ; ac adeiladodd amryw gestyll hefyd er cadarnhau ei freniniseith.

12. *Hywel*.—Dywed un hanes mai mab Rhys oedd hwn, tra y dywed un arall mai brawd Arthfael, ac ewythr Rhys oedd. Pa fodd bynag am hyny, yr oedd Hywel yn teyrnasu yr un amser â Chadell mab Rhodri mawr, ab Merfyn Frych, brenin y Deheubarth, yr hwn oedd a'i lys yn Nghaerfyrddin. Un o brif ddygwyddiadau teyrnasiad Hywel, oedd y frwydr waedlyd ymladdwyd rhyngddo a brenin Brycheiniog, yr hwn oedd yn cael ei gynnorthwyo gan Cadell brenin Dinefawr. Achos y frwydr oedd ymryson rhwng Hywel a brenin Brycheiniog o barth Ystrad Yw, &c. Wedi gorphen y frwydr, cododd Hywel grug anferth o geryg i nodi ei ffin o hyny allan ; a gelwir y lle byth oddiar hyny, wrth yr enw Crug Hywel. Dywed rhai haneswyr mai Hywel Dda, mab Cadell, gododd y crug, ond nid yw hyny yn debygol.

Bu Hywel brenin Morganwg farw yn Rhufain ; ond dywed rhai haneswyr iddo roddi y llywodraeth i fyny i'w fab cyn cychwyn tuag ato.

18. *Owen ab Hywel*.—Yn amser hwn, preswylid Caer-leon-ar-Wyseg, gan Saeson yn benaf, a darfu i'r Llu Du ymosod yn ffyrnig a baeddgar ar y lle, fel y gorfodwyd hwy i ffoi at Owen am nodded. Darfu iddo yntau drugarhau wrthynt, a rhoi lle iddynt drigo yn Mro Gwyr ; a hwy oedd y Saeson cyntaf i ymsefydlu yn Ngwyr.

14. *Morgan Mawr, Morgan Hen*, a elwir hefyd Morgan Mwynfawr yr ail. Dywed rhai haneswyr mai mab Hywel oedd Morgan, a brawd Owen, ond mwy tebygol yw, mai mab Owen ydoedd.

Priododd Morgan ag Olwen (Nest medd rhai) merch Rhodri Mawr, a chwaer Cadell, brenin y Deheubarth. Yn rhinwedd ei briodas, cafodd Morgan Mawr Ystrad Yw, &c., dan ei lywodraeth, sef yr hyn gymmerwyd oddiar Forganwg yn mrwydr Crughywel, fel y sylwyd. Darfu i Hywel Dda hawlio y tiroedd hyn drachefn fel meddiant cyfiawn, wedi eu hennill gan Cadell ei dad, oddiar Hywel, brenin Morganwg. Syltwer yn awr pa fodd yr oedd pethau yn sefyll. Perthynai Ystrad Yw, ac Eneas, &c., yn wreiddiol i Forganwg. Yn mrwydr Crughywel, cymmerodd Cadell feddiant o honynt oddiar wyr Morganwg,—priododd Morgan Mawr â chwaer Cadell, a chyda'r uniad priodasol hwn, unwyd Ystrad Yw, &c., â Morganwg drachefn. Yn fuan ar ol hyn, daeth Hywel Dda i feddiant o orsedd y Deheubarth, a hawliodd Ystrad Yw hefyd. Yr oedd Morgan, brenin Morganwg, yn ewythr i Hywel Dda, yn briod a'i fodryb chwaer ei dad. Gan fod Ystrad Yw yn perthyn yn wreiddiol i Forganwg, a bod Morganwg erioed yn Dalaeth hollol annibynol ar y Deheubarth, ni fynai Morgan roddi ei hawl i fyny, a'r canlyniad fu i Hywel a Morgan ymbarotoi i ryfel. Pan welodd Marchlws, esgob Llandaf, fod y ddau frenin yn parotoi i ryfel, defnyddiodd ei ddylanwad ar y pleidiau er eu hattal rhag tywallt gwaed, a chyngorodd hwy i derfynu yr ymryson yn ol Cyfraith Apostolaidd Morgan Mwynfawr. Dengys hyn mai nid peth newydd dan haul yw cyflafareddiad yn lle rhyfel. Llwyddodd yr esgob yn ei amcan—dewisodd y ddau frenin ddeuddeg o brif arglwyddi y wlad, chwech o bob tu, i fod yn fath o reithwyr i farnu'r achos ; ond gan mai rhwng dau frenin yr

oedd yr ymryson, aamhriodol oedd i un o honynt hwy arwain y llys ar y matter; ac felly penderfynwyd fod Edgar brenin y Saeson i gyn-northwyo'r cyflafareddwyr. Cynnaliwyd y cyfarfod i drin y matter yn Llandaf; ac ar ol edrych arno o bob cyfeiriad, barnodd Edgar a'r cyflafareddwyr mai eiddo Morgan oedd Ystrad Yw, ac na feddai Hywel Dda un hawl gyfreithlon i'r lle. Mae rhai beirniaid hanesiol yn sylwi mai dyfarniad y cyflafareddwyr oedd, fod Morgan i gael Ystrad Yw, a bod Hywel Dda i gael Tir Gwyr, sef rhwng afon Tawy ac afon Llŵchwr.

Yr oedd gan Morgan Mawr dri llys, un yn Nghaerdydd, un yn Llansanwr, a'r Mall yn Margam. Yn y flwyddyn 918, ymladdwyd brwydr waedlyd ger Casnewydd rhwng y Cymry a'r Saeson, dan lywddiad Morgan Mawr ac Edelflada, brenines y Mers, pryd y lladdwyd y frenines. Yn y flwyddyn 948, bu farw Hywel Dda, wedi bod mewn heddwch â Morgan yn ol pob tebyg, oddiar eu heddychiad trwy gyflafareddiad Llandaf.

Wedi i Owen mab Hywel Dda gael llywodraeth Ceredigion, ymddengys nad ymfoddlonai ar hyn, ac felly yn mhen deng mlynedd ar ol marwolaeth ei dad, gwnaeth ryfelgyrch i diriogaeth Morgan Mawr yn y flwyddyn 958, gan ladd a difrodi y ffordd y cerddai. Parodd hyn i Morgan, a elwid Morgan Hen bellaoh, apelio at Edgar brenin y Saeson, yr hwn a wrandawodd ei gais, a chynnaliwyd cynnadledd yn Llandaf fel o'r blaen, a dyfarnwyd o blaid Morgan. Yr oedd amryw o Esgobion Cymru a'r Mers yn y Gynnadledd hon, a gwnaethant Amed-weithred ar Allor Teilo, mai eiddo Morgan oedd Teyrnedd Morganwg; a chyhoeddasant felldith Duw a'r Saint ar bwy bynag fuasai yn tori ar ei heddwch.

Wrth weled Morgan Hen yn cyfeillaohu, ac yn ceisio nawdd Brenin y Saeson, anfoddlonodd llunaws o'r Cymry iddo, yn enwedig Owen ab Hywel Dda a'i gefnogwyr. Yr oedd Morgan yn caniatáu hefyd, i rai Saeson gael eu haddysgu yn Athrofeydd Morganwg, er eu paratoi at waith y Weinidogaeth, &c., yr hyn a ennynodd eu digofaint yn fwy fyth. O herwydd y pethau hyn, darfu i Owen ab Hywel Dda, yn y flwyddyn 959, heb hidio y melldithion cyhoeddedig, ymosod yn ffyrnig ar Athrofeydd Llanilltyd Fawr a Llancarfan, gan eu hanrheithio mewn modd creulon. Yr oedd Morgan, nid yn unig yn caniatáu i'r Saeson dderbyn addysg yn Morganwg, ond yn caniatáu iddynt ar ol coethli eu hunain, ddyfod yn Athrawon i'r Cymry; a diamheu mai prif amcan Edgar wrth anfon ei wyr i Forganwg i dderbyn addysg, oedd ceisio eu cael yn esgobion yn Nghymru; am y gwyddai beth oedd dylanwad esgobion yr oes hono, a phe cawsai ef Saeson yn esgobion yn Morganwg, gwyddai y buasai yn fantais iddo gyrhaedd ei amcanion. Yr oedd Owen ab Hywel Dda yn rhagweled hyn yn ddi-amheu, tra yr oedd Morgan yn ddall iddynt, ac felly nid rhyfedd fod y blaenaf mor groes i'r olaf ymgyfeillaohu â'r Saeson.

Yn y flwyddyn 962, daeth peth o amcanion cyfrwys-ddrwg Edgar i'r golwg, pryd yr ymosododd gyda byddin gref ar Ogledd Cymru, gan ei darostwng dan iau y Saesoniaid. Yna, efe a gynnulodd fyddin o wyr

Lloegr i Gaerlleon-ar-Wysg, gyda'r bwriad o ymosod ar Morgan Hen, i'r hwn y ffugiasai gymmaint o gyfeillgarwch; a gorfodwyd Morgan i dalu teyrnged, yn cynnwys cant o wartheg blithion bob blwyddyn o hyny allan i Edgar, er mwyn cadw heddwch ag ef. Dengys hyn yn amlwg, mai amcan Edgar o'r dechreu, oedd meddiannu Morganwg, ond ei fod yn barnu mai'r ffordd ddyogelaf i wneyd hyny oedd trwy ffugio cyfeillgarwch â Morgan Hen, yr hwn, er ei ragoroldeb fel llywodraethwr, oedd yn rhy ddall i weled cyfrwysdra'r teyrn Seisnig.

Wedi i Edgar orchfygu Gwynedd, dechreuodd noddï y Daniaid a'r Gwyddelod, gan ganiatau iddynt drigo yn mhlith y Cymry yn Ynys Mon, a manau ereill; ond cyn iddynt gael amser i ymgadarnhau yno, cododd y Cymry yn eu herbyn, ac a'u gyrasant ar ffo gyda lladdfa fawr. Diangodd llawer o honynt i Fro Gwyr, lle y cawsant dderbynïad gan y Sacsoniaid oedd yno yn barod. Ni fu eu harosiad yno yn hir, modd bynag, oblegyd yn y flwyddyn 966, darfu i Einion ab Owen ab Hywel Dda ymosod arnynt, gan ladd llawer iawn o honynt hwy a'u noddwyr ger afon Llŵchwr. Yn y flwyddyn 967, gwnaeth Einion ab Owen ail ymosodiad ar Dir Gwyr, ac a feddiannodd y lle. Parodd hyn i Owen, mab Morgan Hen, gynnwll byddin o wyr Morganwg, a myned yn erbyn Einion, gan ei yru ef a'i fyddin allan o Dir Gwyr, ac yr oedd y fuddngoliaeth mor drwyadl, fel y cafodd Morganwg lonydd am dymhor ar ol hyn. Yn y flwyddyn 972, bu farw Edgar, brenin y Saeson hefyd, fel nad oedd rhaid ofni hwnw.

Pa fodd bynag, yn y flwyddyn 976, gwnaeth Einion, wŷr Hywel Dda, ymdrech egniol drachefn i feddiannu Tir Gwyr, ac yr oedd ei ymosodiad mor ddisymwth a beiddgar, fel y llwyddodd i anrheithio y wlad i'r fath raddau, fel y bu newyn trwm mewn canlyniad. Yr oedd Ithel Ddu, mab Owen, ac wŷr Morgan Hen, yn ddigon hen erbyn hyn i arwain byddin i'r maes, yr hyn a wnaeth yn dra llwyddiannus, yn erbyn Einion, Brenin y Deheubarth, fel y gorfodwyd hwnw i adael Tir Gwyr; a dychwelodd Ithel eu tiroedd i'r iawn berchenogion.

Yr oedd Morgan Hen, o herwydd ei fawr oedran, wedi rhoddi y llywodraeth i fyny i raddau helaeth i Owen ei fab, ac Idwallon ei frawd (sef brawd Morgan), yr hwn oedd frenin Gwent Iscoed. Tua'r flwyddyn a nodwyd (976), bu farw Idwallon, yr hyn a fu yn golled fawr i Forganwg, oblegyd yr oedd, yn ol tystiolaeth y Cofnodion Cymreig, yn wr talentog iawn, a'i wasanaeth yn y llys, yn nhrefniad cyfreithiau &c., yn annhraethol; ac ni fu neb o'i ddoethineb yn Morganwg o amser Morgan Mwynfawr hyd amser Morgan Hen.

Yn y flwyddyn 987 B. A., cafodd Morganwg golled fawr drachefn, yn marwolaeth Owen, mab Morgan Hen. Yr oedd Owen yn byw mewn palas yn Ystrad Owen, rhwng Llantrisant a'r Bontfaen, lle yr adeiladodd Eglwys, ac yno y claddwyd ef.

Yr oedd Ithel Ddu, mab Owen, yn preswylïo yn y Ton, a elwid wedi hyny Ton Ithel Ddu, a thrachefn y Ton Du, tua thair milldir i'r gogledd o Benybont-ar-Ogwy. Yr oedd Morgan Hen yn 115 mlwydd oed pan fu farw Owen ei fab; a chan ei fod mor hen, daeth gofal y llywodraeth ar Ithel. Yn y flwyddyn y bu Owen farw, daeth llu o'r

Daniaid i Gernyw, ac oddiyno drosodd i Forganwg, a thorasant agos yr holl golegau a chrefydd-dai ag oedd yn y wlad, gan ladd a llosgi y ffordd yr elent.

Tra yr oedd llywodraethiad Morganwg yn ngofal Ithel, (o herwydd anallu ei daid, Morgan Hen,) esgynodd Meredydd ab Owen ab Hywel Dda i orsedd Gwynedd, a gorfu ar y gwir etifedd, sef Idwal, mab Meurig ab Idwal Foel, foi am nodded i Forganwg at Ithel Ddu, yr hwn a'i dyogelodd, ac a'i gosododd yn Athrofa Llancarfan yn ngofal Hywel, brawd Ithel. Pan welodd Meredydd fod Ithel, Tywysog Morganwg, yn noddi Idwal, Tywysog cyfreithlon gorsedd Gwynedd, daeth ef a'i nai, sef Edwin ab Einion, gyda byddinoedd nerthol i Forganwg, yn y fl. 991, gan ladd ac yspeihio yn mhob cyfeiriad. Eu hamecan oedd dal Idwal, a chymmeryd ei fywyd oddiarno, fel y buasai gorsedd Gwynedd yn ddyogel ganddynt. Wrth weled y difrod hwn yn cael ei gyflawni, a bod newyn yn bygwth y wlad, darfu i Hywel, brawd Ithel Ddu, gymhell gwyr Morganwg i uno ag ef er gyru y gelynyon ymaith; a chan ei fod mor boblogaidd, ymdyrasant dan ei faner, nid yn unig y gwyr, ond y gwragedd hefyd. Yr oedd Meredydd ar y pryd yn anrheithio Bro Gwyr, a daeth Hywel a'i fyddin i gyffyrddiad ag ef yn agos i Borth Einion, lle bu brwydr waedlyd rhwng y ddwy fyddin, yn yr hon y lladdwyd y rhan fwyaf o wyr Meredydd, ac yn eu plith Cadwallon ei fab. Cymmerwyd hefyd yr holl yspail oddiarnynt, i'w rhanu rhwng y iawn berchenogion. Trwy hyn, cadwyd Idwal yn ddyogel rhag ei elynion.

Yn mhen dwy flynedd ar ol hyny, sef yn 998 B.A., cafodd Idwal ei ddyrchafu i orsedd Gwynedd, ac yr oedd Ithel Ddu a mawrion Morganwg yn cymmeryd rhan bwysig yn y seremoni; a thrwy yr addysg a dderbyniodd yn Llancarfan, profodd Idwal ei hun yn llywodraethwr doeth a galluog. Yn fuan ar ol sefydlu Idwal ar yr orsedd, daeth llu mawr o'r Daniaid i Wynedd, a chymmerasant feddiant o amryw barthau, fel y gorfodwyd Idwal i anfon am help Ithel a gwyr Morganwg i'w gyru ymaith; ac wedi cael ei gais, lladdwyd y rhan fwyaf o'r estroniaid, fel mai ychydig allodd ffoi a'u bywydau ganddynt.

Yn y flwyddyn 994, bu farw y dewr a'r doeth Ithel Ddu, a chanlynwyd ef gan ei fab Gwrgan. Yr oedd Morgan Hen y pryd hwnw yn 122 mlwydd oed, a bu fyw saith mlynedd drachefn. Bu farw yn y flwyddyn 1001, yn 129 oed.

Bu Gwrgan yn briod ddwy waith: yn gyntaf â merch Gwyn ab Ednyniau, a'r ail waith ag Efa, merch Cynan Finiad.—*MSS. Welsh Charity School.* Yr oedd Gwrgan yn llywodraethwr call ac heddychol, ac un o'r pethau cyntaf wnaeth wedi cael y llywodraeth i'w law, oedd gosod mewn grym y Gyfraith Apostolaidd, eiddo Morgan Mwynfawr, yn nghyd â Chyfraith Rhys ab Arthfael o barth Amaethyddiaeth, &c., a diamheu fod y cwysi welir ar benau mynyddau Morganwg yn olion llafur amaethyddol anser Gwrgan. Amlwg yw ei fod yn hoff o amaethyddiaeth, ac iddo dalu sylw neillduol i hyn. Effe roddodd y Waun Hir, yr hon a elwir Hirwaun Wrgan, plwyf Aberdar, &c., yn dir pori di-ardreth rhwng ei ddeiliaid. Rhoddir hanes pellach am

hon dan y gair **ABERDAR**. Pan briododd Iestyn ab Gwrgan â Denis, chwaer (merch medd rhai), Bleddyn ab Cynfyn, Tywysog Powys, rhoddodd ei dad ran o Fro Essyllt, yn waddol iddo; ac yntau a adeiladodd balas, neu Gastell yn y lle, ac a'i galwodd yn ol enw ei wraig—Denis Powys, llygriad o'r hwn enw yw Dinas Powys.

Er fod Gwrgan yn wr hynaws a charedig, ymddengys mai cymmeriad hollol wahanol oedd Iestyn ei fab; ond dichon ar yr un pryd, ei fod yn cael ei dduo yn ormodol gan haneswyr, trwy efelychu Giraldus Cambrensis. Nis gellid dysgwyl i Giraldus goleddu y syniadau goreu am Iestyn, o herwydd cyssylltiadau perthynasol. Pricodd tad Giraldus â Nest, merch Rhys ab Tewdwr, yr hon fu yn ordderchwraig i Harri I., brenin Lloegr; a chan fod Iestyn a Rhys ab Tewdwr y fath elynion, yr oedd yn naturiol i Giraldus osod y lliw duaf arno. Er hyny, nis gellir portreadu Iestyn yn amgenach na Thywysog balch, hunanol, ac uchel-geisiol iawn. Yr oedd ganddo gefnder hefyd o'r un duedd ag yntau, sef Aedden, mab Blegwryd ab Owen. Pan oedd Aedden gyda Iestyn yn Nghastell Denis Powys, ymddengys i'r ddau dynu cynlluniau i borthi eu balchder a fuont wedi hyny yn achos llawer o derfysgoedd yn y wlad. Yr oedd gorsedd Cymru mewn gwirionedd yn wag ar y pryd. Bu farw Meredydd ab Owen ab Hywel Dda yr un flwyddyn ag Ithel Ddu, Tywysog Morganwg, sef y fl. 994; a chafodd Idwal ab Meurig, Brenin Gwynedd, ei ladd y flwyddyn hono, tra yn ymladd yn erbyn y Saeson a'r Daniaid yn Mhenmynydd Mon. Yr oedd Meredydd wedi gadael un plentyn ar ei ol, sef Angharad, yr hon a briododd â Llywelyn ab Seisyllt. Yr oedd Idwal hefyd wedi gadael etifedd ar ei ol yn mherson ei fab Iago, yr hwn oedd yn rhy ieuange i ymgymmeryd â'r llywodraeth, nac i flaenori byddin.

Meddylhodd Iestyn ac Aedden fod yr adeg yn un hynod fanteisiol iddynt hwy ymddyrc hafu, trwy gymmeryd at y ddwy orsedd, sef eiddo Gwynedd a'r Deheubarth, a thrwy hyuy gael holl Gymru dan eu llywodraethiad. I'r dyben o gyrhaedd yr amcan hwnw, cyflogodd Aedden y Daniaid, y rhai ar y pryd, oeddynt wedi ymsefydlu yn lled gadarn yn Lloegr, ac yn barod iawn i ymosod ar y Cymry, o herwydd iddynt wneyd hyny lawer gwaith yn afliwyddiannus. Tuag at fod yn fwy sicr o gyrhaedd yr amcan, arweiniodd Iestyn hefyd fyddin i helpu Aeddan a'r Daniaid, ac ymosodasant yn gyntaf ar Dyfed, gan ddifa y wlad trwy y tân a'r cleddyf. Llosgasant Mynyw, a lladdasant Morgeneu, esgob Ty Ddewi, am ei fod yn pleidio cyfiawnder.

Wedi gorchfygu Dyfed, aethant yn y blaen i Wynedd; ac ar ol llawer o ddiynstr ar y trigolion, meddiannwyd yr orsedd gan Aedden, trwy drais ac anghyfiawnder; a chyhoeddwyd ef yn Frenin Cymru yn y flwyddyn 1000.

Bu yr orsedd yn meddiant Aedden am 15 mlynedd, ac yn mhen hyny o amser, ymddangosodd gwir etifedd y goron, yn mherson Llywelyn ab Seisyllt, yr hwn oedd yn briod ag Angharad, merch Meredydd ab Owen ab Hywel Dda. Gwr o Forganwg oedd Llywelyn ab Seisyllt, yn byw yn Maes Essyllt, sef Castell y Beauprè, a thrwy ei briodas daeth i hawl o'r orsedd; nid gorsedd Morganwg, ond gorsedd

Cymru. Casglodd Llywelyn fyddin gref, ac aeth i ryfel ag Aeddan; ac mewn brwydr galed, lladdwyd Aeddan a'i bedwar nai; ac felly, esgynodd Llywelyn i orsedd Gwynedd. Yn y cyfamser, gwthiwyd Rhydderch, mab Iestyn, i orsedd Dinefawr, sef y Deheubarth.

Gwrgan, cofier, oedd yn llywodraethu Morganwg y pryd hwnw; ond nid oes hanes iddo gymmeryd un rhan yn nherfysgoedd Iestyn ei fab, a'i blant. Blinid y wlad yn fyrych y pryd hwnw gan y Gwyddelod a'r Ysgotiaid, dan arweiniad Awluff, brenin yr Iwerddon. Gorchfygasant Dyfed, a thrwy gymhorth Hywel a Meredydd, dau fab Edwin ab Einion, lladdasant Llywelyn ab Seisyllt yn Nghaerfyrddin.

Yn y flwyddyn 1029, daethant i Forganwg i anrheithio y lle, yr hyn a gynhyrfodd y trigolion i'r fath raddau, fel y codasant gyda'u gilydd yn erbyn y gelynion; a dywed y Cofnodion am yr amgylchiad, fod yr ymdrechion mor gelyd, a'r lladdfa mor fawr, fel yr oedd y meirch dros eu carnau mewn gwaed dynol. Pa fodd bynag, trodd y frwydr o blaid gwyr Morganwg,—gyrasant y gelyn ar ffo dros y môr, tra hwythau yn mwynhau'r clod. Yn y flwyddyn 1080, bu farw Gwrgan ab Ithel, brenin Morganwg, er galar mawr i'r trigolion. Mae yn amlwg mai Iestyn ei fab oedd etifedd yr orsedd; ond gan ei fod allan o ffafur y bobl, ni fyment ef yn frenin; ond dewiswyd ei ewythr Hywel, brawd Gwrgan, i'r orsedd.

Fel y crybwyllwyd, yr oedd Rhydderch, mab Iestyn, y pryd hwnw wedi esgyn i orsedd y Deheubarth, yn unol âg ewyllys Aeddan ei ewythr. Ond erbyn fod Rhydderch ab Iestyn wedi cael ei hun ar yr orsedd, ac awenau y llywodraeth yn ei law, daeth Hywel a Meredydd, dau fab Edwin ab Einion ab Owen ab Hywel Dda i'r maes i hawlio y goron; ac mewn brwydr yn erbyn y rhai hyn, lladdwyd Rhydderch, ac felly aeth llywodraeth y Deheubarth i hiliogaeth Hywel Dda. Pan welodd Iestyn hyn, efe a arweiniodd lu yn erbyn Hywel a Meredydd, ond colodd y frwydr, a gorfur arno ef a'i wyron, sef plant Rhydderch, ffoi o'r maes. Gelwir y frwydr hon yn y Cofnodion Cymreig yn "Waith Traethwy," ond nid ydym yn hysbys o'r fan yr ymladdwyd hi.

Yn yr un flwyddyn hefyd, sef 1081, lladdwyd Caradog ab Iestyn yn Nhir Gwent gan y Saeson, y rhai a ddaethant yn mlawn i Forganwg, a bu brwydr waedlyd rhyngddynt a'r Cymry yn Ystrad Owen, lle y cafodd Cynan ab Seisyllt a'i feibion eu lladd, ac y gorchfygwyd gwyr Morganwg. Pan welodd Robert ab Seisyllt hyn, efe a galnogodd y Cymry, trwy alw ar gof iddynt orchestion eu teidiau, &c., yr hyn a'u fyrrnigodd eilwaith; a than arweiniad Robert, neu Rhotbert, ymosodasant ar eu gelynion, gan eu llwyr orchfygu.

Ymddengys mai mab Iestyn, o Denis, ei wraig gyntaf, oedd y Caradog a laddwyd yn Ngwent. Wedi claddu Denis, priododd Iestyn ag Angharad, merch y brenin Elystan Glodrydd, ac enwodd ei fab hynaf o Angharad yn Garadog, er mwyn yr hwn a laddwyd. Cafodd Iestyn bump o blant o'i ail wraig, sef Caradog, Madog, Morgan, Rhys, a Nest ei ferch.

Dywed rhai o'r Cofnodion Cymreig i Iestyn geisio priodi Ardden, merch Robert ab Seisyllt o'r Beaupre, wedi iddo gladdu Denis; ond

palodd ei thad ganiatau hyn, o herwydd y gwahaniaeth oedran rhyngddynt. Dywedir hefyd i Iestyn, oblegyd hyny, geisio treisio y foneddiges, yr hyn fu yn achos digofaint rhwng Robert ab Seisyllt a Iestyn am y gweddill o'u hoes. Tuag at weled cymmeriad Iestyn yn mhellach, mae'n angenrheidiol sylwi mai y nesaf i esgyn i orsedd Cymru oedd Gruffydd, mab Llywelyn ab Seisyllt o Forganwg; a cheir gweled ei gyssylltiadau â gwyr Morganwg wrth fyned yn mlaen.

Yn y flwyddyn 1048, bu farw Hywel ab Ithel, brenin Morganwg, wedi bod yn llywodraethu tair blynedd ar ddeg; a rhydd y Brutiau Cymreig glod uchel iddo fel gwr doeth, pwyllog, a chyfiawn.

Ar farwolaeth Hywel, llwyddodd Iestyn ab Gwrgan i gael y llywodraeth i'w feddiant; ac yr oedd erbyn hyn mewn gwth o oedran. Pe buasai ef yn boddloni ar Deyrnedd Morganwg yn unig, diamheu y gallasai fyw mewn heddwch a llwyddiant; ond yr oedd ei awydd am lywodraeth y Deheubarth, os nid am Gymru oll, mor fawr, fel y bu yn ddynstr iddo yn y diwedd. Yr oedd plant ac wyron Iestyn wedi cyd-gyfranogi o'r unrhyw yspryd uchelgeisiol ag yntau, ac yn defnyddio pob cynllun a allent ddyfeisio i orchfygu Gruffydd, mab Llywelyn ab Seisyllt.

Yn y flwyddyn 1050, darfu i ddau o wyron Iestyn, sef Caradog a Rhys, meibion Rhydderch ei fab, gasglu byddin o wyr Morganwg a Gwent, i'r dyben o ennill llywodraeth y Deheubarth oddiar Gruffydd ab Llywelyn. Casglodd yntau ei fyddin yn nghyd, a daeth y ddau lu yn erbyn eu gilydd, a braidd na ddifethodd y naill y llall trwy eu ffyrnigrwydd; a gorfu ar y ddwy fyddin droi o'r maes, heb un o honnynt yn orchfygol.

Yr oedd y Saeson yn pryd hwnw yn gwylio ysgogiadau y Cymry'n fanwl iawn, ac yn dra awyddus am feddiannu Morganwg, am eu bod wedi methu erioed ag ennill darn o honi. Pan ddeallasant fod gwyr Morganwg wedi eu gwanhau yn y frwydr a nodwyd, daethant yn lluoedd i'r wlad, ac ymosodasant gyda beiddgarwoh ar Gastell Dindryfan, preswylfa Caradog ab Rhydderch ab Iestyn, ac yspeillasant yr holl ardal o amgylch.

Pa fodd bynag, ni thynodd hyn sylw teulu Iestyn oddiar orsedd y Deheubarth; ac ni leihaodd eu digofaint at Gruffydd, mab Llywelyn ab Seisyllt. Wedi methu ei orchfygu mewn brwydr, bernir iddynt anfon yspiwyr i Ystrad Tywi, i geisio deall beth oedd teimladau deiliaid Gruffydd tuag atto. Pan ddeallasant fod yn eu plith rai personau nad oeddynt yn coleddu y teimladau goreu tuag atto, ymdrehasant a'u holl egni i gael gan y rhai hyny ychwanegu eu gelyniaeth tuag at eu llywodraethwr. Yn y diwedd, llwyddodd cenadau Iestyn i gael gan rai o anfyddloniaid Gruffydd i ymosod ar ei wyr mwyaf dewisol, a'u lladd megys trwy frad. Mor fuan ag y dealodd Gruffydd pa fodd yr oedd pethau yn bod, efe a arweiniodd ei fyddin yn erbyn ei elynion, ac a wnaeth laddfa fawr arnynt yn Ystrad Tywi, Dyfed, a Bro Gwyr.

Yn y flwyddyn 1056, daeth Rhys, mab Llywelyn ab Seisyllt, a brawd brenin y Deheubarth, â byddin gref i Forganwg, a gwnaeth

ymosodiad yspeilgar arni. Yn ngwyneb hyn, cododd y Morganwgiaid mor lluosog yn ei erbyn, nes ei yru ar ffo hyd ymyl gwlad Mers yn Lloegr, lle y daliwyd Rhys, ac y torwyd ymaith ei ben. Yn y fl. 1057, wedi ei galonogi gan yr amgylchiad hwn, darfu i Gruffydd, mab Rhydderch ab Iestyn, arwain byddin yn erbyn Gruffydd, mab Llywelyn ab Seisyllt, er ceisio cael y llywodraeth oddiarno; ond yn y frwydr a ymladdwyd rhyngddynt, collodd gwyr Morganwg y dydd, a lladdwyd eu blaenor, sef Gruffydd, wŷr Iestyn.

Yn y flwyddyn 1060, cafodd un o or-wyron Iestyn ei wenwyno i farwolaeth, sef Owen, mab Gruffydd ab Rhydderch. Wrth weled pethau yn troi yn eu herbryn fel hyn, penderfynodd teulu Iestyn gael help y Saeson er cyrhaedd eu hamcanion. Yn 1061, cyflogodd Caradog, mab Rhydderch ab Iestyn, Harold, brenin y Saeson, i ddyfod i'w gynnorthwyo i orchfygu Gruffydd, mab Llywelyn ab Seisyllt, brenin Deheubarth Cymru. Daeth Harold ar ei gais, ac unodd ei luoedd â llu Caradog. Casglodd Gruffydd yntau ei luoedd yn nghyd o Wynedd, Powys, a'r Deheubarth, a bu brwydr waedlyd rhwng y pleidiau, lle y lladdwyd Gruffydd, mab Llywelyn ab Seisyllt, trwy frad Esgob Bangor, a thorwyd ymaith ei ben, yr hwn a gyflwynwyd yn anrheg i Harold.

Nid oedd amheuaeth bellach yn meddwl Caradog ab Rhydderch ab Iestyn na chawsai orsedd y Deheubarth, ar yr hon gynt yr eisteddai ei dad. Yr oedd Harold, o'r tu arall, yn barnu yn sicr na allai fod gan Carodog un gwrthwynebiad iddo ef (Harold) gael y Deheubarth yn feddiant am ei helpu i orchfygu ei elyn. Pan ddangosodd Caradog anfoddlonrwydd i'r brenin Seisnig, troes y Sais o blaid Meredydd ab Owen ab Edwin ab Einion ab Owen ab Hywel Dda yr hwn a gafodd yr orsedd, er mawr siomiant i Caradog, wŷr Iestyn.

Ond er cael ei siomi yn Harold, ni laesodd awydd Caradog am orsedd y Deheubarth; ac wedi i'r Normaniaid ddyfod i'r wlad hon, dan arweiniad William y Gorchfygwr, ni fu Caradog yn hir cyn cyflogi llu o honynt i'w helpu i gyrhaedd ei amcan.

Yn y flwyddyn 1069, sef yn mhen tair blynedd ar ol i'r Normaniaid dirio yn y wlad hon, a chyn eu bod braidd yn cael ychydig o drefn ar Lloegr, darfu i Caradog lwyddo i gyflogi byddin gref o honynt o'i blaid ef ac yn erbyn Meredydd. Cyfarfyddodd y byddinoedd gwrthwynebol ar lan afon Rhymini, ger Llanfedwy, tua saith milldir i'r gogledd-ddwyrain o Gaerdydd. Yn y frwydr hono, lladdwyd Meredydd, brenin Dynefawr, ac felly cyrhaeddodd Caradog ei amcan, trwy feddiannu gor-sedd y Deheubarth. Ymddengys mai yn y frwydr a nodwyd y torwyd Eglwys Llanfedwy, ac ni chafodd ei hail-adeiladu byth.

Nis gellir ar un cyfrif ganmol Caradog, wŷr Iestyn, yn ceisio help yr estroniaid i ymosod ar ei gydgenedl er porthi ei drachwant am eiddo na pherthynai yn gyfreithlon iddo. Gwir i'w dad fod yn frenin y Deheubarth, ond trwy dwyll a thrais y bu; ac amlwg yw, mai eiddo Meredydd oedd yr orsedd, gan ei fod yn ddisgynydd o Hywel Dda. Pa fodd bynag, ni fwynhaodd Caradog yr orsedd ond am ychydig fisoedd cyn iddo farw dan effeithiau yr archollion dderbyniodd yn mwrwyr Llanfedwy.



Yn 1070, coronwyd Rhydderch ei fab yn frenin yn ei le, yr hwn oedd ieuange a thynner. Yn y flwyddyn ganlynol, sef 1071, ymosododd llu o'r Normaniaid ar Dyfed a Cheredigion. Wrth weled hyn, aeth Rhydderch, gorwyr Iestyn, er ieuanged oedd, â byddin yn erbyn yr estroniaid, ac nid eu cyflogi fel ei dad, ac a'u llwyr ymlidiodd o'r parthau hyny.

Yn 1072, daeth Rhys, brawd y Meredydd a laddwyd yn Mrwydr Llanfedwy, o ynys Manw (*Isle of Man*), lle y bu ar ffo, ac hawliodd lywodraeth y Deheubarth fel eiddo cyfiawn. Yr oedd Rhydderch, gorwyr Iestyn ab Gwrgan, yn ymwybodol fod Rhys yn disgyn o Hywel Dda, a'i fod felly ag hawl i'r orsedd. Yr oedd Rhys, o'r tu arall, yn gwybod fod Rhydderch, mab Iestyn, wedi bod yn llywodraethu'r Deheubarth, ac felly Caradog, mab Rhydderch; ac felly nad oedd Rhydderch mab Caradog heb hawl iddi hefyd. Yn ngwyneb hyn, yn hytrach na myned i ryfela a'u gilydd, cydunasant i ranu y llywodraeth, a bod Rhys i gael un rhan, a Rhydderch y llall; a bod yr hwn fuasai fyw hwyaf i gael y llywodraeth i gyd. Yr oedd hyn yn ddadbygriad o fwy o ddoethineb nag a gaed yn gyffredin yn nheulu Iestyn.

Yn 1074, sef yn mhen dwy flynedd wedi i Rydderch a Rhys ranu llywodraeth y Deheubarth, lladdwyd Rhydderch gan Meirchion ei gefnder, am wneyd y cydundeb â Rhys, ac felly daeth yr orsedd yn eiddo i Rys yn ol yr ammod. Yr oedd Rhys wedi lladd Bleddyn ab Cynfyn, tywysog Powys, yn 1072; ac yr oedd y Bleddyn hwnw yn frawd-yn-nghyfraith i Iestyn.

Mor fuan, gan hyny, ag y meddiannodd Rhys orsedd y Deheubarth, ymgyngrheiriodd Caradog, mab Gruffydd ab Rhydderch ab Iestyn, â dau fab Cadwgan ab Bleddyn ab Cynfyn, i ymosod ar Rys, er dial gwaed eu tadou. Yn y frwydr gyntaf a ymladdwyd yn ei erbyn, collodd Rhys y dydd; ond ni cholodd ei fywyd na'i orsedd. Yn yr ail frwydr, lladdwyd Rhys a Hywel ei frawd, fel y meddiannwyd gorsedd y Deheubarth unwaith drachefn gan deulu Iestyn. Mae yn amlwg mai prif nod ac amcan bywyd pob un o hiliogaeth Iestyn oedd meddiannu gorsedd a llywodraeth y Deheubarth, fel yr oedd yn berygl bywyd i un o hil Hywel Dda honi hawl iddi. Pa fodd bynag, yn mhen yohydig amser ar ol lladd Rhys, mab Owen, ymddangosodd etifedd cyfreithlon arall i orsedd Dinewawr, yn mherson Rhys ab Tewdwr, yr hwn a ddaeth drosodd i'r wlad hon o Lydaw, yn 1077, gan hawlio llywodraeth y Deheubarth. Cafodd Rhys lawer o fawrion i'w bleidio ar unwaith, ac yn fuan cyhoeddwyd ef yn Frenin y Deheubarth. Yr oedd Rhys a Iestyn agos yr un oedran, a'r naill a'r llall o honynt tua 80 oed pan wnaed Rhys yn frenin. Yr oedd Iestyn a'i deulu braidd yn gynddeiriog o herwydd i Rys gael ei goroni yn frenin y Deheubarth, tra yr oedd yr orsedd wedi bod yn eu meddiant hwy am gymmaint o amser. O'r tu arall, gwyddai Rhys ab Tewdwr fod Iestyn a'i deulu wedi trawsfeddiannu llywodraeth y Deheubarth yn hir, ac mai hwy oeddynt ei elynion penaf yn y wlad.

Yn 1080, tuag at gadarnhau ei hun, darfu i Rys, wedi cael help Gruffydd ab Cynan, a lladd o honynt Trahaiarn ab Caradog, arwain

byddin i Forganwg, a dinystriodd Gestyll Denis Powys, Llanilltyd, a Dindryfan, a gwnaeth ddifrod mawr ar y wlad o amgylch. Ymddygiad ffol oedd hwn o eiddo Rhys ab Tewdwr, ac y mae yn tueddu i raddau pell i gyfiawnhau gweithredoedd Iestyn yn ol llaw. Gan i Rys wneyd yr ymosodiad, yr oedd yn naturiol i Iestyn ad-dalu os gallasai, ac felly y bu; aeth â byddin i Ystrad Tywi, yspeiliodd y wlad, a dychwelodd yn ol i Forganwg trwy Frycheiniog. Yr oedd yn amlwg iddo erbyn hyn fod tywydd garw i ganlyn, ac felly tuag at gyfarfod â'r storm, efe a ddechreuodd adeiladu muriau amddiffynol o amgylch Caerdydd, a chodi cestyll Cenffig, Trebefered, &c., gan wneyd Morganwg mor ddyogel ag y gallai.

Yn 1805, gwnaeth Iestyn, Tywysog Morganwg, ammodau heddwch â William y Gorchfygwr hefyd, gan farnu na fuasai hyn yn anfantais iddo yn y dyfodol. Yr oedd amryw o fan Dywysogion Cymru, fel Iestyn, yn hollol anfoddlon fod Rhys ab Tewdwr wedi esgyn i orsedd y Deheubarth, ac yn ddigon parod i gyduno â'u gilydd i ymosod arno. Yn y flwyddyn 1088, bu farw Cadifor ab Collwyn, brenin Dyfed, ac yn fuan iawn ar ol ei farwolaeth, darfu i Einion ei frawd, a Llywelyn ac Einion ei feibion, ymuno â Gruffydd mab Meredydd ab Owen ab Edwin yn erbyn Rhys ab Tewdwr, a bu brwydr galed rhyngddynt yn Llandudoch, tua milldir i'r gorllewin o dref Aberteifi, lle y cafodd Rhys fuddugoliaeth arnynt. Lladdwyd Gruffydd ab Meredydd trwy dori ymaith ei ben, a lladdwyd dau fab Cadifor hefyd, sef Llywelyn ac Einion; ond llwyddodd Einion, brawd Cadifor, i ffoi i Forganwg at Iestyn. Barna rhai haneswyr mai'r Tywysog Einion ab Collwyn oedd prif ysgogydd yr ymosodiad hwn ar Rys ab Tewdwr, ac mai ar ei gais ef yr unodd y lleill â'u gilydd. Yr oedd ef yn rhyfelwr profiadol, ac wedi bod yn swyddog uchel yn myddin William y Gorchfygwr yn Ffraince a manau ereill ar y Cyfandir. Yr oedd felly yn adwaen prif swyddogion y brenin Normanaidd, ac yn gyfarwydd â hwynt. Wedi iddo ddyfod at Iestyn, a chyd-ymddiddan am nerth byddin Rhys ab Tewdwr, yr oeddynt yn gweled fod yn rhaid i Iestyn gael cynnorthwyo rhyw allu tuallan i'w fyddin ei hun cyn ei orchfygu. Yr oedd bod Iestyn wedi gwneyd heddwch â William I., brenin Lloegr, yn 1085, yn un fantais tuag at gael help y Normaniaid; ac yr oedd adnabyddiaeth Einion ab Collwyn o'r prif swyddogion yn fantais arall. I gyrhaedd yr amcan, cydunodd Iestyn ac Einion â'u gilydd, fod Einion i fyned i lys brenin Lloegr, i geisio cynnorthwy y Normaniaid i ddarostwng Rhys ab Tewdwr, er mwyn i deulu Iestyn gael llywodraeth y Deheubarth i'w feddiant fel ag y bu; a'r tal oedd Einion i gael am ei drafferth, oedd Nest, merch Iestyn, yn wraig, ac Arglwyddiaeth Meisgun yn waddol gyda hi. Aeth Einion i Lundain, ymgynghorodd â Syr Robert Fitzhamon (cefnder y Brenin William), ymgynghorodd yntau â deuddeg o Farchogion ereill, a daethant â'u lluoedd gyda hwy i Forganwg i helpu Iestyn. Cynnwysai y fyddin Normanaidd Syr Robert Fitzhamon, 12 o Farchogion, 24 o swyddogion, a 8,000 o filwyr cyffredin. Llwyddwyd hefyd i gael gan Cedrych ab Gweithfoed, Tywysog Ceredigion, i ddyfod â 2,000 o wyr i helpu Iestyn. Casglodd

Einion ab Collwyn 1,000 o wyr hefyd, heblaw byddin Morganwg, dan arweiniad Iestyn.

Mor fuan ag y deallodd Rhys ab Tewdwr fod yr holl barotoadau hyn yn cael eu cario yn mlaen yn ei erbyn, efe a gasglodd ei holl luoedd yn nghyd, ac aeth i gyfarfod ei elynion, a chyfarfyddodd y byddinoedd yn mhlwyf Aberdar, lle yr ymladdwyd un o'r brwydrau mwyaf gwaedlyd a ymladdwyd erioed yn Morganwg. Dywedir i Iestyn, Einion, a Chedrych ffurfio eu luoedd yn flaen-fyddin yn y frwydr hon, a'r Normaniaid hwythau yn ol-fyddin; ac ychwanegir i fwy na hanner luoedd Cedrych, Iestyn, ac Einion gael eu lladd, a byddin Iestyn agos i gyd, tra-na laddwyd ond ychydig o'r Normaniaid. Wedi brwydro caled o bob tu am hir amser, gorfu ar fyddin Rhys ab Tewdwr i roi ffordd yn raddol, gan nesu i'r gogledd-orllewin; ac yn y diwedd, pan oedd yn amlwg nad oedd gobaith am fuddugoliaeth, ceisiodd Rhys delerau heddwch, yr hyn a omeddwyd iddo. Yn lle heddwch, rhuthrai y gorchfygwyr ar ei fyddin, gan eu lladd yn y modd mwyaf didrugaredd. Dechreuodd y frwydr yn y man lle saif tref Aberdar yn bresenol, a chafodd Rhys a'i fyddin eu gwthio yn ol i ymyl y man y saif pentref Hirwaun yn awr, pryd y fiodd Rhys o'r maes dros y mynyddau i blwyf Ystrad-dyfodwg. Dilynydd ef gan ei elynion, daliwyd ef ar y mynydd rhwng afonydd Rhondda Fach a Rhondda Fawr, a thorwyd ymaith ei ben, a gelwir y lle Mynydd Pen Rhys oddiar hyn y hyd yn awr. Mae yno yn awr ddau amaethdy a elwir Pen Rhys Uchaf a Phen Rhys Isaf, er cof am dori pen Rhys ab Tewdwr. Daliwyd a thorwyd ymaith ben Goronwy, mab Rhys, hefyd. Yr oedd ganddo fab arall o'r enw Cynan, yr hwn a fiodd o'r maes, ac ychydig wyr yn ei ganlyn, dros yr hen heol ar Graig y Llyn, heibio Glyn Corrwg, Castell Nedd, &c., gan fwriadu dychwelyd i Ystrad Tywi; ond erlidiwyd hwy mor galed gan eu gelynyon, fel y darfu i Cynan a'i wyr naill ai yn fwriadol fyned i fodd i yn hytrach na chymeryd eu dal gan eu herlidwyr, neu ynte fwriadu croesi Llyn Crymlun, ger Abertawy, a methu. Pa fodd bynag, y ffaith ofidus yw, iddo ef a'i ychydig wyr fodd i yno, a gelwir y llyn yn Bwll Cynan, er cof am yr amgylchiad.

Wedi llwyr orchfygu Rhys ab Tewdwr a'i fyddin, y gorchwyl nesaf oedd talu y Normaniaid am eu gwasanaeth; ac yr oedd Iestyn ab Gwrgan yn barod iawn i wneyd hyn. Cynnnullwyd y luoedd yn nghyd i fan a elwid Twyn Colwyn, a thalwyd eu gofynion mewn aur i'r Normaniaid, a gelwir y lle byth oddiar hyn "Y Ffilldir Aur," yr hon sydd rhwng tref y Bontfaen a Phenybont-ar-Ogwy.

Wedi derbyn eu tal, a chael llawer o garedigrwydd gan Iestyn a gwyr Morganwg, aeth yr estroniaid Normanaidd i'w llongau yn llawen, gyda'r bwriad o ddychwelyd i Loegr. Mae gwahanol farnau am y man yr oedd y llongau yn eu haros. Dywed un dosparth lluosog mai ger Trwyn Penarth yr oeddynt; ereill a farnant mai ger Llanilltyd Fawr yr oeddynt, a bod yno borthladd cyfleus y pryd hwnw; tra y barna ereill mai yn Mhorth Cerri y glaniodd y Normaniaid, ac mai yno yr oedd eu llongau; ac y mae'r olaf mor debygol a'r un, oblegyd

y mae yn ffaith fod yno borthladd cyn yr amser hwnw, ac yr oedd hefyd yn agos i Gastell Iestyn, sef Denis Powys.

Wedi i'r estroniaid ymadael am eu llongau, gofynodd Einion ab Collwyn i Iestyn am gyflawni oi addewid iddo yntau, sef cael Nest ei ferch yn wraig, ac Arglwyddiaeth Meisgun yn waddol gyda hi. Atebodd Iestyn ef gyda gwawd, trwy ddweyd nad oedd mor ynfyd a rhoi ei ferch yn wraig i fradychlwr ei wlad! Enynodd hyn ddigofaint Einion i'r fath raddau, fel yr aeth i lan y mor i chwilio am y Normaniaid, y rhai erbyn hyn, medd un hanes, oeddynt wedi cychwyn; ac iddo yntau wneyd arwydd iddynt i ddychwelyd trwy ysgwyd ei fantell yn yr awyr. Ereill a ddywedant eu bod heb gychwyn, ac i Einion adrodd ei gwyn wrth Syr R. Fitzhamon, gan ychwanegu mai gwlad ragorol o firwythlon oedd Morgauwg, ac mai gwaith hawdd fyddai ei hennill oddiar Iestyn yn feddiant iddo ei hun. Yr oedd y stori yn unol â chwaeth y Norman i'r dim, a boddlonodd heb nemawr gymhell i daro ar Iestyn, a chymmeryd y Dalaeth oddiarno. Aeth Einion at Robert ab Seisyllt hefyd, Arglwydd Maes Essyllt, a llwyddodd i'w gael yntau yn erbyn Iestyn. Deallodd Iestyn y symmudiadau yn fuan; ac er yn ymwybodol o'i wendid ei hun a chryfder ei elynion, penderfynodd eu sefyll mewn brwydr, a daeth y lluoedd i gyfarfyddiad a'u gilydd ar y Mynydd Bychan, ger Caerdydd, lle y gorchfygwyd Iestyn a'i deulu, fel y gorfu arno yn ei hen ddyddiau ffoi i Ynys Afallon (Glastonbury), medd rhai, ac oddiyno i Gaerbaddon (Bath), ac yn olaf i Fynachlog Llangens yn Ngwent, lle y bu farw yn 129 oed, medd llyfr Syr E. Mansel.

Dyma ni bellach wedi myned yn fras dros Hanes Wladol Morganwg o'r Cyfnod Rhufeinig hyd ddechreuad y Cyfnod Normanaidd, a'i llwyr ddinystyr fel Arglwyddiaeth Gymreig.

Dyma enwau rhai o'r prif dir-feddiannwyr Cymreig a yspeiliwyd o'u tiroedd gan y Normaniaid; ond a gawsant ychydig dir wedi hyny yn Corboil yn Normandy, fel math o iawn am yr hyn a goillasant. Cafodd rhai o honynt ychydig yn ol yn Morganwg hefyd:—

1. Aedd ab Crafnaw, Arlwydd Talyfan.
2. Arthael Frych, Arlwydd Llysyfronnydd a Thregolwyn.
3. Brait ab Meredydd Falch ab Engir Benwyn, Arlwydd Llanfair a Llanfihangel y Twyn (Llanfair a Threffleming).
4. Caeron ab Hywel ab Egled, Arlwydd Llanfaes.
5. Caradog ab Arthen ab Bleiddryn, Arlwydd Glyn Nedd.
6. Dafydd ab Owen Goch ab Ithel, Arlwydd Llangynwyd a Thir Iarll (Maesmawr).
7. Edwin ab Trahaiarn ab Ithel, Arlwydd Castell Conan a'r Soflen.
8. Einion Fawr ab Uthrod Goch ab Blegwryd Hen ab Owen, Arlwydd Llanddunwyd.
9. Gruffydd ab Cadwgan Ddu, Arlwydd Llansantffraid Fawr ac Aberogwy.
10. Gweirydd ab Seisyllt Hen, Arlwydd Llancarfan a Phenmarc.
11. Gwyddbwyll ab Ceraint ab Gruffydd ab Ynyr, Arlwydd Aberbari a Phorthceri.

12. Hywel ab Gruffydd ab Anawrodd ab Blegwryd, Arlwydd Dyffryn Goluch a Gwenfo.
13. Idnerth ab Ifor, Arlwydd Glyn Rhondda.
14. Llywelyn ab Hywel Fawr, Arlwydd Llanfleidian Fawr a St. Hilari.
15. Llywelyn ab Meurig ab Llywarch, Arlwydd Aberbernant (*Fonmon*).
16. Marchell ab Gwyn ab Athrws ab Ithel ab Morgan Mawr, Arlwydd Llandathan.
17. Meirchion Hir ab Gruffydd ab Ithel, Arlwydd Tresigin a Llandwf.
18. Meurig ab Hywel ab Eglad, Arlwydd Sant Ffagan.
19. Morgan ab Hywel ab Gwrgan, Arlwydd Rhuthyn.
20. Rhiallon ab Selyf ab Dafydd, Arlwydd Senghenydd.
21. Ynyr ab Rhyddwal ab Meurig, Arlwydd Meisgun.

### DECHREUAD Y CYFNOD NORMANAIDD.

DECHREUODD y cyfnod Normanaidd tua'r flwyddyn 1090, pan y gorohfygwyd Iestyn ab Gwrgan, Tywysog Morganwg, ac y cymmerodd Syr Robert Fitzhamon at yr Arglwyddiaeth.

Wedi cael llwyr feddiant o'r llywodraeth, er mwyn bod mewn hedd-wch a'i gyd-farchogion, rhanodd yr hyn a feddianwyd ganddynt yn y drefn ganlynol, gan ofalu wrth gwrs am "ran y llew" iddo ei hun. Yr hyn a gadwodd ef iddo ei hun oedd Caerdydd, Boverton, Llanilltyd Fawr, a Chenffig, gyda'u cestyll, a'r holl dir a berthynai iddynt:—

#### ENWAU'R MARCHOGION.

#### EU HARGLWYDDIAETHAU.

1. Syr William de Londres.....Castell a Maenor Glyn Ogwy.
2. Syr Richard Grenville.....Arglwyddiaeth Nedd a Maenor Monk Nash.
3. Syr Paine Turberville.....Penybont a Chwrt Calman.\*
4. Syr Robert de St. Quintine ..Arglwyddiaeth Llanfleidian Fawr.
5. Syr Richard Syward .....Arglwyddiaeth Talafan a Maenor Merthyr Mawr.
6. Syr Gilbert Humphreville ....Arglwyddiaeth Penmar a Maenor Cwm Cudi.
7. Syr Reginald de Sully.....Castell a Maenor Abersili, Denis Powys, a Llan Andras.
8. Syr Roger Berkrolles .....Maenorau Llan Dathan a Llanphe.
9. Syr Peter le Soore .....Llanbedr y Fro a Llan Sant Ffagan.
10. Syr John Fleming .....Llanufelwyn (*St. George's*), Gwenfo, Legwydd, rhan o'r Caerau.
11. Syr Oliver S. John .....Aberbernant (*Fonmon*), Llangadell, a Phorth Cerri.
12. Syr William le Esterling ....Llanwerydd (*St. Donatts*), Tregolwyn, a Llanfaes.

---

\* Y Coetty a nodir gan awduron yn aml fel cyfran Turberville; ond tebyg yw mai trwy briodas ag Asser, merch Meurig, Arglwydd y Coetty, y daeth ef i'r hawl hono.

## RHANIADAU YCHWANEGOL.

Yn ychwanegol at yr Arglwyddiaethau a'r Maenorau a roddwyd i'r Marchogion Normanaidd, fe roddodd Syr R. Fitzhamon etifeddiaethau i ereill fel y canlyn :—

1. Caradog ab Iestyn a gafodd Arglwyddiaeth Afan (rhwng Nedd ac Afan), yn Arglwyddiaeth Rial (*Royal Lordship*).

2. Madog ab Iestyn, Arglwyddiaeth Rhuthyn.

3. Hywel ab Iestyn, Llantrydyd.

4. Rhys ab Iestyn, Arglwyddiaeth Sofien, rhwng Nedd a Thawy.

5. Meurig ab Gruffydd ab Iestyn, Y Coetty.

6. Einion ab Collwyn a gafodd Arglwyddiaeth Meisgun, gyda chas-tell a thref Llantrisant, a Nest, merch Iestyn, yn wraig.

7. Robert ab Seisyllt a gafodd gadw Maes Essyllt.

8. Cedrych ab Gweithfoed a gafodd Arglwyddiaeth Senghenydd. Gwir y dywed rhai haneswyr mai Einion ab Collwyn a gafodd Senghenydd gydag eiddo Meisgun; ond fe ddywed Syr E. Mansel yn ei lyfr, mai Cedrych a gafodd Arglwyddiaeth Senghenydd, gyda dau gastell, sef Uwch-Senghenydd ac Is-Senghenydd. Mae digon o brofion ereill hefyd yn dangos mai Cedrych, Tywysog Ceredigion, a gafodd Senghenydd, sef rhwng afonydd Rhymni a Thaf. Wyr i'r Cedrych hwn oedd Ifor Bach, Arglwydd Uwch-Senghenydd, yr hwn oedd yn byw yn Llysy Merthyr Tydfil.

9. Simon Bonville, prif oruchwyliwr Fitzhamon, a gafodd Faenor Bonvillston, a elwir Tre Simwn.

10. Love, un o fesurwyr y sir, a gafodd Cornelli Waelod.

11. Deere, arolygydd Parciau Fitzhamon, a gafodd dir ger Llanilltyd Fawr.

12. Blondel de Mapres, tad Walter de Mapres, Archddeacon Rhydychain, a gafodd etifeddiaeth ger Llancarfan, lle yr adeiladodd ei fab dref fechan a elwir Walterston yn bresenol. Cafodd Blondel dir yn Corboil, Normandy, hefyd, am ei wasanaeth i Fitzhamon.

13. Estecotte, yr hwn oedd yn gofalu am ddiwallu Fitzhamon á thanwydd, a gafodd diroedd iddo ei hun.

14. Luge hefyd, prif genadydd R. Fitzhamon, a gafodd etifeddiaeth yn y Fro.

15. Punter, arolygydd Pontydd Morganwg, dan y penaeth Normanaidd, a gafodd ei ran.

16. Voss, prif adeiladydd R. Fitzhamon, a gafodd dir ger Boverton.

Cafodd llunaws ereill o'r Normaniaid diroedd yn Morganwg gan Fitzhamon, ac y mae hiliogaeth y rhai hyn yn ngwahanol barthau y sir yn awr, a'r enwau Normanaidd yn parhau yn eu teuluoedd, megys y Bassetts, y Butlers, &c. I'r dyben o rod-di tiroedd fel hyn i'r Normaniaid, gormesai Fitzhamon y Cymry yn greulon, y rhai, er eu bod dan iau estronol trwy affwydd Iestyn, ni allent oddef i'w tiroedd gael eu cymmeryd oddiarnynt, heb amlygu eu hanfoddlonrwydd mewn modd eglur. Pan welodd y Norman fod arwydd am storm, o herwydd ei ormes, newidiodd ei gynllun. Yr oedd ganddo ef diroedd eang

yn Corboil, yn Ffrainge, a phan fyddai am gael tir un o Wyr Morganwg, anfonai Luge, ei genadydd, i gynnyg newid a'r Cymro am dir yn Corboil, Normandy, ac os gwrthodai, cymmerai y tir trwy drais; ac felly, yn hytrach na bod heb ddim, aeth lluaws o dirfeddianwyr Morganwg i fyw i Corboil, Normandy.

Wrth weled yr estroniaid fel hyn yn meddiannu tir goraf y Dalaeth, sef Bro Morganwg, ac nad oedd ond y Blaenau Mynyddig heb eu meddiannu, darfu i'r Tywysog Gruffydd, mab Rhydderch ab Iestyn, gasglu yn nghyd lluaws o'r Cymry a ffoisant rhag y Normaniaid, ac aeth i drigo i Gaerlleon-ar-Wysg, ac amddiffynodd y lle yn gadarn yn eisteddfa ei lywodraeth.

Caradog, mab y Gruffydd hwn, a ddaeth yn dywysog enwog ar Gwent a Gwaun Llwg (Gwentllwg), a chynnalai ei lys yn Nghaerlleon-ar-Wysg.

Mae yn amlwg oddiwrth y rhaniadau a wnaed ar Forganwg gan Syr Robert Fitzhamon, iddo ddewis y tir goraf iddo ef ei hun a'i gydfarchogion; tra na chafodd hiliogaeth Iestyn, rai o honynt, ond tir digon mynyddig. Nid oedd rhan Einion ab Collwyn ychwaith ond mynyddig a diffrwyth i raddau pell; ac nid oedd arglwyddiaeth Senghenydd, sef cyfran Cedrych ab Gweithfoed, nemawr gwell. Ymddengys nad oedd ond tair tref farchnadol yn Mro Morganwg pan ddaeth y Normaniaid iddi, sef Caerdydd yn y dwyrain, y Bontfaen yn y canolbarth, a Chenffig yn y parth gorllewinol; a dywedir i Fitzhamon gymmeryd meddiant o'r tair tref hyn iddo ei hun, fel y gallai toll y marchnadoedd ddyfod i'w bwrs ef. Mae un peth arall teilwng o sylw gyda golwg ar leoliad Arglwyddiaeth Syr Richard Grenville, sef Arglwyddiaeth Nedd. Yr oedd Syr Robert Fitzhamon a Syr Richard Grenville yn frodyr naturiol; ac wrth ranu y Sir, gofalodd y blaenaf iddo ef ei hun wlyio parth dwyreiniol y Dalaeth trwy fyw yn Nghaerdydd, a gosod frawd i wlyio y cwr gorllewinol o'r hyn a feddiannwyd ganddynt y pryd hwnw. Mae hyn yn amlygrwydd o ddoethlineb a chyfrwystrau ar ran yr estron er dyogelu ei yspail.

Dywedir mewn cyssylltiad a'r gwahanol raniadau, fod Castell yn perthyn i bob Arglwyddiaeth a Manor braidd pan y cafodd y Normaniaid hwynt; ac etto, priodolir adeiladiad y Cestyll braidd i gyd i'r Normaniaid ar ol y Goresgyniad, yr hyn sydd yn ymddangos yn wrthddywediad annghysson. Pa fodd bynag, cyssonir ac eglurir hyn i raddau pell gan y Brutiau Cymreig, lle y dywedir mai coed oedd defnydd Cestyll y Cymry gan mwyaf, a darfu i'r Normaniaid eu cadarnhau trwy eu hadeiladu a cheryg.—(*Muf. Arch.* p. 701.)

Wedi rhanu Morganwg fel y nodwyd rhwng y gwahanol bleidiau, gorphenodd Fitzhamon adeiladu y muriau a ddechreuodd Iestyn o gyleh Caerdydd, a chadarnhaodd, neu yn hytrach ail-adeiladodd, y Castell yn hynod gadarn, yn breswylfa iddo ei hun. Fel Prif Farchog, neu Benaeth Arglwyddiaeth Morganwg, cynnalai ei lys yn ei Gastell, pryd y deuai y deuddeg Marchogion ereill i eistedd fel rheithwyr yn y llys, a rhoddi cyfrif iddo ef pa fodd yr oedd pethau yn myned yn mlaen yn eu gwahanol arglwyddiaethau hwy. Yr oedd y

Marchogion hyn yn ffurfio rhan o warchodlu y Castell hefyd, a chan bob un o honynt ystafell ynddo; ac yr oedd eu dyfodiad iddo ar y Llun cyntaf o bob mis, yn arwydd o ymostyngiad i Fitzhamon. Darfu i Robert Fitzhamon, mewn gwirionedd, drawsffurfio Morganwg o fod yn Dalaeth Gymreig Annibynol, fel y bu erioed, i Arglwyddiaeth Gyffiniol, yn unol â'r ddeddf a elwid—

#### JURA REGALIA.

Gan fod y fath gyssylltiad rhwng y ddeddf hon â Morganwg, ac â Chymru yn gyffredinol, a chan nad yw haneswyr Cymru wedi egluro ei natur mor fanwl ag y dylid, hyd ag y gwyddom, barnwn mai priodol yw gwneyd sylw o honi yma.

Mae yn hyspys i William y Gorchfygwr gael buddugoliaeth ar y Sacsoniaid a lladd Harold eu brenin yn mrwydr Hastings yn y flwyddyn 1066, ac felly daeth i feddiant o goron Lloegr. Nid oedd cwys o Gymru yn meddiant y Normaniaid y pryd hwnw, nac am beth amser ar ol hyny. Yr oedd William yn hyspys hefyd o yspryd annibynol y Cymry, a'r modd yr oeddynt wedi gwrthsefyll eu gelynyon, ac amddiffyn eu gwlad dan arweiniad Caradog yn erbyn y Rhufeiniaid, a than arweiniad Arthur yn erbyn y Sacsoniaid, &c. Felly, yn hytrach na myned i ryfel â'r Cymry, ffurfiodd William y gyfraith a nodwyd, cynnwys yr hon a eglurir fel y canlyn.

Mewn un ystyr, y brenin oedd perchenog pob cwys o'r hyn a enillwyd oddiar y Sacsoniaid; ac yn ol y gyfraith a wnaeth William I., dal tir i'r brenin oedd yr hawl fwyaf a roddid i'r deiliaid; a dyna ydyw ystyr y gair *freehold*, sef bod un yn cael dal tir y brenin yn ddiardreth. Tuag at wylio ysgogiadau y Cymry, a chadw Lloegr yn ddyogel, rhoddodd y brenin William I. y parthau hyny o'r wlad ag sydd yn ffinio â Chymru i nifer o'i farchogion dewisol, y rhai a elwid yn Arglwyddi y Cyffinian. Cyrhaeddai yr Arglwyddiaethau hyn o ymyl Caer (Chester) hyd Caerloyw, yn groes i'r wlad, er ffurfio ffin rhwng Lloegr a Chymru.

Yn rhinwedd y gyfraith a elwid "*Jura Regalia*," yr oedd hawl gan bob un o'r Arglwyddi Cyffiniol i wneyd cyfraith o'i eiddo ei hun i lywodraethu ei ddeiliaid, i fathu arian ar ei enw ei hun, a hyny yn hollol annibynol ac ar wahan oddiwrth ei gydfarchogion, ac yn hollol anghyssylltiol â Lloegr, fel yr oedd pob un o'r Arglwyddiaethau yn deyrnas fechan annibynol ar ei phen ei hun. Nid oedd hawl gan y deiliaid i appello at unrhyw lys yn y wlad yn ngwyneb unrhyw gam, ond rhaid oedd ymostwng i'r Arglwydd Tirol a'i gyfraith, beth bynag fuasai. Os buasai dau neu ychwaneg o'r Arglwyddi Cyffiniol yn ymryson a'u gilydd, yr oedd eu hachos hwy i gael ei drin yn Uchel Lys Lloegr; a braidd nad dyna yr unig gyssylltiad oedd rhyngddynt ag unrhyw gyfraith heblaw yr eiddynt eu hunain.

Yr oedd y *Jura Regalia* yn caniatáu iddynt ladratta faint fyd a fynent oddiar y Cymry, heb i neb eu galw i gyfrif; ac nid oedd hawl gan y Cymry i appello at Lys Lloegr yn ngwyneb y cam, am nad



oeddynt yn cael eu llywodraethu gan gyfraith y Normaniaid; ac felly, rhaid oedd iddynt amddiffyn eu heiddo goreu y gallent.

Nid oedd Arglwyddi'r Cyffiniau yn lluosog ar y cyntaf; ond yr oedd eu Harglwyddiaethau yn eang iawn, a hwythau wedi adeiladu Cestyll cedyrn arnynt i'w hamddiffyn. Yn raddol, lluosogodd yr Arglwyddi hyn, trwy fod mab un yn priodi merch y llall, a'r rhai hyny yn codi teulu, &c. Pan fuasai priodas o'r fath yn cymmeryd lle, yr oedd yn rhaid cael Arglwyddiaeth i'r pâr ieuange; a thuag at hyny, yr oedd yn rhaid cwtogi ychydig ar eiddo y rhieni; ond ni pharhaodd felly yn hir, oblegyd pan oedd eisiau Arglwyddiaeth i'r plant, cymmerai yr Arglwyddi y tir iddynt trwy drais oddiar y Cymry; ac yn ychwanegol at y tir, cymmerent yr anifeiliaid hefyd, a phob peth arall a fyddai o wasanaeth iddynt. Yn gymmaint â bod Cymru yn annibynol, a'r genedl yn cael ei llywodraethu yn ol Cyfreithiau Hywel Dda, nid oedd lle i ddysgwyl cydymdeimlad breninoedd Lloegr yn ngwyneb y gormes a nodwyd, ac felly cafodd ein cenedl y camwri mwyaf ar law Arglwyddi y Cyffiniau am oesoedd.

Dechreuodd Syr Robert Fitzhamon lywodraethu Morganwg yn unol a'r gyfraith ormesol a nodwyd; ac yr oedd yr hawl y cyfeiriwyd atto, sef bathu arian, llunio cyfreithiau, &c., yn meddiant pob un o'r Marchogion ereill. Rhoddwyd yr unrhyw hawl i amryw ereill, megys Simon Bonville, Love, Estecotte, Deere, Lugge, &c.; a thrwy fyned a'r tiroedd oddiar y Cymry yn Mro Morganwg, gan hudo y brodorion i fyned i Normandy, lluosogodd yr Arglwyddi hyn mewn ychydig amser, fel yr oedd dros hanner cant o honynt yn Morganwg yn unig, a chan bob un o honynt hawl i wneyd cyfraith yn ol ei ewylls ei hun i lywodraethu ei Arglwyddiaeth.

Mae llnaws o'r Llysdai lle y gweinyddai y mân Arglwyddi eu cyfreithiau yn Morganwg yn bresenol, y rhai a elwir wrth wahanol enwau, megys "Ty yr Eglwys," "Ty'r Degwm," "Ysgubor Ddegwm," &c. Math o neuaddau eang ydynt, yn ddau uchder, a'r grisiau i fyned i'r llofft y tu allan i'r adeilad. Yn ystafell eang y llofft y cynnelid llysoedd barn yr Arglwyddiaeth; a chynnelid marchnadoedd yn yr ystafell isaf i werthu ŷd ac enllyn ar forenau Suliau cyn amser Eglwys. Pan fyddai amser y gwasanaeth Eglwysig yn nesau, cenid cloch y Llan y waith gyntaf, fel rhybudd i gau'r farchnad. Yna cenid y gloch yr ail waith yn arwydd i'r bobl barotoi i fyued i'r Eglwys; a chenid hi y drydedd waith i hysbysu fod y gwasanaeth wedi dechreu, ac nad oedd un drws i fod yn agored ond drws yr Eglwys yn unig. Parhaodd yr arferion hyn yn Morganwg hyd amser Harri VIII., tua'r flwyddyn 1536.

#### EFFAITH Y "JURA REGALIA" AR GYMRY MORGANWG.

Gan i'r gyfraith orthrymus hon gael ei gosod mewn gweithrediad yn Morganwg gan Robert Fitzhamon a'i gydfarchogion, priodol yw sylwi beth fu'r canlyniad o ddwyn y fath newydd-beth dyeithriol i blith pobl ag oedd wedi arfer bod yn rhyddion ac annibynol erioed. Awgrymwyd

eisoes fod Cymry Morganwg yn amlygu cryn anfoddlonrwydd i'r drefn newydd ; ond gan eu bod yn rhy wan i wrthsefyll eu gormeswyr, derbyniasant diroedd yn Corboil, Normandy, a symmudodd amryw yno i breswyllo.

Cyn hir iawn, pa fodd bynag, gwawriodd gwell amser ar frodorion Morganwg, trwy i Syr Paine Turberville, un o'r Marchogion Normanaidd, briodi Asser, merch Meurig, mab Gruffydd ab Iestyn, Arglwydd y Coetty. Mae'r traddodiad am y briodas fel hyn :—Dywedir i Paine fyned â nifer o Normaniaid gydag ef i'r dyben o gymmeryd y Coetty trwy drais, ac i Meurig pan welodd hwynt yn dyfod, fyned i gyfarfod y Norman, a gofyn beth oedd ei gais, ac iddo, pan ddeallodd yr amcan, gyfaroh Paine fel hyn :—“ Yn gymmaint ag mai awydd sydd ynot i feddiannu y Coetty, a'th fod yn bwriadu ymladd am y lle, gwybydd fod genyf finau fyddin ; ond rhag i waed ereill gael ei dywallt o'n hachos ni, tro dy wyr ymaith, ac ymladdwn ein dau yn unig am yr Arglwyddiaeth. Neu ynte, os ewyllysi ddyfod i feddiant heddychol o'r lle, rhoddaf i ti fy merch yn wraig, a chai uno a'm teulu : dewis yr un a fynot.” Dewisodd Paine yr olaf,—priododd ag Asser, yr hon oedd Dywysoges o linach Tywysogion Morganwg ; ac o hyny allan, honai Paine fwy o hawl i'r Arglwyddiaeth na Fitzhamon,—gwrthodai ei gydnabod yn benaeth, ond talai ei deyrnged i Caradog ab Iestyn, fel gwir Dywysog Morganwg. Yn ychwanegol at hyn, gosododd Paine Turberville ei hun i fyny yn flaenor i'r Cymry er gwrthwynebu Fitzhamon a'i Farchogion Normanaidd. Calonogodd hyn wyr Morganwg yn fawr, wrth weled un o'r Normaniaid yn priodi â Thywysoges o deulu Iestyn, a'r Marchog ar ol priodi yn troi yn bleidiol i'r Cymry, &c. Yr oedd y Normaniaid o'r tu arall yn orddigofus wrth Turberville, am iddo droi o blaid y brodorion, a galwent ef wrth yr enw “ *Paine y Diafol.*”

Pan weithiwyd teimladau gwrthwynebol y pleidiau i fyny i'r graddau hyn, casglodd y Marchogion estronol eu milwyr yn nghyd, gan osod Syr W. de Londres yn brif flaenor, ac aethant ar hynt filwrol i Dir Gwyr, ac oddiyno yn groes i afon Llwehwr i ardal Cydweli, ac yn mlaen i Ystrad Tywi, er ychwanegu tiriogaethau newyddion i'w meddiant, a darostwng y Cymry yn yr ardaloedd a enwyd.

Yn 1094, tra yr oeddynt hwy yn anrheithio rhanau o Sir Gaerfyrddin, a W. de Londres yn adeiladu Castell iddo ei hun yn Nghyd-weli, manteisiodd Paine Turberville ar yr adeg, ymrestrodd Cymry Morganwg a Gwent dan ei faner, a gwnaethant ddynstr aruthrol ar eiddo y Normaniaid yn mhob cyfeiriad. Ymosodasant ar Gastell Caerdydd gyda ffyrnigrwydd, pryd yr aeth Fitzhamon i fyny i ben y Twr i ofyn beth oedd achos yr ymosodiad. Atebwyd ef gan Paine, yr hwn a ddywedai mai angen eu rhyddid oedd ar wyr Morganwg, ac na chymmerent eu llywodraethu â'r *Jura Regalia*, ond y mynent weinyddiad cyfiawnder yn ol Cyfreithiau Morgan Mwynfawr a Hywel Dda. Pan welodd R. Fitzhamon fod byddin Paine yn lluosog, ac yn ymwybodol hefyd fod mwyafrif y Normaniaid wedi myned gyda Syr W. de Londres, fe addawodd y cawsai y Cymry eu breintiau cynhenid ; ond ni wnai hyny y tro i Paine, rhaid oedd iddo ef gael pyrth y Castell yn agor, a

chael gan Fitzhamon lawnodi Gweithredoedd i'r pwrpas hwnw; ac os gomeddai agor y pyrth, y tynid y Castell yn chwilfryw am ei ben. Rhag ofn y gwaethaf, agorwyd y pyrth, gwnaed ammodau yn y Castell, a gorfodwyd R. Fitzhamon i osod ei sêl wrthynt. Dywed rhai haneswyr i frase boeth gymmaryd lle rhwng y ddau Norman wrth lunio'r ammodau, ac i Paine godi ei ddwrn, a tharo Fitzhamon ar ei ben mor nerthol, nes yr effaithiodd yr ergyd ar ei synwyrâu cyhyd ág y bu ef byw.

Yn ol yr ammodau a wnaed y pryd hwnw, cafodd llawer o'r Cymry ail feddiant o'u tiroedd, a mwynhau rhyddid mor bell ág y gallesid dysgwyl. Wedi i wyr Morganwg a Gwent gael eu traed danynt megys, trwy Ammodau Caerdydd, teimlent awydd cryfach i geisio ad-ennill eu hannibyniaeth, a gyru y Normaniaid o'r wlad. I'r dyben o gyrhaedd yr amcan hwnw, ymgyngrheiriodd gwyr Morganwg, Gwent, Gŵyr, a Gwentilwg a'u gilydd i wneyd un ymdrech egniol unwaith etto am annibyniaeth. Wrth weled y symmudiadau hyn yn myned yn mlaen yn mhllith y Cymry, trefnodd y Normaniaid eu byddinoedd yn barod i dderbyn yr ymosodiad. Casglwyd y lluoedd gwrthwynebol i'r maes, daethant i wrth-darawiad, pryd yr ymladdwyd Brwydr Gelli Darfawg, ac y gorchfygwyd y Normaniaid gyda lladdfa fawr. Oni bae fod ganddynt erbyn hyn eu Cestyll cedyrn i ffoi iddynt, mae'n ddi-amheu y cawsent eu gyru yn llwyr o Forganwg.

Wedi buddugoliaeth ogoneddus Gelli Darfawg, braidd nad ystyriai gwyr Morganwg a Gwent eu hunain yn hollol annibynol; ac ystyrid Morganwg yn rhydd gan drigolion holl Gymru, oblegyd ffordd lluaws iddi o Wynedd a'r Deheubarth i geisio noddfa rhag trais y Normaniaid a gweinyddiad y *Jura Regalia*. Pan welodd yr Arglwyddi Normanaidd eu bod yn colli tir yn Morganwg, a'u bod mewn ofn rhag cael eu llwyr orchfygu, a'u gyru o'r wlad, anfonasant i Loegr am help eu brodyr, a daeth lluaws o adgyfnerthion iddynt. Pa fodd bynag, cyn i'r holl adgyfnerthion gyrhaedd, ymosododd y Normaniaid ar y Cymry, y rhai a ffugasant ffoi o flaen eu gelynyon hyd ffiniau Brycheiniog (tua blaen afon Rhymni, debygwyf), ac yno troisant yn ol fel llewod, gan ennill buddugoliaeth arall ar y Normaniaid.

Pan oedd y Cymry buddugoliaethus yn dychwelyd tua'r Fro, dros yr heol Rufeinig, trwy blwyf Gelligaer, daeth llengoedd o Normaniaid Lloegr i'w cyfarfod, dan arweiniad Robert Fitzhamon, Roger Montgomery, Iarll Amwythig; William Fitzcustace, Arnold des Hercourt, Iarll Arundal; Neal les Viscount, Walter Everaux, Iarll Sarum; a Hugh Iarll Gourney. Llywyddid y fyddin Gymreig gan Ednerth ab Cadwgan a'i ddau fab, Gruffydd ac Ifor. Bu brwydr greulon rhwng y ddwy fyddin, ond yn y diwedd cafodd y Cymry fuddugoliaeth drwyadl. Yn mhllith y lladdedigion, yr oedd W. Fitzcustace, Arnold des Hercourt, a Neal les Viscount; a dywed hanesiaeth i Iarll Gourney a Walter Everaux feirw yn fuan yn Ffrainge o herwydd yr archollion a gawsant yn Mrwydr Gelligaer. Oni bae y Cestyll, darfuasai am ychwaneg o rwysg Normaniaid yn Morganwg y pryd hwnw. Gwelodd R. Fitzhamon hefyd mai y ffordd oreu oedd rhoddi eu breintiau i

Gymry Morganwg, a bu hyny yn foddion i dawelu pethau i raddau helaeth.

Yn y flwyddyn 1099, pa fodd bynag, torodd storm allan yn Ngwyr a Bro Gwyr, pan y daeth Henry Beaumont, Iarll Warwick, gyda llu arfog o Normaniaid, i ymosod ar feibion Caradog ab Iestyn, y rhai oeddynt wedi ymsefydlu yno. Yr oedd yr ymosodiad hwn mor ffyrnig, a llu'r Norman mor fawr, fel y gorfu ar feibion Caradog roi ffordd, er ymladd yn ddewr; a chymmerodd Beaumont feddiant o'r holl ardal. Tuag at ddyogelu y meddiannau a gymmerwyd ganddo oddiar y Cymry, adeiladodd Beaumont Gestyll Abertawy, Llanrhidian, Castell Llŵchwr, a Chastell Penrhys; yr olaf yn y man y torwyd pen Rhys ab Caradog ab Iestyn. Er gwneyd ei hun yn sicrach a dyogelach o'i ysglyfaeth, cymhalodd Beaumont luaws o Saeson Gwlad yr Haf i ddyfod drosodd i breswyllo yn Ngwyr, lle y cawsant diroedd yn rhad ganddo. Yn 1100, sef yn mhen blwyddyn wedi i Beaumont gymmeryd Gwyr, gwnaeth Cymry Morganwg, Gwent, Brycheiniog, a Gwyr fath o gynghrair dirgelaidd â'u gilydd, i ymosod ar y Normaniaid yn y gwahanol barthau ar yr un noson; ac felly y bu, a gwnaed lladdfa aethus arnynt yn hollol annysgwyladwy; fel yr ofnai y lleill, hyd y nod yn eu Cestyll.

Yr un flwyddyn hefyd, daeth lluaws o'r Cymry yn ol i Forganwg, y rhai a ffoisant o honi pan ddaeth y Normaniaid i'w goresgyn; a chymmerasant diroedd i'w hamaethu, ac ni ddangosodd y goresgynwyr un gwrthwynebiad, yr hyn a fu yn foddion i heddyohu y ddwy blaid i raddau pell. Ni aflonyddwyd ar Gymry Morganwg drachefn hyd farwolaeth Robert Fitzhamon, gan na ellid eu llywodraethu a'r *Jura Regalia*. Dywed rhai haneswyr Cymreig i Robert Fitzhamon farw o wallgofrwydd, mewn canlyniad i'r ergyd gafodd gan Paine Turberville; ond nid ymddengys fod hyny yn gywir, oblegyd cawn hanes iddo fyned tua'r flwyddyn 1107 ar hynt filwrol i Ffraince, gyda Harri I.; a chafodd ei glwyfo yn angeuol yn ngwarcheud Falaise yn Normandy, fel y bu farw yn 1110, a chladdwyd ef yn Mynachlog Tewkesbury, swydd Gaerloyw.

Yn y cyfnod hwn o hanes wladol Morganwg, y daeth llu mawr o'r Fflandrws (*Flemings*) i Fro Gwyr, ac y mae eu hil yno yn bresenol. Yr oedd llawer o'r *Flemings* yn myddin William o Normandy yn dyfod i'r wlad hon yn 1066; ac o herwydd hyny, teimlai y teulu breninol barch iddynt. Yn 1100, pan orlifwyd eu gwlad, daeth lluoedd o'r Fflandrws i Loegr i ofyn nawdd Henry I., yr hwn a goronwyd y flwyddyn hono. Rhoddodd yntau Northumberland yn wladfa iddynt. Yn fuan ar ol hyn, penderfynodd eu hanfon oddiyno i Gymru, i diriogaethau Gerald de Windsor, Arglwydd Penfro; a Henry Beaumont, Arglwydd Gwyr. Dywed Brut y Tywysogion, *Myv. Arch.* p. 611, mai yn 1105 y daethant i Gymru, tra y dywed *Townsend's Manual of Dates* mai yn 1100 y daethant i Loegr, ac i Gymru yn 1112.

Yn nheyrnasiad Stephen, daeth lluoedd o'r Fflandrws i Loegr drachefn; ond pan esgynodd Harri II. i'r orsedd, yn 1154, penderfynodd eu gyru oll o'i diriogaethau, gan ganiatau iddynt fyned i

Gymru at eu brodyr yn 1155. Dywedir mai i'r rhai hyn yr ydym yn ddyledus am blanu bresych (*cabbage*), *lettice*, *gooseberries*, &c., yn ein gwlad. Maent wedi byw trwy yr oesoedd heb gymmysgu â'r Cymry; a'u hiliogaeth hwy ydynt Saeson sir Benfro a Saeson Browyr yn bresenol.

### HANES WLADOL MORGANWG DAN ROBERT IARLL CAERLOYW.

Fel yr awgrymwyd eisioes, yr oedd Robert Fitzhamon yn nai, medd rhai, yn gefnder medd ereill, i William y Gorchfygwr, ac felly o waedoliaeth pendefigol. Priododd Mabli, neu Mabel, merch hynaf Robert Fitzhamon â Robert Milhant, a gyfenwid Fitzroy, yr hwn oedd fab ordderch Harri I., brenin Lloegr, o Nest, merch Rhys ab Tewdwr, brenin Deheudir Cymru. Gwnaed y Robert hwn yn Iarll Caerloyw yn 1109, yr hwn oedd y teitl nesaf i'r brenin y pryd hwnw, ac am oesoedd ar ol hyny. Yn rhinwedd ei briodas â merch Syr R. Fitzhamon, daeth i feddiant o Arglwyddiaeth Morganwg ar farwolaeth ei dad-yn-nghyfraith; ac felly yr oedd yn Iarll Caerloyw ac Arglwydd Morganwg. Gallesid dysgwyl i hwn feddu calon i gydymdeimlo â'r Cymry, gan ei fod yn fab i ferch yr enwog Rhys ab Tewdwr; ond fel y mae dysgwyliaidau yn fynych yn cyfarfod â siomiant, felly y bu yn yr amgylchiad hwn. Yr oedd ei dad yn elyn creulon i'r Cymry, ac felly yntau; a dichon ei fod yn meddu mwy o hyfdra i'w gormesu, ar gyfrif ei fod yn fab i frenin Lloegr.

Mor fuan ág y daeth Arglwyddiaeth Morganwg i'w feddiant, yn 1110, dechreuodd ar ei ystrangiciau; a chawn hanes ei fod yn y flwyddyn ganlynol, yn cadarnhan Castell Caerdydd, a chloddio ffôs o'i amgylch, a throi dwfr afon Taf i'r ffôs hono. Yn ei ofal ef, ac o fewn Castell Caerdydd, y carcharwyd ei ewythr, sef Robert Duc Normandy, am yr ystyridd ef yn fwy dyogel yno nâg mewn un carchar arall. (Gwel *Caerdydd*.) Er mwyn dangos ei awdurdod gormesol, gosododd yr Iarll hwn y *Jura Regalia* mewn grym unwaith drachefn yn Morganwg, ac arferai y trais a'r gorthrwm mwyaf creulon tuag at y Cymry, fel na chaent yn agos yr un chwaraeu teg ganddo a'i ddeiliaid Normanol. Ymddengys fod Cymry Morganwg wedi colli eu hamddiffynydd, Paine Turberville, y pryd hwnw; ond er ei gollu ef, ni chwasant fod heb flaenor, yn meddu calon ddewr i'w harwain. Os oedd Robert, mab Harri I., a'r gwahanol Arglwyddi Normanol ereill yn mwynhau y gorchwyl annheilwng o ormesu'r Cymry, ac os oedd hiliogaeth Iestyn ab Gwrgan yn teimlo yn rhy lwfr ac ofnus i amddiffyn cyfiawnder, yr oedd yn Morganwg berson digon dewr a diofn, a digon gwrol i wrthwynebu trais, a'i galon yn ddigon mawr i gydymdeimlo â'r gorthrymedig mewn cyfyngder. Y person hwnw oedd Ifor Bach, mab Cadifor ab Cedrych.

Awgrymwyd eisioes i Arglwyddiaeth Senghenydd gael ei rhoddi gan Robert Fitzhamon i Cedrych ab Gweithfoed, Arglwydd Ceredigion, am

ei gynnorthwyo yn gyntaf yn erbyn Rhys ab Tewdwr, ac yna yn erbyn Iestyn ab Gwrgan. Daeth Senghenydd i feddiant Cadifor, mab Cedrych, ar ei ol ef, ac yna daeth i feddiant Ifor Bach.

Yn "*The History of Merthyr*," gan Mr. C. Wilkins, dywedir fod Ifor yn fab i Cadifor Fawr, arglwydd Dyfed; ac iddo ddyfod i feddiant o Senghenydd, trwy briodi Nest merch Madog ab Caradog, ab Einion ab Collwyn! Sylwer ar wendid yr haeriad hwn. Yn ol y dywediad hwn, yr oedd gwraig Ifor yn or-wyres i Einion ab Collwyn. Ond gan mai yn 1091 y priododd Einion â merch Iestyn, a bod arglwyddiaeth Senghenydd yn meddiant Ifor Bach yn 1110, sef yn mhen 19 o flynyddau wedi priodas Einion, mae yn amlwg mai anhossibl oedd iddo ddyfod i'r hawl trwy briodi gor-wyres Einion ab Collwyn. Ond pan gofir fod arglwyddiaeth Senghenydd wedi ei rhoddi i Cedrych ab Gweithfoed, pan ranwyd Morganwg gan R. Fitzhamon, ac iddi ddisgyn yn naturiol i'w fab Cadifor yn gyntaf, ac yna i Ifor ei fab yntau, y mae pobpeth yn ddigon eglur.

Dywed amryw haneswyr fod Ifor Bach yn byw yn Nghestell Morlais, yn mhlwyf Merthyr Tydfil, ac mai efe adeiladodd y Castell Coch, yn mhlwyf Eglwys Elian; ond y mae yn bur amheus a fu Ifor yn preswyllo yn y naill na'r llall o'r Cestyll hyn. Mwy tebygol yw, ei fod yn byw yn Llydsy Merthyr Tydfil. Yr oedd arglwyddiaeth Ifor yn cynnwys yr holl dir sydd yn gorwedd rhwng afonydd Rhymni a Thaf, o Hafren, medd rhai, o Fynydd Cefn On, medd ereill, hyd y Cae Drain, sef cwr mwyaf gogleddol plwyf Merthyr Tydfil. Nid oedd ei fyddin ond 1,200 o wyr; ond y mae traddodiad yr arferai Ifor fostio yn fynych, y gallai ef gyda'i ddeuddeg cant, orohfygu deuddeg mil o'r Normaniaid unrhyw ddydd.

Wrth weled trais Robert Iarll Caerloyw, a'i ymdrech i sathru y Cymry, arweiniodd Ifor Bach ei fyddin ddewr i Gaerdydd un noson, ac er fod gwylwyr yn gwyllo'r castell, dringodd dros y muriau yn ddystaw, aeth i mewn, agorwyd y castell, a chymmerwyd yr Iarll, ei wraig, a'u plentyn William, yn garcharorion ganddo, a chadwyd hwy felly nes i'r Iarll a'i dad, sef Harri I, lawnodi yr ammodau a gynnygiwyd iddynt gan Ifor arglwydd Senghenydd. Prif erthyglau yr ammodau oeddynt: 1, Fod Cymry Morganwg i gael mwynhau eu breintiau cynhenid, fel yn amser Morgan Mwynfawr; a'u bod i gael yr un rhyddid gwladol a'r Normaniaid. 2, Fod caethiwed Robert Duc Normandy, (brawd y brenin,) i gael ei ysgafnhau.—*Gwel CAERDYDD, a MERTHYR.*

Mewn hen ysgrif sydd wedi dyfod i'r golwg yn ddiweddar, dywedir mai un o'r pethau y teimlai y Cymry fwyaf oddiwrtho yn amser Robert Iarll Caerloyw, oedd y gyfraith a wnaed ganddo yn gwahardd pawb o'i ddeiliaid i fyned i unrhyw dref neu gastell yn Morganwg, os na allent siarad iaith y Normaniaid; a bod yn rhaid i'r deiliaid Cymreig anfon eu plant i ofal athrawon Normanaidd i gael eu dysgu; a phob plentyn a gyhuidd o fod yn gwybod Cymraeg yn mhen amser nodedig, a wnaed yn gaethwas.—*Cam. Arch. Mag.*, 1859.

Mawr y gofid y mae ein hiaith wedi ei roddi i estroniaid yn mhob oes; a mawr yw eu hymdrech i'w difodi; ac etto, y mae mwy o elfennau

bywyd ynddi yn awr nag a fu erioed. Mae yn syndod meddwl fod cannoedd, os nid miloedd yn awr yn Nghymru na fedrant ond y Gymraeg; ac y mae cannoedd o'n brodyr y Llydawiaid, na fedrant y Ffancseg. Darfu yr ammodau a wnaed rhwng Ifor Bach a Iarll Caerloyw, ddwyn llawer o freintiau i'r Cymry yn Morganwg, fel na fu achos gan Ifor i ofyn ail ammodau. Ond er i bethau gael eu heddychu rhwng gwyr Morganwg a'r Normaniaid; etto, ni chafodd yr estroniaid lonyddwch yn hir cyn i ymosodydd Cymreig dewr arall ymddangos yn mherson Gruffydd, mab Rhys ab Tewdwr. Nid oedd Gruffydd ond baban pan laddwyd ei dad yn 1090, a dygwyd yntau drosodd i'r Iwerddon er arbed ei fywyd. Yr oedd Gruffydd yn ewythr i Robert Larll Caerloyw, brawd ei fam.

Yn y flwyddyn 1118, daeth Gruffydd o'r Iwerddon i Gymru, yn ddyn ieuangc, 28 oed, i dalu ymweliad a'i chwaer Nest. Mor fuan ág y clywodd Harri L. am ei ddyfodiad i'r wlad, penderfynodd roi terfyn ar ei fywyd ar unwaith. Nid oedd yn ddigon ganddo dduo cymmeriad ei chwaer, trwy wneyd gordderth o honi, heb ymgais at fywyd ei brawd hefyd; ond os llwyddodd yn y blaenaf, fe'i siomwyd yn ei gais olaf. Pan ddeallodd Gruffydd fod brenin Lloegr yn awyddu cymmeryd ei fywyd ymaith, casglodd gynnifer ág a allai o filwyr Cymreig i'w amddiffyn, a dyrchafwyd ef i orsedd y Dehenbarth, er gwaethaf holl gynllwynion y brenin Harri a'i luoedd. Un o'r pethau cyn-taf a wnaeth Gruffydd wedi cael ychydig drefn, oedd ymosod ar dref a Chastell Abertawy; ond yr oedd y Castell yn rhy gadarn iddo ei dori. Yna, yn y flwyddyn 1114, efe a ymosododd ar Gastell Cydweli, eiddo W. de Londres, un o Farchogion Normaniaid Morganwg, ac a'i dinystriodd, gan gymmeryd yr holl feddiannau i Ystrad Tywi. Bu yr hyglodus Gruffydd ab Rhys ab Tewdwr yn wrthwynebydd cadarn i'r Normaniaid am y gweddill o'i oes; ond gan fod maes ei lafur y tu allan i Forganwg, oddieithr yn achlysurol, gadawn ef yn awr, gan grybwyll ei enw etto fel y bydd yn dyfod yn naturiol i gyffyrddiad a'n hanes.

Pan bu farw Harri I., yn St. Denis, Normandy, coronwyd Stephen ei nai yn frenin Lloegr yn ei le yn 1185. Mor fuan ág y daeth hwn i'r freniniaeth, anfonodd wys i Gruffydd, mab Rhys ab Tewdwr, i ymddangos ger ei fron ef, i ateb am y cwynion a ddygid i'w erbyn gan y Normaniaid. Yr ateb a roddodd Gruffydd iddo, oedd casglu ei luoedd yn nghyd, ac ymosod fel llew ar y Normaniaid yn Ngheredigion, gan eu lladd yn lluoedd, a fodd miloedd o'r rhai a allent tua Morganwg; ond erbyn eu dyfod yma, yr oedd meibion Caradog ab Iestyn a'u lluoedd yn eu derbyn yn Nghlyn Nedd, a lladdasant tua 8,000 o'r estroniaid, a fodd y gweddill i Gestyll Gwyr.

## SEFYLLFA WLADOL MORGANWG DAN WILLIAM IARLL CAERLOYW.

Ar farwolaeth Robert, mab Harri I., yn y flwyddyn 1147, gwnaed ei fab William yn Iarll Caerloyw ac Arglwydd Morganwg. Ceisiodd hwnw hefyd wneyd prawf o'r *Jura Regalia*, gan ormesu y Cymry yn y modd creulonaf. Darostyngodd bobl gyffredin Morganwg i sefyllfa caethion,—yspeilid tiroedd yr amaethwyr Cymreig gan y Marchogion Normanaidd, a gorfodid hwy i weithio i'r estroniaid am yehydig neu ddim cyflog. Cyfyngwyd hefyd ar y tywysogion Cymreig, sef hiliogaeth Iestyn ab Gwrgan, trwy omedd iddynt gynnal feiriau a marchnadoedd yn eu tiriogaethau, fel yr arferent gynt, yr hon hawl oedd gyfreithlawn iddynt fel Arglwyddi Tirol, yn ol y gyfraith a wnaed gan y Normaniaid eu hunain.

Pan welodd hiliogaeth Iestyn y gorthrwm hwn yn cael ei osod arnynt, penderfynasant godi terfysg, trwy ddylanwadu ar y Cymry i wneyd ymdrech egniol am eu breintiau. Dechreuwyd yr ysgogiadau hyn yn 1147, sef y flwyddyn gyntaf i William lywodraethu Morganwg. Yr oedd Nicholas ab Gwrgan yn Esgob Llandaf ar y pryd, yr hwn oedd yn teimlo yn fawr dros y Cymry. Yr oedd yr esgob yn nodedig am ei ddoethineb; a chan ei fod yn gweled arwyddion amlwg fod storm wladyddol yn ymgasglu, gwnaeth ei oreu, trwy arfer ei holl ddylanwad gyda y ddwy blaid, i geisio penderfynu yr ymryson heb dywallt gwaed; a chan fod y fath ddylanwad gan esgobion yr oes hono, efe a lwyddodd yn ei amcan, a gwelwyd unwaith yn ychwaneg na ellid llywodraethu ysprydoedd annibynol gwyr Morganwg a'r *Jura Regalia*.

Trwy ddylanwad yr esgob, rhoddodd William yr un faint o ryddid i'r Cymry a'r Normaniaid, a gwelodd y canlyniadau daionus o hyn yn fuan. Yna, wedi gosod y ddwy genedl ar yr un safle o ran rhyddid, a'u cael felly yn heddychol a'u gilydd, dechreuwyd meithrin y gwahanol gelfyddydau,—anfonwyd i Ffraince am athrawon, a chafodd y Cymry yr un fantais i ddysgu a'r Normaniaid. Bu hyn yn foddion i feithrin graddau o gyfeillgarwch rhwng y ddwy genedl am gryn amser. Ond er fod heddwch yn ffynu yn Morganwg, yr oedd ystormydd rhyfel a thywallt gwaed yn cynhyrfu holl ranau ereill i Dywysogaeth.

Yn y flwyddyn 1150, tra yr oedd Cadell, brawd Arglwydd Rhys, llywydd y Deheubarth, yn hela yn Nyfed, cynllwynodd rhai o Normaniaid Bro Gwyr am ei fywyd; ond trwy ei ddewrder a'i nerth, lwyddodd i achub ei fywyd, er ei glwyfo yn drwm. I ad-dalu am y weithred hon, arweiniodd Arglwydd Rhys a Meredydd, ei frawd, fyddin gref i Dir Gwyr, ac a lwyd ddinystrosgastell Aberllwchwr; ac a aethant oddiyno i Fro Gwyr, a thorasant Gastell Llanrhidian, a chymmerasant yspail fawr o eiddo y Normaniaid gyda hwy i Ystrad Tywi.

Yn y flwyddyn ganlynol, sef 1151, anfonodd Arglwydd Rhys genadwri at Morgan, mab Caradag ab Iestyn, i ofyn iddo ei gynnorthwyo ef i yru y Normaniaid a'r Saeson yn llwyr o bob parth o Gymru. Yr



oedd Morgan yn nai fab chwaer i Bys, oblegyd Gwladus, merch Gruffydd ab Rhys ab Tewdwr, oedd ei fam. Pa fodd bynag, naill ai rhag ofn cael eu treohu, neu ynte fod gormod o gyfeillgarwch rhyngddo a'r Normaniaid, gomeddodd Morgan gyduno â chais Arglwydd Rhys. Am y pall hwnw, daeth Meredydd, brawd Arglwydd Rhys, a byddin lucog hyd Aberafan yn mis Mai, 1152, ac a ddinystriodd Castell Morgan, ac a yspeiliodd bob peth gwerthfawr a feddai, fel y bu rhaid i Morgan a'i deulu ffoi i'r Eglwysi a'r Mynachlogau, a cheisio nawdd ac amddiffyn William Iarll Caerloyw a'r Marchogion Normanol. Darfu i fyddin Meredydd ddinystrio Castell Llantryddydd hefyd, preswylfa hiliogaeth Hywel ab Iestyn.

Yn y flwyddyn 1156, cymmerodd ymrafael le rhwng dwy blaidd Gymreig yn Morganwg, pryd y lladdwyd Gwrgan, mab Rhys ab Iestyn, gan Ifor ab Meurig o Senghenydd. I ddial am hyn, darfu i Morgan, mab Owen ab Caradog ab Iestyn, ladd Ifor, a rhoddi ei diroedd, sef rhan o blwyf Gelligaer, i'w frawd ei hun, sef Iorwerth ab Owen, gorwyr Iestyn, yr hwn oedd Arglwydd Caerlleon-ar-Wysg.

Ymddengys mai nai Ifor Bach oedd yr Ifor hwn o Senghenydd. Yr oedd Ifor Bach, fel y crybwyllwyd, yn byw yn Merthyr Tydfil; a thebygol yw mai yno yr oedd Meurig, tad yr ail Ifor, yn byw, ac y mae lleoedd yn y plwyf hwnw yn bresenol yn dwyn yr enwau Coed Meurig, a Gwaun Coed Meurig. Ymddengys pa fodd bynag, fod Ifor mab Meurig yn byw yn mhlwyf Gelligaer; oblegyd y mae hanes sior mai rhan o'r plwyf hwnw gafodd Iorwerth ab Owen, arglwydd Caerlleon ar Wysg, wedi i Morgan ab Owen ladd Ifor. Yr oedd Meurig brawd Ifor Bach, yn briod â merch Gruffydd mab Rhys ab Tewdwr, a ganwyd iddynt ddau fab, sef Ifor a Gruffydd; a dywed Rhys Merick, yn ei Hanes o Forganwg, fod rhan o'r morfa rhwng afon Rhymini ac afon Taf wedi ei enwi "Morfa Ifor," a'r rhan arall "Morfa Gruffydd," oddiwrth eu henwau hwy.

## HANES PELLACH O FRUT Y TYWYSOGION.

"Oed Crist 1161, adnewyddwyd braint ar a lafuriai dir a daiar yn Morganwg; ac yn ebrwydd wedi hyny y doded yr un drefn yn Ngwynedd a Deheubarth."

"Oed Crist 1172, yr aeth llawer o bendefigion y Ffrangood a wladychynt yn Morganwg, a Gwyr, a Dyfed, a Cheredigion, i'r Werddon, ac yn blaennu arnynt ydd oedd Richard Iarll Ystrigyl, a lluoedd mawrion gyda nhwy, ac anffyddlonion y Cymry, gan weled llwyddiant Rhys ab Gruffydd, a aethant gyda nhwy, a hwy a ynnillasant helaeth o'r Werddon, ac a'i goresgynasant hi, a hyn a fu ddaionus i Rys ab Gruffydd, a Chenedl y Cymry yn Neheubarth a Morganwg."

"Yng nghylch yr un anseroedd, a'r Brenin (Harri II) ar ei fyned i'r Werddon, efe a ddug Gaerlleon-ar-Wysg oddiar Iorwerth ab Owen, ab Caradog, ab Rhydderch, ab Iestyn, ac a ddodes ei wyr ei hun yn y Castell: eithr Iorwerth a alwes attaw ei genedl, ac ymluyddu yn erbyu

gwyr y brenin, ac adennill y dref a'r Castell, a danfon y castellwyr i'r Werddon at y brenin; a phan ddaeth y brenin ar ymchwel o'r Werddon, efe a ddanfones at Iorwerth ab Owen i ddyfod attaw i'r Castell Newydd ar Wysg, a gosod ammodau heddwch iddaw, ac addaw gwared a diogelwch iddaw ddyfod attaw, a myned yn heddwch yn erbyn y brenin a wnaeth Iorwerth, a danfon Owen ei fab ág arnhegion i'r brenin o'r pethau a weddai iddaw yn ei gerdded: eithr gossawd ar Owen a wnaeth gwyr y brenin a'i ladd; a gwedi clywed o Iorwerth hyny, nid elai at y brenin, eithr ymluyddu yn ei erbyn, a gyru pob enaid o Sais o wlad Gwent, a lladd llaweroedd o honynt, a chan fyned dros afon Gwy, difeithiaw'r wlad hyd Gaerloyw, a lladd a llosgi ffordd y cerddai; ac oddiyno hyd yn Henffordd, un ei waith, un ei gerdded; ac wedi llosgi'r dref hono, a'i hyspeilio, dychwelyd i Gaerlleon-ar-Wysg, a chadarnhau'r dref a'r Castell, a doddi castellwyr ffyddlon yddaw," &c.

Tra yr oedd y pethau hyn yn myned yn mlaen yn Ngwent gan un o hiliogaeth Iestyn, gwnaeth tywysog y Deheubarth heddwch á Harri II., ond yn fuan torodd gwrthryfel allan rhwng y brenin a'i blant. Pan ostegwyd yr ymryson hwnw, a chael ychydig drefn ar Loegr, yr oedd Harri yn awyddu cael Cymru hefyd dan ei lywodraeth. I'r dyben hwnw, cynnaliodd Gynnadledd fawr yn Nghaerloyw yn y flwyddyn 1176, ac a wysodd y Peneithiaid Cymreig canlynol:—Rhys, Penaeth Dinefawr; Einion Glyd, o Elfel; Einion ab Rhys, Gwrthryniion; Gruffydd ab Ifor ab Meurig, o Senghenydd; Morgan ab Caradog, ab Iestyn, yr hwn oedd wir dywysog Morganwg; Seisyllt ab Dyfnwal, Arglwydd Gwent Uchgoed; a Iorwerth ab Owen, Arglwydd Caerlleon-ar-Wysg. Yn y Gynnadledd hono, llwyddodd Harri II. i wneyd heddwch á'r Peneithiaid Cymreig, ac yna aeth i Rydychain i gynnal Senedd, lle yr eisteddai Peneithiaid Cymru, o Wynedd a'r Deheubarth, i'w gynnorthwyo.

Ni fu un cynhwrf gwleidyddol o bwys yn Morganwg o amser cynnaliad y Gynnadledd yn Nghaerloyw hyd nes i Rys Fychan, Arglwydd y Deheubarth; a Llywelyn ab Iorwerth o Wynedd ymosod ar y Normaniaid yma. Yr ymosodiad cyntaf a wnaeth Llywelyn, oedd mewn undeb a Maelgwn Fychan, ar Gastall Caerdydd, ond yn aflwyddiannus. Maes ymosodiadau Rhys Fychan oedd Gwyr a Bro Gwyr, lle y torodd lawer o'r Cestyll Normanaidd.

Yn 1257, darfu i Llywelyn ab Gruffydd hefyd ddinystrio Cestyll Llwehwr, Carnwyllion, Talybont, Llangennydd, &c., yn Ngwyr; ond nid oes hanes fod Cymry Morganwg yn rhoi help iddo, am eu bod wedi ymheddychu á'r Normaniaid i raddau pell.

#### HELYNTION MORGANWG DAN Y DE CLARES A'R DE SPENCERS.

Bu William, Iarll Caerloyw ac Arglwydd Morganwg, farw yn y flwyddyn 1188, heb adael ar ei ol etifedd gwrrywaidd; ond yr oedd

iddo dair o farched, sef Isabel, Amicea, a Mabel, neu Mabli. Priododd y flaeaf â John, Iarll Oxenford a Lancaster, yr hwn wedi hyny a goronwyd yn Frenin Lloegr. Priododd Amicea â Richard de Clare, Iarll Clare, yr hwn, trwy briodas, a wnaed yn Iarll Caerloyw ac Arglwydd Morganwg. Priododd Mabel â Iarll Evreux, yn Normandy.

Ychydig o hanes Morganwg yn amser Richard de Clare sydd ar gael; ond ymddengys fod heddwch yn ffynu yn ei amser rhwng y Cymry a'r Normaniaid. Bu'r De Clare hwn farw yn 1211. Dilynwyd ef i'r arglwyddiaeth gan ei fab Gilbert, pedwerydd Iarll Caerloyw. Bu hwn farw yn Ffrainge, yn 1229. Dilynwyd ef gan ei fab Richard, Iarll Caerloyw a Hertford; ac ymddengys fod Morganwg yn dawel yn ei amser yntau hefyd. Bu hwn farw Gor. 14, 1261. Gilbert ei fab, a elwid Gilbert Goch, a'i dilynodd ef i feddiant o Arglwyddiaeth Morganwg. Priododd Gilbert Goch â Joan de Acres, merch Edward I., brenin Lloegr; a bu iddynt bedwar o blant, sef Gilbert, Eleanor, Margaret, ac Elizabeth.

Yn amser hwn, gan ei fod yn fab-yn-nghyfraith i frenin Lloegr, a bod ar hwnw angen arian, i gario rhyfel yn mlaen a'r Ysgotiaid; gosodwyd trethi trymion ar wyr Morganwg, yn enwedig ar y Cymry, er mwyn llanw pwrs y brenin. Yn ngwyneb y trethoedd hyn, darfu i'r Cymry godi gwrthryfel yn erbyn y Normaniaid, yn 1294, dan arweiniad un Morgan ab Meredith. Ni ddywedir un o ba barth o Forganwg oedd y Morgan hwn, yn yr Ysgrif yn yr Amgueddfa Frytan-aidd, ond gan y dywedir mai Cymry y mynyddoedd oedd yn ymosod, mai lle cryf i gasglu mai un o hiliogaeth Ifor Bach oedd. Pa fodd bynag, ymddengys i Morgan barhau i ymosod ar Gilbert a'r Normaniaid, nes ei orfodi i ddileu y dreth, a gwneyd ammodau heddwch ag ef, ar delerau anrhydeddus. Er i Gilbert Goch osod y dreth a nodwyd ar y Cymry, priodolir iddo amryw rinweddau hefyd. Dywedir iddo adeiladu *duy fil* o dai i dlodion Morganwg, a phlanu perllanau bychain wrthynt. Adeiladodd hefyd luaws o'r *Eglwys Dai*, y cyfeiriwyd attynt eisioes, i gynnal cyfarfodydd plwyfol, llysoedd barn, marchnadoedd y Sulian, &c. Yn ol hen galendar, a elwid "Calendar of Inquisitions," p 181. 24 Ed. 1. Ceir fod y lleoedd canlynol yn eiddo Gilbert Goch yn Morganwg:—Tir yn Rhuthyn, Glinoger (Glyn Ogwy), Miskin, tir yn Nghaerdydd, gyda gwarchodaeth trethi Morganwg. Heddegane? Treygir? tiroedd yn Seghinit (Senghenydd), Maenor Merthyr Mawr, Llanfedw, Rhothery (Rhydri), Eglvsman (Eglwysilan), Kenseck (Cenfig), Maenor a Chastell Nedd. Maerdrefi (Granges), Croynant (Creunant), Blaithe (Blaid)? a Tullies (Dulais)? Tiroedd yn Pergnan (Pergwm)? Hyralle, Polthy, a Gwernen, Maerdref Newydd, Maerdref Rotheline, a ddinystriwyd mewn rhyfel. Maenor Llanfleiddian, Bwrdeisdref y Bontfaen (Cowbridge), bwrdeisdref Kaerlife (Caerdydd), Maenor Rothe, Whitminster (Eglwys Newydd) maenor Llanilltyd, llys yn Boverton, tir yn Coetlen (Coetty)? a Wildmore, Talafan, Aberddawen, Cogan, Llanhari.

Yn yr un Calendar, tudalen 219, 85 Ed 1, ceir cofnodion am eiddo Gilbert de Clare, a Joan ei wraig. Yn Morganwg, perchenogent dref

a Chastell Caerdydd, Roath, a Leekwith, fel maesdrefi Caerdydd. Arlwyddiaeth Morganwg, 21 o ddeiliaid rhyddion, y rhai ddalient diroedd yn Cogan, 1 annedd-dy a 2 afael (carncotes) o dir. Castell Dinas Powys, 4 carnocotes. Suli 1 tŷ a 4 car o dir. Castinton 1 tŷ, 2 car. Wrencheston (Winston). Wenfo 2 dŷ, a 8 car o dir. St. Nicholas 1 tŷ, 4 car. Lanviritt (Llantrydydd) 1 tŷ a 4 car o dir. Penmare 1 tŷ a 8 car. St. Athan 1 tŷ a 4 car. Penthin (Penllin). Deiliadaeth yn Landon, St. Donatts, Llanfaes, Marcross, Merthyr Mawr, Caitlowe, Langewe (Llangewydd), Trenewydd. Pentref Llan-illtyd. Tydyddynoedd yn Kibbor. Barri, a thollau porthladd Aber-ddawen. Gwlad Ruthyn, maenor Llanfleiddian. Castell Talenant (Talyfan)? Mawn-glawdd ar y Waun Goch. Maenor y Bontfaen, Trefgordd Llangennydd (Llangynwyd); Tir yr Iarll; Castell a thref Caerffili a'r maesdrefi. Lannedun (Llanedeyrn), 21 erw o dir, 8 chwarter erw o weundir, a melin. Castell Coch, a 86 erw o dir. Hendredenny, 24 erw, a 6 erw o weundir pori. Glentoft (Glandwfr, ger Caerffili), Grentroyd (Greenmeadow, plwyf y Rhydri)? Kenegnon (Cefn Eynon); Cumbe (Y Cwm); 6 erw. Kevenkam (Cefncam), pwll o lo môr yno. Rudry 18 erw, a 8 erw o weundir, gyda £40 Os. 2½c, o ardreth. Eglwys Newydd. Morfa Gruffydd 60 erw o dir, a 16 o waun. Merthyr (Tydfil) 15 erw o dir, 15 o weundir pori, a melin. Kermer Morlys (Cymmer Morlais), 8 erw o dir, ac 8 o waun. Lavertok (Gellifaelog), 2 erw. Kayrkedy 15 erw o dir, 2 erw o waun, a darn o dir pori. Kythegayr (Gelligaer), 1 tŷ, 20 erw o dir, 8 o waun. Lanirid, Clokenered, Brynpellanger, a Hendreseifeld, sef darnau o diroedd diffwrth. Arlwyddiaeth Senghenydd, £24 8s. 2¼c. rent. Maenor Radur (Rhadyr). Pentref a Chastell Nedd. Trefgordd (hamlet) Kilthebelyck (Cilybebyll), 60 erw o dir, 26s. o ardreth, tair melin, &c. Bruneton (Brychton neu Britton), Morfa Cogan. Castell a phentref Llantrisant, a'r haelodau. Maenor Clowne. Pawrdir Haywood. Fforest Glan Taf. Fforest Taf a Chynon. Glyn Rotheney (Glyn Rhondda), 24 erw, ac ardrethau. Trewern 24 erw o rawndir, a 115 erw o dir. Argaydwalad, 1 tŷ a 6 erw o dir. St. Ffagan, 21 o rydd dyddynwyr.

Dywed Malkin i'r Iarll hwn brynu rhan o Arglwyddiaeth Senghenydd, ac mai ar y rhan a brynodd, yr adeiladodd Gastell Caerffili; ond ni ddywed gan bwy ei prynodd. Barna ereill, mai cymmyrd y tir trwy drais wnaeth, oddiar Hywel Felyn, un o hiliogaeth Ifor Bach. Nid yw yn sier pa fodd bynag pa un ai ei brynu, neu ynte ei ladratta wnaeth; ond cyduna yr awduron goraf mai efe adeiladodd y Castell hwnw. Bu Gilbert Goch farw yn y flwyddyn 1295, yn Nghastell Trefynwy. Dilynwyd ef i'w deitlau, a'i feddiannau, gan ei fab Gilbert, Iarll Clare, ac 8fed Iarll Caerloyw. Cafodd hwn ei ladd yn 28 oed, yn Mrwydr Bannockburn, yn mis Mehefin 1814, wrth ymladd a'r Ysgotiaid, o blaid Edward II. Hwn oedd Iarll olaf Caerloyw; o hyny allan gwnaed hi yn Dduciaeth.

Yr oedd Gilbert Goch, sef tad yr olaf, wedi rhwymo Castell Caerffili a'r tiroedd a berthyn iddo yn ei ewyllys i Joan de Acres a'i hetifeddion droed byth. Wedi ei gladdu ef, priododd hi drachefn ag un

Ralph de Mortimer; a chyn ei marw, gwnaeth ei hewyllys, gan adael y Castell a'r tir perthynol iddo i'w gwr, sef Ralph de Mortimer, a'i etifeddion am byth. Pan ddaeth Arglwyddiaeth Morganwg yn eiddo y Gilbert de Clare a laddwyd yn Bannockburn, cadwodd Mortimer Castell Caerffili, yn ol ewyllys ei wraig, yr hon erbyn hyn oedd wedi marw. Pan laddwyd y Gilbert de Clare olaf, gan nad oedd iddo etifedd, aeth ei eiddo rhwng ei ohwiorydd; a disgynodd Arglwyddiaeth Morganwg i ran Eleanor. Priododd hi â Hugh le Despencer, ieuangaf, prif gyfaill Edward II., brenin Lloegr. Dyn balch, hunanol, a gormeswr o'r fath waethaf, oedd Hugh; ac yn nghysgod ei gyfeillgarwch â'r brenin, cyflawnai y gweithredoedd mwyaf aunghyfiawn; ac yn ei anfadwaith, yr oedd yn cael cefnogaeth y goron bob amser. Mor fuan ág y daeth i feddiant o Arglwyddiaeth Morganwg, trwy briodas, ymosododd ar Castell Caerffili, a chymmerodd ef trwy drais oddiar Ralph de Mortimer. Diswyddodd hefyd yr holl Gymry oedd yn ngwasanaeth y De Clares, a hyny heb gael bai na chwyn yn eu herbyn. Yn mhlith y rhai hyn, yr oedd Llywelyn Bren, prif swyddog Castell Caerffili, dan Gilbert de Clare, ac hefyd dan Ralph Mortimer. Yr oedd Llywelyn Bren yn wr anrhydeddus, ac yn Arglwydd Senghenydd Uchaf, am ei fod yn ddisgynydd o Ifor Bach. Ymddengys i Hugh le Despencer honi hawl i Arglwyddiaeth Llywelyn hefyd, yn ychwanegol at ei ddiswyddo. Yn ngwyneb y cam hwn, aeth Llywelyn Bren i Lundain at Iorwerth II. i achwyn ar ymddygiad Despencer; ond gan fod hwnw a'r brenin y fath gyfeillion, a bod cyfraith y *Jura Regalia* yn parhau yn ei grym, ni wnaeth brenin Lloegr sylw o gwyn Llywelyn. Teimlodd Llywelyn y sarhad, a dywedodd yn hyf, os na fuasai brenin Lloegr yn sylwi ar ei gais, ac yn ei amddiffyn yn ngwyneb trais gormeswr, y buasai ef yn cymmeryd y matter yn ei law ei hun, pryd y rhybuddiodd y brenin ef i ofalu na fuasai yn codi terfysg yn y wlad. "Cawn weled pa fodd y bydd, ar ol i mi ddyohwelyd i Forganwg," meddai Llywelyn, ac ymaith ag ef. Daeth Llywelyn yn ol i Forganwg â'i waed fel yn berwi gan ddialedd at y brenin a'i gyfaill Hugh. Gosododd ei achos o flaen ei gydwladwyr; teimlodd y rhai hyny ddyddordeb yn ei achos,—ymreswyd dan ei faner, ac yn fuan yr oedd yn blaenori 10,000 o Gymry Morganwg yn erbyn Castell Caerffili; a bu'r ymosodiad mor ffyrnig, fel y gorfodwyd Hugh le Despencer ei roi i fyny i Llywelyn. Aeth y newydd am hyn i glustiau'r brenin, yr hwn heb oedi a anfonodd fyddin gref i Forganwg, dan arweiniad W. de Montacute; ac unodd Iarll Henffordd ei fyddin ág eiddo'r brenin, i wneyd ymosodiad ar Llewelyn Bren. Yn hytrach nâg aros yn y Castell i ymladd â'r lluoedd hyn, barnodd Llywelyn yn ddoethach i arwain ei fyddin i ardal Merthyr Tydfil, lle bu am naw wythnos yn ymladd gyda beiddgarwch gwron erbyn byddinoedd lluosocach lawer na'r eiddo ei hun. Yn y diwedd, pa fodd bynag, gorfu iddo ymostwng yn y flwyddyn 1815. Dywed rhai haneswyr iddo ef a'i ddau fab, Gruffydd ac Ifan, gael eu caroharu yn y Twr Gwyn yn Llundain; a cheir cofnodiad fod y brenin yn gorchymmyn eu porthi â gwerth tair ceiniog o ymborth yn ddyddiol. Rhyddhawyd hwy drachefn.

Dywed llyfr Sion Philip o Droees, fod Llywelyn wedi ymosod yn greulon ar y Normaniaid mewn amryw fanau heblaw yn Nghaerffili. Dyma ddifyniad o'r llyfr hwnw:—"Llywelyn Bren Hen, a elwir Llywelyn Hagr, a dorres lawer o Gestyll y Pendefigion, nid amgen Castell Tregogan (ger Penarth), Castell Ffwg ab Gwarin, Castell Aberbarri, Castell Llandathan, Castell Maes Essyllt, Castell Cenffig, Castell Ruthyn, Castell Gelli Garn, ac un Treffleming. Ac efe a laddodd gymmaint o Saeson a Ffrangcod (Normaniaid), hyd nis gellid cael ar Sais gymmaint a chyffwrdd meddwl aros yn Morganwg. Ac yn yr amseroedd, ydoedd yn mhob tref a phentref unsawd o Swydd-wyr a elwid Meiri Gwared, a Llywelyn Hagr a fynodd weled eu crogi bob un o honynt, a gorfu ar y pendefigion roi heibio'r swydd, am nas ceid un fwy nâg arall a'i gwasanaethai, nag er arian, nag er gwerth." Math 'o gasglwyr trethi oedd y Meiri Gwared, dan y Marchogion Normanaidd.

Er i Llywelyn Bren fod yn ddraen lem yn nheimpladau y Marchogion Normanaidd, costiodd ei fywyd iddo yn y diwedd; oblegyd daliwyd ef, a chondemniwyd ef i farwolaeth gan Syr W. Fleming, Farchog; Arglwydd Gwenfo, Llanfaes, a St. George's; ac wedi ei grogi, claddwyd ef yn Nghaerdydd; ac adfeddiannwyd Castell Caerffili gan Hugh le Despencer, yr hwn a'i gwnaeth yn gadarnach lawer nâg oedd.

Yn 1821, bu terfysgoedd enbyd yn Morganwg drachefn, pryd y cymmerodd y pleidiau gwrthwynebol arfau yn erbyn eu gilydd, ac yr ymladdwyd

#### RHYFEL Y BARWNAID.

Nid oedd Hugh le Despencer yn gweled fod Arglwyddiaeth Morganwg, sef cyfran Fitzhamon, ac Arglwyddiaeth Senghenydd, yr hon oedd wedi ei hychwanegu atti, yn ddigon iddo ef, ac felly trachwantodd yn Mro Gwyr, eiddo John de Mawbray. Wrth weled hyn, yr oedd yn amlwg, hyd y nôd i'r pendefigion Normanaidd, fod Hugh yn amcuan cael yr holl wlad i'w feddiant. Pan ddechreuodd yr ymryson rhwng Despencer a John de Mawbray, cododd lluaus o'r Barwniaid o blaid yr olaf, a phleidiodd y brenin ei gyfaill; a bu llawer iawn o ymladd brwd rhwng y ddwy blaid. Yn un o'r brwydrau hyn, crogwyd Syr William Fleming yn Nghaerdydd am gollfarnu Llywelyn Bren ar gam. Wedi hir ymladd, pa fodd bynag, gorchfygwyd Mawbray a'r Barwniaid, a chymmerodd Hugh le Despencer at Fro Gwyr, yn ychwanegiad at yr eiddo oedd ganddo yn barod.

Y terfysg gwleidyddol nesaf o unrhyw bwys yn Morganwg, oedd ymgais afwyddiannus Roger, mab Ralph Mortimer, gyda'i 10,000 o filwyr, i adfeddiannu Castell Caerffili, oddiwrth Hugh le Despencer. Yn fuan wedi hyny, cynhyrfodd yr holl deyrnas braidd, yn erbyn Edward II. a'i ddau gyfaill, sef y Despenchers. Cododd Barwniaid Lloegr yn eu herbyn,—casglodd y Frenines Isabella fyddin yn y Netherlands, unodd a'r Barwniaid yn erbyn ei gwr a'r Despenchers, a llwyd orchfygwyd hwy.

Er gorchfygu y brenin a'i gyfeillion, ac er mai Roger Mortimer oedd cyfiawn etifedd Caerffili a Senghenydd Isaf er pan aeth o feddiant y Cymry; etto, ni wahanwyd Arglwyddiaeth Morganwg ac Arglwyddiaeth Senghenydd, ond arosodd y ddwy yn meddiant teulu y Despencers am yspaid ar ol hyny. (Gwel CAERFFILI.)

### GWLADWRIAETH MORGANWG YN AMSER OWEN GLYNDWR.

Medi 20fed, 1400, y cyhoeddodd Owen Glyndwr ei hun yn Dywysog Cymru, ac y dyrchafodd y Cymry faner "Y Ddraig Goch," i gychwyn yr ymdrechfa galed hono am eu hannibyniaeth. Er fod gwyr Morganwg wedi byw yn hir mewn heddwch a'r Normaniaid, yr oedd gormes Hugh le Despencer a'i deulu wedi bod yn foddion i greu awydd yn eu calonau hwythau i fwynhau eu rhyddid, a'u hannibyniaeth fel yn yr amser gynt. Ni fu Owen Glyndwr yn hir cyn cael ar ddeall beth oedd teimlad Cymry Morganwg tuag atto; a manteisiodd yntau ar hyny i wneyd cyfeillgarwch â hwynt. Feallai mai prif gyfaill Owen yn Morganwg oedd boneddwr o Gwm Rhondda, o'r enw Cadwgan, yr hwn oedd gadben yn myddin Owen, ac a elwid Cadwgan y Fwyell. Pan fyddai galwad am ymresiad i'r frwydr, yr arwydd a roddai Cadwgan, oedd cerdded trwy Gwm Rhondda gan hogi ei fwyell; ac yn fuan aeth Owen i arfer gorohymyn "Cadwgan hog dy fwyell" pan fyddai galwad i'r gād; ac o hyny allan rhyfel-floedd gwyr Cwm Rhondda oedd "Cadwgan hog dy fwyell."

Yn y flwyddyn 1402, arweiniodd Owen ei lu oedd i Forganwg yn erbyn y Normaniaid, gan eu dinystrio hwy a'u heiddo fel y cerddai. Llosgodd Balas yr Esgob, a thŷ yr Archddeacon yn Llandaf, a llwyr ddinystriodd dref Caerdydd, ond un heol, lle yr oedd Mynachdy, a'r Mynachod yn bleidiol iddo.

Gorph. 5, 1408, ysgrifenydd llythyr at y brenin Harri IV., i'w hyspysu fod Owen a'i lu oedd y pryd hwnw yn gwarchae ar Gaerfyrddin, ac yn bwriadu dychwelyd i Forganwg a Gwyr yn fuan. — *Welsh Sketches*, Vol. III. page 80. Yn y flwyddyn 1405, llwyddodd y gwron dewr i godi 8000 o Gymry Morganwg a Gwent dan ei faner; ac ar yr 11eg o Fawrth y flwyddyn hono, ymladdwyd brwydr ffyrnig rhyngddo a lu oedd y brenin yn Grosmont, swydd Fynwy, lle y gorchfygwyd y Cymry, ac y lladdwyd tua mil o honynt. Arweinydd llu y brenin oedd Syr Gilbert Talbot. Ar y 15ed o'r un mis, gorchfygwyd y dewr wladgarwr drachefn, yn mrwydr Mynydd Pwll Melyn, yn Mrychein-iog; lle y colodd 15 cant o'i wyr, ac yn eu plith ei anwyl fab Gruffydd, a'i fab Tudur; a gorfu arno yntau mewn canlyniad grwydro y wlad yn ddirgelaidd. Bernir mai o'r frwydr hon yr aeth i Gastell Llandathan, at Syr Lawrence Berkreolls, gan ffugio ei hun yn deithiwr o Ffraince, ac hollol ddyeithr yn y wlad. Yr oedd Syr Lawrence wrth gwrs yn gwybod fod Owen wedi colli y dydd, yn Mynydd Pwll Melyn, ac wedi clywed ei fod yn crwydo y wlad; ac i'r dyben o'i ddal, yr oedd

wedi anfon tua chant o'i ddeiliaid i chwilio am dano, gan addaw gwobr anrhydeddus i bwy bynag a'i dygai i'r Castell yn fyw neu yn farw. Pan ddaeth y boneddwr Ffrengig a'i was ar gefnau eu ceffylau at y Castell, a'r fath olwg urddasol arnynt, ac yn siarad Ffraingogaeg mor llithrig, gwahoddwyd hwy i mewn yn groesawus. Ar ol ychydig ymddyddan, gofynodd Berkrolles i'r boneddwr, os oedd wedi clywed sôn am yr arch-derfysgwr Owen Glyndwr. Attebodd yntau, iddo glywed sôn am y fath berson; a chan i'r ymddyddan fyned i'r cyfeiriad hwn, arwyddai y boneddwr duedd i fyned i'w daith. Yna taer gymhellwyd ef i aros yne am ddydd neu ddau, er mwyn cael gweled Owen Glyndwr yn garoharor yn y Castell. Ar hyn, arwyddodd y boneddwr ei gyd-syniad, ac arosodd yno dair noson, a rhan o bedwar diwrnod, lle y cafodd bob groesaw gan Syr Lawrence. Ar y pedwerydd dydd, dywedodd wrth ei gymmwynaswr nas gallai aros ychwaneg, a'i fod yn go-beithio y delid Owen yn fuan. Yna, wedi iddo ef a'i gyfaill (y gwas ffugiol: Cadwgan y Fwyell, feallai,) fyned ar gefnau eu ceffylau, a thra yn ymaflyd yn llaw Berkrolles i ffarwelio ag ef, cyfarchodd y boneddwr ef fel hyn:—"Mae Owen Glyndwr, fel cyfaill ffyddlon a chywir, yn ymaflyd yn llaw Syr Lawrence Berkrolles, gyda chalon ddiolohgar am ei lettygar-wch; ac yn hyspysu iddo nad yw yn bwriadu ad-dalu, ond yn penderfynu annghofio y niwed a fwriadwyd iddo gan yr hwn a'i lettyodd ef a'i gyfaill yn ddiarwybod." Tra yn ei gyfarch, dangosodd Owen ei sêl i'r Norman, er ei siorhau mai efe oedd Owen Glyndwr; ac effeithiodd y peth gymmaint ar Syr Lawrence, fel y methodd ateb gair i'w gyf-aroehydd; a dywed rhai haneswyr na siarodd air byth.

Bu Owen Glyndwr yn llwyddiannus ar ol hyn mewn llawer parth o Gymru, ac ar y 27ain o Awst, 1410, daeth a'i fyddin ardderohog i Forganwg drachefn. Yn yr ymgyrch hwn o'i siddo, llwyddodd i orchfygu ac ennill Castell Caerdydd, a dinystrio Cestyll Penllin, Llandochwy, Treffleming, a Dindryfan, eiddo'r Butlers; Talyfan, Llanfeiddian Fawr, a Llanfaes, sef eiddo y Malifaunts; Penmarc, &c., a llosgodd yr Eglwysi a'r tai o amgylch iddynt. Llosgodd hefyd bentrefi Llanfrynach, Aberthin, a rhan o Lanilltyd Fawr, a manau ereill; ond cadwodd ei addewid i Syr Lawrence Berkrolles, fel nad oes son iddo ymosod ar Gastell Llandathan.

Ymddengys mai y frwydr fyfnicaf a ymladdwyd yn yr ymgyrch dan sylw oedd Brwydr Bryn Owen (*Stalling Down*), ger y Bontfaen, pryd y parhaodd yr ymladd ddeunaw awr; ac ar ol yr ymdrechfa fawr, gorfu ar fyddin y brenin ffoi o'r maes. Yn ystod y frwydr, yr oedd y meirch dros eu carnau mewn gwaed dynol ar Bant-y-Wennol. Bu rhaid i luaws mawr o'r pendeigion Normanaid ffoi i Loegr yr amser hwnw, dan nawdd y brenin; a gwnaeth Owen a'i wyr y rhan fwyaf o berthi a chloddiau Bro Morganwg yn gydwastad â'r llawr, gan roddi y tir i gyd yn rhydd i'r trigolion.

Yr oedd dau ddsparth neillduol yn Morganwg yn pleidio Owen Glyndwr, sef y Beirdd, a'r Mynachod Duon, ac arferent eu holl ddy-lanwad i'w gefnogi. Yr oedd Mynachlog Penrhys, yn Nghwm Rhondda, yn ei bri yr amser hwnw, a chynnalwyd Eisteddfod Fawreddog



ynddi dan nawdd Owen. Yn y flwyddyn 1414, darfu i Harri V., brenin Lloegr, orohymmyn dinystrio y Fynachlog hono yn llwyr, er dial ar wyr Morganwg am gefnogi Owen Glyndwr.

MORGANWG YN AMSEB HARRI VII. A'I FAB, HARRI VIII.

Parhaodd Arglwyddiaeth Morganwg yn meddiant teulu neu hiliogaeth Robert Fitzhamon, yn y llinell fenywaidd neu wrrywaidd, o 1091 hyd farwolaeth Richard III. ar Faes Bosworth, yn 1485, pryd y cymmerodd Harri Tudor feddiant o honi fel rhan o eiddo Richard.

Yr hyn a feddylir wrth Arglwyddiaeth Morganwg, cofier, yw yr etifeddiaeth a gadwodd Fitzhamon iddo ei hun; a ohofer hefyd fod Arglwyddiaeth Senghenydd wedi ei chysylltu ag eiddo Morgauwg yn amser Gilbert Goch, Iarll Clare. Yr oedd y gyfraith ormesol hono, y *Jura Regalia*, wedi ei gosod mewn gweithrediad yma o oes i oes; ac er cael digon o brofion nad oedd yn ateb y dyben, yr oedd yn parhau heb ei difodi. Yr oedd mewn grym hefyd yn yr holl Arglwyddiaethau Cyffiniol o amser William I., a pharhaodd felly hyd amser Harri VIII.

Daeth Richard, Duc Caerloyw, i feddiant o Arglwyddiaeth Morganwg trwy briodi Anne, gweddw Edward, Tywysog Cymru, yr hwn a laddwyd yn mrwydr Tewkesbury. Yr oedd Anne yn ferch i Richard Nevil, Iarll Salisbury a Warwick, ag Anne, chwaer Henry Beauchamp, Arglwydd Morganwg; a chan i Henry farw yn ddiblant. yn 1446, daeth Arglwyddiaeth Morganwg yn eiddo Anne. Pan briododd Richard ag Anne, merch yr Anne uchod, rhoddwyd Arglwyddiaeth Morganwg iddo gan ei fam-yn-nghyfraith; a phan ddyrohafwyd ef i orsedd Lloegr dan yr enw Richard III., unwyd yr Arglwyddiaeth a'r goron. Pan orchfygwyd ac y lladdwyd Richard ar Faes Bosworth, daeth Arglwyddiaeth Morganwg yn eiddo Harri VII., fel y sylwyd.

Rhoddodd y brenin Harri VII., yr Arglwyddiaeth i'w ewythr Jasper Tudor, Duc Bedford. Bu hyn yn fendith i Gymry Morganwg; oblegyd yr oedd llauws o honynt wedi eu hamddifadu o'u tiroedd gan Harri V., a'r Normaniaid, am bleidio Owen Glyndwr. Darfu i Jasper Tudor adferu eu tiroedd i deuluoedd y rhai a amddifadwyd o honynt, adeiladodd dai i'r tlodion, a phlanodd berllanau bychain wrthynt er eu cysur. Yn ychwanegol at hyn, parodd gan i mewn y tiroedd, gan fod yr holl gloddiau wedi eu tori gan Owen Glyndwr. Wedi gwneyd llawer o ddaioni yn Morganwg, bu Jasper Tudor farw heb etifedd, ac felly aeth yr Arglwyddiaeth yn eiddo Harri VII., drachefn, yr hwn a'i cadwodd hyd ei farwolaeth. Pan goronwyd Harri'r Wythfed yn 1509, aeth Arglwyddiaeth Morganwg i'w feddiant ef, yr hwn a'i cadwodd trwy ystod ei ddyrnasiad. Er fod cyflwr cymdeithasol y Cymry wedi gwella yma yn amser Jasper Tudor, yr oedd y *Jura Regalia* mewn bodolaeth o hyd. Yr oedd yn cael ei harfer yn greulon hefyd gan Arglwyddi y Cyffiniau mewn gwahanol barthau, hyd y nod yn amser Harri VIII. Yr oedd rhifedi yr Arglwyddiaethau Cyffiniol erbyn hyn, yn 141; a phob un o honynt fechan a mawr, yn meddu cyfreithiau an-

nibynol ar eu gilydd, ac yn annibynol ar Loegr hefyd. Llywodraethid Cymru y pryd hwnw, wrth Gyfreithiau Hywel Dda; a mwynheid yehydig o Gyfreithiau Morgan Mwynfawr, mewn rhai parthau yn Morganwg. Yr oedd yr Arglwyddi Normanaidd pa fodd bynag, fel pe yn penderfynu dinystrio'r Cymry, trwy eu lladd ac yspeilio eu tiroedd a'u hanifeiliaid yn ddiarbed. Yn ngwyneb yr holl drais a'r gormes a arferid gan yr Arglwyddi Normanaidd, penderfynodd y Cymry anfon Deiseb at Harri VIII., i ddymuno arno gymmeryd Cymru dan ei nawdd a'i llywodraethu yn ol Cyfreithiau Lloegr. Gan fod genym grybwylliadau aml at y *Jura Regalia*, a chan ein bod bellach wedi dyfod at gyfnod ei dirymiad, barnwn mai nid annerbyniol fydd cyfieithiad o'r Ddeiseb anfonwyd o Gymru at y brenin er ceisio ei difodi. Gwir fod y Ddeiseb yn cynnyrhoioli Cymru oll; ond gan i Forganwg fwynhau lles oddiwrthi fel parthau ereill, nid ydym yn gweled ein bod yn gwyro oddiwrth ein testyn wrth roddi y cyfieithad canlynol:—

“BOED FODDUS GAN EICH UCHELDER,

“Ein bod ar ran deiliaid eich Mawrhydi, sydd yn preswyllo y rhan hono o'r Ynys a alwai ein goresgynwyr cyntaf yn Wallia, yn ymostwng wrth draed eich Uehelder, i ddymuno cael ein derbyn a'n mabwysiadu i'r unrhyw gyfreithiau a rhagorfreintiau ag a fwynheir gan eich deiliaid ereill; a gobeithiwn na fydd y ffaith ein bod wedi byw cyhyd dan yr eiddom ein hunain yn rhwystr i ni; oblegyd gan eu bod wedi eu trefnu a'u hawdurdodi gan ein Hen Ddeddfroddwyr, a chael ufuddhan iddynt am gynnifer o oesau yn olynol, hyderwn y bydd i'ch Uehelder gydymddwyn & ni os barnasom mai nid gweddus a dyogel oedd i ni ymadael & hwy yn ddisymwth. Ni chymmerwn arnom e cymharu & r rhai a arferir yn awr, ac ni ddadleuwn dros eu daioni cydraddol ynddynt eu hunain. Os bu eu diffyniad hwy a'n gwlad yn erbyn y Rhufeiniaid, y Saesoniaid, a'r Daniaid, am gynnifer a gannoedd o flynyddau, ac yn olaf yn erbyn y Normaniaid, cyhyd ag na honent un hawl ond y cleddyf, yn cael ei ystyried yn gyflawn ac anrhydeddus, tybiwn nad yw yn waradwydd i ni yn awr; ac os bydd nodau gwrthryfel a thwyll, y rhai y myn ein difenwyr eu gosod arnom, gwmpo yn gynt ar unrhyw rai nag ar y sawl a ymladdasant am gymmaint o flynyddoedd, a ohyda chynnifer o wahanol genedloedd, dros ein cyflawn amddiffyniad, yr hyn hefyd sydd mor wir, fel yr haerir gan ein haneswyr goraf, fod i'r Grefydd Gristionogol gael ei noddi genym ni yn unig am gynnifer o fwyddi, fel y darfu i'r Saesoniaid, a hwy yn baganiaid, feddiannu y wlad.

“Boed i'ch Uehelder ynte ddeall ein gweithredoedd, gan na wnaethom ond yr hyn a wnelai eich Mawrhydi gyda'ch holl ddeiliaid yn awr dan yr unrhyw amgylchiadau; oblegyd pe goresgynid y wlad hon yn y dyfodol, gwyddom na fynai eich Uehelder i ni ymddwyn yn wahanol. Heblaw hyny, pe na chwasai yr ymosodwyr eu gwrthwynebu, gallasent ddiystyru gwlad, yr hon na allasai gynnrychu dewrion digon galluog i'w honi; felly yr ydym yn crefu eich maddenant, Syr, os dywedwn mai gweddus, er anrhydedd eich tiriogaethau, yw fod rhanau o honynt heb eu gorohfygu byth.

“Yr ydym gan hyny, yn enw pa beth bynag sydd yn eiddo eich Uehelder wedi dal allan mewn unrhyw oes yn erbyn pob goresgynwyr, yn ymostwng yn wirfoddol, ac yn rhoi ein hunain i fyny i'r Benaduriaeth hono a gydnabyddwn sydd wedi ei hurddo yn dda yn eich Uehelder.

"Ac nid dyma y tro cyntaf ychwaith, ond yr ydym wedi bod bob amser yn cymmeryd achlysur i ymuno ag achosion goraf yr Ynys; ond gan fod breninoedd y deyrnas hon yn fim eu ceisiadau personol yn ein herbyn, nid yn unig wedi rhoi ein gwlad i'r rhai hyn y allent ei gorohfygu, ond caniatu iddynt y *Jura Regalia* o fewn eu hamrywiol ardaloedd, fel nad oedd yn ddichonadwy dyfod i unrhyw gytundeb, tra yr oedd cynnifer a gymmerent arnynt y gwaith hwn, yn trawsfeddiannu cyflawn a hollol awdurdod i wneyd a gweinyddu deddfau yn yr oll oedd gyrrhaeddadwy iddynt, heb sefydlu cyflawnder cydraddol, a bod yr holl droseddwy'r trwy ffoi o un Arglwyddiaeth Gyffiniol i'r llall, yn ysgoi coep y gyfraith, ac felly yn rhwydd-hau y ffordd i gyflawni yr hyn oedd gynt yn halogi ein parthau; ac hyd nes i gyfreithiau llymion, nid yn unig gwahanol orehfygwyr Lloegr, ond yr anturiaethwyr ar ein ffiniau gael eu cymmedroli a'u cydraddoli, yr oedd yn annichonadwy i undeb gael ei sefydlu, pa beth bynag fuasai yn cael ei wneyd o'n tu ni.

"Pan wnaeth Iorwerth I. gyfreithiau cydraddolaeth na'i flaenafid, ymostyngasom iddo, ac nid yn gynt. Am hyny yr amddiffynasom ei fab, Iorwerth II., pryd nid yn unig ei gwrthodwyd gan y Saeson, ond pryd y gallasem adfeddiannu ein rhyddid cynhenid pe buasem yn ewyllysio. Am y pethau hyn yr ennillasom fuddugoliaethau i Iorwerth III., ac y safasom yn gadarn o blaid ei wŷr a'i olynnydd, Richard II.

"Os darfu i rai yn ein plith wrthwynebu Harri IV., gall eich Uchelder ddeall yr achos o hyny yn well nag y gallwn ni ei ddweyd, gan fod amryw dramoriaid trwy wrthod ei gydnabod yn deyrn a Thywysog cyfreithlon mewn iaith agored ac eglur. Etto, nis gwrthodasom ufudd-dod dyladwy i Harri V., er mewn amseroedd ambens, nis gwadwn nad ymddangosodd amryw bersonau cyndyn. Pa fodd bynag, ni ddarfu i ni erioed uno & therfysgwyr Lloegr, na chymmeryd y terfysgoedd hyny yn achlysur i ennill yn ol ein rhyddid cynhenid, er i ni gael llawer mantais yn amser Richard II., ac yn ystod y Rhyfel Cartrefol rhwng teuluoedd Lancaster a York.

"Wrth lynu gyda theulu York, yr hwn a farnem oedd a'r hawl flaenaf, cadwasom yn ddyfal gyda'r Goron, hyd amser tad eich Mawrhydi, yr hwn, gan ei fod yn dwyn ein henw a'n gwaed, a amddiffynwyd yn llawen gan ein blaenafid yn ei hawl i'r Goron, yr hon y mae eich Uchelder yn fwynhau yn awr.

"Os ydym fel hyn yn dangos prawf hynafol o'n dewrder i amddiffyn ein gwlad a'n deddfau, nid ydym yn rhoi prawf llai o'n teyrngarwch ffyddlon, oddiar pan gyflwynasom ein hunain gyntaf, yn gymmaint ag y gallwn yn wirioneddol siorhau nad ydym, oddiar pan dderbyniasom y telerau a gynnygiwyd i ni gan Iorwerth I., wedi esguluso unrhyw achlysur i gyflawni dyledswyddau deiliaid caredig.

"Nid oes dim yn rhoi mwy o gyssur i ni ychwaith na bod yr holl ymrysonau yn nghyfeir yr hawl i'r goron, y rhai am gymmaint o amser a fuont yn ddfirod i'r wlad, wedi eu terfynu yn mherson eich Uchelder, yn yr hwn y cydnabyddir y ddau Deulu wedi eu huno yn hapus. I'ch Uchelder gan hyny yr ydym yn cynnyg pob ufudd-dod, gan ddymuno yn unig ein hamddiffyn rhag sarhad ein cablwyr drwg-ewyllys-jol; oblegyd nid ydym yn hiliogaeth Prydeiniaid. Ffoedig, fel ein henwir ganddynt, ond yn frodorion gwlad yr hon nid yn unig a'i hamddiffynnodd ei hun, ond a dderbyniodd bawb a ddaeth atom i gelsio noddod. Caniatewch i ni ddweyd gan hyny, Syr, eu bod yn gwneyd cam mawr & ni, y rhai a haerant nad oedd ein gwlad wedi ei phoblogi o'u blaen, neu ei bod yn methu mewn crefyddoldeb, pan yr oedd mor garedig i bawb fuasai yn ffoi iddi am nawdd, yr hyn fydd yn fwy credadwy pan gofir fod ein myn-ddoedd uchaf yn cynnyrechu digon o wartheg a defaid, nid yn unig i ddiwallu y trigolion, ond i'w hanfon yn niferi mawrion i Loegr hefyd.

"Yr ydym yn gofyn yn ostyngedig gan hyny i'ch Uchelder, ar fod i'r cais hwn gael ei dderbyn.

“ Gyda golwg ar ein Hiaith, er yr ymddengys yn arw, etto siarledid hi gynt, nid yn unig yn yr Ynys hon, ond yn Ffraince; ac y mae peth o'r tafodiaith yn aros yno hyd heddyw yn mhllith y Llydawiaid, ac hefyd yn Nghernyw. Nid oes un dyn a amheua hyn, pan y cenfydd eiriau iaith henafol Gaul yn ngweithiau awduron Lladinaidd yn cynnwys yr un ystyr ag a roddir iddynt i'r dydd hwn genym ni. Gobeithiwn nad ystyrir ef yn anfri ei bod yn cael ei siarad mor ddwfn yn y gwddf, gan fod yr Ysperiaid a'r Florentiaid yn edmygu y dull hwn o ynganu, am y credant fod geiriau a seinir mor isel yn dyfod o'r galon.

“ Hyderwn na ddeler ni yn gyfrifol am ein bod wedi cadw ein hiaith yn hwy na thrigolion gogleddbarth yr Ynys, tafodiaith y rhai sydd yn ymddangos fel math o Saesonaeg, wedi ei dwyn yma gan y Saesoniaid; oblegyd pa hwyaf y cadwn ein hiaith, mwyaf oll o amrywiasth tafodiaethau fydd eich Uchelder i'w wasanaethu. Ni chaiff ein rhwystro i ddysgu Saesonaeg, pe na byddai ond yn unig er mwyn dysgu pa fodd i utuddhau a gwasanaethu eich Uchelder yn y modd goreu: i gyfreithiau yr hwn yr ydym etto yn y modd mwyaf gostyngedig yn taer ddymuno cael ein derbyn; ac yn ddibryder, gan fod mynyddoedd pob gwlad yn gallu cynrychu enwogion mewn yspryd ac arabedd, yn o gystal a pharthau ereill, bydd i'n heiddo ninau hefyd gyrhaedd yr unrhyw fri, trwy ewyllys da eich Uchelder.”

Derbyniodd y brenin y Ddeiseb,—gwrandaedd gais y Cymry, ac yn y 27 fwyddyn o deyrnasiad Harri VIII., (1586), pasiwyd Gweithred Seneddol, er dwyn Cymru dan yr un gyfraith a Lloegr; difodwyd y *Jura Regalia*, sef Cyfraith y Cyffiniau, a chafodd y Cymry eu dymuniad. Dim ond naw Sir oedd yn Nghymru cyn hyn, ond fe ychwanegwyd pedair atynt o diroedd y Cyffiniau; sef, Maesyfed, Brycheiniog, Trefaldwyn, a Dinbych; gan eu gwneyd yn dair Sir ar ddeg. Dyma eu henwau:—1. Maesyfed; 2. Brycheiniog; 3. Mynwy; 4. Morganwg; 5. Caerfyrddin; 6. Penfro; 7. Ceredigion; 8. Trefaldwyn; 9. Meirionydd; 10. Caerfyrddin; 11. Dinbych; 12. Fflint; 13. Mon.

Yn unol a'r weithred Seneddol a nodwyd, yr oedd pob Sir yn Nghymru, a hawl i anfon Marchog i'w chynrychioli yn Senedd Prydain, ac hefyd i anfon Bwrdaid i gynnrychioli y Bwrdeisdrefi a enwid yn y Weithred. Yn rhinwedd yr Act hono, cynnrychiolwyd Cymru y waith gyntaf yn Senedd Prydain Fawr, yn 1540; a'r un fwyddyn y dechreuwyd gweini swydd Sirydd dan y gyfraith newydd. Yn unol a'r ddeddf hon, yr oedd Morganwg i anfon dau aelod i'r Senedd, un dros y Sir, a'r llall dros y Bwrdeisdrefi; y rhai oeddynt a ganlyn:—Caerdydd, Y Bontfaen, Llantrisant, Cenffig, Aberafan, Castell Nedd, Abertawy, a Chasllwchwr. Un aelod oedd yn cynnrychioli yr holl leoedd hyn o'r fwyddyn 1540, hyd y Diwygiad Seneddol yn 1882, pryd yr ychwanegwyd tri aelod ereill, sef un ychwanegol dros y sir, a dau dros y bwrdeisdrefi. Dyna'r pryd y osodd Abertawy a Merthyr aelodau annibynol, fel y cawn sylwi etto.

Yn 1548 (84 H. VIII), pennodwyd Barnwyr y waith gyntaf i gynnal Brawdlysoedd yn Nghymru; ac y rhanwyd hi yn bedair cylch-daith, fel y canlyn:—

- |                                    |                  |      |            |
|------------------------------------|------------------|------|------------|
| 1. Dinbych, Fflint, Trefaldwyn.    | Cyflog y Barnydd | £100 | y fwyddyn. |
| 2. Caerfyrddin, Meirionydd, Mon    | ..               | £50  | ..         |
| 3. Caerfyrddin, Penfro, Ceredigion | ..               | £50  | ..         |
| 4. Maesyfed, Brycheiniog, Morganwg | ..               | £50  | ..         |

Trefnwyd hefyd fod Mynwy i gael ei chysylltu a chylchdaith Seisnig; ac y mae yn parhau hyd yn awr yn nghylchdaith Rhydychain. Hyn yw yr unig reswm dros ei chyfrif yn un o siroedd Llŷegwr; ond y gwir yw, perthyna i Gymru mor wirioneddol a Morganwg.

Mae yn amlwg oddiwrth y feithiau hyn, fod Morganwg yn ddyledus i Harri VIII., am gychwyn cyfnod newydd yn ei hanes mewn ystyr wladyddol, yn ogystal â chrefyddol. Gwnaeth Harri lawer o wrhydri yn ei amser, yn ddrwg a da, ac amlwg yw ei fod yn meddŷ ar galon llew, gwyneb o brês, ac uchelgais *tyrant*, cyn y gallasai wneyd yr hyn a wnaeth.

Ar farwolaeth Harri VIII., yn 1547, esgynodd ei fab Iorwerth VI., i orsedd Prydain, a chadwodd feddiant o Arglwyddiaeth Morganwg hyd y bedwaredd flwyddyn o'i deyrnasiad, pryd y rhoddodd efe hi i William Herbert, Iarll Penfro, a Barwn Herbert o Gaerdydd. Yr oedd y William Herbert hwn yn fab i Syr Richard Herbert o Ewas, yr hwn oedd yn briod â Margaret merch Syr Matthew Cradock, ab Richard, ab Gwilym, ab Ifan, ab Caradog Freichfras, ab Ynyr, ab Ifor, ab Richard, ab Einion ab Collwyn. Yr oedd Syr Richard Herbert o Ewas, yn fab i'r Iarll William Herbert, yr hwn a ddienyddiwyd yn Banbury yn 1469, ar ol brwydr Danes Moor. Yr oedd y William Herbert a gafodd yr Arglwyddiaeth gan Iorwerth VI., yn bur ffafriol i'r Cymry, ac fel Jasper Tudor yn teimlo awydd gwella eu hamgylchiadau. Anfonodd ef ddau berson o Landaf, o'r enwau Richard a William, i Ffraince i brynu coed ffrwythau, er eu planu yn Morganwg at wasanaeth y trigolion. Am y gwasanaeth hwn, cafodd William dir yn feddiant yn mhlwyf Llandaf; ac aeth Richard i Lundain, yn arddwr i'r brenin.

Ar farwolaeth William Herbert, Iarll cyntaf Penfro, daeth Arglwyddiaeth Morganwg yn eiddo i'w fab Henry, ail Iarll Penfro. Bu'r ddau Iarll hyn yn mwynhau yr Arglwyddiaeth yn nheyrnasiad Iorwerth VI., Mari Waedlyd, ac Elizabeth. Bu Henry farw yn 1601, gan adael yr Arglwyddiaeth i'w fab William, trydydd Iarll Penfro. Bu ef yn perchenogi Morganwg, trwy ystod teyrnasiad Iago, I., ac am dair blynedd o deyrnasiad Charles I. Bu'r Iarll hwn farw yn 1608, a dilynwyd ef gan ei frawd Phillip 4ydd, Iarll Penfro. Yr oedd yr awdurdod lywodraethol wedi ei thynu o ddwyllaw Arglwyddi Morganwg er amser dirymiad y *Jura Regalia*, fel yr awgrymwyd, ac felly dim ond y meddiannau tirol yn unig drosglwyddid o'r naill i'r llall yn amser y Ieirll a nodwyd; a chan y dangosir y trosglwyddiad hwnw mewn man arall yn y llyfr hwn, ni olrheindir ychwaneg yn y cyfeiriad yma yn awr.

## MORGANWG YN AMSER CHARLES I., AC OLIVER CROMWELL.

Pan ddechreuodd y Rhyfel Cartrefol rhwng Charles I., a'r Senedd, yn 1642, yr oedd y Cymry yn gyffredinol o blaid y brenin. Dywed un o fywgraffwyr O. Cromwell, mai *cyfoethogion* Cymru oedd yn bleidiol i achos Charles I., ac nad oedd y werin yn deall dim; ond yn gweithredu yn ol cyfarwyddiadau eu meistri. Diamheu fod llawer o wirionedd yn hyn, oblegyd yr ydym fel cenedl wedi bod yn euog o esgeuluso gwybodaeth Wleidyddol trwy yr oesau. Etto yr oedd ambell Gymro yn deall Gwleidyddiaeth y pryd hwnw, ond pleidiol i'r brenin oeddynt. Er pan roddodd y Cymry eu hunain i fyny i'w llywodraethu gan gyfreithiau Lloegr, yn amser Harri VIII., y maent wedi bod yn ddiarebol am eu teyrngarwch bob amser.

Yn 1645, ar ol Brwydr Naseby, ffodd Charles I., i Gaerdydd, lle y gwnaeth y cofnodiad canlynol yn ei ddydd-lyfr:—"Caerdydd, Gor. 20fed, 1645. Ciniawa'r llywodraethwr ar fy nhraul fy hun." Tran-oeth diswyddodd y llywodraethwr, a gosododd un arall yn ei le; ac ymddengys iddo yntau aros yn Nghaerdydd o Gor. 20fed, hyd Awst y 5ed, pryd y gwnaeth y cofnod canlynol:—"Awst 5ed, ciniawa yn Nglancaiach." Y Milwriad Prichard, swyddog yn myddin y brenin, oedd yn byw yn Nglancaiach y pryd hwnw. Saif yr hen balas yn ngodre plwyf Gelligaer, wrth ochr yr hen brif ffordd rhwng Caerdydd ac Aberhonddu.

Yn 1647, yr oedd Colonel Prichard yn geidwad Castell Caerdydd, ac fel yn tueddu i droi o blaid Cromwell. Yr oedd amryw o bendefigion Normanaidd Morganwg y pryd hwnw wedi ymrwymo i gynnal, a dilladu 4,000 o filwyr ar eu traul eu hunain, yn mhlaid y brenin. Y cyfoethogion hyn oeddynt Syr Edmund Stradling, St. Donats; Syr Edward Carne, Ogsמידs Ash (Nash Fach); Syr Nicholas Kemys, Cefn Mabli; a'r Cadben Powell;—(Cymro).

Yn mis Mehefin, 1647, pallodd y Milwriad Prichard roddi Castell Caerdydd i fyny i'r Major General, Syr Henry Stradling. Yn ganlynol i hyn, pasiodd amryw lythyrau rhyngddynt, ond i ddim pwrpas. Erbyn dechreu y flwyddyn ganlynol, yr oedd cymmydogaeth Caerdydd yn tynu cryn sylw; a byddinoedd y ddwy blaid yn casglu eu nerth yn nghyd i ymladd brwydr. Cyflogodd pleidwyr y brenin fyddin y Major General Laugharne, am £1,300 y mis; er mwyn trechu y gelyn. Arweiniwyd byddin Cromwell i'r lle, gan y Maes-lywydd Horton; Lieutenant Godfrey, Major Barton, Col. Oakey, &c. Yr oedd byddin y brenin tuag 8,000 o wyr Morganwg; a byddin Cromwell yn 8,000 o feirch-filwyr, a 2,000 o draed-filwyr; y rhai a arweiniwyd i ymladd

BRWYDR ST. FFAGAN.

Brwydr fer-barhaol, ond un boeth iawn oedd hon. Ni pharhaodd ond dwy awr, er hyny, yr oedd mor ffyrnig, fel y cochwyd dyfroedd

afon Elai, gan waed y lladdedigion. Ar y cyntaf, yr oedd y frwydr yn debyg o droi o du gwyr Morganwg ac o blaid y brenin; ond ganfod gwell dysgyblaeth ar filwyr Cromwell, troes y fantol yn mhen yr awr, a chafodd byddin y brenin ei llwyr orchfygu. Yn ol llythyr a ysgrifwyd ar faes y frwydr gan y Milwriad John Oakey, at Cromwell, dechrenodd y frwydr am wyth o'r gloch y bore, Mai 8fed, 1648; ac ar ol ymdrechfa galed iawn o bob tu, llwyddwyd i ennill buddugoliaeth. "Am yr awr gyntaf" medd Oakey, "yr oedd y frwydr yn gyfryw fel yr oedd yn amheus pa un o'r ddwy blaid fnasai yn trechu; ond trwy feiddgarwch ein meirch-filwyr, yn cael eu cynnorthwyo i'r eithaf gan ein traed-filwyr, trodd y fantol, ac yn mhen awr arall gorfu i wyr y brenin ffoi." Yn yr un llythyr, dywedir fod lladdedigion byddin y brenin, yn 40 am bob un yn myddin Cromwell. Pan oedd y llythyr yn cael ei ysgrifenu, yn union ar ol y frwydr, yr oedd 2,500 o fyddin y brenin wedi eu cymmeryd yn garcharorion. Dywed hanesiaeth fod 60 o wragedd plwyf St. Ffagan, wedi eu hamddifadu o'u gwyr y diwrnod hwnw; a bod dros 700 o weddwon yn y sir o herwydd y frwydr. Yn y rhestr a gyhoeddodd Horton o laddedigion y brenin, yr oedd y rhai canlynol:—Y Maeslywydd Thomas Laugharne, Colonel Howell, Cadben Evan Thomas, Cadben Smith, Cadben Turberville (Pabydd), Cadben Powell, a 40 o swyddogion ereill. Yn mhlith y carcharorion, yr oedd Major John Stradling, y Milwriad Phillip Gammage, Milwriad Wgan, Syr Marmaduke Lloyd, o Maesyfelin Llanbedr; a 90 ereill o swyddogion. Cymmerwyd hefyd 50 baner, a 860 o feirch. Dywed rhai haneswyr na chafodd Laugharne ond ei glwyfo; ac iddo ffoi i Tenby, sef Dinbych y Pysgod; ac iddo wedi hyny ymostwng a chael maddeuant. Dywedir hefyd i Syr Nicholas Kemys a'i wyr, ffoi o faes y frwydr i Sir Fynwy, lle y bu yn brwydro a rhai o wyr Cromwell am dair wythnos; ac yn y diwedd iddo syrthio mewn brwydr yn Nghasgwent. Collwyd cynnifer o wrywod Morganwg yn Mrwydr St. Ffagan, fel nad oedd digon o ddynion i fedi yn y cynauaf canlynol mewn amryw fanau, fel y gorfu ar y gwragedd dori a chasglu yr ŷd.

Yn ystod y frwydr, torwyd y bont ar afon Elai, ac fel yr oedd Syr Edward Carne, yn ceisio ffoi o'r maes, gyda gweddill ei fyddin, gofynodd yn Seisnig i wr dyeithr, os gwyddai yn mha le y gallasai groesi yr afon yn ddyogel. "Ewch yn union ar eich cyfer," ebe'r dyn, "dyna'r man basaf yn yr afon." Yna gorchymynodd Syr E. Carne yn Gymraeg, i'w filwyr ei ganlyn ef trwy'r afon. Ar hyny, gwaeddodd y dyn, am iddynt beidio anturio i'r afon y fan hono, onide y buasent yn boddi bob un, am fod yno bwlldwfn iawn. Yna dywedodd wrth Carne, iddo dybied mai gelyn oedd wrth ei glywed yn siarad Seisneg, ac felly ei fod am iddo ef a'i wyr foddi; ond gan y medrai Gymraeg, ei fod yn deall mai cyfail oedd, ac y buasai yn ei gyfarwyddo i fan y gallai groesi yr afon yn ddiberygl, ac felly y bu.

Wedi Brwydr St. Ffagan, a thrwy ystod llywodraethiad Oliver Cromwell, Charles II.; Iago II.; William a Mari, Anne, a George I., ni ddygwyddodd amgylchiadau pwysig mewn ystyr wleidyddol yn

Morganwg ; am i ddechreuad Ymneillduaeth, a chynnydd Masnach, fyned a sylw y trigolion agos yn llwyr. Dichon mai yr unig gynhyrfiadau gwleidyddol o bwys a gymmerasant le yma o amser Cromwell hyd yn awr, oeddynt yr ymbleidid fu o du y Pretender yn 1715, pan geisiwyd diorseddu George II. Un o'r dynion pwysicaf yn ymdrafodaeth y Jacobites y pryd hwnw oedd Dafydd Morgan y Cyfreithiwr, o Ben Craig Taf, Morganwg. Yr oedd Edward Lewis o'r Fan, ac amryw foneddwyr ereill o Forganwg yn cymmeryd rhan yn y mater ; ond troes y cwbl yn siomiant iddynt. Y cynhwrf arall oedd terfysg Merthyr yn 1881 ; ond gan y sylwir ar hwnw dan y gair MERTHYR TYDFIL, gadawn ef yn awr.

Effaith Gweithred Ddiwygiadol 1882, fel yr awgrymwyd, oedd ychwanegu bwrdeisdrefi Morganwg, neu yn hytrach lluosogi aelodau Seneddol y Sir, trwy roddi hawl i anfon dau aelod yn lle un dros y sir ; a threfnu fod Abertawy, Aberafan, Cenffig, Castellnedd, a Chasllwchwr, i ffurfio dosparth Bwrdeisdrefol, a chael aelod i'w cynnrychioli, yn annibynol ar aelod Caerdydd. Hefyd, fod Merthyr Tydfil, gyda phlwyfi Aberdar, a'r Faenor, (yr olaf yn Mrycheiniog) i gael aelod i'w cynnrychioli yn Nhŷ y Cyffredin.

Yr hyn a ddeilliodd i Forganwg o Weithred Ddiwygiadol 1867, oedd hawl i Ferthyr Tydfil, &c., anfon dau aelod i'r Senedd, ac nid un fel o'r blaen. Mae cryn angen cael diwygiadau lawer etto ar y pen hwn, oblegyd nifer y boblogaeth. Yn ol Act 1882, yr oedd lleoedd yn cynnwys 2,000 o drigolion a hawl i anfon aelod i'r Senedd ; a rhai lleoedd yn cynnwys ychydig dros 4,000, i anfon dau aelod. Cyn hyny, yr oedd rhai lleoedd bychain di-nôd, yn anfon dau aelod i'r Senedd yn Lloegr.—Old Sarum er enghraifft, dim ond un tŷ, yn anfon dau aelod i'r Senedd ! Barnwn mai dim ond tegwch â Morganwg, fyddai i Bontypridd a Chwm Rhondda gael aelod Seneddol ; a Phenybont, y Bontfaen, a Llantrisant gael un arall ; Castell Nedd, Aberafan, a Chwmafon, un arall ; Ystalyfera, Pontardawe, a phlwyfi Llansamlet, Llangyfelach, a Chasllwchwr, un arall ; oblegyd dylai Abertawy a Chaerdydd o herwydd eu maint a'u masnach, gael aelodau yn annibynol ar y lleoedd a nodwyd.

#### MEDDIANNIAD ARGWLWYDDIAETH MORGANWG O 1091, HYD YN AWR.

Meddiannydd cyntaf Arglwyddiaeth Morganwg, wedi gorohfygu Iestyn ab Gwrgan, gan y Normaniaid, fel y sylwyd oedd,—

I. Robert Fitzhamon, nai William y Goresgynwr, medd rhai, ei gefnder, medd ereill. Cafodd y Robert hwn ei urddo yn Iarll gan William II. Bu farw yn 1107 medd rhai, yn 1110 medd ereill. Claddwyd ef yn Nghabidyldy, Abbatty Tewkesbury, sir Gaerloyw. Efe sylfaenodd, neu yn hytrach a adsylfaenodd yr Abbatty hwnw. Pan adeiladwyd yr Eglwys drachefn yn 1241, symmudwyd ei gorff iddi. Ei wraig oedd Isabel, neu Sibil, chwaer Robert Belesme, Iarll Shrewsbury ; a chawsant o blant bedair merch.



II. Mabel, y ferch hynaf, a chyd-etifeddes ei thad, a briododd â Robert Consul, Iarll Caerloyw, yr hwn oedd fab ordderch Harri I., o Nest, merch Rhys ab Tewdwr. Gwnaed ef yn Iarll Caerloyw yn 1109; bu farw yn 1147 (12. Stephan), ac a gladdwyd yn Mynachlog St. James, Bristol, yr hon a sylfaenwyd ganddo.

III. William, Iarll Caerloyw, mab Robert a Mabel, a ddilynodd ei dad i'r Arglwyddiaeth a'r teitlau, ac a'u cadwodd hyd ei farwolaeth yn 1188. Priododd William ag Hawise, merch Robert Bossu, Iarll Leicester; a ganwyd iddynt 1. Robert. 2. Mabel. 3. Amica. 4. Isabella. Bu Robert farw yn ieuanc yn Nghaerdydd.

IV. Isabella, merch William, a'i gyd-etifeddes, a briododd yn gyntaf â John, yr hwn a wnaed yn Iarll Caerloyw, er na feddiannodd y teitl yn ffurfiol, gan iddo gael ei wneyd yn Frenin Lloegr, ar farwolaeth ei frawd Richard I., yn 1199. Rhoddodd John Lythyr-ysgar i Isabella, a rhoddodd i fyny ei hawl i Iarlaeth Caerloyw, ond cadwodd feddiant o Gastell Bristol. Priododd Isabella yr ail waith â Geoffrey de Mandeville, Iarll Essex; ac wedi ei gladdu ef, priododd ag Hubert de Burgh, Prif Ynad Lloegr; ond gan na chafodd blentyn, aeth ei heiddo rhwng ei chworiydd.

V. Mabel, Iarll Caerloyw, a briododd â Iarll Evereux, yn Ffrainco, a chawsant un plentyn, yr hwn a fu farw yn ieuangc, fel yr aeth Arglwyddiaeth Morganwg, &c., i

VI. Amica. Priododd hono â Richard de Clare, yr hwn a fu farw yn 1211, ac â gladdwyd yn Clare.

VII. Gilbert, Iarll Caerloyw, a Hertford, ydoedd fab i Richard de Clare ac Amica. Priododd hwn ag Isabella, trydedd ferch, a chyd-etifeddes William Marshall yr hynaf, Iarll Penfro. Bu Gilbert farw yn Llydaw yn 1229 (14 H. III.) a chladdwyd ef yn Tewkesbury.

VIII. Richard, Iarll Caerloyw ac Hertford, a ganlynodd ei dad i Arglwyddiaeth Morganwg. Ganwyd y Richard hwn yn 1221. Priododd â Matilda merch John de Law, a ganwyd iddynt etifedd. Bu Richard farw Gor. 14, 1261.

IX. Gilbert, Iarll Caerloyw a Hertford, mab Richard a Matilda, a anwyd yn 1248. Gelwid ef Gilbert Goch, o herwydd lliw ei wallt. Priododd hwn a Joan o Acre merch Iorwerth I., (nith Iorwerth medd ereill), a chawsant bedwar o blant; 1. Gilbert; 2. Eleanor; 3. Margaret; 4. Elizabeth. Priododd Margaret yn gyntaf â Piers Gaveston; a thrahefnu ag Hugh de Audley. Priododd Elizabeth, yr hon a sylfaenodd Clare Hall, yn gyntaf a John de Burgh, mab ac etifedd Iarll Ulster; a'r ail dro â Theobald Vernon, a'r drydedd waith â Roger d' Amory.

X. Gilbert, Iarll Caerloyw a Hertford, Arglwydd Morganwg, a laddwyd yn Mrwydr Bannockburn yn 1314, (7 Ed. II.) yn 28 oed. Yr oedd y Gilbert hwn yn briod a Matilda, merch John de Burgh (fu farw yn 1815), a chawsant un plentyn, John, yr hwn a fu farw o flaen ei dad, ac felly aeth Arglwyddiaeth Morganwg i

XI. Eleanor de Clare, chwaer hynaf Gilbert. Priododd Eleanor yn gyntaf ag Hugh le Despenser, yr hwn a wnaed yn Iarll Caerloyw ac

Arglwydd Morganwg trwy ei briodas. Yr oedd ef yn fab i Hugh, Iarll Winchester, ac ystafellydd Edward II. Plant Hugh le Despenser ac Eleanor oeddynt, 1. Hugh; 2. Edward; 3. Gilbert. Wedi gorohfygiad Edward II., gan fyddin y Frenines a'r Barwniaid, amser drylliad Castell Caerffili, 1326, crogwyd a chwarterwyd Hugh, gwr Eleanor, a bu hithau a'i phlant yn garcharorion yn y Twr hyd Chwef. 5, 1327 (1.2. Ed. III.) Priododd Eleanor yr ail waith â William la Zouche, o Mortimer.

XII. Hugh le Despenser, Barwn le Despenser, ac Arglwydd Morganwg, mab hynaf Eleanor, a briododd Elizabeth, merch Hugh Montacute, Iarll Salisbury, a gweddw Guy de Brian, ond ni chawsant blant. Bu Hugh farw yn 1349, a chladdwyd ef yn Tewkesbury.

XIII. Edward le Despenser, brawd yr Hugh blaenorol, a mab Eleanor, a briododd Anne merch Henry, Arglwydd Ferrars a Groby. Gan i Edward farw (16 Ed. III.) sef o flaen ei frawd Hugh, ni ddaeth Morganwg yn eiddo iddo, ond ar farwolaeth Hugh, daeth i fab Edward.

XIV. Edward le Despenser, etifedd ei ewythr Hugh, Arglwydd Morganwg (17 Ed. III.) Priododd hwn ag Elizabeth, merch ac etifeddes Bartholomew, Barwn Burghersh, a bu hi farw yn 1409, a chladdwyd hi yn Tewkesbury. Gwnaeth yr Edward hwn ei ewyllys yn Nghastell Llanfleiddian Fawr, yn 1375 (49 Ed. III.), a bu farw yn mhen ychydig ar ol hyny yn Nghastell Caerdydd, gan adael tref a Chastell Caerffili yn waddol i'w wraig, gydag holl Arglwyddiaeth Senghenydd hefyd. Bu Edward, eu mab hynaf, farw yn Nghaerdydd, yn 12 oed.

XV. Thomas le Despenser, y mab ieuangaf, a'r etifedd yn y diwedd, a feddiannodd eiddo ei hen-daid a'i hen-hen-daid yn 1397, ac a wnaed yn Iarll Caerloyw yr un flwyddyn. Yn 1400 (1 Henry IV.), daliwyd ef a thorwyd ymaith ei ben yn Bristol, pan oedd yn dychwelyd o goroniad y brenin, a chladdwyd ef yn Tewkesbury. Yr oedd Thomas yn briod â Constance, merch Edmund Langley, Duc Caerefrog, mab Edward III. Eu plant hwy oeddynt, 1. Richard, a fu farw yn 18 oed heb briodi; 2. Elizabeth, a fu farw yn ieuangaf yn Nghaerdydd, ac a gladdwyd yn hen Eglwys Fair; 3. Isabella, yr hon a anwyd yn Nghaerdydd.

XVI. Isabella, etifeddes Arglwyddiaeth Morganwg, a briododd gyntaf yn 1411 â Richard Beauchamp, mab ac etifedd William, Iarll Caerwrangon (*Worcester*), ac Arglwydd Abergafenni. Ganwyd i'r rhai hyn Elizabeth, Medi 16, 1415. Cafodd Richard Beauchamp ei ladd, a chladdwyd ef yn Tewkesbury. Priododd Isabella drachefn â Richard Beauchamp, Iarll Warwick, cefnder ei gwr cyntaf, a chawsant ddau o blant,—1. Henry, 2. Anne. Priododd Elizabeth, merch Isabella o'i gwr cyntaf, ag Edward, mab Rafe Nevel, Iarll Westmoreland, a chawsant fab—George Nevel.

XVII. Henry Beauchamp, Iarll Warwick, Arglwydd Morganwg, a briododd Cecilia, merch Richard Nevil, Iarll Salisbury. Bu Henry farw yn 1446, yn 22 oed. Priododd Cecilia drachefn â Tiptoft, Iarll Worcester, a chawsant blentyn, Anne, yr hon a fu farw yn faban yn 1449. Bu Tiptoft farw yn 1450.

XVIII. Anne, ohwaer Henry Beauchamp, ac etifeddes Morganwg, a briododd Richard Nevil, ohweched mab Richard, Iarll Salisbury. Daeth yntau yn Iarll Salisbury wedi hyny, a thrwy ei briodas yn Iarll Warwick. Plant Richard ac Anne oeddynt, 1. Isabella, 2. Mary, 3. Anne. Priododd Isabella â George, Duc Clarence; a phriododd Anne yn gyntaf âg Edward, Tywysog Cymru, yr hwn a laddwyd yn Mrwydr Tewkesbury. Wedi ei gladdu ef, priododd Anne â Richard, Duc Caerloyw, yr hwn wedi hyny a wnaed yn Frenin Lloegr, dan yr enw Richard III.

Ar farwolaeth Richard III., yn Mrwydr Maes Bosworth, yn 1485, darfyddodd llinach Robert Fitzhamon fel Arglwyddi Morganwg, a chymmerodd y Brenin Harri VII. feddiant o honi yn nglyn a'r Goron. Wedi hyny, efe a roddodd yr Arglwyddiaeth i Jasper Tudor, Duc Bedford, yr hwn oedd ewythr i'r brenin. Bu Jasper farw yn ddiblant yn 1495, ac aeth Arglwyddiaeth Morganwg yn eiddo i Harri VII. drachefn, yr hwn a'i cadwodd hyd ei farwolaeth. Bu yn eiddo'r Goron hefyd trwy ystod teyrnasiad Harri VIII., a pharhaodd felly hyd y bedwaredd flwyddyn o deyrnasiad Edward VI., yr hwn a'i rhoddes i William Herbert, Iarll Penfro, Barwn Herbert o Gaerdydd, yr hwn oedd fab i Syr Richard Herbert o Ewvas, yr hwn yntau oedd fab i'r Iarll a bendrowyd yn 1469 gan y Lancasteriaid.

Ar farwolaeth William Herbert, aeth Arglwyddiaeth Morganwg yn eiddo i'w fab, Henry Herbert, ail Iarll Penfro. Bu Henry yn briod dair gwaith. Ei drydedd wraig oedd Mary, merch Syr Henry Sydney. Bu Henry farw yn 1601, gan adael Arglwyddiaethau Morganwg a Chaerffili i'w fab William, trydydd Iarll Penfro.

Priododd y Iarll hwn â Mary, merch Iarll Shrewsbury, a chawsant blentyn, a enwyd Henry, yr hwn a fu farw yn ieuangc. Bu William, trydydd Iarll Penfro, farw yn 1680, a chan fod ei fab Henry wedi marw, ac nad oedd iddo blentyn arall, aeth y teitlau a'r Arglwyddiaethau ar ei farwolaeth ef i feddiant ei frawd Phillip, pedwerydd Iarll Penfro a Threfaldwyn. Priododd ef â Susannah, merch Iarll Oxford. Eu mab hwy oedd I'hillip, pumed Iarll Penfro ac Arglwydd Morganwg, yr hwn a briododd yn gyntaf â Penelope, merch Syr Richard Naunton, a ganwyd iddynt fab ac etifedd—William, chweched Iarll Penfro ac Arglwydd Morganwg. Priododd Phillip yr ail waith â Catherine, merch Syr William Villiers, a chawsant o blant, 1. Phillip, 2. Thomas. Bu'r tri brawd hyn yn gwisgo'r teitl Iarll, sef William, chweched Iarll; Phillip, seithfed Iarll, yr hwn a briododd Henrietta de Queronville, i'r rhai y ganwyd Charlotte, etifeddes Castell Brynbiga yn Mynwy. Bu Phillip farw yn 1868, ac aeth Arglwyddiaeth Morganwg a'r teitl o Iarll i feddiant Thomas, ei frawd. Ar farwolaeth Thomas, yr wythfed Iarll, aeth Arglwyddiaeth Morganwg i feddiant Charlotte, merch Phillip, y seithfed Iarll. Priododd Charlotte yn gyntaf âg Arglwydd John Jefferies, a ganwyd iddynt ferch, Henrietta, yr hon a briododd â Iarll Ponfret. Bu Arglwydd John Jefferies farw yn 1702, a phriododd Charlotte, ei weddw, â Thomas, Is-Iarll Windsor a Barwn Mountjoy, yr hwn, trwy ei briodas, a ddaeth yn Arglwydd Morganwg.

Bu Thomas farw yn 1788, gan adael mab ac etifedd yn mherson Herbert, Is-Iarll Windsor, Barwn Mountjoy, ac Arglwydd Morganwg. Priododd Herbert ag Alice, merch Syr John Clavering, ac iddynt y ganwyd, 1. Charlotte Jane, 2. Alice Elizabeth, yr hon a briododd ag Ardalydd Hertford.

Priododd Charlotte Jane, Arglwyddes Morganwg, a John, Iarll Bute, Barwn Caerdydd, &c. Yn 1768, etholwyd hwn yn Aelod Seneddol dros fwrdeisdref Bossiney, pan oedd yn 24 oed, a thros yr un lle yn 1774. Yn 1776, dyrchafwyd ef yn Farwn Caerdydd. Mawrth 20, 1788, pennodwyd ef yn Llysgennadydd Neillduol dros Brydain yn Llys Yspæen. Mawrth 1, 1796, crewyd ef yn Ardalydd Seisnig, dan yr enw Ardalydd Bute. Cafodd ef ddeg o blant o Charlotte Jane, yr hon a fu farw Ionawr 28, 1800. Priododd ef drachefn â Frances, merch Thomas Coutts, Ysw., a chafodd ddau o blant, sef Dudley Coutts, A.S., yr hwn a anwyd Ionawr 4, 1808; ac yn 1824, efe a briododd Christiana Alexandria Egipta, merch Lucien Buonaparte. Priododd Frances, merch yr Ardalydd cyntaf o'i ail wraig, â Dudley, Iarll Harrowby, yn 1828. Bu'r Ardalydd farw yn Geneva, Tach. 16, 1814.

John, Is-iarll Mountstuart, mab hynaf Ardalydd Cyntaf Bute, a Charlotte Jane, Arglwyddes Morganwg, a anwyd Medi 25, 1767. Yn 1790, etholwyd ef yn Aelod Seneddol dros Gaerdydd. Hyd. 12, 1792, priododd ag Elizabeth Penelope, merch Patrick Crichton, Iarll Dumfries, a chawsant ddau o blant, sef John, yr etifedd, a anwyd Awst 18, 1798, a Patrick James Herbert. Yr oedd John, mab Charlotte Jane yn Arglwydd Raglaw Morganwg, ac yn Filwriad ei Gwirfoddolion. Bu ef farw Ionawr 20, 1794, yn 27 oed, yn Baringbourne Hall, Essex; a bu ei wraig farw Gor. 26, 1797.

John Crichton Stuart, Iarll Dumfries, a anwyd fel y sylwyd, yn 1798, ac a ddyrchafwyd i'r teitl o Ail Ardalydd Bute, ar farwolaeth ei dadcu yn 1814. Yn 1818, priododd a Maria, merch hynaf George Augustus, trydydd Iarll Guilford, yr hon ar ol cystudd maith a fu farw yn ddiblant, yn 1841. Yn Ionawr 1845, priododd drachefn a Sophia Frederica Christiana Hastings, ail ferch Ardalydd Cyntaf Hastings, o'r hon y cafodd un plentyn, yr hwn a anwyd Medi 12, 1847. Bu ail Ardalydd Bute farw yn 1848; a daeth ei deitlau a'i feddiannau i feddiant ei fab John Patrick Crichton Stuart, trydydd Ardalydd Bute, yr hwn a briododd â Gwendoline Mary Ann Fitzallan Howard, merch hynaf Arglwydd Howard o Glossop, Ebrill 16, 1872.

## SIRYDDION MORGANWG.

- 1540 Syr George Herbert, Abertawy.  
 1541 Syr Rice Mansel, Marchog, Margam.  
 1542 Syr Edward Carne, Marchog, Ewenni.  
 1548 William Bassett, Ysw., Beaupre.  
 1544 George Mathew, Ysw., (wedi hyny Marchog) Rhadyr.  
 1545 John Thomas Bassett, Ysw., Llantryddy.  
 1546 Miles Mathew, Ysw., Llandaf.  
 1547 Syr Thomas Stradling, Marchog, St. Donat's.  
 1548 Edward Lewis, Ysw., Y Fan.  
 1549 Christopher Turberville, Ysw., Scer.  
 1550 James Thomas, Ysw., Llanfangel.  
 1551 John Herbert, hynaf, Ysw.  
 1552 Syr George Herbert, Marchog, Abertawy.  
 1558 Syr Rice Mansel, Marchog, Margam.  
 1554 Syr Edward Carne, Marchog, Ewenni.  
 1555 Edward Lewis, Ysw., Y Fan.  
 1556 James Button, Ysw., Worlton.  
 1557 William Basset, Ysw., Beaupre.  
 1558 Syr Richard Walwyn, Marchog, Llantryddy.  
 1559 Edward Lewis, Ysw., Y Fan.  
 1560 Thomas Lewis, Ysw., Llandaf.  
 1561 Thomas Carne, Ysw., Ewenni.  
 1562 David Evans, Ysw., Castell Nedd.  
 1568 Syr William Herbert, Marchog, Abertawy.  
 1564 Myles Button, Ysw., Worlton.  
 1565 William Jenkins, Ysw., Llandudwg.  
 1566 William Herbert, Ysw., Cogan Pill.  
 1567 William Mathew, Ysw., Rhadyr.  
 1568 Christopher Turberville, Ysw., Penllin.  
 1569 Thomas Lewis, Ysw., Y Fan.  
 1570 Myles Button, Ysw., Worlton.  
 1571 Thomas Carne, Ysw., Ewenni.  
 1572 Richard Gwyn, Ysw., Llansannor.  
 1578 Syr Edward Stradling, Marchog, St. Donat's.  
 1574 Edward Kemys, Ysw., Cefn Mabli.  
 1575 Syr Edward Mansel, Marchog, Margam.  
 1576 Nicholas Herbert, Ysw., Caerdydd.  
 1577 Syr William Herbert, Marchog, Abertawy.  
 1578 John Thomas, Ysw., Llanfihangel.  
 1579 William Mathew, Ysw., Rhadyr.  
 1580 Thomas Carne, Ysw., Ewenni.  
 1581 William Herbert Ysw., (wedi hyny Marchog), Abertawy.  
 1582 Syr Edward Stradling, Marchog, St. Dunwyd.  
 1588 George Herbert, Ysw., (Marchog wedi hyny), Nash.  
 1584 Edward Kemeys, Ysw., Cefn Mabli.

- 1585 Nicholas Herbert, Ysw., Caerdydd.  
 1586 Thomas Lewis, Ysw., Caerdydd.  
 1587 John Carne, Ysw., (Marchog wedi hyny), Ewenni.  
 1588 Myles Button, Ysw., Caerdydd.  
 1589 Henry Mathew, Ysw., Rhadyr.  
 1590 Anthony Mansel, Ysw., Llantryddy.  
 1591 Syr William Herbert, Marchog, Abertawy.  
 1592 Edmund Mathew, Ysw., Caerdydd.  
 1593 Syr Thomas Mansel, Marchog (Barwnig wedi hyny), Margam.  
 1594 Edward Kemeys, Ysw., Cefn Mabli.  
 1595 Syr Edward Stradling, Marchog, St. Donat's.  
 1596 Richard Bassett, Ysw., Beaupre.  
 1597 John Gwyn, Ysw.,—Rowland Morgan, Ysw., Caerdydd.  
 1598 Thomas Lewis, Ysw., Ruperra.  
 1599 Edward Prichard, Ysw., Glancaiach.  
 1600 John Carne, Ysw., Ewenni (Marchog wedi hyny).  
 1601 Edward Lewis, Ysw., Y Fan.  
 1602 Thomas Aubrey, Ysw., Llantryddy (Marchog ar ol hyny).  
 1603 Syr Thomas Mansel, Marchog, Margam.  
 1604 Edward Kemeys, Ysw., Cefn Mabli.  
 1605 Syr John Herbert, Marchog, Caerdydd.  
 1606 Syr Rowland Morgan, Marchog, Llandaf.  
 1607 Syr John Stradling, Marchog (Barwnig wedi hyny).  
 1608 Richard Bassett, Ysw., Beaupre.  
 1609 Morgan Meyrick, Ysw., Cottrell.  
 1610 George Lewis, Ysw., Llys Talybont.  
 1611 Lewis Thomas, Ysw., Bettws.  
 1612 Syr Edward Lewis, Marchog, Y Fan.  
 1613 Thomas Mathew, Ysw., Rhadyr.  
 1614 Gabriel Lewis, Ysw.  
 1615 Christopher Turberville, Ysw., Ewenni.  
 1616 David Kemeys, Ysw., Cefn Mabli.  
 1617 William Mathew, Ysw., Cogan Pill.  
 1618 Edward à Van, Ysw.  
 1619 Syr John Stradling, Marchog a Barwnig, St. Donat's.  
 1620 John Carne, Ysw., Nash.  
 1621 William Bassett, Ysw.  
 1622 Syr Thomas Mansel, Marchog a Barwnig.  
 1623 Lewis Thomas, Ysw., Bettws.  
 1624 Anthony Gwyn, Ysw., Llansannor. Cadwodd dri brawdlys,—  
     bu'r brenin Iago farw amser y brawdlys cyntaf.  
 1625 Anthony Gwyn.  
 1626 William Bawdrip, Ysw., Splott.  
 1627 Edmond Thomas, Ysw., Castell Gwenfo.  
 1628 Henry Mansel, Ysw., Llanddewi.  
 1629 Thomas Lewis, Ysw., Penmarc (Marchog wedi hyny).  
 1630 Thomas Lewis, Ysw., Llanisan.  
 1631 Syr Anthony Mansel, Marchog, Llansawel.

- 1682 David Evans, Ysw., Castellnedd.  
 1688 Edward Thomas, Ysw., Llanfihangel (Marchog wedi hyny).  
 1684 Syr John Aubrey, Marchog, Llantryddydd (Barwnig wedi hyny).  
 1686 Watkin Laughor, Ysw., Trenewydd.  
 1686 Walter Thomas, Ysw., Abertawy.  
 1687 Syr Lewys Mansel, Marchog, Margam.  
 1688 Edward Prichard, Ysw., Glancaiach.  
 1689 Nicholas Kemys, Ysw., Cefn Mabli, (wedi hyny Marchog a Barwnig).  
 1640 John Carne, Ysw., Ewenni.  
 1641 Robert Button, Ysw., Worlton.  
 1642 William Bassett, Ysw., Meiscun.  
 1648 Richard Bassett, Ysw., Beaupre (Marchog wedi hyny).  
 1644 Syr Charles Kemys, Marchog, Cefn Mabli.  
 1645 William Thomas, Ysw., Abertawy.  
 1646 Bussey Mansel, Ysw., Llansawel.  
 1647 Bussey Mansel, Ysw., etto.  
 1648 Richard Jones, Ysw., Llanfihangel St. Ffagan.  
 1649 John Price, Ysw., Gellihir.  
 1650 John Herbert, Ysw., Caerdydd.  
 1651 Edward Stradling, Ysw., Roath.  
 1652 Humphrey Windham, Ysw., Castell Dunraven.  
 1658 William Bassett, Ysw., Miskin.  
 1654 Rice Powell, Ysw., Goetre Hen.  
 1655 George Bowen, Ysw., Kittle Hill.  
 1656 Richard Lougher, Ysw., Tythegstone.  
 1657 William Herbert, Ysw., Abertawy.  
 1658 Hopkin Edwards, Ysw., Stemberidge.  
 1659 Richard David, Ysw., Penmaen.  
 1660 Richard David etto.  
 1661 Herbert Evans, Ysw., Castell Nedd.  
 1662 Gabriel Lewis, Ysw., Llanisan.  
 1663 Edmund Gamage, Ysw., Castell Newydd, Penybont.  
 1664 John Greenfield, Ysw., Castell y Fan.  
 1665 Edward Thomas, Ysw., Wenfo.  
 1666 Martin Button, Ysw., Worlton.  
 1667 Edward Mathew, Ysw., Aberaman.  
 1668 Thomas Mathew, Ysw., Castell Mynach (Mynarch).  
 1669 Thomas Button, Ysw., Cottrell.  
 1670 Phillip Hobby, Ysw., Mynachlog Nedd.  
 1671 Edmund Thomas, Ysw., Worlton.  
 1672 Philip Jones, Ysw., Castell Fonmon.  
 1678 Thomas Powell, Ysw., Goetre Hen.  
 1674 Lewis Thomas, Ysw., Penmarc.  
 1675 William Thomas, Ysw., Llanfradaoch.  
 1676 Richard Seys, Ysw., Ridings (Rhydings).  
 1677 Miles Mathews, Ysw., Glancaiach.  
 1678 Bussey Mansel, Ysw., Llansawel.

- 1679 Charles Gibbon, Ysw., Trecastell.  
 1680 George Bowen, Ysw., Kittle Hill.  
 1681 William Morgan, Ysw., Glan Rhymini.—W. Jenkins, Ysw.,  
 Pontypridd.  
 1682 Thomas Lewis, Ysw., Llanisan (Lucas mewn rhai llyfrau).  
 1688 Oliver Jones, Ysw., Castell Ffonmon.—Thomas Rice, Ysw.  
 1684 Reynold Deere, Ysw.  
 1685 David Jenkins, Ysw., Hensol.  
 1686 Syr John Aubrey, Barwnig, Llantryddy.  
 1687 William Aubrey, Ysw., Pencoed.  
 1688 Syr Edward Mansel, Barwnig, Margam.  
 1689 Thomas Lewis, Ysw., Penmarc.—David Evans, Ysw.  
 1690 Thomas Carne, Ysw., Castellnedd.  
 1691 John Price, Ysw., Gellihir.  
 1692 Robert Carleton, Ysw. ; Wm. Says, Ysw. ; R. Lougher, Ysw.,  
 Tythegstone ; W. Mathew, Ysw., Aberaman.  
 1698 William Mathew, Ysw., Aberaman.  
 1694 Richard Herbert, Ysw., Kittle Hill.  
 1695 John Bennet, Ysw., Cheriton.  
 1696 Richard Lougher, Ysw., Llandudwg.  
 1697 Richard Morgan, Ysw., Penmarc.  
 1698 George Howell, Ysw., Bovill.  
 1699 John Whitwige, Ysw., Marlstone Berks (Whitwick yn rhai  
 llyfrau).  
 1700 Syr John Thomas, Barwynig, Waenfo.  
 1701 Thomas Mansel, Ysw., Castell Penrhys.  
 1702 Daniel Morris, Ysw., Castell y Glyn.  
 1708 William Basset, Ysw., Y Bontfaen.  
 1704 Robert Jones, Ysw., Castell Ffonmon.  
 1705 Thomas Thomas, Ysw., Llanfradach.  
 1706 William Stanley, Ysw., Mynachlog Nedd.  
 1707 Roger Powell, Ysw., Genu'r Glyn.  
 1708 David Carne, Ysw., Ewenni.  
 1709 Thomas Button, Ysw., Cattrell.  
 1710 Syr Edward Stradling, Barwnig, St. Donat's.  
 1711 Syr John Aubrey, Barwnig, Llantryddy.  
 1712 John Curr, neu Carne, Ysw., Clementstone.  
 1718 Syr Charles Kemys, Cefn Mabli.  
 1714 Hobby Compton, Ysw., Mynachlog Nedd.  
 1715 Gabriel Lewis, Ysw., Llanisan.  
 1716 Evan Seys, Ysw., Boverton ; John Jones, Ysw., Dyffryn.  
 1717 Edward Thomas, Ysw., Glyn Ogwr.  
 1718 Thomas Popkin, Ysw., Fforest.  
 1719 Michael Williams, Ysw., Penybont-ar-Ogwy.  
 1720 William Dawkins, Ysw., Cilfraw (Kilvrough).  
 1721 Michael Richards, Ysw., Caerdydd.  
 1722 William Morgan, Ysw., Coed-y-groes.  
 1728 Edward Evans, Ysw., Llwynyreryr.



- 1724 James Williams, Ysw., Caerdydd.  
 1725 Abraham Barbour, Ysw., St. Georges.  
 1726 Morgan Morgan, Ysw., Glan Rhymini.  
 1727 Martin Button, Ysw., Dyffryn.  
 1728 James Thomas, Ysw., Llanfradach.  
 1729 Robert Jones, Ysw., Castell Ffonmon.  
 1780 John Llewelyn, Ysw., Ynys-y-Gerwn.  
 1781 John Carne, Ysw., Nash.  
 1782 Reynald Deere, Ysw., Nash.  
 1788 Herbert Mackworth, Ysw., Castell y GnoI.  
 1784 William Bassett, Ysw., Miskin.  
 1785 Grant Gibbon, Ysw., Castleton.  
 1786 Hopkin Rees, Ysw., Eglwys Fair y Mynydd.  
 1787 Robert Knight, Ysw., Tythegstone.  
 1788 Edmund Lloyd, Ysw., Caerdydd.  
 1789 Thomas Price, Penlle'r Gaer.  
 1740 Richard Turberville, Ysw., Ewenni.  
 1741 Rowland Dawkins, Ysw., Kilvrough.  
 1742 Robert Morris, Ysw., Abertawy.  
 1748 Mathew Deere, Ysw., Ash Hall (Brynyronen).  
 1744 Henry Lucas, Ysw., Stout-hall.  
 1745 Thomas Lewis, Ysw., Llanisan.  
 1746 Whitlock Nichol, Ysw., Ham.  
 1747 Thomas Powell, Ysw., Ton Du.  
 1748 John Mathews, Ysw., Brynwyth.  
 1749 Joseph Price, Ysw., Gellihir.  
 1750 Richard Jenkins, Ysw., Marlas, (Glyncorrwg?).  
 1751 William Evans, Llwyn-yr-eryr.  
 1752 Rowland Bevan, Oxwich.  
 1758 Thomas Rous, Ysw. ; Cynrychiolwyd ef gan T. Edmunds, Ysw.  
 1754 Edward Walters, Ysw., Pitcot,  
 1755 Thomas Popkin, Ysw., Fforest.  
 1756 William Bruce, Ysw., Llanfleiddian Fawr.  
 1757 Thomas Lewis, Ysw., Ty Newydd.  
 1758 Edward Mathews, Ysw., Aberaman.  
 1759 Thomas Pryse, Ysw., Dyffryn, St. Nicholas.  
 1760 Syr J. de la Fountain Tyrwhit, Barwnig, St. Donat's.  
 1761 Samuel Price, Ysw., Coetty.  
 1762 Phillip Williams, Ysw., Dyffryn Nedd.  
 1768 Robert Morris, Ysw., Abertawy.  
 1764 Abraham Williams, Ysw., Cathays.  
 1765 Richard Calvert Jones, Ysw., Abertawy.  
 1766 William Curr, Ysw., Clementston.  
 1767 Edward Powell, Ysw., Ton Du.  
 1768 Thomas Bennet, Ysw., Trelales.  
 1769 Thomas Mathews, Ysw., Llandaf.  
 1770 Richard Gordon Gordon, Ysw., Gwyr.  
 1771 William Thomas, Ysw., Llanfleiddian.

- 1772 Edward Thomas, Ysw., Tregroes.  
 1778 William Dawkins, Ysw., Kilvrough.  
 1774 John Edmunds, Ysw., Y Bontfaen.  
 1775 Daniel Jones, Ysw., Glan Brán.  
 1776 William Hurst, Ysw., Gabalfa.  
 1777 David Thomas, Ysw., Pwlljiwreh.  
 1778 John Lucas, Ysw., Stout-hall.  
 1779 Christopher Bassett, Ysw., Bryn-yr-hydd, Glan Elai.  
 1780 Peter Birt, Ysw., Castell Waenfo.  
 1781 Charles Bowen, Ysw., Merthyr Mawr.  
 1782 Thomas Mansel Talbot, Ysw., Margam.  
 1788 William Kemys, Ysw., Ynysarwed.  
 1784 John Richards, Ysw., Geneu'r Glyn.  
 1785 Stephen White, Ysw., Miskin.  
 1786 T. Tyrwhit Drake, Ysw., St. Donat's.  
 1787 John Price, Ysw., Llandaf.  
 1788 Richard Jenkins, Ysw., Pantynawell.  
 1789 John Llewelyn, Ysw., Welsh St. Donat's.  
 1790 William Lewis, Ysw., Green Meadow.  
 1791 John Richards, Ysw., Corner House.  
 1792 John Llewelyn, Ysw., Penlle'r Gaer.  
 1798 John Lucas, Ysw., Stout Hall.  
 1794 Henry Knight, Ysw., Tythegstone.  
 1795 Wyndham Lewis, Ysw., Llanisan.  
 1796 Herbert Hurst, Ysw., Y Gabalfa.  
 1797 Robert Rous, Ysw., Cwrtyrala.  
 1798 Samuel Richardson, Ysw., Hensol.  
 1799 John Goodrich, Ysw., Geneu'r Glyn.  
 1800 Robert Janner, Ysw., Castell Gwenfo.  
 1801 Llewelyn Treharne, Ysw., St. Hilari. Robert Jones, Ysw.,  
 Castell Ffonmon.  
 1802 R. M. Philip, Ysw., Scetty.  
 1808 John Morris, Ysw., Clasemont.  
 1804 R. T. Picton, Ysw., Mynachlog Ewenni.  
 1805 Thomas Markham, Ysw., Nash.  
 1806 Anthony Bacon, Ysw., Cyfarthfa, Merthyr Tydfil.  
 1807 George Wynch, Ysw., Clementston.  
 1808 J. N. Miers, Ysw., Llangattwg Nedd.  
 1809 Jeremiah Humphrey, Ysw., Llandaf.  
 1810 T. Lockwood, Ysw., Fforest, Danygraig.  
 1811 Syr R. L. Blossie, Barwnig, Cabalfa.  
 1812 M. P. Treharne, Ysw., Goetre Hen.  
 1818 W. Jones, Ysw., Corntown.  
 1814 Anrhydeddus W. B. Gray, Dyffryn, St. Nicholas.  
 1815 William Tait, Ysw., Caerdydd.  
 1816 Richard John Hill, Ysw., Plymouth Lodge, Merthyr.  
 1817 J. B. Rous, Ysw., Cwrtyrala.  
 1818 L. W. Dillwyn, Ysw., Penlle'r Gaer.

- 1819 Josiah John Guest, Ysw., Dowlais.  
 1820 Richard Blackemore, Ysw., Velindre.  
 1821 W. Forman, Ysw., Penydarren, Merthyr.  
 1822 Syr John Morris, Barwnig, Parc-y-Scetty.  
 1823 John Edwards, Ysw., Rheolau, Glyn Nedd.  
 1824 John Bassett, Ysw., Ty Bolston (Bonvilstone).  
 1825 J. Bennett, Ysw., Trelales.  
 1826 Thomas Edward Thomas, Ysw., Abertawy.  
 1827 J. H. Vivian, Ysw., Marino (Singleton).  
 1828 R. F. Jenner, Ysw., Castell Waenfo.  
 1829 W. Crawshay, Ysw., Castell Gyfarthfa, Merthyr.  
 1830 W. Williams, Ysw., Aberpergwm, Glyn Nedd.  
 1831 R. H. Jenkins, Ysw., Llan Harran.  
 1832 Frederick Frederick, Ysw., Dyffryn.  
 1833 R. T. Turberville, Ysw., Ewenni.  
 1834 S. J. Grant, Ysw., Castell y Gnoil.  
 1835 J. D. Llewelyn, Ysw., Penllergaer.  
 1836 Thomas Penrice, Ysw., Kilvrough.  
 1837 Howell Gwyn, Ysw., Baglan.  
 1838 R. O. Jones, Ysw., Castell Fonmon.  
 1839 C. H. Smith, Ysw., Gwernllwynwith.  
 1840 Michael Williams, Ysw., Morfa.  
 1841 Joseph Martin, Ysw., Ynys Tawy.  
 1842 Henry Lucas, Ysw., Uplands.  
 1843 John Humphrey, Ysw., Llandaf.  
 1844 John Bruce Pryce, Ysw., Dyffryn.  
 1845 Robert Savours, Ysw., Y Bontfaen.  
 1846 Richard Franklin, Ysw., Y Bontfaen.  
 1847 Nash Edwards Vaughan, Ysw., Rheolau.  
 1848 Thomas W. Booker, Ysw., Velindre.  
 1849 Robert Boteler, Ysw., Llandochwy'r Bontfaen.  
 1850 Rowland Fothergill, Ysw., Castell Hensol.  
 1851 Gervas Powell Turberville, Ewenni.  
 1852 Griffith Llewelyn, Ysw., Baglan Hall.  
 1853 Richard Hill Miers, Ysw., Ynyspenllwch.  
 1854 William Llewelyn, Ysw., Court Colman.  
 1855 Wyndham William Lewis, Ysw., (The Heath), ger Caerdydd:  
 1856 John Samuel, Ysw., Newton House, Y Bontfaen.  
 1857 Evan Williams, Ysw., Dyffrynffrwd.  
 1858 Henry Lewis, Ysw., Green Meadow.  
 1859 Charles Crofts Williams, Ysw., Roath Castle Gaerdydd  
 1860 George Gray Rous, Ysw., Courtyralla.  
 1861 Edward Robert Wood, Ysw., Stout-hall, Abertawy.  
 1862 Syr Ifor Bertie Guest, Barwnig, Sully House.  
 1863 John Popkin Traherne, Ysw., Goytrehen.  
 1864 Robert Francis Lancelles Jenner, Ysw., Castell Wenvee.  
 1865 Thomas William Booker, Velindre.  
 1866 William Graham Vivian, Ysw., Singleton, Abertawy.

- 1867 Thomas Penrice, Ysw., Kilvrough House, Browyr.  
 1868 George Thomas Clark, Ysw., Talygarn, Llantrisant.  
 1869 Edward Romilly, Ysw., Porthkerry, Bontfaen.  
 1870 George William Griffith Thomas, Ysw., Coedriglan, Caerdydd.  
 1871 Major Vaughan Henning Lee, Glan Elai, Llantrisant.  
 1872 Charles Henry Williams, Ysw., Roath Court, Caerdydd.  
 1878 Francis Edmund Stacey, Ysw., Llandochwy (Landough), Bontfaen.

### AELODAU SENEDDOL MORGANWG O'R DECHREUAD.

Nodwyd eisioes i Harri VIII., yn 1586, osod ei sêl wrth Weithred Seneddol, yr hon a basiwyd y flwyddyn hono, er rhoi hawl i bob Sir yn Nghymru anfon Marchog i'w chynrychioli yn Senedd Lloegr; ac hefyd i anfon Bwrdais i gynrychioli y Bwrdeisdrefi. Yn rhinwedd y Weithred Seneddol hono, anfonodd Morganwg un aelod dros y Sir, ac un dros y bwrdeisdrefi canlynol:—Caerdydd, Pontfaen, Llantrisant, Cenffig, Aberafan, Castell Nedd, Abertawy a Chasllwchwr.

Yn 1540, y cynrychiolwyd Cymru am y tro cyntaf yn Senedd Lloegr yn ol yr Act a nodwyd, pryd yr etholwyd y personau canlynol yn Morganwg:—Dros y Sir,—George Herbert, Ysw., (Wyr Mathew Cradock). Bwrdeisdrefi,—John Bassett, Ysw., Inner Temple.

1547, 1 Edward VI. Eisteddiad cyntaf y Senedd o Tach. 8, hyd Rhag. 6, 1547. Ail eisteddiad o Dach. 24, hyd Rhag. 6, 1548. 3ydd eisteddiad o Dach. 4, 1549, hyd Chwef. 1, 1550. 4ydd eisteddiad o Ion. 28, 1551, hyd ei doriad i fyny yn 1552. Morganwg,—George Mathew, Ysw.—Dros Gaerdydd, &c., [John Cokk, 2 ?]

Ail Senedd,—1 Edward VI. Eistedd o Fawrth 1, i'r 81 o'r un mis, 1558. Morganwg,—George Mathew, Ysw. Caerdydd, &c., David Edward, Ysw.

1558,—1 Mary. Eisteddiad cyntaf y Senedd o Hyd. 5, hyd yr 21 o'r un mis. Ail eisteddiad o Hyd. 24, hyd ei doriad i fyny Rhag. 15, 1558. Morganwg,—Anthony Mansel, Ysw. Caerdydd, &c., David Evans, Ysw., Castell Nedd. Ail Senedd Mary, a wyswyd ganddi i gyfarfod yn Rhydychain, Ebrill 2, 1554; ond a symudwyd i Westminster, lle y parhaodd o Ebrill 5, hyd ei doriad i fyny Mai 5, 1554. Morganwg,—Edward Mansel, Ysw. Caerdydd, &c., Edward Herbert, Ysw.

1 a 2, Philip a Mary.—Senedd yn Westminster o Dach. 12, 1554, hyd Ion. 16, 1555. Morganwg,—Syr Edward Carne, Marchog. Caerdydd, &c.—William Colchester.

2 a 8, Phillip a Mary.—Westminster o Hyd. 21, hyd Rhag. 6, 1555. Morganwg,—Edward Carne, Ysw., Caerdydd, &c.—Daniel James.

4 a 5, Phillip a Mary.—Senedd yn Westminster, Ion. 20, gohirio Mawrth 7, hyd Tach. 5, a pharhau hyd farwolaeth Mary, ar yr 17 o'r un mis, 1557. Morganwg.—William Herbert, Ysw., Cogan Pill. Caerdydd, &c.—Leyshon ab Rhys, Ysw., Ynys-y-Mardy (Briton Ferry).

**Senedd 1af Elizabeth.**—Cyfarfod yn Westminster, Ion. 28, tori i fyny Mai 8, 1559. Morganwg.—William Morgan, Ysw. Caerdydd, &c.,—Dim cofnod. (Yr un Leyshon, teallai).

**Ail Senedd Elizabeth.**—Cyfarfod Ion. 11, parhau hyd Ebrill 10, 1563. Cyfarfod yr ail waith, Medi 30, 1566, tori i fyny Ion. 2, 1567. Morganwg.—William Bassett, Ysw. Caerdydd, &c.,—Henry Lewis.

**Trydydd Senedd Elizabeth.**—Cyfarfod Ebrill 2, parhau hyd Mai 29, 1571. Morganwg.—William Bassett, Ysw. Caerdydd, &c.,—Henry Morgan, Boneddwr.

**Pedwerydd Senedd Elizabeth.**—Cyfarfod Mai 8, gohirio Mehefin 8, 1572. Cyfarfod yr ail waith, Chwef. 8, gohirio Mawrth 14, 1575. Cyfarfod y drydedd waith Ion. 16, tori i fyny Mawrth 18, 1581. Morganwg.—William Herbert, Ysw. Caerdydd, &c.,—David Roberts, Boneddwr.

**Pumed Senedd Elizabeth.**—Cyfarfod Tachwedd 28, 1585, gohirio Mawrth 29, 1586, tori i fyny Medi 14, 1586. Morganwg.—Robert Sidney, Ysw. (O'r Coetty). Caerdydd, &c.—Nicholas Herbert, Ysw. Caerdydd.

**Chwched Senedd Elizabeth.**—Cyfarfod Hyd. 29, 1586, tori i fyny Mawrth 28, 1587. Morganwg.—Thomas Carne, Ysw. Caerdydd, &c.,—George Lewis o'r Van.

**Seithfed Senedd Elizabeth.**—Cyfarfod Chwef. 4, 1589, tori i fyny, Mawrth 29, 1589. Morganwg.—Thomas Carne, Ysw. Caerdydd, &c.,—Gabriel Lewis, Boneddwr.

**Wythfed Senedd Elizabeth.**—Cyfarfod Tach. 19, 1592, tori i fyny Ebrill 10, 1593. Morganwg.—Syr Robert Sidney, Marchog o'r Coetty. Caerdydd, &c.,—David Roberts, Ysw.

**Nawfed Senedd Elizabeth.**—Cyfarfod Hyd. 2, 1597, tori i fyny Chwef. 9, 1598. Morganwg.—Syr Thomas Mansel, Marchog, (Margam). Caerdydd, &c.,—Nicholas Hawkins.

**Degfed Senedd Elizabeth.**—Cyfarfod Hyd. 7, torwyd i fyny Rhag. 29, 1601. Morganwg.—Syr John Herbert, Marchog, (Abbatty Nedd). Caerdydd, &c.,—William Lewis, Boneddwr.

**Senedd Gyntaf James I., yn Westminster.**—Cyfarfod gyntaf Mawrth 19, hyd Gor. 7, 1604. Ail gyfarfod Tach. 5, 1605, hyd Mai 7, 1606. Cyfarfod y drydedd gwaith Tach. 8, 1606, parhau hyd Gor. 5, 1607. Cyfarfod y pedwerydd waith Chwef. 9, 1610, tori i fyny Chwef. 9, 1611. Morganwg.—Yr Anrhydeddus Phillip Herbert; yr hwn a ddyrchafwyd yn Iarll Penfro; ac etholwyd Syr Thomas Mansel, Marchog, o Fargam yn ei le. Caerdydd, &c.,—Mathew Davies, Boneddwr.

**Ail Senedd James I.**—Cyfarfod Ebrill 5, 1614, torwyd i fyny yn mhen naw wythnos. Morganwg.—Syr Thomas Mansel, Marchog. Caerdydd, &c.,—William Thomas.

**Trydydd Senedd, 18 James I.**—Cyfarfod Ion. 20, 1620, hyd Mawrth 27. Cyfarfod Ebrill 17, hyd Mehefin 4. Cyfarfod Tach. 14, tori Chwef. 8, 1621. Morganwg.—William Price, Ysw. Caerdydd, &c.,—William Herbert, Ysw.

Pedwerydd Senedd, 21 James I.—Cyfarfod Chwef. 19, 1624, hyd Mai 24. Cyfarfod yr ail waith Tach. 2, hyd Chwef. 16, 1625. Torwyd i fyny Mawrth 24, ar farwolaeth y brenin. Morganwg.—Syr Robert Mansel, Marchog, Is-Lyngesydd. Caerdydd, &c.,—William Price, Ysw.

Senedd gyntaf, 1 Charles I.—Cyfarfod Mehefin 21, 1625, parhau hyd Gor. 11, gohiriwyd hyd Awst 1. Cyfarfod yn Rhydychain, tori i fyny Awst 12. Morganwg.—Robert Mansel, Ysw., Margam. Caerdydd, &c.,—William Price, Ysw.

Ail Senedd, 1 Charles I.—Cyfarfod yn Westminster Chwef. 6, tori i fyny Mehefin 15, 1626. Morganwg.—Syr John Stradling, Barwnig, St. Donats. Caerdydd, &c.,—William Price, Ysw. [Sylw.—Mewn ysgrif yn y Crown Office, Tŷ yr Arglwyddi, dywedir mai W. John, gynnrychiolai y bwrdeisdrefn.]

Trydedd Senedd, 3 Charles I.—Cyfarfod gyntaf Mawrth 16, parhau hyd Mehefin 26, 1628. Cyfarfod yr ail waith Ion. 20, 1629, tori i fyny Mawrth 10, 1629. Morganwg.—Syr Robert Mansel, Barwnig. Caerdydd, &c.,—Lewis Morgan, Ysw.

Pedwerydd Senedd, 15 Charles I.—Cyfarfod Ebrill 18, 1640, torwyd i fyny yn mhen 28 diwrnod. Morganwg.—Syr Edward Stradling, Barwnig, St. Donats.

Pumed Senedd, 16 Charles I.—Cyfarfod Tach. 8, 1640; ac a dorwyd i fyny gan Oliver Cromwell (Williams), blaenor y Werin Lywodraeth, Ebrill 20, 1653. Gelwid hon y Senedd Faith. Morganwg.—Yr Anrhyd. Phillip Arglwydd Herbert. Caerdydd, &c.,—William Herbert, Ysw. (Yr agosaf atto yn yr etholiad oedd, Algernon Sidney, Ysw.) Y Senedd gyntaf alwyd yn nghyd gan O. Cromwell, a elwir "Y Senedd Fach," a gyfarfyddodd Gor. 5, torwyd i fyny Rhag. 12, 1653. Morganwg.—Bussy Mansel, Ysw., Ynys-y-Maerdy, Britou Ferry. Caerdydd, &c.,—John Price.

Ail Senedd y Weriniaeth.—Cyfarfod Medi 8, 1654, torwyd i fyny, Ion. 22, 1655. Morganwg.—Phillip Jones, Ysw., Castell Fonmon; (brawd-yn-nghyfraith, ac un o brif gynghorwyr O. Cromwell,) ac Edmund Thomas, Ysw., Castell Wenfo. Caerdydd, &c.,—John Price, Ysw.

Trydedd Senedd y Weriniaeth.—Cyfarfod Medi 17, 1656, hyd Mehefin 26, 1657. Cyfarfod yr ail waith Ion. 20, ac ar ol bod yn nghyd 15 diwrnod, a dorwyd i fyny gan Richard Cromwell. Morganwg.—Phillip Jones, Ysw., ac Edmund Thomas, Ysw. Caerdydd, &c.,—John Price.

Pedwaredd Senedd y Weriniaeth.—Cyfarfod Ion. 27, a thori i fyny Rhag. 26, 1659. Morganwg.—Evan Seys, Ysw., Sergeant Cyfreithiol (Boverton). Caerdydd.—John Price, Ysw. Abertawy.—William Foxwist, Ysw. Terfynodd y Weriniaeth ar hyn. Ni chydnabyddir Seneddau y Weriniaeth mewn rhai ysgrifau, ond ystyrir i Charles II. deyrnasu yn union ar ol dienyddiad ei dad, a chyfrifir y flwyddyn 1660, yr 11 flwyddyn o'i deyrnasiad pan mewn gwirionedd, hono oedd y flwyddyn gyntaf iddo. Dywedir hefyd mai yn y 80 flwyddyn o'i deyrnasiad y galwodd ef Senedd yn nghyd; tra mai yr 17 flwyddyn

oedd mewn gwirionedd. Gan na chymmerodd yr etholiadau Sirol a Bwrdeisdrefol le yr un amser, ond yn achlysurol, wedi coroniad Charles II., y ffordd oreu fydd rhoi rhesi gwahanol o honynt yma, trwy nodi y blwyddiad, ac enwau yr aelodau, &c., gan gychwyn gyda'r Aelodau dros y Sir:—

- 1671 Syr Edward Mansel, Margam, Barwnig.  
 1679 Bussy Mansel, Ysw., Ynys-y-Maerdy, Briton Ferry.  
 1687 Syr Edward Mansel, Barwnig.  
 1692 Bussy Mansel, Ysw., Briton Ferry.  
 1702 Thomas Mansel, Ysw., Margam.  
 1707 Yr Anrhydeddus Thomas Mansel, Ysw., Margam.  
 1710 Syr Thomas Mansel, Barwnig, Margam.  
 1715 Robert Jones, Ysw. Bu farw yn 1716.  
 1716 Syr Charles Kemys, Barwnig, Cefn Mabli.  
 1734 Yr Anrhydeddus William Talbot, yr hwn ar farwolaeth ei dad ddyrchafwyd yn Arglwydd Talbot o Hensol i Dŷ yr Arglwyddi.  
 1787 Bussy Mansel, Ysw., (trydydd mab Syr Thomas Mansel o Fargam, ac etifedd (*Devisee*) yn Ewyllys Thomas Mansel, Ynys-y-Maerdy), a gafodd 1501 o bleidleisiau, ar ol deg diwrnod o ymdrechfa etholiadol.  
 1741 Bussy Mansel, Ysw., (Yr un). Ar farwolaeth Christopher ei frawd yn 1744, dyrchafwyd ef yn Arglwydd Mansel, Barwn Margam.  
 1744 Thomas Mathews, Ysw.  
 1747 Charles Edwyn, Ysw.  
 1756 Thomas Lewis, Ysw.  
 1761 Syr Edmund Thomas, Barwnig, Castell Wenfo, yr hwn a benodwyd yn Arolygydd Coedwigoedd y brenin yn 1767.  
 1767 Richard Turberville, Ysw.  
 1768 Yr Anrhydeddus George Venables Vernon, Ysw., Briton Ferry.  
 1780 Charles Edwyn, Ysw. Rhoes i fyny ei sedd yn 1789.  
 1790 Thomas Wyndham, Ysw. Bu farw yn 1814.  
 1814 Benjamin Hall, Ysw., Castell Hensol. Cymmerodd yr etholiad le yn Nghaerdydd, lle y torwyd ei gerbyd gan y dorf; ac yn ad-daliad am hyn, efe a lwyddodd i symmud etholfan Marchogion dros y Sir, o Gaerdydd i Benybont-ar-Ogwy. Bu ef farw yn 1818.  
 1818 Syr Christopher Cole, K. C. B., Castell Penrhys.  
 1818 John Edwards, Ysw., Rheolau.  
 1820 Syr Christopher Cole. Dyma flwyddyn "*Y Lecshon Fawr*," a barhaodd naw diwrnod; ac y safai y pleidleisiau fel hyn:—Syr C. Cole, K.C.B. 791. John Edwards 656. Yr Anrhydeddus W. Booth Gray 151. Gadawodd ef y maes y trydydd dydd.  
 1826 Syr Christopher Cole, K.C.B.  
 1880 Christopher Rice Mansel Talbot, Ysw., Margam.  
 1882 C. R. M. Talbot, Ysw., Margam. Lewis Weston Dilwyn, Ysw. Hon oedd flwyddyn y *Reform Bill*, trwy yr hwn y cafodd Sir

- Forganwg ddau aelod ; ac y cafodd Abertawy ei gwneyd yn ben bwrdeisdref, i gael aelod yn annibynol ar Gaerdydd ; ac y cafodd Merthyr ei chynnrychioli gyntaf.
- 1887 Is-Iarll Adare, Castell Dunraven, a C. R. M. Talbot, Margam. Bu etholiad brwd y tro hwn. Cafodd Adare 2,009 pleidlais ; Talbot 1,794 ; J. J. Guest 1,590.
- 1841 Yr un personau.
- 1847 Yr un personau etto.
- 1857 C. R. M. Talbot, Ysw., Margam. H. H. Vivian, Ysw., Park Wern, Abertawy. Yr oedd un arall ar y maes, ac ar ddiwedd yr etholiad safai rhif y pleidleisiau fel hyn :—Mr. Talbot 8168. Mr. Vivian 8014 ; Mr. N. E. Vaughan, Rheolau (Tory), 2,891. Cymmerodd yr etholiad le Ebrill 8. Y boneddwy'r a etholwyd ya 1857, sydd yn parhau i gynnrychioli y Sir yn awr (1878).

#### AELODAU SENEDDOL CAERDYDD O AMSER CHARLES II.

- 1660 Bussy Mansel, Ysw., Ynys-y-Maerdy.
- 1661 Etholwyd Syr Richard Lloyd gan 40 o'r bwrdeisiaid, tra nad etholwyd Robert Thomas, Ysw., er iddo gael 105 o bleidleisiau ; a phan etholwyd Syr R. Lloyd dros Sir Faesyfed, rhoddodd ei sedd i fyny dros Gaerdydd, &c. ; a chafwyd *urrit* newydd, a dychwelwyd un Mr. Bassett ; ond pan wnaed y gwir yn hysbys, tynwyd ei enw ef allan, a gosodwyd enw Robert Thomas yn eile.
- 1671 Robert Thomas, Ysw., Llanfihangel.
- 1679-80 Syr Robert Thomas, Barwnig, Llanfihangel.
- 1680-1 Bussy Mansel, Briton Ferry.
- 1685 1 James II. Franc Gwyn, Ysw., Llansannor.
- 1689-1 William a Mary—Thomas Mansel, Ysw., Margam.
- 1698-9 William a Mary—Syr Edward Stradling, Bart. St. Donats.
- 1700 Syr Edward Stradling, Barwnig.
- 1702-1 Anne—Thomas Mansel, Ysw., Briton Ferry.
- 1707 Hyd. 28, Syr John Aubrey, Barwnig, Llantrydyd.
- 1710 Tach. 25, Syr Edward Stradling, Barwnig, St. Donats.
- 1722 Edward Stradling, Ysw., mab yr un blaenorol. Bu hwn farw yn anhriod yn 1727, a dilynwyd of gan ei gefnder
- 1727 Bussy Mansel, Ysw.
- 1784 Yr Anrhydeddus Herbert Windsor ; yr hwn a wrthwynebid gan Thomas Mathew, Ysw. Yn fuan ar ol yr etholiad, bu farw Arglwydd Windsor, a dyrchafwyd ei fab Herbert i'r teitl o Farwn Mountjoy, yn Nhy yr Arglwyddi.
- 1784 Herbert Mackworth, Ysw., Bar-gyfreithiwr, o Bunting Dale, Swydd Salop ; Pencrug, Mynwy ; a Chastellnedd. Ar ei farwolaeth, dilynwyd ef gan ei fab.
- 1765 Herbert Mackworth, Ysw., Castell-y-Gnol.
- 1780 Syr Herbert Mackworth, Barwnig (yr un). Bu ef farw yn 1790.
- 1790 Anrhydeddus John Stuart. Yn 1792, Arglwydd Mountstuart.
- 1794 Yr Anrh. Evelyn James Stuart. Drachefn yn 1796.
- 1802 Arglwydd William Stuart, Cadben yn y Llynges. Bu farw yn 1814.



- 1814 Arglwydd Evelyn James Stuart.  
 1818 Arglwydd P. J. H. C. Stuart, yr hwn a gafodd 45 pleidlais ; a Frederick Wood, yr hwn a safai yn eierbyn 17 ; y cwbl 62 pleidlais.  
 1820 Wyndham Lewis, o'r Van, Ysw.,—(Tori), a gafodd 457 pleidlais ; ac Ebenezer Ludlow, ei wrthwynebydd, 245 pleidlais. Parhaodd yr etholiad saith diwrnod.  
 1826 Arglwydd P. J. H. C. Stuart.—Rhyddfrydwr.  
 1880 Yr un ; ac yn 1881 hefyd.  
 1882 John Nichol (Tori) a gafodd 842 pleidlais, yn erbyn Argl. P. J. H. C. Stuart (Rhyddfrydwr), yr hwn a gafodd 191 pleidlais. Rhif yr etholwyr, 687.  
 1885 John Nichol.  
 1887 1 Victoria.—John Nichol, etto, ac felly yn 1841 ; ac yn mis Medi yr un flwyddyn, pennodwyd ef yn *Judge Advocate General*, a chafodd y teitl o Syr John Nichol.  
 1847 Y Gwir Anrhydeddus Syr John Nichol.  
 1852 Walter Coffin, Ysw.  
 1857 Y Milwriad James Frederick Dudley Crichton Stuart, F.R.G.S. Efe yw'r aelod presenol.

AELODAU SENEDDOL ABERTAWY.

Yn 1882, cafodd Abertawy hawl i anfon aelod i'w chynrychioli yn y Senedd mewn undeb a Chasluchwr, Castell Nedd, Aberafan, a Chenffig. Yr hwn a etholwyd gyntaf oedd John Henry Vivian, Ysw., yr hwn a gynrychiolodd y Fwrdeisdref, am chwech Senedd dymhor. Bu ef farw yn 1855. Dilynwyd ef yn A.S., gan Lewis Llewelyn Dillwyn, Ysw., Hendrefoilan, ger Abertawy ; ac efe yw aelod presenol (1878).

AELODAU SENEDDOL MERTHYR TYDFIL.

Yn 1882, yr etholwyd aelod Seneddol gyntaf erioed dros Ferthyr Tydfil, mewn undeb ag Aberdar a'r Faenor. Yr aelod cyntaf oedd Josiah John Guest, Ysw., yr hwn a ddychwelwyd heb wrthwynebiad. Yn 1835, daeth William Meyrick, Ysw., Cyfreithiwr i'r maes yn ymgeisydd am yr anrhydedd, ond rhoddodd i fyny cyn yr etholiad, fel y dychwelwyd J. J. Guest. Yn 1887, ar esgyniad Victoria i'r orsedd, cafodd Mr. Guest ei wrthwynebu gan John Bruce Pryce, Ysw. Ar ddydd yr etholiad cafodd Guest 808 o bleidleisiau, a J. B. Pryce 185. Yn 1888, gwnaed Mr. Guest yn Farwnig, a pharhaodd i gynrychioli y lle yn y Senedd hyd ei farwolaeth yn 1852. Dilynwyd Syr J. J. Guest, Farwnig, yn aelod Seneddol dros Ferthyr, &c., yn 1852, gan Henry Austin Bruce, Ysw., (Arglwydd Aberdar), a pharhaodd i gynrychioli y lle hyd 1868. Yn rhinwedd Ysgrif Ddiwygiadol 1867, cafodd Merthyr hawl i anfon dau aelod i'r Senedd, ac yn 1868, bu yn etholiad brwd iawn. Ar ddydd yr etholiad, Tach. 17, yr oedd y pleidleisiau fel hyn :—

|                          |     |     |     |        |
|--------------------------|-----|-----|-----|--------|
| Dros Henry Richard ...   | ... | ... | ... | 11,688 |
| „ Richard Fothergill ... | ... | ... | ... | 7,489  |
| „ H. A. Bruce ...        | ... | ... | ... | 5,776  |

## HANES GREFYDDOL MORGANWG.

Ffurf ar addoli yw crefydd, sef cyfundrefn addoliadol; ac y mae nifer y cyfundrefnau hyn yn dra lluosog, hyd y nod yn eingwlad ni. Ni fwriedir pa fodd bynag, yn y tudalenau canlynol, fanylu, a chwilio cilsfachau tywyllion Derwyddiaeth, dim ond crybwyll fod Cromlechau Dyffryn Goluch, yn Mro Morganwg; Coeten Arthur yn Mro Gwyr, &c., yn llefaru a thafodau ceryg wrthym ni yn yr oes hon, am gyssegredigrwydd y manau hyn yn amser y Derwyddon.

Bernir hefyd, fod Cromlech yr Hen Eglwys, Trelales; Cromlech Marcros, Carn Moesen, &c., wedi ei cyssegru yn addol-leoedd Cristionogol, gan y Derwyddon eu hunain, ar eu gwaith yn gadael eu hen ffurf o addoli, a chofseidio ffurf newydd, gwell, a phurach.

Nid wyf yn gwybod fod amheuaeth nad yn Morganwg y pregethwyd Cristionogaeth gyntaf yn Mhrydain; ond pwy oedd y person a gafodd yr anrhydedd o ddwyn y newyddion da yma gyntaf, sydd heb ei benderfynu gan haneswyr, ac nid yw yn debygol y penderfynir ef bellach. Enwir pob un o'r personau canlynol fel yr efengylwyr cyntaf yn Mhrydain:—Yr Apostol Paul; Joseph o Arimathea; Simon Zelotus, Aristobulus, Iago'r Apostol, Bran ab Llyr, a Lles ab Coel.

Mae cryn wahaniaeth barn hefyd o barth yr amser y dygwyd yr efengyl gyntaf i'r wlad hon. Barna rhai ei bod yma mor fore a'r flwyddyn 58, B.A. Ereill a nodant y flwyddyn 61, B.A.; tra y mae dosparth arall o haneswyr yn dweyd mai rhwng y blynyddau 169 a 180, y daeth yr efengyl yma, gan nodi y flwyddyn 178, fel yr hon y sylfaenwyd Eglwys Llandaf, ac y pennodwyd Dyfan yn esgob iddi.

Dywed pleidwyr y syniad mai i Bran ab Llyr y perthyn yr anrhydedd o ddwyn Cristionogaeth i Brydain, iddo ar ei ddychweliad o Rufain, ar ol bod yno saith mlynedd yn garcharor yn ngwystl ei fab Caradog, ddyfod a phedwar pregethwr gydag ef, sef Iliid, Cyndaf, Mawen, ac Aristobulus, sef Arwystli Hen y Cymry, yn y flwyddyn 58 B.A. Ond y mae wedi ei brofi bellach debygwyf, tuhwnt i amheuaeth, gan Mr. T. Stephens, Merthyr; yn ei Draethawd ar Wareiddiad Cenedl y Cymry, a chan y Professwr Rees yn ei Draethawd ar y Seintiau Cymreig, oddiar dystiolaeth Dion Cassius, Tacitus, &c., mai mab Cynfelyn oedd Caradog y rhyfelwr, ac nid mab Bran ab Llyr, a'm barn o barth y stori yn nghylch Bran yw, mai chwedl Fynachaidd ydyw. Ond er profi nad oedd perthynas rhwng Bran a Charadog, etto nid yw Professwr Rees ac ereill yn ceisio amheu nad yn Morganwg y pregethwyd Cristionogaeth gyntaf yn y wlad hon. Etto, a chan-iataw na ellir enwi unrhyw berson neillduol fel y cenadydd efengylaidd cyntaf yn Mhrydain, yn gymmaint â bod llengoedd o'r Rhufeiniaid yma yn y canrif gyntaf, a bod tramwy mynych rhwng y ddwy wlad, a sicrwydd fod Paul wedi dwyn yr efengyl i Rufain, ymddengys yn ddigon dichonadwy a thebygol, i'r efengyl gael ei dwyn i'r wlad hon hefyd yn y canrif gyntaf. Heblaw hyn, os oedd Iliid yn byw tua chanol y canrif gyntaf, a gadael allan ei gyssylltiad â Bran ab Llyr,

Arwystli Hen, Cyndaf, a Mawen, mae yn amlwg iddo ef lafurio yn Morganwg, ac nid yw yn annhebyg, nad yn yr ardal y saif Llanilid yn bresenol y preswyliaï. Ond, a gadael hynyna, ymddengys yn eglur fod gwawr Cristionogaeth wedi tori yn Morganwg tua'r flwyddyn 169, a bod yma bersonau yn credu yn Nghrist, cyn i'r brenin Lleurwg (*Lucius*), (yr hwn a elwid hefyd, wrth yr enw Lles ab Coel, a Lleurfer Mawr) anfon Medwy ac Elfan i Rufain, at yr esgob Eleutherius, i ddymunio arno anfon gwyr cymhwys i'r wlad hon i sefydlu a threfnu materion perthynol i grefydd Crist. Os mai angen sefydlu eglwys, a threfnu materion crefyddol yn rheolaidd oedd ar Lleurwg, mae hyn yn lled awgrymu fod yma rai yn credu eisoes; a bernir fod Medwy ac Elfan yn eu plith. Ymddengys i'r personau hyn gael derbyniad croesawus yn Rhufain, ac mai yno y cawsant eu bedyddio; a dywed hanesiaeth iddynt aros yno am beth amser i dderbyn addysg Cristionogol. Ar eu dychweliad, daeth Ffagan a Dyfan gyda hwynt, i'r dyben o sefydlu Cristionogaeth yn mhlith y Cymry. Bedyddiwyd Lleurwg, a'i denlu, yn nghyd ag aelodau ei Lys i'r ffydd Gristionogol, ac adeiladwyd lle cyfeus i gyd addoli yn Llandaf; yr hon oedd yr Eglwys gyntaf yn Mhrydain.

Barna rhai i eglwysi Cristionogol gael eu sefydlu yn fuan ar ol hyn yn St. Ffagan, Merthyr Dyfan, a Llanfedwy; a bod Ffagan, Dyfan, a Medwy, yn gwasanaethu yno yn ogystal ag yn Llandaf. Ymsefydlodd Elfan yn Glastonbury, yn Ngwlad yr Haf, lle y sylfaenodd eglwys Gristionogol. Barna rhai haneswyr i Lleurwg roddi y llywodraeth i fyny, a myned yn genadwr efengylaidd i'r Cyfandir; ac iddo ar ol teithio trwy Bavaria, Rhaetia, &c., gael ei ferthyru yn Switzerland, ac iddo gael ei gladdu yn Eglwys Coire, yn y wlad hono.

Pan gynnaliwyd cyfarfodydd y "*Royal Archaeological Society of Great Britain and Ireland*," yn Nghaerdydd, darfu i Ardalydd Bute, yn ei araeth agoriadol, Gor. 25, 1871, wrth gyfeirio at y brenin Lleurwg, ddweyd fod yn ei feddiant Lyfr yr Offeren (Missal), perthynol i Eglwys Coire, wedi ei argraffu oddiar y flwyddyn 1497, a'r unig gopi y gwyddai ef am dano. Ychwanegai, fod yn y copi hwnw amryw gyfeiriadau at Lleurwg, o'r hyn lleiaf, ei fod ef yn cael ei dueddu i gredu hyny. Dywedai fod darn o farddoniaeth ar ddiwedd y lyfr, mewn Lladinaeg hynafol a hynod, a bod yn y gerdd amryw eiriau nad oedd ef erioed wedi eu dysgu yn yr ysgol, megys "*Galia*" (Gwalia), &c., a sylwai mai "*Pays de Galles*" y gelwir Cymru yn y Ffrengaeg yn awr, ac mai "*Gallois*" y gelwir y Gymraeg. Sylwai yr Ardalydd yn mhellach, fod y gair "*Britain*" yn cael ei nodi yn y llyfr fel enw mam, neu wlad fagol y gwr enwog sydd yn gorwedd yno.

Mewn ymddyddan fu rhyngwyf a'r Parch. J. D. Jenkins, D.D., Canon Rhydychain, Ficer Aberdar, dywedai iddo fyned unwaith o Ffrainge i Switzerland, yn bwrpasol er mwyn gweled bedd, neu Gist (*Shrine*) Lleurwg, yr hon sydd wedi ei gwneyd o arian; a dywedai fod traddodiad yn mhlith y trigolion yn bresenol, mai brenin o Brydain gafodd ei gladdu yno. Nis gellir gwybod pa faint o wirionedd sydd yn y traddodiadau hyn, na pha faint o ymddiried ellir roddi iddynt;

etto, credwyf na ddylid gwadu bodolaeth Lleurwg, fel ag y gwna rhai. Diambheu i'r fath bersonau a Lleurwg, Dyfan, Ffagan, Medwy, Elfan, ac Ilid, lafurio yn ddiwyd ac ymdrechgar i sefydlu Cristionogaeth yn Morganwg, a pharthau ereill o'n gwlad. Nid wyf yn gallu gweled un rheswm dros gredu mai personau dyohymmygol yw y rhai hyn, oblegid y mae'r Eglwysi sydd wedi eu cyssegru iddynt yn brawf digonol i mi, fod y fath bersonau wedi bod yn dal rhyw gyssylltiad â'r lleoedd hyn.

Barna yr haneswyr eglwysig manylaf a mwyaf beirniadol i'r Eglwys Gymreig fod yn hynod lwyddiannus, tua diwedd yr ail ganrif, hyd nes i erledigaeth greulon godi dan Dioclesian, yr Ymherawdwr Rhufeinig, yr hon medd haneswyr, a fu mor eithafol, fel y difawyd y Cristionogion agos yn llwyr o'r byd. Dichon mai dyna'r pryd y merthyrwyd Dyfan, ac mai o'r herwydd y gelwir ei Eglwys Merthyr Dyfan.

Ymddengys pa fodd bynag i gryn lwyddiant fod ar Gristionogaeth yn y wlad hon a gwledydd ereill dan yr Ymherawdwr Constantius, a'i fab Constantine, yr hwn a elwid Cystenyn Fawr. Bu Constantius farw yn Mhrydain yn y flwyddyn 306, medd y Proffeswr Rees; yn y fl. 812, medd *History of Rome*.

Yn amser yr Ymerawdwr Valentinian, yr hwn a esgynodd i orsedd Rhufain yn y flwyddyn 864, anfonwyd Theodosius i'r wlad hon i ddarostwng y Pictiaid a'r Scotiaid, y rhai oeddynt wedi oodi gwrthryfel yn erbyn yr awdurdodau Rhufeinig. Dywed hanesiaeth fod Theodosius yn ffatriol iawn i'r Cymry, ac iddo sefydlu math o athrofa yn Nghaer-Worgorn (Llanilltyd Fawr wedi hyn), a gelwid yr athrofa wrth yr enw Cór Tewdws.

Wedi hyn, aeth Cristiongion Morganwg i ymbleidio, a gwrthwyn-ebu eu gilydd, mewn perthynas i athrawiaethau Morgan (*Pelagius*), yr hwn medd rhai haneswyr, oedd enedigol o ardal y Bontfaen, ac a addysgwyd yn Mangor Is-coed, Swydd Fflint.—*Murray's Book of S. Wales*, p. 14. Yn ngwyneb yr ymrysonau hyn, anfonodd gwrthwyn-ebwyr Morgan yn Morganwg, genadau i Lydaw yn Ffraince, i ddy-muno ar yr eglwys yn y wlad hono, anfon gwyr dysgedig i'r wlad hon, i ddarostwng y cyfeiliornadau. Wedi galw cymmanfa i ystyried yr achos, penderfynwyd anfon Garmon a Bleiddian (Lupas) i Gymru, i ddwyn pethau i drefn, a buont i raddau yn llywyddiannus. Mae dwy Eglwys wedi eu cyssegru i Fleiddian yn Morganwg, sef Llanfleiddian Fawr, ger y Bontfaen, a Llanfleiddian Fach,—*St. Lythans*. Wedi gostegu yr ymrafaelion, dychwelodd Garmon i Ffraince, ond ni fu yno yn hir, cyn i alwad ddyfod arno drachefn i dalu ail ymweliad â Chymru i'r un dyben a'r tro cyntaf. Ar ei ail ymweliad, dygodd gydag ef Severes, esgob Treiers, Illtyd ei nai, a Chrallo ei gyfaill. Ar yr ymweliad hwn o'i eiddo, darfu i Garmon sefydlu dwy athrofa yn Morganwg; un yn y man y bu Cór Tewdws yn flaenorol, a'r llall yn Nant Carfan, a elwir Llancarfan yn bresenol. Dywed rhai haneswyr iddo bennodi Dyfrig Beneurog yn athraw Nant Carfan, ac yntau ei hun yn brif esgob. Dywed rhai mai gwr dysgedig o ardal Abergwaun oedd Dyfrig, tra y dywed Proffeswr Rees, ac ereill, mai mab Brychan Brycheiniog oedd. Yn ol rhai haneswyr, Illtyd bennodwyd gan

Garmen yn athraw Caer Worgorn, a Lupus yn brif esgob, yr hyn sy'n awgrymu na ddychwelodd Lupus gyda Garmon i Ffrainge, ar ol ei ymweliad cyntaf â Chymru. Myn rhai fod Illyd yn rhy ieuanc y pryd hwnw i fod yn athraw y sefydliad, ac mai Dyfrig a'i pennododd yn athraw ar ol hyny. Ymsefydlodd Crallo yn Ngorwennydd, a sefydlodd athrofa yn y lle a elwir Llangrallo yn awr. Diamheu mai Llandaf, Llanilltyd Fawr, Llancaf, Llangrallo a Margam oeddynt y lleoedd pwysicaf yn Morganwg mewn ystyr grefyddol am oesoedd lawer, a chan y rhoddir hanes y manau hyny yn eu lleoedd priodol, gadewir y manylion yn awr er arbed ail adroddiad.

Gyda golwg ar Hen Eglwysi Morganwg, y maent yn dri dosparth neu ychwaneg. I'r dosparth blaenaf, y perthyn y Llanau hynaf, y rhai ar y cyntaf nid oeddynt luosog. Yr ail ddosparth yw yr Eglwysi a elwir Capeli Anwes, y rhai a adeiladwyd er mwyn cyfieustra, gan osod Curadiaid i wasanaethu ynddynt. Enw y trydydd ddosparth yw Bettws, y rhai a berthynent yn wreiddiol i'r Fam Eglwys. Mae llawer iawn o gyfnewidiadau wedi cymmeryd lle o bryd i bryd mewn cyssylltiad â'r Eglwysi hyn, fel y mae llawys o'r ddau ddosparth olaf yn Eglwysi plwyfol yn awr, tra nad oeddynt ar y cyntaf ond capeli perthynol i Eglwysi ereill.

Bernir fod llawer o'r Llanau, sef Eglwysi y dosparth blaenaf, wedi eu sylfaenu gan y personau y maent wedi eu cyssegru iddynt, tra y ceir crybwyllion yn y Cofnodion Cymreig, y Myfyrian Archaeology, a'r Iolo M.S.S., am bersonau wedi adeiladu ereill. Mae ail gyssegru hefyd wedi bod ar amryw o'r Llanau, fel y maent wedi colli eu henwau gwreiddiol.

Yn y daflen ganlynol, rhoddir enwau Eglwysi'r dosparth hynaf, mewn prif lythyrenau; ac enwau'r seintiau eu cyssegrwyd iddynt rhwng cromfachau. Dynnoda'r llythyrenau Italaidd Eglwysi a Chapeli Eglwysig ag sydd wedi diflanu, neu ynte yn adfeilion.

ABERAFON.—(Mair Forwyn) Llanfaglan (Baglan).

ABERBARRI.—(St. Nicholas) Capel Ynys Barri (Barrog).

ABERTAWY.—(Mair) St. Thomas. Eglwys y Drindod 1848. Eglwys St. Iago, 1867. Eglwys St. Pedr; St. Helen; St. Nicholas; St. Thomas. Ysgoldai trwyddedig yw tri'r olaf; a'r cwbl yn gapeli anwes i Eglwys Fair.

CAERAU.—(Mair) Llanweirydd oedd yr enw cyntefig, am mai Gweirydd ab Brochfael a'i hadeiladodd.

CAERDYDD.—(Eglwys Fair); etto, (EGLWYS IOAN). Adeiladwyd yr EGLWYS FAIR bresenol yn 1842, yn lle'r un syrthiodd yn 1607. Eglwys St. Andrew, 1868, sydd gapel anwes dan Eglwys Ioan; Eglwys yr Holl Saint (Eglwys Ddosparthol). Eglwys haiarn y morwyr, yn mhlwyf Mair.

EGLWYS CASLWCHWR.—(St. Michael).

EGLWYS CASTELL NEWYDD PENYBONT.—(Illyd). 2. *Llangeuydd* (Cewydd), Bettws, (Dewi Sant). Trelalys (Dewi Sant). Llanddudwg (Tudawg). 3. Aberceffig (Sant Ioan). Mae Trelalys, a Llanddudwg yn blwyf yn awr.

- CENFFIG**, neu Llan Fawdian, (Mair Magdalen). Pil (St. Iago).  
**CILYBBYLL**.—(Ioan yr Efyngylwr).  
**COERTY**.—(Mair). Hengastell Penybont (Mair).  
**COGAN**.—(St. Pedr).  
**EGLWYS BREWIS** (*Brevis*).  
**EGLWYS ELIAN**.—(Elian). Llanfabon (Mabon). Capel Martin  
 (Martin). Eglwys Glyn Taf. 4.  
**EGLWYS FAIR y Mynydd** (Mair).  
**EWENNI**.—(St. Michael).  
**GELLIGAER** (Cattwg). *Capel Gwladus*. Capel Brithdir.  
**GILESTON** (St. Giles).  
**GLYN COBRWG** (Ioan Fedyddiwr). Capel Blaengwraich.  
**LEGWYDD**.—(St. Iago).  
**LLAN ANDRAS FAWR**.—(Andras ab Rhun yn gyntaf; yna Andreas  
 yr Apostol).  
*Llan Andras Fach*.—(Andras yr apostol). Diflanedig.  
**LLANBEDR Y FRO**.—(St. Pedr) 5.  
**LLANCARFAN**.—(Cattwg). *Llanfeithin, Llangadell* (Cadell).  
**LLANDAF**.—(Dyfrig, Teilo, Odoceus, Pedr). Eglwys Newydd (Mair).  
 Mae'r Eglwys Newydd yn un blwyfol yn bresenol. Eglwys St. Ioan,  
 Canton, sydd Eglwys Ddosparthol yn y plwyf, ad. 1858.  
**LLANDEWI Gwyr** (Dewi). Knelston (St. Maurice).  
*Llandeilo Talybont*.—(Teilo). **PONTARDULAS** (Teilo).  
**LLANDEILO FERWALLT**.—(Teilo). *Capel Caswell*.  
**LLANDOCHWY PENATH** (Dochwy), 6.  
**LLANDOCHWY'R BONTFAEN** (Dochwy).  
**LLANDDUNWYD**.—St. Donat's.  
**LLANDDUW**, neu Landwf (Y Drindod).  
**LLANDYFODWG**.—(Tyfodwg).  
*Llandymor*.—Diflanedig.  
**LLANEDEYRN**.—(Edeyrn), 7.  
**LLAN FAIR** (Mair).  
**LLANFAES**.—(Cattwg).  
*Llanfedwy*.—Diflanedig.  
**LLANFADOG**.—(Madog).  
**LLANFIHANGEL Y BONTFAEN**.—(Michael).  
**LLANFIHANGEL YNYS AFAN**.—(Michael). Eglwys yr Holl Saint, 1856.  
**LLANFIHANGEL UWCH ELAI**.—(Michael).  
**LLANFIHANGEL Y PWLL**.—(Michael).  
**LLANFLEIDDIAN FAWR**.—(Bleiddian—yna Ioan Fedyddiwr). Llan-  
 ddunwyd, sef Welsh St. Donat's—a'r Bontfaen. Mae'r ddau le olaf  
 yn blwyfi annibynol yn awr.  
**LLANFRYNACH**.—(Brynach Wyddel) Penllin. Yr olaf yw'r brif Eg-  
 lws yn bresenol, a'r flaenaf yn israddol iddi.  
**LLANGATTWG ger Barri**.—(Cattwg).  
**LLANGATTWG GLYNNEDD**.—(Cattwg), Capel Creunant. Aberpergwm  
 (Cattwg). Eglwys Ddosparthol Sciwen (St. Ioan). Capel Esgobol.  
**LLANGANNA**, neu Llangan.—(Canna Santes.)

- LLANGEINOR.—(Ceneu, neu Ceinwyr).  
 LLANGENNYDD.—(Cennydd).  
 LLANGIWG.—(Ciwg). Eglwys St. Peter, Pontardawe, 1802. Eglwys y Drindod, Ystalyfera.  
 LLANGRALLO.—(Crallo). Llanbedr ar Fynydd.  
 LLANGYNWYD.—(Cynwyd). Eglwys Maesteg, 1852.  
 LLANGYFELACH.—(Dewi, yna Cyfelach). Llan samled (Samled). Eglwys St. Ioan, Clydach. Eglwys St. Ioan, Treforris, 8.  
 LLANABRI, neu Llanarai (Garai, yna Illtyd).  
 LLANILID.—(Iid a Churig). Llanharan (Aaron a Julius).  
 LLANISAN.—(Isan).  
 LLANILLTYD FAWR.—(Illtyd). *Capel y Forwyn* (Mair).  
 LLANILLTYD GWYR, sef Ilston (Illtyd). *Llanon* (Non).  
 LLANILLTYD NEDD.—(Illtyd). Castell Nedd (St. Thomas). Rhwsolfen, ac *Hen Capel yr Ynys Fach*, 9.  
 LLANRHIDIAN.—(Rhidian), Capel Rhidian. *Llanlen* (Helen), Eglwys Penclawdd.  
 LLANSANNOR.—*Capel Brigain*.  
 LLANSAWEL, sef Briton Ferry, (Mair), Eglwys St. Clement. Yr olaf ystyrir yn Eglwys blwyf yn awr, er mai yn 1866 y codwyd hi.  
 LLANSANTFFRAID FAWR.—(Ffraid). *Capel Aberogwy. Llanphs* (Phe). Y Wig. Mae'r olaf yn blwyf yn awr.  
 LLANSANTFFRAID FACH.—(Ffraid).  
 LLANSANTFFRAID AR ELAI.—(Ffraid).  
 LLANSANT HILARI.—*Capel y Bwpyr* (Mair).  
 LLANTRISANT.—(Cawrdaf). Yna Illtyd, Tyfodwg, a Gwynno. Llan-illtyd Faerdref (Illtyd). Ystradyfodwg (Tyfodwg). Llanwyno, (Gwynno). *Aberdar* (Ioan Fedyddiwr), Capel Tonyrefail, Capel Talygarn, 10.  
 LLANTRYDDYD.—(Illtyd).  
 LLYSFAEN.—(Gwrhir, yna St. Dennis), 11.  
 LLYSYFRONNYDD.—(Tydfil). *Nash*.  
 LLYWEBNOG, sef Lavernock. (St. Lawrence).  
 MABROS.—(Y Drindod).  
 MARGAM. (Mair).—*Eglwys Nynnyd, Hafad y Porth, Capel Craig, &c.*, Eglwys Taibach.  
 MERTHYR DYFAN.—(Teilo a Dyfan).  
 MERTHYR MAWR.—(Teilo). *Capel St. Roque*.  
 MERTHYR TYDFIL. (Tydfil).—Eglwys Ddosparthol Dowlais; Eglwys St. Dewi; Eglwys Dosparth Penydarren. Eglwys Dosparth Gyfarthfa, Ficeriaeth. Eglwys Troedyrhiw (Ioan Fedyddiwr), Ficeriaeth. Eglwys Pentrebach. Eglwys Grawn Terrace. Eglwys Gymraig Dowlais.  
 MONKNASH.—(Mair).  
 NICHOLASTON.—(St. Nicholas).  
 OXWICH, neu Trenynni (Illtyd).  
 PENARD, sef Penarth Bro Gwyr (Mair).  
 PENARTH, ger Caerdydd (St. Augustine).  
 PENDEULWYN.—(Cattwg).

- PENMAEN.—(Ioan Fedyddiwr).  
 PENMARC.—(Mair). Aberddawen. Capel y Rhos.  
 PENRHYS.—(Mair).  
 PENTYRCH.—(Cattwg).  
 PORTH CERRI.—(Curig).  
 PORTH EINION.—(Cattwg).  
 RHADYR.—(Ioan Fedyddiwr).  
 REYNOLDSTONE.—(St. George).  
 RHOTh, sef Roath. (St. Margaret). Eglwys Crist, Splottlands.  
 RHOSILI, neu Rhosffili (Mair).  
 RHYDRI.—(St. Iago). Perthynai gynt i'r Bedwas, Mynwy.  
*St. Ffagan.*—(Ffagan). Adeilion yn 1540, St. Ffagan presenol.  
 Capel Llanelldeyrn (Elldeyrn). *Llanfair* (Mair).  
 St. GEORGE, neu Llanufelwyn (Ufelwyn, ac yna St. George).  
 St. NICHOLAS, neu Llancinydd.  
 St. TATHAN.—(Tathan).  
 SULI (Ioan Fedyddiwr).  
 TREFFLEMING.—(Michael).  
 TRE GOLWYN.—(Michael).  
 TRESIMWN.—(Mair).  
 TRE NEWYDD NOTTAIS.—(Ioan Fedyddiwr).  
 WENFO.—(Mair).  
 YSTRAD OWEN.  
 YSTUMLLWYNARTH, sef Oystermouth (Yr Holl Saint).

### NODIADAU.

1. Barna rhai mai Baglan mab Ithel Hael o Lydaw oedd hwn, a'i fod yn byw yn y 4ydd ganrif. Eraill a farnant mai Baglan mab Dingad, 6fed ganrif a'i sylfaenodd.

2. Tua'r flwyddyn 1115, tynodd Lalys Eglwys Llangewydd i lawr, ac a'r defnyddiau, adeiladodd Eglwys Trelalys.

3. Tudawg, ydoedd fab Tyfodwg, 6fed ganrif. Addysgwyd ef yn Athrofa Cennydd yn Mro Gwyr.

4. Eglwys Elian a Llanfabon. Er mai Capel Anwes, dan Eglwys Elian oedd Llanfabon ar y cyntaf, mae bellach yn annibynol arni. Eglwys Ystrad Mynach (Dosparthol), ac Eglwys St. Cynon, ydynt yn mhlwyf Llanfabon. Mae Eglwys Ddosparthol Glyn Taf hefyd yn mhlwyf Eglwys Elian; ac Eglwys St. Catherine Pontypridd, dan Eglwys Glyn Taf.

5. Adeiladwyd Llanbedr-y-Fro gan Rys, wyr Morgan Mwynfawr.

6. Daeth Dochwy gyda Chadfan i'r wlad hon, ac a drigasant yn Ynys Enlli. Pan fu farw Cadfan, cymmerodd Dochwy ofal esgobaeth Llandaf, tra bu Teilo yn Ynys Enlli, yn trefnu matterion y Fynachlog yno. Bernir mai efe sylfaenodd y ddwy Landochwy yn Morganwg yn y 6fed ganrif.

7. Edeyrn ac Elldeyrn, oeddynt frodyr, meibion Gwrtheyrn Gwrth-eneu,



8. Mae Llanfamed yn Fam Eglwys er ys oesoedd, a'i merched dynt Eglwys St. Ioan, ac Eglwys Cilfai.

9. Llanilltyd Nedd. Capel perthynol i Lanilltyd oedd St. Thomas, Castell Nedd yn 1111; ond wedi hyn gwnaed yr olaf yn Fam Eglwys; ac y mae Eglwys St. David, a Chapel Melincryddan yn gangenanau o honi.

10. Llantrisant. Mae cyfnewidiadau pwysig wedi bod yma. Mae Aberdar, Llanwynno, ac Ystradyfodwg bellach yn Ficeriaethau; ac amryw Eglwysi a Chapeli wedi tyfu o honynt, megys Eglwys Rhondda (Dewi Sant) yn gapel anwes perthynol i Lanwynno:—Eglwysi Treorci, a Threherbert yn gangenanau o Ystrad Dyfodwg. Mae hen Eglwys Aberdar yn adfeillion, ond y mae Eglwysi ardderchog St. Eلفan, Eglwys Fair Maesydfref, Eglwys yr Holl Saint Hirwain, Eglwys Ddosparthol St. Ffagan, Trecynon, Eglwys haiarnu Cwmaman, &c., yn ganganau o honi; etto Llantrisant oedd y Fam Eglwys.

11. Gwrhir oedd Fardd Teilo, a bernir mai efe sylfaenodd Eglwys Llysfæen.

Mae yn amlwg oddiwrth y dafsen flaenorol fod amryw o'r Eglwysi plwyfol presenol wedi bod yn Gapeli Anwes (*Chapel of Ease*), i Eglwysi hynach, neu o'r hyn lleiaf a ystyrir yn uwchraddol. Mae rhai o'r Eglwysi uwchraddol hefyd wedi eu troi yn israddol, megys Llanfrynach, Llanfawel, &c. Hefyd, y mae yr ychwanegiad sydd wedi cymmeryd lle yn rhifedi yr Eglwysi, yn enwedig yn yr oes hon, yn dangos yn eglur fod Eglwyswyr Morganwg yn hynod lafurus, a bod llwyddiant mawr wedi dilyn eu llafur.

Tuedd Ab Ithel ac ereill i farnu nad ymostyngodd Esgobaeth Llandaf i awdurdod y Pab hyd ddyfodiad y Normaniaid yma; ond barnwyf fod hanes Llandaf yn profi yn wahanol. Fel y gwyr y darllenydd, parhaodd Eglwysi Lloegr a Chymru, ac eiddo Morganwg yn eu plith, mewn undeb ag Eglwys Rhufain, hyd nes i Harri VIII., gyhoeddi ei hun yn ben ar Eglwys Lloegr; ac yn fuan coleddodd egwyddorion Protestanaidd Luther. Gosododd Harri swyddogion ar waith hefyd i ddi-feddiannu y Mynachlogau o'u cyfoeth, a thafwyd y mynachod, lawer o honynt ar drugaredd y wlad. Dyna yr amser yr yspeiliwyd Mynachlog Nedd, Mynachlog Margam, ac eiddo yr Ewenni, &c.

Wedi marwolaeth Harri, ac yn ystod teyrnasiad ei fab Edward VI., parhaodd y wlad yn Brotestanaidd; ond wedi coroni Mari ei ferch yn 1558, bu iddi ddefnyddio ei holl ddylanwad, i adsefydlu Pabyddiaeth yn Mlyrdain; ac yn 1556, bu yma erledigaeth greulawn ar y Protestaniaid. Dyna pryd y cafodd Rolins White ei ferthyru yn Nghaerdydd. Pan esgynodd Elizabeth i orsedd Prydain ar farwolaeth ei chwæer Mari, yn 1558, gwaharddwyd Pabyddiaeth, ac adsefydlwyd Protestaniaeth yn Grefydd Wladol; a chafodd rhai cannoedd o'r offeiriad eu troi o'u swyddi, am wrthod cymmeryd y Llwon Protestanaidd, &c.

Yn fuan ar ol hyn, dechreuodd Ymneillduath wneyd ei hymddangosiad yn Nghymru, ac yn Morganwg yn gyntaf. Yr oedd Elizabeth a'i llywodraeth mor greulon i'r Ymneillduwyr, ag oedd Mari i'r Protea-

taniaid. Tueddir ni i gredu mai cychwynwyr Ymneillduaseth Cymru oedd rhai o'r offeiriaid a ddiswyddwyd gan Elizabeth.

Cyfnodau pwysig ereill yn hanes yr Eglwys Sefydledig yn Morganwg fel manau ereill yn y deyrnas, ydoedd y Chwiltroad Cromwellaidd yn 1649—59; a'r adferiad yn 1662, dan Charles II.

Mae haneswyr wrthson am y cyfnodau hyn, mor amrywiog a chroesi'w gilydd, fel mai annichonadwy braidd, yw tynu llinell gywir rhyngddynt. Mae'r dosparth Eglwysig o haneswyr, lawer o honynt, yn condemnio Oliver Cromwell, Vavasor Powell, Hugh Peters, y Milwriad Phillip Jones, ac ereill, mewn iaith gref a garw; am ddiswyddo offeiriaid ac ysgolfeistri, a gosod dynion anghymhwys, ac heb urddau yn eu lleoedd.

Mae'r haneswyr Ymneillduol o'r tu arall, mewn iaith llawn mor gref, yn condemnio Charles II., a'i lywodraeth am ddiswyddo, neu fod yn achos i *ddwy fil* o weinidogion yr Eglwysi ymadael. Nid amcanaf ddadleu y pwne hwn y naill ochr na'r llall; ond gosodaf i lawr ychydig ffeithiau mewn cyssylltiad â'r ddau gyfnod, a barned y darllynydd drosto ei hun.

Yn y flwyddyn 1649, pasiwyd Act Seneddol, er lleadaenu yr efengyl yn Nghymru. Pennodwyd Hugh Peters, a'r personau ereill a enwyd uchod, yn ddirprwywr dan Cromwell i gario yr Act allan. Yr oedd yr offeiriaid wrth reswm yn elynol i Cromwell, gan ei fod yn pleidio *Puritaniaeth* mor frwdfrydig; ac yr oedd yntau fel yr ymddengys yn teimlo yn anffoddlon iawn iddynt hwythau, am eu bod mor bleidiol i achos Charles I.

Yr oedd Charles yn 1638, wedi gorohymyn i'r offeiriaid i ddarllen o'r pwlpidau, y cyhoeddiad, fod y chwarsuon yddiaethau Sabbothol (*Sunday sports*) a arferid gynt, i gael eu hadsefydlu, er difyrwch y werin. Ymddengys fod y chwarsuon hyn yn cael eu harfer gan y bobl, a'u goddef gan yr offeiriaid, pan ymwelodd y Dirprwywr â Chymru. Barnodd rhai o'r dirprwywr y dylasid diswyddo yr offeiriaid am hyn, a gosod y degwm yn y Drysorfa Wladol; ac i wneyd y diffyg i fyny, barnwyd y dylid cyflogi chwech pregethwr teithiol yn mhob sir, gyda chyflog o £100 yr un yn flynyddol. Dygwyd hyn i weithrediad; a phennodwyd dynion i bregethu yn yr Eglwysi yn lle yr offeiriaid. Dengys y rhes ganlynol, yr offeiriaid a ddiswyddwyd yn Morganwg gan Cromwell:—

#### YR OFFEIRIAID DDISWYDDWYD YN MORGANWG GAN OLIVER CROMWELL.

Thomas Basset, Llantrisant, Llanwynno, ac Aberdar.

William Basset, Trenewydd Nottais, drowyd allan yn 1644.

Gosodwyd Arnold Butler yn ei le. Diswyddwyd yntau, a chafodd un Elliot ei le, a bu yn y swydd hyd yr adferiad.

— William, A.C., St. Brides.

William Revan, Cas'lwchwr. Cafodd un John Roberts ei le.

John Butler, Penarth a Lavernock. Rhoad un o'r enw Alsop yn ei le.

— Fowler, Llantryddydd ac Abersili.

- Covy, Gelligaer. Dewisodd y plwyfolion David Davies yn ei le.
- David, Aberafan a Baglan. Cafodd un Walters ei le.
- David Davies, Llangynhwyd.
- Athanasius Davies, Llanfihangel a Llansantffraid. Cafodd ei swydd yn ol yn yr Adferiad, a bu fyw hyd 108 oed.
- Francis Davies, B.D., Llangan. Wedi yr Adferiad, gwnaed ef yn Archddiacon Llandaf yn 1661, ac yn Esgob yn 1667.
- Davies, Llanfeiddian Fawr, y Bontfaen, a Llanddunwyd.
- William Edwards, Ilston ac Eglwys Brwys.
- Alexander Gordon, Porth Einion. Cafodd un Owen Griffith ei le, yr hwn ar yr Adferiad a droes i erlid Ymseillduwyr.
- Edmund Gamage, Llanharan. Yn ystod llywodraeth Cromwell, bu Howell Thomas a Thomas Joseph (dau Fedyddiwr) yn gwasanaethu yn yr Eglwys hon.
- Nathaniel Garrage, Eglwys Elian a Llanfabon. Adferwyd ef.
- Edward Gamage, A.C., Llangennydd a Rhosili. Cafodd un Higgs ei le; ond cafodd ef yn ol ar yr Adferiad, a gwnaed ef yn Archddiacon Llandaf.
- Hugh Gore, Oxwich a Nicholaston. Symmudodd ef i gadw ysgol yn Abertawy, lle y bu farw. Methodd gael ei le yn ol ar yr Adferiad, ond cafodd yr Owen Griffith y soniwyd am dano ei fywoliaeth ef.
- Griffiths, Llanfeiddian Fach (*St. Lythan's*).
- Isaac Griffiths, Llangyfelach. Cafodd Dafydd John Richards ei le; ond adferwyd Griffiths.
- Morgan Hopkins, Eglwys Fair, Abertawy. Cafodd W. Jones ei le.
- William Houghton, Ilston. Trowyd un o flaen hwn oddiyma. Cafodd John Miles, Bedyddiwr, le Houghton; ac ar yr Adferiad, symmudodd J. Miles i America.
- Richard Jones, Ystrad-Owen.
- Lewis Williams, St. Ffagan's. Cafodd un Ellis ei le, ac aeth Mr. Williams i gadw fferm yn Lllysfaen hyd yr Adferiad.
- Nathaniel Jones, Merthyr Tydfil. Cafodd un Jenkin Jones, Bedyddiwr, ei le ef.
- Oliver Chevers, Merthyr Dyfan.
- Hugh Lloyd, St. Andrew's.
- Evan Price, B.D., St. Athan.
- Thomas Maddocks, Merthyr Mawr.
- Thomas Morgan, St. Donat's.
- George Parry, A.C., Llanfadog.
- George Prichard, Llansannor.
- Theodore Price, Caerdydd.
- Ledbury, Llangrallo.
- Slugg, Llanilltyd Fawr.
- Wilkins, Llandyfodwg.
- Walter Williams, Castellnedd.
- Henry Williams, Trefleming.
- William Jenkins, Llancarfan.
- John Wilson, Barri a Phorthcerri.

Morgan Owen, D.D., Esgob Llandaf; a Christopher Reynolds, Ficer Llandaf, &c.

Yn ystod y Cyfnod Puritanaidd, pregethid yn yr Eglwysi Plwyfol gan bersonau awyddus i wneyd daioni a chyfranu lles ysprydol i'w gwrandawyr; a thelid iddynt am eu gwaith yn ol maint eu llafur.

Dengys cofnodion Eglwys Abertawy fod y pregethwyr teithiol yn cael eu talu wrth y bregeth. Yn 1642, talwyd i Lewis Thomas, pregethwr, 4s. 6c. Mr. Morgan am bregethu, 10s.; i bregethwr o Fynwy, 10s., &c.

Pa beth bynag oedd beiau y dynion hyn, nis gellir eu beio am faint eu cyflogau; ac nis gellir barnu oddiwrth y symiau uchod, fod neb personau yn trachwantu yn y swydd er mwyn elw bydol.

Pan derfynodd y Cyfnod Cromwelaidd, ac adfer coron Lloegr i Charles II., pasiwyd *Ddeddf Unffurfiaeth* yn Senedd Prydain, Mai 1662, a daeth i'w grym Awst 24 yr un flwyddyn. Gwrthododd dwy fil o weinidogion yr Eglwys Wladol gydymffurfio â hono; a'r canlyniaid fu, iddynt gael eu troi allan o'u swyddi. Trowyd mwy allan yn Morganwg nâg un sir arall yn Nghymru, yr hyn a ddengys fod egwyddorion Ymneillduwaeth wedi gwreiddio yn ddwfn yma y pryd hwnw.

#### ENWAU Y RHAI A DROWYD ALLAN YN MORGANWG YN 1662.

Jenkin Jones, Llangattwg Nedd, yr hwn a symmudodd i'r lle o Ferthyr Tydfil. Cafodd ef ac amryw o aelodau ei Eglwys eu carcharu yn Nghaerfyrddin.

Samuel Jones, A.C., Llangynwyd. Sefydlodd ef Athrofa Ymneillduol yn Brynlllywarch.

Josuah Millers, St. Andrew's Fawr.

Edmund Ellis, St. Ffagan.

Thomas Proud, Cheriton.

Hywell Thomas, Glyncoerrwg.

Morgan Jones, Llanfadog.

Henry Williams, Llantrisant.

John Miles, Ilston.

William Thomas, Llanfair.

John French, Wenfo.

Marmaduke Mathews, Eglwys St. Ioan, Abertawy.

John Powell, A.C., St. Athan.

Daniel Higgs, A.C., Rhosili

— Elliot, Trenewydd Nottais.

— Alsop, Penarth.

Yr oeddynt yn 24 i gyd; ond methais gael enwau y lleill. Wedi i'r rhai hyn anghydfurfio â'r Ddeddf a nodwyd, hwy a dreuliasant y gweddill o'u hoes i ledaenu egwyddorion Ymneillduwaeth yn y wlad.

## DECHREUAD A CHYNNYDD YMNEILLDUAETH YN MORGANWG.

Anhawdd yw penderfynu pwy oedd tad Ymneillduaeth yn Nghymru, ond cyduna haneswyr yn gyffredinol mai yn Morganwg y cychwynodd, yr un fath ag mai yma y pregethwyd yr efengyl gyntaf yn y wlad. Mae hyn, fel llawer o bethau ereill, yn profi yn eglur mai un o brif nodweddion cymmeriadol gwyr Morganwg yn mhob oes, a than bob amgylchiad, yw teimlad gwrol ac yspryd annibynol. Rhoddir y flaenoriaeth am gychwyniad Ymneillduaeth i'r parthau mynyddig hyny o Forganwg sydd yn cyrhaedd o flaen Cwmgwrach hyd Ferthyr Tydfil. Clywais draddodiad pan oeddwn blentyn, mai offeiriad Eglwys y Faenor, yr hwn a drowyd allan yn amser y Frenhines Elizabeth, oedd cychwynydd Ymneillduaeth yn Nghymru. Dywedid iddo, ar ol cael ei droi o'r Eglwys, symmud i Gwmgwrach i fyw, a'i fod yn arfer pregethu a chynghori ei gymmydogion yn yr ardal hono, ac iddo yn y diwedd ffurfio math o gynulleidfa grefyddol. Nid wyf yn gwybod a oes gwirionedd yn sail i'r traddodiad ai peidio.

Enwir Thomas Llywelyn, Glyn Eithinog, Rhigos (Rhyd-groes), fel y person a gychwynodd Ymneillduaeth. Amaethdy yw Glyn Eithinog yn rhandir Blaengwrach, plwyf Glyncorrwg, tua thair milldir i'r gorllewin o bentref Hirwaun, ac heb fod yn mhell o Gwmgwrach. Cofnodir enw Thomas Llywelyn yn mhlith beirdd Gorsedd Morganwg, yn Eisteddfod Llandaf, yn 1564; a dywed awdwr *The Eminent Welshmen*, ei fod yn Eisteddfod 1560. Nid oes amheuaeth nad oedd Thomas Llywelyn yn wr dysgedig iawn; a phriodolir iddo yr anrhydedd o gyfieithu'r Beibl i'r Gymraeg, a'i fod yn arfer ei ddarllen i'w gymmydogion, ac yn gweddio heb lyfr. Yr oedd wedi cael trwydded i bregethu gan Edmund Grindal, Archesgob Canterbury, yr hyn sydd yn profi ar unwaith ei fod yn offeiriad; ond yn mha Eglwys, sydd anhawdd penderfynu. Gwir fod Capel Eglwysig yn Mlaen Gwrach, yn mhlwyf Glyncorrwg, a hwnw neb fod yn mhell o Llyn Eithinog, ond ni awgrymir fod cyssylltiad rhwng T. Llywelyn â hwnw. Ai nid oes yn hanes Thomas Llywelyn rywbeth ag sydd yn ymddangos yn dobyg mai yr un person yw a'r offeiriad a nodir yn y traddodiad? Pe gallasid profi i T. Llywelyn fod yn offeiriad Eglwys y Faenor, byddai'r cwbl yn oleu; ond dichon mai gormod gwaith yw hyny, er ei fod yn ddigon amlwg mai offeiriad oedd.

Bernir yn gyffredin mai yn Mlaencanaid, plwyf Merthyr Tydfil, y corffolwyd yr eglwys Ymneillduol gyntaf yn Nghymru; a dywed rhai haneswyr mai Thomas Llywelyn, Glyn Eithinog, oedd y gweinidog cyntaf ar yr eglwys hono. Amaethdy yn bresenol, ger blaen afonig o'r enw Canaid, yw'r lle y corffolwyd yr eglwys; a dichon mai amaethdy oedd y pryd hwnw, er y barna llawer mai math o Gapel oedd. Bernir hefyd fod mynwent yn nglyn a'r capel, ac y mae'r ywen sydd yn tyfu yn ngardd Blaencanaid yn awr, yn lled awgrymu hyny.

Anhawdd, os nid anmossibl, yw penderfynu amser corffoliad eglwys Blaencanaid, er fod rhai awdwyr yn nodi y flwyddyn 1620.

Os gwir hyn, ac os mai Thomas Llywelyn oedd y gweinidog cyntaf, rhaid ei fod yn hen iawn ar y pryd, oblegdyr yr oedd 56 o flynyddau erbyn hynyr er pan oedd efe yn Eisteddfod Llandaf. Bu fyw dros 100 o flynyddau. Nis gellir, pa fodd bynag, nodi gyda chywirdeb pa bryd y corffolwyd yr eglwys yn Mlaencanaid, na pha bryd y bu yno, cyn symud i Gapel Cwmglo yn yr un plwyf. Mewn ysgrif alluog yn y *Beirniad*, Ionawr, 1864, dywedir i Gapel Cwmglo gael ei adeiladu yn, neu o gyloch y flwyddyn 1690, ac mai 60 mlynedd oedd hyd y lës. Os yw hyn yn gywir, ac os mai yn 1620 y dechreuodd yr achos yn Mlaencanaid, mae yn amlwg mai 70 mlynedd y bu yr eglwys yn ei chychwynle. Cyd-una'r *Guide to Merthyr* a *History of Merthyr* fod Mr. Vavasor Powell yn mynychu i Gapel Cwmglo i bregethu, a dywed y blaenaf mai efe sylfaenodd yr eglwys yno yn 1620. Nis gall hyn fod yn wir, oblegdyr yn 1617 y ganwyd Vavasor Powell, a bu farw yn 1670, sef ngain mlynedd cyn adeiladu Capel Cwmglo, yn ol tystiolaeth y *Beirniad*.

Yn ol *Returns* y llywodraeth am sefyllfa Ymneillduaeth yn Nghymru yn 1669, sef y flwyddyn y daliwyd yr enwog Vavasor Powell, ac y caroharwyd ef am bregethu yn Merthyr, ceir yr adroddiad canlynol:—"Yn Merthyr, cydgyferfydd yn nhŷ Hywel Rhys Phillip, a thŷ John Morgan, a'r *Werin Gymmysg* a'r *Crynwyr* yn nhai Jenkin Thomas, Henry Thomas, a Lewis Beck. Maent yn dri, pedwar, pump, ac weithiau yn che' chant o rifedi!" Mae y *Returns* hyn yn dangos yn amlwg fod Ymneillduaeth yn gryf iawn yn Merthyr yr amser hwnw; ac yn dweyd yn eglur hefyd, mai mewn tai annedd yr arferai y crefyddwyr ymgynnnull at eu gilydd yn amser Vavasor Powell, yr hyn a ddengys nad oedd Capel Cwmglo wedi ei adeiladu; a digon tebyg mai un o'r personau a enwir yn y *Returns* oedd yn byw yn amaethdy Blaencanaid.

Dywed hanesiaeth fod tua mil o bobl yn gwrando Mr. V. Powell yn pregethu yn mynwent Eglwys Merthyr, yn 1669; ac i George Jones, yr offeiriad, fyned i Gaerdydd at yr awdurdodau, i'w gyhuddo o fod a byddin o wyr arfog yn afonyddu ar heddwch y lle. Yn ngwyneb y owyn hwn, daeth yr Uwch-Gadben Carne a'i fyddin i Ferthyr, a chymmerwyd Mr. Powell i'r ddalfa. Pan ofynodd yn fwyn i'r swyddog ar ba awdurdod yr oedd yn ei ddal, atebwyd ef yn sarug gan Carne, yr hwn a osododd ei law ar ei gleddyf, gan ddyweyd, "Dyma fy awdurdod." Yna cymmerwyd ef i Garchar Caerdydd; ac o garchar i garchar y bu hyd ei farwolaeth y flwyddyn ganlynol.

Er carcharu V. Powell, ni fu Ymneillduaeth Morganwg farw. Yn *Jones's History of Brecknockshire*, dywedir fod 110 o Ymneillduwyr yn mhlwyf y Faenor (sy'n ffinio â phlwyf Merthyr) mewn poblogaeth o 297.

Yn y *Returns* a nodwyd, cyhuddid y pregethwyr oedd yn efengylu i Ymneillduwyr Merthyr, o fod yn euog o ymladd yn erbyn Charles I. yn y Rhyfel Cartrefol; ac yn eu plith, un gwr neillduol o'r enw Cadben Harri Williams. Awgryma y *Returns* hefyd, fod yn Merthyr ar y pryd, ddynion o wahanol olygiadau crefyddol, megys Gwerin Gymmysg, Crynwyr, a Schismaticiaid; neu mewn geiriau ereill, yr oeddynt yn Bresbyteriaid, Bedyddwyr, Crynwyr, &c.

Dywed Malkin yr hanesydd, fod dau gapel Ymneillduol yn Nghymru mor fore a'r flwyddyn 1642, ac mai eiddo Merthyr Tydfil oedd un o'r ddau. Yn y "*Broad Mead Records*," dywed y Parch. Henry Maurice, mai yr eglwysi *caugledig* cyntaf yn Nghymru oedd, eiddo Merthyr Tydfil ac Abertawy.

Dywed rhai haneswyr, fod gweinidog eglwys Merthyr wedi llwyddo am flynyddau lawer, i gadw y gwahanol bleidiau yn lled heddychol a'u gilydd; ond wedi ei farw ef, cymmerodd ymranïad le. Dywedir yr arferai amaethwyr ddyfod ar forenau Suliau o ardal y Berthlwyd, a Gelligaer i Flaencanaid i'r cyfarfod; a barna rhai mai cangen o Flaencanaid yw eglwys y Bedyddwyr yn Hengoed, plwyf Gelligaer. Corffolwyd yr eglwys hono yn 1650. Yr oedd hyny 40 mlynedd cyn adeiladu Capel Cwmglo, yn ol y Beirniad. Saif Amaethdy Blaencanaid ar lechwedd y mynydd rhwng Merthyr ac Aberdar; ac y mae gweddillion adfeiliedig hen gapel Cwmglo, mewn pant cauedig tuag hanner milldir yn nes i dref Merthyr na'r Amaethdy. Mae ffurf yr hen gapel yn debyg i hen ysguboriau Cymru, ac yn mesur 37 troedfedd o hyd, a 19 o led; a'r ystabl sydd yn nglyn ag ef yn 20 troedfedd o hyd, a 15 o led; ac hyd y muriau y tu allan y capel a'r ystabl yn 69 troedfedd. Yn awr, wedi crybwyll barnau haneswyr am ddechreuad Ymneillduaeth yn Nghymru, priodol fydd edrych ar gychwyniad Ymneillduaeth Morganwg o safle arall, gan gymmeryd y flwyddyn 1638 i gychwyn. Yn y flwyddyn hono, gwrthododd y Parch. William Erbury, Ficer Caerdydd; yn nghyd a'i Gurad, y Parch. Walter Cradoc, ag ufuddhau i Charles I, trwy omedd darllen Llyfr y Chwaraeon yn yr Eglwys. Dywed Mr. C. Wilkins, awdwr *The History of Merthyr*, nad oes amheuaeth yn nghyloch fod Walter Cradoc yn weinidog Ymneillduol yn Merthyr, ac iddo gael ei ganlyn gan John Owen. Mae enwau dau offeiriad duwiol Caerdydd yn ddigon adnabyddus yn Nghymru; a'r llwydd fu ar eu llafur yn ddigon adnabyddus hefyd.

Yn 1662, fel y crybwyllwyd, cafodd 24 ereill eu troi allan o Eglwysi Morganwg, y rhai fuont yn help mawr i'r achos Ymneillduol. Mae'n wir i lawer o rwystrau gael eu gosod ar eu ffyrdd, er hyny bu llwydd anarferol ar eu llafur, fel y tystia Ymneillduaeth yn awr. Yn 1664, pasiwyd y *Conventicle Act*, yn gwahardd i fwy na phump o bersonau dros 16 oed, i fod yn bresenol gyda'r teulu mewn unrhyw dŷ, i gynnal addoliad crefyddol. Am y trosedd cyntaf o'r *Act* hon, yr oedd y pregethwr yn agored i ddirwy o £5, neu dri mis o garchariad; am dros-eddu yr ail waith, £10 o ddirwy, neu chwe mis o garchariad; ac am y trydydd drosedd, £100 o ddirwy, neu alltudiaeth am ei fywyd. Yr oedd gwr y tŷ yn agored i'r unrhyw gosp a'r pregethwr; ac os dalesid gwraig briod yn un o'r cyfarfodydd hyn, yr oedd i gael ei charoharu am 12 mis, neu dalu £2 o ddirwy.

Yn 1665 drachefn, pasiwyd "*Deddf y Pum' Milldir*," yn gwahardd i bob pregethwr annghydfurfiol, i fyned o fewn pum' milldir i unrhyw ddinas na bwrdeisdref, allan o'r plwyf yr oedd yn byw ynddo; a phwy bynag a ddelid yn troseddu y ddeddf hon, a ddirwyid o £40. Ond er yr holl rwystrau osodwyd ar ffordd Ymneillduaeth, gan yr awdurdodau

gwladol, aeth yr achos yn mlaen yn llwyddiannus, fel y dengys sefyllfa pethau yn bresenol.

Mae amryw awdwyr galluog wedi myned i gryn lafur, i geisio penderfynu pa un o'r *enwadau* sydd i gael y flaenoriaeth, am gychwyn Ymneillduaeth yn Morganwg. Hona yr Annibynwyr mai hwy sydd hynaf, ac mai eglwys o Annibynwyr ffurfiwyd yn Mlaencanaid yn 1820; ond rhaid yw dweyd fod hynyna yn amheus iawn. Gwir i'r eglwys oedd yn Mlaencanaid symmud i gapel Cwmglo; a phan aeth lés y capel hwnw allan yn 1747, ymwasgarodd yr aelodau,—aeth un gangen i Gefn-coed-y-cymmer, (1747). Cangen arall i'r Ynysgau, Merthyr yn 1749; ac yn mhen dwy flynedd ar ol hyny, sef yn 1751, adeiladodd cangen arall Hen Dy Cwrdd, Heol-y-Felin, Aberdar.

Mae yn amlwg fod dwy blaid yn Nghwmglo, cyn i'r lés fyned allan, a chan y naill a'r llall o'r pleidiau weinidog. Yn 1700, enw gweinidog Cwmglo oedd Roger Williams. Yn 1720, daeth James Davies, o Lanwrtyd, yn weinidog i'r lle, yr hwn oedd o ddaliadau Calfinaidd. Arminiad selog oedd Roger Williams, a bu dewisiad James Davies yn olynedd iddo, yn dramgwyddus i'r blaid Arminaidd. Yn 1788, darfu i'r blaid Arminaidd ordeinio un Richard Rees yn weinidog iddynt hwy, tra y parhaodd James Davies yn weinidog i'r blaid Galfinaidd. Pan aeth y lés allan, aeth Richard Rees a'i blaid i Gefn-coed-y-cymmer; ac aeth James Davies a'i blaid i'r Ynysgau yn 1749. Y flwyddyn ganlynol, sef yn 1750, urddwyd mab James Davies, yn gydweinidog ag ef; ac yr oedd y mab yn llawn cymmaint o Armin a Richard Rees. Y canlyniad fu, i ddwy blaid wrthwynebol godi yn Ynysgau, a bu yno helynt flin am gryn amser.

Yn 1760, bu farw J. Davies, a pharhaodd ei fab yn weinidog y lle hyd 1781. Ar ei farwolaeth ef, urddwyd David Williams; yr hwn yn mhen tair blynedd a symudodd i Watford. Yn 1785, urddwyd Mr. Davies o'r Cwm yn weinidog, yr hwn a fu yno hyd 1811. Canlynwyd ef gan Thomas Evans. Yn awr y gofyniad yw, ai eglwys Annibynol oedd yn yr Ynysgau, pan urddwyd T. Evans yn weinidog? Ettyb y rhai sydd yn honi hynafiaeth Annibyniaeth yn gadarnhaol; ond y mae ereill yn gwadu hyn yn benderfynol. Mae sicrwydd mai ar ol iddo *briodi yr eglwys*, sef cydlawnodi gweithredoedd, i'w ddyogelu ef yn weinidog tra buasai byw, y darfu i Mr. Evans wneyd ei egwyddorion Annibynol yn hysbys, a bu llawer o derfysg yno o'r herwydd. Bum yn siarad a rhai o'r hen aelodau, ag oedd yn cofio fod drws y capel yn cael ei gloi er attal Evans i fyned iddo i bregethu; ac yntau yn myned i mewn trwy y ffenestr, &c. Dengys hyn mai Mr. Thomas Evans gychwynodd eglwys Annibynol yn yr Ynysgau, ar ol y fl. 1811; ac nad oedd cyn hyny ond math o eglwys Undodol, tebyg i eiddo'r Cefn, ac Heol-y-felin, Aberdar; y rhai a enwent eu hunain yn Bresbyteriaid y pryd hwnw.

Mewn traethawd buddugol ar Hanes Plwyf Llanfabon, dywedir fod y Bedyddwyr yn arfer pregethu, a gweini Swper yr Arglwydd, yn amaethdy'r Berthlwyd, lawn deugain mlynedd cyn corffoliad eglwys Hengoed. Yn agos i'r Berthlwyd y bedyddiwyd y Milwriad Prichard



o Lancaiach; yr hwn oedd Filwriad yn myddin Charles I., ac wedi hyny yn myddin Cromwell. Dywed traddodiad iddynt orfod tori'r iâ ar y dwfr, er mwyn ei fedyddio. Yr oedd y gwr hwn yn arfer pregethu yn achlysurol (meddir) yn y Berthlwyd, cyn ffurfio eglwys Hengoed yn 1650. Oddiwrth hyn, ac amryw hanesion ereill, barnwyf mai anhawdd nodi unrhyw enwad neillduol, fel yr Ymneillduwyr cyntaf; ond tebygol yw, i'r Annibynwyr, Bedyddwyr, Crynwyr, ac Undodiaid, dyfu allan yn gangenau o Flaencanaid; a chododd y Trefnyddion Calfniaid a Wesleyaidd mewn oes ddiweddarach. Mae yn ffaith fod Annibynwyr a Bedyddwyr yn Morganwg tua'r flwyddyn 1650; a dihon nas gellir gyda sicrwydd, fyned nemawr yn nes yn ol, gyda golwg ar ddechreuad y ddau enwad fel y cyfryw yn Nghymru. Etto, cofier fod Ymneillduwyr oddiwrth yr Eglwys yn lluosog cyn hyny, ond nid oeddynt wedi ymfurfio yn wahanol *enwadau*. Yn gymmaint a bod hanes y gwahanol enwadau Ymneillduol yn Nghymru wedi eu cyhoeddi, nid ymelaethaf ar y pen hwn; ond tuag at ddangos cynnydd y gwahanol enwadau, cyfieaf yma y taflenau canlynol, er dangos cyflwr Ymneillduoeth yn Morganwg yn bresenol, gydag amseriad adeiladiad y capeli, &c. Ond dylid cofio nad yw blwyddiad y capeli yn ddangoseg cywir o ddechreuad yr achos, oblegyd mewn llawys o fanau, yr oedd yr achos yn cael ei gynnal mewn anneddau wedi eu trwyddedu i bregethu ynddynt am ugeiniau o flynyddau cyn adeiladu'r capeli.

## YR ANNIBYNWYR.

| REIV. | ENWAU'R CAPELL.  | AMSER ADEILAD-<br>IAD. |
|-------|--|------------------------|
| 1     | Trinity, Caerdydd .. ..  | 1696                   |
| 2     | Watford, plwyf Eglwysilan ... ..   | 1789                   |
| 3     | Groeswen, etto .. ..   | 1740                   |
| 4     | Ail-adeiladwyd 1766; etto yn 1829<br>Crwys. Corpholi'r eglwys 1700. Codi'r Capel<br>Ail-adeiladu .. .. | 1742<br>1881           |
| 5     | Cymmer, Rhondda ... ..   | 1748                   |
| 6     | Ail-adeiladwyd .. ..   | 1834                   |
| 6     | Ynysgau, Merthyr .. ..   | 1749                   |
| 6     | Ail-adeiladwyd ... ..  | 1858                   |
| 7     | Zion, Craig-y-fargod .. ..   | 1750                   |
| 7     | Ail-adeiladwyd .. ..   | 1867                   |
| 8     | Godrerhos .. ..  | 1758                   |
| 8     | Ail-adeiladwyd .. ..   | 1856                   |
| 9     | Alltwn, plwyf Cilybebyll .. ..   | 1757                   |
| 9     | Ail-adeilwyd .. ..   | 1881                   |
| 10    | Mynyddbach .. ..   | 1782                   |
| 10    | Etto 1797; etto .. ..  | 1865                   |
| 11    | Carmel, Llangiwo .. ..   | 1782                   |
| 12    | Cwmawr .. ..   | 1766                   |
| 13    | Maesyrfhaf, Castellnedd ... ..   | 1769                   |
| 13    | Ail-adeiladwyd .. ..   | 1864                   |

## YR ANNIBYNWYR—(Parhad.)

| RHIF. | ENWAU'R CAPELLI.   | AMSER ADEILAD-<br>IAD. |
|-------|--|------------------------|
| 14    | Ysgetty, ger Abertawy ..<br>Capel Newydd 1842. Ail godwyd ..                     | .. 1770<br>.. 1869     |
| 15    | Melincourt, Cwm Nedd ..  | .. 1779                |
| 16    | Bethesda, Llangynwyd ..  | .. 1779                |
| 17    | Llanbaran ...  | .. 1780                |
| 18    | Ail-adeiladwyd ..<br>Libanus, Treforris ..<br>Etto 1796; etto 1831; etto 1857 .. | .. 1836<br>.. 1782     |
| 19    | Capel Newydd ..  | ... 1870               |
| 20    | Burrows, Abertawy ..   | .. 1787                |
| 21    | Penybont-ar-Ogwy ..  | .. 1795                |
| 22    | { Bettws. (Y ddau gan yr Undodiaid) }<br>{ Cymmer Glyncoerwrg .. }               | .. 1796<br>... 1796    |
| 23    | Capel Newydd ..<br>Maendy ..   | ... 1865<br>... 1801   |
| 24    | Etto ..<br>Soar, Merthyr ..  | ... 1842<br>... 1801   |
| 25    | Etto 1884; etto ..   | ... 1840               |
| 26    | Ebenezer, Abertawy ..<br>Etto 1826; etto ...                                     | .. 1803<br>.. 1862     |
| 27    | Barran ..<br>Ail-adeiladwyd ..   | .. 1803<br>.. 1830     |
| 28    | Providence, Browyr ..  | .. 1805                |
| 29    | Etto ..<br>Bethesda'r Fro ..   | .. 1844<br>.. 1806     |
| 30    | Bethel, Llantrisant ..<br>Etto ..  | ... 1808<br>.. 1856    |
| 31    | Tabernacl, Penybont ..<br>Etto 1828; etto ..                                     | .. 1809<br>.. 1851     |
| 32    | Brynmenyn ..   | .. 1809                |
| 33    | Etto ..<br>Bethesda, Merthyr ..  | ... 1848<br>.. 1811    |
| 34    | Ebenezer, Trecynon ..<br>Etto 1852. Ebenezer Hall, 1860 ..                       | .. 1811                |
| 35    | Cwmllynfell, ail-adeiladu ..   | .. 1814                |
| 36    | Etto 1828; etto ..   | .. 1860                |
| 37    | Castle St., Abertawy (S) ..  | .. 1814                |
| 38    | Brynteg ...  | .. 1815                |
| 39    | Etto ..  | .. 1846                |
| 40    | Llanilltyd Fawr ..   | .. 1815                |
| 41    | Penclawdd ..   | .. 1817                |
| 42    | Etto, Capel Newydd ...   | ... 1870               |
| 43    | Newton, Oystermouth ..   | ... 1818               |
| 44    | Bethel, Llansamlet ..  | .. 1818                |
| 45    | Etto ..  | ... 1840               |
| 46    | Hebron, Clydach ...  | .. 1820                |
| 47    | Etto ..  | .. 1848                |
| 48    | Panteg, Ystalyfera ..  | .. 1820                |
| 49    | Etto 1841; etto ..   | .. 1864                |
| 50    | Bethel ..  | .. 1820                |

## YR ANNIBYNWYR—(Parhad).

| REF. | ENWAU'R CAPELL.                 | AMSER ADEILAD-<br>IAD. |
|------|---------------------------------|------------------------|
| 44   | Taihirion .. ..                 | 1821                   |
| 45   | Seion, Cwmafan ... ..           | 1821                   |
|      | Etto .. ..                      | 1850                   |
| 46   | Pilston Green, Browyr .. ..     | 1821                   |
| 47   | Ebenezer, Rhydri .. ..          | 1821                   |
| 48   | Park Mill, Browyr .. ..         | 1822                   |
| 49   | Hope Chapel, Tre Newydd Nottais | 1822                   |
| 50   | Llanharri .. ..                 | 1823                   |
| 51   | Nebo, Hirwaun .. ..             | 1823                   |
|      | Etto 1836; etto .. ..           | 1851                   |
| 52   | Bethania, Dowlais ... ..        | 1823                   |
|      | Etto .. ..                      | 1838                   |
| 53   | Falindre ... ..                 | 1824                   |
|      | Capel Newydd .. ..              | 1858                   |
| 54   | Carmel, Maesteg .. ..           | 1826                   |
|      | Etto 1831; etto .. ..           | 1850                   |
| 55   | Coetty .. ..                    | 1826                   |
|      | Etto, Gilead .. ..              | 1862                   |
| 56   | Siloam, Cefncribwr ... ..       | 1827                   |
|      | Etto .. ..                      | 1854                   |
| 57   | Ebenezer, Caerdydd .. ..        | 1828                   |
|      | Etto ... ..                     | 1853                   |
| 58   | Soar, Castellnedd .. ..         | 1828                   |
| 59   | Siloh, Glandwr ... ..           | 1829                   |
|      | Etto 1840; etto .. ..           | 1862                   |
| 60   | Nantgarw .. ..                  | 1829                   |
| 61   | Adulam, Merthyr .. ..           | 1831                   |
|      | Etto .. ..                      | 1857                   |
| 62   | Bethlehem, Pentyrch .. ..       | 1832                   |
| 63   | Sardis, Pontypridd .. ..        | 1832                   |
|      | Etto ... ..                     | 1852                   |
| 64   | Brynseion, Dowlais .. ..        | 1833                   |
| 65   | Libanus, Mynwent y Crynwyr ..   | 1833                   |
|      | Capel Newydd .. ..              | 1858                   |
| 66   | Carmel, Tresimwn .. ..          | 1834                   |
| 67   | Llansantffraid .. ..            | 1834                   |
| 68   | Saron, Troedyrhiw ... ..        | 1835                   |
|      | Etto .. ..                      | 1851                   |
| 69   | Bethlehem, Heolgeryg .. ..      | 1838                   |
|      | Etto .. ..                      | 1872                   |
| 70   | Canaan, Abertawy .. ..          | 1839                   |
|      | Etto .. ..                      | 1864                   |
| 71   | Rock, Cwmafan .. ..             | 1839                   |
|      | Etto ... ..                     | 1870                   |
| 72   | Glyn Nedd .. ..                 | 1839                   |
| 73   | Horeb, Penydarren .. ..         | 1839                   |
|      | Helaeathwyd .. ..               | 1853                   |
| 74   | Bethlehem, Cadle .. ..          | 1840                   |
|      | Etto .. ..                      | 1866                   |
| 75   | Glais, Cwm Tawy .. ..           | 1840                   |

## YB ANNIBYNWYB—(Parhad.)

| RHIF. | ENWAU'R CAPELL.                   | AMSER ADRIAD-<br>TAD. |
|-------|-----------------------------------|-----------------------|
|       | Glais Cwm Tawy, etto              | ... 1869              |
| 76    | Wern, Ystalyfera ... ..           | ... 1840              |
|       | Etto .. ..                        | ... 1864              |
| 77    | Siloh, Maesteg ... ..             | ... 1840              |
|       | Etto .. ..                        | ... 1858              |
| 78    | Soar, Maesteg .. ..               | ... 1841              |
| 79    | Market Square, Merthyr (S.) .. .. | ... 1841              |
| 80    | Treoes ... ..                     | ... 1841              |
|       | Helaethwyd .. ..                  | ... 1860              |
| 81    | Salem, Aberdar ... ..             | ... 1841              |
| 82    | Tabernacl, Yagywen .. ..          | ... 1842              |
|       | Etto .. ..                        | ... 1859              |
| 83    | Efail Isaf .. ..                  | ... 1843              |
|       | Etto .. ..                        | ... 1870              |
| 84    | Rhydyfro, Llangiwo .. ..          | ... 1843              |
| 85    | Seion, Abertawy .. ..             | ... 1843              |
|       | Etto .. ..                        | ... 1850              |
| 86    | Horeb, Treforris .. ..            | ... 1844              |
|       | Etto .. ..                        | ... 1869              |
| 87    | Siloam, Pentre Estyll .. ..       | ... 1844              |
|       | Etto .. ..                        | ... 1864              |
| 88    | Ygoldy Rhigos .. ..               | ... 1844              |
|       | Capel .. ..                       | ... 1860              |
| 89    | Castellau, Llantrisant .. ..      | ... 1844              |
| 90    | Siloah, Aberdar .. ..             | ... 1844              |
|       | Etto .. ..                        | ... 1855              |
| 91    | Tabernacl, Mumbles .. ..          | ... 1845              |
| 92    | Bryn Seion, Cwmbach ... ..        | ... 1846              |
|       | Etto 1852 ; Capel Newydd .. ..    | ... 1858              |
| 93    | Onllwyn .. ..                     | ... 1846              |
| 94    | Ebenezer, Glantaf ... ..          | ... 1846              |
|       | Helaethwyd .. ..                  | ... 1857              |
| 95    | Elim, Mynydd Cenffig .. ..        | ... 1847              |
| 96    | Bethesda, Cwm Ogwy .. ..          | ... 1847              |
| 97    | Bethesda, Briton Ferry .. ..      | ... 1843              |
|       | Etto .. ..                        | ... 1865              |
| 98    | Horeb, Llwydcoed .. ..            | ... 1848              |
|       | Etto .. ..                        | ... 1859              |
| 99    | Soar, Abertawy .. ..              | ... 1849              |
|       | Etto .. ..                        | ... 1870              |
| 100   | Bethel, Caerfili .. ..            | ... 1849              |
|       | Etto .. ..                        | ... 1866              |
| 101   | Saron, Aberaman ... ..            | ... 1849              |
| 102   | Wern, Aberafan ... ..             | ... 1849              |
|       | Etto .. ..                        | ... 1865              |
| 103   | Eglwys Newydd .. ..               | ... 1850              |
| 104   | Bethania, Cwmafan ... ..          | ... 1850              |
|       | Etto .. ..                        | ... 1858              |
| 105   | Gwernllwyn, Dowlais ... ..        | ... 1851              |
|       | Helaethwyd .. ..                  | ... 1873              |

YR ANNIBYNWYR—(Parhad.)

| REF. | ENWAU'S CAPELLI.               | AMSER ADEILAD-<br>IAD. |
|------|--------------------------------|------------------------|
| 106  | Saron, Maesteg                 | 1852                   |
| 107  | Soar, Llantrisant              | 1852                   |
| 108  | Bethania, Mountain Ash         | 1853                   |
| 109  | Moriah, Aman                   | 1855                   |
| 110  | Capel Charles Street, Caerdydd | 1855                   |
| 111  | Ysgoldy Pwllhwyaid, Merthyr    | 1855                   |
| 112  | Cwmaber                        | 1856                   |
| 113  | Gwrhyd, (Llangiwc)             | 1856                   |
| 114  | Gurnos, Ystalyfera             | 1857                   |
|      | Etto                           | 1864                   |
| 115  | Penuel, Nelson                 | 1857                   |
| 116  | Horeb, Caslwohwr               | 1857                   |
| 117  | Ysgoldy Penincline, Merthyr    | 1857                   |
| 118  | Tabernacl, (S.), Aberdar..     | 1857                   |
| 119  | Soar, Aberdar                  | 1858                   |
| 120  | Salem, Merthyr                 | 1858                   |
| 121  | Penywarn, Dowlais              | 1858                   |
| 122  | Carmel, Treherbert             | 1858                   |
|      | Etto                           | 1867                   |
| 123  | Mount Stuart, Caerdydd..       | 1858                   |
| 124  | Penarth                        | 1858                   |
| 125  | Bronllwyn, Pentyroh            | 1858                   |
|      | Etto                           | 1871                   |
| 126  | Eliim, Cwmdar                  | 1859                   |
| 127  | Glandwr, Ffynon Taf            | 1859                   |
| 128  | Sardis, Waunarlwydd            | 1859                   |
| 129  | Sardis, Pontrhydyfen           | 1859                   |
| 130  | Ivor Chapel, (S.), Dowlais     | 1860                   |
| 131  | Tanygraig, Llansamlet          | 1860                   |
| 132  | Gibeon, Taibach                | 1860                   |
| 133  | Bethlehem, Abercwmboy          | 1860                   |
| 134  | Gellideg, Merthyr              | 1860                   |
| 135  | Bethel, Aberdar                | 1860                   |
| 136  | Bethesda, Abernant             | 1860                   |
| 137  | Bethesda, Tongwynlas           | 1861                   |
| 138  | Bryn, Cwmafan                  | 1861                   |
| 139  | Seion, Abercarnaid             | 1861                   |
| 140  | Bethel, Glan Twrch             | 1861                   |
| 141  | Cwmbwrla                       | 1862                   |
| 142  | Fabian's Bay, Abertawy ..      | 1. 62                  |
| 143  | Cwmgwrach ..                   | 1862                   |
| 144  | Bethesda, Ynys-y-meudwy        | 1862                   |
| 145  | Birchgrove, (Ysgoldy)          | 1862                   |
|      | Capel Saron                    | 1871                   |
| 146  | Bodringallt, Rhondda           | 1862                   |
| 147  | Bethel, Trehafed               | 1863                   |
| 148  | Blaenllechau                   | 1864                   |
|      | Etto, Capel Newydd             | 1867                   |
| 149  | Nazareth, Pontlottyn           | 1865                   |
| 150  | Mount Pleasant, Hirwann, (S.)  | 1866                   |

## YB ANNIBYNWYR—(Parhad.)

| RHIF. | ENWAU'R CAPELL.                     | AMSER ADILAD-<br>IAD. |
|-------|-------------------------------------|-----------------------|
| 151   | Tabernacl, Treorki                  | ... 1866              |
| 152   | Tabor, Bryncaws                     | ... 1866              |
| 153   | Gozen, Craig Trebanos               | ... 1866              |
| 154   | Carmel, Fochriw                     | ... 1867              |
| 155   | Bethel, Deri ...                    | ... 1867              |
| 156   | Siloh, Ystrad Rhondda ...           | ... 1867              |
| 157   | Ebenezer, Tonypandy                 | ... 1867              |
| 158   | Sandfield, Abertawy, (Ysgoldy)      | ... 1867              |
| 159   | Dyffryn, Maesteg                    | ... 1867              |
| 160   | Nantmoel, Cwm Ogwy                  | ... 1867              |
| 161   | Nurston, Llanilltyd Fawr            | ... 1867              |
| 162   | Hannah Street, Caerdydd             | ... 1867              |
| 163   | Grange-town, Caerdydd               | ... 1868              |
| 164   | Walter Road, Abertawy               | ... 1868              |
| 165   | Blaencorrwg                         | ... 1868              |
| 166   | Garth, Maesteg                      | ... 1868              |
| 167   | Canton, ger Caerdydd                | ... 1868              |
| 168   | Congregational (S.), Ystalyfera     | ... 1869              |
| 169   | Pantyrwys, (Ysgoldy 1862), Capel .. | ... 1869              |
| 170   | Wood Street, Caerdydd               | ... 1869              |
| 171   | Bethania, Dinas Rhondda             | ... 1870              |
| 172   | Seianig, Maesteg                    | ... 1870              |
| 173   | Porthcawl                           | ... 1870              |
| 174   | Llangrallo                          | ... 1870              |
| 175   | Canton, (S.)                        | ... 1870              |
| 176   | Splottlands, Caerdydd               | ... 1870              |
| 177   | Cymmer Rhondda                      | ... 1870              |
| 178   | Ystrad Rhondda, (S.)                | ... 1870              |
| 179   | Seion, Pontypridd                   | ... 1870              |
| 180   | Moriah, Coly Gelligaer              | ... 1870              |
| 181   | Mountain Ash, (S.)                  | ... 1871              |
| 182   | Ty Newydd, Treherbert               | ... 1872              |
| 188   | Pontarddulais                       | ... 1872              |
| 184   | Gilfachgoch                         | ... 1878              |

Dywedir yn Nyddiadur yr Annibynwyr am 1878, fod 218 o gapeli gan yr enwad yn Morganwg; ond y mae amryw o'r rhai a enwir yn y Dyddiadur, yn Sir Frycheiniog; a rhai yn Sir Gaerfyrddin, megys:—Ebenezer a Tabor, Cefncoed-y-cymmer; Penderyn, Ystradfellte, Ystradgynlais, Hendrelatus, Cwmgiedd, &c., y rhai ydynt yn Mrycheinio. Mae capeli Cwmaman, a Brynaman yn Sir Gaerfyrddin, er y rhesir hwy gyda rhai Morganwg.

Methwyd cael *dates* yr addoldai canlynol:—Melincryddan,\* Giant's Grave, Mynydd-bach-y-glo, Blaendulais, Pentrechwyth\*, Wernolau\*, Ysgoldy'r Wig\*, Dunvant\*, Treboeth\*, Cockitt\*, Kilvey\*, Neath Abbey\*, Bryncoch\*, Salem Sciwen\*, Pontwalby\*, Tonmawr\*, Peny-

waun, Aberdar\*, Bethesda, Alltwen\*, Brynhyfryd, Glandwr\*, a Seion Glantaf.

Ysgoldai yw y rhai sydd wedi eu nodi â \*. Wrth gyfrif y rhai hyn a'r capeli a nodwyd mewn siroedd ereill, ceir eu bod yn 213.

## Y BEDYDDWYR.

Cychwynwyd achos crefyddol yr enwad hwn yn Morganwg yn y fiwyddyn 1649, mewn lle a elwir Ilston, yn Mro Gwyr. Nid oes amheuaeth nad yr eglwys a gorffolwyd yn y lle hwn Hydref 1af, 1649 oedd yr eglwys Fedyddiol gyntaf a sefydlwyd yn y Dywysogaeth. Nid ydym yn honi i Forganwg fwy o anrhydedd nag sydd yn perthyn iddi; etto, gan fod ffeithiau digonol i'w cael i brofi yr hyn a ddywedir, teg yw rhoi iddi y clod dyledus.

Yr ail eglwys o Fedyddwyr yn Morganwg ydyw eglwys Hengoed, yn mhlwyf Gelligaer, yr hon a sefydlwyd tua mis Mawrth, 1650. Corffolwyd eglwys o Fedyddwyr yn mhlwyf Llanharan hefyd yn 1650, yr hyn a ddengys yn eglur fod lluaws o Fedyddwyr profsedig yn Morganwg yn foreu iawn.

Yn hytrach na manylu ar hanes yr enwad, gosodir yma daflen yn dangos nifer y Capeli, amser corffoliad, yr eglwysi, gyda rhif yr aelodau a nifer yr ysgolheigion Sabbathol yn 1871:—

| RHIF. | ENWAU'R CAPELL, &C.   | Am. Corff.<br>yr Eglwys. | Rhif yr<br>Aelodau. | Rhif yr<br>Ysgol Sul. |
|-------|---|--------------------------|---------------------|-----------------------|
| 1     | Hengoed .. ..   | 1650                     | 192                 | 133                   |
| 2     | Penyfae .. ..   | 1720                     | 88                  | 60                    |
| 3     | Croes-y-parc .. ..  | 1777                     | 120                 | 50                    |
| 4     | Salem, Llangyfelach ...   | 1779                     | 122                 | 70                    |
| 5     | Caerffili .. ..   | 1784                     | 136                 | 160                   |
| 6     | Aberafan .. ..  | 1784                     | 165                 | 153                   |
|       | Adeiladwyd Ebenezer presenol yn 1836  |                          |                     |                       |
| 7     | Nebo, Ystrad Rhondda ..   | 1786                     | 73                  | 100                   |
| 8     | Bethesda, Abertawy ..   | 1788                     | 815                 | 340                   |
| 9     | Bethania, Castellnedd ..  | 1789                     | 215                 | 220                   |
| 10    | Rhuama, Penybont ..   | 1799                     | 118                 | 91                    |
|       | Adeiladwyd y capel yn 1808, ac yn 1828  |                          |                     |                       |
| 11    | Seion Merthyr. Helaethwyd y capel yn<br>1808, 1820, 1832. Ail-adeiladwyd yn<br>1841 .. .. | 1791                     | 418                 | 400                   |
| 12    | Ebenezer, Merthyr ...   | 1798                     | 285                 | 230                   |
| 13    | Calcaria, Aberdar .. ..   | 1810                     | 424                 | 479                   |
| 14    | Hermon, Penclawdd ..  | 1813                     | 29                  | 40                    |
| 15    | Tabernacl, Pontypridd ..  | 1811                     | 180                 | 215                   |
| 16    | Cadoxton .. ..  | 1814                     | 32                  | 20                    |
| 17    | Ramoth, Y Bontfaen, adeiladwyd 1828   | 1820                     | 119                 | 70                    |
| 18    | Tabernacl, Caerdydd ..  | 1822                     | 615                 | 500                   |
| 19    | Llancarfan ...  | 1822                     | 112                 | 65                    |
| 20    | Llanilltyd Fawr ...   | 1823                     | 92                  | 90                    |

## Y BEDYDDWYR—(Parhad).

| RHIF. | ENWAU'R CAPELL, &C.                      | Am. Corff.<br>yr Eglwya. | Rhif yr<br>Aelodau. | Rhif yr<br>Ysgol Sul. |
|-------|--|--------------------------|---------------------|-----------------------|
| 21    | Paran, Melin Ifan Ddu ..                 | 1828                     | 120                 | 100                   |
| 22    | Bethania, Maesteg ..                     | 1826                     | 849                 | 250                   |
| 23    | Ararat, Wauntrodau ..                    | 1828                     | 116                 | 100                   |
| 24    | Gerazim ..                               | 1830                     | 57                  | 70                    |
| 25    | Ramoth, Hirwain, adeiladwyd 1825         | 1831                     | 149                 | 160                   |
| 26    | Caersalem, Dowlais, adeiladwyd 1827      | 1830                     | 214                 | 200                   |
| 27    | Llysaen ..                               | 1831                     | 89                  | 100                   |
| 28    | Dinas, Cwm Rhondda ..                    | 1832                     | 188                 | 260                   |
| 29    | Siloam, Goetre ..                        | 1832                     | 78                  | 50                    |
| 30    | Cwmfelin ..                              | 1834                     | 13                  | 50                    |
| 31    | Soar, Rhymini ..                         | 1837                     | 164                 | 276                   |
| 32    | All-adeiladwyd ..                        | 1859                     |                     |                       |
| 33    | Ainon, Tongwynlas ..                     | 1838                     | 169                 | 280                   |
| 34    | Bettws ..                                | 1839                     | 68                  | 60                    |
| 35    | Caersalem Newydd ..                      | 1841                     | 309                 | 195                   |
| 36    | Cwmgarw ..                               | 1842                     | 28                  | 80                    |
| 37    | Elim, Penydarren ..                      | 1842                     | 232                 | 257                   |
| 38    | Pentyrch (Penuel) ..                     | 1843                     | 134                 | 80                    |
| 39    | Carmel, Pontlliw ..                      | 1843                     | 58                  | 60                    |
| 40    | Twynrodyn ..                             | 1843                     | 47                  | 40                    |
| 41    | Foxhole (Tabernacl) ..                   | 1843                     | 62                  | 41                    |
| 42    | Clydach ..                               | 1844                     | 257                 | 229                   |
| 43    | Cwmbach (Bethania ad. 1858) ..           | 1845                     | 220                 | 250                   |
| 44    | Abercanaid ..                            | 1845                     | 133                 | 200                   |
| 45    | Seion, Treforris (all-ad. 1871) ..       | 1845                     | 450                 | 450                   |
| 46    | Penuel, Cwmafan ..                       | 1845                     | 297                 | 230                   |
| 47    | Dinas, Glandwr ..                        | 1846                     | 258                 | 150                   |
| 48    | Hebron, Dowlais (ad. 1841) ..            | 1847                     | 132                 | 200                   |
| 49    | Bethel, Glynnedd ..                      | 1848                     | 123                 | 76                    |
| 50    | Soar, Ystalyfera ..                      | 1848                     | 195                 | 200                   |
| 51    | Adulam, Pontardawe (ad. 1845) ..         | 1848                     | 120                 | 100                   |
| 52    | Trelales ..                              | 1848                     |                     |                       |
| 53    | Gelligaer ..                             | 1849                     | 88                  | 76                    |
| 54    | Rhydfeleu ..                             | 1849                     | 60                  | 61                    |
| 55    | Tondu ..                                 | 1849                     | 57                  | 60                    |
| 56    | Caslowehr ..                             | 1850                     | 69                  | 60                    |
| 57    | Salem, Maesteg ..                        | 1850                     | 326                 | 295                   |
| 58    | Berthlwyd ..                             | 1851                     | 98                  | 100                   |
| 59    | Bryntroedgam ..                          | 1851                     | 40                  | 30                    |
| 60    | Troedyrhiv, Carmel ..                    | 1852                     | 168                 | 160                   |
| 61    | Tregolwyn ..                             | 1852                     | 46                  | 40                    |
| 62    | Llanilltyd Faerdref ..                   | 1853                     | 72                  | 100                   |
| 63    | Adulam, Llansamlet (ad. 1854) ..         | 1853                     | 72                  | 80                    |
| 64    | Gwawr, Aberaman (all-ad. 1871) ..        | 1853                     | 142                 | 175                   |
| 65    | Britou Ferry ..                          | 1854                     | 219                 | 215                   |
| 66    | Sardis, Ynysfach, Glynnedd (ad. 1864) .. | 1856                     | 45                  | 50                    |
| 67    | Heolyfelin, Aberdar (ad. 1852) ..        | 1855                     | 444                 | 400                   |
| 68    | Rhos, Mountain Ash (ad. 1860) ..         | 1855                     | 382                 | 240                   |
| 69    | Pontrhydyfen ..                          | 1856                     | 60                  | 60                    |
| 70    | Tabernacl, Merthyr (ad. 1834) ..         | 1854                     | 266                 | 200                   |



## Y BEDYDDWYR—Parhad.

| REF. | ENWAU'R CAPELL.                         | Am. Corff.<br>yr Eglwys. | Rhif yr<br>Aelodau. | Rhif yr<br>Ysgol Sul. |
|------|---|--------------------------|---------------------|-----------------------|
| 71   | Salem, Porth ..                         | 1855                     | 108                 | 92                    |
| 72   | Aberdulais (ad. 1850) ..                | 1856                     | 111                 | 188                   |
| 73   | Carmel, Aberdar (S.) ...                | 1856                     | 152                 | 180                   |
| 74   | Caersalem, Ystalyfera ..                | 1857                     | 125                 | 105                   |
| 75   | Zoar, Ystalyfera, 1858-1866 ..          | ..                       | ..                  | ..                    |
| 76   | Moriah, Dowlais ..                      | 1857                     | 310                 | 380                   |
| 77   | Libanus, Treherbert ..                  | 1858                     | 166                 | 176                   |
| 78   | Libanus, Treforris ...                  | 1858                     | 98                  | 95                    |
| 79   | Siloh, Brithdir ..                      | 1859                     | 42                  | 40                    |
| 80   | Tabor, Llantrisant (ad. 1824)           | 1859                     | 80                  | 70                    |
| 81   | Pisgah, Pili ..                         | 1859                     | 77                  | 180                   |
| 82   | Bethel, Merthyr, (S), (ad. 1809)        | 1860                     | 221                 | 305                   |
| 83   | Penuel, Penprysg ..                     | 1860                     | 31                  | 60                    |
| 84   | Siloam, Caerdydd ..                     | 1860                     | 100                 | 70                    |
| 85   | Beulah, Dowlais (S.) ..                 | 1860                     | 94                  | 170                   |
| 86   | Smyrna, Taibach ...                     | 1860                     | 99                  | 71                    |
| 87   | Ainon, Merthyr ..                       | 1860                     | 96                  | 120                   |
| 88   | Abercwmbay ..                           | 1860                     | 60                  | 100                   |
| 89   | Seion, Waunarlwydd ...                  | 1860                     | 107                 | 120                   |
| 90   | Llandochoa ..                           | 1861                     | 86                  | 25                    |
| 91   | Tabernacl, Pontypridd ...               | 1861                     | ..                  | ..                    |
| 92   | Nebo, Cwmдар ..                         | 1861                     | 96                  | 100                   |
| 93   | Salem, Caerdydd ..                      | 1861                     | 233                 | 237                   |
| 94   | Seion, Cwmanan ...                      | 1861                     | 76                  | 142                   |
|      | Ad-adeiladwyd yn 1870 ...               | ..                       | ..                  | ..                    |
| 95   | Capel Rhondda ..                        | 1861                     | 79                  | 160                   |
| 96   | Philadelphia, Abertawy ..               | 1862                     | 167                 | 140                   |
| 97   | Bethel, Abernant (ad.) ..               | 1862                     | 247                 | 223                   |
| 98   | Ynyalwyd, Aberdar (ad.) ..              | 1862                     | 369                 | 500                   |
| 99   | Tonyrefail ...                          | 1862                     | 59                  | 70                    |
| 100  | Tabernacl, Maesteg ...                  | 1863                     | 98                  | 110                   |
| 101  | Gadlys, Aberdar ..                      | 1864                     | 411                 | 620                   |
| 102  | Tabernacl, Deri ..                      | 1866                     | 47                  | 65                    |
| 103  | Canton ...                              | 1868                     | 90                  | 113                   |
| 104  | Nazareth, Mountain Ash (S.), (ad. 1854) | 1867                     | 161                 | 190                   |
| 105  | Blaenllechau ..                         | 1867                     | 50                  | 70                    |
| 106  | Glyncorrwg ...                          | 1867                     | 23                  | 40                    |
| 107  | Noddfa, Treorchwy, adeiladwyd ..        | 1867                     | 218                 | 160                   |
| 108  | Libanus, Cwmbwria ..                    | 1866                     | 108                 | 170                   |
| 109  | Nebo, Cefncribwr (ad. 1848)             | 1868                     | 83                  | 70                    |
|      | Ail-adeiladwyd 1868 ..                  | ..                       | ..                  | ..                    |
| 110  | St. Brides ..                           | 1868                     | 37                  | 35                    |
| 111  | Seion, Ystrad Rhondda (S.) ...          | 1868                     | 23                  | 50                    |
| 112  | Horeb, Sciwen ...                       | 1868                     | 56                  | 100                   |
| 113  | Calcaria, Treforest (S.) ...            | 1869                     | 51                  | 112                   |
| 114  | Hebron Ystrad Rhondda... ..             | 1870                     | 125                 | 100                   |
| 115  | Blaencwm, Treherbert ..                 | 1870                     | 101                 | 160                   |
| 116  | Treherbert (S.) ..                      | 1870                     | 57                  | 145                   |
| 117  | Pantyaun ..                             | 1870                     | ..                  | ..                    |
| 118  | Capel Gwaelod-y-garth, Pentyrch, ad.    | 1872                     | ..                  | ..                    |
| 119  | Jerusalem, Llwynypia ..                 | 1873                     | ..                  | ..                    |

## Y Bedyddwyr—Y GYMMANFA SEISNEG.

| ENWAU'R CAPELLI, &C.          | Am. Cof.<br>yr Eglwys. | Rhif yr<br>Aelodau. | Rhif yr<br>Ysgol Sul. |
|-------------------------------|------------------------|---------------------|-----------------------|
| Penybont (S.) .. ..           | 1850                   | 50                  | 100                   |
| Briton Ferry (S.) .. ..       | 1860                   | 85                  | 180                   |
| Bethany, Caerdydd .. ..       | 1807                   | 509                 | 870                   |
| Tredegarville .. ..           | 1861                   |                     | 555                   |
| Bethel .. ..                  | 1855                   | 114                 | 250                   |
| Salem, Tongwynlas ...         | 1862                   |                     |                       |
| Hope Chapel, Canton .. ..     | 1858                   | 124                 | 391                   |
| Bethel, Eglwys Newydd .. ..   | 1865                   | 83                  | 50                    |
| Maesteg .. ..                 | 1845                   | 74                  | 112                   |
| High St., Merthyr .. ..       | 1840                   | 162                 | 218                   |
| Mumbles, Norton .. ..         | 1842                   | 65                  | 130                   |
| Tabernacl, Castellnedd ...    | 1855                   | 100                 | 200                   |
| York Place, Abertawy ...      | 1830                   | 299                 | 262                   |
| Mount Pleasant, Abertawy ...  | 1825                   | 222                 | 413                   |
| Mount Zion, Abertawy, ad. ... | 1866                   | 314                 | 230                   |
| Knelston Gower .. ..          | 1858                   | 84                  | 50                    |
| Penarth .. ..                 | 1869                   | 48                  | 60                    |

## TREFNYDDION CALFINAIDD.

Yn mhen tua chan' mlynedd wedi i'r Bedyddwyr gorfoli eu heglwysi cyntaf yn Morganwg, y dechreuodd y Trefnyddion Calfinaidd eu hachos. Torodd y Diwygiad Methodistaidd allan yn Nghymru tua'r flwyddyn 1785; ac yn fuan ymledodd i Foranwg. Y personau fuont fwyaf blaenllaw i blanu eglwysi Methodistaidd yn Morganwg a rhanau ereill o Gymru, oeddynt y Parch. Howell Harris, Trefecca; David Jones, Llangan; W. Williams, Pantycelyn, &c.

Parhaodd yr enwad hwn yn lled ymlynol wrth yr Eglwys Sefydledig am 76 o flynyddau wedi toriad allan y diwygiad, fel na farneit neb yn addas i weinyddu yr ordeiniadau ond rhai wedi derbyn Urddau Eglwysig. Yn 1811, pa fodd bynag, ordeiniwyd 13 o rai heb gael Urddau i weinyddu yr ordeiniadau o Fedydd a Swpper yr Arglwydd: fel y gellir gyda phriodoldeb nodi y flwyddyn hono, fel yr hon y llwyr ymneillduodd yr enwad hwn oddiwrth yr Eglwys Wladol.

Y manau y cychwynwyd Methodistaeth ynddynt gyntaf yn Morganwg oeddynt Watford, plwyf Eglwysilan; Aberthyn, Creunant, Gyfylchi, plwyf Llanfihangel Ynys Afan; Y Pil, Llantrisant, Tonyrefail, Llangrallo, Llansamlet, Llangyfelach, Abertawy, &c. Mae yr enwad hwn wedi bod yn llafurus a llwyddiannus iawn yn Morganwg fel mewn manau ereill yn Nghymru. Dengys yr ystadegau canlynol sefyllfa yr enwad yn y sir hon yn 1870; gyda blwyddiad y capeli.

Y TREFNYDDION CALFINAIDD.

| RHIF.                        | ENWAU'R CAPBLI.                        | Amser<br>Adeiladu. | Rhif yr<br>Aelodau. | Rhif yr<br>Ysgol Sul. |
|------------------------------|--|--------------------|---------------------|-----------------------|
| <i>Dosparth Avertawy.</i>    |  |                    |                     |                       |
| 1                            | Crug-glas, Abertawy .. ..              | 1799               | 177                 | 140                   |
|                              | Ail adeiladwyd .. ..                   | 1870               |                     |                       |
| 2                            | Trinity .. ..                          | 1828               | 848                 | 881                   |
| 3                            | Hebron (Lës, Ebrill 10) .. ..          | 1851               | 58                  | 85                    |
| 4                            | Bethany (S), Abertawy .. ..            | 1846               | 262                 | 323                   |
| 5                            | Babell, Cwmbwrla .. ..                 | 1869               | 167                 | 198                   |
| 6                            | Capel y Cwm, Llansamlet .. ..          | 1782               | 266                 | 481                   |
| 7                            | Philadelphia, Treforris ... ..         | 1802               | 370                 | 290                   |
|                              | Ail-adeiladwyd .. ..                   | 1829               |                     |                       |
| 8                            | Llangyfelach (Dyddiad y lës, Medi 29)  | 1808               | 90                  | 108                   |
| 9                            | Y Gopa Fach .. ..                      | 1776               | 115                 | 165                   |
| 10                           | Penclawd (Dyddiad y lës, Mawrth 30)    | 1846               | 9                   | 100                   |
| 11                           | Pentre'r Dwr .. ..                     | 1862               | 61                  | 114                   |
| 12                           | Old Wells, Browyr (Lës, Mehefin 26) .. | 1850               | 24                  | 69                    |
| 13                           | Burry Green (Dim lës) .. ..            |                    | 43                  | 64                    |
| 14                           | Pennel (Dim lës) .. ..                 |                    | 56                  | 59                    |
| 15                           | Maesbar, Llansamlet .. ..              | 1869               | 71                  | 115                   |
| 16                           | Llangennydd (Dim lës) .. ..            |                    | 21                  | 64                    |
| 17                           | Glandwr (Lës, Gorphennaf 7) .. ..      | 1851               | 221                 | 218                   |
| 18                           | Moriah, Cas'lwchwr (Lës, Mawrth 27)    | 1820               | 94                  | 160                   |
| 19                           | Gower Road .. ..                       | 1873               |                     |                       |
| 20                           | Capel Seisnig, Brunswick Pl., Abertawy | 1873               |                     |                       |
| <i>Dosparth Castellnedd.</i> |  |                    |                     |                       |
| 21                           | Bethlehem, Castellnedd .. ..           | 1828               | 111                 | 360                   |
|                              | Ail-adeiladwyd .. ..                   | 1860               |                     |                       |
| 22                           | Seion, Sciwen .. ..                    | 1848               | 162                 | 276                   |
| 23                           | Ebenezer, Llwynbrwydrau .. ..          | 1834               | 128                 | 290                   |
|                              | Ail-adeiladwyd .. ..                   | 1848               |                     |                       |
| 24                           | Birchgrove (Ysgoldy 1862) Nazareth     | 1871               | 82                  | 140                   |
| 25                           | Capel yr Ynys .. ..                    | 1852               | 92                  | 114                   |
| 26                           | Creunant (Tua'r fiwyddyn 1769) .. ..   |                    | 34                  | 68                    |
|                              | Salem, y Capel presenol .. ..          | 1867               |                     |                       |
| 27                           | Seion, Ynysfach .. ..                  | 1832               | 46                  | 80                    |
| 28                           | Bethel, Melincryddan (Lës, Ebrill 22)  | 1865               | 96                  | 219                   |
| 29                           | Seion, Aberdulais .. ..                | 1837               | 100                 | 335                   |
|                              | Ail-adeiladwyd .. ..                   | 1860               |                     |                       |
| 30                           | Ysgoldy Tonau, Aberdulais .. ..        | 1866               |                     |                       |
| 31                           | Zoar, Pontardawe .. ..                 | 1866               | 96                  | 119                   |
| 32                           | Tabernacl, Pontardawe .. ..            | 1842               |                     |                       |
| 33                           | Bethania, Cwmtwrch .. ..               | 1851               | 92                  | 105                   |
| 34                           | Jerusalem, Ystalyfera .. ..            | 1657               |                     |                       |
| <i>Dosparth Llantrisant.</i> |  |                    |                     |                       |
| 35                           | Llantrisant .. ..                      | 1776               | 118                 | 156                   |
|                              | Ail-adeiladwyd .. ..                   | 1826               |                     |                       |

## Y TREFNYDDION CALFINAIDD—(Parhad).

| RHIF.                       | ENWAU'R CAPELI.                         | Amser<br>Adolladu. | Rhif yr<br>Aelodau. | Rhif yr<br>Ysgol Sul. |
|-----------------------------|---|--------------------|---------------------|-----------------------|
| 36                          | Tonyrefail ..                           | 1788               | 103                 | 169                   |
|                             | Ail-adeiladwyd ..                       | 1864               |                     |                       |
| 37                          | Capel Seion (Lês, Rhagfyr 31) ..        | 1830               | 59                  | 80                    |
| 38                          | Glyn Ogwy, (Lês, Mai 1)                 | 1843               | 35                  | 35                    |
| 39                          | Felin Newydd ..                         | 1860               | 30                  | 36                    |
| 40                          | Bethal, Croesfaen (Lês, Medi 3)         | 1864               | 36                  | 97                    |
| 41                          | Gilfachgoch ..                          | 1863               | 18                  | 30                    |
| <i>Dosparth Penybont.</i>   |   |                    |                     |                       |
| 42                          | Hermon, Penybont, ail-ad. ..            | 1862               | 106                 | 158                   |
| 43                          | Pil ..                                  | 1786               | 37                  | 160                   |
|                             | Ail-godwyd yn 1830; etto yn 1862        |                    |                     |                       |
| 44                          | Salem, Llangrallno ..                   | 1775               | 85                  | 160                   |
|                             | Ail-adeiladwyd ..                       | 1830               |                     |                       |
| 45                          | Tabor, Maesteg ..                       | 1840               | 228                 | 320                   |
| 46                          | Llangynwyd ..                           | 1841               | 27                  | 43                    |
| 47                          | Garth, Maesteg ..                       | 1870               | 111                 | 177                   |
| 48                          | Hermon, Spelter ..                      | 1850               | 55                  | 30                    |
|                             | Capel Newydd ..                         | 1872               |                     |                       |
| 49                          | Trelales (Lês, Mai 6, 1833)             | 1830               | 43                  | 54                    |
|                             | Ail-adeiladwyd ..                       | 1852               |                     |                       |
| 50                          | Abercennig (Lês, Ebrill 10)             | 1839               | 71                  | 237                   |
| 51                          | Penybryn (Dim lês) ..                   | 1839               | 26                  | 28                    |
| 52                          | Ewenni ..                               | 1831               | 32                  | 68                    |
|                             | Ail-godwyd (Lês, Medi 12)               | 1871               |                     |                       |
| 53                          | St. Brides (Lês, Gorphenaf 8)           | 1822               | 43                  | 35                    |
| 54                          | Porthcawl (Lês, Hydref 1, 1867)         | 1865               | 42                  | 66                    |
| 55                          | Rhiw'r Ceiliog (Lês, 1873)              | 1850               | 16                  | 42                    |
| 56                          | Bethal (Dim lês) ..                     | 1850               | 24                  | 39                    |
| <i>Dosparth Y Bontfaen.</i> |   |                    |                     |                       |
| 57                          | Y Bontfaen ..                           | 1825               | 103                 | 133                   |
| 58                          | Llanilltyd Fawr (Lês Rhag. 1, 1822)     | 1823               | 35                  | 24                    |
| 59                          | Aberthyn ..                             | 1749               | 30                  | 33                    |
|                             | Ail-adeiladwyd ..                       | 1780               |                     |                       |
| 60                          | Tregolwyn (Lês, Tach. 26) ...           | 1830               | 23                  | 33                    |
| 61                          | Brychtwn (Lês, Mehefin 4)               | 1823               | 26                  | 28                    |
| 62                          | Penllin (Lês, Mehefin 17) ...           | 1833               | 45                  | 52                    |
| 63                          | Llisyfronydd (Lês, Meh. 28)             | 1831               | 24                  | 49                    |
| <i>Dosparth Penmarc.</i>    |   |                    |                     |                       |
| 64                          | Penmarc (Lês, Medi 30) ..               | 1833               | 44                  | 34                    |
| 65                          | Soar, Llancafarn (Lês, Mai 1)           | 1835               | 33                  | 64                    |
| 66                          | St. Athan (Lês Ebrill 15) ..            | 1843               | 27                  | 39                    |
| 67                          | Trehil (Tŷ Anned gynt) capel            | 1873               | 30                  | 40                    |
| 68                          | Soar Wenfo (Lês, Gor. 11) ...           | 1831               | 30                  | 46                    |
| 69                          | Pendeulwyn (Lês capel cyntaf, Rhag. 13) | 1819               | 61                  | 110                   |

Y TREFNYDDION CALFINAIDD—(Parhad).

| HEIF. | ENWAU'R EGLWYSI.   | Amser<br>Adeiladu. | Rhif yr<br>Aelodau. | Rhif yr<br>Ysgol Sul. |
|-------|--|--------------------|---------------------|-----------------------|
| 70    | Lês ail gapel Pendeulwyn, Mai 17, ...<br>Cadoeston (Lês, Ebrill 28)  | 1872<br>1815       | 84                  | 45                    |
|       | <i>Dosparth Caerdydd.</i>  |                    |                     |                       |
| 71    | Seion, Caerdydd ..   | 1827               | 195                 | 142                   |
| 72    | Bethania, Doeks ..   | 1856               | 110                 | 96                    |
| 73    | Salem, Canton ..   | 1857               | 100                 | 155                   |
| 74    | Ebenexer, Dinas Powis, Lês Ebrill 5<br>Ail-adeiladu ..               | 1785<br>1839       | 86                  | 56                    |
| 75    | Horeb, Pentyreh (Lês, Mai 26) ..                                     | 1838               | 164                 | 160                   |
| 76    | Llandaf (Lês, Mai 1) ..  | 1861               | 60                  | 44                    |
| 77    | Hermon, Tongwynlas ..  | 1860               | 49                  | 70                    |
| 78    | Bethel, Rhadyr (Lês, Chwef. 27) ..                                   | 1822               | 41                  | 100                   |
| 79    | Tabor, Ffynon Taf (Lês, Medi 30) ..                                  | 1848               | 180                 | 127                   |
| 80    | St. Ffagan ..  | 1837               | 54                  | 91                    |
| 81    | Tabernacl, Eglwys Newydd ..  | 1866               | 71                  | 122                   |
| 82    | Libanus, Roath ..  | 1868               | 71                  | 106                   |
| 83    | Sardis, Penarth (Lês, Awst 31, 1864)<br>Great Frederick St., (S.) .. | 1861<br>1869       | 262                 | 322                   |
|       | <i>Dosparth Pontypridd.</i>  |                    |                     |                       |
| 84    | Pennel, Pontypridd ..  | 1817<br>1860       |                     |                       |
|       | Ail-adeiladwyd ..  | 1850               | 200                 | 217                   |
| 85    | Graig, Pontypridd ..   | 1850               |                     |                       |
| 86    | Saron, Trefforest ..   | 1847               | 118                 | 135                   |
| 87    | Bryntirion ..  | 1785               | 74                  | 162                   |
| 88    | Carmel, Bad Uchaf ..   | 1839               | 17                  | 62                    |
| 89    | Siloam, Gyfeillion ..  | 1849               | 66                  | 112                   |
| 90    | Caerfili (Lês, Chwef. 3)   | 1791               | 84                  | 23                    |
| 91    | Ystrad Mynach ..   | 1804               | 44                  | 57                    |
|       | Capel Newydd ..  | 1866               |                     |                       |
| 92    | Llanfabon ..   | 1832               | 74                  | 97                    |
|       | <i>Dosparth Aberdar.</i>   |                    |                     |                       |
| 93    | Bethania (ac Abergwawr) ..   | 1858               | 245                 | 452                   |
| 94    | Llanwynno ..   | 1786               | 85                  | 54                    |
| 95    | Bethlehem, Mountain Ash ..   | 1857               | 140                 | 150                   |
| 96    | Soar, Cwmaman ...  | 1859               | 97                  | 118                   |
|       | Ail-adeiladwyd ...   | 1869               |                     |                       |
| 97    | Libanus, Aberaman ..   | 1847               | 105                 | 156                   |
| 98    | Nazareth, Aberdar ..   | 1860               | 156                 | 275                   |
| 99    | Ebenexer, Owmbach ..   | 1864               | 192                 | 202                   |
|       | Trinity (S.) ..  | 1837               | 68                  | 230                   |
|       | <i>Dosparth Hirwaun.</i>   |                    |                     |                       |
| 100   | Bethel, Hirwaun ..   | 1823               | 214                 | 410                   |

## Y TRĒFNYDDION CALFINAIDD—(Pafhad).

| REF. | ENWAU'R CAPELL.  | Amsr<br>Adollada. | Rhif yr<br>Aelodau. | Rhif yr<br>Ysgol Sâl. |
|------|--|-------------------|---------------------|-----------------------|
| 101  | Ail-ad. Bethel, Hirwaun yn 1838, ac yn<br>Carmel, Treecynon, 1839; adgywsir., 1873 | 1856              | 162                 | 260                   |
| 102  | Moriah, Llwydoed, 1848; ail-ad. 1852   |                   | 164                 | 260                   |
| 103  | Bryn Seion, Treecynon ...  | 1862              | 96                  | 278                   |
| 104  | Cwmdar ..  | 1859              | 41                  | 69                    |
| 105  | Glyn Nedd ..   | 1856              | 77                  | 108                   |
| 106  | Pontnedd Fechan ..   | 1822              | 84                  | 174                   |
|      | Ail-adeiladwyd ..  | 1864              |                     |                       |
|      | <i>Dosparth Aberafan.</i>  |                   |                     |                       |
| 107  | Carmel, Aberafan ..  | 1810              | 170                 | 200                   |
|      | Ail-adeiladwyd ..  | 1844              |                     |                       |
| 108  | Dyffryn (Sgubor) ..  | 1780              |                     |                       |
|      | Capel Talbach (Dim lês)..  | 1840              | 284                 | 311                   |
| 109  | Bethel, Llansawel ..   | 1848              | 156                 | 296                   |
| 110  | Saron, Aberafan ...  | 1867              | 110                 | 195                   |
| 111  | Jerusalem, Pontrhydyfen ...  | 1826              | 124                 | 330                   |
| 112  | Tabernacl, Cwmafan ..  | 1837              | 197                 | 325                   |
|      | Ail-adeiladwyd ..  | 1854              |                     |                       |
| 113  | Margam (Dim lês) ...   | 1838              | 48                  | 58                    |
| 114  | Bryntroedgam (Dim lês) ..  | 1856              |                     |                       |
| 115  | Giant's Grave ...  | 1870              | 57                  | 153                   |
|      | <i>Dosparth Merthyr.</i>   |                   |                     |                       |
| 116  | Pontmorlais, 1792; ail-adeiladwyd, 1834  |                   | 268                 | 240                   |
| 117  | Bethlehem, Panttywyll ...  | 1841              | 140                 | 208                   |
| 118  | Hermon, Dowlais ...  | 1841              | 695                 | 482                   |
| 119  | Libanus, Dowlais ..  | 1852              | 252                 | 226                   |
|      | Ail-adeiladwyd ..  | 1858              |                     |                       |
| 120  | Y Graig ...  | 1847              | 87                  | 138                   |
| 121  | Nazareth, Troedyrhiw ..  | 1859              | 66                  | 79                    |
| 122  | Clwydyfagwyr, 1841; ail-ad., 1868  |                   | 50                  | 95                    |
| 123  | Pennel, ...  | 1859              | 63                  | 122                   |
| 124  | Hope Chapel (S) ..   | 1862              | 83                  | 234                   |
| 125  | Deri, Cwmbargod ..   | 1868              | 47                  | 60                    |
| 126  | Foohriw ...  | 1872              |                     |                       |
|      | <i>Dosparth Cwm Rhondda.</i>   |                   |                     |                       |
| 127  | Jerusalem, Ystrad ...  | 1867              | 167                 | 222                   |
| 128  | Heol Fach, (Ysgoldy, 1858), Capel  | 1870              | 40                  | 47                    |
| 129  | Bethlehem, Treorky ..  | 1868              | 134                 | 235                   |
| 130  | Horeb, Treherbert ...  | 1867              | 127                 | 267                   |
| 131  | Penygraig (Les, Ionawr 14)   | 1868              | 121                 | 210                   |
| 132  | Bethania, Llwynypia ...  | 1869              | 65                  | 112                   |
| 133  | Porth ...  | 1856              | 74                  | 162                   |
| 134  | Pisga, Dinas ...   | 1868              | 46                  | 82                    |
| 135  | Carmel, Blaenllechau ..  | 1870              |                     |                       |

Y WESLEYAID.

Dechreuodd yr enwad hwn bregethu yn y sir tua'r un amser ag y dechreuodd y Trefnyddion Calfnaidd. Bu yr enwog George Whitfield yn pregethu mewn amryw fanau yn y sir hon, ac yr oedd ei weinidogaeth yn cael dylanwad anorchfygol ar y gwrandawwyr. Nid oes cymmaint o lwydd wedi bod ar Wesleyaeth ag enwadau Ymneillduol ereill yn Morganwg; ond nis gallwn roddi un cyfrif am yr achos o hyn. Mae cryn anhawser hefyd i ddangos eu cynnydd, am mai anaml iawn y gwelir blwyddiad adeiladiad eu capeli wedi ei osod ar y muriau. Y cwbl allwn wneyd dan yr amgylchiadau, yw cyhoeddi yr hyn a gyhoeddir gan yr enwad ei hun o barth eu rhif, &c., yn 1871. Yn Nghylchdaith Merthyr, y mae ganddynt dri chapel, sef Sheilo, Merthyr; Dowlais; a Throedyrhiw. Rhif yr aelodau, 203.

*Cylchdaith Aberdar.*—Aberdar, Hirwain, Rhigos, Mountain Ash, ac Aberaman. Rhif yr aelodau, 195.

*Cylchdaith Treherbert.*—Treherbert a Blaenllechau. Aelodau, 49.  
*Cylchdaith Caerdydd.*—Caerdydd, Cadaxton, Tredelarch, Trelai, Llandaf, Melin Griffith, Caerfili. Rhif yr aelodau, 160.

*Cylchdaith y Bonfaen.*—Pontfaen, Llanilltyd Fawr, St. Athan, Llancarfan, Tregolwyn, Llantrisant. Rhif yr aelodau, 100.

*Cylchdaith Abertawy.*—Abertawy, Pontarddulais, Mynachlog Nedd, Pontardawy, Ystalyfera. Rhif yr aelodau, 254.

Nid yw yr uchod ond yn dangos sefyllfa yr adran Gymreig o'r enwad hwn yn Morganwg, tra y mae gan yr adran Seisnig luaws o gapeli heirdd yn y sir, gydag eglwysi lluosog a llwyddiannus. Dyma sefyllfaeodd a blwyddiad cymmaint ag a ellais gasglu o'r capeli:—Aberafan (S), 1865; Aberaman (S), 1859; Abercefnig (S), 1859; Aberdar (S), 1859; Abertawy, College Street a Tontine Street; America Fach, Porth, 1865; Briton Ferry (S), 1857; Cadoxton, —; Caerdydd, 1850; Cwmafan (S), 1849; Castellnedd (Ebenezer, 1888), Bethlehem (S); Glandwr (S), 1860; Horton a Gander Street, Penrice, Browyr; Horeb, Pontardawe, 1845; Merthyr (S), 1796; etto, 1868; Siloh (C), 1854; Dowlais (C), 1880; etto S., 1848; Sion, Ystalyfera, 1862; Llanilltyd Fawr, 1847; y Bonfaen, 1850; Treforest, 1852; Roath (S), 1871; St. Athan, Oxwich, Rhossilli, &c.

BIBLE CHRISTIANS.

Math o Ddiwygwyr Wesleyaidd yw y rhai hyn, ac y maent yn myned ar gynnydd cyflym yn mharthau Seisnigol y Sir; ac y mae ganddynt gapeli heirdd yn Aberafan (Zion, 1868); Abertawy; Cwmafan (Providence, 1859); Sciwen, 1872; Mumbles, &c.

TREFNYDDION HYNAFOL.

Mae gan yr enwad hwn luaws o gapeli yn ngwahanol barthau y Sir, a'r cynulleidfaoedd gan mwyaf yn Seison. Dyma enwau ac

amser adeiladiad eu capeli yn y lleoedd canlynol :—Tabernacla, Aberaman, 1855; Cwmaman; Cwmbach; Bethesda, Aberdar, 1862; Jubilee, Abertawy, 1860; Oswich; Dowlais, 1846; Bethesda, Tir Phil, 1870; Llwynypia, 1878.

### UNDODIAID.

Mae gan yr enwad hwn ddeuddeg o addoldai yn Morganwg, y rhai ydynt a ganlyn:—Gellionen, 1692; ail-adeiladwyd, 1801. Blaengwrach, 1704; ail-godwyd, 1886. Heolyfelin, Aberdar, 1751; ail-adeiladwyd, 1862; Penybont, 1795; Bettws, 1796; Merthyr (S), 1821; Cwmbach, Aberdar, 1840; Aberdar (S); Abertawy; Castellnedd; Trenewydd Nottais; y Wig.

### HANES LENYDDOL MORGANWG.

“Llenoriaeth Cymru noddid yn Essyllwg,  
A'r awen nythai gynt yn nghoed Morganwg:  
Mae yno etto ar rai prydiau'n chwarae  
Yn ngoleu clir y laswen wybren foreu.”—GLASTYNS.

Mae Morganwg er yn fore wedi bod yn noddle addysg a llenyddiaeth. Pan oedd Bangor Illtyd yn ei bri, tua'r 5ed a'r 6fed ganrif, dywed hanesiaeth fod yno 2,400 o efrydwyr yn dysgu y Gwyddorau a'r Celfau, yn ogystal â Duwinyddiaeth. Tua'r un cyfnod, yr oedd Bangorau Cennydd a Ffili mewn bri mawr, y naill yn Mro Gwyr, a'r llall yn Nghaerffili. Yn ychwanegol at y rhai hyn, yr oedd Cor Cattwg Ddoeth yn Llancarfan yn noddle tua 1,000 o efrydwyr. Yn y Coleg hwn y bu Taliesin Ben Beirdd yn efrydu, a lluaws o enwogion ereill gydag ef. Yma yr addysgwyd Cattwg Ddoeth ei hun, gan Dyfrig Beneurog; a phan ddyrchafwyd yr olaf yn esgob Llandaf, pennodwyd Cattwg yn athraw yn ei le, a bu yn ei swydd bwysig hyd ei farwolaeth. Yn Morganwg y ganwyd ac y magwyd Cattwg, ynddi y derbyniodd ac y cyfranodd ei addysg, a saif ei gyfansoddiadau mewn bri tra pery llenyddiaeth Gymreig. Yn annibynol ar y Bangorau, y mae Morganwg wedi bod yn ddinas noddfa i'r Eisteddfod yn mhob oes; ac adddefir yn gyffredinol mai y sefydliad hwn sydd wedi bod yn brif foddion i gadw llenyddiaeth Gymreig yn fyw yn ngwyneb chwyldroadau amser.

Wedi gwasgaru y Cyn Feirdd gan y Rhufeiniaid, pan ddiweddodd y Cyfnod Cyntaf ar Feirdd a Barddoniaeth, yn Nghyflafan Yswidw Polion, B.A. 60, ni fu nemawr lewyrch ar lenorion Cymru hyd amser Talhaiarn, o Gaerlleon-ar-Wysg, awdwr y weddi a arferir wrth agor yr Orsedd Farddol. Yr oedd Talhaiarn a Thaliesin yn cyd-oesi, ar ddechreu yr Ail Brif Gyfnod, pan newidiwyd y sefydliad o fod yn “Orsedd a Chadair” i “Eisteddfod a Chadair.”

Yr Eisteddfod gyntaf ar y cynllun newydd, a gynnaliwyd yn Ystumllwynarth (*Oystermouth*), Bro Gwyr, yn y flwyddyn 517, B.A., a gelwid hi Cadair Urien Bheged; a digon tebyg mai dan nawdd y tywysog hwnaw y cynnaliwyd hi. Talhaiarn oedd Brif-fardd yr Eisteddfod



hono; ac ar ei ol ef, daeth Taliesin yn Brif-fardd, neu Bencerdd, mewn tair Eisteddfod olynol; a chynnaliwyd un o'r tair yn Ystumllwynarth. Un o orhestion Taliesin yn yr Eisteddfodau hyny oedd ychwanegu dwy lythyren at yr Egwyddor Gymreig. Deunaw llythyren oedd ynddi cyn hyny, a chwblhaodd ef hwy yn ugain. Mae yn amlwg oddiwrth hyn fod yr Orgraff Gymreig a'i chyssylltiadau wedi bod yn destyn Eisteddfodol yn fore iawn. Nid oes genym hanes am gynnal-iaid ond un Eisteddfod o'r pryd hwnw hyd y 10fed ganrif. Cynnaliwyd yr un hono yn Ngwynedd, yn y flwyddyn 540, B.A., dan nawdd Maelgwn Gwynedd. Yn y 10fed ganrif, Morgan Hen, Tywysog Morganwg, oedd prif noddydd llenyddiaeth ei wlad; a dywed rhai awdwyr ei fod yn llenor gwyf ei hun. Ei frawd ef oedd Geraint Fardd Glas, yr hwn a ysgrifennodd Reolau Barddoniaeth, ac a ddyfeisiodd Gynghanedd Gydeimiol gyntaf, tra nad oedd cyn hyny ond odl. Barna rhai mai yr un person oedd Geraint Fardd Glas ac Asser Menavensus, athraw Alfred Fawr. Pa fodd bynag am hyny, cynnelid Eisteddfod yn Morganwg yn amser Morgan Hen bob tair blynedd, a Geraint yn Bencerdd ynddynt. Yr unig Eisteddfod a gynnaliwyd yn Morganwg yn yr llog ganrif, ag y mae crybwylliad am dani, yw yr hon a gynnaliwyd yn Nghastell Nedd, dan nawdd Iestyn ab Gwrgan, yn yr hon, meddir, yr oedd Rhys ab Tewdwr, brenin y Deheubarth, yn bresenol. Bu yr holl ryfeloedd a gymmerasant le yn ganlynol i hyn, yn amser Iestyn, yn rhwystr neillduol i gynnal Eisteddfodau; ond amlwg yw fod y beirdd yn noddi llenyddiaeth y pryd hwnw, oblegyd mor fuan ág y tawelodd pethau ar ol y Goresgyniad Normanaidd, daeth yr Eisteddfod i sylw a bri, a hyny dan nawdd yr estroniaid.

Pa beth bynag oedd amcan y Normaniaid, mae yn eglur eu bod yn ffatriol i lenorion Morganwg yn gynar iawn. Pan briododd Robert, mab Henry I., brenin Lloegr, â Mabli, merch Robert Fitzhamon, gwahoddwyd beirdd Morganwg i Gastell Caerdydd i fwynhau rhan o'r wledd briodasol. Yn amser Robert a Mabli, ac yn amser William, eu mab, arferid rhoddi gwledd flnyddol i feirdd Morganwg yn Nghastell Caerdydd. Yn y cyfarfodydd hyny y daeth Robert Duc Normandy mor gyfarwydd â llenorion yr Arglwyddiaeth, a dysgodd ein hiaith, nes medru cyfansoddi ynddi.

Cofnodir hanes dwy Eisteddfod Gadeiriol yn y cyfnod hwnw, sef Eisteddfod Castell Aberteifi yn 1166, ac Eisteddfod Llanfihangel Afan yn 1170, lle yr oedd Ieuan Fawr ab y Diwlith yn arweinydd a Phen- cerdd. Sefydlydd a noddydd Eisteddfod Llanfihangel Ynys Afan oedd Morgan, mab Caradog ab Iestyn, Arglwydd Abarafan. Sefydlydd y Gadair Eisteddfodol hono yn lle eiddo Caerlleon-ar-Wysg, yr hon a elwid Cadair Arthur. Tra yr oedd Eisteddfod Llanfihangel Ynys Afan yn ei rhwysg a'i bri, darfu i Gilbert de Clare, Iarll Caerloyw ac Arglwydd Morganwg (sef Gilbert, mab-yn-nghyfraith Iorwerth I.) roddi tir ar i'r sefydliad yn mhlwyfi Bettws a Llangynwyd. Rhodd- odd hawl hefyd i'r llenorion i anfon eu hanifeiliaid i bori tir neillduol yno yn ddidál am chwe' mis o'r flwyddyn; ac o hyny y tyfodd yr enw Eisteddfod Tir Iarll, a Chadair Tir Iarll. Daeth yr Iarll hwn i

feddiant o Forganwg yn 1261. Wedi derbyn nawdd y Iarll Norman-aidd, cynnelid yr Eisteddfod bob yn ail yn Nghwmafon a Llangynwyd, a pharhaodd mewn bri am oesau dan nawdd arglwyddi Morganwg. Yr oedd y sefydliad hwn yn ei ogoniant yn amser Dafydd ab Gwilym, ymherawdwr beirdd Cymru; ac yn Llys Ieuan ab Lleision, yn Maglan, y bu ef yn eistedd yn Gyff Clér, pan y canodd Rhys Meigan iddo yr englynion hyn:—

Cowad i fyny,—cowarch—yw dy bais,  
Neud, wyr Ifor ab Llywarch,  
Er Mair dyro wair i'r meirch,  
Oni roi y gwair dyro geirch.

ATTEB DAFYDD.

Ai'r gwineu, teneu geg, tin gregyn—llwyd,  
Lleidr gwair pob dyffryn?  
Hir yw blew dy denewyn,  
Gwair gwag a'i tag fel y tyn.

RHYS MEIGEN ETTO.

Taw, fachgen cras aren, crys iraid,—mwyglyd,  
Ai maglu mae'th lygaid?  
Uffern, Amen i'th enaid,  
Y cenaw bwch, cân neu baid.

Oynnyrfodd hyn Dafydd, a chanodd fel hyn:—

Nag eiriach di fi, mab y ci ceillgrych,—minau  
I tithau, teithiwr mynych,  
Gallaf pan nas gollaf? pwyth nas gellych;  
Mae darpar fy ngherdd fel nas chwerrddych.

Colynodd hyn Rhys, nes canodd yr englyn hwn:—

Mil tri chant, meddant i mi,—y ganwyd  
Yn genaw dan lwyni  
Gwr o'th han, garw yw'th enwi,  
Mab Gwilym Gam gydgam gi.

Y rheol gyda'r Cyff Clér oedd iddo eistedd ar gadair yn nghanol y Neuadd lle y cynnelid yr Eisteddfod, a'r beirdd presenol o'i amgylch i ganu yn duchanus iddo, ac yntau i'w hateb os medrai. Yr oedd hawl ganddynt, yn ol y rheol, i ddweyd pob *celwydd* am dano, ond nid oedd hawl gan un bardd i ddanod bai, na nodi diffyg ynddo trwy ddweyd y *gwir*, ond trinidad y cwbl mewn dull cellwerus. Felly, torodd Rhys ar y rheol trwy ddanod i Dafydd ei fod wedi ei eni dan lwyni, yr hyn oedd wir; a digiodd yn aruthr wrth Rys am ei sarhad. Yn yr Eisteddfod ganlynol, yr hon a gynnalwyd yn Llys Llywelyn o Emlyn, ewythr D. ab Gwilym, rhoddwyd Rhys Meigen yn Gyff Clér. Yr oedd y bardd ieungo wedi paratoi Awdl Duchan erbyn yr amgylehiad, ac

yr oedd mor ofnadwy o lym a phicellog, fel y syrthiodd Rhys yn farw wrth wrando ei darlleniad. Dyma enghraifft o honi :—

Rhediad dau lygad di luyrn—chwilcath

Rhys goegfrys gigrath fapeath fepgyrn :  
Euog drwm lleuog drem llewyrn—wydniwyth  
Anwiw, ffrw heb ffrwyth, golwyth gelyrn.

Parhaodd Eisteddfod Tir Iarll mewn gogoniant yn hir ar ol hyn, a bu Llys Ifor Hael yn Maeshaleg yn noddle llenorion tra bu Ifor byw.

Yr Eisteddfod gyntaf a gofnodir ar ol amser Dafydd ab Gwilym (hyn yw, yn Morganwg,) oedd yr un a gynnaliwyd yn Mynachlog Penrhys, yn Nglyn Rhondda, dan dawdd Owen Glyndwr, tua'r flwyddyn 1410, pryd y canodd Gwilym Tew ei Awdl orchestol i Mair, y Fynaches; neu yn hytrach, i'r ddelw euraidd o Mair Forwyn. Yn 1414, gorchymmynodd Harri V. lwy'r ddinystrio y Fynachlog hono, a gwerthu yr holl eiddo a berthynai iddi, er dial ar y Mynachod a'r Beirdd am bleidio Owen Glyndwr. Cyhoeddodd y brenin waharddiad, hefyd, nad oedd hawl gan neb i gynnal Eisteddfod yn Nghymru, heb ganiatad brenin Lloegr. Mae yn amlwg wrth hyn fod dylanwad y Beirdd yn fawr y pryd hwnw, a bod eu hofn hyd yn nod ar deyrn Lloegr. Mewn canlyniad i'r gwaharddiad a nodwyd, bu Cymru heb Eisteddfod am agos deugain mlynedd, sef hyd gynnalied Eisteddfod gyntaf Caerfyrddin yn 1451. Yr oedd llenorion Morganwg a Gwynedd yn dra chyfeillgar cyn hyny; ond pan ddygodd Dafydd ab Edmwnd ei Ddosparth Newydd ar Fesurau Cerdd Dafod i Eisteddfod Caerfyrddin, a chael gwarant arno yno, aeth yn ymraniad, am i wyr Morganwg, sef Llawdden, Ieuan Tew, ac ereill, wrthod y Dosparth Newydd, a glynu wrth yr Hen Ddosparth. Yn 1460, cynnaliodd beirdd Morganwg Eisteddfod fawreddog ar Fynydd Garth Maelwg, rhwng Llanharan a Llantrisant, ar ol Gosteg a Rhybudd Un Dydd a Blwyddyn, dan nawdd Richard Neville, Iarll Salisbury, ac Arglwydd Morganwg; ac yn yr Eisteddfod hono, cyhoeddwyd y Gwrthdystiad canlynol yn erbyn Dosparth Caerfyrddin :—"Yn yr Eisteddfod hon, Beirdd Morganwg a ddodant eu gwrthneue yn erbyn Dosparth Pedwar Pennill ar Ugain Dafydd ab Edmwnd, a farnwyd dan warant Cadair Caerfyrddin, achos fod Gorfodrif Beirdd Gwynedd yn ormes ar Feirdd Talaeth Dinefwr, a rhai Pendefigaeth Morganwg; ac o hyn allan, y mae Cadair Morganwg ar ei phen ei hunan yn Mraint Beirdd Yuys Prydain, ac yn ei chesail Ddosparth y Ford Gron, fel ag y'i cadarnheid gan Robert Iarll Caerloyw a Mabli ei wraig y dydd y priodasant yn Nghastell Caerdydd." Y prif feirdd yn yr Eisteddfod hon oeddynt Gwilym Tew, Ieuan ab Hywel, a Ieuan Gethin ab Lleision. Parhaodd y rhwyg a wnaed yn Eisteddfod Caerfyrddin yn 1451, hyd Ail Eisteddfod Fawr Caerfyrddin yn 1819, pan y deuwyd i'r penderfyniad fod Dosparth Dafydd ab Edmwnd a Dosparth Morganwg yr un mor warantedig. Erbyn hyn, pa fodd bynag, y mae hyd yn nod beirdd penaf Gwynedd yn cyfaddef mai beirdd Morganwg oeddynt ar yr iawn yn yr Ymrysonfa Fawr, ac mai trwy eu hymdrech hwy y cadwyd

yr Hen Ddosparth gwreiddiol yn fyw. Yn Ail Eisteddfod Genedlaethol Caerfyrddin, a gynnalwyd Gorphenaf 9 a'r 10, 1819, rhoddwyd gwobr am Draethawd ar "Gymmeriad Pennodol a Manteision Cymharol Sefydliadau Barddonol Caerfyrddin a Morganwg." Ennillwyd y wobwr gan y Parch. Walter Davies (*Gwallter Mechain*). Yn y Traethawd gorhestol hwnw, dangosodd yr awdwr galluog ragoriaeth Hen Ddosparth Morganwg ar eiddo D. ab Edmwnd, ac mewn iaith gref efe a ddirmygai ei gadwyni gorgaethion. Dyma sen yr enwog Gwallter Mechain i'r Ddosparth Newydd a'i awdwr:—

Dafydd! oedd gelydd ei gân,  
Ab Edmwnd yn bwhwman;  
Er ei Gywydd wenydd win,  
Gwyrri Farddas Gaerfyrddin,  
Bu'n ei Gadair ben giwdawd  
Eiriog wr i wyro gwawd;  
Drycodd ni am bedwar-cant  
O fwyddau chwith, afwydd chwant.

Pa fath ei gân? pwy fyth a'i gwyr?—nid un  
Neud anhawdd waith lledwyr;  
Gib-gab-geb, rhyw leb rhy lwyr,  
Clais anian yn cloi synwyr.

Niwl caeth hudoliaeth diles,  
I huliaw grym haul a gwres;  
Haul Awen! hoywa lewyrch  
Gwatto gwaith ei Gwta Gyrc;  
Gorhest anorhest a wnaeth,  
Gogr ddirym gau Gerddoriaeth.  
Aed ei *Orchest* dan dywarchen,  
A'i *Glopyrnach* dan gloig wernen,  
Gan wyro nod gwnaer yr wden  
Ofer gydiad ei *Fer Gadwen*.  
Aed ei *Ddosparth*, diwedd hyspys,  
I *Bull Gwepira*, i bell gyprys;  
Yn ei orwedd yno erys  
Mal bw brain,—moel bawb o'r Ynys.

A rhydyd i bob rhadau,  
Gwyr y gerdd i gaerog wau;  
Llwyddiant i Farddas *Llawdden*  
A gwin gwawd *Morganwg Wen*.

Gan mai gogleddwr oedd Gwallter Mechain, a'i fod yn cael ei gyfrif yn brif feirniad ei oes a'i genedl, mae yn amlwg mai nid oddiar deimlad o dueddgarwch at Hen Ddosparth Morganwg y dywedodd "fod Ddosparth D. ab Edmwnd yn fwy niweidiol i'n Prydyddiaeth nág i'n hiaith, o achos eu *cyfyngder gwrthun a dibryll*; ond pe canlynid Rheolau y Ddosparth Cysefin, fel ei gwelir yn 'Nghyfrinach y Beirdd,' ymddangosai ein mydryddiaeth yn *harddach* ei diwyg, a chynnwysai *enaid cerdd yn lle ei chysgod*." Dyma ddywed y Parch. Robert Ellis (*Cyn-ddelw*) ar y pen hwn:—"Ymddengys i D. ab Edmwnd ffurfio ei Ddosparth, ac ennill y Gadair yn Nghaerfyrddin, heb lawer o wrthwynebiad

ar y pryd oddiwrth feirdd Morganwg, er mai *newyddbeth diansawdd* oedd ei fesurau gan mwyaf."—*Tafol y Beirdd.*

Heb ychwanegu ar deithi y Ddau Ddosparth, awn yn mlaen ag hanes noddiaid llenyddiaeth Eisteddfodol Morganwg. Wedi Eisteddfod Mynydd Garth Maelog, 1460, cynnaliodd beirdd Morganwg yr Eisteddfodau yn unol â'r Hen Ddosparth, yn annibynol ar bawb ereill. O'r flwyddyn 1485 hyd 1509, cawsant nawdd Harri VII. a Jasper Tudur, Arglwydd Morganwg. Un o brif Eisteddfodau y cyfnod hwnw oedd Eisteddfod Mynachlog Nedd yn 1490, pan y canodd Lewis Morganwg ei Awdl gampus i'r Fynachlog a'r Abbad. Yn 1520, cynnaliwyd Eisteddfod bwysig yn Nghastell Caerdydd, dan nawdd Wm. Herbert, Iarll Penfro; ac yn hono, trefnwyd cryn lawer ar y Mesurau, dan arweiniad Lewis Morganwg.

Yr Eisteddfod nesaf y cofnodwyd ei hanes, a gynnaliwyd yn Llandaf, yn 1564, pan oedd y llenorion canlynol yn bresenol:—Syr Thomas Jones, (Twm Shon Catti), Giles ab John, William Dyfi, Syr Shon Gruffydd, Evan Gruffydd (ei frawd), William Evans, Thomas Brwynllys, Thomas Llywelyn, Meuryg Dafydd, Shon Mawddwy, Thomas Lewis, Meredydd ab Rhosser, Hopcyn Twm Philip, a Changellydd Llandaf, yr hwn oedd y beirniad.

Nid oes genym hanes pendant am unrhyw Eisteddfod yn Nghymru ar ol un Llandaf, ond Eisteddfod Caerwys yn 1567, hyd 1588, pan y cynnaliwyd Eisteddfod yn Morganwg dan nawdd Syr Edward Lewis, y Fan; a Llywelyn Sion, o Langewydd, yn Bencerdd ynddi. Etto, er na cheir hanes neilldrol am Eisteddfodau yn y cyfnod a nodwyd, mae yn amlwg iddynt gael eu cynnal, oblegyd crybwyllir mai Dafydd Benwyn oedd y Pencerdd yn Eisteddfod 1570, ond ni nodir y fan y cynnaliwyd hi. O'r flwyddyn 1580, hyd y flwyddyn 1681, sef cant ac un o flynyddau, ni cheir hanes yn mha le oedd y cynnaliwyd gwahanol Eisteddfodau yn Morganwg. Dim ond crybwyllion byrion pwy oeddynt y pencerddiaid, gyda nodiad o'r blynyddau, geir mewn hanesiaeth. Pa fodd bynag, yn 1681, cynnaliodd Beirdd Morganwg Eisteddfod Fawr y Bewpyr, hanes yr hon a geir yn Nghyfrinach y Beirdd fel y canlyn:—



"**LLYMA GYFRINACH BEIRDD YNYS PRYDAIN**, ys ef llwybreiddiaeth ag Athrawiaeth ar Farddoniaeth Gymreig a'i pherthynasan, herwydd Barn a Dosparth Beirdd a Chadair Morganwg; yr hon yw cyssefin Ddosparth Beirdd Ynys Prydain ar Gerdd Dafod, ac a elwir o iawn alwad Yr Hen Ddosparth am mai hon fu o'r dechreuad. Ac Edward Dafydd, o Ddinas Margam yn Morganwg, a'i trefnodd gan ei thynu allan o Lyfrau Beirdd ac Awduron dysgedigion, rhag ei myned ar goll, nid amgen nag o waith a llyfrau Meurig Dafydd, a Dafydd Llwyd Mathew, a Dafydd Benwyn, a Llewelyn Sion, ys ef ydd oeddynt oll yn Feirdd Cadeiriog wrth Fraint a Defod Beirdd Ynys Prydain a

Phencerddiaid wrth Awdurdod Gwlad ac Arlwydd, ar holl Arlwyddiaeth Morganwg, a Gwent, ac Ewas. A'r Ddosparth hon a farnwyd yn gyfiawn, herwydd Prif Ansawdd Cerdd Dafod, ac arfer Prif Feirdd Ynys Prydain, ac a gadarnhawyd yn yr Orsedd wrth Gerdd Dafod, a gynnalwyd yn y Bewpyr yn Morganwg, ar Ddydd Llyn, a Dydd Mawrth, a Dydd Mercher y Sulgwyn, yn y flwyddyn 1681, dan Nawdd a Dawn Syr Risiart Bassed, Farchog, Arlwydd y lle; a than Osteg a Rhybudd Un dydd a Blwyddyn, drwy Forganwg, a Gwent, ac Ewas; ac yn Bencerddiaid yno, Charles Bwttwn, Ysgweier; a Dafydd o'r Nant, ac Edward Dafydd o Fargam (yn nghyda thri-ar-ddeg ereill) a'r Rhain yn Brydyddion a Beirdd wrth Ffaint a Defod Beirdd Ynys Prydain, ac yn Athrawon cyfiawnder."

Dywed Cynddelw yn *Nhafol y Beirdd*, fod "Yr olyniaid barddawl wedi ei gadw yn lled fyw yn Morganwg wedi Eisteddfod y Bewpyr, pan oedd wedi darfod yn llwyr yn y Gogledd." Profir hyn gan hanesion cywir; a cheir cofnodion o ymdrechion Morganwg i gadw yn fyw yr elfenau barddonol a cherddorol, yn eu cyfarfodydd blynyddol yn Ystrad Owen, hyd y flwyddyn 1720. Y prif leocedd yr arferai Beirdd Morganwg gynnal eu Heisteddfodau trwy yr oesoedd, oeddynt a ganlyn:—Neuadd Twr Crwn Castell Caerdydd; Neuadd Palas yr Adyr; Neuadd Castell Llanddunwyd; Neuadd Ieuan ab Lleison, yn Maglan, Aberafan; Cabidyldy (*Chapter-house*), Llandaf; Cabidyldy Margam; Cabidyldy Glyn Nedd; Cabidyldy Llanilltyd Fawr; Pen Garth Maelwg; Castell Llantrisant; Eglwys Pentyrc'h; Mynydd y Caerau; Gwastadedd Llancarfan; Llanfihangel Ynys Afan; Tir yr Iarll; Ystrad Owen; Mynachlog Penrhys; Gwastadedd Abercynon, &c. Wedi olrhain Eisteddfodau Morganwg yn y canrifoedd sydd wedi myned heibio, crybwyllwn etto am ychydig o brif rai y canrif presenol.

Y Sefydliad Llenyddol cyntaf o unrhyw bwys yn Morganwg yn y canrif hwn oedd, Cymdeithas Cadair Merthyr Tydfil, yr hon a gychwynwyd yn 1828, a chafodd ei chario yn mlaen yn llwyddiannus am amryw o flynyddau. Ysgrifenydd y Gymdeithas oedd Taliesin ab Iolo Morganwg; a bu y Parch. T. Price (Carnhuanawe), yn llywyddu ynddi droion. Yma yr enwogodd Mr. Richard Williams (Gwilym Ddu o lan Cynon), ei hun fel Bardd Cadeiriol, am ei Awdl i'r Goleuni; a Thomas Lewis (Lewis Morganwg, Feddyg), am ei Awdl i'r Bedd; a Thaliesin ab Iolo, am ei Awdl ar ol W. Moses (Gwilym Tew o Lan Taf); a Thomas Williams (Gwilym Morganwg), am ei Awdl ar ddi-ustr Castell Caerffili.

Yn Eisteddfodau y Gymdeithas hon hefyd, yr ymenwogodd Iolo Fardd Glas; T. ab Gwilym, Cilfynydd; Myfyr Morganwg, ac ereill. Cyhoeddwyd cynnyrchion y gymdeithas hon dan yr enw Awenyddion Morganwg yn 1826.

Yn ganlynol i hyn, cychwynwyd Cymdeithas Gymreigyddol Caerdydd; a chynnalwyd Eisteddfod yno Awst 20, 21, 22, 1834. Testun Awdl y gadair oedd, Derwyddon Ynys Prydain; ac ennillwyd y wobrgan Taliesin ab Iolo. Cyhoeddwyd cyfansoddiadau yr Eisteddfod hono yn Llundain yr un flwyddyn, dan yr enw "Awenyddion Gwent a Dyfed."

Palla gofod i ni fanylu ar yr Eisteddfodau Lleol, dim ond nodi fod Eisteddfod y Carw Coch, Aberdar, wedi cynnyrchu llyfr o'r enw "Gardd Aberdar," 1858; Eisteddfod Cwm Afan, wedi cynnyrchu "Aeron Afan," 1855; Eisteddfod Maesteg, wedi cynnyrchu'r "Berllan," 1869. Heblaw y rhai hyn, Eisteddfodau pwysig oeddynt eiddo yr Iforiaid yn Nhreforris, 1854; Dowlais, 1857; a Merthyr. Eisteddfodau Cenedlaethol Aberdar hefyd yn 1861, ac yn Abertawy yn 1868; ac Eisteddfod y Cymry yn Nghastell Nedd, yn 1866.

Heblaw y rhai hyn, gellir nodi Cymrodorion Dirwestol Merthyr Tydfil, fel rhai sydd yn hawlio anrhydedd uchel am eu hymdrechion o blaid llenyddiaeth Gymreig. Galwai yr enwog Eben Fardd y pwyllgor hwn yn "Bwyllgor Arweiniol Llenyddiaeth Cymru." Torodd y pwyllgor hwn dir newydd hollol, trwy wobrwyo am Draethodau Athronyddol, Cyfansoddiadau Cerddorol, Arwrgerddi, Bugeilgerddi, Desgrifgerddi, a'r *Novel*; ac a gychwynodd yr Eisteddfodau Cerddorol. Heb ychwanegu ar yr Eisteddfodau, edrycher etto, ar yr hyn y mae Morganwg wedi wneyd gyda golwg ar gyfrannu at Llenyddiaeth Cymru, yn annibynol ar y sefydliadau hyn.

Gyda golwg ar *Ddiarebion Cymreig*, saif eiddo Cattwg Ddoeth yn mhen y rhês; ac yn Morganwg y ganwyd, y magwyd ef, ac ynddi y treuliodd ei oes. Y "*Trioedd Doethineb*" hefyd, ydynt gynnyrchion a gasglwyd gan Risiard Iorwerth, Dafydd Benwyn, Watcyn Powell, Syr John Gruffydd, o Langrallo; Morris Dafydd, o Benybont, &c.; i gyd yn wŷr Morganwg. Ein *Hanesiaeth Gymreig* hefyd, sydd dra dyledus i Forganwg. Dywedir yn y *Myf Arch*, tud. 482, fod *Brut y Brenhin-oedd* wedi ei ysgrifenu gan Tissilio, a'i ychwanegu gan Gwallter, o Rydychain. Y Gwallter hwn oedd Walter de Mapes, brodor o Lancarfan yn Morganwg. G. ab Arthur hefyd, awdwr y *Brut* sydd ar ei enw, oedd Esgob Llandaf. *Brut y Tywysogion* hefyd, a ysgrifenydd gan Caradog o Lancarfan; a ohynnwysa hanes Cymru o'r flwyddyn 686, B.A., hyd 1157, B.A. Yn ychwanegol at y rhai hyn, priodol yw nodi y Iolo MSS.; a gasglwyd gan yr enwog Iolo Morganwg.

Nid yw Morganwg wedi bod yn ol ychwaith, gyda golwg ar gynnyrchu a chadw yr *Alawon Cymreig*; a bu gwaith Miss Williams, Aberpergwm, yn cyhoeddi cyfrol o'r rhai hyn yn gaffaeliad i'r genedl. Wedi hyny, cyhoeddodd y diweddar John Thomas (Ieuan Ddu), gyfrol arall dan yr enw "Y Caniedydd Cymreig," yn 1845. Yn ddiweddarach, y mae John Thomas (Pencerdd Gwalia), brodor o Forganwg, wedi cyhoeddi dwy gyfrol hardd o Alawon Cymru, y rhai ydynt yn anrhydedd i'r genedl. Gallwn ychwanegu etto, mai o'r o Forganwg yw'r "Oôr Mawr," yr hwn ennillodd "Hêr Gwpan" y Palas Grisial, yn 1872, a 1878; ac nid hyny yn unig, ond ennillodd anrhydedd cenedlaethol i'n gwlad a'n genedl. Gyda golwg ar *Eiriaduron*, mae tri o gryn enwogrwydd wedi eu cynnyrchu yn Morganwg; y rhai sydd wedi bod o wasanaeth mawr i'r genedl. 1. Geiriadur Seisneg a Chymraeg, y Parch. John Walters, Llandoche'r, Bontfaen, 1794; ac a sail-argraffwyd yn Nolgellau, yn ddwy gyfrol yn 1815; ac argraffwyd ef y drydedd waith yn Rhuthyn 1828. Dywed awdwr "Enwogion Cymru,"

fod y Geiriadur hwn heb gystadleuydd o ran cywirdeb, trefniad brawddegau, &c. 2. Geiriadur Cymraeg a Seisneg, y Paroh. Thomas Richards, Llangrallo, 1758. Mae hwn wedi myned drwy amryw argraffiadau; ac y mae ei ragoroldeb yn gyfryw, gyda golwg ar darddiad geiriau, &c., fel y mae yn sicr o gadw ei safle uchel yn mhlith Geiriaduron y genedl. 3. Geiriadur Iolo Fardd Glas, yr hwn a elwir yn Gyneirlyfr. Mae Geiriadur Griffiths, Abertawy hefyd, yn un pur boblogaidd. Mae Cymru yn ddyledus i Forganwg hefyd am lawer o'i hen lenyddiaeth Chwedlonol, megys "Chwedl Geraint fab Ebryn,—Ystori Owain ab Urien,—neu Chwedl Iarlles y Ffynnon,—Ystori Peredur ab Efrog," &c., y rhai a briodolir i Ieuan Fawr ab y Diwlith; Thomas ab Einion, Offeiriad; a Hopcyn Thomas Phillip. Bernir hefyd fod "Ystori Sant Greal" yn perthyn i Forganwg, gan i Gutto'r Glyn ddyfod yr holl ffordd o Sir Ddinbych i Forganwg, i ofyn benthg copi at Trahaiarn ab Ieuan ab Meuryg.—*Lit. Cym.* 424—426—448.

*Cyfrinach y Beirdd*, hefyd, yn ddiarnheu, ydyw y goraf yn yr iaith o ddigon ar Reolau Barddoniaeth Gymreig. Yn Morganwg hefyd y cyhoeddwyd y Newyddiadur Cymreig gyntaf, sef *Seren Gomer*, yr hon ar y cychwyn oedd Newyddiadur Wythnosol. Daeth y rhifyn cyntaf allan, Ionawr 1, 1814, dan olygiaeth y Paroh. Joseph Harries. Trodd yr anturiaeth hono allan yn fethiant a cholled; a chychwynwyd hi yn gyhoeddiad misol, Ionawr 1, 1818; ac yn y ffurf hono bu yn fwy ffodus. Mae'n wir i Gyhoeddiad Pythefnosol o'r enw "Trysorfa Gwybodaeth, neu Eurgrawn Cymraeg," gael ei gyhoeddi yn Nghaerfyrddin yn 1770, dan olygiaeth Peter Williams, yr hwn oedd y Cyhoeddiad Cymraeg cyntaf fu erioed; ond nis gellir dweyd mai Newyddiadur oedd hwnw. Yn bresenol (1872), cyhoeddir amryw Newyddiaduron Cymreig yn Morganwg, megys *Y Guladgarwr*, yn Aberdar, cylchrediad yr hwn sydd tua 7,000 yn wythnosol. *Y Felten*, Merthyr, wythnosol, cylchrediad tua 4,000. *Y Tyst a'r Dydd*, Merthyr, yn wythnosol, cylchrediad tua 4,000.

## BEIRDD GORSEDD MORGANWG.

### BYR GOFIANNAU AM DANINT.

**IUEAN FAWR AB Y DIWLITH.**—Y traddodiad am hwn yw, ddarfod i'r beirdd wrth fyned i gynnal Gorsedd ar y Twmpath Diwlith, ar Fynydd Margam, ei gael yno yn faban bychan; ac i un o honynt ei gymmeryd i'w fagu a'i addysgu, ac iddo ddyfod yn fardd gwyeh, i lywyddu yr orsedd yn 1160. Mae'r traddodiad yn lled awgrymu mai plentyn ordderch oedd, ac mai un o'r beirdd oedd ei dad; ac i'w fam ei osod ar Dwmpath Diwlith, fel y gallai ei dad ei gael yno wrth ddyfod i gyfarfod y beirdd. Priodolir i hwn amryw o'r Hen Fabinogion a'r Grealau. Preswyliai yn Llangynwyd, ac yno y claddwyd ef gyda theulu Llwydiarth.

**TRAHAIRN BRYDYDD MAWE.**—Bernir mai yr un oedd hwn a Chasnodyn. Brodor o blwyf Llangyfelach oedd, a dywed hanesiaeth mai



efe oedd llywydd Gorsedd Morganwg yn 1800. Ymddengys oddiwrth y Dduchangerdd a ganwyd iddo gan Hywel Ystordyn, mai amaethwr oedd wrth ei alwedigaeth; oblegyd danoda iddo ei fod yn aradrwr, fel ei deulu o'i flaen, a bod ganddo fab a merch yn ei helpu i drin ei dyddyn. Fel hyn y dywed y goganwr :—

“ Tarw yw hwn, tewbwn tabar—du bradawg  
Di bryder, ofergar;  
Tald eirddiaid braeniaid brynar,  
Tegach na'i forach ni fâr.

Mewn cae y mae'r maerwr,  
Plant a deiliant ei dalar;  
Mab a ardd cearnhardd eornhir,  
A merch goch wylltgoch walltgar,” &c.

Mae rhai o ganiadau Trahaiarn yn argraffedig yn *Myf. Arch.*, tud. 881.

HYWEL BUR BACH.—Yr oll a gefais o hanes hwn oedd, ei fod yn llywydd Gorsedd Morganwg yn 1880.

DAFYDD AB GWILYM, llywydd Gorsedd Morganwg yn 1860. Hwn oedd fardd penaf ein cenedl yn ol barn ein beirniaid goraf; a dywed rhai awdwyr Seisnig, megys Barrow ac ereill, mai efe oedd y bardd mwyaf fagodd Ewrop. Rhesir ef gydag Homer y bardd Groegaid, a chyfrifir Virgil, Dante, &c., yn is-raddol iddo. Mae mwy nag un man yn Nghymru yn honi hawl i'r anrhydedd o fod yn fan genedigol iddo; ac nid rhyfedd. Etto ffolineb yw ymryson am hyn, ond dylem fel cenedl ymfalehio ei fod yn perthyn i ni, gan nad pa le y ganwyd ef. Dywed rhai mai yn Sir Fôn y ganwyd ef; ac ereill, iddo gael ei eni yn Mro Ginin, Llanbadarn Fawr, swydd Aberteifi; tra y mae ereill yn honi mai yn Morganwg y ganwyd ef. Mae yr englyn a nodwyd eisoes o waith Rhys Meigen, yn tueddu i gadarnhau yr hanes canlynol am ei enedigaeth:—“Dafydd ab Gwilym, ydoedd fab i Gwilym Gam, o Lanbadarn Fawr, yr hwn oedd o deulu anrhydeddus Un o Bumtheg Llwyth Gwynedd. Enw ei fam oedd Ardudfyl, merch Gwilym Fychan o'r Cryngae, yn Emlyn; yr hwn oedd o deulu anrhydeddus hefyd. Fel y mae'n dygwydd yn fynych, nid oedd teulu Gwilym Gam, na theulu Ardudfyl, yn foddlon i'r ddau briodi. Pa fodd bynag, nis gallent eu cadw oddiwrth eu gilydd, a'r canlyniad fu, i Ardudfyl feichiogi. Pan ddaeth ei thad, a Llewelyn ei brawd i wybod hyn, troisant hi allan o'r tŷ ar ganol nos yn y gauaf, ac anfonasant at eu holl berthynasau, i'w rhybuddio i beidio ei chymmyrd i'w tai ar un cyfrif. Yn ngwyneb hyn, aeth hithau i'w ffordd, heb wybod i ba le. Pan glywodd Gwilym Gam ei bod wedi ei throi o dŷ ei thad, aeth ar unwaith i ohwilio am dani, ac wedi ei chael, hwy a gychwynasant ill dau tua Morganwg, i Lys Ifor Hael, yr hwn oedd ewythr i Gwilym, brawd ei fam. Tra ar eu ffordd, yn nyfnder nos arw iawn o wynt a chesair, ganwyd Dafydd ab Gwilym, yn blentyn saith mis, dan berth. Tranoeth cyrhaeddasant Landaf, lle y priodwyd Gwilym ac Ardudfyl, ond bu hi farw yr un dydd, a ohladwyd hi yno; a bedyddiwyd y

plantyn ar eroh ei fam. Wedi claddu Ardudfyl, aeth Gwilym a'r plantyn yn ei flaen i Wern y Cleppa, lle y derbyniwyd ef yn llawen gan Ifor Hael a Nest, ei wraig. Dyohwelodd Gwilym yn ol i Fro Ginin, yn Llanbadarn Fawr, ar farwolaeth ei dad, ac aeth a'i fab gydag ef. Priododd Gwilym yr ail waith, a chan na allai Dafydd gyd fyw a'i lysfam, efe a aeth i Lys Ifor Hael drachefn. Pan welodd ei ewythr brawd ei fam, Llewelyn ab Gwilym Fychan, o'r Gryngae, a'r Ddôl Goch yn Emlyn, fod defnyddiau bardd yn y bachgen, efe a gymmerodd atto, i ddysgu y gelfyddyd iddo. Tra yr oedd Dafydd yn aros yno, ymosodd llu o Saeson o Sir Benfro, ar y Ddôl Goch, a lladdwyd Llewelyn; ac aeth Dafydd drachefn i Lys Ifor Hael; ac yno y bu yn treulio llawer o'i amser hyd farwolaeth Ifor a'i wraig, yn mhalas Esgob Llandaf, yn Llangadwaladr, yn Ngwent Iscoed, yn 1860, pryd y bu farw yr esgob John Pascal hefyd o'r un haint. Bu Dafydd yn teithio y wlad wedi hyn hyd farwolaeth ei dad, pryd yr aeth i Fro Ginin i fyw ar ei dir ei hun. Gadawodd y lle hwnw drachefn, pan aeth yn hen, ac aeth i fyw i bliith Mynachod Talylychau, lle y bu farw yn 68 mlwydd oed. Dywed rhai haneswyr iddo gael ei bennodi yn athraw i Angharad, merch Ifor Hael; ac i garwriaeth dyfu rhwng Dafydd a'r foneddiges ieuange, yr hyn a barodd i'w thad ei hanfon i Leiandy (Nunnery), yn Sir Fon, ac na chafodd ddychwelyd oddiyno tra y bu hi byw. Ereill a haerant mai merch Ifor Hael oedd Morfudd, i'r hon y canodd y bardd 147 o gywyddau; ond ymddengys fod hyn yn hollol gamsyniol, oblegyd merch Madog Lawgam, o Fôn, oedd cariadferch Dafydd ab Gwilym. Gwelodd ef hi gyntaf ar ddydd Gwyl Pedr, yn Rhosyr-Niwbwre, yn Môn; ac yn ol defod yr amserau, anfonodd Dafydd ei was a dau alwyn o win yn anrheg i Forfydd; tafiodd hithau ef gyda dirmyg am ben y gwas, a chanodd y bardd:—

" Cael y claerwin o'r ddinas  
A'i dywallt yn ngwallt ty ngwas."

Aeth yn garu brwd rhyngddynt ar ol hyny, a phriodwyd hwy gan Madog Benfras, y bardd. Aeth ei rhieni a Morfudd oddiarno drachefn, a gorfodwyd hi i briodi â swyddog milwrol. Rhedodd ymaith gyda Dafydd drachefn, a bu yntau yn ngafael y gyfraith, pryd y daeth gwyr Morganwg i'w blaid, a'i ryddhau. Yn 1789, cyhoeddwyd cyfrol yn cynnwys 548 tudalen o'i Ganiadau; ac ail-argraffiad o'r cyfryw yn 1878.

LEUAN HEN.—Cadeirfardd Morganwg, yn 1870.

HOPEYN AB THOMAS AB EINTON.—Yr oedd hwn yn foneddwr cyfoethog, a swyddog milwrol o urddas; ac yn fardd rhagorol. Preswyliai yn mhalas Ynys Tawy, ger Abertawy. Bernir ei fod yn byw rhwng 1810 a 1880. Mae pump cerdd o fawl iddo yn y Myfyrian Archaeology, un gan Iorwerth Llwyd, un gan Meiryg ab Iorwerth, un gan Madog Dwygraig, un gan Dafydd y Coed, a'r llall gan Ll. Goch ab Meiryg. Canodd Hopeyn ab Thomas, Alargerdd ar ol Dafydd ab Gwilym, o'r hon y mae'r dyfyniad canlynol:—

" Dafydd a wnaeth Gerdd Dafawd—yn gofraid  
O'i gyflym fyfyrdawd ;  
Aeth i fedd eithaf addawd,  
Mawr yw ein briw, marw'n brawd."

" Mil meddant, trichant trwy ochain—irad  
Wyth ereill a thrigain ;  
Marw bu, brydydd mirain,  
Mab Gwilym, gerdd edlym gain."

" Yn medd y gorwedd, a'r gareg—arnaw  
Mawr ei nych gloyw ateg ;  
Accw yn Yuys Cain waneg,  
Lle uwch dwr Tal-llychau deg."

IEUAN GETHIN, ab Ieuan ab Lleision ab Rhys ab Morgan Fychan ab Morgan Arlwydd ab Osaradog ab Iestyn. Yr oedd hwn yn un o Feirdd Tir Iarll, yn ddysgybl i Ieuan Tew yn 1420, ac yn Fardd Cadair Morganwg yn 1480. Yr oedd efe yn bresenol yn Eisteddfod Caerfyrddin yn 1451, yn gwrth-dystio yn erbyn Dosparth Newydd Dafydd ab Edmund. Bu yn filwr yn myddin Owen Glyndwr, am flynyddau ; a phan orfodwyd y dewr wladgarwr hwnw i ymguddio, bu orfod ar Ieuan ffoi at gyfaill iddo yn Môn, a llechu yno, gan fod Harri V. yn ceisio ei fywyd, am iddo bleidio Owen. Yn y diwedd, llwyddwyd i brynu rhyddid i Ieuan am 100 o wartheg a 200 o ddefaid, a daeth yntau yn ol i Forganwg. Dyma gywydd o'i waith ar ol Ieuan Döwr, sef Ieuan Hen, Cadeirfardd Morganwg yn 1870, medd rhai :—

" Gwae Wilym, nid gwiw wyllo,  
Eisien tad i osod tó,  
Tores gieu ei frenant,\*  
Ni thyr oed i wneuthur cant.  
Ni thöed henwaith Ywain,  
Ni thöir mwy eithr á main ;  
Ni chaiff caeynen hennyth,  
Ni thau'r beirdd, ni thöir byth !  
Aed y llygod i rodio  
Aed o'r tir adar y tó ;  
Aeth Ieuan ddilan ddolef,  
A'i dö-bren o'r nen i'r nef ;  
Ni wylwn ond o'i alaeth,  
I dy Dduw i doi ydd aeth.  
Llawer collwyn heb gwyno.  
Llithred hwn hyd llathr y tó ;  
Llawer hyd yn nhir Lleyn  
Llwyn heag yn llawen o hyn."

GWILYM AB IEUAN HEN.—Bernir mai mab Ieuan Döwr oedd hwn, a'i fod yn gyd-oesydd á Ieuan Gethin, rhwng y blynyddau 1440—1480. Mae dau gywydd o'i waith yn argraffedig yn Ngorchestion Beirdd Cymru, un i Gruffuth ab Nicholas, noddydd Eisteddfod Caerfyrddin, a'r llall i ddau garcharor yn Nghastell Harlech.

IEUAN TEW HEN oedd fardd Cadair Morganwg yn 1420. Methais gael enghraifft o'i waith.

\* Bregant, Corn y gwddf.

**HYWEL AB DAFYDD, AB IEUAN AB RHYS, A.M.,** Aberdar, ydoedd fardd ac hanesydd gwydh iawn, yn byw rhwng 1450 a 1480. Yr oedd yn bresenol yn Ngorsedd Morganwg, yn 1460. Mae llawer o'i farddoniaeth ar gael yn bresenol. Mae ei "Gywydd Cynog Sant" yn argraffedig yn Iolo MSS., tud. 302. Ysgrifennodd hwn Hanes Prydain Fawr yn Lladin, ac Hanes Tair Tywysogaeth Cymru yn Gymraeg.

**GWILYM TEW (Y Cyntaf).**—Hwn oedd cadeirfardd Morganwg yn Eisteddfod Garth Maelwg, yn 1460. Yr oedd hwn yn bresenol yn Eisteddfod gyntaf Caerfyrddin, yn 1451, ac efe farnwyd yn oreu ar Hen Ddefodau, a Hen Gelfyddyd Cerdd Dafod. Yr oedd yn ei fri hefyd yn Eisteddfod Fawr Mynachlog Penrhys, Cwm Rhondda, yr hon a gynaliwyd dan nawdd Owen Glyndwr. Mae Awdl orchestol Gwilym Tew yn yr Eisteddfod hono, yn argraffedig yn *Nghyfrinach y Beirdd*.

**LLAWDDEN (Y Cyntaf)** neu Ieuan Llawdden, ydoedd frodor o Landeilo, Talybont. Treuliodd lawer o'i oes yn Machynlleth yn offeiriad; ond dychwelodd i ardal ei enedigaeth i farw, a chladdwyd ef yn Nhal-ybont. Yr oedd yn cyd-oesi â D. ab Edmund, a Gwilym Tew. Iddo ef yr ymddiriedwyd y gorchwyl o drefnu'r Cynghaneddion yn Eisteddfod gyntaf Caerfyrddin; ac iddo ef y dyfarnwyd y Fwyell Aur am ei Drefniad. Gellir ychwanegu hefyd, mai efe fu'n offeryn i godi yr Eisteddfod i fodolaeth, wedi i Harri V. wahardd ei chynnal tua'r flwyddyn 1414. Llwyddodd Llawdden i gael gan ei gyfaill Gruffydd ab Nicholas, i ofyn cenad y brenin i gynnal Eisteddfod Gyntaf Caerfyrddin, a bu hyn yn ail gychwyniad i'r sefydliad.

**MEREDYDD AB RHOSSE** ydoedd lywydd Gorsedd Morganwg, yn 1470. Methwyd cael ychwaneg o'i hanes.

**IEUAN DEULWYN.**—Mae dau le yn honi hawl i hwn, sef Pendeulwyn Sir Gaerfyrddin, a Phendeulwyn, Morganwg. Pa fodd bynag, hyn sydd sicr, ei fod yn un o feirdd Gorsedd Morganwg, ac yn llywydd yr orsedd yn 1480. Efe oedd athraw barddol Lewys Morganwg, Iorwerth Fynglwyd, ac ereill. Yr oedd yn achyddwr rhagorol, heblaw ei fod yn fardd. Yn 1460, gwyswyd ef i Gastell Penfro, trwy orchymyn Iorwerth IV., i olrhain achyddiaeth yr Herbertiaid, yn Hen Lyfrau Margam, &c., a rhoes gyflawn foddlonrwydd. Dywedir fod L. Ll. Dillwyn, Ysw., A.S., Abertawy, yn ddisgynydd o hwn. Dyma enghraifft o'i waith barddonol.

#### Y FEDWEN.

" Mae bedwen yn niben allt,  
Friglaswyrdd fawr a glwyswallt;  
Lle rhoi'r dan bebyll yr haf,  
Lan noswyl Ieuan nesaf;  
Mae yno yn Mai enwog,  
Allorau gwyrdd, a lle'r gog,  
Alle'teg orlliw ton,  
Lletyan i'w Llateion.  
A gorsedd o gywirserch  
A rhôl o sut, rholiau o serch

Ac ir ddyn o gaer y ddol,  
Osber adar ysprydol ;  
A phader serch hoffder son,  
O baderau bedw irion."

IRUAN DDU AB DAFYDD, Aberdar.—1400-1480. Mae yn anhawdd penderfynu na chyssoni y gwahanol farnau sydd am hwn ; ond amlwg yw ei fod yn wr o gyfoeth, yn llenor glew, ac yn noddydd gwych i lenorion ei wlad.

IRUAN DDU'R BILWG.—Preswyliai y bardd ffraeth-bert hwn yn Nghwm Rhondda, yn 1460—1490. Trueni na fyddai mwy o'i hanes a mwy o'i waith ar gael. Dau gywydd yn unig wn i am danynt o waith hwn. Dyma ran o'i gywydd i ddiolch am y Gown Coch a gafodd :—

## Y GOWN COCH.

" Lliwiog yw fy ngorllewin  
Lliw ddoe a roes Llew i ddyn ;

Y Gown a gaed gan y gwr,  
Fel gwin o afael gainwr,  
Ydd wyf, yn debyg i'w ddwyn  
I danllwyth mewn rhedynllwyn.  
Llawenydd fy lliw unos  
Lle cad rodd, lliw cawod ros,  
Lliw ceirioes haf, lliw cwrw sel  
Lliw gwaed carw llygaid cwrel."

IORWERTH FYNGLWYD.—Cadeirfardd Morganwg yn 1500. Bu yn ymwneyd ag Eisteddfodau am 40 mlynedd cyn hyny. Efe yw awdwr Cywydd St. Ffraid, &c., sydd yn argraffedig yn Hanes Aberconwy.

DAFYDD LLWYD MATHEW.—Yr oedd hwn yn gyd-oesydd a Iorwerth Fynglwyd, ac yn fardd gwych a ffraeth. Mae llunaws o'i fan gyfansoddiadau yn argraffedig yn *Nghyfrinach y Beirdd*. Dyma enghraifft o ffrwyth ei awen :—

" Ar ferch rhoes fy serch yn syn,  
Bum ful, gwnaeth fu'n gul a gwan,  
Y mae brath ei serch i'm bron,  
Irad gwr o gariad Gwen."

LEWIS MORGANWG, Cadeirfardd Morganwg, yn 1520. Mae ei Awdl orchestol i Leision, y *Abbad Mynachlog Nedd*, yn argraffedig yn *Nghyfrinach y Beirdd* ; ac ymddengys mai am yr Awdl hono y cadeiriwyd ef. Dyma beunill o'r Awdl :—

Teml Nedd, tai aml newyddion  
Duw mawlheir yn y deml hon ;  
Duawd Tad Abbad atebion—Bernet  
Barnwr crefyddolion,

**MEIRYG DAFYDD.**—Bardd Cadsair Morganwg yn 1560; ydoedd frodor o blwyf Llanisan, a bu farw yn y flwyddyn 1600. Fe ysgrifennodd gopi o *Gyfrinach y Beirdd* i Syr Edward Lewis o'r Fan. Mae amryw o'i gyfansoddiadau ar gael, a byddai yn anrheg i'r wlad pe cyhoeddid hwyt.

**DAFYDD BENWYN**, Cadeirfardd Morganwg yn 1570, ydoedd wr dysgedig a bardd gwych. Ymddengys fod casgliad da o waith hwn ar gael, ond heb ei gyhoeddi.

**LLEWELYN SION** o Langewydd oedd fardd enwog iawn. Iddo ef yr ymddiriedwyd y gorohwyl pwysig o barotoi copi cyflawn o Gyfrinach Beirdd Ynys Prydain erbyn Eisteddfod 1580, lle yr oedd efe yn llywydd. Dywed rhai mai o Lyfr Meiryg Dafydd (yr hwn oedd yn y Fan), yr ysgrifennodd efe y copi; a chafodd ei waith gymmeradwyaeth unfrydol y beirdd. Ersill a farnant mai ad-ysgrifenu copi o'r llyfr oedd yn Nghastell Raglan wnaeth Llewelyn; ac mai yn yr un llyfrgell y cafodd ddefnyddiau i ysgrifenu traethawd ar Goelbren y Beirdd. Llosgwyd Llyfrgell Raglan gan filwyr O. Cromwell, yr hyn a wnaeth golled fawr i lenyddiaeth Morganwg, gan fod llawer o gyfansoddiadau beirdd y Sir yn cael eu cadw yno er dyogelwch. Yn y *Siluriana*, dywedir am waith Llewelyn Sion fel hyn:—"Mae llawer o'i ysgrifau yn ngholl; rhai yn meddiant Iolo (Morganwg), un llyfr mawr yn Llanharan, un arall gan y meddyg Johnson o'r Bontfaen. Tir-fesur-ydd (*Land Surveyor*) oedd Llywelyn wrth ei alwedigaeth, a bu yn ddsygybl barddol i Meiryg Dafydd, Llanisan; a Thomas Llewelyn o'r Rhigos. Dyma enghraifft o'i waith.

"Lluniais y gerdd mewn llwyn is gwyrd-ddail,  
I wen-ddyn harddlun hoyw-fun feinael;  
Ba fardd o'm gwlad i'm caniad a'm coel  
Maint berw mhen, am Wen anwyl."

**THOMAS LLEWELYN**, Glynethinog, Blaengwrach. Yr oedd hwn yn mhlith beirdd Morganwg, yn Eisteddfodau 1560 a 1564; ac er nad ymddengys iddo ennill y gadair, mae yn amlwg ei fod yn wr dysgedig, duwiol, ac yn fardd gwych iawn. Dyma englyn o'i waith:—

"O'r pridd y daethum wr pruddaf,—prudd wyf  
I'r pridd oer dychwelaf;  
Prudd o feddwl, pridd fyddaf,  
Prudd o ddyn, i'r pridd ydd af."

Dyma ei gynghor i'w fab Llewelyn Thomas pan oedd hwnw yn 80 mlwydd oed, a'r tad dros 100.

Gwel haint, gwel henaint, gwel hyn—bechadur  
Baich ydyw i'th ganlyn;  
Troes fel llwydrew dy flewyn,  
Oer y gwaed, naww eira gwyn.

Yn fin dy ddeulin, dy ddwyllaw—'n drymion  
 Wrth dremynt yn teimlaw;  
 Llygaid a chlustiau'n llwygaw,  
 A sarhaed ar y traed draw.

Duw a wnel pan ddel poen ddialedd— trwm  
 It' gael trem ar ffoledd;  
 A gweled gwaeled y gwedd,  
 Afachus yw dy fuchedd.

Duw a welo rhag dialedd—o'i rad,  
 Dy roi'n rhydd o'th farwedd;  
 I ochel barn a chael bedd,  
 Agoryd pyrth trugaredd.

THOMAS LEWIS o'r Elechau plwyf Llanhari, oedd fardd clodus rhwng 1590 a 1680. Mae ei alareb ar ol Syr Shon Gruffydd o Lanrallo, a fu farw yn 1623, yn argraffedig yn *Y Greal*.

WATCYN POWEL.—Derbyniwyd hwn yn aelod o gymdeithas lenyddol Morganwg yn 1560; ac yn mhen 80 mlynedd ar ol hyny, sef yn 1620, llwyddodd i gyrhaedd anrhydedd Cadeirfardd y sefydliad.

EDWARD DAFYDD o Fargam. Graddiwyd hwn yn B.B.D. yn 1620; llywyddodd Orsedd Morganwg yn 1660; yr oedd yn mlaenllaw iawn yn Eisteddfod y Bewpyr, 1681; bu farw yn 1690. Efe gafodd y gorchwyl o adysgrifenu copi o *Gyfrinach y Beirdd* erbyn Eisteddfod Fawr y Bewpyr, gydag hawl i ychwanegu atti, os gwelai angen am hyny. Yr oedd efe yn llygad-dyst o'r difrod wnaeth gwyr Cromwell yn Morganwg; ac y mae wedi defnyddio fflangell ei awen i'w atynt yn ddirugaredd. Mae lluaus o'i gyfansoddiadau ar gael, a dymunol fyddai cael casgliad argraffedig o honynt. Ymddengys ei fod yn wr duwiol, ac yn Eglwyswr selog iawn. Dyma fel y canodd sen i fyddin Cromwell:—

“ Y chwi gyfeillion dewrion diras,  
 Glewion sydd un galon a Suddas;  
 Cynllwynwyr, bradwyr i'ch bar ydych,  
 Yn mynnu'r aelwyd man yr elych;  
 Taenu mawrfrad trwy'n gwlad yw'ch glewder  
 Du-nych tristwech yw dwyn eich trawsder,  
 Ni roddwch gyfrif ar amddifad,  
 Ond dwyn eu cyfoeth,—dwyn ei cyfan,  
 Maethu gwynfyd i chwi yw'r maith gwynfan;  
 Anmharchu'r Eglwys wiwlwys olan,  
 Oer och! e fethrir ei chyfreithian!  
 Mawr iawn yw'ch anghlod am ddirfodi,  
 Trais yw'r alwad o'n traws-reoli;  
 Treisio yn rhol y faenol fynoch,  
 Yn hy anweddu hyn a wyddoch;  
 Tost yw'ch gweled yn llu annedwydd;  
 Yn rhodio'n gludair hyd ein gwledydd;  
 A thostach fydd rhyw ddydd a ddaw,  
 I chwi y gwaelion gellwch goeliaw.  
 Mae'n rhaid ufuddhau mewn rhith,—dan dewi  
 A chweri'n dra chyrriith;  
 I fall-dorf plant y felldith,  
 Sydd yma'n dag plâg i'n plith.”

DAFYDD O'R NANT, sef y Parch. Dafydd Williams, offeiriad Penllin, ydoedd fardd Cadeiriol Morganwg yn 1680. Yr oedd yn bresenol yn Eisteddfod y Bewpyr y flwyddyn ganlynol. Bu farw yn y flwyddyn 1690. Yr oedd hwn yn fardd galluog iawn, ac y mae llawer o'i waith yn argraffedig mewn gwahanol lyfrau. Dywedir iddo, pan yn llanc ieuanc, difarf, fyned i Lantrisant i gwrdd Prydyddion, yr hwn a gynnelid mewn lloft tafarn. Pan gyrhaeddodd Dafydd y lle, yr oedd yn lled newynog, a gofynodd i'r tafarnwr am ychydig luniaeth, yr hyn a gafodd. Tra yr oedd yn ymborthi, hyspysodd y tafarnwr ef fod Cwrdd Prydyddion ar y lloft, a darllenodd iddo Gân o Glod i dref Llantrisant, o waith un o'r beirdd. Wedi gorphen bwyta, gofynodd y gwr ieuanc dweithr am y *bill*; a phan welodd y crogbri oedd arno, fe ysgrifennodd ar ei gefn yr englyn canlynol:—

“ Llantrisant, er maint y mawl—a gefaist,  
A gan-feirdd i'th ganmawl,  
Man ydwyt a min hudawl,  
I dwyllo dyn, dwell y diawl.”

Ymaflodd y tafarnwr yn y papyr, a chyn cael tal am ymborth Dafydd, rhedodd i'r llofft at y beirdd, gan ofyn i lywydd y cyfarfod wneyd englyn i ateb y coegyn oedd wedi beiddio ysgrifenu y fath gabldraeth. Pan ddarllenodd y llywydd yr englyn, gofynodd yn mha le yr oedd yr awdwr, a phan yr hyspyswyd ef, daeth i'r llawr ato, ac arweiniodd ef yn barchus i'r llofft, ac a'i gosododd i eistedd yn y brif gadair, gan ei gyfrif yn addasach iddi nag efe ei hun; ac o hyny allan, cyfrifwyd Dafydd o'r Nant yn un o brif feirdd Morganwg.

SAMUEL JONES, M.A., Brynllwarch, Offeiriad Llangynwyd, oedd fardd Cadair Morganwg yn 1700. Brodor o sir Ddinbych oedd efe, ac yr oedd yn un o'r ddwy fil offeiriaid drowyd allan o'r Eglwys gan Charles II. Sylfaenodd yntau athrofa yn Mrynllwarch, a bu yn foddion i gychwyn Ymneillduaeth yn y gymmydogaeth. Gan y rhoddir hanes helaethach am dano mewn rhan arall o'r gwaith hwn, ni wneir yn awr ond rhoddi un enghraifft o'i waith:—

“ Pregethais, llefais mewn Llan—da genyf,  
Do ganwaith yn Maedan;\*  
Gwn fy rhodd, a gwnaf fy rhan,  
Yn hollol o hyn allan.”

DAFYDD HOPCYN o'r Coetty. Bardd a llywydd Gorsedd Morganwg yn 1780.

SHÔN BRADFORD, a dderbyniwyd yn aelod o'r urdd yn 1780, pan nad oedd ond bachgenyn; a llywyddai yr Eisteddfod yn 1760. Mae llawer o'i waith wedi ymddangos yn yr “*Eurgrawn*,” ac y mae o deilyngdod uchel.

---

\* Maeden, Hen Gapel Mynydd Baeden.



EDWARD EVANS o'r Toncoch, Aberdar. Ganwyf ef yn 1716. Yr oedd yn fardd urddedig, yn athronydd craffus, ac yn bregethwr clodus. Ystyridd ef am yspaid yr olaf o'r Hen Ddwsparth, nes iddo urddo Iolo Morganwg i'w olynu. Mae ei lyfr, "*Afalau'r Awen*," wedi myned trwy amryw argraffiadau, ac y mae yn brin iawn yn bresenol, fel mai da fyddai cael argraffiad arall. Bu farw Alban Hefin, 1798, yn 82 mlwydd oed, sef ar y dydd y bwriadai gyfarfod â'r beirdd yn Nghadair Morganwg. Fel hyn y canai ar derfyn ei oes:—

"Ti Arglwydd, hylwydd hwyliad,—trwy amod  
Rho i mi ddatodiad;  
Mewn trugaredd rhyfedd rad,  
I gyrrhaedd noddfa'th gariad."

"Fy ngwendid heb lid sy'n ymledu,—o ddydd  
I ddydd yn helaethu;  
Duw o'th ras, cyweithas cu,  
Fy enaid dal i fynu."

LEWIS HOPCYN o Landyfodwg ydoedd gyfaill a chyd-oesydd Edward Evan. Mae ei gyfansoddiadau barddonol wedi eu cyhoeddi dan yr enw "*Y Fél Gafod*." Dyma enghraifft o hono:—

"Nid yw'r byd, ennyd unwaith—da ymsawdd,  
Ond amser ein hymdaith,  
Gosodiad profiad prifwaith,  
A'r bedd yw diwedd y daith."

IOLO MORGANWG.—Ganwyd y bardd a'r hynafiaethydd enwog Edward Williams, yn Mhennon, yn agos i Dreffleming, tua'r flwyddyn 1746 neu 1747. Dysgodd ei fam ef i ddarllen, ysgrifenu, a rhifo, ac nid ymddengys iddo gael yohwaneg o ysgol. Dechreuodd ei grefft fel saer maen gyda ei dad pan yn naw oed. Claddwyd ei fam yn 1770, pan oedd efe yn 23 oed. Yn 1771 aeth i Lundain, a bu yn gweithio i adeiladu Pont Blackfriars. Pan yn y brif ddinas, daeth i gyffyrddiad â phrif lenorion yr oes, ac yn eu plith Dr. Johnson, &c. Bu yn ysgrifenu i'r *Gentleman's Magazine*, a chyhoeddiadau ereill tra yno, fel y daeth i gryn sylw yn mhllith y Saeson. Gan fod ei fywgraffiad wedi ei gyhoeddi yn Gymraeg a Saesneg, nis manylir yma, ond yn unig cyfeirio at ei lafur llenyddol. Diamheu mai y gwasanaeth mwyaf a wnaeth i lenyddiaeth Gymraeg oedd yn yr adran hynafiaethol, trwy gasglu defnyddiau y *Myfyrian Archaeology of Wales* at eu gilydd. Gwir mai nid efe gasglodd y cwbl, ond mor wir a hyny, mai efe gasglodd y rhan fwyaf a gwerthfawrocaf o'r llyfr rhagorol hwnnw. Cyhoeddwyd y gwaith y tro cyntaf yn 1801, a'r ail-argraffiad yn 1870. Casglodd hefyd ddefnyddiau y *Iolo MSS.* a gyhoeddwyd dan olygiad Taliesin ei fab yn 1848. Iolo hefyd fu yn foddion i gyhoeddi *Cyfrinach y Beirdd*, a chyhoeddodd hefyd ddwy gyfrol o'i farddoniaeth. Bu yr athrylithfawr Iolo Morganwg farw Rhagfyr 18, 1826, yn Nhreffleming, ac yno y gorwedd ei lwch. Yn mhllith ei bapyrâu, cafwyd a ganlyn a fwriadwyd ganddo yn feddargraff idde ei hun:—"Er cof am

Iorwerth ab Iorwerth Gwilym, o'r plwyf hwn, maensaer, ty pa un ar ol sefyll mlynedd dan ymgyrch llawer bloeddwyn anngherddol, a syrthiodd yn garnedd ar y dydd o . Er hyn y csegllir etto yr holl ddefnyddiau yn nghyd, gan adael yr holl sothach ar ol, yn adael hardd a chadarn, o waith gogoneddus gwedi ei selio dros fyth ar Graig yr Oesoedd gan y Pensaer, a byth ni syrth mwyach." Nid oedd Iolo mwy nag ereill heb ei ffaeledau mewn cyssylltiad ag hanesiaeth, a diambhu ei fod yn rhy dueddol i roddi mwy o fri a mawredd i Forganwg, nag sydd yn perthyn iddi yn y cyfeiriad hwn; etto, yn ngwyneb ei anfaenteision, gellir dweyd yn ddibetrus iddo wneyd mwy o wasanaeth i'n llenyddiaeth gyda golwg ar gadw o safn dystryw, fwy o hen ysgrifau ein cenedl, nag a wnaeth neb arall. Dywedir fod ei holl gasgliadau yn ddigon i wneyd cant o gyfrolau mawrion. Hona Myfyr Morganwg mai efe yw olynnydd Iolo, a bod yr allwedd sydd yn agor a chau Gorsedd Morganwg yn crogi wrth ei wregys ef; haera ereill fod yr olyniaeth wedi marw gyda Iolo, a bod y Diwygiadau Eisteddfodol diweddar wedi cychwyn cyfnod newydd, fel mai ofer a ffol yw son am yr olyniaeth mwy. Nid ymgymmerir a phenderfynu y pwngc yn y gyfrol hon, ond terfynwn ein cofiannau ar hynyna.

#### TREFI A PHENTREFI MORGANWG.

**ABERAFAN.**—Mae Aberafan yn blwyf, bwrdeisdref, tref farchnadol, a phorthladd yn Undeb a Chantref Castellnedd, esgobiaeth Llandaf; ac mewn undeb a Chenffig, Castellnedd, Castell Llwlchwyr, ac Abertawy yn anfon aelod i'w chynnyrchioli yn y Senedd. Fel yr awgryma yr enw, saif y dref ar lan afon Afan, yn agos i'r man yr abera hono yn Mor Hafren. Rhed yr afon trwy y dref gan ei rhanu yn ddwy ran; ond saif plwyf Aberafan ar y tu gorllewinol i'r afon, a phlwyf Margam ar y tu dwyreiniol. Ei phellder o Gastellnedd yw 6 milldir; o Abertawy, 18; o Gaerdydd, 82; ac o Lundain, 202½ gyda'r Gledrffordd. Pan orchfygwyd Morganwg gan y Normaniaid, ac y rhanwyd hi gan Robert Fitzhamon yn y flwyddyn 1091, rhoddwyd y plwyf hwn i Caradog mab Iestyn ab Gwrgan, yn Arglwyddiaeth Rial; hyny yw, yn Arglwyddiaeth Rydd ac annibynol, heb ddim treth i dalu arni i'r Normaniaid, a hon oedd yr unig Arglwyddiaeth Rial yn y Sir. Ystyrid Caradog felly yn fwy urddasol nag un Marchog arall yn y Sir. Yr oedd mewn gwirionedd yn Dywysog Morganwg fel ei dad, ond bod terfynau ei Arglwyddiaeth yn gyfyngach. Adeiladodd Caradog Gastell ar ei Arglwyddiaeth, ger glan afon Afan, lle y saif y dref yn bresenol. Bu Caradog yn mwynhau ei Arglwyddiaeth tra y bu fyw, ac ar ei ol ef daeth yr Arglwyddiaeth a'r Castell yn eiddo ei fab Morgan. Ymddengys fod Morgan yn bur heddychol a'r Normaniaid, oblegyd yn y flwyddyn 1152, gommeddodd uno a Rhys, wŷr Rhys a b Tewdwr, i ymosod ar yr estroniaid; ac am y pall hwnw, anfonodd Rhys ei frawd Meredydd gyda byddin gref i Aberafan; ymosodwyd

ar Morgan, fel y gorfu arno ffoi at y Normaniaid am noddod. Torwyd a llosgwyd ei Gastell hyd y llawr, ac nid oes hanes iddo gael ei ail adeiladu ar ol hyn; nid oes dim o'r Castell hwnw yn aros yn bresenol. Tuaddir rhai haneswyr i gredu mai tua'r amser hwnw yr adeiladwyd Abbaty Margam gan Morgan ab Caradog, ac i'r lle gael ei alw Morgan am oesoedd oddiwrth ei enw ef; tra y barna ereill mai Morgan Mwynfawr sylfaenodd y lle. Gwnaed Aberafan yn Fwrdeisdref mor fore a'r flwyddyn 1158, a rhoddwyd iddi ei Breinlen gyntaf gan Leyshon ab Morgan, yr hon Freinlen a gadarnhawyd droion drachefn gan Syr John de Avan a Thomas de Avan. Darfu i deulu Caradog ab Iestyn efelychu y Normaniaid mewn cyfenwi, trwy osod y *de* yn lle *ab*, oblegyd cawn John, mab Arglwydd Leyshon ab Morgan, yn mabwysiadu yr enw Syr John de Avan; h.y., John o Avan. Yn y flwyddyn 1849, darfu i Syr Thomas de Avan roddi y Freinlen ganlynol i dref Aberafan:—

“*At yr holl Gristionogion a ddichon weled neu glywed yr Ysgrif hon. Y mae Thomas de Avan, mab Syr John de Avan, Arglwydd Afan, yn dymuno iachawdwriaeth dragywyddol yn yr Arglwydd. Gwybydded pob dyn fy mod wedi rhoddi a gollwng droswyf fy hun a'm hetifeddion, a gadael pob hawl i fy holl Fwrdeisiaid, a fy holl Saeson o fewn fy nhref Avans, ac allan o'r dref, bob rhyddid yn y dref ac yn fy holl Arglwyddiaeth o fewn trefynau Avans, y rhai sydd feddiannol ar, ac yn mwynhau braint Brein-ysgrif yr Arglwydd Leyshon ab Morgan, yr hon o ran sylwedd oedd fel hyn:—‘Boed hysbys i'r genedlaeth hon, a phob cenedlaeth ddyfodol, fy mod i, Leyshon ab Morgan, Arglwydd Avan, trwy rinwedd y Frein-ysgrif hon, yn rhoddi i fy holl ddellaid Seisnig, a'r Bwrdeisiaid, eu hetifeddion a'u hollynwyr, bob hawl a rhyddid i fy nhref Avans, a thrwy fy holl Arglwyddiaeth o fewn trefynau Avans, yr un fath a Bwrdeisiaid Cenffig, yn Nhref Cenffig, o fewn Arglwyddiaeth Iarll Oaerloyw a Chaerffawydd, mor bell ag y gorphwys arnaf. Yr wyf hefyd yn rhoddi droswyf fy hun, fy etifeddion, a'm troswyr, i fy Mwrdeisiaid rhagenwol o Avans, a'u hetifeddion, a'u troswyr yn rhad, tawel, ac heddychol, ac heb atalfa dŷ-iawndal, a chlawdd-iawndal yn holl goedydd fy neiliaid, a chânt borfa yn rhad, heddychol, ac am byth yn mhob lle, coedwigoedd, dolydd, a phorfleoedd, yn nymhor agored y flwyddyn ar fy nhir, ac hefyd y tir pori hwnw ar lethr y Ddinas, yr hwn sydd rhwng Carn Wendreoh a'r lle a elwir Cae Cedreoh, ac o dir ar Tirescyr hyd y tir ar sydd ar ben ‘Y Ddinas,’ bob amser o'r flwyddyn, ac os dygwydd i mi, fy etifeddion, neu'm cynnrychiolwyr, amgau unrhyw diroedd, ac i'r cloddiau gael eu tori gan anifeiliaid y Bwrdeisiaid rhagddywededig, bydd rhaid i'r cyfryw gael eu hadgyweirio. Cânt hawl hefyd ar bawleoedd yn mhob coedwig, dól, a phawrle, perthynol i fy neiliaid, gan nad o ba sefyllfa a gradd bynag y byddont, a hyn y trwy holl dymhor agored y flwyddyn. Yn mhellaach, yr wyf fi Thomas de Avan, yn rhoddi trosaf fy hun a'm hetifeddion, bob hawl i fy holl Fwrdeisiaid, a fy holl Saeson, yr holl bawrle hwnw ag sydd yn gorwedd rhwng Pwll-y-sychan a Chlawr-y-person, a rhwng y Morfa a'r tiroedd a elwir Clawr Leyshon,*

a Thir-madrin, i'w pori gan eu holl anifeiliaid, a bod iddynt hefyd bawrle cyffredinol yn mhob man ar fy holl forfeydd bob amser o'r flwyddyn, i'w holl dda, fel na fyddo genyf fi, y Syr Thomas de Avan rhagenwol, na fy etifeddion, na'm trosywyr, yr un hawl i ofyn, honi, na mynu meddiant, na theitl, yn yr hyn a roddir uchod, ond y maent am byth yn cael eu cau allan o unrhyw hawl iddynt, trwy y Weithred hon; ac yr wyf fi, Syr Thomas de Avan, fy etifeddion, a'm olynwyr, yn gwarantu dal ac amddiffyn am byth yr holl ryddebau, a'r holl diroedd rhagddywededig, i'r holl Fwrdeisiaid a enwyd, eu hetifeddion, a'u cynnrychiolwyr, yn erbyn holl ddynolryw, ac am fy rhoddiad, a'm cyflwyniad o'r hawliau hyn, talodd fy Mwrdeisiaid i mi ar law Ddau Farc o arian bathol. Yn dyst o hyn yr wyf yn gosod fy sêl wrth y Weithred yn ngwydd y tystion canlynol: Henry Abbad (Margam); Morgan Thomas, Rector Avene; fy Rys Leys; William ab Owen; Madog Llwyd; Evan ab Dafydd Fach, ac ereill. Dyddiedig yn Avan y dydd Llun cyntaf ar ol Gwyl St. Marc yr Efengylwr, yn y 24ain flynedd o deyrnasiad Iorwerth III. ar ol y Goresgyniad."

Yn yr iaith Lladin mae'r Freinlen wreiddiol. Disgynyddion o'r De Avans uchod yn rhanol yw teulu anrhydeddus Williams, Aberpergwm, Cwmnedd. Yn rhinwedd y Freinlen a nodwyd, bu Bwrdeisiaid Aberafan yn mwynhau y tiroedd a enwyd am oesoedd lawer; ond rhwyg y blynyddau 1850-1860 bu cryn gynhwrf yn y dref, a llawer o gyfreithio rhwyg y Masnachwyr a'r Bwrdeisiaid o barth yr hawliau. Yr oedd y Masnachwyr am gael *Charter* newydd ar eiddo y Bwrdeisiaid, a chael y dref dan y *Municipal Act*, fel y gallent gael holl *Income* y Fwrdeisiaeth at wasanaeth cyffredinol y dref. Yr oedd y Bwrdeisiaid o'r tu arall am gadw pobpeth fel yr oedd o'r dechreu; a'r canlyniad fu i'r ddwy blaid fyned i ymgyfreithio am flynyddoedd. Yn y diwedd, penderfynodd y Bwrdeisiaid werthu holl diroedd y Fwrdeisiaeth, rhag i'w gwrthwynebwyr gyrhaedd eu hamcan. Gwerthwyd y tiroedd yn 1860, a phrynwyd y rhan fwyaf gan rai o'r Bwrdeisiaid eu hunain. Prynwyd llawer o'r Morfa gan Griffith Llewelyn, Ysw., Baglan Hall; a H. H. Vivian, Ysw., A.S. Aeth llawer o arian y gwerthiad i dalu traul y cyfreithio, yr hyn oedd tuag wyth mil o bunnau!

Yn amser y Rhyfel Cartrefol rhwyg Charles I. a'r Senedd, yr oedd trigolion y dref hon fel ereill o bobl Morganwg, yn bleidiol iawn i'r brenin, ac fe geir chwedl bur ddifyr am y dull y cadwyd Breinlen y dref rhag y Cromweliad. Pan ddeallodd Maer y dref fod milwyr Cromwell ar eu taith tua'r lle, efe a barodd dyllu twll mewn plocyn o bren garw, a gosododd y Freinlen yn nghyda phapyrâu gwerthfawr ereill yn y plocyn, gan gau y twll â darn o bren. Pan ddaeth y milwyr i'w dy i chwilio am y trysorau, defnyddid y plocyn dan y fwyell i dori coed arno, fel na wnaeth y gelynlion un sylw o hono; wedi hyny, gwnawd y plocyn crybwylledig yn gist hardd i gadw'r Freinlen, a phapyrâu gwerthfawr y plwyf. Mae'r dref yn cael ei llywodraethu yn awr yn ol y *Municipal Corporation's Act* gan faer, pedwar henadur, y rhai a etholir bob pedair blynedd, a deuddeg cynghorwr, y rhai a etholir yn flynyddol. Mr. Edward Jones oedd y

maer cyntaf dan yr *Act newydd*, ac etholwyd ef Awst 9fed, 1861. Mae'r dref wedi cael colledion llawer oddiwrth orlifiaid y mor o bryd i bryd; ond y mwyaf dinystriol y ceir hanes am dano, a ddygwyddodd Gorphenaf 25, 1768. Y dydd hwnw, chwyddodd y mor i'r fath eithaf-nod, nes gorlifo'r dref;—llanwyd yr Eglwys, a phob ty yn y dref a dwfr i'r uchder o 5 neu 6 troedfedd, ac o'r braidd y diangodd y trigolion. Ysgubwyd y bont ymaith, gorchuddiwyd, a dystriwyd yr *ŷd* ar y maesydd, a chludwyd pob peth nofiadwy ymaith i'r mor, fel y bu caledi mawr ar y trigolion mewn canlyniad; a diamheu y buasai pethau yn llawer gwaeth oni bae am haelioni Thomas Mansel Talbot, Ysw., Margam. Adeiladwyd pont yn lle yr un dorwyd, gan yr enwog W. Edwards, yr hwn a adeiladodd Bontypridd. Mae llywodraethwyr presenol y dref wedi gwneyd llawer iawn o ddaioni gyda golwg ar wella'r lle. Maent wedi dyhysbyddu (*drained*) y dref, ar y draul o £1,200. Goleuir hi a nwy hefyd, a dygir llawer o welliant yn mlaen yn barhaus.

Cafodd Eglwys y plwyf (Eglwys Fair) ei hail-adeiladu yn 1860, o feini Cymru, gyda cheryg nadd Caerbaddon i'w haddurno. Gorphenwyd y twr yn 1870, fel y mae yn adeilad gwych yn bresenol. Ficeriaeth yw'r fywoliaeth, wedi ei huno â Llanfaglan, yn werth £190 y flwyddyn, gyda Ficerdy, yn rhodd G. Llewelyn, Ysw., Baglan Hall. Adeiladwyd Ysgoldy Cenedlaethol y dref yn 1881, yr hwn sydd adeilad eang a phrydferth. Mae yn y dref amryw gapeli heirdd gan yr Ymneillduwyr hefyd, yr hyn a ddengys fod crefydd yn cael sylw neillduol y trigolion. Y capeli ydynt a ganlyn:—Ebenezer (B), adeiladwyd yn 1886, ac a gyfnewidiwyd yn 1871. Adeiladwyd ef gyntaf gan Roberth Smith, Ysw., at wasanaeth y Trefnyddion Calфинаidd. Mae gan yr Annibynwyr ddau gapel yma, sef Capel y Werin, 1849; a'r Tabernacl, 1824-1871. Trefnyddion Calфинаidd,—Carmel, ad. 1810-1844; Saron, ger y dref, yn mhlwyf Margam, ad. 1867. Bible Christians, Zion, ad. 1868. Wesleyaid Seisnig, ad. 1865. Eglwys Babaid, agorwyd Mehefin 22, 1862. Sylfaenwyd y Freemasons's Hall yn y dref, Awst 15, 1872. Un gwaith sydd yn y dref, sef yr "Avon Vale Tin Plate Works," yr hwn a gychwynwyd yn 1869. Ei berchenogion ydynt Mri. Thomas a Richard Jenkins, Edward Davies, a D. Roderick David; a chyfrifir y *tin* a droir allan o'r gwaith hwn, gyda'r goreu yn y wlad.

*Y Porthladd.*—Er fod amryw weithfeydd eang yn nghymydogiaeth Aberafan, megys Gwaith Alcan y Taibach, Gwaith Alcan Margam, Gweithfeydd Efydd a Haiarn Cwm Afan, &c., bu y lle yn wael fel allborthle am rai ugeiniau o flynyddau wedi agor y gweithfeydd hyn, a pharhaodd felly nes gwnaed *Port Talbot*, yr hwn sydd tua milldir o'r dref. Mae hanes gwneuthuriad y porthladd hwn fel y canlyn:—Yn 1886, wrth weled masnach y lle yn cynnyddu, a'r lle i allborthi a dadborthi mor annghyfleus, gosodwyd H. K. Palmer, Ysw., C.E., ar waith i dynu cynllun at wella'r Porthladd. Y cynllun fabwysiadwyd oedd agor ffos o'r dref i'r mor, yn 20 troedfedd o led, 10 o ddyfnder, a milldir o hyd. Wedi gorphen y ffos, neu'r camlas, trowyd y ffrydiau a


ddisgynent oddiar lechweddau'r brynau ger y dref i mewn i'r gwely newydd. Darfu i'r dyfroedd wrth redeg trwy y ffos, ei lledu a'i dyfnhau yn raddol, nes daeth yn fuan yn ddigon mawr i gymmeryd afon Afan i mewn, ac felly gwnaed ffordd union o'r dref i'r mor, yn 100 troedfedd o led, ac yn ddigon dwfn i longau bychain nofio ar hyd-ddi. Nid oedd gwneyd y camlas hwn wrth gwrs ond rhan o'r gwaith; ond carwyd ef yn mlaen hyd nes ei gorphenwyd yn borthladd cyflus. Mae'r *Harbour* tua 25 erw, gyda nofie dyogel, tua milldir o hyd, ac o 16 i 20 troedfedd o ddyfnder; a'r *lock* sydd yn arwain i mewn yn 146 troedfedd o hyd, a 44 o led. Costiodd y gwaith £100,000. Prif fasnach y porthladd hwn sydd mewn Haiarn, Efydd, Alcan, a Glo. Dyma ychydig o ystadegau y *Custom House* :—

| BLWYDDYN.   | RHIF Y LLONGAU. | TUNNELLIAD. |
|-------------|-----------------|-------------|
| 1860 ... .. | 1,078 ... ..    | 78,800      |
| 1867... ..  | 842... ..       | 84,126      |
| 1868 ... .. | 868 ... ..      | 85,148      |
| 1869... ..  | 807... ..       | 76,871      |
| 1870 ... .. | 609 ... ..      | 55,770      |

Poblogaeth y Fwrdeisdref yn 1861 oedd 2,916; yn 1871, 8,896. Pobl y plwyf yn 1871, 1,688.

ABERCENFFIG sydd bentref hynafol tua thair milldir i'r gogledd o Benybont-ar-Ogwy, yn mhlwyf Castell Newydd Penybont. Derbyniodd y lle ei enw am ei fod yn sefyll yn ymyl y fan yr abera Nant Cenffig yn afon Ogwy. Ychydig yn ogleddol iddi, abera afon Llyfnwy yn yr Ogwy. Ymddengys mai yr achos i'r nant gael yr enw Nant Cenffig oedd, am ei bod yn rhedeg trwy diroedd a berthynent gynt i Fwrdeisiaid tref Cenffig. Cynnwysa'r pentref yn bresenol 288 o dai, y rhai a breswylir gan mwyaf gan weithwyr Haiarnfa'r Ton Du. Adeiladwyd capel yma gan y Trefnyddion Calfniaidd yn 1889, a chan y Wesleyaidd Seisnig yn 1859. Yn 1868, adeiladwyd Eglwys St. John yn y lle, yr hon sydd o arddull Gothig, yn cynnwys corff, cangell, porth, a chlochle un gloch. Capel anwes ydyw, perthynol i Eglwys blwyfol Castell Newydd Penybont. Mae yma *Reading Room* newydd a chyflus hefyd. Saif y pentref mewn man dymunol ar lan yr Ogwy, a chan ei fod ychydig bellder oddiwrth waith y Ton Du, y mae yn lle hynod iachus.

ABERDAR, gydag *Aberaman, Cwmaman, Cwmbach, Cwmdar, &c.*—Aberdar sydd blwyf eang, a thref farchnadol, yn nghantref Meisgun, Undeb Merthyr Tydfil, deoniaeth Merthyr, archddeoniaeth ac esgobaeth Llandaf. Ei phellder o Lundain, 198 milldir gyda Chledrffordd y Great Western; o Bristol, 59; Caerdydd, 24; Pontypridd, 12; Abertawy, 26½; Castellnedd, 19; Merthyr, 5. Mesura'r plwyf ar ei hyd o bentref Hirwaun, ei gwr gogleddol, hyd Mountain Ash, ei gwr deheuol, tua saith milldir a hanner; a'i led o afon Rhondda Fach, ger Castell y Nos, ar y gorllewin, hyd Garn-tyle-hir, ar ben y mynydd rhwng Aberdar a thref Merthyr, tua chwe' milldir, a'i arwynebedd yn 16,810 o erwi. Terfynir y plwyf yn ogleddol gan blwyf Penderyn (Brycheiniog), yn ddeheuol gan Llanwynno, yn orllewinol gan Ystrad-dyfordwg,





*Aberdeen, from Abernethy's Point.*







a dwyreiniol gan Ferthyr Tydfil. Rhed ffiniau y plwyf fel y canlyn :—O Mountain Ash, gyda Nant-ffrwd tua'r dwyrain i ben Mynydd Merthyr; ac yna cymmer gyfeiriad gogledd-orllewinol, ar hyd gefn y mynydd heibio Carn y Ddysgwylfa (1,619 troedfedd uwchlaw'r mor), ac oddiyno heibio Carn Tyle Hir (1,507 troedfedd o uchder), ac yna heibio Carn y Frwydr, Carn Gwennlian Dociar, &c., hyd at y Maen Brych, sy'n ffin rhwng Aberdar, Merthyr, a Phenderyn. Oddiyno rhed y ffin gyda y Nant-hir, yr hon sydd yn gwahanu Morganwg a Brycheiniog yn y parth hwn. Abera'r nant hon yn afon Cynon, tua milldir i'r de-ddwyrain o Hirwaun. O aberiad y nant hyd bentref Hirwaun, rhed y ffin trwy ganol afon Cynon, sef i'r man y rhed Nant-y-bwlch i Gynon, ar ei thu gorllewinol. Oddiyno, rhed y ffin gyda Nant-y-bwlch (yr hon sydd yn gwahanu Aberdar a Rhandir Rhydgroes—Rhigos—o blwyf Ystrad-dyfodwg), hyd at Fwlch y Lladrôn. Oddiyno dilyna'r ffin nant fechan sydd yn rhedeg oddiwrt h y Bwlch i'r de-orllewin, nes cyrhaedd afon Rhondda Fach. Oddiyno furfia y Rhondda Fach y ffin rhwng Aberdar ac Ystrad-dyfodwg am tua phum' milldir, sef heibio Pont Lluest Wen a Chastell y Nos hyd le a elwir y Ffaldau. Oddiyno rhed y ffin i'r dwyrain hyd y Bedw-lwyn, ac yna dros y mynydd heibio Blaen Cwm y Bwcci, sef Cwmboy, ac yna hyd Mountain Ash. Rhenir y plwyf yn bedair rhan fel y canlyn :—1. Rhandir Pennar, ar du dwyreiniol afon Cynon, ac yn cyrhaedd o Nant-y-ffrwd hyd Nant-y-wenallt, sef o Mountain Ash hyd Abernaut, yn cynnwys rhan o bentref Mountain Ash, y Cwmbach, &c. 2. Rhandir Llwydcoed, yn cyrhaedd o Nant-y-wenallt hyd Nant-y-rhaiadr a'r Nant-hir, ger Hirwaun, ac yn cynnwys glofeydd y Scubor Wen, gwaith a phentref y Llwydcoed, Tregibbon, &c. 3. Rhandir Dar, sef rhwng Nant-y-bwlch ac afon Dar, sef o Hirwaun hyd afon Dar, ac yn cynnwys Commin Hirwaun, Penywaun, Trecynon, y Gadlys, gyda'r Cemetery, y Parc, pentref Cwmdar, &c. 4. Rhandir Aman, rhwng afon Dar ac afon Aman, ac o'r Cynon hyd y Rhondda Fach, ac yn cynnwys rhan ddeheuol y dref, gyda Threaman, Aberaman, &c. Mae llawer o'r plwyf yn fynyddig, ac i raddau yn ddiffwrwyth, a hyny o ddiffyg triniaeth; ond gellid ei wneyd yn dir cynnyrchfawr pe llafurid ef yn briodol, oblegyd y mae hyd y nod ochrau uchelion ei fynyddau ag sydd yn cael gwrtaith da, yn dwyn cynydiau rhagorol. Prawf o hyn yw gwedd baradwysaidd ardal Abernant, eiddo R. Fothergill, Ysw., A.S., lle y gwrteithir y tir hyd gopa'r mynydd braidd. Prawf arall yw, ddarfod i H. Williams, Ysw., Pantygerdinen, godi tri chrop o wair ar yr un cae yn 1871, ger y Tunnel rhwng Aberdar a Merthyr; a gellid gwneyd y rhan fwyaf o'r plwyf yn gyffelyb pe trinidad ef. Ceir llawer o dir gwastad, bras, a chynnyrchiol ar lanau afon Cynon; ond y mae'r aradr wedi canu yn iach i'r rhan fwyaf o hono er ys blynyddau lawer, fel mai y prif ddefnydd wneir o hono yn awr yw codi gwair.

Prif afonydd y plwyf yw'r Cynon a'r Dar. Tardd y flaenaf yn Llygad Cynon, yn mhblwyf Penderyn, ychydig i'r gogledd i bentref Hirwaun, a rhed trwy'r pentref hwn, ac heibio Trecynon ac Aberdar, lle y llwngo y Dar, a'r Aman yn Aberaman, ac ymarllwysa hithau i afon

Taf yn Aber Cynon. Tardd afon Dar yn y Berw Du, rhwng Tarren y Bwllfa a'r Rhondda Fach, ac abera yn y Cynon yn nghanol tref Aberdar. Ychwanegir ar hyn wrth sylwi ar Gwmdar.

Tynodd y plwyf hwn sylw gwyr Morganwg mor foreu a'r unfed ganrif ar ddeg, pryd y darfu i'r Tywysog Gwrgan ab Ithel roddi rhan helaeth o hono, a elwid y Waun Hir, yn dir pori. rhwng trigolion ei Arglwyddiaeth. Ymddengys fod y Waun y pryd hwnw yn cyrhaedd o Flaen Gwrach, ger y Rhydgroes, hyd yn agos i Mountain Ash, sef tua deg milldir o hyd. Wedi i Gwrgan roddi y waun hon yn dir pori i'w ddeiliaid am ddim, arferai yr amaethwyr anfon eu hanifeiliaid yma i bori yn yr haf, ac arferent adeiladu lluestai ar y waun i fyw am rai misoedd, ac yma y gwnaent ymenyn a chaws, &c., gan ddychwelyd adref yn yr Hydref. Coffadwriaeth am yr arferiad hwnw yw'r enwau lluestol sydd ar loedd yn y plwyf yn awr, megys Pont Lluest Wen, y Lluestau Llwydion, &c.

Yn rhandir Dar, ac ychydig oddiwrth amaethdy y Lluestai Llwyddion, y mae amaethdy bychan a elwir Cefucynghor, sef Cefn y Cynghor-yr hwn a elwir gan lawer yn Gefn Cynon. Mewn *maps* a llyfrau diweddar, Cefn Cynon y gelwir ef; ond Cefn Gynghor y gelwir ef gan drigolion yr ardal. Beth, tybed, yw tarddiad yr enw hwn? Dywed traddodiad iddo gael yr enw am fod yr amaethwyr yn amser Gwrgan yn cyfarfod a'u gilydd ar y Cefn hwn bob blwyddyn i gynnal math o Gynghor, er rhanu y defaid, &c., oeddynt heb eu marcio; ac yna, pob amaethwr yn gosod ei farc ei hun ar ei eiddo. Yr oedd hyn yn naturiol ddigon, gan fod amaethwyr saith neu wyth o blwyfi yn anfon eu hanifeiliaid i bori i'r Waun, a'r rhai hynny yn eppilio, a chymmysgu a'u gilydd, fel yr oedd anegn i'r perchenogion eu rhanu a'u marcio, er mwyn cadw hawl ynddynt. Mae yr arferiad hyn mewn parthau o Gymru yn bresenol; a digon tebyg i'r lle hwn gael yr enw Cefn y Cynghor oddiwrth Gynghor blynyddol yr amaethwyr gynt.

Bu y Waun hon, a elwir Hirwaun Wrgan, yn Gommin Rhydd am oesoedd wedi y Goresgyniad Normanaidd; ond bob yn ychydig, honwyd hawl iddi gan Ieirll Penfro, arglwyddi Morganwg; ac fel disgynydd o'r cyfryw, honir hi gan Ardalydd Bute. Y cofnod hynaf a welais o barthed yr hawl, yw hanes Cyfarfod Barwnol, a gynnaliwyd yn mhentref Aberdar, Mehefin 26, 1688, dros y Gwir Anrhydeddus Philip, pedwerydd Iarll Penfro, ac Arglwydd Morganwg, yr hwn oedd yn honi hawl i 4,000 o erwi o Hirwaun Wrgan, yn nghantref Meisgun. Yr oedd yn bresenol yn y cyfarfod hwnw, William Herbert, Caerdydd; Thomas Mathew, a William Herbert o'r Cogan; David Evans a Thomas Lewis, Ysweiniaid, y rhai oeddynt ddirprwywyr i'r Iarll. Dyben y cyfarfod oedd cymmeryd dan ystyriaeth waith Thomas Mathew, Ysw., yn cau i mewn tua 100 erw o'r Waun ger Aberaman, gan wneyd fferm o'r tir, yr hyn a ganiatawyd iddo gan William, Iarll Penfro, sef tad y Philip a enwyd. Yr oedd ystad Aberaman wedi ei thynu mewn o'r Commin cyn y flwyddyn 1593, oblegyd un William Mathew, Ysw., Aberaman, oedd Sirydd Morganwg y flwyddyn hono. Yr oedd W. Mathew yn llenor gwych. Edward Mathews, Ysw., oedd

yn byw yma yn 1710. Darfu i Eleanor Mathews, yn 1720, adeiladu 4 elusendy yn Aberdar i 4 o dlodion y plwyf, a bod ardreth amaethdy yn mhlwyf Llanwynno i'w ddefnyddio at gynnal y tlodion hyn am byth.

Canlynwyd esiampl T. Mathew gan ereill, gyda golwg ar gau y commin i mewn, fel yr oedd y nifer o 85 o ffermydd wedi eu cau i mewn o'r Waun erbyn 1785. Yr oedd Ardalydd cyntaf Bute tua 18 oed y pryd hwnw, a'i dad, John Iarll Bute, yn honi hawl i'r Waun, gan ei fod yn briod â Charlotte Jane, merch Herbert, Is-Iarll Windsor, Arglwydd Morganwg. Yn 1788, daeth Ardalydd cyntaf Bute i'w oed, a thlynwyd i lawr amaethdai y 85 ffermydd a enwyd; o'r hyn lleiaf, dystyriwyd y rhan amlaf o'honynt, ac amddifadwyd yr amaethwyr o'u heiddo. Parodd hyn i Mri. Samuel Rees o'r Werfa, a Rees Philip o'r Cwm fyned i gyfraith â'r Ardalydd, ar ran y plwyfollion, yn nghylch hawl i'r Waun. Dygwyd y gyfraith yn mlawn yn Henffordd yn 1790, a cholodd yr Ardalydd! O'r flwyddyn hono hyd y flwyddyn 1869, bu y Waun yn Gommin Rhydd o dref Aberdar hyd Flaen Hirwaun. Yn y blynyddau 1848-9, adeiladwyd ugeiniau o annedd-dai byohain ar y Commin, y rhai a elwid Tai Unnos, a chauwyd gerddi helaeth i mewn atynt. Aeth rhai o'r preswylwyr, pa fodd bynag, mor ddrwg â lladd ac yspello defaid yr amaethwyr cylchynol; a'r canlyniad fu i'r awdurdodau, trwy orchymyn ail Ardalydd Bute, dynu yr annedd-dai hyny i lawr yn 1850-1. Yn 1869, darfu i'r Dirprwywyr Tirol ranu y Waun rhwng perohenogion tiroedd plwyf Aberdar; ac y mae wedi ei chau i mewn yn gaeau mawrion er y flwyddyn 1870. Cyn y dosparthiad hwn, pa fodd bynag, cafodd 80 o erwi o'r Waun eu cau i mewn yn Gladdfa Gyhoeddus, yr hon a agorwyd yn 1858. Rhoddodd y *Commissioners* 49 erw o'r Waun hefyd i warcheidwaid y plwyf, y rhai a'u rhoddasant i'r Bwrdd Iechyd i wneyd Parc Cyhoeddus, yr hwn a agorwyd yn 1869.

*Brwydr Hirwaun Wrgan.*—Crybwyllwyd eisioes am y frwydr hon yn Hanes Wladol Morganwg, ond barnwyf na fydd ychydig o'r manylion allan o le yn y fan hon. Mae'n hyspys mai y pleidiau yn y frwydr oeddynt Rys ab Tewdwr, Tywysog Dinewr; a Iestyn ab Gwrgan, Tywysog Morganwg, yn cael ei gynnorthwyo gan Robert Fitzhamon a 12 Marchog Normanaidd ereill a'u lluoedd, yn nghyda lluoedd Cedrych ab Gweithfoed ac Einion ab Collwyn: y cwbl tua saith mil o wyr arfog. Ni hyspysir beth oedd nifer byddin Rhys ab Tewdwr, ond ymddengys ei bod yn llawer llai na'r un wrthwynebol. Barna rhai i'r frwydr ddechreu ar y mynydd rhwng Aberdar a Merthyr, mewn lle a elwir Carn y Frwydr, tra mae ereill yn barnu mai cofnodi brwydr ddiweddarach y mae'r Garnedd hono. Mae amryw garneddau ereill ar y mynydd hwn, megys Carn Tyle Hir, y Gaer, &c., y rhai sydd ar gopa'r mynydd uwchben y Werfa. Amlwg yw i Amddiffynfa fod yma gynt, oblegyd y mae'r ffôs o amgylch y Gaer yn agored yn bresenol; ond nid oes sicrwydd pa bryd yr adeiladwyd hi. Pa fodd bynag, y mae amryw leoedd yn Aberdar wedi cael eu henwau oddiw'rth y frwydr fu yma rhwng Rhys a Iestyn, y rhai sydd yn cadarnhau gwirionedd yr hanes, er fod rhai estroniaid yn ddiweddar

wedi myned mor bell â gwadu bodolaeth y fath berson â Iestyn ab Gwrgan!

Cymmerodd ymladdfa waedlyd iawn le rhwng y ddwy fyddin ar y gwastadedd rhwng yr Hen Eglwys ac afon Cynon; a gelwid y maes hwnw yn Faes y Gwaed am oesoedd ar ol y frwydr. Mae rhan helaeth o'r dref wedi ei hadeiladu ar y maes yn bresenol, a gelwir ef Maes-y-dref. Yn agos i'r maes hwn, yr oedd gwaun a alwyd am oesoedd Gwaun y Rhwyfan, ac yn agos atti Riw y Rhwyfan. Yr ystyr a roddir yn Morganwg i'r gair "rhwyfan," neu "rhwyfus," yw *gvingo*; a dywed traddodiad i'r lleoedd hyn gael yr enwau am fod y clwyfedigion yn gvingo yn eu gwaed yn y frwydr dan sylw. Y Gadlys Isaf, a'r Gadlys Uchaf hefyd, ydynt enwau sydd yn parhau er amser y frwydr; a dywedir fod byddin Iestyn yn gwersyllu yn y flaenaf, a byddin Rhys yn yr olaf. Bu ymladdfa ffyrnig rhwng y pleidiau yn agos i'r Gadlys Uchaf, a chafodd y Rhiw sydd ger y lle, yr enw Rhiw yr Ochain am oesoedd lawer ar ol hyny. O'r Gadlys Uchaf, gyrwyd byddin Rhys i fyny tua'r gogledd-orllewin am tua milldir o ffordd. Pan welodd yr hen dywysog ei fod yn colli'r dydd, efe a barodd godi banerau gwynion, yn arwydd ei fod yn ceisio heddwch; a gelwir y lle hwnw y Bryn Gwyn, neu Fryn y Bannerau Gwynion hyd heddyw. Gwrthodwyd telerau heddwch iddo, a gyrwyd ef a'i fyddin tua'r gogledd-orllewin, hyd Flaen Hirwaun, lle y bu agos i'w fyddin gael ei llwyr ddyfetha mewn man aelwir Nant-yr-ochain. Oddi yno ffordd Rhys gydag ychydig o'i filwyr, dros y mynydd i Gwm Rhondda, yn cael ei ganlyn gan ei elynion; ac wedi ychydig o ymladd yno, daliwyd ef a thorwyd ymraith ei ben.

*Haiarnfaoedd Aberdar.*—Nid yw yn hyspys pa bryd, na chan bwy, y dechreuwyd gwneyd haiarn yn y plwyf hwn. Myn rhai gredu i'r Rhufeiniaid fod yn toddi haiarn yn Mlaen Cwm Dar, yn agos i Daren y Bwllfa; ond barnwyf mai mewn cyfnod diweddarach y bu hyn. Eglur yw fod ffwrnes yno yn rhyw oes, er nad oes dim o'i muriau yn aros; etto, y mae yno domen o farwdoes (*cinders*) yn llefaru yn ddi-floesgni fod haiarnfa yno gynt. Yr oedd y ffwrnes fu yno yn perthyn i gyfnod boreuach na dyfeisiad haiarn bwrw (*cast iron*), oblegyd nid *cinders* haiarn bwrw ydyw, ond eiddo haiarn morthwyladwy. Mae yn swnio yn chwithig i ni yr oes hon, fod haiarn gwaith wedi ei ddyfeisio o flaen haiarn bwrw; ond etto, dyna y ffaith. Nis gellir gyda sicrwydd ddwyfod fod haiarn bwrw yn hynach na'r flwyddyn 1558; ond nis gall neb nodi pa mor foreu y gwnaed haiarn morthwyladwy. Ymddengys fod Ffwrnes Cwmdar yn perthyn i ddosparth y *Bloomers*, y rhai oedd-ynt tua thair troedfedd o uchder. Golosgoed ddefnyddid yn danwydd ynddynt, a chwythid y tân â meginau mawrion. Torid y mwn haiarn yn ddarnau mân, a thesif ef yn gymmysg â'r golosgoed i'r ffwrnes. Ar ol iddo doddi yn un cosyn i'w gilydd, tynid ef allan i'w guro a gyrdd, er cael y *cinders* o hono, ac i'r ffwrnes ag ef eilwaith. Tynid ef allan drachefn i'w guro; ac ar ol gwneyd hyn amryw weithiau, yr oedd yn dyfod yn haiarn morthwyladwy, tra yr oedd mwy na'i hanner wedi ei golli dan y driniaeth. Tua chan' pwys o haiarn ellid wneyd

ar y tro yn y ffwrnesi hyn. Yr arferiad yn y cyfnod *Bloomaid* oedd adeiladu y ffwrnes yn y man mwyaf cyfleus i gael coed, a dygid yr ychydig fwn atti ar gefnau mulod; ac ar ol llosgi y coed yn agos i'r ffwrnes, symmudid i fan arall. Dyna yr achos fod olion cynnifer o ffwrnesi bychain mewn gwahanol fanau yn Morganwg. Diamheu fod llawer o goedwigoedd Morganwg wedi eu difa gan y ffwrnesi hyn cyn i neb feddwl am ddefnyddio glo at doddi haiarn. Mae traddodiad fod plwyf Aberdar mor goediog gynt, fel y gallai gwiwer fyned o un pren i'r llall heb ddisgyn i'r llawr, o Mountain Ash hyd Gefn y Cynghor, ac oddiyno drachefn i Gwm Nedd,—pellder o 12 milldir! Yn amser John Leyland (1540), yr oedd Fforest Llwydcoed yn enwog iawn; ond erbyn heddyw, y mae hono fel llawer fforest arall, wedi ei difa.

Bu amryw ffwrnesi bychain yn mhlwyf Aberdar cyn y cyfnod presenol, heblaw ffwrnes Cwmdar, megys Ffwrnes y Dyffryn, Ffwrnes Cae Luce, Ffwrnes Cwmaman, a Ffwrnes y Garn. Mae lle i gaaglu fod glo yn cael ei ddefnyddio yn yr olaf; oblegyd yn niwedd y flwyddyn 1872, tarawyd i hen waith glo o un o weithfeydd Ysgubor Wen, nad oedd neb yn gwybod am dano; ac wrth ddilyn yr ychydig ddwfr oedd yn rhedeg yno, cafwyd ei fod yn myned allan yn ymyl adfeilion Hen Ffwrnes y Garn. Yr Haiarnfa hynaf o'r rhai sydd yn y plwyf yn awr, yw Haiarnfa'r Llwydcoed, yr hon a ddechreuwyd yn 1799 gan un o'r enw Scale; a dechreuodd weithio, Gorphenaf 26, 1801. Adeiladwyd Ffwrnesi ereill y gwaith hwn yn y blynyddau dilynol. Yr ychydig haiarn a wnaed yn y gwaith hwn ar y cyntaf, a gludid ar gefnau mulod oddiwrth y ffwrnes hyd ymyl yr heol sydd yn myned o Hirwaun i Ferthyr Tydfil, ac oddiyno drachefn mewn pedroffeni hyd waith Penydarren i'w orphen. Yr oedd hyn cyn gwneyd y Camlas i fywy trwy Gwm Cynon hyd Aberdar.

Yn 1800, dechreuwyd Haiarnfa Abernant, gan un o'r enw Birch, yr hwn a'i gwerthodd yn fuan i Mri. F. ac R. Tippington; a bu Birch yn arolygu y gwaith danynt. Cludid y mwn haiarn y pryd hwnw at Ffwrnes Abernant o Gwmdar. Dygwyd y gwaith yn mlaen am flynyddau gyda chryn golled i'r perchenogion, fel y gorfu arnynt ei adael i sefyll yn 1815. Yn 1819, prynwyd ef gan Mr. Rowland Fothergill a'i Gyf. Yn 1828, adeiladwyd Morthwylfa Abernant, a daeth gwaith y Llwydcoed i feddiant yr un personau. Oddiar pan ddaeth y ddau waith hyn yn eiddo y Fothergills, y maent wedi myned yn mlaen yn hwylus. Y perchenogion presenol ydynt Richard Fothergill, Ysw., A.S., a Thomas Alers Hankey, Ysw. Cyflogir tua 4,000 o weithwyr yn y gwaith hwn.

Dechreuwyd Haiarnfa'r Gadlys yn 1827, gan Mri. Wayne a'u Cyfeillion. Saif y gwaith hwn yn ymyl y dref, ar lan afon Cynon, a chynnwysa bedair Tawdd Ffwrnes, Morthwylfa, Melin, &c., heblaw llawer o weithfeydd tanddaiarol. Yn 1850, ychwanegodd y diweddar T. Wayne, Ysw., Felin at wneyd llafnau i weithfeydd Alcan at ei weithfa flaenorol, a thalodd yn dda. Parhaodd y gwaith yn meddiant yr un teulu hyd y flwyddyn 1872, pan y prynwyd ef gan Bird a'i Gyf. Cyflogir tua dwy fil o weithwyr yn y gwaith hwn.

Yn mis Ionawr, 1868, dechreuwyd adeiladu Gwaith Tin ar lan afon Cynon, tua hanner milldir i'r gogledd o waith y Gadlys, a dechreuodd weithio yn mis Medi yr un flwyddyn. Mae hwn yn waith bychan cryno iawn, ac yn addaw yn dda. Ei berchenogion dydent Meistri Chivers, Smith, a'u Cyf. Cyflogir ynddo tua 150 o bobl. Heblaw y gweithfeydd hyn, y mae yn y lle dair *Foundry*,—un ar lan Cynon, ger Gorsaf Cledrffordd y G.W.R.; yr ail yn Davis Town, a'r drydedd ger y Gwaith Tin a nodwyd. Mae yn y plwyf amryw weithfeydd priddfeini hefyd, y rhai a ddygir yn mlaen ar raddfa helaeth; ond y prif weithfeydd yn y lle dydent

## Y GLOFEYDD.

Nid yw yn hysbys pa bryd, na chan bwy y dechreuwyd cloddio am lo yn y plwyf hwn, ond y mae hanes yn hyspysu fod yma rai *leflau* tua'r flwyddyn 1750. Gallwn nodi pedair. 1. Lefel Penrhiwlllech, yr hon sydd ger Amaethdy Penrhiwlllech yn Nghwmdar; ac y mae ei genau i'w weled yn bresenol. 2. Lefel y Bryn Gwyn, neu Lefel y Bechgyn, yr hon oedd ar lechwedd y mynydd rhwng y Lluedai Llwydion a Hirwaun; mae genau hono wedi cau yn bresenol. 3. Lefel y Garn, heb fod yn mhell oddiwrth Ffwrnes y Garn, yn Rhandir Llwydcoed. 4. Lefel Penar, yn Rhandir Penar, ar lechwedd y mynydd uwchben y Cwmbach. Yr oedd un o'r *leflau* hyn yn mhob rhanbarth o'r plwyf, a thorid glo ynddynt at wasanaeth yr amaethwyr yn unig. Yr oedd oryn ragfarn hyd y nod yn mhlith yr amaethwyr at y glo hwn i grasu yd, ac felly cyrchent lo at y gorchwyl hwnw o blwyf Merthyr. Nid oes hanes fod ceffylau yn gweithio mewn un lefel yn y plwyf cyn y flwyddyn 1786, pan agorwyd Lefel Fawr Hirwaun ar raddfa ddigon eang fel y gallai ceffyl fyned iddi. Yr oedd hyn yn ddechreuad cyfnod newydd yn hanes glofeydd y plwyf. Mewn *leflau*, gan mwyaf, y torid glo at haiarnfaeodd y plwyf hyd nes y dechreuwyd suddo pyllau y glo ager. Dechreuodd cyfnod Glo Ager y plwyf yn 1837, pan y darfu i Meistri T. a W. Wayne a'u Cyfeillion ymfurfio yn Gwmpeini dan yr enw *Aberdare Coal Company*, a suddasant bwl at weithio Glo Ager, ar dir Abernant-y-groes (Cwmbach), yr hwn yw y pwl glo ager hynaf yn y plwyf. Anfonwyd 48,000 tonnall o lo o'r pwl hwn yn 1846. Yn mis Chwefror, 1840, dechreuwyd cloddio pwl y *Dyffryn Colliery*, Cwmbach, gan y diweddar T. Powell, Ysw., ac anfonwyd glo gyntaf o hono, Mehefin, 1842. Yn mis Rhagfyr, 1844, dechreuodd Mr. Powell suddo pwl arall, yn agos i eiddo T. a W. Wayne, ac anfonwyd glo ymaith o hono yn Ionawr, 1846. Yn 1848, dechreuwyd suddo pwl cyntaf Lletty Shenkin; a chyrrhaeddwyd y glo yn 1845. Yn yr un flwyddyn, sef 1848, dechreuwyd Glofa Ynys Cynon, gan y diweddar D. Williams, Ysw., (*Alaw Goch*); a Glofa Blaengwawr, gan y diweddar D. Davis, Ysw.; ac anfonwyd glo o'r olaf yn 1845. Ar y 15fed o Fawrth, 1844, dechreuwyd suddo pwl Aberaman, gan y diweddar Crawshay Bailey, Ysw.; a thua'r un amser, suddwyd Pwl y Werfa gan Mr. Nixon; a Hen Bwl y Gadlys



ar lan y Dâr, ger Hen Eglwys y plwyf, gan T. a W. Wayne. Yn mhen ychydig ar ol hyn, suddwyd pyllau Glofa Cwnaman gan Meistri Shepperd ac Evans. Yn 1849, dechreuwyd agor gwaith y Sgubor Wen, gan Meistri T. Joseph a S. Thomas. Yn 1850, dechreuwyd suddo y *Deep Dyffryn Colliery*, gan Alaw Goch; a dau bwl Cwmpenar gan T. Powell, Ysw.; a daeth glo o honynt yn 1855. Yn y blynyddau 1851-2-3, suddwyd tri phwll yn Nghwmdar,—un gan T. Powell, un gan Alaw Goch, ac un gan T. Joseph ac S. Thomas. Tua'r un adeg, suddwyd Glofa Fforch Aman gan James Brown, Ysw.; ac yn mhen ychydig ar ol hyn, suddwyd Glofa Cwmneol. Agorwyd Glofa Abercwmboi yn 1858, gan D. Davis, Blaengawr. Tua'r flwyddyn 1864, dechreuwyd Glofa'r Bedwlyn, Cwmaman; ac yn 1870, suddwyd pwll Fforch Neol gan Mr. D. Bevan a'i frodyr.

Dengys yr uchod fod Glofeydd Aberdar wedi eu hagog yn gyflym iawn, y naill ar ol y llall, fel y daeth y lle yn bwysig iawn mewn ystyr fasnachol, a hyny mewn ychydig flynyddau. Yr oedd masnach y lle wedi cyrhaedd safle uchel erbyn y blynyddau 1858-9, a gweithwyr yn ymdyru iddo o bob cyfeiriad; digon o waith i'w gael iddynt yn y glofeydd, a chyflogau da am ei gyflawni. Rhwygid, a chloddid coluddion y ddaiar,—dryllid ei hesgyrn creigiog, torid cloion ei dyfnion goffrau, a dygid ei thrysorau'cuddiedig i'r amlwg trwy lafur y glowyr. Ar hyd wyneb y dyffryn, clywid swm—

## Olwynion trymion yn tramwy,

a rhesi ar ol rhesi o wageni gweigion, gyda safnau agored, yn rhedeg i fyny o Gaerdydd ac Abertawy, &c., tuag Aberdar, yn or-awyddus am eu diwallu â glo; a gwelid y rhai hyny mewn ychydig amser yn cychwyn yn ol yn llwythog o'r "*Black Diamond*," i'w osod i droi clorianau masnachol y wlad.

Tuag at i'r darllenydd gael cipdrem ar eangder masnach glo ager y plwyf hwn, rhoddir yma dafien yn cynnwys ystadegau sydd yn dangos y swm anferth o lo a godwyd o'r gwahanol lofeydd mewn pum' mlynedd yn olynol:—

| ENWAU'R GLOFEYDD, &c.       | 1866.   | 1867.   | 1868.   | 1869.   | 1870.   |
|-----------------------------|---------|---------|---------|---------|---------|
|                             | Tun.    | Tun.    | Tun.    | Tun.    | Tun.    |
| Pwll Als, sef Pwll y Parc   | 40,529  | 26,580  | 49,202  | 20,823  | 14,623  |
| Cwmni Glo Ager Hirwaun      | 45,928  | 67,553  | 79,350  | 30,609  |         |
| Glofa Cefn Merthyr, Hirwaun | 5,135   | 18,566  | 38,811  | 56,523  | 42,109  |
| Glofa'r Graig, Hirwaun      | 12,088  | 12,007  | 9,799   | 7,685   | 8,556   |
| Glofa Rhydywaun "           | 3,949   | 1,971   | 2,006   | 4,098   | 3,866   |
| Glofa'r Bwllfa, Cwmdar      | 115,655 | 115,941 | 109,322 | 108,823 | 104,927 |
| Glofa Nantmelin, Cwmdar     | 82,210  | 59,470  | 73,723  | 93,022  | 89,708  |
| Merthyr Dar, Cwmdar         | 55,768  | 58,326  | 83,404  | 44,111  | 38,670  |
| Y Gadlys                    | 186,695 | 129,146 | 109,992 | 117,643 | 132,469 |
| Sgubor Wen—S. Thomas        | 74,003  | 68,485  | 82,200  | 86,208  | 99,045  |

| ENWAU'R GLOFYDD, &c.         | 1866.     | 1867.     | 1868.     | 1869.     | 1870.     |
|------------------------------|-----------|-----------|-----------|-----------|-----------|
|                              | Tun.      | Tun.      | Tun.      | Tun.      | Tun.      |
| Abernant—R. Fothergill, A.S. | 246,532   | 218,634   | 231,226   | 251,159   | 227,310   |
| Y Werfa—Heath ac Evers       | 61,218    | 67,804    | 56,655    | 55,629    | 58,812    |
| Cwmni Glo Aberdar, Cwmbach   | 73,831    | 90,659    | 101,185   | 94,691    | 90,267    |
| Lletty Shenkin, Cwmbach      | £9,614    | 84,207    | 88,539    | 84,871    | 57,871    |
| Blaengwawr—D. Davis          | 66,123    | 65,987    | 45,555    | 56,157    | 73,577    |
| Abercwmbay—D. Davis          | 100,428   | 64,318    | 65,918    | 90,410    | 65,135    |
| Cwmaman—Evans a'i Gyf.       | 80,044    | 91,431    | 70,949    | 79,411    | 78,357    |
| Bedwlwyn—Kenway a'i Fab      | 6,180     | 3,481     | 4,911     | 10,208    | 21,788    |
| Deep Dyffryn—Nixon a'i Gyf.  | 119,796   | 129,663   | 111,630   | 111,975   | 112,861   |
| High Dyffryn—Powell a'i Gyf. | 55,269    | 41,354    | 355       | 6213      | 47,976    |
| Upper Dyffryn " "            | 23,589    | 14,468    | 14,288    | 11,601    | 8,444     |
| Old Dyffryn " "              | 21,487    | 23,800    | 32,454    | 32,615    | 27,498    |
| Middle Dyffryn " "           | 112,598   | 109,380   | 125,585   | 134,493   | 126,055   |
| Lower Dyffryn " "            | 184,487   | 180,547   | 201,369   | 210,503   | 191,694   |
| Cwmdar " "                   | 45,878    | 37,737    | 35,500    | 44,902    | 41,926    |
| Abergwawr " "                | 54,685    | 45,808    | 67,358    | 76,665    | 90,477    |
| Cwmneol " "                  | 101,100   | 73,186    | 72,090    | 62,672    | 62,954    |
| Pforchaman " "               | 85,047    | 100,306   | 113,015   | 104,342   | 94,254    |
| Aberaman " "                 | 85,667    | 50,685    | 23,058    | 54,062    | 58,171    |
| Cyfanswm.....                | 2 185 571 | 2 052 220 | 2 053 509 | 2 141 624 | 2 070 920 |

*Y Dref, &c.*—Yn 1800, nid oedd Aberdar ond pentref bychan a distadl, yn cynnwys Eglwys fechan hynafol, gyda melin, ac ychydig dai isel yn ymyl y felin a'r fynwent, y rhai a welir yn bresenol, rhai o honynt wedi eu toi â gwellt, ac ereill â cheryg llwydion, a'r rhan fwyaf o honynt heb lofft. Nid oedd poblogaeth yr holl blwyf y pryd hwnw ond tua 1,450; ond fel yr oedd y gweithfeydd haiarn yn ychwanegu, cynnyddodd y boblogaeth, a lluosogodd y tai, nes y daeth y pentref bychan, llwydaidd, yn dref erbyn 1840. Tua'r flwyddyn hono, fel y sylwyd, dechreuodd cyfnod y Glo Ager, ac y mae'r cynnydd cydfynedol ag ef wedi bod yn fawr iawn, fel y dongys y daflen ganlydol o'r boblogaeth:—

|                 |       |       |        |        |        |
|-----------------|-------|-------|--------|--------|--------|
| Blwyddiad ....  | 1831. | 1841. | 1851.  | 1861.  | 1871.  |
| Poblogaeth .... | 8,961 | 6,741 | 14,998 | 32,259 | 37,704 |

Er nad oedd yma ond ychydig dai bychain ger yr Eglwys yr 1800, y mae'r dref yn awr tua dwy filldir o hyd, o waelod Aberaman hyd dop Trecynon, heblaw rhan o Mountain Ash, Abercwmbay, Cwmaman, Cwmbach, Cwmdar, Penywaun, Hirwaun, Llwydcoed, ac Abernant, y rhai ydynt bentrefi poblog perthynol i Aberdar. Adeiladwyd Ty Marchnad cyntaf Aberdar yr 1831; ond aeth hwnw yn rhy fach, a throwyd ef yn Neuadd y Dref. Saif ger yr Hen Eglwys, a defnyddir ef yn swyddfeydd y Bwrdd Iechyd, &c., yn bresenol. Yn 1868, adeil-

adwyd y Ty Marchnad presenol ar raddfa eang, yn agos i aberiad y Dar i'r Cynon.

Ty mad, at alwad tenlu—Aberdar,  
A phawb er doeth werthu,  
Nen le breiniol i brynu  
Yw'r llys, a llawn er lles llu.—*Ifor Cwmgwys.*

Cynnelir y farchnad bob Sadwrn, a ffair Ebrill 1af a'r 16eg, a Thachwedd 13eg. Dan Weithred Ddiwygiadol 1892, breintiwyd Aberdar yn rhanol à Merthyr, ag hawl i anfon Aelod i'r Senedd; a than Weithred Ddiwygiadol 1867, estynwyd iddynt yr hawl i ddychwelyd dau Aelod i'r Senedd. O'r flwyddyn 1882 hyd 1852, cynnrychiolwyd y lle gan Syr Josiah John Guest, Barwnig. O'r flwyddyn 1852 hyd 1867, gan yr Anrhydeddus H. A. Bruce, A.S.; ac o'r pryd hwnw hyd yn awr (1874), gan Henry Richard, Ysw., Llundain, a Richard Fothergill, Ysw., Abernant. Cynnelir Llys Heddynadol yn wythnosol yn Swyddfa'r Heddgeidwaid, yn agos i'r Ty Marchnad; a'r Llys Sirol yn fisol yn y Neuadd Ddirwestol. Agorwyd y Neuadd ardderchog hon yn 1858, ac ynddi cynnelir cyfarfodydd cyhoeddus y dref, cyngherddau, darlithiau, &c. Llywodraethir y dref gan Fwrdd Iechyd yn cynnwys deuddeg o aelodau, y rhai a gyfarfyddant bob pythefnos yn Neuadd y Dref i gynnal eu cyfarfodydd. Mae pedwar o'r aelodau yn colli eu swyddi yn flynyddol, ond yn agored i ail-etholiad. Mae yn y dref ddau Ariandy,—cangen o Hen Ariandy Aberhonddu, a changen o'r *West of England and South Wales District Bank*, heblaw Ariandy y Llythyrdy, a changen o Ariandy Cynnilo Caerdydd. Cyhoeddir yn y dref dri Newyddiadur, sef yr *Aberdare Times* yn Seisnig, a'r *Gwladgarur* a'r *Twr* yn Gymraeg, yn nghyd â'r *Medelur Ieuange*, a'r *Ymofynydd* a gyhoeddir yn fisol.

*Ysgolion y Lle.*—Nid haiarn a glo yn unig sydd yn cael sylw trigolion y lle; ond fel yr oedd y dref a'r gymnydogaeth yn helaethu, buwyd yn dra gofalus am ddarparu lleoedd cyfleus i gyfranau addysg i blant y preswylwyr. Er dangos hyn, rhoddir yma res o enwau yr Ysgolion Cenedlaethol a Brytanaid sydd yn y lle:—Ysgolion Cenedlaethol.—1. Yn Heol Caerdydd, i fechgyn, merched, a babanod: un athraw a dwy athrawes. 2. Ysgol Cwmbach, i fechgyn a merched: un ysgolfeistr ac un ysgolfeistres. 3. Ysgol St. Ffagan, Trecynon, i fechgyn, merched, a babanod: meist'r a dwy feistres. Ysgolion Brytanaid.—1. Aberaman (cymmysg), bechgyn a merched: meist'r a dwy feistres. 2. Abernant (cymmysg). 3. Cwmbach (cymmysg). 4. Cwmaman (cymmysg). 5. Cwmdar (bechgyn a merched). 6. Ysgol y Tabernacl. 7. Ysgol yr Ynyslwyd. 8. Ysgol y Llwydcoed. 9. Ysgol Hirwaun. 10. Ysgol Trecynon, heblaw eiddo Mountain Ash. Mae Bwrdd Ysgol wedi ei sefydlu yma, yn cynnwys naw o aelodau; ac y mae agwedd dra llewyrchus ar addysg yn y lle. Mae Ysgoldy helaeth a hardd Trecynon yn un o'r rhai mwyaf cyfleus yn y Dywysogaeth.

*Crefydd.*—Sefydliad Pabyddol oedd yr hynaf y mae genym hanes am dano yn y plwyf hwn. Math o Fynachly bychan oedd hwnw, dau

ofal Abbad Mynachlog Penrhys, Ystrad-dyfodwg. Safai y crefydd-dy y cyfeiriwyd atto ar randir Cefnpennar, ger y Ty Draw, yn ymyl y ffordd sydd yn arwain o Aberdar i'r Cwmbach. Yr oedd peth o'r adfeilion yn weledig yno yn 1800; ond saif planigfa yn bresenol lle y bu'r addoldy gynt. Yr oedd ffordd gan y mynachod o'r addoldy hwnw i Fynachlog Penrhys dros y mynyddau, ac y mae rhan helaeth o'r heol hon i'w gweled yn awr, a gelwir hi Rhiw'r Mynach a *Monk Street*, yr hon sydd yn arwain i fyny i'r mynydd gorllewinol i'r dref, a gelwir parth o'r mynydd hwnw wrth yr enw Craig y Mynach. Ty'r Mynach hefyd yw hen enw'r Ty Fry yn Nghwmdar, yr hyn a awgryma fod mynach yn preswyllo ynddo gynt. Yr oedd Mynachlog Penrhys yn ei bri yn 1400, a digon tebyg mai tua'r amser hwnw y bu llewyrch ar y sefydliad oedd yn Aberdar. Tua'r flwyddyn 1866, adeiladodd y Pabyddion Eglwys eang a chostus yn Heol y Mynach, i'r hon y cynnulla lluoedd o'r Gwyddelod a thramoriaid yn Sabbothol.

*Yr Eglwys Sefydledig.*—Nid oedd Eglwys blwyfol Aberdar ar y cyn-taf ond Capel Anwes (*Chapel of Ease*) perthynol i Eglwys Llantrisant, a pharhaodd felly am oesoedd ar ol y Diwygiad Protestanaidd. Er fod Aberdar yn blwyf annibynol er ys oesoedd, telir rhan o ddegwm y plwyf i Ficer Llantrisant yn bresenol, a than ei nawdd ac yn ei rodd ef yr oedd y fywioliaeth hyd yn ddiweddar, pan ei trosglwyddwyd i Ardalydd Bute. Adeilad bychan, isel, a diaddurn yw Hen Eglwys y plwyf, wedi ei chyssegru i loan Fedyddiwr. Mae yn awr yn rhy adfeiliedig i gynnal gwasanaeth ynddi. Dyddiad ei chloch yw 1698, a'i choflyfr o'r flwyddyn 1795. Gwerth y fywioliaeth yw £179 y flwyddyn. Yn 1851, adeiladwyd Eglwys Sant Elfan, yn nes i aberiad y Dar na'r hen Eglwys. Mae yr Eglwys hardd hon yn ddigon eang i ddal mil o wrandawwyr, ac iddi dwr pigfain yn 189 troedfedd o uchder, ac yn y twr wyth cloch, y rhai sydd dra enwog am bereidd-dra eu sain. Mae awrlais gwych yn y twr hwn hefyd. Yn 1851 hefyd, adeiladodd yr anrhydeddus foneddiges H. Clive, Eglwys St. Ffagan ar ei thir ei hun, ac ar ei thraul ei hun, yn Nhrecynon, yn ddigon i ddal 500 o wrandawwyr. Aeth yr Eglwys hon ar dan pan newydd gael ei hadeiladu, ac adeiladwyd hi drachefn yn 1856 ar draul yr un foneddiges. Mae'r fywioliaeth yn Ficeriaeth annibynol ar Aberdar, ac yn werth £500 y flwyddyn, yn rhodd Esgob Llandaf. Yn 1868—4, adeiladwyd Eglwys Gymreig (St. Mary) Maesydfref, yn lle yr hen Eglwys blwyfol. Mae yr Eglwys newydd hon yn un brydferth iawn, ac fel eiddo St. Elfan, yn addurn i'r lle. Sylfeinwyd hi yn mis Gorphenaf, 1868. Isel yw ei thwr, ac ynddo un gloch wedi ei gwneyd o ddur. Yn 1869, adeiladwyd Eglwys Haiarn yn Nghwmaman, yr hon sydd gapel perthynol i'r Eglwys blwyfol. Tua'r un adeg hefyd yr adeiladwyd Eglwys yr Holl Saint, ar Hirwaun, yr hon sydd gapel perthynol i Eglwys y plwyf. Cynnelir gwasanaeth Eglwysig yn Sabbothol mewn ystafell drwyddedig yn Aberaman, ac yn yr Ysgoldy Cenedlaethol yn y Cwmbach. Dengys y cynnydd mawr sydd wedi cymmeryd lle mewn cysylltiad a'r Eglwys Sefydledig yn Aberdar, fod ymdrechion canmol-  
adwy wedi eu gwneyd ar ei rhan. Ficer presenol y plwyf yw yr enwog

**Barchedig John David Jenkins, D.D., Canon Coleg Iesu, Rhydychain.**

*Ymneillduaeth.*—Y Capel Ymneillduol hynaf yn y plwyf a adeiladwyd yn 1751, yr hwn a ad-adeiladwyd yn 1862, a gelwir ef “Yr Hen Dy Cwrdd.” Cangen o eglwys Capel Cwmglo, plwyf Merthyr Tydfil, adeiladodd yr Hen Dy Cwrdd gyntaf, ac y mae yn anhawdd gwybod beth oedd eu daliadau crefyddol. Dywed rhai mai Presbyteriaid y galwai yr aelodau eu hunain hyd nes y daeth y Parch. Thomas Evans (Tomas Glyn Cothi) yn weinidog iddynt yn 1818. Parhaodd ef yn weinidog yma hyd ei farwolaeth yn 1888, a dywed rhai mai yn ei amser ef y trowyd o fod yn Bresbyteriaid i fod yn Undodiaid. Mae dau gapel gan yr Undodiaid yn y plwyf heblaw hwn, sef Capel Abernant-y-Groes, Cwmbach, a Chapel Seisnig Heol y Mynach.

*Y Trefnyddion Calfinaidd.*—Dechreuwyd achos crefyddol yr enwad hwn yn y lle yn 1799, mewn ty annedd a elwid Ty'r Heol, ger y Gadlys Isaf. Yn y llaethdy perthynol i'r ty hwnw y cynnaliwyd y cyfarfod eglwysig (*society*) gyntaf, ac nid oedd nifer yr aelodau ond tri, a dau Annibynwr. Bu'r ddau enwad yn cyd-addoli am beth amser mewn ty annedd. Yn 1806, adeiladodd y Methodistiaid Capel Pentwyn-bach, Trecynon, ac yr oedd nifer yr aelodau erbyn hyn yn 80. Yr oedd rhai o'r Methodistiaid yn gweithio ac yn byw ar Hirwaun y pryd hwnw, ac yr oedd yno Annibynwyr, Bedyddwyr, a Wesleyaid hefyd; ond nid oedd capel yno. Ar anogaeth pobl Hirwaun, anfonid dau o aelodau Capel Pentwyn-bach yno i gynnal ysgol bob Sabbath, a ohododd Mr. Overton, perchenog y gwaith ar y pryd, ddau dy annedd at wasanaeth y gwahanol enwadau, a bu'r pedwar enwad yn cyd-addoli yno am flynyddau. Yn mhen rhai blynyddau, pa fodd bynag, safodd gwaith Hirwaun, ymwasgarodd y trigolion, a darfyddodd yr achos am amser. Yn 1818, ail-gychwynwyd y gwaith gan W. Crawshay, Ysw., dychwelodd y bobl, ac yn 1822 ardrethodd y Methodistiaid a'r Bedyddwyr ystafell rhyngddynt i gynnal cyfarfodydd. Yn 1828, adeiladodd y Methodistiaid capel bychan, ac enwyd ef Bethel. Ail-adeiladwyd ef yn 1888, ond aeth yn rhy fach, a bu rhaid ei dynu i lawr, a'i adeiladu ar raddfa eangach yn 1856. Yn 1829, gwerthodd eglwys Pentwynbach y capel i'r Wesleyaid am £90, ac adeiladwyd Capel Carmel, yr hwn sydd yn aros yn ei ffurf gyntefig; ond ychwanegwyd *Vestry* atto yn 1872. Yn 1848, adeiladodd yr enwad Moriah, Llwyd-coed; ond bu rhaid ei dynu i lawr, ac adeiladwyd y Moriah presenol yn 1852, ac y mae yno achos blodeuog. Yn 1847, adeiladwyd Libanus, Aberaman, i ateb cynnydd y boblogaeth yn y rhan hono o'r lle. Tua'r un amser hefyd, adeiladwyd Ebenezer, Cwmbach, a'r Ebenezer presenol yn 1864. Yn 1853, adeiladwyd Bethania yn nghanol y dref. Yn 1869, adeiladwyd Soar, Cwmaman, yr hwn a ail-adeiladwyd yn 1869. Adeiladwyd Nazareth, ger y Bont Haiarn, yn 1860, a Bryn Seion, Trecynon, yn 1862; Trinity, capel Seisnig, ger y Neuadd Ddirwestol, yn 1867. Y mae capel bychan gan yr enwad yn Nghwmdar hefyd, ac ysgoldy ger Abergwawr.

*Yr Annibynwyr.*—Fel y sylwyd, dechreuodd yr Annibynwyr a'r Methodistiaid gyda'u gilydd yn 1799. Wedi iddynt ymranu, bu yr

Annibynwyr yn addoli mewn tŷ annedd, ger Hen Felin, Aberdar—  
 tynwyd y muriau mewnol i lawr, adeiladwyd pwlpud, er ei wneyd yn  
 fwy cyfleus, a bu yr eglwys fechan yno am rai blynyddau, cyn magu  
 digon o nerth i adeiladu capel. Yn 1811, pa fodd bynag, adeiladwyd  
 capel Ebenezer, Trecynon. Nid oedd rhif aelodau eglwys Ebenezer  
 ond 28 yn 1817; ond o'r pryd hwnw hyd yn bresenol y mae yr enwad  
 hwn wedi cynnyddu yn anhygoel braidd. Dengys y rhës ganlynol o  
 gapeli, fod eglwys fechan Ebenezer wedi lledu ei changenau dros yr  
 holl blwyf. Yn 1852, ail-adeiladwyd Ebenezer, ac yn 1860, adeilad-  
 wyd Ebenezer Hall yn ei myl i gynnal Ysgol Sabbothol, &c. Yn  
 1828, adeiladodd yr enwad gapel Nebo, Hirwaun, yr hwn a ail-adeilad-  
 wyd yn 1886; ac a drydydd adeiladwyd yn 1851. Yn 1841, adeiladwyd  
 Capel Salem, ar lan Cynon, ger y Gadlys. Yn 1844, adeiladwyd  
 Capel Siloa, ger yr Hen Eglwys, ac ail-adeiladwyd ef yn 1855. Yn  
 1848, adeiladwyd Horeb, Llwydcoed. Yn 1849, codwyd Saron, Aber-  
 aman. Adeiladwyd Capel Bryn Seion, Cwmbach, yn 1846, ac ail-  
 adeiladwyd ef yn 1858; ac y mae capel newydd, eang, wedi ei godi yn  
 ei myl yn bresenol. Yn 1855, codwyd Moriah, Cwmaman. Yn  
 1857, codwyd y Tabernacle (S.), ger Gorsaf Cledrffordd Cwm Taf.  
 Yn 1858, codwyd Soar yn Wind Street; ac Elim, Cwmdar, yn 1859.  
 Yn 1860, codwyd Bethel, Gadlys; a Bethlehem, Abercwmbay. Mae  
 Bethesda, Abernant, a Chapel Mount Pleasant (S.), Hirwaun, heb  
 flwyddiad arnynt. Mae y rhes brydferth hon o gapeli yn profi fod yr  
 enwad hwn yn gryf iawn yma yn awr.

*Y Bedyddwyr.*—Dywed Dr. Price, Aberdar, mewn llyfryn bychan  
 o'r enw "Jubili Eglwys Calfaria, Aberdar," fod gweinidog o'r enw  
 David Oliver, o Ystrad-dyfordwg, yn arfer pregethu yn mhlwyf Aber-  
 dar yn achlysurol mor foreu a'r flwyddyn 1790. ac iddo fedyddio ped-  
 war, sef dau wr a dwy wraig, yn 1791; ond ei fod yn dra thebyg fod  
 y rhai hyn naill ai wedi marw neu wedi symmud o'r lle erbyn y  
 flwyddyn 1800. Yn ol "Hanes Aberdar," gan Mr. T. J. Jones (Cynon-  
 wyson), nid oedd ond un Bedyddiwr professedig yn y plwyf yn 1795;  
 ac ymddengys nad oedd un yma yn nechreu 1806, pan y daeth dau i'r  
 ardal o Gastellnedd. Yn 1807, rhentwyd *Long Room* y Farmer's Arms,  
 ger yr hen felin, yn nghanol y pentref, am £1 y flwyddyn, gan  
 aelodau Capel Seion, Merthyr, er cynnal ysgol Sabbothol, ac arferai dau  
 o'r brodyr ddyfod o Ferthyr bob Sabbath i ofalu am yr ysgol, &c. Yn  
 mhên ychydig ar ol hyn, yr oedd achos y Bedyddwyr yn y lle hwn dan  
 ofal eglwys Capel Ebenezer, Merthyr. Dywed Dr. Price yn y llyfryn  
 y cyfeiriwyd ato, i'r eglwys fechan (saith o aelodau) ardrethu ystafell  
 uwchben yr hen Dy Marchnad, a'u bod yn talu £10 y flwyddyn am  
 dani yn 1808; ond y mae hyn yn ymddangos i mi yn gamsyniol, oblegyd  
 yn 1881 yr adeiladwyd yr hen Dy Marchnad, sef y Town Hall pre-  
 senol. Yr hyn a ymddengys yn fwyaf naturiol ydyw, i'r brodyr bar-  
 hau i addoli yn *Long Room* y Farmer's Arms hyd ddechreu 1809, pan  
 ardrethwyd dau dy annedd, a'u gwneyd yn un ystafell eang at gyn-  
 nal yr achos. Yn 1810, corffolwyd eglwys Aberdar, fel y daeth yn  
 annibynol ar eglwys Ebenezer, Merthyr. Yn 1811, cymmerwyd tir

yn Heol y Mynach at adeiladu capel bychan, yr hwn a alwyd wrth yr enw Capel Penypound. Yn 1812, agorwyd y capel, ac yn 1818, ordeiniwyd y Parch. W. Lewis yn weinidog i'r eglwys. Erbyn y flwyddyn 1829, yr oedd yr eglwys wedi cynnyddu cymmaint, fel y bu rhaid helaethu y capel; ac helaethwyd ef drachefn yn 1831. Yn 1834, unodd 52 o aelodau Capel Ebenezer, Merthyr, ag eglwys Aberdar, y rhai wedi hynny a gychwynasant eglwys Tabernacl, Merthyr. Yn 1846, ordeiniwyd y Parch. T. Price (y Dr. Price presenol) yn weinidog eglwys Penypound. Yn 1851, adeiladwyd Capel Calfaria, a symmudodd yr eglwys iddo yn 1852, a chafodd yr hen gapel ei roddi i'r eglwys Seisneg. Er mwyn dangos cynnydd mawr yr enwad hwn yn y plwyf, rhoddir yma res o enwau y gangenau sydd wedi lledu o'r fam eglwys:—Yn 1825, adeiladwyd Capel Ramoth, Hirwaun, yr hwn a helaethwyd yn 1840 ac yn 1857, fel y mae yn gapel hardd ac eang yn awr. Yn 1845, corffolwyd eglwys Bethania, Cwmbach; ac adeiladwyd y Bethania presenol yn 1858. Yn 1847, dechreuodd yr enwad gynnal ysgol Sul a chyfarfodydd gweddi, &c., ar Heol y Felin (Trecynon); ac yn 1858, adeiladwyd yno gapel hardd a chyfleus. Yn 1849, adeiladwyd Capel Gwawr, Aberaman, a thrachefn yn 1871. Yn 1856, adeiladwyd Bethel, Abernant, a thrachefn yn 1862. Yn 1858, adeiladwyd Ysgoldai Ynyslwyd a'r Gadlys, a llwyddodd yr achos ynddynt gymaint, fel yr adeiladwyd Capel Ynyslwyd yn 1862, a Chapel y Gadlys yn 1867. Yn 1860, corffolwyd eglwys Abercwmboi, ac adeiladwyd Capel Bethesda yn 1864. Yn 1861, corffolwyd eglwys Nebo, Cwmdar, a chodwyd yno fath o gapel bychan; a chodwyd y capel hardd presenol yn 1867. Yn 1861, corffolwyd eglwys Cwmaman, ac aeth y capel cyntaf yn rhy fach, fel yr ail-adeiladwyd ef yn 1870. Mae eglwys a chapel hardd gan yr enwad yn Llwydcoed hefyd, heblaw eiddo Mountain Ash; yr hyn a brawf fod llwyddiant mawr wedi bod ar lafur y Bedyddwyr yn y plwyf hwn. Achos Seisnig sydd yn Carmel (hen Gapel Penypound), a Nazareth, Mountain Ash.

*Wesleyaid.*—Adeiladodd yr enwad hwn eu capel cyntaf yn mhlwyf Aberdar ar Hirwaun, yn 1824. Mae hwnw wedi ei droi yn dai annedd yn awr, ac y mae capel gan y Cymry yn ei ymyl. Mae capel Wesleyaid Seisnig yn ymyl hefyd. Yn 1829, fel y sylwyd, prynodd yr enwad Gapel Pentwynbach gan y Methodistiaid Calfinaidd, ac yn eu meddiant hwy y mae yn awr. Mae ganddynt ddau gapel hardd yn y dref hefyd, sef Seion, a adeiladwyd yn 1850, a Chapel Seisnig a adeiladwyd yn 1859. Mae capel gan y gangen Seisnig yn Aberaman hefyd er y flwyddyn 1859.

*Trefnyddion Hynafol.*—Mae ganddynt bedwar capel yn y plwyf, sef Tabernacle, Aberaman, a adeiladwyd yn 1855; Bethesda, Heol y Mynach, 1863; Cwmaman; a'r Cwmbach.

*Cyfleustra Masnachol, &c.*—Am rai blynyddau wedi dechreu Gwaith Haiarn yn y plwyf, nid oedd unrhyw gyssylltfa uniongyrchol rhwng y lle ag unrhyw borthladd, yr hyn oedd yn anfantais fawr. Tuag at hwyluso masnach, pa fodd bynag, gwnaed Camlas o Abercynon hyd Aberdar yn 1811, ac felly galluogwyd perchenogion yr haiarnfaeoddi i

anfon eu nwyddau yn hwylus i Gaerdydd dros y Camlas. Bu hwn am 85 o flynyddau yr unig foddion trosglwyddiad masnachol i'r lle. Ond fel yr oedd y pyllau glo ager yn cael eu suddo, a masnach y lle yn ychwanegu, gwelwyd angen cael rhyw ffordd hwylusach na'r Camlas; ac felly, yn 1845, gwnaed cangen o Gledrffordd Dyffryn Taf o Abercynon hyd dref Aberdar, ac agorwyd hi Awst 1, 1846, yr hyn a fu o fendith fawr i'r lle. Yn 1847, dechreuwyd gwneyd Cledrffordd Cwmnedd, ac agorwyd hi i Aberdar yn 1851; ac felly cyssylltwyd y lle ag Abertawy, yn ogystal â Chaerdydd. Prynodd Cwmni Cledrffordd y Great Western gangen Cwmnedd yn 1865. Mae Cwmni y London & North Western Railway yn rhedeg peiriannau i'r lle ar gledrffordd y G.W.R.; ac y mae peiriannau Cledrffordd Rhymini a Chaerdydd ag hawl i redeg i Aberdar er y flwyddyn 1871. Cyn gorphen ein hysgrif ar Aberdar, priodol fydd cael nodiad byr am y gwahanol bentrefi sydd yn y plwyf, ac heb fod yn gyssylltiol â'r dref, y rhai ydynt a ganlyn:—

1. *Abercwmboi*.—Llygriad yw'r enw hwn o Abercwmbo, neu yn hytrach Abercwm y Bwci. Cafodd y lle yr enw am fod pobl ofer-goelus yr oesoedd gynt yn credu fod *buci* neu ddrychiolaeth yn trigianu yn y lle. Gelwid y lle hefyd wrth yr enw y Cap Coch. Ymddengys fod tafarn yma mor fore â'r flwyddyn 1650; a dywed traddodiad yr arferai y tafarnwr wisgo cap coch, yr hyn a barodd i'r lle gael yr enw. Nid oedd yma ond dau amaethdy cyn i Mr. D. Davis, Blaengwawr, agor Glofa yn y lle yn 1858. Erbŷn hyn, y mae yma bentref yn cynnwys tua 100 o dai gweithwyr, gyda dau gapel, ac amryw fasnachdai. Saif y pentref hwn ar ochr y brif-fordd rhwng Aberdar a Mountain Ash.

2. *Cumaman*.—Saif y cwm hwn yn mharth de-orllewin y plwyf, a rhed afon Aman trwyddo. Dywed traddodiad i dri brawd agor gwaith haiarn yn y cwm hwn yn amser y frenines Elizabeth; ond iddynt fethu llwyddo. Tri Gwyddel oeddynt, medd rhai, ac wrth eu galwedigaeth, un yn ôf, y llall yn saer maen, a'r trydydd yn gerfiwr coed. Gan mai Peter Hughes oedd enw y cerfiwr, tueddir ni i gredu mai Cymry oeddynt, ac nid Gwyddelod. Wedi methu yn y fasnach haiarn, aeth dau o'r brodyr ymaith o'r lle, ac aeth Peter i weithio dodrefn cerfiedig, a'u gwerthu i'r sawl a'u prynent. Mae amryw gadeiriau cywrair o'i waith yn mhlwyfi Llanwonno ac Aberdar yn awr. Mae un o honynt yn meddiant Rhys H. Rhys, Ysw., Y.H. Yr oedd talp o doddion hen Ffwernes Peter Hughes yn afon Aman yn 1851, a gwnaed morthwyl bychan o hono i fab y diweddar Crawshay Bailey, Ysw., A.S.

Wedi i Peter Hughes a'i frodyr fethu yn eu hymgais i godi masnach haiarn yn y cwm, bu y lle am oesoedd fel yn cysgu mewn dystawrwydd. Nid oedd yn y cwm ond ychydig amaethdai bychain; ac nid ymddengys fod yr amaethwyr yn gweled dim yn mhellach na'r arwyneb yn unig.

Yn 1845, dechreuodd cyfnod newydd yn y lle, pan y daeth Crawshay Bailey, Ysw., i'r ardal i agor Gwaith Haiarn yn ngodre'r cwm, yr hwn a elwid Gwaith Aberaman. Adeiladodd y ffwernes gyntaf yn 1848, yr ail yn 1849, a'r drydedd yn 1850. Ychwanegwyd llawer at



y gwaith wedi hyny, a daeth yn lle pwysig mewn cyssylltiad â masnach haiarn Morganwg. Ar yr 17eg o Chwefror, 1864, ffrwydrodd berwedydd yn y gwaith hwn, a lladdwyd 11 o bersonau. Yn Chwefror, 1867, gwerthwyd y gwaith am £250,000 i G. Elliot, Ysw., a'i Gyf.; a'r canlyniad fu i'r gwaith haiarn sefyll, am mai er mwyn y glo yn unig y prynwyd y gwaith; felly cafodd y lle golled ddirfawr. Mai 31, 1869, ffrwydrodd berwedydd ger un o byllau y gwaith hwn, pan y lladdwyd pedwar person. Nodwyd eisoes am yr amser y suddwyd pyllau glo Cwm-aman gan Shepperd ac Evans, yn nghyda Glofa Fforchaman a'r Bedwlwyn, &c., fel nad oes achos manylu yma. Yn mis Rhagfyr, 1868, ffrwydrodd y llosgnwy yn mhwl Fforchaman, pryd y colodd tri eu bywydau, ac y llosgodd 11 yn ddrwg iawn. Yn 1870, suddwyd pwll Fforchneol, yn y cwm hwn, gan Mr. D. Bevan, Hirwaun. Cyn gorphen ei suddo, syrthiodd ei berchen iddo, a lladdwyd ef yn y fan. Codwyd 2,278 tunnell o lo o'r pwll hwn yn 1871.

Er nad oedd ond dai neu dri o amaethdai yn y cwm hwn yn 1845, y mae ynddo yn bresenol amryw gannoedd o dai, gyda chapeli heirdd, Ysgol Frytanaid, a Darllenfa i'r gweithwyr, i'r hon y derbynir gwa-hanol newyddiaduron, &c. Ail gychwynwyd y ffwrnesi yn 1878.

3. *Cwmbach*.—Saif y pentref poblog hwn yn Rhandir Pennar, ar du dwyreiniol afon Cynon, tua milldir i'r de-ddwyrain o dref Aberdar, ac yn agos i eneu y *tunnel* sydd rhwng Aberdar a Merthyr. Hyd y flwyddyn 1837, nid oedd yma ond ychydig amaethdai, megys Abernantygroes, Lletty Shenkin, Pantygerdinen, &c. Gan mai'r Camlas oedd unig drosglwyddfa masnachol y lle pan ddechreuodd cyfnod y glo ager, a bod hwnw yn rhedeg heibio yr amaethdai a nodwyd, neu o'r hyn lleiaf yn agos atynt, manteisiodd anturiaethwyr ar hyn, fel y darfu iddynt suddo amryw byllau glo yn olynol ar lan y Camlas. Fel yr oedd y glofeydd yn eangu, a'r gweithwyr yn amlhau, yr oedd rhes ar ol rhes o dai yn cael eu hadeiladu yn y lle, fel y mae'r Cwmbach bellach yn bentref mawr a phoblog iawn. Mae rhai ffrwydriadau llosgnwyol tra dinystriol wedi cymmyrd lle yma, megys Taniad Pwll Powell, Awst 2, 1845, pryd y lladdwyd 28. Taniad Pwll Lletty Shenkin, Awst 10, 1849, ac y lladdwyd 58; a thaniad pwll Middle Dyffryn, Mai 10, 1852, pryd y lladdwyd 68.

4. *Cwmdar*.—Cwm bychan tua thair milldir o hyd yw hwn, a thrwyddo y rhed afonig Dar o'r gorllewin i'r dwyrain, nes aberu yn afon Cynon yn nghanol tref Aberdar. Yn mlaen y cwm hwn, mae lle hynod ramantus yr olwg arno,—cauir y cwm i fyny gan graig unionsyth, tua 150 o droedfeddi o uchder, yr hon a elwir Craig y Bwllfa, ac y mae wedi bod yn hynod fel noddfa llwynogod trwy yr oesoedd. Gwelsom ddal llwynog yn fyw yma Chwef. 27, 1872. Nytha y Bwncath, yr Hebog, y Bioden, &c., yn y graig hon yn ddyogel. Mae yn gwm diarebol am wlaw, fel y canodd un iddo y rhigwm a ganlyn:—

“Rhof genad i bigo'm llygad  
Os bydd Cwmdar heb gawad  
O G'langauf hyd fis Mai,  
A'i ferched elau heb gariad.”

Prif amaethdai y cwm, yn nghyda maint eu tyddynoedd, sydd fel y canlyn:—Bwllfa Dar, 786 erw; Cefnynon, neu yn hytrach Cefn y Cynghor, 158 erw; Lluestai Llwydion, 147 erw; Ty'n y Waun, 18 erw; Dyffryn Dar, 135 erw; Penrhillech a Dysgwylfa Dar (Tir Morris), 383 erw; Troedrihwillech, 248 erw; Llwynhelyg, 224; Tir Evan Bach Draws, 312; y Cwm, 63. Yr oedd ychydig ereill yn ngodre'r cwm, megys Dyffryn Uchaf, Dyffryn Isaf, a Phentwyn; ond nid yw mesuriad y rhai hyn ar lyfr presenol y plwyf. Nantmelin hefyd sydd dy arall yn agos i ben ucha'r cwm, ag sydd yn galw am sylw. "Gaid" yw'r enw roddir iddo ar yr *Ordancee Map*, yr hyn sydd lygriad o "Gauafdy." Llygrwyd yr enw ar y cyntaf gan drigolion y cwm, y rhai a'i galwent yn Gaudy; a phan aeth y Saeson i'w ysgrifenu, aeth yn "Gaid" arnynt. Bu yn y cwm hwn ddwy felin gynt, sef un ger y fan yr ymarllwysa Nantmelin i'r Dar, a'r llall ger amaethdy y Cwm; ond nid oes un o honynt yn aros.

Wedi suddo pyllau glo yn y cwm hwn yn y blynyddau 1851-2-3, dechreuwyd adeiladu tai i'r glowyr hefyd. Yn 1853 yr adeiladwyd y cyntaf yn y pentref; ac erbyn y flwyddyn 1869, yr oedd yn cynwys 187 o dai, heblaw tri chapel ac Ysgoldy Brytanaidd hardd. Yn 1858, gwnaed cangen o gledrffordd y Great Western i'r cwm hwn at y glofeydd. Anfonwyd glo ymaith o'r Bwllfa ar y gangen hon Mehefin 15, 1857. Yn 1860, suddwyd pwl Nantmelin, yn y cwm hwn, gan Mordecai Jones, Ysw., ac anfonwyd glo ymaith o hono yn 1861. Yn 1866, gwnaed cangen o Gledrffordd y *Taff Vale* i fyny trwy y cwm hyd y Bwllfa, ac anfonwyd glo ar hyd-ddi yr un flwyddyn. Ni anfonwyd dim o Nantmelin dros linell y *Taff* hyd Hydref 6, 1870. Yn 1858, gwnaed Dwfrgronfa (*Roservoir*) yn y cwm hwn yn ymyl glofa Nantmelin, gan Gwmni Gweithfa Ddwfr Aberdar, i ddal 10,000,000 o alwyni o ddwfr. Dygir y dwfr i'r Gronfa mewn pibellau haiarn o ymyl Craig y Bwllfa, ac oddiyno drachefn i'r Burfa (*Filter Beds*), dan Graig y Mynach, ac o'r Burfa i'r dref. Wrth wneyd llinell cleddrffordd y Great Western dros y cwm hwn, tua'r flwyddyn 1851, adeiladwyd pont yn groes iddo, yr hon sydd yn 400 troedfedd o hyd, a 70 o uchder. Rhed llinell y G.W.R. dros hon, a llinell y *Taff* dani.

5. *Hirvaun*.—Saif y pentref poblogaidd hwn ar gwr gogleddol plwyf Aberdar, gyda rhan o hono, y tu arall i afon Cynon, yn mhlwyf Penderyn, swydd Frycheiniog. Yn y plwyf olaf a enwyd y mae'r Gwaith Haiarn, a Gorsaf ar Gledrffordd Abertawe a Merthyr, cangen o'r G.W.R. Cafodd y lle hwn ei enw am fod y rhan sydd yn Morganwg o hono ar gwr o'r Waun Hir a roddodd Gwrgan i'w ddeiliaid. Nid ymddengys fod yma dy annedd o gwbl yn 1666, pan yr adeiladodd un o'r enw Mayber ffwrnes fechan ger llygad Cynon, yn mhlwyf Penderyn. Golosgoed arferid y pryd hwnw, wrth gwrs, at doddi haiarn; a rhaid oedd cludo y mwn o Forganwg at y ffwrnes, am nad oedd dim o hono i'w gael yn mhlwyf Penderyn, yn y parth hwn. Ymddengys i'r ffwrnes hono fod yn gweithio am gryn dymhor. Tua thunnell yr wythnos o haiarn wnaed ynddi, a dygid hwnw dros y mynyddau i Aberhonddu i'w orphen. Darfyddodd cyfnod y ffwrnes hono, ac ni fu nemawr

lewyrch ar Hirwaun ar ol hyny, nes i Anthony Bacon, Ysw., agor ychydig waith haiarn yma yn 1763, neu ychydig yn ddiweddarach. Wedi i Mr. Bacon ymneillduo oddiwrth fywyd masnachol yn 1784, daeth ffwrnes Hirwaun yn eiddo un Mr. Bowser; ac ar ei ol ef, daeth yn eiddo Mr. Overton, tad George Overton, Ysw., Trencholydd Merthyr. O'r flwyddyn 1818 hyd 1858, bu gwaith Hirwaun yn eiddo W. Crawshay, Ysw., (Castell Cyfarthfa), a'i blant; ac yn eu hamser hwy y bu y llewyrch goraf ar y lle. Yn 1858, safodd y gwaith, a gwywodd y lle. Yn 1880, y daeth agerbelriant symmudol gyntaf i'r lle, o waith Gurney; ei bwysau oedd  $1\frac{1}{2}$  tunnell. Tua'r flwyddyn 1848, adeiladodd Francis Crawshay, Ysw., Dwr Castelllog ar lechwedd y mynydd, tua milldir a hanner i'r de-orllewin o bentref Hirwaun; a phreswyliai ychydig amser ynddo yn yr haf. Mae'r Twr yn hollol hir-grwn (*round*), yn 80 troedfedd o uchder, 12 o dryfesur y tu fewn, a 58 o amgylch y tu allan. Adeiladwyd ef yn dri uchder,—un ystafell yn mhob uchder, a lle tan yn mhob ystafell. Mae'r to wedi ei wneyd o haiarn morthwyladwy, ac wedi ei liwio y tu fewn yn goch, glas, a gwyrdd. Nid oes ynddo ond un drws, gyda chwech ffenestr fwaog, a chwech o dyllau crynion yn y mur,—dau yn gwynebu i'r gogledd, dau i'r dwyrain, a dau i'r de, a'u dyben oedd i saethu drwyddynt. Yr oedd gan y perch-enog ddau wn pres (*cannons*) yn y Twr. Pan safodd y gwaith yn 1858, gadawwyd y Twr heb breswlydd, cymmerwyd y defnyddiau mewnol ymaith, fel nad oes yn aros ond y muriau yn unig. Yn 1864, cychwynwyd Gwaith Hirwaun gan Mri. Cullinder a Hinde, ond safodd yn fuan drachefn. 1867, cychwynwyd ef etto gan Handel Cosham a'i Gyf., ond troes yn fethiant buan arnynt hwythau. Yn 1872, cychwynwyd y gwaith haiarn gan E. M. Richards, Ysw., A.S., a'i Gyf., er toddi mwn haiarn at Waith Dur Glandwr, ger Abertawy; ac y mae yn myned yn mlaen yn dda yn awr (1873). *Spiegel* yw'r metel wneir yma, yr hwn sydd yn £15 7s. 6c. y dunnell, a gwneir 200 o dunnelli o hono o bob ffwrnes yn wythnosol! Mae yr holl lo a mwn sydd yn yr ardal, yn sir Forganwg, a'r ceryg calch yn Mrycheiniog. Mae holl gapeli y lle, gyda'r Ysgoldy Brytanaidd, a'r rhan fwyaf o'r tai, yn Morganwg hefyd.

6. *Llwydcoed*.—Mae Rhandir Llwydcoed yn hela-th, fel y sylwyd, ac yn cynnwys lluaws o amaethdai cyn dechreu y gwaith haiarn sydd yn y lle. Dechreuwyd adeiladu pentref Llwydcoed tua'r flwyddyn 1800. Mae yn bentref mawr yn bresenol, yn cynnwys rhai canoedd o anneddau, tri chapel, a gorsaf cleddffordd ar linell Abertawy a Merthyr.


7. *Abernant*.—Yn 1799 yr adeiladwyd y ty gweithiwr cyntaf yma; ond fel yr ychwanegodd y gwaith haiarn, lluosogodd y tai hefyd, fel y mae yma bentref poblog yn awr, gyda dau gapel, a gorsaf ar Gledrffordd Abertawy a Merthyr.


Prif balasau plwyf Aberdar ydynt y Dyffryn, preswylfa yr Anrhydeddus H. A. Bruce, A.S., Arglwydd Aberdar; Ty Abernant, preswylfa Richard Fothergill, Ysw., A.S.; Palas Glan Dar, eiddo teulu'r Waynes; Plas Newydd, preswylfa R. H. Rhys, Ysw., Y.H.; Ty Draw, preswylfa

J. Lewis, Ysw.; y Maerdy, W. T. Lewis, Ysw., O.E.; Ynyscynon, preswylfa D. Rosser, Ysw.; Maesyffynon, D. Davis, Ysw.; Plas Yaguborwen, eiddo S. Thomas, Ysw.; Lletty Shenkin, &c.

**ABERDDAWEN** (*Aberthaw*).—Pentref a phorthladd bychan, yn rhanol yn mhlwyfi Penmarc a St. Athan, tua 9 milldir i'r de-orllewin o Gaerdydd a thua 6 i'r dwyrain o Lanilltyd Fawr. Saif, fel yr awgryma yr enw, lle yr abera afon Dawen yn Mor Hafren. Er lleied yw y lle yn bresenol, bu unwaith yn bwysig, fel un o brif borthladdoedd Morganwg. Yr oedd Castell gwyh yn y lle y pryd hwnw, ac "Erw'r Garland," ac arferid cynnal llawer o chwareu-gampau yn ymyl y Castell ar y cyntaf o Fai bob blwyddyn. Yn nheyrnasiad Richard II., gorlifodd y mor yn y parthau hyn, fel y dinystrwyd llawer o feddiannau, megys Castell a phorthladd Porth Cerri, Aberddawen, &c. Prif fasnach y lle yn bresenol sydd mewn ceryg calch, a elwir Calch Aberthaw. Medda'r calch hwn y priodoledd o galedu mewn dwfr, a defnyddir ef i wneyd cwmwrwd at adeiladu mor-gloddiau, &c., yn ngwahanol barthau y deyrnas. Calch o'r lle hwn ddefnyddiwyd yn mor-glawdd Caergybi, &c. Perthyna'r ceryg hyn i ddosparth y Lias, sef y creigiau sydd yn ffurfio gwaelod y rhan fwyaf o Fro Morganwg. Mae capel gan y Bedyddwyr yn y pentref; a chapeli gan yr Annibynwyr a'r Trefnyddion Calfinaidd yn y gymmydogaeth. Mae ei sefyllfa yn iachus, a cheir golygfeydd prydferth o amgylch y lle.

**ABERDULAIS**.—Pentref bychan, cryno, yn rhandir Dulais Isaf, plwyf Llangattwg Nedd, tu gogleddol Dyffryn Nedd, 2½ milldir o Gastellnedd. Derbyniodd y pentref ei enw oddiwrth afonig Dulas, yr hon a abera yn afon Nedd ger y lle. Yn 1744, dechreuwyd gwaith haiarn bychan yma gan Meistri D. a J. Miers, hynafiaid R. H. Miers, Ysw., Cadoxton Lodge. Arferid cludo y llafnau haiarn o'r gwaith hwn am flynyddau lawer i waith Ynys-y-gerwn i'w *tinio*; ond pan safodd gwaith Ynys-y-gerwn yn 1821, adeiladwyd gwaith *tin* yn Aberdulais, a bu yn meddiant Meistri Llewellyn a'i feibion am flynyddau lawer. Daeth y gwaith wedi hyny yn eiddo Meistri Joshua Williams a'i Gyf. Bu Mr. Williams farw yn 1872, a daeth ei ran ef o'r gwaith yn eiddo ei hiliogaeth. Yr oedd y boneddwr hwn wedi enwogi ei hun fel prif Ysgrifenydd Cwmni Cleddfordd y *Great Western*. Dulas House, preswylfa y diweddar J. Williams, Ysw., yw'r palas harddaf yn y lle. Mae gorsaf ar linell Cleddfordd Cwm Nedd yn y lle hwn. Yn ymyl y pentref, croesir afon Nedd gan bont brydferth, ac iddi 10 bwa, dros yr hon y rhed Camlas Castellnedd ac Abertawy. Mae yn y lle ddau gapel ymneillduol, un gan y Trefnyddion Calfinaidd, a'r llall gan y Bedyddwyr; ac mewn lle o'r enw Bryncaws, yn yr un rhandir plwyfol, agorwyd gwaith glo yn ddiweddar, a chodwyd capel yno gan yr Annibynwyr. Poblogaeth Dulas Isaf yn 1861 oedd 848, ac yn 1871 yr oedd yn 458. Dulas Uchaf sydd randir arall yn yr un plwyf, yn gydiol â Dulas Uchaf. Yn yr Uchaf y mae pentref Creunant, lle y mae Capel Eglwysig a Chapel y Trefnyddion Calfinaidd. Rhed Cleddfordd Castellnedd ac Aberhonddu trwy y rhandiroedd hyn, ar yr hon y mae gorsaf yn y Creunant.





*Swedish Harbor, Sweden.*

Arddwyl

elion  
wyn-  
ilad-  
gion  
Ar  
yn  
law-  
o  
ydd-  
nod-  
ei  
ber-  
dig

wys  
wy,  
eth  
un-  
er-  
rir  
iol  
r o  
ros  
d hau  
west  
yr  
y  
g  
u  
y  
d  
y  
l  
1  
7  
t

\_\_\_\_\_

\_\_\_\_\_



**ABEROGWY**, neu Gastell Aberogwy (*Ogmore Castle*).—Saif adffellion yr hen Gastell Normanaidd hwn ar drwyn o dir rhwng afonydd Ewynwy ac Eogwy, yn agos i'r fan yr abera y flaenaf yn yr olaf. Adeiladwyd y castell hwn gyntaf gan William de Londres, un o Farchogion Robert Fitzhamon. Dyben ei adeiladiad oedd cael amddiffynfa i'r diriogaeth newydd a yspeiliodd y Marchog hwnw oddiar y Cymry. Ar farwolaeth William, daeth y Castell ac Arglwyddiaeth Aberogwy yn eiddo ei fab, Maurice de Londres, yr hwn ar ei farwolaeth a'i gadawodd i'w ferch. Priododd hono ag un o'r enw Seward, disgynydd o Syr Richard Syward, i'r hwn y rhoddodd R. Fitzhamon Arglwyddiaeth Talyfan a'r Merthyr Mawr. Priododd merch y Seward a nodwyd â Henry, Iarll Lancaster, a chafodd mab i'r Iarll a'r Iarll ei ddyrchafu yn Dduc Lancaster, ac felly unwyd Arglwyddiaeth Aberogwy a'r Dduciaeth hono. Nid oes yn aros o'r hen gastell ond ychydig adffellion.

**ABERTAWY**, neu Eglwys Fair, Abertawy, sydd blwyf yn cynnwys 9,029 o erwi, ar lan orllewinol afon Tawy, yn Nghantref Abertawy, Deoniaeth Gwyr Ddwyrain, Archddeoniaeth Caerfyrddin, Esgobaeth Ty Ddewi. Mae yn dref borthladdol, farchnadol, bwrdeisiol, ac undebol; a chynnelir Brawdlys Morganwg ynddi bob yn ail â Chaerdydd. Mae hefyd yn derfyn gorsafol amryw gleddrffyrdd, fel yr ystyrir hi gan lawer yn brif dref Deheudir Cymru. Ei sefyllfa ddaiaryddol yw 4.0 hydred gorllewinol a 51.86 lledred gogleddol; a'i phellder o Lundain yw, 205 o filldroedd dros yr heol, a 216 o filldroedd dros gleddrffordd y *Great Western*. Cynnelir ei marchnadoedd ddyddian Mercher a Sadwrn, a'i feiriau yr ail Sadwrn yn Mai, Gorph. 2, Awst 15, a Hyd. 29. Enw cyntefig y dref oedd Caer Wyr, ac nid yw yr enw Seisnig *Swansea* ond llygriad o'r gair *Swine Sea*, enw a gafodd y mor ger y lle gan y Saeson, am ei fod yn cynnwys y fath nifer o'r pysg a elwir Morfoch (*L'orpoise*). Cysgodir y dref ar du'r gogledd gan ddau fryn uchel, oddiar benau y rhai gellir cael golygfa dda ar y dref, y porthladd, yr angorfa, y wlad oddiamgylch, a rhanau o swyddi Dyfnaint a Gwlad Haf yr yn Lloegr. Mae hanesiaeth ynfud mewn cyssylltiad â'r lle hwn hyd amser y Goresgyniad Normanaidd, a'r ychydig grybwyllion geir am dano mewn hanesiaeth foreuol a dddwg fwy o berthynas â'r Castell nag â'r dref. Mae ein prif haneswyr, yn enwedig y Saeson, wedi gwneyd camsyniadau pwysig gyda golwg ar Gastell Abertawy, trwy gymysgu ei hanes ag eiddo Castell Caerffili, yr hyn sydd wrthun i'r pen. Yn amser rhaniad Bro Morganwg rhwng y Normaniaid gan Robert Fitzhamon, meddianwyd y lle hwn, yn nghyda Gwyr a Bro Gwyr, gan hiliogaeth Iestyn ab Gwrgan. Yn 1099, sef yn mhen tua saith mlynedd ar ol y rhaniad y cyfeiriwyd ato, daeth Henry de Beaumont, Iarll Warwick, gyda llu mawr o Normaniaid i'r parth hwn, gan ymosod fel bleiddiaid ar feibion Caradog ab Iestyn; ac wedi eu gorchfygu, cymmerodd Beaumont at Arglwyddiaeth Bro Gwyr a rhanau helaeth o Wyr briodol. Tuag at gadw meddiant dyogel o'i ysglyfaeth, adeiladodd Beaumont amryw gestyll yn Ngwyr a Bro Gwyr, ac yn eu plith, a'r prif un o honynt, oedd Castell Abertawy, yr

hwn a elwid Allwedd Lloegr. Yr oedd y Castell hwn o faint a chadernid annghyffredin, er amddiffyn Bro Gwyr rhag unrhyw ymosodiad o eiddo'r Cymry ar du'r dwyrain. Gyda bod y castell wedi ei orphen, ac adeiladu muriau uchel a thrwchus o'i amgylch, gwnaed prawf ar ei nerth gan Gruffydd, mab Rhys ab Tewdwr, yr hwn a ymosododd arno gyda ffyrnigrwydd yn y flwyddyn 1118. Llosgodd a dystrywiodd y cwbl o amgylch iddo; ond methodd ennill y castell o herwydd ei gadernid. Adgyweiriodd a chadarnhaodd y Normaniaid y lle ar ol hyny, ac nid oes hanes iddo gael ei aflonyddu drachefn am 100 mlynedd. Yn 1188, bu'r Archesgob Baldwin yn cysgu noson yn y castell—efe a Giraldus Cambrensis. Yn 1215, pan oedd yr holl wlad yn ferw drwyddi o herwydd trais a gormes y Brenin John, tra yr oedd y Marchogion Normanaidd mewn llawn waith yn gorfodi y brenin i law-nodi y Freinlen fyd-hyspys hono, y *Magna Charta*, manteisiodd Rhys Ieuange, Tywysog y Deheubarth, ac ereill, ar yr adeg i geisio adfeddiannu Cymru. Unodd Rhys a Maelgwn, ei ewythr, eu byddinoedd, ac ymosodasant ar Normaniaid Dyfed, gan eu llwyr orchfygu. Yna dychwelodd Maelgwn i Wynedd, at y Tywysog Llywelyn ab Iorwerth; tra y daeth Rhys Ieuange a'i fyddin tua Chydwelli a Charnwyllon, gan ymosod ar y Normaniaid. Oddiyno daeth i Dir Gwyr, goresgynodd Gastell Llwchwr, a Chastell Talybont, eiddo Hugh de Miles, a chymmerodd feddiant o honynt. Tranoeth, ymosododd ar Gastell Ystumllwynarth (Oystermouth) a Chastell *Sein Henyd*. Rhag ei ofn ef, llosgodd Castellwyr Sein Henyd y lle, a ffoisant yn y nos i Ystumllwynarth. Gwarchaeodd yntau y nos hono ger y castell, a bore tranoeth gorphenodd y gwaith a ddechreuwyd gan y castellwyr, a llosgodd y castell a'r dref yn gyfangwbl; ac erbyn pen y tridiau yr oedd wedi goresgyn *holl Gestyll Gwyr*.—(*Brut y Tywysogion*, tud. 284).

Nid oes amheuaeth yn fy meddwl o gwbl nad Castell Abertawe yw y Sein Henyd y sonir am dano yn y *Brutiau Cymreig*, er fod haneswyr Seisnig yn dweyd mai Caerffili yw, am fod y castell hwnw yn arglwyddiaeth Senghennydd. Yn mhob man yn y *Brutiau Cymreig* ag y sonir am Gastell Sein Henyd, nodir ef fel un o Gestyll Gwyr; ac amlwg yw ei fod yn agos i Ystumllwynarth, sef Oystermouth, ger y Mumbles, gan i'r castellwyr ffoi yno ar ol gosod y lle ar dan. Nid oes un rhcswm dros ddwyed fod Rhys Ieuange un diwrnod yn ymosod ar Gastell Talybont, ar lan afon Llwchwr; tranoeth yn llosgi Caerffili, a'r trydydd dydd yn dinystrio Castell Oystermouth! Mae ychwaneg o brofion na hyn mai Abertawy yw y Sein Henyd y sonir am dano yn y *Brutiau Cymreig*. Yn y *Mysian Archaeology*, tud. 640, cofnodir hynt ryfelgar Llywelyn ab Iorwerth, Tywysog Gwynedd, yn cael ei gynnorthwyo gan agos holl fan dywysogion Cymru, yn 1217. Yn yr hynt hono, ennillodd y Cestyll canlynol oddiar y Normaniaid:—Sein Henyd, Cydwelli, Llanystyffan, St. Clare, Lacharn, Trefdraeth, Aberteifi, Cilgeran. Yn mhilith cynnorthwywyr Llywelyn ab Iorwerth yn yr hynt a nodwyd, yr oedd Rhys Grug, a Maelgwn ei frawd, sef dau fab Rhys ab Gruffydd; yn nghyda Rhys Ieuange, ac Frow ei frawd, sef meibion Gruffydd ab Rhys. Yr oedd Rhys Grug yn ewythr i Rys

Ieuange, brawd ei dad. Wedi gorechfygu y Normaniaid fel y nodwyd, cynnaliwyd cynghor o holl fawrion Cymru yn Aberdyfi, dan lywyddiaeth Llywelyn ab Iorwerth, i ranu y tiroedd rhwng y buddugwyr. Cafodd Maelgwn dri chantref yn Nyfed, sef Cantrefi Gwarthaf, Cemaes, ac Emlyn, &c. Rhoddwyd i Rys Ieuange Gastell Aberteifi, Castell yr Aryant, a thri chantref yn Ngheredigion. Daeth y Cantref Mawr a'r Cantref Bychan agos oll yn eiddo i Rys Grug y pryd hwnw, yn nghyda Chydweli a Charnwyllon,—y cwbl yn sir Gaerfyrddin; ac ymddengys iddo yntau gymmeryd meddiant o gastell Sein Henyd yn fuan ar ol hyny. Mewn cerdd o fawl i Rys Grug, gan Llywarch ab Llewelyn (*Prydydd y Moch*), ceir yr enw Abertawy yn cael ei ddefnyddio yn lle Sein Henyd, yr hyn sydd ddigon o brawf mai yr un lle feddylir wrth y ddau enw. Fel hyn y dywed:—

Toreist Gaerfyrddin torfedd—ar fainge  
Llawer frango ar adwedd;  
Ac Abertawy, tref ddyhedd.  
Tyrywodd briw, heddyw wneud hedd.  
A St. Cler a'r clae wyndiredd,  
Nid Saeson y maon a'i medd;  
Ac Abertawy, terwyn Allwedd—Lloegr,  
Neud llwyr weddw y gwagedd.—*Myf. Arch.* p. 207.

Mewn man arall yn y *Myf. Arch.*, p. 642, cofnodir hanes y Tywysog Llywelyn ab Iorwerth yn arwain byddin tuag Aberhonddu, gyda'r bwriad o ymosod ar Reynald de Breos, ei fab-yn-nghyfraith, yr hwn oedd wedi troi o blaid y brenin John, rhag ofn cael ei ysgymmuno gan y Pab; ond cafodd Rhys Fychan ffordd i heddychu'r tywysog a Reynald, fel na wnaed yr ymosodiad. Yna aeth Llywelyn ar ei hynt tua Gwyr; ac ar ei ffordd, gwersyllodd yn mhlwyf Llangiwc dros nos. Ymddengys fod Castell Abertawy (Sein Henyd) y pryd hwn yn eiddo Reynald de Breos, yr hwn a aeth ar ol Llywelyn, a chwech marchog urddasol gydag ef, i geisio ammodau heddwch; ac mewn cynghor fu rhyngddynt, efe a roddodd y Castell iddo, a gorchymmynodd Llywelyn i'r castell fod dan ofal Rhys Grug. Ceir hanes yn y Cofnodion Cymreig hefyd, ddarfod i Rys Grug ddinystrio Castell Sein Henyd a holl gestyll Gwyr, gan yrru y Normaniaid o'r lle, a rhoddi y tiroedd yn ol i'r Cymry.

Mewn cân o fawl i'r Tywysog Llywelyn ab Iorwerth, gan Llywarch ab Llywelyn, enwir Abertawy etto yn lle Sein Henyd, yr hyn sydd yn cadarnhau mai Abertawy yw Sein Henyd y Brutiau Cymreig, ac nid Caerfili, fel y myn yr haneswyr Seisnig. Dyma fel y dywedodd y prydydd:—

Yn Llys Aberffraw  
Yn llochi Barddrin,  
Yn Nghaer fawr Fyrddin,  
Fyrddoedd beri;  
Yn Nghaer Dyganwy,  
Yn *Aber Tawy*,  
Yn agwrdd dramwy  
Dref Cydweli.—*Myf. Arch.*, 214.

Yn mhen pedair blynedd wedi i Rys Grug losgi y castell a'r dref, darfu i John de Breos, yn y flwyddyn 1221, gael cenad gan y Tywysog Llywelyn ab Iorwerth i adgyweirio y lle.

Yn 1260, ymosodwyd ar, a dinystrwyd y Castell hwn drachefn gan y Tywysog Llywelyn ab Gruffydd, ein Llyw Olaf\*. Wedi y dinystr a wnaed arno y pryd hwnw, bu yn garnedd o adfeilion hyd amser yr Esgob Gower, yr hwn a'i hadeiladodd drachefn yn 1329-30. Yn 1405, daeth gordd fawr Owen Glyndwr arno yn drom iawn, fel y drylliwyd ef unwaith etto. Adgyweiriwyd ef eilwaith, a bu yn ddiymosod arno hyd amser Rhyfel Cartrefol Oliver Cromwell. Bu yn meddiant y gwrth-bleidiau droion y pryd hwnw, bob yn ail. Dywed traddodiad i Cromwell fod yn aros yma am gryn amser ar ol Brwydr St. Fagan, yn 1648, a'i fod yn arfer cyd-weddio â hen wraig oedd yn byw yn ymyl y Castell. Arosodd y Castell yn meddiant teulu De Breos o amser y John de Broes a enwyd hyd deyrnasiad Iorwerth II., pryd y daeth yn eiddo John de Mawbray, eiddo yr hwn a gymmerwyd trwy drais gan Hugh le Despenser. Yn 1471, yr oedd yn meddiant William Herbert, merch yr hwn a briododd â Syr Charles Somerset, disgynydd o'r hwn yw Duc Beaufort, ei berchenog presenol. Mae ychydig o weddillion y Castell i'w gwled yn awr yn nghanol y dref, ac y mae'r Llythyrdy yn rhan o hono. Mae rhai yn fyw yn awr ag sydd yn cofio llawer iawn mwy o'r adfeilion castellog yr ochr orllewinol i'r heol nag oedd yr ochr ddwyreiniol, yr hyn a brawf ei fod yn fawr aruthrol pan yn gyfan. Gelwid y dref gynt wrth yr enw "Bwrdeisdref y Rhagfreinlen," am i'r Freinlen gyntaf a gafodd gan y Brenin John fyned i gollu, ac i William de Breos roddi Breinlen newydd yn ei lle. Dywed Cliffe yn ei *Book of South Wales*, fod y Freinlen wreiddiol hynaf ar gael yn mhlfith Cofnodion y Twr. Cadarnhawyd y Freinlen gan Henry III. yn 1234, gan W. de Breos, gan Iorwerth II., a chian Oliver Cromwell yn 1665. Yn 1568, cyfrifwyd trigolion plwyf Abertawy trwy orchymmyn Esgob Ty Ddewi, pan y cafwyd fod yn yr holl blwyf 180 o dai a 1,260 o drigolion. Arferid casglu bob Sul yr amser hwnw wrth ddrws yr Eglwys at gynnal y tlodion, pan y rhoddai Syr George Herbert swllt yr wythnos, a'r Portref 6c. Yn ol y cyfrifiad a wnaed y flwyddyn a nodwyd, yr oedd 190 o deuluoedd yn mhlwyf Abertawy, sef 10 yn fwy nag oedd o dai. Yn rhandir St. John, 8 teulu; yn Ilston, 40 teulu; Llangyfelach, 200 teulu; Llansamlet, 60 teulu; Portheynon, 17 teulu. Pan anfonwyd aelodau i gynnrchioli Cymru yn Senedd Lloegr am y tro cyntaf, yn y 27 o deyrnasiad Harri VIII., cafodd Abertawy, mewn undeb â Chaerdydd, Pontfaen, Llantrisant, Cenffig, Aberafan, Castellnedd, a Chas'lwchwr, yr anrhydedd o anfon un aelod i'w cynnrchioli!

Parhaodd mewn undeb a'r lleoedd a nodwyd i anfon un aelod i'r Senedd hyd amser Oliver Cromwell, pryd y cafodd y dref hon yr anrhydedd o anfon aelod drosti ei hun, yn mherson William Foxwist, un o Farnwyr Cromwell ar gylchdaith Brycheiniog. Wedi coronni Charles II. yn 1660, darostyngwyd y dref i'w safle flaenorol i undeb â Chaerdydd, &c., ac felly y parhaodd hyd Ddiwygiad Seneddol 1832,

\* *Myf. Arch. p. 224.*

pryd y cafodd ei gwneyd yn ben ar ddosparth newydd o fwrdeisdrefi. O'r pryd hwnw hyd yn awr, y mae mewn undeb â Chenffig, Aberafan, Castellnedd, a Chas'lwohwr, yn anfon aelod i'r Senedd. Yn 1700, nid oedd y dref ond un fechan, a gwael yr olwg arni, gyda thai isel, wedi eu toi gan mwyaf â gwellt; ac adfeilion yr hen Gastell yn llawer mwy na chymmaint arall ag yw yn bresenol. Yr heolydd oeddynt gulion a budr, ac heb un math o balmant ar bob tu iddynt, ond yn debyg i bentrefi gwledig yn gyffredin. O 1700 hyd 1800, cynnyddodd y dref, ac helaethodd ei masnach yn fawr; ond ni wnaed nemawr welliant ar yr ystrydoedd, &c., nes cael Gweithred Seneddol yn 1809 i awdurdodi y Gorpholiaeth i wella yr ystrydoedd, a goleuo y dref â nwy, &c. Yn rhinwedd y Weithred hono, dechreuwyd ar y gorchwyl o adgyweirio a glanhau yr ystrydoedd, a gosod palmant llydan bob ochr iddynt; ac ar y 1af o Fawrth, 1821, goleuwyd y dref â nwy am y waith gyntaf.

Tua dechreu'r ganrif bresenol, nid oedd nemawr adeilad cyhoeddus yn y dref; a'r ychydig oedd yno, nid oeddynt mewn gwirionedd ond ystafelloedd yn yr Hen Gastell. Rhan o'r Castell oedd Neuadd y Dref, yn cynnwys dwy ystafell, un yn llys i drin materion cyfreithiol, a'r llall at wasanaeth y rheithwyr; ac yn y neuadd hon y cynnelid llysoedd chwarterol y Sir ar wyl Mihangel. Yno hefyd y cynnelid y llys trefol, a'r llys perthynol i boblogaeth Seisnigol Bro Gwyr—*Gower Anglicana et Subboscus*, yn nghyd ag amryw fan lysoedd ereill. Rhan o'r Castell oedd y Carchardy hefyd a berthynai i arglwyddiaeth Gwyr, a'r lle y carcherid dyledwyr. Yn nghlyn â'r Castell hefyd yr oedd yr hen Dy Marchnad a adeiladwyd yn 1774. Adeiladwyd Ty Marchnad arall hefyd at werthu pysgod a ffrwythau, tua hanner ffordd rhwng Heol y Gwynt a Heol y Castell. Safai hwnw ar 10 colofn o geryg Caerbaddon, ac yr oedd wedi ei doi â phlwm a gymmerwyd oddiar Eglwys Gadeiriol Ty Ddewi, ac a roddwyd gan Oliver Cromwell i foneddwr o'r dref hon.

Fel yr oedd y dref yn cynnyddu o ran maint a phwysigrwydd, aeth yr adeiladau a nodwyd yn llawer rhy fach; ac felly yn 1825, adeiladwyd Bwrdeisd y (*Guild Hall*) yma, yn ddigon mawr a chyfleus i gynnal y llysoedd y pryd hwnw. Aeth cynnydd y boblogaeth yn mlaen mor gyflym ar ol hyn, fel y teimlwyd fod y Bwrdeisd yn rhy fach drachefn, a phenderfynwyd ei helaethu yn 1848, pryd y codwyd Neuadd y Dref—adeilad ardderchog yn mhob ystyr. Ar yr ysgwar o flaen y Neuadd, mae Cof-adeilad gwych am John Henry Vivian, Ysw., F.R.S., F.G.S., A.S. Bu y boneddwr hwn yn cynnychioli y dref yn y Senedd am chwech Senedd-dymhor. Codwyd ei gofgolofn yn 1857. Yn 1829, agorwyd Carchardy newydd i'r dref, yr hwn sydd adeilad eang. Yn 1880, teimlid angen am Dy Marchnad eangach nâ'r rhai y soniwyd am danynt; ac felly, yn y flwyddyn 1880, adeiladwyd Ty Marchnad eang a chyfleus, yn mesur 320 troedfedd o hyd, wrth 220 o led, ar ddarn o dir a roddwyd i'r gorpholiaeth gan y diweddar C. R. Jones, Ysw. Costiodd adeiladu y ty hwn £20,000, ac ystyrir ef yn un o'r rhai goraf yn y Dywysogaeth. Yn 1847, ychwanegwyd Marchnadle

Pysgod. O amser James II. hyd y flwyddyn 1885, cynnwysai y Gorpholaeth Bortref, Cofiadur, 12 Henadur, a nifer anmlennodol o Fwrdeisiaid, gydag Ysgrifenydd Trefol, 2 Gyfreithiwr, 2 Fyr-lysgwr, a swyddogion ereill. Yn 1835, dan Weithred Corphoriad Bwrdeisdrefi, cafodd y dref ei rhanu yn dri dosparth, i'w llywodraethu gan Faer, 6 Henadur, 18 o Gynghorwyr. Etholir yr Henaduriaid bob chwe' mlynedd, a'r Cynghorwyr bob tair blynedd. Oddiar newidiad ffurf lywodraethol y dref, mae wedi cynnyddu gyda chyflymdra anhygoel,—mae llaws o ystrydoedd newyddion wedi eu hychwanegu, ugeiniau lawer o balasau gwychion wedi eu hadeiladu ar lechweddau heirdd yn gydiol a'r dref, ac amryw adeiladau cyhoeddus wedi eu codi yn ychwanegol at y rhai a enwyd. Heblaw hyn, mae'r Gorpholaeth wedi myned i draul o £200,000 tuag at ddiwallu y dref a dwfr glan o ardal Llangyfelach, lle mae Dwfr-gronfa fawreddog. Yn mhllith yr adeiladau cyhoeddus ychwanegol, mae y rhai canlynol yn teilyngu sylw:—

1. *Sefydliad Breninol Deheudir Cymru*.—Gellir cyfrif dechreuad y sefydliad ardderechog hwn, o'r flwyddyn 1821, pryd y cychwynwyd cymdeithas yn y lle er efrydu Daiareg, Mwnyddiaeth, ac Athroniaeth Naturiol. Anrhegodd y cadeirydd, sef Dr. Collins, Portref, y gymdeithas ag amryw gyfrolau tra gwerthfawr ar y gwahanol gangenau a efrydid, ar gychwyniad y sefydliad. Bu y gymdeithas yn cael ei chario yn mlaen yn llwyddiannus am tuag ugain mlynedd dan yr enw *The Cambrian Institution*; ond yn 1840, codwyd adeilad ardderechog i gynnal y gymdeithas, a newidiwyd yr enw yn *Royal Institution of South Wales*. Mae lled gwyneb yr adeilad yn 100 troedfedd; ac yn y canol, y mae porth gwyeh yn pwyso ar bedair colofn. Cynnwys yr adeilad Lyfrfa helaeth, lle y mae amryw floedd o gyfrolau gwerthfawr; Amgueddfa (*Museum*) o gywreinion hynafiaethol, daiaregol, ac anifeilaidd, yn nghydag ystafell ddarlithio, ystafell y cynghor, ac ystafell fferylliacth. Mae'r Amgueddfa yn unig yn llawn gwerth treulio oes i efrydu ei gynnwysiad.

2. *Y Clafdy*.—Yn 1817, cynnaliwyd amryw gyfarfodydd yn y dref i ymdrin a'r pwngc o sefydlu Clafdy yn y lle at wasanaeth cleifion o bob parth o'r deyrnas. Casglwyd llawer o arian i'r dyben hwnw trwy gyfraniadau yn yr Eglwys a'r Capeli, a'r gweddill trwy danysgrifiadau. Agorwyd y sefydliad mewn Badd-dy ger y dref, yn mis Gorphenaf, 1817, a bu yn cael ei gynnal yno am amryw flynyddau; a chafodd miloedd, o bryd i bryd, eu llesoli trwy y sefydliad hwn. Yn 1869, codwyd adeilad eang i'r sefydliad daionus hwn yn Heol Helen, ac iddo bob math o drefniadau ar gyfer y cleifion.

3. *Gweithdy'r Undeb (House of Industry)*.—Adeiladwyd hwn yn gydiol a'r Clafdy yn 1817, trwy wneyd cyfnewidiadau yn y Badd-dy a enwyd, a'i ranu yn ddau dy; ac erbyn diwedd y flwyddyn hono, yr oedd yn barod i dderbyn 180 o dlodion; a bu o fendith i laweroedd.

4. *Yr Ysgol Rammadegol Rad*.—Sefydlwyd hon gyntaf yn 1682, gan Hugh Gore, D.D., Esgob Waterford a Lismore, er addysgu 12 o feibion bwrdeisiaid y dref; ac yn niffyg cael 12 o feibion bwrdeisiaid,

i addysgu 12 o feibion tlodion y dref. Gwaddolodd ef yr Ysgol â thiroedd yn mhlwyf Llandyfodwg, y rhai a gynnyrchant yn awr dros £100 y flwyddyn. Pennododd yr Esgob fod Bussey Mansel, Ysw., Llan-sawel, yn ymddiriedolwr a noddydd yr Ysgol, a chanddo hawl i ben-nodi yr Athraw, &c. Mae yr ymddiriedolaeth yn aros yn y teulu yn barhaus; ac os bydd yr etifedd dan oed, mae Esgob Ty Ddewi yn gofalu am yr Ysgol. Mae pennodiad yr Athraw wedi ei drosglwyddo i Iarll Jersey er ys blynyddau lawer, bellach. Mae tanysgriffiadau ereill wedi eu hychwanegu at waddoliad yr Esgob Gore er cynnal yr Ysgol hon, fel y mae ar raddfa llawer eangach yn awr nag oedd ar y cyntaf. Cedwid hi ar y cyntaf yn Heol yr Afr, a symmudwyd hi wedi hyny i Mount Pleasant; a chan fod ei chynnydd mor gyflym tuag ugain mlynedd yn ol, dechreuwyd adeiladu Ysgoldy newydd yn 1852, yr hwn sydd yn addurn i'r lle. Cynnwysa ystafell ysgol, ystafell-oedd dosparthiadau, ystafell giniawa, ystafell chwareu, llyfrfa, capel, a dwy neuadd gysgu (*dormitories*) eang, y fwyaf yn 90 troedfedd o hyd, wedi ei threfnu yn y fath fodd fel y mae gan bob bachgen ystafell wely iddo ei hun.

Yr adeiladau cyhoeddus ereill ydynt Y Dollfa (*Custom House*), y Llythyrdy, a agorwyd Mawrth 31, 1858; Sefydliad y Mud a'r Byddar; y Tlotty, Llueindy, *Assembly Rooms*, yn nghyd ag amryw Ysgoldai heirdd a helaeth, a'r *Music Hall*. Mae "*West End*" y dref yn cynnwys lluaws mawr o balasau gwychion.

Y *Porthladd*.—Diamheu mai y *Bay* hwn yw'r goraf a mwyaf cyfleus o ran ei sefyllfa yn Morganwg. Mae ar ffurf hanner crwn, yn debyg, medd teithwyr, i angorfa Naples. Mae ei led tua naw milldir, a chysgodir ef yn ogleddol gan res o fryniau uchel, ac ar y gorllewin gan y *Mumbles*; a dywedir y gall unrhyw long ddyeithr ddyfod i mewn i'r porthladd yn hollol ddiberygl, hyd y nod pan fyddo'r gwynt yn rhy gryf a'r mor yn rhy arw i'r *pilots* fyned allan, yr hyn sydd fantais anmhrisiadwy i forwyr. Mae llawer o arian wedi eu talu, a llawer o rwystrau wedi eu symmud, cyn gwneyd yr holl gyfleusderau sydd yn y porthladd yn bresenol. Bu gwella sefyllfa y porthladd yn destyn siarad blynyddau lawer cyn i ddim o bwys gael ei wneyd er dwyn yr amcan i ben. Cynnaliwyd y cyfarfod cyntaf i drin y matter yn 1771. Cododd yr ymddiriedolwyr hefyd y swm o £12,000 tuag at adeiladu Golendy yn y *Mumbles*, gydag adeiladu muriau cryfion ar bob tu i enau afon Tawy, gan gyfyngu ei gwely i 70 llath o led, er cael mwy o ddyfnder o ddwfr i longau hwylio i fyny i'r dref. Wedi adeiladu y Gwaith Efydd cyntaf yn y lle yn 1719, codwyd mur cryf i'w wahanu oddiwrth y dref, ac yr oedd y mur hwnw yn cyffwrdd â'r afon, a bu yn achos i lawer o laid ymgasglu yn y gwaelod, a thalwyd miloedd lawer o bunnoedd o bryd i bryd am ei glanhau, a gorfu ar swyddogion y porthladd yn y diwedd agor gwely newydd i'r afon ar y draul o £100,000. Yn 1791, pasiwyd Gweithred Seneddol er Ad-gyweirio, Helaethu, a Dyoglu Porthladd Abertawy, yn Swydd For-ganwg. Yn rhinwedd y Weithred hono, adeiladwyd mur ar y tu dwyreiniol i'r afon yn 1,800 troedfedd o hyd, ac un arall ar y tu gor-

llewinol yn 900 troedfedd o hyd, gan adael agoriad rhwng y ddau o 240 troedfedd. Adeiladwyd goleudy hefyd ar ben y mor-fur gorllewinol, yr hwn a oleuir â nwy, os bydd wyth troedfedd o ddwfr ar y bar. Gwnaed y gwaith hwn yn ol cynllun Cadben Huddart, F.R.S., ac atebodd y dyben yn dda. Trwy hyn cafodd y lle longborth cyfleus i ddal amryw gannoedd o longau : y dyfnder ar y prif lanw yn 24 troedfedd, ac wyth troedfedd ar y llanw isel, a'r canol-fesur yn mis Mawrth yn 16½ troedfedd. Cafwyd amryw Weithredoedd Seneddol ar ol yr un a nodwyd, er ychwanegu manteision y porthladd ; ond yr oedd masnach y lle yn cynnyddu mor gyflym, fel y gwelwyd fod yn rhaid gwneyd rhywbeth teilwng o'r cynnydd hwnw. Felly yn 1847, appeliwyd at y Senedd am Weithred yr rhoi hawl i wneyd *Docks* newyddion. Cafwyd yr *Act*, dechreuwyd y gwaith yn 1854, ac agorwyd y *docks* hyn yn 1859. Arwynebedd y *dock* gogleddol yw 10½ erw, ac yn gyssylltiol â *basin* y llanw isel, yr hwn sydd 2½ erw ; ac y mae dwfr-ffos (*lock*) o'r naill i'r llall yn 158 troedfedd o hyd. Mae'r *dock* deheuol yn cynnwys arwyneb o 18 erw, yn 1,500 troedfedd o hyd, a 860 o led, ac yn gyssylltiol a noffe (*basin*) yn 4 erw o arwynebedd, neu 430 troedfedd o hyd a 870 o led, a *lock* o'r naill i'r llall yn 300 troedfedd o hyd, gyda thri phâr o ddorau yn 60 troedfedd o led, a dorau y noffe yn agor i'r *bay* yn 70 troedfedd o led. Mae yr holl waith wedi ei orphen i'r perfffeithrwydd mwyaf, ac wedi ei gyflenwi ag *hydraulic apparatus* Syr W. Armstrong. Cynnwysa'r peirianwaith hwn filldir a hanner o bibellau, a 700 pwys o wasg ar bob modfedd ysgwar. Trwy nerth dwfr y peirianwaith hwn y llwythir ac y dadlwythir y llongau, y symmudir y pynt, &c., a hyny gyda y rhwyddineb mwyaf. Ar y tu gogleddol i'r llongborth hwn y mae rhes o ystordai mawrion, gyda lleoedd cyfleus i ollwng glo i'r llongau, yr hwn a ddygir yno dros grog-bont ar hyd llinell Cledrffordd Deheudir Cymru (G.W.R.) Costiodd gwneuthuriad y *docks* newyddion tua £500,000. Yn 1871, ychwanegwyd *Dry Dock* yn 300 troedfedd o hyd, wrth 57 o led yn y top, a 48 yn y gwaelloed. Mae'r llongborth ardderchog hwn wedi ychwanegu llawer at bwysigrwydd y dref, ac wedi bod yn foddion i hwylusu masnach yr holl ardaloedd cylchynol. Ychydig i'r dwyrain o'r hen longborth, ac ar du dwyreiniol afon Tawy, y mae Porth Tennant, a wnaed yn 1826 ar draul H. T. Tennant, Ysw., Cadoxton Lodge. Hyd y llongborth yw 800 llath, yn gyssylltiol Chamlas Castellnedd, yr hwn a wnaed ar draul yr un gwr. Meddylwyd wrth adeiladu y dociau newyddion, y buasant yn ddigon eang i ateb maint masnach y lle am oesoedd ; ond yn mhên tua deng mlynedd wedi eu hagor, gwelwyd yn amlwg fod angen ychwaneg o ddociau yn y lle. Yn nechreu 1872, penderfynodd ymddiriedolwyr y porthladd ymholi a oedd yn ddichonadwy cael ychwaneg o ddyfnder o ddwfr yn ol sefyllfa presenol y dociau, ac a ellid ychwanegu manteision masnachol y porthladd, &c. Gosodwyd Mr. James Abernethy, C.E., ar waith i dynu cynlluniau, a bwrwr draul, &c., yr hyn a wnaeth erbyn mis Mai yr un flwyddyn. Yn unol â'r cynllun hwn, bwriedir gwneyd dociau newyddion eang iawn yma etto, traul gwneuthuriad y rhai yn ol y cynllun a nodwyd fydd £805,827.



*Y Gweithfeydd Efydd (Copper).*—Cymmydogaeth Abertawy yw prif eisteddle gweithfeydd efydd Prydain Fawr. Tua 110,000 o dunnelli o efydd swm yn flynyddol yn yr holl deyrnas, ac y mae naw rhan o ddeg o'r swm hwnw yn cael ei wneyd yn ardal Abertawy! Y gweithfeydd mawrion hyn, gyda gweithfeydd alcan y lle, a'r cyfoeth o lo sydd yn y ddaiar y tu cefn i'r dref, ydynt yr adnoddau sydd wedi dwyn y lle i gymmaint o sylw a bri. Adeiladwyd y gwaith copr cyntaf yn y lle yn 1719, gan un Mr. Phillips. Safai y gwaith hwnw lle y safai y *Cambrian Pottery* wedi hyny. Yn ganlynol, adeiladwyd Gwaith Copr Glandwr, yr hwn wedi hyny a symmudwyd i'r Fforest, er bod yn fwy cyfleus i gael glo. Wedi hyny, adeiladwyd gweithfeydd ereill yn y gymmydogaeth, nes y maent erbyn hyn yn dra lluosog. Dyma enwau y prif rai:—Glandwr, y Morfa, y Fforest, y Rose, y White Rock, y Bange Uchaf, y Bange Canol, y Worcester, yr Hafod, yn nghyda llauws o weithfeydd *Tin*, *Dur*, *Zinc*, &c. Rholiwyd y llafn efydd cyntaf yn Melin Newydd yr Hafod, Chwefror 24ain. 1862, yr hwn a wthiwyd trwy y *rolls* gan berchenog y gwaith, sef H. H. Vivian, Ysw., A.S. Anrhegodd y gweithwyr Mr. Vivian a gefail arian hardd ar yr achlysur, ac arno yn gerfiedig yr hyn a ganlyn:—“*Presented by the Hafod Mill Men to their Honourable Employer, H. H. Vivian, Esq., M.P., on his passing the first cake of Copper through the Rolls of the New Mill, Feb. 24th, 1862.*” Pan weithiwyd y peiriant gyntaf, yn annibynol ar agor y felin, rhoddodd Mr. Vivian £50 at leihau dyled capel yr Annibynwyr yn y lle. Yn 1800, swm y mwn efydd a ddygwyd i'r lle o sir Fon a Chernyw oedd tua 60,000 o dunnelli, o'r hyn y gwnaed 6,000 o dunnelli o efydd pur. Mwn copr y wlad hon yn unig ddefnyddid yn y gwahanol weithfeydd hyn hyd y flwyddyn 1827, ac yr oedd y swm blynyddol wedi cynnyddu erbyn hyny i 200,000 o dunnelli; ond o'r flwyddyn hono allan, y mae'r cynnydd wedi bod yn fwy fyth. Yn 1845, dygwyd i'r porthladd 45,000 o dunnelli o fwn tramor, yn ychwanegol at fwn Ynys Mon a Chernyw. Yn 1846, dygwyd i Abertawy y swm o 58,456 o dunnelli o fwn copr o America Ddeheuol, yr hyn oedd yn werth £668,267 wedi ei wneyd yn efydd pur. O Chili yn unig y dygid y mwn tramor i'r porthladd hyd y flwyddyn 1846, pryd y daeth dwy long yn llwythog o hono i'r lle o Awstralia, a phrofwyd ei fod yn llawn crystal ag eiddo Chili. Gan fod llawer o fwn arian yn gymmysg a'r mwn efydd, adeiladodd Mr. Vivian waith arian yn y lle yn 1846, a thalodd yn dda. Dywedir fod gweithfeydd efydd Mr. Vivian ger y dref hon a'r Taibach yn dwyn iddo elw blynyddol o £70,000. Mae cynnyrch blynyddol y deyrnas yn lleihau yn gyflym, fel y dengys yr ystadegau canlynol:—Yn 1861, codwyd o fwn copr yn y deyrnas hon 231,487 o dunnelli, gwerth £1,364,727, a gwnaed o hono 15,381 o dunnelli o efydd pur, gwerth £1,527,480. Yn 1862, swm y mwn oedd 224,171 o dunnelli; yn 1863, 210,947; yn 1864, 214,604; yn 1865, 198,298; yn 1866, 180,378; yn 1867, 158,544; yn 1868, 157,335; yn 1869, 129,958; yn 1870, 106,698. Mae yr allforiad o wledydd tramor yn cynnyddu yn gyfartal. Dengys y tafeni canlynol yr hyn a brynwyd o fwn copr, a'r swm wnaed o hono yn Abertawy yn 1870:—

| ENWAU'R PRYNWYR.               | Mwn mewn<br>Tunnelli. | Swm y Copr<br>wnaed o hono. | Gwerth.         |
|--------------------------------|-----------------------|-----------------------------|-----------------|
| Cwmni'r Copper Miners ..       | 1,350                 | 209                         | £13,225         |
| Freeman a'i Gyf. .. ..         | 672                   | 139                         | 9,016           |
| P. Grenfell a'i Feib. .. ..    | 1,647                 | 251                         | 16,014          |
| Sims, Wilyams, a'u Cyf. ..     | 1,640                 | 311                         | 19,348          |
| Vivian a'i Feib. .. ..         | 2,082                 | 306                         | 15,136          |
| Williams, Foster, a'u Cyf. ..  | 2,846                 | 449                         | 28,636          |
| Mason ac Elkington .. ..       | 1,515                 | 262                         | 16,868          |
| Bankart a'i Fab .. ..          | 267                   | 23                          | 1,419           |
| Charles Lambert .. ..          | 1,442                 | 191                         | 11,969          |
| Sweetland, Tittle, a'u Cyf. .. | 1,073                 | 185                         | 11,818          |
| <b>Cyfanswm .. ..</b>          | <b>14,534</b>         | <b>2,325</b>                | <b>£147,449</b> |

## Y SWM A BRYNWDYD GANDDYNT YN CORNWALL.

| ENWAU'R PRYNWYR.               | Swm y Mwn.    | Swm y Copr<br>wnaed o hono. | Gwerth.         |
|--------------------------------|---------------|-----------------------------|-----------------|
| Vivian a'i Feib. .. ..         | 13,999        | 890                         | £51,204         |
| Freeman a'i Gyf. .. ..         | 2,836         | 221                         | 13,478          |
| P. Grenfell a'i Feib. .. ..    | 7,508         | 706                         | 42,808          |
| Sims, Wilyams, a'u Cyf. ..     | 6,557         | 548                         | 32,444          |
| Williams, Foster, a'u Cyf. ..  | 16,139        | 1,178                       | 69,789          |
| Mason ac Elkington .. ..       | 10,401        | 633                         | 36,040          |
| Bankart a'i Feib. .. ..        | 7,269         | 387                         | 21,747          |
| Cwmni'r Copper Miners ..       | 7,098         | 484                         | 27,689          |
| Charles Lambert .. ..          | 4,000         | 177                         | 9,380           |
| Newton, Keates, a'u Cyf. ..    | 143           | 11                          | 701             |
| Sweetland, Tittle, a'u Cyf. .. | 5,328         | 365                         | 21,038          |
| <b>Cyfanswm .. ..</b>          | <b>81,278</b> | <b>5,601</b>                | <b>£326,318</b> |

Yn ychwanegol at hyn, prynwyd 4,069 o dunnelli o fwn copr o'r Iwerddon, a 195 tonnelli o sir Fon, gyda'r symiau canlynol o wledydd tramor:—

| LLEOEDD.                 | MWN.         | EFYDD.       | GWERTH.         |
|--------------------------|--------------|--------------|-----------------|
| Penrhyn Gobaith Da .. .. | 2,096        | 625          | £40,623         |
| Moonta .. ..             | 3,392        | 491          | 30,925          |
| Paramatta .. ..          | 1,416        | 277          | 17,817          |
| Lisbon .. ..             | 448          | 91           | 5,871           |
| Telhadella .. ..         | 305          | 54           | 3,576           |
| Cobre .. ..              | 221          | 49           | 3,145           |
| Mantua .. ..             | 214          | 45           | 2,766           |
| Cuba .. ..               | 152          | 33           | 2,145           |
| Yanganooka .. ..         | 89           | 17           | 1,156           |
| Wallaroo .. ..           | 204          | 13           | 816             |
| Chili .. ..              | 91           | 12           | 797             |
| Spain .. ..              | 6            | 1            | 64              |
| Australia .. ..          | 11           | 1            | 58              |
| Sabral .. ..             | 170          | 29           | 1,887           |
| <b>Cyfanswm .. ..</b>    | <b>8,806</b> | <b>1,738</b> | <b>£111,646</b> |

*Aldoldai*.—Mae Eglwys y Plwyf (Eglwys Fair) wedi ei chyssegru i'r Forwyn Fair. Ychydig o'i hanes boreuol sydd ar gael. Mae yn eglur, pa fodd bynag, iddi fod yn sefydliad Pabyddol, fel y rhan amlaf o hen Eglwysi Cymru. Pan gymmerwyd meddiant o'r offerynau Pabyddol oedd yn yr Eglwysi yn amser Harri VIII., cymmerwyd o'r Eglwys hon ddeg cloch bres, unarddeg o groesau pres, cawg pres at ddal dwfr sant-aidd, &c. Yn amser O. Cromwell, trowyd Morgan Hopkin, y Ficer, o'i swydd, a chafodd un James Jones ei le. Pregethid yn yr Eglwys y pryd hwnw gan bregethwyr teithiol yn aml, ac y mae cofnodion o'r tâl a dderbynient ar gael yn awr, megys:—"Hydref 4, 1642, talwyd i Lewis Thomas, pregethwr, 6s. 8c." "Talwyd i Mr. Morgan am ei bregeth, 10s." Yn 1720, penderfynwyd fod pedair cloch yr Eglwys i gael eu hail-doddi, er gwneyd chwech o honynt: y rhai hyn sydd yn y clochdy yn bresenol. Yn 1739, syrthiodd yr Eglwys, ac o'r braidd y diangodd y Ficer a'r gyunnulleidfa rhag cael eu claddu yn yr adfeilion. Mewn canlyniad i hyn, adeiladwyd yr Eglwys bresenol, yr hon sydd adeilad da, gyda chlochdy ysgwar. Safai yr hen Eglwys ar gwr gogledd-ddwyrain y gladdfa, ac y mae peth o'r adfeilion i'w gweld yn awr. Wedi adeiladu yr Eglwys bresenol, dygwyd iddi amryw gof-adeiladau o'r hen Eglwys. Yr hynaf o honynt sydd er coffadwriaeth am Syr Hugh Johns, Marchog, a Dame Maude, ei wrraig. Cafodd ef ei wneyd yn Farchog yn Eglwys y Bedd Santaidd yn Jerusalem, Awst 14, 1441. Bu yn ymladd a'r Tyrciaid a'r Saraceniaid am bum mlynedd, dan John, Ymerawdwr Caerysteny yn y pryd hwnw. Wedi hyny, bu yn Brif Farchog Ffrainge am bum mlynedd, dan John, Duc Somerset; ac yn ganlynol i hyn, bu yn *Knight Marshal* Lloegr, dan John, Duc Norfolk, yr hwn a roddodd Gastell Llandymor yn Nghwyr yn anrheg iddo; ac yn y castell hwnw y bu Syr Hugh yn byw y rhan olaf o'i oes. Mae yn yr Eglwys gofadaill hefyd am Syr Mathew Cradock, Marchog, ab Richard ab Gwilym ab Ifan ab Caradog Fereich-fras ab Ynyr ab Ifor ab Richard ab Einion ab Collwyn. Yr oedd Syr Mathew Cradock yn daid i William Herbert, Iarll cyntaf Penfro. Priododd Syr Mathew a Catherine Gordon, gweddw Perkin Warbeck, yr hon oedd ferch i Iarll Huntly. Honai Perkin Warbeck mai efe oedd Richard, Duc Caeretrog, yr hwn y bernid i Richard III. orchymmyn ei ddienyddio yn y Twr. Mae llawer hyd y nod yn yr oes hon yn credu fod yr honiad yn gywir. Cododd Perkin wrthryfel yn erbyn Harri VII., ond gorchfygwyd ef yn mrwydr y Black Heath, Meh. 22, 1497. Coffadwriaeth arall sydd yma am Phillip Hobby, Ysw., Mynachlog Nedd, yr hwn a fu farw Meh. 15, 1678. Yr oedd hwn yn wŷr i Syr John Herbert, Ysgrifenydd Cartrefol Lloegr yn amser y Frenines Elizabeth, ac yr oedd Syr John Herbert yn wŷr i Syr Mathew Cradock. Cafodd yr Eglwys hon ei goleuo a nwy am y waith gyntaf Ion. 6, 1822.

Eglwys Iennan (*St. John's*), ydoedd ar y cyntaf yn gapel perthynol i Farchogion Jerusalem, a pharhaodd am oesau lawer yn fath o sefydliad Pabyddol. Yn 1825, tynwyd yr hen adeilad i lawr, ac adeiladwyd yr un presenol. Capel Anwes ydyw, a chynnelir y gwasanaeth yn Gymraeg ynddi.

Eglwys y Drindod, yn Bellevue Street, sydd Guradiaeth barhaol, gwerth £800 y flwyddyn. Dyddia ei choflyfr o 1848.

Eglwys St. Iago, yn Heol Dwfr, sydd gapel dan Eglwys Fair. Dyddia ei choflyfr o 1867.

Eglwys St. Pedr sydd adeilad syml, ac yn gapel dan Eglwys y plwyf.

Eglwys St. Thomas, nid yw ond ysgoldy ardrethol.

Eglwys Cilfai (dan Llansamlet) a ddeil 400 o wrandawwyr.

St. Helen sydd ysgoldy, lle cynnelir y gwasanaeth dan Eglwys Fair.

St. Nicholas sydd adeilad priddfeini at wasanaeth morwyr, yn mhilwyf Mair.

Eglwys St. Paul, yn y Scetty, a adeiladwyd yn 1850, ar draul y diweddar J. H. Vivian, Ysw., A.S. Ficeriaeth ydyw, gwerth £158, yn rhodd H. H. Vivian, Ysw., A.S.

*Pabyddion.*—Mae gan y Pabyddion ddwy Eglwys yn y lle, sef St. David yn Rutland Street, a St. Mary yn Heol Llangyfelach, yn nghyda Llueindy helaeth.

*Capeli Ymneillduwyr.*—Trefnyddion Calfnasidd.—Mae gan yr enwad hwn amryw gapeli heirdd yn y lle, megys Capel Cruglas, ad. 1799, ail-ad. 1870; Capel Trinity, ad. 1828; Babell, Cwmbwrla, ad. 1869; Bethany (S.)

Annibynwyr.—1. Ebenezer, 1808, helaethwyd yn 1826, ail-ad. 1862; 2. Capel Seion, 1849; 3. Soar, 1849, ail-ad. 1870; 4. Castle Street Chapel, 1814; 5. Siloh, Glandwr, 1826, helaethwyd yn 1840; 6. Siloam, Pentre Estyll, 1864; 7. Cwmbwrla Ind. Chapel, 1862.

Bedyddwyr.—1. Mount Pleasant, 1825; 2. Mount Zion, 1866; 3. Bethesda, 1830; 4. Libanus, Cwmbwrla, 1866; 5. Philadelphia, 1867.

Wesleyaid.—Dan gapel, un yn College Street, ac un yn Tontine Street.

Trefnyddion Hynafol.—Jubilee, yn Pell Street, ad. 1860.

Mae yma hefyd Synagog Iuddewig, ac addoldai gan y Presbyteriaid, y Crynwyr, y Bible Christians, y Christadelphians, yr Undodwyr, &c.

*Poblogaeth.*—Yn 1851, 21,586; yn 1861, 27,161; yn 1871, 38,474.

*Cofnodion.*—Mawrth 20, 1858, crogwyd dau Roegwr yn Abertawy am lofruddiaeth. Y rhai hyn oeddynt y rhai cyntaf i gael eu dienyddio yn y dref dan ddedfryd y gyfraith. Mai 10, 1866, aeth masnachdy draper ar dân yn Temple Street, a llosgwyd wyth o bersonau yn ulw trwy yr amgylchiad. Yn 1866, crogwyd Robert Coe am lofruddiaeth a gyfiawnodd yn Mountain Ash. Mawrth 28, 1872, agorwyd Coleg Normalaidd y dref, er dysgu ysgolfeistresi. Addysgid athrawon ynddo am flynyddau cyn hyn.

*Undeb Abertawy.*—Cynnwysa Undeb Abertawy y plwyfi a'r rhanblwyfi canlynol:—

| ENWAU.                   | Pobl. yn 1851. | Pobl. yn 1861. | Pobl. yn 1871. |
|--------------------------|----------------|----------------|----------------|
| { Clas Uchaf .. ..       | 7,802          | 9,436          | 2,266 }        |
| { Clas Isaf .. ..        |                |                | 10,620 }       |
| Sant John .. ..          | 1,215          | 2,732          | 4,714          |
| Llandeilo Talybont .. .. | 1,408          | 1,331          | 1,759          |
| Mawr .. ..               | 810            | 733            | 852            |
| Penderry .. ..           | 1,205          | 1,380          | 1,767          |
| Rhyn Dwyglydach .. ..    | 1,578          | 1,720          | 2,210          |
| Abertawy Uchaf .. ..     | 1,295          | 2,379          | 3,684          |
| Abertawy Isaf .. ..      | 932            | 1,107          | 1,211          |
| Tref Abertawy .. ..      | 21,586         | 27,161         | 33,474         |
| St. Thomas .. ..         | 1,089          | 3,325          | 3,369          |
| <b>Cyfanswm .. .</b>     | <b>38,420</b>  | <b>51,260</b>  | <b>65,926</b>  |

ABERTRIDWFR sydd bentref bychan, digon di-son am dano yn yr oes hon, yn mhlwyf Eglwysilan, tua milldir i'r dwyrain oddiwrth yr Eglwys. Cynnwysa y pentref efail gôf, melin fyd, tannerdy, ac ychydig annedd-dai cyffredin, ond glan, ac mewn man hynod iachus. Cafodd y lle yr enw am fod tair nant yn cyd-aberu yno, y rhai a ffuriant afonig fechan, yr hon a abera yn afon Rhymni ger Ty Bedwas. Yr hyn sydd yn gwneyd y lle hwn yn enwog yw y ffaith mae yma y ganwyd y bardd awenfraeth, a'r duwinydd clasurol, Sion Cent. Yma y preswyliai ei rieni, mewn amgylchiadau digon cyffredin, ac yma y treuliodd yntau flynyddau boreuaf ei oes. Yr oedd iddo ewythr yn byw yn mhlwyf Pentyrch, yr hwn oedd fynach Pabaidd ac ysgolhaig rhagorol. Arferai hefyd gyfranau addysg yn rhad i'r rhai a ddeuent atto. Yn mhlith ei ysgolheigion, yr oedd ei nai bychan o Abertridwr, yr hwn a gerddai o dy ei rieni yn droednoeth, goesnoeth, yr holl ffordd i Lwyn Dafydd Ddu, yn mhlwyf Pentyrch, er dysgu Lladin, Cymraeg, a Rheolau Barddoniaeth. Bernir mai Dafydd Ddu o Hiraddug oedd ei ewthr, ac mai oddiwrth ei enw ef y cafodd y lle yr enw Llywyn Dafydd Ddu. Pan nad oedd Sion Cent ond plentyn, neu o'r hyn lleiaf, pan nad oedd ond ieuange iawn, bu farw ei rieni, a chymmerodd ei ewythr ef i'w dy. Yn mhen ychydig amser ar ol hyn, cafodd Dafydd Ddu ddyrchafiad eglwysig, a rhoddwyd bywoliaeth iddo yn agos i Gaerlleon ar Ddyfrdwy. Wedi gwasanaethu fel offeiriad yno am beth amser, bu farw, a chladdwyd ef yno. Yr oedd Sion Cent erbyn hyn yn hollol amddifad a diamddiffyn. Wedi claddu ei ewythr, daeth yn ol i Forganwg, ac aeth yn was bach at amaethwr ger Caerffili. Ymddengys fod yr amaethwr hwnw mor greulon iddo—yn ei guro mor ddidrugaredd, fel y ffordd y bachgen oddi yno yn ddiarwybod. Yn ei grwydriadau, aeth trwy sir Fynwy i Grosmont, ar ffin swydd Henffordd. Cyflogwyd ef yno gan foneddwr urddasol o'r enw Syr John

Scudamore i ofalu am yr ystabl, &c., ac yn yr ystabl y cysgai. Wrth ei weled yn fachgen diwyd, o fuchedd mwy boneddigaidd na bechgyn yn gyffredin, rhoddwyd ychwaneg o gyflog iddo. Yn ddamweiniol, sylwodd rhai o'r teulu fod bachgen yr ystabl yn cario llyfr gydag ef i bob man, ac yn arfer ei ddarllen yn aml pan ga'i gyfleustra. Parodd hyn i'r boneddwr ei holi un diwrnod, er cael ychydig o'i hanes; ac er ei fawr syndod, cafodd fod y bachgen amddifad yn hyddysg yn y Lladin, y Seisneg, &c., heblaw'r Gymraeg. Nid oedd Sion i gysgu yn yr ystabl o hyny allan,—cymmerodd y boneddwr ef i'r ty, mynodd well gwisg iddo, a phennododd ef yn athraw teuluaid i'w blant. Wedi cael llawer o foddlonrwydd ynddo yn y swydd hono, anfonodd y boneddwr ef i Rydychain i'r Coleg, lle y daeth yn un o brif ysgolheigion yr oes. Yno urddwyd ef yn offeiriad, a chafodd Eglwys yn Emlyn. Wedi gwasanaethu ychydig yno, dychwelodd at deulu Syr John Scudamore, i Kentchurch, ger Grosmont, lle y bu yn gaplan i'r teulu hyd derfyn ei oes. Yr oedd yn fardd gwydych, ac y mae llawer o'i waith ar gael yn bresenol. Dywedir mai efe ysgrifonodd *Chwedl Ffion ab Gwalchmai, Rhian y Llwyn, &c.*, gyda *Llyfr yr Offeren, Ffengyl Ioan, &c.*, y rhai a gyfieithodd o'r Lladin i'r Gymraeg. Yr oedd Sion Cent a Syr John Oldcastle, Arglwydd Cobham, yn gyfeillion mawr, debygid; a phan ferthyrwyd hwnw, gwnaeth amryw gywyddau i alaru am dano; a rhyfeddod yw na chafodd yntau ei ferthyru hefyd.

Yr oedd noddwydd Sion Cent yn briod â merch yr enwog Owen Glyndwr; a bernir mai gyda'r teulu hwn y treuliodd y gwladgarwr dewr hwnw y rhan olaf o'i oes; a'i fod yn myned o Kentchurch i Monnington at ei ferch arall, mewn gwisg mynach, a Sion Cent gyda ef. Bernir i Sion gael ei eni tua'r flwyddyn 1350, ac iddo farw yn 1420. Wedi ei farwolaeth, lluniodd y Mynachod Pabaidd luaws o chwedlau ofergoelus am dano, y rhai a gedwir ar lasar gwlad yn ardal Caerffili a Grosmont hyd heddyw. Dywedir mai yr achos iddo ymadael â'r amaethwr ger Caerffili oedd fel y canlyn:—Anfonodd ei feistr ef ar fore oer i wyllo'r brain, rhag iddynt fyned i fwyta'r yd yn y caean. Yn fuan daeth yn ol, gan ei bod mor oer; a phan yn ymdwymno wrth y tân, daeth ei feistr atto yn chwerw, gan ofyn paham na wyliai y brain. "O, mae'r brain i gyd yn ddyogel yn nghastell Caerffili," ebe yntau. Y canlyniad fu i'r meistr ei guro am y fath attebiad, a ffordd yntau ymaith. Aeth y meistr i chwilio am dano yn mhen ychydig; ac wrth glywed swm dyeithr yn y Castell, aeth yno; ac er ei syndod, dyna lle'r oedd holl frain yr ardal yn ymladd â'u gilydd, yn methu myned ymaith, er fod y drysau a'r ffenestri yn agored. Pan aeth y dyn i'r Castell, ymosodasant arno, a thynasant ei lygaid. Chwedl arall a adroddir am dano mewn cysylltiad â *Phont Shon Cent*, ar afon Monnow, ger Kentchurch, yw iddo ei hadeiladu mewn un noson, yn cael ei helpu gan y diafol. Y gyflog oedd y diafol i'w gael am ei helpu, oedd cymmaint o gorff Shon ag a gleddid y tu fewn neu y tu allan i'r Eglwys. Er mwyn bod yn gyfrwysach na'r diafol, gorchymynodd Shon gladdu ei gorph yn union dan fur yr Eglwys, fel nad oedd rhan o hono y tu fewn na'r tu allan. Dywedir hefyd iddo un-

waith gyduno â'r gwr du i aredig cae iddo, ac y rhanent y cnwd yn y diwedd. Gwnaeth y diafol ei orchwyl yn gampus, trwy aredig yr holl gae mewn un noson. Gosododd Shon bytatws yn y cae; ac ar ddiwedd y tymhor, gofynodd i'r diafol pa ran oedd yn ewyllysio gael, —y rhan oedd yn y pridd, neu y rhan oddi ar y pridd? "Yr hyn sydd allan o'r pridd, wrth gwrs," ebe Satan, a chafodd y gwrysg, a Shon y 'tatws. Y flwyddyn ganlynol, gwnaeth gytundeb o'r fath â gwr y gynffon drachefn. Wedi i'r "hen fachgen" aredig y cae, hauodd Shon wenith ynddo. Ar ddiwedd y tymhor, gofynodd i'r diafol, pa un ai y rhan oedd yn y pridd, neu ynte y rhan oedd allan o'r pridd a fynai. "Ha!" ebe Satan, "a wyt ti yn meddwl fy nhwyllo y tro hwn etto? Na, mi a fynaf yr hyn sydd yn y pridd," Cafodd y gwraidd, a Shon y gwenith.

Cofier mai chwedlau mynachaid yw y rhai hyn, ac adroddir hwy mewn cyssylltiad ag hanes Twm Shon Catti, Robyn Ddu Ddewin o Fon, yn ogystal ac am Shon Cent. Amlwg yw mai gwr dysgedig, yn byw o flaen ei oes, oedd arwr Abertridwr; a dengys ei waith ei fod yn wr duwiol iawn.

BAGLAN, neu Llanfagan, sydd blwyf yn nghantrf Castellnedd, deoniaeth Gronedd, arch-ddeoniaeth ac esgobiaeth Llandaf. Saif y plwyf hwn rhwng Aberafan a Briton Ferry, a chynnwysa 6,479 o erwi o dir. Mae'r fywoliaeth Eglwysig wedi ei chyssylltu ag eiddo Aberafan, ac yn gydwerth £190 y flwyddyn, yn nawdd arhodd G. Llywelyn, Ysw., Y.H., Baglan Hall. Rai blynyddau yn ol, yr oedd maen yn mur y fynwent, â'r Groes Roegaid yn gerfiedig arni, gyda'r enw "Brancuf;" ond nis gwyddir pwy oedd y person, na pha oes y cerfiwyd y gareg. Bu y lle hwn yn enwog iawn amryw oesau yn ol, mewn cyssylltiad â llenyddiaeth. Dyma lanerch Llys Iwan ab Lleision, noddodd llenyddiaeth Morgauwg yn amser Dafydd ab Gwilym; ac yma y bu Dafydd yn ymryson â Rhys Meigen pan oedd y blaenaf yn Gyff Clêr. Bu'r llys hwnw yn enwog iawn o'r flwyddyn 1800 hyd 1400 fel noddle beirdd Morgauwg. Bu *Baglan Pill* hefyd yn fan y dygid cryn fasnach yn mlaen ynddo, gan fod y lle yn gyfleus i lwytho a dadlwytho llongau. Wedi gwneyd Porthladd Briton Ferry, aeth y *Pill* yn ddi-ddefnydd i raddau pell. Mae amryw Balasau gwychion yn y plwyf hwn, megys Baglan Hall, Baglan Cottage, Baglan House, Greenfield Lodge, &c. Yn Baglan House y cyfansoddodd y bardd Seisnig Mason ei Alareb am Lady Coventry. Yr oedd y bardd Gray ac yntau yn arfer ymweled â'r lle hwn yn amser y Parch. W. Thomas, yr hwn a adeiladodd y ty. Bu gwersyllfa Brydeinig o bwys yn y plwyf hwn yn y cynoesau, ar ben Mynydd y Gaer; ac odliar yr hen gaer, ceir golygfa ardderchog ar *Bay Abertawy*, a'r holl wlad o amgylch. Mae llawer o gyfoeth o lo yn y plwyf hwn, ac yn gyfleus iawn i borthladd Briton Ferry.

BARRY, neu Aberbarri, sydd blwyf bychan, 887 erw, yn nghantrf Dinas Powys, archddeoniaeth ac esgobiaeth Llandaf, tua 9 milldir i'r de-orllewin o Gaerdydd, yn nghanol gwlad iachus. Nid oes dim neillduol yn ffurf yr Eglwys; ond y mae ar y clochdy fath o groes hanner

fwaog o wneuthuriad cywrain. Mae amryw fedd-feini hynafol iawn hefyd yn y fynwent. Mae yma weddillion hen Gastell Normanaidd hefyd, a adeiladwyd yn 1092, gan Syr Gilbert Humphreville, un o Farchogion Robert Fitzhamon. Perigloriaeth yw y fywoliaeth eglwysig. Pobl. y plwyf yn 1861 oedd 87; ac yn 1871, yn 112. *Rateable value*, £596.

**BARRY. YNYS.**—Nid yw hon ond ynys fechan, yn mhlwyf Barri, yn cynnwys 182 erw o dir. Cafodd ei henw oddiwrth Sant Baruch, disgybl Gilsach, yr hwn a gladdwyd yna yn y flwyddyn 700. Mewn cyfnod diweddarach, aeth yr ynys yn eiddo teulu o'r enw De Barri, yr hwn a gymmerodd yr enw oddiwrth yr ynys. Un o'r teulu hwn oedd Giraldu de Barri, a adnabyddir yn well wrth yr enw Giraldu de Cambrensis, yr hwn a anwyd yn Manorbier (Maenor-bér), swydd Benfro. Dywedai Leland am yr ynys yn 1540, nad oedd un tŷ annedd arni, ond bod yno gapel bychan tlws i St. Baruch tua'i chanol, a bod llawer yn myned iddo ar bererindod. Ar y trai, gellir cerdded i'r ynys; ond ar y llanw, rhaid cael bad i fyned iddi. Bu olion dau gapel ar gwr gorllewinol yr ynys, a bernir mai yn un o'r rhai hyn y claddwyd Baruch. Ar du dwyreiniol yr ynys, y mae *bay* bychan, a elwir *Whitmore Bay*. Mae heol hefyd yn Nghaerdydd a elwir *Whitmore Lane*; a dichon fod y *bay* a'r heol wedi cael eu henwi oddiwrth yr un person. Ar du deheuol yr ynys, y mae man a elwir *Nell's Point*, lle y mae ffynon y bu llawer o gyrohu iddi ar Iau Dyrchafael gan fenywaidd, i olchi eu llygaid, a gollwng pin bach i'r ffynon, fel tâl am ei rhinwedd. Amryw flynyddau yn ol, perchenogid yr ynys gan Francis Crawshay, Ysw., yr hwn a adeiladodd balas arni, i fyw yno yn misoedd yr haf mewn difyrwch, yn pysgota, a dal gwingod, &c. Daeth yr ynys wedi hyn ym eiddo R. F. L. Jenner, Ysw., o Gastell Wenfo, yr hwn a friadodd ddwyn yr ynys i gryn sylw yn ddiweddar, trwy wneyd cledrffordd iddi, er mwyn i drigolion Caerdydd, &c., gael cyfle i ymbleseru arni yn misoedd yr haf. Cafwyd *Act Seneddol* i wneyd y gledrffordd yn 1866; ond ni wnaed dim hyd 1870, pryd y dechreuwyd y gwaith. Bwriadwyd ei gorphen yn 1871, ond ymddengys fod y draul yn llawer mwy nag y meddyliodd Mr. Jenner ar y cyntaf,—aeth y baich yn rhy drwm, a safodd y gwaith yn anorphenol. Lleddir tua 2,000 o gwingod ar yr ynys yn flynyddol. Gwerthwyd yr Ynys mewn arwerthiad cyhoeddus, Gor. 3, 1878, i'r Councillor Treherne, am £7,200.

**BETWS.**—Hen enw'r plwyf hwn oedd Llanyspyddel; ond y mae'r Eglwys bresenol wedi ei chyssegru i Dewi Sant. Adeilad digon diaddurn yw yr Eglwys, ac ar ei chlochdy y mae awel-fynag cywrain ar lun pysgodyn. Saif yr Eglwys tua 5 milldir i'r gogledd o Benybont, yn Undeb a Chantref Penybont, esgobaeth Llandaf. Golchir ochrau y plwyf hwn gan afonydd Garw a Llyfnwy, y flaenaf ar yr ochr ddwyreiniol, ar olaf ar yr ochr orllewinol. Mae rhanau helaeth o'r plwyf yn fynyddig; ac fel y rhan fwyaf o fynydd-dir Morganwg, yn llwythog o lo rhagorol. Mae Cledrffordd Maesteg a Phorthcawl, gyda'r gangen i Benybont, wedi ychwanegu llawer at gyfleustra mas-



naehol y plwyf. Yn y plwyf hwn y mae palas y Goytre Hen, preswylfa Alexander Brogden, Ysw., A.S., enw yr hwn sydd yn air teuluaid yn Morganwg, yn nglun a *strike* 1878. Perchen y palas hwn gynt oedd boneddwr o'r enw Powell; ond daeth trwy briodas yn eiddo teulu Treharne, ac y mae wedi bod yn eiddo y rhai hyn yn hir iawn. Mae A. Brogden, Ysw., a'i frodyr wedi ychwanegu llawer at lwydd yr ardal, gan y perchenogant Haiarnfa y Ton Du a'r Maesteg, yn nghyd ag amryw Lofeydd yn y parthau hyn, ac yn mhlwyf Aberdar. Mae £2 y flwyddyn oddiwrth ystad y Goytrehen i dlodion y plwyf, a 80s. yn ychwanegol oddiwrth dollau ffordd fawr Penybont. Mae'r fywioliaeth Eglwysig, fel eiddo Trelalys a Llandudwg, wedi ei chyssylltu ag eiddo Ficeriaeth Castell Newydd Penybont, ac yn werth gyda'u gilydd £550 y flwyddyn. Mae capel ymneillduol yn y plwyf gan yr Undodwyr, yr hwn a fu gynt yn eiddo yr Annibynwyr. Mae yr olaf wedi ei waddoli â £40 y flwyddyn gan deulu Dr. R. Price. Yn y plwyf hwn y preswyliai yr awenydd coethfarn John Bradford (Ieuan Tir Iarll), yr hwn oedd orsedd-fardd Morganwg yn 1760. Efe oedd athraw Iolo Morganwg, a chando ef y cafodd Iolo gopi ysgrifenedig o *Gyfrinach y Beirdd*. Yr oedd John Bradford yn briod â merch Lewis Thomas, Ysw., Ty'n y Bettws, yr hwn a fu yn Uchel Sirydd Morganwg yn 1611 a 1628. Mae yr hen dŷ yn adfeilion er ys blynyddau bellach. Yn y plwyf hwn y mae amaethdy Celfydd Ifan, lle y gwelodd Dr. Davies, Esgob Ty Ddewi, Bum' Llyfr Moses wedi eu cyfieithu i'r Gymraeg pan oedd ef yn ieuange. Soniai ef am hwnw yn ei lythyr, a gyhoeddwyd gyda Thestament W. Salisbury yn 1667. Bernir i'r cyfieithiad hwnw o Bum' Llyfr Moses gael ei wneyd o'r Lladin, tua'r flwyddyn 1470, gan un o deulu Celfydd Ifan, a dichon mai yr Ifan Gelfydd, ar enw yr hwn y mae'r tŷ, a'u cyfieithiodd. Mae yn amlwg oddiwrth weddillion hen ffwrnes sydd ar dir Pwllcorn, Cwm Garw, i waith haiarn *bloomaidd* fod yma rai oesau yn ol. Yn nheyrnasiad Charles I., yr oedd amryw o'r ffwrnesi hyn ar waith yn Morganwg, a digon tebyg mai yr amser hwnw y bu hon mewn gwaith. Bernir fod glo yn cael ei weithio mewn leflau bychain yn y plwyf hwn, ar dir Braich y Cymmer, er ys 200 o flynyddau, ac y mae o ran ei natur yn un rhagorol iawn. Mae dau waith glo o ddyddiad diweddar yn agos i bentref y Bettws yn bresenol. Maint y plwyf yw 5,086 o erwi. Nifer y tai, 88. Poblogaeth yn 1861, 871; yn 1871, 404.

**BLARN GWRACH.**—Anhawdd gwybod paham y gelwir yr afonig wrth yr enw Gwrach, er i mi weled mewn llyfr mai y rheswm oedd, fod lluaws o chwedlau gwrachiaidd yn cael eu credu yn y parth hwn; ond nid yw yn debyg fod preswylwyr y parth hwn yn fwy ofergoelus na phobl ereill yn yr oesau tywyllion. Rhandir neu faenor ydyw, yn furfio Capeliaeth yn mhlwyf Glyn Corrwg, yn mhen uchaf Cwmnedd, yn Undeb a Chantref Nedd, a thua 10 milldir i'r dwyrain o Gastell-nedd. Mae sefyllfa'r pentref yn dra manteisiol i gael golwg ar brydferthion amrywiol y rhan uchaf o Ddyfryn Nedd, y rhai ydynt gyda'r harddaf yn Morganwg. Mae yma Eglwys fechan, yr hon sydd yn Gapel Anwes i Eglwys Glyn Corrwg; ac y mae capel yma hefyd gan

yr Undodiaid. Mae cryn ddadl yn mhlith haneswyr o barthed dechreuad Ymneillduaeth yn y lle. Barna rhai mai y Parch. Howell Thomas, offeiriad Glyn Corrwg, un o'r "Ddwy Fil," a ddechreuodd yr achos ymneillduol yma yn amser Charles II., ac i eglwys flodeuog godi yma gan yr Annibynwyr. Barna ereill, gan fod y lle o fewn tua milldir a chwarter i'r Glyn Eithinog, preswylfa yr enwog Thos. Llywelyn, yn 1540, ei fod yn bur debyg mai efe ddechreuodd yr achos yn Mlaen Gwrach. Beth bynag, am ddechreuad yr achos, nis gellir ei benderfynu. Anhawdd hefyd penderfynu mai Annibyniaeth, yn ol yr ystyr a roddir yn awr i'r enw, oedd yma ar y cyntaf. Etto, amlwg yw i'r eglwys fod yn perthyn i'r enwad hwnw am flynyddau mewn oes ddiweddarach. Yma y cychwynodd y Parch. Lewis Rees ei yrfa. Ganwyd ef yn Glyn-llwydrew, yn y plwyf hwn, Mawrth 2, 1710. Mab ydoedd i Rees Edward Lewis, yr hwn oedd fab i offeiriad Penderyn. Yr oedd rhieni Lewis Rees yn aelodau ymneillduol yn nghapel Blaen Gwrach, ac yma y dechreuodd yntau ei yrfa grefyddol a phregethwrol. Derbyniodd ei addysg foreuol gan Mr. Davies, gweinidog y capel, yr hwn a'i hanogodd i ddechreu pregethu. Bu yn efrdyd hefyd dan yr athrawon canlynol:—Y Parch. Joseph Simmons, Castellnedd; Mr. Price, Ty'nton, Penybont; ac yn Athrofa y Maesgwyn, dan ofal y Parch. Vavasor Griffiths. Symmudodd i Lanbryn-mair yn 1734, i ofalu am yr eglwys hono. Yn 1738, urddwyd ef yn Nghapel Blaen Gwrach yn weinidog i eglwys Llanbryn-mair. Bu yn weinidog yno am 25 o flynyddau, ac am 40 mlynedd ereill yn y Mynyddbach, plwyf Llangyfelach, Morganwg. Bu farw Mawrth 21, 1800, yn 90 mlwydd oed. Mab iddo ef ydoedd yr enwog Dr. Abraham Rees, golygydd yr *Encyclopedia* helaeth sydd ar ei enw, yr hwn, meddir, yw y gwaith helaethaf a olygwyd erioed gan un person. Er nad oes amheuaeth fod cynulleidfa o Bresbyteriaid yn Mlaen Gwrach yn gynnar yn yr 17eg ganrif, nid ymddengys fod capel yno cyn y flwyddyn 1704, pryd yr adeiladwyd y capel presenol y waith gyntaf. Ail-adeiladwyd ef yn 1836. Yn 1819, adeiladodd y diweddar Aurhyd. W. H. Wyndham Quin, yr hwn a wnaed yn Iarll Dunraven, balas hardd yn y lle hwn, a elwir yr Ynys Las, a bu y boneddwr hwnw yn byw ynddo. Preswylid yr Ynys Las hyd yn ddiweddar gan Miss J. Williams, gynt o Aberpergwm, yr hon fu yn dra enwog, fel Lady Llanofor, am ei nawdd i lenyddiaeth y Cymry; bu farw yn 1873. Agorwyd gwaith glo a haiarn yn ymyl y lle yn 1814 gan T. Protheroe, Ysw.; ond ni ddaeth i lwyddiant mawr. Mae digonedd o lo yn y ddaiar yn yr ardal; ond nid yw o'r fath oreu, gan ei fod yn fath o hanner glo careg. Dyna enwau ac amseriad gweinidogion capel Blaen Gwrach:—Henry Davies, 1712 hyd 1721; Thomas Morgan, 1779 hyd 1813; John Davies am ychydig; W. Williams, 1815—1834; Owen Evans, 1836—1837; Thos. Rees, 1837—1840; David Jones, hyd 1847; Evan Lewis, 1851; yn bresenol, Jenkin Williams.

**BLAENLLECHAU.**—Saif y pentref hwn yn Nghwm Rhondda Fach, ac yn rhanol yn mhlwyfi Ystrad-dyfordwg a Llanwynno. Mor ddiweddar a'r flwyddyn 1860, nid oedd yma ond mynydd-dir anffrwythlon, heb

nemawr ddim yn afonyddu ar ddystawrwydd y cwm oul ond siad yr afon, brefiad y defaid, a llais ambell fugail a'i gwn. Yn 1862, dechreuodd cyfnod newydd yn y lle, trwy i D. Davis, Ysw., Blaengwawr, suddo pwll glo yma i'r dyfnder o 278 o latheni. Gan nad oedd anneddau yn y lle i'r gweithwyr, codwyd ar du Ystradyfodwg i'r afon, res o fythod a elwir *Barrucks*, y rhai ydynt waelion dros ben—rhy wael o lawer i ddynion sydd yn llafurio yn galed yn mherfedd y ddaiar. Wedi hyny, adeiladwyd rhesi mawrion o dai gwell o lawer a mwy cyfleus. Fel yr oedd y lofa yn eangu, a'r bobl yn lluosogi, codwyd rhes ar ol rhes yn ychwanegol, fel y daeth mewn ychydig amser yn bentref mawr a phoblog; a myn rhai ei alw yn Dre Rhondda.

Tachwedd 8, 1867, ffrwydrodd y llosgnwy yn y pwll, yr hyn a achosodd gyflafan ofnadwy ar fywydau; lladdwyd 178 o'r glowyr.

Y Lofa gan y ffrwydriad nnaed,  
 Fel maes y gwaed ar ddydd y rhyfel;  
 A thorf o laddedigion gaed,  
 Trwy'r gwaith yn gelaneddau tawel;  
 Y pwll oedd megys uthrol fedd,  
 A ehyrf y glowyr yn ugeiniau  
 Yn gorwedd yno'n wael eu gwedd  
 O dan haiarnaidd wadnau angau.

Mehefin 11, 1869, ffrwydrodd y nwy drachefn, a cholodd 47 eu bywydau, sef 225 y ddau dro. Wedi'r ffrwydriadau dinystriol hyn, aeth y perchenog i'r draul o suddo pwll arall yn uwch yn y cwm, yr hwn a orphenwyd yn 1871, er cael gwell awyriad i'r gwaith. Mae'r pwll newydd dri chwarter milldir oddiwrth y llall, ac yn 225 llath o ddyfnder. Yn 1870, codwyd 98,009 o duunelli o lo o'r pwll y ffrwydrodd y nwy.

Mae yn y lle bedwar capel gan yr Ymneillduwyr, y rhai ydynt a ganlyn:—1. Nazareth, Bedyddwyr, 1866, gydag eisteddleoedd i 600 o bobl; 2. Tre Rhouda, Annibynwyr, 1867, a lle i 600; 3. Carmel, Trefnyddion Calfnaidd, 1870, ag eisteddleoedd i 500; 4. Bethel, Wesleyaid, 1871, ag eisteddleoedd i 500. Dengys hyn yn amlwg nad yw agwedd foesol a chrefyddol y lle yn isel.

BONVILSTON, neu Tre Simwn, sydd blwyf yn cynnwys 1,178 erw, yn nghantref Dinas Powys, tua 4 milldir i'r dwyrain o'r Bontfaen, a thuag 8 milldir i'r gorllewin o Gaerdydd, ar ochr y brif-ffordd rhwng y ddau le a enwyd. Cafodd y lle ei enw oddiwrth Simon Bonville, yr hwn oedd brif oruchwyliwr Syr Robert Fitzhamon; a rhoddodd y Marchog hwnw y lle iddo yn etifeddiaeth pan ranwyd Morganwg. Ymddengys i Simon Bonville, yn ol arfer yr oes hono, adeiladu Castell yn breswylfa iddo ei hun a'i deulu. Saif gweddillion yr hen Gastell hwnw tua chwarter milldir i'r gogledd o'r pentref. Nid yw'r pentref yn bresenol ond bychan a diaddurn, a phrif orchwyl y trigolion yw amaethu. Mae'r Eglwys wedi ei chyssegru i Mair Forwyn; a'r fyw-

oliaeth yn Guradiaeth barhaol, gwerth £88 y flwyddyn; ac nid oes un addoldy ond yr Eglwys yn y plwyf. Mae'r tlodion yn derbyn llog blynedd oddiwrth elusenau a adawyd iddynt gan y personau canlynol:—Yn 1678, gadawodd Mrs. Grace Aubrey £100 i ddwyn llog i dlodion y plwyf; yn 1776, gadawodd Mrs. Loughor £50 i'r un dyben; a David John £10,—y cwbl yn £160. Yr oedd poblogaeth y plwyf yn 291 yn 1861, a 285 yn 1871. Pris ardrethol a wnaed Medi 29, 1871, yn £1,551.

BOVERTON—*Trebefered* y Cymry, sydd bentref bychan hynafol, tua milldir i'r dwyrain o Lanilltyd Fawr. Bu yma orsaf Rufeinig enwog iawn, yr hon a elwid *Bovum*, gan *Antonius*. Safai ar ochr yr Heol Rufeinig a elwid *Julia Strata Maritana*. Wedi ymadawiad y Rhufeiniaid, defnyddid yr orsaf yn un o lysoedd gwladol, a phreswylfa Tywysogion Morganwg. Yr oedd palas gwych gan Iestyn ab Gwrgan yma, a pherthynai iddo 900 erw o dir. Daeth y palas a'r faenor yn eiddo R. Fitzhamon, yn 1091; a bu yn meddiant y teulu hyd amser Richard III, pan ddaeth yn eiddo Harri VII, gydag Arglwyddiaeth Morganwg. Rhoddwyd y lle hwn yn eiddo i Jasper Tudur, Duc Bedford, gan Harri VII, am yr ystyriai y lle yn rhan o Arglwyddiaeth Morganwg. Lladdodd Jasper Duc Bedford, un o'r enw Herbert yn Nghaerdydd, yr hwn oedd fynach parchus; a bu'r Duc yn ymguddio yma am gryn amser, rhag dial Esgob Llandaf. Trwy eiriolaeth Gruffydd Voss, o'r lle hwn y cafodd y Duc faddeuant yr esgob, am y llofruddiaeth hwnw a dau ereill. Wedi i Jasper Tudur gael maddeuant, efe a roddodd Gastell Boverton gyda rhan o'r faenor, yn anrheg i Voss am achub ei fywyd. Ar farwolaeth un Griffith Voss, aeth y castell a'r tir perthynol iddo yn eiddo ei ferch, yr hon a briododd â Sergeant Seys; yr hwn a brynodd lawer o'r tir sydd rhwng y castell a'r mor gan un o'r Vannus, gyda rhai tiroedd ereill, nes daeth ei eiddo yn ystâd fawr iawn. Darfu iddo dynu i lawr yr hen amddiffynfeydd oedd ger y castell hefyd, a throi y Parc eang oedd yno yn gynnifer o gaeau. Efe hefyd wnaeth yr heol sydd yn arwain o Boverton i Lanilltyd Fawr.

Mae yr hen balas mawreddog yn adfeiliedig iawn yn bresenol, heb do arno, a'i furiau yn orchuddiedig gan iorwg. Prynwyd yr ystâd gan Syr J. J. Guest, Bar., ac y mae yn eiddo ei fab Syr Ifor B. Guest yn awr.

BRITON FERRY, neu Llansawel, sydd blwyf a thref ar lân afon Nedd, tua 2½ milldir i'r de o Gastellnedd, deoniaeth Gronedd uchaf, adran orllewinol, archddeoniaeth, ac esgobaeth Llandaf; 10½ milldir i'r dwyrain o Abertawy, 85 i'r gorllewin o Gaerdydd, 205½ o Lundain gyda'r G. W. R., a 194 dros yr heol. Bu'r lle hwn yn cael ei enwi mewn hen lyfrau a mapiau yn *Berton Ferry*; a bernir iddo gael yr enw hwn gan y Ffandrwsys. Arferid croesi yr afon yma am oesoedd er byrhau y ffordd i Abertawy, yn hytrach na myned trwy Gastellnedd. Yma y croesodd yr Archesgob Baldwin yn 1188, pan ar daith trwy y wlad i annog y bobl i ymresu i ymladd Rhyfeloedd y Groes. Aeth Morgan ab Caradog, Arglwydd Aberafan i gyfarfod yr Archesgob i

Fargam, a dygodd ef a'i gymdeithion mewn badau yn groes i afon Nedd, a bu agos iddynt a boddi am i'r badau fyned ar y tywod. Bu palas Briton Ferry, yn breswylfa Manseliaid Morganwg am oesoedd lawer. Yr oedd, ac y mae y teulu hwn, gyda'r cyfoethocaf a pharchusaf yn y sir; ac y maent wedi cynnrychioli y sir yn y Senedd 23 o weithiau. Un o'r teulu yw yr Anrhydeddus C. R. M. Talbot, A.S., Abbatty Margam. Dywed hanes fod etifeddiaeth Manseliaid Briton Ferry gynt yn 40,000 o erwi, yn wasgaredig mewn 40 plwyf. Daeth y palas yn eiddo Arglwydd Vernon trwy briodas, a gelwid ef mewn canlyniad Tŷ Vernon. Rhoddwyd y lle gan Arglwyddes Vernon, i fab ieuengaf Iarll Jersey; ac ar ei ol ef, daeth yn eiddo y Iarll Jersey presenol, yr hwn trwy arwerthiad a leihaodd yr ystad i 8,000 o erwi.

Darfu i agoriad Camlas i'r lle yn 1797, beri i fasnach gynyddu yn yr ardal; a bu i'r llwytho a dad-lwytho glo, &c., ger y palas, ei anaddasu i raddau i fod yn breswylfa pendefig. Tua'r flwyddyn 1842, cymmerwyd y palas gan foneddwr o'r enw Leach, yr hwn a'i trafodd yn wallgofdy; a bu mor llwyddiannus gyda hyn, fel y gallodd fyw yn annibynol ar ei eiddo yn mhen ychydig flynyddau. Priododd merch Leach a Dr. Pegge, yr hwn a ymgymmerodd a'r sefydliad ar ol ei dad-yn-nghyfraith; ac arferai tua 290 o wallgoftiaid gael eu cadw yma. Pan agorwyd y Gwallgofdy Sirol, ger Penybont yn 1865, symmudwyd 250 o'r trueniaid yno; ond cedwir tua 100 yn Briton Ferry yn bresenol, y rhai ydynt *private patients* dan ofal Dr. Pegge.

Nid oedd y lle hwn ond pentref bychan iawn hyd yn ddiweddar; ond y mae'r manteision masnachol sydd wedi eu cyssylltu ag ef, yn ystod yr ugain mlynedd diweddar, wedi ei wneyd yn fan pwysig iawn mewn ystyr drafnidol. Fel y sylwyd, agorwyd Camlas Cwm Nedd i'r lle hwn yn 1797; ond ar raddfa fechan y dygid masnach yn mlaen ar hwnw, gan nad oedd yma borthladd cyfeus. Pa fodd bynag, gydag amser, symmudwyd yr anghyfleustra hwn hefyd, trwy wneyd porthladd eang a manteisiol yn y lle. Agorwyd y porthladd newydd yn mis Awst, 1861. Mae nosfe fewnol y Llongborth yn 13 erw o arwyneb, a'r un allanol yn 11 erw, gyda pheiriant dyfrol (*Hydraulic Machinery*) Syr W. Armstrong at lwytho a dadlwytho llongau, &c., ar yr un cynllun ag eiddo Abertawy. Yn 1870, daeth 2,898 o longau i'r porth hwn; ac yr oedd ei fasnach, gydag eiddo Castellnedd, yn 457,567 o dunnelli. Mae yn y dref orsaf ar gledrffordd y G.W.R., cangen Deheudir Cymru; ac y mae yn derfyn arllwysol y *South Wales Mineral Railway*, yr hon sydd yn cyssylltu'r lle ag ardaloedd mwnol Glyn Corrwg, Fforchdwm, Afonvale, &c. Mae yn y lle weithfeydd eang hefyd, megys Haiarnfa Briton Ferry, lle y mae dwy dawdd ffwrnes, morthwylfa, a melinau pwrpasol at wneyd pob math o haiarn marchnadol, megys cledrau, barrau, &c. *Vernon Tin Plate Works* a'r *Baglan Tinning Works*, ydynt weithfeydd eang hefyd, lle y gwneir miloedd o lafnau tin yn wythnosol. Mae *Patent Fuel Works* yma hefyd, gan berchenogion Glofa Glyncorrwg. Mae'r gweithfeydd hyn wedi peri cynnydd mawr yn y lle, fel y mae Briton Ferry, bellach, yn haeddu cael ei rhesu yn mhlith prif drefi masnachol Morganwg. Llyw-

odraethir y dref gan Fwrdd Iechyd: un rhan o dair o'r aelodau a ant allan o swydd yn flynyddol, ond yn agored i ail etholiad. Yn 1860, gan fod y lle yn cynnyddu mor gyflym, barnwyd yn ddoeth cael *Gas Works* i'r lle; a goleuir y dref â nwy oddiar hyny. Yn 1866, adeiladwyd Eglwys newydd yn y lle, ac a elwir St. Clement's, yr hon sydd adeilad hardd, mewn arddull Gothig, gwerth £2,500; mae ynddi organ gwerth £300, ac iddo 17 o *stops*. Gwnaed hon yn Eglwys blwyfol, gan gyfrif hen Eglwys Fair yn *Chapel of Ease* iddi. Yr oedd yr hen Eglwys yn lled adfeiliedig pan adeiladwyd St. Clement's; ond y mae Iarll Jersey wedi myned i'r draul o'i hadnewyddu. Ficeriaeth yw'r fywoliaeth, gwerth £185 y flwyddyn, yn rhodd Iarll Jersey, yr hwn yw Arglwydd y faenor, a pherchen holl dir y plwyf. Mae yma luaws o gapeli Ymneillduol heirdd, o adeiladiad diweddar, y rhai ydynt a ganlyn:—Bethesda, Annibynwyr, 1848; Rheoboth, Bedyddwyr, 1848; Bethel, Trefnyddion Calфинаidd, 1848; Wesleyaid Seisnig, 1857; Bedyddwyr Seisnig, 1864; Giant's Grave (r.c.), 1870. Cynnwysa y gwahanol gapeli hyn eisteddleoedd i fwy na thair mil o bobl, a'r Eglwys i 500. Yn 1867, gwnaed *Water Works* yma, fel y mae digonedd o ddwfr glan yn y dref. Maint y plwyf yw 1,593 o erwi, ei ardrethiad yn £11,100, a'i brisiad yn £8,268. Poblogaeth,—Yn 1782, 155; yn 1801, 271; yn 1831, 417; 1841, 612; yn 1851, 1,787; yn 1861, 3,781; yn 1871, 4,808.

BRYNAMAN, neu'r Gwtter Fawr, sydd bentref gweithfaol a chynnyddol yn mhlwyf Llangiwc, gyda rhannau o hono yn sir Gaerfyrddin. Rhed afon Aman trwy ganol y lle, yr hon sydd yn ffurfio'r ffin rhwng y ddwy sir yn y parth hwn. Mae y rhan-eydd o'r lle ar y tu dheuol i'r ffin, sef y parth sydd yn Morganwg, yn dra chyfoethog mewn glo a mwn haiarn, y rhai a weithir yma ar raddfa eang. Ymddengys mai gwr o'r enw J. Jones, Ysw., Brynbrain, ddechreuodd agor y drws i seler y trysorau yn y lle hwn, tua'r flwyddyn 1832; ond gan fod y lle mor bell oddiwrth borthladd, a chyfleustra trosglwyddo mor brin y pryd hwnw, ni ddaeth ei waith ef i nemawr fri; etto, bu ei anturiaeth ef yn foddion i agor llygaid anturiaethwyr ereill, a dwyn eu sylw at y lle. Yn 1847, adeiladwyd Gwaith Haiarn yma, yn ochr Morganwg, a chymmerwyd atto gan Ll. Llewelyn, Ysw., Ynyspenllwch. Yn ychwanegol at y ffwrnes tawdd, fe adeiladwyd morthwylfa fechan yma at orphen gweithio'r haiarn, a daeth y gwaith yn mlaen yn llwyddiannus. Gwnaed Ffordd Haiarn o'r lle i gyfarfod â ffordd haiarn Cwmaman a Llanelly, er mwyn cludo yr haiarn i'r farchnad, a dwyn nwyddau ereill i'r lle gydag hwylusdod. Yn ddiweddarach, newidiwyd enw y *firm* yn *Aman Iron Company*, a chynnwysa y gwaith dair ffwrnes a morthwylfa. Yn 1871, dechreuwyd adeiladu Gwaith Alcan yma, yn y rhan a berthyna i sir Gaerfyrddin, yr hwn sydd yn gweithio yn awr yn fywiog a llwyddiannus, ac y mae wedi ychwanegu llawer at bwysigrwydd yr ardal. Mae dwy gledrffordd yn rhedeg i'r lle er ys blynyddau, bellach, sef y *Llanelly Railway* a'r *Swansea Vale Railway*, ac una'r ddwy a'u gilydd yn nghanol y lle. Mae yma Capel Eglwysig, a chapeli Ymneillduol, sef Gibea (A), 1842-56; a Moriah (r.c.), 1871.

**BRYNTRONDGAM.**—Pentref gweithfaol a phoblog rhwng Maesteg a Chwmafan. Prydleswyd y tir yn 1832, a dechreuwyd agor gweithfeydd glo y lle yn 1840. Perthyna y glofeydd i Gwmafan, ac y mae cleddyffordd yn rhedeg o'r Bryn i'r Cwm, er cludo y trysor at y gwaith haiarn, copr, &c. (Gwel CWMAFAN.)

**CADOXTON**, neu Llangattwg ger Barri, sydd blwyf yn nghantrf Dinas Powys, Undeb Caerdydd, archddeoniaeth ac esgobaeth Llandaf. Saif yr Eglwys, yr hon sydd wedi ei chyssegru i Cattwg, tuag 8 milldir i'r De-orllewin o Gaerdydd, ar lan Mor Hafren. Rectoriaeth yw'r fywoliaeth, gwerth £100 y flwyddyn, yn nawdd a rhodd teulu Jenner, Castell Gwenfo. Mae capeli Ymneillduol hefyd yn y plwyf, megys Philadelphia (B.), Seion (T.C.), Bethel (W.), a chapel Wesleyaidd Seisnig. Maint y plwyf yw 1,028 erw; poblogaeth, yn 1861, 279; yn 1871, 252; *valuation*, £1,062.

**CAERAU.**—Plwyf yn nghantrf Cibwr, Undeb Caerdydd, archddeoniaeth ac esgobaeth Llandaf, yn mesur 746 erw. Saif yr Eglwys, yr hon sydd wedi ei chyssegru i Mair, tua thair milldir a hanner i'r gorllewin o Gaerdydd. Derbyniodd y lle ei enw presenol oddiwrth y Gaerfa Rufeinig fawr fu yma gynt, gweddillion yr hon sydd yn amlwg yn awr, a'r Eglwys wedi ei hadeiladu ar ganol yr adfeilion. Safai y Gaerfa ar tua 12 erw, ac amlwg yw ei bod o ffurf hir-onglog, yn amddiffynedig ar y tu gogleddol gan un mur, ar y tu gorllewinol gan ddau, ac ar y tu deheuol gan dri mur. Barna llawer mai dyma *Tybia Amnis* y Rhufeiniaid. Wedi ymadawiad y Rhufeiniaid o'n gwlad, bu Gweirydd ab Brochfael, Tywysog Morganwg, yn byw yma, ac yn cynnal ei lys yn Nghaerdydd. Efe adeiladodd Eglwys gyntaf yn y lle, yr hon a elwid Llanweirydd am oesau lawer; ond pan ail adeiladwyd hi, a'i chyssegru i Mair, galwyd hi yn Eglwys y Caerau. Yn amser Iolo Morganwg, yr oedd beddfaen dan ffenestr yr Eglwys er cof am William Edwards o'r Caerau, yr hwn a fu farw Chwef. 24, 1668, yn 168 mlwydd oed. Mae'r Eglwys wedi ei gwaddoli â £100 o rodd freninol, yn nhadogaeth *Prebendary* y Caerau yn Mhrif Eglwys Llandaf, a chanddi hawl ar ddegwm plwyfi Penderi, a Llandogo, yn Mynwy, heblaw ei phlwyf ei hun. Curadiaeth barhaol yw'r fywoliaeth, yn werth £60 y flwyddyn. Amaethwyr yw trigolion y plwyf, gan mwyaf, y rhai a rifent 131 yn 1861, a 102 yn 1871. Ardreth y plwyf, Medi 1871, oedd £1,069. Yr Eglwys yw yr unig le o addoliad yn y plwyf.

**CAERDYDD** (*Cardiff*).—Prif dref Morganwg. Sefyllfa ddaiaryddol y dref yw 3°20 hydred gorllewinol a 51°30 lledred gogleddol, ar lan afon Taf, ger y fan yr abera hono yn Mor Hafren. Bu am oesoedd yn unig brif dref y Sir; ond yn ddiweddar y mae Abertawy wedi ei gwneud yn brif dref hefyd, a chynnelir y Brawdlysoedd ynddynt bob yn ail—Brawdlys y gwanwyn yn Abertawy, a Brawdlys diwedd yr haf yn Nghaerdydd. Ei phellder o Lundain yw 158 milldir dros yr heol, a 170 gyda Chledrffordd y *Great Western*. Ei phellder o wahanol fanau ereill gyda'r cleddyffydd sydd fel y canlyn:—O Aberdar, 28 milldir; Abertawy, 45½; Birmingham, 112; Caerfyrddin, 76½; Derby, 151½; Edinburgh, 377; Glasgow, 342; Leeds, 193; Liverpool, 165; Llan-

trisant, 17; Manchester, 168½; Merthyr Tydfil, 24; Milford Haven, 115; Newcastle ar y Tyne, 268; Penfro, 118; Pontypridd, 12; Rhymni, 24½; Shrewsbury, 116; Treherbert, 28; Worcester, 80½; Ystrad Rhondda, 14½. Mae'r dref bob amser yn cael ei nodi allan fel un wedi ei hadeiladu mewn dau blwyf, sef Plwyf Mair a Phlwyf Ioan Fedyddiwr; ond bellach, y mae ei helaethiad yn gyfryw, fel mai priodol yw dweyd ei bod yn sefyll mewn pedwar plwyf, sef y ddau a nodwyd, yn nghyda phlwyfi Roath a Llandaf. Saif yn nghanntref Cibwr, undeb a dosparth llys sirol o'i heiddo ei hun, deoniaeth, archddeoniaeth, ac esgobaeth Llandaf. Ymddengys iddi gael ei hadeiladu yn Gaer am y tro cyntaf tua'r fiwyddyn 58 o.c., gan Aulus Didius, y swyddog Rhufeinig a ganlynodd Ostorius, gorchfygydd Essyllwg. Gwahaniaetha haneswyr yn fawr o barth enw Rhufeinig y lle. Barnai Richard o Cirencester mai *Iupapanna* oedd, a barnai Stuckely mai *Tibia Amnis* y Rhufeiniaid yw; tra y barnai Camden mai *Ratostabius* yw, a bod plwyf Roath yn deilliaw o'r enw Rhufeinig. Dywed rhai mai Caer Daf oedd enw Cymreig y dref ar y cyntaf, tra y barnai ereill gyda mwy o briodoldeb mai Caer Didi oedd. Galwai y Cymry Aulus Didius wrth yr enw Didi Gawr, a chan mai efe adeiladodd y gaer gyntaf yn y lle, yr oedd yn naturiol iddynt enwi y fan yn Gaer Didi, ac iddo gael ei lygru neu ei newid mewn oesoedd yn Gaerdydd. Wedi ymadawiad y Rhufeiniaid o'n gwlad yn 440 o.c., ac i'r Tywysogion Cymreig adsefydlu llywodraeth yn y parthau hyn, cawn hanes eu bod ar rai adegan yn cynnal eu llysoedd yn y dref hon; ond ar un achlysur, llosgodd y Sacsoniaid y dref yn llwyr, a bernir iddi aros yn garnedd o adfeilion hyd y ddegfed ganrif, pryd yr ail-adeiladwyd hi gan Morgan Mawr, sef Morgan Hen, brenin Morganwg. Tref fechan ac amddiffynfa goed adeiladodd Morgan yma, a dinystriwyd hi drachefn gan y Sacsoniaid. Yn y fiwyddyn 1080, gwnaed cynnyg arall at adeiladu y lle yn helaethach a chadarnach nag y bu erioed o'r blaen. Y prif ysgogydd yn y gwaith hwn oedd Iestyn ab Gwrgan, Tywysog Morganwg. Nid oedd y dref a'r amddiffynfeydd yn orphenol ganddo pan diriodd Robert Fitzhamon a'r Normaniaid yma yn 1089. Cynnwysai y gwaith a ddechreuwyd gan Iestyn gastell cadarn a thref fechan, gyda muriau trwchus o amgylch y dref a'r castell, a ffos ddofn tu allan i'r cwbl. Wedi i'r Normaniaid orchfygu Iestyn, a chymmeryd meddiant o diroedd breision Bro Morganwg, cadwodd R. Fitzhamon y dref hon yn eiddo iddo ei hun, ac aeth yn mlaen a'r gwaith ddechreuwyd gan Iestyn, nes gorphen y castell a'r muriau, &c. Yr oedd yn y mur a amgylchynai y lle bedwar porth, y rhai a elwid Porth Senghenydd, Porth y Felin, Porth y Morfa, a'r Porth Dwyreiniol. Safai Porth Senghenydd ar y tu gogleddol, lle y mae North Street yn awr. Porth y Felin ydoedd ger y Castell, ar y tu gorllewinol. Safai Porth y Morfa ger pen Mill Lane yn awr; a'r Porth Dwyreiniol ger y fan a elwir *Pillers*, lle y mae'r camlas a'r heol yn ymgroesi yn Crockerhtown. Yr oedd y mur tuag wyth troedfedd o drwch a deuddeg o uchder, yn cael ei gadarnhau â thyllau crynion hynod gedyrn. Y tu allan i'r muriau, ar du'r gogledd, dwyrain, a'r de, yr oedd ffos ddofn, ac y



mae'r camlas yn awr yn rhan o'r hen ffos. Ar y tu gorllewinol, yr oedd afon Taf yn gwasanaethu yn lle ffos. Mae peth o'r hen furiau yn weledig yn awr, a safai rhai o'r tyrau hyd yn ddiweddar. Yn 1842, syrthiodd Twr y Wyliadwriaeth, yr hwn a safai ar gongl gogledd-ddwyreiniol y mur. Safai Twr y Ceiliog tua hanner y ffordd rhwng Porth y Dwyrain a Phorth y Morfa, ac yr oedd rhan o hono yn sefyll mor ddiweddar a'r flwyddyn 1854.

*Y Castell.*—Gwnaeth Fitzhamon y castell yn gadarn iawn, ac yr oedd iddo dwr uchel a elwid y Twr Du. Dwy ystafell isaf y twr hwn, sef Ystafell yr Oged, a'r Ystafell Wen, a ddefnyddid yn garchar am oesoedd. Yn y castell hwn y preswyliai R. Fitzhamon y rhan fwyaf o'i amser, ac yma y cynnalai ei lys yn fisol; tra'r Marchogion Normanaidd ereill yn eistedd fel rheithwyr, ac yn rhoddi cyfrif iddo am helyntion eu harglwyddiaethau eu hunain, &c.

Yn 1094, pan oedd y castell newydd ei orphen, ymosodwyd arno gan y Cymry, yn cael eu blaenori gan Syr Paine Turberville, a Meurig ab Gruffydd ab Iestyn, &c., fel y sylwyd yn Hanes Wladol y Sir.

Yn 1110, bu farw Syr R. Fitzhamon, a daeth ei holl eiddo i'w ferch, yr hon oedd yn briod a Robert mab Harri I. o Nest, merch Rhys ab Tewdwr. Gwnaed y Robert hwn yn Iarll Caerloyw, ac Arglwydd Morganwg trwy ei briodas. Yn amser y Robert hwn yr ymosododd Ifor Bach ar y castell, ac y cymmerodd Robert a'i wraig a'i blentyn yn garcharorion. (Gwel Hanes Wladol.)

Yn amser yr un Robert y carcharwyd Robert Duc Normandy yn y castell hwn; hanes yr hwn sydd fel y canlyn:—Yr oedd gan William I, sef y Goresgynydd, bedwar mab, a bu un o honynt farw yn ieuange. Pan wnaeth y brenin ei ewyllys, trefnodd ei eiddo rhwng ei dri mab ereill fel hyn:—I Robert y mab hynaf, efe a roddodd Dduciaeth Normandy yn Ffrainge; Coron Lloegr i William ei ail fab, a swm o arian i Henry y mab ieuangaf. Yr oedd mawrion Lloegr yn anfoddlon iawn i'r trefniad hwn, a barnent mai Robert y mab hynaf ddylasai gael Coron Lloegr, ac mai doeth fuasai uno Dduciaeth Normandy a Breniniaeth Lloegr yn ei berson ef. Yn anffodus pa fodd bynag, yr oedd Robert wedi codi arfau gwrthryfel yn erbyn ei dad yn flaenorol, a phenderfynodd yntau wrth wneyd ei ewyllys, i ddial arno am y trosedd: ac er fod y wlad yn bleidiol i Robert, i William y rhoddwyd Coron Lloegr ar farwolaeth ei dad. Wedi i William II gael gorsedd Lloegr, a Robert eiddo Normandy, gwnaethant ammod a'u gilydd, fod Lloegr a Normandy i gael eu gwneyd yn un freniniaeth, ar farwolaeth un o honynt, a bod y llall i fwynhau y ddwy.

Tua'r amser hwnw y dechreuodd *Rhyfeloedd y Groc*, a chymmerodd Robert ran bwysig yn nygiad y rhai hyny yn mlaen; ac er mwyn cael arian i dalu treuliau y Rhyfeloedd hyny, efe a werthodd Dduciaeth Normandy i William ei frawd am ddeng mil o bunnau: ac felly fe unwyd Normandy a Lloegr, cyn marwolaeth un o honynt. Ar ol cael yr arian, aeth Robert ar ryfelgyrch tua Gwlad Canaan;

a thra yr oedd ef yno, dygwyddodd i William II gael ei saethu yn ddamweiniol gan Walter Tyrrel wrth hela yn *New Forest*, yn 1100. Manteisiodd Harri ar yr adeg i hawlio y goron yn absenoldeb Robert. Aeth i Winchester i'r dyben o honi ei hawl, gan addaw pob manteision i'r deiliaid os buasant yn ei osod ef ar yr orsedd, ac felly coronwyd ef yn Frenin Lloegr, Awst 5, 1100.

Pan ddychwelodd Robert o Wlad Canaan, efe a hawliodd y goron a'r orsedd, yn ol yr ammodau wnaed rhyngddo ef a William ei frawd; ond gan fod Harri wedi ei wneyd yn frenin Lloegr, llwyddwyd i ddarbwylio Robert i dderbyn Duciaeth Normandy yn unig, gyda blwydd-dal oddi wrth Harri ei frawd. Yn mhen rhai blynyddau ar ol y trefniad hwn, ymrysonodd y ddau frawd, ac aethant i ryfel â'u gilydd; ac wedi peth brwydro, daliwyd Robert a chymmerwyd ef yn garcharor yn mrwydr Tinchebrey, Medi 27, 1106. Gan fod Robert mab Harri I, yn briod â merch Robert Fitzhamon, a bod castell Caerdydd yn adeilad cadarn, barnodd Harri mai y man dyogelaf i osod ei frawd Robert oedd yn ngofal ei fab, sef mab Harri; ac felly carcharwyd Duc Normandy yn y castell hwn o'r flwyddyn 1108, hyd ei farwolaeth yn 1135.

Dywed rhai haneswyr i Robert geisio diange ar ol bod yn ei garchar 28 o flynyddau, ond iddo gael ei ddal yn yr ymgeis; ac i Harri ei frawd orchymyn dal phiol bres wedi ei chochi yn y tan o flaen ei wyneb, nes i'w lygaid doddi, a rhedeg allan o'i ben: a barnant mai at hyn y cyfeiriai Drayton yn y llinellau canlynol:—

"The while in Cardiff he a captive lies,  
Whose windows were but niggards of their light,  
I wrought, this Henry's rage not to suffice;  
But that he robbed Duke Robert of his sight,  
To turn this little piece of day to night."

Barna haneswyr ereill, na thynwyd ei lygaid, ond mai ei gadw mewn daiargell dywell wnaed o hyny allan. Dywedir hefyd, ei fod cyn y tro hwn, yn cael ei drin fel tywysog yn y castell, oddi ar pan fynodd Ifor Bach fwy o ryddid iddo yn 1110; sef mynu caniatad iddo fyned 12 milldir i'r cyfeiriad a fynai o'r castell. Barna rhai hefyd, nad oedd Robert yn bwriadu diange y pryd y daliwyd ef; ond iddo gyflawni y trossedd dibwys o fyned ychydig dros y terfyn pennodedig, i ymweled â rhai o'i gyfeillion. Yn ei deithiau byrion allan o'r castell, daeth Robert yn gydnabyddus a llenorion Morganwg,—dysgodd y iaith Gymraeg, ac ymddyfyrai wrth gyfansoddi barddoniaeth Gymreig. Ymddengys iddo gael caniatad i wahodd y beirdd atto i'r castell hefyd yn flynyddol i gynnal cyfarfod. Priodolir awduriaeth y pennillion canlynol i Robert, y rhai ydynt ddangoseg o'r hen Essyllaeg:—

"Dar a dyfwys ar y clawdd,  
Gwedi gwaedffreu gweddi frawd:—  
Gwae wrth win ymtrin ymtrawdd!

Dar a dyfwys ar y glas,  
Gwedi gwaedffreu gwyr a las:—  
Gwae wr wrth y bo a'i cas!

Dar a dyfwys ar y ton  
Gwedi gwaedffren a briw bron :—  
Gwae wr wrth ei gaseion !

Dar a dyfwys ar dir Pen  
Gallt, ger ymdon Mor Hafren :—  
Gwae wr na bae digon hen !

Dar a dyfwys yn ngwynau,  
A thwrf, a thrin, a thranganau :—  
Gwae a wyl na bo angau !”

Dywed Mathew Paris, yr hwn sydd yn crybwyll am doddi y llygaid allan &c., i Robert farw yn 80 oed, dan yr amgylchiadau canlynol :— Tra yr oedd y brenin Harri I. ar ddydd gwledd, yn gwisgo math o glogyn newydd o frethyn coch, yr oedd y penwisg yn rhy fach ; a thra y ceisiai efe ei gael am ei ben, dattododd rhai o'r pwythau. pryd y dywedodd am anfon y clogyn i Robert ei frawd fod ei ben ef ychydig yn llai. Dywed hefyd, fod y brenin yn arfer anfon gwisg i Robert o'r un defnydd a'r eiddo ef ei hun, bob amser pan fyddai yn mynu gwisg newydd. Wedi i Robert dderbyn y clogyn dan sylw, tra yn ei wisgo, teimlodd y rhwyg, neu y dattodiad, a chan na allasai ei weled, gofynodd beth oedd ; a phan eglurwyd iddo, aeth i bang o nwydau drwg, a gwaeddodd allan—“Ow! Ow! yr wyf wedi byw yn rhy hir : wele fy mrawd ieuangaf, yr hwn sydd wedi fy amddifadu o'm teyrnas, fy ngharcharu a'm dallu, yr hwn wyf wedi bod yn enwog mewn trin arfau, ac yn awr nid yw yn foddlon, heb fy sarhau yn mhellach, trwy anfon i mi yr hen ddillad y mae efe yn ei droi heibio, fel pe bawn gardottyn.” O'r pryd hwnw gomeddodd gymmeryd un math o luniaeth ; ond wylai yn ofidus ddydd a nos, nes newynu i farwolaeth. Claddwyd ef yn Eglwys gadeiriol Caerloyw.

Mae *painting* ardderohog yn Neuadd Tref Caerdydd, yn arddangos Ifor Bach yn cymmeryd Robert Iarll Caerloyw yn garcharor, &c. Gwnaed y darlun gan Frank Howard, mab ysgrifenydd y Royal Academy, ac y mae ei hanes fel hyn :—Pan adeiladwyd Senedd-dai newyddion Prydain, barnodd y llywodraeth yn addas gael amryw Ddarluniau Hanesyddol (*Historical Paintings*) i addurno y muriau : a phennodwyd Duc Wellington i farnu a dewis y darluniau addasaf i'r perwyl. Cynnygiwyd y darlun hwn i'w sylw, ac ar ol petruso uwch ei ben am dri diwrnod, gwrthodwyd ef. Wedi hyny cynnygiodd Mr. Howard ef i Gorfoliaeth Caerdydd am bris y *frane*, sef £50. Derbyniwyd y cynnygiad, ac y mae yn awr yn eiddo y Gorpholiaeth.

Yn y darlun gwyh hwn, gosodir allan y Iarll a'i phlentyn mewn pryder mawr ac ofn, fel yn edrych at y Iarll am nodedd yn ngwyneb golwg wyllt y milwyr Cymreig, a'u blaenor dewr. Ar y bwrdd o flaen y Iarll, mae darlun memrwn, neu Weithredoedd Ammodol, ac Ifor Bach gydag awdurdod yn pwyntio a'i gleddyf at y memrwn, yn arwydd i'r hanner Norman balch, fod yn rhaid iddo ei lawnodi. Yn ochr ddeau y darlun, gosodir allan Robert Duc Normandy, a'i law i fyny fel pe am swgrymu i Ifor, nad oedd yn dewis cyflawn ryddid,

am ei fod yn hoffi byw yn mhlith Cymry Morganwg. Yn mhlith canlynwyr Ifor y mae ei fanerwr yn cael ei osod allan, yr hwn sydd wedi dadblygu y faner, ar yr hon y mae "Y Ddraig Goch," a'r arwyddair,

"Ofna yr hwn nad ofna angau."

Dywedir yn y *Siluriana* i'r castell gael ei gymmeryd gan Llywelyn ab Iorwerth yn 1282, a'i adfeddiannu drachefn gan Iarll Caerloyw. Yn amser Edward II., darfu i Roger Mortimer ymosod ar, a chymmeryd y castell hwn, a charcharu y ceidwad yn Nghastell Wigmore. Yn 1404, drylliwyd y castell a'r dref, ond un heol, gan Owen Glyndwr; a'r achos i'r heol hono gael ei harbed oedd, fod mynachdy ynddi, a'r mynachod yn bleidiol i Owen. Adeiladwyd y castell a'r dref drachefn. Yn 1642, daeth Ardalydd Hertford o Minehead mewn llong lo, gyda llu o filwyr, a chymmerodd y castell; ond ail-feddianwyd ef gan fyddin Cromwell ar y 5ed o Hydref yr un flwyddyn, pryd y lladdwyd 50 o fyddin y brenin, a naw o wyl Cromwell. Mae traddodiad fod Cromwell wedi bod yma yn bersonol yn arwain ei fyddin, ac iddo ymosod ar y castell am dri diwrnod yn afwyddiannus, pryd y darfu i un o fyddin y castell ddyfod allan a bradychu y castellwyr, trwy d dangos i Cromwell ffordd ddirgelaid, danddaiarol, a arweiniai i mewn i'r lle ar y tu gorllewinol, a thrwy hynny llwyddwyd i gymmeryd y castell. Dywedir i Cromwell, wedi iddo gymmeryd y lle, orchymmyn crogi y dyn hwnw am ei fradwriaeth.

Yn amser Edward VI., daeth y lle yn eiddo Syr William Herbert, K.G., Meistr y Meirch (*Master of the Horse*). Gwnaed Syr William yn Iarll Penfro, a bu y castell yn eiddo y teulu am oesoedd. Aeth wedi hynny trwy briodas yn eiddo Iarll Windsor, ac fel y dangoswyd yn yr Hanes Wladol, daeth yn eiddo tenlu Stuart, Ardalyddion Bute, trwy briodas John Stuart, Ardalydd cyntaf Bute, a Charlotte Jane, merch Arglwydd Windsor. Mae llawer o welliantau wedi eu gwneyd yn y castell yn ddiweddar, ac un twr ardderchog wedi ei ychwanegu ato gan yr Ardalydd presenol, erbyn dydd ei briodas.

*Y Dref.*—Nid yw yn hyspys pwy roddodd y Freinlen gyntaf i'r dref hon. Barna rhai mai Iestyn ab Gwrgan, ac ereill mai Robert Fitzhamon. Pa fodd bynag am hyn, yr hynaf sydd ar gael yu awr yw un a roddwyd iddi gan Hugh le Despenser, Arglwydd Morganwg, yn 1339. Cynnwysiad yr ysgrif hon sydd mewn perthynas â darn o dir yn ymyl Heol Fawr y dref, yr hwn a fesurai 46 troedfedd o hyd wrth 26 o led. Ymddengys nad yw y freinlen hon ond cadarnhad o un a roddwyd yn flaenorol gan William la Zouch, Arglwydd Morganwg, ac Eleanor ei wraig. Nid oedd unrhyw fantais yn deilliaw i'r trefwyr oddiwrth y freinlen hon, oblegyd ei sylwedd yw, fod y bwrdeisiaid i adeiladu tŷ ar y darn tir a nodwyd at wasanaeth Arglwydd y Sir i gynnal llysoedd at drin materion y dref, i gynnal ffeiriau, ac yn swyddfa i swyddogion ei arglwyddiaeth i dderbyn trethi, &c. Yn 1841, cafodd y bwrdeisiaid freinlen drachefn, yn dynodi amryw fanteision iddynt. Cafwyd un arall yn 1859, gan Hugh le Despenser; ac un arall

yn 1455, gan Harri VI. Cafodd y dref freinlen drachefn yn 1600, gan y Frenines Elizabeth; ac un arall yn 1608, gan James I. Mae'r breinleni hyn yn argraffedig yn "The History of Cardiff," gan Mr. W. L. Jenkins.

*Cynnydd y Dref.*—Nid oedd Caerdydd ond tref fechan tua dechreu y canrif presenol, a gellir priodoli ei chynnydd cyflym i ddarganfyddiad cyfoeth o adnoddau masnachol yn mherfeddion y ddaiar y tu cefn iddi, yn ardaloedd Aberdar, Merthyr, Dowlais, Rhymni, Cwm Rhondda, &c. Yn 1790, nid oedd y dref yn cynnwys mwy na 800 o dai, a mil o drigolion. Yr oedd trysorau cuddiedig Merthyr Tydfil wedi eu darganfod y pryd hwnw, a'r gweithfeydd haiarn wedi cychwyn, a'r perchenogion yn dyheu am hwylusach ffordd i anfon eu nwyddau i'r porthladd na'r hen heol arw dros gefn y mynydd trwy Gelligaer, &c. Yn mis Awst, 1790, dechreuwyd gwneyd Camlas Morganwg, yr hwn a agorwyd rhwng y ddwy dref yn 1794, ac a estynwyd drachefn, ac a lwy'r orphenwyd yn 1798. Bu gwneuthuriad hwn yn gychwyniad cyfnod newydd yn Nghaerdydd a Merthyr. Mae y rhan hono o'r camlas a ddefnyddir at lwytho a dadlwytho llongau dros filldir o hyd, a thua 100 troedfedd o led ar gyfartaledd, ac o 9 i 18 o droedfeddi o ddyfnder; a'i led yn y pen nesaf i'r mor yn 27 troedfedd, ac hyd y *lock* yn 108 troedfedd. Pan wnaed cangen o'r camlas hwn i fyny trwy Gwm Cynon o'r Basin Isaf yn 1811, ychwanegodd hyny y fasnach, a bu yn achos i helaethu peth ar y dref. Yn 1832, dygwyd dros y camlas hwn, o Aberdar a Merthyr, i'w hallforio yn Nghaerdydd, 87,372 o dunnelli o haiarn, a 118,758 o dunnelli o lo, heblaw 50,000 o dunnelli o nwyddau amrywiol. Fel yr oedd gweithfeydd Merthyr ac Aberdar yn eangu, a'r fasnach yn cynnyddu, gwelwyd fod moddion trosglwyddiad nwyddau ar y camlas yn llawer rhy araf ac annghyfleus, a'r manteision allforio yn Nghaerdydd yn llawer rhy fach, fel y penderfynodd y diweddar Ardalydd Bute anturio i wneyd *dock* eang yn y dref, ac anturiodd cwmni o gyfoethogion i wneyd cledrffordd trwy Gwm Taf o'r naill dref i'r llall, cangenau yr hon sydd yn ymestyn i Aberdar, Cwm Rhondda, Glan Caeach, &c.; a rhwng yr holl fanteision hyn, y mae Caerdydd wedi cynnyddu yn anhygoel yn ddiweddar, fel y dengys y dafien ganlynol:—

| BLWYDDIAD.  | POBLOGAETH.   | CYNNYDD. |
|-------------|---------------|----------|
| 1801 ... .. | 1,870 ... ..  | ...      |
| 1811 ... .. | 2,457... ..   | 587      |
| 1821 ... .. | 8,521 ... ..  | 1,064    |
| 1831 ... .. | 6,187... ..   | 2,666    |
| 1841 ... .. | 10,077 ... .. | 3,890    |
| 1851 ... .. | 18,351... ..  | 8,274    |
| 1861 ... .. | 82,954 ... .. | 14,608   |
| 1871 ... .. | 89,536... ..  | 6,942    |

Wrth gyfrif pobl y pedwar plwyf, sef Eglwys Fair, Eglwys Ioan, Roath, a Llandaf, ceir fod eu rhif yn 59,449; ac y mae poblogaeth holl blwyfi Undeb Caerdydd yn 76,280.

Y cynnydd mawr fu ar fasnach rhwng 1890 a 1895 barodd i Ardalydd Bute appello at y Senedd am Act i'w awdurdodi i wneyd y dock a elwir *West Bute Dock*. Agorwyd y dock yma yn 1899. Mesuriad y Llongborth hwn sydd fel y canlyn:—Arwynebedd y dock a'r basin yw 20½ erw; lled y dorau 45 troedfedd; hyd y nosfe (*basin*) 300 troedfedd, lled 200; hyd y lock o'r basin i'r dock 152 troedfedd, lled 86; hyd y dock 4,000 troedfedd, lled 200; dyfnder y dwfr yn y mynediad i'r basin ar y prif lanw 28 troedfedd ac 8½ modfedd; ac y mae'r dock sych perthynol i hwn yn 220 troedfedd o hyd. Gallwsid meddwl ar y cyntaf y buasai llongborth eang o'r fath a nodwyd, yn ddigon i ateb maint a chynnydd masnach y lle am oesoedd; ond gwelwyd yn mhen ychydig amser yr angenrheidrwydd o wneyd dock ychwanegol. Appelwyd at y Senedd am Act i ganiatau hyny, cafwyd y weithred, ac wedi amryw flynyddau o lafur, gorphenwyd adeiladu yr *East Bute Dock*. Mae arwynebedd y dock yma yn 46 erw; uwchder y dwfr yn ngenau y lock ar y prif lanw yn 31 troedfedd ac 8½ modfedd; ac ar llanw isel yn 21 troedfedd 8½ modfedd. Lled y dor nesaf i'r môr yn 55 troedfedd, hyd y lock rhwng y dock a'r basin 220 troedfedd, lled 50. Hyd y basin 880 troedfedd, lled 250. Hyd y lock fewnol 200 troedfedd wrth 50 o led. Hyd y dock 4,800 troedfedd wrth 500 o led yn y pen gogleddol, a 800 yn y pen deheuol; a'r dyfnder y tu mewn yn 25 troedfedd.

Yn 1866, cafwyd Gweithred Seneddol arall, yn rhoi hawl i ychwanegu ac helaethu porthladd Caerdydd; a dechreuwyd y gwaith Hydref 8, 1868. Maint y llongborth hwn yw 11½ erw o arwyneb, gyda lock i'w gyssylltu ag *East Bute Dock*; ac y mae wedi ychwanegu y cyfleustra yn fawr. Mae yma nosfe arall a elwir *South Basin*, mesuriadau yr hwn sydd fel y canlyn:—Hyd y lock 850 troedfedd, wrth 80 o led. Hyd y basin 1000 o droedfeddi wrth 500 o led; a lled y dorau yn 60 troedfedd. Mae'r lock sy'n cyssylltu hwn a'r llongborth dwyreiniol yn 370 troedfedd o hyd, a 60 o led. Dyfnder y dwfr yn ngenau y lock ar y prif lanw yn 35 troedfedd wrth 8½ modfedd; ac ar y llanw isel yn 25 troedfedd wrth 8½ modfedd.

Mae'r *Low Water Pier*, fel ei gelwir, yr hwn sydd o wneuthuriad diweddar, wedi ychwanegu llawer at hwylusdod y lle mewn ystyr fasnachol. Mae hyd y *pier* yn 1860 troedfedd wrth 84 yn un pen, ac yn lledu yn raddol nes yw yn 100 troedfedd o led yn y pen arall. Gyrwyd y polyn cyntaf o'r *pier* hwn i lawr yn mis Awst, 1867; a'r olaf yn Awst, 1868. Yr oedd wedi ei orphen i'r fath raddau yn mis Medi 1868, fel ag i alluogi yr Ardalydd presenol i ddisgyn ger ei ben isaf, ar ei waith yn dyfod i'r dref pan ddaeth i'w oed.

Mae'r dramwylfa, neu'r bont sydd yn arwain i ben y *pier* yn 10 troedfedd uwchlaw marc y llanw cyffredin; ac y mae grisiau yn y pen agosaf i'r mor o'r bont hon, i fyned i lawr i'r Ysgraff-bont (*Pantheon*). Ar ben y *pier* y mae peiriant codi (*Crane*), yn ddigon cryf i godi neu ostwng 10 tunnall allan o, neu i lawr i'r llong oddi tanodd. Er ychwanegu cyfleustra teithwyr, &c., y mae cangen o reilffordd yn rhedeg o orsaf cleddrffordd Rhymni yn y dref, i lawr hyd

ymyl yr Ysgraff-bont, a'r gerbydres yn rhedeg ar hyd-ddi, i ateb amser yr ager-longau sy'n tramwy rhwng Caerdydd a Bristol, Burnham, &c.

Mae yr holl waith sydd wedi ei ddwyn yn mlaen yma mewn ychwanegu llongbyrth &c., yn ystod y 80 mlynedd diweddaf, wedi costi dros ddwy filiwn o bunnau; ac y mae'r cwbl yn eiddo Ardalydd Bute. Yn brosenol fe saif Caerdydd yn bedwerydd mewn pwysigrwydd masnachol yn y deyrnas gyfunol. Yn 1872, cychwynwyd llinell o ager-longau ymfudol i gludo teithwyr &c., rhwng Caerdydd a New York; ac y mae yn amlwg ddigon eisoes, yr effeithia hyn yn fawr er lleihau nifer yr ymfudwyr o Liverpool, yn enwedig o Ddeheudir Cymru, a rhanau helaeth o Loegr hefyd. Rhydd y daflen ganlynol gipdrem i'r darlennydd ar gynnydd masnach lo y porthladd hwn mewn gwahanol flynyddau:—

| Blwyddiad. | Rhif y Llongau a aethant i mewn ac allan. | Swm y Glo allforiwyd i wahanol fanau o'r deyrnas hon. | Swm y Glo allforiwyd i wledydd tramor. |
|------------|---|---|--|
| 1835       | .. 2,781 ..                               | .. 123,279  |  |
| 1836       | .. 2,549 ..                               | .. 130,989  |  |
| 1837       | .. 2,992 ..                               | .. 196,248  |  |
| 1838       | .. 2,741 ..                               | .. 123,614  |  |
| 1839       | .. 2,904 ..                               | .. 145,057  |  |
| 1840       | .. 3,149 ..                               | .. 162,568  | .. .. 3,312                            |
| 1841       | .. 3,038 ..                               | .. 153,667  | .. .. 4,066                            |
| 1842       | .. 3,653 ..                               | .. 239,787  | .. .. 5,701                            |
| 1843       | .. 4,010 ..                               | .. 265,751  | .. .. 9,106                            |
| 1844       | .. 4,680 ..                               | .. 327,452  | .. .. 22,498                           |
| 1845       | .. 6,045 ..                               | .. 414,159  | .. .. 32,498                           |
| 1846       | .. 6,183 ..                               | .. 438,781  | .. .. 45,508                           |
| 1847       | .. 6,575 ..                               | .. 429,448  | .. .. 81,274                           |
| 1848       | .. 7,436 ..                               | .. 544,196  | .. .. 115,604                          |
| 1849       | .. 7,383 ..                               | .. 486,183  | .. .. 162,829                          |
| 1850       | .. 7,680 ..                               | .. 497,695  | .. .. 213,697                          |
| 1851       | .. 7,877 ..                               | .. 501,002  | .. .. 243,191                          |
| 1852       | .. 7,923 ..                               | .. 508,447  | .. .. 352,246                          |
| 1853       | .. 8,313 ..                               | .. 485,713  | .. .. 431,779                          |
| 1855       | .. .. ..                                  | .. 455,047  | .. .. 793,827                          |
| 1857       | .. 8,339 ..                               | Cyfauswm  | .. .. 1,442,933                        |
| 1859       | .. 7,855 ..                               | .. ..   | .. .. 1,490,312                        |
| 1860       | .. .. ..                                  | .. ..   | .. .. 1,992,366                        |
| 1865       | .. .. ..                                  | .. ..   | .. .. 2,349,466                        |
| 1867       | .. .. ..                                  | .. ..   | .. .. 2,859,922                        |
| 1868       | .. .. ..                                  | .. ..   | .. .. 3,000,912                        |
| 1870       | .. 11,951 ..                              | Tunelliad o bob peth                                  | .. .. 2,376,133                        |
| 1871       | .. 11,112 ..                              | .. ..   | .. .. 2,207,713                        |

Gellir ychwanegu fod 278,487 o dunnelli o haiarn wedi eu hallforio yma yn 1857, a 182,827 yn 1859, 169,467 yn 1860, 160,854 yn 1865, a 148,978 yn 1868. Tuag at allforio glo yn y porthladd eang hwn, y mae digonedd o beiriannau pwrpasol wedi eu trefnu yn ymyl y porth-

ladd, a *staiiths*, sef math o gafnau mawrion i ollwng y glo o'r cerbydau i'r llongau, a'r *staiiths* hyn wedi eu trefnu yn y fath fodd, fel y gellir llwytho 550 o dunnelli yn ddyddiol yn mhob un o honynt; ac y mae pob peth arall wedi eu gwneyd yn y modd mwyaf cyfleus er llwytho a dadlwytho llongau. Mae cryn siarad yn bresenol am helaethu y porthladd hwn etto, fel y gellir dadforio nwyddau o wledydd tramor yma ar raddfa eangach nag y gwneir yn bresenol, a diamheu y bydd hyn yn fendith fawr i'r wlad. Hyd yn hyn, allforio wneir yma yn benaf; ac os cerir y cynllun allan, bydd llawer o ddadforio yma hefyd, fel y gellir cael ymborth a nwyddau ereill yn uniongyrchol i Ddeheu-dir Cymru.

Mae yn y dref amryw weithfeydd eang hefyd, heblaw y porthladd a'i fasnach helaeth. Yn mhlith y gweithfeydd hyn, gellir nodi y rhai canlynol yn neillduol:—1. Gweithfa Raffau Gwifrol, yr hon yw y fwyaf o'r natur yn y deyrnas. Gwneir rhaffau gwifrol yn y weithfa hon yn mesur o filldir i bum' milldir o hyd, ac yn pwyso tua deuddeg neu bedair tonnall ar ddeg. Mae rhai o'r dosparth praffaf a wneir yma yn saith modfedd o led a thair o drwch, ac yn pwyso yn gyffredin tua phump neu chwech tonnall. Gwneir rhaffau dur yn ogystal â rhai haiarn yn y weithfa eang hon. Y perchonogion ydynt George Elliot a'i Gyf. 2. Gweithfa *Biscuits*, eiddo Meistri Spiller a Brown. Gwneir o bymtheg i ugain tonnall o *biscuits* celyd i'r morwyr yn y weithfa eang hon yn wythnosol, a melir 2,000 o sacheidiau o flawd yn y melinau perthynol i'r sefydliad bob wythnos. 3. Gweithfeydd *Patent Fuel*. Dygir y rhai hyn yn mlaen ar raddfa eang yn y Meindy, ar lan y camlas, ychydig yn ogloddol i'r dref. Cymmysgir yma sylweddau olewaidd, megys *pitch, tur, &c.*, a'r glo mân, ac yna gwesgir ef gan beiriannau cryfion a phwrpasol mewn moldiau i ffurf priddfeini cyffredin, ac allforir miloedd lawer o dunnelli o'r cyfryw yn flynyddol i wahanol wledydd, i'w ddefnyddio yn lle glo mawr.

Mae yn y dref orsafoedd hefyd ar gleddydd y *Taff Vale*, y *Great Western*, y *Cardiff & Rhymney, &c.*, gyda lluwys mawr o wahanol weithfeydd heblaw y rhai a enwwyd.

*Crefydd*.—Mae Caerdydd wedi bod yn noddle crefydd er yn fore. Bernir fod dau neu dri math o Fynachod yn arfer cynnal eu defodau crefyddol yn y dref hon am oesoedd. Yr oedd amryw fathau o fynachod yn perthyn i Eglwys Rufain gynt, y rhai a adnabyddid wrth wahanol enwau, megys, 1. Dominiciaid, sef y Mynachod Duon, (*Black Friars*), neu Bregethwrol. 2. Y Francisiaid, sef y Mynachod Llwydion, y rhai a elwid hefyd yn Fynachod Cardotaidd. 3. Y Benediciaid, sef y Myneich Duon (*Black Monks*.) 4. Y Carmelitiaid sef y Mynachod Gwynion. Y Dominiciaid oeddynt fwyaf eu hawdurdod, ac yn eu meddiant hwy yr oedd llywodraeth felddigidig Y Chwil-lys. Dechreuodd y dosparth hwn yn Spain yn 1170. Buont mewn awdurdod a bri mawr yn mhlith y Normaniaid yn y Sir hon am oesoedd. Ymsefydlasant gyntaf yn y dref hon yn 1256; dan nawdd Syr Richard de Clare, Iarll Caerloyw, ac arglwydd Morganwg. Safai y tŷ a berthynai iddynt, rhwng y Castell ag afon Taf, ar du



gogledd-orllewinol y lle. Yr oedd peth o'r muriau yn sefyll yn 1830 ; ond gan eu bod mor adfeiliedig, barnwyd yn oreu eu tynu i lawr. Parhaodd y Mynachod hyn yn Morganwg, hyd amser Harri VIII, pryd y pennododd y brenin Syr Edward Carne o Nash Manor, ger y Bontfaen, i dynu eu tai i lawr ; a cha'odd yntau Abbatty Ewenni am ei lafur. Yn 1280, caniatoad Syr Gilbert de Clare, mab y Richard a enwyd i'r Carmelitiaid, sef y Mynachod Gwynion, i ymsefydlu yn y dref. Yr oedd ty y rhai hyn ger Porth Dwyreiniol mur y dref, ac wedi ei gyssegru i "*Frodyr Sautaidd y Drindod.*" Yn y gladdfa berthynol i'r ty hwnw, y claddwyd Llywelyn Bren o Senghenydd. Yma hefyd y claddwyd Syr William Fleming, Farchog, arglwydd Gwenofo, St. George a Llanfaes ; yr hwn a grogwyd yn Nghaerdydd, am gondemnio Llywelyn Bren i farwolaeth, a hyny heb ei brofi yn euog. Mae'r sel a berthynai i'r sefydliad hwn, yn meddiant yr enwog Dr. Nichol Carne, St. Donatts, yn bresenol. Yn nghanol y sel y mae darlun yn gosod allan y Tad yn dal Crist ar y groes rhwng ei liniau. O amgylch y darlun, y mae yn argraffedig :—

### "S. Trinitatis Ap Redit in Malia."

hyny yw, Sêl Brodyr y Drindod yn Nghaerdydd, Cymru. Pan dorwyd y mynachdai trwy orchymyn Harri VIII, daeth y lle hwn yn eiddo Syr William Herbert, Farchog ; yr hwn a barodd adgyweirio a threfnu y tŷ yn breswylfa iddo ei hun. Nicholas Herbert, preswilydd y tŷ hwn oedd aelod Seneddol dros Fwrdeisdrefi Morganwg yn 1585 ; a Syr John Herbert, o'r tŷ hwn oedd Uchel Sirydd Morganwg yn 1605 ; a'r Sirydd am 1650, oedd un John Herbert o'r un lle. Ymddengys fod rhai o'r teulu yn byw yn y tŷ hwn mor ddiweddar a'r fiwyddyn 1709 ; oblegyd y mae cofadail yn Llandaf, a'r cerfiad canlynol arno :—"Florence ye wife of William Herbert, of the White Fryers, in Cardiff, Esquire, who departed this life October ye 15th, 1709.

*Hen Eglwys Fair.*—Nid yw yn hysbys pa mor fore yr adeiladwyd Hen Eglwys Fair, yn y dref hon ; ond dywedir mewn desgrifiad o'r dref yn 1570, ei bod wedi ei hadeiladu ar ffurf croes, ac yn edrych yn hen iawn y pryd hwnw. Safai ar lán afou Taf, yn ngodre yr heol a elwir St. Mary Street yn awr ; ac heb fod yn mhell o'r lle y saif gorsaf cledrffordd y *Great Western* yn bresenol. Geilw hen drigolion y dref y llecyn lle y safai yr Eglwys wrth yr enw "*Plwyf Mair*" hyd heddyw. Yn 1607, syrthiodd yr hen Eglwys hono dan effaith gorlifiad yr afon, a gorlanw y môr. Mae rhai wedi bod yn gwadu yn ddiweddar, na fu y fath Eglwys yn y lle erioed ; ond y mae digon o brofion i'w cael o barth ei bodolaeth a'i dinystr. Ceir hanes ei dinystr hi a lluaws ereill mewn llyfryn a gyhoeddwyd ar y pryd, o'r enw, "*God's Warning to His People of England.*" Dyma gyfieithad o'r hanes :—"Ar ddydd Mawrth, yr 20fed o Ionawr, 1607, dygwyddodd y fath orlifiad o ddyfr-oedd—y fath ymchwyydd angerddol yn y môroedd, a'r fath doriadau nerthol yn y siroedd canlynol :—Caerloyw, Gwlad yr Haf, Mynwy, Morganwg, Caerfyrddin, ac amryw loedd ereill yn Neheudir Cymru,

y fath ni welwyd yn nghof neb, ac ni ohlywwyd am ei fath yohwaith. Tua naw o'r gloch y boreu, yr oedd yr hin yn dæg a hyfryd; a lluaws trigolion y siroedd yn ymbarotol at eu gorchwylion, pan yn ddisymwth y gwelent yn y pellder, fod cynhwrf yn yr elfenau, fel pe byddai bryniau o ddyfroedd yn treiglo ar draws eu gilydd, ac fel pe buasai mynyddau mwyaŷ y byd yn cuddio y pentrefi isel a'r arfordiroedd. Ar droion effeithiai ei ddysgleirdeb ar lÿgaid yr edrychwyr, nes y credent mai niwl tew oedd yn dyfod tuag atynt gyda chyflymdra, a *chyda'r fath fwg, fel pe buasai y mynyddau oll ar dân*; ac i rai ymddangosai fel pe buasai miloedd o filiynau o saethau yn cael eu gollwng ymaith ar unwaith. Yr oedd cynddaredd y tonau mor angerddol, nes mewn llai nâ phump awr yr oedd y rhan fwyaf o'r siroedd a nodwyd, yn enwedig eu gwastadedd, wedi eu gorlifo, ac amryw gannoedd o bobl, yn wyr, gwragedd, a phlant, wedi eu llwyr lyngu gan y dyfroedd creulawn,—ie, gwelai yr amaethwyr a'r bugeiliaid eu diadelloedd yn nofio yn feirwon ar y dyfroedd cynhyrfus. Enwau y lleoedd a gawsant eu niweidio fwyaf gan y gorlifiad ofnadwy ydynt y rhai canlynol:—Bristol, Aust, a'r holl wlad ar bob tu i'r Hafren o Gaerloyw i Gaerodor, Casgwent, Golcliff, Matherne, Calicot, Moores, Redrifi, Casnewydd, Caerdydd, Abertawy, Llanstyffan, Lacharn, &c. Cafodd sylfeini amryw Eglwysi a thai eu niweidio, a chariwyd rhai ymaith yn llwyr, megys yn Nghaerdydd, swydd Forganwg, lle y cafodd rhan fawr o'r Eglwys nesaf i'r afon ei guro i lawr gan y dyfroedd. Amryw Eglwysi oreill a orweddant yn gladdedig yn y dyfroedd, a gwelir nenu rhai o honynt; tra ereill na welir o honynt ond penau y clychdai, ac ereill ni welir dim o gwbl."—*Harleian Miscellany, Vol. 8.*

Nid oes dim o olion hen Eglwys Fair yn aros yn awr, ond y mae amryw o drigolion hynaf y dref yn cofio gweled esgyrn dynol ger y fan y safai, pan fuasai yr afon, ar ol gwlawogydd trymion, yn golchi ymaith y pridd ar ei glanau. Yn 1840, y sylfaenwyd yr Eglwys Fair bresenol, yn lle yr hen Eglwys. Cyssegrwyd hi Rhag. 16, 1843. Costiodd ei hadeiladu £7,000. Saif hon yn mhen uchaf Bute Street, mewn ardal boblogaidd iawn. Ficeriaeth yw'r fywioliaeth, gwerth £410 y flwyddyn, yn nawdd a rhodd Ardalydd Bute. Mae cryn anghydfod yn bresenol (1878) rhwng y ficer a'r gwarcheidwaid yn nghylch yr adeilad. Y blaenaf am gyfnewid ei rhanau mewnol i furf Eglwys Babaid, tra'r olaf am ei chadw fel y mae. Gan mai Pabydd yw'r Ardalydd, a bod yr Eglwys hon a lluaws creill yn Morganwg dan ei nawdd, a'r hawl ganddo i roddi y bywioliaethau i'r sawl a ewyllysia, mae lle i ddysgwyl y bydd cynnydd mawr ar Babyddiaeth yu Morganwg yn y dyfodol, a hyny dan yr enw Protestaniaeth.

*Eglwys Sant Ioan Fedyddiur.*—Bernir i'r Eglwys hon gael ei hadeiladu yn y 13eg ganrif, ac i'w thwr, yr hwn yw un o'r rhai harddaf yn Nghymru, gael ei adeiladu gan un o'r enw Hart, yr hwn a adeiladodd dwr Eglwys St. Stephen yn Bristol, ac eiddo Wrexham yn Ngolled Cymru. Ymddengys mai yn y flwyddyn 1478 yr adeiladwyd twr Eglwys St. Ioan, a cheir y cofnodiad canlynol yn crybwyll am dano yu Llyfr Cofrestrol Llanfeiddian Fawr:—"1478. Anne, ail ferch a

chyd etifeddes Richard Neville diweddar Iarll Salisbury a Warwick, a briododd gyntaf ag Edward, Tywysog Cymru, mab Harri VI. Yr oedd hi yn Arglwyddes Morganwg, a hi barodd adeiladu Twr yr Eglwys hon (Llanfleiddian), a rhan ddeheuol Eglwys y Bontfaen, yn nghyd a *Thwr Sant Ioan* yn Nghaerdydd. Hi a briododd yr ail waith a Richard, Iarll Caerloyw, wedi hyny a wnaed yn frenin Lloegr, a elwir Richard III, sef Richard y Cefnrcwm. Adeiladodd ef Borth Gogleddol Tref Caerdydd."—*Thos. Wilkins*, 1721. Mae yn yr Eglwys hon amryw Gofgolofnau am wyr o urddas, megys Syr William a Syr John Herbert, &c., yn nghyd ag amryw ffenestri lliwiedig, yn gosod allan gysylltiadau gwahanol deuluoedd anrhydeddus fuont o bryd i bryd yn dal perthynas a'r dref. Yn nghlochdŷ yr Eglwys y mae awrlais gwyh, yr hwn a oleuir â nwy yn y nos. Ficeriaeth yw'r fywoliaeth Eglwysig, gwerth £427 y flwyddyn, yn nawdd a rhodd Deon Caerloyw. Y Ficer presenol yw'r Parch. D. Howells (Llawdden); a'r Parch. J. Davies, M.A. (mab D. Wyn o Essyllt) yn Gurad iddo. Dyddia Cofyfr yr Eglwys o'r flwyddyn 1670. Mae amryw Eglwysi Sefydledig yn y dref, heblaw y ddwy Eglwys blwyfol, megys, 1. *Eglwys Sant Andrews*, yr hon a adeiladwyd yn 1848, yn mhlwyf St. Ioan, Windsor Place, Crockherbtown. 2. *Eglwys Haiarn*, yn mhlwyf Mair, ger y porthladd. Adeiladwyd hi ar draul y diweddar Ardalydd Bute. 3. *Eglwys yr Holl Sant*, yn Heol Tyndal. Sylfaenwyd hi yn 1854. Cynnellir y gwasanaeth yn Gymraeg yn hon, ac y mae yn Ficeriaeth Annibynol gwerth £200 y flwyddyn, yn rhodd Esgob Llandaf.

**PABYDDION.**—Bernir fod 10,000 o Babyddion yn Nghaerdydd, ac y mae ganddynt ddwy Eglwys fawr yma. Adeiladwyd Eglwys St. David yn 1842, yn David Street, ar draul Mrs. Eyre o Bath, gan mwyaf. Yn 1860-1, adeiladwyd Eglwys St. Peter; yr hon sydd adeilad eang iawn, ac wedi ei haddurno yn wych ryfeddol, ar draul Ardalydd Bute.

**YMNAILLDUWYR.**—Mae gan yr Ymneillduwyr luaws o gapeli eang a gwychion yn y dref fawr hon, y rhai ydynt a ganlyn:—

**Annibynwyr.**—1. Trinity, a adeiladwyd y tro cyntaf yn 1696. 2. Ebenezer adeiladwyd 1828; etto 1853. 3. Capel Charles Street, 1855. 4. Mount Stuart, 1858. 5. Hannah Street, 1867. 6. Canton, 1868. 7. Wood Street, Caerdydd, 1869. 8. Capel Seisnig Canton, 1870. 9. Splotlands, 1870.

**Bedyddwyr.**—1. Tabernacl, 1821, etto 1865. 2. Bethany (S.), 1807, etto 1821. 3. Bethel (S.), 1855. 4. Siloam, 1860. 5. Salem, 1861. 6. Tredgarville (S.), 1861. Canton, 1868. 8. Hope Chapel (S.), Canton, 1868.

**Trefnyddion Calфинаidd.**—1. Seion, 1827. 2. Bethania, Docks, 1856. 3. Salem Canton, 1857. 4. Libanus, Roath, 1868. 5. Capel Seisnig, Great Frederick Street, 1869.

**Wesleyaid Seisnig**, 1850. Roath, 1871.

**Ysgolion.**—Yn 1710, darfu i Mr. Cradock Wells, Henadur, adael dau dŷ yn Heol Fawr Caerdydd, a dau gae yn Canton, yn cynnwys 17 o erwi, i'w hardreth gael ei ddefnyddio at dalu am addysg plant tlodion y dref. Yn 1719, pennodwyd y Parch. Nathaniel Wells yn

athraw; a pharhaodd i gyfranu addysg i'r plant yn ol ammodau yr Ewyllys hyd 1741, pan y rhoddodd yr ysgol i fyny. Yn 1792, bu farw y Parch. George Jones, athraw olaf yr ysgol yn ol y cynllun gwreiddiol; a rhoddwyd heibio addysgu'r plant am dymhor lled faith. Yn 1819, anfonodd Thomas Charles a John Thackwell, henaduriaid, ddeiseb at Feistr y Rolls yn Llundain, i geisio ganddo bennodi ymddiriedolwyr i gario allan y cynllun o addysgu plant tlodion y dref, yn ol yr Ewyllys. Yn 1821, cafwyd awdurdod oddiwrth Mr. Courtenay, un o feistri y *Court of Chancery*, i bennodi henaduriaid y dref yn ymddiriedolwyr. Cynnaliodd y rhai hyny eu cyfarfod cyntaf i drin yr achos Mawrth 4, 1822; a'r ail gyfarfod Awst 19, yr un flwyddyn. O'r pryd hwnw, cynnelir cyfarfod blynyddol i drefnu materion yr ysgol, ar y Llun cyntaf yn mis Awst. Rheol yr ysgol yw, fod y plant rhwng naw a deuddeg oed, pan yn cael derbynaiad i mewn, a'u bod i fyned i'r Eglwys ddwy waith ar y Sul; ac ar ol iddynt gyrhaedd oed pennodol eu bod i gael eu prentisio, a bod £10 i'w rhoi gyda phob bachgen, a £5 gyda phob merch. Derbynia'r plant hyn eu haddysg yn Ysgol Rydd y dref. Yn 1815, sylfaenwyd Addysg Rydd yn y dref dan nawdd Ardalydd Bute;—agorwyd ysgol y bechgyn Hydref 9, 1815; ac ysgol y Merched Awst 8, 1817, yn y tloty. Ar y 6fed o Ebrill, 1818, sylfaenwyd Ysgoldy Rhydd y dref yn y rhan a elwir Crockherbtown, gan Thomas Rates Rous, Ysw., Courtyrcela, ar ddarn a roddwyd i'r perwyl gan Ardalydd Bute. Costiodd yr adeilad £700; ac agorwyd yr ysgol Ionawr 8, 1819. Rhoddodd Corpholiaeth y dref £300 at y draul; Ardalydd Bute £52 10s.; Arglwydd Evelyn Stuart, ac Arglwydd James Stuart, A.S. £21 yr un. Yn 1827, rhoddodd yr Ardalydd ychwaneg o dir, er helaethu *playground* y plant; ac adeiladwyd annedd-dy i'r ysgolfeistr yn werth £600. Yn 1858-9, ail adeiladwyd yr ysgoldai hyn; ac y maent yn brosenol yn meddu pob math o gyfleusterau addysgol. Heb fanlyu ar yr ysgolion ereill, nodir yma amser sylfeiniad y prif rai o honynt:—Ysgol y Babanod, 1841. Ysgol y Wesleyaid, 1845. Ysgol Frytanaid, 1846. Ysgol Frytanaid, etto—. Ysgoldy Pabyddol, 1847. Ysgol Genedlaethol Eglwys Fair, 1848. Mae yn y dref a'i chyffiniau saith o Ysgoldai Cenedlaethol ereill, y rhai na chefnais ddyddiad eu sylfeiniad. Dengys y cwbl, fod manteision addysg y dref yn dra lluosog.

*Adeiladau Cyhoeddus, &c.*—1. *Neuadd y Dref.* Mae hwn yn adeilad gwyach iawn yn St. Mary Street. Dechreuwyd ei adeiladu yn 1849, yn ol cynllun Mr. Horace Jones, Llundain; ac agorwyd y Neuadd yn 1854. Costiodd £12,000 yn amhibynol ar bris y tir. Mae gwyneb fesur yr adeilad yn 175 troedfedd o hyd. Eir i mewn i'r Neuadd trwy borth 50 troedfedd o hyd, 86 o led, a 14 o uchder; yn yr hwn y cedwir marchnad yd yn wythnosol. Mae i'r Neuadd un ystafell yn mesur 70 troedfedd a 6 modfedd o hyd, 35 troedfedd a 9 modfedd o led, a 18 troedfedd a 9 modfedd o uchder. Mae i'r adeilad amryw ystafelloedd ereill at wasanaeth y Barnwyr, Yna lon, Rheithwyr, &c.

2. *Clafdy Morganwg a Mynyw.*—Mae hwn yn adeilad eang a gwyach yn Heol Roath. Dechreuwyd ef dan yr amgylchiadau canlynol:—Yn

mis Awst 1884, cynnaliwyd Eisteddfod Freninol Gwent a Dyfed, yn Nghastell Caerdydd, dan nawdd y Dywysoges Victoria y pryd hwnw, a than lywyddiaeth Ardalydd Bute. Trodd yr Eisteddfod allan mor llwyddiannus, fel yr oedd £850 yn ngweddill, ar ol talu yr holl dreuliau. Teimlai y pwyllgor awydd gosod yr arian hyn allan er budd y dref; ac ar ol cydymgynggori a'r Ardalydd, awgrymodd ef y priodoldeb o osod yr arian i gychwyn trysorfa at adeiladu Clafdy Cyhoeddus; ac a roddodd £1,000 at y £850, gyda darn o dir er adeiladu arno. Rhoddwyd y gweddill o'r arian, sef £10,944 6s. 2c. gan y diweddar Daniel Jones, Ysw., Beaupre; ac y mae careg uwch ben drws yr adeilad yn cynnwys cerfiad coffadwriaethol o'r daioni a wnaeth y boneddwr haelionus hwnw i gleifion, trwy godi er eu budd yr adeilad cyfleus hwn. Agorwyd y sefydliad yn 1887.

8. *Ysppyty'r Morwyr*.—Agorwyd y sefydliad hwn Tachwedd 1, 1866, mewn hen long ryfel o'r enw 'Hamadryad,' yr hon a orwedd yn ngeneu y Camlas. Cynnelir y sefydliad trwy godi dau swllt am bob 100 tunnell o gofrestriad, ar y llongau a ddeuant i Gaerdydd a Phenarth. Mae'r sefydliad daionus hwn yn agored i forwyr pob gwlad.

4. *Tlotty'r Undeb*.—Adeiladwyd hwn yn 1885, ar ochr y brif heol sydd yn arwain o'r dref i'r Bontfaen. Costiodd £8,000, a bwriedir ei helaethu yn fuan. Mae yn perthyn iddo Ysgol Ddiwydrwydd (*Industrial School*), a sefydlwyd yn 1862. Mae 40 o blwyfi yn perthyn i'r undeb hwn, ac yn cynnwys gyda'u gilydd 89,198 erw.

5. *Carchardy'r Sir*.—Saif hwn yn y rhan hono o'r dref a elwir Newtown. Dechreuwyd ei adeiladu yn 1826, ac agorwyd ef yn 1832. Mae llawer wedi ei ychwanegu at yr adeilad gwreiddiol wedi hyny. Costiodd yr adeilad hwn tuag £50,000. Yr oedd yr hen Garchardy yn High Street, lle y mae swyddfa yr heddlu yn awr. Yn 1862, aeth hwn dan gryn gyfnewidiad, pryd yr ychwanegwyd chwech cell ato, ar y draul o £1,100.

6. *Y Ty Marchnad*.—Adeiladwyd ef yn 1835, gan y Gorpholaeth, ar y draul o £6,000. Mae yn adeilad lled gyfleus, ac wedi ei drefnu yn dda. Cynnelir y marchnadoedd ar ddyddiau Mercher a Sadwrn. Y ffeiriau, ail ddydd Mercher yn mis Mawrth, Ebrill, a Mai; Mehefin 29, Medi 19, a Thachwedd 30.

7. *Y Chwareudy*.—Adeiladwyd yn 1827.

8. *Cartre'r Morwyr*.—Sylfeiniwyd yr adeilad buddiol hwn, gan yr Ardalydd Bute presenol, pan nad oedd ond prin 6 mlwydd oed, Gor. 14, 1858. Saif yr adeilad mewn man cyfleus ger Bute Docks. Mae ynddo le i 150 o forwyr, a chan bob un ystafell gloedig iddo ei hun. Mae yn perthyn i'r sefydliad llyfrfa, darllenfa, ystafell chwareu, &c.; a gwnaed y cwbl ar draul y sylfeinydd.

9. *Llyfrfa Gyhoeddus, Amgueddfa, ac Ysgol Gelfyddydol*.—Agorwyd Llyfrfa Rydd y dref yn mis Tachwedd, 1860. Cynnelid hi ar y cyntaf trwy danysgrifiadau gwirfoddol; ond yn mis Medi, 1862, galwyd cyffarfod gan Faer y dref, er cael y sefydliad dan "Act Llyfrfaoedd Rhydd, 1855." Cynnwysa y sefydliad yn awr, ystafell Newyddiaduron,

ystafell Cyhoeddiadau (*Magazines*), a Llyfrfa. Mae'r ddwy flaenaf yn agored i bawb; ond ni roddir llyfrau allan, ond i rai yn byw yn y fwrdeisdref. Yn 1868, rhoddwyd allan 17,888 o lyfrau o'r sefydliad. Ar loft yr adeilad y cynnelir cyfarfodydd yr Ysgol Wyddonol a Chelfyddydol, yr hon sydd yn perthyn i'r *South Kensington Museum*. Bwr-iedir ychwanegu amgueddfa at y sefydliad ardderchog hwn mor fuan ag y gellir.

10. *Badd-dai Cyhoeddus*.—Adeiladwyd y rhai hyn yn 1861, mewn lle o'r enw Gilford-Crecent, yn nghanol y dref. Mae yn y sefydliad ddau nosfe (*Swimming Baths*), a dros filiwn o alwyni o ddwfr yn mhob un o honynt. Costiodd y nosfeodd hyn £1,850.; baddle dwfr cynhes £950; Turkish Bath £900, y cwbl yn £8,700.

11. *Sefydliad y Deillion*.—Saif y sefydliad hwn yn Splottland Terrace. Dechreuwyd ef yn mis Mawrth, 1869. Costiodd £8,000; ac y mae yn ateb y dyben yn dda. Gwneir pasgedi a mats yma gan y deillion; am y rhai y mae'r pwyllgor yn gofalu yn anrhydeddus.

12. *Y Sophia Gardens*.—Rhoddwyd y Gerddi hyn gan y ddiweddar Arglwyddes Bute i drigolion Caerdydd, yn faes ymbleseru. Saif y rhai hyn ar du gorllewinol afon Taf, yn gwynebu tir y Castell; ac y maent wedi eu gosod allan yn y modd mwyaf chwaethus ac ardderchog; ac yn cynnwys braidd bob math o blanigion, a blodau, &c.

13. *Y Claddfeydd*.—Gan nad oedd ond un Fynwent Blwyfol, sef mynwent Eglwys Ioan, yn y dref oddiar y flwyddyn 1607, a bod meirwon y ddau blwyf yn cael eu claddu yn y fynwent hono, yr oedd wedi myned mor llawn, fel yr oedd esgyrn dynol yn frith trwy y pridd. Llanwyd y mynwent i byohain oedd wrth y capeli hefyd, fel y barnwyd yn angenrheidiol cael Mynwent Gyffredinol i'r dref. Tuag at wneyd hyn, rhoddodd ail Ardalydd Bute ddarn helaeth o dir, adeiladwyd mur o'i amgylch, a chapel yn y fynwent, yr hwn a gysegrwyd Medi 25, 1848. Rhanwyd y gladdfa hono rhwng y ddau blwyf; ond gan fod plwyf Mair yn myned ar gynydd mor gyflym, y trigolion a'r tai yn lluosogi, ac felly y marwolaethau hefyd, llanwyd y rhan o'r gladdfa a berthynai i'r plwyf hwn yn fuan iawn. Bu hyn yn foddion i sefydlu Bwrdd Claddu yn y dref, yr hwn a brynodd ddarn o dir tua 80 erw ar fferm y Wedal, er gwneyd Claddfa Newydd. Adeiladwyd mur o amgylch y tir, a dau gapel y tu fewn yn ol cynllun R. G. Thomas, Ysw., Archadeiladydd y llywodraeth yn awr yn Adelaide. Mae lled arwynab y capeli yn 140 troedfedd, ac y mae i'r adeilad dwr uchel pigfain. Mae'r tir yn rhanedig rhwng yr Eglwyswyr, Ymneillduwyr, a Phabyddion; ac y mae Capel Pabyddol wedi ei ychwanegu at y ddau flaenorol. Agorwyd y Gladdfa hon yn 1859. Costiodd £14,000.

14. *Gwaith Nwy*.—Corpholwyd Cwmni Nwy (*Gas*) y dref, trwy Act Seneddol yn 1837, gyda'r swm o £20,000. Yn 1854, ail gorpholwyd y cwmni gyda'r swm arianol o £80,000. Yn 1870, corpholwyd y cwmni y drydedd waith gyda chyfalaf o £200,000.

15. *Dwfr Weithfa* (*Water Works*).—Corpholwyd Cwmni y Ddwfr Weithfa, Gor. 15, 1850. Gwnaed y gronfa rai mildiroedd allan o'r

dref, ar y tu gogledd ddwyrain; ac y mae Roath, Caerdydd, a Chanton, yn cael eu diwallu â digonedd o ddyfroedd glân ac iachus o'r gronfa hono.

Llywodraethir y dref gan Faer a Chorholiaeth, yn cynnwys 6 Henadur, a 18 o Gynghorwyr trefol. Y Maer tra yn ei swydd yw Ynad y dref; ond y mae yma Hedd-ynad taledig heblaw y Maer; a thua 15 o foneddwyr ereill yn eistedd ar y fainc yn achlysurol. Mae'r dref wedi ei rhanu yn ddwy ran gyffredinol, y rhai a elwir *North and South Wards*; a thri henadur, a naw Cynghorwr yn perthyn i'r naill a'r llall o honynt. Mae swyddwyr y dref yn cynnwys y Maer, yr Henaduriaid, y Cynghorwyr, Clerc y Dref, Arohadeiladydd, Tirfesur-ydd, *Sergeant-at-mace*, gyda llu mawr o heddgeidwaid.

Er mai mewn dau blwyf yr arferid cyfrif y dref, y mae ei chynnydd wedi bod mor fawr yn ddiweddar, fel y barnwyd yn ddoeth helaethu terfynau y Fwrdeisdref, gan gymmeryd i mewn ranau o blwyfi Roath, Leckwith, a Llandaf. Gwnaed y cyfnewidiad tua'r flwyddyn 1867. Cynnwysa'r fwrdeisdref bresenol yr oll o'r hen fwrdeisdref, a chym-maint o'r plwyfi a nodwyd ag sydd o fewn y ffin ganlynol:—Cychwynir lle mae Nant Roath a chongl gogledd-ddwyrain yr hen fwrdeis-ffin yn cyffwrdd a'u gilydd, ac yna dilynir y nant i'r De-ddwyrain i'r fan lle ei croesir gan Gledrffordd Dehendir Cymru; ac oddiyno ar y tu deheuol i'r cyfryw gledrffordd hyd afon Rhymini; ac i'r dde gyda'r afon hono hyd y môr; a chyda'r traeth yn orllewinol hyd gwr mwyaf gorllewinol geneu afon Elai; ac oddiyno i fyny gydag afon Elai hyd y fan y croesir hi gan heol sydd yn arwain o'r Bontfaen i Landaf; oddiyno yn ddwyreiniol gyda'r heol hono, hyd y fan y mae Heol Pensishly yn dyfod iddi; ac yna gyda heol Pensishly, nes cyrhaedd ffin y fwrdeisdref wreiddiol; ac yna dilyn y ffin hono i'r fan y cychwynwyd. Mae'r fwrdaes Seneddol yn cynnwys yr hyn a nodwyd, gyda bwrdeisdrefi Llantrisant a'r Bontfaen; ac yn dychwelyd un aelod i'r Senedd.

CANTON.—Saif Canton ar du gorllewinol afon Taf, yn mhblwyf Llandaf, ac y mae yn faesdref boblog, a dosparth Eglwysig annibynol; ac yn cael ei chyfrif ballach yn ran o Gaerdydd. Mae Marchnadle Canton yn sefyll ar 6 erw o dir, ac wedi ei osod allan yn y modd manteisiaf i gario masnach yn mlaen. Dechreuwyd adeiladu Eglwys Ddosparthol Canton yn 1868, ar ddarn o dir a roddwyd i'r perwyl gan John Homphray, Ysw., Y.H.D.L. Castell Penllin; ond ni orphenwyd yr Eglwys, y clochdy, &c., hyd 1857. Rectoriaeth yw'r fyw-oliaeth, gwerth £800 y flwyddyn, yn nawdd a rhodd Esgob Llandaf. Mae holl dai Canton yn newyddion ac yn dda iawn.

Roath.—Mae Roath yn blwyf annibynol yn ffinio a Chaerdydd, ar du dwyreiniol y dref; ac fel yr awgrymwyd, y mae y fath nifer o dai wedi ei codi yma yn ddiweddar, nes yw Roath yn rhan o dref Caerdydd. Yn 1869-70, ail-adeiladwyd Eglwys Roath dan nawdd Ardal-ydd Bute; ac feallai ei bod o ran ei threfniadau mewnol, yn fwy Pabyddol ei harddull nag un Eglwys Wladwriaethol yn Morganwg. Mae muriau'r Ganghell, a rhanau ereill o honi wedi eu hadeiladu yn

addurnol iawn gyda meini mynor, meini Penybont, a meini Forest y Dean, ac y mae'r cwbl yn edrych yn ardderchog. Mae tufewn i gorff yr Eglwys drachefn wedi ei adeiladu â phriddfeini o wahanol liwiau. Mae ynddi Feddgor (*Mausoleum*) ardderchog er cof am deulu Bute, ac y mae'r cwbl wedi ei wneyd yn y modd gwyhaf. Ficeriaeth gwerth £125 y flwyddyn yw'r fywioliaeth, yn rhodd Ardalydd Bute. Mae llawer iawn o dwrw wedi bod yn ddiweddar yn nghyleh yr Eglwys hon, am fod defodau Pabyddol yn cael eu dwyn yn mlaen mor amlwg ynddi dan gochl Protestaniaeth. Gan fod cynnifer o fywiolaethau Eglwysig yn rhodd Ardalydd Bute, ac yntau yn Babydd, diamheu fod ei ddylanwad yn myned yn mhell iawn er dwyn defodau Pabyddol i'r Eglwysi sydd dan ei nawdd.

Capel Anwes dan Eglwys Roath yw Christ Church, Splottlands.

Nid anhriodol fyddai enwi Roath yn dref o balasau, oblegyd nid oes nemawr dy cyffredin yn y lle; ond yr oll o honynt braidd yn balasau gwychion, a llawer o honynt heb fod yn gydiol a'u gilydd, ac wedi eu cychynu â phlanigion heirdd a blodau prydfferth.

Cyhoeddir dau newyddiadur dyddiol yn y dref, sef y *Western Mail* (Ceidwadol), a'r *South Wales Daily News* (Rhyddfrydol); a thri wythnosol, sef y *Weekly Mail*, *Cardiff Times*, a'r *Cardiff & Merthyr Guardian*.

Prisiad (*rateable value*) plwyf St. Mary, a wnaed Medi 29, 1871, oedd £125,965. Plwyf St. John, £48,488. Roath, £21,671. Llandaf, £84,208. Leckwith, £1,548.


Rhif tai plwyf Mair yn 1861 oedd 8,578; yn 1871, 8,759. Rhif tai plwyf St. John yn 1861, 1,581; yn 1871, 1,949. Rhif tai plwyf Roath yn 1861, 695; yn 1871, 1,871. Rhif tai plwyf Llandaf, yn cynnwys Canton, yn 1861, 1,591; yn 1871, 2,188.

#### COFNODION.

- 1171. Harri I. yn talu ymweliad a'r lle wrth ddychwelyd o'r Iwerddon.
- 1821. Crogwyd Syr William Fleming ar *gibbet* ger y Twr Du.
- 1404. Dinystrio'r dref a'r castell gan Owen Glyndwr.
- 1555. Merthyr Rowland White yn y dref am goleddu Protestaniaeth.
- 1601. Ganwyd William Cadwgan yma. Bu yn ysgrifenydd y Cyfrin Gyngor dan Charles I. Yn 1641, dyrchafwyd a phennodwyd ef yn Llywodraethwr Castell a Bwrdeisdref Trim yn Iwerddon, lle y bu farw yn 1660.
- 1642. Cymmerwyd y dref gan fyddin Cromwell, ond adfeddiannwyd hi drachefn gan wyr y brenin.
- 1645. Charles I. yn aros wythnos yn y Castell.
- 1648. Cymmerwyd hi drachefn gan Cromwell.
- 1796. Adeiladu pont pump bwa dros afon Taf. Mae hon wedi ei thynu i lawr, ac un ragorach lawer wedi ei hadeiladu yn ei lle.
- 1798. Gorphen y Camlas rhwng Caerdydd a Merthyr.
- 1819. Agor Ariandy Cynnilo yn y dref.
- 1888. Dechreu rhedeg Agerlongau rhwng Caerdydd a Bristol.
- 1841. Agor Cledriffordd o Gaerdydd i Ferthyr.







Castell Caerffili.  
Hanes Morgannwg.

1850. Agor Cledrffordd Deheudir Cymru trwy Gaerdydd.

1858. ~~Adroddiad~~ ~~Cefnollafn~~ ~~Rhonse~~ er cof am ~~Arddeludd~~ P...

... ..

... ..

... ..

... ..

... ..

... ..

... ..

... ..

... ..

... ..

... ..

... ..

... ..

... ..

... ..

... ..

... ..

... ..

... ..

... ..

... ..

... ..

... ..

... ..

... ..



1850. Agor Cledrffordd Dehendir Cymru trwy Gaerdydd.

1858. Adeiladu Cofgolofn *Bronze* er cof am Ardalydd Bute, a fu farw yn 1848.

1872. Dechreu rhedeg Agerlongau ymfudol rhwng Caerdydd a New York.

**CAERFFILI.**—Tref farchnadol a chapeliaeth yn mhlwyf Eglwys Elian, Cantref Caerffili, tua 7 milldir i'r gogledd-orllewin o Gaerdydd. Rhed y brif heol rhwng Casnewydd a Merthyr Tydfil trwy y dref, a rhed Cledrffordd Caerdydd a Rhymni heibio iddi, ac y mae'r orsaf ar y llinell hon yn ymyl y dref. Rhwng Caerffili a Chaerdydd, ar y linell hon, y mae Tunnel Mynydd Cefn On, yr hwn sydd yn filldir o hyd. Dechreuwyd ei wneyd Medi 1866. Tra yn ei gloddio trwy y mynydd, suddwyd 5 o byllau o'r arwyneb iddo, er mwyn ei awyru. Dyfnder y pyllau hyn o'r arwyneb i'r *tunnel*, ydynt fel y canlyn:—Pwll rhif 1, sef yr agosaf i Gaerffili, 148 troedfedd; Rhif 2, 815 troedfedd; Rhif 3, 850 troedfedd; Rhif 4, 180 troedfedd; Rhif 5, 94 troedfedd. Mae'r tunnel hwn, ar y tu nesaf i Gaerffili, yn 354 troedfedd uwchlaw gwyneb y mor; a'r pen nesaf i Gaerdydd iddo yn 811 troedfedd uwchlaw'r mor. Y pellder o eneu deheuol y tunnel, at y pwll cyntaf, yw 15 llath, o'r pwll cyntaf i'r ail 801 llath, o'r ail i'r trydydd 808; o'r trydydd i'r pedwerydd 429; o'r pedwerydd i'r pummed 384; ac o'r pummed i'r geneu nesaf i Gaerffili 188 llath. Y cwbl yn 1760 llath, sef milldir. Y pellder o Gaerffili i Gaerdydd ar y llinell hon yw 8 milldir.

Dywed rhai hanesion fod Caerffili yn Fwrdeisdref gynt, ond iddi golli ei breinlen yn amser Harri VIII. Mae yn perthyn i Undeb Pontypridd yn bresenol; ac o fewn dosparth llys sirol Caerdydd. Cynnelir marchnad yn wythnosol yma ar ddydd Mawrth, i werthu caws yn benaf; ac y mae cymmaint o son am "Gaws Caerffili" yn Morganwg, ag sydd o son am 'Gaws Caer' yn Liverpool a manau ereill. Cynnelir ffair yma Ebrill 4 a'r 5, Mawrth y Drindod, Gor. 19, Awst 25, Hydref 9, Tachwedd 16, a'r Iau cyn y Nadolig.

Capel Martin, sef y Capel Eglwysig, sydd adeilad syml a di-addurn, a'r fywoliaeth yn Ficeriaeth gwerth £300 y flwyddyn yn rhodd Deon a Glwysgor Llandaf. Yn y capel hwn y priododd yr enwog George Whitfield a Mrs. Elizabeth James, o Abergavenni, yn 1741. Dyddia y cofyfr o'r flwyddyn 1700. Bwriedir adeiladu Eglwys newydd yma yn fuan yn werth £4,000. Yn 1868, adeiladwyd Ysgoldy Cenedlaethol gwych yma, yn werth £1,800. Mae yma Ysgoldy Brytanaidd ac un Elusenol hefyd; ac addoldai gan y gwahanol enwadau. Adeiladwyd Capel y Methodistiaid yma yn amser y Parch. D. Jones, o Langan. Codwyd Capel y Bedyddwyr yn 1824; yr Annibynwyr yn 1848, ac y mae yma gapel gan y Wesleyaid Seisnig.

Mae yn y dref ariandy hefyd, a gweithfa wlenyn eang. Yn y gymydogiaeth y mae chwech pwll glo a lefel, yn y rhai y mae amryw gannoedd o bobl yn cael eu cyflogi. Tua milldir a hanner o'r dref y mae Chwarel Pwll y Pant, yr hwn a agorwyd yn 1867 i gloddio cer-

ryg at adeiladu *Docks* Caerdydd. Mae tua 170 o ddynion yn gweithio yn hwn, ac anfonir tua 850 tonnall o gerryg o'r ohwarel yn ddyddiol. Y perchenog yw Ardalydd Bute. Medi 5, 1878, darganfyddwyd haen o fwn coch, yn dair troedfedd o drwch, ar ffarm y Cwm, ger y lle hwn.

Yn ymyl y dref y saif adeilion hen Gastell Caerffili, yr hwn yw yr adeilion castellawg eangaf yn y deyrnas, ac y mae ei hanes yn bwysig a dyddorol. Mae ymgais Saeson i geisio penderfynu tarddiad yr enw Caer-ffili yn ddigrifol i'r pen, ac y mae yr ystyr a roddir iddo gan ambell Gymro yn llawn mor ffol. Mae llawer wedi myned i amryfusedd afresymol hefyd gyda golwg ar hanes y castell hwn, naill ai o ddiffyg deall ein hiaith ac hanes ein cenedl, neu o eisiau llafurio i chwilio am y gwirionedd. Dywed awdwr y *Guide to Swansea* fod yr enw yn tarddu o *Chare Filii*, a'i fod wedi cael yr enw am i ryw swyddog milwrol osod ei fab i drigo yma! Dywed ereill mai Julius Agricola adeiladodd y Castell yn amser Domitian, yr Ymherawdwr Rhufeinig, ac mai *Caer Juli* oedd yr enw yn wreiddiol. Dywed dosparth arall o estroniaid mai boneddiges Rufeinig o'r enw Philis a'i sylfaenodd, ac mai enw iawn y lle yw Caer Philis. Dywed rhai Cymry mai Cae-y-fu-lli oedd yr enw ar y cyntaf, ac y mae'r syniad hwn mor ddisynwyr o'r lleill. Pe buasai y dychymygwyr hyn yn gwybod ond ychydig o Hanes-iaeth Gymreig, arbedasai iddynt y drafferth o freuddwydio'r fath ffol-ineb. Enw cyntefig y lle oedd Cor Cennydd, a chafodd yr enw hwn trwy i Cennydd ab Gildas y Coed Aur ab Caw Cowlyd sylfaenu Cór neu Ysgol Gristionogol yn y lle yn y 6fed ganrif. Wedi iddo sefydlu yr athrofa hon, symmudodd Cennydd i Fro Gwyr, ac adeiladodd athrofa yno hefyd mewn lle a elwir yn bresenol wrth yr enw Llan-gennydd. Llygriad o'r enw Sant Cennydd yw Senghennydd (Caer-ffili) a Sein Henyd (Abertawy), a chymmysgu Senghennydd a Sein Henyd a'u gilydd gan estroniaid sydd wedi achosi cymmaint o ddy-ryswch yn hanes Caerffili ac Abertawy. Pan symmudodd Cennydd i Frowyr, gadawodd yr athrofa a sylfaenodd yma i ofal ei fab Ffili, yr hwn a adeiladodd fath o amddiffynfa neu fur o amgylch yr adeilad, a chafodd y lle yr enw Caer Ffili. Parhaodd yr athrofa mewn oryn fri hyd y flwyddyn 881 o.c., pryd y daeth mintai o Sacsoniaid Lloegr (Mers) i'r ardal, ac a losgasant Gaerffili a Threoda, oddiwrth yr hon y mae Gwauntrodau wedi cael yr enw, ac yna dychwelasant i Loegr dros Hafren. Rhoddodd hyn derfyn ar yr athrofa. Barna rhai han-eswyr i'r Castell, adeilion yr hwn sydd yn aros, gael ei adeiladu gan Iorwerth I., ac fel rheswm dros y syniad, dywedant i'r brenin hwnw, ar ol iddo adeiladu Castell Caerynarfon, fod yn aros dwy flynedd yn Nghaerdydd gyda Gilbert de Clare, ei fab-yn-nghyfraith, ac mai arol-ygu adeiladiad Castell Caerffili fu ei orchwyl penaf yn ystod y ddwy flynedd hyny, ac iddo wrth ddychwelyd i Lundain gynnal gwledd fawr yn Bristol yn 1285. Dywed ereill fod y Castell wedi ei adeiladu lawer cyn hyny, a bod Rhys Fychan, tywysog y Deheudir, wedi ei ddinystrio yn 1215. Dywed Malkin, ac ereill ar ei ol, fod Llywelyn ab Iorwerth, Tywysog Gwynedd, wedi ymosod ar y Castell hwn yn 1217—8, gan ei gymmeryd oddiar Reynold de Breos, Arglwydd Brycheiniog, a'i roddi

i ofal Rhys Grug, ac i Rys ei ddinystrio. Dywedir hefyd i John de Breos, ar ol iddo briodi Margaret, merch Llywelyn ab Iorwerth, yn 1219, yn mhen dwy flynedd ar ol hyny, sef yn 1221, ail-adeiladu y Castell. Dywed yr un dosparth o haneswyr i Llywelyn ab Gruffydd, ein Llyw olaf, ddinystrio'r Castell hwn yn 1270.—(Gwel *Powell's Hist. of Wales*, p. 244—247; *Malkin's Vol.*, p. 284, &c.)

Dichon y cyfrifir fi yn hyf a beiddgar gan lawer, etto yr wyf yn dweyd yn ddiiofn ac eofn mai camsyniadau yw y rhai hyn i gyd; a drwg genyf fod yr unrhyw gamsyniadau yn yr erthygl ar Gaerffili yn "Hanes Cymru," gan y Parch. Owen Jones.

Gwir y dywed *Brut y Tywysogion* i'r personau a nodwyd ymosod ar *Gastell Sein Henyd*, a gwir fod Caerffili wedi bod yn cael ei henwi yn *Senghennydd*; ond pan gymmerwn i ystyriaeth fod y cyfeiriadau geir yn y Brutiau Cymreig at *Gastell Sein Henyd*, bob amser yn gysylltiol â chyfeiriadau at *Gestyll Gwyr*, mae pob rheswm yn bleidiol i'r dybiaeth fod y *Sein Henyd* y sonir am dano yn *Ngwyr* hefyd.

Dywed y cofnod am ryfelgyrch Rhys Ieuange. iddo yn y flwyddyn 1215, ar ol gorchfygu *Castell Cydweli*, ddyfod i *Whyr* (Gwyr), "ac yn gyntaf goreagynawdd *gastell Llychwr*; ac oddiyno yr ymladdawdd â *chastell Hu*. (Sef *castell Hugh de Myles*, yn *Llandilo Talybont*, ar lan afon *Llychwr*.) Arfaethodd y *castellwyr* ei gadw yn ei erbyn; ac yntau Rhys, a gafas y *castell trwy drais*, ac a orchfygodd y *castellwyr trwy dan a haiarn*. *Tranoeth y cyrchodd tua Sein Henyd*, a rhag ei ofn ef y llosges y *castellwyr y dref*; ac yntau heb dori ar eu harfaeth, a gyrchasant *gastell Ystumllwynarth* (sef *Oystermouth*), a phabellu yn ei gylch y nos hono a wnaeth, a thranoeth y cafas y *castell ac y llosges ef y dref*. *Ac erbyn pen y tridiau y goreagynawdd holl gestyll Gwyr:*" *Myf. Arch.* p. 689—40.

Nid oes un rhith o synwyr yn y dybiaeth ddarfod i Rys Ieuange ddyfod â'i fyddin o lan afon *Llychwr* i *Gaerffili*, ac ar ol gweled y lle ar dân, iddo ddychwelyd hyd at *gastell Oystermouth*, mewn un diwrnod. Mae yn eglur, gan hyny, mai un o *gestyll Gwyr* yw y *Sein Henyd* y cyfeirir ato, ac nid *Caerffili*; ac o ddiffyg ystyried hyn, mae haneswyr wedi gwneyd camsyniadau dybryd. Nid oes amheuaeth yn fy meddwl i, nad *castell Abertawy* yw *Sein Henyd* y *Brutiau Cymreig*: ac i gadarnhau hyn, ceir yr enw *Abertawy* yn mawl gerddi yr hen feirdd i Rys Grug, *Llywelyn ab Gruffydd*, &c., yn lle *Sein Henyd*. Mewn hen *Weithred a gedwir yn Nghastell Penrice*, a elwir "*Protectio Filii Cadwalan*," ceir y gair *Sengenny* fel enw lle yn *Ngwyr*; yr hyn sydd brawf ychwanegol mai nid *Caerffili* olygir. Bellach, wedi dangos mai nid cywir y syniad mai yr un yw *Caerffili* a *Sein Henyd*, awn yn mlaen ag hanes y *Castell hwn*.

Ar farwolaeth *William, Iarll Caerloyw*, yn 1188, daeth *Arglwyddiaeth Morganwg* i feddiant *Syr Gilbert de Clare, Iarll Clare*, yr hwn a wnaed hefyd yn drydydd *Iarll Caerloyw* ac *Arglwydd Morganwg*, trwy ei briodas ag *Amicia*, merch *William, Iarll Caerloyw*, yr hwn oedd wŷr i *Harri I.* o du ei dad, ac yn wŷr i *Syr Robert Fitzhamon* o du ei fam. Dilynwyd *Gilbert de Clare* gan ei fab *Gilbert*, 4ydd *Iarll Caer-*

loyw: yna gwnaed mab Richard de Clare yn 5ed Iarll Caerloyw ac Arglwydd Morganwg, yr hwn a ddilynwyd gan fab Gilbert (yr ail a enwyd), 6ed Iarll Caerloyw; a Gilbert, mab hwn, a wnaed yn 7fed Iarll Caerloyw ac Arglwydd Morganwg ar farwolaeth ei dad. Priododd yr Iarll hwn a Joan de Acres, merch Edward I., Brenin Lloegr. Cofier nad oedd y tir sydd rhwng afon Taf ac afon Rhymni yn rhan o Arglwyddiaeth Morganwg y pryd hwnw. Bu cryn gynhwrf yn Morganwg yn amser y Iarll hwn,—yr oedd Edward I., ei dad-yn-nghyfraith, a'i holl egni yn ceisio darostwng Gwynedd, ac yntau yn ei efel-ychu yma. Gwrthwynebydd cyndynaf y Iarll hwn oedd un Morgan ab Meredydd, yr hwn yn ol pob tebygolwydd ydoedd ddisgynydd o Ifor Bach, a disgynydd arall o hono oedd Hywel Felyn. Dywed Malkin, yr hanesydd, i'r Gilbert hwn brynu y tir y saif Castell Caerffili arno; ond ni ddywed gan bwy y prynodd ef. Barna ereill mai ei gymmeryd trwy drais wnaeth oddiar Hywel Felyn, y gwir berchenog. Mae yr araeth a draddodwyd yn y Castell, Gor. 28, 1871, gan G. T. Clark, Ysw., F.S.A., yn awgrymu hyn yn ddigon eglur.

Ymddengys mor bell ag y gellir casglu a barnu, i'r Castell gael ei sylfaenu yn y flwyddyn 1270. Bu Gilbert de Clare, sylfaenydd y Castell, farw yn 1295, gan adael y Castell a'r tiroedd a berthynai iddo i'w weddw a'i hetifeddion dros byth; ond aeth Arglwyddiaeth Morganwg i feddiant ei fab Gilbert, 8fed Iarll Caerloyw. Pan oedd hwn yn 28 oed, cafodd ei ladd yn mrwydr Bannockburn, Mehefin, 1314, wrth ymladd o blaid Edward II. yn erbyn y Scotiaid. Wedi ei farwolaeth ef, gwnaed Caerloyw yn Dduciaeth, ac felly efe oedd yr Iarll olaf. Gan nad oedd ganddo blant, rhanwyd ei feddiannau rhwng ei dair chwaer — Margaret, Elizabeth, ac Eleanor, a daeth Arglwyddiaeth Morganwg i ran yr olaf. Priododd hono â pherson o'r enw Hugh le Despenser, ieuangaf, yr hwn oedd hynod drachwantus am eiddo ereill. Erbyn hyn yr oedd Joan de Acres, gweddw Gilbert de Clare, wedi priodi â Ralph de Mortimer, ac wedi gwneyd ei hewyllys, yn trosglwyddo Castell Caerffili a'r tiroedd perthynol iddo i'w gwr a'i etifeddion dros byth. Gwnaeth hi hyn heb ofyn caniatad y brenin, sef ei brawd, a phan glywodd ef, digiodd wrthi yn eithafol; a chan mai Hugh le Despenser oedd ei brif gyfaill, rhoddodd y brenin ganiatad i hwnw i ymosod ar y Castell, a'i gymmeryd oddiar Ralph de Mortimer, er fod yr olaf yn briod â'i chwaer. Wedi i Hugh feddiannu y Castell, efe a'i cadarnhaodd yn llawer cryfach nag oedd yn flaenorol. Mewn cysylltiad â thrawsfeddiannu y Castell, darfu iddo ddiswyddo yr holl Gymry oedd-ynt cyn hyny yn dal swyddi yn Morganwg, ac yn eu plith yr enwog Llywelyn Bren, un o ddisgynyddion Ifor Bach. Am y sarhad hwn, cododd Llywelyn arfau amddiffynol, ac ymosododd ar y Castell gyda 10,000 o wyr, a chlymmerodd ef oddiar Hugh le Despenser yn 1315. Pan glywodd y brenin am hyn, anfonodd fyddin gref o Loegr, dan arweiniad W. de Montacute, ac a'r hwn yr ymunodd Iarll Henffordd, i ymosod ar Llywelyn; ac ar ol naw wythnos o ymladd caled, gorfu ar y Cymro dewr roi ei hun i fyny. (Gwel y manylion yn yr HANES WLADOL.)



Tua'r flwyddyn 1828, casglodd Roger de Mortimer fyddin o 10,000 i ymosod ar y Castell hwn, er ceisio adfeddiannu y lle, trwy ei gymmeryd o afael yr hwn a'i lladrataodd oddiar ei dad, sef Ralph de Mortimer; ond bu ei ymosodiad yn aflwyddiannus.

Fel y dangoswyd mewn rhan arall o'r llyfr hwn, yr oedd Hugh le Despenser yn cyflawni y gweithredoedd mwyaf anafad, ac nis gellid ei ystyried yn amgen nag arch-yspeilydd y deyrnas, ac etto noddid ef gan y brenin. Yr oedd yn yspeilio eiddo y Normaniaid yn ogystal ag eiddo y Cymry, fel y daeth yn ddiareb, os collid unrhyw beth, y dywedid,—“Mae wedi myned i Gaerffili.” Yn y diwedd, wedi hir oddef trais, cododd Barwniaid Lloegr a Chymru arfau yn erbyn y Brenin Edward II. a'i gyfeillion—y ddau Hugh le Despenser. Darfu i'r frenines hefyd godi byddin yn y Netherlands, ac ymunodd a'r Barwniaid yn erbyn ei gwr ei hun. Ymunodd Roger de Mortimer a'i fyddin hefyd gyda'r lleill, fel yr oedd y cwbl yn dra lluosog. Torodd y terfysg allan yn 1826, a phan aeth yn rhy gyfyng ar y brenin yn Lloegr, fodd tua Chaerffili, a thra ar y ffordd, daliwyd Hugh le Despenser yr hynaf yn Bristol, lle y rhoddwyd ef i farwolaeth. Dywed rhai haneswyr i'r brenin hwylio mewn llong o Bristol, gan fwriadu myned i'r Iwerddon; ond iddo gael ei orfodi gan dymhestl i dirio yn Nghastellnedd, ac iddo fyned i'r Fynachlog am noddfa, a ffoi wedi'r nos i Fargam, ac oddiyno draochefn i Lantrisant, lle y daliwyd ef. Ymddengys, pa fodd bynag, mai y ffaith yw, iddo ffoi o Bristol i Gasgwent, ac oddiyno gyda'i gyfaill, Hugh le Despenser, ieuangaf, i Gaerffili; a chan farnu nad oedd-ynt ddyogel yno, ffoisant i Lantrisant, ac oddiyno i Fargam, ac o Fargam i Fynachlog Nedd, lle y cyrhaeddasant Tach. 4ydd neu'r 5ed, 1826. Cymdeithion y brenin yn ei ffoedigaeth oeddynt Hugh le Despenser, Baldwin y Canghellydd, Simon de Redinge, ac ychydig filwyr. Tranoeth, neu yr ail ddydd ar ol cyrhaedd Mynachlog Nedd, hwyliodd y brenin mewn llong, gyda'r bwriad o fyned i Ynys Lundy, yr hon sydd rhwng Sir Benfro a Chornwall; a phe buasai yn llwyddo i gyrhaedd yno, diamheu y buasai yn ddyogel am dymhor beth bynag; ond yn anffodus iddo ef, cododd storm gref, fel y gorfodwyd ef i dirio ger Castellnedd draochefn. Yna aeth am ychydig i'r Castell; ond barnodd mai dyogelach iddo oedd ymguddio yn mhlith mynachod y Fynachlog. Tach. 10, 1826, pan nad oedd ganddo un gobaith am ddiangfa o'r lle hwnw, anfonodd Abbad y Fynachlog, Edward de Bohn, ei nai, sef pedwerydd mab Iarll Henffordd, Rhys Gruffydd, a dau ereill, at y frenines a'i mab i Henffordd, i geisio cael ammodau heddwch. Yr oedd y frenines a'i phlaid wedi cyhoeddi, os buasai i'r brenin roddi ei hun i fyny, a chydymffurfio â chyfreithiau ac a llywodraeth gyfiawn y wlad, y cawsai ddychwelyd i'r orsedd; ond pan ddeallwyd trwy y ddirprwyaeth hon yn mha le yr oedd efe yn lleohu, ni wnaed sylw pellach o'r addewid, ond rhanwyd lluoedd y frenines yn ddwy fyddin, ac ar yr 16eg o Dachwedd, 1826, cymmerwyd y brenin a'i gyfeillion, sef Robert Baldock a Simon de Redinge, yn garcharorion; ond diangodd Hugh le Despenser am ychydig, etto daliwyd ef ger Castell Lantrisant. Cymmerwyd y brenin o Fynachlog Nedd

i Gastell Kenilworth yn gyntaf, ac oddiyno i Gastell Berkly, lle y rhoddwyd ef i farwolaeth mewn dull barbaraid, trwy i Syr Thomas Gourney a Syr John Montrouvers orchymmyn gwthio haiarn poeth trwy ei eisteddfod i'w ymysgaroedd. Gwthiwyd yr haiarn i fyny i'w ymysgaroedd trwy gorn eidion, rhag i neb weled olion llosgiad y tu allan, a chyhoeddwyd i'r brenin farw o farwolaeth naturiol.

Yn ystod y terfysgoedd hyny, ymosododd byddin y Barwniaid ar Gastell Caerffili, gan ei ddinystrio ef. Cynnwysai y fyddin ymosodol 500 o fwawyr (*archers*), 800 o feirch-filwyr, a 10,000 o draed-filwyr. Torwyd y Castell i'r fath raddau y pryd hwnw, fel na fu yn amddiffynfa filwrol ar ol hyny, er iddo fod yn breswylfa am oesoedd dra-chefn. Dywed haneswyr fod y darpariadau ag oedd o fewn y Castell, a'r cynteddau o fewn y muriau, &c., ar gyfer yr ymosodiad hwn, yn fawr aruthrol. A ganlyn yw'r cyfrif a gasglwyd gan G. T. Clark, Ysw. :—28,000 o ddefaid, 1,000 o ychain, 1,200 o wartheg blithion a lloi, 40 o gesyg ac ebolion, 160 o geffylau gwaith, 2,000 o foch tewion, 3,000 o fustych, 40 tunnell o win Ffrainge, 10 tunnell o afalyn (*cider*); cig hallt—600 o foch, 80 eidion, 600 o ddefaid; a digon o yd i gynnal 2,000 o wyr am bedair blynedd. Yr oedd yno hefyd 86 sachaid o wlan, £10,000 o arian bathol, gyda llestri gwerthfawr, digonedd o arfau, a llyfrfa ragorol.

Mae agwedd bresenol y Castell, er mor adfeiliedig yw, yn amlwg ddangos iddo fod yn gadarn iawn unwaith. Pan oedd yn ei fri, yr oedd ar du'r dwyrain iddo, y tu allan i'r muriau, ffos ddofn a llydan, yn 860 troedfedd o hyd, a'r fynedfa i mewn dros y ffos tua'r canol. Y tufewn i'r ffos hon yr oedd ffos ddofn arall, wedi ei chysylltu â llyn wnaed gerllaw. Cylchynai y ffos fewnol ddarn helaeth o dir, nes ffurfio math o ynys, ar yr hon y safai y prif amddiffynfeydd. Yn uno â'r darn tir hwn mewn un cwr, yr oedd darn arall yn gylchynedig gan ffos ar y tu gorllewinol, ac ar y tir hwnw yr oedd rhag-gaer o faint a thrwch aruthrol. Heblaw y ffosydd a'r amddiffynfeydd a nodwyd, yr oedd tair llinell o furiau uchel a thrwchus o amgylch y Castell. Yr oedd y prif fur yn hynod uchel a thrwchus, yn cael ei gadarnhau gan amryw dyrau ysgwâr mewn pellder cyfartal i'w gilydd, a rhodfeydd o'r naill i'r llall, fel y gallai y milwyr ddal cymmundeib â'u gilydd. Yn y cyntedd allanol yr oedd lluestai y gwarchodlu, a'r fynedfa o'r cyntedd hwnw yn arwain trwy borth mawreddog, yn cael ei amddiffyn â thyrâu cedyrn, ohwe-ochrog, ac yna dros grog-bont symmudol uwchben y camlas i'r wylidwrfa fewnol. Oddiyno, ar y tu dwyreiniol, yr oedd fynedfa i gyntedd ystafell y Wladwriaeth, trwy borth gwych, yr hwn sydd i'w weled yn bresenol. Yr oedd y fynedfa o'r cyntedd allanol i'r Castell dros bont symmudol a thrwy borth eang, yn cael ei amddiffyn â gwrthgloddiau cedyrn. Mesura'r cyntedd sydd o flaen Ystafell y Wladwriaeth 70 llath o hyd a 40 o led, yn cael ei amgau yn ogleddol gan furiau uchel a chedyrn iawn, trwy y rhai y mae tyllau a ddefnyddid gan y gwylwyr i saethu trwyddynt. Ar y tu arall, cysgodid y cyntedd hwn gan res o dyrau cryfion, y rhai oedd yn amddiffynfa i'r brif fynedfa i'r Castell. Mae'r brif Neuadd, ar du deheuol y cyntedd hwn, yn

70 troedfedd o hyd, 80 o led, a 17 o uchder. Goleuid hi trwy bedair ffenestr fawreddog, a rhwng y ddwy ganol yr oedd lle tân, olion yr hwn sydd yn aros. Addurnid muriau yr ystafell eang hon â cherffuniau ardderchog. Yn nghwr de-orllewin y Castell yr oedd Twr yr Arfau, o ffurf hir-grwn, a rhodfa lydan yn ei gyssylltu â thyrau y gwylwyr.

Pan ymosodwyd ar y lle gan luoedd y frenines a'r barwniaid, amddiffynwyd ef gydag egni gwrol; ac er y dywed haneswyr i'r ymosodwyr godi hwrdd-beiriant yn cael ei weithio gan fil o bobl i dafu cer-ryg mawrion yn erbyn y muriau, nes gwneyd adwy ynddynt, etto ymddengys i John de Felton, llywydd y fyddin fewnol, ymladd mor ddewr, fel y methwyd cymmeryd y Castell, yn ol pob tebygolrwydd, ond ar delerau neillduol, sef bod y Castell a'r tiroedd perthynol iddo i aros yn meddiant teulu y Dispensers. Pan ddygwyd John de Felton i brawf y flwyddyn ganlynol (1827), am gadw i fyny amddiffyniad Castell Kerfily yn erbyn y frenines a'i mab, y Tywysog Iorwerth, dadleuodd ei achos mor ddeheuig fel y cafodd ei ryddhau.

Dywedir fod gan y castellwyr ffwrnes yn ymyl un o'r tyrau at doddi plwm i'w dywallt â pheiriannau oddiar y muriau ar benau y gelynion, ac i'r ymosodwyr droi dwfr i'r ffwrnes hon pan ennillwyd y Castell, yr hyn a barodd i'r ffwrnes ffirwydro, a chan nerth yr ergyd, gwthiwyd y Twr ar ogwydd, ac felly y mae yn sefyll hyd yn awr, a gelwir ef y Twr Cam. Mae yn 80 troedfedd o uchder, ac yn goleddu 11 troedfedd dros ei fon :—

Gwyrwg adael grogedig—ydyw'r certh

Hen Dwr Cam uchelfrig ;

Etto deil i'r corwynt dig

Hyf rodio'i war friwedig.—*Gwilym Elian.*

Yn amser Harri VI., ac am oesoedd ar ol hyny, defnyddid rhan o'r Castell hwn yn garchar cyffredin Arglwyddiaeth Senghenydd, a bu yn arferiad gan drigolion Cantref Caerfili i ddyfod ar adegau neillduol i'r lle i dyngu eu plwyfi, &c. Mae lluaaws o hen lestri, &c., a gafwyd o bryd i bryd wrth lanbau yr yspwriel o ystafelloedd y Castell, yn ngofal Mr. Evans, ceidwad y Castell. Gwelsom y rhai hyn pan gynnalwyd cyfarfod y Gymdeithas Hynafiaethol Freninol (*Royal Archaeological Society of Great Britain*) yn y Castell yn mis Gorphenaf, 1871.

Nid oes un adeilad yn y deyrnas ond Castell Windsor yn unig yn sefyll ar gymmaint o dir a'r Castell hwn; ond er ei holl ogoniant cyntefig,—

Llanereh dylluanod—yw hwn heddyw,

A nawdd i gawlod ;

Bychan gan feirch a buchod

Bori ei glawr er bri ei glod.—*Morgan Morganwg.*

Mae yn ardal Caerfili olion amddiffynfeydd hynach lawer na'r Castell hwn; ond nid yw yn hyspys pa un ai y Rhufeiniaid neu ynte y Cymry a'u hadeiladasant. Un o'r cyfryw yw Castell Morgraig, yr hwn sydd wrthglawdd ysgwâr tua hanner erw o faint; ac y mae yma un arall a ffos o'i amgylch.

Ychydig i'r gogledd o'r dref, y mae palas hynafol Geneu'r Glyn, yr hwn sydd wedi bod yn breswylfa teuluoedd anrhydeddus iawn. Yn 1707, preswylid ef gan Roger Powell, Ysw., yr hwn oedd Uchel Sirydd Morganwg y flwyddyn hono. 1784, John Richards, Ysw., o'r ty hwn, oedd yr Uchel Sirydd; ac yn 1799, John Goodrich, Ysw., Uchel Sirydd, a'i preswyliai.

Y Van, neu'r Fan Fawr, sydd balasdy hynafol o fewn tri chwarter milldir i Gaerffili, ar ochr y ffordd sydd yn arwain i'r Casnewydd. Dyma hen breswylfa Lewisiaid y Van. Brodorion o Ferthyr Tydfil oedd y rhai hyn, ac yn ddisgynyddion o Hywel Felyn, Ifor Bach, a Chedrych ab Gweithfoed, Tywysog Ceredigion. Er mai y teulu hwn oedd gwir arglwyddi Senghenydd er amser y Goresgyniad Normanaidd, etto ymddengys mai prynu y Fan wnaeth Edward Lewis, Ysw., o Ferthyr, gan Henry Iarll Penfro. Bu yr Edward Lewis, hwn yn Uchel Sirydd Morganwg yn 1548, 1555, a 1559. Edward Lewis, ei fab, a'r trydydd o'r enw, gychwynodd deulu Lewisiaid Llanisan, o'r hwn deulu y mae Mr. Lewis, Green Meadow, yn ddisgynydd. Edward Lewis y pedwarydd oedd Sirydd ac Is-Geidwad Morganwg yn 1569. Efe adeiladodd Ty Lewis yn St. Mary Street, Caerdydd, lle y saif y *West of England Bank* yn awr. Wedi marwolaeth Edward Lewis y pumed, profwyd ei ewyllys Chwefror 8, 1594. Gadawodd y tŷ a enwyd a thŷ arall i'w weddw; a'r holl dir a brynwyd gan Henry Iarll Penfro i John Lewis, ei fab. Syr Edward Lewis, y Fan, St. Ffagan, Penmare, a Llantrydyd, Marchog, a enwyd yn 1580. Gwnaed ef yn Farchog yn Whitehall yn 1608. Bu yn Sirydd Morganwg yn 1601 a 1608. Yn 1616, prynodd St. Ffagan a Phencoed gan Syr W. Herbert. Bu farw yn 1628, a chladdwyd ef yn ol ei ddymuniad, yn Eglwys Bedwas, Mynwy. Gadawodd yn ei ewyllys £2 i Eglwys Llandaf, £8 6s. 8c. i dlodion plwyf Bedwas, a'r un faint i dlodion St. Ffagan, yn flynyddol. Daeth William Lewis, Ysw., o'r Fan, i feddiant o'r lle ar ol ei frawd hynaf. Yr oedd hwn yn bleidiol iawn i achos Charles I. yn amser y Chwildroad. Edward Lewis, o'r Fan a Bristol, a enwyd Gorphenaf 80, 1650, a bu farw heb etifedd, fel y daeth y lle yn eiddo ei ewythr, Richard Lewis. Mary, chwaer Richard Lewis, a briododd yn gyntaf â William Jephson, Ysw. Priododd yr ail waith â Syr John Aubrey, Llantrydyd, yr hwn oedd yn A.S. dros Brackley. Wedi ei gladdu ef, priododd Mary â Charles Kemys, Cefn Mabli; a phriododd y pedwerydd waith â William Aubrey, Ysw., Aberhonddu. Richard Lewis, o Gaerlleon (wedi hyny o Briordy Eddington a'r Fan), oedd A.S., dros Westbury yn 1660. Rhoddodd balas Geneu'r Glyn i Roger Powell yn 1696. Dilynwyd ef i'r etifeddiaeth gan ei fab, Thomas Lewis, o'r Fan a St. Ffagan, yr hwn oedd *Jacobite* selog. Priododd âg Elizabeth Tremoxer o *St. Martin's-in-the-field*, a chawsant un plentyn, sef Elizabeth, yr hon pan yn 21 oed a briododd âg Other Windsor, trydydd Iarll Plymouth. Other Lewis Windsor, pedwerydd Iarll Plymouth, oedd taid Arglwyddes Harriet Clive, Barwnes Windsor. Yn meddiant y teulu hwn mae'r 'stad yn

awr.

*Hen Ffwrnes Caerffili.*—Tua milldir i'r gogledd-ddwyrain o'r dref, saif adeilion yr hen ffwrnes enwog hon. Nid oes genym hanes sior pa bryd yr adeiladwyd hi, ond gellir siohau ei bod yn gweithio mor fore a'r flwyddyn 1680, ac yn cael ei pherchenogi y pryd hwnw gan deulu Arglwydd Tredegar. Yn 1694, perchenogid y gwaith gan Mri. John Morgan (un o Forganiaid Tredegar), Roger Williams, a Roger Powell. Preswyliai Roger Powell yn mhalas Geneu'r Glyn, ger y ffwrnes, fel y sylwyd, tra y preswyliai Roger Williams yn Ngwaun y Barran. Ymddengys mai Mr. Roger Powell adeiladodd y ffwrnes gyntaf, ar dir perthynol i Lewisiaid y Fan. Yna priododd ferch Roger Williams, ac unodd hwnw a John Morgan, Ysw., ag ef yn mherchenogaeth y gwaith. Ychydig iawn o hanes y ffwrnes sydd ar gael, yn enwedig yn amser y boneddwr a nodwyd. Yn 1787, ail adeiladwyd y ffwrnes ar raddfa eangach lawer nag oedd yn flaenorol, a gosodwyd peiriant nerthol i'w chwythu, yn lle hen feginau, y rhai a ysgogid gan rhôd ddwfr. Cyn ei hail adeiladu, tua 200 tonnall o haiarn doddid ynddi mewn blwyddyn; ond wedi ei helaethu, a chael peiriant rhagorach i'w chwythu, gwnaed ynddi 508 tonnall o haiarn yn 1796. Yr oedd y swim hwn yn fawr iawn y pryd hwnw, er yr edrych yn fychan mewn cymhariaeth i'r hyn wneir yn bresenol mewn gwahanol fanau. Yn 1666, dim ond un dunnell yr wythnos gynnyrchai ffwrnes Hirwaun, tra y mae'r ddwy sydd yn gweithio yno yn awr (1878) yn cynnyrchu 200 o dunnelli yr wythnos bob un. Bu amryw foneddigion yn perchenogi ffwrnes Caerffili o bryd i bryd, yn mhllith y rhai y ceir enwau Pratt, Harford, a Jones o'r Gelli Wastad; a bernir fod Edward Lewis o'r Fan a rhan ynddi yn 1747. Parhodd i weithio hyd y flwyddyn 1819, pryd yr ymddengys iddi sefyll yn llwyr. Mae yr adeilion, a chrug mawr o *cinders* i'w gwled yma yn bresenol.

*CAS'LWCHWR, NEU CASTELL LLWCHWR (Loughor).*—Mae Cas'lwchwr yn blwyf a bwrdeisdref hynafol ar lan afon Llŵchwr, cantref Abertawy, undeb Llanelli (swydd Gaerfyrddin), deoniaeth Gwyr, arch-ddaoniaeth Caerfyrddin, esgobaeth Tŷ Ddewi, 8 milldir i'r gogledd-orllewin o Abertawy, 50 i'r gorllewin o Gaerdydd, a 211 o Lundain. Llywodraethir y dref gan Bortref, Cofiadur, 12 Henadur, a nifer anmhenodol o fwrdeisiaid. Etholir y portref o blith yr henaduriaid yn flynyddol, ar wyl Mihangel, ac y mae yn ynad y fwrdeisdref tra yn ei swydd. Perigloriaeth yw'r fywoliaeth Eglwysig, gwerth £210 y flwyddyn, gyda phersondy a dwy erw o dir Eglwys (*Hebe Land*), yn rhodd y Goron. Bernir nad yw y dref na'r Eglwys bresenol yn sefyll lle yr oedd yr Eglwys a'r dref gynt; ond dywedir mai yn y man a elwir *Borough* y safai yr hen dref, ac mai ar y fan a elwir *Story Mihangel* y safai yr hen Eglwys, a bod adeilad Eglwysig yn y lle a elwir *Sanctuary*, yn perthyn i Farchogion St. John a Jerusalem. Mae yma gapeli gan y gwahanol enwadau, megys Horeb (A), Penuel (B), a Moriah (T.C.); ac y mae yma Ysgoldy Cenedlaethol, yr hwn a adeiladwyd yn 1825. Cyduna haneswyr fod gan y Rhufeiniaid orsaf yn y lle hwn, a elwid *Leucarum*, yr hon oedd y pumed orsaf ar yr

heol a elwid Via Julia. Yr oedd yma dref y pryd hwnw, yr hon a elwid gan y Cymry yn Dre'r Afangc, am fod lluaws o Afangood (*Beavers*) yn yr afon. Cafodd y gymmydogaeth hon yr enw "Rheged" oddiwrth swyddog milwrol Rhufeinig o'r enw, yr hwn a fu yn llywodraethu y lle am flynyddoedd. Wedi i'r Rhufeiniaid ymadael a'r wlad hon, ac i'r Cymry adfeddiannu eu tiriogaethau, yn gynnar yn y chweched canrif, daeth Gilmor Rechedyr, Tywysog Gwyddelig, gyda llu o wyr, ac a gymmerodd feddiant o wlad Reged, sef y tir rhwng afon Tawy ac afon Tywi, yn cynnwys Gwyr, Cydweli, Carnwyllon, Llwohwr, Is-Cenen, a'r Cantref Bychan, a bu yn llywodraethu yma am naw mis. Yn ngwyneb y trawsfeddiannad hwn, anfonodd y Cymry eu cwyn at y brenin Arthur i Gaerlleon ar Wysg, ac yntau a anfonodd un o Farihogion y Ford Gron, gyda 800 o filwyr, i yru y Gwyddelod ymaith. Enw y marchog hwnw oedd Urien ab Cynfarch ab Meirhion Gul ab Cenu ab Coel Codebog. Yr oedd Urien yn frenin talaeth Mwrif yn yr Alban ar y pryd, ac yn nai i'r Brenin Arthur. Bu ei ymosodiad ar Gilmor a'i fyddin mor llwyddiannus, fel y lladdwyd y penaeth Gwyddelig a llawer iawn o'i wyr, a fodd y gweddill i Ynys Mon, lle yr oedd lluaws o'u cydgenedl yn trigo ar y pryd. Wedi gorchfygiad Gilmor, rhoddodd y Brenin Arthur Arglwyddiaeth Reged yn diriogaeth ychwanegol i Urien ei nai, ac o hyny allan y gelwid ef Urien Rheged; ac efe a adeiladodd gastell cadarn yn ymyl Tre'r Afangc, yr hwn a elwid Castell Aberllyw, yn yr hwn y cynnalai ei lys. Mae afon Llyw, neu Lliw, fel ei gelwir yn bresenol, ac afon Llwohwr yn aberu yn agos i'w gilydd, ac felly yr oedd Castell Urien tua'r fan y saif y dref yn bresenol. Dywedir yn *Iolo MSS.*, p. 71, mai Eliwri, merch Urien Rheged, oedd gwraig Morgan Mwynfawr; ond dywedir yn *MSS.* y *Welsh Charity School* mai Meinwen, merch Cadell Deyrnllwg, oedd ei wraig; a dichon fod y naill a'r llall yn wirionedd, os bu Morgan yn briod ddwywaith. Yr oedd gan Urien fab o'r enw Pasgen, yr hwn a lywodraethai y parth hwn ar ol ei dad; ond o herwydd ei greulondeb a'i fradwriaeth, rhoddwyd iddo yr enw "Carn Fradwr ei Wlad," ac yn ychwanegol, diorseddwyd ef, a chyssylltwyd ei diriogaeth ag eiddo Morgan Mwynfawr, ac felly y parhaodd hyd amser Owen, mab Hywel Dda. Bu llawer iawn o ymryson a brwydro rhwng tywysogion Morganwg a thywysogion Dynefawr yn nghylch y dref hon a'r wlad o amgylch, a parhaodd yr ymrafael rhyngddynt yn achlysurol hyd amser y Goresgyniad Normanaidd, gan fod y naill a'r llall o honynt yn honi hawl i'r lle. Yn 1094, gweithiodd William de Londres ei ffordd i'r parthau hyn, a chymmerodd at ran helaeth o'r wlad. Yn 1099, daeth Henry Beaumont, Iarll Warwick, i dir Gwyr gyda byddin luosog, a gorchfygodd y Cymry, gan feddiannu eu tiroedd; ac yn y blynyddau dilynol, adeiladodd amryw gestyll cedyrn er amddiffyn y tiriogaethau a yspeiliodd, ac yn eu plith adeiladodd Gastell Aber Llwohwr. Yn 1115, ymosododd Gruffydd, mab Rhys ab Tewdwr, ar y Castell hwn yn dra disymwth, a llwyddodd i'w ddinystrio. Yn fuan, pa fodd bynag, adfeddiannwyd ac ail-adeiladwyd ef gan y Normaniaid, am yr

ystyrient ef yn amddiffynfa bwysig iawn. Yn 1185, casglodd Howel ab Meredith o Ddinefawr lu o wyr, a<sup>o</sup> a ruthrodd yn feiddgar ar y castell hwn, ac wedi gorchfygu y castellwyr, gosododd y lle ar dân. Yr oedd hyn yn gynnar yn y flwyddyn; ac wedi i Stephen esgyn i orsedd Lloegr yn yr un flwyddyn, adgyweiriwyd a chadarnhawyd y castell hwn gan y Normaniaid. Cyfnod y cestyll oedd teyrnasiad y brenin Stephen,—yn ystod y 19 mlynedd y bu ef yn teyrnasu, adeiladwyd 1500 o gestyll yn y wlad; perchenogion y rhai oeddynt fath o freninocedd ar eu tiriogaethau eu hunain, yn bathu arian ar eu henwau eu hunain, gan fyw braidd yn gyfangwbl ar yspeiliadau. Yspeilient a llofruddient eu gilydd: ond y Cymry oddefodd fwyaf oddiwrth y carn ladron hyny; ac nid oedd un llys ganddynt i appello atto am gyfiawnder. Preswylid Castell Llŵchwr y pryd hwnw gan lu o archladron a llofruddion, y rhai a yspeilient bawb a allent. Yn 1150, pa fodd bynag, sef pedair blynedd cyn marwolaeth Stephen, unodd Rhys a Meredith, meibion Gruffydd ab Rhys ab Tewdwr, a ddygasant fyddin gref. o'r Cymry i'r lle, ac a ymosodasant ar nyth y lladron mewn modd ffyrnig, a llwyr losgasant y castell. Yn mhen amser ar ol hyn, llwyddodd y Normaniaid i'w adeiladu drachefn, yn amddiffynfa gadarn. Yn 1215, ymosododd Rhys Ieuane, Arglwydd Dinefawr yn llwyddiannus ar y castell, gan ei ddinystrio i'r llawr; a gwnaeth yr un fath a'r gweddill o gestyll y Normaniaid yn Ngwyr. Wedi hyny, rhoddwyd ef gan Iorwerth II. i Hugh le Despenser, Iarll Caerloyw ac Arglwydd Morganwg; yr hwn a aeth i'r draul o'i adeiladu drachefn; a gweddillion yr un godwyd ganddo ef yw yr un presenol.

Mae afon Llŵchwr yn llydan iawn ger y dref, ac arferid ei chroesi mewn bad am oesoedd; ond yn yr oes hon adeiladwyd pont dda drosti i deithwyr; a phont arall i glodffordd Deheudir Cymru. Mae'r bont hon dros 100 llath o hyd. Mae yma orsaf hefyd ar y glodffordd hon. Cyn gwneyd y pynt hyn, yr oedd y ffordd gerbyd o Abertawy i Gaerfyrddin, &c., yn myned dros Bontarddulais, a throos y ffordd hono yr arferai y *Mail Coach* redeg. Mae 14 troedfedd o ddyfnder o ddwfr yn afon Llŵchwr ar y llanw, fel y gall llongau o gryn faint ei nofio; ond y mae'r pynt a nodwyd yn rhwystr i hyn. Gwnaed Casllŵchwr yn fwrdeisdref mewn undeb a Chaerdydd yn 1587; a pharhaodd yr undeb hwnw hyd 1882; ac o'r pryd hwnw y mae mewn undeb ag Abertawy, Castellnedd, Aberafan, a Chenffig, yn anfon un aelod i'r Senedd. Mae yn y gymmydogaeth leodedd o'r enw Cadle, a Mynydd y Garn Goch; a bernir fod y blaenaf yn goffadwriaeth am frwydr hynod, ac i'r olaf fod yn amddiffynfa Rufeinig. Mae yn y plwyf amryw weithfeydd glo, yn cael eu cario yn mlaen ar raddfa eang; ac y mae symudiadau ar droed i ddwyn y lle hwn i fwy o sylw etto. Ion. 16, 1872, bu amryw foneddwyr yn mesur tir Rhydymardy, i'r dyben o godi gwaith Tin arno. Mae John Glasbrook, Ysw., cyn faer Abertawy, ar fedr cloddio pwll glo ar waun y Garn Goch; tra y mae glofa Coalbrook i ail gyhwyn; yr hyn a ychwanega at bwysigrwydd y lle. Maint y plwyf yw 8999 erw, rhwng y dwfr. Tai yn 1861, 275; yn 1871, 888. Pobl yn 1861, 1288; yn 1871, 1765.

CASTELL ABERAFAN.—Gwel Aberafan.

CASTELL ABERBARRI.—Gwel Barri.

CASTELL ABEROGWY.—Gwel Aberogwy.

CASTELL ABERSILL.—Gwel Suli.

CASTELL ABERTAWY.—Gwel Abertawy.

CASTELL ALAIN.—Safai y castell hwn ar lan Alain, yn mhlwyf St. Bride Fawr. Prewylid ef gan Cadwgan ab Ithel, gorwyr Caradog ab Iestyn. Priododd Gilbert Turberville, chweched Arglwydd y Coetty, a Meinwen merch Cadwgan o'r lle hwn.

CASTELL BEAUPRE.—Gwel St. Hilari.

CASTELL CAERDYDD.—Gwel Caerdydd.

CASTELL CAERFFILI.—Gwel Caerffili.

CASTELL COCH.—Saif gweddillion y castell hwn yn Nghwm Taf, ar lechwedd craig serth, yn agos i bentref poblog Tongwynlas, ac o fewn ychydig i orsaf Walnut-tree Junction. Mae llawer o haneswyr wedi ceisio rhoi hanes y castell hwn i'w darllenwyr, ond ymddengys nas gellir cael ei wir hanes yn bresenol. Dywed W. Ward, awdwr y *Guide to Cardiff*, 1870, mai un o'r Arglwyddi Normanaidd a'i hadeiladodd, er amddiffyn godre Cwm Taf, rhag ymosodiadau Cymry y mynyddau. Barna yr hynafiaethydd enwog G. T. Clark, Ysw., yr un peth. Tueddri y rhai hyn ac ereill i gredu mai y De Clares a adeiladodd gastell Caerffili, a adeiladodd hwn hefyd. Y traddodiad sydd yn aros yn mhlith y Cymry am ei adeiladiad yw, mai Ifor Bach ab Cadifor, a'i hadeiladodd, yn amddiffynfa i'r parth hwn o arglwyddiaeth Senghenydd. Er nad oes genym hanes manwl am ei adeiladiad a'i berchenogiad, pan yn ei fri a'i nerth, ymddengys fod digon o hanes ar gael i brofi fod olynwyr Ifor Bach yn ei berchenogi am ryw yspaid o amser. Sier yw fod Meurig brawd Ifor yn briod a merch Gruffydd, mab Rhys ab Tewdwr; a bod gan y rhai hyn fab o'r enw Ifor. Lladdwyd Ifor ab Meurig, gan Morgan mab Owen, ab Caradog, ab Iestyn yn 1156, a rhoddwyd ei diroedd yn mhlwyf Gelligaer i Iorwerth, Arglwydd Caerlleon-ar-Wysg, yr hwn oedd yn frawd i Morgan ab Owen. Sylwer ar y cyssylltiadau perthynasol hyn. Yr oedd gan Ifor Bach fab o'r enw Gruffydd, a Rhys mab y Gruffydd hwn a briododd ferch Iorwerth ab Owen, Arglwydd Caerlleon-ar-Wysg; felly yr oedd y tri theulu wedi ymgysylltu trwy briodasau, sef teulu Rhys ab Tewdwr, Iestyn ab Gwrgan, a Chedrych ab Gweithfoed, tadcu Ifor Bach. Ganwyd i Rys (wyr Ifor Bach) a merch Iorwerth ab Owen fab, a enwyd yn Rhys fel ei dad; ac y mae hanes anwadadwy fod y Rhys ab Rhys hwn yn preswyllo yn y Castell Coch. Ymosodwyd ar hwn yn ei gastell gan Gilbert de Clare, Iarll Caerloyw, ac wedi ei orchfygu, tynwyd llygaid Rhys allan, ac wedi hyny carcharwyd ef a'i feibion yn Nghastell Caerdydd, lle y cawsant eu newynu i farwolaeth. Hyn oedd rhan o farbareidd-dra Gilbert de Clare, yn 1186. Ymddengys i'r castell fod yn eiddo y Normaniaid, Arglwyddi Morganwg o hyny allan. Nid oes hanes pendant pa bryd, na chan bwy y dinystrwyd ef; ond tueddri fi i gredu iddo barhau yn gyfan hyd amser Owen Glyndwr, ac mai efe roddodd y ddyrnod farwol iddo. Mae yn eglur bellach iddo gael ei



logi. Ffurf y castell oedd tri-onglog, a thwr crwn ar bob congl. Mae'r twr gogleddol yn sefyll yn awr. Yn 1871, aeth Ardalydd Bute, ei berchenog presenol i'r draul o lanbau yr yspwriel, a chwilio ei holl ystafelloedd. Wrth wneyd hyn, daeth llawer o ddirgelion y castell hwn i'r golwg. Cafwyd ei fod yn cynnwys amryw ystafelloedd eang, a rhai o honynt yn wychion iawn. Wrth lanbau ystafell y twr, cafwyd yno fynnon ddwfn, yn llawn o drawstiau ac yspwriel. Yr oedd y coed wedi bod dan effaith tân cryf, yr hyn a brawf i'r lle gael ei ddinystrio trwy dân. Mae yr Ardalydd wedi myned i'r draul o adgyweirio y castell hefyd, gan ofalu peidio cau lle un ffenestr na drws, nac unrhyw agoriad arall, er ei wneyd mor debyg ag sydd yn ddiohonadwy i'r hyn oedd cyn ei ddinystrio. Mae ei furiau yn hynod drwchus, ac yn gedryn iawn. Yr oedd yr adgyweiriad yn cael ei gario yn mlaen pan ymwelais ag ef yn mis Chwefror, 1878; pryd y bum trwy ei holl ystafelloedd.

CASTELL COCH LLANGYNWYD.—Gwel Llangynwyd.

CASTELL COETTY.—Gwel Coetty.

CASTELL CRAIG Y LLWYN.—Safai hwn tua milldir i'r Gorllewin o Gefnabli.

CASTELL DENIS POWYS.—Gwel Dinas Powys.

CASTELL DINDRYFAN.—Gwel St. Bride Fawr.

CASTELL DU.—Gwel Llandeilo Talybont.

CASTELL EAST ORCHARD, —*West Orchard* a *Castleton*.—Gwel St. Athan.

CASTELL EGLWYS NEWYDD.—Safai yn mhlwyf yr Eglwys Newydd; a bernir mai Gilbert de Clare a'i hadeiladodd, agos yr un amser ag yr adeiladwyd Castell Caerffili.

CASTELL FONMON.—Gwel Penmarc.

CASTELL FFORCHNANT.—Saif adfeilion hwn yn mhlwyf Llanilltydd Nedd, ar fryn uchel, gyferbyn a phentref Aberdulais. Methais gael ei hanes.

CASTELL GELLIGAER.—Gwel Gelligaer.

CASTELL GRINSTONE.—Gwel Wenvoe.

CASTELL GWENFO.—Gwel Wenvoe.

CASTELL HEN.—Hen Gastell.—Gwel Penybont.

CASTELL HENSOL.—Gwel Pendeulwyn.

CASTELL LLANBEDR.—Gwel Llanbedr-y-Fro.

CASTELL LLANDATHAN.—Gwel St. Athan.

CASTELL LLANDOCHWY.—Gwel Llandochwy'r Bontfaen.

CASTELL LLANDREMOR, neu Landimor. Safai hwn ar du gogledd-ddwyrain Llandeilo Talybont. Ychydig o'i hanes sydd ar gael. Rhoddwyd ef gan John Duc Norfolk, yn nghyd a'r faenor berthynol iddo i Syr Hugh John. Urddwyd yr Hugh hwn yn farchog yn Jerusalem, Awst 14, 1441.

CASTELL LLANDDEWI.—Gwel Llanddewi.

CASTELL LLANDDUNWYD.—Gwel St. Donatt's.

CASTELL LLANFLEIDDIAN.—Gwel Llanfleiddian Fawr.

CASTELL LLANTRISANT.—Gwel Llantrisant.

CASTELL LLANUFELWYN.—Gwel St. George.

CASTELL MORGRAIG.—Gwel Caerffili.

CASTELL MORLLAIS.—Rhwng Porthcawl a'r Seer.

CASTELL MORLAIS.—Gwel Merthyr Tydfil.

CASTELL NEDD.—*Neath*. Plwyf yn cynnwys bwrdeisdref, yr hon sydd dref farchnadol a phorthladd; yn etholfan bwrdeisdrefol a Seneddol, ac yn brif dref Undeb Castellnedd, yn nghantrf Nedd, deoniaeth Gronedd Uchaf (Dosparth Gorllewinol), archddeoniaeth, ac esgobaeth Llandaf. Saif y dref a'r plwyf ar lan ddwyreiniol afon Nedd, tua dwy filldir i fyny o'r fan yr ymarllwysa hono i fôr-gilfach Abertawy; 8 milldir o Abertawy, 89 o Gaerdydd, 28 o Ferthyr Tydfil, a 208 o Lundain. Cyduna haneswyr mai dyma y fan y safai yr orsaf Rufeinig a elwid *Nidium*, yr hon oedd rhwng *Leucarum* a *Bovium*, sef rhwng Caslwchwr a Boverton; a phrawf hyn fod y dref hon yn henafol iawn. O'r lle hwn y cychwynai yr heol Rufeinig a elwir Sarn Helen, tuag Aberhonddu, ac y mae amryw filldiroedd o honi yn amlwg yn bresenol ar y mynydd a elwir Cefn-hir-fynydd, rhwng afon Nedd ac afon Tawy. Bernir mai ger y fan y saif Eglwys y Plwyf yn awr, y safai yr orsaf Rufeinig gynt. Ymddengys i'r lle hwn fod mewn cryn fri ac urddas hefyd yn amser y Tywysogion Cymreig, ar ol i'r Rhufeiniaid ymadael a'r wlad; a bernir mai yma y safai un o brif breswylfeydd Iestyn ab Gwrgan. Dywed traddodiad mai mewn Eisteddfod a gynnaliwyd yma yn llys Iestyn, y dechreuodd yr ymryson rhyngddo ef a Rhys ab Tewdwr, yr hyn a ddybenodd yn ninystr y ddau; ac a fu yn agoriad adwy i'r Normaniaid ddyfod i feddiant o Forganwg, a pharthau ereill Deheudir Cymru.

Richard de Grenville, marchog Normanaidd, adeiladodd y castell, adfeilion yr hwn sydd yn aros yn nghanol y dref. Nid yw yn hysbys pwy fu yn preswyllo y castell hwn wedi ymadawiad R. de Grenville o'r lle; ond y mae yn amlwg mai rhai o'r gormeswyr Normanaidd a'i preswyliai. Yn 1281, darfu i'r tywysog Llywelyn ab Iorwerth o Wynedd, ymosod ar y castell gyda byddin gref; a llwyddodd i orchfygu y castellwyr, a llosgi y castell. Wedi hyn y cafodd ei adgyweirio a'i gadarnhau gan y Normaniaid, a buont yn ei breswyllo am oesoedd drachefn. Barna rhai haneswyr mai i'r castell y ffodd Iorwerth II. ar y cyntaf, ac iddo fyned oddiyno i'r fynachlog. At hyn y cyfeiria y llinellau canlynol o eiddo Drayton:—

“ In Neath, a Castle next at hand, and strong  
Where he commandeth entrance with his crew,” &c.

Yn 1402-3, pan oedd yr hyf, y beiddgar, a'r dewr Owen Glyndwr, yn ysgwyd ei gleddyf, ac yn cyhwanu y Ddraig Goch, ac a'i holl egni yn ceisio adsefydlu Annibyniaeth Cymru, yr oedd gan Harri IV. warchodlu yn y castell hwn, yn cynnwys cant o saethyddion (*archers*), a 80 o waewffynwyr, dan lywyddiaeth John St. John, o Gastell Fomon. Nid yw yn hysbys pa bryd y darfyddwyd preswyllo y castell; er fod tebygolrwydd na phreswylwyd ef ar ol y pryd hwnw. Un ag oedd yn cyflawni ei waith yn hynod drwyadl oedd Owen Glyndwr ar

gestyll y Normaniaid. Nid oes hanes fod nemawr un o'r rhai a ddi-  
ystrwyd ganddo ef wedi ei breswyllo o'r pryd hwnw hyd yn awr. Mae  
muriau adfeiliedig y castell yn orohuddiedig gan iorwg yn bresenol,  
a'r adeilad yn cael ei glychynu gan resi o dai gwael, yn cael eu pres-  
wyllo gan Wyddelod gan mwyaf.

Mae'r dref wedi cynnyddu yn ddirfawr yn ddiweddar, fel y gellir ei  
chyfrif bellach yn un o brif drefi masnachol Morganwg. Yr oedd  
y chydig fasnach mewn glo yn cael ei gario yn mlaen yn y dref hon  
mor fore a'r flwyddyn 1540; a glo yn cael ei weithio y pryd hwnw o  
fewn ychydig i'r dref yn ol tystiolaeth Leland, yr hwn a dalodd yn-  
weliad a'r lle ar y pryd. Yr oedd yn fwrdeisdref y pryd hwnw hefyd,  
oblegyd gwnaed hi yn fwrdeisdref reolaidd yn 1587, gan Harri VIII.  
Er hyny parhau yn fechan oedd y dref, a lled anghyfleus oedd yr  
afon i'w mordwyo, nes yr adeiladwyd y Gweithfeydd Copr ar ei glanau,  
ac y defnyddiwyd marwydos (*slags*) y gweithfeydd hyn i adeiladu math  
o wrthgloddiau gyda glanau yr afon er culhau eu gwely, nes y daeth  
yn ddiagon dwfn i longau yn cario pedwar neu bump cant o dunelli ei  
nofio. Parodd hyn i fasnach y dref helaethu yn gyflym, fel y mae ar  
raddfa go eang yn bresenol. Y prif nwyddau allforir ar y Nedd ydynt  
haiarn, glo, efydd, alcan, spelter, pruddfeini, &c., ac y mae'r cyfanswm  
blyneddol tua 200,000 o dunelli. Yn 1869, allforiwyd yma o bob  
peth y swm o 200,557 o dunelli. Yn 1820, sylfaenwyd Neuadd y  
Dref, yn yr hon y mae ystafell eang at gynnal llysoedd cyfreithiol,  
ystafell arall at wasanaeth y rheithwyr, gyda chynghorfa, &c. Yn  
1887, adeiladwyd Ty Marchnad yma ar ddarn o dir a roddwyd i'r  
gorpholiaeth gan Howell Gwyn, Yaw., o'r Dyffryn. Cynnelir march-  
nadoedd ynddo ar ddyddiau Mercher a Sadwrn. Cynnelir ffeiriau yn  
y dref Iau'r Drindod, Gor. 31, a Medi 12.

Mae yn y dref *Turkish Bath* gwych o adeiladiad diweddar, yr hwn  
sydd wedi ei drefnu yn y modd goraf i ateb dyben ei sefydliad. Mae yma  
Sefydliad Llennyddol da hefyd, yn nghyd a Llyfrfa, Ystafell Ddarllen,  
Ystafell Areithio, &c., ac y mae'r sefydliad hwn yn fanteisiol iawn i'r  
rhai hyny sydd o duedd lenyddol.

Yn 1868, agorwyd *Drinking Fountain* at wasanaeth y cyhoedd, yn  
ymyl Neuadd y Dref; a byddai yn gryn fendith i drigolion trefi Cymru,  
pe byddai rhai o'r fath yn llawer amlach yn ein prif drefi. Mae lluwaws  
o weithfeydd eang o fewn ychydig ffordd i'r dref yn mhlwyf Llangatwg,  
megys *Y Crown* a'r *Mines Royal Copper Works*, a glofeydd y Bryncoch,  
y Fair Engine, Glofa Rhyding, &c. Ar y tu arall i'r afon hefyd, y  
mae gwaith y *Red Jacket*, Gwaith Tin Melincryddan, yr hwn a elwir  
Gwaith Flower, am mai Leach, Flower, a'u Gyf., yw'r perchenogion.

Tua chan mlynedd yn ol, suddodd Syr Herbert Mackworth, Barwnig  
(mae'n debyg), byllau glo ar ystad y Gnol ger y dref; ond buont yn segur  
wedi hyny am hir amser. Yn 1871, ail agorwyd y rhai hyn, ac y maent  
yn cael eu gweithio yn awr ar raddfa eang. Dywed Malkin, Vol. ii.  
p. 501, mai at gludo glo o'r gweithfeydd hyn y gwnaed y camlas  
cyntaf yn Nghymru, yn 8 milldir o hyd. Gorphenwyd ef yn 1790.

*Crefydd.*—Bernir i'r Eglwys Blwyfol gael ei chodi ar y cyntaf gan

Richard de Grenville, yn fath o gapel at wasanaeth y milwyr; ac i'r capel hwnw gael ei droi yn Eglwys y Plwyf wedi hyny, a'i chyssegru i St. Thomas. Adeiladwyd hi yn yr arddull Seisnig hynafol, ac iddi gorff, canghell, rhodfeydd, a chlochdy ysgwar, ac ynddo chwech cloch. Dyddia ei choflyfr o'r flwyddyn 1698. Mae yn myned dan gyfnewid- iad trwyadl yn bresenol (1878). Rectoriaeth yw'r fywioliaeth, yn unol ag eiddo Llanilltyd Nedd, yn rhodd Ardalydd Bute, ac yn werth £440 y flwyddyn. Yn 1866, adeiladwyd Eglwys ardderchog arall yn y dref, trwy danysgrifiadau gwirfoddol, ar ddarn o dir a roddwyd i'r perwyl gan Howell Gwyn, Ysw., o'r Dyffryn. Mae'r Eglwys hon wedi ei chodi ar ffurf croes, yn arddull y 18eg canrif, ac wedi ei haddurno mewn arddull Ffrengig diweddarach. Mae canghell hon yn 101 troedfedd o hyd, 81 troedfedd ac 8 modfedd o led, a 61 troedfoedd o uchder. Mae'r twr yn 152 troedfedd o uchder; ac yn ei ran isaf y mae ystafell yr *organ*. Mae yr Eglwys hon yn addurn i'r dref; a chynnelir y gwasanaeth ynddi trwy roddion gwirfoddol yn unig; ac yma y gwnaed yr ymgais gyntaf yn Nghymru i gael Eglwys Rydd mewn cyssylltiad a'r Sefydliad Gwladol; ac y mae clod mawr yn ddyledus i'r Parch. John Griffiths, M.A., Rector Nedd, am wneyd prawf o hyn. Yn Saesneg y dygir y gwasanaeth yn mlaen yn yr Eglwys hon (*St. David's*), a gwasanaethir yn Gymraeg yn Eglwys y plwyf, ac yn Llanilltyd. Mae capel anwes hefyd yn Melincryddan, yn ddigon eang i ddal 250 o bersonau. Mae yn y dref Gapel Pabyddol hefyd, a Synagog Iuddewig; a chapeli gwychion gan y gwahanol Ymneillduwyr.

*Ysgolion*.—Mae yn y dref a'i chyffiniau amryw ysgolion rhagorol, megys 1. Ysgol Alderman Davies (1856) yn Orchard Street. 2. *Neath School Society* (Brytanaidd), London Road. 3. Ysgol Babyddol, &c.; heblaw Ysgol Genedlaethol Llangatwg, ac un Frytanaidd Seiwen.

Llywodraethir y dref gan gorpholaeth yn cynnwys Maer, 4 Hen- adur, a 12 o Gynghorwyr; un ran o dair o'r cyfryw ant allan o swydd yn flynyddol, ond yn agored i ail etholiad.

Mae gorsafodd yma ar gledrffyrdd y *Great Western Railway*, a'r *Neath and Brecon*; a'r llinellau yn rhedeg o'r lle i Abertawy, Caer- fyrddin, a Sir Benfro yn y Gorllewin; a thrwy Fro Morganwg i Gaer- dydd, &c., ac i Lundain; trwy Gwm Nedd i Aberdar a Merthyr; ac hefyd i Aberhonddu heibio'r Creunant, Onllwyn, &c. Mae agoriad y cledrffyrdd hyn wedi peru cynnydd mawr yn y dref; ac wedi bod yn foddion i ychwanegu rhif y trigolion yn annghyffredin.

Maint y plwyf yw 1121 erw; ac y mae wedi ei ardrethu i £28,865.

|            |        |        |        |        |        |        |
|------------|--------|--------|--------|--------|--------|--------|
| Blwyddiad  | 1821.  | 1831.  | 1841.  | 1851.  | 1861.  | 1871.  |
| Poblogaeth | 3,111. | 4,148. | 4,919. | 5,841. | 6,738. | 9,074. |

Cynnwysa Undeb Nedd y plwyfi, a'r dosparthiadau plwyfol canlynol :—

| ENWAU'R PLWYFI A'R HAMELTS.   | POBL YN 1861. | POBL YN 1871. | TRETHIAD SIBOL. |
|-------------------------------|---------------|---------------|-----------------|
| Aberafon .. .. .              | 2916 ..       | 3396 ..       | 4620            |
| { Baglan Higher .. .. .       | 259 ..        | 176 ..        | 1156            |
| { Baglan Lower .. .. .        | 456 ..        | 445 ..        | 5800            |
| { Blaengwrach .. .. .         | 280 ..        | 324 ..        | 1194            |
| { Glyncoerrwg .. .. .         | 322 ..        | 784 ..        | 870             |
| Briton Ferry .. .. .          | 3781 ..       | 2728 ..       | 11000           |
| Cilybebyll .. .. .            | 1846 ..       | 1592 ..       | 3514            |
| Blaenhonddan .. .. .          | 1661 ..       | 1900 ..       | 6509            |
| Dyffryn Clydach .. .. .       | 1022 ..       | 1187 ..       | 4029            |
| Dulais Higher .. .. .         | 622 ..        | 479 ..        | 1710            |
| Dulais Lower .. .. .          | 848 ..        | 453 ..        | 1800            |
| Ynysymond .. .. .             | 372 ..        | 403 ..        | 2930            |
| Coedfranc .. .. .             | 2151 ..       | 2585 ..       | 5750            |
| Clyne .. .. .                 | 108 ..        | 208 ..        | 656             |
| Lantwit Lower .. .. .         | 1867 ..       | 1831 ..       | 4520            |
| Rhesolfen .. .. .             | 762 ..        | 1015 ..       | 2148            |
| Llangiwc .. .. .              | 7988 ..       | 8311 ..       | 14253           |
| Llangynwyd Higher .. .. .     | 2187 ..       | 2153 ..       | 5119            |
| { Llansamlet Higher .. .. .   | 1860 ..       | 2577 ..       | 12281           |
| { Llansamlet Lower .. .. .    | 3248 ..       | 3551 ..       | 4237            |
| Margam .. .. .                | 5528 ..       | 5146 ..       | 9200            |
| { Michaelstone Higher .. .. . | 861 ..        | 602 ..        | 1093            |
| { Michaelstone Lower .. .. .  | 5323 ..       | 5320 ..       | 9800            |
| Neath Town .. .. .            | 6734 ..       | 9074 ..       | 14740           |
| { Neath Higher .. .. .        | 1637 ..       | 1426 ..       | 3748            |
| { Neath Middle .. .. .        | 222 ..        | 208 ..        | 2660            |
| { Neath Lower .. .. .         | 174 ..        | 187 ..        | 991             |
| Ystradgynlais Higher .. .. .  | 544 ..        | 515 ..        |                 |
| Ystradgynlais Lower .. .. .   | 3801 ..       | 3606 ..       |                 |
| Ystradyfelle .. .. .          | 668 ..        | 668 ..        |                 |

Gross estimated rental yr Undeb..... £208,805  
 Rateable Value..... £184,587

- CASTELL NEWYDD.—Gwel Penybont-ar-Ogwy.
- CASTELL OXWICH.—Gwel Oxwich.
- CASTELL OYSTERMOUTH.—Gwel Oystermouth.
- CASTELL PENLLIN.—Gwel Penllin.
- CASTELL PENMARC.—Gwel Penmarc.
- CASTELL PENNARD.—Gwel Pennard.
- CASTELL PENRHYS.—Gwel Penrhys.
- CASTELL RHOSSILI.—Gwel Rhossili.
- CASTELL SCARLAGE.—Safai hwn yn Mrowyr, ond bu ei ddinystyr mor llwyr, fel nad oes olion o hono.
- CASTELL ST. FFAGAN.—Gwel St. Ffagan.
- CASTELL TALYFAN.—Gwel Ystrad Owen.

**CASTELL WEOBLY.**—Saif adfeilion y castell hwn ar ben craig uchel, ar du gogleddol yr heol sydd yn arwain o Lanrhidian i Cheriton yn Mrowyr; ac y mae yn amlwg iddo fod unwaith yn amddiffynfa gadarn iawn. Mae iddo amryw dyrau pedr-onglog, chwe-onglog, ac wyth-onglog, yn y rhai y mae lluaws o ffenesti bychain; ac un fawr ar-dderchog. Diamheu fod hwn yn un o'r rhai *harddaf* yn y wlad; ac y mae golygfa eang i'w chael o'r fan y saif. Bu teulu o'r enw De la Beres yn preswyllo hwn, ond y mae ei hanes wedi ei golli.

**CASTELL WOODLAND.**—Saif yr ychydig sydd yn ngweddill o hwn ger Black Pill, Browyr. Mae'r adfeilion ar lechwedd bryn bychan, ac yn orchuddiedig gan iorwg, a'i hanes yn orchuddiedig gan niwl e bargofiant.

**CENFFIG**, neu **CYNFFIG** (*Kenfig*), sydd lygriad o'r enw Cefn-ffigen, ac yn enw ar blwyf a bwrdeisdref yn Undeb a Chantref Penybont-ar-Ogwy, a'i safle ar lan y mor rhwng Aberafan a'r Pil, 11 milldir i'r de-ddwyrain o Gastellnedd, a 184 i'r gorllewin o Lundain. Nid yw yn hyspys pa mor fore yr adeiladwyd tref a chastell Cenffig, ond y mae digon o dystiolaethau hanesyddol i'w cael, ag sydd yn profi eu bod yn hen iawn. Bernir i'r hen Eglwys, yr hon a gladdwyd gan y mor, gael ei sylfaenu yn y flwyddyn 520 o.c., gan Morgan Mwynfawr, a bod yma dref cyn hyny. Mae yn ddiamheu fod yr Heol Lâs, sydd yn arwain o'r Pil i dref Cenffig, yn rhan o'r heol Rufeinig a elwir *Julia Strata Maritana*, yr hon oedd yn cyssylltu *Tibia Annis*, *Borium*, *Nidum*, &c.; neu mewn geiriau ereill, yn rhan o'r brif heol a wnaed gan y Rhufeiniaid o Gaerlleon-ar-Wysg, trwy Fro Morganwg, &c., i Gaerfyrddin. Yn y flwyddyn 898 o.c., llosgwyd y dref hon ac amryw ereill gan lu o Saacsoniaid a ddaethant i Forganwg dros Fro Hafren; ond adeiladwyd hi yn fuan drachefn. Cyduna y prif haneswyr fod tref Cenffig a'r tiroedd o amgylch iddi, yn eiddo personol Iestyn ab Gwrgan, tywysog olaf Morganwg, yr hwn a gadarnhaodd y lle, ac a adeiladodd gastell cadarn yma rhwng y blynyddau 1048 a 1080. Yn hanes Gorchfygiad Morganwg gan y Normaniaid, dywedir i Syr Robert Fitzhamon, yr arch-yspeilydd, gadw meddiant o'r dref hon, yn nghyd a'r Castell a safai gerllaw iddi. Yr oedd sefyllfa tai y dref a muriau y Castell mor gedyrn pan gymmerwyd hwynt gan y Normaniaid, fel na fu angen eu hail-adeiladu na'u hadgyweirio, yr hyn a brawf fod y dref yn un dda y pryd hwnw. Pa fodd bynag, cafodd y Castell ei ail-adeiladu yn mhen tua 80 mlynedd wedi y gorchfygiad, gan William Iarll Caerloyw, yr hwn oedd ŵyr i R. Fitzhamon o du ei fam, ac yn ŵyr i Harri I. o du ei dad. Bu y William hwnw farw yn 1188; a gweddillion y Castell adeiladodd ef welir yu y lle yn bresenol. Bu hanes Cenffig am oesoedd yn cael ei gymmysgu a thraddodiadau chwedlonol, fel yr oedd yn anhawdd gwybod beth allesid greu; ond yn 1871, tynodd yr hynafiaethydd dwfn-dreiddiol G. T. Clark, Ysw., y llen oddiar yr hanes, a chyhoeddodd ffrwyth ei ymchwiliadau yn yr *Archaeologia Cambrensis*, yr hyn sydd wedi codi hanes y lle o lwch e bargofiant i'w safle bresenol.

Yn 1815, ymosodwyd ar Gastell Cenffig gan Llewelyn Bren o Gaer-fili; ond amddiffynwyd ef mor ddewr a llwyddiannus gan Lleision

de Avan, fel y methodd Llywelyn ei gymmeryd. Ar y 12fed o Fawrth y flwyddyn hono, anfonodd Lleision de Avan anerchiad at Bartholomew de Bradlesmere (i'r hwn y rhoddwyd gofal Morganwg ar farwol-aeth Gilbert de Clare, yn mrwydr Bannockburn, yn mis Mehefin, 1814,) i'w hyspysu ei fod wedi amddiffyn Castell Cenffig yn erbyn y Cymry ar y draul o dros 40 marc, ac felly ei fod yn gofyn cydnabyddiaeth gan Bedlesmere. Gosodwyd y cais o flaen brenin Lloegr, yr hwn a farnodd fod Lleision wrth amddiffyn y Castell yn amddiffyn ei eiddo ei hun hefyd; ac felly, hanner y swm a nodwyd a dalwyd iddo, sef 20 marc.—*Closs Roll 3, Edw. II., M. 13.* Darn o arian gwerth 18s. 4c. oedd un marc.

Yn 1899, darfu i Arglwydd Thomas le Spenser gadarnhau Gweithred a wnaed Hydref 21, 1896, er pennodi Thomas Stratling yn gwnstabl y Castell am ei oes, gyda thal o ddeg swllt y flwyddyn, i'w talu o gyllid Gaerdydd. Nid oes nemawr ddim pellach o hanes y Castell ar gael. Dywedir yn *Siluriana*, tud. 382, fod 15 troedfedd o furiau y Castell uwchlaw gwyneb y tywod; ac yn "*Cymru*," dywedir fod 12 troedfedd o un o'r tyrau yn y golwg. Ymwelais a'r lle Mehefin 8, 1871, a chefais nad oes mwy nag wyth troedfedd o'r muriau yn y golwg uwchlaw gwyneb y tywod; ond gellid gydag ychydig lafur, glirio y tywod ymaith, nes cael golwg fwy manteisiol ar yr hen adeilad hwn.

Dywedir yn y *Brutiau Cymreig* i dref Cenffig gael ei gwneyd yn fwrdeisdref yn 1158, gan Iarll Caerloyw ac Arglwydd Morganwg. Parhaodd yn fwrdeisdref gyfranogol i Gaerdydd, mewn undeb a thref y Bontfaen, Llantrisant, Aberafan, Castellnedd, Abertawy, a Chas'lwchwr, hyd 1882; ac o'r pryd hwnw, y mae yn gyfranogol i Abertawy, mewn undeb ag Aberafan, Castellnedd, a Chas'lwchwr.

Yn mhllith Cofnodion Abbatty Tewkesbury, ceir ysgrifau yn dangos fod un Henry Thuford, cleroc, wedi cael trwydded gan y Iarll William i sylfaenu ac adeiladu Eglwys St. Iago yn Kenesegg (Cenffig); a bod Nicholas, esgob Llandaf 1149-1188, wedi cyssegru Eglwys St. Iago, Cenffig, a Chapel St. Ioan yn y dref, a Chapel "*Cornellau Waelod*."—*Corneli que est in villa Thom.*

Yn 1207, rhoddodd Abbad Margam gant marc a dau geffyl da am diroedd perthynol i'r Cymry, yn nhiriogaeth Cenffig, yn elusenau parhaus, ond bod 80s. y flwyddyn i'w talu i'r brenin oddiwrth y tiroedd hyny. Yn yr un flwyddyn (1207), talodd y mynachod i'r brenin 50 marc o'r arian, sef £38 6s. 8c.

Yn 1822, bu cryn ymryson rhwng Esgob Llandaf ac Abbad Margam yn nghylch Eglwys a Chapel Cenffig. Yr oedd Esgob Llandaf cyn hyny wedi rhoddi Eglwys a Chapel Cenffig i Abbad Margam ar y telerau iddo dalu 10 marc (£6 18s. 4c.) y flwyddyn i Abbad Tewkesbury, yn swydd Caerloyw; ond ymddengys na thalai Abbad Margam yr arian, am yr honai nad oedd hawl gyfreithlon gan Abbad Tewkesbury iddynt.

*Breinleni y Dref.*—Awgrymwyd eisoes fod hon yn hen fwrdeisdref, ac y mae iddi amryw freinleni (*charters*); ond y mae y rhai hynaf

wedi eu colli. Yr hynaf sydd ar gael yn awr, yw yr un a roddwyd iddi gan Thomas le Despenser, Chwefor 16, 1897,—yr 20fed o deyrnasiad Richard II. Cyfeiria yr Ysgrif hon at un a roddwyd i'r dref yn flaenorol gan ei dad; ond collwyd hono. Mae yn nghist y fwrdeisdref yn bresenol, naw o Ysgrifau, y rhai ydynt a ganlyn:—1. Breinlen Thomas le Despenser, Chwefor 16, 1897; 2. Breinlen Richard Beauchamp, Iarll Worcester, dyddiedig Mai 1, 1421; 3. Breinlen Isabella, Iarll Worcester, a ddyddiwyd Mai 1, 1428; 4. Cyfraith Cenffig, dyddiedig 1481; mae hon ar saith darn o groen wedi eu gwnio yn nghyd, ac yn mesur gyda'u gilydd 16 troedfedd o hyd, ac yn 8½ modfedd o led. 5. Copi arall o'r un gyfraith; 6. Mesuriad (*Survey*) arglwyddiaeth, maenor, tref, a bwrdeisdref Cenffig, a wnaed yn 1660. Cynnwysa arglwyddiaeth Cenffig y plwyf, sef Cenffig Isaf, rhan o Trisaint, sef Cenffig Uchaf, yn mlwyf Margam; ac estynai ei llywodraeth dros Cornellau Isaf ac Uchaf a'r Scer Fawr. 7. Copi arall o'r unrhyw; 8. Cyfieithiad i'r Seisneg o'r Lladin o Freinlen Thomas le Despenser ar bapur; 9. Talfyriad yn Seisneg o Freinlen y Iarll Isabella. Enwau'r tystion wrth Freinlen Edward, tad Thomas le Despenser, dyddiedig Mai 14, 1860, oeddynt Thomas, Abbad Nedd; John de Coventre, Arch-ddeon Llandaf; Arglwydd Richard de Thurberville o'r Coetty; John de Norris, Penllin (yr oedd hwn yn dyst o Freinlen 1841 a 1872 hefyd); John de la Sere, St. Ffagan; ac Elias Basset o St. Hilari. Enwau y tystion wrth Freinlen Thomas le Despenser ydynt John de St. John, o Gastell Fonmon; William Stradling, Castell St. Donatt's; John Basset, St. Hilari; Robert Welsh, Llandoehwy; a John le Eyre. Yr oedd y Breinleni hyn, a'r rhai a roddwyd ar eu hol, yn rhoddi llawer o hawliau i'r bwrdeisiaid, ac yn eu plith yr hyn a ganlyn:—1. Eu bod i gynnal dwy ffair yn y dref yn flynyddol: y flaenaf i barhau wyth diwrnod, a'r ail ddau ddiwrnod yn wythnos y Sulgwyn. Yn ystod y dyddiau hyny, nid oedd hawl gan un masnachwr o afon Rhymney hyd Bwll Cynan, i werthu nwyddau ond yn y ffair yn unig, heb fod mewn perygl o gael ei gospi a'i ddirwyo. 2. Fod hawl gan y bwrdeisiaid i beri i gwnstabl y Castell i drethu bara a chwrrw yn y dref, er mwyn cael arian i adgyweirio, neu wneyd unrhyw welliant angenrheidiol yn y dref, er elw a budd i'r preswylwyr. 3. Nid oedd yr un bwrdaid i gael ei garcharu yn y Castell, os gallasid cael meichniydd iddo y tu allan i bont y Castell, oddieithr ei ddal yn y weithred o ladrata, neu am droedd yn erbyn Arglwydd Morganwg neu ei deulu. 4. Os dygid un o'r bwrdeisiaid i'w brofi yn y llys sirol, fod hanner y rheithwyr yn fwrdeiswyr tref Cenffig, a'r hanner arall o'r gymmydogaeth. 5. Eu bod yn rhyddion o wahanol drethi. 6. Eu bod yn meddu tir pori eang iawn, yn cyrhaedd o Catput hyd uchdir y Coetty, a'i led o Gefn Cribwr hyd y fan yr ymarllwysa Cesmôr i'r Cenffig, yn nghyda'r comin a elwir Cenffig Down, a chant erw o dir ar ar y tu dwyrain i Gapel Sant Mair Magdalen.

Rhydd cynnwysiad y breinleni hyn ar ddeall i ni fod Cenffig unwaith yn dref fawr, boblog, a phwysig; ond y mae'r hen dref, yn nghydag



Eglwys St. Iago, a Chapel St. Ioan, &c., wedi eu claddu er ys oesoedd dan fryniau o dywod. Mae'r mor yn y parthau hyn wedi chwydu ei dywod i'r tir, a'r gwynt wedi ei gynnorthwyo i guddio tref gyfan, fel nad oes golwg ar un adeilad, ond ychydig o furiau yr hen Gastell.

Daeth cawod o dywod dig,  
 Ac anffawd i dref Cenffig;  
 Ei chaerau a'i muriau mawr  
 A chwalyd o'u huchelwawr:  
 Suddodd y ddinas addien  
 I oer lawr dan ddaier len;  
 Y tawel fôr sy' yn telori,  
 A thelyn aur wrth ei hollion hi;  
 Uwch ei bedd,—y ceinwych bant,  
 Syw awelon ddwys wylant;  
 Ond hon, a'i gwiwlon deg wedd,  
 O'n golwg sydd mewn gwaieidd.

CENINFAB AG OGWY.

Ow! gresyn fod Cenffig a'i thyrau heirdd hynod,  
 Yn nghrombil y tywod, hen drigfan mor dderch;  
 Yngolli yr ydwyf yn ngwyneb ei difrod,  
 Yn ol at ei cheinder eheda fy serch;  
 Mewn dorus tyfyrdod y rhodiaf o gwmpas  
 Y twyni tywodlyd orchuddia'i gwedd hi,  
 Wrth feddwi fod yma wir ddewrfeib o urddas  
 Yn huno,—maent yn gyssegregedig i mi.

Yr hen dref eirian a drig  
 Yn waelodion anweledig  
 Y tywod beiddgar,—tawel  
 Huno wna—haul mwy ni wel.

CYNFFIGWYSON.

Tueddir rhai i gredu mai yr un adeg y claddwyd tref Cenffig ag y syrthiodd hen Eglwys Fair Caerdydd, Ionawr 20, 1607, pan fu y gorllifiad ofnadwy hwnw yn Hafren; a dichon fod hyn yn wir i raddau; ond amlwg yw fod y dref hon wedi ei chladdu agos oll cyn hyny, oblegid sonia Leland am adfeiliad y dref a'r castell yn 1540, a'u bod agos a chael eu claddu gan y tywod y pryd hwnw. Dywed rhai haneswyr mai ar ol claddiad yr hen dref a'r eglwys gyntefig yr adeiladwyd yr Eglwys blwyfol bresenol, yr hon sydd wedi ei chyssegru i Mair Magdalen, ac a elwir Llan Fawdlem a Llan Fawlden. Ymddengys, pa fodd bynag, nad yw hyn yn gywir, oblegid sonir am Gapel Sant Mair Magdalen yn Mreinlen Thomas le Dispenser yn 1897, ac y mae hyn yn profi fod yr Eglwys yn bodoli y pryd hwnw,—nid yn Eglwys blwyfol fel yn awr, mae'n wir, ond yn Gapel Anwes dan Eglwys St. Iago. Bernir fod hen Eglwys y plwyf (St. Iago) yn sefyll tua 800 o latheni i'r de o'r Castell; a dywedir fod llawer o esgyrn dynol wedi eu cael yno o bryd i bryd, yr hyn sydd yn cadarnhau y dybiaeth mai yno yr oedd y fynwent. Pa fodd bynag, yr wyf

yn methu gweled fod hyn yn debygol, am fod y tywod wedi cuddio y tai, yr Eglwys a'i chlochdy, &c., ac felly wedi gosod esgyrn y meirwon yn y fynwent yn ddyfnach o'r arwyneb, gan fod llatheni o drwch o dywod ar wyneb y beddau. Credwyf wrth sylwi ar y lle, fod yr hen dref yn sefyll gynt rhwng y Castell a Llyn Cenffig, ac mai gorchest fechan fyddai cael muriau y tai, &c., i'r golwg.

Saif Eglwys Llan Fawlden ar fange uchel, a golwg hynafol iawn arni, a'i mynwent yn llawn o feddau y plwyfolion. Ficeriaeth yw'r fywoliaeth Eglwysig, wedi ei chysylltu ag eiddo'r Pil, ac wedi ei threthu ar lyfrau'r llywodraeth i £4 8s. 11½c, ac yn werth £95 y flwyddyn. Meddiannydd y degwm yw C. R. M. Talbot, Ysw., A.S., Margam, yr hwn sydd fath o Abbad Margam yn bresenol. Rhoddwyd yr hawl a feddai Abbad Margam ar Genffig i Syr Rice Mansel, Mehefin 28, 1546, am 12s. y flwyddyn; a chan fod Mr. Talbot yn etifedd cyfoeth y Manseliad, y mae yn feddianol ar y faenor hon a'i degwm.

Nid yw y dref yn bresenol ond un fechan iawn, yn cael ei llywodraethu gan gorpholiaeth, yn cynnwys Portref, Cofiadur, a 12 Henadur. Etholir y Portref yn flynyddol o blith y bwrdeisiaid preswylidig yn y lle, ac y mae yn meddu hawl ynad yn y fwrdeisdref. Adeiladwyd neuadd y dref tua dechreu'r ganrif bresenol, ar y draul o £400. Defnyddir y llawr yn dafarn, a'r llofft yn neuadd, ac yno y cedwir y breinleni, &c.

Yn ymyl y dref, y mae Llyn Cenffig, ac a elwir hefyd yn Bwll Cenffig. Y mae tua dwy filldir o amgylchedd, ac yn heigio o bysgod. Er ei fod yn ymyl y mor, ac yn agos a bod yn gylchynedig gan dywod, etto nid oes dim blas halenaidd ar y dwfr. Yn haf 1871, bu amryw Elyrch (*Sirans*) yn nofio'r llyn hwn am wythnosau, ac ni wyddai neb yn y lle o ba le y daethant yno. Tua'r un amser, bu yr Eos yn canu bob nos am wythnosau yn agos i amaethdy bychan a elwir Gro, tua ddwy filldir i'r de o'r Pil. Yn 1888, adeiladwyd Ysgoldy Cenffig a'r Pil, yr hwn a waddolwyd gan y Parch. E. Morgan, Ficer Syston. Cynnwysa plwyf Cenffig 8,868 o erwi o dir, ac y mae tua hanner hwnw yn dywod. Mae'r Pil, Seer, a Chenffig wedi eu huno ar lyfrau'r llywodraeth, a'u mesuriad arwynebol yn 5,251 o erwi. Rhif tai Cenffig yn 1861, oedd 57; yn 1871, 60. Pobllogaeth yn 1871, 270. Un ty sydd yn y Seer, a'r teulu yn 18 yn 1871.

CHERITON.—Plwyf yn Mrowyr, cantref Abertawy, undeb Penmaen, Browyr, archddeoniaeth Caerfyrddin, esgobaeth Ty Ddewi, 14 milldir i'r gorllewin o Abertawy. Bernir mai *Cherry-town* yw'r enw yn wreiddiol, ac iddo gael yr enw hwn am fod cyflawnder o *cherries* yn tyfu yno gynt. Un fechan hynafol yw yr Eglwys, yn cynnwys corph a changhell, gyda chlochdy ysgwar yn y canol rhwng y corph a'r ganghell. Nid oes capel Ymneillduol yn y plwyf. Rectoriaeth yw'r fywoliaeth, gwerth £150 y flwyddyn, yn nawdd a rhodd Tywysog Cymru. C. R. M. Talbot, Ysw., A.S., yw arglwydd y faenor, a pherchen llawer o'r plwyf. Cynnwysa y plwyf 1,419 o erwi, rhwng y dwfr; ac yn 1871, nifer y tai oedd 50, a 158 o drigolion.

CILBEBYLL, NEU CILYBEBYLL, sydd blwyf yn nghanntref ac undeb Castellnedd, deoniaeth Gronedd, archddeoniaeth ac esgobaeth Llan-

daf. Saif tua naw milldir i'r gogledd-ddwyrain o Abertawy, a phump i'r gogledd-orllewin o Gastellnedd. Ail adeiladwyd yr Eglwys yn 1869 o dywodfaen Cymru, mewn arddull Normanaidd, a chynnwysa gorph, canghell, a chlochdy isel castello, yn yr hwn y mae tair cloch. Perigloraeth yw'r fywoliaeth Eglwysig, yn werth £185 y flwyddyn, gyda 4 erw o dir, yn rhodd esgob Llandaf. Mesura'r plwyf 4,014 erw, wedi ei ardrethu yn £3,680. Nifer y tai yn 1861, oedd 269; yn 1871, 312. Poblogaeth yn 1861, 1,846; yn 1871, 1,592.

Yn amser Charles II., yr oedd Palas Cilypebyll mewn cryn fri, ac un o foneddigesau y palas hwn yn Feistres y Gwisgoedd i Catherine o Bragoza, y frenhines. Anrhegodd y frenhines hi a'i darlun, yr hwn a baentiwyd gan Syr Peter Lely, ac y mae'r *painting* hwn yn cael ei gadw yn barhaus yn Mhalas Cilybebyll. Yn y plwyf hwn y mae yr Alltwen, lle yr adeiladwyd capel bychan gan yr Annibynwyr yn 1757. Maint y capel hwnw oedd 21 troedfedd o hyd, ac 16 o led, a tho gwellt arno. Aeth y gynulleidfa yn ormod i hwnw, ac felly helaethwyd ef. Yn 1881, adeiladwyd capel newydd, a gwnaed yr hen un yn anedd-dai. Mae y capel godwyd yn 1881, wedi ei ail-godi a'i helaethu hefyd, fel y mae yn un prydferth a chyfeus yn bresenol. Mae amryw lofeydd yn y plwyf hwn, yn cael eu cario yn mlaen ar raddfa go helaeth. Yr hynaf o honynt, feallai, ag sydd ar waith yn awr, yw Glofa'r Primrose, yr hon ddechreuwyd Tachwedd 5, 1888. Rhed Camlas, a Chledrffordd Cwm Tawy trwy ranau o'r plwyf hwn, ac y mae Pontardawe yn ei gyssylltu a phlwyf Llangiwc. Mae llawer o'r tir yn fynyddig a garw.

**COGAN.**—Plwyf bychan yn nghantref Dinas Powys, undeb a dosparth llyso sirol Caerdydd, deoniaeth, archddeoniaeth, ac esgobaeth Llandaf. Saif ar lan y môr tua 6 milldir i'r De orllewin o Gaerdydd. Ffinir ef gan blwyfi Penarth, Llanfihangel-y-pwll, Llan Andras, Lavernock a'r môr. Rectoriaeth yw'r fywoliaeth Eglwysig, yn unol a Llandoelwy Penarth, a Leckwith, yn werth £182 y flwyddyn rhyngddynt. Mae yn yr Eglwys amryw gof-adeiladau am deulu Herberts *Cogan Pill*. Mae palas *Cogan Pill* yn mhlwyf Llandoelwy, a bu mewn cryn urddas gynt; ond amaethdy yw yn awr. Tua milldir i'r dwyrain o Eglwys Cogan, y mae lle o'r enw *Currt y Fil*, ond methwyd cael gwybod paham y cafodd y lle yr enw hwn. Ardalydd Bute yw arglwydd y faenor, a pherchen llawer o'r plwyf. Ei faint yw 602 erw. Nifer y tai 54. Pobl yn 1871, 294.

**COLY.**—Pentref bychan yn cynnwys 26 o dai yn 1871, yn Nghwm Bargod Taf, plwyf Gelligaer. Mae yma bedair lefel lo gan berchenogion Gwaith Dowlais. Mae'r leflau hyn yn agos i ben y mynydd, a gweithir ynddynt y gwythieni uchaf, sef y Glo Tai, ar raddfa helaeth. Cloddiwyd o lo yma yn 1871, y swm o 191,851 o dunelli. Rhed llinell o gledrffordd o'r lle hwn i Dowlais; ac y mae cangen o gledrffordd yn cael ei gwneyd trwy'r cwm yn bresenol (1878) er uno Dowlais a chledrffordd y Great Western, yn agos i'r Nelson. Pan suddir pyllau yma at y Glo Ager, diamheu y daw y lle yn helaethach a phwysicach.

Coetty, neu Coed-dy, ac a lythyrenir *Coyty*, sydd blwyf yn nghantrf Penybont-ar-Ogwy, undeb a dosparth llys sirol Penybont, esgobaeth Llandaf. Saif Eglwys y plwyf, ac adfeilion Hen Gastell Y Coetty, tua milldir a hanner i'r gogledd o dref Penybont, ac y mae rhan o'r dref hono yn y plwyf hwn. Ymddengys fod castell yn y Coetty cyn y goresgyniad Normanaidd, a phreswylid ef gan Gruffydd, pedwerydd mab Iestyn ab Gwrgan, a bernir mai efe a'i hadeiladodd gyntaf. Pan ddaeth y Normaniaid yma, preswylid y castell gan Morgan mab Meurig ab Gruffydd, medd rhai, gan Meurig, medd ereill; yr hyn sydd fwyaf tebygol. Yr oedd gan Meurig ferch brydferth o'r enw Asser, neu Sarah, yr hon a briododd a Syr Paine Turberville, un o'r Marchogion Normanaidd; ac felly daeth Paine yn berohenog ar yr arglwyddiaeth a'r castell. Darfu i Paine trwy ganiatad ei dad-yn-nghyfraith, adeiladu y castell o'r newydd; a gwnaeth ef o ran maint a chadernid, y mwyaf, a'r cryfaf yn Morganwg y pryd hwnw, ac yr oedd yn ail o ran maint i Gastell Caerffili, wedi i'r olaf gael ei adeiladu. Amddiffynid y castell â muriau trwchus ac uohel; a thu allan i'r muriau hyn, yr oedd ffos ddofn a llydan. Dygir dwfr i'r ffos hon mewn pibellau efydd o'r brynau cyfagos; a chloddwyd pydew y tu fewn i'r muriau, yn 160 troedfedd o ddyfnder, er cael dwfr at wasanaeth y castell. Mae'r pydew i'w weled yn bresenol. Ar ol adeiladu, a chadarnhau y castell yn 1091-8, gwrthododd Syr Paine Turberville gydnabod Robert Fitzhamon yn Arglwydd Morganwg, a gomeddodd dalu Treth Marchog (*Knight's Fee*) iddo, megys ag ei telid gan y Marchogion ereill; ond talai Paine y dreth i Caradog ab Iestyn, yr hwn a gyfrifai yn Dywysog Cyfreithlon. Bu hyn yn achos i Fitzhamon a'r Normaniaid ffomi yn ddigofus wrth Turberville; ond pleidiwyd ef yn ddewr gan y Cymry, ac yn 1094 cododd Paine fyddin o wyr Morganwg i ymosod ar y Normaniaid, a buont agos a chael eu trechu ganddo. Canlynwyd Paine i arglwyddiaeth y Coetty gan ei fab Simwnt, yr hwn a adeiladodd Hen Gastell Penybont. Bu ef farw heb adael etifedd cyfreithlon, a daeth y lle yn eiddo ei frawd Gilbert. Canlynwyd Syr Gilbert gan ei fab, Syr Paine Turberville, yr ail o'r enw, yr hwn a briododd a Mallt (Matilda) merch Morgan Gam, ab Meurig ab Gruffydd ab Iestyn. Mae cryn gymmysgfa yn y *Iolo MSS.* gyda golwg ar hyn, gan fod y naill Paine yno yn cael ei gamgymmyd am y llall, gyda cham leoli enw Morgan ab Meurig, sef Morgan Gam. Gan i Paine Turberville y cyntaf briodi merch Meurig, a bod yr ail Paine yn wŷr i'r rhai hyn, a bod Matilda gwraig yr ail Paine yn wyres i Meurig, merch Morgan ei fab, y mae yn amlwg fod yma gyssylltiadan perthynasol yn flaenorol i'r briodas,—yr oedd hi yn fodryb i Paine. Darfu i'r ail Syr Paine uno arfbais (*arms*) teulu Iestyn a'r eiddo ei hun, a honai mai Cymro ydoedd. Canlynwyd Paine yr ail gan ei fab Gilbert, a Matilda merch Morgan Gam. Dilynwyd ef gan ei fab Gilbert, yr hwn a briododd a Meiwen merch Cadwgan, Arglwydd Castell-ar-Alain. Yr oedd y Cadwgan hwn yn fab i Ithel ab Ifor, ab Morgan, mab Caradog ab Iestyn. Mae'r priodasau hyn yn eglur ddangos fod teulu Turberville wedi ei wneyd yn nŵd

neillduol, i ymbriodi a theulu Iestyn. Dilynwyd Gilbert y trydydd gan ei fab Richard, ac yntau gan ei fab Syr Paine Turberville y trydydd. Priododd hwn â Gwenllian merch Syr Richard Talbot, Marchog; a ganwyd iddynt bedwar mab, sef Gilbert, Richard, Simwnt, ac Edward; a phedair merch, sef Catherine, Margaret, Agnes, a Sarah. Syr Gilbert ddilynodd ei dad i'r etifeddiaeth; a chanlynwyd yntau gan ei fab Syr Gilbert y pumed. Bu hwn farw heb etifedd cyfreithlon, ac felly aeth yr etifeddiaeth yn eiddo Syr Richard, brawd ei dad, sef mab Paine Turberville y trydydd. Bu hwn hefyd farw heb etifedd o'i gorff, ac yn ei ewyllys olaf, rhoddodd Gastell ac arglwyddiaeth y Coetty i Syr Roger Berkrolles, Marchog, a'i etifeddion; yr hwn oedd yn briod a Chatherine, ei chwaer hynaf; ond yn nifyg hiliogaeth i Syr Roger a Chatherine, fod yr arglwyddiaeth i fyned i hiliogaeth Syr Richard Stakepool, o Sir Benfro, yr hwn oedd yn briod a Margaret yr ail chwaer; ond os na fuasai etifedd ganddynt hwy, fod yr etifeddiaeth i hil Syr John de la Bear, o Gastell Weobly, yn Mrowyr, yr hwn oedd yn briod ag Agnes, y drydedd chwaer; ac yn nifyg etifedd iddynt hwy, fod yr arglwyddiaeth i fyned i Syr William Gamage, arglwydd Rogate yn Ngwent, a'i hiliogaeth; yr hwn oedd yn briod a Sarah y chwaer iouengaf. Bu Stakepoole, a Delabear feirw heb adael etifedd; ac felly ni fu a fynent hwy a'r arglwyddiaeth. Cafodd Catherine a Syr Roger Berkrolles fab o'r enw Lawrence, yr hwn a feddiannodd etifeddiaeth y Coetty. Cafodd hwn fab a enwyd yn Lawrence hefyd, ac efe a briododd a Mitilda merch Syr Thomas le Despenser o Gaerffili. Rhoddodd Matilda wenwyn i'w gwr, a lladdodd ef; a chafodd hithau ei chladdu yn fyw gyda'i gorff ef, yn ol gorchymyn Richard Beauchamp (Began) arglwydd Morganwg.

Ar farwolaeth Syr Lawrence Berkrolles, trwy wenwyn, daeth arglwyddiaeth y Coetty yn eiddo Syr William Gamage, yr hwn oedd yn fab i Gilbert, mab Sarah, chwaer Syr Richard Turberville a Syr William Gamage, Arglwydd Rogate. Pan ddaeth yr etifeddiaeth yn eiddo Syr William Gamage, aeth llywodraeth llys gwladol arglwyddiaeth y Coetty i feddiant Syr Richard Beauchamp, Arglwydd Morganwg, yr hwn a ddaeth i'r arglwyddiaeth trwy briodas, yn 1411. Cyn hyny, yr oedd hawl gan arglwyddi y Coetty i lunio cyfreithiau, a gweinyddu y cyfryw o fewn yr arglwyddiaeth, yn annibynol ar bawb ereill; ond collwyd yr hawl hono trwy i'r etifeddiaeth dreiglo deirgwaith yn y llinach fenywaidd, tra y daeth yr holl gyfoeth tirol yn eiddo i Syr W. Gamage. Canlynwyd ef i'r arglwyddiaeth gan ei fab Thomas, yr hwn a adawodd etifedd o'r enw John, yr hwn a ganlynwyd gan Morgan ei fab, a dilynwyd yntau gan ei fab Syr Thomas Gamage, Farchog. Yr oedd gan Syr Thomas amryw chwiorydd, y rhai a briodasant fel y canlyn:—Margaret a briododd â Jenkin Thomas, Ysw., Anne â Robert Raglan, Catherine â Reynald ap Howell, Gwenllian â Thomas ap Meurig. Ar farwolaeth Syr Thomas Gamage, aeth yr etifeddiaeth i'w fab, sef Syr Robert Gamage. Priododd Catherine, merch hynaf Robert, â Syr Thomas Stradling, Farchog, St. Donnatt's. Priododd Marie, yr ail ferch, â Mathew Herbert, Ysw.;

Margaret, y drydedd ferch, a briododd Arglwydd William Howard; a phriododd Elizabeth, y bedwaredd ferch, â Richard Hogan, Ysw., o swydd Benfro. Canlynwyd Syr Robert Gamage i arglwyddiaeth y Coetty, gan ei fab John. Priododd Barbara, merch ac etifeddes John Gamage, Ysw., Arglwydd y Coetty, â Syr Robert Sydney, yr hwn a wnaed yn Iarll Leicester yn 1619. Yn un o ystafelloedd Penshurst-place, Kent (hen balas y Sydneys), y mae darlun o Barbara, ac o'i hamgyleh 11 o blant, sef 8 mab, ac 8 merch, gydag enw pob un o honynt dan ei lun. Yn y parc hefyd, o flaen y palas, y mae 12 pren hynafol,—un yn y canol, a'r lleill o hamgyleh, yn cynnrychioli Barbara a'i phlant. Gelwir y coed hyn hyd heddyw wrth yr enw *Gamage's Bower*. Aeth arglwyddiaeth y Coetty i feddiant teulu Wyndham hefyd, a daeth yn eiddo Iarll Dunraven a Montreal, trwy iddo briodi etifeddes Thomas Wyndham, Ysw., A.S., dros Forganwg. Yn meddiant Iarll Dunraven y mae yn awr. Yn 1859, ail adeiladwyd Eglwys y Coetty, ar ffurf croes, yn arddull y 14eg ganrif. Yn y canol y mae clochdy ysgwar, yn sefyll ar bedwar bwa (*arches*), ac ynddo chwech cloch. Dyddia'r Coflyfr o'r flwyddyn 1718. Rectoriaeth yw'r fywoliaeth, yn unol â Chapel Nolton, yn werth £550 y flwyddyn, yn rhodd Iarll Dunraven; ac y mae wedi ei threthu yn £21 12s. 8½c. Wrth agor bedd i'r diweddar Dr. Richards, rector y plwyf, deuwyd o hyd i fedd-gell (*vault*), yn yr hon y cafwyd delwan gwr a gwraig, wedi eu cerfio mewn mynor gwyn, gyda'r blwyddiad 1111, a bernir mai delwan Syr Paine Tuberville y cyntaf, a Sarah ei wraig ydynt. Dafydd Hopkin o'r Coetty oedd Fardd Gorsedd Morganwg yn 1780. Maint y plwyf yw 4,571 erw; *gross estimated rental*, £15,815; *rateable value*, £12,988. Poblogaeth yn 1861, 2,685; yn 1871, 3,251; nifer y tai, 668.

**CWM AFAN A LLANFIHANGEL YNYS AFAN.**—Mae plwyf Llanfihangel Ynys Afan yn nghantref, undeb, a dosparth llys sirol Castellnedd, deoniaeth Gronedd Uchaf, archddeoniaeth ac eagobaeth Llandaf; a saif Eglwys y plwyf tua 2 filldir i'r gogledd-ddwyrain o Aberafan, 2½ o orsaf Port Talbot, ar Gledrffordd Deheudir Cymru, 8 i'r de o Gastellnedd, a 205 o Lundain. Mae yr Eglwys hon wedi ei chyssegru i St. Michael (Mihangel), ond nid oes wybodaeth pa bryd yr adeiladwyd hi gyntaf; ac nid oes ond yohydig o'i hanes ar gael. Dyddia ei Choflyfr o ganol y 16eg ganrif (1550), yr hyn sydd yn lled awgrymu na fu y Cromweliad yma. Mae yn ymddangos, pa fodd bynag, fod yr hen Eglwys yn llawer hynach na'r flwyddyn a nodwyd, a thebygol yw ei bod yn hynach na dyddiau Dafydd ab Gwilym (1800). Yn 1700, un o'r enw Jones oedd offeiriad y plwyf. Ni chynnwysai y plwyf y pryd hwnw ond 46 o anneddau a 245 o drigolion; ac o'r rhai hyn, nid oedd ond tri yn gymmunwyr yn yr Eglwys! Canlynwyd Mr. Jones gan y Parch. Thomas Morris yn 1729, yr hwn a fu yn offeiriad yma am 25 mlynedd. Ar farwolaeth y Parch. T. Morris yn 1764, daeth y Parch. William Davies, offeiriad Castellnedd, i'r plwyf hwn, a bu yn foddion i wneyd llawer iawn o ddaioni yma. Yn ei amser, a than ei nawdd ef y dechreuodd Ymneillduath yn y plwyf,

ac nid oes ond ychydig lwydd wedi bod ar grefydd yn yr Eglwys o'r pryd hwnw hyd yn awr. Bu ef farw yn 1781. Tua'r flwyddyn 1850, wrth weled yr hen adeilad mor ddirywiedig, adgyweiriwyd, ac helaethwyd yr Eglwys a'r fynwent, trwy offerynoliaeth un Mr. Biddulph, yr hwn oedd Uchel-Eglwyswr penboeth, a chanddo lawer o awdurdod yn yr ardal.

Nid yw yr Eglwys ond un fechan etto, yn cynnwys corph, canghell, un rhodfa, a chlochdy castellog, oddiar yr hwn yr adeiladwyd twr pigfain. Mae yn y clochdy ddwy gloch, ac organ lled dda yn yr Eglwys. Yn 1855, adeiladwyd Eglwys newydd yn y lle (*All Saints*), yr hon sydd yn adeilad hardd, ac iddi dwr uchel pigfain. Gwnawd cloch yr Eglwys hon yn ngwaith Cwmafan, a chostiodd 60 gini. Rhoddwyd hon yn nghyd ag organ gwych, yn anrheg i'r Eglwys, gan foneddwr mewn cyssylltiad a Gwaith Efydd y lle. Capel anwes dan Eglwys y plwyf yw Eglwys yr Holl Saint. Ficeriaeth yw'r fywoliaeth, yn rhodd perchenogion gweithfeydd y lle.

Rhed afon Afan trwy ran o'r plwyf, gan ei wahanu oddiwrth eiddo Margam; a'r afon hon sydd wedi rhoddi ei enw i *Gwmafan*; yr hwn yn briodol nid yw ond tua thair milldir o hyd, o Aberafan hyd Bont-rhydyfen; a'i gyfeiriad yn orllewinol a dwyreiniol. Cynnwysa y Cwm ranau o blwyf Aberafan, Margam, a Llanfihangel Ynys Afan. Ar bob ochr i'r Cwm cul hwn, y mae rhesi o fynyddau, yn amrywio o 1,200 i 1,400 o droedfeddi o uchder. Cyn adeiladu gweithfeydd haiarn, alcan, ac efydd yn y Cwm, amaethid ef yn dda. Ar du gogleddol yr afon safai yr amaethdai canlynol:—Pantdu, Dinas (sef y persondy), Cendon, Brynbryddan, Tylau'rfedwen, Cwm-mawr, Ty-fry, Ty-Canol, Ty-isaf, Tewgoed-fawr, Tewgoed-fach, Pwllgwlaw, ac Ynys-afan. Yn ochr ddeheuol y Cwm yr oedd y rhai canlynol:—Ynys Dafydd, Ynys-y-Gwas, Pencastell, a'r Bettws-ddu. Yr oedd yma rai tai bychan ereill, megys Ty'r-Ynys, Tarren-Yorath, Llanwalbi, Ty'n-y-graig, Ty'r-Emwnt, Ty-Rebecca, Tafarn-y Fynwent, &c.

Gan fod llechweddau y mynyddau ar bob tu i'r Cwm mor serth, ac amryw ffrydiau yn rhedeg i'r Afan oddiar y rhai hyn, darfu i'r dyfroedd ddwyn rhai o drysorau y mynyddau hyn i'r golwg; yr hyn a barodd i'r preswylwyr agor glofa fechan tua chan' mlynedd yn ol, yr hon a elwid Lefel y Waunlas, yn y Cwmbychan, yr hwn sydd yn agor o Gwmafan, ar y tu gogleddol. Bu yr holl ardal yn myned dan yr enw Cwmbychan, am lawer o amser, am mai yno yr oedd y lofa. Gwerthid y glo a gloddid yma i'r amaethwyr am bump ceiniog y pwn. Yn mhen amser, cludid glo o'r lefel hon ar gefnau mulod, &c., at wasanaeth Morthwylfa (*Forge*) Aberafan, a Ffwrnes Penrhwdyn, adfeilion yr hon sydd rhwng Brifon Ferry a Chastellnedd. Cludid mwn haiarn hefyd o'r Cwm hwn mewn cewyll, &c., ar gefnau asynod at y ffwrnes a enwyd, cyn i neb feddwl am adeiladu ffwrnes yn Nghwmafan. Agorwyd glofa fechan ar du deheuol y Cwm hefyd, yn y Mynydd Bychan, a gwnaed math o *tramroad* oddiyno at waith efydd Y Tai Bach yn mhlwyf Margam, ac y mae olion yr hen ffordd i'w gwled yn awr.

Tua'r flwyddyn 1798, anfonwyd dau swyddog o Forthwylfa Aberafan, sef Thomas Rees a William Cook, i archwyllo Cwmafan, er gweled a oedd yn bosibl cael lle i agor lefel arall, am yr ofnid fod holl lo Lefel y Waunlas agos a chael ei weithio i gyd. Buont yn chwilio a chloddio yn ofer am fisoedd; ac yn y diwedd, daethant i'r penderfyniad fod holl lo y cwm ar y tu gogleddol, wedi ei weithio agos yn llwyr o Lefel y Waunlas! Yn ngwyneb hyn, aed yn mlaen drachefn yn yr hen ddull, sef casglu y mŵn haiarn yn y nentydd, a gweithio cymmaint a allent o lo yn yr hen lefel, a'i gludo fel arfer ar gefnau mulod, &c. Yn 1810, tynewyd sylw un o'r enw Samuel Fothergill Letsom at y lle, yr hwn oedd yn ddigon hyddysg mewn daiareg i ddeall fod y mynyddau ar bob tu i'r cwm, yn nghyda seleri ei waelod, yn feichiog o lo a mŵn haiarn; ac yn 1811, cymmerodd brydlës ar y lle am 99 mlynedd gan Iarll Jersey, perchenog ochr ogleddol y cwm. Perchen y tu deheuol i'r afon yw C. R. M. Talbot, Ysw., A.S. Am beth amser wedi i Mr. Letsom brydlesu y lle, ni wnaed ond cynnydd araf. Ond bob yn ychydig, dechreuwyd dadgloi coffrau creigiog y cwm, trwy agor Lefel y Wern—y flaenaf o'r cyfnod newydd; ac ar ei hol hi, agorwyd amryw ereill. Parodd hyn i nifer y trigolion luosogi, a'r anedd-dai i amlhau; ond cludid y glo a'r mwn i fanau ereill i'w defnyddio, gan nad oedd ffwrnes yn y cwm. Pa fodd bynag, yn 1819, adeiladodd y boneddwr a enwyd y ffwrnes gyntaf yn y lle. Y gorchwyl cyntaf tuag at gyrrhaedd yr amcan hwn, oedd cloddio camlas milldir a hanner o hyd, o Bontrhydyfen, i'r fan y bwriedid adeiladu'r ffwrnes. Yna, dygwyd y ceryg at adeiladu mewn bad ar hyd y camlas o ardal Pont-rhydyfen; a gwasanaethodd y camlas i gario dwfr drachefn i droi yr olwyn oedd yn ysgogi'r peirianau er chwythu gwynt i'r ffwrnes.

Erbyn gorphen adeiladu'r ffwrnes, a'r olwyn yn barod i droi, a'r dwfr yn y camlas yn barod i'w ollwng arni, crogodd cwmwl du uwch ben y lle, trwy i Mr. Letsom fethu yn ei amgylchiadau yn Rhagfyr, 1819. Yn mis Mawrth, 1820, dechreuodd oleuo draohefn, trwy i ddau oludog o'r enwau Vigurs a Smith, perchenogion Gwaith Alcan Ynysygerwn, Cwm Nedd, gymmeryd at waith Cwm Afan hefyd. Yn fuan, dechreuasant doddi haiarn yn y ffwrnes, adeiladwyd Morthwylfa a Melin fechan at rollo llafnau haiarn, y rhai a gludid i waith Ynysygerwn i'w gorphen yn alcan. Yn mhen yohydig, adeiladwyd Fferyllfa (*Chemical Works*) yn y lle, a Morthwylfa arall, yr hon a elwid y Forthwylfa Isaf. Hyd y pryd hwnw, yr oedd y ffordd o Aberafan i fyny i'r cwm yn wael iawn; ac er mwyn ychwanegu hwylusdod y lle, aeth perchenogion y gwaith i'r draul o wella y ffordd, a gwneyd ffordd haiarn (*tramroad*) hefyd ar hyd hen hepl y plwyf hyd Aberafan, ac yn groes i'r afon dros bont ar gyfer Neuadd y dref, ac oddiyno i'r llongborth. Yr oedd y *tramroad* tua 8 milldir o hyd. Erbryn hyn, yr oedd y lle yn cynnyddu yn gyflym—rhes ar ol rhes o dai yn cael eu hadeiladu, ac yn eu plith 'Ty Vigurs.' Bob yn ychydig helaethwyd y gwaith, ac adeiladwyd *Tin House*, fel y gellid gorphen *tin*o y llafnau yn y lle; a gwnaent yn wythnosol 1,500 o gisteidiau (*boxes*), a phob cist yn 200 o lafnau. Erbryn y flwyddyn 1835, yr oedd yn y lle ddwy



dawdd ffwrnes, Morthwylfa, a Melin Alcan. Ymadawodd Mr. Smith y flwyddyn hono, gan adael Mr. Vigurs yn unig berohenog y gwaith; ond unodd dau ereill o Gernyw ag ef, enwau y rhai oedd James a Batton; ac aeth y cwmni dan yr enw *Vigurs & Co.* Ar y 12fed o Hydref, 1885, gosodwyd careg sylfaen Gwaith Efydd i lawr yn y lle; a gwnaed llafnau copr ynddo gyntaf Mawrth 19, 1888. Mae'r adeilad yn 690 troedfedd o hyd, a 100 o led. Saif y gwaith enwog hwn wrth droed Mynydd Y Foel, yr hwn sydd yn codi yn serth iawn o waelod y Cwm i'r uchder o 1,400 o droedfeddi uwchlaw'r môr, a 1,122 yn uwch na'r gwaith. Tuag at gludo y mwg a'r nwyon gwenwynig o'r gwaith, gwnaed *culvert* o'r weithfa i ben Y Foel, yn 1,100 o latheni o hyd, a *stack* ar ben y mynydd yn 80 troedfedd o uchder, yr hon a welir am ugeiniau o filldroedd, a ohwmwl o fwg du ar ei phen bob amser. Yn mhen dau fis wedi gorphen y Gwaith Efydd, sef yn Mai 1888, rhoddodd Mr. Vigurs i fyny yr arolygiaeth, wedi bod yn y swydd 18 mlynedd yn y lle. Canlynwyd ef am yohydig wythnosau gan Mr. W. Brunton; ac yna am tua blwyddyn gan Mr. Nicholas Vivian; nes i Mr. W. Gilbertson gael ei osod yn y swydd yn 1889. Helaethodd hwn lawer ar y gwaith mewn yohydig amser. Gwnaeth gledrffordd newydd o'r weithfa i Borth Talbot, gan adeiladu pont pedwar bwa yn ngodre'r Cwm, dros yr hon y rhed y peiriannau a'u cledresi rhwng y gwaith a'r porthladd,—parodd godi lluaws o dai ychwanegol i'r gweithwyr, a dylanwadodd ar ei gyd-berchenogion i brydlesu darn helaeth o dir ar du deheuol yr afon gan C. R. M. Talbot, Ysw., A. S., er cael ychwaneg o lo, &c. Mae'r tir hwn yn 4 milldir o hyd, a 8 o led; a Bryntroedgam yn agos ar ei ganol. Wedi sicrhau y tir, dechreuwyd agor glofeydd yn Y Bryn, a gwnaed cledrffordd tua dwy filldir o hyd oddiyno hyd ymyl y gwaith, lle mae *inclines* tua 600 llath o hyd, yn gostwng at Bont-y-nys-afan, yr hon a adeiladwyd y pryd hwn yn dros yr afon. Dygwyd glo o'r Bryn dros y gledrffordd hon y tro cyntaf yn Medi 1841. Ar y 29ain o Fai 1841, sef yohydig fisoedd cyn cael glo o'r Bryn, ymunodd Cwmni Gweithfeydd Cwmafan, a'r cwmni anrhydeddus a elwir "*The Governor and Company of Copper Miners in England*," a llynwyd enw y cwmni blaenorol gan y newydd. Derbyniwyd Mr. Gilbertson yn aelod, ac aeth yn mlaen a'r arolygiaeth fel cynt. Corpholwyd y "*Governor and Company*," &c., Awst 8, 1691, pryd y cawsant freinlen gan William a Mary, brenin a brenines Lloegr, Ffrainc, Iwerddon, ac Iscoedcelyddon.

Ar y 1af o Awst 1841, prynodd y cwmni newydd Waith Pontrhydyfen hefyd, yr hwn a saif tua 2 filldir yn uwch yn y Cwm na Gwaith Cwmafan. Dechreuwyd Gwaith Pontrhydyfen yn 1825, gan un o'r enw Reynolds, yr hwn a adeiladodd ddwy dawdd ffwrnes yn y lle; ac a adeiladodd y bont fawr 4 bwa yn groes i'r cwm, yn 459 troedfedd o hyd, 75 o uchder, a 18 o led, i'r dyben o fyned a'r dwfr drosti i droi olwyn y gwaith. Treuliodd Mr. Reynolds tua £80,000 yn y lle, a throes yn fethiant iddo yn y diwedd. Wedi i *Governor & Co.* brynu gwaith Pontrhydyfen, yr oedd ganddynt bedair tawdd ffwrnes yn y cwm, heblaw y Gwaith Tin a Chopr; ac aeth pethau yn mlaen yn

hwylus am tua dwy flynedd a hanner. Yn y flwyddyn 1844, daeth un o'r cwmni o'r enw Mowatt i'r lle, a diswyddodd Mr. Gilbertson heb roddi iddo ond ychydig oriau i barotol i ymadael; a bu Mr. Mowatt yn arolygu am ychydig fisoedd, nes y pennodwyd Mr. Charles Lane i'r swydd, yr hyn a wnaed cyn diwedd 1844. Y prif les wnaeth Mr. Mowatt yn y lle, oedd cau "Siop y Cwmni." Yn ystod arolygiaeth Mr. Lane, adeiladwyd tair ffwrnes ffast ychwanegol yn Nghwmafan, gyda Melin Gledrau eang. Gwnaed cledren (rail) yn y felin hon i fyned i Arddangosfa Llundain yn 1851, yr hon oedd yn 68 troedfedd o hyd, ac yn pwyso 1,176 pwys, a dyfarnwyd y *prize medal* am dani i'r perchennogion. Yn 1845, gosododd Mr. Lane agerbeiriant symmudol (*locomotive*) i lusgo glo o'r Bryn i'r Cwm, ac un arall i weithio ar y gledrffordd rhwng y gwaith a'r porthladd. Yn nechreu 1846, anfonodd y cwmni Thomas Richard Guppy, Ysw., adeiladydd yr agorlong haiarn enwog hono a elwid *Great Britain*, i arolygu y gwaith yn lle Mr. Lane. Gorphenodd ef y Felin Gledrau (*Rail Mill*) a ddechreuwyd gan Mr. Lane yn haf 1846, a gosododd ager-beiriant 260 march-allu i'w gweithio. Mae yn perthyn i'r felin hon ugain o ffwrnesi *puddling*, a thua'r un nifer o rai *balling*, gyda gwahanol fathau o roliau i weithio yr haiarn o'r gledren 500 pwys hyd y barrau bychain. Hefyd, efe a ychwanegodd y Forthwylfa a elwir y *Great Western* at y gwaith; ac a adeiladodd y *Depôt*, yr hwn sydd adeilad eang, yn mesur 900 troedfedd o hyd a 45 o led, ac ynddo y gweithia seiri, gofaiad, peiriannwyr, llifwyr, *moulders*, &c. Bu Mr. Guppy yn foddion i gael Ty Marchnad yn y lle hefyd, yn yr hwn y cedwir marchnad bob dydd Sadwrn; nid oedd marchnad yn nes nag Aberafan cyn hyn. Trwy ei ymdrechion ef hefyd y cafwyd i'r lle y *Mechanics' Institute, Reading Room, Gas Works, &c.*, a bu yn foddion i helaethu y gwaith, i adeiladu ugeiniau o dai i'r gweithwyr, gwneyd amryw gangenau o'gledrffyrdd, &c.; ond wrth fyned yn mlaen mor gyflym, parodd i'r cwmni fyned i £270,000 o ddyled i Ariandy Lloegr! Mewn canlyniad i hyn, cymmerodd cwmni y *Bank of England* at y gwaith yn mis Ebrill, 1848; ac felly, aeth dan yr enw "*Governor and Company of the Bank of England.*" Yn 1850, ymdrechodd y Cwmni Efyddol ddyfod allan o'r dyrswch trwy gael *charter* newydd mewn cydymffurfiaid â'r Act Seneddol a elwir "*The Companies' Clauses Consolidation Act, 1855*;" ond methasant yn eu hamcan. Yn 1851, pa fodd bynag, cawsant Act, pennawd yr hon sydd fel hyn:—"An Act facilitating the settlement of the affairs of Governor and Company of the Copper Miners in England, and for the better management of the said Company, 24th July, 1851." Cynnwysa yr Act 165 o erthyglau, a'r rhan fwyaf o honynt yn ffaffriol i'r cwmni i ad-feddiannu y gwaith, a gochelyd meth-daliad yn y dyfodol. Tra bu'r gwaith yn meddiant cyfundeib Ariandy Lloegr, llywodraethid ef gan Mr. John Biddulph, ond terfynodd ei lywodraeth ef pan ail-ymafodd yr hen gwmni yn y gwaith, Mai 13, 1852. Diwrnod o lawenydd i filoedd oedd hwnw,—daeth llywodraethwr a dirprwywyr y cwmni gyda'r gerbydres i orsaf Porth Talbot, ac yn eu plith Mr. Gilbertson,

yr hen arolygwr. Yr oedd miloedd trigolion Aberafan, Cwmafan, Bryntroedgam, Pontrhydyfen, &c., yno yn eu cyfarfod, gyda llawys o fanerau yn cyhwfan yn yr awyr, a threuliwyd y dydd mewn llawenydd mawr. O'r pryd hwnw hyd yn awr, y mae'r gwaith wedi cael ei gario yn mlaen gyda chyssondeb, oddi eithr yn amser strike 1878. Ond y mae ffwrnesi Pontrhydyfen yn segur er ys amryw flynyddau; a bu melin y Great Western yn sefyll am flynyddau hefyd; ond ad-gyweir- iwyd hi yn 1871. Mae amryw lofeydd wedi eu hagor yn y lle yn ddiweddar ar raddfa eang iawn. Yn 1860, dechreuwyd codi glo o'r *Meadow Pit*; ac yn 1864, cafwyd glo allan y waith gyntaf o'r *Refinery Slant*. Yn 1871, agorwyd dwy lofa (*slants*) yn Bryntroedgam, fel y mae'r glo yn cael ei weithio ar raddfa eang iawn yma yn bresenol. Agorwyd y rhai hyn dan lywodraethiad W. P. Struve, Ysw., C.E. Llywodraethir y gwaith yn bresenol (1878) gan Mr. Martin, mab George Martin, Ysw., arolygydd gwaith mwn Dowlais. Mae bod y swm o 2,600 o dunnelli o efydd pur wedi ei wneyd mewn un flwyddyn yn y gwaith hwn, yn dangos ar unwaith fod y weithfa yn fawr. Mae'r haiarnfa a'r gwaith tin hefyd yn eang iawn, a'r cwbl yn awr yn cael eu dwyn yn mlaen gyda deheurydd.

*Ymneillduaeath.*—Dechreuodd Ymneillduaeath y plwyf yn hen gapel y Gyfylehi, neu Gyfylchau. Yn 1776, adeiladwyd y capel hwn yn mharth uchaf y plwyf, yn fath o gapel anwes i'r Eglwys blwyfol, Llanfihangel-Ynys-Afan. Ymddengys i gapel fod yno cyn hyny, yn amser Charles II, ond yr oedd wedi syrthio neu ei dynu i lawr cyn y flwyddyn a nodwyd. Tuag at adeiladu y capel yn 1776, rhoddodd un Mr. Pryse, Dyffryn Golwg, lês ar ddarn o dir, hanner erw o faint, am hanner coron y flwyddyn; ond nid oedd neb i gael pregethu o fewn yr adeilad hwnw, ond offeiriaid wedi derbyn urddau Eglwysig. Maint y capel oedd 85 troedfedd wrth 15; a phorth bychan 7 wrth 6. Ei furiau oeddynt o geryg cyffredin, ei do yn gerryg llwydion, a'i lawr o bridd a chalach. Agorwyd ef Mai 1776, pryd y pregethodd y Parch. W. Davies, offeiriad y plwyf, a rhoddwyd cymmundeb i 28 o'r plwyf-olion. Arferai Williams, Pantycelyn, a Jones, Llangan, &c., ymwled a'r lle i bregethu yn y capel, yr hyn a fu yn achos i'r aelodau fyned yn bur Fethodistaidd. Yn 1786, dechreuodd un o'r aelodau bregethu, sef Richard, mab William James, Penrhys; ond gan na urddwyd ef yn offeiriad, nid oedd hawl ganddo i bregethu yn y capel. Gan fod fferm Penrhys yn nghymydogaeath y capel, cedwid cyfarfodydd crefyddol yno yn fynych; ac amryw o'r pregethwyr an-urddedig yn cael pregethu yno yn aml. Yr oedd awydd ar y bobl i agor y capel i'r pregethwyr, ond yr oedd *clause* yn y lês yn gwahardd hyn yn bendant. O'r diwedd daeth cynllun i feddlwl un o'r hen frodyr, yr hwn a atebodd y dyben yn rhagorol.—Gan fod digon o dir yn ngweddill o'r hanner erw i adeiladu ystafell yn nglyn a'r capel, y gallent wneyd hyny heb ofyn cenad y tir feddiannydd, ac y gallai y pregethwyr bregethu yn hono. Yn unol a'r cynllun hwn, adeiladwyd ystafell ysgwar 14 troedfedd o hyd a lled yn nglyn a'r capel, fel y gellid myned o'r naill i'r llall. Yr oedd yr ystafell hono fel math o ganghell i'r capel.

Gelwid yr ystafell wrth yr enw y Capel Bach, a'r llall y Capel Mawr. Wedi cael yr ystafell yn barod, pan fyddai pregethwr heb urddau yn dyfod heibio i bregethu, arferai sefyll ar ben cadair yn y Capel Bach; tra yr eisteddai y gwrandawwyr yn y Capel Mawr; ac yn y diwedd anturiodd rhai heb urddau i bregethu o fewn y Cyssegr Santeiddiolaf. Bu'r hen gadair—pwlpudd y Capel Bach, yn cael ei chadw yn barchus yn Nhy'r Capel, Pontrhydyfen am flynyddau lawer; ond nis gwn a yw yno yn awr a'i peidio. Bu'r Methodistiaid yn addoli yn Nghapel y Gyfylehi am 50 mlynedd. Yn 1826, codasant gapel yn Mhont-rhydyfen, a symudodd yr eglwys yno o'r Gyfylehi. Yn 1887, codasant gapel y Tabernacl yn ngodre'r plwyf, ac ail adeiladwyd ef yn 1854.

*Annibynwyr.*—Yn 1819, pan ddechreuwyd gwaith haiarn y Cwm, ymfurfiodd yr Annibynwyr, 11 o nifer, yn eglwys yn nhy un John Howell. Yn 1821, adeiladasant gapel Seion yr hwn a ail adeiladwyd yn 1850. Yn 1889, codasant gapel arall,—y Rock, yr hwn a ail adeiladwyd yn 1870. Yn 1850, cododd yr enwad Bethania, fel y mae ganddynt dri chapel yn y lle.

*Y Bedyddwyr.*—Dechreuwyd achos y Bedyddwyr yn y Cwm yn 1825 mewn tai annedd. Yn 1844, adeiladasant gapel Penuel. Yn 1870, adeiladwyd capel newydd eangach na'r hen, ac enwyd yntau yn Penuel, ac aeth yr eglwys iddo o'r hen gapel.

*Wesleyaid.*—Dechreuwyd achos Wesleyaid Seisnig yn y lle yn 1880; ond ni chodwyd eu capel hyd 1849.

*Bible Christians.*—Cododd yr enwad hwn gapel hardd o'r enw *Providence* yn y lle yn 1859.

Mae yn y lle ysgolion da hefyd yn nghysswllt a'r gwaith.

Mae'r plwyf wedi ei ranu yn ddau ddosparth, y rhai a elwir *Lower Michaelstone* ac *Upper Michaelstone*. Maint yr holl blwyf yw 5,085 erw. Nifer y tai yn 1861, 1,187; yn 1871, 1,222. Pobl yn 1861, 6,184; yn 1871, 5,920.

**CWMAMAN.**—Gwel Aberdar.

**CWM BACH.**—Gwel Aberdar.

**CWM BARGOD RHYMNI.**—Cwm cul rhwng mynyddau uchel yn mhlwyf Gelligaer yw hwn, a thrwyddo y rhed afonig Bargod Fach, yr hon a abera yn afon Rhymni mewn lle a elwir Pont-aber-Bargod. Mae yno ddwy bont dros yr afonig, sef yr hen bont fechan a roddes ei henw i'r lle, a phont fawreddog saith bwa, dros yr hon y rhed llinell cledrffordd Caerdydd a Rhymni. Mae pentref o gryn faint ger yr aberiad hefyd; ac y mae ar gynnydd cyflym yn bresenol (1878). Tua'r flwyddyn 1865, gwnaed cledrffordd trwy'r Cwm hwn, sef cangen o gledrffordd Aberhonddu a'r Casnewydd. Mae ynddo amryw lofeydd hefyd, a dau bentref poblog, hanes y rhai welir dan y geiriau *DERI* a *FOCHRIW*.

**CWM BARGOD TAF.**—Mae'r Cwm hwn yn rhanol yn mhlwyf Gelligaer, ac yn mhlwyf Merthyr Tydfil, a'r afonig red trwyddo o'r gogledd i'r de, yn ffin rhwng y ddau blwyf. Hyd yn ddiweddar, nid oedd dim ond amaethyddiaeth yn cael ei feithrin yn y Cwm hwn, er fod digonedd o lo rhagorol yn y mynyddau ar bob tu iddo, ac hefyd yn y dyfn-

der tano. Rhai blynyddau yn ol, agorodd Cwmni Dowlais lofeydd yn y Cwm hwn mewn lle a elwir Coly, (gwel COLY); ac yn 1871, dechreuwyd gwneyd cleddrffordd trwy'r cwm o ardal Llancaiaich, i fyny hyd Dowlais, yr hon sydd ar waith yn anorphenol yn awr (1878). Pan orphenir hi, dysgwylwn y daw'r Cwm hwn yn un pwysig mewn oys-sylltiad a glofeydd. Un pentref sydd yn y Cwm yn awr heblaw y Coly, sef pentref *Cwmfelin*; lle y mae melin yd, ychydig dai, a chapel gan y Bedyddwyr, er y flwyddyn 1884. Rhwng Cwmfelin a'r Coly, y mae ysgoldy eang a chyfleus, a adeiladwyd yn ddiweddar, ac ynddo y cyfrenir addysg i blant yr ardal. Yn ddeheuol i bentref Cwmfelin, ar du dwyreiniol Cwmbargod, y saif Capel Craig y Fargod, yr hwn a adeiladwyd gyntaf yn 1750, a'r ail waith yn 1867. Eiddo yr Anni-bynwyr yw hwn; ac y mae yn un tlws iawn. Yn agos i odre'r Cwm, dechreuwyd glofa eang yn 1878, yr hon a elwir *Harris' Navigation Colliery*. Bydd y pyllau hyn pan orphenir eu suddo, y dyfnaf yn Nghymru. Bwrriedir iddynt fod rhwng 600 a 700 o latheni o ddyfnder.

CWMDAR.—GWEL ABERDAR.

CWM NEDD.—Mae hwn yn un o'r cymoedd harddaf yn Morganwg, a'i hyd tuag 16 milldir, o Bontnedd-Fechan hyd Briton Ferry, ac amrywia ei led o hanner milldir i filldir a hanner. Cynnwysa ranau o blwyfi Llangattwg Nedd, Llanilltyd Nedd, Glyn Corrwg, Castell Nedd, a Llansawel.

Mae daiar y cwm hwn, fel eiddo cymoedd ereill yn Morganwg, yn hynod gyfoethog o lo a mwn haiarn; ond y mae'r gwythieni isaf, y rhai ydynt yn lo ager yn Aberdar a Chwm Rhondda, yn rhyw hanner glo careg (*semi anthracite*) yn y cwm hwn, a'r haenau uchaf, sef glo tai Cwm Rhondda, yn lo ager yn Nghwm Nedd. Yr achos o hyn yw, fod y glo yn colli ei rwymedd (*bitumen*) po fwyaf gorllewinol yr eir gyda brig gogleddol y cawg. Enwau a thrwch prif wythieni glo y cwm ydynt:—1. Glo Resolfen, 2t. 6m.; gweithir ef yn Rhesolfen, &c. 2. Y Llathen, 8t. 3. Y Pedair, 4t. 6m. 4. Y Deunaw, 12t.; gweithir ef yn Aberpergwm. 5. Y Cornish, 4t., yn Aberpergwm. 6. Y Naw, 8t., yn Aberpergwm. 7. Glo'r Enoes, 8t., yn Aberpergwm. 8. Glo'r Garw, 1t. 6m., yn Aberpergwm. Mae trwch y rhai hyn gyda'u gil-ydd yn 88 troedfedd a 6 modfedd; a phe ychwanegid gwythieni bychain ereill atynt, mae'r cwbl yn 45 troedfedd o drwch; ac wrth gyfrif 18 canpwys yn mhob llathen cyfangorff, y mae yma 18 tunnell o lo dan bob llathen o arwyneb, neu 40,268,800 dan bob milldir ysgwar; a bernir fod yma ddigon i barhau am fil o flynyddau, yn ol fel ei gweithir yn awr.

Mae llunaws o weithfeydd wedi eu hagog yn y cwm hwn o bryd i bryd, ac amryw o honynt wedi troi allan yn fethiant, tra mae ereill yn cael eu dwyn yn mlaen yn barhaus. Yn 1798, dechreuwyd gwaith Cwmgwrelych, ond safodd yn 1811. Yn 1814, dechreuwyd gwaith Cwmgwrach, ac yn 1889 adeiladwyd ffwrnes yma er toddi mwn haiarn a'r glo careg, ond methwyd gwneyd hyny yn llwyddiannus. Gwnaed ceisiadau drachefn i doddi haiarn yn mhen uchaf y cwm yn 1826 a 1842 yn y Venallt, a bu yn gweithio am flynyddau; ond safodd hwnw hefyd.

Yn 1890, agorwyd glofa Ynysarwed, tua milldir a hanner yn is ná Rhesolfen, gan G. Penrose, Ysw., ac y mae yma weithio glo yn bresenol. Yn 1887, dechreuwyd gwaith Cwmclydach, ac y mae yn lo ager da. Yn 1852, dechreuwyd gwaith Ynysbyllog, a glofa Llangatwg yn 1854, a gwaith mwn Penrhiw yr un flwyddyn. Yn 1860, dechreuwyd glofa'r Pandy (Fforohygaran) gan Mr. R. Abraham. Yn 1865, gwerthwyd ef i'r *Glynneath Coal & Iron Co.*, ac yn 1871, newidwyd ei enw yn *Rhondda Mountain Colliery*. Ail-gychwynwyd y *Dunraven & Dare Colliery* yn 1871.

Y glofeydd sydd yn gweithio yn bresenoli ydynt:—1. Glofa Aberpergwm; 2. Pyllfa'r On; 3. Waunmarchog; 4. Drifft Cwmgwrach; 5. Mynydd Rhondda; 6. Dunraven a Dar; 7. Rhesolfen; 8. Abergarwed; 9. Ynysarwed, &c. Darfyddwyd gweithio yn nglofa'r Venallt yn 1871. Yn 1869, adeiladwyd gwaith priddfeini ger Abernant yn y cwm hwn. Yn 1870, adeiladwyd gwaith *Patent Fuel* yn agos i orsaf Glyn Nedd, yr hyn a ychwanegodd dipyn at fywiogrwydd y lle.

Yn mhen uchaf y cwm hwn, yn ardal Pontnedd Fechan, y mae craig fawr a elwir Craig y Ddinas, a gelwir rhanau o honi wrth yr enwau Bwa Maen ac Ystol y Wyddones, y rhai ydynt wrthddrychau gwerth eu gweled. Mae'r blaenaf yn ddarn o graig ar furf bwa, yn 90 troedfedd o uchder a 70 o led, ac y mae rhan o hono yn cael ei alw yn Ystol y Wyddones. Ymddengys i'r graig hon fod yn lloches lladron a llofruddion yn yr oesoedd gynt, ac y mae cynnifer ag 11 o ysgerbydau dynol wedi eu cael mewn ogofau ac holltiadau creigiog yma o bryd i bryd, y rhai, yn ol barn y cyffredin, a lofruddiwyd gan yspeilwyr. Cafwyd pedwar o'r ysgerbydau hyn mewn ogof yn 1856, ond nid oedd yno ddim heblaw'r esgyrn.

*Eglwysi, Capeli, &c.*—Yn ngodre'r cwm, yn agos i dref Castell Nedd, y mae dwy Eglwys hynafol, sef Llangatwg a Llanilltyd. Ar du gorllewinol y cwm drachefn, yn mhlwyf Cattwg, y mae dau Gapel Eglwysig, sef Capel Aberpergwm ger Aberpergwm, a Chapel y Rheolau, ger palas y Rheolau. Ar y tu arall i'r cwm, mae dau Gapel Eglwysig, un yn mhlwyf Llanilltyd, sef Capel Rhesolfen, a'r llall yn Mlaengwrach, rhan o blwyf Glyncoerwg.

Mae yn y cwm luaws o gapeli gan yr Ymneillduwyr hefyd, yn y rhai y mae eglwysi lluosog.

Y Trefnyddion Calfinaidd a gychwynasant achos yma mewn capel a adeiladwyd ar draul un *Counsellor* Morris yn 1781, mewn lle a elwir Ynysfach, ger Resolfen. Ymddengys mai Capel Eglwysig y bwriadwyd iddo fod, ond gan i'r *Counsellor* farw cyn i'r Capel gael ei gyssegru gan Esgob, ardrethwyd ef gan y Methodistiaid, a buont yn addoli ynddo hyd y flwyddyn 1821, pryd yr adeiladasant gapel eu hunain. Ail-adeiladwyd hwn yn 1868. Yn 1812, dechreuodd yr enwad hwn gadw Ysgol Sul yn ardal Pontnedd Fechan, yn mhen uchaf y cwm; ac yn 1822, adeiladasant gapel yno. Cafodd ei ail-adeiladu yn 1864. Yn 1887, codasant gapel yn Aberdulais hefyd, yn ngodre'r cwm, ac ail-adeiladwyd ef yn 1860. Yn 1856, codasant gapel arall yn Nglyn Nedd, fel y mae gan yr enwad bedwar capel yn y cwm yn bresenol.

*Annibynsyr.*—Dechreuodd yr enwad hwn achos crefyddol yn y cwm mewn lle a elwir Melin Court, tua'r flwyddyn 1790. Yn 1812, dechreuasant gynnal Ysgol Sul, pregethu, &c., yn Maesymarchog, yn mhen uchaf y cwm, a buont yn addoli mewn tŷ annedd hyd 1816, pryd yr ardrehasant ystordy perthynol i Gamias Cwm Nedd. Yr oedd yr ystordy yn ddigon helaeth, ond gan ei fod yn fynych yn hanner llawn o nwyddau o bob math, yr oedd yn lle hynod annghyfleus. Yn ngwyneb hyn, gofynwyd i'r perchennogion am ganiatad i wneyd llofft uwchben yr ystordy, yr hyn a gaed. Gwnaed y llofft, a mynediad iddi o'r tu allan, a gosodwyd pulpud a meingciau o'i mewn, nes oedd yn hynod gyfleus, a buwyd yn addoli yno hyd 1839, pryd y codwyd Capel Glyn Nedd. Cafwyd y tir at adeiladu'r capel, yn nghyda darn helaeth o dir claddu, gan y diweddar W. Williams, Ysw., Aberpergwm, am 999 o flynyddau am 5s. y flwyddyn. Rhoddodd £50 at adeiladu y capel hefyd, a rhoddodd Mr. Rees Williams £5, Mrs. Williams £8, a'r ddwy Miss Williams £1 yr un,—y cwbl yn £60. Yn 1862, adeiladodd yr enwad hwn gapel yn Nghwmgrwrach hefyd, fel y mae yma dri chapel yn bresenol.

*Bedyddwyr.*—Adeiladodd yr enwad hwn gapel yn mhentref Glyn Nedd yn 1846, a chorholwyd yr Eglwys yno yn 1848. Yn 1850, adeiladasant gapel gwych yn Aberdulais, a chorholwyd yr eglwys yn 1856. Corpholwyd eglwys yn yr Ynysfach hefyd yn yr un flwyddyn. Adeiladwyd Capel Sardin, Ynysfach, yn 1864. Dengys hyn fod agwedd foesol y cwm yn lled uchel yn bresenol. Am yohwaneg o hanes y cwm hwn, gwel Llangattwg, Llanilltyd Nedd, a Blaengwrach.

*Cwm Ogwy, neu Cwm Ogwa.*—Trwy y cwm hwn y rhed Afon Ogwy. (Gwel Afon Ogwy.) Mae'r cwm tua 15 milldir o hyd o Flaenogwy hyd Aberogwy. Ger Melin Ifan Ddu, mae yn rhanu yn ddau gwm, y rhai a elwir Cwm Ogwy Fawr a Chwm Ogwy Fach. Gwisgai y cwm hwn ei arwedd creadigol braidd hyd o fewn 10 mlynedd yn ol, heb ddim yn aflonyddu arno ond y bugail a'i braidd, a'r hwsmon a'i aradr. Yn 1868, pa fodd bynag, cafwyd gweithred seneddol i wneyd cleddfordd i fyny trwy y cwm o Benybont-ar-Ogwy; ac yn ganlynol i hyn, tua'r flwyddyn 1865, agorwyd amryw lofeydd yn mlaen y cwm, fel y mae erbyn hyn yn lle poblog, ac yn myned ar gynnydd cyflym, a diamheu y daw yn llawer pwysicach etto mewn ystyr fasnachol mewn blynyddau dyfodol.

*Cwm Rhondda.*—Mae'r cwm hwn tua 18 milldir o hyd, o Flaen Rhondda hyd Bontypridd, ac yn gorwedd mewn tri phlwyf, sef Ystrad Dyfodwg, Llanwynno, a Llantisant; y rhan fwyaf yn y blaenaf. Mae rhediad y cwm o'r gogledd i'r de, a rhed afon Rhondda trwyddo. (Gwel Afon Rhondda.) Mae llawer iawn o draddodiadau chwedlonol ar lafar gwlad am y cwm hwn, mewn cyssylltiad â'r cyfnod Derwyddol; ond gwell eu gadael lle y maent, na'u cofnodi. Crybwyllwyd eisoes am yr enwog Cadogan y Fwyell o'r Cwm hwn, yn amser Owen Glyndwr, ac felly gadewir ef yn awr. Tuag at gael golwg ar y cwm pwysig hwn, cychwynwn iddo o Bontypridd. Yn mharthau isaf y cwm, mae plwyf Llantrisant ar y gorllewin, a Llanwynno ar y tu

dwyrain. Y lle cyntaf y denir iddo ar ol gadael Pontypridd, yw Hopkin's Town. Mae'r pentref poblog hwn yn cynnwys nifer mawr o aneddau gweithwyr, gyda rhai masnachdai, a llythyrdy cyfleys i'r ardal. Un gwaith glo sydd yma, yr hwn a elwir Lefel Simon. Glo Rhwym, perthynol i Ddosparth Mynydd Islwyn, weithir yn mharthau isaf y cwm, am fod y glo ager yn rhy ddwfn. Ychydig i'r gogledd o Hopkin's Town, mae pentref mawr y Gyfeillion a'r Hafod. Mae Capel gan y Methodistiaid yn y Gyfeillion, gydag eglwys weithgar a llwyddiannus. Yn 1852, adeiladodd y Bedyddwyr gapel yn yr ardal, a elwir Capel Rhondda. Yn ymyl hefyd, y mae Eglwys Rhondda (*St. David's*), yr hon sydd yn Gapel Anwes i Eglwys Blwyfol Llanwynno. Dyddia ei chofityr o'r flwyddyn 1856. Yn mynwent Eglwys Rhondda y gorwedd gweddillion Mr. John Thomas (*Ifor Cwmgwys*). Mae Ysgol Frytanaidd yn y lle hefyd, gyda llythyrdy dan Bontypridd. Gerllaw, y mae Glofa y Great Western, gyda 122 o ffyrnau at wneyd golosglo. Gweithid glo yn y parth hwn er cyn cof gan neb sy'n fyw yn bresenol, ac y mae'r hen weithfeydd i'w gwled yn awr. Mae gorsaf ar gledrffordd y *Taff Vale Railway* yn yr Hafod, yr hyn sydd yn gyfleustra mawr i'r trigolion.

Ychydig yn ogleddol o'r Hafod, y mae Gwaun-yr-Eirw (Erw), lle mae dau waith glo, a phentref lled boblog. Yn 1860, suddwyd Glofa'r Coedcae yn y lle hwn, yn 121 llath o ddyfnder; a pherthyn iddo 66 o ffyrnau golosglo. Yr oedd yma Lefel Lo cyn hyn; ac ar ol gweithio y glo o honi, suddwyd y pwell. Pwll Llwyncelyn hefyd sydd yn yr ymyl, ar du dwyreiniol yr afon, ac iddo 20 ffwrn ologlo. Yn 1868, adeiladwyd Capel gan yr Annibynwyr yn y lle; ac er mwyn cyfleustra gohebol, agorwyd llythyrdy yma hefyd. Yn mis Mai, 1861, bu ymladdfa hynod yn y lle hwn, rhwng ceffyl a tharw. Perchen y ceffyl oedd Mr. Lewis Morgan, Post Office, Eirw; a pherchen y tarw oedd Mr. Rees Jones, o'r Hafod. Yr oeddent yn yr un cae, a lluaus o wartheg blithion hefyd. Pan gymmerwyd y gwartheg allan o'r cae i'w godro, aeth Mr. Bull yn lled afreolus, a dechreuodd gornio y ceffyl tra yr oedd yn gorwedd. Pa fodd bynag, neidiodd ar ei draed yn bur fuan, a chyda deheurwydd ymladdwr professedig, tarawodd y tarw yn ei dalcen a'i droed flaen, nes agos ei gwmpo. Yn mhen enyd, ail-ymosododd y tarw arno; ond erbyn hyn, yr oedd y ceffyl wedi cael amser i barotoi ei draed ol; ac ar ol eu defnyddio am ychydig, ymaffodd a'i ddannedd yn ngwddf y tarw, a bu agos a'i dagu. Pan ollyngodd ei afael, ffodd y tarw nerth ei draed, yn cael ei erlid gan ei elyn, yr hwn a'i gyrai dros y cloddiau, trwy y perthi, i fyny ac i waered, am dros awr a hanner o amser. Aethant dros dir tair fferm; ac wrth un amaethdy, yfodd y ceffyl agos lonaid ystwe o laeth; ac ar ol tori ei syched, aeth yn ei flaen ar ol y tarw. Yn y diwedd, rhwystrwyd ef gan ddynion ar gefylau, onide bernid y buasai yn lladd y tarw. Dygwddodd hyn ar ddydd Sul.

Y *Cymmer* a'r *Porth* ydynt y lleoedd nesaf i fyny yn y Cwm. Desgrifiai Leland yr ardal yma yn 1540, fel lle amaethyddol. Dywed fod dwy bont ar y Rhondda Fawr, a dwy ar y Rhondda Fach y pryd



hwnw; a bod un arall yn is na'r uniad, sef rhwng y Cymmer a Phontypridd. Pynt coed oedd y rhai hyn, a noda yntau hyny am un o honynt yn neillduol. Nid oes ffordd fawr o'r Cymmer i'r fan y torwyd pen Rhys ab Tewdwr yn 1091; ac y mae yno yn awr ddau amaethdy, a elwir Penrhys Uchaf, a Phenrhys Isaf; ac ar y mynydd gerllaw y mae *Bryn-y-Beddu*, a bernir mai yno y claddwyd yr hen Dywysog dewr, gyda llu o'i filwyr ffyddlon. Mewn cyfnod diweddarach, bu Mynachlog Fawr a phentref yma, ond y maent wedi llwyr ddiffianu. Torwyd y Fynachlog yn 1414, ond safai y pentref yn amser Leland. Yn Nghwm Rhondda Fach, ychydig filldiroedd o'r Cymmer a'r Porth, mae lle o'r enw Pontygwaiith. Bu gwaith haiarn bychan yma, ac yr oedd y ffwrnes yn sefyll mor ddiweddar a'r flwyddyn 1850. Nid oes sierwydd pwy adeiladodd y ffwrnes, ond ymddengys mai ar ol amser Leland, onide soniasai am dani. Barna rhai mai Anthony Bacon a'i hadeiladodd tua'r flwyddyn 1560; tra y barna ereill mai tua'r flwyddyn 1788 y codwyd hi, gan Meistri Miers, Cwm Nedd.

Amaethdy y bydd coffa yn hir am dano ar y de-ddwyrain i'r Cymmer, yw Nyth-brân, mewn cyssylltiad ag enw y rhedegwr hynod hwnw Gutto Nyth-brân. Dywed traddodiad y medrai ddal ebol gwyllt wrth redeg ar ei ol; ac y mae yn flaith iddo redeg wyth milldir mewn dengain mynyd! Claddwyd ef yn mynwent Eglwys Llanwynno.

Cyn cyfnod y Glofeydd yn y owm, ychydig oedd nifer tai ardal y Cymmer,—dim ond ychydig amaethdai, megys Ty'n-y-Cymmer, y Maendy, yr Ynyshir, Troedyrhiw, Llwyncelyn, &c. Yn 1744, adeiladwyd Ty Cwrdd y Cymmer, gan yr Annibynwyr, ac ail-adeiladwyd ef yn 1884. Adeiladodd yr enwad gapel arall yn y lle yn 1870. Yr hyn a wnaeth gyfnewidiad mawr yn yr ardal oedd, agoriad Glofeydd y gymmydogaeth. Ar y cyntaf, suddid pyllau bychain yn ngodre tir y Porth, y rhai a elwid Pwll y Porth a Phwll y Glyn Fach. Mae y rhai hyn wedi darfod er ys blynyddau lawer. Yn 1845, suddwyd Hen Bwll Troedyrhiw, yr hwn nid oedd ond 27 llath o ddyfnder. Mae hwn hefyd wedi sefyll oddiar 1867. Yn 1847, suddwyd Pwll y Cymmer, yn 100 llath o ddyfnder; ac y mae yn gweithio yn gysson oddiar hyny hyd yn awr. Mae yma ddau bwll. Wrth un y mae 58 o ffyrnau, ac wrth y llall 86, at wneyd golosglo. Yn 1856, taniodd y llosgnwy yn y gwaith hwn, pryd y colodd 114 o ddynion eu bywydau. Yn 1850, suddwyd Pwll yr Ynyshir, yn 67 llath o ddyfnder, i weithio y wythien a elwir No. 2. Yn 1854, suddwyd Pwll Newydd Troedyrhiw, yn 90 llath o ddyfnder. Glo rhwym i gyd weithir yn y pyllau hyn, ac oddi yma i odre'r owm. Parodd agoriad y glofeydd hyn, ac eiddo'r Ddinas (ychydig i'r gogledd o'r Cymmer, yn Nghwm Rhondda Fawr), i'r ardal hon gynyddu yn fawr iawn mewn tai a phobl. Mae'r Cymmer, Y Porth, ac America Fach, yn un dref fawr bellach, ar bob tu i afon Rhondda; a'r tai wedi eu hadeiladu yn wychion a threfnus. Yn ychwanegol at y ddau gapel a enwyd, cododd y Bedyddwyr gapel hardd yn Y Porth yn 1855. Yn 1857, adeiladwyd Ysgoldy Cenedlaethol gwych ac eang yn ochr Y Cymmer, a chynnelir gwasanaeth

ynddo ar y Sul. Yn 1868, codwyd Ysgoldy Brytanaid gwyh yn America Fach, y tu dwyreiniol i'r afon, ar lechwedd iachus ac ysgafn; ac felly cafodd y lle fanteision addysg a chrefyddol. Mae capel hefyd gan yr Anuibynwyr ger Glofa'r Ddinas, er y flwyddyn 1869.

**LLWYN-Y-PLA.**—Pan ymwelodd Malkin a'r lle hwn yn 1801, nid oedd yma ond un tŷ, sef Amaethdy Llwynypia; a gellid meddwl wrth ddarllen ei ddesgrifiad ef o'r ardal y pryd hwnw, ei fod yn un o'r lleoedd anialaf yn y wlad. Yn ymyl y tŷ hwn, y gwelodd ef y dderwen dalaf a phreiffaf a welodd erioed. Yr hyn a barodd gyfnewidiad yn y lle hwn fel llu o leoedd ereill yn y Cwm oedd agoriad Glofeydd yn yr ardal. Canlynwyd suddiad glofa Llwynypia, gan adeiladiad pentref mawr mewn ychydig amser. Yn 1869, adeiladwyd math o gapel bychan yn y lle gan y Trefnyddion Calfniaidd. Yn 1878, adeiladwyd Jerusalem, capel y Bedyddwyr yn y lle, a'r un flwyddyn adeiladwyd capel yma gan y Trefnyddion Hynafol.

**YSTRAD RHONDDA**, sef pentref Ystradyfodwg, yw'r lle nesaf i fyny yn y Cwm, lle mae gorsaf cledrffordd. Yma y saif Eglwys y plwyf. Tyfodwg ab Gwilyfw, o denlu Coel Codhebog, ydoedd Sant o Fangor Illtyd, 6fed canrif; a bernir mai efe sylfaenodd Eglwys yma, ac yn Llandyfodwg. Mesura'r plwyf 19,591 o erwi, heb gyfrif Rhandir Rhigos, yr hwn sydd yn mhen ucha'r plwyf. Tua dechreu'r canrif presenol, nid oedd poblogaeth yr holl blwyf ond tua mil. Yn 1861, nid oedd ond 8,085; ond erbyn 1871, yr oedd wedi cyrhaedd 16,925, sef cynnydd o 18,890, mewn deng mlynedd! Nid oedd pentref yr Ystrad, ond un bychan iawn yn 1860, yn cynnwys yr hen Eglwys, ac ychydig anneddau hynafol. Pan agorwyd glofeydd yn yr ardal, adeiladwyd rhes ar ol rhes o dai yn y lle, fel y mae erbyn heddyw yn dref fawr o ran maint. Yn 1869, adeiladwyd Ty Marchnad yn y lle, yr hyn oedd ychwanegiad mawr at fanteision y trigolion. Fel yr oedd y boblogaeth yn cynnyddu, adeiladwyd yma amryw gapeli gan yr Ymneillduwyr, megys Jerusalem (T.C.), 1867; Siloh (A.), 1868; Hebron (B.), 1870; Congregational, 1870; Wesleyaid (S.)——. Prif lofeydd yr ardal, ydynt Pwll-y-Ton a Phwll-y-Pentref. Yn mis Chwefror, 1871, colodd 40 o bersonau eu bywydau yn Mhwll-Y-Pentref, trwy i'r llosgnwy danio. Perthyna'r plwyf hwn i undeb a dosparth llys sirol Pontypridd. Curadiaeth barhaol yw'r fywoliaeth Eglwysig, gwerth £120 y flwyddyn, yn nawdd Ficer Llantrisant. Saif yr Eglwys ar wastad y Cwm, yn agos i orsaf y gledrffordd, a thua naw milldir o Bontypridd. Prif berchenogion y plwyf ydynt Ardalydd Bute, Iarll Dunraven, G. Llewellyn, Ysw., H. W. de Winton, &c.

**TREORKY**, neu Tre-orchwy, yw'r pentref nesaf tua'r gogledd; ac y mae wedi codi yn dref fawr mewn 10 mlynedd o amser. Mae tair glofa bwysig ger y lle hwn, sef Abergorohwy (Abergorky), Glofa Cwm Parc, a Glofa Tyle Coch. Mehefin 28, 1871, taniodd y nwy yn mhwll Cwm Parc, ac esgynodd y fflamiau i fyny trwy y pwll, nes llosgi yr offer ar y top yn ulw. Gan fod yr holl dai yn y lle hwn yn newyddion, ac wedi eu hadeiladu wrth gynlluniau da, y mae'r lle yn edrych yn wych a chwaethus. Mae'r Ysgoldy Brytanaid, a gwahanol gapeli

yr Ymneillduwyr, yn addurniadau i'r ardal. Dyddiad Noddfa, capel y Bedyddwyr yw 1867; Bethlehem (T.C.), 1868. Glo ager weithir yn yr ardal hon, ac hefyd yn ardaloedd Llwynypia, a'r Ystrad; a chludir ef i Gaerdydd dros gledrffordd Cwm Taf, ar yr hon y mae gorsaf yn y lle hwn.

TREHERBERT, ydyw'r nesaf i fyny yn y Cwm. Saif hon tuag 11 o filldroedd o Bontypridd; ac y mae yn orsaf derfynol cangen Cwm Rhondda, o gledrffordd Cwm Taf; h.y., hyd yma y cludir teithwyr bellaf, ond ymestyna'r llinell hyd Flaen Rhondda, tua 2 filldir yn uwch. Mae'r dref brydferth hon, i gyd yn newydd. Mor ddiweddar a'r flwyddyn 1850, nid oedd yma ond ychydig amaethdai yma ac aew; a'r ardal yn edrych yn ddigon gwyllt a mynyddig; ond yn awr y mae Treherbert yn dref hardd, yn cael ei chyfrif yn bwysig bellach, yn mhlith trefi mynyddig Morganwg. Mae yn amlwg fod hanesiaeth hynafol yn perthyn i'r ardal yma, mewn cysylltiad ag hen amaethdai Cwmsaerbren, Tynewydd, hen breswylfa Colonel Edwards, Hendre Geulan, Clungwyn, Tonllwyd, Tydraw—preswylfa'r Llywelyn's, Blaen Rhondda, &c.; ond y mae niwl y gorphenol wedi ei gorhuddio. Mae yn amlwg hefyd, fod gweithfeydd glo wedi bod yn yr ardal cyn y cyfnod presenol; oblegyd tarawyd i hen waith glo yn 1872, wrth agor lefel newydd yn nghysslwt a Glofa Bute, ar dir Cwmsaerbren. Nid yw yr hynaf yn yr ardal yn cofio codi glo yno, ac nid oedd neb yn dychymmygu am hen waith yn y lle, nes taro iddo. Wedi i Ardalydd Bute brynu tir Cwmsaerbren, suddwyd yma bwl glo ager, yr hwn a elwir Pwll Bute, tua'r flwyddyn 1850. Suddwyd Glofa Blaenywmm (*Dunraven Colliery*), hefyd ar du gorllewinol afon Rhondda. Ar y tu dwyreiniol hefyd y mae Glofa Tynewydd, a Glofa Ynysfeio; ac ar y glofeydd hyn yr ymddibyna y trigolion. Adeiladwyd yma Eglwys hardd tua'r flwyddyn 1864, yr hon sydd Eglwys ddosparthol. Adeiladwyd Ysgoldy Cenedlaethol yma yn 1861; ac Ysgoldy Brytanaidd gwyeh wedi hyn. Yn 1858, adeiladwyd Carmel (A.); yr hwn a ail-adeiladwyd yn 1867. Blwyddiad y capeli ereill ydynt fel y canlyn:—Libanus (B.), 1858; Horeb (T.C.), 1868; Blaencwm (B.), 1870; Capel Ty Newydd (A.), 1871; Wesley S—. Yn 1872, adeiladwyd *Gas Works* yn y lle; yr hyn sydd wedi gwneyd llawer dros yr ardal. Cynnelir llys heddynadol yma hefyd, i weinyddu'r gyfraith; fel y mae'r dref erbyn hyn yn meddu holl fanteision trefi ereill.

Yn 1868—9, suddwyd Glofa Blaen Rhondda, i'r dyfnder o 400 o latheni. Saif hwn fel y crybwyllwyd, tua dwy filldir i'r gogledd o Dreherbert, a rhed cangen o'r gledrffordd i fyny at y lofa. Mae glofa Fern Hill yn cael ei suddo yn ymyl yn bresenol (1878); ac erbyn y daw y ddau waith hyn yn agored, ac mewn ffordd i godi glo ar raddfa eang, daw Blaen Rhondda yn bentref mawr etto. Mae yma ugeiniau o dai yn barod, ac ereill ar waith. Mae amryw lofeydd yn mhlwyf Ystrad-dyfodwg heblaw y rhai a enwyd, megys glofeydd Bodringallt (Bod-Reynallt), Bwllfa, Gelligaled, Blaenolydach, Cwmclydach, Penygraig, &c. Dengys y daflen ganlynol gynnyrch glofeydd y plwyf yn 1865 a 1870.

| ENWAU'R GLOFFIEDD.               | 1865.        | 1870.      |
|----------------------------------|--------------|------------|
|                                  | TUNNELLI.    | TUNNELLI.  |
| Glofa Dunraven (Blaenyowm) ...   | .. 20,388 .. | .. 98,915  |
| „ Bute Merthyr ... ..            | .. 85,888 .. | .. 67,846  |
| „ Ynysfeio ... ..                | .. 28,612 .. | .. 24,918  |
| „ Abergorki ... ..               | .. 28,817 .. | .. 132,848 |
| „ Pentre .. ..                   | .. 40,211 .. | .. 50,790  |
| „ Church ... ..                  | .. 26,188 .. | ..         |
| „ Bodringa'lt .. ..              | .. 29,822 .. | .. 80,412  |
| „ Galligaled ... ..              | .. 8,042 ..  | .. 2,804   |
| „ Bwlfa .. ..                    | .. 31,277 .. | .. 51,335  |
| „ Blaenlydach ... ..             | .. 24,275 .. | .. 21,114  |
| „ Cwmelydach ... ..              | .. 44,220 .. | .. 62,251  |
| „ Llwynypia .. ..                | .. 8,672 ..  | .. 88,499  |
| „ Dinas .. ..                    | .. 42,114 .. | .. 45,495  |
| „ Penygraig ... ..               | .. 15,157 .. | .. 88,961  |
| „ Troedyrhiw ... ..              | .. 47,878 .. | .. 86,978  |
| „ Ynysbir ... ..                 | .. 18,766 .. | .. 30,851  |
| „ Rhondda Merthyr (Blaenrhondda) | .. ..        | .. 44,942  |
| „ Ocean ... ..                   | .. ..        | .. 290,999 |
| „ Tylacoch .. ..                 | .. ..        | .. 30,491  |
| „ Gilfachgoch .. ..              | .. ..        | .. 84,175  |
| „ Adare ... ..                   | .. ..        | .. 34,309  |
| „ Ferndale .. ..                 | .. ..        | .. 64,626  |

CWM TAWY.—Fel y dengys yr enw, trwy y cwm hwn y rhed afon Tawy. Cyfeiriad y cwm yw o ogledd-ddwyrain i dde-orllewin. Cyn i' drwst celfyddyd a masnach aflonyddu ar y cwm hwn, tua diwedd y 18fed ganrif, nid oedd ynddo ond ychydig amaethdai hynafol, ac am-bell hen balas. Wrth fyned i fyny'r cwm o Abertawy (yr hon nid oedd ond tref fach y pryd hwnw), safai yr amaethdai canlynol ar y tu gorllewinol i'r afon:—Yr Hafod, Glandwr, Maes-y-gelysten, Tir Canol, Ynys Forgan, Ynys Dawy, Twyn-y-fedw, Ynys-penllwch, Gellionen Isaf, Gellionen Ganol, a Gellionen Uchaf. Yn Ynys Dawy y preswyliai yr enwog Hopkin ap Thomas ap Einion yn 1880. Yr oedd yn fardd gwyoch, ac yn swyddog milwrol dan Edward III. a Richard II. Y boneddwr hwn gyfansoddodd alareb am Dafydd ab Gwilym, &c. Ar du dwyreiniol y cwm drachefn, wrth ddyfod i fyny o Abertawy, yr oedd y Fforest Isaf, Melin y Fforest, y Fforest Uchaf, Ynys Allan, Ynys Tanglwys, Cefn y Garth, Ynys Mwyn Isaf, Ynys Mwyn Ganol, Ynys Mwyn Uchaf, Ysguborwen, Penllwynteg, &c. Yr oedd coedwigoedd eang yn y Fforest Isaf ac Uchaf, y rhai a ddifawyd ar ddechreu cyfnod y Gweithfeydd Copr yn y lle. Yn 1798, gwnaed camlas trwy y cwm hwn o Abertawy hyd Ystradgynlais, er dwyn haiarn a glo Ynyscedwyn, &c., i'r farchnad. Dygid holl fasnach y cwm ar hyd y camlas hyd agoriad y glodffordd, ac fe ddefnyddir y ddau yn bresenol. Erbyn heddyw, mae godre'r cwm yn llawn o weithfeydd copr, tin, a haiarn. Yn Ynyspenllwch hefyd y mae gwaith mawr, ac felly eiddo Pontardawe, Ystalyfera, &c. (Gwel Llansamlet, Llangyfelach, a Llangiwo.)

**CWM TWROH.**—Mae'r cwm hwn yn gorwedd yn mharth gogledd-orllewinol Morganwg, a thrwyddo y rhed afonig Twroh o ogledd-orllewinol i ddwyrain, nes aberu yn afon Tawy ar du gogledd Ystalyfera. Mae afon Twroh yn ffurfio ffin rhwng Morganwg a Brycheiniog yn mharth dwyreiniol y cwm, a rhwng Morganwg a Chaerfyrddin yn mharth gorllewinol y cwm. Mae yn amlwg i waith haiarn bychan gael ei adeiladu yn y cwm hwn yn nghyfnod y ffwrnesi *bloomaid*, oblegyd yr oedd gweddillion yr hen ffwrnes i'w gweled yn ddiweddar, a chafwyd marwydoes (*cinders*) mewn man arall yn y cwm, yr hyn a brawf fod yma ddwy ffwrnes cyn y cyfnod presenol ar weithio haiarn. Mae'n debygol mai i Aberhonddu y dygid yr haiarn i'w orphen, am fod yno Forthwylfa at y pwrpas. Dywed Mr. R. Thomas (Adolphus) yn ei "Hanes Ynyscedwyn ac Ystalyfera," i waith glo gael ei agor yn y cwm yn 1797, ac un arall yn 1798, at wasanaeth gwaith haiarn Ynyscedwyn. Agorwyd yma luaws o *batches* hefyd, gan fod y gwythieni mor agos i'r arwyneb; ac y maent yn cael eu gweithio ar raddfa eang yn bresenol. O'r cwm hwn y ceir glo a mwn at waith Ystalyfera, &c. Mae yn y cwm Gapel Eglwysig dan Ystradgynlais, a chapeli Ymneillduol, megys Cwmllynfell (A.), Bethel (A.), Temperance Hall (A.), Beulah (B.), a Bethania (T.C.)

**DENIS POWYS**, neu *Dinas Powys*, sydd un o ddeg Cantref Morganwg, a phentref o faintoli cyffredin, pum' milldir i'r de-orllewin o Gaerdydd yn mhlwyf Llan Andras (*St. Andrew's*), mewn ardal brydferth ar lan Mor Hafren. Cynnwysa Cantref Dinas Powis 40,401 o erwi, y rhai sydd wedi eu rhanu yn 25 o blwyfi, heblaw Llanfithin a Highlight, y rhai a ystyrir yn awr yn blwyfi ychwanegol. Cafodd y lle hwn ei enw oddiwrth Denis, merch Bleddyn ab Cynfyn, Tywysog Powys, yr hon oedd wraig Iestyn ab Gwrgan. Adeiladodd Iestyn gastell eang a hardd ar y llanerch hon, ac a'i galwodd ar enw ei wraig. Wedi gorchfygu Morganwg gan y Normaniaid, rhoddodd K. Fitzhamon y lle hwn a'r castell i Syr Reginald de Sully; ond ni hyspysir pa un a ail-adeiladodd ef y castell ai peidio. Nid oes ond y pedair gwal yn aros o'r castell, a defnyddir y tu fewn i gylch y muriau yn ardd. Hyd yr adeilad yw 240 troedfedd, lled 120, a thrwch y muriau pump troedfedd. Nid ymddengys iddo gael ei adeiladu yn amddiffynfa, ond yn balas i breswyllo ynddo. Ie, dyma balas a anrhydeddwyd gynt â phresenoldeb Tywysogion, lle y bu mawrion y wlad yn gwyllo ar eu traed wrth sangu ei lawr, a lle yr eisteddai Denis yn frenines y palas a thywysoges y sir, i roddi maeth ei mynwes i'w phlentyn sugno. Nid yw'r lle yn awr ond gardd gyffredin! Y muriau a addurnid gynt, fe allai, â darluniau Tywysogion, yn awr ydynt orchuddiedig gan iorwg! Y fath gyfnewidiad wna amser ar wrthddrychau! Yn y pentref hwn y preswylia yr enwog Dewi Wyn o Essyllt.

**DENIS** sydd bentref newydd a chynnyddol yn Nghwm Bargoed, Rhymni, plwyf Gelligaer, lle mae gorsaf o'r enw Darren ar Reilffordd Aberhonddu a Chasnewydd. Cynnwysa'r pentref tua 200 o dai, y rhai a breswylir gan lowyr gan mwyaf. Suddwyd pwll glo bychan tua'r flwyddyn 1888, ychydig i'r gogledd i'r fan y saif y pentref arno

yn awr; ond ni fu nemawr lwydd ar y gwaith, am nad oedd ffordd i gludo'r glo ymaith. Codwyd ychydig o hono at wasanaeth yr amaethwyr am rai blynyddau, ac yna safodd yn hir iawn. Yn 1864—5, gwnaed rheilffordd trwy'r cwm, yr hyn wrth gwrs a ddechreuodd gyfnod newydd. Ail-agorwyd yr hen bwell, ac oddiar hyny y mae yn gweithio yn gysson. Ei ddyfnder yw 85 llath. Perthyna i'r *Bargoed Colliery Co.* Glo rhwym weithir ynddo, ac y mae 70 o ffyrnau golosglo yn ymyl y pwell. Yn 1865, suddwyd Glofa'r Deri, ger y pentref, i'r dyfnder o 61 o latheni, ac y mae 20 ffwrn yn perthyn iddo. Ei berchenogion cyntaf oeddynt Meistri J. Lewis ac R. Jones, Merthyr, y rhai ydynt wedi eu oladdu. Yn 1868, suddwyd Pwll y Darren, ychydig yn ddeheuol i'r pentref, gan berchenogion Gwaith Haiarn Rhymni. Yn 1867, adeiladwyd Ysgoldy Cenedlaethol hardd yn y lle, yn yr hwn y cedwir ysgol yn yr wythnos, a gwasanaeth ar y Sul. Adeiladwyd Ysgoldy Brytanaidd gwych yma hefyd. Mae yma gapel eang a hardd gan y Methodistiaid er y flwyddyn 1868, ac un arall gan yr Annibynwyr.

**DOWLAIS.—(GWEL MERTHYR TYDFIL.)**

**EGLWYS BREWIS.**—Plwyf bychan, 867 erw o arwyneb, yn nghantref y Bontfaen, Undeb Penybont-ar-Ogwy, arch-ddeoniaeth ac esgobaeth Llandaf. Saif yr Eglwys tua phedair milldir i'r de-ddwyrain o'r Bontfaen, mewn llanerch fras yn Mro Morganwg. Dyrwedir yn *Iolo MSS.*, tud. 220, mai Arlwydd Spenser adeiladodd yr Eglwys hon, ond ni nodir pa un o'r De Spensers oedd. Eglwys fechan, ddiaddurn ydyw, ac nid oes ond ychydig yn ei mynychu, am nad oes ond ychydig drigolion yn y plwyf. Curadiaeth barhaol yw'r fywoliaeth, gwerth £98 y flwyddyn, ac yn cael ei threthu ar lyfrau'r llywodraeth i £8 18s. 6½c. Dim ond tri thŷ annedd sydd yn y plwyf, ac nid oedd ei boblogaeth ond 15 yn 1871.

**EGLWYSILAN,** neu Eglwys Elian, sydd blwyf eang yn Nghantref Caerffili, Undeb Pontypridd, arch-ddeoniaeth ac esgobaeth Llandaf. Saif Eglwys y plwyf, yr hon sydd hen adeilad, yn cynnwys corph, cangell, a thwr, ryw bedair milldir o dref Pontypridd. Ficeriaeth yw'r fywoliaeth, gwerth £800 y flwyddyn, gyda phersondy, yn rhodd Deon a Glwysgor Llandaf. Mesura'r plwyf 18,619 erw, ac y mae wedi ei ranu fel y canlyn:—1. Rhandir Geneu'r Glyn (*Energlyn*), pobl yn 1871, 2,108. 2. Rhandir Parc, pobl 182. 3. Rhandir Glyn Taf, pobl 2,976. 4. Rhandir Hendredenny, pobl 685. 5. Rhandir Rhydyboethan, pobl 2,850. Poblogaeth yr holl blwyf yn 1861 oedd 6,888; ac yn 1871 yn 8,201. Mae'r plwyf wedi ei ranu yn ddosparthiadau Eglwysig hefyd fel y canlyn:—Yn 1848, ffurfiwyd Glyn Taf yn Ddosparth Eglwysig, a chynnwysa 2,400 o erwi. Saif Eglwys Glyntaf ger afon Taf, yn ymyl Trefforest; a thua milldir o Bontypridd. Yr oedd 1721 o dai yn Nosparth Glyntaf yn 1871; gyda 7,801 o drigolion; ond cofier y cynnwysa hefyd ranau o blwyf Llanwynno a Llanilltyd Faerdref. Yn 1850, ffurfiwyd Dosparth Eglwysig arall yn y plwyf hwn, sef Dosparth St. Martin; yn cynnwys 8,846 o erwi, 488 o dai, a 2,809 o bobl. Saif Capel Martin yn ymyl

**Caerffili.** (Gwel CAERFFILI.) Dywedir yn *Iolo MSS.*, p. 687, mai Elian sylfaenodd Eglwys y plwyf hwn. Dywed yr awdurdodau Eglwysig mai Eglwys Helen yw'r enw, ac i Helen y mae wedi ei chyssegru; etto, ni hyspysir pwy oedd yr Helen hon. Barna rhai mai er coffadwriaeth am Elen Deg, merch Morgan Mwynfawr, yr adeiladwyd hi; ac y mae fod lle o'r enw Cwm Elen Deg yn y plwyf, yn tueddu i gadarnhau y dyb hon. Mae rhanau helaeth o'r plwyf yn fynyddig, a dyrch Mynydd Eglwysilan ei gorn 1,259 o droedfeddi uwchlaw gwyneb y mor. Cyrhaedda rhan orllewinol y plwyf hyd afon Taf; ac y mae un pen i Hen Bontypridd ynddo; a brodor o'r plwyf hwn oedd yr enwog William Edwards, adeiladydd y bont. Yma hefyd y mae'r Maen Chwyf a'r Sarff Dorehog, lle y bu sefydliad Derwyddol o bwys gynt, a sonir llawer am y llannerch yn yr oes bresenol. Yn y plwyf hwn hefyd y mae Gwaith Angorion a Chadwyni (*Chain & Anchor Works*) Mri. Brown, Lenox, a'u Cyf., lle y gwnaed Cadwyni Pont Menai, Pont Hammer-smith, Llundain; *Pier Brighton*, &c., &c. Saif y gwaith hwn yn ardal y Maen Chwyf, ger Pontypridd.

Mae dwy ffynon o gryn enwogrwydd yn y plwyf, sef Ffynon Taf a Ffynon Fabon. Mae'r flaenaf yn ngwely afon Taf (Gwel HRNODION Y SIB), a'r olaf yn ngogledd-barth y plwyf, yn ymylu ar blwyf Llanfabon. Defnyddir dyfroedd y ddwy ffynon at yr unrhyw glefydau. Dyma gymhelliaid rhywun i'r olaf:—

“Deuwch a byddwch heb bôn—i ffynon  
Hoff hynod Llanfabon;  
Byddwch hoff y rhai cloffion,  
A chwi yn llac, ewch yn llon.”

Mae traddodiad ofergoelus i hon fod yn tarddu yn mhlwyf Llanfabon (ac at hyn y cyfeiria yr englyn, debygwyf), ond o herwydd yr amharch gafodd gan y bobl, tarddodd yn y plwyf hwn!

Bu Gweithfa Llestri China o gryn fri yn y plwyf hwn amryw flynyddau yn ol, ond y mae wedi darfod er ys llawer o amser. Mae yma yn awr amryw weithfeydd glo a gweithiau pridd-feini, yn cael eu cario yn mlaen ar raddfa eang, a cheir yma rai chwareli ceryg adeiladu rhagorol.

Yn y plwyf hwn y saif Abertridwr, ac adfeilion Castell Caerffili a'r Castell Coch, hanes y rhai a geir dan eu henwau priodol. Yma hefyd y mae hen Gapel Watford, yr hwn a fu yn enwog yn amser cychwyniad Ymneillduaeth yn Nghymru. Capel enwog arall yma yw y Groeswen, yr hwn a adeiladwyd gyntaf yn 1742. Bu yr enwog W. Edwards, yr adeiladydd, yn weinidog yma am flynyddau lawer. Enwogion ereill a fuont yn gweinidogaethu yma oeddynt y Parchedigion Griffith Hughes, Moses Rees, a W. Williams (*Caledfryz*), ac yma y claddwyd hwy. Dyma ddarluniad o'r fynwent gan Watcyn Wyn:—

“Hen Fynwent y cyflawnion,—y llannerch  
Lle hunna enwogion;  
Rhyw wely i anfarwolion  
Yw enw tir y fynewent hon.”

Llwythog yw'r pridd bob llathen—o lwoh beirdd  
 Gloywach byd, mae awen  
 A rhyw barch i'r dywarchen,  
 A'r gro sy' ar y Groeswen."

Yma y claddwyd y clodus Ieuan Gwynedd, yr hwn a fu farw yn Nghaerdydd, Chwefror 28, 1852, yn 92 oed. Ar ei gof-golofn, y mae yn gerffiedig :—

"Y Golofn yma gyhoedda haeddiant  
 Ieuan Gwynedd, i'w wlad fu'n ogoniant;  
 Haul oedd i'w genedl, miloedd a gwynant,  
 Ai'n nos o'i gollu, tewi nis gallant;  
 Llanwodd swydd llenydd a sant,—sa'i Weithiau  
 Ef i'r ol-oesau'n ddirfawr lesiant."—G. HIRARTHOG.

Mae Oof-golofn ardderchog ar fedd Caledfryn hefyd, yr hwn a anwyd Chwefror 6, 1801; a bu farw Mawrth 28, 1869.

Mae Capeli yn y plwyf hefyd gan y Bedyddwyr, y Methodistiaid, a'r Wesleyaid, yn nghydag ysgolion gwyohion. Gadawodd Mrs. Aldworth, Bristol, diroedd yn y plwyf hwn a plwyf Bedwas, Mynwy, at addysgu merched y ddau blwyf. Dyddiad yr Ewyllys yw Awst 29, 1729. Mae tair ysgol yn cael eu cynnal yn unol a'r ewyllys hono,—un yn Nghaerffili, un yn Mhontypridd, a'r llall yn mhlyf Bedwas. Rhifedi tai plwyf Eglwysilan yn 1871, oedd 1,718.

Crybwyllwyd eisoes am W. Edwards, adeiladydd Pontypridd, &c.; ond gan mai yn y plwyf hwn y ganwyd ac y claddwyd ef, priodol fydd rhoi ychydig o'i hanes yn y fan hyn. Ganwyd ef yn y Ty Canol, ger y Groeswen, yn y flwyddyn 1719. Efe oedd yr ieuangaf o bedwar o blant. Bu farw ei dad pan nad oedd ef ond dwy flwydd oed, a dygwyd gwaith y ffarm yn mlaen mewn canlyniad gan ei fam, ei frodyr, ei chwaer, ac yntau pan ddaeth yn alluog. Pan oedd tua 15 oed, ei hoff orchwyl oedd adeiladu muriau ceryg sychion, a threuliai lawer o'i amser i adgyweirio muriau caeau y ffarm. Ni fu yn hir wrth y gorchwyl cyn tynu sylw y cymmydogion, gan fod ei waith yn well na dim ag oedd yn yr ardal; a chyflogid ef yn fynych gan yr amaethwyr cymmydogaethol i godi muriau ac adgyweirio eu cloddiau, &c. Nid oedd wedi gweled adeiladwyr profsedig yn gweithio y pryd hyn; ond yn ffodus iddo ef, daeth rhai i'r ardal i adeiladu gefail bedoli; a thra buont hwy wrth y gorchwyl, prif waith William oedd edrych arnynt. Wrth sylwi arnynt yn trin y ceryg cyn eu gosod yn y mur, deallodd y bachgen fod rhyw ddiffyg yn ei forthwyl ef, a'r hwn yr arferai drin ceryg; a'r dirgelwch oedd, nid oedd *dur* yn ei eiddo ef. Wedi deall hyn, pwrasodd forthwylion o fath y rhai a ddefnyddid gan adeiladwyr yr efail, ac felly daeth i gyflawni ei waith yn fwy deheuig o lawer. Ar ol cael offerynau pwrpasol, anturiodd ar y gorchwyl o godi "shop waith" i gymmydog. Rhoddodd yr adeilad hwn godiad iddo yntau, fel y cyflogwyd ef i adeiladu melin, yr hyn oedd yn orchwyl pwysig i un heb fod yn brentis. Wrth adeiladu y felin y deallodd egwyddor neu natur bwa (*arch*), yr hyn a'i dygodd i'r fath fri



mewn amser dyfodol. Gorphenodd y felin yn foddhaol, ac ystyrir ef erbyn hyn yr adeiladydd goraf yn yr holl ardal. Yn 1746, pan nad oedd ond 27 oed, cydunwyd ág ef gan swyddogion plwyfi Eglwys Elian a Llanwynno i adeiladu pont dros afon Taf, er mwyn cael tramwyfa o'r naill blwyf i'r llall. Ymgymmerodd yntau a'r gwaith, gan roddi sicrhad i'r ddau blwyf fod y bont i sefyll saith mlynedd; ac os syrthiasai cyn pen y tymhor, ei fod i adeiladu un yn ei lle yn ddi-dal. Adeiladodd y bont yn y man y saif Pont-y-ty-pridd yn awr, ac yr oedd o ran arddull a gwaith, yn rhagorach nag un bont yn Nghymru ar y pryd. Yr oedd iddi dri bwa, a'r meini ynndi wedi eu naddu yn llyfn a theg, a'u gosod at eu gilydd yn y modd mwyaf celfydd. Rhoes codiad y bont hon godiad etto iddo, a derbyniodd glod mawr am ei waith gan yr holl blwyfi cylchynol. Yn anffodus, yn mhen tua dwy flynedd a haner wedi adeiladu'r bont, aeth yn wlawogydd trymion—chwylodd afon Taf i'w ffyrnigrwydd gorwylt,—diwreiddiai goedydd mawrion ar ei thaith, a chludai hwy gyda hi mewn rhwysg; a chan fod bwaau y bont yn rhy fychain, a'r adeilad yn lled ysgafn, safai y coed yn erbyn y bont, ac ymgasglai brysgwydd o amgylch y rhai hyny, nes croni y dwfr yn llyn mawr y tu uchaf i'r bont, nes yn y diwedd i'w bwysau anferth wthio yr adeilad ymaith ac ysgubo y cwbl o'i flaen. Yr oedd hyn yn ergyd trwm i'r adeiladydd ieuanc, ond ni thorodd ei galon. Ymaflodd yn y gorchwyl fel gwron, i adeiladu yr ail bont, yr hon oedd un bwa, er cael digon o le i goed, &c., fyned dani. Pan oedd wedi gorphen y bwa, ond heb adeiladu y canllawiau, tra wrth y gorchwyl o lanw y gwagle ar bob tu i'r afon, trwy osod pridd a cheryg, &c., yn erbyn muriau'r bont, yr oedd y pwysau a ddaeth yn erbyn y pentanau mor fawr, fel y cododd y bwa i fyny yn y canol: colodd y meini clo eu gafaelion, a syrthiodd y bont yn garn i'r afon yn 1751. Ni ddigalonodd hyn yr adeiladydd, ond cofiodd yr hen ddywediad, fod "tri chynnyg i Gymro." Dechreuodd y drydedd bont o ddifrif, ar yr un cynllun a'r ail; ond darfu i'w athrylith beiddgar ddyfeisio ffordd i ysgafnhau'r pwysau ar y morddwydydd (*haunches*) trwy wneyd tyllau crynion trwy'r muriau, ar bob tu i'r afon. Mae'r tyllau hyn y naill uwchben y llall, yr isaf yn 9 troedfedd tryfesur, yr ail yn chwech, a'r uchaf yn dair. Gorphenodd y bont yn 1755. Mae ei rhychwant (*span*) yn 140 troedfedd, ac yn 85 troedfedd o uchder. Yr oedd y pryd hwnw y Bont Un-bwa fwyaf yn y byd; ac y mae wedi sefyll er y flwyddyn 1755 yn golofn hardd er amlygu athrylith ei hadeiladydd. Ni ddefnyddir hi yn awr, gan i bont gael ei chodi yn ei hymyl yn 1857. Pan orphenodd W. Edwards ei brif orchestwaith, aeth ei glod trwy y wlad fel ffrwd drydanol; deuai boneddwy'r o bell ac agos i weled y bont; ac nid oedd neb ond adeiladydd enwog Pont-pridd a wnai y tro i adeiladu pynt yn mharthau ereill y wlad. Dyma enwau rhai o'r pynt a adeiladodd wedi gorphen y gorchestwaith a nodwyd:—1. Pont Brynbiga, dros afon Wysg, swydd Fynwy. 2. Pont Abertawe, yn dri bwa. 3. Pontardawe, yn un bwa, 80 troedfedd, ac un crwnwll yn y morddwydydd ar bob tu i'r afon. 4. Pont Bet-tws, sir Gaerfyrddin, yn un bwa 45 troedfedd. 5. Pont Doleu Hirion

ar afon Tywi, tua milldir o dref Llanymddyfri, ar ffordd Llanbedr, yn 84 troedfedd ei bwa, ac un crwndwll yn mhob morddwyd. 6. Pont Treforris, ar afon Tawy, yn un bwa, 95 troedfedd o rychwant, 20 o uchder, a dau grwn-dwll yn mhob morddwyd. 7. Pont Aberafan, 70 troedfedd o fwa, 15 o uchder, ac heb un crwndwll. 8. Pont Glasbury, dros afon Wy, ger y Gelli, sir Frycheiniog. Mae yn amlwg hefyd mai efe neu Dafydd ei fab a adeiladodd hen Bont y Cymmer, dros afon Rhondda. Yn ychwanegol at y pynt hyn, gellir nodi mai efe adeiladodd Weithfa Efydd Treforris, i Syr John Morris, Clesmont; a bu yn arolygu y gwaith dan y boneddwr hwnw am 20 mlynedd. Mae gwedd arall ar gymmeriad y dyn rhyfedd hwn, er mai fel adeiladydd y sonir am dano yn gyffredin. Er fod llawer o'i amser yn cael ei gysegru at y gelfyddyd, wrth reswm, etto yr oedd yn ddigon mawr i *fyndu* amser i geisio gwella agwedd foesol y wlad. Yr oedd yn wr crefyddol — yn bregethwr, ac yn weinidog. Perthynai i enwad yr Annibynwyr, ac o ran ei gredu yn Galfin selog. Ordeiniwyd ef i gyflawn waith y weinidogaeth yn 1750; llanwodd y swydd bwysig hono yn y Groeswen, ei le genedigol, am ddeugain mlynedd. Er ei fod o ran ei sefyllfa yn y byd uwchlaw angen, derbynai ei gyflog yn gysson am ei lafur gweinidogaethol; ond rhanai y cwbl, a mwy, rhwng y tlodion. Bu farw Awst 7, 1789, yn 70 oed, a chladdwyd ef yn mynwent Eglwys Elian. Dyma gerfiad ei feddfaen:—"In memory of the Reverend William Edwards, of this parish, who departed this life August 7, 1789, aged 70 years.

"One lived on Christ that lieth here,  
The cross of Christ his heart did cheer,  
The cause of Christ he did maintain,  
To live was loss, to die was gain."

Prif weithfeydd y plwyf ydynt a ganlyn:—1. Gweithfa Angorion, &c., Brown, Lenox, a'u Cyf. 2. Gweithfa *Vinegar* y *Cambrian Vinegar Company*. 3. Glofa Bryn Coch, gyda gwaith priddfeini. 4. Glofa Craig-yr-allt, Nantgarw. 5. Glofa Rhyd-yr-helyg. 6. Glofa Geneu'r Glyn. 7. Glofa Caerffili, &c.

EGLWYS FAIR Y MYNYDD (*St. Mary Hill*). Plwyf yn Nghantref Glyn Ogwy, Undeb a Dosparth Llys Sirol Penybont, Deoniaeth Gronedd Isaf, Archddeoniaeth ac Esgobaeth Llandaf. Mae y plwyf wedi ei ranu yn ddau ddosparth (*hamlets*), sef Gelligarn a Rhuthyn. Peirio ab Gildas, a wnaeth Llanfair y Mynydd, medd y *Iolo MSS*, p. 220; ond ni ddywedir pa Gildas, na pha amser y gwnaed hyn. Ymddengys pa fodd bynag, fod yr Eglwys yn un henafol iawn. Saif yr Eglwys a'r Pentref tua phedair milltir i'r dwyrain o Benybont ar ffordd Llantrisant, a thua hanner milltir i'r dwyrain o afon Ewenni. Mae y plwyf yn cael ei ffinio gan Llangrallo, ar y gorllewin, gau Llanilid, ar y gogledd, Llangan, ar y de, a Llansannor, ar y dwyrain. Ar ben Mynydd Rhuthyn, yn y plwyf hwn, y mae olion hen wersyllfa filwrol, a elwir "Pen-y-Gaer." Yn nghanol y plwyf y mae *Commin*, 120 erw, lle y cynnelir prif "Ffair Ceffylau" y sir, ar y 26ain o Awst yn flynd

yddol. Mae yn rhan o'r *Commin* hwn fath o Grit-faen nodedig, nad oes ei debyg yn Nghymru at hogi pladuriau, crymanau, &c. Hwn a ddefnyddir yn "*Swnd*" gan y gweirwyr i hogi'r pladuriau, ac y mae ei glod, y fath, fel y dywedir yn aml,

"Bras floneg y moehyn a "swnd" Eglwys Fair,  
Awchlymant y bladur—ei chwyth ladd y gwair."

Ficeriaeth yw'r fywiolaeth Eglwysig, gwerth £90 y flwyddyn, yn nawdd a rhodd cynnrychiolwyr Syr T. D. Aubrey, Barwnig. Ardal-ydd Bute yw arlwydd Maenor Rhuthyn, yn y plwyf hwn. Cynnelir ysgol yn y pentref, ac y mae £10 y flwyddyn wedi ei gadael mewn ewyllys at gynnal yr ysgol hon. Cynnwysa y plwyf 1.404 o erwi o arwynebedd, 48 o dai, a 192 o drigolion, yn 1871.

EGLWYS NEWYDD (*Whitchurch*), sydd blwyf yn Nghantref Caerffili, Undeb a Dosparth Llys Sirol Caerdydd, Deoniaeth, Archddeoniaeth, ac Esgobaeth Llandaf. Saif yr Eglwys a'r pentref ar du dwyreiniol Cwmtaf, tua 4½ milltir o Gaerdydd, a thua'r un faint o Gaerffili, ar ochr y brif heol rhwng y ddau le, ac hefyd ar ochr y brif heol rhwng Caerdydd a Merthyr. Nid yw yr Eglwys ond bechan, a gwael ddigon o ran ymddangosiad allanol, ac heb glochdy. Yn 1865, cafodd y rhan fwyaf o'r tu mewn iddi ei wneyd yn newydd; ac adeiladwyd Persondy hardd i'r offeiriad. Curadiaeth barhaol yw'r fywiolaeth, gwerth £80 y flwyddyn, yn nawdd a rhodd Esgob Llandaf. Yn y plwyf hwn y mae Gwaith Haiarn ac Alcan Melin Gruffydd, eiddo T. W. Booker, Ysw., a'i Gyf.; lle y gwneir pob math o farau haiarn, llafnau, gwyfr-au, &c., yn nghyd ag alcan o'r fath oreu. Bu y gwaith hwn am flynyddau lawer yn cario y clod mai efe oedd y *Gwaith Tin* mwyaf yn y byd. Yn 1808, cynnyrohodd 18,000 o gisteidiau, a phob cist yn cynnwys 225 o lafnau. (*Malkin, Vol. I. p. 152.*) Gwaith Haiarn y Coleg (*The College Iron Works*), sydd ar lan y camlas, rhwng Melin Gruffydd a Chaerdydd; ac y mae yn cael ei gario yn mlaen ar raddfa eang. Yn 1856, prynwyd y gwaith hwn gan Meistri D. Davies a Thos. Williams, Goetre, Merthyr Tydfil.

Mae pentref poblog Tongwynlas yn rhanol yn y plwyf hwn a phlwyf Eglwys Elian. Mae yn y pentref hwn bedwar capel Ymneillduol, y rhai ydynt a ganlyn:—Ainon (B), a adeiladwyd yn 1861; Hermon (r.c.), 1860; Bethesda (A), 1861; Salem, Bedyddwyr Seisneg, 1862. Cynnelir gwasanaeth Eglwysig hefyd mewn adeilad cyfleus yn ymyl y pentref. Mae capeli Ymneillduol hefyd yn mhentref yr Eglwys Newydd, megys Ararat (B), 1824, yr hwn a helaethwyd yn 1850.

Mae amryw balasau gwychion yn y plwyf, megys y Green Meadow, palas ardderchog Henry Lewis, Ysw., disgynydd o Lewisiaid y Van; y Felindre, palas T. W. Booker, Ysw.; Green Hall, preswylfa John Partridge Booker, Ysw. Yn 1871, cynnwysai y plwyf 562 o dai anedd, a 2,722 o drigolion. Yn y plwyf hwn y ganwyd Richard Williams, *alias* Cromwell, disgynydd o'r hwn oedd yr enwog Oliver Cromwell.

Ewenni, neu Ewynwy.—Plwyf yn nghantref Glyn Ogwy, undeb a dosparth llys sirol Penybont-ar-Ogwy, deoniaeth Gronedd Isaf, arch-

ddeoniaeth ac esgobaeth Llandaf. Saif Eglwys y plwyf tua dwy fill-dir i'r de-ddwyrain o Benybont. Ficeriaeth yw'r fywiolaeth, gwerth £40 y flwyddyn, yn nawdd a rhodd Major Thomas Pioston Turberville, Ewenny Abbey, yr hwn yw Arlwydd y Faenor.

Tua'r flwyddyn 1140, darfu i Maurice de Londres, mab William de Londres, sylfaenu Priordy (*Priory*) yma i'r Mynachod a elwid *Benedictines*. Cyssegrwyd y priordy i Sant Michael, a chyfrifid ef yn gangen o Abbatty Sant Pedr, Caerloyw. Bu Priordy Ewenni mewn bri mawr o amser ei gyssegriad yn 1146 hyd amser dadymohweliad y Crefydd-dai gan Harri VIII. yn 1541, ac ystyrid ef gan haneswyr yr enghraifft oraf o sefydliad mynachaid yn Nghymru. Dywedai Malkin yn 1808, fod y priordy hwn yr enghraifft perffeithiaf yn yr holl deyrnas o sefydliad mynachaid gwirioneddol. Yr oedd yr holl adeilad wedi ei godi mewn dull cadarn iawn, fel ag i fod yn amddiffynfa yn ogystal a noddle crefydd. Colofnau yr adeilad a wnaed yn fyrion, crynion, a phreiffion anghyffredin; ac o amgylch yr adeilad yr oedd muriau uchel a thrwehus, yn cael eu cadarnhau â thyrau cryfion. Mae llawer o'r muriau, yn nghyd â'r prif borth, sef y fynedfa i mewn, yn sefyll yn bresenol, ac mewn cadwraeth dda. Pan oedd yr adeilad yn gyfan, yr oedd yn un tra ardderchog,—ei lawr o briddfeini teneuon wedi eu caboli yn gelfydd (*glazed earthen tiles*), ac amryw o'r rhai hyn yn cynnwys cerfiadau o beis-arfau prif fawrion y gymmydogaeth. Muriau yr adeilad o'r tu fewn a addurnid â cherf-ddelwau gwychion, tra'r to wedi ei addurno yn y modd cywreiniaf. Yr oedd y lle yn uchder ei fri yn amser Giraldus Cambrensis, a desgrifia Syr Richard Hoare y lle fel un hynod ardderchog, ac ynddo amryw gogolofnau gwerth sylw. Ar un yr oedd yn gerfiedig:—“*Ice, Gist Morice de Londres, Le Fundur Deu Li Rends Sun Labur Am.*”

Yn y parth deheuol o'r adeilad, yr oedd beddfaen ac arno gerf-ddelw Marchog yn ei lawn arfogaeth, yn dal tarian ar ei fraich aswy. Barnwyd am rai oesoedd mai cofadail Syr Payne Turberville o'r Coetty oedd; ond yn ddamweiniol, wrth olchi y gareg, daeth y cerf-argraff canlynol i'r amlwg:—“*Stre Roger de Remi, Gist Isci.—Deu De Son Almi Eit Merci Am.*”

Mae'r beddfeini hyn wedi cael eu hesgeuluso yn fawr, trwy eu gadael yn agored i effeithiau yr hin, yr hyn sydd wedi eu treulio fel nad ellir darllen y cerfiadau yn bresenol.

Fel y crybwyllwyd mewn man arall yn y gyfrol hon, pennododd Harri'r VIII. un Syr Edward Carne, Marchog, i ddifreinio Crefydd-dai Mynachaid Morganwg; ac am y gorhwyl hyny, cafodd y priordy hwn a'r faenor a berthynai iddo yn feddiant gan y brenin. Bu yn meddiant y teulu am oesoedd, ac y mae cof-feini am luaws o aelodau y teulu yn nghangell yr Eglwys. Daeth y lle wedi hyny yn eiddo teulu'r Turbervilles, trwy i un o'r enw briodi merch ac etifeddes Edward Carne, Ysw.

Yn amser Syr Richard Hoare, yr oedd yr annedd-dy perthynol i'r sefydliad yn adfeiliedig iawn; ond yn 1808, darfu i R. T. Turberville, Ysw., ei adgyweirio, a'i wneyd yn breswylfa iddo ei hun. Grevas

Powell Turberville, Ysw., a'i präswyliai yn 1855, ac yn awr mae yn meddiant Major Thomas Picton Turberville.

Cynnwysai Eglwys y Priordy gorph, côr, *presbytery*, cangell, esgyll gogleddol a dheuol, capeli, &c., gyda thwr mawreddog a chadarn. Defnyddir y corph yn Eglwys blwyfol yn awr, ac y mae wedi ei chau à mur oddiwrt h y rhanau ereill, y rhai ydynt adfeilion, ac yn orchuddiedig â iorwg.

Maint y plwyf yw 1,975 erw, a chynnwysai 55 o dai a 295 o drigolion yn 1871. Mae capel gan y Methodistiaid yma, yr hwn gyda'r Eglwys ydynt yr unig leoedd o addoliad yn y plwyf. Amaethwyr yw'r trigolion gan mwyaf.

FOCHRŪW.—Pentref mynyddig yn mhlwyf Gelligaer, yn ymyl Rheilffordd Aberhonddu a'r Casnewydd, ar yr hon y mae gorsaf yn y lle. Yn 1840, nid oedd yma ond un amaethdy bychan a thafarn, a'r pryd hwnw nid oedd neb yn dychymmygu y buasai pentref poblog yn cael ei godi yma, nac yn breuddwydio am gael rheilffordd i'r lle byth. Bob yr ychydig, pa fodd bynag, daeth gwaith glo a mwn Dowlais yn agosach i'r lle, ac yn y diwedd suddwyd pwll bychan i weithio mwn a glo yn y Fochriw gan berchenogion y gwaith hwnw. Dim ond ychydig o'r gwythieni uchaf weithid yn y pwll hwnw, ac y mae wedi darfod gweithio er ys blynyddau. Yn 1855, dechreuwyd suddo pyllau mawrion y Fochriw, a gorphenwyd eu suddo yn 1863. Mae pwll Rhif 1 yn 1,200 o droedfeddi o ddyfnder, a phwll Rhif 2 yn 1,820 o droedfeddi. Yr olaf, mae'n debyg, yw y pwll dyfnaf yn Neheudir Cymru yn bresenol. Codir ar gyfartaledd o'r pyllau hyn tua 900 tunnell yn ddyddiol, ac y mae'r glo yn gyfryw nad oes ei well yn y deyrnas fel glo ager. Mae rhai damweiniau truenus wedi dygwydd yma, er nad yw nifer y rhai a gollasant eu bywydau yn lluosog. Yn mis Ebrill, 1870, taniodd y llosgnwy yn mhwl Rhif 2, pryd y llosgwyd amryw ddynion, ac y lladdwyd 16 o geffylau. Chwech o ddynion sydd wedi colli eu bywydau trwy y llosgnwy yn y ddau bwl. Rhagfyr 2, 1869, torodd y rhaff yn mhwl Rhif 1 tra yr oedd dau ddyn ar y *carriage*, a chawsant eu hyrddio i'r dyfnder o 400 o latheni. Y mis canlynol, sef Ionawr 8, 1870, tra yr oedd pump o ddynion yn esgyn i fyny yn yr un pwll, a phan o fewn 27 llath i'r top, torodd y rhaff, fel y syrthiasant i'r gwaelod bendramwnwgl, a chawsant hwy, fel y ddau flaenorol, eu briwio yn yfflon. Dro arall, tra yr oedd dau ddyn yn esgyn i fyny yn mhwl Rhif 2, codwyd y cerbyd i'r *sheeve* uwchben y pwll, fel y syrthiasant i'r dyfnder o 440 o latheni.

Mae yn y pentref 114 o dai, y rhai a breswylir gan mwyaf gan lo-wyr. Mae yn y lle dri chapel hefyd:—Silo (B.), 1859, yn y Brithdir; Carmel (A.), 1867; Capel y T.C., 1871. Mae yma Ysgoldy Cenedlaethol eang hefyd, yn yr hwn y cynnelir gwasanaeth Eglwysig ar y Suliau.

FLEMINGSTONE, Tre-fleming, Llanelwan, neu Llanfihangel-y-twyn.—Plwyf a phentref yn nghantrf y Bontfaen, undeb a dosparth llys sirol Penybont, deoniaeth Gronedd Isaf, esgobaeth Llandaf. Saif yr Eglwys a'r pentref bychan hwn tua phedair milldir i'r de-ddwyrain o

dref y Bontfaen, heb fod yn mhell o lan afon Dawen. Rectoriaeth yw'r fywiolaeth Eglwysig, gwerth £196 y flwyddyn, yn nawdd a rhodd Iarll Dunraven, yr hwn yw perchen y plwyf, ac efe hefyd yw arlwydd y ffenor. Mae'r Eglwys wedi ei chyssegru i St. Michael, a hi yw yr unig le o addoliad yn y plwyf.

Barna rhai i'r lle gael ei enwi yn Dre Fleming oddiwrth y Fflandrwys a ymsefydlasant yn mhwlwyf Llanilltyd Fawr yn amser y Frenines Elizabeth, a chan y rhai y sefydlwyd yr Ysgol *Seisniy* gyntaf yn Nghymru. Barna ereill, gyda llawer gwell sail, i'r lle gael yr enw oddiwrth un o hiliogaeth Syr John Fleming, un o gyd-farchogion Syr R. Fitzhamon. Mae peth o olion hen gastell y Flemings yn weledig yn awr yn ymyl mynwent yr Eglwys.

Y plwyf hwn gafodd yr anrhydedd fawr o roi genedigaeth, magwrfa, a chladdfa i'r enwog fardd ac hynafiaethydd, Iolo Morganwg. Mae ei lwch yn gorwedd yma, ond heb faen coffadwriaethol iddo. Dylai llenorion Morganwg, a Chymru yn wir, gywilyddio am hyn; ac ni fyddai ond cyflawniad dyledswydd pe gosodid cofgolofn ardderchog i addurno ei goffadwriaeth yn y man y claddwyd ef.

Maint y plwyf yw 672 o erwi, a chynnwysai 12 o dai a 68 o drigolion yn 1871.

GELLIGAER sydd blwyf eang yn nghanntref Caerffili, undeb a dosparth llys sirol Merthyr Tydfil, esgobaeth Llandaf. Cynnwysa 16,888 o erwi o dir mynyddig gan mwyaf. Saif yn mbarth gogledd-ddwyreiniol Morganwg, yn cael ei ffinio ar y gogledd gan sir Frycheiniog, yn ddwyreiniol gan ran o sir Fynwy, yn orllewinol gan Ferthyr Tydfil, ac yn ddeheuol gan Llanfabon.

Mae'r plwyf hwn wedi cael ei esgeuluso i raddau pell gan haneswyr, er fod yma lawer iawn o bethau gwerth eu cofnodi mewn cysylltiad ag hanesiaeth forenol ein gwlad. Mae yn ddigon amlwg oddi wrth hen heolydd y plwyf ei fod yn cael ei gyfanneddu mor fore a'r cyfnod Rhufeinig, os nid yn foreuach. Rhed yr heol Rufeinig *Julius Frontinus*, sef yr heol a gyssylltai Aberhonddu â Chaerlleon-ar-Wyng, trwy ganol y plwyf hwn, ac fe'i defnyddir yn ffordd yn bresenol. Mae rhanau o hen heolydd ereill yn amlwg mewn amryw barthau o'r plwyf, y rhai ydynt mor hyned a'r heol Rufeinig, os nid yn hynach. Bernir yn gyffredin mai y Rhufeiniaid a osodasant y Maen Hir i fyny, yr hwn a saif ar y mynydd a elwir Cefn Gelligaer, o fewn hanner milldir i bentref y Fochriw. Mae'r maen hwn fel post ar ychydig oled, a thuag wyth troedfedd o hono allan o'r ddaiar. Digon tebyg mai yn unionsyth y gosodwyd ef, ac mai ar ol hyny y mae wedi myned ar ogwydd. Soniai Daines Barrington ac ereill, ei fod ar ogwydd yr un fath ag yw yn awr tua chan' mlynedd yn ol. Diamheu mai yn fath o nôd mesurol y defnyddid ef gan y Rhufeiniaid, yr un fath ag y defnyddir ceryg milldroedd genym ni. Yn ymyl y maen, braidd, y mae Carn y Bugail, yr hon sydd garnedd fawr, ac yn sefyll ar ben y mynydd, 1,574 o droedfeddi o uchder.

Yn fuan wedi ymadawiad y Rhufeiniaid o'n gwlad, cawn fod gwr tywysogaidd ac urddasol iawn yn perchenogi y plwyf hwn a rhanau

ereill o'r wlad o amgylch. Enw y gwr oedd Gwynlliw Filwr ab Glywis ab Tegid ab Cadell Deyrnllwg. Efe oedd Arglwydd Gwynllwg, neu Gwent-llwg, a chyrrhaeddai ei etifeddiaeth o afon Taf hyd afon Wysg. Priododd Gwynlliw a Gwladus, merch Brychan Brycheiniog, Arglwydd Gardd Mathrin, triogaeth yr hwn oedd yn ffinio ag eiddo Gwynlliw. Er na cheir cyfnod hanesol yn dweyd yn bendant yn mha ran o'i dir-iogaeth y preswyliai Gwynlliw a'i wraig, ymddengys i mi, oddiwrth safle adfeilion "Hen Gapel Gwladys," mai yn y parth a elwir Gelligaer yn bresenol y preswylient, ac heb fod yn mhell oddiwrth yr hen gapel. Saif adfeilion yr hen gapel tua milldir a hanner i'r gogledd oddiwrth Eglwys y plwyf. Gwynlliw a Gwladys oeddynt rieni yr enwog Cattwg Ddoeth, ac ymddengys mai yma y ganwyd yr athraw galluog hwnw. Yr oedd Cristionogaeth yn lled fiodenog yn y parthau hyn pan anwyd Cattwg, yn y 5ed canrif, er fod annglydwelediad yn mhliith crefyddwyr o barth athrawiaethau, yr hyn a barodd iddynt anfon i Ffrainge am Garmon a Lupas i benderfynu'r ddadl. Sefydlodd Garmon Athrofa yn Llanfeithin (Llancarfan), ac Athrofa Caerworgorn, a gosododd Dyfrig Beneurog yn ben athraw yn y flaenaf, ac Illtyd yn yr olaf. Yn Athrofa Llanfeithin yr addysgwyd Cattwg, ac yn hefyd y bu yn athraw hyd derfyn ei oes. Mae yn anhawdd penderfynu pa un ai Capel Gwladys neu yr Eglwys yw yr hynaf, er fod lle cryf i feddwl mai y capel, ac iddo gael ei godi gan Gwynlliw Filwr a Gwladys ei wraig, er cynnal gwasanaeth crefyddol. Priodolir sylfaeniad Eglwys y plwyf, pa fodd bynag, i Cattwg Ddoeth, a dichon mai wrth weled hen gapel ei fam yn dadfeilio y gwnaeth efe hyny.

Mae tyst hynafol arall yn y plwyf hwn ag sydd yn brawf ei fod yn lle o urddas yn y cyn oesau, a'r tyst hwnw yw y Cist-faen, a elwir Maen Teyron. Saif y maen hwn ar ben y mynydd a elwir Cefn y Brithdir, rhwng afon Rhymni a'r Bargoed Fach. Yr oedd a ganlyn yn gerfiedig ar y maen flynyddau yn ol:—"Tegernacus, Filius, Marii, Hic Jacit." Bernir mai dan y maen hwn y claddwyd Teyron (Tegernacus), yr hwn oedd ŵyr i Gwynlliw a Gwladys. Dywedir yn y *Siluriana* mai nifer o fwnwyr Dowlais dorasant y cerfiad ymaith oddiar y maen, trwy eu curo a morthwylion. Beth bynag am hynyna, nid oes llythyrenau eglur ar y gareg yn bresenol. Y Teyron hwn oedd sylfaenydd Tintern Abbey, ac enw hynafol y lle oedd Din Teyron, yr hyn a lygrwyd yn Din Teyrn, ac yna i Tintern.

Trwy y plwyf hwn, fel yr awgrymwyd, y gwnaed y brif-ffordd Ruf-einig rhwng Aberhonddu a Chaerlleon ar Wysg, &c., a pharhaodd am oesoedd lawer yn brif-ffordd, fel y cawn sylwi etto yn hanes Merthyr Tydfil. Ymddengys fod hanes y plwyf yma o amser Cattwg Ddoeth hyd y Gorchfygiad Normanaidd wedi ei gollu yn llwyr. Wedi y Gorchfygiad dan R. Fitzhamon, rhoddwyd yr holl dir rhwng afon Taf ac afon Rhymni i Cedrych ab Gweithfoed, Arglwydd Ceredigion, am gyn-northwyo yr estron yn erbyn Rhys ab Tewdwr, a bu yn meddiant teulu Cedrych am oesoedd. Aeth wedi hyny, fel rhan o arglwyddiaeth Caerffili, yn eiddo y De Clares, &c., ac felly i Ardalydd Bute. Yn y flwyddyn 1094, ymladdwyd brwydr waedlyd iawn yma rhwng y Cymry

a'r Normaniaid, hanes yr hon a welir yn Hanes Wladol Morganwg. Yn 1240, adeiladodd Iorwerth ab Owain, Arglwydd Caerlleon ar Wysg, Gastell cadarn iawn yn ymyl Eglwys y plwyf, gweddillion yr hwn a welir yn bresenol, ac a elwir Caer y Castell. Efe adeiladodd Gastell Machen hefyd. Yr oedd y Iorwerth hwn yn ddisgynydd o Iestyn ab Gwrgan, fel llyn :—Iorwerth ab Owain, ab Caradog, ab Gruffydd, ab Rhydderch, ab Iestyn. Yr oedd yn brîod âg Angharad, merch Uchtryd, esgob Llandaf. Morgan, mab y Iorwerth hwn, oedd yr olaf o'r teulu i wisgo y teitl o Arglwydd Caerlleon ar Wysg ; a charcharwyd ef hyd ei farwolaeth yn Nghastell Caerdydd, gan Iorwerth I., brenin Lloegr.

Ar yr olwg gyntaf, mae yn ymddangos yn aneglur fod Arglwydd Caerlleon ar Wysg yn beiddio adeiladu Castell yn niriogaeth teulu Cedrych ab Gweithfoed ; ond daw yn eglur wrth ddeall pa fodd y daeth Iorwerth i berchenogaeth o'r lle. Dywed Brut y Tywysogion (*Myf. Arch. p. 711*) i Ifor ab Meurig o Senghenydd ladd Gwrgan ab Rhys ab Iestyn ; ac er dial am y weithred, darfu i Morgan ab Owen ab Caradog, sef brawd Iorwerth o Gaerlleon, fyned a lladd Ifor ab Meurig, gan gymmeryd ei diroedd yn Ngelligaer, a'u rhoi i'w frawd ei hun. Dyna'r dull y daeth Iorwerth i hawl o blwyf Gelligaer, ac adeiladodd Gastell yma, er cadw meddiant o'r lle. Ni cheffais hanes pa bryd, na chan bwy y dinystrwyd Castell Gelligaer, ond amlwg yw ei fod wedi ei dori er ys oesoedd amryw. Yn amser Charles I., yr oedd boneddwr o gryn urddas yn byw yn Glancaiach, yn y plwyf hwn, o'r enw Edward Pritchard, Ysw., ac a elwir yn fwy cyffredin y Colonel Pritchard. Yr oedd yn Uchel Sirydd Morganwg yn 1688, yn Filwriad yn myddin Charles I., ac wedi hyn yn myddin Cromwell, a bu yn help mawr i'r olaf er ennill Caerdydd. Pan ddychwelodd Charles I. o frwydr Naseby, rhydd y cofnodion canlynol yn ei ddyddlyfr :—"20 Gorphenaf, 1645, Caerdydd. Ciniawa'r llywodraethwyr ar fy nbraul fy hun." Wrth hyn, gellir casglu mai derbyniad oeraidd gafodd. Tranoeth, darfu iddo ddiswyddo'r llywodraethwyr, a phenodi Syr H. Stradling, o Gastell St. Donatt's, yn llywydd Caerdydd ; ac arosodd y brenin yn y Castell saith niwrnod. Pa le y bu yn treulio ei amser o'r 28ain o Orphenaf hyd Awst 5, ni hyspysir ; ond y mae traddodiad iddo fod yn cysgu yn Glancaiach. Dyma fel y dywed ei ddyddlyfr :—"5 Awst, ciniawa yn Glancaiach." Oddi yno aeth dros yr hen heol Rufeinig, heibio pentref Gelligaer, Twyn y Waun, Pant Cadifor, &c., a thrwy Gwm Taf Fechan, dros Bwlch y Fan, i Aberhonddu, o'r hwn le yr ysgrifonodd lythyr at ei fab i Gornwall, i'w gynghori i ffoi o'r deyrnas. Mae hen balas Glancaiach mewn cadwraeth dda yn bresenol, a saif ar y tu gogleddol i orsaf Llancaiach, ar Reilfordd y *Great Western*. Gan i'r Colonel Pritchard droi o blaid Cromwell, a'i fod yn wr o urddas a dylanwad, trodd teimlad trigolion y parthau hyn yn erbyn Charles I. hefyd. Yr oedd Colonel Pritchard yn Fedyddiwr proffesedig hefyd ; cafodd ei fedyddio ger y Berthlwyd, plwyf Llanfabon, ac arferai bregethu yn ahllyssurrol. Yr oedd tuedd yn hyn etto i gael y bobl yn bleidiol i Ymneillduaeth, ac felly yr oedd Mr. Covy, offeiriad



Gelligaer, yn un o'r rhai cyntaf a drowyd allan o'r Eglwys gan Cromwell yn 1641. Ceir hanes ddarfod i'r plwyfolion, mor fore a'r flwyddyn 1645, ddewis David Davis, Bedyddiwr, yn ei le; ac yr oeddent mor frwd yn erbyn defodau yr Eglwys, fel y gwerthwyd y olychau, &c. Bob yn ychydig, troes D. Davis i gyfiawnhau y degwm, &c.; a chan fod y plwyfolion yn erbyn y drefn, talasant iddo £160 ar ei ymadawiad. Hwn ddechreuodd achos y Bedyddwyr yn y plwyf, a bu ei lafur o les mawr. Ychydig gynnydd fu ar yr Eglwys am oesoedd ar ol hyn. Adeiladwyd Capel y Brithdir yn y 15fed ganrif, yn agos i Faen Teyron, ac yno y saif fel Meudwy unigol ar ben y mynydd, o fewn ei fynwent fechan, ac olion cryn hynafiaeth arno. Mae dwy ywen grin yn y fynwent, ac ychydig feddau o ddyddiad diwoddar. Adeiladu yr hen Gapel hwn oedd yr unig eangiad wnaed ar y sefydliad gwladol yn y plwyf, nes i'r Parch. G. C. F. Harries, y ficer presenol, gael y fywiolaeth tua 15 mlynedd yn ol. Mae ef yn fath o Uchel Eglwyswr, ac yn ymdrechgu â'i holl egni i ledaenu egwyddorion yr Eglwys. Mae wedi bod yn offeryn i adeiladu Ysgoldai Cenedlaethol yn y Fochriw, y Deri, y Coly, Pantywaun, &c., lle y cynnelir gwasanaeth ar y Suliau. Y mae Eglwys ac Ysgoldy yn Pontlotyn hefyd, ac Ysgoldy Cenedlaethol yn mhentref Gelligaer.

Yr enwad Ymneillduol hynaf yn y plwyf, fel y crybwyllwyd, yw y Bedyddwyr. Corffolwyd yma eglwys gan yr enwad hwn mor foren â'r flwyddyn 1650, sef eglwys Hengoed. Adeiladwyd capel Hengoed y tro cyntaf yn 1710. Mae hanes yr eglwys hon wedi ei gyhoeddi dan yr enw "*Hengoediana*;" lle y ceir darluniad da o ddechreuad achos yr enwad yn y sir. Y capel Ymneillduol nesaf a adeiladwyd yn y plwyf oedd Zion, Craigyfargoed, gan yr Annibynwyr, yn 1750. Ychydig i'r gogledd o Graigyfargoed, yn Nghwmfelin, adeiladodd y Bedyddwyr gapel arall yn 1884. Am ychwaneg o hanes capeli'r plwyf, ac hanes ei bentrefi, &c., gwel COLY, DERI, FOCHRW, PONTLOTTYN, yn y llyfr hwn. Darfu i Edward Lewis, Ysw., o'r plwyf hwn, yn ei ewyllys, dyddiedig Mawrth 19, 1715, adael tiroedd i'r dybenion canlynol: Sefydlu ysgolion i addysgu 15 o fechgyn tlodion y plwyf, ac fod £15 y flwyddyn at brynu dillad iddynt; gwerth £5 y flwyddyn o fara i dlodion plwyf Bedwellty, a sefydlu darlithfa (*lectureship*) yn Mynydd-islwyn a Bedwellty, a'r gweddill at brentysu bechgyn yr ysgol. Parhaodd hyn o farwolaeth Mr. Lewis, hyd 1849. Gan fod y tir yn cynnyddu mewn gwerth o herwydd y trysorau sydd ynddo, darfu i Ddirprwywyr Ysgolion Gwaddoledig ddwyn cynllun (*scheme*) i'r *Chancery* Gorphenaf 14, 1849, er ychwanegu y manteision addysg, yn unol â chynnydd gwerth y tir. Mewn canlyniad, adeiladwyd ysgolion i roi addysg rad, dilladu, &c., 150 o fechgyn, a 100 o ferched tlodion y plwyf.

Wedi pasio Cyfraith Addysg, mewn cyssylltiad â Byrddau Addysg, &c., darfu i esgob Llandaf, Deon Llandaf, G. T. Clark, Ysw., Dowlais, &c., lunio cynllun newydd gyda golwg ar y gwaddoliad, amcan yr hwn yw defnyddio yr holl arian deilliiedig oddiwrth y tir i addysgu holl blant y plwyf yn ddiwahaniaeth, yn ol y cynllun presenol o addysgu.

Gwrthwynebwyd hyn gan y Parch. F. G. Harries, Rectór Gelligaer, yr hwn a honai mai at Ygolion Cenedlaethol yn unig y dylid defnyddio yr arian; ac arferai ef gael £100 y flwyddyn i'r dyben hwnw. Dygwyd y mater o flaen Pwyllgor y Cyfrin Gynghor yn Llundain, Gor. 15, 1878.

Dydd Mercher, Mai 5, 1861, disgynodd melltyn yn Nyhwmfelin, yn y plwyf hwn, a barnwyf fod yr amgylechiadap cyssylltiol â hyn yn werth eu cofnodi. Tua hanner awr wedi chwech o'r gloch prydawnw y dydd hwnw, tarawodd y fellten yn erbyn ffamer tafarn y New Inn, daeth i mewn i'r tŷ, trwy y ffumer, chwilfriwiodd y dödrefn, y llestri, a llawer o blastr y parwydydd; torodd amryw gerryg ar y llawr ger y tân; ac yr oedd llawddryll yn erogi dan y llofft yn llwythog—taniodd y fellten y pylor, aeth yr ergyd allan, a disgynodd y gwn i'r llawr. Pan ddisgynodd y fellten, yr oedd gwr y tŷ yn eistedd yn ymyl y tân, ac helgi yn gorwedd wrth ei draed; yr oedd gwraig y tŷ yn gosod coed ar y tân o dan crochan; lladdodd y fellten y ci, tafodd y wraig i lawr; ond ni chafodd hi na'r gwr niwed. Yn ystafell gefn y tŷ, torodd y fellten ddarn o esgid un dyn ymaith oddiam ei droed, ond ni anafwyd ef. Yn y tŷ nesaf lladdwyd cath ar y pentan; ac yn y tŷ nesaf i hwnw, tarawyd y gwr a'r wraig nes agos eu hurtio; ond ni chollwyd un bywyd dynol.

Mae'r plwyf eang hwn yn llwythog o'r glo goraf yn y wlad, ac nid yw yr ychydig sydd wedi ei weithio o hono ond megys toriad y dasell gyntaf o'r dorth; a gellir dweyd yn ddibryder fod yma ddigon o hono i barhau mil o flynyddau, ar y raddfa y mae yn cael ei weithio yn bresenol. Dim ond y gwythieni uchaf (Dosparth Mynyddiswyn) a weithir ynddo yn awr; oddieithr yn mhyllau y Fochriw; o ganlyniad, y mae gwythieni glo ager y plwyf yn aros oesau dyfodol i dalu ymweliad â hwy.

Dengys y daflen ganlynol y swm o lo a weithiwyd yn ngwahanol lofeydd y plwyf yn 1870—1.

| ENWAU'R PEBCHENOGION.           | SAFLE'R GLOFETDD.   | 1870.   | 1871.   |           |
|---------------------------------|---------------------|---------|---------|-----------|
|                                 |                     | TUN.    | TUN.    |           |
| Owmni Gwaith Dowlais ...        | Commin Senghenydd   | 345,305 |         |           |
| " " " ...                       | Levelan'r Coli ..   | ..      | 191,851 | } 351,944 |
| " " " ...                       | Pyllau'r Fochriw .. | ..      | 116,875 |           |
| " " " ...                       | Pantywaun ..        | ..      | 17,497  |           |
| " " " ...                       | Cwmbargoed ..       | ..      | 26,221  |           |
| Owmni Gwaith Rhymini ...        | Commin Senghenydd   | 86,672  | 84,072  | Yn1870    |
| " " " ...                       | Craig Rhymini ..    | 6,224   |         | 168,719   |
| " " " ...                       | Tir Phil ..         | 54,812  | 9,287   | Yn1871    |
| " " " ...                       | Pwll y Darren ..    | 22,871  | 6,508   | 99,857    |
| Powell's Dyffryn Steam Coal Co. | New Tredegar ..     | 66,888  | 55,101  | o achos   |
| David Joseph ...                | Troedrhwi'rfuwch .. | 16,886  | 15,885  | y Strika. |
| Dunraven Coal Co. ...           | New Brithdir ..     | 6,987   | 22,893  |           |
| P. T. Woodruff ...              | Old Brithdir ..     | 31,106  | 36,980  |           |
| Richard Jones & Co. ...         | Deri Newydd ..      | 19,552  | 81,850  |           |



yn ddau, sef Glyncoerrwg briodol, yn cynnwys 8,262 o erwi, a Chapel-iaeth Blaengwrach, yn 8,082 o erwi: y cwbl yn 11,294 o erwi. Mae Glyncoerrwg, sef yr ardal y saif yr Eglwys, &c., yn un o'r glynoedd bychain prydferthaf yn Morganwg. Yr oedd Mr. Cliffe, yr hanesydd, yn "dotio" yn lan ar y lle hwn yn 1845, ac yr oedd am ei alw yn "Ardd Morganwg." Yr oedd hyn, wrth gwrs, cyn agor y glofeydd sydd yn y glyn yn bresenol.

Mae yn anliawdd penderfynu ystyr y gair *Corrwg* mewn cyssylltiad â'r lle hwn, am fod awdwyr yn gwahaniaethu cymmaint o ran eu barnau o barthed iddo. Mewn llyfryn o'r enw *Gardd Flodau Glyncoerrwg*, mae dau draethawd cyd-fuddugol ar hanes y plwyf hwn, y naill gan T. Morgan (*Llyfnwy*), a'r llall gan D. Henry (*Myrddin Wylt*). Yn y rhai hyn, ceir barnau amryw am ystyr yr enw. Dywed y Parch. R. P. Llywelyn, M.A., Ficer Llangynwyd, ei fod yn tarddu o'r gair Cymraeg *Carroa*, sef Nant, a bod y gair yn arferedig am nant gan hen feirdd Cymru. Barnai Taliesin ab Iolo fod yr enw yn tarddu o *Corr*, sef yr enw Celtaidd am ddefaid, ac o'r hwn y deillia *corlan*, *corgi*, &c. Y mae Glyncoerrwg wedi bod yn enwog trwy yr oesoedd am fagu defaid. Arferai yr un amaethwr gadw dwy neu dair mil o honynt.

Yn Ngwehelyth Iestyn ab Gwrgan, yn ol llyfr Thomas Truman, Pantlliwydd, rhif 45 yw Gorwg ab Eirchion, yr hwn meddir oedd frenin call a chrefyddol, ac a gynnalai ei lys mewn lle a elwir Tresilian, ar lan y mor, rhwng Llanilltyd Fawr a St. Donatt's. Barna Llyfnwy ac ereill fod Glyncoerrwg wedi cael ei enw oddiwrth y brenin hwn. Nid oes sierwydd, pa fodd bynag, beth yw tarddiad yr enw, na pha bryd yr adeiladwyd Eglwys yn y plwyf. Mae y ffaith fod yr enw wedi ei adael allan o *Liber Landavensis*, ac nad oes crybwylliad am y lle yn y llechres o offeiriad Llandaf a anfonwyd gan yr Esgob Kitchen i'r Archesgob Parker, 1560, fel yn awgrymu mai ar ol y flwyddyn hono yr adeiladwyd hi. Ereill a farnant ei bod yn llawer hynach, a bod y coed *Yw* sydd yn y fynwent yn hynach lawer na hyny. Bernir hefyd i Eglwys Glyncoerrwg fod yn Gapel Pabyddol, dan Fynachlog Margam; a phan werthwyd y Fynachlog hono gan Harri VIII. i Syr Rice Mansel yn 1552, am £642 9s. 8c., i'r plwyf hwn, yn nghyda'r Fynachlog, fyned i'w feddiant. Bu y lle hwn cyn hyny yn rhan o Arglwyddiaeth Afan, eiddo Caradog ab Iestyn a'i olyddion. Daeth yn eiddo Iarll Jersey oddiwrth Manselïad Llansawel; a phan werthodd hwnw ranau helaeth o'r ystâd, daeth llawer o'r plwyf hwn yn eiddo N. V. E. Vaughan, Yaw., Rheolau, Glyn Nedd, trwy bryniad. Yn 1662, trowyd Howel Thomas allan o fywiolaeth yr Eglwys hon, yn un o'r "ddwy fil." Yr oedd hwn wedi cael y fywiolaeth yn amser Cromwell; a chan nad oedd wedi derbyn urddau Eglwysig, trowyd ef allan. Dywedir mai Bedyddiwr ydoedd, ac mai efe gychwynodd yr achos Ymneillduol yn Blaengwrach. Adeilad bychan, digon diaddurn yw Eglwys Glyncoerrwg, yn yr arddull Seisnig hynafol, gyda chorff, cangell, twr ysgwar, a phorth. Bu am oesoedd heb nemawr yn myned iddi, a'r adeilad mewn canlyniad yn cael ei esgeuluso yn fawr, fel y bu agos a myned yn adfeilion. Yr oedd tyllau mawrion yn y tô; ac ar dywydd gwlyb,

disgynai y gwlaw ar y seddau, nes oedd yn lle hollol annghysurus i addoli. Defnyddid rhan o'r gangell gan rai o'r amaethwyr i gadw nôd ooch, &c., er marcio eu defaid, yr hyn a ddengys fod yr Eglwys mewn cyflwr isel. Tua'r flwyddyn 1856, cynnygiwyd mewn cyfarfod plwyfol fod treth Eglwys i gael ei chodi er adgyweirio yr adeilad; ond yr oedd mwyafrif y cyfarfod yn erbyn y dreth, a throos gael tanysgrifiadau gwirfoddol, yr hyn a wnaed. Etto, nid oedd y swm a gasglwyd yn ddigonol, gan fod rhyw ddyled i'w thalu yn gyntaf. Yn 1858, tynwyd y tô ymaith, gan fwiadu ail doi yr Eglwys yn union; ond gan fod y plwyfolion yn gwrthod talu treth, ac heb fod yn rhy barod i gyfranu yn wirfoddol, bu yr Eglwys heb dō am rai blynyddau. Tua'r flwyddyn 1864, pa fodd bynag, gosodwyd tô arni, ac y mae unwaith etto yn lle cysurus i addoli. Mae wedi ei chyssegru i Ioan Fedyddiwr. Gwerth y fywiolaeth yw £90 y flwyddyn, yn nawdd a rhodd y Milwriad Lee o Lanlai. Mae degwm Glyncorrwg yn eiddo R. Jenkins, Ysw., Blaen Corrwg, a'r swm yn £75 y flwyddyn. Enwau a maint tyddynoedd Glyncorrwg briodol, yn ol Llyfr y Degwm, sydd fel y canlyn:—

|                      | A.    | R. | P. |                        | A.    | R. | P. |
|----------------------|-------|----|----|------------------------|-------|----|----|
| 1. Abergwynfi ..     | 377   | 1  | 31 | 13. Nant Tewaeth ..    | 819   | 0  | 38 |
| 2. Blaen Afan ..     | 589   | 1  | 17 | 14. Nant yr Allor ..   | 942   | 0  | 8  |
| 3. Blaen Corrwg ..   | 655   | 3  | 34 | 15. Rhiw Llach ..      | 509   | 3  | 26 |
| 4. Blaen Gwynfi ..   | 627   | 1  | 13 | 16. Ty'r Eglwys ..     | 2     | 3  | 7  |
| 5. Blaen Nant Ddu .. | 174   | 3  | 18 | 17. Ynys Corrwg ..     | 319   | 3  | 32 |
| 6. Blaenywaun } ..   | 421   | 0  | 30 | 18. Ysgarnant-poeth .. | 366   | 2  | 12 |
| 7. Ty'n y Pant }     |       |    |    | 18                     | 0     | 0  |    |
| 8. Cefn y Fan ..     | 380   | 3  | 33 | Heolydd ..             | 18    | 0  | 0  |
| 9. Corrwg Fechan ..  | 1,542 | 2  | 37 | Afonydd Corrwg ac Afan | 22    | 0  | 0  |
| 10. Fforch Las ..    | 204   | 0  | 13 | Y Fynwent ..           | 1     | 0  | 0  |
| 11. Hendregareg ..   | 394   | 0  | 17 | Cyfanswm               | 8,314 | 2  | 1  |
| 12. Llwynffynon ..   | 845   | 0  | 28 |                        |       |    |    |

Mae yn eglur fod yma ryw gam-fesuriad, oblegyd yn ol *Returns* y Llywodraeth, 8,262 o erwi yw Glyn Corrwg briodol. Dyfrheir y plwyf gan ddwy afonig, y Corrwg Fawr a'r Corrwg Fechan, y rhai a unant a'u gilydd ar wastad y Glyn. Y nentydd a ymarllwysant i'r rhai hyn ydynt Nant yr Allor, y Nant Ddu, a Nant y Tewaeth; ac wedi uno a'u gilydd, ymarllwysa y Corrwg i Afon Afan mewn lle a elwir Cymmer Glyn Corrwg. Prif gynnyrch y plwyf hwn trwy yr oesoedd oedd defaid, merlynod (*ponies*), a da corniog; ond bellach, y mae cytnod newydd wedi gwawrio ar y Glyn hwn fel llawer glyn arall, mewn cyssylltiad a'r fasnach lo. Yn 1854, ffurfiwyd Cwmni i wneyd Rheilfordd o Briton Ferry i'r Glyn hwn, gyda'r bwriad o chwilio am gynnwys ei goffrau llwythog o drysorau. Wedi gwneyd y Rheilfordd, dechreuwyd agor gwaith glo yma tua'r flwyddyn 1858—9. Codwyd yma hefyd tua 60 o annedd-dai i'r gweithwyr, ac Ysgoldy Cenedlaethol hardd. Bu agoriad y gwaith glo yn foddion i dynu i'r lle luaws o bobl o wahanol syniadau crefyddol, yr hyn a fu yn achlysur i gapeli

gael eu hadeiladu yn y lle gan yr Annibynwyr, y Bedyddwyr, a'r Trefnyddion Calфинаidd. Dim ond un o'r gwythieni uchaf, sef No. 2 Cwm Rhondda, sydd yn cael ei gweithio yma hyd yn hyn, ac felly y mae yn amlwg fod digon o lo ar ol yma i barhau am ganrifoedd, dim ond suddo yn ddwfn am dano.

Yr oedd yr hen brif-ffordd rhwng Merthyr ac Abertawy yn myned trwy ranau o'r plwyf hwn, ac y mae i'w gweled yn bresenol. Cyn gwneyd y ffordd o Hirwaun i Bont Walby yn 1800, y brif-ffordd oedd yn myned trwy randir Rhigos (Rhydgroes), ac i fyny i ben Craig y Llyn, dros Gefn y Grug (Cefn-ffordd), a thros Banwen Tor y Bedol, &c., a changen o honi yn troi i lawr i Lyncorrwg.

Poblogaeth yr holl blwyf yn 1801, oedd 284. Yn 1861, yr oeddynt yn 702; ac yn 1871, yn 1,058, sef 784 yn Gfyncorrwg a 324 yn Blaengwrach. Rhif y tai yn Gfyncorrwg, 180; yn Blaengwrach, 57.—(Gwel Blaengwrach.)

HIRWAUN.—(Gwel ABERDAR.)

HENSOL.—(Gwel PENDEULWYN.)

ILSTON, sef *Llanilltyd Browyr*, sydd blwyf yn nghantref a dosparth llys sirol Abertawy, undeb Gwyr, esgobaeth Ty Ddewi. Saif Eglwys y plwyf tua saith milldir i'r gorllewin o Abertawy, mewn llanneroh digon dymunol a gwledig. Mae ffurf tŷ'r Eglwys yn debyg i gyfrwy, yr hyn yw y peth hynotaf yn yr adeilad. Rectoriaeth yw'r fywoliaeth Eglwysig, gwerth £200 y flwyddyn, yn nawdd a rhodd yr Arglwydd Ganghellydd. Duc Beaufort yw Arlwydd y faenor; ac efe, yn nghyd a H. H. Vivian, Ysw., A.S., a J. Penrice, Ysw., ydynt berchenogion y tir. Mesura'r plwyf 2,879 erw; pris ardrethol, £1,108.

Yn amser O. Cromwell, trowyd William Houghton, offeiriad y plwyf hwn allan o'i fywoliaeth, a chafodd John Myles ei le; a chafodd Thomas Proud fywoliaeth plwyf Cheriton yn Browyr. Yn gynnar yn 1649, aeth y ddau hyn i Lundain, ac yno daethant i gyffyrddiad â Bedyddwyr profsedig; a chymmerodd y ddau eu bedyddio yno. Wedi dychwelyd i Fro Wyr, corffolasant eglwys o Fedyddwyr yn y plwyf hwn, yr hon oedd y gyntaf yn Nghymru. Bu John Myles yn gweini yn Eglwys Ilston hyd y flwyddyn 1662, pan gyhoeddwyd Deddf Unffurfiâeth, pryd y trowyd ef allan yn un o'r Ddwy Fil. Gwnaeth hwn a'i gyfaill Thomas Proud, lawer o ddaioni gyda golwg ar gyhwyn achos y Bedyddwyr yn Morganwg. Wedi ei droi allan o'r Eglwys, aeth i America, lle y gwnaeth lawer o ddaioni drachefn. Er mai yma y cychwynodd enwad y Bedyddwyr yn Nghymru, nid oes ganddynt gapel yn y plwyf; a'r unig le o addoliad yma, heblaw yr Eglwys, yw capel Mount Pisgah (A). Amaethwyr yw y trigolion gan mwyaf; ac yr oedd eu rhif yn 1861 yn 295; tra nad oeddynt ond 287 yn 1871; a rhif y tai yn 57.

KNELSTON sydd blwyf yn nghantref a dosparth llys sirol Abertawy, undeb Gwyr, esgobaeth Ty Ddewi, tua 12 milldir i'r gorllewin o Abertawy, ac yn ymyl Llanddewi. Nid oes Eglwys yn y plwyf hwn; ond y mae ynddo gapel gan y Bedyddwyr; ac y mae ynddo ddwy ysgol yn cael eu cynnal; un Ysgol Rydd, ar yr egwyddorion Cenedlaethol, yn cael

ei chynnal ar draul Iarll Dunraven, ac ysgol gan y Bedyddwyr, dan ofal y gweinidog. Mesura'r plwyf 587 erw; wedi ei drethu yn £481. Pobl yn 1871 oedd 95; rhif y tai 25. Perchenogion y plwyf ydynt Iarll Dunraven, a C. R. M. Talbot, Ysw., A.S.

**LALESTON.**—*Trelalys* sydd blwyf a phentref yn nghantrf, undeb, a dosparth llys sirol Penybont-ar-Ogwy; deoniaeth Gronedd Uchaf, archddeoniaeth ac esgobaeth Llandaf. C. R. M. Talbot, Ysw., A.S., a Iarll Dunraven ydynt berchenogion y plwyf. Saif yr Eglwys a'r pentref ar ochr y brif ffordd o Benybont i Aberafan; dwy filldir o'r blaenaf a phedair a hanner o'r olaf. Enw cyntefig y plwyf oedd *Llangewydd*, a sylfaenwyd yr Eglwys hono gan Caw, Arglwydd Cwm Cowlyd. Safai hen Eglwys Llangewydd, tua milldir i'r gogledd o'r man y saif yr Eglwys bresenol; yn agos i'r Cromlech a elwir "Yr Hen Eglwys." Cafodd y pentref a'r plwyf yr enw presenol oddiwrth Lales, adeiladydd Mynachlog Nedd, ac Abbatty Margam. Rhoddodd Robert Iarll Caerloyw, mab Harri I. diroedd i Lales yn y parth hwn; ac efe a adeiladodd iddo ei hun balas yn y lle, a thynodd yr hen Eglwys i lawr, ac a'i defnyddiau, efe a adeiladodd yr un bresenol yn nes i'w balas; ac felly cafodd y lle yr enw Lales Town. Saif yr Eglwys yn nghanol y pentref, ac iddi gorff, cangell, a thwr, ac ynddo bedair cloch. Blwyddiad y clychau yw 1647; ac y mae'r blwyddiad 1673 y tu fewn i'r Eglwys, yr hyn a brawf iddi fyned dan ryw fath o adgyweiriad y pryd hwnw; tra y bernir fod y muriau yn sefyll er amser Lales. Ficeriaeth yw'r fywiolaeth Eglwysig, yn unol ag eiddo Castellnewydd, Penybont, Bettws, a Llandudwg, yn nawdd yr Arglwydd Ganghellydd, a'u gwerth unol yn £250 y flwyddyn.

Bu y Methodistiaid yn addoli mewn ysgubor yn y plwyf hwn am flynyddau lawer; ond yn 1830, codasant gapel yma, yr hwn a ailadeiladwyd yn 1852. Cododd y Bedyddwyr gapel yma yn 1848, fel y mae yn y lle yn bresenol dri lle i addoli. Mesura'r plwyf 1,622 o erwi, pobl yn 1871 oedd 571. Rhif y tai 120.

**LAVERNOCK.**—*Llan Wernog*, neu Llywernog, sydd blwyf yn nghantrf Dinas Powys, undeb a dosparth llys sirol Caerdydd, deoniaeth, archddeoniaeth, ac esgobaeth Llandaf. Saif yr Eglwys (*St. Lawrence*), tua saith milldir i'r de o Gaerdydd, mewn man iachus, ar lan Mor Hafren. Mesura'r plwyf 1,622 o erwi, 612 o'r cyfryw sydd dir amaethyddol. Pris ardrethol y plwyf £630. Ardalydd Bute yw arglwydd y faenor, ac efe gyda Barwnes Windsor ydynt berchenogion y plwyf. Yr Eglwys yw'r unig le addoli sydd yn y plwyf, yr hon sydd rectoriaeth, yn unol ag eiddo Penarth, a'r ddwy yn werth £200 y flwyddyn; yn rhodd Barwnes Windsor. Mae'r Llywodraeth wedi prynu 21 erw o'r plwyf hwn, i'r dyben o adeiladu amddiffynfa fiwrol (*Fort*) arno; ond hyderwn na fydd ei angen byth. Rhif y trigolion yn 1861 oedd 87; a 109 yn 1871; tai 23.

**LECKWITH.**—*Llanfihangel Legwydd* sydd blwyf a phentref yn nghantrf Dinas Powys, undeb a dosparth llys sirol Caerdydd, deoniaeth, archddeoniaeth, ac esgobaeth Llandaf. Saif y pentref ddwy filldir i'r

de-orllewin o Gaerdydd, ar lan orllewinol afon Elai, yr hon a red trwy'r plwyf, ac a abera yn ei odre. Mae rhan o reilffordd Penarth hefyd yn y plwyf hwn; yr hyn sydd wedi gosod mwy o fri ar y lle yn y blynyddau diweddf. Prif weithfeydd y plwyf ydynt Weithfa Rhaffau eang, Gweithfeydd Calch, a Gweithfa Nwy (*Gas Works*), Caerdydd. Ardalydd Bute yw perchen y plwyf, ac arlwydd y faenor. Yr Eglwys yw unig addoldy y plwyf, bywiolaeth yr hon sydd rectoriaeth, yn unol a Llandochwy Penarth, a'r Cogan, yn rhodd a nawdd Ardalydd Bute, ac yn werth £182 yn nghyd. Maint y plwyf yw 1,802 erw; ardreth £1,416. Poblogaeth yn 1861, 188; yn 1871, 169. Tai 88.

**LLANBEDR-AR-FYNYDD.**—(*Peterstone - Super-Montem*).—Capeliaeth a threfgordd (*township*) yn mhlwyf Llangrallo, tua 5 milldir i'r gogledd-ddwyrain o Benybont, undeb a dosparth llys sirol Penybont, deoniaeth Gronedd uchaf, esgobaeth Llandaf. Cynnwysa'r drefgordd 2060 o erwi, 89 o dai, 216 o bobl yn 1861, a 198 yn 1871. Saif yr Eglwys mewn lle mynyddig; a'r fywoliaeth sydd Guradiaeth, dan Llangrallo. Mae yma gapel hefyd gan yr Annibynwyr. Yn yr ardal, mae gwaith glo, *coke* a *thar*, a elwir Gwaith y Bryn.

**LLANBEDR-Y-FRO.**—(*Peterstone-Super-Ely*), sydd blwyf, pentref, a gorsaf ar Reilffordd Deheudir Cymru, chwech milldir a hanner i'r gorllewin o Gaerdydd. Mae yn nghantref Dinas Powys, undeb a dosparth llys sirol Caerdydd, deoniaeth, archddeoniaeth, ac esgobaeth Llandaf. Rhys ab Einydd, Tywysog Morganwg, adeiladodd Eglwys gyntaf yn y lle hwn, a Llaneinydd y gelwid hi hyd y gorchfygiad Normanaidd yn 1091. Mae yr Eglwys bresenol wedi ei chyssegru i Pedr Sant, a chynnwysa gorff, cangell, a thwr hynafol iawn. Ymddengys fod y cwbl ond y twr, wedi ei ail adeiladu mewn cyfnod diweddar; tra y prawf gwedd yr hen glochyd, ei fod wedi sefyll ystomorodd canrifoedd lawer. Pan ranwyd Morganwg yn ysglyfaeth rhwng yr yspeilwyr Normanaidd, rhoddwyd y plwyf hwn, ac eiddo St. Ffagan, i Peter le Soore; a thebygol yw, mai y *Peter* hwnw fu yn achos i enwi y lle yn Llan Pedr. Perchen, ac Arlwydd yr ardal hon, pan ddaeth y Normaniaid yma, oedd Meurig ab Hywel ab Elgad; a'i bais arfau oedd tair allwedd aur. Wedi difeddiannu Meurig o'i dir-oedd, adeiladodd Peter le Soore gastell cadarn iddo ei hun yn y lle hwn, yn y flwyddyn 1100, yn y man y safai castell bychan Meurig ab Hywel. Bu y castell a'r faenor yn meddiant teulu Peter le Soore, o'r flwyddyn a nodwyd hyd y flwyddyn 1402, pryd y dinystriwyd y castell gan Owen Glyndwr, ac y torwyd pen Mayo le Soore ymaith. Daeth y lle trwy hyn y ddiffyg etifedd yn eiddo'r goron. Wedi hyn daeth y faenor yn eiddo Syr John Aubrey, yr hwn a'i perchenogai yn 1630; ac y mae yn parhau yn meddiant y teulu hyd yn awr.

Nid ymddengys i'r castell gael ei adeiladu ar ol i Owen Glyndwr ei ddinystrio. Saif ei adfeilion yn ymyl y pentref, ac yn agos i orsaf y Reilffordd. Rectoriaeth yw'r fywiolaeth Eglwysig, gwerth £228 y flwyddyn, yn nawdd etifeddion Syr T. D. Aubrey, Barwnig. Cynnelir ysgol yn y pentref dan reolaeth y rector; a thelir y draul trwy danyse-



grifiadau. Maint y plwyf yw 2,010 erw, gwerth ardrethol yn 1871, £3514. Rhif y tai 47. Pobl yn 1861, 235, ac yn 1871, 219.

**LLANCARFAN.**—Plwyf a phentref yn nghanntref Dinas Powys, undeb a dosparth llys sirol Caerdydd, esgobaeth Llandaf. Maint y plwyf yw 4,500 o erwi, *rateable value* yn 1871 oedd £5840. Rhif y tai 127; pobl yn 1861, 668; yn 1871, 568. Saif mewn ardal iachus a ffrwyth-lawn yn Mro Morganwg, tuag wyth milldir i'r de-orllewin o Gaerdydd. Mae pwysigrwydd hanesol y lle hwn yn nghysswllt a'r Athrofa enwog sefydlwyd yma yn y flwyddyn 427 B.A. gan Garmon Sant, yr hwn a bennododd Dyfrig Beneurog yn brif athraw y Bangor. Gelwid y lle mewn oesoedd boreuol wrth wahanol enwau, megys Cor Garmon, Cor Cattwg, Bangor Cattwg, a Llanfeithin mewn rhai llyfrau. Saif Llanfeithin tua milldir i'r gogledd o Llanccarfan; ac anhawdd yw penderfynu yn awr yn mha un o'r ddau le y cedwid yr Athrofa; ond tueddir fi i gredu mai yn y blaenaf. Cyfrifir *Llanwithin* yn blwyf annibynol yn awr, yn mesur 466 o erwi, ac ynddo 5 o dai, ac 28 o drigolion yn 1871.

Yn *Monedd y Saint* (Gwyddoniadur) cyf. ii., tud. 17, ceir yr enw Carfan fel un o saint Ynys Prydain, ac i hwn y mae Eglwys y plwyf wedi ei chyssegru. Yn *Iolo MSS.*, p. 422, dywedir fod Caerlleon-ar-Wysg wedi ei llosgi tua'r flwyddyn 489 B.A., ac i Llanccarfan gael ei hadeiladu, ac mai hi oedd y Fynachlog gyntaf yn Mhrydain. Mewn is-nodiad o eiddo Taliesin ab Iolo, awgrymmir mai oddiwrth Garmon Sant y cafodd y lle ei enw, sef Llan Carfon, tra y mae yma wrth-darawiad grammadegol. Pa fodd bynag am hynyna, eglur yw ddarfod i Garmon sefydlu athrofa yn y naill neu y llall o'r lleoedd a enwyd. Pan urddwyd Dyfrig Beneurog yn Esgob Llandaf yn y flwyddyn 486, pennodwyd Cattwg, mab Gwinlliw Filwr, brenin Gwaunllwg neu Glywysig, yn olynnyd i Dyfrig, fel athraw Llanccarfan. Yr oedd Cattwg yn efrdydd dan Dyfrig ar y pryd, ac ystyrir ef o herwydd ei ddoethineb ac eangder ei wybodaeth, yr addasaf o'r holl efrydwy'r i gymmeryd gofal yr athrofa. Yr oedd Gwynlliw Filwr yn briod â Gwladus, merch Brychan Brycheiniog; a dywedir yn *Iolo MSS.*, p. 884, ei fod yn cynnal ei lys yn Nghaerfule, lle y gwnaeth efe Eglwys Gwynlliw, &c. Yn mha le y mae Caerfule yn bresenol, sydd yn anhawdd ei benderfynu. Barnai Taliesin ab Iolo mai *Castrum Boveum*, ger Casnewydd-ar-Wysg ydyw, ac mai Eglwys St. Woollas yw yr Eglwys. Tueddir fi, modd bynag, i gredu mai yr un yw Caerfule a Chaerffili—mae yno y cynnalai Gwynlliw ei lys, ac mae Capel Gwladus yn mhlwyf Gelligaer oedd ei Eglwys. Gwir y dywed rhai llyfrau nad oedd tiriogaeth Gwynlliw yn cyrhaedd yn mhellach i'r gorllewin nag afon Rhymini; ond dywed ereill ei bod yn cyrhaedd hyd afon Taf. Cyduna haneswyr ddarfod i Cattwg wrthod y freniniaeth, gan ei rhoi i'w gâr Morgan Mwynfawr, a dewis cyssegru ei fywyd yn hollol i efrydiaeth. Bu yn athraw yn Llanccarfan hyd ddiwedd ei oes, ac yma y bu farw, yn 120 oed. Yma y cyfansoddodd ei ddiarebion, ei ffraethebau, &c., ac yma yr addysgodd rai o brif enwogion yr oes hono.

Pan ddaeth y Normaniaid i Forganwg, dau arweiniad Robert Fitzhammon, Arlywydd Llanccarfan oedd Gweirydd ab Seisyllt Hen; a'i

bais arfau oedd tri phen carw, a'u cyrn o aur. Pan ranodd y Norman droedd y Cymry rhwng ei gyfeillion, rhoddodd y plwyf hwn i Blondel de Mapes, yr hwn wedi hyny a briododd â Fflur, merch Gweirydd ab Seisyllt, Arlwydd Llancarfan. Mab i Blondel de Mapes a Fflur oedd yr enwog Walter de Mapes, Archddeacon Rhydychain, a Chaplan Harri I. Adeiladodd Walter de Mapes Eglwys Llancarfan o'r newydd ar ei draul ei hun. Gan mai Cymraes oedd ei fam, bu iddo yntau ddysgu Cymraeg; ac mewn ieithoedd ereill, yr oedd yn un o brif ysgolheigion yr oes. Y gwr hwn gyfieithodd Frut y Breninoedd, sef Brut Tisilo, o'r Gymraeg i'r Lladin, pan oedd yn ddyn ieuango; ac yn ei hen oedran, efe a'i cyfieithodd drachefn o'r Lladin i'r Gymraeg, gydag ychwanegu peth ato. Y cyfieithiad olaf a gymmerwyd gan G. ab Arthur, sef Jeffrey o Fynwy, esgob Llandaf, ac a ychwanegodd lawer o chwedlau ato. Ysgrifonodd Walter de Mapes lyfr ar Amaethyddiaeth yn yr iaith Gymraeg, heblaw amryw lyfrau ereill. Yr oedd gan y gwr hwn balas gwych yn y plwyf, ac yn hwnw y preswyliai lawer o'i amser. Ar ei draul ef hefyd yr adeiladwyd y pentref sydd ar ei enw ef, sef Walerstown; a bernir mai yno y preswyliai yntau.

Gwr enwog arall a anwyd yn y plwyf hwn, oedd Caradog yr Hanesydd, yr hwn oedd fynach dysgedig, ac awdwr Brut y Tywysogion, yr hwn sydd yn cynnwys hanes Cymru o'r fwyddyn 686 hyd y fwyddyn 1157. Amlwg yw fod Caradog yr Hanesydd a Walter de Mapes yn gyd-oeswyr. Bernir mai yn 1157 y bu Caradog farw, gan mai hyd y fwyddyn hono y mae ei hanes yn cyrhaedd. Bu Harri I. farw yn 1185; a chan fod Walter de Mapes yn gaplan i'r teyrn hwnw, mae yn eglur ddigon eu bod yn cydoesi; a chan fod Caradog a Walter de Mapes yn enedigol yn yr un plwyf, ac yn ymwneyd â'r un pwnge, sef Hanes Cymru, mae yn naturiol i ni gasglu eu bod yn gyfeillion. Yr oedd Jeffrey o Fynwy yn cydoesi â hwy hefyd; ac felly, ni a welwn yn eglur fod tri o haneswyr blaenaf y genedl yn byw yr un amser. Cyfieithwyd Brut y Tywysogion, eiddo Caradog o Lancarfan, i'r Seisneg gan Humphrey Llwyd; a chyhoeddwyd ef gydag ychwanegiad ato, gan y Dr. David Powell yn 1684. Cedwid copiau o hono cyn hyny mewn ysgrifen yn Abbattai Conwy, Ystradfflur, &c. Cyhoeddwyd llyfr Caradog drachefn gan Wynne yn 1697, ac yn 1704; a thrachefn gan Syr John Price, Marchog, yn 1774. Yn 1860, cyhoeddwyd argraffiad rhagorol o hono gan Ab Ithel, yn Gymraeg a Seisneg. Ceir ef hefyd yn y *Myf. Arch.*

Ficeriaeth yw bywiolaeth Eglwysig Llancarfan, gwerth £168 y fwyddyn, yn nawdd a rhodd yr Arglwydd Ganghellydd. Dirprwywyd Eglwysig Coleg Iesu, Rhydychain, ydynt brif berchenogion y plwyf. Lleodd addoliad y plwyf ydynt:—1. Yr Eglwys; 2. Zeor (r.o.); 3. Capel y Bedyddwyr; 4. Capel y Wesleyaid. Mae ysgol elusenol yn cael ei chynnal yn y pentref.

LLANDAF sydd ddinas esgobaethol, a phlwyf yn nghanntref Cibwr, undeb a dosparth llys sirol Caerdydd, a'i safle ar lan ddeheuol afon Taf, tua milldir a hanner i'r gogledd-orllewinol o dref Caerdydd. Cyduna haneswyr yn led gyffredinol, mai dyma yr esgobaeth hynaf

yn y deyrnas. Dywed y Cofnodion Cymreig i'r breinin Lleurwg, a elwir Lleufer Mawr, anfon cenadon i Rufain at yr esgob Elidir (*Eleutherius*),—nid pab cofier, ond esgob—i ddymuno arno anfon cenadon i'r wlad hon i ddyngu y ffydd yn Nghrist, a sefydlu Eglwysi, &c. Yr oedd y Rhufeiniaid yn llywodraethu y wlad hon y pryd hwnw, a diamheu fod llawer o'r milwyr Rhufeinig wedi derbyn Cristionogaeth, a lled dabyg mai trwy y rhai hyny y daeth Lleurwg i wybod ychydig am y "Ffydd yn Nghrist," ac mai ei ddyben yn anfon at esgob Rhufain oedd ceisio ychwaneg o wybodaeth am y ffydd hono. Y personau a anfonwyd gan Lleurwg i Rufain oeddynt Elfan a Medwy. Bu y ddau hyn am beth amser yn Rhufain yn cael eu hyffordi yn egwyddorion Cristionogaeth gan yr esgob, a chyn eu dychweliad i'r wlad hon, urddwyd Elfan yn esgob, a Medwy yn ddoctor. Anfonodd yr esgob, Dyfan, Ffagan, a Dochwy i'r wlad hon gyda hwynt. Bernir mai yn y flwyddyn 171 B.A. yr anfonwyd Elfan a Medwy i Rufain, ac i Eglwys gael ei sefydlu yn Llandaf dan nawdd Lleurwg, yn y flwyddyn 173. Yr oedd Eleutherius yn 12fed esgob yn Rhufain, ac yn wr o ddylanwad mawr yn yr Eglwys. Pan sefydlwyd Eglwys Llandaf, pennodwyd Dyfan yn esgob iddi, tra yr aeth y lleill i sefydlu Eglwysi mewn parthau ereill o wlad Essyllwg. Dywed rhai haneswyr na wnaed Llandaf yn *esgobaeth* briodol, hyd y flwyddyn 427, pan ddarfu i Meurig ab Tewdrig, Tywysog Gwent a Morganwg, ei noddi, ac y pennodwyd Dyfrig Beneurog, o Fynyw, (Ty Ddewi) yn esgob, gan Garmon Sant.

Yr oedd ffiniau esgobaeth Llandaf yn amser Tywysogion Cymreig Gwent a Morganwg fel y canlyn:—O aberiad afon Tywi (Ferry Side) hyd aberiad y Pysgotwr (Pysgod-ddwr) i'r Tywi (ger Ystrad-ffin); o'r Pysgod-ddwr at y Tair Gwernen yn Muallt; o'r Tair Gwernen hyd Gastell Teirdud, sef y Cantref Bychan, a chantref Selif, a Buallt—o'r Castell Teirdud i fyny hyd Deulwyn Helyg; ac oddi yno hyd darddiad afon Wysg, a'r Mynydd Du, a chyda'r Mynydd Du hyd darddiad afon Twrch, a chyda'r Twrch hyd ei hymarllwysiad i afon Tawy (ger Ystal-yfera); oddi yno gyda'r Tawy hyd Cunlais, a chyda'r Cunlais i'w tharddiad; ac o darddiad y Cunlais hyd Alun Gwernen, ac oddi yno hyd darddiad Purddin, a chyda hono hyd ei haberiad yn afon Nedd; ac i fyny gyda'r Nedd hyd Melltwy, a chyda'r Melltwy hyd Hepste, a chyda'r Hepste hyd Gwyragon, a chyda hono i'w tharddiad; o darddiad hono hyd Gananhawe, ac oddiyno hyd Deri Emrys; oddi yno hyd Cecyn Glysdy, a chyda Cecyn Glysdy hyd darddiad Ffrwd Gwidon, gan ddilyn hono i'r Taf Fawr; gyda'r Taf Fawr i'r Cymmer (ger Cefn-coedycymmer); o'r Cymmer i fyny gyda'r Taf Fechan hyd Rhyd-y-Cambren; o Ryd-y-Cambren hyd Hal-du, oddi yno i'r Comin Hir, ac hyd Nant Crafnant (*Crafnant*), a chyda hono hyd Crafnell (Crafnell, ger Llandetty), a chyda hono hyd ei hymarllwysiad i afon Wysg; yna trwy Wysg i Cily (?) a'r Allt Lwyd, y tu uchaf i Bychlia (*Buckland*), ac hyd Cecyn Penypummarch, hyd Gwornwyd, ac oddi yno hyd Rhydant hyd ganol Dinmarchlythan; hyd Ol-y-Gogr, hyd Bron-Cateir, i fyny hyd darddiad Gwerinon; hyd ben Bwlch y Wincul (*Wyncul*), sef Bwlch y Fingul, ger Llanthony; oddiyno hyd Brydell,

hyd Hal Ruma; oddiyno hyd Faen y Bardd (ar y gog-orllewin i'r Mynydd Du) yn nharddle Nant y Bardd, a chyda hono hyd ei haberiad yn Dwfr (*Dora*), ger Kenderchurch, swydd Henffordd; gyda'r Dowr hyd ei haberiad yn Gourmey (Gwyar Mawr); o darddle Gourmey hyd Caerein; oddiyno hyd darddle Taralyr, a chyda hono hyd ei haberiad yn afon Gwy, a chyda'r Wy hyd Hafren; ac oddiyno tua'r gorllewin, heibio Ynys Echni, hyd aberiad afon Tywi.—*Lib Landavensis* p. 809.

Bu awdurdod esgobion Llandaf am oesoedd lawer yn fwy nag eiddo tywysogion, a phan fuasai gwr pendefigaidd neu dywysog yn cyflawni trosedd neu bechod cyhoeddus, arferai yr esgob alw cynghor o wyr Eglwysig i drin y mater, ac ysgymmunid y troseddwr o freintiau yr Eglwys, a chyhoeddid mellidithion Duw a'r Eglwys arno ef a'i hiliogaeth. Yr oedd y dychryn a deimlai y troseddwr dan y cyhoeddiad hwnw yn peri iddynt anrhegu yr esgobaeth a thiroedd a meddiannau ereill, er mwyn cael adferiad i'r Eglwys, ffafir yr esgob, a rhan yn ngweddiâu yr offeiriad. Trwy y rhoddion tirol hyn, daeth esgobaeth Llandaf y gyfoethocaf yn Mhrydain; a dywed rhai haneswyr, pe buasai yn meddu yn bresenol y ddegfed ran o'r cyfoeth a gafodd, y buasai yr esgobaeth gyfoethocaf yn y byd. Yn hytrach nag olrhain yn fanwl y rhoddion a gafodd yr esgobaeth o bryd i bryd, cymmerwn fras olwg ar ei hanes o'r dechreu yn nghlyn a'i gwahanol esgobion, gan ranu yr hanes yn dri chyfnod, a'r esgobion yn dri dosparth:—

## CYFNOD CYNTAF.

1. *Dyfan* ydoedd esgob cyntaf Llandaf, o'r flwyddyn o.c. 178 hyd 180. Gwr o Rufain oedd hwn, yn fab i Alwn Aflerw, a gwnaed ef yn esgob yn Rhufain, fel y gallai fedyddio y rhai a gredent yn Nghrist yn Mhrydain. Bernir i Dyfan gael ei ladd yn y man y saif Eglwys Merthyr Dyfan, tua saith milldir i'r de-orllewin o Gaerdydd.

2. *Ffagan Sant*.—Gwr o'r Eidal oedd hwn hefyd, ac a urddwyd yn esgob yn Rhufain, ac anfonwyd ef gyda Dyfan a Dochwy i'r wlad hon gan Elidir, esgob Rhufain. Myn rhai na fu Ffagan yn esgob yn Llandaf, ond barna rhai o'r awdurdodau uchaf ei fod yn esgob yno fel Dyfan. Mae Eglwys Ffagan tua dwy filldir i'r gorllewin o Landaf.

3. *Eldeyrn*, medd un ysgrif, Medwy medd arall, a'r olaf sydd fwyaf tebygol, gan ei fod yn un o'r cenadon a anfonwyd gan Lleurwg i Rufain, ac mai yn y 5ed canrif yr oedd Eldeyrn yn byw. Sylfaenodd Medwy Eglwys ar lan afon Rhymini, yr hon a elwid Llanfedw. Cafodd yr Eglwys hono ei dinystrio yn y flwyddyn 1069, ac ni chafodd ei hadeiladu drachefn.

4. *Fidelfed (Adelfi)*.—Dywed rhai haneswyr fod hwn yn Nghymmanfa Airles, yn y flwyddyn 814.

5. *Cadur* medd rhai, Cadwr medd ereill.

6. *Cynan ab Eudaf*.—Dywed *Bonedd y Saint* i hwn fod yn esgob Llundain hefyd.

7. *Ild*.—Iddew o genedl oedd hwn, ac y mae Llanilid wedi ei chyssegru ar ei enw.

8. *Llewyrr*.

9. *Cyhylyn ab Tewdrig*.—Bu hwn yn esgob yn Llundain hefyd, medd *Bonedd y Saint*.

10. *Grythelyn*.

11. *Ffestydd (Fastidus)*, yr hwn oedd esgob yma yn s.a. 420—430.

Haera rhai haneswyr nad oedd y rhai uchod yn esgobion urddedig yn ol defodau yr Eglwys. Dichon hyny, ond y mae yn amlwg eu bod yn esgobion yn ol rheol y Testament Newydd. Hefyd, dywed *Bonedd y Saint* fod rhai o honynt yn urddedig yn ol defodau yr Eglwys, a'u bod yn esgobion Llundain. Etto, dylid cofio fod gwahaniaeth mawr rhwng esgobion y cyfnod cyntaf a'r esgobion presenol, ac hyd y nod rhwng rhai y cyfnod cyntaf a rhai yr ail gyfnod. Pregethwyr teithiol, i raddau pell, oedd esgobion y cyfnod cyntaf, yn ymdrechu a'u holl egni i ledaenu Cristionogaeth; ond daeth mwy o rwysg bydol i'r Eglwys ar ddechreu

#### YR AIL GYFNOD.

1. *Dyfrig Beneurog*.—Gwr dysgedig, hyawdl, a duwiol o Fynyw (Sir Benfro) oedd Dyfrig, a myn rhai mai efe oedd esgob cyntaf Llandaf, a diamheu mai efe oedd y cyntaf i gael ei gyssegru gyda rhwysg ffurfiol. Cyssegrwyd ef i'w swydd gan Garmon Sant, yn y flwyddyn 427 medd rhai, yn 470 medd ereill. Meurig ab Tewdrig oedd Dywysog Essyllwg y pryd hwnw, a noddodd yr Eglwys yn deilwng o Gristion. Yn 490, dyrchafwyd Dyfrig i Arch-esgobaeth Caerlleon-ar-Wysg, yr hon y pryd hwnw oedd arch-esgobaeth Cymru oll. Cadwodd Dyfrig esgobaeth Llandaf gyda'r arch-esgobaeth hyd y flwyddyn 512, pryd y rhoddodd yr olaf i fyny i Teilo. Yn 519, sef blwyddyn cynnaliad Cymmanfa Fawr Llanddewi Brefi, rhoddodd Dyfrig yr arch-esgobaeth i fyny i Dewi Sant, ac ymneillduodd i fyw ar Ynys Enlli, lle y bu farw yn y flwyddyn 522. Wedi i Dewi Sant gael ei wneyd yn arch-esgob, gan fod cymmaint o dwrdd masnachol yn Nghaerlleon-ar-Wysg, efe a ofynodd ganiatad i'r Brenin Arthur, sef Arthur Fawr, i symmud yr arch-esgobaeth i Fynyw (Ty Ddewi), yr hyn a gafodd. Pan wnaed hyn, pallodd esgob Llandaf (Teilo, mae'n debyg,) ag ymostwng i Arch-esgobaeth Ty Ddewi, am fod Llandaf yn hynach; ac yn yr ymryson, aeth Llandaf dan arch-esgob Seisnig, medd rhai; yn arch-esgobaeth ei hun, medd ereill. Yn amser Dyfrig y dechreuwyd gwaddoli Eglwys Llandaf a thiroedd, ac un o'r rhai cyntaf a nodir oedd rhodd Noe ab Arthur, yr hwn a roddes i Dduw a'r Eglwys, trwy ddwylaw Dyfrig, diriogaeth Pen Alun (Plwyf Penaly, ger Tenby,) ac arglwyddiaeth ar lan Tywi (Llandeilo Fawr) am byth.

2. *Teilo*, ab Enllen ab Hydwn Dwn ab Ceredig ab Cunedda Wledig. —Cyssegrwyd ef yn esgob Llandaf yn y flwyddyn 512. Yr oedd Teilo yn ddysgybl i Dyfrig, pan oedd yr olaf yn brif athraw Bangor Llan-carfan, ac wedi hyny yn gyd-efrydydd a Dewi Sant yn Athrofa Pawl Hen, yn y Ty Gwyn ar Daf. Wedi ei urddo yn esgob, adeiladodd Teilo Athrofa yn Llandaf, a bu yn cael ei galw am oesoedd wrth yr

enwau Cor Teilo a Bangor Teilo yn Llandaf. Tra yr oedd ef yn esgob yma, torodd pla dinystriol allan yn Nghymru, a elwir yn y *Brutiau Cymreig* wrth yr enw y "Fad Felen," a bu Maelgwn Gwynedd farw o'r haint. Aeth Teilo o'r wlad i Lydaw y pryd hwnw, rhag ofn y pla. Pan ddychwelodd yn ol, dyrchafwyd ef yn Arch-escob Ty Ddewi yn lle Dewi Sant, yr hwn a fu farw yn y flwyddyn 544. Yn fuan ar ol hyny, symmudodd Teilo yr Arch-escobaeth o Dy Ddewi i Landaf, gan bennodi Ismael yn rhaglaw esgob (*suffragan bishop*) yn Nhy Ddewi. Bu Teilo farw yn Llandeilo Fawr, a chladdwyd ef yn Llandaf yn y flwyddyn 566. Yn y flwyddyn 1764, deuwyd o hyd i fodrwy Teilo yn Llandaf, yr hon oedd aur pur, a maen *amethyst* garw ynddi. Rhoddwyd hi gan yr Esgob Ewer i Dr. Keppel, Esgob Exeter, yr hwn a'i rhoes i Mr. Walpole.

8. *Eudaf (Oudoceus)*, nai Teilo, a'i canlynodd ef i Esgobaeth Llandaf. Yr oedd hwn yn cyd-oesi â Morgan Mwynfawr, a chafodd yr Eglwys lawer o roddion tirol yn ei amser ef. Dywed y *Brutiau Cymreig* mai Eudaf a Morgan Mwynfawr sefydlasant Eglwys yn Margam, a bod y prif offeiriad yn y sefydliad yn cael ei gyfrif yn rhaglaw esgob.

4. *Berthgwyn*.—Yr oedd hwn yn gyd-oesydd ag Ithel, mab Morgan Mwynfawr. Cymmerodd yr esgob hwn gryn awdurdod yn ei law, a chofnodir am dano ei fod yn ysgymmuno penaethiaid a phendefigion am y troseddau lleiaf, ac yn eu derbyn yn ol drachefn i gymmundeib Eglwysig trwy iddynt dalu iawn digonol mewn tiroedd, &c., fel y daeth yr Eglwys yn lled gyfoethog yn ei amser ef.

5. *Trychan*, o.c. 620. Yr oedd hwn yn cyd-oesi ag Einydd ab Ithel, Tywysog Morganwg. Yn amser hwn yr adeiladwyd Llaneinydd (St. Nicholas), a rhoddodd Einydd lawer o diroedd i Landaf, Margam, a Llangattwg Glyn Nedd.

6. *Edilfyw*.—Ni choffheir ei weithredoedd.

7. *Ufelwyn (Ubylwinius)*.—Yr oedd hwn yn fab i Cenydd, ac yn frawd i Ffili, adeiladydd Caerffili. Yn amser yr esgob hwn yr adeiladwyd Llanufelwyn (St. George's) y waith gyntaf.

8. *Grecielis*.—Ni chofnodwyd ei weithredoedd.

9. *Aidan*.—Yn amser hwn, sef yn y flwyddyn 720, ymosododd y Saesonïaid yn ffyrnig ar Forganwg, anrheithiwyd Llandaf, a chafodd Aidan ac amryw o'r offeiriaid eu lladd. Yn amser yr Esgob hwn, rhoddodd Gwrwr, Brenin Urchenfield, diriogaeth Bolgroes i'r Eglwys, fel cydnabyddiaeth am y fuddugoliaeth a gafodd ar y Saeson.

10. *Erwystl (Eglistl)*.—Dywed rhai mai Rhaglaw Esgob oedd hwn, ac mai Ergyng oedd yr Esgob.

11. *Arwystl*.—Nid oes dim o'i hanes.

12. *Lunapeius*.—Dim o'i hanes.

13. *Comygeyrn (Comerquinius)*.—Yn amser hwn, rhoddodd Ynyr, Brenin Gwent, ac Iddon ei fab, y plwyfi canlynol i Landaf, sef Llanarth, Llandeilo Pertholeu, a Llandeilo Creseni, am iddynt ennill brwydr ar y Saeson.

14.—*Gurgan*, neu Gwrwan. —Yn amser hwn, darfu i Tudur, a Rhun, Brenin Dyfed, lofruddio Eglystyl, ac ysgymmunwyd hwy o'r Eglwys.

Er mwyn cael adferiad yn ol, rhoddasant i'r Eglwys blwyf Llan-fihangel-tref-gerawg.

15. *Gwyddlon*.—16. *Elwog (Eluogus)*, o.c. 768. 17. *Cerenhir*, cydoesydd Brochfael ab Meurig, Tywysog Morganwg.

18. *Nudd*. 19. *Nyrys (Nobis)*. 20. *Cadwared*.

21. *Cyfeiliawg*, a gyssegrwyd i'r swydd gan Ethelred, Archesgob Canterbury, yn y flwyddyn 872. Carcharwyd ef gan y Daniaid; ond rhyddhawyd ef trwy offerynoliaeth Iorwerth yr Hynaf, Brenin Lloegr, yn y flwyddyn 915: bu farw yn y flwyddyn 927.

22. *Libian*, neu Libianth, a ddilynodd Cyfeiliawg i'r Esgobaeth, ac a fu farw yn y flwyddyn 929. Yr oedd hwn yn cydoesi a Morgan Hen a Hywel Dda.

23. *Gulfrid*.—*Gulfridus*.—Dim o'i hanes. (Cyfelach.)

24. *Marchllys*.—Cyssegrwyd ef yn y flwyddyn 929; yr hyn a ddengys na fu Gulfrid ond ychydig amser yn y swydd. Bu Marchllys farw yn y flwyddyn 948. Morgan Hen a'i feibion oeddynt yn llywodraethu yn Morganwg yn amser hwn, a Hywel Dda yn llywodraethu y Deheubarth. Yr oedd Marchllys yn un o gymdeithion Hywel Dda ar ei daith i Rufain i chwilio cyfreithiau y ddinas hono, er mwyn corffoli cyfreithiau Cymru. Yr oedd Blegwryd ab Owen, brawd Morgan Hen, yn Gangellydd Llandaf y pryd hwn, a chan yr ystyrid ef yr ysgolhaig a'r cyfreithiwr goraf yn ei oes, cymmerwyd yntau hefyd i Rufain; ac wedi dychwelyd yn ol, y gwr hwn fu yn flaenllaw yn ngwneuthuriad y cyfreithiau a elwir ar enw Hywel Dda.

25. *Padarn*, (nid sylfaenydd Llanbadarn Fawr) a gyssegrwyd yn esgob yn 948, bu farw yn 961.

26. *Rhodri*, ab Morgan Hen. Cyssegrwyd hwn yn esgob ar farwolaeth Padarn, a hyny yn erbyn ewyllys y Pab; a'r canlyniad fu i Rodri gael ei wenwyno i farwolaeth trwy fradwriaeth babyddol; a gadewir ei enw allan o blith yr esgobion, gan mai pleidwyr y Pab oeddynt y coffadwriaid.

Tua'r amser hwn, bu dadl frwd rhwng y Pab ag esgob Llandaf, yn nghylch yr hawl o briodi. Gwaharddai y Pab i'r esgob na'i offeiriad briodi neb heb ei ganiatad ef; a honent hwythau yr hawl i briodi y neb a fynent heb ymyriad y Pab na neb arall; ac yn y diwedd gorfu i'r Pab ganiatáu yr hawl.

27. *Gagan*.—Cyssegrwyd ef yn esgob Llandaf gan Archesgob Canterbury, yn y flwyddyn 982. Yr oedd y fion fugeiliol y pryd hwnw yn llys Brenin Lloegr. Yr oedd yn bresenol ar ei gyssegriad y Rhaglaniaid Esgobol Alfwld, Athelwold, Oswald, ac amryw Abbadau. Bu Gwgan farw yn y flwyddyn 992.

28. *Bledri*, a gyssegrwyd yn y flwyddyn 998. Gelwid ef "Bledri Ddoeth" gan y Cymry, ac yr oedd yn haeddu yr enw. Gorohymynodd hwn i'r holl offeiriad o fewn ei esgobaeth i addysgu y werin yn rhad; ac ymdrechu eu moesoli, a'u gwella yn mhob ystyr. Bu ymryson rhwng teulu yr esgob hwn a theulu Edwin mab brenin Gwent; a phan oedd y ddwy blaid yn ymladd a'u gilydd, aeth Bledri i ymyraeth, a tharawyd ef i'r llawr gan un o deulu Edwin. Wedi i'r ymladdfa

fyned drosodd, gwysodd yr esgob yr offeiriaid yn nghyd i Llandaf, o afon Gwy hyd afon Tywi; i'r dyben o ysgymuno Edwin a'i deulu o'r Eglwys. Parodd hyn gymmaint o ddychryn i Edwin a'i deulu, fel y daethant yn ostyngedig i ofyn maddeuant yr esgob, a thalu iawn iddo am yr ergyd a gafodd. Bu Bledri farw yn 1022.

29. *Joseph*, a gyssegrwyd yn esgob gan yr Archesgob Aelnod, Hyd. 1, 1022, trwy gymmeradwyaeth Canute, Brenin Lloegr; a thrwy etholiad cyffredinol Rhydderch ab Iestyn, brenin y Deheubarth, a Hywel brawd Gwrgan, Tywysog Morganwg, &c. Darfu i Rydderch ab Iestyn roddi 88 o blwyfi Esgobaeth Ty Ddewi i Esgobaeth Llandaf, yn amser yr esgob hwn. Yn amser Joseph yr esgynodd Iestyn ab Gwrgan i orsedd Morganwg, yn 1048. Gwnaeth yr esgob Joseph lawer o ddaioni tuag at foesoli y trigolion, trwy wahardd iddynt weithio ar y Suliau, a pheri iddynt beidio cynnal chwareuyddiaethau ar y Gwyliau Mab-sant, &c., ond cynnal cyfarfodydd gweddio yn eu lle. Gorchymynodd hefyd i'r holl offeiriaid i ddarllen yr ysgrhythrau i'r bobl; a'u dysgu hwythau i'w darllen, a hyny yn ddi-dal. Bu'r gwr da hwn farw yn Rhufain yn 1050.

30. *Herwald (Hirwallt)*.—Cymro oedd hwn, a urddwyd yn offeiriad gan yr esgob Joseph. Treuliodd beth o'i amser yn Lloegr. Dewiswyd ef yn esgob gan Gruffydd ab Llywelyn, Brenin Cymru, a Meurig ab Hywel; tra yr esgobion a'r Tywysogion yn gyffredinol yn bleidiol i'r dewisiad. Cyssegrwyd ef yn y flwyddyn 1056, gan yr Archesgob Cynsis, yn mhresenoldeb Edward III., brenin yr Anglo-Saxon. Hwn oedd yn ei swydd pan ddaeth y Normaniaid i Forganwg, yr ennillasant y dywysogaeth, ac yr amddifadwyd yr Esgobaeth o fwy na thair ran o bedair o'r tiroedd a berthynent iddi. Bu ef yn esgob 48 o flynyddau. Bu farw yn 1104, dros 100 mlwydd oed. Efe oedd yr esgob olaf yn yr Ail Gyfnod yn hanes yr esgobaeth. Mae y rhan fwyaf o'r haneswyr Seisnig, yn dweyd mai ei olynydd oedd y 80 (o amser Dyfrig), ond y rheswm am hyny yw, eu bod yn gadael allan Rodri ab Morgan, Rhif 26.

#### TRYDYDD CYFNOD.

1. *Gurfan (Urban)*.—Cyssegrwyd y gwr hwn yn 1107, gan Anselm, Archesgob Caergaint, yr wythfed flwyddyn o deyrnasiad Harri I., a'r 82 flwyddyn o oed Urban. Cafodd hwn yr esgobaeth wedi ei byspeilio o'i meddiannau gan y Normaniaid, a llawer o'r hen Eglwysi wedi eu dinystrio trwy ryfeloedd Iestyn ab Gwrgan a'i blant. Nid oedd Eglwys Gadeiriol Llandaf pan gyssegrwyd ef, ond un fechan iawn—dim ond 28 troedfedd o hyd, 15 o led, ac 20 o uchder, gyda dwy rhodfa (*aistles*), un bob ochr, gyda phorth bychan 12 troedfedd o hyd, a 12 o led; ac nid oedd yno glochdy na chloch! Yn ychwanegol at hyn, yr oedd yr Eglwys yn adfeiliedig iawn, wedi ei thori gan y Normaniaid ar y Goresgyniad. Bu Urban am flynyddau yn ymdrechol iawn gyda'r gwaith o geisio cael pethau i'w trefn gynhenid, ond yn afwyddiannus i raddau pell. Yr oedd Bernard, Esgob Ty Ddewi, yr hwn a gyssegrwyd trwy



orchymryn brenin Lloegr, yn erbyn teimladau y Cymry yn 1112, wedi honi hawl i lawer o Esgobaeth Llandaf; a thrwy drais, wedi myned â'r plwyfi a roddwyd gan Rydderch ab Iestyn i Landaf, yn ol i Esgobaeth Ty Ddewi. Darfu i Esgob Henffordd hefyd gymmeryd at ranau dwyreiniol yr Esgobaeth; a bu Urban mewn cyfraith â'r ddau hyn, er ceisio adfer iawnder i'w Esgobaeth; ond ni fu nemawr gwell, gan fod y ddau yn fwy ffafriol nag ef gan Harri I. Yn ngwyneb hyn, penderfynodd Urban apelio at y Pab. Yn 1119, galwodd y Pab Calixtus gynghor o swyddogion Eglwysig yn Rheims; ac yn y Cynghor hwnw, yr oedd yn bresenol Louis VI., Brenin Ffrainge, a 500 o Ffyn Bugeiliol, yn Archesgobion, Esgobion, ac Abbadau; ac yn eu plith, Urban Esgob Llandaf, yn gosod achos ei Esgobaeth o flaen y Cynghor. Yn y Cynghor neu'r Gymanfa hono, rhoddodd y Pab Freinlen (*Charter*) i Urban, yn ei awdurdodi i adferu yr Esgobaeth i'w bri cyntefig. Ys-grifenodd y Pab y "*Bulls*" canlynol hefyd:—

*Bull y Pab Calixtus at Walter ab Richard ac ereill.*

"CALIXTUS, esgob a gwas gweision Duw, at ei anwyl feibion, Mynachod, Canghellwyr, Canoniaid: Walter ap Richard (1); Bryant mab yr Iarll, William mab Badran, Robert de Chandos (2); Jeffrey de Broi, Pain de John, Bernard de Newmarch (3); Gambold de Ludlow, Roger de Berkley, William Is-Iarll Caerdydd, William ab Rosser, Robert Lawgam (*deformed hands*), a phersonau anrhydeddus ereill yn yr Esgobaeth, Iechyd, a Bendith Apostolaidd. Mae cwyn eich mam, Eglwys Llandaf, wedi ein cyrhaedd, o herwydd ei hyspeilio o'i heiddo genych chwi, fel nad yw bellach yn werth dim braidd. Gan hyn, yr ydym yn anfon atoch y llythyrau hyn, i'ch cynghori i ddychwelyd iddi yn ddioedi, y tiroedd, y degymau, tollau, claddfeydd, a phob eiddo arall a gymmerasoch yn ddrygionnus, gan eu cadw oddiwrth yr Eglwys hon ac Eglwysi ereill yn yr Esgobaeth. Os ufuddhewoh i'm cynghor, a chynnorthwo y ddywededig Fam-Eglwys, cewch ffafr gan yr Hollalluog Dduw, Sant Pedr, a ninau. Os yn amgen, yr ydym trwy awdurdod Duw yn cadarnhau yn eich herbyn, fel dirmygwyr a phersonau yn euog o gyssegr-ladrad, y ddedfryd gollfarnol y mae ein hybarch frawd Urban, eich Heskob, yn ei chyhoeddi gyda chyfiawnder Canonaidd.—Saisson, Hydref 16, 1119."

*Nodiad.*—(1) Walter ab Richard Fitzgelert, yr hwn a gafodd hawl gan Harri I. i feddiannu Gwent Iscoed. (2) Robert de Chandos ydoedd un o gyfeillion William y Goresgynydd, ac efe drawsfeddianodd Caerlleon-ar-Wysg, Coldoliff, &c. (3) Bernard de Newmarch, trawsfeddiannydd Brycheiniog. Y personau ereill a enwir yn y *Bull*, oeddynt bendefigion Normanaidd, wedi cymmeryd meddiant yspeilaidd o dir-oedd yr Esgobaeth yn Ngwent a Morganwg, Ystrad Yw, ac Ewas.

*Bull y Pab Calixtus at Harri I., Brenin Lloegr.*

"Yr Esgob Calixtus, gwas gweision Duw, at ein hoffusaf frawd yn Nghrist, Henry, ardderchocaf a gogoneddusaf Frenin Lloegr, Iechyd a

Bendith Apostolaidd. Yr ydym wedi derbyn yn garedig ein hybarch frawd Urban, Esgob Llandaf, yr hwn a ddaeth atom, a'r hwn sydd, fel y clywsom, yn wr crefyddol ac anrhydeddus; a chyda charedigrwydd dyladwy, yr ydym wedi tosturio wrth gyflwr gorthrymedig Llandaf. Gan hyny, yr ydym yn ei gyfarwyddo atat a'r llythyr hwn, ac yn ceisio gan dy Fawrhydi, gan ddymuno arnat yn yr Arglwydd, er mwyn parch ac anrhydedd St. Pedr, a'n cariad ninau, am i ti ei gynnorthwyo fel y gweddai i'th fawrhydi breninol, i anrhydeddu ac amddiffyn yr Eglwys a ymddiriedwyd i'w ofal, yn ol y gallu a roddwyd i ti gan yr Arglwydd, fel y derbynnot oddi wrth Dduw a St. Pedr ad-daliad a maddeuant, a chyd-ddygiad gyda golwg ar dy bechodau.—Rheims, Hydref 22, 1119."

Yn ganlynol i hyn, anfonodd Ralph, Archesgob Canterbury, annerchiad at "Holl Feib yr Eglwys,—Ffrangcod, Saeson, Cymry, a phob cenedl arall y dichon iddynt fod," yn taer ddymuno arnynt i gyfranu yn haelionus tuag at ail-adeiladu Eglwys Llandaf. Nid ymddengys, pa fodd bynag, i'r *Bull* lwyddo gyda'r yspeilwyr tiroedd, fel ag i'w dychwelyd i'r Eglwys. Mewn canlyniad i annerchiad yr Archesgob Ralph, cyfranwyd llawer o arian tuag at ail-adeiladu yr Eglwys; ac erbyn mis Mai, 1120, yr oedd yr adeilad wedi ei ddwyn i'r fath gyflwr, fel y gallwyd ymgynnull iddo i addoli. Rhyw fath o adgyweirio, a harddu yr hen Eglwys, wnaeth Urban ar y cyntaf, yr hyn a orphenwyd erbyn yr adeg a nodwyd; ond gan fod y cyfraniadau a gafwyd mor helaeth, dechreuodd ef adeilad yn Llandaf, y buwyd dros gan' mlynedd cyn ei lwyrr orphen.

Fel y crybwyllwyd, claddwyd Dyfrig Beneurog yn Ynys Enlli yn y flwyddyn 522. Wedi i Urban gael yr Eglwys yn barod, efe a barodd godi esgyrn Dyfrig, a'u cludo gyda rhwysg mawreddog i'w claddu yn Llandaf ar y 28ain o Fai, 1120. Yr Esgob Urban ddechreuodd godi yr adeilad mawr a welir yma yn bresenol, ac efe hefyd adeiladodd Balas yr Esgob, yr hwn a gymmerodd lawer o flynyddoedd i'w orphen. Dywed Fuller yn ei *Church History*, Vol. III., p. 68, fod palas gan Esgob Llandaf yn Llundain hefyd, ac iddo gael ei dynu i lawr er cael lle i adeiladu Somerset House.

Yn 1126, gwnaed trefniad a chytundeb rhwng yr Esgob Urban a Robert, Iarll Caerloyw, Arlwydd Morganwg, gyda golwg ar y cospedigaethau a weinyddid ar droseddwyr ganddynt. Un math o gosp oedd cylymu rhyw ddilledyn ar lygaid y troseddwr nes ei ddallu, ac yna peri iddo gerdded yn draednoeth dros haiarn coch-boeth. Dygid y math hwn o gospi yn mlaen yn Llandaf. Math arall o gosp oedd tafu y troseddwr yn rhwym draed a dwylaw i lyn dwfn. Gweinyddid y math hwn o gosp yn ymyl Castell Caerdydd. Math arall o gosp oedd gosod y troseddwr a'r hwn y troseddwyd i'w erbyn i ymladd *duel*, yr hyn a ddygid yn mlaen o fewn muriau Castell Caerdydd.

Bu Urban bedair gwaith yn Rhufain yn dadleu achos ei esgobaeth o flaen y Pab. Mai 11, 1181, anfonodd y Pab Innocent *Bull* atto i'w wysio o'i flaen ef y dydd Gwyl St. Luc canlynol, er mwyn terfynu y ddadl rhwng Bernard, Esgob Ty Ddewi, ac yntau, yn nghylch plwyfi Gwyr, Llandeilo Talybont, Cydweli, y Cantref Bychan, Ystrad Yw,

ac Eneas, ac ymddengys i'r Pab ddyfarnu o blaid Bernard. Bu Urban farw ar ei bedwerydd ymweliad â Rhufain yn 1189, yn 58 oed.

2. *Uchtryd*, Archddeacon Llandaf, a gyssegrwyd yn Esgob gan Theobald, Arohesgob Canterbury, yn 1189, sef y bedwaredd flwyddyn o deyrnasiad Stephen, Brenin Lloegr. Priododd merch i'r Esgob hwn â Iorwerth ab Owen, un o hiliogaeth Iestyn ab Gwrgan. Iorwerth oedd Arlwydd Caerleon-ar-Wysg, ac efe adeiladodd Castell Gelligaer, &c. Yn 1148, bu Harri'r II. ar giniaw gyda'r Esgob hwn yn y Palas Esgobol yn Llandaf, ac aeth i Gaerdydd erbyn nos i swpera a chysgu. Bu Uchtryd farw yn 1148.

3. *Galfrai*, sef Gruffydd ab Arthur, nai Uchtryd, a'r hwn a adnabyddid yn fwy cyffredin wrth yr enw Jeffrey o Fynwy.—Yr oedd hwn yn gaplan (*chaplain*) i William, Iarll Caerloyw ac Arlwydd Morganwg. Derbyniodd ei addysg yn Mynachlog Tre Fynwy, ac yr oedd yn Archddeacon Mynwy. Bu hefyd am flynyddau yn brif athraw mewn Athrofa fodeuog yn Llandaf cyn ei gyssegru yn Esgob. Cyssegrwyd ef yn Esgob yn 1152, ond bu farw cyn iddo ymgymmyrdd â'r swydd yn ffurfiol, a chladdwyd ef yn Llandaf. Mae enw hwn yn bur adnabyddus trwy Ewrop mewn cyssylltiad â'r *Brutiau Cymreig*. Y *Brut* hynaf yw *Brut Tisilio*, sef *Brut y Breninoedd*. Gwnaed hwn gyntaf gan Tisilio, mab Brochwel Ysgythrog, yn y 7fed ganrif. Cyfieithwyd ef i'r Lladin, ac ychwanegwyd atto gan Walter de Mapes, a chyfieithiodd ef o'r Lladin i'r Gymraeg drachefn. Gwnaeth G. ab Arthur ddefnydd mawr o hwn er ysgrifenu Chwedlau yn yr iaith Lladinaidd, y rhai a gawsant dderbyniad helaeth trwy Ewrop.

4. *Nicholas ab Gurgan*.—Cyssegrwyd ef yn Esgob yn 1158. Wedi marwolaeth Bernard, Esgob Ty Ddewi, ymdrechodd Nicholas a'i holl egni i gael y plwyf a gymmerwyd oddiar Llandaf yn ol; ond ni fu yntau lwyddiannus yn hyn. Pa fodd bynag, gwnaeth lawer o ddaioni gyda golwg ar adgyweirio yr Eglwysi a dorwyd yn amser rhyfeloedd Iestyn ab Gwrgan, &c. Fel hyn y dywed *Brut y Tywysogion* am dano:—"Cylch yr amser hwn, y mynnes Nicholas ab Gwrgan, Esgob Teiliaw, adgyweiriau nawdd yr Eglwysi a dored er yn amser Iestyn ab Gwrgan, ac y doded yn gywir nawdd cyssefin i Eglwysi Llandaf, Llancafarn, Llanilltyd, Llandoohwy, Llanffagan, Caerlleon, a Chaer-gwent, ac Eglwysi ereill herwydd a fu gynt, ac y deddfwyd nawdd a weddai i'r Mynachlogau newyddion, hyd oni aeth rhan fawr o blwyf Teiliaw yn nawdd yr Eglwysi, ac y bu achaws hynny lonyddwch yn Morganwg amgen un man arall yn Nghymru."—*Myf. Arch.*, p. 710. Bu yr Esgob hwn farw yn y flwyddyn 1188.

5. *William de Salso-Marisco*, neu Chalmers, llywydd Priordy St. Augustine, Bristol, a gyssegrwyd yn Esgob yn 1185, a roes yr Esgobaeth i fyny yn 1192. Tra yr oedd hwn yn Esgob, ymwelodd yr Arch-egob Baldwin â Llandaf yn 1187 neu 1188, er annog y bobl i godi arfae ac ymuno â'r byddinoedd i gario allan Ryfeloedd y Groes. Tra yr oedd ef yn anerch y bobl, safai y Cymry ar un ochr i'r Eglwys a'r Saeson yr ochr arall, a bu ei annogaeth yn foddion i gael llawer o'r ddwy genedl i'r byddinoedd. Cysgodd yr Arohesgob yn y Palas

Esgobol y nos hono, a thranoeth aeth yn ei flaen tua Margam, ac oddiyno i Abertawy, &c.

6. *Henry*, Prior Abergafenni, a gyssegrwyd yn Esgob Llandaf yn 1198: bu farw yn 1218. Yr oedd hwn yn brasenol ar goroniad y Brenin John.

7. *William de Goldcliffe*, llywydd Priordy Goldcliffe, a gyssegrwyd yn 1219, 8 Harri III. Bu hwn yn foddion i ddyohwelyd i'r Esgobaeth beth o'r tiroedd a gollasid. Bu farw yn 1229.

8. *Elias de Radnor*, trysorydd Henffordd, a gyssegrwyd yn Esgob Llandaf yn 1280: bu farw yn 1240, yr un flwyddyn ag y bu farw Llywelyn ab Iorwerth, Tywysog Gwynedd.

9. *William de Christchurch*, 1240—1243.

10. *William de Burgh*, neu Bury, Caplan Harri III., a gyssegrwyd yn Esgob Llandaf yn 1244, 28 Harri III. Gwysiwyd hwn gan y Pab i Gymmanfa Lyons; ond yn y cyfamser, yspeiliwyd yr Esgob o'i feddiannau gan ei elynion, ac felly esgusodwyd ef am absenoli ei hun o'r Gymmanfa. Bu farw yn y flwyddyn 1252.

11. *John de la Warre*, Abbad Margam, a gyssegrwyd yn Esgob Llandaf yn 1258: bu farw yn 1256, a chladdwyd ef yn Llandaf.

12. *William de Radnor*, trysorydd Llandaf, 1256—1265.

13. *William de Breos*, neu Brews, Cor-beriglor (*Prebendary*) Llandaf, a gyssegrwyd yn Esgob yn 1265, 50 Harri III. Yn amser yr Esgob hwn y lladdwyd Llywelyn ein Llyw olaf a Dafydd ei frawd, ac yr unwyd Cymru â Lloegr i raddau pell, gan Edward I., Brenin Lloegr. Cafodd yr Esgobaeth gollledion trymion yn amser hwn hefyd, trwy i Iarll Henffordd a Iarll Caerloyw ladratta meddiannau yr Esgobaeth trwy drais, gan werthu y bywoliaethau Eglwysig i'r sawl a roddai fwyaf am danynt; a thrwy yr yspeiliadau hyn, cyfyngwyd llawer ar yr Esgobaeth ac awdurdod yr Esgob. Bu'r Esgob De Breos farw Mawrth 19, 1287. Mae ei fedd-adail a'i ddelw yn weledig yn yr Eglwys.

14. *Phillip de Saunton*, Cor-flaenor (*Precentor*) Wells. Ni chofnodwyd dyddiad ei gyssegriad, ac fe allai mai yr annhrefnusrwydd a achoswyd gan yspeiliadau y Ieirll a nodwyd barodd i hyn gael ei esgeuluso. Bu i'r ddau arch-yspeiliwr a nodwyd agos lwy'r ddinystrio yr Esgobaeth.

15. *John de Monmouth*, D.D., brodor o Dre Fynwy, a Changhellydd Rhydychain, &c. Cyssegrwyd ef Chwef. 10, 1294, 25 Edward I. Llwyddodd hwn i gael personiaeth Newland yn eiddo Esgobaeth Llandaf, tra y perthynai cyn hyny i Esgobaeth Henffordd. Bu'r Esgob hwn farw Ebrill 8, 1323, a chladdwyd ef yn Nghapel Mair, Llandaf, a gosodwyd ar ei fedd faen mynor gyda'r cerfiad canlynol arno:—  
“*Johannes Monumethenus.*”

Alexander de Monmouth, Archddeacon Llandaf, oedd y nesaf a benodwyd gan y Gymmanfa (*Conge d'Elire*), a chafwyd nawdd a chaniatad y brenin i'w ethol; ond gwrthodwyd ef gan y Pab, yr hwn a etholodd

16. *John de Eglescliffe*, Esgob Connor, Iwerddon. Dyrchafwyd ef i Landaf yn 1323, 16 Edward II. Yn amser hwn y sonir gyntaf am

Balas Esgob Llandaf yn Llangadwaladr (Bishopton, Mynwy,) ac yno y bu yr Esgob farw, Ion. 2, 1846.

17. *John Coventry*, Archddeacon Llandaf, a etholwyd yn rheolaidd gan y Glwysgor (*Chapter*), a bu yn cyflawni'r swydd am yohydig fis-oedd; ond pallodd y Pab a'i gydnabod. Nid oedd hyn ond math o ragymadrodd i bethau pwysicach i ganlyn yn fuan.

18. *John Pascall*, D.D.—Brodor o Suffolk oedd hwn, wedi derbyn ei addysg yn Cambridge, a chyssegrwyd ef yn Esgob Llandaf yn 1847, 21 Edward III. Yr oedd hwn yn gyfaill mawr i Ifor Hael, a digon tebyg fod Dafydd ab Gwilym ac yntau yn gyfeillion. Preswylia i y rhan fwyaf o'i amser yn ei balas yn Llangadwaladr. Yn 1860, torodd haint dinystriol allan yn y wlad, a elwid y Chwaren, rhywbeth tebyg i'r *Cholera*, a bu yr Esgob farw o'r pla hwnw; ac o'r un pla bu farw Ifor Hael a Nest ei wraig, yn Mhalas yr Esgob yn Bishopton. Bernir mai ymweled a'r Esgob yn ei glefyd, er gweini iddo, ddarfuo Ifor Hael a'i wraig, ac iddynt hwythau gael eu lladd gan y pla.—*Rhol Achau*.

19. *Roger Cradock*, Mynach, ac Esgob Waterford, Iwerddon, a ddyrchafwyd i'r Esgobaeth hon trwy awdurdod Bull y Pab yn 1861, 86 Edward III. Bu farw yn 1882.

20. *Thomas Rhishooke*, Mynach, a wnaed yn Esgob trwy awdurdod Bull y Pab yn 1882, 7 Richard II. Yn 1888, symmudwyd ef i Gaer-cei (Chichester).

21. *William de Rotesham*, Esgob Bethlehem mewn enw, a ddyrchafwyd i Esgobaeth Llandaf yn 1886; ac yn 1889, fe'i symmudwyd i Esgobaeth Rochester.

22. *Edmund Brumfield*, S.T.P., Mynach o Fynachlog St. Edmundsbury. Yr oedd hwn yn Abbad hefyd ac yn Feistr mewn Duwinyddiaeth yn Mhalas y Pab. Urddwyd ef yn Esgob Llandaf Rhag. 17, 1889, 18 Richard II. Bu cryn dwrw yn y wlad pan urddwyd hwn. Yr oedd y Brenin a holl Esgobion y deyrnas yn ei erbyn; ond gan ei fod yn ffafir-ddyn gan y Pab, efe a fynodd ei urddo er gwaethaf pawb. Bu farw yn 1890.

23. *Tydemian de Wynchecombe*, Mynach o Hales, swydd Caerloyw, ac wedi hyny yn Abbad Beaulieu, yn swydd Hamp. Dewiswyd ef gan y Glwysgor, gyda seliad y Brenin, heb ofyn caniatad y Pab! Urddwyd ef yn Esgob yn 1891. Symmudwyd ef wedi hyny i Esgobaeth Caerwrangon (Worcester), lle y bu farw yn 1401.

24. *Andrew Barret*, LL.D., a urddwyd Awst 25, 1898. Dechreuodd hwn ail sefydlu y gwasanaeth cylchol neu dymhorol. Bu farw yn Mai, 1896.

25. *John Burghill*, Cyffeswr Richard II., a urddwyd Mehefin 15, 1896; ac yn mis Medi 1898, symudwyd ef i esgobaeth Lichfield.

26. *Thomas Peverell*, S.T.P., esgob Ossory, Iwerddon, un o'r Mynachod Gwynion (*Carmelite*), a urddwyd yn esgob Llandaf, Tach. 16, 1898, 21 Richard II. Yn mhnen pedair blynedd wedi urddiad hwn, dinystrwyd palas yr esgob yn Llandaf yn yfflon gan y clodus Owen Glyndwr; a saif yn bentwr o adfeilion byth oddiar hyny. Dyrchafwyd Peverell yn esgob Worcester, Gor. 4, 1407.

27. *John De La Zouche*, S.T.P., a urddwyd Mehefin 7, 1408, 9 Harri IV. Yr esgob hwn adeiladodd y rhan fwyaf o'r palas esgobol yn Mathern; lle y bu esgobion Llandaf yn byw yn olynol am oesoedd ar ol hyn, gan fod palas Llandaf wedi ei ddinystrio. Yn 1412, tra yr oedd hwn yn esgob, cynnygiwyd yn Senedd Prydain, nad oedd un o esgobion Cymru i fod yn Ynad, Ystafellydd, Canghellydd, Trysorydd, Sirydd, na Chofiadur. Bu'r esgob hwn farw dechreu Ebrill 1428, ac ar yr 28 o'r un mis, cafodd y Glwysgor (*Congé d'elire*) drwydded i ddewis esgob yn ei le.

28. *John Fulford*, S.T.P., a ddewiswyd Medi 2, 1428, ac ar y 12fed o'r un mis, cafwyd cymmeradwyaeth y brenin i'r dewisiad. Gadewir enw yr esgob hwn allan gan Godwin ac ereill; ond ni hysbysir am ba achos. Dichon iddo gael ei ethol heb ganiatad y Pab.

29. *John Wells*, S.T.P., Mynach oedd hwn, a darfu iddo amheu cyfreithlondeb urddiad ei ragflaenydd, tra yr oedd hwnw yn y swydd; er hyny amlwg yw, iddo barhau yn esgob hyd ei farwolaeth; ac urddwyd Wells yn ei le yn mis Gorphenaf 1426, 4 Harri VI. Ar y 15 o Ionawr 1426, gwnaeth hwn broffes o ymostyngiad i Archesgob Caergaint (*Canterbury*). Cyn hyny, nid ystyrid Llandaf yn israddol i'r Archesgobaeth hono; ond byth oddiar hyny, ystyrir hi dani. Bu Wells farw Tachwedd 1440.

30. *Nicholas Assheby*, Prior Westminster, a urddwyd yn esgob Llandaf, trwy awdurdod (*Bull*) y Pab, dyddiedig Chwef. 18, 1441, 20 Harri VI., a chymmerodd feddiant o'r swydd Ebrill 15, yr un flwyddyn. Bu farw yn 1458.

31. *John Hunden*, S.T.P., a urddwyd Awst 25, 1458, 37 Harri IV. Gwr o swydd Hertford oedd hwn, ac ymddengys iddo gael bywiolaeth Eglwys Little Goddesdon, yn mis Hydref 1478, yn ei sir enedigol, gan Abbad St. James, Northampton; ac felly yn 1476, rhoddodd esgobaeth Llandaf i fyny o herwydd ei fawr oedran. Yn 1480, rhoddodd i fyny rectoriaeth Little Goddesden hefyd; a bernir iddo ymneillduo y rhan olaf o'i oes i Fynachdy Langley; o'r lle y daeth yn esgob i Landaf.

32. *John Smith*, S.T.P., a urddwyd yn esgob Gor. 17, 1476; bu farw yn 1478, ac a gladdwyd yn Nghapel yr Holl Saint, Christchurch, Llundain.

33. *John Marshall*, Cymmrawd o Goleg Merton Rhydychain, a Chanon Windsor, a urddwyd yn esgob Llandaf yn 1478, 18 Edward IV. Dygwyd yn mlaen lawer o ychwanegiadau at yr adeilad yn Llandaf yn amser hwn, ac adgyweiriwyd yr hyn ag oedd angenrheidiol ar yr hen adeilad. Trwy ei lafur ef, gwnaed yma allor o gareg nadd, gyda lliwiau coch a *hyacinth*, yr hyn a wnaed er anrhydedd i'r brenin. Yn ei amser ef hefyd yr adeiladwyd y Twr Gogleddol, ar draul Jasper Tudur, Duc Bedford, ac Arlwydd Morganwg. Parodd Jasper dynu ymaith yr hen gloch fawr oedd yma, a gosodwyd pump o glychau yn Nhwr Jasper yn ei lle. Cymmerwyd y gloch fawr oddi yma i Eglwys Gadeiriol Exeter, a gelwir hi Cloch Fawr St. Pedr. Yr oedd y Jasper hwn yn fab i Owen Tudur, a Chatherine merch Charles VI. o Ffrainc, sef gweddw Harri V. brenin Lloegr. Yr oedd Jasper felly yn ewythr

i Harri VII., yr hwn ar ol ei goroni yn frenin yn 1485, a roes Ar-glwyddiaeth Morganwg yn anrheg i'w ewythr. Gwnaeth Jasper gryn lawer o ddaioni yn Morganwg mewn undeb a'r esgob hwn. Bu'r esgob farw yn 1496, ac a gladdwyd dan du gogleddol y cor yn Llandaf, rhwng dwy golofn, yn ymyl gorsedd yr esgob.

84. *John Ingleby*, llywydd Priordy Shene, Surrey, 1496-1499.

85. *Miles Salley*, amnerydd Abignon, ac Abbad Evesham, a urddwyd Mai 12, 1500; bu farw yn 1516. Yn ei ewyllys olaf, yr oedd yn gorohymmyn i'w gorff gael ei gladdu yn Eglwys St. Marc, Bristol; ei galon a'i ymysgaroedd i'w claddu o flaen delw Tewdrig Sant, dan yr allor yn Mathern, a'i feitr i'w gladdu yn Llandaf; a bod *mass* i'w gynnal yn Mynachlog Evesham dros ei enaid. Gwnaeth hwn lawer o ychwanegiadau at y Palas Esgobol yn Mathern.

86. *George de Athequa*, Yspaenwr, yr hwn a ddaeth i'r wlad hon gyda Catherine o Arragon, gwraig gyntaf Harri VIII. Urddwyd ef yn esgob Llandaf, Chwefror 11, 1517. Bu farw yn 1537. Cyllid yr esgobaeth yn 1585 oedd £154 14s. 2c.

87. *Robert Holgate*, llywydd Priordy Walton, swydd York, pleidiwr gwresog i Harri VIII., a urddwyd yn esgob Llandaf yn 1537, 28 Harri VIII. Yn amser hwn y cynhyrfwyd y wlad gan y Diwygiad Protestanaidd, y cyhoeddwyd cyfieithad William Tyndal o'r Ysgrhythrau, y pennodwyd dysgedigion penaf yr oes i'w adolygu, &c.; ac yn mhlith y golygyddion, yr oedd yr Esgob Holgate, a'r gyfran ddaeth dan ei olygiad ef oedd Epistolau Pedr. Yn 1544, dyrchafwyd ef yn Archesgob York, a bu yn ei swydd hyd amser y frenines Mari, yr hon a'i diswyddodd, ac a'i carcharodd yn 1554. Bu farw yn 1555.

Cyn myned at hanes yr esgob nesaf, priodol yw sylwi mai yn amser yr esgob blaenorol yr aeth yn ffræ rhwng y Pab a Harri VIII., ac honodd yr olaf yr hawl o fod yn ben i'r Eglwys yn y wlad hon. Mewn canlyniad i hyn, anfonwyd Ellis Price, Plas Dolyn, i Forganwg i edrych ansawdd yr Eglwysi, &c. Dengys adroddiad hwnw fod llawer iawn o ddelwau yn Eglwysi Cymru y pryd hwnw, ac anfonwyd lluaws o honynt i Lundain. Un ddelw a ystyriai y Cymry yn dra urddasol, oedd "Delw Derfel Gadarn;" a dengys adroddiadau mai yn Smithfield, Llundain, y llosgwyd y ddelw hono, ac yn ei choelcerth y llosgwyd y mynach Forrest am wadu hawl y brenin i fod yn ben yr Eglwys.

88. *Anthony Kitchen*, a gyfenwid Dunstan, Abbad yn Westminster, a urddwyd yn esgob Llandaf, trwy ddylanwad yr Esgob Holgate pan wnaed ef yn Arch-esgob York. Urddwyd Kitchen yn 1545, 86 Henry VIII. O holl esgobion Llandaf, hwn oedd y rhyfeddaf a gwaelaf yn eu plith. Bu agos a dystrywio yr esgobaeth, trwy werthu y tiroedd perthynol iddi, a phrydlesu meddiannau ereill a phrydlesau meithion iawn; ac am hyn y galwyd ef gan Godwin ac ereill wrth y teitl *fundi nostri calamitas*. Yr oedd Dunstan mor anwadal a cheiliog y gwynt, yn troi gyda phob awel, etto yn gofalu myned gyda'r llifeiriant, ac nid ei wrthwynebu. Yn nheyrnasiad Harri VIII. ac Edward VI., yr oedd yn proffesu ei fod yn Brotestant selog. Pan esgynodd Mari Waedlyd i'r orsedd, troes ef yn Babydd penboeth; a phan oedd yr

Esgob Farrer o Dy Ddewi yn selio ei egwyddorion a'i waed yn y ffamiau yn Nghaerfyrddin yn 1555, yr oedd Kitchen yn cynnorthwyo yn yr erlidigaeth, trwy gondemnio Rowlins White, pysgotwr o Gaerdydd, i farwolaeth; a thrwy orchymmyn yr esgob hwn y merthyrwyd ef yn Nghaerdydd. Pan fu Mari farw, ac yr esgynodd Elizabeth i'r orsedd, troes yr esgob yn Brotestant drachefn! Yn 1559, sef yr ail fwyddyn o deyrnasiad Elizabeth, ar ol oediad seneddol, gosodwyd mewn gweithrediad gyfraith berthynol i grefydd heb wrthwynebiad; ond pan wnaed ffurf o weddianu Protestanaidd i'r clerigwyr, ac y cyhoeddwyd fod yn rhaid iddynt fyned i'w llw i gydnabod y frenines yn ben yr Eglwys yn Mhrydain, &c., dywedir gan Hume ac ereill mai yr unig esgob yn y deyrnas a wnaeth y llw, oedd Dr. Kitchen, esgob Llandaf! Ymadawodd llunaws o'r offeiriaid o'r eglwys, yn hytrach na gwneyd y llw a nodwyd; a thueddir fi i gredu mai dyma yr amser yr ymadawodd Thomas Llywelyn, Rhigos. Bu Kitchen yn esgob am 18 mlynedd, a bu farw yn 1568, yn 90 oed. Claddwyd ef yn Mathern.

Yn 1564, cynnaliwyd Eisteddfod yn Llandaf, pryd yr oedd yn bresenol Syr Thomas Jones, Giles ab John, William Dyfi, Thomas Brynllys, Thomas Llywelyn, Meurig Dafydd, Shon Mawddwy, Thomas Lewis, Meredydd ab Rhosser, Hopcin Twm Phillip, Twm Shon Catti, Syr John Gruffydd, Evan Gruffydd ei frawd, William Evans, &c., a Changellydd Llandaf yn feirniad. Nid oedd esgob yma ar y pryd.

39. *Hugh Jones*.—Addysgwyd ef yn Rhydychain; bu yn Ficer yn Banwell, Somersetshire. Gwnaed ef yn Gor-beriglor Llandaf yn 1556, ac urddwyd ef yn Esgob Llandaf yn 1567. Cymmerodd yr urddiad le yn Lambeth. Bu farw Tachwedd 15, 1574, a chladdwyd ef yn Mathern. Hwn oedd yr unig Gymro a urddwyd yn esgob yn Llandaf am 300 o flynyddau, sef oddiar yr amser y gwrthododd y Cymry ufuddhau i Austin Fynach, cenad y Pab. O hyny allan, gofalodd Pabau Rhufain na chai yr un Cymro ei ddyrchafu, tra fu yr esgobaeth dan eu llywodraeth.

40. *William Bleddin* (Cymro etto), Archdeacon Aberhonddu, a chor-beriglor Llandaf, a urddwyd yn esgob, Ebrill 16, 1575, 18 Elizabeth. Bu farw yn 1590, a chladdwyd ef yn Mathern.

41. *Gervase Balington* a urddwyd yn 1591, 84 Elizabeth, ac a symudwyd i Exeter yn 1594.

42. *William Morgan*, yr hwn, meddir, oedd y dysgedicaf yn ei oes, a anwyd yn Gwibernant, plwyf Penmachno, sir Gaernarfon. Derbyniodd ei addysg yn Ngholeg St. John, Caergrawnt; ac yn 1575, cafodd ficeriaeth Welshpool. Yn 1579, cafodd ficeriaeth Llanrhaidr-yn-Mochnant; ac o herwydd rhyw anghydfod rhyngddo a'r plwyfolion, gwysswyd ef o flaen Archesgob Canterbury, yr hwn wrth ei holi a ddeallodd yn fuan fod dyn mawr yn sefyll ger ei fron; ac wedi deall ei fod yn feistr ar yr iaith Gymraeg, yn ogystal a ieithoedd ereill, dymunodd yr Archesgob arno gyfieithu yr holl Feibl i'r Gymraeg. Gwnaeth yntau hyn, a chyhoeddwyd yr argraffiad cyntaf o hono yn 1588, yr hyn oedd y waith gyntaf i'r holl Feibl gael ei gyhoeddi yn Gymreig. Trueni na fyddai y cyfieithad rhagorol hwn yn fwy cyffredinol yn mhllith y genedl. Pan welodd Elizabeth ei fod mor alluog, a



bod ei gyfieithad ardderohog yn cael y fath dderbyniad gan y Cymry, hi a roes orchymyn pendant am ei urddo yn Esgob Llandaf, yr hyn a wnaed yn 1595. Yn 1601, cafodd ei symmud i Lanelwy, lle y bu farw yr un flwyddyn.

43. *Francis Godwin*, mab Thomas Godwin, esgob Bath. Derbyniodd ei addysg yn Rhydychain; graddiwyd ef yn B.D. yn 1598, ac yn D.D. yn 1595. Yn 1590, bu yn teithio Cymru gyda Camden i chwilio am hynafiaethau. Yn 1601, cyhoeddodd lyfr dan yr enw *A Catalogue of the Bishops of England since the first planting of Christianity in this Island*. Yr oedd yn gyfrol fawr, ac ol llawer o lafur arni. Yn yr un flwyddyn ag y cyhoeddodd ei lyfr, cyssegrwyd ef yn esgob Llandaf (48 Elizabeth), fel cydnabyddiaeth am ei lafur yn casglu llechres yr esgobion. Bu ef yn foddion i adgyweirio llawer ar yr Eglwys, &c.; ond beir ef yn fawr gan Dr. Willis am lesio cymmaint o diroedd yr esgobaeth, er mwyn cael cynnysgaeth dda i'w blant. Yn 1617, symmudwyd ef i esgobaeth Henffordd, a chyhoeddodd amryw lyfrau hynafiaethol, megys "*Authologia Romania Histora*," "*Roman Antiquities*," "*A Collection of Hebrew Antiquities*," &c.

44. *George Charlton*, Oor-beriglor Llandaf, a gyssegrwyd yn esgob, Gorphenaf 11, 1617. Pan oedd yr holl ymruson yn Holland o barth y credoau a'r athrawiaethau, anfonwyd yr esgob hwn i Gymmanfa Dort, yn 1618, gan Iago I., i roi ei bleidlais dros y Ffydd Uniongred. Symmudwyd ef i Chichester yn 1618.

45. *Theophilus Field* a gyssegrwyd yn 1618, ac a symmudwyd i Dy Ddewi yn 1625. Yr oedd hwn yn gyd-oesydd ag Edmwnd Pryse, Archddeacon Trefynwy.

46. *William Murrey*, esgob Kilfenora, Iwerddon, a symmudwyd i Landaf yn 1627. Bu hwn yn offeryn i gael tair cloch fawr i'r clochdy; ond y maent wedi cracio er ys blynyddau lawer. Yn amser hwn y gwrthododd Mr. Wroth, fioer Llanfaches, Mynwy; W. Erbury, fioer Caerdydd; a W. Cradock, ei gurad, a darllen y *Book of Sports* ar ol y gwasanaeth ar y Suliau; ac a ddechreuasant Ymneillduaeth Cymru. Bu'r esgob Murrey farw yn 1688, a chladdwyd ef yn Mathern.

47. *Morgan Owen*, brodor o Myddfai, sir Gaerfyrddin, a gyssegrwyd yn esgob Llandaf, Mawrth 12, 1639, 14 Charles I., trwy annogaeth Dr. Land, esgob Ty Ddewi, i'r hwn yr oedd Dr. Owen yn gaplan cyn hyny. Dywed y Parch. D. Llwyd Isaac yn ei *Siluriana*, p. 216, i'r Dr. Owen gael llawer o'i erlid gan y Cromwelliaid o herwydd ei ymlyniad wrth achos Charles I., a'i fod wedi adeiladu ar ei draul ei hun, fur claddfa ddeheuol Eglwys Fair, Caerdydd, gyda cheryg nadd (*free-stone*); a bod yn mhilth cerfiadau ereill wrth borth yr Eglwys hono, ddelfo a Mair Forwyn a haban yn ei breichiau, ac mai o achos y ddelw hono y gorfu ar Dr. Owen ffoi tua Myddfai i leshu rhag gwyr Cromwell, &c. Mae yn rhaid fod yma ryw gamsyniad pwysig, oblegyd yr oedd Eglwys Fair, Caerdydd, wedi syrthio yn bentwr i'r afon er's 82 o flynyddau cyn cyssegriad Morgan Owen. Bu Dr. Owen farw yn Glasallt, yn 1644, a chladdwyd ef yn Myddfai.

48. *John Maxwell*, esgob Kilala, a fu yn esgob Llandaf am ychydig;

ond gan ei fod mor ymlynol wrth achos Charles I., nid oedd yn boblogaidd o gwbl. Bu farw ar y 14eg o Chwefror, 1646.

Dan lywodraeth Cromwell, bu Llandaf heb esgob, ond nid heb weinidog. Bu personau yn pregethu yn yr Eglwys gyda chyssondeb ar y Suliau; ond nid oeddynt wedi eu hurddo gan ddynion; etto os oeddynt wedi eu neillduo gan Dduw, yr oeddynt yn ddigon addas i bregethu hyd y nod mewn Eglwys Gadeiriol. Bu'r Parch. Henry Nicholas yn gweinidogaethu yma am beth amser; ac ar ei ol ef, daeth Watkin Jones a Rhys John Dafydd, y ddau o Fynydd Islwyn.

49. *Hugh Lloyd* a gyssegrwyd yn esgob gyntaf ar ol coroni Charles II. Urddwyd ef Rhagfyr 2, 1660. Brodor o sir Aberteifi oedd hwn, wedi ei addysgu yn Ngholeg Oriol, Rhydychain. Yr oedd yn Rector Llangattwg, sir Frycheiniog, yn 1688; ond colodd ei le dan Cromwell. Bu farw yn Ionawr, 1667, a chladdwyd ef yn Llandaf.

50. *Francis Davies*.—Yr oedd hwn yn offeiriad yn Llangan, Morganwg, yn amser Charles I., ac wedi ei raddio yn B.D. Diswyddwyd ef yn amser Cromwell, a bu yn lled gyfyng arno; ond trwy ddylanwad rhai cyfeillion, cafodd fyned yn gaplan teuluaidd i Iarlls Peterborough. Cafodd ei fywiolaeth yn ol yn amser Charles II., ac yn 1661, gwnaed ef yn archddeacon Llandaf. Yn 1667, graddiwyd ef yn D.D., ac urddwyd ef yn esgob. Brodor o Forganwg oedd hwn, ac ystyrid ef yn un o'r dynion duwiolaf, a mwyaf llafurus. Bu farw yn 1674, a chladdwyd ef yn Eglwys Llandaf.

51. *William Lloyd*, mab Edward Lloyd, M.A., Rector Llangower, sir Feirionydd. Pennodwyd W. Lloyd yn gaplan i Charles II.; a dyrchafwyd ef i esgobaeth Llandaf, Ebrill 6, 1675. Bu hwn yn llafurus iawn gyda'r Gymdeithas gyntaf a sefydlwyd er cyfranu addysg, a dosparthu llyfrau yn Nghymru, yn iaith y bobl. Argraffwyd 8,000 o Feiblau, a 42,000 o Destamentau, a 890 o'r llyfr "Holl Ddyledswyddau Dyn;" a bu efe a llaw yn y gwaith hwn. Gomeddodd ef wneyd y llw arferedig i William a Mari, ar eu hesgyniad i'r orsedd, ac felly colodd ei swydd fel esgob yn 1689. Bu farw yn 1710, a chladdwyd ef dan glochdy Eglwys Hamersmith, Llundain.

52. *William Bean*, a gyssegrwyd yn 1689; bu farw yn 1705 yn 90 oed.

53. *John Tyler*, deon Henffordd, a urddwyd yn esgob Llandaf yn 1706. Gosododd hwn yr esgobaeth ar safon fwy llwyddiannus nag y bu am oesoedd; trwy ychwanegu ei chyllid agos yn ddyblyg. Yr oedd yr adeilad mewn sefyllfa druenus yn ei amser ef. Yn 1717, gwnaed cynnygiad i symmud yr Eglwys esgobol i Gaerdydd; am fod yr hen adeilad mor wael. Yn 1722, syrthiodd y Twr De-orllewinol yn garn i'r llawr. Bu yr esgob hwn farw yn 1724.

54. *Robert Clavering*, Oanon Eglwys Crist, Rhydychain, a urddwyd yn esgob Llandaf yn 1724; a ddyrchafwyd i esgobaeth Peterborough yn 1728; bu farw yn 1748. Efe oedd awdwr "Moses Marmonedes."

55. *John Harris*, Cor-beriglor Canterbury, a urddwyd yn esgob yma yn 1729. Yn 1780, casglwyd £7,000 at adgyweirio yr adeilad. Rhoddwyd y gwaith allan i un o'r enw Wood; yr hwn yn lle adgyweirio yr

hen adeilad, a dynodd ran fawr o hono i lawr; ac a adeiladodd fath o Eglwys o arddull Italaidd o fewn yr hen furiau; gan anurddo mwy ar y lle na dim arall. Bu Harris farw yn 1788.

56. *Mathew Mawson*, athraw Coleg Corpus Christi, Caergrawnt, a urddwyd yn esgob yn 1788; symmudwyd ef o Landaf i Chichester yn 1740, ac oddiyno i Ely yn 1754. Bu farw yn 1770.

57. *John Gilbert*, deon Henffordd a chanon Christ Church, Rhydychain, a urddwyd yn esgob Llandaf yn 1740. Symmudwyd ef i Salisbury yn 1748, a dyrchafwyd ef yn archesgob York yn 1757. Bu farw yn 1761.

Yr oedd Ysgolion Symmudol y Parch. Griffith Jones, Llanddowror, mewn bri mawr yn amser hwn, ac yr oedd y rhai canlynol yn Morganwg:—Gelligaer, dan ofal P. Thomas, Curad; Llantrisant a Llanwynno, dan ofal R. Harries, Ficer; Llangyfelach, J. Price, Ficer; Aberdar, D. Jones, Ficer; Tregolwyn, D. Protheroe, Ficer; Tythegstone, John Thomas, Ficer; St. Bride's, John Charles, Ficer; Eglwys Ilan, L. Rogers, Curad. Yr oedd yr ysgolion hyn mewn bri yn 1742.

58. *Edward Cresset*, Deon Henffordd, a urddwyd yn esgob Llandaf yn 1749. Bu farw yn 1755. Yr oedd yn awdwr cyfrol o bregethau.

59. *Rubard Newcombe*, Canon Windsor, a urddwyd yn esgob Llandaf yn 1755; a symmudwyd i Lanelwy yn 1761; bu farw yn 1769.

60. *John Ever*, Canon Windsor, a urddwyd yn esgob Llandaf yn 1761; a symmudwyd i Fangor yn 1768; marw yn 1774.

61. *Jonathan Shepley*, Deon Westminster, a urddwyd yn esgob Llandaf yn 1769; a symmudwyd i Lanelwy yr un flwyddyn; ac a fu farw yn 1789.

62. *Yr Anrhydeddus Shute Barrington*, Canon St. Paul, a urddwyd yn esgob Llandaf yn 1769; a ddyrchafwyd i Salisbury yn 1782; ac i Durham yn 1791; bu farw yn 1826. Yr oedd yn awdwr galluog.

63. *Richard Watson*, archddeacon Ely, a urddwyd yn esgob yn 1782. Yr oedd hwn yn wr galluog iawn. Efe oedd awdwr "Apology for the Bible," mewn atebiad i T. Paine; ac "Apology for Christianity," mewn atebiad i Gibbon, awdwr "Decline and fall of the Roman Empire." Ystyriai ei wrthwynebwyd ef y galluocaf a ddaeth allan i'w herbyn. Bu farw yn 1816.

64. *Herbert March*, Profeswr Duwinyddiaeth yn Cambridge, a urddwyd yn esgob Llandaf yn 1816; a symmudwyd i Peterborough yn 1819; bu farw yn 1839.

65. *William Van Wilbert Regius*, Profeswr Duwinyddiaeth yn Rhydychain, a urddwyd i'r esgobaeth yn 1819; a symmudwyd i Durham yn 1826; bu farw yn 1886.

66. *Charles Richard Sumner*, Corberiglor Caergaint, Llyfrgallydd, a Chofiadur y brenin, &c., a urddwyd yn esgob yn 1826; a ddyrchafwyd i Winchester yn 1827.

67. *Edward Copleston*, Deon St. Paul, Llundain, Cymrawd (*Fellow*) a Chynfaer Coleg Oriol, Rhydychain; a Phroffeswr Barddoniaeth yn yr unrhyw, a urddwyd yn esgob yn 1827; bu farw yn 1849. Yr oedd yn awdwr gwych, ac yn ysgolhaig ardderchog. Yn ystod swyddogaeth

hwn y dechreuwyd ar y gwaith mawr a phwysig o adgyweirio ac adferu yr Eglwys, yn deilwng o'r enw Eglwys Gadeiriol. Dechreuwyd y gwaith yn 1889, gan y Canon Douglas, yr hwn a adgyweiriodd ffenestr ddwyreiniol Capel y Forwyn. Gorphenodd y Canghellydd Bruce Knight adgyweirio y Capel hwnw yn 1842.

Yn 1848, darfu i'r "Ecclesiastical Commissioners," bennodi Bruce Knight yn Deon Llandaf, yr hon swydd oedd wedi bod yn wag oddiar amser yr esgob Urban. Gwr o'r enw Ensi fu yn y swydd olaf yn 1120, hyd bennodiad y Deon Knight yn 1848. Wrth gyflwyno Tysteb i'r Deon newydd, awgrymodd y Parch. George Thomas, yr hwn oedd wedi cyfranu yn helaeth at adgyweirio Capel y Forwyn y buasai yn briodol ddigon i gario allan yr adgyweiriad nes gorphen adferiad yr holl adeilad. Hoffwyd yr awgrymiad, dechreuwyd tanysgrifio yn haelionus at y gwaith, ac wedi cael swm dda i law, aed yn mlaen a'r gwaith. Pennodwyd Mr. Prichard yn Archadeiladydd (*Architect*) ac un Williams yn adeiladydd. Aeth y Deon Bruce Knight a'r gwaith yn mlaen hyd ei farwolaeth yn 1845. Canlynwyd ef i'r swydd gan y Deon Conybeare; yr hwn yn ychwanegol at ei wybodaeth Dduwinyddol, ydoedd yn deall adeiladwaith yn gampus. Dygwyd y gwaith yn mlaen dan ei ofal ef, hyd farwolaeth yr esgob Copleston yn 1849.

68. *Alfred Olivant*, D.D., Proffeswr Duwinyddiaeth yn Ngholeg y brenin, Cambridge, a urddwyd yn esgob yn 1849, ac efe sydd yn y swydd yn bresenol (1874). Aed yn mlaen a'r adferiad wedi urddiad Dr. Olivant, dan ofal Deon Conybeare, hyd 1857, pryd yr oedd £9000 wedi eu treulio at yr adeilad. Yn y flwyddyn hono bu esgob Rhydychain yn pregethu yma, gydag hyawdledd melus; ac yn annog i fyned a'r gwaith yn mlaen hyd ei orpheniad. Yn fuan ar ol hyn, bu farw y Deon Conybeare; ac etholwyd y Parch. Thomas Williams yn ei le. Cariodd y Deon Williams y gwaith yn mlaen nes ei orphen yn anrhydeddus. Bu'r esgob Wilberforce o Rydychain yn pregethu yr ail waith yn Llandaf, Gor. 18, 1869; a chafwyd adroddiad manwl o'r holl gyfrifon mewn cyseylltiad a'r adeilad, gan y Deon Williams, yr hwn a ddywedai fod yn llawen ganddo hyspysu na chafodd y gwaith sefyll o'r dechreu o ddiffyg trysorfa, er fod y swm o £80,000 wedi eu treulio er dwyn yn mlaen y gwaith.

Yr un yw maint yr Eglwys ag oedd hi o'r blaen, sef 270 troedfedd o hyd. Lled corff yr Eglwys 65; lled y cor 65 gyda'i rodfeydd; 85 heb y rhodfeydd; maint y Capel dwyreiniol 50 wrth 25. Uchder y Twr, hyd nes y dechreua fyned yn bigfain, yw 104 troedfedd; i'r top 195 troedfedd a 7 modfedd. Yn rhan isaf y Twr, y mae tair delw yn gerfiedig, un yn cynnrychioli St. Pedr, yr ail St. Paul, a'r trydydd yr esgob Olivant. Mae tufewn yr Eglwys wedi ei orphen yn ardderchog, —mae gorsedd yr esgob yn gerwaith celfydd; y cerfiadau yn ddychymygiad o'r Arglwydd Iesu yn gorchymyn i'r apostolion i fyned i bregethu i'r holl fyd,—Paul yn pregethu yn Athen,—Crist yn gorchymyn i Pedr, "Portha fy nefaid," &c. Mae'r cor, *stall* y Deon, pedair *stall* ereill, y pwlpid, &c., yn hynod gelfydd a chywrain. Cofier mai *adgyweirio* yr Eglwys wnaed, ac nid ei hail-adeiladu; ac

y mae yr adeilad presenol yn edrych fel *patchwork* y tuallan; yn cynwys gwahanol arddulliau perthynol i wahanol gyfnodau; a cheir rhanau helaeth o'r hen Eglwys a godwyd yn 1120, yn sefyll yn awr.

Cynnwysa yr esgobaeth siroedd Mynwy a Morganwg, oddieithr Gwyr a Browyr, y rhai ydynt yn esgobaeth Ty Ddewi. Rhifedi plwyfi esgobaeth Llandaf ydynt 77. Swyddogion yr Eglwys ydynt Esgob, Deon, dau Archdeon, Canghellydd, Trysorydd, Canoniaid, Blaengeiniad, a naw cor beriglor, y rhai a fiurfiant y glwysgor. Wedi adferiad yr Eglwys, adferwyd y gwasanaeth dyddiol hefyd, a phob peth arall fel mewn Eglwysi Cadeiriol ereill. Yn y ddinas, y mae amryw adeiladau gwychion iawn, megys Palas yr Esgob, Deondy, Canondy, dau Is-ganondy, Ysgoldy Cenedlaethol, adeilad gwych, Ysgol Elusengar Howell, a sefydlwyd gan Thomas Howell, yr hwn a fu farw yn Spain yn 1540. Sefydliad i adfer merched drwg, yr hwn a agorwyd yn 1862, a lluaws o dai gwychion ereill. Yn 1867, adeiladwyd "The Landaff Men's Club and Reading Rooms" yr hwn ay'n adeilad prydferth. Cynnelir ffair yn y ddinas, Chwef. 9, a Llun Sulgwyn.

Mae dau gapel gan y Wesleyaid, ac un gan y Methodistiaid yn y lle, heblaw capeli Canton; yr hon sydd faesdref fawr yn perthyn i Gaerdydd, yn y plwyf hwn. Maint yr holl blwyf yw 4,852 erw; rhif y tai yn 1861 oedd 1,692; tai yn 1871, 2,188. Pobl yn 1861, 6,586, yn 1871, 11,922.

Mae yn yr Eglwys luaws o gofgolofnan hynafol iawn, ond ni enwir yma ond ychydig, megys cofeb Christopher Mathews, yr hwn oedd yn 6 troedfedd a 2 fodfedd o daldra, ac yn rhyfelwr dewr yn amser y rhyfeloedd cartrefol; hefyd am David Mathews a'i wraig; Delw William de Breos, yr hwn a gladdwyd yn 1287. Colofn yr esgob Pascal, a fu farw yn 1861; eiddo Syr William a Jane Jenetta Mathews, 1520, &c. Mae yma groes hynafol hefyd wedi ei hadferu yn ddiweddar.

LLANDEILO FERWALLT, (*Bishopstone*).—Plwyf yn nghanantref, a dosparth llys sirol Abertawy, undeb Gwyr, deoniaeth Gwyr, esgobaeth Ty Ddewi. Mesura'r plwyf 2,887 erwi, pris ardrethol yr hwn yw £2088. Rhif y tai 104. Pobl yn 1861, 418, yn 1871, 457. Saif Eglwys y plwyf tua 6 milldir o Abertawy, a dwy o'r Mumbles. Rectoriaeth yw'r fywiolaeth gwerth £248 y flwyddyn, yn nawdd a rhodd yr esgob. Bu yr enwog Edward Davies, awdwr y "*Celtic Researches*," a'r "*Mythology of the British Druids*," yn rector yma am amryw flynyddau.

LLANDEILO TALYBONT.—Plwyf yn nghanantref, undeb, a dosparth llys sirol Abertawy, deoniaeth Gwyr uchaf, archddeoniaeth Caerfyrddin, esgobaeth Ty Ddewi. Mae sefyllfa'r plwyf yn nghwr gorllewinol Morganwg, ar lan afon Lluchwr, deuddeg milldir a hanner i'r gogledd-orllewin o Abertawy, saith i'r gogledd-ddwyrain o Lanelli, a 288 o Lundain, gyda chleddrffordd y G. W. R. o Lanelli. Pan draws-feddiannwyd Gwyr a Bro Wyr gan y Normaniaid yn 1099, dechreuasant adeiladu lluaws o gestyll cryfion, er amddiffyn eu hunain, a chadw gafael o'r yspail. Yn eu plith, adeiladwyd y Castell Du yn y plwyf hwn. Norman o'r enw Hugh de Myles oedd yn byw yn y castell hwn

yn y flwyddyn 1215; pryd yr ymosodwyd arno gan Rys Ieuanc, Arglwydd Dinefwr, ac fe'i llosgodd hyd lawr. Un o hiliogaeth Rhys ab Tewdwr oedd Rhys Ieuanc o du ei dad, ond yr oedd yn Norman o du ei fam, gan ei fod yn fab i Mallt merch William de Breos, Arglwydd Brycheiniog. Ychydig o hanes y castell sydd ar gael. Mae ei adfeilion i'w gwled yn bresenol. Bernir mai Teilo esgob Llandaf yn y 6fed ganrif, a sylfaenodd Eglwys yma gyntaf, ond y mae yn amlwg ei bod wedi ei hadeiladu droion ar ol hyny. Yr oedd yr adeilad wedi myned yn lled adfeiliedig yn 1850, ac ar rai adegau, yr oedd yn anhawdd myned iddi gan lanw yr afon; ac felly penderfynwyd adeiladu Eglwys newydd, yr hon a gyssegrwyd Hydref, 1851. Mae hon yn Eglwys hardd, yn yr arddull gothig, ac yn cynnwys corff, canghell, a thwr uchel, ac un gloch. Yn yr hen Eglwys y mae bedd-adeiladau gwychion o fynor gwyn, er cof am Cadben Jenkins, a W. Gronw, Ysw. Cynnelir gwasanaeth dair gwaith yn y flwyddyn yn yr hen Eglwys, heblaw y gwasanaeth claddu yn achlysurol. Dyddia coflyfr yr hen Eglwys o'r flwyddyn 1662. Tuag ugain mlynedd yn ol, cafwyd llechfaen mynor yma, ac arno gerfiad er cof am un o deulu Goronwy, yn dwyn y blwyddiad 1025. Cefais hyn o hyspysiad gan y Parch. J. E. Jenkins. Ficeriaeth yw'r fywiolaeth Eglwysig, gwerth £195 y flwyddyn; yn nawdd Hywel Gwyn, Ysw.

Yn y plwyf hwn y mae pentref Pontarddulais, lle mae gorsaf ar Reilffordd Abertawy a Llandeilo, a elwir Victoria Railway, ar hyd yr hon y rhed peiriannau y London & North Western Railway. Agorwyd y gangen hon o Abertawy Rhagfyr, 1867. Cyn cyfnod y rheilffyrdd, a chyn gwneyd pont Cas'lwehwr, yr oedd y brif-ffordd rhwng Morganwg a Chaerffyrddin yn myned trwy'r pentref hwn, a thros Bont ar Ddulais, ac ar y ffordd hono y rhedai y *mail coach*, &c.

Tua'r flwyddyn 1862, gwawriodd cyfnod newydd ar y lle hwn, pryd yr agorwyd yma ddau waith glo; a lle bynag yr agorir glofa, y mae'r ardal yn sicr o gynnyddu. Adeiladwyd gwaith alcan hefyd y tu arall i'r afon yn Sir Gaerffyrddin, yr hyn a dynodd luaws i'r lle. Bu agoriad y gweithfeydd hyn yn achos i'r lle eangu a chynnyddu yn bentref mawr. Mae yma gapeli prydferth gan y gwahanol enwadau Ymneillduol, megys Capel Hope (A.), Goppa Fach (T.C.), Tabernacl (B.), a Chapel Wesleyaidd. Mae yma Ysgol Genedlaethol dda hefyd. Maint y plwyf yw 7,401 o erwi. Rhif y tai yn 1871, 319; yn 1871, 365. Poblogaeth yn 1861, 1,381; yn 1871, 1,700; cynnydd, 429.

**LLANDOCHWY'R BONTFAEN** (*Llandough*).—Plwyf yn nghantref y Bontfaen, undeb a dosparth llys sirol Penybont a'r Bontfaen, deoniaeth Gro-nedd, archddeoniaeth ac esgobaeth Llandaf. Saif yr Eglwys tua dwy filldir i'r de o Bontfaen, ac o fewn gardd Castell Llandoche. Yn ymyl y mae Llandough Cottage, eiddo etifedd C. R. M. Talbot, Ysw., A.S. Perchen y plwyf ac arlwydd y faenor yw Mr. Talbot, o Fargam, ac yn ei nawdd a'i rodd ef y mae'r fywiolaeth eglwysig, yr hon yn unol â Llan Fair y Bewpyr sydd yn werth £825 y flwyddyn. Derbyniodd y plwyf hwn ei enw oddiwrth Dochwy, yr hwn a ddaeth i'r wlad hon fel cenadwr Cristionogol yn yr ail ganrif; a barna rhai haneswyr

iddo blanu eglwys ac athrofa yn y lle hwn. Ychydig iawn o hanes palas neu gastell Llandoehwy sydd ar gael, ond y mae yn amlwg mai adeilad diweddar yw yr un presenol. Dywed Mr. Malkin (Vol. II., p. 558), i John Price, Ysw., ychwanegu llawer at yr adeilad ar ddechreu'r canrif presenol. Bu'r Parch. John Walters, awdwr y Geiriadur Seisnig a Chymraeg sydd ar ei enw, yn rector yma am fynyddau lawer. Mae'r Geiriadur hwnw wedi myned trwy dri argraffiad yn 1794, 1815, a 1828, ac etto nid oes modd cael copi o'r gwaith mawr hwn ar werth gan mor brin ydyw. Maint y plwyf yw 688 o erwi; rhif y tai, 27; poblogaeth yn 1861, 119; yn 1871, 112.

LLANDOCHWY PENARTH—Llandoche Fach (*Llandough*), sydd blwyf yn nghantrf Dinas Powys, undeb a dosparth llys sirol Caerdydd, deoniaeth ac esgobaeth Llandaf. Perchen y plwyf ac arlwydd y faenor yw Ardalydd Bute. Saif Eglwys y plwyf tua thair milldir i'r gorllewin o Gaerdydd, a dyfrheir rhan o'r plwyf gan afon Elai. Mae'r Eglwys wedi ei chyssegru i Dochwy Sant o Lydaw, yr hwn a sylfaenodd Gor neu Athrofa yma yn yr ail ganrif. Rectoriaeth yw'r fywiolaeth, wedi ei chysylltu â Llanfihangel y Pwll, Cogan, a Leckwith, a'r cwbl yn werth £180 y flwyddyn, yn rhodd Ardalydd Bute. Arwynebedd y plwyf yw 689 erw; rhif y tai, 48; poblogaeth yn 1861, 284; yn 1871, 198.

LLANDWF (*Landow*).—Plwyf yn nghantrf Glyn Ogwy, undeb a dosparth llys sirol Penybont-ar-Ogwy, esgobaeth Llandaf, tua phum' milldir i'r de-ddwyrain o Benybont, a thair milldir i'r de-orllewin o'r Bontfaen. Ffinir y plwyf gan blwyf Llysyfronydd, Tregolwyn, a'r Wig. Ystyrir Stembidge hefyd yn blwyf yn awr, er nad yw ond un ffarm, 37 o erwi, ac un tŷ yn y plwyf. Mae hwn hefyd yn ffinio â Llandwf. Tewdrig ab Teithfallt, Tywysog Morganwg, sylfaenodd Eglwys Gristionogol yma gyntaf, ac nid oes un lle o addoliad ond yr Eglwys yn y plwyf. Rectoriaeth yw'r fywiolaeth, gwerth £266 y flwyddyn, yn nawdd a rhodd Coleg Iesu, Rhydychain. Mae ysgol bentrefol yn y plwyf, yn cael ei chynnal dan nawdd y rector. Arwynebedd y plwyf hwn yw 1,086 o erwi: rhif y tai, 20; poblogaeth yn 1861, 188; yn 1871, 117.

LLANDYFODWG, neu Eglwys Glyn Ogwy.—Plwyf eang mewn ardal fynyddig a diffwrth, ar lan afon Ogwy Fechan, yn nghantrf Glyn Ogwy, undeb a dosparth llys sirol Penybont-ar-Ogwy, deoniaeth Gronedd Uchaf, esgobaeth Llandaf, a thuag wyth milldir i'r gogledd o Benybont. Sylfaenwyd Eglwys yma yn fore gan Dyfodwg, sant o Gor Illtyd, yn y 6ed ganrif, ac iddo ef y mae'r Eglwys wedi ei chyssegru. Mae ar fynyddau y plwyf hwn amryw Garneddau, y rhai ydynt feddrodau dewrion yn ol pob tebyg. Mae yr enw Gadlys ar un o amaethdai y plwyf, yn awgrymu fod rhyfeloedd a brwydrau wedi bod yma yn y cynoesoedd; ond y mae tafod hanesiaeth yn fud iawn gyda golwg ar yr ymladdfeydd fu yma. Perchenogir y rhan fwyaf o'r plwyf yn yr oes hon gan deulu Turberville, ac yn nawdd a rhodd y teulu hwn y mae'r fywiolaeth Eglwysig, yr hon sydd ficeriaeth gwerth £127 y flwyddyn. Yr oedd y ficer gynt yn arfer byw yn y Ficerdy; ond yn Garth Hall, Pontypridd, y preswylia'r ficer yn awr.

Gwr o'r plwyf hwn oedd y bardd Lewis Hopkin, awdwr y llyfr a elwir "Y Fel Gafod." Mae amryw o ganeuon L. H. yn profi yn eglur ei fod yn fardd gwych, ac yn wr o foesoldeb uchel. Dyma enghraifft o'i waith, sef Hir a Thoddaid i Hen Bontypridd:—

Gwelwn hoff rodfa gwiwan a phrydferth,  
 Gau arch llun enfys, goruwch llyn anferth;  
 Gofid i'th orphen gafwyd a thraferth;  
 Gwawl lefn a chilgryf, golofn uchelgerth;  
 Ganllawiau, muriau mawrwerth—ay drosodd,  
 Gwlwm a barodd GWILYM AB IORWERTH.

Fe wel y cyfarwydd fod cryn gamp ar y pennill hwn.

Ychydig a diwerth yw yr hanes a gawsom o'r plwyf hwn yn ei gyfnod boreuol ac amaethyddol; ond bellach, y mae cyfnod newydd wedi gwawrio arno er ys amryw flynyddau. Mae'r plwyf hwn, fel holl blwyfi *mynyddig* Morganwg, yn gyfoethog o drysorau cuddiedig, y rhai sydd wedi cael llonydd i lechu yn eu coffrau o'r dechreuad hyd yr oes hon. Ie, oes ryfedd iawn yw hon am gloddio i seleri Morganwg, i chwilio am y glo. Yr oedd yn hyspys i ddaiaregwyr, &c., er ys blynyddau lawer, fod mynyddau Llandyfodwg yn llawnion o lo; ond yr oedd yr anhawstra o fyned ato a'i gludo ymaith yn fawr iawn. Pa fodd bynag, tuag at ddwyn hyn oddiamgylch, fe ffurfiwyd cwmni yn 1868 er gwneyd rheilffordd i fyni i'r plwyf hwn o Benybont. Gwnaed y llinell, ac agorwyd glofeydd yn uchel yn Nghwm Ogwy, a chafwyd yma lo rhagorol. Yn 1864, hyspyswyd yn y *London Gazette* y bwr-iedid appello at y Senedd am *Act* i helaethu y rheilffordd hono, trwy gychwyn cangen o Felin Ifan Ddu, a elwir y Felin Ddu, heibio Eglwys Llandyfodwg, ac yn groes i'r plwyf, er uno â Rheilffordd Glyn Elai, ac er cyssylltu glofeydd y plwyf hwn, &c., â Chaerdydd. Ni wnaed nemawr gyda siarad am y gwaith hwn hyd y flwyddyn 1871, pryd yr ymosodwyd arno o ddifrif, ac y mae yn fantais fawr i'r plwyf yn gyffredinol. Arwynebedd y plwyf yw 6,508 o erwi. Rhif y tai yn 1861, 58; yn 1871, 179. Poblogaeth yn 1861, 254; yn 1871, 1,028. Dim ond ychydig o'r gwythieni uchaf weithir yma yn awr, sef glo tai; tra y mae yr holl wythieni glo ager islaw iddynt yn gyfan i gyd, fel y mae yma ddiog o lo am ganrifoedd.

**LLANDEWY.**—Plwyf a phentref bychan yn nghantref a dosparth llys sirol Abertawy, undeb Gwyr, deoniaeth Gwyr orllewinol, archddeoniaeth Caerfyrddin, esgobaeth Ty Ddewi, tair milldir ar ddeg i'r gorllewin o Abertawy. Maint y plwyf yw 1,858 o erwi; tai, 29; poblogaeth yn 1861, 149; yn 1871, 141. Yn y flwyddyn 1820, dechreuodd yr Esgob Gower adeiladu castell gwych yn y plwyf hwn i fod yn balas esgobol perthynol i esgobaeth Ty Ddewi. Yn 1874, darfu i'r Esgob Holton, olynnydd Gower, orchymmyn tynu y castell i lawr a gwerthu y defnyddiau. Ymddengys, pa fodd bynag, na chafodd ei lwyf dynu i lawr, oblegyd y mae rhanau o hono yn aros yn awr, ac yn cael ei ddefnyddio yn dŷ fferm.



**LLANEDYRN (Llanedarn).**—Plwyf yn nghantrf Cibwr, undeb a dosparth llys sirol Caerdydd, deoniaeth, arohddeoniaeth, ac esgobaeth Llandaf, ar lan afon Rhymini, a phum' milldir o Gaerdydd. Dywed y "Cofnodion Cymreig" mai Edeyrn ab Gwrtheyrn wnaeth Llanedyrn, a Chor i 800 o saint. Nid yw Eglwys y plwyf ond un fechan, ddi-addurn, gyda chlochdy a phump cloch. Ficeriaeth yw'r fywiolaeth yn unol â St. Melons, Mynwy, a'r ddwy yn werth £160 y flwyddyn, gyda Ficerdy a 80 erw o dir Eglwys, yn nawdd a rhodd Esgob, Deon, a Glwysgor Llandaf, bob yn ail. Maint y plwyf yw 2,686 o erwi; gwerth ardrethol, £2,225. Rhif y tai, 68. Poblogaeth yn 1861, 289; yn 1871, 818. Mae capel gan y Methodistiaid yn Mhen-y-groes yn y plwyf hwn, a chynnulliad lled lucosog.

**LLANFABON** sydd blwyf yn nghantrf Caerffili, undeb a dosparth llys sirol Pontypridd, esgobaeth Llandaf. Cynnwysa'r plwyf 5,869 o erwi; *valuation*, £8,196. Poblogaeth yn 1841, 1,928; yn 1861, 2,860; yn 1871, 2,262. Tai yn 1861, 1,429; yn 1871, 1,794. Mae Eglwys y plwyf wedi ei chyssegru i Mabon Sant, brawd Teilo, a bernir mai efe a'i sylfaenodd gyntaf yn y 6ed ganrif. Ail-adeiladwyd hi gan Meinarch ab Milfrid yn amser Grecielis, Esgob Llandaf, a Meurig ab Ithel, Tywysog Morganwg. Tua'r flwyddyn 1850, adeiladwyd Eglwys newydd hardd iawn yma yn lle ac ar y fan y safai yr hen un. Ficeriaeth yw'r fywiolaeth, yn rhodd Esgob Llandaf, ac y mae swm degwm y plwyf tua £400, a chyflog y ficer yn £120. Saif yr Eglwys tua phedair milldir i'r gogledd-ddwyrain o Bontypridd, a thua dwy filldir i'r dwyrain o *Aberdare Junction*, ar Reilffordd Cwm Taf. Mae'r holl blwyf yn gorwedd rhwng afonydd Taf a Rhymini, y rhai a'i ffiniant ar y tu gorllewinol a dwyreiniol; tra mae plwyf Merthyr Tydfil a Gelligaer yn ogleddol iddo, a phlwyf Eglwys Elian yn ddeheuol. Mae'r plwyf wedi ei ranu yn ddau ddosparth (*hamlets*), y rhai a elwir Gafael y Garth a Gafael Glyn Rhymini; ac yn ddiweddar, cyfrifir ardaloedd Mynwent y Crynwyr, Navigation, Ystrad Mynach, a Chraig y Berthlwyd yn *hamlets* yn y plwyf hwn. Mae rhanau helaeth o'r plwyf yn lled fynyddig, tra mae Ystrad Mynach (Meinarch) gyda glan afon Rhymini yn wastad a frwythlawn. Mae dwy Eglwys ddosparthol yn y plwyf hwn heblaw Eglwys Mabon, sef Eglwys y Drindod ac Eglwys St. Cynon. Mae Eglwys Ystrad Mynach yn adeilad gwych ac eang, yn sefyll mewn llanerch swynol yn mharth dwyreiniol y plwyf, ar lan afon Rhymini, ac Eglwys Cynon ger Navigation, ar lan afon Taf.

*Mynuwent y Crynwyr* sydd bentref cryno yn sefyll ar du gogledd-orllewinol y plwyf, ar lan afon Taf, ger y fan yr abera afonig Bargoed Fawr iddi. Derbyniodd y lle ei enw oddiwrth fynwent fechan sydd yn y lle, maint yr hon yw 50 troedfedd o hyd wrth 84 o led. Cafodd y fynwent hon ei gwneyd tua'r flwyddyn 1670 neu 1680. Yr oedd yn byw y pryd hwnw yn Nghefn y Fforest, amaethdy yn mhlwyf Merthyr Tydfil, ac iddo dyddyn o 209 o erwi, foneddiges gyfoethog o'r enw Lydia Fell, ac ymddengys mai hi oedd perchen rhanau uchaf plwyf Llanfabon. Yr oedd y foneddiges hon yn aelod crefyddol gyda'r Crynwyr, ac yn arfer myned i Flaen Canaid, ger tref Merthyr, i gyd.

addoli a'r gynnulleidfa gymmysg a arferent addoli yno. Gan mai hi oedd perchen gogleddbarth Llanfabon, a bod angen lle claddu ar y Crynwyr, hi a roddodd ddarn o dir at wneyd mynwent, ac adeiladwyd mur o'i hamgylch tua chwech troedfedd o uchder, a drws i fyned i mewn yn y pen deheuol yn bump troedfedd o uchder a thair o led. Bu cyfarfodydd pregethu yn cael eu cynnal yn y fynwent hon deirgwaith yn y flwyddyn am amser maith; ond gan nad oes nemawr un o'r Crynwyr yn yr ardaloedd bellach, y mae yr arferiad wedi ei roi heibio er ys blynyddoedd. Yn y fynwent hon y claddwyd Lydia Fell, ond y mae ei beddfaen wedi ei dori, fel na ellir gweled blwyddiad ei chladdedigaeth. Ar un o'r beddau sydd yn y fynwent y mae caredg a'r cerfiad canlynol:—"Memory of Thomas Edmunds, who died April 1st, 1802, aged 60 years. Also Mary Edmunds, died January 4, 1810, aged 79 years." Mae'r fynwent mewn cae yn ymyl y pentref, ac nid oes nemawr ond dyeithriaid yn ymweled â hi. Pan wnaed y *Glamorgan-shire Canal* rhwng Caerdydd a Merthyr yn 1791—8, gwnaed noffe (*basin*) i lwytho a dadlwytho badau yn y plwyf hwn ychydig yn ddeheuol i'r fynwent, a bu hyn yn foddion i ychydig dai gael eu hadeiladu yma, yr hyn oedd ddechreuad y pentref, ac y mae wedi cynnyddu llawer oddiar hyn. Yn 1838, adeiladodd yr Annibynwyr gapel bychan yn y lle, a galwyd ef Libanus. Aeth y ty hwnw yn rhy fach i gynnal yr achos, trowyd ef at ddyben arall, ac adeiladwyd capel cyfleus, sef y Libanus presenol, yn 1858. Cynnelir ffair yn y pentref hwn Mawrth y Sulgwyn.

*Pentref y Nelson* a saif tua milldir i'r gogledd oddiwrth yr Eglwys, ac yn ymyl Gorsaf Llancaiach (Glan Caiach) ar Reilffordd y Great Western, cangen y West Midland. Enw cyntefig y lle hwn oedd Ffos y Gerdinen, a phan ddechreuwyd agor glofeydd Glan Caiach, yn mhlwyf Gelligaer, yn ymyl y Ffos, dechreuwyd adeiladu anneddau i'r gweithwyr yma hefyd, ac yn ychwanegol codwyd tafarn, ac enwyd ef yn Lord Nelson. Bob yn ychydig, collodd y rhan flaenaf o'r enw, a gelwid ef y Nelson, ac y mae'r pentref wedi cael ei enw oddiwrtho. Mae hwn yn bentref prydferth, poblog, a glân, a'r tai gan mwyaf yn dda. Mae Ysgoldy Cenedlaethol hardd yn y pentref hwn, gyda dau gapel,—Penuel (A.), 1857, ac Ebenezer (T.C.), 1882. Capeli ereill y plwyf ydynt, Ystrad Mynach (T.C.), 1810; Horeb (W.), Mynwent y Crynwyr; Capel y Berthlwyd (B.), 1841; Trefnyddion Henafol, Ystrad Mynach. Mae Ysgol Eglwysig yn cael ei chynnal yn Ystrad Mynach hefyd.

Yn mynwent Llanfabon y claddwyd yr enwog T. Williams (Gwilym Morganwg), yn 1835, yn 56 oed.

"Ooh, gwel yma lech Gwilym—Morganwg,  
Mur gwiwnwyf llên edlym,  
Mwyn Brydydd, Derwydd deurym,  
Dirfawr oedd, darfu ei rym."

Mae prif swyddfa Camlas Morganwg yn y plwyf hwn yn y *Navigation House*; ac mae gorsaf yr Ystrad ar Reilffordd Rhymini yn y plwyf.

Yn 1870, oodwyd 16,804 o dunnelli o lo yn y plwyf. Mae'r haenau glo yn y plwyf hwn agos oll heb eu gweithio; ond credwn y daw cyfnod, y suddir pyllau dyfnion hyd wythieni glo rhwym a glo ager Llanfabon.

LLANFADOG (*Llanmadock*), sydd blwyf yn nghantref a dosparth llys sirol Abertawy, undeb Gwyr, deoniaeth Gwyr, esgobaeth Ty Ddewi; pymtheg milldir i'r gorllewin o Abertawy. Saif yr Eglwys, yr hon sydd wedi ei hail adeiladu yn ddiweddar, mewn man tra dymunol, yn nghwr gorllewinol Bro Gwyr; ac y mae'r fynwent yn cael ei chadw yn hynod drefnus. Bum yn yr Eglwys hon mis Ebrill 1867; ac yr oedd yn amlwg fod ei defodau yn hynod Babyddol. Yr oedd croes, tebyg i groes aur, tua dwy droedfedd o hyd yn y ganghell; a gwisgai yr offeiriad ei *wing fraith, &c.*, wrth gyflawni y gwasanaeth, yn debyg i offeiriad Pabaidd. Rectoriaeth yw'r fywoliaeth, gwerth £112 y flwyddyn, yn nawdd a rhodd yr Arglwydd Ganghellydd. Cynnelir Ysgol Genedlaethol yn y plwyf dan reolaeth y rector. Mesura'r holl blwyf 6,727 o erwi; ond nid oes ond 1,220 o hono yn dir amaethyddol. Tir creigiog, a morfa tywodlyd yw'r gweddill; yn cael ei breswyllo gan filoedd o gwnngod. Ar *Fryn Llanmadog*, yr hwn sydd hynod greigiog, ac yn sefyll tua chwarter milldir i'r gorllewin o'r Eglwys, y mae gweddillion hen amddiffynfa, a godwyd yma gan y Daniaid, medd rhai, gan y Rhufeiniaid, medd ereill; ac y mae mor debygol mai amddiffynfa Gymreig oedd. Oddiar y twyn hwn, ceir golygfa gampus ar y morfa odditanodd, *bay* Caerfyrddin, y culfor rhwng Browr a Llanelli, gyda rhanau helaeth o sir Gaerfyrddin. Mae rhai hen garneddau hefyd ar y bryn hwn, a barnwn eu bod yma er y cyfnod Derwyddol. Mae ogof hynod yn y graig sy'n gwynebu'r môr dan y bryn, yn yr hon y cafwyd llawer o esgyrn gwahanol greaduriaid amryw flynyddau yn ol. Amaethwyr yw'r trigolion, ac yn ddisgynyddion o'r Flemings, a ymsefydlasant yma yn 1105; ac felly Seisneg yw eu hiaith. Rhif tai y plwyf ydynt 62; pobl yn 1861, 225; yn 1871, 178.

LLANFAES, neu Llanmaes, sydd blwyf yn nghantref y Bontfaen, undeb Penybont, dosparth llys sirol Penybont a'r Bontfaen, deoniaeth Gronedd Isaf, archddeoniaeth ac esgobaeth Llandaf. Hen enw Eglwys y plwyf hwn oedd Llan Ffagan Fach, am mai Ffagan Sant sylfaenodd Eglwys gyntaf yn y lle. Saif y plwyf hwn bedair milldir i'r de o dref y Bontfaen, nâw milldir i'r de-ddwyrain o Benybont, a milldir a hanner o Lanillyd Fawr. Pan ranwyd Morganwg rhwng y Marchogion Normanaid yn 1091, disgynodd y plwyf hwn i ran William le Estrading, yr hwn, yn ol pob tebyg, a adeiladodd Gastell Llanfaes. Perchen y lle cyn hyny oedd Caeron ab Hywel ab Egled; a'i arfbais oedd tri phorth aur yn agored. Ychydig o hanes y castell hwn sydd ar gael. Drylliwyd ef yn 1410 gan Owen Glyndwr, ac nid yw yn debyg iddo gael ei ail godi, oblegyd dywed Leland yn 1540, ei fod agos i gyd ar lawr y pryd hwnw. Yr Eglwys yw yr unig le o addoliad yn y plwyf, bywoliaeth yr hon sydd rectoriaeth, gwerth £294, yn nawdd a rhodd Ardalydd Bute, yr hwn yw arglwydd y faenor, a pherchen y rhan fwyaf o'r plwyf. Cynnelir Ysgol Genedlaethol

yma dan ofal y rector. Prif balasau y plwyf ydynt Picklestone House, Llanmaes House, a'r Persondy. Amaethwyr yw y rhan fwyaf o'r trigolion. Maint y plwyf yw 1,085 o erwi; rhif y tai, 40; pobl yn 1861, 164; yn 1871, 148. Priodolir y lleihad yn ystod y deng mlynedd diweddaf, i symmudiad gweision yr amaethwyr i'r glofeydd, &c., er cael mwy o gyflog. Cyfrifid y plwyf hwn yn un hynod iachus; ac y mae cofnodion ar lyfr yr Eglwys fod dynion yn byw yn hen iawn yma. Dyma enghraifft oddiar feddfaen:—"Ivan Yorath, buried Saturdaye, the xvii. of July, An. Dom. 1621, aetas circa 180. He was a soldier in the fight of Bosworth, and lived at Lantwit, and he lived muche by fishing."

LLANFAIR, neu Llanfair y Bewpyr.—*St. Mary Church.* Plwyf yn nghantref y Bontfaen, undeb Penybont, dospartb llys sirol Penybont a'r Bontfaen, deoniaeth Gronedd Isaf, adran ddwyreiniol, archddeoniaeth, ac esgobaeth Llandaf. Saif yr Eglwys, yr hon sydd wedi ei chyssegru i Mair, tua tair milldir i'r de o dref y Bontfaen; ar lan orllewinol afon Dawen, yn un o'r ardaloedd hyfrytaf yn Mro Morganwg. Rectoriaeth yw'r fywiolaeth Eglwysig, wedi ei chyssylltu ag eiddo Llandoche'r Bontfaen; a'r ddwy yn werth £325 y flwyddyn, yn nawdd C. R. M. Talbot, Ysw., A.S., yr hwn yw arlwydd y faenor, a pherchen yr holl blwyf. Cynnelir yma ysgol ddyddiol i addysgu plant y ddau blwyf. Maint y plwyf yw 727 erw, tai 29; pobl yn 1861, 119; yn 1871, 144.

LLANFEDWY.—Medwy oedd un o'r cenadau a anfonwyd gan y brenin Lleurwg i Rufain, at yr esgob Elidir, yn yr ail ganrif, i geisio pregethwyr i ddyfod i'r wlad hon. Wedi dychwelyd, planodd Medwy Eglwys ar lan orllewinol afon Rhymni, yn nghwr de-ddwyreiniol Morganwg. Yn Iolo MSS., 220, dywedir,—“Meudwy Sant a wnaeth Llanfedwy, yr hon Eglwys a losgwyd yn Rhyfel Iestyn ag nis ail gyweiriwyd fyth wedi hyny.” Yn y *Myf. Arch.* p. 697, ceir a ganlyn am y lle hwn:—“Oed Crist, 1069, aeth Caradawg ab Rhydderch ab Iestyn, a chydag ef lu cyfnerth o Normaniaid William Ffasterdd, yn erbyn Meredydd ab Owain brenin Deheubarth, a chad drom ar faes a fu rhyngddynt, lle y llas Meredydd, ac yna cael o Garadawg dywysogaeth Deheubarth, a'r frwydr honno a elwir Gwaith Llanfedwy, ac ar lan afon Elerch y mae'r lle y bu'r gad.”

Ymddengys mai yn y frwydr a gofnodir yma y llosgwyd Eglwys Llanfedwy, ac y mae'r plwyf heb un Eglwys oddiar hyny. Mewn amser diweddarach, unwyd y plwyf hwn a Llanfihangel-y-Fedw (*Llanfihangel Fedwy*) sir Fynwy; ac ystyrir y plwyf hwnw yn awr yn y ddwy sir, er fod afon Rhymni yn eu gwahanu. Cyfrifir y plwyf yn nghantref Gwentlwg yn bresenol. Saif tua 2 filldir i'r gogledd o Marshfield. Mae'r fywiolaeth yn werth £400 y flwyddyn, gyda 17 erw o dir Eglwys a phersondy; yn nawdd a rhodd Col. Charles John Kemys Tynte, o Gefn Mabli. Maint yr holl blwyf yw 8,488 o erwi; ac y mae 2,299 o'r cyfryw yn Morganwg. Rhif tai yr holl blwyf yw 100; ac y mae 68 o honynt yn Morganwg. Poblogaeth yr holl blwyf yn 1871, oedd 497; ac o'r cyfryw yr oedd 298 yn ochr Morganwg. O'r £400 a

delir i'r offeiriad, y mae £220 o honynt yn cael eu talu gan ranbarth Morganwg. Eir o un rhan i'r llall o'r plwyf yn groes i afon Rhymini, dros Bont Llanfedwy, a Phonty Cefnllwyd. Ardalydd Bute yw Arlwydd Maenor Llanfedwy; Argl. Tredegar yw Arlwydd Maenor Mihangel.

Yn rhanbarth Llanfedwy, y mae Castell Rupperra, yr hwn sydd adeilad gorwch; a adeiladwyd yn 1620, yn ol cynllun o eiddo yr enwog Inigo Jones. Yr oedd hen gastell yno yn flaenorol, lle y preswyliai Thomas Lewis, Uchel Sirydd, 1598. Yn y castell hwn yn bresenol, y preswylia yr Anrhydeddus Frederic Courtney Morgan; un o deulu Arglwydd Tredegar. Mae'r parc sydd o amgylch y castell hwn, yn un o'r rhai harddaf yn Morganwg.

Yn y parth hwn hefyd y mae palas gwych ac hynafol Cefn Mabli, preswylfa teulu y Kemeys am oesoedd, ac a breswylir yn bresenol gan y Milwriad C. J. Kemeys Tynte. Saif y palas hwn ar lewyn hyfryd, ar y tu deheuol i Nant Brechfa, a thu gorllewinol afon Rhymini, yn ngholwg y Bristol Channel, &c. Mae neuadd y palas wedi ei adeiladu ar ffurf T, gyda thri lle tan o fewn, y rhai sydd wedi eu cylchynu â gwaith celfydd mewn coed derw. Mae yn y palas oriel ddawnsio hefyd, ac ystafell offeiriad, gyda "thwll cyffesu" yn y drws; a defnyddid rhan arall o'r palas yn gapel yn y cynoesoedd. Yn un o'r ystafelloedd, y mae bwrdd mawr, wedi ei wneyd o un darn o bren, yn mesur 42 troedfedd ac 8½ modfedd o hyd, 2 droedfedd a 9 modfedd o led, a 6 modfedd o drwch; ac y mae darn arall 9 troedfedd o hyd yn gydiol a'r llall, yn gwneyd hyd y bwrdd yn 51 troedfedd ac 8½ modfedd, a'r cwbl wedi ei wneyd o un pren a dorwyd yn y parc. Mae yn y palas amryw gywreinion hynafol hefyd, megys coed gwelyau o amser y frenines Elizabeth, lluaws o hen arfau milwrol, a gwyr yfed anferth, yn mesur 8 troedfedd a 9½ modfedd. Dywed Malkin yr hanesydd mai o sir Benfro y daeth teulu Kemeys i'r lle hwn, ond eu bod yma cyn y 15fed ganrif. Yr oedd gan Syr Nicholas Kemeys o'r lle hwn, fil o wyr dan ei lywyddiaeth, yn ymladd yn erbyn Cromwell yn Mrwydr St. Ffagan; a phan orchfygwyd ef a'i gynghreiriaid yno, ffordd Syr Nicholas i Gasgwent (*Chepstere*), a bu yn ymladd yno â gwyr Cromwell am dair wythnos; ond gorohfygwyd ef gan y Milwriad Pride; a dywed rhai haneswyr iddo yntau gael ei roi i farwolaeth. Bernir i ran o fyddin Cromwell ymosod ar Gefn Mabli hefyd, oddiwrth y ffaith fod amryw belenau gynau wedi eu cael o bryd i bryd yn y ddaiar wrth aredig, yn nghymydogoeth y palas. Dengys Rhes y Siryddion fod y teulu hwn yn hynod anrhydeddus yn Morganwg trwy yr oesau.

LLANFTHANGEL (Llanmihangel) sydd blwyf bychan yn nghantref y Bontfaen, undeb Penybont, deoniaeth Gronedd, esgobaeth Llandaf. Saif y plwyf hwn 2 filldir i'r de o'r Bontfaen. Dywed y *Iolo MSS.* mai Begin Sant o Gor Illtyd a sylfaenodd yr Eglwys hon. Perchen y plwyf yn bresenol yw Iarll Dunraven; ac yn ei nawdd ef mae'r fywoliaeth Eglwysig, yr hon sydd rectoriaeth gwerth £142 y flwyddyn, gyda rectorcy.

Yn ymyl yr Eglwys, yr ochr arall i'r heol, y saif amaethdy Llanmihangel. Bu y ty hwn unwaith yn balas gwych iawn, a phreswylid

ef gan deulu anrhydeddus o'r enw Thomas ; yr olaf o'r cyfryw oedd Syr Robert Thomas, Barwnig, yr hwn a werthodd y lle i Humphrey Edwin, Ysw. Preswyliid ef yn 1800, gan John Franklin, Ysw., Baryfreithiwr. Mae ystafell yn y palas hwn, a ddefnyddid gynt yn garchar-gell, yr hon sydd dywyll ac anghysurus. Mae wedi ei adeiladu yn y fath fodd, fel y mae amryw risiau yn arwain i'w lofftydd ; ac etto, mae braidd yn anmhossibl i un dyeithr weithio ei ffordd o'r llofft i'r llawr heb arweinydd. Mae traddodiad wedi ei goleddu trwy yr oesoedd fod ffordd danddaearol o'r tŷ hwn i'r Eglwys, y tu arall i'r heol, a chlywais un o'r gweision yn haeru iddo fod yn yr Eglwys trwy y fynedfa danddaearol a nodwyd. Holais Mr. Jenkins y preswylydd presenol yn nghylch y peth ; a dywedai yn bendant nas gwyddai ef am y fath fynedfa. Maint y plwyf yw 586 erw ; tai 8 ; pobl yn 1861, 29 ; yn 1871, 88.

LLANFIIHANGEL-AR-ELAI (*Michaelstone-super-Ely*) sydd blwyf bychan, dim ond 291 o erwi o arwyneb, yn nghantref Dinas Powys, undeb a dosparth llys sirol Caerdydd, deoniaeth, archddeoniaeth, ac esgobaeth Llandaf. Mae'r Eglwys wedi ei chyssegru i Michael Sant, a saif ar lan afon Elai, tua phedair milldir a hanner i'r gorllewin o Gaerdydd. Mae'r Eglwys wedi ei hadeiladu yn hollol o'r newydd yn ddiweddar (tua'r flwyddyn 1860). Rectoriaeth yw'r fywiolaeth, yn unol ag eiddo Llansantffraid-ar-Elai, a'r ddwy yn werth £195 y flwyddyn, gyda phersondy. Rhif tai y plwyf yw 9. Poblogaeth yn 1861, 49 ; yn 1871, 42.

LLANFIIHANGEL-Y-PWLL (*Michaelstone-le-Pit*) sydd blwyf yn nghantref Dinas Powys, undeb a dosparth llys sirol Caerdydd, deoniaeth, archddeoniaeth, ac esgobaeth Llandaf. Saif Eglwys y plwyf tua phedair milldir i'r de-orllewin o Gaerdydd, milldir a hanner i'r gogledd o Dinas Powys, a milldir i'r gorllewin o Landoche Penarth. Mesura'r plwyf 790 erw, o'r hyn y mae 250 erw yn goet-tir. Yn y plwyf hwn y mae hen balas Court yr Ala. Preswylydd presenol y Court hwn yw George Gray Rouse, Ysw., Y.H., ac efe yw perchen yr holl blwyf. Yr Eglwys yw unig addoldy'r plwyf, yr hon sydd berigloriaeth gwerth £65 y flwyddyn, yn rhodd y Milwriad Rouse. Ceir enwau amryw o'r teulu hwn o Gwrtyrala yn mhlith Siryddion Morganwg. Rhif tai'r plwyf yw 19 ; poblogaeth yn 1861, 78 ; yn 1871, 100.

LLANFIIHANGEL YNYS AFAN (*Michaelstone-super-Avon*).—Gwel CWM-AFAN.

LLANFLEIDDIAN FAWR (*Llanblethian*).—Plwyf a phentref yn nghantref y Bontfaen, a dosparth llys sirol y Bontfaen, undeb Penybont. Saif y lle hwn tua milldir i'r dde o Bontfaen, ar lan afon Dawen, ac y mae sefyllfa anianyddol y fan yn un o'r rhai hyfrydaf yn Morganwg. Bernir mai Bleiddian (*Lupus*), cydymaith Garmon, a sylfaenodd Eglwys yma gyntaf, yn y 6ed ganrif. Mae'r Eglwys bresenol wedi ei chyssegru i Ioan Fedyddiwr, a saif ar fryn uchel a elwir *Llanblethian Hill*. O ymyl yr Eglwys, ceir golygfa ragorol ar y wlad o amgylch ; a dywed un boneddwr ar ol teithio'r Cyfandir, nad oes un man yn Ewrop a gwell golygfa na'r bryn hwn. Oddiar ei goryn gellir gwled



ef gan d  
 Syr J  
 E  
 di  
 d  
 I  
 le  
 m  
 (t  
 L  
 p  
 18  
 D  
 da  
 m  
 D  
 ph  
 y  
 G  
 E  
 £6  
 te  
 ph  
 AF  
 y  
 Sa  
 ma  
 Be  
 Eg  
 chy  
 Hi  
 a d  
 Ew





*Hampden Town,  
Maine, 1850.*



Welsh St. Donatts, Llan Fair, St. Hilari, Castell Penllin, a'r holl wlad i fyny hyd Lantrisant; tra y mae pentref Llanfeiddian, tref y Bontfaen, New Beaupre, &c., ar y gwastadedd yn ymyl. Ar y bryn hwn, ac yn y mwynhad o'r olygfa, y cyfansoddwyd y gân boblogaidd hono a elwir "*The Garden of Wales.*" Nid oes dim gwychder allanol yn perthyn i'r Eglwys; ond fel amryw ereill, cynnwysa gorff, caugell, a thwr gydag wyth cloch. Dyddia ei choflyfr o'r flwyddyn 1660. Perthyna hon i'r dosparth hynaf o Eglwysi, a bu Eglwys y Bontfaen yn gapel anwes dani. Yma y claddwyd Jenkin ac Elizabeth Llewelyn, rhieni yr enwog Syr Leoline Jenkins, hanes yr hwn a geir mewn rhan arall o'r llyfr hwn. Yn 1768, gan fod beddfuen J. a E. Llewelyn yn adfeilio, darfu i brif athraw ac aelodau Coleg Iesu, Rhydychain, dalu am gerfio gopi o'r coffadwriaeth ar ddarn o fynor teg, a'i osod o fewn yr Eglwys.

Yn ymyl yr Eglwys y mae bôn croes, yr hon, yn ol pob tebyg, a godwyd yma cyn amser Harri VIII. Mae amryw *dlarnau* o groesau yn Morganwg yn aros er y cyfnod Pabyddol, a chafodd y rhau fwyaf o honynt eu tori yn amser llywodraethiad Oliver Cromwell.

Ar fryn uchel, ar du dwyreiniol afon Dawen, ar gyfer Bryn Llanfeiddian, yr hwn sydd ar y tu gorllewinol, y saif gweddillion adfeilledig hen Gastell Llanfeiddian (*St. Quintine Castle*). Cafodd y castell hwn ei adeiladu yn 1091, gan Syr Robert de St. Quintine, i'r hwn y rhoddwyd y faenor hon ar ol y Goresgyniad Normanaidd. Ymosodwyd ar y castell hwn ddwywaith gan y Cymry, a hyny yn fuan wedi ei adeiladiad. Yr achos o'r ymosodiadau oedd, fod y Marchog Normanaidd hwn yn gomedd rhoi eu tiroedd yn ol i amryw o'r Cymry, tra yr oedd rhai o'r Normaniaid yn gwneyd hyny. Parhaodd y castell, pa fodd bynag, yn meddiant yr un teulu hyd amser Harri III., pryd yr aeth ar enw arall o ddiffyg etifedd gwrrywaidd. Aeth wedi hyny yn eiddo Ardal ydd Northampton.

Dinystriwyd y castell hwn gan fyddin Owen Glyndwr yn 1410, ac nid yw yn debyg iddo gael ei adgyweirio wedi hyny. Nid oes ond y porth dwyreiniol ac ychydig o'r muriau yn sefyll yn awr. Mae lled y porth yn ddeuddeg troodfedd, a drws o wneuthuriad diweddar arno, er atal plant ac ereill i fyned i mewn i niweidio'r lle. Y tu cefn i'r castell y mae agoriad helaeth a gwastad, ac ymddengys i mi mai hwn oedd gardd y castell.

Yn y lle hwn, ar y gwastadle a nodwyd, y cynnelir *Flower Show* flynyddol y Bontfaen a'r gymmydogaeth.

Yn y Ty Mawr yn y pentref hwn y magwyd y diweddar John Bruce Pryse, Ysw., tad Arglwydd Aberdar. Adeiladwyd y Ty Mawr y tro cyntaf yn amser y Frenines Elizabeth. Tua'r flwyddyn 1860, parodd J. B. Pryse, Ysw., ei dynu i lawr a'i ail adeiladu, gan ofalu gosod pob carreg yn y muriau allanol yr un man ag oedd o'r blaen, er mwyn gwneyd y ty yn hollol yr un fath ag oedd ar y cyntaf. O flaen y ty hwn y mae'r gamfa lle y bu Iolo Morgauwg yn cael ei rwystro i fyned drosti gan yspryd, meddai ef, a'i orfodi i fyned ffordd arall, a thwrwy

hyny ei wneyd yn offeryn i achub bywyd dyn meddw a orweddaï ar yr heol, lle yr oedd cerbyd yn rhedeg, yr hwn a fuasai yn myned dros y dyn, oni bai i Iolo ei symmud o'r fiordd.

Mae lluwys o balasau gwychion iawn yn a cher y pentref hwn, megys Bryn Awel (ger yr Eglwys), Brynhyfryd, Marlbro' Grange, Newton House, St. Quintine's Cottage, Llanblethian Cottage, Crossways House, Greenfield Villa, &c., y rhai a breswylir gan gyfoethogion yr ardal. Maint y plwyf yw 8,148 o erwi; rhif y tai, 184; poblogaeth yn 1861, 758; yn 1871, 756.

LLANFRYNACH.—Saif hen Eglwys Llanfrynach tua milldir i'r gorllewin o'r Bontfaen. Yr oedd gynt yn blwyf, ond nid yw felly yn awr, am fod Eglwys Penllin yn cael ei chyfrif yn un blwyfol, a Llanfrynach yn gapel anwes iddi. Fel hyn y dywed "Bonedd y Saint" am sylfaenydd yr Eglwys hon:—"Brynach Wyddel o Ddinas Ffaraon, a ddaeth i'r wlad hon gyda Brychan, ac a fu beriglwr iddo. Ei wraig, Corth ferch Brychan; y 5ed canrif. Ei Eglwysi, Llanfrynach, Penllin, Morganwg, &c." Cafodd yr Eglwys hon ei hadgyweirio yn 1878. (Gwel PENLLIN.)

LLANGAN, neu Llangana, sydd blwyf yn nghantref Glyn Ogwy, undeb a dosparth llys sirol Penybont a'r Bontfaen, deoniaeth Gro Nedd Isaf, archddeoniaeth ac esgobaeth Llandaf. Saif yr Eglwys tua phedair milldir i'r gogledd-orllewin o dref y Bontfaen, a thua phump milldir i'r dwyrain o Benybont. Mesura'r plwyf 1,175 o erwi; rhif y tai, 58; poblogaeth yn 1861, 228; yn 1871, 227. Y fywiolaeth Eglwysig sydd rectoriaeth, yn unol â ficeriaeth Eglwys Fair y Mynydd, a'r ddwy yn werth £244 a phersondy, yn nawdd a rhodd Iarll Dunraven. Offeiriad y plwyf hwn oedd yr enwog D. Jones, Llangan, yr hwn a wnaeth lawer iawn o les ysprydol i'w wlad ar ddechreuad y cyfnod Methodistaid yn Nghymru. Ychydig i'r gogledd oddiwrth yr Eglwys y mae Gelligarru, lle y bu Castell Normanaid gynt, a'r hwn a ddryllwyd gan Llewelyn Bron yn y flwyddyn 1815.

LLANGATTWG GLYN NEDD (*Cadoxton Jurta Neuth*).—Plwyf a phentref yn nghantref, undeb, a dosparth llys sirol Castell Nedd, deoniaeth Gronedd, archddeoniaeth ac esgobaeth Llandaf. Saif Eglwys y plwyf yn Nyffryn Nedd, tua milldir i'r gogledd-ddwyrain o dref Castellnedd. Priodolir sylfaeniad yr Eglwys Gristionogol gyntaf yma i Cattwg Ddoeth, ac iddo ef y mae yn gyssegredig. Mae yr Eglwys bresenol wedi ei hadeiladu mewn arddull Normanaid, ac iddi gorff, cangell, rhodfa ogleddol, porth, a chlochdy ysgwar, ac ynddo dair cloch. Mae yn eglur fod yr Eglwys wedi ei hail-adeiladu, oblegyd y mae gwedd y clochdy yn profi ei fod yn llawer iawn hynach na chorff yr Eglwys. Ficeriaeth yw'r fywiolaeth, yn unol â churadiaeth Creunant, a'r ddwy yn £550 y flwyddyn. Mae yn yr Eglwys hon goffadwriaethau lled hynafol am deulu Williamsaid y Dyffryn, y rhai a honent eu bod yn ddisgynyddion Rhys ab Iestyn, i'r hwn y rhoddwyd Arlwyddiaeth Sofien, rhwng Nedd a Thawy, pan ranwyd Morganwg gan Robert Fitzhamon yn 1091. Ymddengys i'r teulu yn mhen amser fabwysiadu y cyfenw Williams, yn ol eu honiad hwy,

a phreswylent yn y Dyffryn a manau ereill yn y plwyf hwn. Un o'r teulu, a'r ddegfed mewn olynïad o amser Rhys ab Iestyn, medd y cerfiad sydd yn yr Eglwys, oedd Llywelyn Williams o'r Dyffryn, yr hwn a fu farw Rhag. 11, 1626, ac a gladdwyd yn yr Eglwys hon. Yr oedd Llywelyn yn briod â Gwladus, merch Evan ab William ab Syr Hywel Goch. Disgynydd o Caradog ab Iestyn oedd Syr Hywel, a disgynydd o hono yntau oedd Syr Robert Thomas, Barwnig, a breswyliai yn Llanfihangel ger y Bontfaen. William Williams, mab Llewelyn a Gwladus, a fu farw Awst 14, 1643, ac a gladdwyd yn Llangatwg. Charles, mab hynaf William Williams, a fu farw Mawrth 29, 1689. Yr oedd hwn yn briod â Joan, merch Syr Edward Aubrey, Marchog; a barna rhai mai hiliogaeth y Charles hwn yw teulu presenol Aberpergwm. Phillip, ail fab William Williams, a fu farw Ebrill 24, 1658. Gwraig gyntaf Phillip oedd Margaret, merch Dafydd Powell, Llandwf, Boneddwr. Yr oedd y Margaret hon yn ferch i Anne, merch Lupon Evans, Ysw., Castellnedd, yr hwn oedd yn briod â Margaret, chwaer Syr William Herbert, yr Ysgrifenydd Cartrefol yn amser y Frenines Elizabeth. Ail wraig Phillip Williams oedd Rose, merch Morgan Cradock o Cheriton. Yr oedd Rose yn disgyn, o du ei mam, o John o Gaunt, Duc Lancaster, brenin Castile a Leon, a mab Iorwerth III., brenin Lloegr. Bu Rose farw Mawrth 24, 1680. Mab Phillip a Rose oedd Phillip Williams, Ysw., a fu farw Tach. 6, 1717. Mae coffadwriaeth y rhai hyn i'w weled yn Eglwys Llangatwg; ond ymddengys mai ffug yw yr honiad eu bod yn disgyn o Rys ab Iestyn, ac i'r honiad gael ei wneyd yn 1707 er cyrhaedd amdan yspeilgar, fel y dangosir yn fuan.

Yn mynwent yr Eglwys, y mae beddfaen mawr yn cynnwys coffadwriaeth merch ieuange a lofruddiwyd yn y plwyf yn 1822. Cyfansoddodd Llew Llwyfo nofel cynhyrfus ar y testyn, ond nis gwn a gyhoeddwyd yr ysgrif ai peidio. Dyma gopi o'r coffadwriaeth:—

1823.

TO RECORD MURDER.

This stone was erected over the body of Margaret Williams, aged 26, a native of Carmarthenshire, living in service in this parish, who was found dead, with marks of violence upon her person, in a ditch on the marsh below this Churchyard, on the morning of Sunday, the fourteenth of July, 1822. Although the savage murderer escaped for a season the detection of man, yet God has his mark upon him, either for time or eternity, and the cry of blood will assuredly pursue him to a certain and terrible, but righteous judgment.

"Cans y nyni a adwaenom y neb a ddywedodd, Myfi bian dial, myfi a dalaf, medd yr Arglwydd."

Y plwyf hwn yw y mwyaf ei arwynebedd yn Morganwg. Mesura 82,060 o erwi rhwng y dwfr sydd ynddo, a chyrrhaedda o ben uchaf Cwmnedd, ger Pontnedd Fechan, i lawr hyd o fewn ychydig i Aber-tawy. Gan ei fod mor eang, y mae wedi ei ranu yn *hamlets* fel y canlyn:—1. Nedd Isaf; 2. Nedd Ganol; 3. Nedd Uchaf; 4. Blaenhonden; 5. Dyffryn Clydach; 6. Coed Franc; 7. Ynysymond; 8. Du-

lais Uchaf; 9. Dulais Isaf. Mae wedi ei ranu yn ddosparthiadau Eglwysig hefyd fel y canlyn:—

1. Aberpergwm. Bernir fod hen Gapel Aberpergwm yn agos can hyned â'r Eglwys blwyfol, a dywed rhai haneswyr iddo gael ei adeiladu y waith gyntaf tua'r flwyddyn 500. Parhaodd am oesoedd yn fath o gapel anwes (*chapel of ease*) dan Eglwys y plwyf, er cyfleustra trigolion yr ardal. Yn 1880, rhoddodd Esgob Llandaf hawl a thrwydded i weinyddu priodasau yn y capel hwn. Yn 1861, ffurfiwyd Aberpergwm yn ddosparth Eglwysig. Cynnwysa'r capel gorff, cangell, a phorth, ac y mae'r fywiolaeth yn ficeriaeth annibynol gwerth £100 y flwyddyn, yn nawdd a rhodd Morgan Stuart Williams, Ysw., Aberpergwm. Yn nghanell hen Gapel Aberpergwm, yr oedd dau feddfaen hynafol, yn cynnwys y cof-gerfiad canlynol:—"Er coffadwriaeth am Arlwyddi Glyn Nedd, a gladdwyd isod: Gwehelyth Rhys ab Iestyn (1092), o ba rai parth mam y mae tylwyth Aberpergwm yn hanedig; ac am Rhys ab Sion (1460) a Sion ab Rhys, a gladdwyd yma, hanedigion Einion ab Collwyn a'i wraig Nest, ach Iestyn, a fuont yn bendefigion Glyn Nedd, trwy briodasfaint, parth etifeddes un o ddisgynyddion y Rhys uchod, mab Iestyn, Tywysog Gwent a Morganwg." Ar y gareg arall y mae a ganlyn:—"Beddfaen Gwyndaf, Gwehelyth Blaen Baglan Afan, a gladdwyd yma, dros oesoedd; hil Caradog ab Iestyn, Teyrn Arlwydd Nedd ac Afan, hanedigion y gwelygorid a feddiannasant Aberpergwm, trwy briodas ag un o ddisgynyddion ail fab Syr Leyshon de Afan (1218), ac etifeddes o deulu Einion ab Collwyn a'i wraig Nest. Nef idd eu heneidiau, a bydded etto rad penllad cyssefin trwy deilyngdod ar eu liliogaeth." Dan y coffadwriaeth, mae delw wedi ei cherfio, a llun ei a chleddyf wrth draod y ddelw.

2. Dosparth Eglwysig Scewen. Ffurfiwyd ef yn 1846, a chynnwysa 3,588 o erwi. Saif Eglwys (St. John) Scewen ger Abbatty Nedd. Cyssegrwyd hi yn 1851. Cynnwysa gorff, cangell, rhodfeydd, porth, a chlochle. Ficeriaeth yw'r fywiolaeth, gwerth £200 y flwyddyn, yn rhodd y Goron a'r Esgob bob yn ail.

3. Dosparth St. John, Clydach, a ffurfiwyd yn 1847, a chynnwysa 15,000 o erwi, wedi eu cymmeryd o blwyfi Llangattwg a Llangyfelach. Ficeriaeth yw'r fywiolaeth, gwerth £150 y flwyddyn, yn rhodd y Goron o'r Esgob bob yn ail.

4. Dosparth Eglwysig Bryncoch. Saif yr Eglwys hon ger palas y Dyffryn. Adeiladwyd hi yn 1871, ar draul Howell Gwyn, Ysw., a chostiodd yn agos i £6,000. Cafodd ei hagor a'i chyssegru i St. Mathew, Medi 21, 1871. Cynnwysa gorff, cangell, ystafell organ, vestri, a thwr. Mesura corff yr Eglwys 62 troedfedd o hyd a 25 o led, a'r gangell yn 27 o hyd wrth 21 o led. Mae wedi ei llorio yn gelyydd iawn a phridd-lechau Godwin, a grisiau yr allor, &c., ydynt fynor caboledig. Ger y fynedfa y mae bedyddfan crffiedig o faen Penybont-ar-Ggwy, ac y mae'r areithfa o'r unrhyw ddefnydd. Gosodwyd ffenestr aml-liwiog yn y pen dwyreiniol i'r adeilad, er cof am Mr. Mathew Gwyn, a fu farw yn 1826. Ni arbedwyd na thraul na

llafur i'w gwneyd yn Eglwys ardderchog. Ficeriaeth yw'r fywiolaeth, yn nawdd a rhodd Mr. H. Gwyn, Dyffryn. Y ficer presenol, a'r cyntaf a nodwyd, ydyw yr Parch. J. C. Thomas, M.A., o Goleg St. John, Cambridge. Sefydlwyd ef Medi 21, 1871.

Mae hen Gapel y Creunant, fel yr awgrymwyd, yn parhau yn gurdiaeth, yn unol ag Eglwys y plwyf.

*Mynachlog Nedd*, neu Abbatty Glyn Nedd, sydd adfeilion eang yn y plwyf hwn, hanes y cyfryw sydd fel y canlyn:—Pan ranodd Robert Fitzhamon diroedd Morganwg rhwng ei gyfeillion, rhoddodd Arglwyddiaeth Nedd i'w frawd, Richard de Grenville, yr hwn yn mhen tuag ugain mlynedd ar ol hyny, a aeth ar daith o bererindod tua Jerusalem, i dalu ymweliad a'r Bedd Santaidd; ac ystyrid taith o'r fath y pryd hwnw yn ddigon o drwydded i'r nefoedd braidd. Ymddengys fod R. de Grenville yn wr crefyddol iawn, ac yn llawer addasach i fod yn Abbad nag yn Farchog ar faes y gwaed: oblegyd mor bell ag y tystia ei hanes, crefydd oedd prif bwngc ei fywyd. Dywed traddodiad chwedlonol i angel ymddangos iddo pan yn Jerusalem, a dweyd wrtho nad oedd ei daith yn foddhaol gan Dduw, os na fuasai yn rhoi eu tiroedd yn ol i'r Cymry, a'r gweddill at wasanaeth crefydd; ac iddo yntau wneyd llw ar y Bedd Sanctaidd y buasai yn cyflawni hyn mor fuan ag y dychwelai yn ol i Gymru. Beth bynag am y chwedl, mae yn ffaith iddo ef ar y daith hono gyduno ag adeiladydd enwog o'r enw Lalys, neu Lales, i ddyfod gydag ef i Gymru i adeiladu Mynachlog ar ei etifeddiaeth ar lan afon Nedd. Pennodwyd y fan ar wastadedd hyfryd, ar lan orllewinol yr afon, a sylfaenwyd yr Abbatty yn y flwyddyn 1111, sef yr 11 flwyddyn o deyrnasiad Henry I., a'r 20fed flwyddyn wedi Rhaniad Morganwg. Ymddengys fod Arglwyddiaeth Sofien ac Arglwyddiaeth Nedd yn ffinio a'u gilydd. Cynnwysai eiddo Grenville Nedd *citra*, Nedd *ultra*, Cilybebyll, a Monknash; ac mewn nodiad yn y "*Swansea Guide*," p. 84, dywedir fod rhai yn barnu mai ar du gorllewinol afon Nedd y safai hen Gastell Iestyn, yr hyn a ddengys yn eglur fod eiddo R. de Grenville ar yr un tu i'r afon ag eiddo Rhys ab Iestyn. Yn mhen 18 mlynedd ar ol sylfaenu yr adeilad, dygwyd ef i orpheniad gorwych, a chyssegrwyd ef i'r Drindod Santaidd yn 1129, yn mhresenoldeb Richard de Grenville a Constance ei wraig, y rhai a roddasant y lle i Dduw a'r Mynachod. Y rhai a ymsefydlasant yma gyntaf oeddynt ddeuddeg o Fynachod gwynion o Savigny, ger Lyons, yn Ffrainc. Wedi cyssegru'r Fynachlog yn rheolaidd, rhoddodd Richard de Grenville ranau helaeth o'i faenor, a degwm ei gapel, gydag hanner pysgod afon Nedd, i brif Abbad Savigny, er mwyn iddo gynnal a gofalu am Abbatty Glynnedd. Dychwelodd hefyd lawer o'u tiroedd i'w perchenogion cyntefig, ac aeth i dreulio gweddill ei oes i Bidiford, swydd Devon, lle yr oedd ganddo etifeddiaeth eang. Hiliogaeth Syr Richard de Grenville ydynt Iarll Bath, Duc Buckingham, ac Arglwydd Granville, yr oes hon.

Rhoddodd Lalys gymmaint o foddlonrwydd i fawrion y wlad wrth adeiladu yr Abbatty gorwych hwn, fel y cyflogwyd ef gan Robert, mab

Henry I., i adeiladu Abbatty Margam ; ac wedi hyny, cafodd ei wneyd yn arch-adeiladydd y brenin.

Yr Abbad syntaf yn Mynachlog Nedd, oedd wr o Ffrainge o'r enw Richard, yr hwn a fu farw yn 1145. Parhaodd y sefydliad am oesoedd mewn bri urddasol ; a phan orfodwyd Iorwerth II. i ffoi am ei einioes rhag byddinoedd ei wraig, efe a ymguddiodd am beth amser yn yr Abbatty hwn, ac yma y daliwyd ef, Tachwedd 16, 1826. (Gwel CAERFFILI.)

Cymro o'r enw John Lleision oedd Abbad olaf Abbatty Glynedd, 1520-41. Yn 1520, pan urddwyd Lleision yn Abbad, cynnaliwyd Eisteddfod Farddol yn yr adeilad, pryd yr ennillodd Lewis Morganwg ar yr awdl i'r Abbad a'r Abbatty, ar y Pedwar Mesur ar Hugain, yn ol yr Hen Ddosparth Cyssefin. Dechreu a yr awdl fel hyn :—

“ Oes oesoedd llysoedd Lleision—Abbad Nedd,  
Ynysedd hanesion ;  
Gwisger, ac eurer coron  
Am ei ben wisg un mab Non.”

Dywed hanesiaeth fod yr adeilad wedi ei addurno a pheisarfau prif fawrion y deyrnas, megys Syr Richard de Grenville, Robert Iarll Caerloyw, Llywelyn ab Iorwerth, Tywysog Cymru ; Arglwydd Rhys, Dinefwr ; Gilbert de Clare, Hugh le Despenser, Ralph de Mortimer, &c., &c. Cyfeiria'r bardd at y peisarfau hyn fel y canlyn :—

“ Erfai mae ar wydr Arfau 'Mherodron,  
Arfau neu olau yn Freninolion ;  
Ar fwd sy ogylich, Arfau Tywysogion,  
Arfau Nedd gannoos, ar fain nadd gwynion,  
Arfau gwyr goreu dan goron—Harri,  
A muriau Eglwysi o'r marmor gleision.”

Mewn rhan arall o'r awdl, ceir y disgrifiad pert canlynol o'r adeilad :—

“ Y nen fawr uchel yn y nef wreichion,  
Goruwch yn ngolwg arch-angelion ;  
Y llawr i bobloedd holl wyr Bab'lon,  
Obry a weithiwyd â main brithion,  
Y cylch, a'r menyh, a'r mwynion—foliant  
Mynych ogoniant Meinyh Gwynion.”

Fel yr awgrymwyd eisoes, yr oedd R. de Grenville wedi rhoi hanner pysgod afon Nedd at wasanaeth y Mynachod ; ac yn nheyrnasiad y brenin Stephen, darfu i Roger Iarll Warwick roddi tiroedd a physgod-feydd yn Ngwyr i'r sefydliad, fel yr oedd y mynachod yn arfer byw yn lled freision ; ac mewn cyfeiriad at hyn y gwnaed y llinellau yma yn yr awdl y soniwyd am dani :—

“ Y ceirw fry o barciau'r fron,  
A'r eogiaid o'r eigion.”



Pan oedd Lewis ab Dafydd, mab Dafydd Ddu, offeiriad o Glynnedd, yn Abbad yr Abbatty, anfonodd Ieuan Ddu'r Bilwg, o Gwm Rhondda, Gywydd ato i ofyn benthg "Y Greal," yr hwn oedd lyfr yn cynnwys darnau i'w canu yn y gwasanaeth Pabyddol. O'r hyn lleiaf, y mae rhed-iad y Cywydd yn awgrymu hyn. Yr oedd yr Abbad Lewis ab Dafydd y wr dysgedig iawn, ac wedi cyfieithu "Gwasanaeth Mair" a llyfrau ereill i'r Gymraeg. Yr oedd awdwr y Cywydd yn ei fri tua'r flwyddyn 1470. Dyma'r Cywydd:—

Y gwr a'r Llyfr\* geirwir llwyd,  
O Lyn Nedd a lunieiddwyd,  
A drawdd mewn dau air neu dri  
Gymmendod Magamwndi†,  
Saith gwybod da cydnodwn,  
Maen' y saith yn mynwes hwn,—  
Gramer, a ffyrder y ffydd,  
Grym deugain Gramadegydd;  
Ym mewn art y mae yn wr,  
Mewn *sufult*‡ mae'n wasafwr;  
Mewn *soffstrig* mae'n berwi'n bur,  
Mewn miwsig mwy na mesur.

Danfoned Syr, dan fonedd  
Lewis i ni o Lys Nedd,  
Gweddol i sardio geudduw,  
A gwedd deg gweddio Duw;  
Ac o chaf gan fab Dafydd  
Lyfr y rhawg dilwfr a'i rhydd.  
Y Greal erbyn Grawys  
Dail beilch ef a dâl en bys.  
Cawn freg gyfraith Sain Gregor,  
Cawn bylgain cywrain mewn cor;  
Yn ol gasper, lleferydd  
Mawl i Fair yn aml a fydd  
Da gan Dduw hael gael ar gan  
Dawn eurgerdd ar dôn organ."

Dywedai Iolo Morganwg, ar dystiolaeth y bardd Morgan Llywelyn o Gastellnedd, i'r brenin Harri VII. roddi Breinlen i Leison, Abbad Nedd, i ganiatau iddo godi Prif Ysgol yn y lle, yn debyg i Rydychain; tra y dywedai Dafydd Nicholas, athraw a bardd teulu Aberpergwm, mai Jasper ab Tudur, ewythr Harri VII., ac Arlwydd Morganwg, a roddodd y Freinlen, a'i bod yn nghadw yn ei amser ef yn Llyfrfa Aberpergwm. Os yw hyn yn wir, y mae yn profi ar unwaith fod mwy nag un Lleison wedi bod yn Abbad yma, oblegyd yn 1520 y cafodd John Lleison ei urddo fel y sylwyd, tra y bu farw Harri VII. yn 1509. Ymwelodd John Leland a'r lle tua blwyddyn cyn i'r sefydliad gael ei yspeilio gan Harri VIII. yn 1541, a dywedai ei bod y Fynachlog

\* Beibl. † Bydysawd. ‡ Cŵil Llawr. § Sophistry.

wychaf yn Nghymru. Barna rhai haneswyr fod y bwaau o gylloh y drysau a'r ffenestri, yn nghyd ag addurniadau ereill yr adeilad, wedi eu gwneyd o geryg nadd, sef craig wen Sutton, ger Margam; a barn-aüt mai at y rhai hyn y cyfeiria Lewis Morganwg yn y llinell:—

“Arfau Nedd gannoos ar fain nadd gwynion.”

Camsyniad hollol yw hyn. Dichon fod Arfau Nedd wedi eu cerfio mewn main nadd gwynion; ond am fwaau'r ffenestri, colofnau, &c., nid ydynt yn geryg nadd o gwbl. Ar un o'm hymweliadau a'r lle, trwy sylwi yn fanwl ar ddefnydd y colofnau, yr addurniadau, &c., a methu eu cael yn *freestone*, fel yr ymddangosent ar yr olwg gyntaf, penderfynais dori rhai o'r darnau oedd ar y llawr, er boddio fy nghyweirnydd. Wrth wneyd hyn, cefais ar ddeall ar unwaith mai math o gymmysgedd (*composition*) ydyw, ac wedi ei foldio i wahanol ffurfiau tra mewn sefyllfa laith, ac yna ei grasu, yn debyg i'r dull y gwneir priddfeini yn bresenol. Mae'r defnydd yn cynnwys tywod, cregyn, callestr maluriedig, gronynau o fwn plwm, glo, y'r nghyda llauws o sylweddau ereill. Mae yr hen adeilad a fu mewn bri mawr gynt, yn adfeiliedig iawn yn bresenol; ond y mae un rhan o hono yn cael ei breswyllo yn awr gan y teulu sydd yn gofalu am y lle.

Mewn cae, yn ymyl y ffordd rhwng tref Castellnedd a'r Abbatty, o flaen palas Court Herbert, y mae careg fain, hir, yn sefyll yn syth yn y ddaiar, tuag 8 troedfedd o hyd, 15 modfedd o led, a 4 modfedd o drwch, a llun croes wedi ei gerfio ar bob gwyneb iddi. Ar y llawr, wrth fon y gareg, y mae delw gwr Eglwysig wedi ei cherfio yn gywruin mewn careg nadd. Mae'r ddelw yn 6 troedfedd o hyd,—y pen at fon y gareg unionsyth, y traed at yr heol, a'r gwyneb tuag i fyny; ac yn un llaw y mae cynllun (*model*) Eglwys. Bernir mai delw un o'r Abbadau ydyw, ac wedi ei dwyn yma o'r Abbatty. Pan ddymchwelodd Harri VIII. y sefydliad yn 1541, nid oedd y cyllid, yn ol Dugdale, ond £182 7s. 7c., tra y dywed Speed ei fod yn £150 4s. 9c.

Rhoddodd Harri VIII. hawl-ysgrif (*grant*) ar diroedd y Fynachlog i Syr Richard Williams, alias Cromwell, ac enw yr hwn yn fwy Cymreigaidd oedd Syr Richard ab William (o blwyf yr Eglwys Newydd), ab William o Flaen Baglan Afan. Rhoddwyd Rectoriaeth Llangattwg i un Evan Thomas, Mai 26, 1541, 32 Harri VIII. Ar hen weithred-oedd cyfreithiol, dywedir mai un o blwyf yr Eglwys Newydd oedd Syr Richard Williams, tra y dywed Leland, ei gyd-oesydd, mai yn mhlwyf Llanisan y ganwyd ef. Gan fod y ddau blwyf yn ffinio a'u gilydd, a bod mwy o ofal fe allai wedi cael ei arfer wrth wneyd gweithredoedd cyfreithiol nag a arferid gan Leland, dichon i'r hanesydd hwnw gam-gymmyrd y naill blwyf yn lle y llall.

Wedi i Syr Richard Cromwell gael meddiant o ystad y Fynachlog, ceir y cofnodion canlynol yn mhlith ysgrifau y *Record Office*, yn nodi amseriad amrywiol brydlesoedd a roddwyd ganddo i wahanol bersonau ar ddarnau o'r ystad:—Mehcfin 4, 36 H. VIII. (1545), rhoddodd Syr R. Williams, a clwid Cromwell, brydles ar ran neillduol o'r ystad i Mor-

gan ab Sion ab Wallter. Daeth yr ystad yn eiddo Franc Williams, *alias* Cromwell, Ysw., ar ol Syr Richard Cromwell, trwy i'r Frenines Elizabeth gadarnhau yr hawl-ysgrif a roddwyd gan ei thad i Syr Richard i Franc, y 29 o Orphenaf, 88 Eliz. (1591). Mae yn amlwg, pa fodd bynag, fod Franc Cromwell, Ysw., yn perchenogi yr ystad cyn hynny, fel y dengys a ganlyn:—Awst 1, 1566, 8 Eliz., rhoddodd Franc Cromwell, Ysw., brydlesoedd ar ranau o ystad y Fynachlog i'r personau canlynol:—1. Un i John ab John; 2. Un arall i Henri ab Hywel; 3. Un arall i Lleision Pryse, o Ynys-y-Mardy, ger Briton Ferry, Ysw.; 4. Un arall i Thomas Llewelyn, o'r Alltwen: cafodd hwn un arall 27 Mai, 29 Eliz., 1587. 1af Gor., 1566, 8 Eliz., rhoddodd lês ar ddarn o'r tir i William ap Hopcin, o Gwrt y Bettws, ac un arall ar y 18fed o'r un mis. Rhoddodd lês ar ddarn arall o'r tir i Lleision Iefan, o Gastellnedd, Gor. 28, 19 Eliz. (1577). Mehefin 19, 26 Eliz. (1584), rhoddodd Franc, a Henry Cromwell, Ysw., ei fab, lês i un Catherine, gwidw Hopcin. Ar yr 16eg o fis Mehefin, 1591, 38 Eliz., trosglwyddodd Franc Cromwell, Ysw., Arlwyddiaeth Llangattwg a Mynachlog Nedd i John Herbert, dan ysgrif-rwym (*mortgage*). Gwerthodd Henry Cromwell, Ysw., yr Arlwyddiaeth a'r Fynachlog i'r un John Herbert, Ysw., 8 Gor., 38 Eliz. (1599). Cafodd y John Herbert hwn ei urddo yn Farchog ar ol hyn, ac yr oedd yn un o gyfringynghor Iago I. Ar farwolaeth ei frawd, Syr William Herbert, Marchog, o'r White Friars, Caerdydd, heb etifedd, daeth ef yn Syr John Herbert, Marchog, Caerdydd, yn ogystal a Mynachlog Nedd. Ar farwolaeth Syr John Herbert, aeth etifeddiaethau Caerdydd ac Abertawy yn eiddo ei nai, William, ac etifeddiaeth y Fynachlog i'w unig blentyn, Mary, yr hon oedd yn briod â Syr William Doddington, Marchog. Mae amryw brydlesoedd ar gael yn awr, y rhai a roddwyd gan Syr John Herbert i wahanol bersonau, ar ranau o ystad y Fynachlog, megys lês i Lleision Lewis, dyddiedig 9fed Mehefin, 1604; lês i Jennet White, dyddiedig 12fed Mawrth, 4 Iago I. (1607); lês oddiwrth Syr John Herbert, Marchog, i Dafydd ab Morgan Gwyn, dyddiedig 28ain Ebrill, 1616. Yr oedd y lês hon yn flaenorol yn meddiant Morgan Cradock, o Gwrt-rhyd-hir neu Gwrt Godre'r-tir, ac felly ei throsglwyddo wnaed i Dafydd ab Morgan Gwyn. Etto, lês gan Syr John Herbert i Robert Dafydd, Tangles Morgan, a Lewis Robert, dyddiedig Tach. 10, 1617. Bu Syr John Herbert farw y flwyddyn hono, a chladdwyd ef yn Nghaerdydd. Syr William Doddington, fel y sylwyd, feddiannodd ystad y Fynachlog ar ol Syr John Herbert. Ar farwolaeth Syr William Doddington, aeth yn eiddo ei fab, Edward Doddington, Ysw., yr hwn a lesiodd amryw ranau o'r ystad i wahanol bersonau fel y canlyn:—Lês i Dafydd Evans, boneddwr, dyddiedig Tach. 15, 1653; lês i Dafydd Evans etto, dyddiedig Mawrth 8, 1655; a lês i Ulrich Mausel, dyddiedig Medi 20, 1655. Ar farwolaeth Edward Doddington, Ysw., heb etifedd, aeth etifeddiaeth y Fynachlog, gydag Arglwyddiaeth a Pherigloraeth Llangattwg Nedd, yn eiddo Philip Hobby, nai Edward Doddington, mab Catherine ei chwaer, yr hon a briododd â Pergerine Hobby. Yr oedd Philip Hobby, Ysw., yn

Uchel Sirydd Morganwg yn 1670, ac yn byw yn Abbatty Nedd. Bu farw Mehefn 15, 1678, a chladdwyd ef yn Eglwys Fair, Abertawy. Gadawodd ar ei ol weddw a thair merch. Priododd Elizabeth, ei ferch, â Henry Compton, Ysw.; priododd Ann â William Stanley, Ysw.; a phriododd Catherine â Griffith Rice, o Gastell y Drenwydd, ger Llandeilo Fawr, yn 1690: disgynydd o'r rhai hyn yw Arglwydd Dinefawr (Dynevor) presenol. Bu farw Elizabeth Hobby, gweddw Phillip Hobby, yn 1698. Ar farwolaeth Philip Hobby yn 1678, darfu i'w weddw bennodi Philip Williams yn steward yr holl ystad. Dywed rhai haneswyr mai baehgen tlawd oedd y Philip hwn, ac mai Philip Hobby oedd wedi ei fagu a rhoi addysg iddo. Pan fu farw Elizabeth Hobby yn 1698, daeth holl weithredoedd (*title deeds, court rolls, &c.*) ystad y Fynachlog i ddwyllaw Philip Williams, fel prif oruchwyliwr yr etifeddiaeth, a pharhaodd yn ei swydd dan Henry Compton, Ysw., William Stanley, Ysw., a Griffith Rice, Ysw., y rhai, fel y sylwyd, oeddynt yn briod â thair merch Philip Hobby, ac yr oedd yr etifeddiaeth yn rhanol rhyngddynt. Yr oedd ardreth flynyddol ystad Mynachlog Nedd y pryd hwnw tua £1,500. Pan fu farw Philip Williams yn 1717, cafodd Llywelyn ei fab, yr hwn a breswyliai yn y Dyffryn, ei bennodi yn oruchwyliwr yr ystad yn ei le, a chanddo ef y oedwid yr holl ysgrifau perthynol i'r etifeddiaeth.

Yn 1787, dygwyd cwyn cyfreithiol yn erbyn Llywelyn Williams yn llys yr Arglwydd Ganghellydd, gan Eleanor Bave, gweddw Charles Bave, George Rice (wyr y Griffith Rice a nodwyd), ac Ann, gweddw William Stanley, Uchel Sirydd Morganwg yn 1706, am beidio rhoi i fyny ei hawl yn rhai o weithredoedd yr ystad. Yr oedd dwy lês yn neillduol yn eu plith: un a roddwyd gan Franc Williams, *alias* Cromwell, Mawrth 1, 1666, i John ab Henry ab Hywel, o'r Rhidyn (Rhyd- ing yn awr), ar dy annedd, gardd, a morthwylfa yn maenor Llangat- twg ac Arlwyddiaeth Mynachlog Nedd, am 99 o flynyddau, am y swm o 5s. 4c. y flwyddyn. Un arall a roddwyd gan Franc Cromwell i Dafydd ab Gruffydd ab William, ar ddarn o dir yn yr un lle, am 99 mlynedd, am 4s. y flwyddyn. Honai Llywelyn mai ei eiddo ef oedd y tiroedd hyn, a'i dadau o'i flaen, am yr honai ei fod yn ddisgynydd o Rys ab Iestyn; ond ymddengys iddo fethu profi hyny, ond cadwodd feddiant o'r ysgrifau nes gwerthwyd yr ystad. Y dull y daeth yr enw Bave i mewn i'r drafodaeth oedd trwy briodas fel hyn:—Priododd Elizabeth, merch Philip Hobby, â Henry Compton, fel y sylwyd. Eu mab hwy oedd Hobby Compton, Mynachlog Nedd, a fu farw yn 1714 tra yn Sirydd Morganwg, ac heb etifedd, ac felly aeth ei ran ef o'r ystad i'w unig frawd, Henry Compton. Priododd Henry â boneddiges o'r enw Eleanor, a gwnaeth ei ewyllys iddi. Bu ef farw Rhag. 18, 1724, a phriododd ei weddw â Charles Bave, o Bath, ac felly daeth i hawl i un rhan o dair o'r ystad. Bu cwyn cyfreithiol hefyd yn y *Chancery* gan Griffith Rice a Catherine ei wraig, William Stanley ac Ann ei wraig, a Henry Compton, mab Elizabeth Compton, yn erbyn yr Anrhydeddus Arglwydd Thomas Mansel, o Fargam, olynnydd Thomas Mansel, o Ynys y Mardy, Briton Ferry, yr hwn a fu farw yn

1705, o barth amryw diroedd perthynol i ystad y Fynachlog, a lês-  
iwyd yn wreiddiol i John ab Henry ab Hywel, o Ridyn, Dafydd ab  
Griffith ab William, Gwilym ab Hywel, Lewis ab William Hen, a  
Griffith ab Lewis, y rhai a wnaed yn 1566—7 a 1596, am 99 mlyn-  
edd. Pan ddaeth yr amser i fyny, ni adnewyddwyd hwy; ond can-  
iatawyd i Bussy Mansel, o Ynys y Mardy, eu dal trwy dalu ardreth  
ammodol, ac ar ei farwolaeth ef yn 1699, cafodd ei wŷr eu dal ar yr  
un telerau. Pallodd Thomas, Arglwydd Mansel, Barwn Margam, a  
thalu, yr hyn a fu yn achos o ddwyn yr wys yn ei erbyn yn Medi 18,  
1717, a dyfarnwyd yn ei erbyn.

Yn 1748 neu 9, gwerthwyd yr ystad i John Popkin, Ysw., (Ap Hop-  
cyn), ail fab Thomas Popkin, Ysw., o'r Fforest, yr hwn oedd Sirydd  
Morganwg yn 1718. Yr oedd John Popkin yn byw yn y Drumau, a  
gelwid ef "yr hen lord o'r Drumau," a'i wraig oedd Sophia, merch  
Herbert Herbert, o Letty'r Awel, Glynedd. Pan brynodd John Pop-  
kin yr ystad, rhoddodd Llywelyn Williams, yr hen oruchwyliwr, yr  
holl ysgrifau, maps, &c., i fyny i Thomas Williams, cyfreithiwr, Cas-  
telledd, yr hwn a bennodwyd yn oruchwyliwr dan y perchenog new-  
ydd. Yr oedd Thomas Williams yn byw yn Court Herbert, ac yno y  
preswyliai ei fab, a Thomas Williams ei wŷr, a phob un o honynt  
yn oruchwyliwr dan John Popkin a'i olynnydd. Priododd merch y  
Thomas Williams olaf a enwyd a John Edwards, Ysw., Rheolau. Yr  
oedd John Popkin (yr hen lord o'r Drumau) yn berchen gwaith haiarn  
helaeth, ac felly ei dad o'i flaen, ac yr oedd ei forthwylfa mor orphen-  
ol, fel mai un o'r prif orchwylion ynddi oedd gwneyd gynau (*muskets*).  
Yn 1758, wedi claddu ei holl blant, gwnaeth ei ewyllys, fod ei holl  
eiddo, ar ol ei ddydd ef, i fyned yn eiddo ei nai, Phillip, ail fab ei  
chwaer hynaf, Catherine, yr hon a briododd (Medi 28, 1704,) â Mr.  
Evan Bowen, Maes Eglwys, plwyf Llangyfelach. Yn Ebrill, 1759,  
gwnaeth y nai ei ewyllys, fod y cwbl o'i eiddo ef, a bennodwyd iddo  
gan ei ewythr, i fyned yn eiddo ei nai, Griffith, mab Dafydd ei frawd,  
yr hwn oedd yn byw yn ac yn perchenogi ystad Tir Dwncyn, Llangy-  
felach, yn 1754; ond yn 1759, preswyliai yn Nghraig Tre'r-wyddfa.  
Aeth Phillip i wlad dramor cyn marwolaeth ei ewythr, ac ni ddychwel-  
odd. Bu farw John Popkin (yr hen lord o'r Drumau) yn 1774 neu  
1775, gan adael ei balas gwych, "Tir y Mynydd," ar Fynydd y Drum-  
au, yn ngofal un Phillip Samuel, gwehydd, o blwyf Llansamlet, yr  
hwn oedd wedi priodi â phrif forwyn yr hen lord. Ymddengys fod yr  
hen lord wedi rhoddi cryn hawl i Phillip Samuel hefyd, oblegyd yn  
1775, rhoddodd Phillip a Margaret ei wraig lês ar y mwnau (*minerals*)  
i Thomas Griffiths, Ysw., cyfreithiwr, Castelledd, yr hwn oedd mewn  
cynghrair ag Illtyd Thomas, cyfreithiwr, Abertawy, a fu farw yn  
1785, a Thomas Williams, cyfreithiwr, Castelledd, ac yn byw yn  
Nghwrt Herbert. Wedi hyn, cyhoeddodd Thomas Griffiths, Ysw.,  
mai efe oedd goruchwyliwr yr ystad, dan etifedd yr hen Lord  
o'r Drumau, ac aeth i fyw i balas Tir-y-Mynydd, lle y gwnaeth ei  
ewyllys yn 1787. Priododd Elizabeth, merch Llywelyn Williams, a  
Thomas, mab ordderoh Thomas Popkin o'r Fforest (Sirydd 1718) o

Jane Gough, ei wraig wedi hyny. Preswyliai Thomas y mab yn Bryncoch, lle y bu farw yn 1752. Priododd ei ferch âg un o'r enw Southcote, a phreswyliant yn swydd Devon ac yn Llangatwg. Priododd Elizabeth, gweddw Thomas Popkin o'r Bryncoch, â W. Jones, meddyg, Castellnedd.

Robert Popkin, mab hynaf Thomas Popkin o'r Fforest, a briododd Rebecca, merch Daniel a Mari Evans, Peter's Well, Ceredigion, ar yr 11eg o Fai, 1711. Eu mab hwy oedd Thomas Popkin, Sirydd Morganwg yn 1755; a bu farw yn Bath yn 1770. Mari, merch Robert a Rebeca Popkin, a briododd yn 1747, âg Edward Mathew, Ysw., Aberaman, Aberdar. Yn 1798, rhanodd y rhai hyn eu heiddo rhwng eu tair merch,—(1) Rebeca, gwraig John Curr; (2) Maria Elinora, gwraig Thyne Howe Gwynne; (3) Elinor, gwraig Hugh Lord. Priododd John Bennett Popkin â Mari, merch Stephen White, Sirydd yn 1785; ond ni chawsant blant.

Mae yn amlwg oddiwrth ysgrifau y *Record Office*, mai etifedd y Phillip Bowen a enwyd, pa le bynag y mae, yw gwir berchen ystad y Fynachlog (er mai Arglwydd Dinefawr sydd yn derbyn yr elw oddiwrthi), os nad oes ail bryniad wedi bod arni. Mae yn y British Museum gopi o newyddiadur a elwid "*The Sun*," dyddiedig Medi 2, 1886, ar yr hwn y mae hyspysiad fel y canlyn:—"Glamorgan. Neath Abbey Estate, comprising the Lordship and Manor of Neath Abbey, about 6,000 acres of lands, situate in the hamlets of Coedfrank, Duffryn Clydach, Blaenhonddan, and Ynysymond, in the parish of Cadoxton, &c. To be sold by Adam Murray (in one lot), 47 Parliament Street, London. Application to be made to Mr. Clayton, of Cadoxton, Near Neath, Glam."

Yn y plwyf hwn y ceir un o'r olion Rhufeinig amlycaf yn Nghymru, sef yr hen heol a elwir Sarn Helen, yr hon a wnaeth y Rhufeiniaid o Gastellnedd hyd Aberhonddu. Mae rhan o heol fawr Cwm Nedd yn brsenol, o Bont Castellnedd hyd Ynysygerwn, ar, neu yn y man y gwnaed yr hen ffordd. Yn agos i Ynysygerwn, mae yr hen heol yn troi i'r gorllewin, heibio Lletty-y-bele, &c., i fyny i Gefn Hir Fynydd, lle y gwelir hi am amryw filldroedd; ac y mae amryw garneddau i'w gwled yma, y rhai ydynt yn lled-awgrymu i frwydrau gwaedlyd gael eu hymiadd yn y lle. Yn 1185, ymladdwyd brwydr galed yma rhwng y Cymry a'r Normaniaid, pryd y lladdwyd 3,000 o'r estroniaid. Bu Sarn Helen yn cael ei defnyddio yn brif-ffordd rhwng Castellnedd ac Aberhonddu hyd y flwyddyn 1781, pryd y gwnaed yr Heol Fawr i fyny trwy Gwm Nedd hyd Bontnedd Fechan; ac i hon y canodd Rhys Morgan o Bencraig Nedd fel hyn:—

"Ffordd lydan, wiwlan olwg,—ffordd luniaidd,  
Ffordd lana'n Morganwg;  
Ffordd union, di-droion drwg,  
Yn gyttun drwy blwyf Cattwg."

Cyn hyny, nid oedd ond heolydd culion, ceimion, ac anwastad, yn arwain o'r naill fferm i'r llall, o Ynysygerwn hyd Bontnedd Fechan.

Gwnaed yr heol newydd yn 1781, heibio y Rheolau ac Aberpergwm, ac o fewn ychydig latheni i'r tai; ond yn 1819, aeth R. Williams, Ysw., Aberpergwm, i'r draul o wneyd gwely newydd i afon Nedd, ryw 600 o latheni yn fwy deheuol nag yr arferai redeg; ac yn 1821, gwuaeth ddarn helaeth o'r heol yn hen wely yr afon, er ei phellhau oddiwrth ei balas. Yn 1832, efelychwyd ef gan Mr. Vaughan Edwards, Rheolau, yr hwn a wnaeth ran arall o'r heol bresenol gyda'r camlas, a chau i fyny yr hen ffordd oedd yn arwain heibio ei balas. Yn 1800, gwnaed y gangen brif-ffordd o Bont Walby hyd Hirwaun; ac adeiladwyd Pont Walby, gan Morgan Gibbon. Cafodd y bont ei henwi, medd traddodiad, oddiwrth un Walby, yr hwn a foddodd yn yr afon gerllaw. Syrthiodd y bont hono ar y 9fed o Orphenaf, 1853, yn amser llifogydd mawrion; ac yn 1854, adeiladwyd pont haiarn yn ei lle.

*Prif Balasau y Plwyf.*—1. *Aberpergwm.*—Saif y palas gwych hwn ar y gwastadedd, yn Nghwm Nedd, o fewn tair milldir i ben uchaf y plwyf, a thna naw milldir a haner o Gastellnedd. Nid yw yn hyspys pa bryd yr adeiladwyd ef gyntaf, ond bernir nad oedd ond amaethdy cyffredin hyd o fewn 150 o flynyddau yn ol. Yn 1762, preswyliid ef gan un Mr. Aubrey, tra y preswyliai hen deulu'r Williamsaid yn y Maesgwyn. Priododd R. Williams, Ysw., â merch Mr. Aubrey; ac ar ol dydd ei dad-yn-nghyfraith, preswyliai yn Aberpergwm. Plant o'r briodas hon oeddynt y diweddar William a Rees Williams, Yswein-iaid, a'r boneddesau gwladgarol o'r Ynyslas. Bu W. Williams, Ysw., yn teithio gwledydd tramor am tua 13 o flynyddau,—cychwynodd yn 1817, dychwelodd yn 1830, a bu yn Sirydd Morganwg y flwyddyn hono. Oddiar y flwyddyn 1826, y mae 28 o fan dyddynoedd wedi eu cyssylltu âg ystad Aberpergwm; ac y mae planfeydd coed yn bresenol lle y gwelid gynt yr aradr yn rhychu gwynob y tir. Mae enwau y tyddynoedd, a safle y man amaethdai hyny i'w gweld ar yr *Ordnance Map*. Dyma rës o'u henwau:—1. Blaen Pergwm Isaf; 2. Blaen Pergwm Ganol; 3. Blaen Pergwm Uchaf; 4. Ty Ffwesyn; 5. Maes Llwyng; 6. Pentref Clwydan; 7. Pantygwartheg; 8. Y Dderi Fach; 9. Blaen Clwyd Fawr; 10. Llwyn Edward; 11. Pyllfa'r On; 12. Y Drysiog; 13. Llwyn Ffynon; 14. Pencae'r Allt; 15. Nantyar; 16. Clun Mwyn; 17. Pantyffynou; 18. Tyle Pergwm; 19. Bryn Nant; 20. Penmarc; 21. Penlan; 22. Blaennant-yr-ewig; 23. Penyglyn; 24. Y Cwrt; 25. Y Wern Las; 26. Bwlch y Ton; 27. Ty'n-y-fron; 28. Cefn y Gelli. Preswyliir Aberpergwm yn awr (1874) gan Morgan Stuart Williams, Ysw.

2. *Y Rheolau* sydd balas ardderchog ar wastad Dyffryn Nedd, tua saith milldir o Gastellnedd, ac a breswyliir yn awr gan wedd y diweddar N. V. E. Vaughan, Ysw. Amaethdy cyffredin oedd y Rheolau ar y cyntaf, a pherchenogid ef gynt gan Syr Humphrey Mackworth, Castell y Ganol. Preswyliai un Hywel Bevan yma tua'r flwyddyn 1790, pan oedd un William Trew, neu Drew, yn oruchwyliwr tirol dan Syr H. Mackworth. Yr oedd Hywel Bevan wedi bod yn byw yn hir iawn yn y lle, a gofynodd Trew iddo un diwrnod pa faint oedd

wedi dalu o ardreth o'r dechreu am y lle, pryd yr atebodd fel hyn:—

“Tri chant ar ddeg o bunau  
A delais i Syr Humphrey,  
A thringain punt i William Trew  
Am le i fyw'n Rheolau.”

Dywedir yn *Hanes Duffryn Nedd* mae saer (*wheelwright*) oedd John Edwards hynaf, tadcu y diweddar N. V. E. Vaughan, Ysw., ac mai efe ddyfeisiodd y *water cart* cyntaf yn Llundain, yr hyn a'i dygodd i sylw a chefnogaeth. Cododd ef ei fab John yn gyfreithiwr, yr hwn a ddaeth i gyffyrddiad â Thomas Williams, Ysw., cyfreithiwr, Cwrt Herbert, a phriododd ei ferch, ac aethant i fyw i Rheolau. Claddodd J. Edwards ei wraig gyntaf, a phriododd drachefn â boneddiges gyfoethog iawn, yr hyn a'i galluogodd i brynu llawer o diroedd perthynol i ystad y GnoI, &c. Dywed yr un llyfr yn i balas presenol y Rheolau gael ei adeiladu yn 1806; ond nid oes son am dano yn y *Cambrian Guide*, gan George Nicholson, 1818, tra y sylwa ar balas Ynysygerwn, Aberpergwm, &c. Yn y *Swansea Guide*, 1828, sonir am dano fel palas ardderchog John Edwards, Ysw. Mae hwn mewn gwirionedd yn un o'r palasau gwychaf yn y wlad, ac iddo 865 o fenestri. Yn 1829, gadawyd llawer o gyfoeth i Mr. Edwards gan Mr. Vaughan o Lan Lai, a'r amser hwnw y cyssylltwyd y cyfenw Vaughan a'r Edwards. Mae Eglwys hardd, gyda thwr pigfain, o fewn ychydig i'r palas.

3. Y *Duffryn*, palas gwych Howell Gwyn, Ysw., sydd wedi ei adeiladu yn yr arddull Elizabethaidd; ac y mae yr olygfa geir o'r fan y saif yn eang a phrydferth iawn. Saif ar y tu gorllewinol i'r heol sydd yn arwain o Gastellnedd i Bontardawy.

4. *Cadoxton Lodge*, preswylfa Lewis T. Lewis, Ysw., yr hwn sydd balas ardderchog yn agos i dref Castellnedd.

5. *Court Herbert* sydd balas eang yn agos i Fynachlog Nedd, ac a gafodd yr enw, medd rhai, oddiwrth Syr Herbert Mackworth, yr hwn a adeiladodd Gastell y GnoI hefyd.

6. *Ynysygerwn*, yr hwn sydd wedi bod am oesoedd yn breswylfa teulu anrhydeddus Llywelyn, Penlle'rgaer.

7. *Cadoxton Place House*. 8. Y *Ficerdy*, &c.

*Gweithfeydd y Plwyf*.—Nid oes wybodaeth pa bryd, na chan bwy y dechreuwyd gweithio glo yn y plwyf hwn; ond dywed Leland (1540) fod glo yn cael ei weithio haner milldir uwchlaw Castellnedd; ac y mae yn ddigon tebygol fod gweithio lled gysson wedi bod arno o'r pryd hwnw hyd yn awr. Amser dechreuad y glofeydd yn rhan uchaf y plwyf, yn ardal Aberpergwm, sydd fel y canlyn:—Yn 1791, dechreuwyd glofa Waunmachog, gan Syr H. Mackworth, Castell y GnoI. Ei berchenogion presenol ydynt Meistri Penrose a Starbuck. Yn 1798, dechreuwyd glofa Aberpergwm, gan J. Fox, Ysw., perchenog gwaith y Fynachlog y pryd hwnw. Perchenog presenol yw M. S. Williams, Ysw., Aberpergwm. Yn 1813, dechreuwyd glofa Pwllfa'r On, gan H. Veygrass, Ysw., ond perchenogir ef yn awr gan y Neath



Abbey Coal Co. Mae'r tri gwaith hyn yn cael eu cario yn mlaen yn fywiog yn bresenol (1874). Yn 1880, agorwyd Glofa Ynysarwad, gan G. Penrose, Ysw., a pherchenogir ef yn awr gan T. C. Hinde, Ysw. Yn 1872, agorwyd Glofa Abergarwedd, yn agos i Ynysarwedd, gan y Vale of Neath Coal Co. Mae y rhai hyn o fewn dwy filldir i orsaf Resolfen. Glofa Ynysbyllog, 1852; Glofa Llangattwg, 1854; Glofa Rhyding, 1871. Mae y rhai hyn yn ardal Eglwys y plwyf. Glofeydd ereill yn y plwyf, y rhai na chefais amser eu dechreuad, ydynt y Bryn-coch, y Fair Engine, Maes Melyn, Cwmdu, Brithdir, Court Herbert, &c. Saif y ddau flaenaf yn agos i balas y Dyffryn, ac y maent yn hen lofeydd. Mae'r lleill ger Sciwen, ac yn cael eu gweithio ar raddfa eang. *Slope* neu *drift* fu Glofa Cwrt Herbert o'r dechreu hyd yn ddiweddar; ond yn 1878, gorphenwyd suddo pwll yn ymyl geneu yr hen *slope*, ac felly y mae wedi ail-gychwyn cyfnod newydd.

*Gweithfeydd Haiarn, Alcan, Ffydd, &c.*—Mae amryw geisiadau wedi eu gwneyd gyda gweithfeydd haiarn yn y plwyf hwn, ond nid ydynt ar waith yn bresenol. Tua diwedd y ganrif ddiweddar, adeiladwyd dwy ffwrnes ger y Fynachlog; a phan yn meddiant J. Fox & Co., yn 1818, yr oeddynt yn alluog i wneyd 80 tunnell o haiarn yn wythnosol; ac yr oedd ffwrnes a foundry gan Raby & Co. yno hefyd. Erbyn 1828, yr oedd gwaith y Fynachlog wedi dyfod yn eiddo Meistri Price, y rhai a ychwanegasant beirianfa ato, fel y daeth yn un o'r rhai enwoaf yn y deyrnas. Ni weithir y ffwrnesi tawdd yn bresenol. Tua'r flwyddyn 1898, adeiladwyd dwy ffwrnes dawdd ar Banwen Byrddin; ond ni fu llwydd ar y rhai hyn, ac felly safodd y gwaith. Ail-gychwynwyd ef drachefn, ond heb lwydd etto. Safodd yr ail waith tuag-ugain mlynedd yn ol. Yn 1845, adeiladwyd dwy ffwrnes yn Abernant, Cwmnedd, gan J. Price, Ysw., ac un arall yn 1851. Safodd y gwaith hwn hefyd yn 1861. Dygir gwaith priiddfeini, &c., yn mlaen yma yn bresenol. Dechreuwyd Gwaith Alcan Ynysygerwn, Cwmnedd, mor fore a'r flwyddyn 1780, ac bu yn gweithio hyd 1821, nen ychydig yn ddiweddarach. Yn 1744, dechreuwyd gwaith Aberdulais (Aberdilais yn briodol); ac am amryw flynyddau, math o waith haiarn ydoedd, lle y rholid y barau yn llafnau teneuon, i'w cludo i Ynysygerwn i'w tinio, &c. Mae yma Waith Alcan eang yn bresenol, a phleth o hono yn y ddau blwyf (Castwg ac Illtyd). Gwel ABERDULAIS. Mae dau waith copr eang ac hynafol hefyd yn y plwyf hwn, y rhai a elwir y Mines Royal Copper Works, a'r Crown Copper Works. Saif y rhai hyn ger Mynachlog Nedd, a dygir hwy yn mlaen ar raddfa eang yn bresenol. Yn 1818, perchenogid yr olaf gan Mri. Roe & Co., a'r blaenaf gan y Mines Royal Co. Ar y ddau waith hyn, gyda'r Neath Abbey Iron Works a'r glofeydd cylchynol, yr ymddibyna trigolion Sciwen yn fwyaf neillduol. Mae Sciweu yn bentref mawr a phoblog iawn, ac yn unol, mewn gwirionedd, a phentref y Fynachlog. Dyma y lle poblogaf yn y plwyf o lawer; ac y mae ei sefyllfa ar fath o lechwedd iachus, oddiar yr hwn y ceir golygfa hyfryd ar yr holl wlad o amgylch. Fel yr awgrymwyd eisoes, mae yma Eglwys newyd hardd, gydag Ysgoldy gwych iawn, a adeiladwyd yn 1868.

Cynnwysa y lle y capeli canlynol hefyd:—Ebenezer (w. c.), 1888; Seion (r. c.), 1848; Tabernacl (a.), 1859; Horeb (b.), 1868; Bible Christians, 1872.

LLANGEINOR.—Plwyf yn nghanntref Glyn Ogwy, undeb Penybont, dosparth llys sirol Penybont a'r Bontfaen, deoniaeth Gronedd Uchaf (adran ddwyreiniol), archddeoniaeth ac esgobaeth Llandaf. Saif yr Eglwys tua saith milldir i'r gogledd o Benybont; a gorwedd y plwyf rhwng afon Ogwy ac afon Garw. Mynydd Llangeinor sydd fel tywysog balch, wedi dyrchu ei ben 1872 o droedfeddi yn uwch na gwyneb y mor; ac ar ei goryn, gwisga goron Carn y Wyrfa, tra mae Carn Llwyn Rhyddid fel addurn ar ei ysgwydd, yn yr uchder o 1768 troedfedd. Mae amryw ogofeydd hynod, gyda golygfeydd rhamantus iawn yn y plwyf hwn, gan fod rhanau o hono mor wyllt. garw, a mynyddig. Mae hawl Arlwydd y faenor hon yn perthyn i Dduciaeth Lancaster, a pherchenogir y tir, gan mwyaf, gan y Dduciaeth hono, a Iarll Dunraven, Treherne, Brogden, &c. Mesura'r plwyf 6,710 erw; tai yn 1861, 77; tai yn 1871, 188; pobl. yn 1861, 863; yn 1871, 1,005. Yr hyn a achosodd y cynnydd oedd agoriad Cledrffordd Cwm Ogwy yn 1865, ac agoriad amryw weithfeydd glo yn mhen uchaf y plwyf. Curadiaeth yw'r fywiolaeth eglwysig, gwerth £71 y flwyddyn, yn rhodd C. R. M. Talbot, Ysw., A.S.

LLANGENNYDD (*Llangennith*).—Plwyf yn nghanntref a dosparth llys sirol Abertawy, undeb Gwyr, esgobaeth Ty Ddewi, tuag 16 milldir i'r gorllewin o Abertawy. Maint y plwyf yw 8,479 erw; pris ardrethol, £201. Rhif y tai, 82; pobl. yn 1861, 884; yn 1871, 860. Prif berchenogion y tir ydynt Iarll Dunraven, Talbot o Fargam, a T. Penrice, Ysw. Yr olaf yw Arlwydd y faenor. Sylfaenwyd Bangor yma yn y 6ed ganrif gan Cennydd, ar ol iddo roddi gofal Bangor Caerfili i Ffili ei fab. Ymddengys i'r Fangor hon yn Mrowyr barhau am oesoedd mewn cryn fri. Wedi i'r Normaniaid ddarostwng yr Arglwyddiaeth yn 1099, darfu i Robert de Bellmonte, Iarll Warwick, wneyd cyfnewidiad mawr ar yr hen Fangor, trwy adeiladu Mynachlog eang yn ei lle. Parhaodd y fynachlog mewn urddas hyd y flwyddyn 1441, pryd y cymmerwyd ati gan yr awdurdodau, ac y rhoddwyd hi i Goleg *All Souls*, Rhydychain. Cafodd yr adeilad adfeilio ar ol y Diwygiad Protestanaidd, ac nid oes ond ychydig o'r hen fynachlog yn aros yn awr. Eglwys Llangennydd yw y fwyaf yn Mro Gwyr; y mae iddi glochdy uchel iawn; a medda yr adeilad lawer o addurniadau cywrair o gryn hynafiaeth. Ficeriaeth yw'r fywiolaeth, gwerth £65 y flwyddyn, yn nawdd a rhodd Thomas Penrice, Ysw., Y.H., Kilvrough House.

LANGIWC, neu LLANGUWC, (*Llangwick*).—Plwyf yn nghanntref Llangyfelach, undeb a dosparth llys sirol Castellnedd, deoniaeth Gwyr orllewinol, archddeoniaeth Caerfyrddin, esgobaeth Ty Ddewi. Mae hwn yn blwyf eang yn cynnwys 12,550 erw o dir, ac y mae wedi ei boblogi yn dda er ei fod yn lled fynyddig. Mae rhan o'r plwyf yn ffinio âg afon Tawy am filldroedd, o Bontardawyd hyd Ystalyfera, ac oddiyno rhed gydag afon Twrch hyd Frynman, yn cynnwys Gwaun

Caegurwen, &c. Ciwg ab Arawn ab Cynfarch, 6ed canrif, wnaeth Eglwys yma gyntaf; ond amlwg yw ei bod wedi ei hadeiladu lawer gwaith wedi y tro cyntaf. Mae wedi ei chodi ar ben mynydd uchel, yn yr arddull Normanaidd, ac iddi gorph, canghell, a chlochdy gyda dwy gloch. Adeiladwyd hi y tro olaf yn 1812. Ficeriaeth yw'r fywiolaeth, gwerth £800 y flwyddyn, yn rhodd esgob Ty Ddewi. Mae cof-golofn hardd yn mynwent yr Eglwys er cof am Lewis Morgan, Yaw., Danyrallt, mab hynaf John Morgan, Ysw., Gelligron. Ganwyd ef Tachwedd 4, 1880; bu farw Hydref 19, 1864. Adeiladwyd y cof-golofn ar draul gweithwyr Glofa'r Primrose, plwyf Cilybebyll.

Yn y flwyddyn 1217, bu'r Tywysog Llywelyn ab Iorwerth a'i fyddin yn gwersyllu yn y plwyf hwn, pan ar daith o Aberhonddu i Abertawy.

Mae'r plwyf wedi ei ranu yn bedwar dosparth, y rhai a elwir Alltygrug, Mawr, Gwauncaegurwen, a Eyal. Prif berohenogion y tiroedd ydynt Duc Beaufort, yr hwn yw Arlwydd y faenor; R. D. Gough, Yaw., Ynad Heddwch, Ynyscedwin House; Herbert Lloyd, Ysw., Ynad Heddwch, Cilybebyll, &c. Mae yn y plwyf amryw bentrefi poblog, megys Rhydyfro, Pontardawy, Brynaman, ac Ystalyfera. Saif pentref Rhydyfro ar ochr yr heol sy'n arwain o Bontardawy i Frynaman, a chynnwysa luaws o dai, a chapel i'r Annibynwyr.

Yn rhanbarth Caegurwen, cwr gorllewinol y plwyf, suddwyd pwell glo yn 1837, yn 200 llath o ddyfnder. Glo careg i gyd sydd yn y plwyf hwn; a'r wythien a elwir y Bresen, neu'r Wythien Fawr, a weithir yn y pwell a nodwyd. Codir o hono yn ddyddiol yn awr (1874) tua 70 tunnell. Yn 1847, suddwyd Pwell No. 2, yn yr un gymmydog-aeth, i'r dyfnder o 140 llath, a chodir yn ddyddiol o hono tua 80 tunnell. Yr un wythien weithir yn y ddau bwell, ac y mae yn bedair troedfedd o drwch.

*Pontardawe.*—Cafodd y pentref hwn ei enw oddiwrth y bont a adeiladwyd yma dros afon Tawy, gan gyssylltu plwyfi Llangiwc a Chilybebyll, tua'r flwyddyn 1757, gan W. Edwards, yr hwn a adeiladodd hen Bontypridd. Mae rhychwant bwa Pontardawe yn 80 troedfedd, ac un twll crwn yn y morddwydydd ar bob tu i'r afon. Er i Gamlas Cwm Tawy gael ei wneyd trwy'r lle hwn yn 1798, ni fu nemawr gynnydd yma hyd yn ddiweddar. Yn 1888, agorwyd Glofa'r Primrose yn mhlwyf Cilybebyll, a dygid y glo i'w lwytho i'r badau ger Pontardawe. Bu hyn yn foddion i roi ysgogiad i'r ardal. Yn mhen amryw flynyddau ar ol hyn, adeiladwyd Gwaith Alcan mawr ger Pontardawe, yn mhlwyf Llangiwc, yr hwn yn bresenol yw prif elfen fasnachol y lle. Mae yma Waith Fferyllol hefyd, a gorsaf ar Reilffordd Cwm Tawe. Yn 1858, adeiladwyd Eglwys ardderchog (St. Peter's) yn y lle, gwerth £10,000. Mae ei thwr pigfain yn 180 troedfedd o uchder, a'r oll o'r adeilad yn wych ac addurniadol. Cyssegrwyd hi gan Esgob Ty Ddewi, Gorphenaf 31, 1862. Codwyd hi yn hollol ar draul y diweddar W. Parsons, Ysw., Pontardawe, Cynnelir gwasanaeth Seisneg ynddi yn y bore, a Chymraeg yn yr hwyr. Mae merch y boneddwr a'i hadeiladodd yn cyfranu £70 y flwyddyn at ei chynnalïaeth yn bresenol. Yn 1869, adeiladwyd *Reading Rooms* yn y lle gan W. Gilbertson, Ysw., a'i

gyfeillion, perchenogion y Gwaith Alcan; ac y mae'r gwasanaeth Eglwysig Seisneg yn cael ei gynnal yn y *Rooms* yma yn yr hwyr; a thelir cyflog y Curad gan yr unrhyw foneddwy. Rhoddodd Arthur Gilbertson, Ysw., *organ* gwych yn anrheg i'r Eglwys, yr hyn oedd dra chymmeradwy. Mae yma Ysgoldy Cenedlaethol ardderohog, lle yr addysgir 180 o blant y gweithwyr. Hefyd, y mae yma Orsaf Heddeidwaid, lle y cynnelir llys Ustusiaid ar y dydd Gwener olaf yn mhob mis, er trin achosion cyfreithiol yr holl ardaloedd cylchynol. Mae yn yr ardal amryw balasau gwychion iawn, megys Ynysyderw, Gelligron, Alltycham, Brynheulog, Tanyrallt, y Ficerdy newydd (1870), &c. Mae yn y pentref a'r gymmydogaeth amryw gapeli Ymneillduol hefyd. Yn ymyl y pentref, ond ar y tu arall i'r afon, yn mhlwyf Cilybebyll, y mae pentref a chapel yr Alltwen, a adeiladwyd gyntaf yn 1757. Yn 1842, cododd y Trefnyddion Calfinaidd gapel y Tabernacl ar Graig Trebanos; ac yn 1866, codasant Zoar yn y pentref, ac y mae yn gapel pert iawn. Yn 1845, adeiladwyd Adulam, capel y Bedyddwyr, rhwng y pentref a Chraig Trebanos. Yn 1845 hefyd y codwyd Horeb, capel y Wesleyaid, ar ymyl y ffordd sydd yn arwain o'r pentref i Fynydd Gellionen. Ar y mynydd hwn, y mae capel Undodaidd, a fu gynt yn eiddo'r Presbyteriaid. Mae ei ddyddiad wedi ei gerfio fel y canlyn:—  
 "This place of worship, for the use of a Society of Protestant Dissenters, was first erected in 1692, under the patronage of the Hon. Bussey Mansel, Esq., and rebuilt 1801."

*Ystalyfera* sydd bentref mawr a phoblog, gyda Gweithfa Haiarn ac Alcan, a gorsaf ar Reilffordd Cwm Tawy, yn mharth gog.-ddwyreiniol plwyf Llangiwc, yn nghwm Tawy, 12 milldir o Abertawy. Yn 1888 yr adeiladwyd y ffwrnes gyntaf yn y lle hwn, gan Meistri Treacher a James. Wedi iddynt hwy ddechreu y gwaith, daeth J. Palmer Budd, Ysw., D.L., i undeb â hwynt. Yn fuan ar ol hyn, pa fodd bynag, ymadawodd Treacher a James, fel y daeth llywodraethiad y ffwrnes i law Mr. Budd. Yn y blynyddau 1889-41, ychwanegwyd dwy ffwrnes at yr un flaenorol, a gosodwyd i fyny agerbeiriant o allu 70 ceffyl i chwythu y ffwrnesi. Wedi gwneyd hyn, a gweled fod rhagolygon da am i'r gwaith dalu, adeiladwyd saith ffwrnes ychwanegol yn 1844, gyda chwyth-beiriant o allu 140 ceffyl at chwythu y cyfryw. Yn y gwaith hwn, a thrwy ddyfais o eiddo Mr. Budd, y dechreuwyd dwyn nwyon poeth y ffwrnesi i ateb dyben, trwy eu cludo o'r ffwrnesi mewn pibellau dan y berwedyddion i gynnyrchu ager, er arbed glo; ac hefyd i boethi yr awyr (*hot blast*) cyn ei ollwng i'r ffwrnesi. Yr oedd y darganfyddiad hwn o eiddo Mr. Budd yn un o'r rhai pwysicaf mewn cyssylltiad a gwneuthuriad haiarn; ac y mae'r cynllun yn cael ei fabwysiadu yn lled gyffredinol yn bresenol. Yn 1851 y dechreuwyd adeiladu Morthwylfa i'r gwaith hwn, a dechreuodd weithio yn Ionawr 1852. Perthyna i'r Forthwylfa yn bresenol 42 o ffwrnesi *puddling*, ac 16 o felinau rholio, fel y gellir gweithio yr haiarn yn barod i'r farchnad mewn gwahanol ffurfiau, yn llafnau berwedyddion, llafnau duon (*black plate*), llafnau *tin*, hoelion, &c. Mae pedair Melin Alcan yn derthyn i'r gwaith hwn hefyd, a phedwar peiriant o allu 840 ceffyl yn

eu gweithio. Hwn yw y Gwaith *Tin* helaethaf yn y deyrnas. Gwnaed 182,000 o gisteidiau o alcan yma yn 1872. Mae saith o'r ffwrnesi *blast* yn cael eu gweithio yn bresenol; a chyflogir yn y gwaith tua 4,000 o bobl.

Mae yn y pentref Eglwys hardd (Eglwys y Drindod) yn gapel anwes i'r Eglwys blwyfol. Mae yma Ysgoldy Cenedlaethol eang, ac Ysgoldy Brytanaidd hefyd. Capeli Ymneillduol y pentref ydynt a ganlyn:—Annibynwyr, Panteg, 1820-64; Wern, 1840-64; Gurnos, 1857, ac ail-adeiladwyd yn 1864; Bethel Glantwrech, 1861; Capel Seisneg, 1869. Bedyddwyr:—Caersalem, 1857; Zoar (S.), 1858-66. Methodistiaid:—Jerusalem, 1857. Wesleyaid:—Zion, 1862.

Rhwng Ystalyfera a Phontardawe, mewn lle a elwir Ynysymudw (Ynysymudwy), y mae Gwaith Priddfeini a Phibellau Pridd (*Drain Pipes*) yn cael ei gario yn mlaen ar raddfa eang, gan Meistri Lewis a Morgan.

Rhifedi holl anedduau y plwyf yn 1861, oedd 1,658; yn 1871, 1,788. Poblogaeth yn 1861, 7,988; yn 1871, 8,812. Am ychwaneg ar y plwyf hwn, gwel BRYNAMAN a CHWMTWRECH.

LLANGRHALLO (*Coychurch*).—Plwyf yn nghantref, undeb, a dosparth llys sirol Penybont, esgobaeth Llandaf. Saif yr Eglwys tua dwy filldir a haner i'r dwyrain o Benybont, ar ochr yr heol sydd yn arwain i Lantrisant, ac ar y tu deheuol i Reilffordd Deheudir Cymru. "Crallo Sant oedd yn amser Lles ab Coel, ac efe a wnaeth Langrallo, a myned ar adfael a wnaeth, hyd oni ail wnaethpwyd yr Eglwys gan Gruffydd ab Iestyn."—*Iolo MSS.*, p. 220. Dyna fel y dywed un cofnod Cymreig am Crallo, tra y dywed arall mai Sant o gor Iltyd oedd, ac mai yn y 6ed canrif y bucheddai. Pa fodd bynag am hyn, mae yn amlyg i'r Eglwys hon, ac eiddo'r Coetty a Lantrisant, fod gyda'r pwysicaf ac urddasaf yn Morganwg yn y cynoesoedd. Mae mawredd a bri cyntefig yr Eglwys hon fel pe yn anfoddlawn ymadael, hyd y nod yn awr pan y mae hynafiaeth yn pwyso yn drwm ar ei muriau. Un o hynodion hynafol y fan yw Croes o wneuthuriad hynod, tebyg i'r hon sydd yn Llaniltyd Fawr; a bernir mai Samson, olynnydd Iltyd, ac esgob Dore yn Ffrainge, a'i gosododd yma yn y 6ed canrif. Perigloriaeth yw'r fywiolaeth, gwerth £446, yn rhodd Iarll Dunraven, ac wedi ei threthu ar lyfrau y Frenines i £21 1s. 8c. Mae yn y plwyf hwn amryw olion hynafol iawn; a bernir fod y Gaer, yr hon sydd ar ben Mynydd y Gaer, wedi bod yn wersyllfa gan y Rhufeiniaid. Mae ffurf y Gaer yn hollol ysgwar, a'r conglau yn cyfeirio yn gywir i'r pedwar pwynt. Er fod dros 1,400 o flynyddau er pan ymadawodd y Rhufeiniaid o'n gwlad, y mae'r Gaer hon yn lled berffaith o ran ei ffurf; a gellir yn hawdd olrhain ei hamgylchedd, ei hyd, a'i lled, &c. Mae'r plwyf hwn wedi ei ranu yn bedair rhan, fel y canlyn:—Llangrallo Uchaf, 8,910 erw; Llangrallo Isaf, 1,090 erw; Pencoed, 2,045 erw; Llanbedr ar Fynydd, 2,060 erw. Maint yr holl blwyf, 9,105 o erwi. Yn rhanbarth Pencoed, y mae Gorsaf Pencoed ar Reilffordd Deheudir Cymru; ac adeiladwyd Eglwys yma tua'r flwyddyn 1862. Bu'r Paroh. Thomas Richards, awdwr y Geiriadur Cymraeg a Seisneg

sydd ar ei enw, yn rector yma am 40 mlynedd. Poblogaeth yn 1871:—Llangrallo Uchaf, 814; Llangrallo Isaf, 801; Pencoed, 628; Llanbedr, 198; cyfanrif, 1,486. Mae yn y plwyf gapeli gan y Bedyddwyr a'r Trefnyddion Calfinaidd, a chynnelir ysgol ddyddiol yn mhentref Pencoed. (GWEL LLANBEDR AR F'NYDD.)

LLANGYFELACH.—Plwyf eang yn nghantrf Llangyfelach, undeb-a dosparth llys sirol Abertawy, deoniaeth Gwyr Ddwyreiniol, archdeoniaeth Caerfyrddin, esgobaeth Ty Ddewi. Saif yr Eglwys a'r pentref tua phedair milldir i'r gogledd o Abertawy. Bernir mai Cyfelach, Esgob Llandaf yn yr 8fed canrif, a wnaeth Eglwys yma gyntaf, gan ei chyssegru i Dewi Sant; ac mewn cyfnod diweddarach, cafodd ei chyssegru ar enw Cyfelaoh, ei sylfaenydd. Mae yr Eglwys a'r clochdy hyn yn mhlith hynodion y wlad, am fod y naill o honynt wedi ei adeiladu yn un rhan o'r fynwent, a'r llall mewn rhan arall. Mae hen draddodiad yn mhlith y trigolion mai yr achos o hyn oedd, i'r adeiladwyr wrth godi yr Eglwys fethu codi y clochdy yn gyssylltiol â hi, am fod yr hyn a godid y dydd yn syrthio y nos, ac i un o'r adeiladwyr ryw ddiwrnod dasu ei forthwyl o ben yr adeilad, gan gynyng fod y clochdy i gael ei godi yn y man y disgynai, ac felly y bu. Ond mwy tebygol o lawer yw, mai yn mhen cyfnod maith ar ol adeiladu yr Eglwys yr adeiladwyd y clochdy; ac yn hytrach nà thori yr Eglwys er eu cyssylltu, iddynt godi y clochdy yn y man y saif yn bresenol.

Mae'r plwyf wedi ei ddosparthu fel y canlyn:—1. Parsel Clas Uchaf; 2. Clas Isaf; 3. Parsel Mawr Uchaf; 4. Mawr Isaf; 5. Penderri Uchaf; 6. Penderri Isaf; 7. Clydach, neu Rhyndwyclydach Uchaf; 8. Clydach Isaf. Mae hamlet Clas Uchaf yn bresenol yn cael ei drethu at gynnal ei dlodion, yn annibynol ar Clas Isaf, yn ol *valuation* o £6,596, a rhifai ei boblogaeth yn 1871, 2,266. Rhifedi poblogaeth y ddau Glas yn nghyd yn 1851 oedd 7,082; yn 1861, 9,486; yn 1871, 12,886; Clas Isaf yn unig, 10,620. Yn Clas Isaf y saif Treforris, a pheth o derfynau newyddion tref Abertawy. Rhifedi poblogaeth Clas Isaf yn 1881 oedd 4,251.

Yn mharsel Rhyndwyclydach y saif pentref hardd *Clydach*, yn Nghwm Tawy, ar ochr yr heol sydd yn myned o Abertawy i Aberhonddu, a'i bellder o'r blaenaf yw pum' milldir. Mae yma waith haiarn eang gan Meistri Player a'i Gyf., gydag amryw lofeydd. Mae yn y pentref Eglwys ddosparthol hefyd (St. John), yn cynnwys corff, cangell, a chlochle. Ficeriaeth yw'r fywiolaeth, gwerth £150 y flwyddyn, yn rhodd y Goron ac Esgob Ty Ddewi bob yn ail. Cynnwysa'r pentref ysgolion rhagorol hefyd, yn ol y cyfundrefn Cenedlaethol a Brytanaidd. Mae yma gapeli ymneillduol hefyd gan yr Annibynwyr a'r Bedyddwyr. Mae Rhyndwyclydach yn cael ei drethu fel y canlyn:—*Gross estimated value*, £7,764; *rateable value*, £7,542. Poblogaeth yn 1861, 1,720; yn 1871, 2,208. Achoswyd y cynnydd hwn yn y boblogaeth gan agoriad glofeydd newyddion yma yn ystod y deng mlynedd diweddaf.

Rhifedi tai Parseli Mawr Uchaf ac Isaf yn 1861 oedd 157, a'r boblogaeth, 788; yn 1871, tai, 168; poblogaeth, 853. Priodolir y cyn-

nydd i helaethiad y glofeydd. Rhif tai Penderri yn 1861 oedd 267; poblogaeth, 1,880; yn 1871, tai, 858; poblogaeth, 1,767. Achoswyd y cynnydd hwn trwy i waith dur newydd gael ei adeiladu yn Mharsel Clas.

Mesura yr holl blwyf 27,805 o erwi, a chynnwysai o dai yn 1861, 2,796; poblogaeth, 18,219; tai yn 1871, 8,526; poblogaeth, 17,714.

*Treforris* yw'r dref boblogaf a phwysicaf yn y plwyf. Cafodd y dref hon ei henw oddiwrth enw Syr John Morris, Barwnig, o Clasmont, yr hwn a adeiladodd weithfa gopr yma yn 1768. Yr un adeg y dechreuwyd adeiladu'r dref, a'r naill a'r llall o honynt yn ol cynllun a than arolygiad Mr. William Edwards, yr hwn a adeiladodd Bont Treforris dros afon Tawy, a'i bwa yn 95 troedfedd o rychwant, ac 20 troedfedd o uchder. Mae'r bont hon yn cyssylltu plwyfi Llangyfelach a Llan-samlet â'u gilydd yn y fan hon. Y William Edwards hwn adeiladodd Hen Bontypridd yn 1755. Wedi iddo adeiladu Pont Treforris, gyda gweithfa gopr, a rhanau o'r dref, rhoddodd ei waith y fath foddlonrwydd i Syr John Morris, fel y darfu iddo ei gyflogi i arolygu y weithfa. Bu Mr. Edwards yn y swydd bwysig ac anrhydeddus hono dros 20 mlynedd. Fel yr oedd y gwaith yn helaethu, a'r boblogaeth yn lluosogi, gwelwyd angen codi addoldy yn y lle, ac felly adeiladwyd Libanus (A.) y tro cyntaf yn 1782. Cafodd hwn ei helaethu yn 1791, ei ail-adeiladu yn 1831, ac etto yn 1857. Yn 1871, dechreuwyd adeiladu y Capel mawr, yr hwn sydd gyda'r harddaf yn y wlad, a chostiodd ei godi yn agos i *ddeng mil o bunnau!* Yn 1802, adeiladwyd Eglwys St. John yn y dref, yn gapel anwes dan yr Eglwys blwyfol. Mae wedi ei hail-adeiladu yn ddiweddar, a'i chlochdy yn anorphenol. Yn 1802, adeiladodd y Methodistiaid Gapel Philadelphia hefyd, yr hwn a helaethwyd yn 1829. Dywed y *Cambrian Guide* fod rhifedi trigolion Treforris yn 1818 tua 1,000, a dywed y *Guide to Swansea* eu bod tua 1,500 yn 1828. Erbyn hyn, barnwyd yn angenrheidiol cael Ty Marchnad yn y dref, yr hwn a adeiladwyd yn 1827, ac y mae angen un newydd yn druenus. Tua'r flwyddyn 1820, tynwyd Clasmont House i lawr, a symmudwyd ei ddefnyddiau i Scetty Park. Parhaodd y gwaith i fyned yn y blaen gyda chyssondeb am flynyddau lawer wedi adeiladu y Ty Marchnad, ond nid oedd cynnydd mawr yn y lle hyd o fewn yr ugain mlynedd diweddar. Yn 1845, adeiladodd y Bedyddwyr Gapel Seion yn y dref. Yn 1869—70, ail-adeiladwyd ef yn yr arddull Eidalaidd a *granite* du, gyda cheryg Bath yn addurnwaith, ac y mae yn un o'r capeli harddaf ac helaethaf yn y dywysogaeth. Yn 1869, adeiladwyd Capel Wesleyaid Seisnig yn y lle, yr hwn sydd adeilad prydferth a chyfleus. Mae yn y dref Ysgoldai gwychion hefyd, lle yr addysgir y plant yn ol y cyfundrefnau Cenedlaethol a Brytanaidd. Mae yma luaws o weithfeydd eang yn bresenol mewn undeb a'r dref, megys *Morrison Spelter Works, Forrest Spelter Works, Pottery Works*, (y tri yn eiddo Mr. Vivian), *Foundry* eang Mr. Thos. Phillips, gyda phyllau glo *Copper Coal Pit, Ty Canol Coal Pit*, a phedwar o weithfeydd fferyllol helaeth. Mae amryw weithfeydd newyddion yn cael eu codi yma pan yr ydym yn cofnodi yr hanes hwn.

Mae lluaws o weithfeydd glo yn y plwyf yn cael eu gweithio ar raddfa eang, a pherthyn y glo a weithir i'r dosparth uchaf, sef y Glo Rhwym; tra y mae holl haenau y dosparth isaf yn gorwedd yn dawel yn y dyfnder, yn aros cyfnod arall a chenedlaeth arall i dalu ymweliad â hwynt.

Cynnelir feiriau yn Llangyfelach dyddiau Mawrth a Mercher cyntaf yn mis Mawrth (Ffair y Ffigys), Mai 1, Gor. 18, a Tach. 1.

LLANGYNWYD.—Plwyf a phentref yn nghanntref, undeb, a dosparth llys sirol Penybont, deoniaeth Gronedd Uchaf, archddeoniaeth ac esgobaeth Llandaf. Saif yr Eglwys tua saith milldir i'r gogledd-orllewin o Benybont-ar-Ogwy. Mae wedi ei chyssegru i Cynwyd, sant o Lancarfan, 6ed canrif. Adeilad hynafol ydyw, yn yr arddull Normanaidd, ac iddi gorff, cangell, porth, a chlochdy ysgwar, yn yr hwn y mae chwech cloch. Dyddia ei choslyfr o'r flwyddyn 1662. Ficeriaeth yw'r fywiolaeth, yn unol â Churadiaeth Maesteg, gwerth (oddiar 1867) £800 y flwyddyn, gyda phersondy. Mae Llangynwyd yn Fam Eglwys, ac yn perthyn i'r dosparth hynaf, a pherthynai iddi gynt y Bettws a Chapeli ereill. Barna rhai i'r Rhufeiniaid adeiladu amddiffynfa yn y plwyf hwn yn agos i'r Llan, ac mai gweddillion Rhufeinig yw'r hen Gastell Coch. Gelwir man arall yn y plwyf wrth yr enw Caer Emmy, lle y mae olion cloddfeydd milwraidd, a barna rhai mai Rhufeiniwr oedd yr Emmy hwn. Mewn man arall yn y plwyf, a elwir Mynydd Beadan, neu Bayden, y mae olion amlwg o wersyllfa eang. Ceir yma ugeiniau o ffosydd a gwrthgloddiau o wahanol faint a ffurf, ac etto nid oes genym hanes am danynt, fel ag i'n hyspysu yn mha oes a chan bwy y gwnaed y rhai hyn. Mae'r cyfaiil Llyfnwy yn tueddu i fyned mor bell a dweyd mai yma y syrthiodd Arthur Fawr, ac mai oddiyma y cludwyd ei gorff dros y mor i Ynys Afallon (Glastonbury) i'w gladdu. Mae pob hanesydd arall ag y daethum i gyffyrddiad â hwy yn dweyd mai yn mrydr Camlan (Camelford) yn Nghernyw y syrthiodd Arthur, yn y flwyddyn 542. Cofier hefyd nad oedd brwydr Camlan yn un o ddeuddeg buddugoliaeth Arthur ar y Saxoniaid. Er nas gallwn gydweled â Llyfnwy mai yma y cwympodd y Brenin Arthur, teimlwn yn ddiolchgar iddo am ddwyn y peth i sylw. Cyduna haneswyr i Arthur ymladd un o'i brif frwydrau mewn lle a elwir *Mont Badon*, ger Caer Baddon medd rhai. Yr hyn sydd yn anhawdd ei benderfynu yw, pa un ai ger Bath neu ynte yn Morganwg y mae'r *Mont Badon* y sonia haneswyr am dano. Nid yw fod Baddon a Badon mor debyg i'w gilydd yn un prawf mai ger Caer Baddon (Bath) yr ymladdwyd y frwydr; ac o'r tu arall, er nas gellir profi hyny, y mae fod y fath luaws o olion amddiffynfeydd ar Fynydd Bayden, Llangynwyd, a'r enw yn cyfateb agos yn hollol i *Mont Badon*, yn rhoi i ni fath o hawl i gredu mai yma yr ymladdwyd prif frwydr y Brenin Arthur. Ymladdwyd brwydr *Mont Badon* yn y flwyddyn 522, a hono oedd deuddegfed buddugoliaeth Arthur ar y Saeson, Angliaid, a'r *Jutiaid*, a gorchfygwyd hwy mor llwyr, fel na feiddasant godi yn ei erbyn drachefn. Trueni na fyddai genym hanes am Gastell Coch, Llangynwyd,—gan bwy a pha bryd ei hadeiladwyd, &c.; ond ymddengys nad



oes dim o'i hanes wedi ei gofnodi, ac felly rhaid ei adael. Mesura plwyf Llangynwyd 15,460 o erwi, ac y mae wedi ei ranu yn bedwar parcel fel y canlyn:—Parcel Uchaf, 6,544 erw; Parcel Canol, 8,076 erw; Cwmdu, 8,818 erw; Beadan neu'r Parcel Isaf, 2,027 erw. Poblogaeth y gwahanol barseli mewn gwahanol flynyddau oeddynt:—

|                     | 1801. | 1831. | 1861. | 1871. |
|---------------------|-------|-------|-------|-------|
| Parsel Uchaf ... .. | 175   | 260   | 2,187 | 2,154 |
| „ Canol ... ..      | 246   | 331   | 324   | 428   |
| „ Cwmdu ... ..      | 238   | 968   | 4,154 | 5,836 |
| „ Isaf ... ..       | 150   | 167   | 387   | 526   |

Rhif tai yr holl blwyf yn 1861 oedd 1,580; yn 1871, 1,799. Cynnwysa'r plwyf dros gant o dyddynoedd, enwau a maint y rhai sydd fel y canlyn:—

| ENW.              | E.  | C. | P. | ENW.                 | E.  | C. | P. |
|-------------------|-----|----|----|----------------------|-----|----|----|
| Aberdwynant ..    | 0   | 3  | 38 | Cwmdu Canol ..       | 209 | 1  | 20 |
| Argoed Afan ..    | 96  | 3  | 38 | Cwm Felin ..         | 1   | 3  | 14 |
| Argoed Hill ..    | 84  | 0  | 8  | Cwm yr Ysgla ..      | 287 | 1  | 16 |
| Baedan ..         | 85  | 0  | 39 | Cwntir ..            | 52  | 1  | 19 |
| Banwen Hill ..    | 51  | 1  | 2  | Cwrtyrnwnws ..       | 170 | 0  | 8  |
| Blaen Caerau ..   | 291 | 2  | 19 | Dyffryn ..           | 359 | 1  | 14 |
| Blaen Cwm Cerwyn  | 155 | 1  | 3  | Dyffryn Madog ..     | 123 | 1  | 16 |
| Blaen Cwmdn ..    | 202 | 0  | 36 | Ffordd y Gyfraith .. | 37  | 0  | 35 |
| Blaen Llyfnwy ..  | 197 | 3  | 12 | Fforest Brombila ..  | 8   | 1  | 31 |
| Bron y Gern ..    | 7   | 1  | 25 | Fforest Nest ..      | 81  | 3  | 30 |
| Bryna ..          | 6   | 3  | 35 | Ffos ..              | 170 | 2  | 15 |
| Bryn Cynan ..     | 297 | 3  | 14 | Ffynnon Iago ..      | 45  | 1  | 12 |
| Bryn Defaid ..    | 37  | 0  | 24 | Gadlys ..            | 137 | 0  | 19 |
| Bryn y Garth ..   | 61  | 3  | 27 | Garth ..             | 78  | 0  | 19 |
| Bryn Liefrieth .. | 113 | 3  | 28 | Garth Fach ..        | 11  | 0  | 5  |
| Brynllywarch ..   | 167 | 2  | 36 | Garn Wen ..          | 259 | 3  | 39 |
| Bryn Mawr ..      | 103 | 2  | 32 | Gelli ..             | 379 | 0  | 16 |
| Brynyfro ..       | 103 | 3  | 34 | Gelli Las ..         | 121 | 1  | 37 |
| Brynyrhug ..      | 19  | 0  | 30 | Gelli Syron ..       | 116 | 1  | 22 |
| Cae ap Ifor ..    | 19  | 3  | 14 | Gelli Lenor ..       | 61  | 3  | 37 |
| Cae Chwarel ..    | 61  | 2  | 35 | Gilfach ..           | 134 | 2  | 22 |
| Caer Emmy ..      | 173 | 3  | 31 | Gilfach Ganol ..     | 36  | 1  | 9  |
| Caer Gymrig ..    | 10  | 2  | 35 | Gilfach Isaf ..      | 36  | 2  | 36 |
| Castell ..        | 136 | 0  | 14 | Glyn Cymmer ..       | 201 | 0  | 21 |
| Cefnydfa ..       | 160 | 2  | 3  | Graig Lwyd ..        | 160 | 0  | 30 |
| Cefn y Gelli ..   | 173 | 3  | 3  | Gwaun yr Arlwydd..   | 2   | 0  | 32 |
| Cildendy ..       | 35  | 2  | 27 | Hendre Owen ..       | 763 | 1  | 33 |
| Coed Lleyshon ..  | 20  | 1  | 21 | Llest neu Lluest ..  | 216 | 3  | 17 |
| Coegnant ..       | 153 | 0  | 1  | Lluest Fach ..       | 26  | 0  | 37 |
| Cornhweh ..       | 10  | 2  | 10 | Lluest Wen ..        | 91  | 1  | 3  |
| Croes Efa ..      | 6   | 1  | 20 | Llwydarth ..         | 220 | 1  | 13 |
| Croes Erw ..      | 212 | 1  | 30 | Llwyndyrus ..        | 1   | 1  | 35 |
| Cwm Cerdin ..     | 3   | 0  | 21 | Llwyn Gwladus ..     | 78  | 0  | 7  |
| Cwm Cerwyn ..     | 33  | 3  | 7  | Llwyni ..            | 171 | 0  | 30 |

| ENW.                   | E.  | C. | P. | ENW.              | E.  | C. | P. |
|------------------------|-----|----|----|-------------------|-----|----|----|
| Maes Cadlor ..         | 298 | 1  | 4  | Ton Beili ..      | 46  | 3  | 20 |
| Maesteg Uchaf ..       | 126 | 1  | 14 | Ton y Cwd ..      | 37  | 1  | 11 |
| Maesteg Canol ..       | 297 | 1  | 86 | Ton Du ..         | 150 | 2  | 2  |
| Maesteg Isaf ..        | ..  | .. | .. | Ton Phylip ..     | 98  | 1  | 3  |
| Melin Talyfedw ..      | 3   | 2  | 32 | Tor y Ceryg ..    | 117 | 1  | 3  |
| Mynydd Bach ..         | 28  | 1  | 24 | Troedyrhiw ..     | 181 | 1  | 23 |
| Mynydd y Caerau ..     | 907 | 0  | 0  | Ty Canol ..       | 56  | 1  | 6  |
| Nantycrynwydd ..       | 111 | 0  | 9  | Ty Chwith ..      | 162 | 0  | 3  |
| Nant y Fedw ..         | 85  | 2  | 13 | Ty'n y Daren ..   | 132 | 1  | 19 |
| Nant y Ffyrlling ..    | 45  | 2  | 36 | Tydu ..           | 17  | 3  | 22 |
| Nant Twic ..           | 83  | 0  | 28 | Ty Gwyn Bach ..   | 423 | 1  | 25 |
| Nant y Whwyaid ..      | 93  | 3  | 29 | Ty Maen ..        | 214 | 0  | 30 |
| Neuadd Domos ..        | 71  | 1  | 30 | Ty Maen, Cwmdu .. | ..  | .. | .. |
| Pencastell ..          | 113 | 1  | 32 | Ty Newydd ..      | 76  | 0  | 2  |
| Pentref ..             | 59  | 1  | 30 | Ty'n-y-pant ..    | 48  | 1  | 7  |
| Penylan ..             | 70  | 2  | 4  | Ty Talwyn ..      | 800 | 2  | 36 |
| Pontrhydecyff (tafarn) | 0   | 1  | 31 | Ty'n y Waun ..    | 184 | 1  | 31 |
| Pyllau ..              | 3   | 0  | 32 | Y Foel Fach ..    | 27  | 2  | 4  |
| Surdir ..              | 37  | 0  | 31 | Y Fferm ..        | 16  | 2  | 2  |
| Sychbant a Thy'nycse   | 202 | 0  | 34 | Yr Hen Dafarn ..  | 3   | 2  | 18 |
| Tafarn Uchaf ..        | 39  | 2  | 7  | Y Ficerdy ..      | 1   | 0  | 1  |
| Tona Dafydd ..         | 68  | 8  | 39 | Ynys y Pandy ..   | 2   | 3  | 28 |

Yn mhlith y rhes uchod, y mae dau le neillduol, y rhai y mae eu henwau yn ddigon adnabyddus i drigolion Morganwg, sef Brynllwarch a Chefnydfa. Yn y blaenaf y preswyliai y Parchedig Samuel Jones, M.A., offeriad Llangynwyd, a'r hwn oedd un o brif gychwynwyr Ymneillduaeth yn Nghymru. Ymadawodd a'r Eglwys ar Ddydd Bartholomew, Awst 24, 1662, am nas gallodd o gydwybod gydymffurfio a Deddf Unffurfiaeth. Yr oedd efe yn briod a Mary, merch Rhys Powel, Ysw., Maesteg, a barna rhai iddo gael Brynllwarch yn gynysgaeth gyda'i wraig. Cawsant 14 o blant, ac ar enedigaeth yr olaf bu y fam farw, Gor. 28, 1676, a chladdwyd hi yn mynwent Llangynwyd. Gan fod iddo amryw blant bychain, a'i ofalon yntau gyda'r weinidogaeth yn fawr, barnodd yn ddoeth i briodi drachefn yn mis Awst, 1677, a gwraig weddw o'r enw Mary Dafydd, o'r Bontfaen, ond ni chafodd blant o hono. Wedi ymadael a'r Eglwys, sefydlodd Mr. Jones fath o Athrofa yn ei dŷ, a bu lluaus o ddynion ieuangc yn ddysgyblion iddo trwy'r blynyddau. Yr oedd yn cael ei gydnabod hyd y nod gan Eglwyswyr yn un o brif ysgolheigion yr oes. Dywedai Calmy am dano ei fod yn athronydd galluog, yn hollol feistr ar y Groeg a'r Lladin, ac hefyd yn bur hyddysg yn yr ieithoedd dwyreiniol. Dywed hefyd ei fod yn bregethwr hyawdl, yn ddadleuwr gwych, yn Gristion rhagorol, addfwyn, doeth, heddychol, a melus ei gyfeillach. Dywedai Dr. Robert South hefyd, mewn llythyr a anfonodd iddo Mawrth 12, 1688, ei fod yn ei gyfrif yn un o brif ddsygedigion yr oes, ac yr hoffai gael ei gynnorthwy yn ei fytyrdodau. Bu Dr. Hugh Lloyd, Esgob Llandaf, a Dr. Francis Davies, yr Archdeacon, yn dymuno arno ddyfod yn ol i'r Eglwys yn 1665. Yntau, yn dra boneddigaidd, a ysgrifennodd bedair rhes o ofyniadau, ac a'u hanfonodd

iddynt, gan ddymunol cael atebiad eglurhaol iddynt. Dyma y gofyniadau :—

“*Am Gyhoeddiad y Gyfraith (Unffurfio).*”

“1. A oes rhyw lyfr heblaw yr un a ysgrifenydd dan ddylanwad yr Yspryd anffaeledig, o ran sylwedd a thraethiad, ag hawl gyfiawn i addebiad diffuant y deall, a chydysuniad yr ewyllys i'r oll, a phob peth a gynnwysir ynddo? Ai nid yw barnau annghydweddol dynion cydwobodol a dysgedig yn nghylch y *Llyfrau neillduol* a nodir yn y cyhoeddiad, a'u rhesymau cryfion (hen a diweddar) dros ac yn erbyn, a thuedd ynddynt i greu petrusder yn meddyliau dynion o gynneddfau isel o barth y pyngciau dadleuol y gofynir i ni eu haddef heb bryder.

2. Ai nid rhagrith mellidgedig mewn dyn yw ardstystio ei fod yn cydolygu a'r oll sydd yn y llyfrau hyn, neu unrhyw lyfrau ereill, os bydd ei feddwl yn amheu eu pyngciau?

3. Ai nid yw y Llyfr Gweddi, &c., yn cynnwys erthyglau sydd yn rhwystr i wneyd yr addebiad a ofynir, megys yr erthygl *Filiog*, yn Nghredo Athanasius, yr hon sy'n cau allan Eglwys Groeg o'r possibilrwydd o iachawdwriaeth? Mae yr adran yn y *Rubric* ar ddiwedd Bedydd Cyhoeddus, yn nghylch cadwedigaeth ddiarnheul yr holl blant bedyddiedig sydd yn meirw cyn cyflawni pechod gweithredol; a'r gwir ddyogel obaith o iachawdwriaeth pob person a gleddir, yn ol y Llyfr Gweddi, yn ymddangos fel yn gwrthddywedyd cyfseithiad y Salman, megys Salm cv. 28. Cymharer Salmau y Llyfr Gweddi a'r Beibl.”

“*Gofyniadau am y Defodau a arddodir.*”

“1. Ai nid yw pob ffurf sefydledig o ddyfais dyn mewn addoliad Dwyfol, yn cael eu gwahardd gan yr ail orchymmyn, a chan fygythion chwerwon am ychwanegu, cyfnewid, neu dynu oddiwrt h yr addoliad Dwyfod? Unig ran dyn yw iawn lywodraethiad amgylchiadau naturiol sydd yn nglyn â threfn a gweddeidd-dra, yr hyn sydd i wasanaeth gwladol a chrefyddol yn gyffredin; ac yn eu natur, gweithrededd ydynt, ac nid fel rhan o grefydd.

2. Ai nid yw'r defodau dynol a ordeinir ac a ddysgir, trwy yr ystyr neillduol a roddir iddynt, yn dyfod yn berffaith grefyddol; a thrwy gael eu gosod fel ammodau angenrheidiol i wasanaeth Duw, yn dyfod yn rhan o'r addoliad hwnw? Nid rhan o'r addoliad moesol olygaf, ond o'r addoliad sefydledig a defodawl, neu ddamweiniol, fel yr oedd y tabernacl, y deml, yr allor, y gwyliau, yr offeiriad, a'r gwisgoedd offeiriadol dan y gyfraith, yn rhan o'r gwasanaeth Lefiticaidd.

3. Gan mai adeiladu corph Crist yw yr amcan professedig yn yr arddodiadau hyn, onid yw yn sarhad ar ddoethineb, gofal, a ffyddlondeb ein Gwaredwr bendigedig, Brenin mawr yr eglwys, i unrhyw foddion gael ei ddefnyddio gyda ffurf ddefodol i'r amcan hwnw, gan ei fod wedi ein hyspysu yn ei gyfraith sanctaidd ei fod ef ei hun wedi darpar digon ar ei gyfer? Ac onid yw canlyniadau truenus y cyn-

nygion a wnaed gan ddoethion yn ngwahanol gyfnodau yr eglwys er cyrhaedd yr amcan, yddynt eu hunain yn dangos diffyg addasrwydd ac effeithioldeb y dyfeisiau i gyrhaedd y nod? Mae Duw yn rhoi addewid a bendith ar ei sefydliadau ei hun; ond nis gallwn ni roi y naill na'r llall ar yr eiddom ni.

4. Ar ol ymostwng i'r defodau presenol, a allai dyn gydag unrhyw gyssondeb cydwybodol wrthod ymostwng i ddefodau ereill o eiddo Eglwys Rufain (pe gelwid am hyny), gan y cydnabyddir mai yr un amcan sydd gan yr oll; a bod llawer o'r rhai hyny yn ymddangos yn llai tramgwyddus, oblegyd nad ydynt wedi eu camarfer mor wrthun a rhai o'r eiddom ni y cydsyniwyd arnynt eisioes?"

*"Gofyniadau o barthed Ail-ordeiniad."*

"1. A ddylai dyn, yr hwn trwy garedigrwydd Dwyfol a fyddo wedi cael tystiolaeth yn ei galon ei hun, a rhai seliadau o'i weinidogaeth ar galonau ereill, ei fod yn weinidog gwirioneddol, er y distadlaff i Grist, wneyd rhywbeth a fyddo yn cael ei ddeall yn wadiad o'i weinidogaeth?"

2. A ydyw yn gydweddol ag anrhydedd Crist ac urddas ei ordeiniadau, ac yn garedig at eneidiau dynion, i weinidog a fyddo yn ymwybodol o'i alwad fewnol ac allanol, i fyned i brynu ei ryddid, er arfer ei weinidogaeth mewn un cyfnod, a thrwy hyny, hyd y mae ynddo, ddirymu ei lafur gweinidogaethol mewn cyfnod arall, ac felly rwydo cydwybodau y dynion oeddynt wrthddrychau'r cyfryw weinidogaeth?"

8. Ai nid peth newydd, yn tueddu i ddianrhydeddu yr Efengyl a'i gweinidogaeth yn gyffredinol, yw ymwrthod ag ordinhad a gyfrifid yn safadwy a chyfreithlon, fel y tybiwyf yn marn yr holl eglwysi Protestanadd, yn neillduol Eglwys Loegr, fel y dangoswyd gan yr Arch-egob Bancroft yn sefydliad esgob Ysgotaidd, yr hwn oedd wedi ei ordeinio gan y Presbyteriaid yn unig."

*"Gofyniadau o barth tramgwydd."*

"1. Oni ddylai y gorchymmynion gwaharddol, y rhai sydd mewn grym bob amser, ac yn gwahardd tramgwydd—natur anfad, yr hwn sydd yn eneid-lofruddiaeth—y gwae ofnadwy a gyhoeddir ar yr hwn a dramgwyddo un, a hwnw yr un lleiaf, yn nghyda gofal tadol a thynnerwch yr apostol yn yr achos, beri i bob Cristion gwirioneddol fod yn dra gochelgar rhag bod yn achos tramgwydd i neb?"

2. A all gorchymmyn yr heddynad ddyogelu y gydwbybod rhag euog-rwydd, mewn gweithred ag y gwyddid yn flaenorol, a brofai yn dramgwyddus, ac yn achos i lawer bechu?"

8. A ydyw dirmyg y Weinidogaeth, a gweinidogion yr Efengyl,—y gwawd a deflir ar eu personau, eu swydd, a'u galwedigaeth, yr anghrefyddoldeb, y penrhyddid, a'r didduwiaeth, a welir yn y genedlaeth bechadurus hon, ddim yn cael ei fodolaeth. neu o'r hyn lleiaf yn cael ei nerthu, gan y gwreiddyn hwn, sef tramgwydd gweinidogaethol?"

4. Gan nad yw y pechod lleiaf i'w gyflawni trwy wybodaeth, er gochel y dyoddefaint mwyaf, neu er cyrhaedd daioni mawr, os ym-

wthia gweinidog yn erbyn goleuni yn yr oll neu rai o'r pethau hyn, oni fyddai yn gyfiawn i Dduw ddinystrio ei holl ymdrechion, a'i ddilyn yntau gyda dychrynfeydd cydwybod i'w fedd? Trwy enghreifftiau amlwg tufewn o brofiad diweddar, y mae hyn yn ymddangos bron yn ddiamheuol."

Pa un a gafodd ef atebiad i'r gofyniadau ai peidio, mae yn ffaith iddo ef barhau gyda'r Ymneillduwyr hyd ei fedd; a dywed rhai haneswyr iddo gael ei erlid a'i garcharu. Bu farw Medi 10, 1679, yn 70 mlwyd oed, a chladdwyd ef yn mynwent Llangynwyd.

*Cefn Ydfa* sydd balas hynafol yn y plwyf hwn, ac y mae ei enw wedi dyfod yn air teuluaidd mewn cyssylltiad â'r "Ferch o Gefn Ydfa" a Wil Hopkin y bardd. Ganwyd y foneddiges hon yn 1704. Pan tua 18 oed, daeth i gyffyrddiad â dyn ieuanc o döwr, o'r enw William Hopkin. Ymseorchodd y ddau yn eu gilydd, a llifai ffrwd o drydan serch o galon y naill i eiddo'r llall; ond tra yr oedd hwn cariad yn ei danbeidrwydd, cododd cwmwl du i'r awrygloch,—daeth rhieni'r ferch i ddeall yr amgylchiadau; gwaharddwyd iddi i siarad â Wil Hopkin, cadwyd hi mewn ystatell yn gaeth yn y ty, gorfodwyd hi i briodi boneddwr arianog o'r enw Madog, dyrysodd ei synwrau, a bu farw mewn gwallgofrwydd ar yr 16eg o Fehefin, 1727. Claddwyd hi yn mynwent Llangynwyd, ac y mae ei bedd yn cael ei gadw mewn parch yn bresenol. Mewn hiraeth am dani, ac o serch tuag ati, y cyfansoddodd Wil Hopkin y gân boblogaidd hono, "*Y Gwenith Gwyn*." Mae hanes y garwriaeth, &c., wedi ei gyhoeddi gan Llyfnwy mewn llyfryn bychan o'r enw "*Cupid*;" ac y mae rhiangerdd gampus ar y testyn gan Mynyddog.

*Maesteg* sydd yn bresenol yn dref boblogaidd, yn mharsel Cwmdu, yn y plwyf hwn, lle mae gweithfeydd haiarn eang, ar lan afon Llyfnwy, a gorsaf ar Reilffordd Dyffrynoedd Llyfnwy ac Ogwy, yr hon sydd linell rhwng Maesteg, Porthcawl, a Phenybont. Dygwyd Maesteg dan reolaeth Gweithred Iechyd 1848, Mehefin 5, 1858, fel y daeth yn Ddosparth Bwrdd Iechyd Lleol, yn cynnwys 12 aelod, 4 o'r cyfryw a ant allan o swydd yn flynyddol, ond y maent, yn agored i ail-etholiad. Agorodd anturiaeth ei lygad ar y lle hwn mor fore a'r flwyddyn 1798, pan y daeth un Thomas Jones o Abergavenny i'r lle i chwilio am fani adeiladu gwaith haiarn. Yr oedd Thomas Jones a'i ddau frawd, Charles a William, yn cario masnach helaeth yn mlaen yn Abergavenny, fel lledrwr; a chan eu bod yn weddol gyfoethog, ac yn gweled ereill yn gwneyd yn dda wrth y fasnach haiarn mewn gwahanol fanau yn Morganwg a Mynwy, penderfynasant hwythau anturio yn yr un cyfeiriad. Yr oedd y pryd hwnw berson o'r enw Llywelyn Dafydd yn byw yn fferm y Llwyni, ac yn berchen ar y lle. Yr oedd gan y ffarmwr hwn lefel fechan ar ei dir er codi ychydig lo at wasanaeth yr ardal; a bu i T. Jones lesio y tir hwnw am £100 y flwyddyn, a thri phwn o lo bob wythnos yn y gauaf, a dau yn yr haf, tra y parhaai y les. Yna dechreuodd Mr. Jones ar yr hen orchwyl o ysgwrio yn y nentydd, er cael mwn haiarn, &c.; ond yn fuan, aeth yn fethdalwr. Gwerthwyd yr eiddo yn Abergavenny; ond gofalodd osod y

Llwyni ar enw Charles ei frawd, er cadw gafaél yn y lle. Yr oedd y brodyr hyn yn gweled rhagolygon rhagorol o'u blaen yn y lle hwn, ond bod yn ofynol cael llawer mwy o arian i agor y gwaith nag oedd yn eu meddiant hwy. Fel hyn, aeth dros ugain mlynedd heibio o'r amser y leswyd y tir, cyn i nemawr lewyrch ddyfod ar y gwaith. Yn 1822, prydlisiodd Mr. T. Jones fferm Cwrt-y-Mwnws hefyd gan Mr. John Hopkin, y perchenog, am 100 gini y flwyddyn. Yr oedd rhai pyllau glo ar y tir yn barod. Yn 1824, aeth Mr. T. Jones i Lundain i geisio cael gan rai o gyfoethogion y brif ddinas i ymuno ág ef yn Gwmpeini, a llwyddodd i gael rhai o'r enwau Buckland, Rushel, Motely, Bitahilo, &c. Wedi cael pethau i drefn mor bell â hyn, fel nad oedd angen ond llawnodi y cytundeb rhwng pleidiau'r Cwmni, bu Mr. T. Jones farw yn dra disymwth. Yn ganlynol i hyn aeth Mr. Charles Jones i Lundain er gosod ei enw wrth y cytundeb, ond cyn gwyed hyny, bu yntau farw. Wedi di gladdu, arwyddodd Mr. William Jones y cytundeb, gan fod eiddo ei frodyr wedi dyfod i'w feddiant.

Yn 1826, daeth Mr. Jones i fyw i Gefnydfa, er mwyn dechreu ar y gwaith glo o ddirif. Cyflogwyd tir-fesurydd, arolygydd, &c., a dechreuwyd trwy agor *Patch* mewn lle o'r enw Cwm Nant-y-gwial, er codi clai i wneyd priddfeini, &c. Yn yr un flwyddyn hefyd (1826) y dechreuwyd gwneyd ffordd haiarn (*Tramway*) o'r lle hyd Borthcawl. Yn 1827, agorwyd amryw gloddfeydd (*patches*) ychwanegol, er cael mwn a glo. Yn mis Awst, 1827, dechreuwyd agor *leflau* yn y lle, ac y torwyd lle i adeiladu ffwrnesi. Yn 1828, gorphenwyd y *tramway* i Borthcawl, pellder tuag 16 milldir. Trowyd hi yn gledrffordd ar ol hyny, ac agorwyd hi i gludo teithwyr, &c., yn 1865. Yn 1828 gorphenwyd adeiladu y ffwrnes gyntaf, a dechreuwyd toddi haiarn ynddi yn mis Medi y flwyddyn hono. Yn 1829, adeiladwyd palas i Mr. Buckland yn y lle. Yn 1880, daeth yr ail ffwrnes yn barod, a llawer o aneddu i'r gweithwyr. Dechreuwyd gweithio yr ail ffwrnes yn mis Chwefror, 1881. Wedi cael dwy ffwrnes yn barod, aeth y gwaith yn mlaen yn hwylus am flynyddau. Yn 1886, gwnaed colofnau haiarn yn y gwaith hwn at gynnal i fyny do Ty Marchnad newydd Penybont. Yn 1845, adeiladwyd y drydedd ffwrnes; ac yn 1846, adeiladwyd *Foundry* yn nglyn a'r gwaith. Yn 1847, aeth rhyw anghydwlediad rhwng y perchenogion, a safodd y gwaith hyd 1851, pryd yr ail gychwynwyd ef. Gelwir hwn wrth yr enw yr Hen Waith, am fod yma waith arall, a elwir y Gwaith Newydd.

Dechreuwyd yr olaf yn 1880, gan J. H. Allen, Ysw., yr hwn a adeiladodd Waith Spelter yn y lle, yr hwn a raddol gynnyddodd o ran maint ac elw, fel y darfu i'w berchen uno ág ereill yn 1887, gan ffurfio Cwmni dan yr enw (*The Llynvi Coal & Iron Co., Limited*). Yn mis Awst, 1888, dechreuwyd tori lle i adeiladu Gwaith Haiarn, ar dir a brydleswyd gan C. R. M. Talbot, Ysw., A.S., ac ereill. Yn 1889, daeth un ffwrnes yn barod, a'r ail yn 1840. Yn 1845, dechreuwyd adeiladu Morthwylfa (*Forge*) yma, yr hon a ddechreuodd weithio Chwef. 10, 1846. Yr un flwyddyn adeiladwyd Melin Rolio yma hefyd, yr hon a ddechreuodd weithio yn mis Tachwedd, 1846. Yn 1847,

dechreuwyd gweithio yn yr ail felin, ac erbyn y flwyddyn 1849, yr oedd y *Guide Mill* yn barod. Yn 1850, daeth y drydedd dawdd ffwrnes yn barod; ac yn 1851, dechreuwyd gweithio yn y "*Slit Mill*." Ebrill 21, 1852, gosodwyd i lawr gareg sylfaen y *Rail Mill*, yr hon a agorwyd Medi 22, 1855, ac y mae yn un o'r rhai goraf yn y wlad. Erbyn hyn, yr oedd y gwaith yn cynnwys 4 tawdd ffwrnes, 80 o ffwrnesi *puddling*, 4 melin, 26 o leflau, gwaith priddfeini, &c., a rhif y gweithwyr tua 1,500. Yn ganlynol i hyn, unwyd y ddau waith dan yr un perohenogion, "*The Llynvi Coal & Iron Co.*" Yn 1872, prynwyd y cwbl gan Alexander Brogden a'i Gyf., sef y *firm* a elwir "*John Brogden & Sons.*" Cynnwysa y gwaith i gyd 7 tawdd ffwrnes, 86 o ffwrnesi *puddling*, a 4 melin rollo. Gweithir yr haiarn yma i bob math o ffurfiau, ac i ateb gwahanol ddybenion, o'r cletrau trymion, i'r barrau bychain.

*Gwaith Coed y Garth.*—Yn 1846, adeiladwyd gwaith haiarn yn y lle hwn gan y "*Cefn Cribwr Iron Co.*" Codwyd yma 8 tawdd ffwrnes, a 80 o ffyrnau gologslo. Aeth y gwaith yn mlaen yn fywiog am ychydig, yna safodd. Cychwynwyd ef eilwaith am beth amser, ond safodd drachefn.

*Gwaith Ty Whith.*—Agorwyd gwaith glo a Black-band yma yn 1846, gan berchenogion Haiarnfa'r Tondu, ac y mae yn meddiant "*J. Brogden & Sons*" yn awr.

*Gwaith y Cwmdu.*—Adeiladwyd ffwrnes fechan yma yn 1856, a pharhaodd i weithio am rai blynyddau, ond y mae wedi sefyll yn bresenol.

*Gwaith Tin, Llrydarth.*—Torwyd sylfaen y gwaith hwn Mehefin 1, 1868, a gorphenwyd y felin gyntaf Rhagfyr 1, 1868. Mae yma yn awr dair melin, a morthwylfa digon eang i ddiwallu'r melinau a bariau, &c.; a gwneir yma 1,200 o gisteidiau o alcan yn wythnosol. Mae hwn yn fath o fferyllfa hefyd, oblegyd gwneir nwy (*gas*) yn y gwaith,—troir y *pickle* a afradir wrth *dinio* y llafnau yn *copperas*, a thrwy ddefnyddio offeryn breintebol Pughslly, arbedir llawer o'r *vitriol*.

Yn mis Rhagfyr, 1861, cyrhaeddwyd y glo (gwythien y Bettws) yn ngwaith Mr. Fraser ar Don y Bettws, ac y mae yn un o'r gloion goraf yn y wlad. Glofeydd W. Davis hefyd, sef yr *Oakwood Colliery*, sydd waith eang yn y plwyf hwn, heblaw lluaws o fan weithfeydd ereill.

*Crefydd.*—Sylwyd eisoes ar Eglwys y plwyf, a dechreuad Ymneillduaeth gan y Parch. S. Jones. Dan gyfraith y goddefiad, adeiladwyd capel bychan ar Fynydd Beadan, yn amser S. Jones, am yr ystyrind y lle yn ganolog rhwng y Bettws, Llangynwyd, Pil, a Brynmenyn. Symmudodd yr Annibynwyr oddiyno i'r *City*, plwyf y Bettws, lle y codwyd capel, yr hwn eydd yn meddiant yr Undodiaid yn awr. Yn 1799, adeiladwyd Bethesda, Llangynwyd, ac erbyn heddyw y mae gan yr enwad wyth capel yma, sef Carmel, Maesteg; Siloh, Nantyyffnon; Soar, Saron, a Dyffryn, Spelter; Capel Heol y Garth; Capel Seisnig, a Bethesda.

*Methodistiaid.*—Dywedir i'r enwad hwn ddechreu yn y plwyf yn amser Howell Harris, ac i'r achos gael ei gynnal am flynyddau lawer yn Nantycrynydd. Bu yn cael ei gynnal wedi hyny yn Blaenocaerau,

preswylfa John Madock, am gryn amser. Yn 1804, ardrethodd yr enwad y Graig Fach, a buont yn addoli yno am tuag ugain mlynedd. Pan ddechreuodd gweithiau Maesteg, aeth un gangen o eglwys y Graig Fach i *long-room* tafarn Llangynwyd, ac adeiladodd y gangen arall capel bychan yn Maesteg, yr hwn a drowyd yn dŷ annedd wedi hyny. Yn 1840, adeiladwyd Tabor, Maesteg, ac yn 1841, trowyd tŷ annedd yn gapel yn mhentref Llangynwyd. Mae gan yr enwad bedwar capel yma yn awr, sef Tabor, Maesteg; Hermon, Spelter; Capel Heol y Garth, a Llangynwyd.

*Bedyddwyr*.—Yn 1827, dechreuwyd achos gan y Bedyddwyr yn *long-room* y Godrehan Arms. Yn 1830, codasant capel Bethania, ac y mae tri chapel ychwanegol wedi eu codi ganddynt, sef Salem, Tabernacl, a Bethel (S.)

Mae capel gan y Wesleyaid Seisnig hefyd yn Alfred Street, Maesteg.

Yn 1852, adeiladwyd Eglwys yn Maesteg, yn cynnwys corff, cangell, a chlochle, gydag un gloch. Cynnelir gwasanaeth Eglwysig mewn ysgoldy yn Spelter hefyd.

Mae yn y plwyf bump Ysgol Frytanaidd ac un Genedlaethol.

Cynnelir fair yn Llangynwyd Mai 8.

LLANHARAN (Llanaron mewn hen ysgrifau), sydd blwyf a phentref yn nghantrf y Bontfaen, undeb a dosparth llys sirol Penybont, deoniaeth Gronedd Isaf, adran gorllewinol, archddeoniaeth ac esgobaeth Llandaf. Saif yr Eglwys tua thair milldir a hanner i'r gorllewinol o Lantrisant, a saith milldir a hanner o Benybont. Mae wedi ei chyssegru i Julius ac Aaron, ac ail-adeiladwyd hi yn 1857. Curadiaeth yw'r fywiolaeth, wedi ei chyssylltu â rectoriaeth Llanilid, a'r ddwy yn werth £258 y flwyddyn, a phersondy, yn nawdd a rhodd yr Arglwydd Ganghellydd. Y mae Ysgoldy Cenedlaethol prydferth yn y pentref hefyd. Yn y plwyf hwn y ganwyd Llywelyn Shon o Langewydd, llywydd Gorsedd Morganwg yn 1580. Ysgrifennodd hwn gopi cyflawn o "Gyfrinach y Beirdd" erbyn Eisteddfod y Beaupre. Ysgrifennodd gyfrol o "Draddodiadau Gwladol" hefyd, ond ni chafodd ei hargraffu. Cedwid y copi am lawer o flynyddau gan deulu Turberville. Bu Ll. Shon farw yn 1616. Yma hefyd y ganwyd Rhys Llwyd ab Rhys ab Riciart, yr hwn oedd fardd gwych, yn bucheddu rhwng 1420 a 1460. Yn y plwyf hwn y mae Mynydd Garth Maelwg, yr hyn a ddengys fod rhywbeth a fynai Malog Sant a'r lle. Ymladdwyd brwydr waedlyd iawn ar y mynydd hwn yn y flwyddyn 721 rhwng y Cymry a'r Saeson, ac y mae tair Carnedd i'w gwled yn bresenol ar gopa'r mynydd, lle y claddwyd y lladdedigion, yn ol pob tetyg. Mae ar y mynydd ffynnon hynod rinweddol hefyd, yr hon a elwir Ffynnon Llantrisant a Ffynnon Garth Maelwg. Diamheu y dylai hon gael mwy o sylw, oblegyd yn ol tystiolaeth Dr. Herapath, y mae yn llawn mor rinweddol ag eiddo Llanwrtyd. Rhed Cledrffordd Deheudir Cymru trwy y plwyf hwn, a rhed Cledrffordd Dyffryn Elai trwy ran o hono hefyd. Yn y pentref y mae capel hardd a chyfleus gan yr Annibynwyr, yr hwn a adeiladwyd gyntaf yn 1780, ac a ail-adeiladwyd yn 1836. Prif balas y plwyf yw Llanharan House, preswylfa teulu parchus Jenkinsiaid Llanharan.



Bu un o'r teulu yn Uchel Sirydd yn 1881, a'r preswylydd presenol yw John Blandel Jenkins, Ysw., Y.H. Ardalydd Bute yw Arlwydd y Faenor. Maint y plwyf yw 3,050 o erwi; pris ardrethol, £3,042; rhif y tai, 61; poblogaeth yn 1861, 299; yn 1871, 311.

**LLANHARRI** (*Llanharry*).—Ymddengys mai Llararai oedd enw cyntefig y plwyf hwn, ac mai Garai Sant sylfaenodd Eglwys yma, yr hon sydd wedi ei chyssegru i Illyd. Mae'r plwyf yn nghantref y Bontfaen, undeb Penybont, dosparth llys sirol Penybont a'r Bontfaen, archddeoniaeth ac esgobaeth Llandaf, pedair milldir i'r gogledd o'r Bontfaen, a phedair i'r de-orllewin o Lantrisant. Ymddengys oddiwrth enwau gwahanol fanau yn y plwyf, iddo fod yn goediog iawn unwaith, er mai yehydig goed sydd yma yn bresenol. Yn mhlith ereill, ceir yr enwau canlynol:—Y Fforest, Coed Cynllwyn, Coed-y-fuwch, &c. Mae yn amlwg hefyd fod y Rhufeiniaid, neu ryw anturiaethwyr boreuol iawn, wedi deall fod trysorau mwnol yn naiar y plwyf hwn, oblegyd pan agorwyd cloddfeydd yma rai blynyddau yn ol, tarawyd i hen waith, yr hwn y bernir a weithid gan y Rhufeiniaid. Cafwyd yma weddillion gweithfa llestri hefyd, yr hyn a brawf i'r plwyf fod yn enwog am ei weithfeydd cyn y cyfnod presenol, er nad oes hanes pa bryd y bu. Pan agorwyd y cloddfeydd presenol, deuyd o hyd i haen o fwn haiarn yn bump troedfedd o drwch, ac haenau glo rhagorol, y rhai a weithir gyda chyssondeb. Mae gwaith fferyllol yma hefyd. Rhed dwy gledrffordd trwy ranau o'r plwyf, sef llinell Deheudir Cymru a llinell y Bontfaen a Llantrisant. Rectoriaeth yw'r fywiolaeth Eglwysig, gwerth £120 y flwyddyn. Mae gan yr Annibynwyr gapel (Penuel) hefyd yn y plwyf, a chynnelir ysgol ddyddiol yma er addysgu plant y lle. Mesura'r plwyf 1,554 o erwi; gwerth ardrethol, £1,882; rhif y tai, 65; poblogaeth yn 1861, 275; yn 1871, 290. Prif berchenogion y plwyf ydynt Iarll Dunraven, Arglwydd Dynevor, C. R. M. Talbot, Ysw., A.S., a J. S. Gibbon, Ysw., yr hwn yw Arlwydd y Faenor.

**LLANILID**.—Plwyf yn nghantref y Bontfaen, undeb a dosparth llys sirol Penybont, deoniaeth Gronedd Isaf, archddeoniaeth ac esgobaeth Llandaf. Mae yr Eglwys yn adeilad hynafol, wedi ei chyssegru i Ilid Sant. Yn y *Gweyldoniadur*, cyf. II., tud. 23, rhoddir i'r sant hwn yr anrhydedd o ddwyn yr Efengyl i'r wlad hon, ac mai efe ddysgodd y fwyd Gristionogol gyntaf i'r Cymry, yn y canrif cyntaf. Ymddengys mai Iuddeu oedd Ilid, a barna rhai mai yn y parth hwn y bu yn efengylu. Saif yr Eglwys tua phum' milldir i'r gogledd-orllewin o dref y Bontfaen, a thua milldir i'r dwyrain o orsaf Pencoed, ar Gledrffordd Deheudir Cymru. Yehydig oddiwrth yr Eglwys mae gweddillion hen wersyllfa filwraidd a elwir y Gaer; ond nis gellir dweyd gydag un math o sicrwydd pwy adeiladodd y gaer hon. Bernir mai Caer-Gerri oedd enw cyntefig y lle hwn, ac y mae yma ffynnon yn awr a elwir Ffynnon Geri, a darn o dir a elwir Castell Cerri; a myn rhai mai yma y preswyliai Cerri Hirlyngwyn, yr hwn a roddodd ei enw i Borth Cerri, &c. Mae yma amaethdy hefyd o'r enw Tre-Fran, a barna un dosparth o haneswyr mai yma y preswyliai Bran ab Llyr, ac

i llid sylfaenu Eglwys Gristiononol yma yn agos i breswylfa ei nodd-dd breninol. Mae lle o'r enw Bryn Caradog hefyd heb fod yn mhell o'r ardal, yr hyn sydd a thuedd ynddo i beri i bobl gredu y syniad fod cyssylltiad neillduol wedi bod rhwng Bran ab Llyr, Caradog, &c., a'r lle hwn. Mae y faith fod Tre-Fran, Ffynnon Cerri, &c., yn aros, yn profi ar unwaith fod Bran a Cherri wedi bod yn dal cyssylltiad a'r lle, a diamheu fod llid wedi bod yn gweinidogaethu yma yn y canrif cyn-taf. Rectoriaeth yw'r fywiolaeth Eglwysig, wedi ei chysylltu ag eiddo Llanharan, a'r ddwy yn werth £258 y flwyddyn. Maint y plwyf, 1,574 o erwi. Tai, 28. Poblogaeth yn 1861, 150; yn 1871, 185.

LLANILLTERNE, neu Llan Elldeyrn, sydd Gapeliaeth Eglwysig perthynol i St. Ffagan, yn nghantrf Dinas Powys, undeb a dosparth llys sirol Caerdydd, deoniaeth, archddeoniaeth, ac esgobaeth Llandaf. Saif yr Eglwys tua phedair milldir i'r gorllewin o Landaf, ar ochr yr heol sydd yn arwain o Gaerdydd i Lantrisant. Mesura'r Capeliaeth 1,080 o erwi, wedi ei drethu Medi 29, 1871, yn £1,078. Curadiaeth yw'r fywiolaeth, yn unol â rectoriaeth St. Ffagan, a'r ddwy yn werth £417 y flwyddyn, yn nawdd Iarlls Amherst. Awgryma enwau rhai o'r amaethdai yn yr ardal fod yma amryw gapeli yn y cyfnod Pabyddol, oblegyd ceir yma yr enwau Llanfair Fawr a Llanfair Fach yma yn awr. Mae yma leocedd o'r enwau Pencoed a Phencoed Machen hefyd, yr hyn a ddengys i'r lle fod yn bur goediog unwaith. Amaethyddiaeth yw prif orchwyl y trigolion, ac felly nid yw nifer y tai na'r boblogaeth yn lluosog. Rhif y tai yw 27; poblogaeth yn 1861, 150; yn 1871, 155.

LLANILLTYD FAERDREF sydd blwyf yn nghantrf Miscyn, undeb a dosparth llys sirol Pontypridd, archddeoniaeth ac esgobaeth Llandaf. Saif Eglwys y plwyf tua thair milldir i'r de o Bontypridd, a chynnwysa gorff, cangell, rhodfeydd, a chlochle. Mae wedi ei hadeiladu y tro diweddaf yn yr arddull Gothig, a dyddia ei choflyfr o'r flwyddyn 1887. Curadiaeth barhaol yw'r fywiolaeth, gwerth £100 y flwyddyn, yn nawdd a rhodd ficer Llantrisant. Pan oedd Eglwys Llantrisant yn uchder ei bri, yn cael ei chyfrif yn Eglwys i holl Arglwyddiaeth Meisgyn, nid oedd Llanilltyd Faerdref ond capel anwes dani, ac y mae yr uchafiaeth a'r cyssylltiad yn parhau i raddau hyd yn awr. Mae'r plwyf hwn yn hynod gyfoethog mewn glo, yr hwn a weithir yr oes hon ar raddfa eang. Glo rhwym, sef glo tai, weithir yma, ac y mae yn un rhagorol iawn ei natur. Yn y plwyf hwn y mae gweithfeydd haiarn ac alcan Trefforest. Adeiladwyd gwaith haiarn yma gyntaf yn 1881, gan Francis Crawshay, Ysw., a bu yn byw yn y lle am rai blynyddau. Ymddengys na thalodd y gwaith yn dda, ac felly cafodd sefyll yn 1856. Yr oedd y gwaith yn cynnwys dwy dawdd fwrncs, gyda morthwylfa a melinau yn gyfatebol. Yn y flwyddyn 1866, prydleswyd y forthwylfa a'r felin gan Meistri Lewis, Morgan, ac Evans, y rhai sydd yn cario yn blaen fasnach helaeth mewn alcan. Mae'r gwaith yn cynnwys pump melin rollo, morthwylfa, &c., fel y gallant weithio haiarn bwrw yn farau, a'r barau yn llafnau, a gwneir yma tua 100,000 o gisteidiau yn flynyddol. Yn 1878, ail-gychwynwyd y rhan arall o'r gwaith gan

Meistri Menelaus, Clarke, & Co., a bwriedir codi gwaith dur eang yma. Yn ychwanegol at y rhai hyn, y mae morthwylfa a melin haiarn yma gan berchenogion Gwaith Abernant, Aberdar, sef Fothergill, Hankey, & Co. Rhif tai y plwyf yw 1,061. Poblogaeth yn 1861, 4,415; yn 1871, 5,124. Ei fesuriad mewn erwi yw 5,811.

LLANILLTYD FAWR (*Lantwit Major*).—Plwyf yn nghantrf y Bontfaen, undeb Penybont, dosparth llys sirol Penybont a'r Bontfaen, archddeoniaeth ac esgobaeth Llandaf. Saif yr Eglwys a'r pentref tua phump milldir i'r de o'r Bontfaen, ac o fewn milldir i for Hafren. Mae hanes y lle hwn yn bwysig a dyddorol mewn cyssylltiad ag addysg a chrefydd Cymru am ganrifoedd. Dywed rhai haneswyr galluog i Eurgain, merch Caradog ab Bran, sefydlu Cor i 24 o saint yn y lle hwn yn y canrif cyntaf o'r cyfnod Cristionogol, a bod y rhai hyn yn arfer teithio y wlad i bob cyfeiriad i bregethu yr efengyl i'r Cymry. Dywed Achyddiaeth Iestyn ab Gwrgan i lawer o'r genedl gael eu troi i'r ffydd yn Nghrist trwy offerynliaeth saint Cor Eurgain. Dywedir hefyd i Lles ab Coel, Brenin Essyllwg, roddi llawer o gyfoeth at gynnal Saint Cor Eurgain (*Ecc. Ant.* p. 211; *Gwyddoniadur*, cyf. 1, tud. 499). Tueddir rhai i amheu yr uchod, tra yr addefant i Athrofa Grefyddol gael ei sefydlu yma mor fore a'r flwyddyn 888, neu o hyny i'r flwyddyn 895 *v. a.*, sef o'r amser y lladdwyd Maximus hyd farwolaeth Theodosius. Sylfaenydd yr Athrofa hono oedd yr Ymherawdwr Theodosius, yr hwn a elwid Tewdws gan y Cymry; a galwent y sefydliad wrth yr enw Cor Tewdws. Enw y lle cyn hyny oedd Caerworgorn, yr hyn sydd yn ymddangos fel llygriad o'r enw Cor Eurgain. Athraw ac arolygydd Cor Tewdws, oedd Balerus, yr hwn oedd wr dysgedig o Rufain. Canlynwyd ef gan Padrig Sant, ab Mawon; a thra yr oedd y sefydliad dan ei ofal ef, daeth mintai o for-ladron Gwyddelig i'r lle, dinystriasant yr athrofa, yspeiliasant yr eiddo, a chymmerasant Padrig yn garcharor i'r Iwerddon; a daeth yn brif sant y wlad hono. Dywed amryw haneswyr o safon uchel, mai brodor o Dir Gwyr, ger Caalwchr, oedd Padrig (*Malkin's Ant.*, vol. II., p. 270). Gelwid ef wrth yr enw Padrig Maanwyn; a dywed Nennius mai Maun oedd ei enw cyntaf, ac mai wrth ei urddo yn esgob y rhoddwyd iddo yr enw Padrig.

Bu y lle yn adfeilion am tua 100 mlynedd wedi iddo gael ei ddi-nystrio gan y Gwyddelod; ond pan ddaeth Garnon Sant drosodd o Lydaw i'r wlad hon yr ail waith, i ostegu cyfeiliornadau y Morganiaid, efe a barodd ei adgyweirio, tua'r flwyddyn 450. Wedi cael yr adeilad yn barod, cyssegrwyd Illyd, nai Garnon, yn ben athraw y sefydliad, gan Dyfrig esgob Llandaf a Garmon. Yn ganlynol i hyn, enwyd y lle yn Gor Illyd, Bangor Illyd, a Llanilltyd Fawr. Gwr o Lydaw yn Ffrainc oedd Illyd, a dywed haneswyr iddo fod yn ben athraw yn Mhrif Ysgol Llanilltyd am fwy na hanner can' mlynedd. Yn ystod ei amser ef, daeth y sefydliad i fri mawr, fel yr ystyrir yr ysgol yn brif athrofa Prydain; ac mewn rhyw ystyr, yr oedd yn brif athrofa Ewrop. Gellir ffurio rhyw feddyldrych am faint, urddas, a phwysigrwydd y lle yn amser Illyd pan ystyrir fod nifer yr efryd-wyr dros ddwy fil, y rhai a breswylient mewn 400 o dai, ac a addysgid

mewn saith coleg, y rhai a elwid Neuaddau. Enwau y Neuaddau oeddynt a ganlyn :—Neuadd Eurgain, Neuadd Dyfrig, Neuadd Gildas, Neuadd Arthur, tair Neuadd Illtyd. Cynnelid gwasanaeth crefyddol yn yr Eglwys gyda chysondeb didor, ddydd a nos, yn y cynoesoedd; a dywed haneswyr eglwysig fod 100 o'r efrydwyr yn gwasanaethu ar y tro, ac yn newid eu gilydd bob awr, yr hyn a wnaifer y cylch yn 2,400. Dywed llyfr Syr Edward Stradling o Gastell St. Donatt's, fod ar yr un adeg yn yr athrofa hon, feibion saith o freninoedd Prydain yn derbyn addysg; ac anfonid meibion penaethiaid o'r cyfandir i gael eu haddysgu yma hefyd. Nid oedd yr addysg a gyfrenid yn gyfyngedig i dduwinyddiaeth yn unig, ond dysgid gwladlywyddiaeth, gwyddoniaeth, a chelf yma hefyd. Yn *Liber Landavensis*, p. 298, dywedir fod Abbadau Llanilltyd mewn cymmaint parch gan y Pab yn Rhufain, fel y caniateid iddynt yr anrhydedd o eistedd yn Nghadair Pedr! Er fod Bangor Illtyd mewn enw yn is-raddol i Landaf, a bod Esgob Llandaf yn arfer talu ymweliad achlyssurol a'r lle i arholi yr efrydwyr, &c., mae yn amlwg fod prif Abbad Llanilltyd yn meddu agos, os nid llawn cymmaint o awdurdod eglwysig a'r Esgob ei hun. Yr oedd maint ei awdurdod yn gyfryw, fel y galwai frenin y dalaeth i gyfrif am ei weithredoedd. Yn y flwyddyn 560, cynnalwyd Cymmanfa yn Llanilltyd er llawnodi amodau heddweh rhwng Morgan Mwynfawr, Tywysog Morganwg, a'i ewythr Triog. Yr oedd yn bresenol yn y gymmanfa hono, Eudaf (Odoceus), Esgob Llandaf; Congen, Abbad Llancarfan; Sulgen, Abbad Docunnus; a Chatgan, Abbad Llanilltyd, yr hwn oedd y prif weithredydd. Dywedir i Morgan ladd ei ewythr ar ol hyn, ac iddo gael ei ysgymmuno o'r Eglwys am hynny, a'i dderbyn yn ol ar yr amod iddo roddi llestraid o fel a chrochan haiarn i'r Abbad. Abbad Llanilltyd oedd y cofnodydd hefyd ar urddiad Eudaf yn esgob Llandaf; ac yn ol *Liber Landavensis*, ceir enwau amryw o'r Abbadau hyn wrth weithredoedd a wnaed gan wahanol Dywysogion Morganwg, er dangos eu bod yn rhoddi tiroedd i'r esgobaeth. Dyma ychydig o enwau prif Abbadau Llanilltyd mewn gwahanol oesau :—1. Illtyd; 2. Prio; 3. Ifan; 4. Cennydd; 5. Samson; 6. Gwrthafar; 7. Congen, neu Catgan; 8. Elfod; 9. Tomre; 10. Gwrhafel; 11. Nudd; 12. Elifer; 13. Segin; 14. Camelawg; 15. Bledri; 16. Elgoed; 17. Elised. Yr oedd amryw enwau ereill ar y papur y cafwyd y rhai hyn, ond yr oedd wedi amharu cymmaint, fel na ellid darllen yr ysgrif.—*Hor. Brit.* vol. II., p. 355.

Wele etto ychydig o enwau y prif ddynion a dderbyniasant eu haddysg yma :—Gildas Sapiens, yr hanesydd, a'i 24 brodyr; Dewi Sant, Archesgob Caerlleon-ar-Wysg; Samson, Esgob Dôle yn Ffrainc wedi hynny; Pawl Hen (Paulinus), sylfaenydd Bangor y Tygwyn-ardaf; Maclorius, Esgob St. Malo yn Ffrainc; Daniel, Esgob Bangor, Gogledd Cymru; Magloire, neu Maglorius, nai Amwn Ddu, a chanlynydd Samson i esgobaeth Dôle yn Llydaw; Talhaiarn; Taliesyn Ben Beirdd; Madog Morfryn; Padarn; Amwn Ddu, ab Emyr Llydaw; Gwyndaf Hen; Caf a Nudd, dau fab i dywysog gogleddol; Llonddad; Llonio Lawhir a Llynfab, dau fab Alan; Gigrad; Selyf;

Cynghar, Iestyn, a Cado, tri mab Geraint ab Elrin ; Elfin ab Gwyddno ; Teon a'i fab Tagonwy ; Paulus Aurielanus, Esgob St. Paul de Leon ; Isau ; Mengan ab Gwyndaf Hen ; Cawrdaf ab Caradog Freichfras ; Dathan a Samson, dau fab Amwn Ddu ; Usteg ab Geraint, Ddu, Deon Llanilltyd ; Eldad, brawd Usteg ; Eldad ab Arth. Cyn y Gorchfygiad Normanaidd, hon oedd prif athrofa Ynys Prydain, fel y mae Rhydychain a Chaergrawnt yn awr ; a pharhaodd yn ei bri am 600 mlynedd. Wedi i Robert Fitzhamon orchfygu Morganwg yn y flwyddyn 1091, cafodd cyllid Llanilltyd ei drosglwyddo at wasanaeth Mynachlog Tewkesbury, sir Gaerloyw ; ac er i'r ysgol gael ei chario yn mlaen hyd amser Harri VIII., colodd ei bri ar ddyfodiad y Normaniaid i awdurdod. Pan yspeiliodd Harri VIII. y crefydd-dai yn 1541, llwyr ddarfyddodd yr athrofa, a throsglwyddwyd yr ychydig oedd yn ngweddill o'r cyllid i Eglwys Caerloyw. (*Hor. Brit.*, v. II., p. 225.) Barna rhai mai math o barhad o Athrofa Llanilltyd yw Ysgol y Bontfaen, tra y dywedai y Parch. David Nicholas mewn ysgrif faith ar Hynafiaethau Llanilltyd, a ysgrifenyddwyd ganddo yn 1729, fod hyn yn dywyll iawn. Dywed hefyd fod peth o gyllid yr athrofa wedi ei werthu i rai o'i dylwyth ef, a'i fod yn feddiant gan y teulu y pryd hwnw.

Mae llawer iawn o adfeilion yr hen adeiladau i'w gwled yn awr, yn nghyda lluwaws o gof-golofnau a bedd-feini hynod. Saif gweddillion yr Athrofa y tu cefn i'r Eglwys, ac adfeilion y Fynachlog neu'r Abbatty mewn cae, ychydig i'r gorllewin. Mewn cae arall, y mae yr hen Neuadd Ddegwm, a adeiladwyd gan Gilbert de Clare yn fuan ar ol y Gorchfygiad Normanaidd. Yr hen Eglwys hefyd sydd adfeiliatedig, yn mesur 64½ troedfedd o hyd ; a Chapel Mair yn mesur 40½ troedfedd o hyd. Ail-adeiladwyd yr Eglwys sydd yn sefyll yn bresenol, gan Richard Nevill, Iarll Warwick, ac Arlwydd Morganwg, yn amser Harri VI. Mesura yr Eglwys hon 98 troedfedd o hyd, 58 o led, a chynnwysa gorff, canghell, rhodfeydd, a chlochdy, yn yr hwn y mae 6 cloch bereidd-sain.

Mae lluwaws o gof-golofnau hynafol iawn yn yr hen Eglwys, gyda rhai delwau o bersonau yn eu llawn faint. Mewn math o gell yn y mur gorllewinol, y mae delw boneddiges, a'i gwisg yn ddangoseg o arddull yr oes yn yr hon y cerfiwyd y ddelw. Yn pwyso yn erbyn yr un mur, y mae dwy ddelw ereill, un yn arddangos offeiriad yn ei wisg offeiriadol, a'r llall yn ddangoseg o farchog. Yn yr hen Eglwys, y mae Croes Rhys, gyda'r darn uchaf wedi ei dori ymaith, ac ar y llawr yn ymyl y darn arall. Mae yr hen Eglwys mewn gwirionedd yn fath o Amgueddfa o Fedd-feini Hynafol. Cefais fy synu yn eithafol wrth sylwi arnynt Awst 2, 1878. Yn y fynwent hon, ceir rhai o'r bedd-feini hynaf yn y deyrnas. Y tu cefn i'r Eglwys, y mae Croes Illtyd, ac arni yn gerfiedig :—"Crux Illtuti, Samson Redis, Samuel Equisor : Samson Pasuit Hanc Crucem pro Anima Ejus." Hyny yw, Croes Illtyd, yr hon a godwyd gan Samson, ac a gerfiwyd gan Samuel. Y mae'r Groes hon yma oddiar y 6ed canrif. Ei uchder o wyneb y ddaear yw 6 troedfedd a 3 modfedd, a'i led yn y bôn yn 2 droedfedd

a 6 modfedd, ac yn culhau tuag i fyny, nes nad yw ond 22 modfedd o led yn y top.

Yn ymyl porth yr Eglwys, ac yn pwyso yn erbyn y mur, y mae Croes Samson, yr hon sydd yn 9 troedfedd o uchder, 2 droedfedd a 4 modfedd o led yn y bôn, 19 modfedd yn y pen uchaf, a 4½ modfedd o drwch. Bu hon yn gladdedig mewn bedd am flynyddau lawer, ac y mae hanes ei darganfyddiad fel y canlyn:—"Yn 1758, pan oedd Iolo Morganwg tua 1½ oed, darfu i hen wr o'r enw Richard Punter, o Lanfaes, yr hwn oedd tua 80 oed, nodi man yn mynwent Llanilltyd, a dweyd wrth Iolo ieuange iddo glywed hen bobl yn dweyd pan oedd ef yn fachgen, fod careg yn y ddaiar yn y fan hono, yn cynnwys coffadwriaeth am ddau frenin. Yr oedd traddodiad hefyd fod dyn ieuange yn byw yn y gymmydogaeth cyn cof gan neb oedd yn fyw y pryd hwnw (1758), yr hwn a elwid Wil y Cawr, a'i fod yn 7 troedfedd o daldra yn 17 oed, pan fu farw. Ychydig cyn marw, dymunodd am i'w gorff gael ei gladdu yn ymyl y Groes, ger porth yr Eglwys. Wrth gloddio bedd iddo, gan ei fod mor dal, gorfu arnynt dynu y pridd dan rai o'r bedd-feini cyfagos; ac ar eu gwaith yn gollwng ei arch i'r bedd, llithrodd y ddaiar dan y Groes, a syrthiodd hithau i'r bedd ar ol yr arch; ac yn hytrach na myned i'r drafferth o'i chodi, claddwyd hi yn y fan." Yr oedd yr hyn a glywodd Iolo gan Punter, yn dyfod i'w gof yn aml iawn, ac awyddai chwilio i wirionedd y peth. Yn 1789, tra yr oedd ef yn gweithio yn y fynwent, a phobl yr ardal yn brysur gyda'r cynhauf, dechreuodd Iolo chwilio am y trysor cuddiedig; ac er ei fawr lawenydd, daeth o hyd i'r gareg. Wedi cael cynnorthwy ereill, codwyd hi o'r bedd, a bu yn gorwedd yn y fynwent hyd Awst 28ain, 1798, pryd y cafodd Iolo gynnorthwy drachefn i'w gosod yn y man y saif yn awr. Mae darlun o'r Groes hon a Chroes Rhys i'w gweld yn Iolo MSS. Y cerfiad ar Groes Samson sydd mewn Lladin hynafol fel y canlyn:—"In nomine di summi incipit crux Salvatoris quae preparavit Samsoni Apati pro anima sua et pro anima Iuthahelo rex et Artmali tecani." Cyfleithiad o hyn, yn ol Taliesin ab Iolo, yw:—"Yn enw'r Duw Goruchaf, yma dechreua Croes y Gwardedwr, yr hon a gododd Samson Abbad, dros ei enaid ei hun, ac eneidiau Ithael Frenin ac Arthfaol y Deon."

Ymddengys fod y Groes hynod hon wedi ei chladdu cyn amser Camden (1580), oblegyd y mae'r argraff sydd ar y prif feini ereill, megys Croes Illtyd, Croes Rhys, &c., wedi eu codi ganddo ef i'w lyfr, tra nad yw yn son am Groes Samson.

Mae meini pur hynod yn y fynwent hon heblaw y Croesau hyn, megys beddfaen Mathew Voss, yr hwn a gladdwyd yn 1584, yn 129 oed. Y mae maen arall yma ar ffurf arch, a thwll yn y pen uchaf iddo, yn cynnwys rhai cerfiadau o arddull Rhufeinig; ac ar gorff y maen y mae yn gerfiedig:—"Ne patra calcetur que sub jacit ista-tuctur." Ar gareg arall y mae delw dyn yn ei faint fel pe yn y weithred o addoli; ac ar bob tu i'r cerflun y mae yn gerfiedig:—"William Rhchillo gyt ici Deu de sa alme cyt merci." Bu o fewn canghell yr Eglwys faen mawr wedi ei gerfio yn y fath fodd fel'ag i furfio 12 cell,

yn y rhai (medd traddodiad) y cedwid 12 delw, yn cynnrychioli y 12 apostol; a dywedir iddynt gael eu claddu yn Nghapel Mair, er eu cuddio rhag gwyr Cromwell; ac y mae llawer wedi bod yn chwilio am danynt, ond yn aflyyddiannus. Mae amryw arfoniau paentiedig ar y muriau hefyd. Yn y *vestry* y mae delw gawraidd o'r Tywysog Richard Hopkin, yn null-wisg amser Harri VIII., yn nghydag amryw gof-feini hynod ereill.

Yn y flwyddyn 1158, gwnaed Llanilltyd yn Fwrdeisdref, yr un pryd ag y gwnaed Caerdydd, y Bontfaen, Cenffig, Aberafan, y Wig, Broughton, &c. Colodd y ddau le olaf eu braint am bleidio Owen Glyndwr. Nid yw Llanilltyd yn fwrdeisdref ychwaith, er amser Harri VIII. A ganlyniad sydd gyfieithiad o'r Freinlen a roddwyd i Lanilltyd gan Robert Iarl Caerloyw ac Arlwydd Morganwg:—

“Boed hyspys, a boed yn gyfraith, i bawb, yn dywysogion, arlwyddi, peneithiaid, barwniaid, pendefigion, a chyffredin, ein bod ni, Robert Iarl Caerloyw yn Lloegr, a thywysog Morganwg, yn hawl, braint, a dawn cenedlaethol y rhag-ddywededig genedl, ac yn hawl ein meddiannau treftadol ein hunain, yn gorchymmyn a chyhoeddi trwy awdurdod y llythyr hwn, hawlfraint a rhyddid dinasyddion yn Arlwyddiaeth Llanilltyd Fawr, yn Morganwg, fel y dangosir yn ol llaw; hyny yw, eu braint, a'u tiroedd yn rhydd, fel y buont yn eu meddiant erioed, yn unol â deddfau, arferion, a breiniau cenedl y Cymry, pa un bynag ai arlwyddi llys, pendefigion, deiliaid, neu ddyeithriaid y byddont, a phawb—perchenogion, neu amherchenogion, i fod yn rhydd iddynt, yn unol a'r rhag-ddywededig freiniau a deddfau, i gydymgynnull yn ol eu hawliau, i'w cyfarfodydd, eu llysoedd, yn unol a'u defodau ar bob amgylchiad, ac yn ol yr arferiad a'r drefn sydd wedi bod yn eu meddiant yn cael eu mwynhau o'r dechreuad, yn ol eu cyfraith; ac fel yr ydym yn cyhoeddi yn y llythyr hwn i'n dinasyddion ffyddlon yn Cenffig, ar iddynt edrych eu bod yn gweithredu yn gyfraithlon yn ol y ddeddf, pa un bynag ai mewn cyssylltiad a'r wlad, y llys, yr eglwys, neu hawl arfau, neu'r celfau, neu'r gwyddorau, neu forwriaeth, neu yn mraint marchog, neu mewn perthynas â ffeiriau, marchnadoedd, prynu a gwerthu, neu ynte o barthed hawl a gwrth-hawl: ein bod yn trefnu, gorchymmyn, yn edrych, a phennodiad nes ond cyfraith i gael ei harfer tuag atynt, ac yn eu plith, y naill tuag at y llall; a'n hawl, a'n braint, a'n pendefigaeth ninau, yn unol â chofnodion y gyfraith, tuag attom ein hunain a'n disgynyddion am byth, ac fod gwarogaeth i'w dalu i ni fel o'r blaen, ac fel y'i telid pe na chaniateid y Freinlen hon.”

Mae rhai haneswyr yn amheu dilysrwydd y freinlen hon, ac yn tueddu i gredu mai flug ydyw, o herwydd y rhesymau hyn:—1. Am nad yw y freinlen hynaf sydd *ar gael* yn Nghaerdydd yn hynach na'r flwyddyn 1389. Dyddiad breinlen hynaf Cenffig (ag sydd ar gael) yw Chwef. 16, 1397. Un hynaf Aberafan a wnaed yn 1349. Yn ail, am fod y freinlen hon mor annhebyg o ran cyfansoddiad i eiddo y trefi ereill. Addefir pa fodd bynag fod breinlen gyntaf Caerdydd wedi ei cholli, ac nid yw yn amhosibl na cholwyd rhai cyntaf Cenffig, Aber-

afan, &c. Nid oedd yn anhebgorol angenrheidiol i arddull y rhai cyn-  
taf fod fel y rhai sydd ar gael ychwaith; ond y mae yn hynod na fu-  
asai enwau tystion wrth un Llanilltyd. Amlwg yw nas gellir pender-  
fynu y matter hwn yn awr, ac felly gadawn ef yn agored, gydag hys-  
pysu mai'r *Iolo MSS.* yw ein hawdurdod o barth breinlen Llanilltyd.

Mae un peth pwysig pa fodd bynag mewn cyssylltiad a'r lle hwn a  
esgeulusir gan lawer o haneswyr. Nid oes nemawr wedi sylwi fod  
porthladd eang wedi bod gerllaw, a masnach fawr yn cael ei chario  
yn mlaen ynddo. Ei enw oedd Porthladd Colhugh, ac yr oedd yn un  
o brif borthladdoedd Morganwg mor ddiweddar ag amser Harri VIII.  
Mae rhan fawr o'r mor-fur (*pier*), a'r trawstiau a ffurfiant gysgod-fur  
gorllewinol y porthladd, yn aros, a gelwir hwy gan y trigolion "*the  
old black men.*" Mae'r mor wedi ennill cryn lawer yn y parthau hyn,  
trwy ddyfod i fyny yn uwch i'r wlad nag oedd, ac felly y mae gwedd-  
illion yr hen borthladd gryn ffordd oddiwrth y lan. Rhwng Llanill-  
tyd a'r mor y saif Gwaun Colhugh, yr hon sydd tua milldir o hyd.  
Myn rhai mai yn mhorthladd Colhugh y glaniodd y Normaniaid gyn-  
taf yn Morganwg, ac y mae hyn yn ddigon naturiol, gan fod Tre-  
befered (Boverton), un o brif balasau Iestyn, gerllaw. Y tri phorth-  
ladd eangaf yn Morganwg y pryd hwnw oeddynt Colhugh, Aberddawen,  
a Phorthcerri.

Rhedai y brif heol Rufeinig, sef y *Julia Strata Maritana*, heibio  
Llanilltyd, ac yr oedd gan y Rhufeiniaid orsaf bwysig yn Trebefered.  
(Gwel BOVERTON.)

Maint plwyf Llanilltyd yw 5,298 o erwi; rhif y tai yn 1871, 267;  
poblogaeth yn 1861, 1,122; yn 1871, 1,097.

Mae yma ymdrochle hyfryd, a llawer yn ymweled a'r lle i newid  
awyr yn misoedd yr haf; a barnwn y daw yn llawer mwy poblogaidd  
bellach wedi cael cledrffordd mor gyfleus o ardaloeddi Merthyr, Aber-  
dar, a Chwm Rhondda i'r Bontfaen, yr hwn sydd o fewn pum' milldir  
i'r lle hynafol a dyddorol hwn.

Mae capeli yn y pentref gan yr Annibynwyr, Bedyddwyr, Method-  
istiaid, a'r Wesleyaid.

LLANILLTYD NEDD (*Lantwit juxta Neath*).—Plwyf yn nghanntref, un-  
deb, a dosparth llys sirol Castellnedd, deoniaeth Gronedd, archddeon-  
iaeth ac esgobaeth Llandaf. Saif yr Eglwys tua milldir i'r gogledd-  
ddwyrain o dref Castell Nedd, ar lan ddeheuol afon Nedd. Mae wedi  
ei hadeiladu yn yr arddull Seisnig hynafol, ac iddi gorff, cangell,  
porth, a chlochdy gyda dwy gloch. Ficeriaeth yw'r fywiolaeth, wedi  
ei huno ag eiddo St. Thomas, Castellnedd, a'r ddwy yn werth £440 y  
flwyddyn, a phersondy, yn nawdd a rhodd Ardalydd Bute. Nid yw yr  
adeilad presenol yn un hynafol, yr hyn a brawf fod yr Eglwys wedi ei  
hail-godi mewn cyfnod diweddar. Mae'r plwyf wedi ei ranu yn dri  
dosparth (*hamlet*), y rhai a elwir Rhesolfen (4,561 erw), Clyne (2,164  
erw), a Llanilltyd Isaf (4,266 erw), fel y mae yr holl blwyf yn 10,991  
o erwi. Yn 1850, rhanwyd ef yn ddau ddosparth Eglwysig hefyd, fel  
y mae 6,725 o erwi yn perthyn i Eglwys St. David, Rhesolfen, a 1,266  
yn perthyn i Eglwys y plwyf. Yn ymyl Eglwys y plwyf y mae Cladd-



fa eang Castell Nedd, ac yn yr Eglwys hon y cynnelir y gwasanaeth claddu. Rhif tai y plwyf yn 1861 oedd 458; yn 1871, 512. Poblogaeth yn 1861, 2,292; yn 1871, 2,554. Mae'r plwyf yn cynnwys rhanau helaeth o du deheuol Dyffryn Nedd, a cheir yma amryw olygfeydd gwylltion, gan fod ochr y cwm mor serth. Yn y plwyf hwn y mae Rhaiadr Melin Court, lle y disgyna Nant Rhyd-yr-Hesg dros glogwyn o graig 80 troedfedd o uchder, ac y mae yr olygfa yn hardd iawn pan fydd llif yn y nant. Yn 1786, adeiladwyd gwaith haiarn bychan ger Melin Court, gan ddau foneddwr o'r enwau Pitt a Collins. Ail-adeiladwyd y ffwrnes yn 1788 ar raddfa eangach, a chodwyd purfa (*refinery*) yn ymyl y dawdd ffwrnes, a buont yn gweithio am amryw flynyddau. Ymddengys i'r gwaith hwn fod yn mediant Meistri J. a D. Miers am beth amser, yn toddi haiarn at waith *tin* Aberdulais; ond y mae wedi sefyll er y flwyddyn 1808. Chwythid y ffwrnes â meginau mawrion, y rhai a weithid gan rod-ddwfr yn mesur 120 troedfedd o amgylchedd. Yn 1791, gwnaed Camlas Cwm Nedd trwy ran o'r plwyf hwn, er hwylusu masnach yr ardal, ac y mae badau yn ysgogi arno yn barhaus o'i agoriad hyd yn awr. Rhed Cledrffordd Cwm Nedd trwy ranau o'r plwyf hwn hefyd, yr hon a wnaed yn 1851. Mae'r plwyf hwn, fel plwyf Blaenau Morganwg yn gyffredin, yn gyfoethog iawn mewn glo, a gweithir ef yn y blynyddau hyn ar raddfa helaeth. Mae glofa eang yn Rhesolfen gan John Thomas a'i fab, a glofa yn y Wenallt gan berchenogion Gwaith Alcan Aberdulais, heblaw mân lofeydd ereill. Mae rhai olion Derwyddol yn y plwyf hwn ar y mynydd rhwng Cwm Nedd a Glyn Corrwg.

LLANISAN (*Llanishen*).—Plwyf yn nghanntref Cibwr, undeb a dosparth llys sirol Caerdydd, deoniaeth, archddeoniaeth, ac esgobaeth Llandaf. Saif yr Eglwys tua phedair milldir i'r gogledd o Gaerdydd, mewn llannerch brydferth a gwastad. Curadiaeth barhaol yw'r fwyoliaeth, gwerth £46 y flwyddyn, yn rhodd Iarll Plymouth a C. Kemys Tynte, Ysw., Y.H., bob yn ail. Bernir mai Isan Sant, o Fangor Illtyd, sylfaenodd Eglwys yma gyntaf, ac iddo ef y mae wedi ei chyssegru. Mae Ysgol Genedlaethol yn y plwyf, yn cael ei dwyn yn mlaen yn drefnus a rheolaidd, ac ynddi yr addysgir plant y plwyfolion. Prif berchenogion tirol y plwyf ydynt Ardalydd Bute, Arlwydd Tredegar, y Milwriad C. K. K. Tynte, a Windham W. Lewis. Amaethyddiaeth ddygir yn mlaen yn benaf yn y plwyf, ac y mae'r tir yn un tra chynnyrchol, a chodir yma bob math o firwythau at gynnaluaeth dyn ac anifail. Yn 1865—6, gwnaed cledrffordd trwy ranau o'r plwyf hwn, yr hon sydd yn rhedeg o Gaerdydd i Gaerffili, ac y mae gorsaf ar y llinell yn Llanisan. Mesura'r plwyf 2,915 o erwi; wedi ei ardrethu i £2,651. Rhif y tai, 94. Poblogaeth yn 1861, 449; yn 1871, 515. Achos y cynnydd oedd gwneuthuriad y gledrffordd a nodwyd.

LLANRHIDIAN.—Plwyf yn nghanntref a dosparth llys sirol Abertawy, undeb Gwyr, deoniaeth Gwyr, archddeoniaeth Caerfyrddin, esgobaeth Ty Ddewi. Saif Eglwys y plwyf tua naw milldir i'r gorllewin o Abertawy, ac y mae yno bentref bychan hynafol a gwledig. Mesura'r holl blwyf 22,064 o erwi rhwng y traeth a'r dwfr, &c. Gan ei fod mor

eang, y mae wedi ei ranu yn ddau ddosparth, sef Llanrhidian Uchaf (9,106 erw), a Llanrhidian Isaf (12,958 erw). Mae llawer iawn o'r plwyf yn dir diffrwyth a thywodlyd, megys y Llanrhidian Sands a'r Llanrhidian Marsh, &c. Ychydig i'r gorllewin oddiwrth hen Eglwys y plwyf y saif adeilion Castell Weobly, ar ben craig serth, yn gwynebu ar Llanrhidian Marsh, a'r culfor rhwng Browyr a Sir Gaerfyrddin fel llain o risial yn y cwm dano. Perthynai y castell hwn gynt i un o'r enw De la Beres. Prawf yr adeilion iddo fod yn adeilad gorwyoh unwaith, ac y mae ei safle yn dra dymunol i gael golygfa ar y culfor neu afon Burry, gyda rhanau helaeth o Sir Gaerfyrddin, o Benbre hyd Gas'lwehwr. Gan fod y plwyf mor eang, a'r ffordd yn mhell i'r plwyfolion ddyfod i'r Eglwys, adeiladwyd Capel Llanrhidian yn mharth uchaf y plwyf, er mwyn cyfleustra crefyddol. Mae hwn hefyd yn adeilad tra hynafol. Yn y plwyf hwn y mae pentref a gweithfeydd Penclawdd, yr hwn le sydd wedi dyfod i gryn sylw yn y blynyddau diweddaf. Mae traeth Penclawdd yn hynod enwog am ei gregin-bysg bychain, y cocs (*cockles*), y rhai ydynt gyda'r goraf yn y wlad. Cafodd gwaith copr a glofeydd eu hagog yn y lle hwn tua diwedd y canrif diweddaf, ac yr oeddynt yn cael eu dwyn yn mlaen yn fywiog yn 1808, pan ymwelodd Malkin a'r lle. Ymddengys pa fodd bynag i'r gwaith sefyll yn fuan ar ol hyny, oblegyd dywed awdwr y *Guide to Swansea*, 1828, ei fod wedi sefyll amryw flynyddau y pryd hwnw. Ail-gychwynwyd ef drachefn pa fodd bynag, ac ychwanegwyd llawer ato, fel y mae yn Mhenclawdd yn awr weithfeydd copr, arian, a phlwm gan y Penclawdd Copper Co. a Meistri Stock & Co. Mae yn ymyl amryw weithfeydd glo hefyd, ac y maent yn cael eu helaethu yn barhaus. Cyn y flwyddyn 1865, trosglwyddid y nwyddau o'r lle ar hyd camlas; ond yn y flwyddyn a nodwyd, agorwyd cangen o reilffordd o orsaf Gower Road, llinell Llanelli ac Abertawy, hyd Benclawdd. Hyd y gangen yw tair milldir a hanner, ac y mae wedi ychwanegu llawer at fanteision y lle. Agorwyd Gwaith Alcan Penclawdd, eiddo Meistri H. Llewelyn, Morris, & Co., Gorphenaf, 1872. Wrth weled y lle yn cynnyddu, fe adeiladwyd Eglwys hardd yn Mhenclawdd, yn fath o gapel anwes dan Eglwys y plwyf. Ficeriaeth yw Llanrhidian, yn unol â churadiaeth Penclawdd, yn werth £99 y flwyddyn. Ymddengys nad yw hen Gapel Llanrhidian yn cael ei ddefnyddio fel ag y bu oddiar pan adeiladwyd Eglwys Penclawdd. Yn mis Ionawr, 1872, tarawodd melltlen yn erbyn twr pigfain Eglwys Penclawdd, fel y syrthiodd tua thair troedfedd o'i dop ymaith. Gwnaeth y fellten dwll mawr hefyd yn y twr, yn agos i dô yr Eglwys, ac anafodd y tô gymmaint fel y bu agos a llwyr ddiDOI yr adeilad, a thorodd ddwy ffenestr ar y tu gorllewinol i'r Eglwys yn chwilfriw mân. Yn ychwanegol at yr Eglwysi, y mae yn y plwyf gapeli gan y gwahanol enwadau fel y canlyn:—An-nibynwyr, 2, sef Bethel, Penclawdd, a Three Crosses; Hermon (B.); a dau gan y Methodistiaid. Mae Ysgol Genedlaethol ac Ysgol Fry-tanaidd hefyd yn Mhenclawdd. Ar ochr yr heol ger Eglwys y plwyf, mae hen Groes, a bernir ei bod yma oddiar y 6ed canrif. Rhif tai y plwyf yn 1871 oedd 442. Poblogaeth yn 1861, 1,990; yn 1871, 2,151.

**LLANSAMLET.**—Plwyf a phentref yn nghantref Llangyfelach, undeb a dosparth llys sirol Abertawy, deoniaeth Gwyr, archddeoniaeth Caerfyrddin, esgobaeth Ty Ddewi. Dyma fel y dywed “Bonedd y Saint” am y person i'r hwn y mae'r Eglwys wedi ei chyssegru i'w enw:—“**SAMLED SANT**, 7fed canrif. Ei Eglwys ef, Oilfai yn Ngorwenydd, a elwir Llansamled.” Saif yr Eglwys yn Nghwm Tawy, tua phedair milldir i'r gogledd o Abertawy, ac iddi gorff, cangell, a thwr ysgwar. Ficeriaeth yw'r fywiolaeth, yn unol â churadiaeth Oilfai, gwerth £800 y flwyddyn, yn rhodd Esgob Ty Ddewi. Mae ei mynwent eang yn llawn iawn o fedd-feini, ac y mae yn amlwg fod llwch oesoedd a chen-edlaethau wedi eu cydgymsysgu yn ymyl y llan yma. Mae yn y plwyf ddwy orsaf cleddrffordd yn awr, un ar linell Cwm Tawy, a'r llall ar y G.W.R. Maint y plwyf yw 6,785 o erwi o dir, a 2,100 o erwi o ddwfr, y cwbl yn 8,885 o erwi. Mae wedi ei ranu yn ddau ddosparth, sef Llansamlet Uchaf ac Isaf. Gwerth ardrethol y rhan uchaf yw £8,780, o'r hyn y mae £5,900 mewn glofeydd. Gwerth ardrethol y dosparth isaf yw £9,059, o'r hyn y mae £260 mewn glofeydd, ac £20 mewn chwareli. *Valuation* yn 1865, £12,281 yn y dosparth uchaf, a 4,287 yn y dosparth isaf. Rhif tai yr holl blwyf yn 1861 oedd 1,042, a 1,804 yn 1871. Poblogaeth yr holl blwyf yn 1851 oedd 4,275; yn 1861, 5,108; ac yn 1871, 6,128. Awgryma enw Llwyn-brwydrau yn y plwyf hwn i'r ardal fod yn faes ymladdfeydd yn y cyn-oesoedd, ond y mae hanesiaeth yn ddystaw gyda golwg ar y brwydrau hyny. Mae Llwynbrwydrau yn bresenol yn bentref cryno, ac amryw lofeydd yn cael eu gweithio yn y gymmydogaeth. Nid yw yn hyspys pa mor fore y dechreuwyd agor glofeydd yn y plwyf hwn; ond y mae sicrwydd fod glofeydd yma yn 1710, a sicr yw fod glofeydd Llansamlet yn gweithio yn gysson oddiar hyny hyd yn awr. Mae yma amryw lofeydd ar waith yn bresenol (1878), y rhai ydynt a ganlyn:—

1. Birchgrove Collieries, eiddo W. Pegge & Co.
  2. Glofa Gwernllwynwith, eiddo Maddock & Howells.
  3. Glofa Cae Pridd (pwll newydd yn 1873), eiddo y Llansamlet Coal Co.
  4. Emily and Round Pit Collieries, eiddo Jones & Saunders.
  5. Charles Pit Colliery
  6. Park Pit
  7. Tir Isaf
  8. Tir Gwyllt
  9. Glan y Wern
- } eiddo y Foxhole Collieries Co.

Pan ddechreuodd Abertawy ddyfod i fri a sylw fel eisteddle masnach efydd, yn y plwyf hwn yr adeiladwyd un o'r gweithfeydd cyntaf, tua'r flwyddyn 1780, a dywed Malkin i'r ail waith copr gael ei adeiladu yn y plwyf hwn yn 1760. Ceir y gweithfeydd eang canlynol yn y plwyf hwn yn bresenol:—1. White Rock Copper Works; 2. Middle Bank Copper Works; 3. Port Tennant Copper Works; 4. Upper Forrester Tin Plate Works; 5. Beaufort Tin Plate Works; 6. Worcester Tin Plate Works (1868), &c.

Er fod y plwyf hwn wedi bod yn ddiarebol am ei chwareu-gampau, ymladdfeydd ceiliogod, own, &c., mae y rhai hyny wedi darford i radd-

au pell trwy ddylanwad yr Ysgol Sabbothol, pregethu, &c. Ceir yn y plwyf yn bresenol y capeli Ymneillduol canlynol:—1. Capel y Cwm (T.C.), 1782; 2. Ebenezer, Llwynbrwydrau, (T.C.), 1882; ail-adeiladwyd yn 1848; 3. Pentredwr (T.C.), 1862; 4. Nazareth, Birchgrove, (T.C.), 1862; 5. Maesybar (T.C.), 1869; 6. Bethel (A.), 1818; ail-adeiladwyd yn 1850; 7. Canaan (A.), 1840; etto, 1864; 8. Tanygraig (A.), 1860; 9. Saron, Birchgrove, (A.), 1871; 10. Tabernacl (B.), 1848; 11. Adulam (B.), 1854. Mae yn y plwyf amryw ysgolion hefyd, blwyddiad a natur y rhai sydd fel y canlyn:—Brytanaidd—1. Ysgoldy y Cwm, 1850; 2. Llwynbrwydrau, 1862; 3. Birchgrove, 1862; 4. Bethel, 1871; 5. Cenedlaethol, 1871.

*Cofnod.*—Yr oedd melin wynt gynt ger Capel y Cwm yn y plwyf hwn, yn yr hon y melid yd ar y Sul fel ar ddydd arall, ac arferai amryw ymgasglu at eu gilydd yno i yfed cwrw, &c., ar y Suliau. Yn 1810, tra yr oedd lluaws yn y felin yn yfed ar y Sul, tarawodd mellten yn erbyn yr adeilad, gan osod y felin ar dân, a llosgwyd amryw o'r dynion o'i mewn i farwolaeth, a chredodd yr holl ardalwyr mai barn Duw oedd yr amgylchiad.

LLANSANNOR.—Plwyf yn nghantrf y Bontfaen, undeb Penybont, dosparth llys sirol Penybont a'r Bontfaen, archddeoniaeth ac esgobaeth Llandaf. Saif yr Eglwys tua dwy filldir i'r gogledd o dref y Bontfaen, ar y tu gorllewinol i blwyf Ystrad Owen. Nid oes un addoldy yn y plwyf ond yr Eglwys, bywiolaeth yr hon sydd berigroriaeth gwerth £105 y flwyddyn. Mesura'r plwyf 1,798 o erwi o arwynebedd, a pherchenogir ef gan mwyaf gan Syr Ifor B. Guest, Barwnig, a theulu Spearman. Rhifedi tai y plwyf yw 89, a'r boblogaeth yn 1861 oedd 197, a 205 yn 1871. Mae safle y plwyf mewn ardal iachus a ffwythlawn, a cheir yma olygfeydd prydferth iawn.

LLANTRISANT sydd blwyf a bwrdeisdref hynafol yn nghantrf Meisgyn, undeb a dosparth llys sirol Pontypridd, deoniaeth Llandaf Uchaf, archddeoniaeth ac esgobaeth Llandaf. Saif y dref hynafol hon mewn math o fwch rhwng dau fryn uchel, ar y ffin rhwng Bro a Blaenau Morgannwg, tua 5 milldir i'r de-orllewin o Bontypridd, 8 i'r gogledd-ddwyrain o'r Bontfaen, 11 i'r gogledd-orllewin o Gaerdydd, 10 i'r dwyrain-ogledd o Benybont, a 170 o Lundain dros yr heol, a 181 gyda'r Rheilffordd. Oddiar basiad *Reform Bill* 1832, mae mewn undeb a Chaerdydd a'r Bontfaen yn anfon un aelod i'r Senedd. Cyn hyny yr oedd mewn undeb a'r ddwy a nodwyd, gyda Chenffig, Aberafan, Castellnedd, Abertawy, a Chastell Llwchwr, yn anfon un aelod i'r Senedd. Bu gynt yn dref farchnadol bwysig iawn, ac yn ei marchnad y cydgyfarfyddai trigolion y Fro a'r Blaenau, a dygid masnach helaeth yn mlaen ynddi. Wedi agor marchnad yn Mhontypridd, gwywodd marchnad Llantrisant yn raddol a daryfoddod. Mae yn amlwg oddiwrth hen heolydd y dref, ger y Castell a'r Eglwys, iddi fod mewn bri mawr yn y cyn-oesoedd, oblegyd y mae rhanau o'r heolydd hyny yn bresenol a'r *pitching* hynafol arnynt, yn debyg i heolydd Llundain, ond bod y meini yn llai eu maint. Bu Llantrisant am oesoedd yn brif dref Cantref neu Arlwyddiaeth Meisgyn, ac ynddi y

cynnelid y llysoedd cyfreithiol, &c., a defnyddid y castell yn garchar.

*Y Castell.*—Ymddengys mai yr adeilad hynaf yn y dref yn bresenol yw y Castell. Bernir yn gyffredin mai Gwrgan ab Ithel, Tywysog Morganwg, adeiladodd y Castell gyntaf, a bod Iestyn ei fab yn ei berchenogi pan ddaeth y Normaniaid gyntaf i'n gwlad. Pan ranwyd Morganwg gan R. Fitzhamon, rhoddyd Castell Llantrisant ac Arglwyddiaeth Meisgyn i Einion ab Collwyn, yr hwn a briododd â Nest, merch Iestyn. Dywed y rhan amlaf o'r haneswyr Seisnig mai Arglwyddiaeth Senghenydd a Chastell Caerffili gafodd Einion, tra y dywed ereill iddo gael Meisgyn a Senghenydd. Ymddengys pa fodd bynag na chafodd Einion yr un droedfedd o Gantref Senghenydd—dim ond Meisgyn a Chastell Llantrisant yn unig, ac yr oedd hyny yn llawn ddigon iddo. Bernir iddo ef helaethu a chadarnhau y castell, os nad ail-adeiladodd ef. Bernir hefyd mai yma y treuliodd Einion a'i wraig weddill eu hoes. Nid yw yn hyspys i feddiant pwy yr aeth y castell ar farwolaeth Einion, ond y mae yn amlwg ei fod ef ac Arglwyddiaeth Meisgyn wedi eu cyssylltu ag Arglwyddiaeth Morganwg mor fore a'r flwyddyn 1296, a bod Gilbert de Clare yn honi hawl i'r lle. Yn ol llyfr Rice Merriok, Ysw., 1578, cafodd y castell ei adeiladu yn ei ffurf Normanaidd yn amddiffynfa, gan yr Iarll Robert Galfridus Monemutensis, tra Syr Robert Norres yn Sirydd Morganwg. Daeth wedi hyny yn eiddo Hugh le Despenser fel *rhan* o Arglwyddiaeth Morganwg. Mae traddodiad yn yr ardal mai Llywelyn Bren Hen a dorodd y castell gyntaf yn 1815, ac iddo gael ei adgyweirio drachefn. Yr oedd Llywelyn yn elyn perffaith i'r Normaniaid, ac yn neillduol i Hugh le Despenser. Dywed hanes iddo yn y flwyddyn a nodwyd dori Cestyll Aberbari, Abersuli, Llandathan, Rhuthyn, St. George, ac ereill, a dichon fod eiddo Llantrisant yn un o'r rhai ereill. Dywed rhai haneswyr iddo gael ei dori drachefn yn 1404, gan Owen Glyndwr, ac na chafodd ei adgyweirio ar ol hyny. Ond gellir casglu oddiwrth freinlen y dref ei fod yn gyfan, neu o'r hyn lleiaf yn cael ei breswyllo, yn 1425. Pan ymwelodd J. Leland a'r dref tua'r flwyddyn 1540, yr oedd y castell yn adfeilion ond Twr y Gigfran, yr hwn a ddefnyddid yn garchardy Arglwyddiaeth Meisgyn. Yn 1680, yr oedd y castell wedi ei brydlesu gan Thomas Mathew, Ysw., am y swm o 17s. 8c. y flwyddyn. Saif adfeilion y castell ar du gorllewinol y dref, ac fel hen gestyll yn gyffredin, y mae ei furiau adfeilledig yn orchuddiedig gan iorwg. Dyma fel y canwyd iddo erbyn Eisteddfod Llantrisant, Mehefin 12fed, 1865:—

“Ar aswy Twyn Llantrisant—wyt, Gastell  
Teg Iestyn ab Gwrgan;  
Gwiwrin sedd gwron a sant  
Yn adfeilion difoliant.”

“Hen Gastell enwog Iestyn—ar aswy  
Llantrisant sy'n furdwyn,  
Yn aros er dangos dyn  
Nad yw ei fri ond ewyn.”

“Gastell hen ! gwelaist eni—hir oesoedd,  
 Llantrisant addurni;  
 Ped fai'n bod dafod i ti,  
 O ! 'r hanes wnaith roi ini.”

*Yr Eglwys.*—Llan-gawrdaf oedd enw cyntefig y lle, ac ymddengys mai math o Fangor oedd, sefydlwyd yma gan Cawrdaf, tebyg i eiddo Llanarfau. Aeth yr adeilad hwnw ar dan, fel y dinystriwyd ef; a bernir mai Einion ab Collwyn adeiladodd yr Eglwys gyntaf ar ol dinystriad Bangor Cawrdaf. Mae wedi ei chyssegru i dri sant, sef Iltyd, Tyfodwg, a Gwynno, ac o herwydd hyn gelwir y lle yn Llan-tri-sant. Mae hon yn Fam Eglwys, ac wedi bod mewn bri mawr am oesoedd fel prif eglwys Arglwyddiaeth Meisgyn, a'r Eglwysi canlynol yn gapeli anwes iddi:—Aberdar, Llanwynno, Llanilltyd Faerdref, ac Ystrad-dyfodwg. Mae bywiolaethau Llanilltyd Faerdref, Llanwynno, ac Ystrad-dyfodwg dan nawdd ac yn rhodd Ficer Llantrisant yn bresenol, ac iddo ef y telir y degwm. Bu Aberdar yn ei rodd hefyd, ond y mae yr hawl hono wedi ei rhoddi i Ardalydd Bute. Telir y degwm periglorol (*rectoral tithes*) i Ddeon a Glwysgor Caerloyw. Mae Eglwys Llantrisant yn cael ei hadgyweirio yn drwyadl yn y flwyddyn hon (1878), dan arolygiad Mr. J. Pritchard, arch-adeilad-ydd Esgobaeth Llandaf. Nid yw yn hollol hyspys pa bryd yr adeiladwyd yr hen Eglwys a adgyweirir yn awr, ond bernir mai yn amser Charles II., tua'r flwyddyn 1640. Wrth fyned yn mlaen a'r adgyweiriad presenol, cafwyd y blwyddiad 1640 yn gerfiedig ar un o'r cyplau dan y to. Wrth dynu yr hen golofnau a'r bwâu mewnol i lawr, cafwyd dan y gwyngalch ar un o'r muriau bais-arfau Prydain wedi ei liwio, gyda'r argraff “God save King Charles II., 1661.” Mewn man arall, cafwyd yr adnod,—“Perchwch bawb; cerwch y frawdoliaeth, ofnweh Dduw, anrhydeddwech y brenin.” Wrth lanhau gwaelod yr Eglwys, er gosod y llawr yn is, daeth y gweithwyr o hyd i hen furiau, a bernir mai sylfeini Eglwys hynach fyth ydynt. Mae yn nghlochdy yr Eglwys ohwch o glychau, ar y rhai y mae yn gerfiedig a ganlyn:—

1. “*Prosperity to those that love good bells, E.E., 1718.*”
2. “*Gloria Deo in Excelsis, pax in terris, E.E., 1718.*”
3. “*Anglicana Contra Pop: Et Fanaticas Floreat Ecclesia, 1718.*”
4. “*Morgan David, Evan Morgan, Ch. Wardens, E.E., 1718.*”
5. “*Jacobus Harris, Sacer Theologia, 1718.*”
6. “*Richardus Jenkins de Hensol Armiger, E.F., Anno Domini 1718.*”

Ar lestri'r cymmun y mae y gerfiedig,—“Canys gwelsom ei seren ef yn y dwyrain, a daethom i'w addoli ef. Rhodd William a Jane Mathews, Llantrisant, Hyd. 10, 1750.” Mewn cell yn mur yr hen Eglwys, yr oedd delw Cadwgan Fawr o Feisgyn, yr hwn oedd ryfelwr dewr, ac yn fab i Dafydd ab Cynfrig Fychan, ac yn ddisgynydd o Rys Goch ab Rhiccert ab Einion ab Collwyn, ac hyderwn y gofalir am y ddelw yn amser yr adgyweiriad presenol, er mwyn ei hynafiaeth. Dyddia coflyfr yr Eglwys o'r flwyddyn 1727. Ficeriaeth yw'r fywiolaeth, gwerth tua £560 y flwyddyn a ficerdy, yn rhodd Deon a Glwysgor Caerloyw. Mae yn y plwyf ddau gapel anwes hefyd, sef St. John,

Tonyrefail, yn cynnwys corff, cangell, porth, a chlochle gydag un gloch. Mae wedi ei waddoli à £200 o rodd personol, £1,000 o rodd freninol, a £1,000 o rodd Seneddol. Curadiaeth barhaol yw'r fywiolaeth, yn rhodd teulu Richards, Collenau. Y capel arall a elwir Tal-ygarn, ac y mae wedi ei waddoli à £1,400 o roddiad y Frenines Anne, a £10 y flwyddyn dros byth yn ol ewyllys Syr Leoline Jenkins. Bu y capel hwn yn addeilion, ond cafodd ei adgyweirio ychydig flynyddau yn ol. Curadiaeth yw'r fywiolaeth, yn nawdd a rhodd Prif Athraw a Chymmrawdorion Coleg Iesu, Rhydychain.

*Breinlen y Dref.*—Rhoddwyd y freinlen gyntaf i Lantrisant gan Hugh le Despenser, Mai 4, 1847, yr hon a gadarnhawyd, ac a helaethwyd drachefn amryw droion gan ei olynwyr. Cafodd y freinlen ei hysgrifenu yn Lladin, ac yn yr iaith hono y mae yn nghadw yn awr. Dyma fath o gyfeithiad o'r cyfryw:—

“Richard Iarll Warwick, Arglwydd le Despenser a Morganwg, at yr holl ffyddloniaid i'r rhai y dichon i'r llythyr hwn gael ei wneyd yn hyspys. Anerch. Gwelsom freinlen Arglwydd Richard de Beauchamp, Iarll Worcester, Arglwydd le Despenser, Morganwg, ac Abergavenny, ac eiddo ein gwraig Isabella, a wnaeth ef i'n bwrdeisiaid yn Llantrisant yn y geiriau hyn:—‘Richard de Beauchamp, Iarll Worcester, Arglwydd le Despenser, Morganwg, ac Abergavenny, at bawb o'r rhai hyn yn ein Mam Eglwys Sanctaidd, y daw yr ysgrifau hyn atynt. Anerch. Gwybyddwch ddarfod i ni archwilio hawl ysgrif Thomas, hoffus fab ac etifedd Arglwydd Edward le Despenser, a'r Arglwyddes Elizabeth, ei wraig, Arlwydd Morganwg, a wnaeth efe i'n bwrdeisiaid yn Llantrisant o barth eu breiniau, yn y geiriau hyn:—Thomas le Despenser, Arglwydd Morganwg, at ein maerdrefwyr (*bailiffs*) ac at bawb y daw y brein-lythyrau hyn atynt. Anerch. Gwybyddwch i ni weled breinlen ein hewythr Hugh le Despenser (coffa da am dano), Arglwydd Morganwg, a wnaeth efe i'n bwrdeisiaid yn Llantrisant yn y geiriau hyn:—Hugh le Despenser, Arglwydd Morganwg, at yr holl faerdrefwyr, a'u cynnorthwywyr, ac at ffyddloniaid ereill a gant y llythyrau hyn. Anerch. Gwybyddwch ein bod o'n hynawsedd neillduol yn caniatáu, a thrwy y freinlen hon yn cadarnhau i'n car-edig fwrdeisiaid o dref Llantrisant, eu bod hwy a'u holynwyr i fod yn rhyddion yn ein holl diriogaethau yn Lloegr, yn ogystal ag yn Nghymru; a'u bod i fwynhau yr unrhyw freintiau ag a feddent yn amser eu blaenafiaid, ac fel yr eiddo Caerdydd, trwy rinwedd ein breinlen. Hefyd, eu bod yn rhydd i fasnachu yn ein harglwyddiaeth rag-ddywededig, a lleoedd ereill, a'u bod yn rhydd am byth o barthed eu holl eiddo a'u celfi, yn ogystal ag yn eu nwyddau masnachol, oddiwrth treth heol, treth pont, clud-dreth, ffrwyth-dreth, porth-dreth, *picage*, ac hefyd oddiwrth bob arferion, a gwysiadau, o fewn ein tiriogaeth rag-enwol. Caniatasom hefyd i'n bwrdeisiaid crybwylliedig, a'u holynwyr, yr hawl o drosi trwy ewyllys eu bwrdeisiaeth a feddianwyd ganddynt, yn ogystal a'u tyddynoedd, etifeddiaethau, rhentoedd, &c., i bwy bynag yr ewyllsiont, a pha brad bynag y mynont. Nad yw y bwrdeisiaid rhag-enwol i gael eu gorfodi i ymadael à rhyddid ein

crybwyllledig dref er cyflawni unrhyw weithred yn groes i'w hewyllysiau. A ganlyn ydynt eu ffiniau:—O'n tir a elwir Llwyncorwn ar du'r dwyrain, hyd y brif heol sy'n arwain o'r dref (Llantrisant), hyd Briordy Glynthire (Mynachlog Penrhys Glyn Rhondda), ac o'r heol sy'n arwain o'r cae a elwir Brynrhudd (Brinruth) hyd Rhyd-pont-helyg. ar du'r gorllewin; ac o'r tir sydd yn meddiant M. ap Cadwgan Dorths ar du'r gogledd, hyd derfyn ffin Maenor y Clowne ar du'r de; ac oddi-yno yn ddwyreiniol hyd dir Rhys ab Owen ac ereill ar du'r dwyrain; ac o Glawdd Gwilym Fychan ar du'r gogledd, hyd Rhyd Collwyn yn y de, gydag un erw o dir, a gwaun a saif ar ei phen ei hun yn ymyl y ffordd sy'n arwain o Brynruth i'r Bontfaen. Yr ydym wedi caniatâu hefyd na orfodir ein rhag-ddwywedig fwrdeisiaid i gasglu ein ceiniogau oddieithr ceiniogau maerdrefiaeth maer y dref. Ni chaiff neb (dyeithr) agor maelfa at unrhyw fasnach, na thafarn, na bwthyn yn y dref, heb yn gyntaf dalu yn mwrdeisdwy y cyffin, gyda'n bwrdeisiaid. Yr ydym hefyd yn caniatâu i'r bwrdeisiaid a'u holynwyr osod treth o'r eiddynt eu hunain, yn eu plith, er eu budd eu hunain, pa bryd bynag yr ewyllysiant; ac nad atafaelir arnynt am ddyled neb, oddieithr mai hwy fyddant y dyledwyr, neu feichniaid y cyfryw; ac ni chaiff un maerdrefwr o'r eiddom yn rhinwedd ei swydd eu gwysio i lys, neu ymosod arnynt o fewn eu terfynau a nodwyd, ond cwnstabl y Castell yn unig, a cheidwaid y cyfryw, y rhai fyddant wedi eu hethol gan y bwrdeisiaid eu hunain. Nad yw y masnachwyr i gludo eu nwyddau dros unrhyw heol ond dros brif-ffordd trwy dref y bwrdeisiaid, rhag i ni na'n hetifeddion gollu y doll a'r trethi dyledus i ni. Hefyd, nad yw bwrdeisiaid y dref grybwylliedig i gael eu dal a'u carcharu am unrhyw fai, os gallant gael meichniaid, oddieithr am gyflafan neu ladrad, ac wedi eu dal yn cyflawni y weithred, neu am droseddu yn ein herbyn ni neu ein teulu. Ac am bob cam a wneir o fewn cyffiniau y dref hon i eiddo, megys tyddynoedd, celfi, &c., perthynol i'r bwrdeisiaid, fod pwyllgor ymchwiliadol i gael ei ethol i drin y mater, ac i'w ddewis o blith y trigolion, ac nid neb arall. Fod hawl gan ein cwnstabl crybwylliedig, trwy swyddwyr a chyhoeddwyr, i drethu diod, bara a nwyddau ereill perthynol i'r dref, ar unrhyw adeg pan fyddo angen er gwelliant neu fudd y dref, ac na fyddant yn rihwym wrth unrhyw gyhoeddiad a wneir yn Morganwg ein sir. Yr ydym yn ewyllysio hefyd fod i gwnstabl Llantrisant o hyn allan gynnal llysoedd cantrefol y cyfryw dref yn fisol mewn cyssylltiad â chwynion ac achwynion, yn ogystal a therfysgoedd, tywallt gwaed, troseddau, dyledion, cyfammodau, ac amrywiol bethau ereill, oddieithr cwynion am goll tiroedd wedi eu trosi yn eiddo i'r goron, dynladdiadau, a dadleuon yn nghylech tiroedd. Yr ydym ni, y rhag-ddwywedig Hugh a'n hetifeddion, yn gwarantu ac yn amddiffyn y rhydd-freintiau hyn i'n crybwylliedig fwrdeisiaid yn erbyn pawb dynion. Er tystiolaeth o hyn, yr ydym yn peri gosod sel ein llys yn Nghaerdydd wrth y freinlen hon. Tystion,—Syr Mathew le Soor, ein Sirydd presenol yn Morganwg; Syr Thomas P Ward, Syr John le Norris, Syr Thomas ab Aaron, marchogion; leaganus le Turberville, Llewelyn Fychan, M. ab D. D., ac ereill.



Dyddiedig, Caerdydd, Mai 4, 20 Ior. III. (1847). Heblaw hyn, yr ydym o'n rhad neillduol yn caniatâu i'n bwrdeisiaid crybwylliedig a'u holynwyr hawl i ddefnyddio ein coed i adgyweirio eu tai, a defnyddio crinwydd ein coedwigoedd a'n forestydd yn Meisgyn a Glyn Rhondda, o fewn rheswm, heb waharddiad oddiwrth ein coedwigwyr; ac y caiff ein rhagenwol fwrdeisiaid falu yd yn ein melinau yn Meisgyn, yr un fath a deiliaid rhyddion manau ereill. Yr ydym yn caniatâu hefyd i'r cyfryw fwrdeisiaid hawl i'r mäs a'r cyrawel (*berries*) yn ein holl goedwigoedd a'n forestydd yn Meisgyn a Glyn Rhondda, er porthi eu moch, am y tal, i ni a'n holynwyr, o geiniog am bob mochyn mawr, dimai am bob mochyn bach, ond dim am y porchell; a bod eu da corniog yn rhydd yn Meisgyn a Glyn Rhondda heb doll nac ardreth i ni na'n hetifeddion. Fod ein maer i gyflawni swydd Treng-holydd o fewn terfynau tref Llantrisant, gyda chwnstabl y castell tra yn ei swydd. Yr ydym ni, Edward le Despenser, yn sefydlu a chadarnhau trwy y llythyrau hyn, drosom ein hunain a'n hetifeddion, yr holl freintiau rhagddywededig, a roddwyd gan ein hewythr, Hugh le Despenser, yn ogystal a'r breintiau newyddion a roddwyd genym ninau, i'r crybwylliedig fwrdeisiaid a'u hetifeddion. Yn dystiolaeth, parasom osod sel ein llys yn Nghaerdydd wrth y freinlen hon. Tystion,—Syr Gilbert de Ellesfield, ein Sirydd presenol dros Forganwg; Syr Richard Turberville, Syr John Norris, marchogion; William Fleming, D. ab Mathew, Mathew Vaughan, Mathew Yorath, ac ereill. Rhoddedig yn Nghaerdydd, 2 Gor., 82 Ed. III. (1859), ar ol y Goresgyniad.

“Yn wirioneddol, yr ydym ni, y dywededig Thomas le Despenser a'n hetifeddion, trwy y rhoddion presenol, yn cadarnhau am byth yr holl freintiau rhagddywededig i'r bwrdeisiaid crybwylliedig a'u holynwyr. Yn dystiolaeth o hyn, parasom osod sel ein llys yn Nghaerdydd wrth y freinlen hon. Tystion,—Syr John le St. John, ein Sirydd presenol dros Forganwg; Syr Lawrence Berkrolles, Syr William Stradling, marchogion; John Bassett, Robert Walys, Ysweiniaid; Syr Thos. Nichol, Archdeacon Llandaf; Syr John \_\_\_\_\_; Mr. Roger Cooke, Mr. Henry War, Ysgrifenydd a Chanon Llandaf, ac ereill. Rhoddedig yn Nghaerdydd, 12 Chwefror (1892), 20 Richard II.

“Yr ydym ni, y dywededig Richard de Beauchamp, Iarll Caerwrangon, Arglwydd le Despenser, Morganwg ac Abergafeni, drosom ein hunain a'n hetifeddion, yn cadarnhau am byth yr holl freintiau a nodwyd i'n bwrdeisiaid a'u holynwyr. Er dystiolaeth o hyn, parasom osod sel ein llys yn Nghaerdydd wrth y freinlen hon yn mhresenoldeb Syr John Stradling, ein Sirydd presenol dros Forganwg; Syr John St. John, Syr Edward Stradling, marchogion; Watkin Norton, Cwnstabl Castell Caerdydd; Jenkin ab Dafydd ab Llywelyn ab Vaughan, Lewis Mathew, Hywel ab Evan, Robert Mathew, Morgan ab Llywelyn ab John, Ysweiniaid, ac ereill. Dyddiedig yn Nghaerdydd, 24 Awst, 1422, 9 Henry V., ar ol y Goresgyniad. Ac yr ydym ni, y dywededig Richard, Iarll Warwick, Arglwydd le Despenser a Morganwg, ac Isabella ein gwraig, drosom ein hunain a'n hetifeddion, yn adnewyddu

ac yn cadarnhau yr holl freinleni a enwyd i'n bwrdeisiaid yn Llantrisant a'u holynwyr, a thrwy y freinlen hon yn sefydlu fod iddynt fwynhau am byth eu holl freintiau, heb un rhwystr o fath yn y byd. Er tystiolaeth o hyn, parasm osod sel ein llys yn Nghaerdydd wrth y freinlen hon, yn mhresenoldeb Syr Oliver St. John, ein Sirydd presenol dros Forganwg; Syr John St. John, Syr John Stradling, marchogion; Henry Slake, Cwnstabl Castell Caerdydd; Llywelyn ab Evan Mady, David Mathew, Morgan Llywelyn ab Evan, Ysweiniaid. Dyddiedig, Caerdydd, 20 Hydref (1425), 8 Harri VI."

Yn rhinwedd y freinlen hon, llywodraethir y dref gan Bortref, Henaduriaid, a Bwrdeisiaid, a pherchenoga y bwrdeisiaid lawer o dir ger y dref, yn enwedig y "Ceimle" a "Chraig Llantrisant."

*Ffiniau y Gorrfoleath* ydynt fel y canlyn:—O'r maen mawr a elwir y Maenllwyd, yr hwn sydd yn nghwr gogleddol Gwaun y Groes ar y tu dwyreiniol, hyd yr heol sydd yn arwain o'r dref at amaethdy o'r enw Ton-drugwall, ac oddiyno i'r gogledd-ddwyrain hyd at y Ffynnon Wen yn nghwr dwyreiniol y waun; oddiyno i'r Nant Ddu, a chyda'r nant tua'r gogledd hyd Ffrwd Collwyn, ac oddiyno gyda nant fechan tua'r gogledd, gyda godre Comin y Fwrdais hyd at y Clawdd Du, ac o gwr gogleddol y Clawdd Du ar y comin hyd Rhyd Talysarn ar Nant-y-fedwen, ac o Ryd Talysarn gyda Nant-y-fedwen tua'r gorllewin hyd y Maenbrych, yr hwn sydd ar du gogleddol y nant ar dir Llwynau Isaf, oddiyno i'r dde trwy Gae'r Sgubor, a thrwy y sgubor sydd yn nglŷn â fferm Talyfedw, ar y tu dwyrain i'r cyfryw gae, oddiyno ar hyd yr heol gul tua'r dde i gae arall, ac at gareg fawr sydd ger y clawdd yno, ac oddiwrth y gareg tua'r dde trwy y cae yn union i Gwallwyd; oddiyno at gamfa yn Nghae Banal, ger y Ddraenen Deg, ac oddiwrth y gamfa hono gyda'r berth hyd y nant a elwir Login, a chyda Nant Login hyd Nant Muchedd, a chyda'r Muchedd yn dde-orllewinol hyd Rhydelyg; oddiyno gyda Muchedd hyd at glawdd sydd yn uno â'r nant, ac yn gwahanu dwy waun, a Gwaun y Bryn Rhydd; oddiyno gyda'r clawdd i'r dde hyd Heol Wrgan a'r Heol Fawr; oddiyno yn dde-orllewin i gae a elwir Parc Aberclun, ac yna hyd glawdd a elwir Clawdd Wilkin, a chyda hwnw i'w ben dwyreiniol; oddiyno yn groes i Gae Rhyd y Garlles, yn union hyd Rhyd-garlles; oddiyno ar hyd heol rhwng dwy berth hyd yr heol fawr sydd yn arwain o Lantrisant i Bont-y-parc, ac yn groes i'r heol i gyfeiriad gogledd-ddwyreiniol trwy odre Cae y Ton Mawr, ac oddiyno mewn llinell union gyda'r berth sy'n gwahanu tiroedd Ardalydd Bute a'r diweddar Stephen White, Ysw., hyd y Pont-bren Du, ac oddiyno mewn llinell union i'r dwyrain hyd y Maenllwyd yn Ngwaun y Groes.

Mesura plwyf Llantrisant 16,669 o erwi o arwynebedd. Mae tua deg milldir o hyd, ac yn amrywio o un a hanner hyd bum' milldir o led. Mae wedi ei ddosparthu yn bump rhan fel y canlyn:—1. Rhandir y dref; 2. Rhandir Trôn; 3. Rhandir Gelliwion; 4. Rhandir Castellau; 5. Rhandir Meisgyn. Rhif tai y plwyf yn 1891 oedd 1,156; yn 1871, 1,707. Poblogaeth yn 1861, 5,492; yn 1871, 8,086.

*Gweithfeydd.*—Mae daiareg y plwyf hwn yn dra dyddorol i'r daiaregydd. Ceir yma ddiagonedd o'r graig galch wyol, cyfoeth lawer o lo, mwn haiarn (*hematite iron ore*), a mwn plwm. Barna rhai i'r Rhufeiniaid agor gweithfeydd plwm yma; ond y mae hyny, feallai, yn amheus. Mae cofnodion feithiol i'w cael, pa fodd bynag, fod mwn plwm yn cael ei gloddio yma yn 1666, ac hefyd yn 1768; ond gyda pha lwydd, ni hyspysir. Bu gweithfeydd haiarn yn y plwyf hwn yn fore iawn, fel y tystia gweddillion hen ffwrnes Glan Elai, a manau ereill. Bernir fod gwaith haiarn yma yn amser Iorwerth I., yr hwn a wnaeth gyfraith fod degwm elw mwngloddiau Cymru i'w rhoi at wasnaeth yr Eglwys yn y Dywysogaeth, a bod y nawfed ran i'r Llywodraeth. Dywedai John Leland (1540) fod dau barc, heb geirw, yn ddehenol i'r dref, a bod haiarn yn cael ei wneyd yn un o honynt, sef *Glinog*. Ymddengys, pa fodd bynag, na fu cymmaint o fri ar weithio mwn a a glo yn y plwyf hwn erioed, ag sydd yn yr oes hon. Dechreuwyd y *Bute Hematite Iron Ore Works*, Hydref 22ain, 1852, gan dri boneddwr o'r ardal, sef W. Evans, Richard a David Jones; ond gwerthasant ef yn fuan i'r Meistri Levick, Simson a Fothergill. Yn 1856, tarawodd y gweithwyr i Hen Waith yn y Gloddfa hon, yn y dyfnder o 20 llath dan yr arwyneb, a chawsant yno ddwy ddirwynlath (*Windlass*), wedi eu gwneyd o goed i-gyd; ac amryw rawiau coed, a mandreli (*Pickaxes*); yr hyn a brawf ar unwaith fod rhywrai wedi bod yn cloddio am fwn haiarn yno yn flaenorol. Dechreuwyd y *Mwyndy Iron Ore Works* yn mis Mai, 1855, gan D. Davies, Ysw., Gallt Gawrdaf. Gorphenaf 19eg, 1856, troswyd ef i feddiant y diweddar N. E. Vaughan, Ysw. Ionawr 1, 1860, gwerthwyd ef i gwmni o Lundain, am £65,000, y rhai a'i gwerthasant drachefn i'r *Mwyndy Iron Ore Co.*, am £160,000. Rhwng mis Mawrth, 1862, a Mawrth, 1866, codwyd y swm o 182,206 o dunelli o fwn yn y gwaith hwn. Mae'r ddaun waith hyn un bob ochr i'r heol sydd yn arwain o'r dref i Gaerdydd. Mae lluwau o lofeydd eang yn y plwyf hwn hefyd, megys, 1, Glofa'r Coedcae; 2, Glofa'r Cymmer; 3, Cymmer Level; 4, Glofa'r Ddinas; 5, Glofa Merthyr Ely; 6, Glofa Gelliwion; 7, Glofa Peurhiwfer; 8, Glofa Pwllgwaun; 9, Glofa Tŷ Nant; 10, Gilfach Goch, &c. Y gwythieni uchaf (Glo Tai) yn unig weithir yn y glofeydd hyn; ond credwn y daw cyfnod i suddo yn ddigon dwfn i gael y glo ager hefyd; ond dichon yr aiff oesoedd heibio cyn hyny.

Mae amryw ymosodiadau wedi eu gwneyd ar fwrdeisiaid Llantrisant, er ceisio cyfyngu ar eu hawliau, y rhai ni chawn ond eu crybwyll. Yn 1710, darfu i Steward Maenor Meisgun, er ei fod yn un o Henaduriaid y dref, ymosod trwy gyfraith ar, a chymmeryd ymaith ddodrefn rhai o'r bwrdeisiaid o'u tai, a'u profi yn Hys Maenor Meisgun, pan mae breinlen y dref yn gwahardd hyny yn bendant. Yn ngwyneb hyn, dygodd y bwrdeisiaid gwyn i lys uwch, er cael barn y llys hwnw ar y mater, pryd y cawsant yr ateb canlynol:—

"I am of opinion that a distraining out of the Court and Manor of Miskin cannot be executed within the Borough of Llantrisant, and so an action for trespass very well lies.

"Cardiff, April 12th, 1711."

"SIR BIRT."

BI

Yn 1864 neu 5, darfu i Ymddiriedolwyr Ardalydd Bute, roddi hawl a phrydles i Thomas Powell, Ysw., i suddo glofa ar ran o dir y gorphol-aeth, gan honi mae'r Ardalydd oedd perchen y mwnau yn y tir. Cynhyrfodd hyny y bwrdeisiaid i honi eu hawl yn eu heiddo. Cynnalwyd cyfarfod pwysig i drin y mater, Mawrth 12fed, 1866: tanysgrifiwyd tua £500 yn wirfoddol er talu y treuliau cyfreithiol, &c., ac ar y 7fed o Fehefin, 1866, dygwyd gwys yn erbyn T. Powell, Ysw., yn enw Portref a Bwrdeisiaid Llantrisant, er mwyn adfeddiannu y tir, &c. Parodd hyn i Ymddiriedolwyr Ardalydd Bute, godi y mater i'r *Chancery*; ac fel llawer mater arall o'i flaen, terfynodd yn ffafr y goludog.

*Capeli y Dref.*—Dechreuwyd cynnal cyfarfodydd gan y Bedyddwyr yma, mor fore a'r flwyddym 1652; ond ymddengys i'r arferiad gael ei roddi heibio yn 1656. Pan dorodd y diwygiad Methodistiaidd allan yn Nghymru, cafordd yr achos dderbyniad croesawus yma, ac yn 1776, adeiladwyd y capel, yr hwn a ail-adeiladwyd yn 1826, ac a helaethwyd drachefn. Yn 1808, adeiladodd yr Annibynwyr gapel Bethel, yr hwn a helaethwyd yn 1856. Yn 1862, adeiladwyd un arall gan yr Annibynwyr. Yn 1818, adeiladwyd capel yma gan y Wesleyaid. Yn 1824, adeiladwyd capel y Bedyddwyr. Yn yohwanegol at y rhai hyn, mae yn y plwyf gapeli gan y Trefnyddion Calfinaidd yn Bryn Saddler, y Felin Newydd, a Thonyrefail. Mae capel gan y Bedyddwyr yn Nhon-yrefail hefyd.

*Ysgolion.*—Yn 1867, adeiladwyd Ysgoldy Cenedlaethol ardderchog yn y dref, yr hwn a gostiodd dros £2000. Cyn hyny, cynnelid ysgol y bechgyn yn yr adeilad a godwyd yn Neuadd y Dref; a'r merched yn hen dŷ marchnad yr ŷd. Mae'r Ysgol Frytanaidd yn Nhon-yrefail, ac ysgol yn y Felin Newydd hefyd.

*Gilfachgoch.*—Mae'r lle hwn yn bentref mawr bellach, ac yn sefyll yn rhanol mewn tri phlwyf; sef, Llandyfodwg, Ystradyfodwg, a Llantrisant. Mae tafod hanesiaeth yn lled ddystaw am y lle hwn; ond ymddengys i Waith Haiarn fod yma, yn nghyfnod y Ffwrnesi Symudol, oblegyd y mae tommen o farwydos (*cinders*) i'w gweled yma yn awr, yn agos i lofa y *Glamorgan Coal Co.*; ac mae y ffaith fod porfa wedi tyfu drosti, yn profi ei bod yma er ys canrifoedd. Yn 1862, gwawriodd cyfnod newydd ar y lle hwn, trwy i Evan Evans, Ysw., Merthyr Tydfil, agor *Level* lo yn Mhlwyf Llandyfodwg. Yn 1867, agorodd y *Glamorgan Coal Co.* ddwy lofa yma, un yn Mhlwyf Ystradyfodwg, a'r llall yn Mhlwyf Llantrisant; ac yn 1868, agorodd Mr. Evans ei ail lofa. Y gwythieni a weithir yma ydynt Rif 2 a 8 y Glo Tai. Parodd agoriad y glofeydd hyn i'r boblogaeth luosogi, ac felly dechreuwyd adeiladu preswylfeydd iddynt. Yn 1868, adeiladwyd capeli yma gan y Bedyddwyr a'r Methodistiaid. Yn 1871, adeiladwyd Eglwys yma. Yn 1872, dechreuwyd adeiladu capel yr Annibynwyr. Bwrriedir codi ysgoldy eang yma yn fuan hefyd, yr hyn a ddengys fod y lle yn myned rhag ei flaen yn gyflym iawn. Saif y lle ar lan afon Ogwy Fach, o fewn ychydig filldroedd i'w tharddiad.

*Gwrthddrychau Hynafiaethol.*—Mae lluwaws o'r rhai hyn yn ardal Llantrisant; megys, 1, Tarren Deusant, tua dwy filldir i'r gogledd o'r

dref, ger Castellau. Mae yma amryw feini hynod a chroesau, &c., a bernir iddo fod ar y cyntaf yn deml Dderwyddol, ac wedi hyny yn fath o sefydliad Cristionogol. 2, Y Caerau, tua milldir i'r de-ddwyr. o'r dref. Barna rhai mai y Daniaid adeiladasant y caerau hyn, ereill mai y Rhufeiniaid a'u codasant. Mae yn amlwg, pa fodd bynag, eu bod yn hynafol iawn. 3, Hen Gastell. Tua dwy filldir i'r de-ddwyrain, mae olion hen gastell, nad oes wybodaeth pwy a'i cododd. Y cwbl ddywedai Leland am dano oedd, fod adfeilion y cyfryw ar ben bryn. 4, Hen Fynachlog Cawrdaf. Saif y gweddillion hyn tua milltir a hanner i'r de o'r dref, ac y maent yn hyuod eglur. Bernir fod hen Eglwys Llangoed yn agos i'r adfeilion hyn. 5, Rhiw'r Saeson. Barnai Rice Merrick, i'r lle hwn gael yr enw oddiwrth y brwydrau a ymladdwyd rhwng y Cymru a'r Normaniaid, yn amser Robert Fitzhamon; ond mwy tebygol o lawer yw, mai yma yr ymladdwyd Cad Rhiw'r Saeson, yn y flwyddyn 878, pan y gorchfygodd y Cymru eu gelynion. 6, Yr Hen Felin Wynt. Saif adfeilion hon ar gopa Craig Llantrisant, yn ymyl y dref. Er ei bod wedi ei chodi mewn lle hynod fanteisiol, dywed traddodiad na wnaed nemawr ddefnydd o honi. Ceir un o'r golygfeydd hyfrydaf ar y wlad o amgylch o ymyl yr hen felin hon.

*Enwogion.*—Nis gallwn fanylu ar hyn, o ddiffyg lle; ac etto, nodwn ychydig. Morgan Gruffydd, y bardd, ydoedd wr enwog a thalentog, yn byw yma yn 1660. Yr oedd yn gyfaill mynwesol i'r Paroh. Dafydd Williams (Dafydd o'r Nant), yr hwn a wnaeth alareb bruddglwyfus ar ei ol. Mae llawer o gyfansoddiadau Morgan Gruffydd ar gael, mewn argraff ac ysgrif; a da iawn fyddai crynhoi yr eiddo ef ac ereill o'r hen feirdd, yn un gyfrol.

Hopkin Hopkins, y dyn bach. Mab un Lewis Hopkins, o Lantrisant, oedd hwn; a bedyddiwyd ef yn Eglwys y plwyf, Ionawr 29ain, 1786. Hynodrwydd Hopkin oedd bychandra ei gorph: nid oedd ond 31 modfedd o daldra, pan yn 15 mlwydd oed; ac ni phwysai ond 16 pwys. Bu yn cael ei arddangos mewn gwahanol drefi yn Lloegr a Chymru; ac ystyrir ef yn un o brif ryfeddodau yr oes.

Syr Llewelyn Jenkins, a adnabyddir yn gyffredin wrth yr enw, Syr Leoline Jenkins. Yr oedd efe yn fab i Jenkin ac Elizabeth Llewelyn, o'r plwyf hwn; ac yn ol arferiad yr amser hwnw, cuwryd y bachgen yn Llewelyn Jenkins. Gan fod ei rieni mewn amgylchiadau cysurus, anfonwyd y bachgen i Ysgol Ramadegol y Bontfaen; lle y dysgodd Saesneg, Groeg, a Lladin yn dda. Pan yn 16 oed, anfonwyd ef i Goleg Iesu, Rhydychain, a derbyniwyd ef yn acloed o'r coleg hwnw yn 1641. Pan dorodd y Rhyfel Cartrefol allan rhwng Charles I. a'r Senedd, ymunodd Llewelyn â byddin y brenin; ond gadawodd hi yn fuan, a daeth yn ol i Gymru. Wedi ei ddychweliad adref, cafodd fyned yn athraw teuluaid i fab Syr John Aubrey, Lantryddydd. Yr oedd palas Llantryddydd ar y pryd yn guddfan amryw o brif enwogion y deyrnas; megys Dr. Frewyn, Archesgob York; a Dr. Sheldon, a wnaed wedi hyny yn Archesgob Canterbury; ac felly, cafodd Llewelyn fantais i ffurfio adnabyddiaeth â hwynt. Pan oedd arwyddion digon eglur fod Cromwell a'i luocedd yn ennill tir, a bod perygl y breninwyr

yn ychwanegu, ffodd Llewelyn o'r wlad; a bu yn teithio Ffrainge, Holland, a Germani; gan ymgyfarwyddo â ieithodd a dysgeidiaeth y gwledydd hyn. Ar ddyrchafiad Charles II. i orsedd Prydain, dychwelodd Llewelyn i Rydychain, ac etholwyd ef yn Gymrawd (*Fellow*) yn Ngholeg Iesu. Pan roes Dr. Mansel ei swydd i fyny, dewisiwyd Llewelyn yn Brif Athraw y Coleg yn ei le. Pan dorodd y rhyfel allan rhwng Lloegr a Holland, yn 1668, cafodd Llewelyn ei ddewis i gynnorthwyo Dr. Exton, Barnydd y Morlys, gan ei fod mor hyddysg mewn deddfau gwladol a milwrol. Ar farwolaeth Dr. Exton, daeth holl gyfrifoldeb cyflawniad y swydd bwysig arno ef yn unig; ac y mae ei enw yn barchus gan y llywodraeth heddyw, am ei fedrusrwydd yn cyflawni ei swydd. Yn 1668, ar farwolwoeth Dr. Meiric, pennodwyd Llewelyn gan yr Archesgob, yn farnwr Uchel-Lys Canterbury, ar gais y brenin. Y flwyddyn ganlynol (1669), ar farwolaeth Henrietta Maria, gweddw Charles I., darfu i'w nai, Louis XIV., honi hawl yn ei holl gyfoeth. Yn ngwyneb hyn, anfonwyd Llewelyn a thri ereill, i Paris, i honi hawl i'r cyfoeth i Charles II., a buont lwyddiannus. Yn gydnabyddiaeth am hyn, gwnaed Llewelyn yn Farchog, gan y brenin, ac adnabyddid ef o hyn allan wrth yr enw anrhydeddus, Syr Leolinus Jenkins, Knight. Wedi hyn, pennodwyd ef yn un o ddirprwywyr y Llywodraeth i geisio cario allan fesurau er uno Ysgotland a Lloegr. Yn 1671, etholwyd ef yn aelod Seneddol dros Hythe, yn Kent. Yn 1678, rhoddodd ei swydd i fyny yn y Coleg, er mwyn myned i Gyd-Gynghorfa Cologne, yn negesydd dros y llywodraeth, i geisio sefydlu amodau heddwch rhwng Spain, Holland, Ffrainge, a Lloegr. Wedi methu yno, cafodd ei bennodi i fyned gyda Syr William Temple i Gymmanfa Nemiguen. Oddiyno aeth yn Llys-Gennadydd i Hague; ond dychwelodd yn fuan i Nemiguen, lle llwyddodd i symmud yr holl rwystrau, a sefydlwyd heddwch rhwng yr holl wledydd. Yn 1679, dychwelodd i Loegr, wedi bod am bedair blynedd yn gweithio yn galed er dwyn oddiamgylch delerau y cytundeb. Yn 1680, cafodd ei wneyd yn *Privy Councillor*, ac yn Ysgrifenydd Cartrefol y Llywodaeth. Wedi bod yn y swydd anrhydeddus hono am tua phedair blynedd, rhoddodd hi i fyny, o herwydd afiechyd; ac ymneillduodd i fyw i Hammersmith, ger Llundain. Wedi iddo wella, etholwyd ef yn aelod Seneddol dros Brifysgol Rhydychain; a thyngwyd ef yn un o'r Cyfrin-Gynghor dan James II. Medi 1af, 1685, bu farw'r gwr enwog a llafurus hwn, a chladdwyd ef gydag anrhydedd yn Rhydychain. Ni fu yn briod, a gadawodd y rhan fwyaf o'i gyfoeth, trwy ewyllys i Goleg Iesu, Rhydychain; ond ar yr un pryd, cofiodd am ardal ei febyd. Gadawodd £20 bob pedair blynedd i dlodion Llantrisant; £10 y flwyddyn at gapel Talygarn, a gwaddolodd Ysgol y Bontfaen yn dda.

*Prif Balasau*.—1, Castellau House, a fu gynt yn breswylfa hen deulu anrhydeddus Treharne; a bernir fod yma amddiffynfa filwrol gynt. 2, Crofta Hall, eiddo a phreswylfod W. Prichard, Ysw., Y.H. 8, Collenau House, Tonyrefail, a feddienid ac a breswylid gynt gan deulu parchus y Prichards; ond yn awr gan Samuel Priestly, Ysw. 4, Glanlai, neu Lanlay House, hen breswylfod teulu y Bassets, am

oesoedd; ond a berchenogir ac a breswylir yn awr gan y Milwriad Vaughan Hannan Lee. 5, Talygarn House, preswylfa achlysurol G. T. Clark, Ysw., Dowlais, un o brif hynafiaethwyr yr oes. 6, Miskin Manor, preswylfa Gwilym Williams, Ysw. (Ab Alaw Gloch), Ynad Heddwch. Yma gynt y preswyliai Ynyr ab Rhydwal ab Meirug; a thrachefn, preswylid ef gan Cadwgan Fawr ab Dafydd ab Cynfrig Fychan.

Mae dwy gleddrffordd i gludo teithwyr yn rhedeg i ymyl y dref, sef y Great Western, a changen o'r Taff Vale; heblaw cleddrffordd fwnol Glan Elai; ac y mae pob argoelion yn awr y daw y dref yn fuan i gymmaint bri ag erioed.

LLANTRYDDYD, neu Lantridddyd, sydd blwyf yn nghantref Dinas Powys, undeb a dosparth llys sirol Caerdydd, esgobaeth Llandaf. Saif Eglwys y plwyf tua hanner milldir i'r dde o'r brif ffordd rhwng Caerdydd a'r Bontfaen, a thua phedair milldir o'r lle olaf. Adeiladwyd Eglwys yma gyntaf gan Treidddyd Sant, o Gor Illtyd, (*Iolo MSS.*, p. 221). Maint y plwyf yw 1,891 o erwi; rhifedi y tai, 40; poblogaeth yn 1861, 204; yn 1871, 188; *valuation* y plwyf, £1,718. Ymddengys fod Llantryddyd yn arglwyddiaeth annibynol cyn y Goresgyniad Normanaidd, a pharhaodd felly am hir amser drachefn. Pan ranwyd Morganwg gan R. Fitzhamon, rhoddwyd y lle hwn i Hywel, mab Iestyn ab Gwrgan, a bernir iddo adeiladu ei breswylfa yn fath o gastell amddiffynol, yr un fath a'r cestyll Normanaidd. Yn y flwyddyn 1151, ymosodwyd ar Gastell Llantryddyd, a dinstriwyd ef, yn ogystal â Chastell Aberafan, eiddo Morgan ab Caradog ab Iestyn, gan Meredith, mab Gruffydd ab Rhys ab Tewdwr. Achos y ffræ a arweiniodd i'r ymosodiad oedd hyn:—Yr oedd Rhys ab Gruffydd, a brawd Meredith, yn Dywysog Dinefawr, ac yn barnu y gallai gydag ychydig help yru y Normaniaid yn llwyr o'r wlad. I'r dyben hwnw, efe a anfonodd gais at Morgan ab Caradog, Arglwydd Aberafan, ac at fab Hywel ab Iestyn, Arglwydd Llantryddyd, i ofyn eu cynnorthwy i gario allan ei amcan. Gwrthododd y rhai hyn gydsynio, a'r canlyniad fu i Meredith, brawd Rhys, ddwyn byddin gref i Forganwg, a dinstrio eu cestyll. Dywed llyfr Syr Edward Mansel (1591) na chafodd Palas Llantryddyd ei adeiladu ar ffurf castell ar ol hyny, ond ar ffurf llys gwladol, fel ag oedd yn ei amser ef. Bernir, pa fodd bynag, mai yn amser Harri VI., rhwng 1422 a 1472, yr adeiladwyd y palas presenol, er fod rhywbeth yn arddull ei ffenestri mawrion yn awgrymu ei fod yn ddiweddarach. Mae ffenestri yr ystafell giniawa yn 12 troedfedd ysgwar, a dwy ffenestr y prif barlwr, un yn 12 troedfedd o led a 9 o uchder, a'r llall yn 9 troedfedd ysgwar. Y dull Pabyddol o wneyd

ffenestri oedd, ac sydd etto, fel hyn



er mwyn cael llun y



yn y canol; ond y mae ffenestri Llantryddyd yn wahanol, fel hyn



Yn 1558, preswyliid y palas gwyh hwn gan Syr Richard Walwyn, Marchog, Uchel Sirydd Morganwg. Yn 1590, preswyliid y palas gan Anthony Mansel, Ysw., Uchel Sirydd. Yn 1600, perchenog y lle oedd Syr Edward Lewis o'r Fan; ac yn 1602, preswyliid ef gan Thomas Aubrey, Ysw., (Marchog wedi hyny), a cheir mai efe oedd Uchel Sirydd Morganwg y flwyddyn hono. Perchenog a phreswyliidd Palas Llantryddydd yn 1684 oedd Syr John Aubrey, Sirydd Morganwg y flwyddyn hono, a pharhaodd yn meddiant y teulu am oesau. Hwn oedd ymlynydd selog wrth achos Charles I., a throes ei balas yn noddfa ffoaduriaid rhag byddinoedd O. Cromwell, fel y sylwyd yn hanes Llantrisant. Yn 1686, Syr John Aubrey, Barwnig, o'r lle hwn, oedd Uchel Sirydd Morganwg, a bu yn aelod seneddol hefyd dros Brackley. Yr oedd hwn yn briod â Mari, olwaer Edward Lewis, Ysw., o'r Fan. Yn 1707—8, Syr John Aubrey, Barwnig, o Llantryddydd, oedd cynnrychiolydd bwrdeisdrefi Morganwg yn y Senedd, ac efe oedd yr Uchel Sirydd yn 1710. Dengys hyn fod Llantryddydd trwy yr oesoedd yn lle pur anrhydeddus, a bod preswylwyr y palas yn ddynion pwysig a pharchus yn y wlad. Mae parc ardderchog yn ymyl y palas, prydferthwch yr hwn sydd yn swyno pawb a'i gwelant.

**LLANWYNNO.**—Plwyf yn nghanntref Miskin, undeb a dosparth llys sirol Pontypridd, archddeoniaeth ac esgobaeth Llandaf. Saif Eglwys y plwyf mewn ardal fynyddig tua phum' milldir i'r gogledd o Bontypridd, a chynnwysa gorff, cangell, rhodfeydd, porth, a chlochdy gyda phedair cloch. Barna llawer mai Gwynno Sant sylfaenodd Eglwys Gristionogol yma gyntaf; ond nid oes un rheswm dros gredu hyn, rhagor na bod yr Eglwys wedi ei chyssegru i'w enw. Bu yr Eglwys hon am oesoedd yn gapel anwes dan Llantrisant; ac er fod Llanwynno yn blwyf annibynol bellach er ys canrifoedd, y mae cyssylltiad Eglwysig rhwng y lle â Llantrisant yn parhau i raddau, oblegyd mae bywiolaeth yr Eglwys hon dan nawdd ac yn rhodd Ficer Llantrisant yn bresenol. Curadiaeth barhaol yw'r fywiolaeth, yn unol â churadiaeth Eglwys Rhondda (St. David's), a'r ddwy yn werth £400 y flwyddyn. Capel anwes dan Eglwys y plwyf yw Eglwys Rhondda, yr hon a saif ger glofa y *Great Western* yn Nghwm Rhondda, lle y mae Ygaldy Cenedlaethol hardd hefyd.

Mae arwynebedd y plwyf hwn yn 18,018 o erwi, ac wedi ei ranu yn ddau ddosparth, sef Glyn Cynon ac Hafodrinog. Cyrhaedda y plwyf o Mountain Ash, ei gwr gogleddol, hyd Bontypridd. ei gwr deheuol, a chynnwysa y mynydd-dir sydd yn gorwedd rhwng afon Rhondda Fach ac afon Cynon, o Blaenllechau a Mountain Ash hyd Cymmer Rhondda ac Abercynon, a'r holl fynydd-dir rhwng afon Taf ac afon Rhondda, oddiyno i lawr hyd Pontypridd. Mae rhanau helaeth o bentrefi a glofeydd Blaenllechau, Mountain Ash, a'r Porth (Cwm Rhondda) yn y plwyf hwn.—(Gwel Blaenllechau, Mountain Ash, &c.) Rhif tai y plwyf yn 1861 oedd 1,696; yn 1871, 2,309. Poblogaeth yn 1861, 8,702; yn 1871, 11,484.

Ymddengys i amryw sefydliadau crefyddol fod yn ardal Eglwys y plwyf yn y cyfnod mwyaf Pabyddol ar ein gwlad, oblegyd ceir enwau



lleoedd yn awgrymu hyn yn awr. Tua-milldir a hanner i'r de-ddwyrain o'r Eglwys mae ty o'r enw y Fynachlog, ac yn yr ardal y mae Glyn Mynach, Gelli'r Fynaches, Buarth y Capel, Mynachdy, &c., y rhai sydd yn awgrymu, os nad yn cadarnhau, i'r lleoedd hyn fod yn grefydd-dai Pabyddol. Mae darlun o rieni y ddynoliaeth yn amlwg heddyw ar un o risiau y Mynachdy, yr hwn a wnaed mae'n debyg gan un o'r Mynachod. Mae y ffaith fod Camden, yr hanesydd, wedi talu ymweliad ag Ynys-y-bwl, yn ymyl y lleoedd hyn, yn 1590, yn profi fod yma hynafiaethau Eglwysig, oblegyd mai chwilio am hynafiaethau o'r fath oedd ei amcan ef a'i gyfaill, Francis Godwin, a wnaed yn Esgob Llandaf wedi hyny. Er fod yr Eglwys wedi ei chodi mewn ardal wyllt, ar Fynydd Cefn-gwingil (Cefn-gwaun-gul), etto mae yn ddigon tebygol fod crefydd yn cael sylw neillduol yma yr oesoedd gynt.

Hen Eglwys Gwynno hyglo—*a godwyd*

I gadw i'r Duwdod

Wasanaeth melus hynod,

A llawr glân,—allor ei glod.

Yn nglŷn a'r Eglwys y mae mynwent eang, lle y gorwedd llwch cenedlaethau o'r plwyfollion, ac yn eu plith y mae un hynod, sef Gruffydd Morgan (Guto Nyth Brân). Yr oedd yn un o redegwyr buanaf y byd. Un tro, rheddodd 12 milldir mewn 56 mynyd! Ar hen gareg ei fedd, yr oedd yn gerfiedig a ganlyn:—"Yma y gorwedd Gruffydd Morgan, o Nyth Brân, yr hwn a fu farw yn y flwyddyn 1787." Yn 1866, oedd y plwyfollion gofodail newydd ar ei fedd, lle y mae yn gerfiedig ei goffadwriaeth a'r ddau englyn canlynol:—

Rhedegwr gorheiniŷ a gwrawl,—*cawr*

Yn curo'n wastadawl

Oedd Gruffydd, e fydd ei fawl,

Wr iesin, yn arosawl.

Y gareg hon a'r geiriad—*a roddwyd*

I arwyddo cariad

Ar ei lwch, gan wyr ei wlad,

I gyfiawn ddal ei gofiad.

**LLYSPAEN** (*Lisfane*).—Plwyf a phentref yn nghanntref Cibwyr, undeb a dosparth llys sirol Caerdydd, deoniaeth, archddeoniaeth, ac esgobaeth Llandaf; pum' milldir i'r gogledd o Gaerdydd, a thair i'r de o Gaerfili. Mesura'r plwyf 1,888 o erwi o arwynebedd; pris ardrethol, £1,174; tai, 50; poblogaeth yn 1861, 226; yn 1871, 242. Bernir i'r plwyf gael yr enw hwn oddiw'rth faen mawr, ar yr hwn y cynnelid llys barn yn y cynoesoedd. Eglwys fechan, hynafol, yw Llan y Llys, a'r fywiolaeth yn guradiaeth barhaol, gwerth £60 y flwyddyn, yn nawdd a rhodd Iarll Plymouth a C. K. K. Tynte, Ysw., bob yn ail. Un capel Ymneillduol sydd yn y plwyf, sef eiddo y Bedyddwyr, lle y gweinidogaethai y diweddar Dewi Isan. Amaethyddiaeth ddygir yn mlaen yn benaf yn y plwyf hwn, ac y mae yma ddaiar fras a chyn-

nyrchiol. Dyfrheir yr ardal gan luaws o fân nentydd, ac o'r ffrydiat hyn y diweller trigolion Caerdydd â dwfr glân. Mae dwfr groufa (*reservoir*) Dwfr Weithfa Caerdydd ar ffin y plwyf yma, yn 80 erw o arwyneb. Rhed Cangen Cledrffordd Caerdydd a Chaerfili trwy ran o'r plwyf.

**LLYSYFRONYDD** (*Llyscorney*).—Plwyf yn nghanntref y Bontfaen, undeb Penybont, dosparth llys sirol Penybont a'r Bontfaen, deoniaeth Gronedd Isaf, archddeoniaeth ac esgobaeth Llandaf. Saif yr Eglwys a'r pentref tua dwy filldir i'r de-orllewin o'r Bontfaen. Maint y plwyf yw 897 erw; prisiad, £1,209; tai, 88; poblogaeth yn 1861, 189; yn 1871, 166. Perigloraeth yw'r fywiolaeth Eglwysig, yn unol â churadiaeth Llanilltyd Fawr, gwerth £347 y flwyddyn, yn nawdd a rhodd Deon a Glwysgor Caerloyw. Mae Ysgoldy prydfeth yn ymyl yr Eglwys, yr hwn a adeiladwyd ar draul R. C. N. Carne, Ysw., gwerth £250. Mae yma gapel hynafol hefyd gan y Methodistiaid. Prif balas y plwyf yw Nash Manor—yr Aes Fach—preswylfa teulu parchus Nichol Carne am oesoedd, a lwy ydynt berchenogion y plwyf. Mae'r tir perthynol i Nash Manor yn 178 erw, ac ystyrir ef yn fath o blwyf ar ei ben ei hun, er mai yn mhlwyf Llysyfronydd y mae. Dywed rhai mai enw hynafol a chyntefig y plwyf oedd Llys Gorwennydd. Dyna farn D. Williams, awdwr "*The History of Monmouthshire*," ac ereill; ond barnwn fod gwell eglurhad na hyn i'w gael ar enw y lle. Yn *Iolo MSS.*, p. 221, dywedir mai Nudd Sant o Gor Illyd, a brenin, a wnaeth Llysyfronydd. Os felly, mae yn amlwg mai Llys Bro Nudd oedd yr enw yn wreiddiol, ac iddo gael ei lygru yn Llysyfronydd.

**MAESTEG.** (Gwel LLANGYNWYD).

**MARCOSS**, neu Groes Marc, sydd blwyf bychan ar lan y mor, yn nghanntref Glynogwy, undeb Penybont, dosparth llys sirol Penybont a'r Bontfaen, deoniaeth Gronedd Isaf, archddeoniaeth ac esgobaeth Llandaf, saith milldir o dref Penybont-ar-Ogwy. Maint y plwyf yw 1,041 erw rhwng y dwfr, tra nad oes ond 878 erw o hono yn amaethyddol. Cafodd y plwyf yr enw hwn oddiwrth Groes fawr a godwyd yma mewn cyfnod bore i Sant Marc. Diamheu i'r lle fod yn gyssegr-edig gan y Derwyddon mewn cyfnod boreuach fyth, oblegyd y mae yn y plwyf Gromlech fawr, yr hon a elwir yr Hen Eglwys; a bernir mai ger y Gromlech yr arferai y Cristionogion cyntefig addoli cyn adeiladu Eglwys yn y plwyf. Mae yn y plwyf weddillion hen Gastell, ac adfeilion hen Fynachdy hefyd, hanes y rhai sydd wedi ei gollu. Mae Eglwys y plwyf wedi ei chyssegru i'r Drindod, a'r fywiolaeth yn rectoriaeth, gwerth £196 y flwyddyn, a phersondy, yn nawdd a rhodd Deon a Glwysgor Llandaf. Tua diwedd y canrif diweddfaf, adeiladwyd dau oleudy yn y plwyf hwn, y rhai a elwir *Nash Lights*, am eu bod yn sefyll ar *Nash Point*, ac y maent o wasanaeth mawr i forwyr. Perchenogir y tir gan Syr Ifor B. Guest, Barwnig, Nichol Carne, a Turberville. Rhif y tai, 20. Poblogaeth yn 1861, 91; yn 1871, 88.

**MARGAM.**—Plwyf yn nghanntref Castell Newydd Ponybont, undeb, a dosparth llys sirol Castellnedd, deoniaeth Gronedd Uchaf, archddeonac esgobaeth Llandaf. Saif yr Eglwys yn ymyl y brif-ffordd rhwng

Castellnedd a Phenybont-ar-Ogwy, 9 milldir i'r de-ddwyrain o'r blaenaf, a 9 i'r gogledd-orllewinol o'r olaf, a 3½ i'r de-ddwyrain o orsaf Porth Talbot ar Reilffordd Deheudir Cymru, a 205 gyla'r cledrau o Lundain. Cyduna y *Brutiau Cymreig* a *Iolo MSS.* i'r lle hwn gael ei sefydlu gan Morgan Mwynfawr, yr hwn a adeiladodd balas breninol ac Eglwys Esgobol yn y lle, a pharhaodd yn esgobaeth annibynol dros ystod amser pump o esgobion. Dywedir yn *Iolo MSS.*, p. 361, i'r personau canlynol fod yn gweinyddu swydd esgob yn Margam (*alias* Cenffig):— 1. Morgan ab Adras, esgob a brenin; 2. Ystyffan; 3. Cattwg; 4. Iago; 5. Cawan; 6. Tyfodwg; 7. Cyfelach; 8. Mabon. Bernir hefyd mai yn ddamweiniol neu achlysurol y bu Cattwg, Tyfodwg, a Chyfelach yma, ac nad oedd y lleill yn uwch o ran urdd eglwysig na Rhaglwaiaid Esgobol (*Suffragan Bishops*). Mae yn ffaith, pa fodd bynag, fod y lle yn myned dan yr enw Dinas Margam mor ddiweddar ag amser y bardd Edward Dafydd (1680). Mae yn amlwg hefyd fod cyssylltiad agos rhwng Cenffig a Margam yn y cynoesoedd, gan fod y blaenaf yn un o brif drefi Morganwg, a'r olaf, yn ymyl, yn un o'i phrif sefydliadau crefyddol. Os gellir credu *Iolo MSS.*, p. 589, yn Margam y claddwyd y deddfroddwr doeth ac enwog Morgan Mwynfawr, yr hwn, fel y sylwyd, a roddodd yr enw Morganwg i'w arglwyddiaeth, ac a ddyfeisiodd y Gyfraith Apostolaidd, &c. Dywed haneswyr mai enw cyntefig y lle oedd Pendar, yr hwn enw a gafodd, meddir, am fod cymmaint o dderw yn tyfu yno y pryd hyny fel yn awr. Bu y lle yn myned dan yr enw Morgan hefyd am oesoedd lawer; a llygriad o'r olaf, debygyf, yw Margam. Dywed un dosparth o haneswyr mai Morgan, mab Caradog ab Iestyn, sefydlodd grefydd-dy yma gyntaf, tua'r flwyddyn 1200; ond nid yw hyny yn debygol, gan mai rhwng Afan a Nedd oedd ei arglwyddiaeth; ac y mae cofnodion gwarantedig i'w cael, yn crybwyll am sefydliad Mynachlog eang yma yn 1147. Dywed y rhan fwyaf o'r haneswyr mai Robert Iarll Caerloyw ac Arglwydd Morganwg, mab Harri I., a mab-yn-nghyfraith Robert Fitzhamon, adeiladodd y Fynachlog; ond gan i'r Robert hwnw farw Hydref 81, 1147, sef bliwyddyn sylfaeniad y Fynachlog, mae yn amlwg mai William ei fab fu yn offeryn i orphen adeiladu y sefydliad. Yn y 6fed flwyddyn o deyrnasiad y Brenin John (1205) y cyssegrwyd tiroedd gyntaf at gynnal y Mynachod (*Cistercian Monks*). Fel yr awgrymwyd, yr oedd yma Eglwys urddasol cyn y Goresgyniad Normanaidd; ond daeth y lle i lawer mwy o fri wedi adeiladu yr Abbatty gan Lales, trwy awdurdod William, Iarll Caerloyw. Adeiladwyd amryw gapeli hefyd yn yr ardal, y rhai a berthynent i'r prif sefydliad. Yr oedd un capel yn y rhan hono o'r plwyf a elwir Hafod y Porth, un arall yn rhandir Trisant, un arall yn Nghraig y Capel, a Lleiandy (*Nunnery*) a elwir Eglwys Nynyd, yr hwn adeiladwyd yn amaethdy yn awr, tra y mae y capeli ereill, fel yr hen Abbatty, yn adfeillion. Er chwilio llawer, methais gael ond ychydig o enwau Abbadau Margam; a'r rhai a gefais ydynt a ganlyn:—William, yr hwn a fu farw yn 1168; Andrew, a fu farw yn 1166; Gilbert, a fu farw yn 1218; John William Meyrick, yr hwn a arwyddodd freinlen Cenffig yn 1421 a 1428. Mae careg yn

cael ei chadw yn y lle hefyd, a'r cerfiad canlynol arni:—“*Constans et vertus: jacit Hic Ryenallis Opertus Abbas: Robertus Mos: Dues eat Milertus Amen.*”—*Arch. Cam. vol. 8, p. 88.* Nid yw yn hyspys pa bryd y bu y Robert hwn yn Abbad yn y lle. Parhaodd yr Abbatty hwn yn ei fri hyd amser Harri VIII., yr hwn ar ol ymryson a'r Pab, a chyhoeddi ei hun yn ben ar Eglwys Loegr, a anfonodd ddirprwywyr trwy y wlad i ddadgorphori yr Abbattai a'r Mynachlogau, gan gymmeryd meddiant o'r holl eiddo a berthynai iddynt. Yr oedd cyllid Abbatty Margam y pryd hwnw yn £181 7s. 4c. y flwyddyn. Pasiwyd Gweithred Seneddol yn 1587, er difreinio a thori i fyny y mynachlogau lleiaf —y rhai nad oedd eu cyllid yn cyrhaedd £200 y flwyddyn, ond buwyd am flynyddau wrth y gorchwyl o'u hyspeilio, gan eu bod mor lluosog. Yr oedd dros fil o fynachlogau a lleiandai yn yr ynys hon yn unig, a thua 700 yn yr Iwerddon. Tua'r flwyddyn 1541 y dechreuwyd dadgorphori y sefydliadau mynachaid yn Morganwg; a dywed Nicholson na ddifreiniwyd mynachlog Margam hyd Awst 5, 1544. Yn ganlynol i hyn, gwerthodd dirprwywyr y brenin yr adeilad a'r tiroedd perthynol iddo, i Syr Rice Mansel, marchog, am £642 9s. 8c. Y boneddwr hwn oedd Uchel Sirydd Morganwg yn 1541, a phreswyliai yn Mhenrhys yn Mrowyr; ond wedi prynu Margam, efe a symmudodd i fyw yma, gan adael i'w gestyll yn Mrowyr fyned yn adfeilion. Defnyddiodd ef ran helaeth o'r adeilad yn breswylfa, gan gadw Eglwys yr Abbatty yn Eglwys blwyfol. Yr oedd efe yn ddisgynydd o Phillip Mansel, un o ganlynwyr William y Goresgynydd i'r wlad hon; ac yr oedd Syr John Mansel, un o'r teulu, yn brif Ynad Lloegr yn amser Harri III. Bu y Manselaid, hiliogaeth Syr Rice Mansel, yn preswyllo yn Margam am tua 200 mlynedd, a buont yn cynnrychioli Morganwg yn y Senedd 22 o weithiau. Y cyntaf oedd Anthony Mansel, Ysw., 1558; a'r olaf oedd yr Anrhydeddus Bussey Mansel, yn 1741. Buont yn cynnrychioli y bwrdeisdrefn hefyd naw gwaith; y tro cyntaf gan Bussey Mansel, Ysw., yn 1660; a'r tro olaf gan yr Anrhydeddus Bussey Mansel yn 1729. Pan fu farw yr olaf o'r enw yn y llinell wrywaidd yn 1750, daeth etifeddiaeth Margam yn eiddo Thomas Mansel Talbot, Ysw., yr hwn oedd y berthynas agosaf. Gwnaeth hwnw lawer o gyfnewidiadau yn y lle. Yn 1782, tynodd llawer o'r hen adeilad i lawr, a symmudodd y teulu i fyw i Benrhys yn Mrowyr, a dygwyd llawer o ddefnyddiau yr hen Abbatty i'r Pil, i adeiladu y Pyle Inn. Yr oedd y Cabidyldy (*Chapter House*) a llawer o'r Abbatty yn sefyll drachefn, ac yn arddangosiad o'r arddull celfyddydol goraf. Yr oedd y Cabidyldy o ffurf deuddeg-ochrog, a'r tufewn yn agos a bod ar ffurf cylch, yn mesur 50 troedfedd tryfesur. Yn y canol yr oedd colofn o feini teg, a 24 o fwâu yn troi oddiar y golofn hono, a phob bwa yn ffurfio lle ffenestr yn y mur, a phob ffenestr yn gywir yr un faintioli. Mae colofnau o'r fath i'w gweld yn bresenol yn adfeilion Mynachlog Nedd, Castell Morlais, a'r Castell Coch. Ar yr 17eg o Ionawr, 1799, rhoddodd rai o feini clo y bwâu ffordd yn nen y Cabidyldy, fel y syrthiodd rhan o'r mur; ac yn fuan, ymollyngodd ychwaneg o'r meini clo, gwyrodd y muriau, a syrthiodd y to i mewn,

nes oedd yn bentwr o adfeilion, ac ni wnaed un cais i'w adgyweirio. Mawrth 29, 1847, syrthiodd rhan helaeth o'r mur gogleddol draochefn, ar ol noson o wlaw trwm ac ystorm gref.

Adeiladwyd palas presenol Margam yn 1842-5, yn ol cynllun Mr. Hopper o Lundain, ar y draul o £100,000. Y mae yn un o'r rhai gwyohaf yn Morganwg, ac yma y preswylia ei berchenog, C. R. M. Talbot, Ysw., A.S., L.L., Y.H., yr hwn yw arglwydd raglaw Morganwg. Mae'r Parc porthynol i'r lle yn 5 milldir o amgylchedd a'r derw sydd yn tyfu ynddo hyd lechwedd y mynydd tu oefn i'r palas, yn ymddangos fel pe byddent wedi eu cropio â chryman, gan mor gyd-radd ydynt o ran hyd; a bernir mai awyr y mor sydd yn peri hyn. Mae yma fath o berllan aur-afalau ardderchog hefyd, yr hon, meddir, yw'r fwyaf yn y deyrnas. Dywed Malkin, vol. II., p. 516, mai Syr Henry Watton a ddygodd y coed gwreiddiol o'r Eidal yn anrheg i Charles I., ac i'r llong ddyfod i'r *Bristol Channel* yn lle myned i'r *English Channel*, ac iddi fyned yn ddrylliau ar draeth Morganwg, ac i arglwydd y faenor gasglu y coed i Margam, gyda'r bwriad o'u hanfon i'r brenin ar derfyn y Rhyfel Cartrefol; ond gan i'r brenin gael ei ddiennyddio, i'r coed gael eu cadw yma fel eiddo breninol hyd amser y Frenines Anne, yr hon a'u rhoddodd yn anrheg i deulu Margam. Yr un peth yw tystiolaeth *Murray's Handbook to South Wales*, p. 19, a *Black's Guide through Wales*, p. 385. Dywed Nicholson, p. 884, a'r *Guide to Swansea*, p. 96, mai marsiandwr o Portugal a'u hanfonodd yn anrheg i Mary, brenines William III.; tra y dywed Cliffe, p. 124, mai marsiandwr o Holland a'u hanfonodd yn anrheg i'r frenines hono; a dywed Evans yn ei *Tour in Wales*, p. 188, mai brenin Spain a'u hanfonodd yn anrheg i'r Frenines Elizabeth. Er nad yw yr haneswyr hyn yn cyduno gyda golwg ar y lle o ba un yr anfonwyd hwy, nac ychwaith i bwy y cawsant eu hanfon, y maent yn unol o barth y llongddrylliad, a'u rhoddiad i deulu Margam gan y Frenines Anne. Rhwng 1784—7, tynwyd y ty lle y tyfent i lawr, a chodwyd un mwy a gwell gan Thomas Mansel Talbot, Ysw. Mae'r adeilad a gododd ef yn 827 troedfedd o hyd, 81 o led, a thros 20 o uchder. Mae'r coed yn dair rhes. Mae 74 o honynt dros 20 troedfedd o uchder, ac y mae 12 o'r hen rai gafwyd yn y llongddrylliad yn aros, ac amgylchedd y mwyaf o honynt yn agos i dair troedfedd. Mae yn yr *Orangary* yma goed lemon, pomgranad, citron, &c., yn tyfu ac yn firwytho yn rhagorol. Yn nglyn a'r adeilad gwydrol hwn y mae Cywreifa, yn yr hon ystafell y cedwir lluaws o gywreinion hynafiaethol gwerthfawr. Yn eu plith y mae dwy allor Rufeinig hynafol iawn, a dwy ddelw hynafol o'r Ymerawdwr Tiberus a Severus yn eu cyflawn faint. Mae delw dda o Hercules yma hefyd, gyda lluaws o hen lestri a chywreinion hynafol ereill. Mae ystafell debyg yn mhen arall yr adeilad, yn yr hon y mae *models* o Deml Diana, Teml Tivoli, &c., wedi eu gwneyd o'r corcyn.

Mae yn yr Eglwys luaws o feini coffadwriaethol o hynafiaeth mawr am deulu y Mansels a'r Talbots, y rhai sydd wedi bod yn preswyllo yma, ac yn perchenogi y lle. Mae yn y plwyf amryw wrthddrychau hynod a thra dyddorol, yn enwedig i'r hynafiaethydd. Yn eu plith y

mae amryw geryg a oherfiadau hynafol arnynt, megys "*Pompeius Carantorius*" ar faen ger Eglwys Nynydd. Ar gareg arall, yr hon sydd ar Fynydd Margam, y mae yn gerfiedig:—" *Bodovicus hic jacet, filius Catotis, Irni pronepos eternali in Doman.*" Er cof am Madog ab Ced-ydd, a laddwyd yma meddir yn 1294. Ar un arall y mae yn gerfiedig:—" *Senatus podulusque veromanus, divo Tito, divi Vespasiani, F. Vespasiano Augusto.*" Yn y plwyf hwn hefyd y mae'r llecyn hynod hwnw a elwir Twmpath Diwlith, yr hwn sydd fath o garnedd ar ben Mynydd Margam. Dywedir na welodd neb wllith erioed ar y twmpath hwn, hyd y nod pan fyddai yr holl fynydd o'i amgylch yn orchuddiedig gan wllith y bore. Tua 70 llath o amgylchedd yw y twmpath hynod hwn, a diamheu mai claddfa ydyw, tebyg i'r carneddau a welir yn aml ar benau ein mynyddau. Arferai beirdd Morganwg gynnal eu cyfarfod-ydd ger y twmpath hwn yn y cynoesoedd, ac arno y cawsant blentyn bychan ar fore Dydd Gwyl Ieuan, 1160, yr hwn wedi hyny a ddaeth yn enwog yn eu plith, dan yr enw Ieuan Fawr ab y Diwlith.

Mae traddodiad digrifol am y dull y penderfynwyd terfynau y plwyf hwn; ond nis gwyddom pa un ai cywir ai anghywir yw. Dywed y chwedl i'r personau oeddynt yn pennodi y terfynau ddyfod i'r penderfyniad o ollwng carw ymaith o flaen y cwn, gan gychwyn ar y Morfa Mawr (rhwng Cenffig ac Aberafan), a bod y llwybr a redai y carw nes ei ddal i fod yn derfynau y plwyf. Cymmerodd yntau ei gwrs i'r gogledd-ddwyrain oddiyno, gan fyned trwy y cymmoedd a thros y mynyddau, heibio Bryntroedgam, &c., ac wedi iddo gyrhaedd glan afon Afan yn ardal Pontrhydyfen, yr oedd yno goediwr wrth ei waith, yr hwn a darawodd y carw a'i fwyell, nes y syrthiodd i'r afon; a chan i'r gwaed redeg oddiyno i'r mor gyda dwfr yr Afan, penderfynwyd fod yr afon i fod yn ffin i'r plwyf yn y parth hwnw o'r man y syrthiodd y carw iddi i lawr i'r mor yn Aberafan.

*Taibach*, sydd bentref poblog a gweithfaol yn mhlwyf Margam. Cafodd y lle yr enw oddiwrth bedwar tŷ bychan a safent gynt yn ngodre Heol y Dwfr. Dechreuad cyfnod gweithfaol yr ardal oedd 1757, pan y prydleswyd rhanau helaeth o blwyf Margam, gan y Meistri John Cartwright, ac Isaac Newton, er agor gwaith ynddo. Hyd y les oedd 81 mlynedd, a'r ardreth flynyddol yn £89 15s, gyda 5c. y dunnell o *royalty* i Lewis Mansel Talbot, Ysw., perchen y tir. Yn fuan wedi cael les ar y tir, agorwyd tair level lo, yn y rhai y buwyd yn gweithio yn llwyddiannus am flynyddau; a dygid y glo i'r hen longborth i'w allforio. Yn 1770, dechreuwyd adeiladu gwaith Efydd eang ger y *Taibach*, gan y Cyfundeb Efyddol Seisnig, y rhai a wnaethant gytundeb â pherchenogion y glofeydd i'w diwallu â glo, &c. Yr oedd yr adeilad cyntaf a godwyd yn y lle at wneyd efydd, yn 875 troedfedd o hyd, a 240 o led; ac ynddo 82 o ffwrnesi. Yn 1774, adeiladwyd amryw anneddau yn y lle i'r gweithwyr a'r swyddogion. Wedi i'r gwaith gael ei orphen, a dechreu toddi mwn copr, daeth galwad am ychwaneg o lo, yr hyn a barodd iddynt agor amryw leflau newyddion. Yn 1777 a 1780, agorwyd glofeydd Cwm yr Afr, a Chwm Brombill; ac mae yr olaf yn parhau yn ei weithgarwch hyd yn bresenol, a mil-

oedd lawer o dunnelli yn cael eu cloddio yno yn flynyddol. Yn 1776, gosodwyd awrlais i fyny yn y gwaith, ac arno un pin yn dangos yr amser bob chwarter awr :--

“ Hen awrlais unllais, yn holliaoch,—a bys,  
Ni bu ei fyddlonach ;  
Nac o oriau cywirach  
At ei bwynt yn y Tai Bach.—R. ab Morgan.

Yn 1780, aeth annghyttundeb rhwng Mr. Talbot a'r Cyfundeb Efyddol, a'r canlyniad fu i'r gwaith sefyll am gryn amser ; ac ar ol gwario llawer o arian i ymgyfreithio a'u gilydd, daethant i gyd-ddeall-dwriaeth, ac ail gychwynwyd y gwaith. Bu farw Mr. Talbot, Maw. 1790, yn 74 mlwydd oed. Yn 1795, adeiladwyd amryw dai newyddion ar y *Constant*, ac Heol y Dwfr, yr hyn a ychwanegodd faint y lle a chyssur y gweithwyr. Yn 1800, dechreuwyd adeiladu melin fawr at y gwaith, yr hon a elwir “ Yr Hen Felin ;” a gosodwyd peiriant o 100 march allu i'w gweithio. Dechreuodd y felin hon weithio yn 1808. Bu'r gwaith yn cael ei gario yn mlaen gan y Cwmni Efyddol hyd y flwyddyn 1838, pryd y prynwyd ef gan John Henry Vivian, Yaw., A.S. a'i Feibion ; ac yn meddiant y meibion y mae yn parhau. Yn 1841, dechreuwyd gwneyd llafnau *Yellow Metal* yma, yr hwn sydd gymmysgedd o *Spelter* ac Efydd, a defnyddir ef yn helaeth i arwisgo gwaelodion llongau, i'w dyogelu rhag y *Barnacles*, sef y pysg sydd yn tyllu gwaelodion llongau coed. Yn 1845, dechreuwyd bathu tocoyns (*coin*) yma, i'w hanfon i Singapore, yn yr India Ddwyreiniol ; a pharhawyd am rai blynyddau gyda'r gorohwyl hwnw. Ar un wyneb i'r darnau yr oedd llun ceiliog, ac ar y wyneb arall lythyrenau Indiaidd. Yn agos yr un amser ag y dechreuwyd bathu yn y lle, y dechreuwyd gwneyd Rholiau Efydd, er argraffu pob math o addurniau ar sidan, cottwm, llian, &c., yn Melinau mawrion Manchester, Glasgow, &c. Yn 1852, adeiladwyd Melin *Yellow Metal* yn y lle ; oblegid cyu hyny, gwnelid ef yn y felin efydd ; ond oddiar hyny, gwneir ef mewn melin annibynol. Mae y lle yn awr yn cynnwys Gweithfa Efydd, *Yellow Metal*, *Sulphuric Acid Works*, *Sulphur Phosphate Works*, &c. ; ac yn cael ei gario yn mlaen gyda bywiogrwydd. Yn 1864, gosodwyd Ager-Forthwyl i fyny yn y gwaith ; a'n cyfail, *Rhydlerch ab Morgan*, fu yn gweithio wrtho am y am y chwe mis cyntaf. Yn 1847, dechreuwyd suddo Pwll y Morfa, er cael mwy o lo at y gwaith, &c. Wrth ei suddo i'r dyfnder o 168 llath, cafwyd y gwythieni canlynol :—1, Y Pedair Troedfedd ; 2, Yr Hen Fawr, trwch, 8 troedfedd ; 3, Y Chwech Troedfedd ; 4, Y Fawr Newydd, trwch, 7 troedfedd ; 5, Y Gribwr Fach, 8 troedfedd o drwch ; 6, Y Gribwr Fawr, 9 troedfedd o drwch ; 7, Yr Hen Naw Troedfedd ; 8, Y Naw Newydd ; 9, Y Llathen, &c. Dechreuwyd codi glo o hwn yn 1849. Yn 1870-1, gwnaed ef yn 428 o latheni o ddyfnder ; a rhoed Gwyntyll 40 troedfedd tryfesur i'w awyru yn lle *fue*. Prif lofeydd y lle yn awr ydynt y Morfa a'r Brombill ; a dengys a ganlyn eu cynrych am rai blynyddau :—

| BLWYDDIAD. | MORFA.  | BROMBILL. | ALLFORIWTYD. |
|------------|---------|-----------|--------------|
| 1865       | 149,558 | 15,974    | 63,905       |
| 1866       | 147,947 | 15,212    | 65,297       |
| 1867       | 160,000 | 15,816    | 59,600       |
| 1868       | 158,781 | 14,888    | 58,520       |
| 1869       | 103,726 | 13,899    | 44,275       |

Pan suddwyd Pwll y Morfa, meddyliwyd y cawsid llawer o ddwfr yn y gwaith, gan ei fod yn ymyl y môr; ac felly, gosodwyd *Pumping Engine* o allu mawr wrth y pwll, i'r dyben o godi y dwfr i fyny; ond er syndod i bawb, ni chafodd y peiriant hwnw waith o gwbl: oblegyd y mae'r peiriant sydd yn codi'r glo, yn gallu codi yr yohydig ddwfr a wneir yn y pwll ar ol gorphen gwaith y dydd. Yn 1870, tynwyd y *Pumping Engine* ymaith, gan nad oedd eisiau y cyfryw. Ond os na finir y lle gan ddwfr, mae yma elfen arall, sydd wedi dinystrio llawer iawn o fywydau, sef y llosgnwy. (Gwel, FFRWYDRIADAU, tud. 68.)

Yn 1140, adeiladwyd Tŷ Marchnad y Tai Bach, yn 68 troedfedd o hyd, a 44 o led; a deil tua 1,800 o bobl.

*Addoldai.*—Yn 1827, adeiladwyd Capel Anwes perthynol i Eglwys Margam, yn Tanygroes, o fewn tua hanner milldir i'r Taibach, lle y gwasanaetha Curad yn y ddwy iaith. Dechrenodd y Methodistiaid gynnal cyfarfodydd yn y plwyf, tua'r flwyddyn 1765. Buont yn addoli yn Yagubor y Dyffryn Isaf, hyd 1841; pryd yr adeiladwyd Capel y Taibach. Mae gan yr enwad bedwar capel yn y plwyf yn awr, sef Margam, Bryn, Saron Penceae (1867), a'r Dyffryn. Adeiladwyd capel Gibeon (A.) yn y Taibach, yn 1860; ac adeiladwyd Smyrna, capel y Bedyddwyr, yn 1867.

Mae yn y Taibach Ysgoldai eang hefyd yn perthyn i'r gwaith; ac ynddynt yr addysgir plant yr ardal.

Yn y plwyf hwn hefyd mae y *Margam Tin Plate Works*; yr hwn sydd tua 50 mlwydd oed; ac a elwir yn gyffredin wrth yr enw, "Gwaith y Forge," eiddo R. B. Byass & Co. Mae hwn ger tref Aberafan.

Maint y plwyf yw 18,725 erw, rhwng y dwfr; a'i werth ardrethol yn £24,685. Arlwydd y faenor, a pherchen y tir, yw C. R. M. Talbot, Ysw., A. S.; ac yn ei rodd ef y mae'r fywiolaeth Eglwysig; yr hon sydd Ficeriaeth, gwerth £800 y flwyddyn. Nifer y tai yn y plwyf yn 1861, 1,028; yn 1871, 1,104. Pobl yn 1861, 5,528; yn 1871, 5,205.

**MERTHYR DYFAN.**—Plwyf yn nghantref Dinas Powys, undeb a dos-parth llys sirol Caerdydd, deoniaeth, archddeoniaeth, ac esgobaeth Llandaf, 7 milldir i'r de-orllewin o Gaerdydd. Saif y plwyf hwn ar lan Mor Hafren, mewn llannerch iachus iawn. Dywed rhai haneswyr Eglwysig mai Dyfan Sant blannodd Gristionogaeth yn yr ardal yma gytatf, a hyny mor fore a'r ail ganrif. Cafodd ef ei urddo yn esgob yn Rhufain, a daeth yma gyda Ffagan Sant. Bernir hefyd mai yma y cafodd ei ferthyru, fel y dengys yr enw. Mae Eglwys y plwyf wedi ei chyssegru i enw y sant hwn, bywiolaeth yr hon sydd rectoriaeth



gwerth £109 y flwyddyn. Maint y plwyf yw 1896 erw, rhwng y traeth. Tai, 80. Poblogaeth yn 1861, 149; yn 1871, 146. Perchen y plwyf yw Mr. Jenner, Castell Gwenvoe.

**MERTHYR MAWR.**—Plwyf yn nghantrf Glyn Ogwy, undeb Penybont, dosparth llys sirol Penybont a'r Bontfaen, deoniaeth Gronedd Isaf, archddeoniaeth ac esgobaeth Llandaf, 8 milldir i'r de o Benybont, ar lan orllewinol afon Ogwy, tua hanner milldir o'r fan yr ymarllwysa afon Ewenni iddi. Mesura'r plwyf 2,590 erw rhwng y dwfr; ond nid oes mwy na tua 967 erw o hono yn dir amaethyddol da. Tai yn y flwyddyn 1871, 27. Poblogaeth yn 1861, 174; yn 1871, 144.

Mae Eglwys y plwyf wedi ei chessegru i Teilo; a'r fywiolaeth sydd guradiaeth barhaol, gwerth £69 y flwyddyn. Saif hen balas Merthyr Mawr House o fewn ychydig i'r Eglwys; y mae wedi bod yn breswylfa teulu parohus J. C. Nichols am oesoedd, a'r teulu hwn sydd yn perchenogi yr holl blwyf. Ar y tir perthynol i'r palas, y mae dwy Groes hynafol, ac yn cynnwys cerfiadau celfydd iawn. Bu yr etifeddiaeth hon yn eiddo y Stradlings o St. Donnatt's, y rhai a'i gwerthasant i Stephen Jones, Ysw.; a gwerthodd yntau y lle i Syr John Nicholl, disgynydd o'r hwn yw John Cole Nicholl, Ysw., y preswyllydd presenol. Mae yn amlwg oddiwrth y llawys hen byllau dyfnion sydd yn ngwahanol ranau y plwyf, i weithfeydd mwn plwm a zinc gael eu gweithio yma mewn rhyw gyfnod ar raddfa eang. Barna mwyafrif mawr o'n haneswyr mai y Rhufeiniaid fuont yn cloddio y creigiau hyn am y trysorau; ond y mae ereill yn credu mai y Cymry, cyn dyfodiad y Rhufeiniaid i Brydain, fuont yn gweithio yma. Dichon y daw cyfnod etto, pan y bydd cloddfeydd newyddion ar raddfa eangach yn y plwyf hwn, ac y daw Merthyr Mawr i fwy o sylw.

**MERTHYR TYDFYL.**—Plwyf, tref farchnadol ac undebol, pen dosparth llys sirol, etholfan Aelodau Seneddol dros y sir, &c., yn nghantrf Caerffili, deoniaeth, archddeoniaeth, ac esgobaeth Llandaf; ac mewn undeb ag Aberdar a'r Faenor (Brycheiniog), yn anfon dau aelod i'r Senedd. Saif y dref ar du gogledd-ddwyrain Morganwg, ar lan afon Taf, 24 milldir i'r gogledd o Gaerdydd, 12 o Bontypridd, 20 i'r de o Aberhonddu, 18 i'r gogledd-ddwyrain o Gastellnedd, 80 o Abertawy; a 194, gyda'r rheilffordd trwy Gaerdydd, o Lundain.

Derbyniodd y plwyf ei enw oddiwrth Tydfyl, merch Brychan Brycheiniog, Tywysog Garth Mathrin. Cafodd Tydfyl a'i phriod, yn nghyd a'i thad ac ereill o'r teulu, eu llofruddio yma gan lu o baganiaid crwydr-aid, a elwid y Gwyddyl Ffichti, sef y Pictiaid Gwyddelig, a dywedir mai Awst 28, 420 o.c., y cyflawnwyd y gyflafan. Barna rhai fod Eglwys y plwyf, yr hon sydd wedi ei chyssegru i Tydfyl, wedi ei hadeiladu ar y fan y cafodd hi ei lladd. Pan gyflawnwyd y llofruddiaeth, diangodd Rhun, brawd Tydfyl, o'r fan; ond erlidiwyd ef gan y gelyn, a thua thair milldir yn nes i'r de, ar lan afon Taf, goddiweddwyd ef, ac wedi amddiffyn ei hun yn wrol, syrthiodd yntau trwy gael ei drywanu a phicell, a gelwir y fan yn Bont-Rhun yn bresenol. Wrth weled y barbariaid yn cyflawni eu herchyllwaith, darfu i Nefydd, mab Rhun, ymwroli, a chasglu ei gydwladwyr at eu gilydd, ac ymosodasant ar y

gelynyon mor ffyrnig, fel y bu agos iddynt a'u llwyr ddyfetha. Tuoddir rhai beirniaid hanesol i gredu fod gan y Rhufeiniaid orsaf filwrol a phentref bychan yn y lle, ger y fan y saif y Penydarren House, sef Ty Mawr Penydarren, yn bresenol, oblegyd cafwyd pal-mant a phriddfeini o arddull Rhufeinig yn y ddaiar wrth dori lle i sylfeini y ty hwn. Bernir hefyd mai y Rhufeiniaid wnaethant yr hen heol oedd gynt yn arwain o Ferthyr heibio Gwaelod y Garth (ty y Rector) a'r Gurnos i gyfarfod â changen arall o'r brif heol, ger Pont Sarn. Saif Parc Gyfarthfa ar ran o'r hen heol a nodwyd; ond pa fodd y caniatodd plwyfolion Merthyr a'r Faenor iddi gael ei chau i fyny sydd ddirgelwech, gan mai hi oedd y brif dramwyfa rhwng y ddau blwyf cyn dechreu y gweithfeydd haiarn yn y lle.

Mae hanes y lle hwn o amser Tydfyl hyd y Goresgyniad Norman-aidd wedi ei gollu, ac nid oes ond cofnodion lled wasgaredig ac au-nghyflawn am dano o'r pryd hwnw hyd ddechreuad y gweithfeydd haiarn. Yn hanes y frwydr a ymladdwyd rhwng Rhys ab Tewdwr a Iestyn ab Gwrgan, yn cael ei gynnorthwyo gan y Normaniaid, &c., yn mblwyf Aberdar, cawn fod Cedrych ab Gweithfoed, Arlwydd Ceredigion, yno a byddin gref, yn ymladd o blaid Iestyn. Wedi i'r Normaniaid ymosod drachefn ar Iestyn, a meddiannu Morganwg, darfu i Syr Robert Fitzhamon, pan ranodd efe y sir yn 1091, roddi Arglwyddiaeth Senghenydd, sef yr holl dir rhwng afonydd Taf a Rhymini, i Cedrych ab Gweithfoed, fel cydnabyddiaeth am y cynnorthwy a roddodd i orch-figu Rhys ab Tewdwr, &c. Ymddengys i Gedrych roddi yr Arglwyddiaeth hon i Cadifor ei fab, ac y mae yr enw Pant Cadifor, ger Dowlais, yn lled awgrymu mai yno y preswyliai Cadifor ab Cedrych. Dilynwyd Cadifor gan ei fab, Ifor Bach Morganwg, yr hwn, yn ol pob tebyg, a adeiladodd Lysdy (*Court House*), Merthyr, yn breswylfa iddo ei hun; a phriodolir iddo hefyd adeiladiad y Castell Coch, ger Tongwynlas. Bu llawer iawn o ymryson a rhyfeloedd rhwng Ifor Bach a'r Normaniaid dan Robert, Iarll Caerloyw, mab Harri I., o Nest, merch Rhys ab Tewdwr. Yr oedd Robert yn briod â merch R. Fitzhamon, ac ar farwolaeth ei dad-yn-nghyfraith, daeth i feddiant o Arglwyddiaeth Morganwg. Dywed rhai haneswyr fod Ifor Bach yn honi hawl yn Nghastell Caerdydd, gan ei fod wedi ei adeiladu ar y tu dwyrain i sfon Taf, ac felly o fewn ei arglwyddiaeth ef, a dywedant i'r Iarll ganiatan i Ifor feddiannu holl gantref Cibwr, ar y telerau ei fod yntau i gael cadw y castell. Ymddengys fod Ifor Bach yn byw yn Llyady Merthyr yn 1110, a barna rhai nad oedd ei arglwyddiaeth yn cyrhaedd yn fwy deheuol na Mynydd Cefn On. Canlynwyd Ifor i'r arglwyddiaeth gan Gruffydd ei fab, yr hwn a briododd ag Elen, merch Rhys ab Gruffydd ab Rhys ab Tewdwr, Tywysog y Deheudir. Ymddengys mai yn Llyady Merthyr y preswyliai y rhai hyn hefyd. Ganwyd i Gruffydd ac Elen fab, yr hwn a enwyd yn Rhys, yn unol ag enw tad ei fam. Priododd Rhys â merch Iorwerth ab Owen, Arglwydd Caerlleon-ar-Wyseg, yr hwn oedd ddisgynydd o Iestyn ab Gwrgan. Ffrwyth y briodas hon oedd Rhys ab Rhys, yr hwn a breswyliai yn y Castell Coch. Gorch-fygydd hwn yn ei gastell gan Iarll Caerloyw, tynwyd ei lygaid ef a'i

feibion allan, ac yna newynwyd hwy i farwolaeth yn Nghastell Caerdydd. Yn y terfysg, pa fodd bynag, llwyddodd y forwyn i ddiango a'r plentyn ieuangaf mewn math o fantell felen, a galwyd yntau mewn canlyniad wrth yr enw Hywel Felyn. Wedi iddo ddyfod i oedran gwr, llwyddodd i adennill ei etifeddiaeth, a thua'r flwyddyn 1280, priododd â Sarah, merch Mayo le Soore, Arglwydd Llanbedr-y-Fro, ac un o hiliogaeth Peter le Soore, y Marchog Normanaidd a ddaeth i'r wlad hon gyda William I. Mab o'r briodas hon oedd Madog ab Hywel Felyn, yr hwn a briododd ag Eferydd, merch Rhys ab Rhosser (Lewis ab Rhosser medd copi arall) ab Ralph ab Caradog ab Bleddyn. Ymddengys fod Madog yn perchenogi Arglwyddiaeth Senghenydd rhwng 1250 a 1275, a barn rhai haneswyr yw mai oddiar hwn y cymmerwyd rhan isaf yr arglwyddiaeth, sef Is Caeach, gan Gilbert de Clare, er mwyn cael lle i adeiladu Castell Caerffili. Barna ereill mai prynu y lle wnaeth Gilbert. Nid oes amheuaeth nad yn Merthyr yr oedd y Madog hwn yn byw; ond nid yn y Llydsy, eithr yn hen breswylfa Cadifor. Gelwid y tŷ yn ei ddyddiau ef wrth yr enw Castell Madog, a bu yr enw ar lyfrau'r plwyf am oesoedd ar ol hyny. Safai Castell Madog ger Pant Cadifor, o fewn ychydig i'r brif heol y pryd hwnw rhwng Aberhonddu a Chaerdydd. Cafodd Madog chwech o feibion. Bu tri o honynt feirw yn ieuange, a'r tri ereill oeddynt Thomas, Gruffydd, a Llywelyn. Bernir mai hwn oedd yr enwog Llywelyn Bren. Priododd Llywelyn ab Madog â merch Rhys Llywelyn ab Goronwy, a'u mab oedd Llywelyn Fychan. Priododd Llywelyn Fychan â merch Ifan ab Einion. Eu mab oedd Rhys ab Llywelyn Fychan, a briododd ferch Thomas Basset o St. Hilari. Priododd merch Gruffydd ab Madog â rhyfelwr o'r enw Hopeyn Fychan ab Rhys ab Hopeyn, a mab iddynt mewn ymryson a laddodd berson o Aberdar, ac yna fodd i'r Iwerddon, lle y cychwynodd deulu parchus. Gan i hwn ffoi o'r wlad, ac nad oes hanes am deulu Thomas ab Madog, daeth yr arglwyddiaeth i gyd yn eiddo Rhys ab Llywelyn Fychan. Yr oedd gan Rhys ddau fab, sef Llywelyn a Philip. Gelwid y blaenaf yn Llywelyn Anwyl a Llywelyn ab Rhys o Ferthyr Tydfil. Rhanodd Rhys ab Llywelyn Fychan ei etifeddiaeth yn Merthyr rhwng ei ddau fab, gan roddi ystad Troedyrhiw i Llywelyn, ac ystad y Court i Philip, tua'r flwyddyn 1480. Dywed un copi o'r achyddiaeth i Llywelyn Anwyl briodi Jennet, merch Hywel Gam, Arglwydd Llanfrynach, ger y Bontfaen; tra y dywed copi arall mai â merch Gruffydd Powell o Benrhys y priododd. Mab Llywelyn Anwyl oedd Richard Gwyn, yr hwn a briododd Jennet, merch Ifan ab Trahaiarn ab Meurig, yr hon a elwid Jennet Trahaiarn, etifeddes ystad Llwyncoelyn, ar du gorllewinol afon Taf, yn Merthyr. Cafodd y rhai hyn dri o blant,—Lewis, Richard, a Malch. Prynodd Lewis ab Richard Gwyn ystad y Court gan ei berthynas, ac a'i hunodd ag eiddo Troedyrhiw fel y bu gynt. Priododd Richard ab Richard Gwyn â pherthynas iddo o'r enw Margaret, a chawsant ddau o blant,—Edward ac Elizabeth. Priododd Richard yr ail waith, â Gwladys, merch Ifan ab John o Lanfrynach. Dywed copi arall mai Lewis ab Richard Gwyn oedd yn briod â Gwladys John.

Hiliogaeth Richard ab Richard Gwyn yw hen deulu parchus Prichards Llancaiaich, y Collenau, plwyf Llantrisant, &c. Priododd Edward ab Richard ab Richard Gwyn ag Anne, merch Syr William ———, o Bencoed, a chychwynodd deulu Lewisiaid y Fan, Cilfach y Fargood, &c., ac y mae Arglwydd Dinefwr yn ddisgynydd o'r rhai hyn. Edward ab Richard ab Richard Gwyn, a elwid Edward Lewis, a adeiladodd Balas y Fan, ger Caerffili, ac a symmudodd yno i fyw, gan adael Troedyrhiw a'r Court i'w preswyllo gan ardrethwyr. Bu Edward Lewis yn Sirydd Morganwg yn 1548—55. Parhaodd ystad Troedyrhiw a'r Court yn meddiant Lewisiaid y Fan hyd 1717. Pan honodd James Stuart—y *Pretender*—hawl i orsedd Lloegr yn 1715, yr oedd Mr. Lewis o'r Fan yn un o'i brif bleidwyr; ac wedi gorchfygu hwnw, ac i'r terfysg ostegu, dirwywyd Mr. Lewis gan y Llywodraeth o £10,000, fel y gorfu iddo werthu llawer o'i diroedd er mwyn talu y ddirwy. Gwerthwyd ystad y Court i Harri Edward, Tanygraig, Brycheiniog, am £400, yr hwn a'i gwerthodd drachefn i Mr. Thomas Rees o'r Werfa, Aberdar, yn 1727. Bu Thomas, mab y Thomas Rees uchod, yn-byw yn y Court, ac yn perchenogi yr ystad, gydag eiddo yr Hendre Fawr, &c., yn Merthyr, a'r Werfa, Tir Draw, y Gamlyn, &c., yn Aberdar. Gwnaeth hwn ei ewyllys yn 1787, ac ar ei farwolaeth, rhanwyd yr eiddo rhwng ei bump mab, a chafodd Samuel Rees y Werfa a'r Court. Priododd Samuel â Margaret Thomas o'r Dyffryn, Aberdar, a chawsant ddau o blant,—Thomas a Jane. Priododd Thomas â merch i amaethwr yn Aberdar, yn erbyn ewyllys ei dad, ac felly rhoddwyd y Court i Jane. Priododd Jane yn gyntaf â Rees Davies, Ysw., Maerdy, Merthyr; ac wedi ei gladdu ef, priododd â William Thomas, Ysw., a elwid Dr. Thomas o'r Court. Bu hwn yn preswyllo y lle am flynyddau lawer, a magodd yma deulu lluosog. Tua'r flwyddyn 1855, wrth adgyweirio yr hen balas, dauwyd o hyd i ystafell nas gwyddai neb o'r teulu am dani. Yr oedd lle'r drws a'r ffenestri wedi eu murio i fyny, ac wrth dynu y to ymaith, gwelwyd yr ystafell, yr hon oedd wedi ei dodrefnu yn dda. Coed derw oedd eu defnydd, ac wedi eu cerfio yn rhagorol. Aeth Dr. Thomas i'r draul o'u glanhau, a gosod *polish* arnynt, nes oeddynt yn edrych fel pe yn newyddion. Barna rhai fod y dodrefn yn yr ystafell er y flwyddyn 1150, sef amser Gruffydd ab Ifor Bach, gan fod M. C. L. ar y pren gwely; ond o'r braidd y gallwn gredu hyn, gan fod y pren mewn cadwriaeth mor dda. Bu Dr. Thomas farw yn 1858, a daeth y lle yn eiddo ei ddau fab, Richard a William. Bu William farw heb etifedd, a daeth y Court yn eiddo Richard. Bu Richard farw yn 1872, gan adael gweddw a thri o blant ieuaingo, a bu'r weddw farw yn fuan ar ol ei gwr. Gwerthwyd dodrefn gwerthfawr a hynafol y Court Mehefin 4, 5, 6, a 7, 1872, mewn arwerthiad cyhoeddus. Gwerthwyd yno hen bren gwely a berthynai gynt i Syr Dafydd Gam am yswm o ddwy bunt, a gwerthwyd y pren gwely mawr, a'r llythyrenau M. C. L. arno, i foneddwr o Bath, am £52 10s.

Mae ystad Troedyrhiw yn parhau yn meddiant teulu Lewisiaid y Fan yn bresenol. Gwelir oddiwrth y braslun uchod, fod yr etifedd-

iaeth a berthynai gynt i Ifor Bach, wedi myned yn gyfyng a bychan erbyn yr oes hon ; a bod yr arglwyddiaeth gan mwyaf yn eiddo i Ardalydd Bute, Arglwyddi Windsor, Plymouth, &c. Ond gan fod Plymouth, Dynevor a Richards, yn ddisgynyddion o'r teulu trwy briodasau, gellir dweyd yn briodol fod yr eiddo yn parhau yn meddiant yr aohau hyd yn awr. Daeth y rhan sydd yn meddiant y Windsors yn bresenol, yn eiddo iddynt trwy i Miss Elizabeth Lewis, unig blentyn ac etifeddes Thomas Lewis o'r Fan, briodi Othor Windsor, trydydd Iarll Plymouth. Gorwyres y rhai hyn yw Arglwyddes Harriet Clive, Barwnes Windsor. Etto ar farwolaeth Richard Jenkins, Castell Hensol, Gorph. 16, 1721, daeth ei etifeddiaeth yn eiddo ei chwaer, yr hon a briododd a'r Arglwydd Ganghellydd Talbot. Mab y rhai hyn oedd William Iarll Talbot, yr hwn a briododd ag etifeddes Castell Dinefor, ac a wnaed yn Farwn Dinefor. Hefyd priododd Malch ab Richard Gwyn o Ferthyr, a merch Lewis ab Rosser ; a chawsant saith o ferched. Priododd yr hynaf â Christopher Fleming ; 2 ag un Dew o'r Gelli ; 3, ag un Hennys, Hebrewydd ; 4, Ann â Thomas Evans, Llanbradach ; 5, Jane â Llewelyn Evan, Rhuddlan ; 6, Elizabeth â John Morgan, Caerlleon ; 7, Catherine â John Kemeys, Cefn Mabli ; disgynydd o'r rhai hyn yw Charles Kemeys, Kemeys Tynte, Cefn Mabli yn awr. Disgynyddion o'r un cyff yw Wyndham William Lewis, Ysw., Caerdydd ; Henry Lewis, Ysw., Greenmeadow, &c. Daeth yr eiddo i feddiant Ardalydd Bute, trwy i John Iarll Bute, briodi Charlotte Jane, wyres Herbert Is-Iarll Windsor. (Gwel Hanes Wladol Morganwg). Mae yn ddirgelwch, pa fodd bynag, pa fodd y daeth rhanau o Senghenydd yn eiddo Arglwyddi Morganwg ar y cyntaf ; a'r cwbl a hysepysir yw, fod Is-Caeach yn meddiant Gilbert de Clare, mor fore a'r flwyddyn 1270 ; a digon tebyg iddo ef a'i olynwyr feddiannu rhanau o Uwch-Caeach yn fuan ar ol hyny, fel y dengys a ganlyn. Dywedir yn "Calendar of Inquisitions, p. 219," fod Kemer Morleys, Gellifaelog, a thiroedd ereill yn Merthyr Tydfil, yn eiddo Gilbert Goch, 85 Ed. 1, (1807).

*Castell Morlais.*—Mae traddodiad yn mhlith y werin mai Ifor Bach adeiladodd y castell hwn ; ond y mae cofnodion hanesyddol yn profi mai Gilbert de Clare a'i hadeiladodd. Saif adfeilion yr hen gastell tua thair milldir i'r gogledd o dref Merthyr, ar gopa craig uchel (craig galoh). Tardd rhai yr enw Morlais o môr a llais, a'i fod yn gyfystyr a llais y môr ; ond y mae hyn yn hollol annhebygol, gan fod y castell 20 milldir oddiwrth y môr. Barna ereill mai Mr. Anthony Morley a'i hadeiladodd yn amser y Frenines Elizabeth ; ac mai Castell Morley yw yr enw priodol ; ond soniai Leland am Gastell Morlais cyn amser Elizabeth. Amlwg yw pa fodd bynag, fod y castell wedi cael ei enwi oddiwrth afon Morlais ; ond y gofyniad yw beth yw tarddiad ac ystyr y gair Morlais ? Barnwn ei fod yn tarddu o Mawr a Glais ; ac mai y Glais Fawr yw yr enw yn briodol. Mae lleoedd yn nghymydogoeth y castell a enwir yn bresenol yn Nant Glais, Aberglais, a Phenrhig-glais. Gwyr y darlennydd mai Gleisiaid yw'r enw Cymreig am eogiaid ieuainge (*swins*) ; a chan fod ein hynafiaid yn rhagori feallai ar bob

cenedl arall, gyda golwg ar roddi enwau cyd-weddol ar wrthddrychau, ac yn neillduol ar afonydd, megys Eog-wy, Ewyn-wy, Llyfn-wy, &c., mae yn ddiagon amlwg mai afonig y gleisiaid yw Morlais; ac er gwahaniaethu y naill oddiwrth y llall, tebygol yw i'r naill gael yr enw Glais Fach, a'r llall y Glais Fawr; yr hon sydd wedi ei henwi y Fawr Glais, Mawrlais, a Morlais. Mae digon o brofion hefyd, fod digonedd o gleisiaid i'w cael yma cyn llygru dyfroedd afon Taf gan y gweithfeydd haiarn. Mae amryw fan afonydd yn ein gwlad yn myned wrth yr enw Dulais yn awr, ond barunw mai Dy-glais yw'r enw priodol, sef afonydd y gleisiaid; a diamheu mai llygriad o'r enw Cymreig yw *Douglas* yn Scotland. Tardd afonig Morlais yn ardal y Castell, a rhed oddiyno trwy Gwm Rhyd y Bedd, dan Bont Gellifaelog, heibio haiarnfa Penydaren, ac abera yn y Taf yn nghanol tref Merthyr. Ymddengys mai yr hyn a achlysuroidd adeiladu Castell Morlais oedd hyn. Ar farwolaeth Iarll Henffordd, gadawyd ei fab Bohun dan ofal Gilbert de Clare i'w fagu. Wedi i Bohun ddyfod i'w oed, aeth yn ymryson rhyngddo a Gilbert o barthed terfynau eu tiroedd, &c., a nodir y flwyddyn 1286, fel yr hon y meddiannodd Gilbert y tir lle y saif y castell. Dechreuodd ef adeiladu Castell Morlais yn amddiffynfa i'w arglwyddiaeth ar y tu gogleddol; a chyn iddo orphen yr adeilad, daeth Bohun a'i luoedd i afonyddu arno, pryd yr ymladdwyd Brwydr Maes y Faenor, lle lladdwyd lloedd o bob tu, a chladdwyd hwy yn ol pob tebyg yn Ngharnedd y Faenor, o fewn tua milldir i'r Castell. Pan glywodd Iorwerth I., fod y ddau Iarll yn rhyfela a'u gilydd, ac ofn arno i hyn y fod yn achlysur i'r Cymry godi gwrthryfel er adennill eu hannibyniaeth, efe a anfonodd am y pendeigion i'r brif ddinas, a charcharwyd y ddau yn y Twr. Cymmerwyd eu tiroedd oddiarnynt hefyd am ychydig, ond cawsant hwy drachefn, a rhyddhawyd hwy trwy i Bohun dalu un marc, a Gilbert ddeg marc o ddirwy. Bernir i filwyr y brenin ddinystrio yr adeilad y pryd hwnw trwy osod y lle ar dân. Yr oedd un o dyrau y castell yn sefyll mor ddiweddar a'r flwyddyn 1760, pryd y tarawyd ef i lawr gan fellten. Barna rhai i filwyr Cromwell dynu rhanau o'r muriau i lawr yn 1648. O'r flwyddyn 1760 hyd 1819, nid oedd yma ond tomen fawr o geryg, heb ddim o'r muriau yn y golwg. Yn y flwyddyn olaf enwyd, cafodd Mr. Abraham Jones, Dowlais, bawl-fwyell (*pole-axe*), ac amryw bethau ereill wrth chwilio yr yspwriel. Yn 1846, darfu i Mr. E. J. Hitchins, yr hwn oedd berthynas i Syr J. J. Guest, anfon dynion i chwilio yr adfeilion, &c., a daethant o hyd i ystafell gyfan gylehog yn 90 troedfedd tryfeur a cholofn hardd yn y canol yn dal y nen i fyny, a deuddeg bwa yn troi oddiar y golofn hono, yn debyg i ystafelloedd Mynachlog Nedd, &c. Mae drws yr ystafell yn 5 troedfedd o led, a 12 o uchder, a saith gris o drothwy y drws hyd waelod yr ystafell. Mae trwch muriau yr ystafell hon yn 40 troedfedd. Mae G. T. Clark, Ysw., wedi bod yn offeryn i symud ychwaneg o'r yspwriel ar ol hyny, ac y mae rhanau o'r muriau, lleoedd y drysau, ffenestri, &c., yn y golwg yn bresenol; ac y mae yn amlwg fod yr holl adeilad yn sefyll ar tua thair erw o dir. Mae'r ffos ddechreuwyd o amgylch y castell yn amlwg ddigon yn

awr, ond yn anorphenol. Mae wedi ei gwneyd yn y graig galch, tua chwech troedfedd o ddyfnder a deuddeg o led ar gyfartaledd. Mae yma bwl wedi ei gloddio yn yr un graig a'i ddyfnder tua chant troedfedd yn awr. Mae yn llawer dyfnach i'w waelod, ond y mae llawer o hono wedi ei lanw, trwy fod ymwelwyr yn tafu ceryg iddo. Rhaid fod celfyddyd yn uchel pan adeiladwyd hwn, ac y cloddiwyd y pwll dwfn a nodwyd, ochrau yr hwn ydynt hynod lyfn, a'r pwll o flurf ysgwar.

*Cyfnod Amaethyddol.*—Mae yn amlwg oddiwrth nifer hen amaethdai y plwyf, ei fod wedi ei boblogi yn dda, a hyny yn fore. A ganlyn ydynt enwau Amaethdai, a maint tyddynoedd, &c., yn y plwyf:—

|                           | EBW. | CH. | P. |                        | EBW. | CH. | P. |
|---------------------------|------|-----|----|------------------------|------|-----|----|
| Abercanaid                | 100  | 1   | 1  | Etto Rhyd-y-bedd..     | 46   | 1   | 0  |
| Aberfan Fach              | 44   | 3   | 3  | Dyffryn a Phentrebach  | 217  | 3   | 1  |
| Aberfan Fawr              | 243  | 1   | 12 | Craig y Dyffryn, &c.   | 146  | 1   | 24 |
| Abernant Gethin           | 358  | 1   | 34 | Ffawyddog..            | 76   | 0   | 24 |
| Abernant y Gwenith        | 211  | 2   | 23 | Ffiam y Castell, Coed, |      |     |    |
| George Town               | 17   | 0   | 6  | Gwaun, &c.             | 544  | 3   | 25 |
| Balca                     | 1    | 1   | 32 | Fforest                |      |     |    |
| Begwns ( <i>Beacons</i> ) | 184  | 0   | 23 | Galon Uchaf, tir coed, |      |     |    |
| Blaen Bargoed             | 139  | 2   | 22 | &c.                    | 173  | 0   | 35 |
| Blaencanoid               | 187  | 2   | 17 | Garn                   | 45   | 2   | 6  |
| Blaen Morlais, Pant       |      |     |    | Garth                  | 46   | 1   | 11 |
| Cadifor, &c.              | 79   | 2   | 24 | Gellifaelog..          | 125  | 3   | 27 |
| Blaen Nant-y-fedw a'r     |      |     |    | Glynmil                | 454  | 3   | 17 |
| Coedcae                   | 124  | 0   | 15 | Godre'r Coed           | 226  | 0   | 13 |
| Blaen y Cwm               | 33   | 0   | 20 | Goetre                 | 74   | 3   | 11 |
| Blaen y Garth             | 158  | 3   | 5  | Graig                  | 58   | 3   | 19 |
| Bon Maen                  | 103  | 2   | 14 | Grawarth               | 78   | 2   | 27 |
| Brithweunydd              | 298  | 3   | 10 | Gwaelod y Garth Fach   | 15   | 0   | 3  |
| Bryncearau                | 88   | 3   | 14 | Gwaelod y Garth Fawr   | 145  | 2   | 38 |
| Bryn-rhedyn               | 58   | 3   | 39 | Gwaun Farran           | 61   | 0   | 31 |
| Brynteg a Chwmcothi       | 87   | 2   | 4  | Gyrnos                 | 209  | 0   | 7  |
| Buarth Glas               | 35   | 0   | 7  | Hafod                  | 61   | 0   | 11 |
| Caeracca                  | 65   | 1   | 29 | Hafod Tanglws (Tan-    |      |     |    |
| Cefn-florest              | 209  | 2   | 33 | gwystl) Uchaf          | 82   | 1   | 28 |
| Cefn Glas                 | 227  | 2   | 0  | Hafod Tanglws Isaf     | 124  | 1   | 15 |
| Cefn y Fan (darn o        |      |     |    | Hendre Fawr            | 65   | 3   | 3  |
| fynydd)                   | 69   | 3   | 18 | Heolgeryg              | 24   | 2   | 24 |
| Cillfach-yr-encil         | 64   | 1   | 38 | Lilwynoelyn, Cwmglo    |      |     |    |
| Court                     | 177  | 1   | 35 | Uchaf ac Isaf, Cwm-    |      |     |    |
| Cnw a Nantmaen            | 261  | 1   | 12 | du, Pencocedca, Nant   |      |     |    |
| Coedcae                   | 24   | 1   | 0  | y Gweunydd, a'r        |      |     |    |
| Coed Meurig               | 37   | 3   | 27 | Wern                   | 552  | 1   | 33 |
| Cwmdu                     | 9    | 1   | 35 | Maerdy a'r Sgubor-     |      |     |    |
| Cwm Waun Newydd..         | 58   | 2   | 14 | newydd                 | 179  | 2   | 1  |
| Cyfarthfa                 | 404  | 0   | 23 | Mount Pleasant         | 19   | 1   | 36 |
| Commin Twyn y Waun,       |      |     |    | Mynydd Capel Fforest   | 133  | 1   | 13 |
| &c., eiddo Bute           | 2845 | 0   | 34 | Mynydd Gallideg, &c.   | 1139 | 3   | 13 |
| Danyderri                 | 74   | 3   | 32 | Nant-gau               | 41   | 0   | 25 |
| Digoed                    | 151  | 1   | 24 | Pant Glas              | 118  | 2   | 35 |
| Dowlais                   | 372  | 2   | 24 | Pant-danas             | 54   | 3   | 0  |
| Etto y dref, lle bu'r     |      |     |    | Pantysgallog           | 77   | 0   | 2  |
| ddau Wernllwyn, &c.       | 57   | 2   | 30 | Penbylchan             | 34   | 2   | 8  |

| ERW. CH. P.  |     |      | ERW. CH. P.                           |     |      |
|--|-----|------|---------------------------------------|-----|------|
| Pencae-eira, Darllaw-<br>dy Dowlais, &c. ..                | 22  | 2 36 | Tir Cook } ...                        | 150 | 1 14 |
| Penddaugae Fawr ..   | 148 | 3 2  | Coed etto } ...                       | 38  | 2 30 |
| Penddaugae Fach ..   | 59  | 3 10 | Tir Isaf ...                          | 40  | 2 2  |
| Penlan ..  | 82  | 2 30 | Tirlan ...                            | 37  | 1 11 |
| Penlan (arall) ..  | 184 | 3 11 | Tir Plantation ...                    | 181 | 1 18 |
| Pant-y-Mynydd ..   | 8   | 3 5  | Tir Twppa Uchaf, tir<br>coed, &c. ... | 107 | 0 26 |
| Penrhwi'r-ouen ..  | 229 | 1 21 | Tir Twppa Isaf a'r<br>Ynys Wleab ...  | 69  | 0 14 |
| Penydarren ..  | 151 | 3 2  | Tir y Nyth ...                        | 64  | 1 4  |
| Penygraig ..   | 341 | 2 8  | Troedyrhiw ...                        | 62  | 1 18 |
| Penyrheolgeryg ..  | 66  | 0 0  | Craig Troedyrhiw } ...                | 156 | 1 20 |
| Perthi-gleision, tir<br>coed, &c. ..                       | 266 | 1 22 | Dan y Tai, &c. } ...                  | 2   | 1 4  |
| Pont Rhun ..   | 71  | 2 7  | Trybeddau ...                         | 45  | 2 10 |
| Pont y Gwaith, Tarren<br>y Fedw, Tai Coup-<br>lau, &c. ... | 59  | 1 23 | Trwyn-y-graig } ...                   | 129 | 1 30 |
| Pwllglas ...   | 124 | 3 21 | Tir coed etto } ...                   | 6   | 1 11 |
| Rhydycar, Glyndyrus,<br>Cwm Canaid, a Melin<br>Canaid ...  | 318 | 1 5  | Ty'n y Coedcae ...                    | 49  | 0 31 |
| Taibach ...  | 54  | 3 30 | Ty'n y Coed ...                       | 17  | 0 37 |
| Tai Mawr Isaf ...  | 43  | 3 14 | Ty Newydd ...                         | 110 | 3 17 |
| Tai Mawr Canol } ...                                       | 63  | 0 16 | Ty'n y Taldwyn ...                    | 93  | 1 38 |
| Craig y Llyn } ...   | 19  | 3 5  | Ty'r Ywen ...                         | 35  | 3 35 |
|  |     |      | Wannwyllt... ..                       | 27  | 3 35 |
|  |     |      | Ynys Owen ...                         | 104 | 1 28 |
|  |     |      | Tir mewn dadl ger<br>Ynys Owen ...    | 11  | 1 18 |
|  |     |      | Ynys y Gored ..                       | 180 | 2 24 |

Afonydd ac heolydd 269 erw 2 chwarter. Mae yr holl blwyf yn 17,744 erw 2 chwarter, ac 1 perc. Mae wedi ei ranu yn bump dos-parth dan yr enwau Abertaf a Chynon, Fforest, Garth, Heolwermwd, a Gellideg. Mae'r dref wedi ei rhanu yn bump Ward hefyd mewn cyssylltiad a'r etholiadau trefol fel y canlyn:—Cyfarthfa 8,721 erw; Dowlais 2,852; Penydarren 2,005; Plymouth 9,484; Y Dref 240. Y cwbl yn 17,752 erw. Rhif tai y plwyf yn 1871 oedd 10,783. Poblog-aeth y plwyf er 1801 sydd fel y canlyn:—

| Blwydd 1801. | 1811.  | 1821.  | 1831.  | 1841.  | 1851.  | 1861.  | 1871.   |
|--------------|--------|--------|--------|--------|--------|--------|---------|
| Pobl 7,705   | 11,104 | 17,404 | 22,083 | 34,978 | 46,389 | 49,794 | 51,949. |

Cyn adeiladu Haiarnfaoedd yn yr ardal, nid oedd pentref Merthyr ond un bychan distadl, yn cynnwys hen Eglwys fechan, Tafarn Peny-fynwent, (Three Salmons yn awr), y Star, y Farmers Arms, y Felin, ac ychydig annedd-dai ereill yn ymyl yr Eglwys. Safai y Court, y Maerdy, a Morlangau hefyd fel prif dai y lle. Mae'r tri hyn o fewn ychydig ffordd i'r Eglwys blwyfol, ond y mae'r ddau flaenaf wedi myned dan gyfnewidiadau mawrion, tra y saif yr olaf fel yr oedd yn ymyl yr heol ger gorsaf cledrffordd Cwm Taf. Mae'r ysgoldy Pabyddol wedi ei adeiladu lle safai rhan fawr o'r Maerdy, yr hwn hyd yn ddi-weddar oedd ddangoseg dda o un o brif dai Merthyr 150 o flynyddau yn ol. Tai'r Gerddi y gelwir Morlangau yn bresenol, a defnyddir ef yn



dai gweithwyr. Dichon mai anhawdd yw penderfynu ystyr yr enw Morlangau. Dywed Mr. C. Wilkins yn ei *History of Merthyr*, fod Mr. T. Stephens o'r farn mai tŷ Morley oedd yn ddechreuol. Dywed hefyd fod rhai yn barnu mai *furlong* yw'r gwreiddiol. Nis gallwn pa fodd bynag, weled priodoldeb yn y naill na'r llall o honynt. Gwyddom mai y *Forlan* y gelwid rhan o'r tyddyn a berthynai i'r tŷ gan hen drigolion y lle ugain mlynedd yn ol; a gwyddom mai wrth yr enw hwnw yr adnabyddir y fan y saif gweithdy gwlenyn Mr. D. Mansell, hyd heddyw. Dichon i'r lle gael yr enw am fod y tir mor wastad, ac yn aml dan ddwfr pan chwyddai yr afon. Mae ffermdy o'r enw Morlangau ger Llanbedr-y-Fro hefyd; a barnwn mai Morlan yw tarddiad y naill a'r llall. Y brif heol a berthynai gynt i'r pentref oedd heol Ferthyr, fel yr awgrymwyd. Cychwyna hon ger yr Eglwys, ac heibio'r Maerdy, y Court, i fyny dros Dwynnyrodyn, ac heibio Pwllrhwyaid, ac ar du de-ddwyrain i waith Dowlais, i gyfarfod a'r brif ffordd rhwng Caerdydd ac Aberhonddu, ar gefn y mynydd. Nid oedd yr hen heol blwyfol trwy Gwm Taf, ond un wael igam-ogam o'r naill amaethdy i'r llall; etto yr oedd cryn dramwy ar hon gan drigolion godre'r plwyf.

Dywed traddodiad fod Marchnad, neu Ffair y Waun, wedi ei sefydlu mor fore ag amser Iestyn ab Gwrgan. Pa fodd bynag am hyny, mae yn ffaith fod darnau arian o hynafiaeth mawr wedi eu cael yno yn y ddaiar o bryd i bryd, yr hyn a brawf ei bod yn hen sefydliad. Dros heol Ferthyr yr arferai y plwyfion fyned i, a dyfod o Ffair y Waun; a bu darn o dir yn mhen uchaf Twynnyrodyn, ar du gogleddol yr heol, yn cael ei gyfrif yn Gomin am oesoedd, er cyfleustra i'r amaethwyr droi eu hanifeiliaid iddo i bori, wrth fyned a dyfod o'r ffair. Yr oedd y tir tua 50 llall o led, a thua hanner milldir o hyd. Tua'r flwyddyn 1850, dechreuwyd adeiladu tai ar y darn tir hwn, a chodwyd yno ugeiniau o honynt; a thelir yr ardreth tirol i berchenogion y Court. Os mai Commin oedd y tir dan sylw, mae yu rhyfedd i'r plwyfion ganiatau i neb gymmeryd hawl bersonol o hono, a'i gyssylltu a'i eiddo ei hun.

*Dechreuad cyfnod yr Haiarnfaoedd.*—Bernir yn gyffredin mai yr Haiarnfa hynaf yn y plwyf hwn oedd Ffwrnes Pont-y-gwaith, yn Nghwm Taf, tua chwech milldir i'r de oddiwrth Eglwys y plwyf. Dichon fod ceisiadau at wneyd haiarn gwaith (*Wrought Iron*) yn y plwyf yn flaenorol; ond ymddengys mai yma y gwnaed haiarn bwrw (*Cast Iron*) gyntaf yn y plwyf, os nad yn y deyrnas. Nid oes son am haiarn bwrw yn llyfr Agricola, yr hwn a ysgrifennodd hanes haiarnfaoedd y deyrnas hon, ac a gyhoeddwyd yn 1556; er y bernir fod haiarn tawdd wedi ei wneyd yn Lloegr mor fore a 1547. Dywedir yn *History of Merthyr*, i lasn o haiarn tawdd gael ei ddarganfod ger Pont-y-Gwaith yn 1815, a'r blwyddiad 1478 arno; ac i weithwyr Dowlais ei dori i'w ail doddi. Pa fodd bynag, mai yn ffaith fod yn meddiant Anthony Hill, Ysw., perchen diweddar gwaith Plymouth, ddarn o haiarn tawdd ac arno y blwyddiad 1555 E.K. a phais arfau Lloegr. Rhoddwyd ef yn arhelig i David Mushet, Ysw., awdwr cyfrol ardderohog ar wneuthuriad haiarn a dur. Hwn yw y darn haiarn tawdd hynaf sydd yn adna-

byddus, a bernir iddo gael ei wneyd yn ffwrnes Pont-y-Gwaith, neu ffwrnes Pont Rhun, gweddillion yr hon sydd yn aros ar lan afon Taf ar du gogleddol Troedyrhiw. Gwr o'r enw Anthony Morley oedd perchenog gwaith haiarn Merthyr yn amser y frenines Elizabeth. Methodd ef yn ei amgylchiadau, a bu farw mewn gofid. Yn fuan ar ol hyny, priododd ei weddw ag un John Watkins; ac y mae hanes ar gael fod Edward Mitchel, John Watkins, a Bridget ei wraig, wedi bod mewn cyfraith ag un Elizabeth Mynifie, yn nghylch coed-diroedd yn mhlwyf Llanwynno, ac haiarnfa yn mhlwyf Merthyr. Ymddengys i Mrs. Mynifie gymmeryd meddiant o'r eiddo hyn ar farwolaeth Morley; a bernir mai ar ran ei blant y dygwyd y gyfraith yn mlaen gan y personau a enwyd.

Perchenogid ffwrnes Pont Rhun yn amser Charles I., gan Meistri Lewis a Cook, y blaenaf yn ddisgynydd o Ifor Bach, a'r olaf yn fasnachwr o Lundain, a gelwir y lle y preswyliai yma wrth yr enw Ty'r Cook yn bresenol. Priododd Cook â merch Mordecai Ebrai Phel, yr hwn a breswyliai yn y lle cyn hyny. Yr oedd Lewis a Cook yn bleidiol iawn i'r brenin wedi toriad allan y Rhyfel Cartrefol, a digon tebyg eu bod yn gwneyd gynau at ei wasanaeth. Yr oedd byddin y Senedd dan O. Cromwell yn wybyddus o hyn; a chan fod ffwrnesi yn fanteisiol i achos y brenin, yr oeddynt yn eu tori yn mhob man ag y gallent. Yr oedd gan Charles dair ffwrnes ei hun yn Fforest y Dean, y rhai a ddinystrwyd gan wyr Cromwell yn 1642. Pan oedd byddin Cromwell ar y ffordd tua Chaerdydd cyn brwydr St. Ffagans yn 1648, torasant ffwrnesi Pont Rhun a Phontygwaith; ac nid oes hanes iddynt gael eu hadferu ar ol hyny.

*Y gweithfeydd presenol.*—Dowlais yw yr hynaf o'r rhai sydd ar waith yn awr. Yn 1749, darfu i Mr. Thomas Morgan, o Balas Machen (un o deulu Parc Tredegar) godi lès ar 2845 o erwi o'r Commin ger Dowlais, gan Arglwyddes Windsor, am y swm o £26 y flwyddyn, am 99 mlynedd. Bernir na fwriadodd Mr. Morgan gloddio am drysorau cuddiedig y maes eang hwn, ac mai ei brif amcan wrth ei lèsio oedd ei ddefnyddio yn dir hela. Er hyny, yr oedd amodu y lès yn rhoddi hawl iddo i gloddio ceryg calch, mwn haiarn, glo, clai, gro, &c., yn mhob rhan o'r tir, ond ystad Penydarren yn unig. Yr oedd hawl ganddo i ail lèsio y tir trwy ei drosi i arall neu ereill. Dywed chwedl draddodiadol iddo lèsio y tir i un Davies o Ddowlais, am £100 y flwyddyn, ond i wraig Davies gadw cymmaint o stwr, pan glywodd am yr anturiaeth orphwyll, fel y gorfu arno fyned at Morgan i ddymuno arno ddfodi yr ymrwymiad. Prin y gallwn gredu y chwedl hon, am fod cymmaint o wahaniaeth rhwng 26 a 100. Ymddengys pa fodd bynag na chadwodd Mr. Morgan y tir dros dair neu bedair blynedd cyn trosi y lès i Dafydd Shon, o'r Gwernllwyn Isaf, Dowlais. Yr oedd gan hwn bump o ferched. Priododd un o honynt a Walter Dafydd Evan, Blaen Rhymini; a disgynyddion o'r briodas hon ydynt David Walter Davies, Cyfreithiwr, Caerdydd; a George Overton, Ysw., Trengholydd, Merthyr. Yn mhen ychydig amser, trosodd Dafydd Shon y lès am £26 y flwyddyn, i'r Parch. Thomas Lewis, Llanisan

Mynwy. Tua'r amser hwnw priododd Iarll Bute a Charlotte Jane Windsor, ac felly daeth yn berchen ar yr arglwyddiaeth. Tua dwy flynedd y cadwodd y Parch. T. Lewis y lês, cyn cael digon arni; a braidd nad ystyrir hi bellach yn ddiwerth, gan fod pob un a'i cafodd yn ewyllysio ymadael â hi. Ymddengys hefyd i'r Ardalydd ryddhau y Parch. T. Lewis o'i gyfrifoldeb, trwy gymmeryd y lês oddiwrtho; oblegyd hyspysir mai apelio at Bute wnaeth Mr. Lewis o'r Fan am y lês, ac nid at T. Lewis. Yr oedd hyn yn mhen deg mlynedd ar ol gwneuthuriad y lês i Mr. Morgan. Cafodd Mr. Lewis o'r Fan y lês gan Iarll Bute, gyda'i holl hawliau gwreiddol, am y swm o £28 y flwyddyn, ac nid £26 fel o'r blaen. Lêsiwyd y mynydd, &c., a berthynai i Benydarren hefyd, am £72 y flwyddyn, y cwbl yn £100. Yr oedd gan Mr. Lewis ffwrnes fechan yn Mhentyroh cyn hyny, mewn undeb ag un Mr. Thompson. Yr oedd ffwrnes Caerffili ar waith y pryd hwnw hefyd. Wedi cael meddiant o'r lês ar Dowlais, adeiladodd Mr. Lewis ffwrnes yn y lle yn 1768. Deallodd fod digon o fwn haiarn yn yr ardal, a digon o goed i wneyd golosg hefyd; ond yr oedd ei amser ef yn brin i ofalu am ffwrnes Pentyroh ac un Dowlais. Yn ngwyneb hyn, anfonodd Mr. Lewis at wr o'r enw John Guest, yr hwn oedd yn cadw tafarn y White Horse yn Brosely, swydd Stafford, ac yn un celfydd i wneyd haiarn, i ofyn iddo ddyfod i lywodraethu ffwrnes Dowlais. Y canlyniad fu, i John Guest a Ben ei was ddyfod i Ddowlais yn 1760. Yr oedd teulu Guest wedi bod yn byw yn y White Horse dros 200 mlynedd, â bernir mai rhai o honynt a'i hadeiladodd, oblegyd yr oedd y llythyren G. yn gerfiedig mewn careg uwch ben y porth. Dywed traddodiad mai yn nhafarn Penyfynt, ger Eglwys Merthyr, y lletyodd Guest a'i was y noson gyntaf y daethant i'r lle. Yn fuan wedi iddo ef ddechreu llywodraethu y ffwrnes, daeth ei frodyr i'r lle ar ei ol; ond ni chododd un o honynt ond John uwchlaw safle gweithiwr. Wrth groni y nentydd, ac ysgwrio i gael gafael yn y mwn, cafwyd llawer o lo hefyd; a bu John Guest mor hyf a cheisio toddi mwn haiarn â than glo yn lle golosgoed, a llwyddodd. Yn fuan daeth i gael mwy o lo nag oedd yn angen ar y ffwrnes, ac felly dechreuodd ei werthu i'r amaethwyr. Gwnaeth gytundeb a'r amaethwyr i'w diwallu â glo ar y telerau canlynol:—Pris pwn o lo oedd dimai a phwn o galch. Gan fod digonedd o geryg calch ar y Twynau Gwynion, ac yn myl Castell Morlais, (tua dwy filldir i'r gogledd oddiwrth y ffwrnes), manteisiodd yr amaethwyr ar y cyflenstra, fel y dygid cryn fasnach yn mlaen rhyngddynt a Mr. Guest. Dywed traddodiad eu bod yn rhanu y pwn glo a gaent yn gyfnewid am y calch, yn dri phwn bychan, a'u cludo i wahanol barthau Brycheiniog, i'w gwerthu am ddeg ceiniog yr un. Pan ddeallodd Guest fod y ffermwyr yn gwneyd y fath elw o'r llwyth glo, efe a gododd ei bris i geiniog y pwn yn 1765. Parodd hyn gryn rwgnach wrth gwrs. Pa fodd bynag, aeth y fasnach yn mlaen eilwaith, a defnyddid y calch i wneyd cymrwd er eangu y gwaith, adeiladu tai, &c., yn ogystal ag at wasanaeth y ffwrnes yn Dowlais. Yr unig ffordd i gludo yr haiarn i'r porthladd yn Nghaerdydd y pryd hwnw oedd dros y brif heol heibio Twyn-y-Waun, pentref Gelligaer,

Caerffili, &c., a dygid ef ar y cyntaf ar gefnau mulod mewn cewyll. Gan nad oedd ond yohydig amaethdai yn ardal Dowlais pan ddaeth Guest i'r lle, a bod y rhai hyny yn cael eu preswyllo, aeth ef i fyw i fferm Troedyrhiw am beth amser, yr hwn dy oedd yn eiddo Mr. Lewis, perohen y ffwrnes. Adeiladodd dŷ iddo ei hun yn nes i'r ffwrnes wedi hyny, a symudodd yno. Bu Mr. John Guest yn llywodraethu y ffwrnes am 25 mlynedd; a llwyddodd y gwaith yn rhyfedd dan ei ofal. Eangwyd ef hefyd i'r fath raddau fel yr oedd ef cyn ei farwolaeth yn gwneuthur 1,500 tunnell o haiarn mewn blwyddyn. Yr oedd cyn ei farwolaeth wedi dyfod yn rhan-feddiannydd yn y gwaith hefyd; ac un arall o'r enw Mr. Tait yn rhanol a Mr. Lewis ag yntau. Bu John Guest farw Tach. 25, 1785, yn 64 oed; a chladdwyd ef yn nghanghell Eglwys Merthyr. Ar ei farwolaeth ef, ffurfiwyd Cwmni Dowlais, ac yr oedd yr hawliau yn y gwaith fel hyn:—Mr. Lewis 6 rhan; Mr. Tait 8; a Mr. Thomas Guest 2. Yr oedd Mr. Tait yn briod a merch John Guest, ac felly yn frawd ynghyfraith i Thomas. Dywedir yn *History of Merthyr, a Cymru*, fod Mr. Lewis wedi cynnrychioli Caerdydd a Maidstone yn y Senedd, ond y mae hyny i raddau yn amheus, oblegyd yn 1820 yr etholwyd Wyndham Lewis o'r Fan yn aelod dros Gaerdydd, ac nid yw yn debyg mai efe adeiladodd ffwrnes Dowlais yn 1758; ond ei dad yn hytrach. Bu Thomas Lewis, Ysw., Llanisan, yn Strydd Morganwg yn 1745; Thomas Lewis, Ty Newydd, yn 1757; William Lewis, Green Meadow, yn 1790; a Wyndham Lewis, Llanisan, yn 1795. Perthynai y rhai hyn i'r un teulu, a diamheu mai un o honynt adeiladodd ffwrnes Dowlais, ond nid ymddengys mai yr aelod Seneddol wnaeth hyn, oblegyd yr oedd 62 o flynyddau rhwng adeiladiad y ffwrnes ac etholiad W. Lewis yn aelod.

Bu Mr. Thomas Guest yn llywodraethu gwaith Dowlais 22 o flynyddau, sef o 1785, hyd 1807. Tra dan ei ofal ef, ychwanegwyd *Refinery* a *Foundry* at y gwaith. Yn y *Refinery* y gweithiai Cornelius Guest, (cefnider Thomas), ac yr oedd yn feistr ar y *Refiners*; tra Charles a George Guest, dau frawd, a chefnideriaid Thomas, yn gweithio swydd *moulders* yn y *Foundry*. Adeiladodd Cornelius Guest amryw dai yn Heol-y-Ceffylau, yn Dowlais. Erbyn y flwyddyn 1790, yr oedd Cwmni Gwaith Dowlais yn talu £200 y flwyddyn o dal tlawd. Tua'r amser hwnw, adeiladwyd yr ail ffwrnes; ac yn 1795, gosodwyd i fyny ager-beiriant o waith Watt a Boulton, i chwythu *blast* i'r ffwrnes, &c., yr hwn oedd yr ager-beiriant cyntaf yn Nghymru mae'n debyg. Prif orchwyl Mr. Tait mewn cyssylltiad a'r gwaith oedd gwerthu yr haiarn. Haiarn tawdd (*cast iron*) oedd y cwbl y pryd hwnw. Yn fuan pa fodd bynag, adeiladwyd morthwylfa yn Dowlais, er gorphen gweithio yr haiarn; ac un Hugh John o Lantrisant rliodd y bâr cyntaf yno; yr hwn oedd yn 8 modfedd o led a hanner modfedd o drwch. Yn 1797, agorwyd Shop y Cwmni yn Dowlais. Trethid y gwaith erbyn hyn i'r swm o £2,000 y flwyddyn. Yr oedd yn cynnwys 8 ffwrnes, purfa (*refinery*), tawdd-dy (*foundry*), a morthwylfa (*forge*); ac yn troi allan 8,000 o dunnelli o haiarn mewn blwyddyn. Yr oedd y camlas rhwng Merthyr a Chærddydd yn barod erbyn hyn, fel y cawn sylwi etto.

Yr oedd Mr. T. Guest yn wr crefyddol iawn, ac yn bregethwr lleol gyda'r Wesleyaid; a dygodd ei blant Thomas Revel, a Josiah John i fyny yn grefyddol hefyd. Bu Thomas Revel Guest yn pregethu gyda y Wesleyaid y rhan fwyaf o'i oes. Yr oedd Josiah John o'r tu arall yn cymmeryd dyddordeb neillduol yn y gwaith; yr hyn a foddlonodd ei ewythr Mr. Tait, i'r fath raddau fel y rhoddodd gyflog o £50 y flwyddyn iddo am helpu ei dad. Yr oedd Mr. John Evans y Manager, fel ei gelwid yn llywodraethu y rhan fwyaf o'r gwaith cyn marwolaeth Mr. T. Guest, a rhan bwysig o'i swydd oedd dysgu Josiah John. Bu T. Guest farw Chwef. 28, 1807; a chladdwyd ef yn Eglwys Merthyr. Ar ei farwolaeth ef, aeth y ddwy ran oedd ganddo yn y gwaith i'w feibion, un i Thomas Revel, a'r llall i Josiah John; tra yr oedd 6 rhan gan Mr. Lewis, ac 8 gan Mr. Tait; y cwbl yn 16. Yr oedd Josiah John Guest yn 21 oed, pan fu farw ei dad; ond er ieuanged oedd, barnodd ei ewythr, Mr. Tait, fod ynddo allu i lywodraethu; ac felly rhoddwyd yr awenau iddo, yn rhanol ag un Mr. Kirkwood, nai arall i Mr. Tait. Yr oedd Mr. Tait yn byw yn Nghaerdydd, ac arferai Mr. Kirkwood fyned ato bob Sadwrn a chyfrifon y gwaith, gan ddych-welyd i Ddowlais ar y Llun.

Yn 1818, bu farw Mr. Kirkwood, fel y daeth yr holl ofal ar Mr. J. J. Guest. Yn 1815, bu farw Mr. Tait, ac yr oedd yn Uchel Sirydd y flwyddyn hono. Gadawodd Mr. William Tait ei holl eiddo yn ei ewyllys i'w nai, sef Mr. Josiah John Guest, fel y daeth yn berchen ar 9 rhan yn ngwaith Dowlais. Pan fu farw T. R. Guest, gadawodd ef ei ran yn y gwaith i'w nai, Mr. Hutchins, yr hwn a'i gwerthodd i'w ewythr J. J. Guest. Erbyn hyn yr oedd ef yn berchen 10 rhan, a'r Lewisiaid 6. Yr oedd 5 ffwrnes yn Dowlais yn 1815, yn cynnyrchu 15,600 tonnall o haiarn. Yn 1817, priododd Mr. Guest a Miss Maria Rankin, yr hon a fu farw Ionawr 14, 1818, yn 28 oed. Bu'r fonedd-iges dduwiol hon yn foddion i atal gweithio ar y Sabboth yn Dowlais, tra bu Mr. Guest fyw; ond yn unig yr hyn na ellid ei gyflawni un pryd arall. Yn 1822, adeiladwyd ffwrnesi rhif 6, 7, 8; ac erbyn diwedd 1823, yr oedd ffwrnesi rhif 9 a 10 yn barod; a'r cwbl yn cynnyrchu 22,287 tonnall o haiarn y flwyddyn hono. Yn yr un flwyddyn agorodd Mr. Guest ariandy yn Nghaerdydd, a changen o hono yn Merthyr, yn y rhai y defnyddid biliau punt yr un. Yn 1825, pan aeth yn wasgfa ar fasnach, a'r bobl yn rhuthro ar yr ariandai, gwelodd ef yr ystern yn ymgasglu, prysurodd i Lundain at ei arianwyr Roberts a'i Gyf., gwrthodasant ei helpu, pallodd yntau wrando ar eu cynghor, ac ar ol cryn drafferth, cafodd y swm ag oedd yn eisiau arno; a chyrrhaeddodd Gaerdydd yn brydlon i dalu ei gofynion i bawb; a bu hyn yn foddion i arbed tlodi ac annhrefn. Ei arianwyr o hynny allan oedd-ynt Glyn a'i Gyf.

Yn 1825, etholwyd ef yn Aelod Seneddol dros Honiton, a pharhaodd i gynnrychioli y lle hwnw hyd 1881, pryd yr etholwyd Syr G. Warrander. Yn 1882, trwy rinwedd y Weithred Ddiwygiadol, cafodd Merthyr, mewn undeb ag Aberdar a'r Faenor, hawl i anfon aelod i'r Senedd am y waith gyntaf; ac etholwyd Mr. Guest

heb wrthwynebiad ; a chynnrychiolodd ei dref enedigol o hyny hyd ei farwolaeth.

Ei unol ethol wnaethant—i'r Senedd,  
Dros einioes ddiffuant,  
Ac yno'n mhlith gogoniant—ein teyrnas,  
Addas heb luddias y bu ei lwyddiant.—*D. Wyn o Essyllt.*

Ar yr achlysur hwn, rhoddodd Mr. Guest, £500 tuag at ddilladu tlodion Merthyr a Dowlais. Yn 1838, priododd a'r Arglwyddes Charlotte Elizabeth Bertie, chwaer Iarll Lindsay ; a diamheu y pery enw Lady Charlotte yn barchus yn Dowlais am oessau. Yn 1834, ganwyd etifedd iddynt, yr hwn a enwyd yn Ifor Bertie Guest, yr hwn sydd yn dal teitlau ei dad yn awr. Pan goronwyd Victoria yn 1838, dyrohafwyd Mr. Guest yn Farwnig ; ac o hyny allan enwid ef yn Syr Josiah John Guest, ond a elwid yn Syr John gan bobl Dowlais a Merthyr.

Erbyn y flwyddyn 1845, yr oedd gwaith Dowlais wedi cynnyddu cymmaint, fel yr oedd yno ddeunaw ffwrnes gyda morthwylfeydd, melinau, a phob peth arall yn gyfatebol ; ac yn troi allan 1,600 o dunnelli o haiarn pur mewn wythnos ! Haiarnfa Dowlais erbyn hyny oedd y fwyaf yn yr holl fyd ; ac felly ymae yn parhau. Yn y flwyddyn uchod, cloddiwyd o ddaear Dowlais y swm o 80,000 o dunnelli o fwn haiarn, a 140,000 tonnelli o lo ; a defnyddid y cwbl yn y gwaith. Telid £2,577 o dreth y tlodion gan Gwmni Dowlais y flwyddyn hono, yr hyn oedd fwy na dyblu holl drethi y plwyf yn 1806. Yn 1814, siaredid gyda syndod fod 80 milldir o Tramroads yn Dowlais ; ond erbyn hyn (1873), mae yno dros 2,000 o filldroedd ar a than y ddaear.

Pan wnaed cleddrffordd Cwm Taf, rhwng 1837 a 1841, Syr John oedd cadeirydd y cyfarwyddwyr ; a chanddo £100,000 yn yr anturiaeth fel rhan-feddiannydd. Telir yn bresenol tua £25,000 y flwyddyn gan Gwmni Dowlais i Gwmni Cleddrffordd Cwm Taf, am gludiad nwyddau ar hyd-ddi. Tua'r flwyddyn 1846, gwnaeth Syr John gangen o gleddrffordd dwy filldir o hyd, gydag *incline* tua milldir o hyd, ar ei draul ei hun, er cyssylltu gwaith Dowlais a Chleddrffordd Cwm Taf ; a dygir y nwyddau dros hono yn bresenol. Cyn hyny, dygid holl haiarn Dowlais ar hyd yr hen Tramroad heibio Penydarren, ac ar du dwyreiniol Merthyr, lle yr oedd cannoedd o geffylau yn gweithio. Gwnaed cangen o'r *incline* hyd orsaf cleddrffordd Cwm Nedd yn Merthyr hefyd, tuag at gyssylltu Dowlais a phorthladd Abertawy, &c.

Yn 1848, ofnwyd fod dinystr Dowlais yn agos. Dyna flwyddyn pen tymhor y lês. Yr oedd Syr John yn ddigon cyfoethog, fel nad oedd cangen arno gael ail lês, os na chawsai hi ar delerau fiafriol ; a chan ei fod bellach mewn gwth o oedran, yr oedd ei natur yn galw am fwy o lonyddwch a llai o drafferthion. Yr oedd Ardalydd Bute, o'r tu arall, yn penderfynu mynu llawn dal am adnewyddu'r lês, ac felly bu'r adnewyddiad yn hollol anobeithiol am gryn amser. Dechreuwyd codi cleddrau y gweithfeydd tanddaearol, cesglid yn nghyd offer gweithio y

mwnwyr a'r glowyr, a thaffwyd cannoedd o dunnelli o *tramples*, *trams*, ac offer gweithio i'r ffwrnesi i'w toddi, a phawb yn credu fod pob go-baith wedi darfod, pan ddaeth y newydd llon i'r lle fod Syr John wedi adnewyddu'r lès am y swm o £80,000 y flwyddyn! Dim ond £100 y flwyddyn delid gan Gwmni Dowlais yn flaenorol am Gommin Dowlais a Phenydarren, ac yr oeddynt yn derbyn £10,000 y flwyddyn gan Gwmni Penydarren am hawl i weithio mwn a glo yn nhir Penydarren yn unig.

Cariodd Syr John y gwaith yn mlaen yn llwyddiannus am tua phedair blynedd ar ol adnewyddiad y lès, pryd y gwywodd ei iechyd, a bu farw Tach. 26, 1852, yn 67 oed. Claddwyd ef yn Eglwys Dowlais (Capel Guest), yr hon a adeiladwyd ganddo yn 1828, ar y draul o £8,000. Yr oedd ef a'i foneddiges yn bleidiol iawn i ddyrchafiad y gweithwyr, a gwnaethant lawer tuag at addysgu plant y lle. Ystyrir Ysgoldai Dowlais gyda'r goraf yn y deyrnas. Mae'r adeilad yn 285 troedfedd o hyd, a 100 o led. Mae ysgoldy'r plant lleiaf yn 100 troedfedd o hyd, 35 o led, a 50 o uchder. Ysgoldy'r bechgyn, 100 troedfedd o hyd, 80 o led, a 80 o uchder. Ysgoldy'r merched yn dair ystafell, a'r tair yn 100 troedfedd o hyd, 80 o led, a 80 o uchder. Mae dwy ystafell ddosparthol yn yr adeilad hefyd, un yn 45 troedfedd wrth 24, a'r llall yn 25 wrth 21, a chostiodd y cwbl tua £7,000.

Yn 1845, agorwyd Llyfrfa a Darllenfa gan Syr John i'r gweithwyr, mewn ystafell eang, lle y saif Gorsaf Cleddrffordd y T.V.R. yn Dowlais. Wedi ei farwolaeth ef, adeiladwyd Ystafell Goffadwriaethol iddo ger yr Ysgoldai, gwerth £7,000, ac yn yr ystafell hono y mae'r Llyfrfa yn awr, ac ynddi tua 8,000 o gyfrolau.

Llywodraethir y gwaith oddiar farwolaeth Syr John gan yr enwog hynafiaethydd G. T. Clark, Ysw. Mae ef wedi ychwanegu Melin Ddur eang at y gwaith, yr hon a weithir yn ol cynllun Bessemer, ac ynddi troir yr haiarn yn ddur mewn 20 mynyd!

Yn 1842, rhif gweithwyr Dowlais oeddynt 5,000; yn 1845, yr oeddynt yn 7,000; yn 1878, y maent dros 10,000. Saif yr Haiarnfa ar fwy na 50 erw o dir. Defnyddir 1,000 o dunnelli o lo yn y gwaith yn ddyddiol, a gwerthir mil arall. Gwneir yma 600 tunnell o *rails* yn wythnosol, heblaw gwahanol fathau ereill o fariau, &c. Cynnwysa y gwaith 18 ffwrnes ffast, a dwy yn cael eu hadeiladu at y gwaith dur, 150 o ffwrnesi *puddling*, gyda 18 o felinau. Mr. Adrian Stephens, o'r gwaith hwn, ddyfeisiodd y *steam whistle*, sydd mor arferedig yn awr gyda'r ager-beiriannau. Gellir clywid *Hooter* Dowlais, sydd fath o *steam whistle*, am 10 milldir o ffordd. Yn 1848, bu brenin Saxony yn ymweled â'r gwaith hwn. Yn 1847, bu y Grand Duke Constantine, brawd ymherawdwr presenol Rwsia, yn gwled y gwaith. Yn 1868, gwnaed cangen o Gledrffordd Merthyr ac Aberhonddu i'r Pant, ger y lle, a thrachefn i'r lle.

*Eglwysi a Chapeli, &c.*—Yn 1828, adeiladwyd Eglwys Dowlais, fel y sylwyd; ac yn 1871, adeiladwyd un ardderchog arall i'r Cymry, yn hollol ar draul y Cwmni. Yn 1846, adeiladwyd Eglwys Babyddol yn y lle.

*Annibynwyr*.—1. Bethania, ad., 1824; ail-ad., 1827; helaethwyd, 1838. 2. Bryn Seion, ad., 1832; ail-ad., 1844. 3. Gwernllwyn, 1851. 4. Penywern, 1858. 5. Ivor Chapel (S.), 1860.

*Bedyddwyr*.—1. Caersalem, 1821. 2. Hebron, 1841. 3. Beulah, 1852. 4. Moriah, 1857.

*Methodistiaid*.—1. Hermon, 1827; etto, 1841. 2. Libanus, 1852; etto, 1858.

*Wesleyaid*.—Seisnig, 1830; Cymreig, ail-ad., 1845. Trefnyddion Hynafol, 1846.

Yn 1837, cafwyd *Act* yn rhoi hawl i adeiladu Ty Marchnad y lle, ac adeiladwyd ef yn 1838.

*Cofnod Hynod*.—Yn 1861, tynodd Dr. Burns dros ugain o gries (*crickets*) o glust un Ann Griffiths, Penwaunfawr, yn y lle hwn. Tua naw mis cyn hyny, dygwyddodd iddi gysgu ger y tân, ac ymddengys i griciad fyned i'w chlust, a magu eppil yn ei phen. Bu'r wraig druan yn agos gwallgof am hir amser nes i'r Doctor a nodwyd lwyddodd i gael y cries allan. Mae Dr. Burns yn dilyn ei broffes yn Dowlais yn awr (1878), a digon yn fyw ag sydd yn dystion fod hyn yn ffaith.

*Y Gyfarthfa*.—Yn mhen tua phum' mlynedd wedi dechreu ffwrnes Dowlais, ac i'r son am dani gyrhaedd clustiau cyfoethogion anturiaethus, a bod argoelion y buasai yn sicr o dalu, &c., daeth boneddwr o'r enw Anthony Bacon o Lundain i bentref Merthyr, yn cael ei lusgo mewn cerbyd gan fulod. Llettyai yn y Star, ger yr Eglwys; ac ar ol ymweled â gwahanol barthau yn y gymmydogaeth, a deall fod digonedd o fwn haiarn yn y lle, a gelltydd eang o goed yn ymyl, efe a ddychwelodd i Loegr. Yr oedd hyn yn 1768. Hyspysodd Bacon y gyfarthfa i'w gyfaill, William Brownrig, Ysw., o Whitehaven, a chydnodd y ddau i anturio eu cyfoeth mewn haiarnfa yn Merthyr. Dewiasant hwy ochr orllewinol afon Taf, a chawsant lês ar y tir gan y perchenogion, sef yr Anrhydeddus William, Iarll Talbot, Barwn Hensol, a Michael Richards, Ysw., Caerdydd. Gwnaed y lês gan gyfreithiwr o'r enw Bold, Aberhonddu, a'i dyddiad oedd Mawrth 25, 1765, ac i barhau hyd Mawrth 25, 1864. Y swm a delid am hawl i weithio mwn a glo, &c., yn yr holl dir a lêswyd oedd £200 y flwyddyn. Yr oedd y darn tir tua phum' milldir o hyd wrth ddwy o led—mwy medd rhai. Cymmerodd Bacon a Brownrig lês ar ddarn mawr arall o dir ar y tu dwyreiniol i afon Taf, Mai 1, 1765, gan yr Anrhydeddus Lewis Windsor Hickmann, Iarll Plymouth. Dywed traddodiad mai ar dir Iarll Plymouth yr adeiladodd Bacon ei ffwrnes gyntaf, ac iddo godi efail gof yn y man y saif gwaith Gyfarthfa yn bresenol. Ymddengys, pa fodd bynag, fod ffwrnes wedi ei chodi yn flaenorol ar dir Iarll Plymouth gan Wilkinson a Guest, a diau mai prynu y ffwrnes hono a wnaeth Bacon a'i gyfaill. Barna rhai mai Cyfarthfa Bleiddiaid oedd yr enw cyntefig, ac iddo gael yr enw am fod bleiddiaid yn arfer udo a chyfarthfyn yn y nos yn y cynoesoedd. Cyfarthfa Cwn medd ereill, ac iddo gael yr enw am ei fod yn fan cyfarfod gan drigolion yr ardal cyn cychwyn i hela. Yr oedd y lle yn hynod goediog yn y cynoesoedd, fel y dengys yr enwau Cefn-coed-y-cymmer, Coed Meurig, &c.



Yn 1765, adeiladodd Bacon a Brownrig ffwrnes gyntaf Gyfarthfa, ger uniad y ddwy Daf. Cyn hyny, dygid yr haiarn o ffwrnes Plymouth at efail Gyfarthfa ar gefnau mulod; ond wedi adeiladu ffwrnes Gyfarthfa, cafordd ffwrnes Plymouth ei gadael. Cludid haiarn Gyfarthfa, fel eiddo Dowlais, i'r porthladd ar gefnau ceffylau a mulod, dros heol Ferthyr i ben y mynydd, ac yna heibio Twyn y Waun, pentref Gelli-gaer, Caerffili, &c. Yr oedd Bacon a'i gyfaill yn gweled mai trafferthus iawn oedd cludo yr haiarn o Gyfarthfa i dop Dowlais, am fod cym-maint o godiad yn y tir. Yr oeddynt yn gweled hefyd y buasai y draul yn ormod iddynt hwy wneyd heol newydd i lawr trwy Gwm Taf hyd Fynwent y Crynwyr heb gael help y plwyfolion. I'r dyben o ddwyn hyn oddiamgylch, gwahoddodd Bacon luaws o brif amaethwyr y plwyf i wledd a barotowyd iddynt ar ei draul ef a'i gyfaill. Wedi mwynhau o'r arlwyon, dangosodd Bacon iddynt y fantais o gael heol trwy Gwm Taf hyd Lan Caeach, i gyfarfod â'r brif heol yno, yn hy-trach na dringo heibio Dowlais i ben y mynydd tuag at fyned i brif dref Senghenydd, sef Caerffili, &c. Dywedodd ei fod ef a'i gyfaill Brownrig yn foddlon cymmeryd rhan helaeth o'r draul, os buasent hwythau yn myned i'r gweddill. Boddlonwyd gwneyd, a rhoddwyd y gorohwyl i Robert Thomas, tadcu y diweddar Dr. Thomas o'r Court, a gorphenwyd yr heol tua'r flwyddyn 1767. Yr oedd y rhan hono o'r heol rhwng Merthyr a Throedyrhiw ychydig yn fwy dwyreiniol na'r un bresenol. Mae rhan o'r hen heol yn aros, rhwng y Pentrebach a'r Dyffryn. Yr oedd gwneuthuriad yr heol hon yn welliant mawr, a dygid haiarn Gyfarthfa ar hyd-ddi mewn cewyll ar gefnau ceffylau fel o'r blaen. Yr oedd Bacon wedi adeiladu ty iddo ei hun ger y ffwrnes erbyn hyn, a John Guest wedi adeiladu preswylfa ar lan y Morlais yn agos i Ddowlais, ac y mae yn amlwg fod y ddau yn gryn gyfeillion. Y Tai Mawr y gelwir hen dy Bacon yn bresenol, ac y mae ei arf-bais, sef llun mochyn, yn weledig ar y *mantelpieces* ger lle tânau yr hen dy yn awr. Wrth weled rhagolygon da am lwyddiant, ac angen hel-aethu'r gwaith, ac nad oedd plwyfolion Merthyr yn fedrus na chyfar-wydd mewn gwneuthur haiarn, ar gais Mr. Bacon anfonodd Mr. Guest at amryw o'i gydnabod yn swyddi Stafford a Worcester, i geisio gan-ddynt ddyfod i Ferthyr. Ar ei gais ef, mae'n debyg, y daeth y tri brawd, Samuel, Jeremiah, a Thomas Homphray i'r lle, y rhai oeddynt feibion i berchen ffwrnes Calcott a morthwylfa Stewpony. Yr oedd y rhai hyn yn lled gyfoethog. Daeth amryw weithwyr hefyd gyda hwy, megys Joseph Hesman, ei ddau fab John a Willam, a'i ddwy feroh; Benjamin Brown, gof; Charles a Thomas Turley, coethwyr haiarn (*refiners*), ac amryw ereill. Daeth y rhai hyn mewn llong i Gaerdydd, ac mewn math o bedrolfemi i Ferthyr, Mai 18, 1782. Mae un o hiliogaeth Turley yn gweithio yn Abernant yn bresenol (1878), a disgynydd o Ben Brown yw T. Brown, Ysw., Casnewydd. Nid fel gweithwyr y daeth yr Homphrays i'r lle, ond fel cyfoethogion antur-iaethus, a gwnaethant gytundeb â Mr. Bacon i adeiladu *Refinery* a Morthwylfa ger ffwrnes Gyfarthfa, ar y telerau ei fod ef i'w diwallu ag haiarn tawdd o'r ffwrnes am £4 10s. y dunnell, a glo am 4s. y dunnell.

Yr oedd Bacon wedi cael gafael yn mrigau rhai o wythieni glo Cwm Canaid ychydig cyn hyny, ac wedi dechreu efelychu John Guest i ddefnyddio glo yn lle *charcoal*. Yn mhen ychydig amser wedi i'r Homphrays adeiladu eu morthwylfa, a ohychwyn y gwaith, aeth yn anghydfod rhyngddynt â Mr. Bacon, am ei fod yn methu eu diwallu â digon o haiarn. Yr achos o hyn oedd, fod Bacon, fel aelod seneddol dros Aylesbury, wedi llwyddo i wneyd cytundeb â'r Llywodraeth i'w diwallu â gynau (*cannons*) at wasanaeth y fyddin a'r llynges yn y Gwrthryfel Americanaidd. Cludid y gynau hyn o Ferthyr i Gaerdydd mewn pedrolfeni, ac anfonid hwy oddiyno mewn longau i Plymouth a Portsmouth. Terfynodd yr ymryson rhwng Bacon a'r Homphrays, trwy i'r Homphrays werthu eu morthwylfa i Mr. David Tanner o Sir Fynwy. Tua'r un amser ail gychwynodd Bacon ffwrnes Plymouth. Arolygid gwaith Gyfarthfa gan Mr. Richard Hill, yr hwn oedd yn briod â chwaer Bacon. Yn 1784, rhoes Bacon y ddau waith o'i ofal, trwy gytuno â Mr. Tanner i gymmeryd at Haiarnfa Gyfarthfa, ar yr amnod ei fod i dalu pump swllt y dunnell iddo ef am bob tunnell o haiarn a gynnyrchai y gwaith. Rhoes ffwrnes Plymouth i Mr. R. Hill ar yr un telerau. Bu Mr. Bacon yn cynnyrchioli Aylesbury yn y Senedd amryw weithiau,—yr ail dro yn 1768, wedi hyny yn 1774, a thrachefn yn 1780. Tua'r fiwyddyn 1791, adeiladodd Mr. Bacon Balas Aberaman, yn mhlwyf Aberdar, yn breswylfa iddo ei hun. Yr oedd erbyn hyny wedi dysgu siarad a darllen Cymraeg, ac yn gymwynaswr caredig i lenorion yr ardal. Am ei garedigrwydd, anrhegwyd ef â chopi o'r "Gododin," gan Edward Evan, Ton Coch, mae'n debyg. Tri chopi o hono oedd mewn bodolaeth ar y pryd,—un yn y British Museum, yr ail yn yr Hengwrt, a'r llall yn Aberdar. Bu y copi gafodd Bacon yn meddiant Rhys Nanmor a Gwilym Tew Morganwg yn 1460, ac y mae eu henwau ar y copi. Rhoddodd Mr. Thomas Bacon ei fenthyg i Theophilus Jones, awdwr "Hanes Brycheiniog;" ond ni ddychwelwyd ef. Wedi marw Theophilus Jones, rhoddwyd y copi gan ei weddw i Carnhuanawc, a daeth wedi hyny yn eiddo Syr Thomas Phillips, Middle Hill, Worcestershire.

Wedi i Mr. Tanner gymmeryd at waith Gyfarthfa, daeth Meistri Bowser a Cockshutt yn rhan-feddiannwyr. Ni fu nemawr lwydd ar yr undeb hwn,—gwerthodd Tanner ei ran ac ymadawodd, a gwerthodd Bowser ei ran drachefn, ac aeth i gychwyn gwaith ar Hirwaun, fel y daeth Gyfarthfa yn eiddo Cockshutt ei hun. Dan yr amgylchiadau hyn, prynodd Mr. Richard Crawshay ran yn y gwaith. Mab amaethwr o swydd York oedd R. Crawshay, a phan yn llango ymrysonodd â'i dad, ac yn y ffræ hawliodd Richard ei ferlyn ei hun, ac aeth ar ei gefn bob cam i Lundain. Gwerthodd ef yno am £15, a chyn iddo dreulio yr arian, cyflogwyd ef gan Mr. Bicklewith, *Ironmonger*, a bu yn ei wasanaeth am flynyddau lawer. Pan roddodd ei feistr y fasnach i fyny, cymmerodd Richard ati, a bu mor llwyddianus, fel y casglodd ddigon o gyfoeth i'w alluogi i brynu rhan o waith Gyfarthfa. Gadawodd ei fasnach yn Llundain dan ofal ei fab, a daeth yntau i fyw i Ferthyr. Yn fuan wedi ei ddyfodiad i'r lle, adeiladwyd

Morthwylfa newydd a Melin Rolio yn Gyfarthfa, er gwneyd haiarn morthwyladwy, yn ol cynllun Mr. Henry Cort, ac am yr hawl telid 10s. y dunnell i'r dyfeisydd. Erbyn 1789, yr oedd Haiarnfa Gyfarthfa yn alluog i gymnyrchu *tair tunnell* yr wythnos o farau haiarn! Yr oedd y gwaith yn dyfod yn mlaen yn dda yn awr, ond teimlid y rhwystrau i gludo yr haiarn i'r porthladd yn fawr iawn. Gan fod Gweithfeydd Dowlais, Plymouth, a Phenydarren yn myned yn mlaen yn dda yn ogystal â Gyfarthfa, a bod perchenogion y naill fel y llall yn teimlo yr anhawstra hwn, penderfynasant furfio cwmni er cael trysorfa i dalu am wneyd gwell trosglwyddfa na'r heol. Yn y cyfyngdra hwn, cynlluniodd Mr. Homphray, Penydarren, y Camlas o myl Gwaith Gyfarthfa hyd Gaerdydd. Dygwyd y gwaith yn mlaen dan arolygiaeth Mr. R. Crawshay. Dechreuwyd ef yn 1791, a gorphenwyd ef yn 1798, ar y draul o £108,660. Wedi cael y camlas yn barod, anfonid holl haiarn Merthyr a Dowlais ar hyd-ddo i Gaerdydd mewn badau, yn cario tua 15 tunnell yr un, ac yr oedd hyny yn hwylusod mawr.

Gwr enwog iawn yn nghysslwt â Gwaith Gyfarthfa y pryd hwnw oedd Watkin George, y Peiriannydd. Efe oedd dyfeisydd Rhod Fawr Gyfarthfa, fel ei gelwid. Dywed traddodiad ei fod yn gofyn yn aml i Mr. R. Crawshay am gael gwneyd rhod ddwfr fawr er ysgogi'r peiriannau a chwythu y ffwrnes, &c. Yu y diwedd dywedodd Mr. Crawshay wrtho am wneyd *model* o honi, er mwyn iddo ddeall ei feddwl yn well. Gwnaed rhod fechan ar ei gais, a dangoswyd hi iddo. Hoffodd yntau y cynllun, a gofynodd i Mr. George beth fuasai y draul o wneyd yr un fawr. Wedi cyfrif, cafwyd y buasai yn costi £4,000! Yn ngwyneb hyn, dywedodd Mr. Crawshay mai un o ddau beth am dani, os na fuasai yn ateb y dyben y buasai yn ddinystri i'w amgylchiadau; ond o'r tu arall, os buasai yn troi allan fel ag oedd Watkin yn dweyd, y buasai yn foddion i wneyd *fortune* iddo. Yn ganlyniol i hyn, gwnaed y rhod fawr gan Mr. W. Aubrey, yn ol cynllun Mr. George, yn 50 troedfedd tryfesur, 6 o led, a'r llyfrothenau (*guideons*) ar y rhai y pwysai yn 100 tunnell yr un, ac wedi eu gwneyd ag haiarn tawdd. Disgynai y dwfr arni mewn tri man, y naill uwchlaw'r llall, a throdd yr anturiaeth allan yn rhagorol. Mae y rhod hono wedi ei thynu i lawr er ys llawer o flynyddau bellach, a pheiriannau ager yn ei lle.

Yn 1795, yr oedd dwy ffwrnes dawdd, coethfa, morthwylfa, a melin rollo yn Gyfarthfa. Yn 1801, adeiladwyd dwy ffwrnes ar yr Ynysfach, wrth gynllun Mr. Watkin George, a'r un flwyddyn adeiladwyd y bont haiarn dros y Taf, wrth gynllun yr un gwr. Dywedai Malkin (1808) mai Haiarnfa Mr. Crawshay oedd y fwyaf o'r fath yn y deyrnas—ei fod yn alluog i wneyd o 60 i 70 tunnell o fariau haiarn yn wythnosol, a bod ganddo ddwy ffwrnes newydd yn agos parod, ac yna y buasai yn gallu gwneyd 100 tunnell yr wythnos. Dywedai hanesydd arall yn 1804, fod gan Mr. Crawshay bedair tawdd-ffwrnes, gyda nifer o rai llai, morthwylfa, a melin rollo. Wrth weled y gwaith yn myned ar gynydd mor gyflym a llwyddiannus trwy offerynoliaeth Mr. George, darfu i Mr. Crawshay gynyg rhan yn y gwaith iddo, yr hyn a dder-

byniodd, a bu yn un o'r Cwmpeini am 18 mlynedd. Pan ymadawodd Mr. George i gyohwyn Haiarnfa Pontypool, gyda Mr. Leigh, yr oedd yn werth £20,000. Yn 1805, yr oedd chwech ffwrnes dawdd, dwy felin rollo, &c., yn y Gyfarthfa. Yn 1806, cyflogid 1,500 o weithwyr ynddo, a gwnaed 9,906 tunnell o haiarn ganddynt y flwyddyn hono. Yr oedd yma bedwar agerbeiriant yn gweithio erbyn hyn—un yn allu 50 ceffyl, arall 40, arall 12, arall 7. Y pŵerhogion oeddynt Meistri Crawshay, Hall, a Bailey. Tad y diweddar Arglwydd Llanofor oedd y Mr. Hall hwn. Yr oedd tad Mr. B. Hall yn rhan-feddiannydd yn Nghamlas Merthyr a Chaerdydd, ac yn berchen llawer o gyfoeth. Cododd ei fab yn far-gyfreithiwr, yr hwn a roddodd i fyny'r gyfraith, a daeth yn rhan-feddiannydd yn Haiarnfa Gyfarthfa. Priododd â merch Mr. R. Crawshay, ac ar ei briodas cafodd Waith Rhymini yn gynnysgaeth gyda'i wraig. Ychydig cyn hyny yr oedd Mr. Crawshay wedi rhoddi £100,000 am Waith Rhymini. Gwerthodd Mr. Hall y gwaith hwnw drachefn, a bu farw yn 39 mlwydd oed, gan adael ei holl gyfoeth i'w fab, y diweddar Arglwydd Llanofor. Mr. Joseph Bailey oedd nai i Mr. Crawshay, a daeth i Gyfarthfa at ei ewythr yn fachgen tlawd. Dywedir fod ei ddyfodiad i'r lle fel y canlyn:—Un diwrnod, tra yr oedd Mr. Wayne, goruchwyliwr ffwrnesi Gyfarthfa, gyda Mr. Knowles, yr is-arolygydd, ar neges dan Mr. Crawshay yn y Basin, ger Mynwent y Crynwyr, daeth bachgenyn gwledig yn mlaen atynt i ofyn cyfarwyddyd i fyned at Waith Mr. Crawshay. Gofynasant iddo pa beth a fynai ef â Mr. Crawshay. "Mae yn ewythr i mi," ebe'r bachgen, "ac yr wyf wedi clywed ei fod yn berchenog ar waith haiarn, a phe gallwn fyned ato yr wyf yn credu y cawn waith ganddo," ac yohwanegai ei fod wedi cerdded yr holl ffordd o swydd York yno. Parodd hyn iddynt synu, a'r canlyniad fu iddynt ei gymmeryd gyda hwy yn y cerbyd i Ferthyr, ac hyspyswyd yr helynt i Mr. Crawshay. Holodd yntau y bachgen, a chafodd ei foddioni ei fod yn nai iddo, a chafodd waith. Yn fuan iawn, sylwodd Joseph Bailey fod yn agos cymmaint o geirch yn cael ei ladratta o'r ystablau ag oedd yn cael ei fwyta gan y ceffylau, a gwnaeth hyny yn hyspys i'w ewythr. "Wel," ebe yntau, "os wyt yn meddwl hyn, ti gei ofal yr ystablau am flwyddyn, i gael gweled a elli arbed y draul." Felly y bu, ac yn mhen y flwyddyn yr oedd wedi arbed £500, ac anrhegwyd ef â'r swm hwnw gan ei ewythr. Dyna oedd dechreuad cyfoeth yr enwog Syr Joseph Bailey.

Pan fu farw Mr. R. Crawshay, Mehefin 27, 1810, yr oedd hawlianiadau y gwaith fel y canlyn:—Mr. W. Crawshay, 8; Mr. B. Hall, 8; Mr. Joseph Bailey, 2; ac yr oedd hawliau teulu Bacon wedi eu prynu allan am £95,000. Yn fuan wedi marwolaeth Mr. R. Crawshay, gwerthodd Meistri Hall a Bailey eu hawliau i Mr. W. Crawshay, yr hwn a roes ofal y gwaith i'w fab, y diweddar William Crawshay, Ysw., a Mr. Joseph Bailey. Ni fu W. Crawshay yr hynaf yn aros ond ychydig yn y lle ar ol hyn, a phan fu farw gadawodd dri mab, sef William, George, a Richard. Oddiwrth y George hwn y mae George Town, Merthyr, wedi cael yr enw. Bu yn cyd-lywodraethu â William

ei frawd am beth amser yn Gyfarthfa, ac yna aeth i Ffrainge, lle y priododd â boneddiges gyfoethog. Dychwelodd drachefn i Loegr, a threuliodd weddill ei oes i fasnachu mewn haiarn yn Gateshead. Priododd Meistri William a Richard â dwy chwaer, sef merched Mr. Thompson. Aeth Richard i gadw darllawdy yn Norfolk, ac felly daeth gwaith Gyfarthfa yn eiddo William. Yn 1815, gwnaed 18,200 o dunnelli o haiarn yn y gwaith hwn. Yn 1818, cafodd Mr. W. Crawshay a Mr. D. Mushet freinteb (*patent*) am ddyfeisio ffordd i gael haiarn o *slags* y copr. Yn 1819, gwnaed 11,000 tonnelli o haiarn tawdd, a 12,000 o haiarn bariau, yn y gwaith hwn. Yn 1825, adeiladwyd Castell Gyfarthfa, lle y safai hen amaethdy Tylau'r Fedw. Costiodd y castell £80,000. Mae iddo 865 o ffenestri, a diamheu mai efe yw'r adeilad harddaf yn y plwyf. Wedi gorphen y castell, symmudodd Mr. Crawshay iddo, a rhoddodd ei breswylfa flaenorol yn Ngwaelod y Garth i D. Meyrick, Ysw., cyfreithiwr. Yn 1845, adeiladwyd Melin Fawr Gyfarthfa, ar du dwyrain afon Taf, ac agorwyd hi Mawrth 18, 1846. Cynnwysa hon 20 ffwrnes *puddling*, 18 o rai *balling*, rholiau, llifau, &c., gyda pheiriant o allu 280 ceffyl. Yn mis Mawrth, 1847, gwnaed 6,144 o dunnelli o gledrau yn y felin hon yn unig, ac un bar o haiarn yn 27 troedfedd 6½ modfedd o hyd, ac yn pwyso 2,941 pwys. Dengys a gaulyn gynydd a maint y gwaith hwn :—

| Blwyddiad. | Rhif y Ffwrnesi. | Haiarn Wythnos yr un. | Cyfanswm. |
|------------|------------------|-----------------------|-----------|
| 1819       | 6                | 65                    | 29,000    |
| 1845-6     | 11               | 80                    | 45,760    |
| 1856       | "                | 105                   | 55,440    |
| 1857       | "                | 120                   | 60,000    |

Pan fu farw W. Crawshay, Ysw., yn 1867, daeth y gwaith helaeth hwn yn eiddo ei fab, Robert Thompson Crawshay, Ysw., yr hwn yw ei berchenog presenol. Cynnwysa y gwaith yn awr 11 ffwrnes ffast, 80 ffwrnes *puddling*, 12 coethfa, a 6 melin rollo, a chynnyrcha o 1,000 i 1,500 o dunnelli o haiarn yn wythnosol. I'r gwaith hwn y perthyn Glofa y Gethin, yn yr hon y dygwyddodd dau ffrydyriad llosgnwyol truenus : y tro cyntaf, Chwef. 19, 1862, pan y colodd 47 eu bywydau ; a'r ail waith, Rhag. 20, 1865, pan y lladdwyd 84 o bersonau.

*Haiarnfa Plymouth*, neu Ffwrnes Isaf.—Dengys llyfr y plwyf fod ffwrnes fechan gan Wilkinson a Guest ar dir Iarll Plymouth cyn i Bacon ddyfod i'r lle yn 1768. Ymddengys mai ar Goedocae Glynmil y safai y ffwrnes hono, a bu gweddillion un arall yn amlwg mewn lle a elwir Cwm y Wern Las. Fel y crybwyllwyd eisoes, prynodd Mr. Bacon Ffwrnes Glynmil, ac wedi cael les ar yr holl dir o amgylch gan Iarll Plymouth, adeiladodd ffwrnes fechan yn y fan y saif Gwaith Plymouth yn awr, a gelwid hi y Ffwrnes Isaf. Chwythid hono â dwy fegin, yn 25 troedfedd o uchder, yn cael eu hysgogi gan rhod ddwfr.

Pan roddodd Mr. Bacon y gwaith i fyny yn 1784, efe a gytunodd â'i frawd-yn-nghyfraith Richard Hill i gymmeryd at y Ffwrnes Isaf, fel yr awgrymwyd eisoes. Wedi marwolaeth Mr. A. Bacon, prynodd B. Hill y ffwrnes, a'r hawl i weithio y mwn a'r glo, &c., fel y daeth yn berchen ar y gwaith. Dygid yr holl lo y pryd hwnw at y ffwrnes o dir y Waun Wyllt, y tu arall i afon Taf, a gwerthai Mr. Hill ei holl haiarn i berchenogion Gyfarthfa am £5 y dunnell. Bob yn ychydig, pa fodd bynag, daeth i fyned â'r haiarn i Gaerdydd, a chael £5 y dunnell o elw arno. Helathodd ei ffwrnes hefyd, fel yr oedd yn alluog i wneyd 2,200 tonnoll o haiarn tawdd yn 1796. Yn fuan ar ol hyny, adeiladodd ddwy ffwrnes ychwanegol, gyda pheiriant gwyth i'w chwythu, yr hwn a weithid â rhodau dwfr. Cynllunydd y peiriant oedd Mr. Thomas Aubrey, brawd y gwr a wnaeth rod fawr Gyfarthfa. Yn 1806, gwnaed 8,952 tonnoll o haiarn yn y gwaith, o dair ffwrnes. Yn 1807, ffurfiwyd Cwmni Morthwylfa Plymouth (*Plymouth Forge Co.*), yn cynnwys Meistri R. Hill hynaf, R. Hill ieuangaf, Miers, a Strattel, ac adeiladasant Forthwylfa Pentrebach, yn cynnwys 16 ffwrnes *puddling*, melin rollo, a pheiriant cryf, yn cael ei ysgogi gan ddwfr. Yn mhen ychydig ar ol hyn, ymadawodd Mr. Strattel; ac nid ymddengys i Mr. Miers gymmeryd nemawr ddyddordeb yn y gwaith. Ar farwolaeth R. Hill hynaf, daeth y gwaith yn eiddo ei blant, sef Richard, John, Anthony, Elizabeth, a Mary. Unodd John â'r *East India Company*, a bu ei anturiaethau mewn hap-chwareu, &c., yn gollod a gofid i'w frodyr. Yr oedd Anthony Hill yn un o brif fferyllwyr y wlad, a threuliodd lawer o'i oes i ddyfeisio gwelliantau yn ngwneuthuriad haiarn. Yn 1814, ceisiodd gael *patent* am ddyfeisio ffordd i gael haiarn o *cinders* y *puddling*, &c.; ond gwrthwynebwyd ef ar y tir fod y ddyfais wedi ei darganfod yn flaenorol, ac nad oedd ef ond wedi gwneyd gwelliant ar y gwreiddiol, ac felly methodd gyrhaedd ei amcan. Wedi hyny, dyfeisiodd ffordd i wneyd haiarn tawdd addas i'r ffwrnes *puddling* heb ddefnyddio coethfa (*refinery*). Hyn oedd dechreuad cynllun Bessemer. Yn 1815, adeiladwyd y bedwerydd ffwrnes yn Plymouth. Yn 1819, adeiladwyd ffwrnes gyntaf yn y Dyffryn, tua milldir a hanner yn fwy deheuol na'r lleill. Yn 1824, adeiladwyd dwy ereill yno, gyda pheiriant ager cryf i'w chwythu. Yn 1841, adeiladwyd Melin Fawr Pentrebach, yr hyn a ychwanegodd lawer at y gwaith. Yn 1844, bu farw R. Hill, Ysw., fel y daeth y cwbl yn eiddo A. Hill, yr hwn a gariodd y gwaith yn mlaen yn llwyddiannus hyd ddiwedd ei oes yn 1862. Yr oedd haiarn y gwaith hwn tua 10s. y dunnell yn uwch ei bris yn y farchnad nag haiarn unrhyw waith yn Nghymru yn amser A. Hill, am ei fod yn rhagori o ran ei natur. Yma y gwnaed haiarn cadwyni angorion y *Great Eastern*. Ar farwolaeth A. Hill, cynnwysai y gwaith 10 tawdd ffwrnes, 60 o ffwrnesi *puddling*, 7 melin, &c., a chynnyrchai tua 70,000 o dunnelli o haiarn yn flynyddol. Dengys a ganlyn y cynnyrch mewn gwahanol flynyddau:—

| BLWYDD. |    | TUNWELL. | BLWYDD. |    | TUNWELL. |
|---------|----|----------|---------|----|----------|
| 1796    | .. | 2,200    | 1880    | .. | 12,177   |
| 1806    | .. | 5,952    | 1840    | .. | 12,922   |
| 1815    | .. | 7,800    | 1845    | .. | 20,120   |
| 1820    | .. | 7,941    | 1846    | .. | 35,198   |

Yn mhen tua blwyddyn ar ol marwolaeth A. Hill, Ysw., gwerthwyd y gwaith hwn gan y perthynasau i Meistri R. Fothergill, A.S., Thomas Alers Hankey, a Bateman, am £250,000, ac y mae yn cael ei gario yn mlaen dan lywodraeth R. Fothergill, Ysw., yn bresenol.

*Gwaith Penydarren.*—Ar ol yr ymryson a gymmerodd le rhwng Mr. Bacon a'r Homphrays yn Gyfarthfa, o barthed yr haiarn, &c., darfu i'r tri brawd, Samuel, Thomas, a Jeremiah, ardrethu tyddyn bychan Penydarren am £8 y flwyddyn, i'r dyben o godi haiarnfa arno. Unwyd â hwy hefyd gan Mr. George Forman, gwr cyfoethog o Lundain. Barnai y brodyr hyn fod ffwrnes eu tad yn rhagori ar rai Merthyr, neu nid oedd croesaw iddynt i gymmeryd mesuriadau ffwrnesi Merthyr, oblegyd gorfu arnynt anfon personau yr holl ffordd o Benydarren i Stewpony, ger Stourbridge, swydd Worcester, ar fin swydd Stafford, i fesur y ffwrnes hono, er mwyn codi un yn ol yr un cyllun. Teithiodd y mesurwyr dros y mynyddau, heibio Blaen Rhymni, y Trefil, ac yna trwy swydd Henffordd, gan dynu "llwybr llygad," nes cyrhaedd pen y daith. Mesurwyd y ffwrnes, nid â *rule and compass*, ac nid â'r *tape* ychwaith, ond â gwial! Wedi gorphen mesur, cylymwyd y gwial yn sypyn gyda'u gilydd, a chychwynwyd yn ol tua Merthyr. Ar eu ffordd yn ol, troisant i dafarn i lettya dros nos. Bore tranoeth, ar ol boreufwyd, dechreuasant chwilio am y sypyn coed, er mwyn myned yn mlaen i'w taith; ond er chwilio pob congl o'r ty, nid oedd y coed i'w cael. Yna dechreuasant gadw stwr â gwr y ty, gan achwyn eu bod wedi cael eu hyspeilio, &c., pryd y cyfaddefodd y forwyn ei bod hi wedi defnyddio y sypyn coed i gynneu tân y bore! Yn ngwyneb yr anffawd, gorfu arnynt fyned eilwaith i Stewpony, i ail fesur, a ohael sypyn newydd o wiail, a bod yn fwy gofalus o honynt na'r waith gyntaf. Wedi dychwelyd i Benydarren a'r mesuriadau coed, adeiladwyd ffwrnes yno yr un faint ag un Stewpony, a chan fod digon o fwn a glo yn ymyl y ffwrnes, a dim ond ychydig o draul i'w eloddio, daeth y gwaith i dalu ar unwaith. Yn 1796, adeiladwyd yr ail ffwrnes, a phrydleswyd amryw fân dyddynoedd heblaw tyddyn Penydarren, ac yn eu plith Ton-y-ffald. Yr oedd £4 y flwyddyn o ardreth y tir hwn i'w talu at wasanaeth Capel Ynysgau, yn ol ewyllys John Williams, y perchenog, yr hon a wnaed yn 1785. Bu llawer o ymglyfreithio yn nghylch y tir hwn wedi hyny rhwng perchenogion gwaith Penydarren ac ymddiriedolwyr Capel yr Ynysgau, yn amser y Paroh. T. Evans. Pan adeiladwyd yr ail ffwrnes, anfonodd yr Homphrays i Loegr am ychwaneg o weithwyr, ac yn eu plith daeth dynion o'r enwau Aston, Brown, Smith, Wilde, &c. Disgynydd o'r Smith

hwnw yw Mr. John Smith, arolygydd glofeydd Abernant yn bresenol. Gwnaed 4,100 tunnell o haiarn yn Mhenydarren yn 1796, tra na wnaed yn Dowlais ond 2,200. Yn 1808, suddwyd pwll glo gan berchenogion Penydarren ger y Pentrebach, mewn darn o dir a brydleswyd ganddynt yno. Ymddengys mai nid gan arlywyd y tir y leswyd ef, ond gan yr amaethwr oedd a les arno yn barod. Bu y pwll hwnw yn eiddo perchenogion Penydarren am flynyddau lawer. Tua'r un amser y cafwyd *Act Seneddol* i wneyd *tramroad* o Ferthyr hyd y Basin Isaf, ger Mynwent y Crynwyr, tua naw milldir o ffordd. Hon oedd y *tramroad* gyntaf a wnaed yn y deyrnas yn ol Gweithred Seneddol, ac ar hon y rhedodd agerbeiriant gyntaf, nid yn unig yn y deyrnas hon, ond yn yr holl fyd. Mae yn deilwng o sylw yn y fan hon, mai dyn yn byw o flaen ei oes, fel y dywedir, oedd Mr. Samuel Homphray : efe gynlluniodd y Camlas o Ferthyr i Gaerdydd, ac efe hefyd a gynlluniodd y *tramroad*, ac a fu yn offeryn i ddwyn *locomotives* i wasan-aethu'r byd. Yn 1808, cynwystlodd fil o bunnau â Mr. R. Crawshay y buasai yn myned â llwyth o haiarn, 10 tunnell, o waith Penydarren, wrth rym ager, dros y *tramroad* newydd i'r Basin Isaf, naw milldir o ffordd, yn ol y cyflymdra o bum' milldir yr awr. Yr oedd hyn yn anghredadwy i bawb braidd yr oes hono, ond nid felly i Mr. S. Homphray. Gwyddai ef fod y fath ddyn â Richard Trevethick yn byw yn Cornwall, a'i fod wedi dyfeisio agerbeiriant symmudol i Messrs. Vivian & Co. yn 1802, y rhai a gawsant *patent* arno ; ond ymddengys mai ar heol heb gledrau y rhedai hwnw. Cyflogodd Mr. S. Homphray y celfydd R. Trevethick i wneyd agerbeiriant symmudol ar raddfa eangach iddo ef. Gwnaed y peiriant yn ngwaith Penydarren gan Mr. Trevethick, yn cael ei gynnorthwyo gan Mr. Rees Jones, yr hwn oedd wr adnabyddus yn Merthyr hyd yn ddiweddar fel diacon yn Nghapel Seion, ac yn byw ger Pontmorlais. Gorphenwyd y peiriant, a gelwid ef "*Trevethick's High Pressure Tram Engine.*" Chwefror 12, 1804, oedd dydd y prawf. Gosodwyd y peiriant yn barod, a llwyth o ddeg tunnell yn nglyn ag ef, tra yr oedd holl drigolion y lle braidd yn sefyll gerllaw, ac yn llygadrythu mewn syndod anorchfygol, gan ddysgwyl gweled y peiriant yn ysgogi. Yn mhlith y dorf yr oedd Meistri S. Homphray a R. Crawshay, a holl swyddogion eu gweithfeydd. Ar y peiriant safai William Richard, y gyrwr, yn dysgwyl y gorohymmyn i gychwyn. Rhoddwyd y gorohymmyn gan Trevethick—gosodwyd yr ager i weithredu—dechreuodd cymmalau y peiriant ysgogi yn araf, a gwelid yr olwynion yn troi, tra Mr. Crawshay mewn perygl o golli ei fil o bunnau. Yr oedd 70 o bersonau ar y *trams* gyda'r haiarn ; ond er hyn yn mlaen yr oedd y peiriant yn myned, a'i lwyth gydag ef. Yn ymyl gwaith Plymouth, tarawodd ffumer y peiriant yr erbyn pont, a chan mai priddfeini oedd defnydd y ffumer, hi a syrthiodd, a bu yn *full stop* arnynt am ychydig ; ond ni fu Trevethick yn hir cyn gosod pob peth yn iawn i ail gychwyn, a llwyddwyd i gyrhaedd pen y daith dan yr amser pennodedig. Ni fu y peiriant hwn yn gweithio yn hir iawn ar y *tramroad*,—gwnaed un mwy pwrpasol, a chafodd yr un gwreiddiol ei symmud i weithio pwll glo *Winch Fawr* Penydarren, a



bu W. Richards yn ei weithio am 50 mlynedd. Trueni na chawsai yr hen beiriant hwnw ei symmud i'w gadw yn yr Amgueddfa Brydeinig neu ryw le cyffelyb; ond ymddengys nad oes ond un *cylinder* o hono ar gael yn awr, yr hwn sydd yn Dowlais. Prawf hyn mai i Mr. Richard Trevethick y mae'r byd yn ddyledus am ddyfeisio agerbeiriant symmudol, ac nid i Mr. George Stephenson; ond y mae'r clod am y gwelliant ar y gwreiddiol yn ddyledus iddo ef.

O fis Hydref, 1805, hyd Hydref, 1806, gwnaed 6,968 tonnell o haiarn yn y gwaith hwn. Yn 1811, adeiladwyd y drydedd ffwrnes, a dwy felin rollo. Priododd Mr. Samuel Homphray â chwaer Syr Charles Morgan, Arglwydd Tredegar, a phrydlesodd 8,000 o erwi o dir gan Syr Charles am 2s. 6ch. y flwyddyn am 99 mlynedd, a dechreuodd Waith Tredegar, Myrwy, ar y tir hwnw. Yr Homphrays adeiladasant ffwrnes gyntaf Sirhowi a Glyn Ebbw hefyd. Pan oeddynt yn eangu eu gweithfeydd fel hyn, daeth yr Henadur Thompson mewn undeb â hwy, yr hwn oedd wr cyfoethog iawn. Fel yr awgrymwyd eisoes, gan fod Cwmni Gwaith Dowlais wedi lesio y tir yn ymyl Gwaith Penydarren am £72 y flwyddyn gan Iarll Bute, bu rhaid i berchenogion Penydarren wneyd cytundeb â pherchenogion Dowlais am hawl i weithio'r glo a'r mwn yn y tir hwnw, a buont yn talu, fgl y sylwyd, £10,000 y flwyddyn am yr hawl hono. Yn 1815, gwnaed 7,800 tonnell o haiarn yn y gwaith hwn. Yn 1819, codwyd dwy ffwrnes ychwanegol, a daeth y gwaith yn un pur enwog. Yn y gwaith hwn y gwnaed cledrau (*rails*) gyntaf yn Nghymru, sef cledrau at y rheilffordd hynaf yn y wlad, rhwng Liverpool a Manchester, yr hon a agorwyd mis Medi, 1825. Yma hefyd y gwnaed cadwyni Pont Menai (*Menai Suspension Bridge*), yr hon a ddechreuwyd Awst 10, 1820, ac a agorwyd Ionawr 30, 1826. Yn 1830, ymadawodd yr Homphrays o Benydarren, a daeth y gwaith yn eiddo Meistri Forman a Thompson. Erbyn 1845, cynnwysai y gwaith saith tawdd ffwrnes, coethfa eang, morthwylfa, melinau, &c., a chynnyrchai 15,600 o dunnelli o haiarn gorphenedig. Ar farwolaeth yr Henadur Thompson, daeth yr Haiarnfa yn eiddo W. Forman, Ysw., a daeth ei frawd, R. Forman, Ysw., i lywodraethu y gwaith. Gosododd hwnw lawer o arian allan i wneyd gwelliantau pwysig ac angenrheidiol yn y gwaith, a hyn y heb egluro'r manylion i'w frawd yn Llundain.

Pan aeth W. Forman i gymharu y treuliau a'r elw am y flwyddyn 1858, gwelodd fod y blaenaf yn gorbwyso yr olaf: ac heb holi dim i'r achos, mewn pang o fyrbwylldra, efe a werthodd ei hawl yn y glo a'r mwn i berchenogion Dowlais, heb hyspysu gair o'i fwriad i Richard ei frawd. Y canlyniad fu i'r haiarnfa eang sefyll yn mis Mai, 1859, yr hyn a fu yn golled fawr iawn i'r lle.

Ail gychwynwyd ef Ionawr 19, 1874, gan Meistri David Davis, Thomas Williams, a Thomas Phillips; ond gan fod y tir a gynnwysai y glo a'r mwn wedi ei werthu, ni wnaeth y rhai hyn nemawr ddaioni; ac felly yn mhen ychydig amser gwerthasant y gwaith i R. Fothergill, Ysw., A.S., a'i Gyf. Yn 1872 gosodwyd *rails* yn lle *tramples* ar yr hen *tramroad*, o waith Penydarren hyd odre yard y V.N.R., er gallu-

ogi agerbeiriannau i redeg o waith Plymouth hyd Penydarren. Er y cwbl, ychydig o fywyd sydd yn yr hen haiarnfa ragorol hon yn awr; ac nid yw yn debyg y gwelir hi byth mor llewyrchus ag y bu.

Haiarnfa Penydarren yw'r drefnusaf o ran cynllun a welsom erioed. Trefnwyd y cwbl ar y cyntaf yn y modd mwyaf manteisiol. Dygid y glo a'r mwn ar y goriwaered at y fwrnesi, yna dygid yr haiarn i waered i'r goethfa,—i waered drachefn o'r goethfa i'r forthwylfa,—i waered oddiyno eilwaith i'r melinau, ac i waered oddiyno i'r farchnad. Y cwbl a lusgid i godiad tir oedd ysgarthion y fwrnesi. Gallesid dwyn y glo o'r pwll pellaf a berthynai i'r gwaith yn Nghwm Bargoed, i ben y fwrnesi mewn hanner awr; ac etto, er yr holl fan-teision hyn, diffianodd ei ogoniant pan werthwyd y mwneu gan W. Forman, Ysw.

Y pedwar gwaith eang a enwyd ydynt brif weithfeydd y plwyf, er fod yma luaws o fan weithfeydd ereill, megys *foundries*, &c. Un gwaith glo ager o bwys sydd wedi cael ei weithio yn y lle, heb fod yn perthyn i'r haiarnfaoedd, sef Glofa'r Waun Wylt, yn ymyl y camlas ger Abercanaid; ond y mae glofa eang iawn yn cael ei suddo yn bresennol ar dir Ynys Owen, tua 5 milltir i'r de o'r dref, gan Meistri Nixon, Taylor a Corey. Mae glofa Dan-y-deri (glo tai) wedi ei chysylltu â gwaith Plymouth yn ddiweddar. Er mai ychydig o lo ager, mewn cymhariaeth, sydd wedi ei weithio yn y lle dan yr enw hwnw, etto, y mae o'r fath oren yn y deyrnas; yn gymmaint felly fel y cysylltir yr enw *Merthyr* â glofeydd Aberdar, Cwm Rhondda, Cwm Nedd, &c., am fod glo Merthyr bob amser yn gymmeradwy yn y farchnad.

Mae yn perthyn i Ferthyr amryw faes-bentrefi heb fod yn hollol gyssylltiol â'r dref, megys Clwydyfagwyr, Gellideg, Penheolgerryg, ac Abercanaid, ar du gorllewinol afon Taf. Mae Dowlais a Phenydarren fel dwy dref fawr ynddynt eu hunain, tra mae'r Mountain Hare, Cilfach Cynon a'r Pentrefbach yn bentrefi poblog ar du dwyreiniol afon Taf. Troedyrhiw drachefn sydd bentref mawr ar bob tu i'r afon, dair milltir yn ddeheuol i dref Merthyr. Yn 1844 nid oedd mwy nag 20 o dai yn Troedyrhiw; ond yn awr y mae yno amryw gannoedd, gydag Eglwys hardd, Ysgoldy Cenedlaethol, Ysgoldy Brytanaidd, a chapeli eang a heirdd gan y gwahanol enwadau Ymneillduol. Ychydig dai oedd yn Abercanaid hefyd yn 1840, ond yn awr y mae yno gannoedd lawer o honynt, gydag amryw gapeli gan yr Ymneillduwyr ac Ysgoldy Cenedlaethol gwych.

*Terfysgoedd.* — Mae tri therfysg pwysig wedi cymmeryd lle yn Merthyr, heblaw Strike Fawr, 1878. Cymmerodd y cyntaf le yn 1800. Achoswyd ef gan ostyngiad pris. Gan nad oedd undeb yn mhllith y gweithwyr y pryd hwnw fel yn awr, a chan nad oedd trysorfa ganddynt i bwyso arni, yn hytrach na marw o newyn, yn ngwyneb gorthrymder y meistri, darfu iddynt dan yr amgylchiadau dori i mewn i faelfa ymborth yn y pentref, a thafu yr ymborth oedd ynddi allan i'r heol, er mwyn i bawb ag oedd yno gael mantais i dori ei newyn. Yr oedd y can yn 15s. yr 28 pwys, halen 7½c y pwys, cig 1s. y pwys y pryd hwnw. Y canlyniad fu i'r meistri anfon am filwyr i'r lle, daliwyd dau

o'r gweithwyr, a dygwyd hwy i garhar Caerdydd,—cyhuddwyd hwy o fod yn flaenoriaid y terfysgwyr, a chrogwyd hwy. Enwau y rhai hyn oedd Aaron Williams a Samuel Hill. Claddwyd Aaron Williams yn mynwent Capel Seion, Merthyr.

Yn 1816, blwyddyn ar ol brwydr Waterloo, bu yma yehydig derfysg arall, mewn canlyniad i'r meistri yn gostwng cyflogau eu gweithwyr. Pan welodd y meistri agwedd anfoddog y gweithwyr yn cynnyddu, a'u bod yn penderfynu peidio gweithio ar y gostyngiad, gorchymynwyd gwneuthur digon o picellau haiarn a dur, i arfogi eu holl oruchwylwyr yn barod yn erbyn y gweithwyr. Pan ddaeth amser y rhybudd am ostyngiad i ben, palodd y gweithwyr dderbyn cynnygiad y meistri; ac arweiniodd hyn y ymryson, ac aeth y ddwy blaid yn lled fyfnig. Yr oedd byddin y meistri wedi ei harfogi a phicellau, ac ymosododd y gweithwyr arni a chawod o gerryg, nes peri iddi ffoi mewn annhrefn; ond ni chafodd neb niwed neillduol. Terfynwyd y terfysg hwn trwy i'r meistri addaw peidio rhoddi yr ail ostyngiad a fygythiwyd.

Yn 1881, Mehefin 8, y bu'r terfysg pwysicaf yn y lle. Achoswyd hwnw hefyd gan galedi yr amseroedd, a thrais gorthrymwr. Nid oedd cyflogau y gweithwyr uwchlaw 12 swllt yr wythnos ar y pryd, tra yr oedd ymborth mor uchel, fel yr oedd yn annichonadwy i weithwyr a theuluoedd lluosog gael angenrheidiau bywyd, a'u cyflogwyr ar yr un pryd yn casglu cyfoeth eithafol wrth wasgu ar y tlodion. Yr oedd gweithwyr mwyaf golunedig y wlad yn gwledu angen cael Diwygiad Seneddol, ac ereill yn dyheu am gael rhyw beth i symud ymaith y gormes oddiar eu gwarau. Edrychid gan y meistri ar weithiwr ag oedd yn beiddio ymyraeth a materion gwleidyddol, fel dyn peryglus ac anaddas i fod yn aelod o gymdeithas. Cadw y werin yn gaethion a digon isel eu hamgylchiadau oedd eu prif amcan hwy, er mwyn iddynt gael gorelwa ar eu llafur. Yr eegusawd a roddid y pryd hwnw fel mewn adegau diweddarach dros wasgu y gwan oedd achwyn fod sefyllfa'r farchnad yn isel, gan dybied fod y dosparth gweithiol yn rhy anwybodus i ddeall fod rheoleiddiad pris y farchnad yn hollol yn nwyllaw y meistri bob amser. Yn ngwyneb eu cyfyngdra, aeth y gweithwyr yn anesmwyth, gan ofyn am ychwaneg o gyfflog, yr hyn a omeddwyd. Canlynwyd hyn gan atal gweithio; a chan nad oedd lle gan y gweithwyr i gael ymborth, dan gynhyrifiadau y foment fel y dywedir, cariasant bethau i agwedd go fygythiol. Anfonodd y meistri am filwyr i'r lle, a daeth rhan o'r 98 gatrawd (Highlanders)—Gwyr y Peisiau Bach, fel eu gelwid gan y Cymry. Aeth y miloedd gweithwyr i'w cyfarfod i Heol Aberhonddu, a thorth o fara ar ben pawl, yn arwydd iddynt mai angen bara oedd yn y lle. Dywedwyd hyn hefyd mewn dull heddychol wrth Major Falls. Cymbellwyd ef yn daer gan y meistri i roi gorchymyn i'r milwyr lwytho eu gynau cyn cyrhaedd y dref; ond gomeddodd, gan nad oedd yn gweled agwedd fygythiol ar y bobl. Wedi cyrhaedd y *Castle Hotel* yn y dref, aeth y meistri i mewn i gyd ond Syr John Guest, yr hwn a ymresymai fel boneddwr a'r dorf. Gosodwyd y milwyr a'u cefnau yn erbyn mur yr adeilad, a'u gwynebau at y dorf; ond gan fod yr ystryd mor llawn o bobl, yr oedd

y dorf yn gwasgu yn erbyn y milwyr, fel nad oedd lle ganddynt i lwytho eu gynau. Yn y cyfwng hwnw, anerechwyd y dorf gan B. H. Jenkins, Llanharan, yr Uchel Sirydd, a Mr. Guest. Canlynwyd hwy gan W. Crawshay, Ysw., o ffenestri llofft yr adeilad, yr hwn a ddywedai y buasai yn well ganddo farw nag ymostwng i weithwyr. Ar hyny, bloeddiodd un o'r dorf, a elwid Lewis yr Heliwr, os oedd pawb yr un feddwl ag ef, y cawsai Mr. Crawshay farw ynte; ac y buasant ar unwaith yn cymmeryd yr arfau oddiar y milwyr. Gyda ei fod yn gorphen ei frawddeg, yr oedd holl ffenestri y *Castle* yn chwilfriw, gan y cerryg a defsid atynt gan y dorf. Ymosodwyd ar y milwyr hefyd, y rhai a ymdrechent a'u holl egni i gadw eu harfau, ond yn aflwyddiannus i raddau pell. Yn y terfysg, llwyddodd llawer o'r milwyr i fyned i mewn i'r adeilad, ac o ffenestri y llofft tanient ar y bobl, tra yr oedd lluaws ereill yn saethu â llaw-ddrylliau trwy'r *gratings* o seler yr adeilad. Llwyddwyd i wasgaru y dorf ar ol brwydr galed am tua hanner awr; ond nid cyn lladd tua 60 bersonau. Daeth llawer o filwyr i'r lle ar ol hyn, yn wyr traed a gwyr cefyllau, fel na fu rhagor o ymladd. Dalwyd amryw o flaenoriaid y bobl mewn canlyniad, a chafodd Lewis yr Heliwr ei alltudio am 14 mlynedd; a chafodd Richard Lewis (Dic Penderyn) ei ddienyddio yn Nghaerdydd; yr hwn yn ddiarnheu oedd yn hollol ddieuog.

Yn 1878, bu holl weithwyr y lle ar *strike* am dri mis, am fod y meistri yn bygwth gostwng eu cyflogau, ymdrechwyd cynhyrfu y bobl i godi terfysg fel ar adegau blaenorol, ond methwyd. Ymddygodd y gweithwyr yn y modd mwyaf heddyhol: a thrwy hyny, a nerth yr undeb y perthynent iddo, am y tro cyntaf yn hanes y lle, gorchfygwyd gormes.

*Eglwys, Capeli, &c.* Nid oes hanes pa mor fore yr adeiladwyd Eglwys y plwyf y waith gyntaf. Mae yn amlwg pa fodd bynag iddi fod yn sefydliad Pabyddol; a bod sefydliad Mynachaid yn perthyn iddi. Safai adeilad y Mynachod yn Heol-y-Bont, lle y saif amryw hen dai yn bresenol ar y gongl rhwng Heol-y-Bont a Heol Wellington, yn ymyl y bont sy'n arwain i'r Caedraw, ger y Persondy. Yr oedd dau gapel anwes yn perthyn i'r Eglwys yn y cyfnod amaethyddol. Safai un ger y Tai Mawr yn rhandir Gellideg; ac oddiwrth hwnw y cafodd Pont-y-Capel yr enw, medd rhai, tra barna ereill mai oddiwrth Gapel Eglwysig Cefncoedycymmer y cafodd y bont yr enw. Capel arall a safai yn rhandir Y Fforest, ac a elwid Capel-y-Fforest. Adeiladwyd ef yn amser y Frenines Elizabeth; ac y mae ei adfeilion yn aros. Yr oedd i'r hen Eglwys a dynwyd i lawr yn 1804, gorff, cangell, a chlochdy, yn yr hwn yr oedd amryw glychau. Gwerthwyd tair cloch am tua 6c. y pwys yn amser Cromwell, a dystriwyd llawer o'r plwm a ffurfiai ran o'r to. Pan dynwyd yr Eglwys hono i lawr, er mwyn adeiladu yr un bresenol, cafwyd amryw weddillion hynafiaethol; ac yn eu plith arch careg, yn cynnwys esgyrn cawr yn agos i wyth troedfedd o daldra. Cafwyd careg arall, ac arni gerfiad hynod iawn, yr hon a welir yn bresenol yn mur yr Eglwys. Adeiladwyd yr Eglwys bresenol yn 1807, a'r clochdy yn 1820. Mae yn y clochdy awrlais

ardderchog, ac iddo dri gwyneb, a goleuir ef â nwy yn y nos. Rectoriaeth yw'r fywoliaeth, gwerth £700 y flwyddyn, yn rhodd Ardalydd Bute. Sylfaenwyd Eglwys St. David (yr Eglwys Seisnig) yn 1846, ac agorwyd hi yn 1847.

Yn 1862 adeiladwyd Eglwys Troedyrhiw, ar draul A. Hill, Ysw.

Adeiladwyd Eglwys Penydarren yn 1858.

Agorwyd Eglwys Gyfarthfa Ebrill 30, 1857.

Adeiladwyd Eglwys y Grawen, Ffynon Tydfil, yn 1864.

*Capeli yr Annibynwyr.*—Ynysgau, 1749; ail ad., 1858. Zoar, 1801; etto, 1884: etto, 1842. Bethesda, 1811. Adulam, 1881; etto, 1857. Bethlehem, Heolgerryg, 1888; etto, 1872. Saron, Troedyrhiw, 1885; etto, 1851. Horeb, Penydarren, 1889; helaethwyd, 1853. Market Square Chapel (S.), 1841. Salem, 1858. Gellideg, 1868. Seion, Abercanaid, 1861. Congregational, Troedyrhiw, 1870.

*Capeli y Bedyddwyr.*—Seion, 1791; ail ad., 1841. Ebenezer, 1798; ail ad., 1829. Bethel, George Town, 1809; etto, 1826; etto, 1860. Tabernacl, 1884; etto, 1842. Elim, Penydarren, 1842. High Street (S.), 1840. Abercanaid, 1885. Carmel, Troedyrhiw, 1852. Ainon, George Town, 1860.

*Capeli y Methodistiaid.*—Pensylfania, Pontmorlais, 1792; etto, 1884. Bethlehem, Pant-tywyll, 1841. Capel y Graig, 1847. Nazareth, Troedyrhiw, 1859. Clwydyfagwyr, 1841, etto 1868. Pennel, Twynrodyn, 1859. Hope Chapel (S.), 1872.

*Wesleyaid.*—(S.), 1797; etto, 1860. Siloh, 1854. Safai yr hen gapel lle mae'r fynedfa i Orsaf Cledrffordd Cwm Nedd.

*Undodiaid.*—(S.), 1821.

## COFNODION.

1798. Adeiladu Pont y Storehouse dros afon Taf.

1802. Ymwelodd Arglwydd Nelson â'r dref: arosai yn y Star.

1812. Agor cangen o Ariandy Aberhonddu (Brecon Old Bank) yn y lle.

1824. Agor Llythyrdy gyntaf, a sefydlu *Mail Coach* rhwng Abergavenni a Merthyr. Cyn hyny dygid y llythyrau o Lundain trwy Aberhonddu.

1829. Pennodi Heddynad Cyflogedig gyntaf, sef J. Bruce Pryce, Ysw.

1832. Cynnrychioli y dref yn y Senedd y waith gyntaf, gan J. J. Guest, Ysw.

1838. Agor Mynwent Twynrodyn.—Cholera yn y lle.

1835. Agor Bank y West of England & South Wales.

1836. Goleuo'r dref â nwy y waith gyntaf.—Ffurio Undeb Merthyr yr un flwyddyn, yn cynnwys plwyfi Aberdar, Faenor, Gelligaer, Llanfabon, Llanwynno, Merthyr, Penderyn, Rhigos, ac Ystrad-dy-fodwg. Aeth Llanfabon, Llanwynno ac Ystrad-dy-fodwg i Undeb Pontypridd yn 1868.

1837. Pennodi Trencholydd i'r lle. Yn 1848 rhanwyd y sir yn adranau Trencholiadol—Gogleddol, Dwyreiniol, a Gorllewinol. G.

Overton, Ysw., yw Trengholydd y Dosparth Gogleddol hyd yn awr (1874).

1838. Adeiladu'r Tŷ Marchnad. Cyn hyny cynnelid y farchnad ar ochr y brif heol, a'r fan y mae Lladd-dy'r Cigyddion yn awr.

1841. Agor Cledrffordd Cwm Taf o Gaerdydd i Ferthyr.—Sefydlu Heddlu (*Police Force*) Morganwg yr un flwyddyn.

1845. Pennodi Uwch Gwnstabl dan Act Newydd Vic. 7 ac 8.

1846. Adeiladu Llys yr Heddynadon (*Police Court*). Cyn hyny cynnelid y llysoedd yn ngwesttai y Star, y Boot, y Lamb, a'r Angel. Yr oedd y Ty Tywyll a'r Cyffion (*Stocks*) ger yr Hen Eglwys.

1846. Dechreu Llyfrfa Merthyr,—tua 12 o lyfrau swllt yr un. Yn 1861 ail agorwyd hi yn Thomas Town; ac y mae ynddi yn awr tua 4,000 o gyfrolau ardderchog; Darllenfa, &c.

1847. Dechreu Llys Sirol (*County Court*) y dref. Yr un flwyddyn esgynodd un Mr. Gibson mewn Awyren o Gae'r Post Office, a disgynodd ar fferm y Fforest, tua 6 milltir o'r dref. Gwnaed Mynwent Thomas Town yr un flwyddyn.

1849. Bu farw 1,682 o bersonau o'r Cholera yn y lle.

1851. Sefydlu Bwrdd Iechyd y dref.

1852. Adeiladu'r Neuadd Ddirwestol.

1853. Gorphen adeiladu ac agor y Tlotty.

1854. Seindorf y *Coldstream Guards* yf cynnal Cyngherdd yma.—Agor Cledrffordd Cwm Nedd i'r dref.

1855. Y Tywysog Lucien Napoleon yn pasio trwy'r lle Mai 29.

1856. Y Tad Gavazzi yn areithio yn y Neuadd Ddirwestol.

1859. Agor Eglwys Babyddol George Town, Mawrth 17.

1861. Dechreu diwallu'r dref â dwfr y Ddwfr Weithfa.

1863. Agor Cledrffordd Merthyr ac Aberhonddu rhwng Aberhonddu a'r Pant, ger Dowlais. Agorwyd hi i dref Merthyr Awst 1, 1868.

1866. Adeiladu'r *Drill Hall*.

1867. Ethol dau Aelod Seneddol. Tri ymgeisydd. Rhif y pleid-leisian,—dros Henry Richard, Ysw., 11,688; R. Fothergill, Ysw., 7,439; H. A. Bruce, 5,776.

1870. Adeiladu Ysgoldy Pabyddol Heol y Llydsy.

Etholiad 1874.—H. Richard, 7,606; R. Fothergill, 6,908; T. Halliday, 4,912.

MONKNASH.—Yr *Aes Fawr*. Plwyf yn nghantref Glyn Ogwy, undeb Penybont, dosparth llys sirol Penybont a'r Bontfaen, deoniaeth Gronedd Isaf, archdeoniaeth ac esgobaeth Llandaf. Saif y plwyf ar lan y môr, saith milldir i'r de-ddwyrain o dref Penybont, ac wyth i'r de-orllewin o'r Bontfaen. Pan ranwyd Morganwg yn yeglyfaeth rhwng y Normaniaid yn 1091, rhoddwyd Maenor yr Aes Fawr i Syr Richard Grenville, yr hwn a gafodd arglwyddiaeth Nedd hefyd. Pan oedd Priordy Ewenni mewn bri mawr, yr oedd cyssylltiad agos rhyngddo â'r lle hwn; a bu yma amryw sefydliadau Mynachaid dan nawdd Abbad Ewenni. Mae adfeilion rhai o'r hen adeiladau Mynachaid i'w gweld yma yn awr. Mae yma amryw dai hefyd yn dwyn enwau Mynachaid yn bresenol, megys Monk's Court, Monkton Isaf, Monk-

ton Uchaf, Clawdd-y-Mynach, &c. Yr unig addoldy yn y plwyf yw yr Eglwys, bywoliaeth yr hon sydd guradaeth barhaol, gwerth £67 y flwyddyn. Mesura'r plwyf 1584 erw, rhwng y dwfr. Rhif y tai 17. Pobl yn 1861, 121; yn 1871, 108.

**MOUNTAIN ASH.**—Pentref mawr a phoblog yn Nyffryn Cynon, ac wedi ei adeiladu mewn dau blwyf, Aberdar a Llanwynno. Saif y pentref dair milldir i'r de o dref Aberdar. Enw cyntefig y lle oedd Aberpenar. Mae yn amlwg oddiwrth hen adfeilion sydd yn yr ardal, i waith haiarn pwysig fod yma unwaith, ac ar raddfa go èang; ond y mae hanesyddiaeth yn ddystaw yn ei gyleh. Barna rhai oddiwrth y gweddillion sydd yn aros, mai Morthwylfa fu yma, tebyg i Forthwylfa Aberhonddu; ac mai yn Morthwylfa Aberpenar y gorphenid haiarn hen ffwrnes Owmdar, ffwrnes Owmaman, &c., tra y barna ereill fod yma ffwrnes a morthwylfa.

Dywed traddodiad mai Sais o Gaerodor oedd perchenog holl diroedd yr ardal tua 200 mlynedd yn ol; ac iddo rentu pump tyddyn, sef Aberpenar, Abercwmwrci (sef Abercwmboy), Aberffrwd, Gelli Ddu Isaf, a'r Ton Coch, i wr o'r enw Dafydd ab Iefan Ddu am £5 y flwyddyn; ac iddo wedi hyny werthu y tyddynoedd hyn i'r un gwr am £100. Gadawodd Dafydd ab Iefan Ddu yr ystad i John ei fab; yr hwn ar ei farwolaeth a'i gadawodd i'w fab James, yr hwn a elwid James Jones. Talodd hwn sylw manwl i amaethyddiaeth, planodd berllan yn cynnwys 365 o goed yn ymyl Aberpenar, a gwelodd lawer ar y tir. Tua'r flwyddyn 1720, gwerthodd Mr. James Jones y lle am £1,800 i Mr. William Bruce, hen dadcu Arglwydd Aberdar. Meddyg perthynol i'r llynges oedd W. Bruce, ac yn briod a merch i amaethwr oedd yn byw yn Nhon-y-Dderwen, rhwng Caerdydd a Chaerffili. Ni fu Mr. W. Bruce yn byw yn y lle o gwbl. Pan fu ef farw, daeth y lle yn eiddo ei fab Mr. Thomas Bruce; ond ni ddaeth yntau i fyw i'r lle. Rhoddodd ef Aberpenar, yr hwn a elwid Y Dyffryn ar ardreth i un o'r enw Thomas Dafydd Miles; yr hwn a fu yn byw yn y lle am tua 50 mlynedd. Ar farwolaeth Mr. Thomas Bruce, daeth y lle yn eiddo ei nai, sef y diweddar John Bruce Pryce, Ysw., yr hwn a ddaeth i fyw i'r lle. Yn fuan wedi iddo ef symud i'r lle, aeth gwr o'r enw Dafydd Shon Rhys ato i geisiq lès ar ddarn o dir i godi tafarn a thŷ annedd arno. Aeth Mr. Bruce Pryce gydag ef i fesur y tir, gan gymmeryd ei wraig a Rhys Evans, Ton Coch, gydag ef. Wedi mesur y tir, gofynodd y boneddwr beth oedd enw y tafarn i fod; a dywedodd R. Evans y cawsai ef roddi yr enw; a chan fod oerdinen yn tyfu yn ymyl, efe a droes at ei foneddiges, ac a ddywedodd,—“ We shall call this place Mountain Ash;” yr hyn oedd cychwyniad yr enw presenol ar y lle. Am tua deugain mlynedd o'r pryd y cafodd y lle yr enw, araf iawn y bu ei gynnydd, er i amryw geisiadau gael eu gwneyd i agor glofeydd yn yr ardal, trwy suddo pyllau bychain, ac agor lesiau, &c. Yn mis Chwefror, 1850, dechreuodd cyfnod newydd ar y lle, trwy i'r diweddar D. Williams, Ysw., (Alaw Goch), ddechreu suddo Glofa y Deep Dyffryn; ond gan fod y fan yn rhy wlyb a meddal, symudwyd i fan mwy manteisiol, a dechreuwyd suddo

y lofa bresenol Ebrill 15, 1850. Codwyd glo o'r pwl Ionawr, 1855. Erbyn mis Gorphenaf, 1856, yr oeddynt yn alluog i godi 1,000 o dunnelli yr wythnos o'r lofa hon. Yn mis Mawrth, 1850, dechreuodd y diweddar T. Powell, Ysw., suddo Glofa Isaf Cwmpenar, ac yn mhien ychydig fisoedd dechreuwyd suddo Glofa Uchaf yr un cwm. Dechreuwyd codi glo o'r rhai hyn yn 1854. Yn 1851, dechreuwyd level y Fforest, gan un Jenkin Williams. Daeth hon yn eiddo W. Simon, Merthyr, Mehefin 4, 1858, ac o hyny allan gelwid hi level Simon. Yn Mawrth, 1857, agorwyd lefel arall gerllaw eiddo W. Simon, gan un Joseph Morris. Awst 10, 1855, dechreuwyd suddo Glofa y Navigation, gan Meistri John Nixon a'i Gyf. Prynodd y rhai hyn Lofa y Deep Dyffryn, Awst 1, 1856, ac yn eu meddiant hwy y mae yn parhau. Mai 8, 1861, codwyd y nifer canlynol o *ddrams* o bwll Deep Dyffryn : —768 *trams* o lo mawr, yn pwyso 648 tunnell ; 80 *trams* o lo cymmysg ; a 40 *trams* o *rubbish*, y cyfan yn 888 *trams* mewn 11 awr ; heblaw gollwng i waered a chodi 800 o weithwyr. Bu agoriad y gwahanol lofeydd uchod yn y lle, yn foddion i ddwyn rhai miloedd o ddynion yma, ac fel y dylifai preswylwyr i'r lle, adeileddid tai ar eu cyfer, yn rhês ar ol rhês, nes oedd eu nifer yn 646 yn 1859. Mae'r lle yn cynnwys tua mil o dai yn bresenol ; ac yn cael ei lywodraethu gan Fwrdd Iechyd annibynol ar eiddo Aberdar.

Mae yn y lle orsaf ar Gledrffordd y *Taff Vale*, ac ar Gledrffordd y *Great Western*, yr hon sydd o fantais fawr.

*Prif Adeiladau, &c.* Yn 1848, adeiladodd y Bedyddwyr gapel bychan yn y lle, ond pan agorwyd y glofeydd, trowyd ef yn ddau dy annedd, ac adeiladwyd capel Nazareth yn ei le yn 1854. Aeth hwnw yn rhy fach i'r gynnulleidfa drachefn, fel yr adeiladwyd Capel Y Rhos yn 1860 ; gan sefydlu eglwys Fedyddiol Seisnig yn Nazareth.

Yn 1855, adeiladodd yr Annibynwyr Gapel Bethania, ar y Cae Garw ; ond yr oedd yn rhy fach lawer i ateb cynnydd y lle, a bu rhaid adeiladu y capel mawr presenol yn werth £950. Yn 1870, adeiladwyd Capel Seisnig yn y lle gan yr un enwad.

Yn 1857, adeiladodd y Trefnyddion Calfnaidd Gapel Ebenezer yn y lle. Yn 1860, codwyd capel y Trefnyddion Hynafol. Adeiladwyd yma Eglwys Ddosparthol fawr yn 1862. Yn 1852, agorwyd ysgol i fechgyn yma ; ac agorwyd rhan arall yr un ysgol yn 1862. Yn 1871, agorwyd ysgol arall yn y parth a elwir New Town.

Yn 1864, adeiladwyd *Workman's Hall* yn y lle, gwerth £1,000 yn yr hwn ymae ystafell eang i gynnal cyfarfodydd, gyda llyfrfa, darllenfa, &c.

Yn 1866, gwnaed Claddfa Gyhoeddus i'r lle. Rhoddwyd y tir gan Mr. Bruce, ac aeth perchennogion y glofeydd i'r draul o adeiladu y muriau, &c. Claddwyd ynddi gyntaf Awst 29, 1866. Sefydlwyd Bwrdd Iechyd y lle yn 1867.

Adeiladwyd Palas y Dyffryn o'r newydd yn 1871. Dyma breswylfa Arglwydd Aberdar.

NEWTON NOTTAGE, neu *Dre Newydd Nottais*, sydd blwyf a phentref ar lan y môr, yn nghantref Castell Newydd Penybont, undeb a dosparth llys sirol Penybont, esgobaeth Llandaf, saith milldir i'r de-



orllewin o dref Penybont-ar-Ogwy. Dywed *Iolo M.S.S.* p. 50, mai yr Esgob Urban adeiladodd yr Eglwys hon gyntaf. Bernir ei bod wedi chodi tua'r flwyddyn 1115. Mae iddi gorph, canghell, porth ar du'r dde, *vestry* ar du'r gogledd, a thŵr ar du'r gorllewin, ac ynddo bedair cloch ac awrlais. Mae plwpud yr Eglwys wedi ei wneyd o gareg, ac yn gerfiedig arno ddarlun o un yn cael eu fflangellu, a bernir iddo gael ei wneyd er gosod allan fflangelliad Crist. Rectoriaeth yw'r fywoliaeth, gwerth £450 y flwyddyn. Cynnelir y gwasanaeth yn Gymraeg a Seisnig ynddi. Cyssegredig yw i Ioan Fedyddiwr.

Wrth wneyd rhyw gyfnewidiad ar ranau mewnol yr Eglwys, er cael seddau newyddion, &c., yn 1826, daeth y gweithwyr o hyd i gareg hynod a hynafol. Mesurai 5 troedfedd a 8 modfedd o hyd, 19 modfedd o led yn y bon, 15 o led yn y pen uchaf, a 8½ modfedd o drwch, ac yn gerfiedig arni.—“*Hic Jacet Juliana De Min: Cujus Anima Quiescat in p...Ace.*” Ymddangosodd darlun o'r gareg hon, gyda desgrifiad o honi yn “*Lleuad yr Oes,*” Tach. 1827. Barnai y Parch. R. Knight i'r cerfiad gael ei wneyd yn y 18eg ganrif.

Bu y lle hwn am oesoedd yn enwog fel ymdrochle; ond y mae'r môr wedi gwthio i fyny grugiau anferth o dywod ar y traeth yn yr oes ddiweddar, fel y mae wedi gwaelu llawer o ran ei fanteision ymdrochydol. Bu y Frenines Anne Boleyn, gwraig Harri VIII., yn aros am beth amser yn y Tŷ Mawr yn y plwyf hwn. Darfu i'r diweddar H. Knight, rector y plwyf adgyweirio y tŷ hwn, a'i droi yn bersondy. Yn 1886, prynodd y diweddar Syr J. J. Guest, Barwnig, lawer o'r plwyf hwn gan y Parch. R. Knight am £40,000.

Mae Ffynnon Sant Ioan, a elwir hefyd yn Ffynnon Stanford, ar y traeth ger y pentref; ac yn un o brif ryfeddodau naturiol y byd. Mae amryw risiau yn arwain i lawr atti, ac nid yw un amser yn ffrydio allan. Yn hon y mae trigolion y pentref yn cael dwfr glân at eu gwasanaeth, ond rhaid iddynt ofalu am yr adeg i'w gyrchu, rhag iddi fod yn *stop tap*, oblegyd ar lanw'r môr mae'r ffynnon yn sych, ac yn llawn o ddwfr croyw blasus ar y trai. (Gwel *Hymodion y Sir*).

*Pentref Nottage* a saif tua milldir i'r gorllewin o'r Drenewydd; a bernir ei fod yn hynach lawer na'r Eglwys a'r pentref sydd yn ei hymyl. Mae golwg hynafol iawn ar dai pentref Nottage, ac wedi eu hadeiladu mor annrhefnus a di-reol ag y galleid.

*Porthcawl*, sydd borthladd cynnyddol a phwysig yn y plwyf hwn, tua milldir i'r de o bentref Nottage. Dechreuwyd gwneyd llongborth yma yn 1827, trwy adeiladu dau fur o'r lan, allan o'r mor, a thrwy hyny cafwyd lle i lochesu tuag 20 o longau bychain. Ar y llanw uchel, yr oedd 20 troedfedd o ddyfnder o ddwfr rhwng y muriau hyn, a 12 ar y llanw isel. Ffurfiwyd math o lyn hefyd y tu allan i'r llongborth, lle y gallai llongau angori, nes cael lle i ddyfod i mewn rhwng y muriau. Yn 1826-7, gwnaed Tramway o'r Maesteg i'r lle hwn, i'r dyben o gyssylltu gweithfeydd y lle hwnw a'r porthladd. Er nad oedd y llongborth ar y cyntaf ond un lled annghyfleus, etto yr oedd yn gwneyd y tro i ateb maint y fasnach ar y pryd. Yn 1846, allborthwyd o'r llongborth hwn 22,918 tonnelli o lo, a 25,554 o dunnelli

o haiarn. Yn yr ugain mlynedd canlynol i hyn, eangwyd gweithfeydd Maesteg, agorwyd gweithfeydd newyddion yn Nyffryn Llyfnwy, &c., ychwanegodd y fasnach mor fawr, fel y bu rhaid gwneyd well ac helaethach llongborth yn Mhorthcawl. Yn 1864-5, gwnaed llongborth (*dock*) yma yn 8 erw o arwyneb, gyda *Tidal Basin* 8½ erw ; yn cael eu cyssylltu a'u gilydd â dwfr-fios 60 troedfedd o led. Dyfnder y dwfr yn y doc ar y llanw uchel yw 28 troedfedd ; a 18 ar y llanw isel. Amddiffynir y llongborth â muriau cedyrn, y rhai a ymestynant allan yn mhell i'r môr. Mae'r *stairs* sydd at ollwng y glo, &c., i'r llongau wedi eu trefnu yn y fath fodd, fel y gellir llwytho 6,000 o dunnell yn ddyddiol ; ac y mae pob cyfleustra arall yn gyfatebol. Trowyd yr hen Tramway yn gledrffordd hefyd, er hwyluso masnach ; ac yn 1865, agorwyd hi i gludo teithwyr. Mae hawl gan berchenogion cledrffordd Glyn Ogwy hefyd i redeg eu cludresi ar gledrffordd Dyffryn Llyfnwy, yr hyn sydd yn cyssylltu y porthladd hwn a Phenybont, Tondau, a holl lofeydd Cwm Ogwy, &c., ac yma yr allborthir y glo, &c.

Addoldai y plwyf ydynt 1. Yr Eglwys ; 2. Capel Undodiaid ; 3. Capel Bedyddwyr ; 4. Methodistiaid, 1865 ; 5. Annibynwyr, 1870. Mae dwy ysgol dda yn y plwyf, un yn y Drefnewydd, a'r llall yn Mhorthcawl. Mesuriad y plwyf yw 8.877 o erwi, rhwng y dwfr. Tai yn 1861, 229 ; yn 1871, 826. Pobl yn 1801, 209 ; yn 1861, 1,082 ; yn 1871, 1,455.

NICHOLASTON. Plwyf yn undeb Browyr, cantref, a dosparth llys sirol Abertawy, deoniaeth Gwyr, archddeoniaeth Caerfyrddin, esgobaeth Ty Ddewi ; ac yn sefyll ddeg milldir i'r gorllewin o Abertawy. Mesura 781 o erwi rhwng y traeth ; ond nid oes mwy na 402 erw o hono yn amaethyddol. Mae'r morfa a elwir *Oxwich Marsh* yn rhanol yn y plwyf hwn ; tra y mae y gweddill yn mhlwyfi Penrhys ac Oxwich. Arferai y môr orchuddio y morfa hwn, nes i dad C. R. M. Talbot, Ysw., fyned i'r draul o godi math o wrth-glawdd yma, a chloddio fíos y tu ol iddo ; ac felly ennillwyd tua 200 erw o dir yn y lle. Yr Eglwys (St. Nicholas) yw unig addoldy y plwyf, yr hon sydd rectoriaeth yn gysylltiol ag eiddo Oxwich, a'r ddwy yn werth £224 y flwyddyn gyda phersondy, yn rhodd C. R. M. Talbot, Ysw., A.S., yr hwn yw arglwydd y faenor ; ac efe a Thomas Penrice, Ysw., sy'n perchenogi y plwyf. Amaethu yw prif orchwyl y trigolion. Rhif y tai 27 ; ardreth £476. Pobl yn 1861, 109 ; yn 1871, 105.

OXWICH—Trenyni—sydd blwyf yn nghantrf a dosparth llys sirol Abertawy, undeb Gwyr, esgobaeth Ty Ddewi, 14 milldir i'r gorllewin o Abertawy, yn cynnwys 1,602 o erwi rhwng y dwfr, 1,197 o'r hwn sy'n amaethyddol, ac wedi ei brisio yn £700. Perchenog yr holl blwyf ac arglwydd y faenor yw C. R. M. Talbot, Ysw., A.S., a chanddo ef y mae'r hawl i roddi y fywoliaeth Eglwysig, yr hon sydd rectoriaeth gwerth £224 yn unol ag eiddo Nicholaston. Mae dau gapel Ymneillduol yn y plwyf hwn, un gan y Trefnyddion Hynafol, a'r llall gan y Wesleyaid. Saif yr Eglwys a'r pentref ar lan y môr, mewn morgilfach o'r enw Oxwich Bay, lle y ceir rhai o'r golygfeydd mwyaf rhamantus a gwyllt. Dygir cryn fasnach yn mlaen yma mewn ceryg

calch; a buwyd yn llwytho cynnifer a 800 o longau yn flynyddol yma o'r cyfryw. Mae digonedd o'r llysiau a elwir Lafwr yn tyfu ar lan y môr yn y plwyf hwn, ac o hono gwneir yr hyn a elwir Bara Lafwr. Ceir cyflawnder o'r cregin-bysg canlynol yma hefyd,—Llymeyrch (*oysters*), Crangcod (*crabs*), Ceimyach (*lobsters*). Yn amser Harri VIII., adeiladodd Syr Rice Mansel gastell mawreddog ger y pentref, yr hwn a elwir Castell Oxwich. Mae llawer o hono yn sefyll yn bresenol, ac yn un o'r tyrau y mae 15 ffenestr yn gwynebu tua'r dwyrain. Defnyddir y castell yn amaethdy yn bresenol. O fewn yr Eglwys y mae cof-adeiladau am Syr Rice Mansel a'i wraig, y rhai a gladdwyd yma mae'n debyg. Yn 1557 aeth ymryson rhwng Syr Rice Mansel, o'r lle hwn, â Syr George Herbert, Abertawy, yn nghylch rhyw longddylliad a gymmerodd le ar y traeth, a'r canlyniad fu i Syr George arwain byddin o wyr i'r plwyf hwn yn absenoldeb Syr Rice, ac ymosododd yn fyfnig ar Gastell Oxwich, yr hwn a amddiffynid gan ddeiliaid y perchenog. Yn yr ymladdfa, lladdwyd Mrs. Ann Mansell o Landdewi, trwy ei tharo ar ei phen â charreg. Rhif tai y plwyf yw 61. Pobl. yn 1861, 828; yn 1871, 255.

OYSTERMOUTH.—Ystumllwynarth: ac a elwid Caer Gwyrosydd, medd rhai; ond a adnabyddir yn bresennol wrth yr enw Mumbles. Yr enw a roddir i'r lle yn y Brutiau Cymreig yw Ystumllwynarth. Mae hwn yn blwyf a phentref hardd, yn nghantref a dosparth llys sirol Abertawy, undeb Gwyr, esgobaeth Tŷ Ddewi, ac yn sefyll ar lan y môr, 5 milltir i'r gorllewin o Abertawy. Cynnwysa'r plwyf 5,194 erw rhwng y dwfr; gwerth ardrethol, 12,562p.; prisiaid, 11,111. Tai yn 1861 547; yn 1871, 771. Pobl yn 1861, 2,460; yn 1871, 8574.

Mae'r Eglwys wedi ei chyssegru i'r Holl Saint, ac yn cynnwys corph, canghell, rhodfa ogleddol, porth, a chlochdy, ac ynddo 8 cloch. Mae'r ganghell yn henafol iawn yr olwg arni, ac o arddull Norman-aidd. Gellir casglu oddiwrth y coflyfr, mai tua'r flwyddyn 1750 yr adeiladwyd y rhanau ereill. Ficeriaeth yw'r fywoliaeth, gwerth 85p. y flwyddyn. Mae yn y lle gapeli Ymneillduol hefyd, gan yr Anni-bynwyr, Bedyddwyr, Bible Christians, Christadelphians, a Wesleyaid. Saif hen bentref Oystermouth wrth odreu craig galch uchel, yr hon sydd yn cysgodi y lle yn y fath fodd fel nas gellir gweled yr haul o hono am 8 mis yn y flwyddyn.

Mae braich o'r graig galch yn ymestyn am tua milltir i'r môr yn y lle hwn, ac yn ffurfio angorfa ddyogel i tua 400 o longau; ac ar drwyn y graig hon y mae Goleudy ardderchog y Mumbles wedi ei adeiladu. Trethir yr holl longau sydd yn pasio *Nash Point Morganwg*; *Horsetone Point*, Gwlad yr Haf; *Leadstep Point*, Penfro; a *Hartland Point*, swydd Devon, tuag at dalu at Oledy'r Mumbles. Mae'r lle hwn wedi bod yn enwog trwy yr oesoedd am ei gyflawnder o'r cregin-bysg *oysters*, a delir llwythi lawer o honynt yn flynyddol. Mae yn y lle chwareli cerryg calch eang hefyd, gydag ychydig o gloddio glo a mwn coch. Yn ymyl y mae afeilion mawreddog hen Gastell Oystermouth, sef Ystumllwynarth y Brutiau Cymreig. Adeiladwyd ef gan Henry Beaumont, Iarll Warwick, yn fuan ar ol gorchfygiad Bro

wyr yn 1099. Yn 1215, ymosodwyd arno yn dra llwyddiannus gan Bys Ieuange, tywysog Dinefwr. Dyma ddisgrifiad y Brut o'r amgylchiad:—"Trannoeth y kyrohawdd tua San Henyd (Abertawy) ac rac y ofyn ef y llosges y castellwyr y dref. Ac ynteu heb dori ar y harchuaeth a gyrochasant gastell Ystumllwynarth, a pheyllaw yn y gylch y nos hono a oruc: a thrannoeth y cavas y castell, ac y llosges ef a'r dref. Ac erbyn pen y tridieu y goresgynnodd holl gestyll Gwhyr."—*Myf. Archaeology*, p. 689—40.

Mae hanesiaeth yn lled ddistaw gyda golwg ar ymosodiadau yohwanegol ar hwn mewn oesoedd dilynol; er ei fod yn ddigon amlwg i hyny gymmeryd lle. Bu hwn am oesoedd yn un o brif amddiffynfeydd y Normaniaid yn Nghymru; ac ynddo y cynnelid llysoedd cyfreithiol arglwyddiaeth Gwyr am rai canrifoedd. Ystyrid ef yn bwysioach a gwybach nag hyd y nod Castell Abertawe am gryn amser. Nid oes sicrwydd pa un ai Owen Glyndwr ai Cromwell a'i drylliodd y tro olaf; ond bernir yn gyffredin mai un o honynt a wnaeth hyny. O amser ei ddinystriad olaf hyd y flwyddyn 1848, bu yn bentwr o adeilion didrefn fel tomen fawr, a'i ystafelloedd yn llawn yspwriel a cheryg. Yn y flwyddyn a nodwyd llwyddodd George Grant Francis, Ysw., Abertawy, i ddylanwadu ar yr anrhydeddus Duc Beaufort, y perchenog, i fyned i ryw 200p. o draul i lanbau y lle. Bu hyny yn foddion i ddwyn llawer o ogoniant a chadernid cyntefig y castell i'r golwg. Wrth ei lanbau cafwyd allan fod y brif fynedfa iddo ar du'r dwyrain, a'r porth hwnw yn cael ei amddiffyn gan dyrau cedyrn. Ymestynai llinell o furiau uchel a thrwohus oddiwrth y prif borth ar hyd ymyl y graig tua'r de, gorllewin, a gogledd. Ar y tu gogleddol y mae'r adeilad yn fwyaf cyfan yn bresennol. Yn y muriau allanol y mae llauws o dyllau, y rhai a ddefnyddid gan y castellwyr i saethu drwyddynt at y gelynyon. Saif adeilion y capel a berthynai i'r castell ar du gogledd-ddwyrain i'r lle, a cholofn yn ei ganol i ddal y to i fyny. Ymddengys fod hwn o ddyddiad diweddarach na rhanau ereill y castell, oblegid cafwyd olion arluniau lliwiedig ar ei furiau mewnol wrth ei lanbau.

Mae llinell o reilffordd yn rhedeg o Abertawy i'r lle hwn, yr hyn sydd yn gryn gyfleustra i ymwelwyr. Gan fod y lle mor iachus, a'i fanteision mor lluosog fel ymdrochle, mae yn gyrcfha lluoedd o ymwelwyr yn misoedd yr haf.

PENARTH.—Plwyf a thref borthladdol, yn nghantrf Denis Powys, undeb a dosbarth llys sirol Caerdydd, deoniaeth, archddeoniaeth, ac esgobaeth Llandaf; tua 5 milltir i'r de-orllewin o Gaerdydd. Enwyd y lle oddiwrth natur ei sefyllfa—*Pen Garth*, sef coppa uchel. Dywed Tanner, yr hanesydd Seisnig, ac a'r hwn y cyduna'r Brutiau Cymreig, i Gor addysg gael ei wneyd yma mor foreu a'r 6ed ganrif, a bod yno 12 o efrydwyr yn cael eu haddysgu gan Dochwy, yr hwn a ddaeth i'r wlad hon gyda Chadfan. Dywed Iolo MSS. mai Gwrgi o Gor Dochwy a wnaeth Eglwys yn Mhenarth gyntaf. Yn y cynoesoedd, pan arferai y Cymry gynneuiffaglau ar benau mynyddoedd yn arwydd o ddynesiad gelyn, &c., yr oedd Penarth yn un o'r manau dewisedig i wneyd hyny

gan wŷr Morganwg. Barna rhai haneswyr mai yma y tiriodd y Normaniaid ar wahoddiad Iestyn ab Gwrgan yn 1090; ond mwy tebygol mai yn Mhorth Cerri neu ger Llanilltyd Fawr y tiriasant. Yn amser y Frenines Elizabeth yr oedd ardal Penarth yn drigle Mor-ladron, y rhai a wnaent ddifod ar longau yn Nghulfor Hafren, &c. Ceir eu hanes yn y *Stradling's Correspondence*.

Yn 1830, nid oedd Penarth ond pentref bychan a distadl, yn cynnwys o 60 i 70 o drigolion, a'r Eglwys mor wael ei gwedd fel nad oedd yn tynu sylw nemawr neb ond hynafiaethwyr.

Yn 1856, ffurfiwyd Cwmpeini, ac appeliwyd at y Senedd am *Act* i'w awdurdodi i wneyd cangen o Reilffordd o Ddyffryn Taf i Ddyffryn Elai, gan gychwyn yn Nghwm Taf tua 5 milltir i'r gogledd-orllewin o Gaerdydd, a'i gorphen yn Aber Elai, ger Penarth; ac hefyd i wneyd llong-nofle (*tidal harbour*) ar du dwyreiniol afon Elai. Cafwyd yr *Act*, a gwnaed y gwaith. Mae y rhan hono o'r afon sydd wedi ei droi yn nofle llongau yn mesur 18,000 o droedfeddi yn y canol, 12,000 yn yr ochr nesaf i Gaerdydd, a 8,000 yn yr ochr at Penarth, a'r lled cyfartal yn 600 troedfedd. Y cwbl yn 55 erw. Mae 10 *staith* at lwytho glo yn perthyn i'r nofle hwn, a phob un o honynt yn alluog i lwytho 150 tonnall yr awr. Mae dyfnder y nofle ar y prif lanw yn 80 troedfedd, ac yn 20 troedfedd ar y llanw isel. Gall llongau yn cario mil o dunelli gael eu llwytho yma gyda dyogelwch a buandra.

Yn 1857, appeliwyd at y Senedd drachefn, a chafwyd *Act* yn rhoi hawl i'r Cwmni i wneyd Doc ar gangen dde-orllewinol afon Elai, gyda changenau o reilffyrdd, a phob peth arall angenrheidiol er helaethu cyfneustra masnachol y lle. Maint y Doc yw 2,100 troedfedd o hyd, 870 o led, a'r arwyneb yn 17½ erw. Maint y cawg (*basin*) yw 9 erw o arwyneb, ac yn 400 troedfedd o hyd wrth 880 o led. Hyd y *lock*, 270 troedfedd wrth 60 o led. Dyfnder ar y prif lanw 35 troedfedd, ar y llanw cyffredin 25. Mae 10 lle i lwytho glo ar y doc, a 2 ar y *basin*, gyda pheiriannau codi at ddadlwytho a llwytho llongau, a gweithir y peiriannau hyn a gallu dyfrol (*hydraulic power*). Costiodd gwneyd y doc, &c., £790,000. Yn fuan wedi gorphen y gwaith, trosodd y cwmni y cwbl trwy brydles i berchenogion Rheilffordd Cwm Taf am 999 o flynyddau, ar y telerau eu bod i dalu 4½ y cant o lóg ar yr arian a dreuliwyd i wneyd y lle, gyda hanner yr elw ychwanegol. Mae'r cyfneustra i lwytho a dadlwytho yn rhagorach yma nag yn Nghaerdydd, fel nad oes achos i longau aros nemawr yn y porthladd. Parodd gwneuthuriad y llongborth, y doc, &c., i'r lle hwn ddyfod yn bwysig ar unwaith mewn ystyr fasnachol, a bu hyny yn foddion i'r lle helaethu yn gyflym iawn. Adeiladwyd rhes ar ol rhes o dai mawrion yn y lle, a'r rhai hyny yn ol y cynlluniau diweddaraf, fel y daeth yn dref brydferth mewn ychydig amser. Gwnaed ffosfa (*drainage*) yn y lle gwerth £12,000, ar draul teulu Clive. Goleuir y lle â nwy, a diwellir ef â digonedd o ddwfr glân o'r Ddwfr Weithfa. Yn 1865, adeiladwyd Eglwys newydd yma, ar y fan y safai yr hen. Cynnwysa y newydd gorff, canghell, porth, esgyll, a chlochdy gyda chwech cloch. Adeiladwyd hi ar draul Barwnes Windsor, a chostiodd £10,000. Maint

y corff yw 87 troedfedd o hyd wrth 51 o led, ac y mae'r ganghell yn 87 troedfedd o hyd. Cyssegrwyd hi i St. Augustine. Bectoriaeth yw'r fywoliaeth, yn unol ag eiddo Lavernock, gwerth £250 y flwyddyn, yn rhodd Arglwydd Clive. Mae yma gapeli prydferth hefyd. Yn 1860 y dechreuwyd masnach forawl rhwng y lle hwn a phorthladd-oedd y deyrnas gyfunol, ac yn 1865 yr agorwyd y doc, ac y dechreuwyd masnachu a gwledydd tramor. Yn 1867, allforiwyd o'r doc 522,658 o dunnelli, ac o'r llongborth 181,977. Yn 1868,—doc, 784,407 tunnell; llongborth, 212,870. Maint y plwyf yw 1,507 erw, rhwng y dwfr: *valuation* yn 1871, £14,858; cyn hyny nid oedd ond £7,159. Rhif y tai yn 1861, 248; yn 1871, 406. Poblogaeth yn 1851, 105; 1861, 1,406; 1871, 2,612.

**PENDEULWYN.**—Plwyf a phentref yn nghanntref y Bontfaen, undeb a dosparth llys sirol Caerdydd, deoniaeth, archddeoniaeth, ac esgobaeth Llandaf. Saif tua phump milldir i'r gogledd-ddwyrain o'r Bontfaen, pedair i'r de-orllewin o Lantrisant, ac wyth i'r gorllewin o Gaerdydd. Rhed Rheilffordd Deheudir Cymru trwy y plwyf, a'r orsaf agosaf i'r pentref yw Peterston, sef Llanbedr-y-Fro. Dywed y *Iolo MSS.*, tud. 221, mai Emyr Llydaw a wnaeth Eglwys yma gyntaf, yr hon sydd wedi ei chyssegru i Cattwg Ddoeth. Ficeriaeth yw'r fywoliaeth, gwerth £112 y flwyddyn, yn rhodd Esgob Llandaf. Mae ysgol wladol yn y pentref, a chapel yn y plwyf gan y Methodistiaid. Castell Hensol sydd adeilad gwych a hynafol yn y plwyf hwn, ac iddo barc eang o'i amgylch. Bu y castell am oesoedd yn feddiant a phreswylfa teulu Cymreig o'r enw Jenkins. Un o'r teulu oedd y Barnwr David Jenkins, yn amser Charles I., ac am ei ymlyniad wrth achos y brenin yn ystod chwildroad Cromwell, cafodd lawer o'i erlid. Bu farw yn 1664, a'i weddw yn 1671. Canlynwyd ef i'r etifeddiaeth gan ei fab, David Jenkins, Ysw., yr hwn a fu farw Mawrth 18, 1696, gan adael y castell a'r etifeddiaeth i'w fab, Richard Jenkins, Ysw. Yr oedd y boneddwr hwn yn delynwr medrus, ac yn noddydd gwych i lenyddiaeth ei wlad. Yn ei amser ef, arferai beirdd Morganwg gynnal Eisteddfod yn Ystrad Owen bob blwyddyn ar yr 28ain o Fai, a thelid yr holl dreuliau gan Mr. Jenkins. Dyddiad yr olaf o'r Eisteddfodau hyn yw Mai 28, 1720. Bernir mai afiechyd y boneddwr oedd yr achos na chynnaliwyd hi y flwyddyn ganlynol, gan iddo farw Gorph. 16, 1721. Nid oedd iddo etifedd, ac felly aeth yr etifeddiaeth i'w chwaer, yr hon a briododd a'r Arglwydd Ganghellydd Talbot, yr hwn a wnaed yn Farwn Hensol. Bu ef farw yn 1787, a dilynwyd ef i'r etifeddiaeth gan ei fab, William, yr hwn a urddwyd yn Iarll Talbot o Hensol yn 1761, ac yn Farwn Dinefawr yn 1780, trwy iddo briodi etifeddes Arglwydd Dinefwr, iir Gaerfyrddin. Pan ddaeth etifeddiaeth Hensol i feddiant hwn ar farwolaeth ei dad, efe a barodd helaethu y castell, trwy adeiladu dwy aden, un bob ochr iddo, gyda thyrau heirdd i'w osod yn fwy castellog ei wedd, a gorphenwyd ef tua'r flwyddyn 1740. Yn mhen blynyddau ar ol hyn, gwerthodd Arglwydd Talbot y castell a'r etifeddiaeth berthynol iddo i Samuel Richardson, Ysw. Bu Barwn Dinefawr farw yn 1782. Talodd Mr. Richardson sylw neillduol i amaethyddiaeth, a bu yn fodd-

ion i wella llawer ar y tir, fel y daeth yn fwy o werth mewn canlyn-  
iad. Yn 1828, preswyliid y castell hwn gan Benjamin Hall, Ysw.,  
Arglwydd Llanofwr wedi hyny. Yn y castell gwych hwn y treuliodd  
Rowland Fothergill, Ysw., amryw o flynyddau olaf ei oes, a bu farw  
yn 1870. Yr oedd y boneddwr hwn yn ewythr i Richard Fothergill,  
Ysw., A.S. Amaethyddiaeth ddygir yn mlaen yn benaf yn y plwyf  
hwn, ac y mae yn dir cynnyrchiol iawn. Maint y plwyf yw 8,504  
erw; gwerth ardrehol, £3,572; tai yn 1861, 80; yn 1871, 90; pobl-  
ogaeth yn 1861, 880; yn 1871, 454.

PENLLIN.—Plwyf yn nghantref Ogwy, undeb Penybont, dosparth  
llys sirol Penybont a'r Bontfaen, deoniaeth Gronedd Isaf, archddeon-  
iaeth ac esgobaeth Llandaf, dwy filldir i'r gorllewin o'r Bontfaen, a  
plump i'r dwyrain o Benybont-ar-Ogwy. Ficeriaeth yw'r fywoliaeth  
Eglwysig, gwerth £135 y flwyddyn, yn nawdd a rhodd Iarll Dunraven.  
Ymddengys mai Llanfrynach oedd Eglwys y plwyf hwn gynt, ac yr  
oedd pentref poblog yn ymyl Llanfrynach cyn 1410; tra nad oedd  
Penllin ond ystad a chastell yn y plwyf. Preswyliid pentref Llanfryn-  
ach y pryd hwnw gan Normaniaid yn benaf, tra y preswyliai Gilbert  
Turberville yn Nghastell Penllin. Yr oedd Gilbert Turberville a'r  
Normaniaid yn gyffredinol yn elyniaethus iawn i'r gwladgarwr dewr  
Owen Glyndwr; yr hwn o herwydd hyny a ymosododd arnynt yn  
ffyrnig yn mis Awst 1410. Dynstriodd Gastell Penllin, a llosgodd  
bentref Llanfrynach yn wastad a'r llawr; ac ni adeiladwyd ef mwyach.  
Saif Eglwys Llanfrynach tua milldir i'r de o Benllin, a thua milldir  
i'r gorllewin o'r Bontfaen. Wedi dechreu y canrif presenol y gwnaed  
Eglwys Penllin yn Eglwys y plwyf, a Llanfrynach yn fath o gapel  
anwes dani. Capel y gelwid eiddo Penllin mor ddiweddar a'r flwyddyn  
1818. Adeiladwyd palas hefyd o fewn muriau hen gastell Penllin, ac  
y mae yn parhau i fynydd dan yr enw Castell.

Mewn ysgrifau yn y *Public Record Office*, Llundain, ceir yr hyn a  
ganlyn am etifeddiaeth Penllin:—Yn ol cofnodion *Post Mortum  
Inquisition* a gynnalwyd yn Nghaerdydd, 20, Tachwedd, 39 Elizabeth  
(1597), o flaen Syr William Herbert, marchog o'r *Whitefriars*, Caer-  
dydd; Thomas Carne, Ysw.; Nicholas Herbert, Ysw.; Lleishon Evans,  
Ysw., Castellnedd; Griffith Williams, a Phillip Cradock, Cyfreithwyr;  
a Robert Button, cyfreithiwr dan y goron, a rheithwyr neillduol, gydag  
amryw dystion; cafwyd:—

1. Fod un Christopher Turberville wedi huno yn ei faenor ei hun  
(Penllin), yr hwn a ddaliai dan Henry, Iarll Penfro, trwy dalu treth  
marchog a thrydedd rhan o wasanaeth dau farhog, a 13s. 4c. y  
flwyddyn, yr hyn a ganiatawyd iddo trwy freinlen, dyddiedig Hydref  
1, 17 Elizabeth (1575), pryd y rhoddodd yr Iarll ei eiddo mewn ym-  
ddiried i Richard Thomas, boneddwr, ac i fod at wasanaeth Christo-  
pher Turberville hyd derfyn ei oes, ac yna i'w fab Jenkin Turberville  
dros ei oes, ac i'w etifedd cyfreithlon o'i gorff ar ei ol. Priododd  
Jenkin Turberville a Cecilia, merch Mathew Herbert, Abertawy,  
yr hon oedd chwaer i Syr William Herbert, a'r Nicholas Herbert  
a enwyd, ac i Syr John Herbert, o Abbatty Nedd, un o Gyfrin

Gynghor Iago I. Bu Syr John Herbert farw yn Nghaerdydd yn 1617. Chwaer arall i'r Herberts hyn oedd Margaret, gwraig Lleyshon Evans, o Gastellnedd. Bu Jenkin Turberbville, Penllin, farw Chwef. 24, 1597, gan adael mab o'r enw Christopher yn 26 oed.

Mewn hen ysgrif arall—*Close Rolls*, 2 Anne (1703), ceir cofnod fod John Turberbville, Penllin; a Thomas Turberbville, Doctor Physigwr-iaeth, o Bantlliwydd, brodyr y diweddar Christopher Turberbville, Ysw., Great Bradley, Swydd Berks, yn cyduno i werthu eu hawl yn holl etifeddiaeth Penllin, sef castell a maenor Penllin, Goston, Llangana, gyda Phantlliwydd yn mhlwyf Llansannor, a nawddogaeth plwyf Llangana am y swm o £4,475 2s. 8c. i'w talu i John Turberbville a'i echwynwr (*mortgagee*) Edward Golston, marsiandwr o Lundain, a'r swm o £1424 18s. i Thomas Turberbville, gan Richard Seys, Ysw., Trebefered (Boverton). Gwnaeth Richard Seys, Ysw., ei ewyllys Medi 20, 1714, yn yr hon yr oedd yn cyfarwyddo ei gymunweinwyr (*trustees*) i werthu castell ac etifeddiaeth Penllin, a bod i'w fab Evan Seys, Ysw., Boverton, i dalu tri swm gwahanol o ddyledion ar ei etifeddiaethau ereill, yn cyrhaedd £7000. Yn unol a'r ewyllys hon, prynodd Syr Edward Stradling, Barwnig, Castell St. Donatts, yr holl etifeddiaeth a nodwyd uchod am £7021, Tach. 20, 1717. Bu Syr Edward Stradling farw Hyd. 8, 1736. Canlynwyd Syr Edward gan Syr Thomas Stradling, yr hwn a wnaeth ei ewyllys yn Mawrth 1785, ac a'i dirymodd yr un flwyddyn, medd rhai. Bu ef farw yn Mhontpellier, Ffrainc, Medi 27, 1788; a chladdwyd ef yn Eglwys St. Donatts, Mawrth 19, 1789. Ar ei farwolaeth ef, cymmerodd ei gefnder Bussy Mansel, Ysw., o Ynys-y-Maerdy, ger Briton Ferry, at ei holl etifeddiaeth. Ymddengys mai Charles Bowen oedd y person cyntaf i gael hawl gyfreithlon o'r etifeddiaethau yn ol ewyllys Syr Thomas Stradling. Yr oedd Charles Bowen yn fab i George ab Owen, Ysw., o Jane chwaer Syr Edw. Stradling. Ail fab Bussy Mansel oedd yr ail etifedd; ac os buasai'r naill neu'r llall o honynt byw, fod yr eiddo i Syr John de la Fontaine, Tyrwhit. Gan fod Charles Bowen yn fyw ac yn feddwyn cyhoeddus, llwyddodd B. Mansel trwy gyfrwystra i gael ganddo lawnodi gweithred er trosglwyddo y cwbl iddo ef am y swm fechan o tua £2,000. Bu Bussy Mansel farw yn 1750, a Charles Bowen yn 1751 yn Oystermouth. Yna dygodd Hugh Bowen o Eglwys Brewis, brawd Charles Bowen, gwyn i'r Chancery yn erbyn Lady Mansel a'i merch, unig blentyn Bussy Mansel. Gan fod pob argoelion y buasai Arglwyddes Mansel yn colli, darfu i'w chynghorwyr gynnyg telerau i Hugh Bowen, am derfynu yr ymryson; a chan ei fod ef yn agos 80 oed, a chanddo dri phlentyn ordderh heblaw ei etifedd cyfreithlon, efe a dderbyniodd y telerau, fel y gallai ranu yr arian rhwng ei blant ordderch. Dygwyddodd hyn yn 1754. Mewn canlyniad dygodd George Bowen, Ysw., etifedd Hugh Bowen, gwyn i'r Chancery yn erbyn ei dad, &c. Dygwyd yr achos o lys i lys, nes yn y diwedd iddo gael ei benderfynu yn Nhy yr Arglwyddi, trwy ranu yr etifeddiaethau rhwng y pleidiau. Mewn canlyniad daeth Llanddunwyd ac Abersili yn eiddo'r Fountain Tyrwhit; Merthyr Mawr a Monk-



nash, yn eiddo George Bowen; Penllin, Llanphe, a Chwm Howey, swydd Somerset, i Arglwyddes Mansel; a gwerthwyd ystad Llandathan i dalu'r treuliau cyfreithiol. Bu Arglwyddes Mansel farw yn 1759. Priododd ei merch ag Arglwydd Vernon. Gwnaeth hi gastell ac etifeddiaeth Penllin yn ddyogel trwy ewyllys i Miss Emilia Gwinnet yn 1788. Yr oedd Miss Gwinnet yn ferch i'r Parch. Samuel Gwinnet, yr hwn a briododd ag Emilia Button, etifeddes y Catterel. Preswyliai Miss Gwinnet yn Mhenllin yn 1808, ac yn 1807 gwnaeth ei hewyllys mewn perthynas i'r etifeddiaeth; ac ymddengys fod y mater yn y Chancery o'r fwyddyn 1808 hyd yn bresenol. Mae'r oastell yn cael ei breswyllo er ysw llawer o flynyddau bellach gan y teulu presenol (J. Homphray, Ysw.) Maint y plwyf yw 1,784 erw; tai, 81; pobl. yn 1861, 286; yn 1871, 820.

PENMAEN.—Plwyf yn nghantref a dosparth llys sirol Abertawy, undeb Gwyr, deoniaeth Gwyr, arhdddeoniaeth Caerfyrddin, esgobaeth Ty Ddewi, tua naw milldir i'r gorllewin o Abertawy. Yr oedd holl blwyfi Browyr gynt yn undeb plwyfol Abertawy; ond yn 1857, fufurfiwyd Undeb Gwyr, ac yn 1861 dechreuwyd adeiladu Tlotty'r Undeb yn y plwyf hwn, a gorphenwyd ef y fwyddyn ganlynol. Derbyniwyd tlodion gyntaf iddo yn mis Rhagfyr, 1862. Wrth dori lle i sylfeini yr adeilad, daeth y gweithwyr o hyd i hen adfeilion ag oedd yn eglur ddangos mai adfeilion Eglwys oeddynt; ond nid oes crybwylliad am y cyfryw addoldy mewn unrhyw hanes. Dichor mai un o addoldai Cenydd (6ed canrif) oedd. Perigloriaeth yw bywoliaeth Eglwysig y plwyf, gwerth £210 y fwyddyn, a phersondy, yn nawdd a rhodd Tywysog Cymru. Mae yn y plwyf gapel Ymneillduol hefyd, mewn lle a elwir Pyle Well, ac y mae yma Ysgol Wladwriaethol hefyd. Amaethyddiaeth ddygir yn mlaen yn benaf yn y plwyf. Maint rhwng y dwfr 1,588 erw. Tai, 81. Dengys y daflen ganlynol enwau, maint, poblogaeth, a gwerth ardrethol (*rateable value*) plwyfi undeb Gwyr:—

| Enwau'r Plwyfi.         | Maint. | Pobl. yn 1871. | Gwerth Ardrethol. |
|-------------------------|--------|----------------|-------------------|
|                         | ERWI.  |                | £                 |
| Bishopston .. ..        | 2,887  | 457            | 2,084             |
| Cheriton .. ..          | 1,419  | 158            | 889               |
| Iiston .. ..            | 2,879  | 287            | 1,920             |
| Knelston .. ..          | 587    | 95             | 497               |
| Llanddewi .. ..         | 1,858  | 141            | 1,065             |
| Llangenydd .. ..        | 3,479  | 360            | 2,016             |
| Llanmadock .. ..        | 6,727  | 178            | 715               |
| Llanrhidian Uchaf .. .. | 9,106  | 1,874          | 5,000             |
| Llanrhidian Isaf .. ..  | 12,958 | 477            | 1,752             |
| Nicholaston .. ..       | 718    | 105            | 746               |
| Orwich .. ..            | 1,602  | 255            | 700               |
| Oystermouth .. ..       | 5,194  | 8,574          | 10,000            |
| Penmaen .. ..           | 1,533  | 161            | 901               |
| Pennard .. ..           | 2,292  | 285            | 2,000             |
| Penrice .. ..           | 2,248  | 210            | 1,646             |
| Porteynon .. ..         | 1,186  | 254            | 860               |
| Reynoldston .. ..       | 1,047  | 277            | 1,200             |
| Rhoscilly .. ..         | 2,470  | 267            | 779               |

**PENMARC.**—*Pen St. Marc.*—Plwyf yn nghantrf Dinas Powys, undeb a dosparth llys sirol Caerdydd, deoniaeth, archddeoniaeth, ac esgobaeth Llandaf; yn sefyll tua deg milldir i'r de-orllewin o Gaerdydd; a thua chwech milldir i'r de-ddwyrain o'r Bontfaen, ar lan môr Hafren. Mae wedi ei ddosparthu yn ddau barsel, sef dwyreiniol a gorllewinol; a'i brisio yn 1871, yn £3995. Perchenogir y plwyf yn bresenol gan Robert Oliver Jones, Ysw., Ynad cyflogedig Caerdydd, cadeirydd y llysoedd chwarterol, &c., a Charles K. Kemys Tynte, Cefn Mabli. Maint y plwyf yw 8,895 rhwng y dwfr. Tai 115. Pobl yn 1861, 529; yn 1871, 496. Ficeriaeth yw'r fywoliaeth Eglwysig, gwerth £224 y flwyddyn, yn nawdd a rhodd Deon a Glwysgor Caerloyw. Mae yn y plwyf Ysgol Wladwriaethol dda; ac addoldai gan yr Annibynwyr, Bedyddwyr, a'r Trefnyddion Calfinaidd.

Mae yma adfeilion hen gastell Normanaidd hefyd, yr hwn a elwir Castell Penmarc, ac a adeiladwyd gan Syr Gilbert Humphreville. Pan drawsfeddiannodd y Normaniaid Fro Morganwg, rhoddwyd yr ardal yma, gydag arglwyddiaeth Aberbernant, Llangadell a Phorth Cerri, i Syr Oliver St. John, yr hwn a adeiladodd gastell ar lan Nant-y-Fran, sef Bernant, tua'r flwyddyn 1092, a gelwid ef Castell Fonmon. Bu teulu Oliver St. John yn preswyllo y castell hwn o'r amser yr adeiladwyd ef hyd ddiwedd teyrnasiad Iorwerth IV., sef tua'r flwyddyn 1480. Ei berchenog a'i breswlydd y pryd hwnw oedd Syr John St. John; yr hwn a gafodd arglwyddiaeth Bletsoe ar farwolaeth ei fam, Margaret Beauchamp. Yr oedd Syr John St. John, yn frawd i fam Harri VII. Wedi iddo gael arglwyddiaeth Bletsoe yn swydd Bedford, symudodd i fyw yno, gan gadw meddiant o'r lle hwn hefyd. Gwerthwyd y castell a'r tiroedd perthynol iddo yn 1616, i Phillip Jones, Ysw. Yr oedd y Milwriad Jones o'r lle hwn yn frawd-yn-nghyfraith i Oliver Cromwell, a dywedir mai efe ysgrifennodd *death warrant* Charles I., a chafodd ei ddienyddio am hyny, ar adferiad Charles II., i orsedd Prydain. Disgynydd o'r Milwriad Jones hwn, yw Robert Oliver Jones, Ysw., y perchenog presenol; ac y mae'r enw Oliver wedi ei gyssylltu a'r teulu, er dangos yr undeb sydd rhyngddynt ag Oliver Cromwell. Yn y castell hwn y mae'r portread goraf yn y byd o Cromwell, yr hwn a roddwyd ganddo ef ei hun yn anrheg i'r Milwriad Jones. Dywedir mai *banqueting room* y castell hwn, yw'r gegin helaethaf yn y deyrnas. Yr oedd y Parch. John Wesley yn arfer ymweled a'r castell yn achlysurol, ac yn cysgu yn amaethy Fontigary, ac y mae'r ystafell lle y cysgai yn cael ei chadw yn barchus o hyd. Mae'r plwyf hwn yn un hynod iachus, ac yn meddu golygfeydd amrywiog iawn.

**PENNARD.**—*Penhardd.*—Plwyf yn nghantrf a dosparth llys sirol Abertawy, undeb a deoniaeth Gwyr, archddeoniaeth Caerfyrddin, esgobaeth Ty Ddewi, tuag wyth milldir i'r gorllewin o Abertawy. Maint y plwyf yw 2222 erw, rhwng y dwfr a'r traeth; ac y mae 444 erw o hono yn Gomin. Duc Beaufort yw arglwydd y faenor, a pherchenog y rhan fwyaf o'r plwyf. Y fywoliaeth Eglwysig sydd werth £79 y flwyddyn. Bu pentref poblog, Eglwys hardd, a chastell cadarn ar lan y mor yn y plwyf hwn; ond y mae eu gogoniant wedi diflanu bellach

er ys blynyddoedd lawer. Mae'r mor wedi gwthio cymmaint o dywod i fyny, nes claddu llawer o'r lle. Saif yr ychydig sydd yn ngweddill o'r castell, (sef y porth a dau dwr) ar *Pennard Pill*, o fewn dau cant o latheni i'r mor; ac y mae'r tywod yn bentryan yn ei ymyl. Yn ngodre'r plwyf y mae'r cilfach hynod hwnw a elwir *Y Pull Du*, lle y berwa'r dwfr fel pe mewn crochan eang. Ar lan y mor yn y plwyf hwn y mae'r ogofeydd a elwir *Bacon Hole, Mitchin Hole, Fox Hole, &c.*, y rhai sydd wedi ac yn bod yn rhyfeddodau i bawb a ymwelant a hwy. Mae Eglwys bresenol y plwyf, wedi ei chodi gryn filldir yn mhellach o'r mor na'r hen un. Prif balas y plwyf yw *Kilvrough House* (Cilfrwch). Cynnelir ysgol wladwriaethol o fewn y plwyf yn *Park Mill*. Ar ben y graig yn agos i'r *Pwll Du*, y mae olion hen wersyllfa, ond nid oes hanes pwy a'i gwnaeth. Nid oes siorwydd pwy adedladdod yr hen gastell ychwaith; ond bernir mai castell un o'r Normaniaid ydoedd. Hiliogaeth y *Flemings* a ddaethant yma yn amser *Harri I.*, sydd yn preswyllo y plwyf gan mwyaf; ac amaethyddiaeth ddygir yn mlaen yma yn benaf. Rhifedi tai y plwyf yw 64. Pobl yn 1861, 321; yn 1871, 285.

**PENRICE**, neu *Pen Rhys*, sydd blwyf a phentref yn nghantrf a dosparth llys sirol *Abertawy*, undeb a deoniaeth *Gwyr*, archdeoniaeth *Caerfyrddin*, esgobaeth *Ty Ddewi*. Cafodd y plwyf hwn ei enw presenol oddiwrth yr amgylchiad pruddaidd o doriad pen *Rhys*, mab *Caradog ab Iestyn*, yma gan y Normaniaid yn 1099. Wedi i ranau dwyreiniol *Morganwg* gael eu cymmyrd yn ysglyfaeth gan *Robert Fitzhamon* a'i gyfeillion yn 1091, darfu i *Rys* ymsefydlu yn *Mro Gwyr*; a phan ymosodwyd ar ei diriogaeth gan *Henry Beaumont*, Iarll *Warwick*, efe a ymdrechodd gydag egni gwron i gadw meddiant o'i eiddo; ond er ei holl wroldeb, gorchfygwyd ef gan yr estron, a thorwyd ei ben ymaith mewn dull barbariaidd. Yn ganlynol i hyn, adedladdod Iarll *Warwick* gastell eang a hynod gadarn ar y fan lle y torwyd pen y gwron *Cymreig* ymaith, a galwyd ef *Castell Penrhys*. Wedi hyny adedladdwyd tref *Penrhys*, tua hanner milldir i'r de oddiwrth y castell. Daeth hon yn dref farchnadol enwog yn mhen blynyddau, ac arferid cynnal pump ffair ynddi yn flynyddol. Wedi parhau mewn cryn fri am rai oesoedd, gwaethygodd y farchnad, ac yn y diwedd rhoddwyd hi i fyny yn llwyr. Mae peth o adfeilion yr hen *Dŷ Marchnad* yn aros yn bresenol. Symmudwyd y ffieiriau hefyd o'r plwyf hwn i blwyf *Reynoldston*. Yn amser *Iorwerth I.*, rhoddwyd llawer o diroedd *Bro Gwyr* i hiliogaeth *Marchog Normanaid* o'r enw *Philip*, yr hwn a ddaeth i'r wlad hon gyda *William* y *Goresgynydd*. Mabwysiadodd y teulu hwn yr enw *Penrhys* yn gyfenw, gan ei droi yn *Penrice*, a disgynydd o'r teulu hwn yw *Thomas Penrice*, *Ysw*. Bu'r teulu hwn yn perchenogi ystad *Penrhys* am oesoedd; ond aeth yn eiddo y *Mansels*, trwy i un o honynt briodi *Isabel*, etifeddes *Syr John Penrice*, *Farchog*. Disgynodd teulu y *Manseliad* o wr o'r enw *Philip*, un o'r Normaniaid a ddaeth i'r wlad hon gyda *William I.* *Syr John Mansel* ydoedd *Prif Farnwr* (*Lord Chief Justice*); *Lloegr* yn amser *Harri III.* *Syr Rice Mansel* o'r lle hwn a brynodd ystad ac *Abbatty Margam*, pan dorwyd

i fyny y Mynachlogau a'r Abbattai yn amser Harri VIII. Wedi prynt Margam, aeth Syr Rice i fyw yno, gan adael ei gestyll yn Mrowyr i drugaredd yr hin. Priododd ei fab, Syr Edward Mansel, â Jane, pedwaredd ferch Henry, ail Iarll Worcester. Yn 1712, 10 Anne, urddwyd Syr Thomas Mansel yn Arglwydd Mansel o Fargam, ac etholwyd ef yn un o'r Cyfrin Gynghor, yn olygwr teulu'r Frenines, Dirprwywr y Trysordy, Is-Lyngesydd Deheudir Cymru, a Llywydd Aberdaugleddau. Pan fu farw wŷr i hwn, sef Thomas, Arglwydd Mansel, heb etifedd cyfreithlon o'i gorff, aeth yr etifeddiaethau yn eiddo ei berthynas agosaf, sef Christopher, Arglwydd Mansel, yr hwn a'u rhoddodd i'w nai, sef Thomas Talbot, Ysw. Disgynydd o hwnw yw Christopher Rice Mansel Talbot, A.S., Arglwydd Raglaw Morganwg, a pherchenog Penrhys, &c. Tua dechreu'r canrif presenol, rhoddodd Thomas Mansel Talbot, Ysw., un o'r enw Anthony Keek ar waith i adeiladu palas ardderchog o fewn ychydig i hen Gastell Penrhys, ac y mae yn un o breswylfeydd C. R. M. Talbot, Ysw., A.S., yn bresenol. Yn ymyl y pentref, y mae lle a elwir *Sanctuary*, yr hwn a fu mewn bri mawr gynt, ac yn eiddo Marchogion St. John o Jerusalem. Mae golygfeydd naturiol a hynafiaethol y plwyf hwn yn hynod ddyddorol i'r rhai a ymwelant a'r lle. Mae'r Eglwys wedi ei chyssegru i St. Andrew, a'r fywoliaeth sydd guradiaeth gwerth £58 y flwyddyn, yn nawdd a rhodd C. R. M. Talbot, Ysw., yr hwn yw arglwydd y faenor, a pherchenog yr holl blwyf. Mae capel gan y Wesleyaid, ac ysgol i ferched yn Horton, yn y plwyf hwn. Maint y plwyf yw 2,248 erw, rhwng y traeth; ond nid oes mwy na 1,847 erw o hono yn amaethyddol. Ei werth ardrethol yw £1,646. Tai, 70. Poblogaeth yn 1861, 807; yn 1871, 290.

**PENTYRCH.**—Plwyf yn nghantrf Miskin, undeb a dosparth llys sirol Caerdydd, deoniaeth, archddeoniaeth, ac esgobaeth Llandaf, chwe' milldir i'r gogledd-orllewin o Gaerdydd, a phedair i'r gorllewin o Gaerfili. Mae haenau glo a mwn haiarn Cawg Mwnawl Morganwg yn codi i'r arwyneb yn y plwyf hwn, gan ffurfio rhan o'r Brig Deheuol. Saif yr Eglwys ar ucheldir, tua milldir a hanner i'r gorllewin o afon Taf. Ficeriaeth yw'r fywoliaeth, gwerth £118 y flwyddyn, yn rhodd Esgob, Deon a Glwysgor Llandaf bob yn ail. Mae yn y plwyf gapeli Ymneillduwyr hefyd, sef Capel Bronllwyn (A.), a adeiladwyd gyntaf yn 1858, ac a ail-adeiladwyd yn 1871; Penuel (B.), 1848; Horeb (T.C.) Yn y plwyf hwn y mae Gwaith Haiarn ac Alcan Pentyrech a Melin Griffith, eiddo T. W. Booker & Co., ac y mae wedi bod yn eiddo i'r teulu hwn am fwy na 78 o flynyddau, oblegyd yr oedd yn eiddo iddynt cyn y flwyddyn 1800. Hwn yw y gwaith haiarn hynaf yn Morganwg ag sydd yn gweithio yn bresenol. Yr oedd yma ffwrnes mor fore a'r flwyddyn 1750 gan Meistri Lewis a Thompson, a'r blaenaf o honynt gychwynodd Haiarnfa Dowlais. Tua diwedd y ganrif ddiweddaf, bu rhan o'r mynydd ger Pentyrech ar dân am flynyddau. Dechreuodd trwy i un o'r gwythieni glo gymmeryd tân mewn glofa. Yr oedd y darn hwnw o'r mynydd yn cynnyrchu colofn o fwg am rai blynyddau, ac os gwithid ffon i'r ddaear i ddyfnder neillduol, esgynai

fflam o'r twll wrth ei thynu allan. Yn 1797, tra yr oedd un Mr. Richards, mab offeiriad Llantrisant, yn hela yn y parth hwn, suddodd i'r mynydd hyd ei geseiliau, a llosgodd ei gnawd yn dra pheryglus. Yn 1801, cyfrifid y gwaith hwn yr eangaf yn y deyrnas fel gwaith alcan. Yr oedd Melin Gruffydd yn cynnyrchu yn flynyddol y pryd hwnw 18,000 o gisteidiau o'r *tin* goraf, a phob cist yn cynnwys 225 o lafnau. Cynnwysa y gwaith yn awr ddwy dawdd fwrnes, wyth fwrnes *puddling*, a deuddeg melin rollo. Maint y plwyf yw 8,975 erw. Tai, 506. Poblogaeth yn 1861, 2,110; yn 1871, 2,105.

**PENYBONT-AR-OGWY.**—*Bridgend.*—Tref farchnadol, undebol, pen dosparth llys sirol, a phrif etholfan aelodau Seneddol dros y sir, yn nghantraf Castell Newydd Penybont, deoniaeth Gronedd, archddeoniaeth ac esgobaeth Llandaf; a'i phellder o Lundain 177 milldir, (190 gyda'r reilffordd), 60 o Bristau, 20 o Gaerdydd, 7 o'r Bontfaen, 8 o'r Maesteg, 11 o Lantrisant, 18 o Gastellnedd, a 26 o Abertawy. Saif ar lanau afon Ogwy yr hon a'i rhana yn ddwy ran. Mae y rhan orllewinol o'r dref yn mhlwyf Castellnewydd, neu Trenewydd; a'r rhan ddwyreiniol yn rhanbarth Hen Gastell o blwyf y Coetty. Abera yr Ogwy yn Mor Hafren 5 milldir islaw y dref. Ar bob tu i'r afon yn y dref, y mae adfeilion dau gastell Normanaid, am y rhai y mae hanesiaeth yn bur ddystaw. Adeiladwyd yr Hen Gastell gan Syr Simon Turberville, mab Syr Pain Turberville, o Assar, merch Morgan ab Meurig, Arglwydd y Coetty; a barna rhai mai un o'r teulu adeiladodd y Castellnewydd hefyd. Mae Eglwys plwyf Castellnewydd, wedi ei chyssegru i Iltyd Sant. Dyddia ei choflyfr o'r flwyddyn 1760, ond yn 1850 yr adeiladwyd yr Eglwys bresenol, yr hon sydd adeilad hardd gyda thwr uchel, ac ynddo bedair cloch. Ficeriaeth yw'r fywoliaeth, yn unol a Laleston a Tythegstone, yn werth £250 y flwyddyn. Capel anwes yn mhlwyf Castellnewydd, yw Eglwys St. John, Abercennig.

Eglwys Fair, ac a elwir hefyd Capel Nolton, sydd gapel anwes yn rhanbarth Hen Gastell, yn mhlwyf y Coetty. Adeiladwyd yr Eglwys bresenol yn 1882, ac y mae ar ffurf croes, yn cynnwys corff, canghell, porth, a chlochle, ac un gloch. Mae yn y dref addoldai prydferth gan y gwahanol Ymneillduwyr hefyd, y rhai ydynt a ganlyn:—1 Undodiaid, 1795. Perthynai hwn gynt i'r Annibynwyr. 2. Ruama (B.), 1808, helaethwyd yn 1828. 3. Tabernacl (A.), 1850. 4. Hermon (T.C.), 1862. 5. Wesleyaid. Mae yma Eglwys Babyddol hefyd, St. Mary. Mae yma amryw ysgolion hefyd, megys Ysgol Genedlaethol Hen Gastell, Ysgol y Pabyddion, Ysgol y Wesleyaid, ac Ysgol Frytanaid Tondy. Mae Neuadd y Dref, a elwir hefyd yn Neuadd y Sir, yn adeilad hardd iawn, ac o'i fewn y cynnelir Llys yr Heddyafion bob Sadwrn; a'r Llys Sirol bob yn ail fis a'r Bontfaen. Sylfaenwyd yr adeilad Medi 18, 1848, gan yr Anrhydeddus John Nicholl, A.S., a gorphenwyd ef yn 1845. Yn 1889, adeiladwyd Tlotty'r Undeb, yn ymyl y dref, yr hwn sydd adeilad gwych yr olwg arno.

Yn 1862, adeiladwyd Drinking Fountain ardderchog yn y dref, ar draul y diweddar Iariles Dunraven, er cof am John Randall, Ysw.

Yn 1864, adeiladwyd Gwallgofdy'r Sir, tua milldir a hanner i'r gogledd o'r dref. Mae hwn yn adeilad mawr iawn; a mwy priodol yw dweyd ei fod yn dri adeilad eang. Mae'r prif adeilad wedi ei godi ar ffurf croes, ac yn y canol y mae ty y prif feddyg, a'r swyddfeydd cyhoeddus. Yn yr ochr nesaf i'r brif heol y mae adeilad eang i'r gwrrywod i weithio ynddo; a'r ochr arall y mae'r Eglwys yn cynnwys lle i 250, swyddfa y peirianydd, &c., gydag adeilad helaethi'r menywod i weithio ynddo. Mae yr ystafell giniawa yn 80 troedfedd o hyd, a 40 o led. Saif yr adeiladau a'r cynteddu ar 12 erw o dir; ac y mae yr holl le o fewn y muriau allanol yn 60 erw. Ar du'r de i'r adeiladau, y mae fferm y sefydliad, yr hon sydd yn cael ei thrin yn dda. Mae yn y sefydliad tua 400 o wallgoftaid ar gyfartaledd, ac y mae yn ddigon eang i gynnwys 600.

Cynnwylir marchnad y dref bob Sadwrn, i werthu pob math o ym-borth, a chynwylir ffairiau yma Chwef. 25, Ebrill 1, Iau Dyrchafael a Thach. 17. Adeiladwyd y Ty Marchnad presenol yn 1836. Gosodwyd hi gareg sylfaen i lawr gan Iarll Dunraven. Er ei bod yn dref hynafol mid yw yn gorffoeddig, ond llywodraethir hi gan Fwrdd Iechyd Lleol, yn cynnwys naw o aelodau, un rhan o dair o'r cyfryw a ant o swydd yn flynyddol, ond yn agored i ail etholiad. Cedwir y dref yn hynod lân bob amser, ac y mae yn cael eu goleuo a nwy. Mae yma orsaf ar Gledrffordd Llynvi a Ogmere, ac un arall ar y G. W. R. ger y dref. Cyhoeddir newyddiadur wythnosol yn y dref o'r enw "*Central Glamorgan Gazette*," i'r hwn y mae cylchrediad da. Tua dechreu'r canrif presenol, darfu i amryw gyfoethogion ymfurfio yn gwmpeini, ac adeiladu gweithfa wlenyn eang iawn yma, a gosodwyd ynddi beirianau breintebol Cartwright ac Arkwright; a dygid y weithfa yn mlaen gan Meistri Wyndham a Franklyn, a chyflogent tua chant o weithwyr. Achwynai Malkin yr hanesydd yn dost ar y boneddwyr hyny, ac yr oedd fel yn ymfalchio i'r anturiaeth droi allan yn afluwyddiannus, am eu bod yn ceisio tori i lawr y rhodau bach at nyddu, &c.

Gan fod y dref yn sefyll tua milldir i'r gogledd o'r brif heol rhwng Caerdydd ac Abertawy, a bod y ffordd o'r dref i Gaerdydd gynt dros Bont Ewenni, &c., barnwyd yn ddoeth wneyd ffordd newydd o odre'r dref hyd Pant-y-Brocastle, dwy filldir a hanner o hyd, a thrwy hyny byrhawyd milldir ar y ffordd. Mae yn nghymmydogaeth y dref rai chwareli ceryg nadd (*free stone*) rhagorol; y rhai ydynt lawn cystal, os nid gwell na cheryg nadd Caerbaddon. Yn mhlwyf Castellnewydd y mae Gwaith Haiarn y Tondu, lle y mae dwy dawdd ffwrnes, 23 o ffwrnes puddling, 11 o rai balling, a tair melin rollo. Dechreuwyd y gwaith hwn tua'r flwyddyn 1841. Ei berchenogion presenol ydynt John Brogden a'i feibion. Cafodd y lle hwn ei enw oddiwrth Ithel Ddu, mab Owen ab Morgan Hen, Tywysog Morganwg. Yma y pres-wyliai Ithel yn 987, o.c., a gelwir y lle Ton Ithel Ddu: llygriad o'r hwn yw Tondu. Mae'r plwyfi a'r *hamlets* canlynol yn undeb Penybont:—

|                        | NRWL. |                        | NRWL.   |
|------------------------|-------|------------------------|---------|
| St. Andrew's Minor ... | 227   | Llangonwyd Middle ..   | 3076    |
| St. Athan ... ..       | 1771  | Llanbarran ... ..      | 3050    |
| Bettws ... ..          | 5086  | Llanbarran .. ..       | 1554    |
| St. Brides Major ..    | 6402  | Llanilid .. ..         | 1574    |
| St. Brides Minor . .   | 1829  | Llanmaes ... ..        | 1085    |
| Coity Higher ... ..    | 2911  | Llanmihangel .. ..     | 586     |
| Coity Lower .. ..      | 1660  | Llansannor ... ..      | 1798    |
| Colwinstone .. ..      | 1760  | Llantwit Major .. .    | 5298    |
| Cowbridge ... ..       | 96    | Lisworney .. ..        | 897     |
| Coychurch Higher       | 3910  | Marcross .. ..         | 1041    |
| Coychurch Lower        | 1090  | Mary St. Church .. .   | 727     |
| Owmda .. ..            | 8818  | Mary St. Hill ... ..   | 1404    |
| St. Donatts ... ..     | 1018  | Merthyr Mawr .. ..     | 2590    |
| Eglwysbrewis .. ..     | 867   | Monknash .. ..         | 1584    |
| Ewenny .. ..           | 1975  | Nash a Sembridge .. .  | 215     |
| Flemingston .. ..      | 672   | Newcastle .. ..        | 2870    |
| Gileston ... ..        | 496   | Newton Nottage .. .    | 3877    |
| St. Hilary .. ..       | 1200  | Pencoed ... ..         | 2045    |
| Laleston ... ..        | 1631  | Penlline .. ..         | 1784    |
| Lanblethian ... ..     | 3148  | Peterston super Montem | 2060    |
| Landough ... ..        | 683   | Pile a Kenfig .. ..    | 5251    |
| Llandow .. ..          | 1086  | Tytheaston ... ..      | 2871    |
| Llandyfodwg .. ..      | 6508  | Wick .. ..             | 1870    |
| Llangan .. ..          | 1175  | Ynysawdre .. ..        | 886     |
| Llangeinor .. ..       | 6710  | Ystrad Owen.. ..       | 1494    |
| Llangonwyd Lower       | 2027  |                        |         |
|                        |       |                        | 109,788 |

Prif balasu ardal Penybont ydynt Court Colman, Court Fitzhamon, Glan Ogwy, Newcastle House, Goetrehen, Tondu House, &c. Rhif tai plwyf Castellnewydd yn 1861, 448; yn 1871, 608. Pobl yn 1861, 2244; yn 1871, 3450. Plwyf y Coetty,—tai yn 1861, 561; yn 1871, 668. Pobl yn 1861, 2685; yn 1871, 3251.

PIL.—*Pyle*.—Plwyf a phentref yn nghanref Castellnewydd Penybont, undeb a dosparth llys sirol Penybont, deoniaeth Gronedd uchaf, archddeoniaeth ac esgobaeth Llandaf. Saif chwech milldir i'r gorllewin o dref Penybont, ac 196 o Lundain dros reilffordd y Great Western; ar yr hon y mae gorsaf ger y pentref. Bu'r Pil am oesoedd lawer yn gapeliaeth berthynol i blwyf Cenffig; a chapel anwes perthynol i'r plwyf hwnw oedd Eglwys y Pil, mor ddiweddar a'r fwyddyn 1818. Capel anwes oedd Llanfawdlan Cenffig hefyd, yn perthyn i Hen Eglwys Cenffig, yr hon sydd wedi ei chladdu gan y tywod. Adeiladwyd Eglwys y Pil a Llanfawdlan, gan William Iarll Caerloyw, yr hwn oedd wŷr i Henry I. Bu William farw yn 1188. Mae yr Eglwys wedi ei chyssegru i St. Paul, ac iddi gorff, canghell, a chlochdy gydag un gloch. Ficeriaeth yw'r fywoliaeth yn unol ag eiddo Cenffig, gwerth £95 y fwyddyn yn nawdd y goron.

Bu Ffynnon Collwyn, yr hon sydd o fewn ychydig i'r Eglwys, mewn llawer o fri gynt, am yr ystyrid ei dwfr yn feddyginiaethol at amryw glefydau. Mae yn y fynwent ychydig woddillion o groes hynafol, yr hon feallai a dorwyd gan y Cromweliaid yn amser Charles I. Mae


-----

THE UNIVERSITY OF CHICAGO  
LIBRARY  
540 EAST 57TH STREET  
CHICAGO, ILL. 60637  
TEL. 773-936-3200



*By Bonham,  
James & Company.*





hamgylch ac ynddo dri phorth yn arwain iddi. Mae rhan o'r mur hwn, gyda'r porth deheuol yn sefyll yn bresenol, ac mewn cadwraeth dda iawn. Ar ol gorphen y mur o amgylch y dref yr adeiladodd Quinton ei gastell yn Llanfleiddian, ac y mae hwnw yn myned ar ei enw yn barhaus.

Nid oes sicrwydd pwy ddinystriodd y muriau oedd o amgylch y dref ar y gogledd, dwyrain, a gorllewin; ac etto gellir casglu yn ddigon naturiol mai Owen Glyndwr a'u torodd yn mis Medi, 1410. Mae yn ffaith iddo ymosod ar gestyll Llandochowy, Llanfleiddian, Penllin, Talyfan, &c., a dinystrio pentrefi Aberthin, Llanfrynach, &c., y rhai oeddynt yn ardal y dref; ac y mae yn ddigon tebygol iddo ddryllio muriau y dref hefyd. Ychydig i'r dwyrain o'r dref, yr ymladdodd ef un o'i brif frwydrau yn Morganwg, yr hon a barhaodd 18 awr. Yr oedd holl farchogion Normanaidd Morganwg wedi casglu eu lluoedd yn nghyd i'r frwydr hono, ac yn ymladd yn ffyrnig o blaid Henry IV., ac yn erbyn Owen Glyndwr. Yr oedd llaweroedd o Gymry Bro Morganwg yn hollol dan awdurdod y Normaniaid, ac yn ymladd yn erbyn Owen; tra yr oedd Gwyr y Mynyddau a'r Cymoedd wedi ymresu yn wirfoddol i ymladd dan faner Y Ddraig Goch; ac ar ol ymladd ffyrnig o bob tu am ddeunaw awr, a gwaed dynol ar y maes ddyfnder carnau'r ceffylau ar Bant y Wenol, yn y diwedd cliriodd Glyndwr a'i wyr y maes gan lwyrr orchfygu eu gelynion. Am oesoedd ar ol hyny, galwyd y fan wrth yr enw Bryn Owen. Gelwir y lle yn bresenol wrth yr enw Stalling Down. Ar y bryn hwn yr arferid crogi drwg weithredwyr am oesau, pan oedd carchar yn y Bontfaen, a chyn trefnu carchar Caerdydd yn brif garchar y sir.

Yn 1537, cafodd y Bontfaen ei gwneyd yn fwrdeisdref yn unol a Gweithred Seneddol a wnaed ar gais Harri VIII., a chafodd hawl o fod yn gyfranog a Chaerdydd, Llanirisant, Cenffig, Aberafan, Castellnedd, Abertawy, a Chaslwchwr, i anfon aelod i Dy'r Cyffredin. Mae yn parhau yn fwrdeisdref o'r pryd hwnw hyd yn awr; ac o'r flwyddyn 1882, yn gyfranog a Chaerdydd a Llantrisant yn anfon aelod i'r Senedd. Yn 1576, bu terfysg lleol yma, a brwydro ffyrnig a chleddyfau rhwng Bassett o'r Beaupre a'i blaid, a Turberville Penllin a'i blaid. Nid yw'r cofnod geir o'r ymladdfa yn hysbysu yr achos; er mai tebygol yw i'r ymryson ddechreu mewn cysylltiad ag etholiad Maer y dref, a bod y naill deulu am honi yr uchafiaeth ar y llall.

Mae'r dref hon wedi bod yn enwog am oesoedd yn rhinwedd yr Ysgol Ramadegol ragorol sydd ynddi. Dywed traddodiad mai i'r dref hon y symmudwyd Ysgol Llanilltyd Fawr, wedi i'r athrofa hono golli ei bri dan lywodraethiad y Normaniaid. Etto, barna rhai haneswyr galluog mai teulu y Stradlings, o Gastell St. Donatts, a sefydlasant ysgol yn y dref hon gyntaf. Pwy bynag a'i dechreuodd, efe a blannodd fesen a dyfodd yn dderwen sydd wedi rhoddi cysgod a lloches i addysg am oesoedd. Diamheu mai y prif ysgolhaig a addysgwyd ynddi, a'r hwn wedi hyny a osododd fwaf o fri arni hithau, oedd Syr Leoline (Llywelyn) Jenkins, Farchog, Barnwr y Morlys, ac Ysgrifenydd Cartrefol Prydain yn amser Charles II. Yn Ysgol y Bontfaen y dechreuodd ei

yrfa addysgol,—yma y dysgodd Ramadeg y Groeg a'r Lladin, ac oddi-yma yr aeth, yn 16eg oed, i Goleg Iesu, Rhydychain. Trwy ei offer-ynoliaeth ef y cyssylltwyd yr ysgol hon a'r coleg hwnw, ac yn rhin-wedd ei ewyllys ef y cariwyd y sefydliad yn mlaen am oesoedd. Mae y *Commissioners on Education* wedi gwneyd cyfnewidiadau pwysig yn nhrefniad ewyllys Syr Leoline Jenkins mewn cyssylltiad a'r ysgol hon er ys amryw flynyddau bellach, a phlant tlodion wedi cael colled fawr trwy hyny. Yn lle rhoi ysgol am ddim i blant tlodion y dref a'r plwyfi cychynol am bedair blynedd, a rhoi mantais golegawl iddynt yn Rhydychain ar ol hyny, yn ol yr ewyllys, y maent wedi rhoddi y fantais hono yn agored i gystadleuaeth, fel y gall estroniaid gael yr hyn a fwrriadwyd i blant y lle hwn yn unig. Adeiladwyd yr ysgoldy presen-ol yn 1847, gyda thy annedd i'r prif athraw, gan Gymrawdorion Coleg Iesu, Rhydychain. Cafodd y dref Freinlen hefyd gan Charles II., trwy ddylanwad Syr Leoline Jenkins yn benaf. Yn rhinwedd y Freinlen hon, llywodraethir y dref gan faer, dau *bailiff*, a chwech henadur. Dewisir y maer am ei oes gan Ardalydd Bute, ac etholir y ddau *bailiff* gan y bwrdeisiaid yn flynyddol. Mae ganddynt hawl i gadw *Court of Record* yn y dref yn ol y Freinlen, ond nid ydynt yn gosod yr hawl hono mewn gweithrediad. Mae Neuadd y Dref yn adeilad gwych yn ochr y brif heol, ac ynddo y cynnelir y llys sirol bob yn ail fis a Phen-ybont-ar-Ogwy. Cynnelir llys yr heddynadon yn swyddfa yr hedd-geidwaid yn wythnosol. Saif yr adeilad hwn hefyd yn ymyl y brif heol, yn mhen gorllewinol y dref. Mae yma dy marchnad da hefyd, yn yr hwn y cynnelir marchnad bob dydd Mawrth. Cynnelir feiriau yn y dref y dydd Mawrth blaenorol i'r 25ain o Fawrth, Mai 4, Mehefin 24, Medi 29, a'r dydd Mawrth olaf yn Rhagfyr.

Adeiladwyd yr Eglwys bresenol yn 1851, ar y draul o £1,400, yr hyn a gasglwyd trwy danysgrifiadau. Mae yn adeilad gwych, mewn arddull Normanaidd, yn cynnwys corff, canghell, rhodfa ddeheuol, oriel ac organ, a chlochdy ysgwar, yn yr hwn y mae wyth cloch. Ficeriaeth yw'r fywiolaeth, yn unol ag eiddo Llanfleiddian Fawr a Llanddunwyd Fach (*Welsh St. Donatts*), gwerth £800 y flwyddyn, yn nawdd a rhodd Deon a Glwysgor Caerloyw. Dyddia coflyfr yr Eglwys o'r flwyddyn 1718. Mae yn yr Eglwys goffadwriaeth am Dr. Benjamin Heath Malkin, M.A., F.R.A., yr hwn a ysgrifennodd ddwy gyfrol o hanes Deheudir Cymru, y rhai a gyhoeddwyd yn 1807. Mae y capeli canlynol yn y dref hefyd:—Capel y Trefnyddion Calfnaidd, 1825; Ramoth, Capel y Bedyddwyr, 1828; Wesley Chapel, 1850.

Mae'r dref yn cael ei chadw yn hynod syber, ac y mae ynddi luaws o fasnachdai gwychion. Mae yn cael ei goleuo y nos a nwy, ond nid oes iddi ddwfr weithfa. Cyhoeddir ynddi fath o newyddiadur o'r enw *The Glamorgan Observer*. Yn 1865, gwnaed llinell o reilffordd o'r dref i ymyl gorsaf Llantrisant, yr hyn sydd wedi ei dwyn i gyssylltiad mwy uniongyrohol nag o'r blaen a pharthau gogleddol Morganwg, megys Aberdar, Cwm Rhondda, Merthyr, &c., gan fod cangen o Reilffordd Cwm Taf yn rhedeg o Bontypridd trwy blwyf Llanilltyd Faerdref i'r un orsaf ag eiddo'r Bontfaen ger Llantrisant. Mae hyn wedi rhoi

mantais fawr i wyr y mynyddau i fyned i newid awyr &c., i Lanillyd Fawr, Southerndown, &c. Mae tlodion y dref hon yn derbyn elw oddiwrth amryw gymmunroddion sydd wedi eu gadael iddynt o bryd i bryd, a chedwir cofres o'r cyfryw yn yr Eglwys. A ganlyn sydd fath o gopi o'r cyfryw:—Mrs. Catherine Williams yn ei ewyllys, dyddiedig Tach. 27, 1682, a adawodd y swm o £100 i dref y Bontfaen am byth; llog y rhai sydd i'w rhanu yn flynyddol rhwng tlodion y dref.

Syr Leoline Jenkins, a adawodd yn ei ewyllys, dyddiedig Mehefin 20, 1686, y swm o £20 bob pedair blynedd at brentisio a dilladu plant tlodion tref y Bontfaen; a bod gofal trefniad yr arian ar brif athraw yr Ysgol Ramadegol, a fyddo yn y swydd ar y pryd.

Mrs. Mary Wilcox, a adawodd ddau faes yn mhlwyf Llanfleiddian Fawr, ardreth y rhai sydd i'w rhanu yn flynyddol rhwng tlodion tref y Bontfaen, gan y Bailiffs fyddont mewn swydd ar y pryd.

Mrs. Rebecca Wyndham, a adawodd yn ei ewyllys y swm o £100, y rhai gyda'u llog a ddefnyddiwyd i brynu hanner tiroedd Pencoeed yn mhlwyf Llanilid, ardreth y cyfryw sydd i'w defnyddio gan offeiriad a gwarcheidwaid yr Eglwys, i brentisio plant tlodion y dref. Hefyd tŷ Ceoil Thomas, ger y groes yn y dref; tŷ Thomas Thomas, ger y pwysdy; tŷ Mrs. Mary Morgan, ger y farchnadle, a chae a elwir Tair Erw Heol y Smallway yn mhlwyf Llanfleiddian Fawr, y rhai a ardrethir am ddeuddeg swllt y flwyddyn, a pedwar swllt oddiwrth y gorff-olaeth, ydynt wedi eu gadael i ofal gwarcheidwaid yr Eglwys, er rhanu eu gwerth o fara rhwng tlodion y dref ar ol y gwasanaeth ar y Suliau.

Mr. Walter Williams mewn attodiad i'w ewyllys olaf, dyddiedig Ionawr 16, 1796, a adawodd y swm o £4 yn flynyddol dros byth allan o ardreth y *Paddocks* yn mharth gorllewinol y dref, i'w talu i drysorydd y dref, ac i'w rhanu gan y ddau *bailiff* fyddo mewn swydd, rhwng tlodion plwyf a thref y Bontfaen.

Daniel Jones, Ysw., Beaupre, yn mhlwyf St. Hilary, yn ei ewyllys dyddiedig Tach. 24, 1840, a orchymynodd i drefnwyr ei ewyllys a'i feddiannau, i osod ar log yn 8 *per cent consols*, gymmaint ag a fuasai yn dwyn llog o £10 y flwyddyn, at wasanaeth a budd tlodion y dref am byth, a bod yr arian i gael eu rhanu bob hanner blwyddyn—Sulgwyn a Nadolig, gan yr offeiriad fyddo mewn swydd; neu i'r cyfryw offeiriad ddefnyddio yr arian i brynu gwisgoedd, dillad gwelyau, a glo i'r tlodion. Rhoddwyd yr arian yn ol yr ewyllys yn y 8 *per cent consols* yn enw Cyfrifydd Cyffredinol ei Mawrhydi.

John Frauncies Gwyn, o Ford Abbey, plwyf Thorncombe, Swydd Devon, yn ei ewyllys Rhag. 11, 1845, a adawodd y swm canlynol:—Fod £200 i gael eu rhoddi i ofal offeiriad a gwarcheidwaid Eglwys y Bontfaen, a'u bod i'w gosod ar log yn nhrysorfeydd cyhoeddus Prydain Fawr, a'r llog i'w ddefnyddio yn y dull y bernir ddoethaf er llesiant Ysgol Wladwriaethol y bechgyn yn nhref y Bontfaen, er budd i blant y tri phlwyf, sef y Bontfaen, Llanfleiddian, a Welsh St. Donatts. Arlwydd y faenor yw Ardalydd Bute. Maint y plwyf yw 96 erw; ond y mae'r fwrdaes yn bresenol yn 116 erw. Tai, 269. Pobl yn 1861, 1,064; yn 1871, 1,184. Gwerth ardrethol £8,556.

**PONTLOTYN.**—Pentref poblogaidd a chynnyddol ar lan afon Rhymini, yn mhlwfy Gelligaer, ac yn agos i Waith Haiarn Rhymini. Cafodd y bont sydd dros yr afon ei henw oddiwrth berson o'r enw Lot, yr hwn a elwid Lotyn gan ei gydnabod. Hen enw yr ardal oedd Tir Ifan Wyn, ac Heol Ifan Wyn yw enw yr heol sydd yn arwain o Rymni dros y bont, ac i fyny trwy y pentref tua'r Fochriw, Gelligaer, &c. Pan ddechreuodd gweithfeydd Rhymini helaethu tua'r de, ac yr adeiladwyd fwrnes gyntaf yn Nghwaith Bute, sef ochr Morganwg i'r afon, adeiladwyd yn yr ardal hon fath o ddau bentref bychan, y rhai a enwyd yn Sodom a Gomorah; nid o herwydd eu drygioni, ond o herwydd fod y Lot y cyfeiriwyd atto yn byw yma. Gelwid Sodom ar y twr tai a adeiladwyd rhwng Heol Ifan Wyn, a Gwaith y Bute, a gelwid y tai ar bob twr i Heol Ifan Wyn, wrth yr enw Gomorah. Bu'r ddau le yn myned dan yr enwau hyn am flynyddau lawer; ond bellach er ys amryw flynyddau, mae yr holl ardal yn myned dan yr enw Pontlotyn. Ymddengys mai yn Llys Ynadon Merthyr y penderfynwyd newid yr enw, dan yr amgylchiadau canlynol:—Yr oedd Sodom a Gomorah wedi bod o'r cychwyn yn brif breswylfa Gwyddelod Rhymini, a thrwy eu meddwod a'u hymrysonau hwy a'r Cymry, daeth y lle i air drwg. Tua'r flwyddyn 1860, am dymhor maith, dygid rhai o'r Gwyddelod agos bob wythnos o'r lleoedd hyn i lys yr ynadon yn Merthyr i gael eu profi am feddwi ac ymladd, a chan fod tuedd yn yr enwau Sodom a Gomorah i gyfleu y drychfeddwl o leoedd drygonus, rhag i'r wlad feddwl fod y lleoedd hyn yn debyg i Sodom a Gomorah gwlad Canaan, penderfynwyd mabwysiadu yr enw Pontlotyn yn eu lle; ac wrth yr enw hwn yr adnabyddir ef yn bresenol.

Yn 1885, adeiladwyd Bethlehem, capel y Trefnyddion Calfinaidd yn y lle. Yn 1887, adeiladwyd Zoar, capel y Bedyddwyr, ac helaethwyd ef yn 1859. Yn 1865, adeiladwyd Nazareth, gan yr Annibynwyr. Rhyfedd mor dueddol ydym fel cenedl i roddienwau Iuddewig ar leoedd yn Nghymru. Yn y fan yma, dyma Sodom, Gomorah, Zoar, Bethlehem a Nazareth yn un twr. Yn ychwanegol at y capeli a nodwyd, y mae yma Eglwys eang a hardd wedi ei chodi. Mae yma ysgolion gwybion hefyd er addysgu plant yr ardal. Mae'r lle yn myned ar gynnydd cyflym yn bresenol (1878), gan fod lluwys o dai newyddion yn cael eu hadeiladu yma, a diamheu y daw yn fwy a phwysicach etto mewn blynyddau dyfodol.


**PONTFRIDD.**—Tref farchnadol, undebol, pen dosparth llys sirol, etholfan aelodau dros y sir, &c., a'i sefyllfa o fewn Cwm Taf, lle yr una afonydd Taf a Rhondda. Saif y dref mewn tri phlwyf, sef Llanilltyd Faerdref, Llanwynno, ac Eglwys Elian; ac y mae parth o blwyf Llantrisant yn cyrhaedd hyd o fewn ychydig i'r dref. Cafodd y dref ei henw oddiwrth y bont fawr un bwa, a adeiladwyd yma gan William Edwards, yn 1755; desgrifiad o'r hon a welir yn nhudalen 87. Pellder y dref o Lundain yw 172 milldir, o Gaerdydd 12, o Ferthyr Tydfil 12, o Aberdar 11½, o Gaerffili 7, o Lantrisant 5. Nid oedd yma ond pentref bychan distadl, hyd nes agorwyd glofeydd yn yr ardal, ac y gwnaed cleddfordd o Gaerdydd i'r pentref yn 1840. Cyn

---





*Wm. H. Wood*  
*1851*  
*St. Louis, Mo.*





hyny, nid oedd yma ond nifer fechan o aneddu, a phrif wrthddrychau ymwelwyr oeddynt yr Hen Bont, y Maen Chwyf, Berw Taf, Ffynnon Gelli Dawel, a Chraig yr Hesg; ac er fod y lle wedi cynnyddu yn gyflym, nes hawlio safle yn mhlith prif dref Morganwg bellach, etto mae y gwrthddrychau a nodwyd yn cadw eu dyddordeb yn barhaus. Saif Craig yr Hesg fel cawres gadarn, rhwng afonydd Taf a Rhondda:—

Hir gorniog arw garnedd—yw Craig yr Hesg,  
Crog ar osgo ryfedd;  
Ac ar ei gwyllt gaerog wedd,  
Urdd hynod o arddunedd.

Ar]ben ei hiach gribyn uchel,—nwyfus  
Chwery'r nefol awel;  
A'i bronnydd gan goedydd, gwel!  
Yn gywrain lethrog oriel.—*Gwilym Eilan.*

Wedi gwneyd cledrffordd Cwm Taf trwy'r lle o Gaerdydd i Ferthyr Tydfil, gwnaed cangen o'r lle hwn i fyny trwy Gwm Rhondda Fawr hyd Treherbert, a Blaen Rhondda; a changen drachefn oddiar hono hyd Blaenllechau, yn Nghwm Rhondda Fach, tuag at gludo glo yr ardaloedd hyn i'r porthladd. Gwnaed cangen drachefn o myl Treforest trwy blwyf Llanilltyd Faerdref hyd orsaf Llantrisant ar linell Deheudir Cymru; yr hyn sydd wedi peri i dref Pontypridd ddyfod yn bwysig ac eang; a'i gorsaf yn ganolog a chyfleus iawn.

Pan ddechreuwyd agor glofeydd yn yr ardal, ac i luaws o ddyethriaid ymsefydlu yn y lle, gwelwyd yr angenrheidrwydd o adeiladu aneddu newyddion; a chodwyd rhes ar ol rhes o honynt, nes daeth y lle yn dref fawr mewn ychydig flynyddau. Yn ganlynol i hyn, adeiladwyd Tŷ Marchnad yma, yn yr hwn y cynnelir marchnad bob dydd Mercher.

Yn 1860, sefydwyd Cymdeithas Lenyddol yn y lle, yr hyn a ganlynwyd gan sefydliad Llyfrfa, yn yr hon y mae tua 1,000 o gyfrolau at wasanaeth yr aelodau. Adeiladwyd yma Lysdy eang hefyd, gwerth £4,000, yn yr hwn y cynnelir llys yr ynadon yn wythnosol, a'r llys sirol yn fisol. Cynnwysa dosparth y llys sirol y lleoedd canlynol:—Bad Uchaf, Blaenllechau, Brynsadler, Cross Inn, Croesfaen, Cwm-yr-aber, Cymmer, Dinas, Felin Newydd, Gilfach Goch, Gyfeillion, Hafod, Heol Fach yr Ystrad, Hopkinstown, Llantrisant, Llanilltyd Faerdref, Mynwent y Crynwyr, Nantgarw, Nelson, Penrhiwfer, Pentre Ystrad, Pontypridd, Porth, Rhydfelen, Tonypany, Tonyrefail, Tongwynlas, Ton-yr-Ystrad, Ynys-y-Bwl, Ystrad Mynach, Y Groes Wen, a Ffynnon Taf.

Yn 1868, ffurfiwyd Undeb Plwyfol Pontypridd, trwy orchymyn Bwrdd y Tlodion. Cynnwysa yr undeb y plwyfi canlynol:—Eglwysilan, Llanfabon, Llanilltyd Faerdref, Llantrisant, Llanwynno, ac Ystrad Dyfodwg. Adeiladwyd Tlotty'r Undeb yn 1865, yn mhlwyf Llanilltyd Faerdref; ac y mae yn adeilad gwych iawn yr olwg arno. Cynnelir cyfarfodydd y gwarcheidwaid ynddo bob yn ail wythnos ar ddydd Mercher.

Ffurfiwyd cwmni Gweithfa Ddwfr y lle trwy Act Seneddol yn 1864, a gwnaed y Ddwfr Gronfa ar du gorllewinol heol y plwyf, sydd yn arwain i'r Darrenddu, fel y diwallir y lle â dwfr iachus i helaethrwydd.

Yn 1867—8, yr adeiladwyd Eglwys St. Catherine, ar y draul o dros £5,000; i'r hon y mae twr pigfain yn 162 troedfedd o uchder. Mae i hon gorff, canghell, rhodfa ddeheuol, vestry, ac ystafell organ; ac y mae yn ddigon eang i ddal mil o wrandawwyr. Yr Eglwys agosaf i'r lle cyn adeiladiad hon oedd Eglwys Ddosparthol Glyn Taf, ger Tre-forest; a chapel anwes perthynol i'r Eglwys hono yw St. Catherine.

Mae yn y dref luaws o gapeli ymneillduol, i'r rhai y perthyn eglwysai llnosog. Corffolwyd eglwys Fedyddiol yn y lle môr fore a'r fwyddyn 1811, ac y mae Tabernacl, y capel adeiladwyd gan yr enwad yn 1861, yn un helaeth a gwych. Adeiladwyd capel Penuel (T.C.) yn 1817, ac yn 1860. Yn 1882, adeiladwyd capel Sardis (A.), ac ail adeiladwyd ef yn 1882; ac adeiladodd yr un enwad gapel Seion yn 1870.

**PORTH CERRI.**—*Porthkerry.*—Plwyf a phentref yn nghanntref Dinas Powys, undeb a dosparth llys sirol Caerdydd, deoniaeth, archddeoniaeth, ac esgobaeth Llandaf. Saif ar lan y môr tua deg milldir i'r de-orllewin o Gaerdydd, a wyth i'r de-ddwyrain o'r Bontfaen. Maint y plwyf yw 1,181 erw, 884 o'r cyfryw sydd yn amaethyddol, tra'r gweddill yn draeth tywodlyd. Gwerth ardrethol £1,110, yn ol y prisiad a wnaed Medi 29, 1871. Tai 85. Pobl yn 1861, 168; yn 1871, 158. Perchenogir y plwyf gan deulu o'r enw Bomilly; a chedwir ysgol yn y pentref ar draul y teulu. Rectoriaeth yw'r fywoliaeth Eglwysig, yn unol ag eiddo Barri; a'r ddwy yn werth £289 y fwyddyn.

Cafodd y lle hwn ei enw oddiwrth Ceri ab Caid, brenin Eussyllwg, yr hwn oedd yn teyrnasu yma cyn y cyfnod Cristionogol. Yn achyddiaeth Tywysogion Morganwg ceir y cofnod hyn am dano:—"Ceri ab Caid a fu wr call iawn, ac a wnaeth lawer o longau ar draul gwlad ac Arlwydd; ac am hyny y gelwid ef Ceri Hir Lyngwyn (Llynges), gan lyngwyni ar y môr, ac efe a fu fyw yn y lle a elwir Porth Ceri."

Ymddengys oddiwrth yr enw a'r dyfyniad hwn, fod yn y lle borthladd cyfleus gynt, a bod oryn fasnach yn cael ei dwyn yn mlaen yma. Nid yw bychandra presenol y lle yn un prawf na fu yn fawr a phwysig unwaith; oblegyd y mae profion amlwg i'w cael, gyda chofnodion hanesyddol yn hyspysu fod gorliffadau Hafren mewn gwahanol oes- oedd, hyd yn nod wedi claddu trefi mawrion dan dywod yn Morganwg. Un o'r cyfryw oedd hen dref Cenffig. Cafwyd adfeilion hefyd wrth wneuthur Porthladd Talbot yn 1886, ag oedd yn brawf digonol i'r traeth hwnw fod yn gyfaneddol gynt. Cafwyd olion cyffelyb hefyd wrth wneyd Dociau Caerdydd. Mae'n wir y gwada rhai amheuwr hanesol fod na llongau, na phorthladd, nag arall gan y Cymry cyn i'r Rhufeiniaid ddyfod i'n gwlad; ond nis gallant ddifodi y lleoedd a'r enwau sydd yn aros hyd heddyw yn fath o golofnau coffad am a fu. Ceisiwyd newid enw y lle hwn yn Borth Curig, i'r dyben o ddileu y drychfeddwl am ei hynafiaeth; ond erys er hyny yn Borth Ceri, gan gadw enw Ceri ab Caid yn ffres am tua dwy fil o flynyddau. Dywed Llyfr Syr Edward Stradling yn bendant mai yn Mhorth Ceri y glan-

iodd y Normaniaid yn Morganwg, pan ddaethant yma ar gais Einion ab Collwyn, i helpu Iestyn ab Gwrgan. Fel hyn y dywed :—" Daethant i dir yn Mhorth Ceri, lle yr oedd y pryd hwnw, hafren dda i longau, cyn i'r graig syrthio, yr hyn a ddygwyddodd yn amser ein tadou : " (*Iolo M.S.S. p. 845*). Ysgrifennodd Syr E. Mansel ei lyfr yn 1584; ac os mai yn amser ei dadeu y syrthiodd y graig fel ag i ddinystrio y porthladd, y casgliad naturiol yw, i hynny gymmeryd lle tua'r flwyddyn 1500. Ychydig ar ol hyn yr oedd porthladd Colhugh mewn cryn fri yn amser Harri VIII., ond y mae hwnw hefyd wedi ei ddinystrio gan y môr er ys oesoedd, Mae peth o adfeilion y porthladd hwn yn amlwg yn bresenol ger Llanilltyd Fawr. Bernir fod gan Ceri balas ger Llanillid hefyd, ac mai enw hynafol y fan oedd Caer Ceri, ac iddo gael enw Llanilid yn y canrif cyntaf o'r cyfnod Cristionogol.

• **PORTH EINON.**—*Porteynon.*—Plwyf a phentref, yn nghantrfref a dosparth llys sirol Abertawy, undeb Gwyr, deoniaeth Gwyr orllewinol, archddeoniaeth Caerfyrddin, esgobaeth Ty Ddewi, tua 15 milldir i'r gorllewin o Abertawy. Saif y pentref ar lân y mor yn ymyl morgilfach prydferth a chysgodol, o'r enw *Port Eynon Bay*. Bu y lle hwn yn borthladd a chryn fasnach ynddo gynt, tra nad yw yn awr ond preswylfa ychydig bysgotwyr. Mae yn hynod glodus am greginbysg, *oysters*, &c. Ar lan y môr yn y plwyf hwn y ceir rhai o'r golygfeydd gwylltaf yn Morganwg. Mae'r creigiau calch yma fel muriau banog yn dal y mor fel caethwas yn ei wely; tra rhai o honynt yn gogwyddo allan amryw latheni dros ei bonau, ac fel yn crogi uowhben berw trochionag y weilgi cynhyrfus. Yn yr ardal yma y mae'r ogofeydd rhyfedd y cyfeirir atynt dan y penawd *Hynodion y Sir*. Yn ogofeydd Paviland, ar du gorllewinol y pentref, y cafwyd esgyrn yr elephant, y rhinoceros, yr arth, yr hayaena, y blaidd, &c. Mae yma le campus i'r daiaregydd efrydu llyfr creigiog y cread hefyd, am fod yma rai *faulds* go fawr. Bu y pentref hwn am oesoedd yn lloches llu o rednwyddwyr (*smugglers*); ac yr oedd yn lle manteisiol iawn i'r cyfryw; am y gallai llongau droi i mewn i'r Bay a dadlwytho rhan o'r llwyth, ac yna myned yn y blaen i Abertawy, heb dynu nemawr sylw. Pa fodd bynag, y mae gwyliadwriaeth fanylach yn bresenol, fel nad oes son am *smugglers* Porthinion. Perchenog y plwyf, ac arglwydd y faenor yw C. R. M. Talbot, A.S., yr hwn sydd yn talu am addysgu plant y plwyf, yn ysgol y pentref. Yr Eglwys yw unig addoldy y plwyf, yr hon sydd adeilad hynafol yn yr arddull Normanaidd. Rectoriaeth yw'r fywoliaeth gwerth £121 y flwyddyn, yn nawdd a rhodd yr Arglwydd Ganghellydd. Maint y plwyf yw 1,186 erw, rhwng y dwfr a'r traeth. Gwerth ardrethol £800. Tai 68. Pobl yn 1861, 297; yn 1871, 254.

• **READYR.**—*Radir.*—Plwyf yn nghantrfref Miskin, undeb a dosparth llys sirol Caerdydd, deoniaeth, archddeoniaeth, ac esgobaeth Llandaf, yn ffinio a phlwyf Llandaf; a'r Eglwys yn sefyll tua milldir i'r gogledd-orllewin o Landaf, pedair milldir o Gaerdydd, ar lan orllewinol afon Taf. Mae'r plwyf bychan hwn yn un hynod ffurthlawn a phrydferth; ac ynddo amryw balasau heirdd, megys Radir Court, Ceridwen Cottage,

**Ty'n-y-Nant Cottage, &c.** Ardalydd Bute a Iarll Plymouth ydynt berchenogion y plwyf. Yr Ardalydd yw Arglwydd y faenor, ond y mae rhodd y fywoliaeth Eglwysig, yn eiddo Iarll Plymouth. Ficeriaeth yw'r fywoliaeth, gwerth £115 y fiwyddyn. Mae capel yn y plwyf hefyd gan y Trefnyddion Calfinaidd; ac ysgol ger Ty'n-y-Nant i addysgu plant y plwyf. Maint y plwyf yw 1,580 erw. Prisiaid yn 1865, £8,887, yn 1871, £11,671. Tai 85. Pobl yn 1861, 472; yn 1871, 422.

**REYNOLDSTON.**—Plwyf a phentref yn nghanntref a dosparth llys sirol Abertawy, undeb Gwyr, deoniaeth Gwyr orllewinol, archddeoniaeth Caerfyrddin, esgobaeth Ty Ddewi, deuddeg milldir i'r gorllewin o Abertawy, mewn llanerech swynol yn Mrowyr. Yn y plwyf hwn y mae Mynydd Cefn-y-Bryn, yr unig fynydd sydd yn Mrowyr, ac nid yw hwn ond 609 o droedfeddi o uchder, ac felly mwy priodol ei alw yn fryn na mynydd. Ar ben hwn y mae Cromlech tuag 20 neu 25 tunnell o bwysau yr hon a elwir Coeten Arthur; yr hon medd traddodiad, a godwyd yn amser y brenin Arthur Fawr, er ei anrhydedd ef, ac nid yn deml dderwyddol fel cromlechau yn gyffredin. Mae ffynnon ar y mynydd hwn hefyd, a elwir Y Ffynnon Santaidd, yr hon sydd yn llanw ac yn treio fel y môr. Ar dir perthynol i balas ardderchog Stout Hall yn y plwyf hwn, y mae un o'r ogofeydd ängaf yn y deyrnas; y mae fel Eglwys äng, yn ddigon mawr i gynnwys 2,000 o bobl. Cynnelir ffair yn y pentref Mai 17, Mehefin 20, Gorphenaf 17, Medi 17, a Bhagfyr 11. Mae'r ffeiriau hyn yn fanteisiol iawn i drigolion Browyr i fasnachu, gan fod marchnad Abertawy mor bell oddiwrthynt. Duc Beaufort yw Arglwydd y faenor, a pherchen llawer o'r plwyf. Yr Eglwys yw'r unig addoldy yn y plwyf; yr hon sydd rectoriaeth gwerth £120 y fiwyddyn, yn nawdd a rhodd C. R. M. Talbot, Ysw., A.S. Mae Ysgol Genedlaethol yn cael ei chynnal yn y pentref dan reolaeth y rector. Amaethwyr yw'r trigolion gan mwyaf, oblegyd nid oes llaw weithfeydd yn y lle. Maint y plwyf yw 1,047 erw. Tai 67. Pobl yn 1861, 270; 1871, 277.

**RHOSSILI.**—*Rhossily.*—Plwyf yn nghanntref a dosparth llys sirol Abertawy, undeb Gwyr, deoniaeth Gwyr orllewinol, archddeoniaeth Caerfyrddin, esgobaeth Ty Ddewi. Saif y plwyf hwn yn nghwr gorllewinol Browyr, tua 17 milldir o Abertawy. Ar fryn uchel yn y plwyf hwn, a elwir *Rhossily Down*, y mae amryw Garneddau, y rhai yn ddiarnheu ydynt gladdfeydd enwogion a rhyfelwyr y cyn oesoedd. Mae'r bryn hwn yn 681 troedfedd yn uwch na gwyneb y môr sydd yn ymyl, ac felly yn hynod fanteisiol i gael golygfa oddiar ei ben, ar yr holl ardal o amgylch. Rhwng y pentref a'r môr, ar ben craig uchel ag sydd yn gwynebu'r môr, y mae olion hen gastell Normanaidd; ond yn anfodus methais gael dim o'i hanes.

Yn y plwyf hwn y mae Pen-y-Pyrod (*Worm's Head*), yr hwn sydd ddarn o graig yn rhedeg am tua milldir i mewn i'r mor. Ar y llanw, nid yw ond fel ynys fechan, gan fod y dwfr yn llanw rhwng pen uchaf y graig a'r tir; ond ar y trai, gellir myned yn mlaen i ben y graig heb wlychu. Ar ben y graig hon y mae'r Ohwyth Dwl y soniwyd am

dano yn mhlith Hynodion Morganwg. Mae'r graig hon wedi bod yn ddinystri i amryw longau cyn hyn. Dywedir yn *Guide to Swansea*, p. 87, i ddwy long o eiddo yr *East India Company* fyned yn ddrylliau yn erbyn y creigiau hyn. Yn 1807, tra yr oedd y mor wedi treio yn mhellach nag arfer, daeth corff llong i'r golwg, yr hon a suddodd tua 50 mlynedd cyn hyn, a llwyddwyd i gael rhai pethau o honi; ac yn mhlith ereill, cafwyd casgen yn llawn o wefrau haiarn. Yn agos i'r un man, cafwyd tua 12 pwys o arian bathol Spain, sef Doleri, a Haner Doleri (*spanish dollars*), ac arnynt y blwyddiad 1825. Bernir fod y rhai hyn yn rhan o lwyth y *Scanderoon Galley*, yr hon oedd long berthynol i Spain a suddodd yn y parth hwn tua diwedd y 15fed canrif. Mae Pen-y-Pyrod yn hynod fel trigle amrywiol fathau o adar y mor, y rhai ydynt yma wrth y cannoedd.

Mae bywoliaeth Eglwysig y plwyf yn rectoriaeth gwerth £104 y flwyddyn, yn rhodd yr arglwydd Ganghellydd. Mae yn y plwyf gapel Wesleyaidd bychan. Maint y plwyf yw 2470 erw; ond nid oes mwy na 1800 o hono yn amaethyddol. Traeth a chreigiau yw'r gweddill. Ei werth ardrethol yw £779. Rhif y tai 72. Pobl yn 1861, 294, yn 1871, 267.

RHYD-GWERN.—Trefgordd, neu barsel yn mlwyf Machen Mynwy yw Rhydgwern. Mae plwyf Machen wedi ei ranu yn dri pharsel (*hamlets*), y rhai a elwir Machen Uchaf, Machen Isaf, a Rhydgwern; ac y mae yr olaf yn Morganwg. Cynnwysa Rhydgwern 706 o erwi; 62 o dai; a 284 o drigolion yn 1871.

Yn y parsel hwn y mae *Machen Forge*, yr hwn sydd Waith Tin o gryn faint. Dechreuwyd ef ar raddfa fechan tua dechreu y canrif presenol. Yn 1812, perchenogid ef gan un o'r enw Hertford. Y pryd hwnw dygid yr haiarn porhell i'r forthwylfa hon o Grymlun, swydd Fynwy, mewn cewyll ar gefnau mulod. Gwelodd Mr. Walter Cosslett, tad Gwilym a Charn Elian, yr haiarn yn cael ei gludo felly i'r lle lawer gwaith yn 1812.

Dygwyd y gwaith yn mlaen yn y dull hwnw hyd wneuthuriad y *Tramroad* i fyny o'r Casnewydd hyd at y lle: yr hyn achlysuodd ei helaethu, a'i ddwyn yn mlaen ar raddfa eangach. Perchenogir ef yn bresenol gan y *Machen Iron and Tin Plate Co.* Gwneir yn y gwaith yn flynyddol o 86,000 i 40,000 o gisteidiau o alcan, a phob cist yn cynnwys 225 o lafnau. Cyflogir yma 140 o ddynion, a 92 o fechgyn a merched: y cwbl yn 282. Mae un rhan o'r gwaith yn sefyll yn mhlwyf y Rhydri: ond y rhan fwyaf o lawer yn Rhydgwern.

RHYDRI.—*Rudry*. Plwyf yn nghanntref Caerffili, undeb a dosparth llys sirol Caerdydd, archddeoniaeth, ac esgobaeth, Llandaf; 8 milldir i'r gogledd-orllewin o Gaerdydd, a thua 8 i'r dwyrain o Gaerffili. Mae amryw geisiadau wedi ei gwneyd o bryd i bryd i ddwyn y plwyf hwn i fwy o sylw masnachol. Y cais cyntaf o fewn cof neb feallai, a wnaed gan Meistri Pope ac Woodruff tua'r flwyddyn 1822. Adeiladasant waith haiarn bychan yn y plwyf y pryd hwnw, codwyd tawdd ffwrnes, a gosodwyd i fyny beiriant cryf yw chwythu, agorwyd lesiau glo a mwn &c., ac aeth y gwaith yn mlaen yn hwylus am tua deg mlynedd.

Yn y cyfyngdra fu ar fasnach yn y blynyddau 1881—2, pan oedd gweithfeydd a gweithwyr Morganwg a Mynwy yn goddef o herwydd caledu yr amserodd, safodd y gwaith hwn yn hollol, a bu hyny yn golled fawr i'r ardal. Dygwyddodd hyn yn fuan ar ol Terfysg Mawr Merthyr Tydfil yn 1881; a dywed rhai o'r hen drigolion mai y prif achos i'r gwaith sefyll oedd ymddigiad mileinig pobl ddrwg, yn tynnu y gwaith glo i lawr yn fwiadol. Bu Mr. Sepheniah Williams, yr hwn a alltudiwyd gyda Meistri John Frost a W. Jones o achos Terfysg Casnewydd yn 1839, yn dal cysylltiad arolygol a'r gwaith hwn. Mae adeiladau y gwaith hwn yn lled gyfan yn bresenol, ar lan afon Rhymini. Y cais nesaf i ddwyn y plwyf i fwy o sylw, a wnaed yn 1850; pan agorwyd gwaith Mwm Plwm yma. Agorwyd y gwaith hwn yn Nghwm Leision, a gosodwyd i fyny *Crushing Machine &c.*, a chafwyd peth mwn rhagorol: ond ni chafwyd digon o hono fel ag i dalu am ei weithio, a'r canlyniad fu i'r gwaith sefyll. Trueni i'r anturiaethau hyn droi allan yn fethiant, oblegyd bu hyny yn golled i'r holl ardal.

Mae Brig Deheuol Cawg Mwnawl Marganwg yn rhedeg trwy y plwyf hwn. Ardalydd Bute yw arglwydd y faenor, ac efe gydag arglwydd Tredegar, a theulu Windsor ydynt berohenogion y tir. Mae'r fywoliaeth Eglwysig yn rectoriaeth yn unol ag eiddo'r Bedwas, sir Fynwy, a'r ddwy yn werth £450 y flwyddyn, yn rhodd y Goron. Maint y plwyf 2689 erw. Tai 77. Pobl yn 1861, 829; yn 1871, 874.

ST. ANDREWS.—*Llan Andras Faur*. Plwyf yn nghantref Dinas Powys, undeb a dosparth llys sirol Caerdydd, archddeoniaeth ac esgob-iaeth Llandaf, 5 milldir i'r gorllewin o Gaerdydd. Ffinir y plwyf ar du'r gogledd gan Lanfihangel-y-pwll, dwyrain gan Cogan, de gan Merthyr Dyfan, gorllewin gan Gwenfo. Yn y plwyf hwn y saif Hen Gastell, a phentref Dinas Powys (Gwel Dinas Powys). Mae Eglwys y plwyf yn adeilad gwych ac eang, a'r fywoliaeth yn rectoriaeth gwerth £398, yn rhodd y Goron. Amaethyddiaeth ddygir yn mlaen yn benaf yn y plwyf, a chodir yma gnydiau rhagorol. Maint y plwyf yw 3,149 erw. Nifer y tai 121. Pobl yn 1861, 570; yn 1871, 537.

ST. ANDREWS MINOR.—*Llan Fai*, neu *Llan Andras Fach*. Plwyf bychan heb un Eglwys ynddo, yn nghantref Glyn Ogwy, undeb a dosparth llys sirol Penybont, esgobaeth Llandaf, tair milldir i'r gorllewin o'r Bontfaen, a 4½ i'r dwyrain o Benybont. Maint y plwyf yw 227 erw; *Valuation* £367. Un ty sydd yn y plwyf. Pobl yn 1861, 12; yn 1871, 18.

ST. ATHAN.—*Llan Dathan*. Plwyf yn nghantref y Bontfaen, undeb a dosparth llys sirol Penybont o'r Bontfaen, archddoniaeth ac esgob-iaeth Llandaf. Saif y plwyf hwn tua 6 milldir i'r de o dref y Bontfaen, ac ar lan Mor Hafren. Cyduna y Cofnodion Cymraeg, i dystiolaethu, darfod i Tathan Sant, mab Amwn Ddu, ac Anna merch Meurig ab Tewdrig brenin Essyllwg, adeiladu Eglwys yma yn y 6fed canrif: a dywed rhai o'r Cofnodion iddo sefydlu Bangor yma i 500 o saint; a dywedant hefyd mai yma y claddwyd Tathan. Cyn y Gorchfygiad Normanaidd, yr oedd Llandathan yn arglwyddiaeth Cymreig; ac yn cael ei pherohenogi gan rai o deulu breninol Morganwg.



Perchenog yr arglwyddiaeth pan diriodd y Normaniaid yma, oedd Marchell ab Gwyn, ab Arthwys, mab Ithel, ab Morgan Mawr : a'i bais arfau oedd Tair Mwyalchen Aur. Wedi i'r Normaniaid yspeilio Morganwg oddiar y Cymry, rhoddwyd yr arglwyddiaeth hon gan Syr Robert Fitzhamon i Syr Roger Berkroles, i'r hwn y priodolir adeiladiad Castell St. Athan (*East Orchard*), ond bernir fod gan Marchell balas yno cyn hyny. Mae gweddillion y Castell hwn a dau ereill, sef Castell *West Orchard*, a Castleton o fewn y plwyf hwn ; y rhai a adeiladwyd gan deulu Berkroles. Dywed Brut y Tywysogion, i forlifiad ofnadwy yn Hafren, foddi y Castell blaenaf a enwyd yn 1097 ; ac yn yr un llyfr, dywedai i Syr Roger Berkroles, ymddwyn mor gyflawn, fel y darfu iddo ranu yr arglwyddiaeth, gan roddi un rhan yn ol i Marchel y perchenog blaenorol ; ac iddo hefyd roddi amryw dyddynoedd yn feddiant hollol i deuluoedd Cymreig a gollasant eu tiroedd pan ranwyd y sir rhwng y Normaniaid. Gan fod yr ardal mor ffrwythlawn, gwnaeth y Normaniaid ddwy berllan ardderchog yn y lle, a bernir mai prif ddyben adeiladu y cestyll oedd amddiffyn y perllanau hyny. Gelwid hwy y Berllan Ddwyreiniol, a'r Berllan Orllewinol ; ac y mae'r ddau gastell yn adnabyddus wrth yr enwau hyn trwy yr oesau, sef, *East and West Orchards*. Dywed traddodiad i Harri I., dalu ymweliad a'r perllanau hyn, ac yr arferid cludo ffrwythau o honynt i arlwyo ei fwrdd ef yn y brif ddinas, a thrawsblanu coed ffrwythau o honynt yn ei erddi ef.

Mae ffigsbren gwyllt yn tyfu allan o fur capel y castell, a bernir ei fod yn tyfu yma er amser Harri I. Mae'r ffaith fod cyff y iorwg sydd yn tyfu ar y muriau adfeiliedig hyn yn 5 troedfedd o amgylchedd, yn brawf digonol fod y lle yn hynod am ffrwythlondeb. Dywed rhai haneswyr i Ifor Bach o Ferthyr, ddinystrio y castell gorllewinol yn amser Harri I., ond y mae hyny yn bur amheus.

Yn y Castell Dwyreiniol y bu'r gwladgarwr didwyll a galluog Owen Glyndwr, yn gwestia yn ddirgelaidd gyda Syr Lawrence Berkroles, gan ffugio mai Ffrancwr dyeithr ydoedd.

Ar farwolaeth Syr Lawrence Berkroles, yr olaf o'r enw, daeth y castell a'r faenor yn eiddo Syr Edward Stradling o Gastell St. Donatts, yr hwn oedd fab Syr W. Stradling, Marchog ; yr hwn oedd fab Syr E. Stradling, a Gwenllian chwaer Syr Lawrence Berkroles. Priododd Gwenllian a Syr E. Stradling yn 1411. Parhaodd yr arglwyddiaeth yn meddiant teulu St. Donatts, hyd farwolaeth Syr Thomas Stradling, Mai 27, 1788 ; pan y meddiannwyd y lle gan Bussy Mansel ; a bu hyny yn ddechrau llawer o gyfreithio am etifeddiaeth eang y Stradlings. Tua'r flwyddyn 1755, pan derfynwyd y cyfreithio trwy ddyfarniad aelodau Ty Arglwyddi Prydain, gwerthwyd Maenor St. Athan i dalu'r treulian.

Mae yn yr Eglwys ddwy golofn gothig ardderchog ar y rhai y mae coffadwriaeth am deulu y Berkroles yn gerfedig. Rectoriaeth yw'r fywoliaeth Eglwysig, gwerth £869 y flwyddyn.

Yma y saif y porthladd bychan dymunol hwnw a elwir Aberddawen, yr hwn sydd wedi bod yn enwog am oesoedd fel masnachle cerryg

calch, y rhai ydynt yn perthyn i dosparth y Lias. Medda y calch hwn y priodoledd o galedu mewn dwfr, yn ogystal ag allan o hono, a defnyddir ef yn helaeth i wneyd mor-furiau, pynt, &c. Gelwir ef yn gyffredin wrth yr enw Calch Aberthaw. Bu llawer o nwyddau masnachol tref y Bontfaen a manau ereill yn cael eu dadforio yma. Dygid y nwyddau hyn drosodd o Bristau i Aberddawen, a chludid hwy mewn meni oddiyno i'r dref.

Ar lân y mor yn y plwyf hwn y mae craig hynod, yr hon a elwir Craig y Castell, ac yn hynod debyg i Gastell Abergavenni. Yn nghanol y graig y mae gwagle ar ffurf bwa, a phan yw'r mor yn llanw, mae'r tonau yn ymwithio trwy yr ogof fwyag hon gyda thrwst aruthrol. Oddiar ben y creigiau ar lan y mor yn y plwyf yma, ceir golygfa gampus ar y wlad o amgylch,—y mor, y Flat Holmes, a'i Goleudy 80 troedfedd o uchder, a'r Steep Holmes, &c. Mae yn y plwyf ddau gapel, un gan y Trefnyddion Calfinaidd, a'r llall gan y Wesleyaid. Maint y plwyf yw 1,771 erw rhwng y dwfr, ond nid oes mwy na 1,387 o hono yn amaethyddol. Nifer y tai 88. Pobl yn 1861, 857; yn 1871, 888.

St. BRIDE MAJOR.—Sant y Brid, neu Lansantffraid Fawr.—Plwyf yn nghanntref Glyn Ogwy, undeb a dosparth llys sirol Penybont-ar-Ogwy, deoniaeth Gronedd, archddeoniaeth ac esgobaeth Llandaf. Saif yr Eglwys a'r pentref tua thair milldir a hanner i'r de o dref Penybont, ar ochr y ffordd rhwng Penybont a Llanilltyd Fawr. Iarll Dunraven yw arglwydd y faenor, a pherchen y rhan fwyaf o'r plwyf. Ar du gorllewinol y plwyf hwn y mae ffynnon hynod a elwir Ffynnon Ogwr (*Shew Well*). Tardd mewn tair ffynnonell allan o'r graig galch, ac ar ol uno a'u gilydd, ffurfiant afonig agos 15 llath o led, ac yna rhed yn gulach a dyfnach nes aberu yn afon Ewenni. Yr hyn sydd yn hynod yn y ffynnonellau hyn yw bod eu dyfroedd yn gwahaniaethu o ran eu natur, er agosed ydynt i'w gilydd. Mae dwfr un o honynt yn galed ac haiarnaidd iawn, fel mai anhawdd yw cael ganddo glafoeri er defnyddio sebon ynddo. Dwfr un arall sydd mor feddal â dwfr gwlaw. Mae yn yr Eglwys amryw gof-feini hynafol am deulu Butlers, Castell Dindryfan, ac un hardd iawn er cof am Thomas Wyndham, o'r unrhyw gastell. Ficeriaeth yw'r fywoliaeth Eglwysig, yn unol ag eiddo'r Wig, a'r ddwy yn werth £176 y flwyddyn a phersondy, yn nawdd a rhodd Richard Turberville, Ysw. Adeiladwyd yr Eglwys bresenol yn 1858; o'r hyn lleiaf y rhan fwyaf o honi. Cynnwysa y plwyf 6,402 erw, 4,227 o'r cyfryw sydd yn amaethyddol, a'r gweddill yn draeth a dwfr. Rhenir ef yn dri pharsel, y rhai a elwir St. Brides, Lampha, a Southerndown. Yn 1871, cynnwysai yr holl blwyf 174 o dai, a 766 o bersonau, sef 807 yn mharsel St. Brides, 185 yn Lampha, a 824 yn Southerndown. Mae Southerndown yn enwog iawn fel ymdrochle o'r fath oreu, ac yma yr ymdyra lluaws o gyfoethogion i dreulio misoedd yr haf.

Castell Dunraven sydd adeilad gwyh, hynafol, a phwysig yn y plwyf hwn. Saif y castell ar lan y mor, ar ben craig can' troedfedd o uchder, yr hon sydd yn ymestyn i'r mor, ac a elwir Trwyn y *Witch*.

Hona rhai haneswyr fod yma gastell breninol pan diriodd y Rhufeiniaid gyntaf yn Ynys Prydain, ac mai yma y preswyliai Caradog ab Bran, &c., ac mai Dinas neu Dre Bran yw'r enw yn iawn. Dywed ereill mai Ton yr Ufen yw'r hen enw; tra ereill a farnant mai Dindwr-hafren yw'r gwreiddiol, yr hwn a dreiglwyd yn Dindryfan, a D unraven gan y Normaniaid. Credwyf fod y ohwedl o barth Caradog ab Bran wedi tyfu oddiwrth y ffaith fod Caradog, mab Rhydderch ab Iestyn, yn byw yma tua'r flwyddyn 1050; ac yn fuan ar ol hyny, ymosodwyd ar y castell gan y Saeson, y rhai a'i dinystrasant. Wedi gorchfygiad Morganwg gan y Normaniaid, rhoddwyd Arglwyddiaeth Glyn Ogwy a Maenor Dindryfan a'r Maenordy i Syr William de Londres, yr hwn heb golli amser a gadarnhaodd y lle ar ffurf castell. Yn 1094, tra yr oedd De Londres ar hynt yspeilgar yn Ngwyr a Chydwelli, ymosododd Cymry Morganwg ar ei eiddo yn Nglyn Ogwy, dan arweiniad Paine Turberville; ond darfu i Arnold Butler, swyddog dan De Londres, amddiffyn y lle mor wrol, fel y methodd y Cymry a'i gymmeryd. Mewn canlyniad i hyn, rhoddodd W. de Londres Faenor a Chastell Dindryfan i Arnold Butler am ei ddewrder, a thebygol yw iddo gadarnhau llawer ar y lle. Parhaodd y faenor a'r castell hwn yn meddiant teulu Arnold Butler am oesoedd, nes ar farwolaeth un o'r enw Syr Arnold Butler, o ddiffyg etifedd o'r cyfenw Butler, aeth yr etifeddiaeth yn eiddo un Walter Vaughan, Broadmard, swydd Henffordd, yr hwn oedd yn briod â chwaer Syr Arnold. Wedi i Walter Vaughan symmud i fyw i'r castell, tynwyd ei sylw yn fuan at y llong-ddrylliadau aml a gymmerent le yn yr ardal, trwy fod y llongau yn cael eu gyru yn erbyn y creigiau anferth sydd yn ymyl y traeth. Parodd hyn i holl deimladau tyneraf ei natur gael eu gweithio allan mewn un cyfeiriad, sef achub bywydau y morwyr. Gwnai yr oll a allai yn y cyfeiriad hwn, ac y mae cofnod am un tro neillduol pan yr anturiodd i nosio o'r tir trwy ganol y tonau berwedig, a rhaff yn rhwym am dano, at long oedd yn cael ei dryllio gan yr ystorm; a thrwy sicrhau y rhaff wrth y llong, tra yr oedd y pen arall yn sicr wrth y tir, galluogwyd y dynion i ddyfod i'r lan yn ddyogel. Yr oedd amryw forladrôn yn y parth hwn y pryd hwnw yn arfer cynneu tanau ar y creigiau yn y nos, er mwyn tynu llongau iddynystr, a bu Mr. Vaughan yn foddion i ddal a chospi amryw o honynt hyd eithaf llymder y gyfraith. Aeth i'r draul o wneyd amryw fadau hefyd, yn bwrpasol er mwyn bod o help i forwyr mewn peryglon yn y parth hwn. Troes ei fryd i efrdy morwriaeth a seryddiaeth hefyd, a bu yn llafurus iawn i'w meistrolï. Tuag at fod yn fwy o wasanaeth i forwyr mewn cyfyngder, tynodd allan fath o gynllun, yr hwn, pe gweithid ef allan, a fyddai o fudd cyffredinol. Aeth a'i gynllun i Lundain, gosododd y pwngc o flaen prif swyddogion y llywodraeth, gan egluro ei gynllun, a gofyn am eu help i'w gario allan. Yn lle cydymdeimlo â'r morwyr, a'i gymmeradwyo yntau, ni wnaethant ond diystyru ei gynllun, a'i wawdio ef. Teimlodd Vaughan y sarhad, daeth yn ol i Forganwg yn drist a llwfr, ac yn anffodus aeth i geisio boddi ei ofid yn y cwpan meddwol. Wrth ddilyn bywyd meddw, aeth yn ol yn ei amgylchiadau bydol, coll-

odd ei gyfeillion (?), bu ei wraig farw mewn tristwch, a gadawyd yntau i raddau mewn tlodi, gyda phedwar o blant, a'i delynwyr, yr hwn a lynodd wrtho yn ffyddlon yn ngwynneb pob traferth. Pan welodd ei fab hynaf nad oedd lle ganddo i obeithio am well etifeddiaeth na thlodi wrth aros gartref, efe a benderfynodd fyned i'r mor i dreio ei ffawd, ac aeth a'i fodrwy gydag ef, ar yr hon yr oedd arfbais y teulu yn gerffedig. Ar ei ymadawiad, cynhyrfwyd teimladau tyneraf y tad a'r bachgen—collwyd cawodydd o ddagrau,—curai eu calonau yn gryf yn eu mynwesau, ond er agosed y cyssylltiadau, sibrydwyd y gair ffarwel. Yn mhen ychydig ar ol hyn, dygwyddodd llongdrylliad yn agos i'r castell, boddodd yr holl ddwyllaw, a daeth yr eiddo yn feddiant i Walter Vaughan, fel arglwydd y faenor. Yohwanegodd hyn gryn lawer ar ei gyfoeth, ac wedi cael blas ar nywddau llongdrylliad, tarawyd ef gan y drychfeddwl y gallai gael digon o etifeddiaeth i'w fab hynaf yn fuan, a'i gael adref ato ef. Y syniad oedd iddo droi yn lleidr glan y mor. Yr oedd yn yr ardal gymmeriad hynod o'r enw Mat Law Haiarn, yr hwn oedd yn byw ar ladrad; a'r hwn cyn hyny a ddaliwyd trwy orchymyn W. Vaughan, ac er mwyn diange, efe a dorodd ei law ymaith. Wedi gwella parhaodd i ddilyn yr un gorchwyl gwarthus o dwyllo llongau, a thánau twyllodrus, yn erbyn y creigiau, er mwyn eu hyspeilio. Dan ddylanwad y syniad a grybwyllwyd, ymgyngheiriodd Walter Vaughan a'r adyn melldigedig Mat Law Haiarn. Buont yn gyfeillion am gryn amser, ac yn twyllo llongau yn erbyn y creigiau yn aml trwy gyneu tánau ffugiol, ac felly trwy yspeiliadau, casglodd gryn gyfoeth drachefn. Nid oedd cyngorion ei delynwyr ffyddlon yn tycio i'w gael i adael ei ffyrdd drygionus, nac i dori y cyssylltiad â Mat. Un diwrnod aeth dau fab Mr. Vaughan mewn bád i ymbleseru; ac yn y prydawn aeth yntau a'r telynwyr i lan y mor i edrych beth welent. Yn y cyfamser cododd yn wynt ystormus, dechreuodd y mor derfysgu, ac fel yr oedd y ddau yn edrych i'r mor í gyfeiriad y graig a elwir *Swiker*, gwelent fad yn cael ei dafu gan y tonau yn erbyn y graig, pryd y newidiodd gwedd Vaughan, a gwaeddodd allan, "O Dduw, pa fad yw yr un accw?" Cofiodd am ei ddau fachgen, a gwelai hwynt ar y graig, tra'r bád yn cael ei ddwyn gan y tonau, tua'r lan. Gwyddai y tad fod y graig yn cael ei chuddio gan y llanw, ac nad oedd modd iddo eu haohub. Yr oedd fel dyn gwallgof ar y traeth. Yr oedd ei blant ac yntau yn edrych ar eu gilydd, ond ni allai y naill glywed y llall, gan swm rhuad y gwynt a'r tonau, a boddodd y ddau fachgen yn ngolwg eu tad hir-aethlawn. Pan ddychwelodd i'r castell, a'i synwraun wedi agos a drysu, yno drachefn, efe a gafodd ei blentyn ieuangaf, yr hwn a adawyd ei hun yno, wedi boddi mewn llestraid o faidd, ac felly efe a gollodd ei dri phentyn yr un dydd. Effeithiodd yr amgylchiadau gor drallodus hyn yn ddwfn ar feddwl y tad. Siaredid am yr amgylchiad gan yr ardalwyr, y rhai a gredent yn ddiysgog mai barn uniongyrchol oddiwrth Dduw oedd hyn am ddrwgweithredoedd y tad. Parodd hyn iddo yntau ddilyn bywyd hollol wahanol; torodd bob cyssylltiad ag oedd rhyngddo â Mat Law Haiarn, ac aethant yn fwy gelyniion nag

erioéd. Yr oedd holl obeithion W. Vaughan bellach yn ei fab hynaf, am yr hwn ni chlywodd air er pan aeth i'r mor. Un prydawn, tra yr oedd ef yn edrych o ben twr y castell tua'r mor, gwelai long fawr mewn llawn hwyliau yn dyfod o gyfeiriad gorllewinol, a barnai fod y cadben mewn pryder pa gyfeiriad gymmerai. Yn fuan colodd ei olwg arni, o herwydd tywyllwch y nos. Pa fodd bynag, ni allai gael ei feddwl yn esmwyth yn ei chylch, rhag iddi fyned yn ddrylliau yn ystod y nos. Yn y pryder hwnw, aeth ef a'i delynwr i dreulio'r nos mewn ogof ar lan y mor, fel y gallent fod yn barod i estyn cymhorth i'r morwyr pe dygwyddai anffawd. Yr oedd y telynwr yn ofni y gwaethaf, gan fod Mat Law Haiarn yn parhau i gyflawni yr arferion cythreulig o dwyllo ac yspeilio llongau, ac felly efe a gymmerodd arfau gydag ef er ei amddiffyn ei hun a'i feistr pe dygwyddai i Mat a hwythau ddyfod i wrthdarawiad. Ni fuont ond ychydig amser yn yr ogof cyn gwelod goleuni yn tywynu oddiwrth danau ffugiol y gwr â'r llaw haiarn, ac yn mhen enyd clywent ergydion trymion yn erbyn y graig, y rhai a ganlynwyd gan ysgrechiadau torcalonus y morwyr. Yr oeddynt hwythau ar eu gwyliadwriaeth fanwl, yn edrych a welent rai o honynt yn dyfod gyda'r tonau i gyfeiriad yr ogof; a thra yn edrych mewn pryder, pwy ddaeth atynt ond yr arch-yspeilydd Mat, yr hwn pan ddeallodd mai Vaughan oedd yno, a chwaddodd fel ynyd, ac a ddywedodd fod y llong wedi myned yn ddrylliau, a phob enaid oedd arni wedi boddi,—mai y cadben oedd yr olaf i ymadael â'r drylliad, ac mai Cymro o'r ardal hono oedd. "O'r adyn," ebe Vaughan, "a ell-aist ti beidio cynnorthwyo Cymro mewn cyfyngder?" Ar hyny, estynodd Mat law oer i Vaughan, gan ofyn yn wawdlyd, "A adwaeni di hon?" Ymaflodd yntau yn y llaw, ac ar un o'r bysedd gwelai fodrwy ac arfbais y teulu arni, ac adwaenodd hi fel eiddo ei anwyl fab, etifedd Dindryfan, yr hwn a lofruddiwyd gan Mat Law Haiarn. Dywed rhai haneswyr i'r telynwyr saethu Mat yn farw yn y fan; tra y dywed ereill mai ei grogi gafodd yn mhen tri mis ar ol hyny, am lofruddiaeth arall a gyflawnodd. Parodd yr amgylchiad i'r olaf o obeithion Mr. Vaughan ddiflanu, ac felly penderfynodd symmud o'r lle i dreulio gweddill ei oes mewn gofid. Gwerthodd y castell a'r faenor i un Mr Wyndham, a symmudodd i Dinbych y Pysgod (*Tenby*) i dreulio gweddill ei oes, ac yno y bu farw, Ionawr 4, 1687. Mae ei gofadail i'w gwelw yn Eglwys Tenby. Daeth yr etifeddiaeth yn eiddo Iarll Adare, trwy iddo briodi etifeddes teulu Wyndham, ac ar ei ol daeth i'w fab, Arglwydd Adare, disgynydd o'r hwn yw Iarll Dunraven, y perchennog presenol. Mae'r creigiau ar lan y mor yn y parth hwn tua 800 troedfedd o uchder, yn gynnwysedig o galchgraig y Lias, yn y rhai y mae llaws o ogofeydd o gryn hynodrwydd. Cynnwysant hefyd gyflawnder o weddillion creginog (*fossils*) o wahanol fathau, fel y mae yn lle o gryn ddyddordeb i'r daiaregydd.

ST. BRIDES MINOR.—Llansantffraid-ar-Ogwy.—Plwyf yn nghantref, undeb, a dosparth llys sirol Penybont, deoniaeth Gronedd, esgobaeth Llandaf. Saif yr Eglwys ar lan ddwyreiniol afon Ogwy, tua thair milldir i'r gogledd o dref Penybont; a saif pentref Abercenffig ar ei

chyfer y tu arall i'r afon, yn mhlwyf Oastell Newydd. Mae'r plwyf wedi ei ranu yn ddau barsel, sef St. Brides ac Ynysawdre. Ymestyna parsel St. Brides i fyny gyda'r Ogwy i gyfer Brynmenyn, a saif parsel Ynysawdre y tu arall i afon Ogwy, ac ymestyna i fyny gydag afon Garw hyd ffin plwyf y Bettws, a chyda'r ffin yn groes hyd afon Llyfnwy, ac yn groes i hono am ychydig yn ardal y Tondu. Adgyweiriwyd Eglwys y plwyf yn 1811, fel y mae yn lle cyfeus i addoli yn bresenol. Mae yn ei mynwent dair ywen fawr hynafol, y rhai ydynt yn gryn addurn i'r lle. Perigloriaeth yw'r fywoliaeth, gwerth £150 y flwyddyn, yn rhodd Iarll Dunraven, yr hwn yw perchen y plwyf agos i gyd. Trethir y fywoliaeth i £5 8s. 6½c. Er nad yw arwyneb y plwyf yn ffrwythlawn iawn, y mae yn ei waelod gyfoeth o lo a mwn haiarn, y rhai a weithir at wasanaeth haiarnfa'r Tondu. Mae Cleddrffordd Maesteg a Phenybont yn myned trwy y plwyf hwn, yr hyn sydd yn dra manteisiol. Yn 1809, adeiladwyd Capel Brynmenyn yn mharsel Ynysawdre, gan yr Annibynwyr, ac ail-adeiladwyd ef yn 1848. Maint y plwyf yw 2,215 erw, sef 1,829 yn St. Brides, a 386 yn Ynysawdre. Nifer tai y plwyf yn 1861, 184; yn 1871, 281; sef 128 yn St. Brides, a 108 yn Ynysawdre. Poblogaeth y plwyf yn 1861, 879; yn 1871, 1,182; sef 607 yn St. Brides, a 525 yn Ynysawdre.

**ST. BRIDES SUPER ELY.**—Llansantffraid-ar-Elai.—Plwyf yn nghantrf Dinas Powys, undeb a dosparth llys sirol Caerdydd, archddeoniaeth ac esgobaeth Llandaf, saith milldir i'r gorllewin o Gaerdydd, a dwy o St. Ffagan. Saif yr Eglwys a'r pentref tua hanner milldir i'r gogledd o reilffordd Deheudir Cymru, ar gyfer pen y fildir rhif 176 o Lundain. Perigloriaeth yw'r fywoliaeth Eglwysig yn unol ag eiddo Llanfihangel-ar-Elai, a'r ddwy yn werth £195 y flwyddyn, a phersondy yn nawdd a rhodd Mr. Treharne. Amaethu yw gwaith y trigolion gan mwyaf. Maint 678 erw. Ardrethiad £1,036. Tai 27. Pobl yn 1867, 122; yn 1871, 108.

**ST. DONATTS.**—Llandunwyd Fawr. Plwyf yn nghantrf Glyn Ogwy, undeb a dosparth llys sirol Penybont, deoniaeth Gronedd Isaf, archddeoniaeth, ac esgobaeth Llandaf. Saif ar lan y mor tua ohwech milldir o'r Bontfaen. Maint y plwyf yw 1,018 erw; 976 o'r cyfryw sydd yn amaethyddol, a'r gweddill yn draeth, dwfr, a chreigiau. Prisiaid yn 1865 oedd £1242. Nifer tai y plwyf 82. Pobl yn 1861, 126; yn 1871, 188. Yr Eglwys yw'r unig addoldy sydd yma, bywoliaeth yr hon sydd ficeriaeth gwerth £181 y flwyddyn, yn rhodd John Witlock Nichol Carne, Ysw., D.C.L., yr hwn yw arglwydd y faenor a pherchen y lle. Mae croes gelfydd yn y fynwent, a rhai delwau gwyhichion yn yr Eglwys. Amaethyddiaeth ddygir yn mlaen yn benaf yma. Mae golygfeydd ardderchog yn y plwyf hwn, yn enwedig ar y creigiau ar lan y mor.

*Castell St. Donatts* yw prif wrthddrych y plwyf, ac y mae yn un o rai enwocaf Morganwg, yn ei gyssylltiadau hanesyddol, a myn rhai ei fod yn hawlio llawer mwy o enwogrwydd nag a allaf fi roddi iddo. Mae awdwr galluog yr erthygl ar "Claudia, a Hanes Cristionogaeth yn Mhrydain yn y caurif cyntaf," (yn y *Gwyddoniadur*), yn rhoi bri



chyfer y tu arall i'r afon, yn mhlwyf Castell Newydd. Mae'r plwyf wedi ei ranu yn ddau borsel, sef St. Brides ac Ynysawdre. Ymestyna ~~porsel St. Brides i fyny gyda'r Oewy i gyfar Bannmawr a gyffwrdd~~





*Saville, Strandhamstead.*  
*Engraved by J. G. Smith.*



neillduol i'r castell hwn, a chastell Dindryfan. Dywed mai Dindryfan oedd Castell Breninol Bran Fendigaid, a'r enwog Caradog; ac mai yn Nghastell St. Donatts, y bu Caradog farw yn y flwyddyn 91. o.c. Wrth gwrs, buasai yn dda iawn genyf fi' pe gallaswn gael digon o seiliau i greu hyn, oblegyd goreu genyf pa fwyaf o anrhydedd roddir i Forganwg, ond cael sail gadarn i wneyd hyny. Etto yr wyf yn barnu fel y dywedwyd eisioes yn hanes Dindryfan, fod y dybiaeth hon am gyssylltiadau y lle â Charadog Fawr, wedi tarddu trwy gangymmeryd un Caradog yn lle y llall. Mae genym hanes sier fod Caradog ab Rhydderch ab Iestyn yn byw yn Nghastell Dindryfan; ond ofnwyf nas gellir profi fod Caradog ab Bran yn preswyllo yma.

Saif Castell St. Donatts, yr hwn a elwir mewn rhai llyfrau wrth yr enwau Llanywerydd, Glanydon, a Llanweryrd, ar lan Mor Hafren, tua dwy filldir i'r de-orllewin o Lanilltyd Fawr, ger y fan a elwir Nash Point. Perchenogid yr arglwyddiaeth hon yn amser Iestyn, gan Einion Fawr, mab Uchrod Goch, ab Blegwryd ab Owen. Yr oedd Blegwryd yn frawd i Morgan Mawr, Tywysog Morganwg; ac efe mewn gwirionedd ysgrifennodd Gyfreithiau Hywel Dda.

Pan ranwyd Morganwg gan Robert Fitzhamon rhwng ei gyd farchogion, rhoddwyd yr arglwyddiaeth hon i Syr William de Esterling; a bernir mai efe adeiladodd y Castell presenol tua'r flwyddyn 1092. Bu'r teulu hwn yn preswyllo yma 682 o flynyddau, sef hyd y flwyddyn 1788. Mae'r Castell o ffurf ysgwar, ac iddo dŵr 50 troedfedd o uchder, yr hwn a adeiladwyd yn hwmpasol, er gwylio ysgogiadau mor ladron, ac er mwyn gwylio llongdrylliadau yn y gymmydogaeth, fel y gallai arglwydd y faenor gael gwybodaeth fuan am danynt.

Mae Goleudy Nash Point hefyd yn agos i'r adeilad hwn, ac y mae o wasanaeth annrhaethol i forwyr, gan fod yr ardal mor greigiog a pheryglus. Tra yr oedd y Castell a'r faenor yn eiddo y Stradlings, yr oedd yn cael ei gyfrif yn un o adeiladau gwyohaf y sir, a'r teulu yn rhesi yn mhlith prif fawrion y deyrnas. Bu y Frenhines Anne yn talu ymweliad a'r lle, ac yn aros am beth amser yn y Castell. Yn amser Charles I., bu yr enwog Archesgob Usher yn llechu yn y Castell hwn am gryn amser, tra yr oedd y Rhyfel Cartrefol yn cael ei ddwyn yn mlaen. Yr oedd ei ferch yn briod ag un o'r Stradlings. Tra ar ei ffordd o Gaerdydd i St. Donatts, goddiweddwyd ef gan rai o wyr Cromwell, y rhai a'i triniasant ef a'i gymdeithion yn lled arw; ac a ddystrywiasant amryw o'i ysgrifau. Dywedir mai yn y Castell hwn y casglodd efe ddefnyddiau at gyfansoddi ei "Antiquities of the British Church." Yr oedd ef yma yn 1646.

Yn y Castell hwn hefyd y magwyd yr enwog Ddoctor Shon Dafydd Rhys; ac ar draul Syr Edward Stradling o'r lle hwn, yr argraffwyd ei Ramadeg gwerthfawr yn y brif ddinas. Yr oedd y teulu hwn mor urddasol, fel y caniatawyd iddo fathu arian ar ei enw ei hun; ac ystyrid yr etifedd, a pherchenog y lle mor anrhydeddus ag un o Arglwyddi y Cyffiniau. Gan i'r teulu fod mor enwog am gynnifer o oesoedd, rhoddir talfyriad o'r achau yma fel y canlyn:—

1. Syr William Esterling, un o gyd Farchogion R. Fitzhamon, a

ddaeth i'r wlad hon gyda William y Goresgynydd. Priododd ef ag Howisia, merch ac etifeddes Syr John Talbot, o'r hon y cafodd fab, sef,

2. Syr John Esterling, Farchog, yr hwn a briododd â Maltt, merch Syr Robert Corbet, Farchog, a'u mab oedd

8. Syr Morris neu Maurice Esterling, Farchog, yr hwn a briododd Cecilia, etifeddes Syr Pigot de Say, Farchog, o'r hon y cafodd fab o'r enw

4. Syr Robert Stradling, Farchog. Hwn oedd y cyntaf o'r teulu a ysgrifennodd yr enw yn Stradling. Priododd ef â Howisia, merch Syr Hugh Bryn, Farchog, yr hwn oedd berchenog cyfreithlon y castell a'r faenor, gan ei fod yn ddisgynydd o Einion Fawr ab Uthrod Goch; ac felly, trwy y briodas hon, daeth y lle yn eiddo cyfreithlon i'r Stradlings. O hynny allan honai y teulu mai Cymry oeddynt, ac ymfrostient yn hynny. Mab Syr Robert ac Howisia oedd

5. Syr Gilbert Stradling, Farchog; yr hwn a briododd ferch Syr John Saint Owen; o'r hon y cafodd fab o'r enw

6. Syr William Stradling, Farchog. Ei wraig ef oedd Cecilia, merch Syr Hugh Cornwallis; a'u mab hwy oedd

7. Syr John Stradling, Farchog; yr hwn a briododd Anne, merch Syr Hugh Mainford, Farchog. Bu daiargryn nerthol yn Morganwg yn amser hwn, fel y syrthiodd llawer o'r creigian ger y castell i'r mor, a niweidiwyd llawer ar yr adeilad. Rbedodd y mor yn fwy i'r tir, hefyd, yn y gymydogaeath, fel y collwyd llawer o erwi o dir bras a ffrwythlawn.

8. Syr Peter Stradling, Farchog; mab Syr John ac Anne, a briododd Joannah, merch Syr Thomas Hawey, Farchog, yn amser Iorwerth I. Cafodd Syr Peter dair etifeddiaeth gyda'i wraig, sef Hawey, a Chwm Hawey, yn swydd Somerset, a Chaer Gorwy, yn swydd Dorset. Canlynwyd ef gan ei fab,

9. Syr Edward Stradling, Farchog; yr hwn a unodd baisarfau Hawey ag eiddo y Stradlings. Priododd hwn ag Eleanor, merch Syr Gilbert Strongbow, Farchog, o sir Fynwy; a chafodd ddwy faenor yn swydd Rhydychain, yn waddol gyda hi. Eu mab oedd

10. Syr Edward Stradling (yr ail o'r enw), a briododd Gwenllian, chwaer ac etifeddes Syr Lawrence Berkroles, Farchog, o Gastell Llan-dathan.

10. Syr William Stradling, Farchog, mab y rhai uchod, a briododd ag Isabel, etifeddes Syr John Saint Barb, Farchog; ond ni chafodd gyfoeth gyda hi, am fod yr etifeddiaeth yn myned i'r llinach wrywaidd. Aeth Syr William ar daith o bererindod tua Jerusalem, a gwnaed ef yr Farchog yn ol urdd y Bedd Santaidd, yn 1880, yn amser Richard II. Ei fab ef oedd

12. Syr Edward Stradling, Farchog (y trydydd o'r enw). Yn 1412, daeth hwn i feddiant o etifeddiaeth y Berkroles, o Gastell St. Athan; gyda phedwerydd ran o eiddio Turbervilles y Coetty; a chan fod y Turbervilles wedi uno â theulu Iestyn, darfu i'r Syr Edward hwn uno Paisarfau Syr John Saint Barb, y Berkroles, y Turbervilles, Iestyn

ab Gwrgan, a'r eiddo ei hun. Tua dechreu teyrnasiad Iorwerth IV., aeth Syr Edward ar daith bererinol tua Jerusalem, lle y crewyd ef yn Farchog yn ol defodau "Eglwys y Bedd Sentaidd." Pan ddychwelodd, dygodd gydag ef faen-gerfiwr celfydd o'r Eidal; yr hwn a gyffwelwyd ganddo i gerfio yr addurniadwaith cywrain sydd etto yn aros ar furiau y castell. Priododd ef â merch Henry Beaufort, a'u mab oedd

18. Syr Henry Stradling, Farchog, yr hwn a ddilynodd ei dad i'r etifeddiaethau eang. Un tro pan oedd Syr Henry yn dychwelyd mewn llong o Wlad yr Haf tua Llanddunwyd, daliwyd ef gan y mor leidr enwog hwnw, a elwid Colyn Dolphyn, a chymmerwyd ef yn garcharor ganddo; a bu raid iddo dalu 2,200 o farciau am ei ryddid. Tuag at gael y swm hwn mewn arian bathol, gorfu iddo werthu pedair ystad, dwy yn swydd Somerset, un yn Mynwy, ac un yn Morganwg. Yn fuan wedi cael ei ryddhau, efe a barodd adeiladu y Twr ger y castell, er mwyn gwyllo ysgogiadau Colyn Dolphyn; a'i dwyllo â goleu ffugiol os gellid i'r gymmydogaeth, er ei ddâl a'i gospi. Yr oedd Colyn Dolphyn yn for leidr adnabyddus, ac yn ddychryn i bawb a arferent fordwyo yn y parth hwn. Yn mhen peth amser wedi adeiladu y Twr, ar noson dywell yn y gauaf, llwyddwyd i dwyllo y mor leidr, yr hwn a gamsyniodd y goleuni yn y Twr gan greu mai goleuni Castell Din-dryfan oedd, a'r canlyniad fu iddo hwylio ei long i gyfeiriad nad oedd yn bwriadu, a chwythwyd hi i fyny i'r traeth; a chan ei bod yn noson ystormus, drylliwyd y llong yn chwilfriw, a boddodd amryw o'i wyr. Daliwyd yntau a'r gweddill o honynt; ac heb eu dwyn o flaen na barnwr na rheithwyr mewn llys gwladol, crogwyd hwy yn y fan bob un, a chladdwyd hwy yn ymyl y graig ger y castell.

Pan wnaed hyn yn hyspys i Harri VI., efe a ffromodd yn ofnadwy, a bu Syr Henry Stradling mewn cryn berygl, am iddo weinyddu cyfraith o'i eiddo ei hun, yn lle ymgynghori a'r Llywodraeth yn y mater, a diraddiwyd y teulu mewn canlyniad trwy ei amddifadu o'r teitl Syr am gryn amser. Yr oedd Syr Henry yn briod ag Elizabeth merch Syr William Thomas, o Gastell Raglan, Sir Fynwy. Aeth ef fel ei flaenafiaid ar daith bererinol tua Jerusalem, a chafodd yr unrhyw urdd a hwy, yn Eglwys y Bedd Sentaidd; ac wrth ddychwelyd bu farw ar Ynys Cyprus. Yr oedd wedi ysgrifenu hanes ei daith yn lled fanwl; ac yn mhlith ei ysgrifau, cafwyd pedair Pryddest i'r Bedd Sentaidd; un yn Lladin, un yn yr Eidalae, un yn y Ffrengaeg, ac un yn Gymraeg.

14. Thomas Stradling, Ysw., mab ac etifedd Syr Henry, a briododd Jennet, merch Thomas Mathews, Ysw., o'r Rhadyr, o'r hon y cafodd ddau fab a merch, Edward, Harri, a Jane. Bu Thomas Stradling, Ysw., farw cyn cyrhaedd ei 26 mlwydd oed; a phriododd Jennet ei weddw a'r enwog Syr Rhys ab Thomas, o Gastell Dinefawr, yr hwn a fu yn foddion i osod Harri VII., ar orsedd Lloegr.

Priododd Jane merch Thomas Stradling, Ysw., a Syr William Gruffydd, boneddwr cyfoethog o Sir Gaernarfon. Tra yn Llanddunwyd amser y briodas, daeth William i gyffyrddiad a pherson o'r

enw Dafydd Rhys, mab Richard Rhys y bardd, o'r Merthyr Mawr, a chyflogodd ef yn arddwr. Aeth Jane hefyd a'i llawforwyn Agnes gyda hi i Sir Gaernarfon. Yn fuan wedi symud i'r gogledd, priododd Dafydd Rhys ac Agnes; ac yn nghwrs amser ganwyd mab iddynt, yr hwn a enwyd yn John. Pan nad oedd John ond plentyn sugno, bu farw ei dad, a bu farw Syr William Gruffydd a'i foneddiges agos yr un adeg; ac felly yr oedd Agnes a'i phlentyn bychan yn amddifad a diymgeledd. Yn y cyfyngder hwn, penderfynodd y fam ddychwelyd i Forganwg. Teithiodd yr holl ffordd o Gaernarfon i Landdunwyd, gan gario ei phlentyn gyda hi; ac wedi cyrhaedd pen y daith, hi a glafychodd a bu farw yn fuan.

Ar farwolaeth y fam, cymmerodd Syr Edward Stradling y plentyn John Dafydd Rhys i'r Castell i'w fagu; ac wedi iddo dyfu yn fachgenyn, gosodwyd ef dan ofal yr ysgolfeistr a addysgai Thomas ei fab. Yr oedd y ddau fachgen agos yr un oed, ac yn gyfeillion mynwesol. Anfonwyd y ddau gyda'u gilydd i'r Eidal hefyd i orphen eu haddysg, lle y daethant yn ysgolheigion campus. Wedi dychwelyd o'r Eidal, priododd Syr Thomas, a ganwyd mab iddo, a enwyd yn Edward, i'r hwn y bu John Dafydd Rhys yn athraw. Un diwrnod tra yr oedd y bachgen yn chwarae ar y traeth, amgylchynwyd ef gan y llanw, clywyd ei lefain o'r castell, aed a cheffylau i'r traeth i'r dyben o fyned ar eu cefnau at y bachgen i'w achub, ond nid ai y ceffylau i'r dwfr gan fod y tonau yn tori mor gynddeiriog ar y traeth, ac nid oedd gan neb obaith bellach yr achubid y plentyn. Yn y cyfyngder hwn, daeth ei athraw Shon Dafydd Rhys i'r traeth, a rhuthrodd fel gwron trwy y tonau trochionog, a dygodd y plentyn i dir yn ddiogel. Bu yr amgylchiad hwn yn foddion i ychwanegu ei barch yn y Castell, er ei fod yn fawr iawn yn flaenorol. Wedi i'r bachgen ddyfod i oed priodol, anfonwyd ef i'r ysgol i'r Eidal, dan ofal ei athraw cartrefol John Dafydd Rhys, a buont yno am rhai blynyddau. Ar yr ymweliad hwn a'r Eidal y graddiwyd John Dafydd Rhys yn Ddoctor mewn meddyg-iniaeth; ac yr urddwyd ef yn Fynach hefyd. Wedi dychwelyd i Gymru, prynodd y Dr. John Dafydd Rhys ddarn o dir yn Mrycheiniog, ac aeth yno i fyw; ac yno y cyfansoddodd ei enwog Rammadeg Lladin a Chymraeg.

15. Syr Edward Stradling (yr hwn a fagodd J. D. Rhys), a briododd Elizabeth merch Syr Thomas Arundel, Farchog, o Gernyw, o'r hon y cafodd chwech o blant, sef pedwar mab a dwy ferch—enwau y rhai oedd Thomas, Robert, Edward, John, Jane, a Chatherine. Yr oedd y Syr Edward hwn yn cydoesi a'r Frenines Elizabeth; ac y mae cyfrol o'i ohebiaethau wedi ei chyhoeddi dan olygiaeth y diweddar Barch. J. M. Traherne, dan yr enw "The Stradling Correspondence in the time of Queen Elizabeth." Ceir yn y gyfrol hono, bortread da o agwedd gymdeithasol Morganwg yn yr oes hono.

16. Syr Thomas Stradling, cyfaiil, a chyd ysgolor John D. Rhys, a briododd Catherine merch Syr Thomas Gamage o'r Coetty, o'r hon y cafodd saith o blant, sef Edward, David, Elizabeth, Thomasine, Jane, Joice, a Gwenllian.

17. Syr Edward Stradling (disgybl Dr. J. D. R.), a briododd Agnes ail feroh Syr Edward Gage, Farchog; ond ni chawsant blant. Felly ar ei farwolaeth ef, aeth yr etifeddiaeth yn eiddo John, wyr Harri Stradling. Yr oedd yr Harri hwn yn fab i Thomas Stradling, Ysw., gweddw yr hwn a briododd â Syr Rice ab Thomas. Priododd Harri â merch Thomas Jubb, a chafodd fab o'r enw Francis, a mab i'r Francis hwnw oedd

18. Syr John Stradling, Farchog. Gwnaed ef yn Farchog a Barwnig gan James I. Cyhoeddodd hwn gyfrol o'i farddoniaeth dan yr enw *Divine Poems*. Efe oedd Sirydd Morganwg yn 1607. Gwnaeth hwn barc newydd ger y Castell, a pharodd ail adeiladu y Twr, yr hwn a chwythwyd i lawr mewn ystorm yn amser y Frenines Elizabeth. Priododd ef ag Elizabeth merch Syr Edward Gage (mab Syr E. Gage o swydd Sussex), o'r hon y cafodd ddeg o blant, yr hynaf o'r cyfryw oedd

19. Syr Edward Stradling, Barwnig, yr hwn a briododd Mary, merch Syr Thomas Mansel o Fargam, Barwnig. Yn amser y Rhyfel Cartrefol, rhwng Charles I., ac O. Cromwell, casglodd, arfogodd, dilladodd, a chynnaliodd Syr E. Stradling 1055 o filwyr ar ei draul ei hun, i ymladd dros y brenin. Yn mrwydr Edge Hill daliwyd ef, a charoharwyd ef yn Nghastell Warwick. Bu farw yn Rhydychain, lle y claddwyd ef. Cafodd naw o blant, yr hynaf o'r cyfryw oedd

20. Syr Edward Stradling, Farchog. Gwnaed ef yn Farchog gan Charles I. Priododd hwn â Chatherine, merch Syr Hugh Parry, Henadur, Llundain. Arweiniodd y Syr Edward hwn fyddin o blaid Charles I., i frwydr Newbury; ac oddiyno efe a aeth i Rhydychain, lle y bu farw. Cymmerwyd John ei frawd yn garcharor yn mrwydr St. Ffagan, a dygwyd ef i Gastell Windsor lle y bu farw. Yr oedd gan Syr Edward dri o blant. Priododd ei weddw â Bussy Mansel, Ysw., Briton Ferry.

21. Syr Edward Stradling, Barwnig, a ganlynodd ei dad i'r etifeddiaeth. Priododd hwn a merch William Hungerford, Ysw., o Gastell Farley, swydd Somerset, a chawsant chwech o blant. Bu William yr hynaf farw yn ieuano, fel y daeth yr ail fab

22. Syr Edward Stradling, Barwnig, i'r etifeddiaeth ar ol ei dad. Priododd hwn ag Elizabeth merch Syr Thomas Mansel o Fargam, a chawsant ddau o blant. Ganwyd Edward, Mawrth 8, 1699, bu farw Hydref 8, 1726. Ganwyd yr ail fab

23. Syr Thomas Stradling, Gor. 24, 1710, yr hwn a ddaeth i'r etifeddiaeth ar ol ei dad. Ymddengys i hwn tra yn efrynu yn Rhydychain, ddyfod i gydnabyddiaeth a chyfeillgarwch a gwr ieuano o'r enw Syr John de la Fountain Tyrwhit, Stamfield, swydd Lincoln. Wedi gorphen efrynu yn y Coleg, penderfynodd y ddau fyned ar daith i'r Cyfandir. Tra yn Holland, gwnaeth Syr Thomas ei ewylllys, dyddiedig Mawrth 2il a'r 8ydd, 1785. Yn ol yr ewylllys hono, yr oedd yr etifeddiaeth i fyned ar ol ei ddydd ef i Charles Bowen, Ysw., o Ystumllwynarth (Oystermouth), yr hwn oedd ei berthynas agosaf. Ond os na fuasai Charles yn fyw, bod yr eiddo i fyned i ail fab Bussy, Arglwydd

Mansel o Briton Ferry; ac os buasai hwnw farw o'i flaen ef, bod yr eiddo i fyned i John de la Fountain Tyrwhitt. Yr oedd Charles Bowen yn fab i George Bowen, Ysw., yr hwn oedd yn briod â Jane, chwaer Syr Edward Stradling. Bu Syr Thomas Stradling farw yn Montpellier, yn Ffrainc, Medi 27, 1788, yn wr dibriod. Dygwyd ei gorff drosodd i St. Donatts i'w gladdu Mawrth 19, 1789. Ar ei farwolaeth ef, darfu i Bussy Mansel honi hawl yn yr holl etifeddiaeth, er y gwyddai mai Charles Bowen oedd y gwir etifedd yn ol yr ewyllys. Arweiniodd hyn yr achos i lys cyfreithiol; a chan ei bod yn amlwg mai C. Bowen, Ysw., fuasai yn ennill, llwyddodd B. Mansel yn 1740, i gael ganddo werthu ei hawl iddo ef am ddwy fil o bunnau! Yr oedd Charles yn feddw ar y pryd; ac yr oedd wedi gwario dwy etifeddiaeth yn flaenorol trwy feddwod. Parodd y cyfrwystra twyllodrus hwn o eiddo B. Mansel, i deulu Charles Bowen, a De la Fountain Tyrwhitt anfoddloni yn ddirfawr. Pa fodd bynag, ymddengys iddo ef lwyddo i gadw meddiant o'r etifeddiaeth hyd ei farwolaeth 1750. Bu Charles Bowen, Ysw., farw yn Oystermouth yn 1751. Yna dygwyd owyn i'r *Chancery* gan Hugh Bowen, Ysw., o Egwys Brewis, sef brawd Charles Bowen, yn erbyn Lady Mansel a'i merch Louisa Barbara, unig blentyn Bussy Arglwydd Mansel; a honai hawl yn yr etifeddiaeth ar ol ei frawd. Barnodd cynghorwyr Lady Mansel mai y ffordd oreu oedd iddi gynnwng rhyw delerau i Hugh Bowen, am ei fod yn amlwg iddynt hwy mai efe fuasai yn ennill. Cynnygiwyd y telerau, a derbyniwyd hwy ganddo yn 1754, tra yr oedd ef yn 80 oed. Mewn canlyniad i hyn, dygodd George Bowen, Ysw., mab ac etifedd cyfreithlon Hugh Bowen, gwyn i'r *Chancery* yn erbyn ei dad, Lady Mansel, &c., a chodwyd yr achos o lys i lys, nes yn y diwedd iddo gael ei benderfynu yn Nhy yr Arglwyddi, a rhanwyd yr etifeddiaeth rhwng y pleidiau. Aeth Llanddunwyd ac Abersili yn eiddo John de la Fountain Tyrwhitt, ac i Tyrwhitt Drake ar ol hyny; aeth Merthyr Mawr a Monk-nash i George Bowen, Ysw.; a Phenllin, Llanphê (*Lanphey*), a Chwm Hawey yn Ngwlad yr Haf i Lady Mansel; a gwerthwyd St. Athan er talu treuliau'r gyfraith. Priododd Lady Louisa Barbara Mansel â'r Anrhydeddus George Venables Vernon. Yn fuan ar ol hyn, daeth Castell a maenor Llanddunwyd yn eiddo teulu John de la Fountain Tyrwhitt. Yn 1818, meddiannid a phreswylid y Castell gan Thomas Drake Tyrwhitt Drake, Ysw. Yn 1860, meddiannid y lle gan Thomas Tyrwhitt Drake; ac yn 1864, prynwyd y Castell a'r faenor, gan Dr. Nichol Carne, yr hwn yw'r perchennog a'r preswlydd presenol (1874). Mae amryw o hiliogaeth y Stradlings yn Morganwg yn bresenol mewn amgylchiadau digon cyffredin. Yr ydym yn adwaen rhai o honynt sydd yn gweithio yn ngweithfeydd haiarn Merthyr Tydfil.

ST. FFAGAN, neu Lan Sant Ffagan. Plwyf, a gorsaf ar glêdfrfordd Deheudir Cymru (G. W. R.), pedair milldir i'r Gorllewin o Gaerdydd, yn nghanntref Dinas Powys, undeb a dosparth llys sirol Caerdydd, deoniaeth, archddeoniaeth, ac esgobaeth Llandaf. Cafodd y plwyf ei enwi oddiwrth Ffagan Sant, yr hwn meddir a sefydlodd fath o Eglwys Gristionogol yn y lle mor fore a'r flwyddyn 181 o.c. Cafodd Eglwys



gyntaf y plwyf ei chyssegru i'r sant hwn, ond nid oes cymmaint ag adfeilion yr Eglwys hono yn aros. Yr oedd yr Eglwys hono yn sefyll yn 1540, a gelwid hi yn "Gapel" gan Leland, yr hyn a led awgryma mai capeliaeth dan Llandaf oedd St. Ffagan y pryd hwnw. Mae yr Eglwys bresenol wedi ei hadeiladu ger y fan y safai yr hen Eglwys, ac wedi ei chyssegru i Mair. Dywedir fod y Fedyddfa sydd yn hon yn llawer hynach na'r Eglwys, ac y defnyddid hi gynt yn yr hen Eglwys i gadw "Dwfr Santaidd."

Ychydig i'r gogledd o'r pentref, y mae gweddillion hen Gastell Normanaid, yr hwn a adeiladwyd yn fuan ar ol Goresgyniad Morganwg, gan un o'r enw Peter de Vale, medd rhai haneswyr; tra y dywed ereill mai Peter le Soore a'i hadeiladodd, lle y safai castell cyn hyny. Methasom gael hanes toriad y castell hwn, na pha hyd y bu yn meddiant y teulu a'i hadeiladodd. Pa fodd bynag, wedi iddo gael ei dori, darfu i wr o'r enw Gibbon adeiladu palas ysgwar o fewn muriau yr hen gastell, a daeth y lle wedi hyny yn eiddo Lewisiaid y Van, a thrwy briodas aeth yn eiddo teulu y Windsors. Darfu i'r Anrhydeddus R. W. Olive, fyned i'r draul o adeiladu yr Eglwys, a'r pentref o'r newydd agos i gyd.

Ymladdwyd brwydr waedlyd a phwysig yma Mai 8, 1648, rhwng lluoedd Charles I. a lluoedd Cromwell, hanes yr hon a welir yn nhudalen 116. Cynnelir Ysgol Wladwriaethol yn y pentref, ac y mae yma gapel gan y Trefnyddion Calfinaidd. Rectoriaeth yw'r fywoliaeth Eglwysig, yn unol a churadiaeth Llanilldeyrn, yn werth £417 y flwyddyn rhwng y ddwy. Mesura'r plwyf 2241 erw, gwerth ardrethol £8,402; tai 98; pobl yn 1861, 506; yn 1871, 586.

St. GEORGE. Plwyf yn nghantref Dinas Powys, undeb a dosparth llys sirol Caerdydd, deoniaeth, archddeoniaeth, ac esgobaeth Llandaf, tua chwech milldir i'r gorllewin o Gaerdydd, ar lan afon Elai, ac o fewn ychydig i gledrffordd Deheudir Cymru, yr hon sydd yn croesi trwy ran o'r plwyf. Hen enw y plwyf hwn oedd Llanufelwyn; a bernir mai Ufelwyn mab Cennydd, a brawd Ffli, a sylfaenodd Eglwys Gristionogol yma gyntaf yn y 6ed canrif. Pan ranodd R. Fitzhamon diroedd Morganwg rhwng ei gydyspeilwyr, rhoddwyd Maenor Llanufelwyn a manau ereill i Syr John le Fleming, yr hwn neu ei fab, a adeiladodd Gastell cadarn yma, gweddillion yr hwn sydd yn amlwg yn awr. Bu ymosodiad fyrnig ar y Castell yn 1816, gan Llewelyn Bren o Senghenydd; yr hwn a lwyddodd i ddryllio yr adeilad, a gorchfygu yr amddiffynwyr. Yn mhen ychydig ar ol hyny, gorchfygwyd a daliwyd y dewr a'r enwog Llywelyn Bren, a chondemniwyd ef i farwolaeth gan Syr William Fleming, Farchog o'r lle hwn, yr hwn oedd yn Uchel Sirydd Morganwg ar y pryd, dan Hugh le Despenser. Yn unol a'r ddedfryd, rhoddwyd Llywelyn i farwolaeth, a chladdwyd ef yn Abbatty y Mynachod Gwynion (White Friars), Caerdydd. Yn 1821, pan gymmerodd Rhyfel y Barwniaid le, yn erbyn Hugh le Despenser, daliwyd a chrogwyd Syr W. Fleming yn Nghaerdydd, am gondemnio Llywelyn Bren ar gam. Claddwyd yntau hefyd yn y White Friars. Bu'r Castell a'r faenor yn eiddo teulu'r Fleming hyd deyrnasiad

Harri IV., tua'r flwyddyn 1400; pryd yr aeth yr etifeddiaeth yn eiddo Edmund Malefant, trwy iddo briodi etifeddes yr olaf o'r Flemings. Yn 1410, ymosododd Owen Glyndwr a'i wyr ar y castell hwn, a drylliwyd ef; ac nid oes hanes iddo gael ei adeiladu drachefn i'w gadernid blaenorol. Yn amser Harri VII. darfyddodd llinach wrryw-aidd teulu Molefant, ac aeth y lle yn eiddo John Butler, Ysw., o Gastell Dindryfan. Ar farwolaeth Arnold, mab John Butler, aeth y faenor yn eiddo Walter Vaughan, Ysw., yr hwn oedd yn briod a chwaer Syr Arnold Butler, fel y sylwyd yn hanes Castell Dindryfan. Daeth yr etifeddiaeth hon wedi hyny yn eiddo teulu Traherne, ac y mae yn parhau yn mherchenogaeth y teulu hwn yn bresenol. Yn nawdd y teulu parchus hwn y mae'r fywoliaeth Eglwysig hefyd, yr hon sydd rectoriaeth gwerth £124 y flwyddyn, a phersondy. Defnyddir yr hen Gastell yn amaethdy yn awr; ac amaethyddiaeth ddygir yn mlaen yn benaf yn y plwyf. Cedwir ysgol blwyfol ger yr Eglwys, i addysgu plant y trigolion. Maint y plwyf yw 1058 erw. Tai 50. Pobl yn 1861, 218; yn 1871, 286.

St. HILARY.—Llan-Sant-Elari. Plwyf yn nghantref y Bontfaen, undeb Penybont, dosparth llys sirol Penybont a'r Bontfaen, deoniaeth, archddeoniaeth, ac esgobaeth Llandaf. Saif yr Eglwys tua dwy filldir i'r de-ddwyrain o'r Bontfaen, a'r fywoliaeth yn rectoriaeth gwerth £44 y flwyddyn, yn unol a rectoriaeth Llanfihangel, yn nawdd a rhodd deon a glwysgor Llandaf. Mae tir y plwyf hwn gyda'r ffrwythlonaf yn Mro Morganwg; ac amaethir ef yn rhagorol. Maint y plwyf yw 1200 erw. Tai 88. Pobl yn 1861, 189; yn 1871, 166. Yn y plwyf hwn y saif adfeilion HEN GASTELL BEAUPRE—*Fair Meadow*, ar lan ddwyreiniol afon Dawen. Maes Essyllt yw enw Cymreig y lle, a galwyd ef yn Beaupre gan y Normaniaid, o herwydd ei fod mor barad-wysaidd. Yma y preswyliai yr enwogion Cymreig, Cynan a Llywelyn ab Seisyllt, Gruffydd ab Llywelyn, a Robert ab Seisyllt, &c. Priododd Llywelyn ab Seisyllt o'r lle hwn ag Angharad, gor-wyres Hywel Dda, ac felly trwy y briodas hon, daeth Llywelyn yn Frenin Cymru; etto, yn Maes Essyllt y preswyliai, gan mae hon oedd ei dreftadaeth, a bod y lle yn meddu y fath brydferthion anianol. Un o'r teulu hwn oedd Syr James Seisyllt, yr hwn a gymmerodd arfau o blaid yr Ymherodres Mawd; ond yn anfodus a laddwyd yn mrwydr Willingford, yn y flwyddyn 1189. Canlynwyd ef gan ei fab, Syr John Seisyllt, yr hwn a gymmerwyd yn garcharor yn Lincoln, yn nheyrnasiad y brenin Stephen. Canlynwyd hwn gan ei fab Eustace, yr hwn a briododd â merch Syr Walter Penbridge, i'r rhai y ganwyd Syr Baldwin Seisyllt; yr hwn a wnaed yn farhog gan Harri II. Bu Syr Baldwin yn briod ddwywaith. Enw ei fab hynaf oedd Gerald; i'r hwn y ganwyd mab a enwyd yn Robert Seisyllt. Dilynwyd Robert gan ei fab James Seisyllt; ac yntau gan ei fab Gerald. Bu'r Gerald hwn yn briod bedair gwaith. Ei fab hynaf, o'r wraig gyntaf oedd John Seisyllt, yr hwn a ganlynwyd gan ei fab, yr enwog Syr John Seisyllt, yn amser Edward III. Bu mab hynaf hwn farw o flaen ei dad, gan adael ar ei ol fab o'r enw Thomas, yr hwn a ddaeth i'r etifeddiaeth ar ol ei daid.

Canlynwyd Thomas gan Richard Seisyllt, yna gan Phillip, mab hynaf yr hwn oedd Phillip, a'i fab ieuengaf Dafydd Sitsyllt. Disgynyddion o'r Dafydd hwn ydynt y Cecils presenol, Ieirll Exeter a Salisbury; ac felly fe welir fod yr hen deulu Cymreig hwn yn parhau mewn urddas hyd heddyw.

Gwerthwyd Castell Beaupre, a'r tiroedd perthynol iddo gan un o ddisgynyddion Robert ab Seisyllt, i Syr Phillip Basset, o St. Hilari. Wedi hyny daeth i feddiant y Milwriad Berkley, trwy i'r milwriad osod ar Syr Richard Basset, am yr arian a roddodd tad y milwriad yn fenthyg i dad Syr R. Basset. Gwerthodd y Milwriad Berkley ef yn 1758, i un o'r enw Edmunds. Prynwyd ef wedi hyny gan Daniel Jones, Ysw., yr hwn a aeth i'r draul o adeiladu Clafdy Caerdydd. Yr oedd yr Hen Gastell yn dra adfeiliedig pan brynwyd ef gan Daniel Jones; ac felly, yn hytrach na myned i'r draul o'i adgyweirio, efe a adeiladodd balas gwych ar yr ystâd, yn nes i'r Bontfaen, a galwodd ef *New Bewpyr*. Tra yr oedd y lle yn meddiant Daniel Jones, daeth un o'r Bassetts i hawlio perchenogaeth, ar y sail nad oedd hawl gan Syr R. Basset i'w werthu i Berkley. Bu agos i Daniel Jones a hwn fyned i gyfraith yn ei gyleh; ond gan mai cyfreithiwr oedd y blaenaf, wedi iddo chwilio i mewn i'r mater, gwelodd fod hawl Basset yn gyfiawn. Felly, yn hytrach na myned i gyfraith, gwnaeth D. Jones gytundeb a Bassett, ei fod ef (D. Jones) i gael mwynhau y cwbl tra fuasai byw, ac y buasai yn ei ewyllys, yn rhoi yr holl ystâd, ac ychwaneg gyda hi yn ol i'r gwir berchenog, ac felly y bu. Bu farw Daniel Jones, Ysw., Medi 9, 1841; ac yn ei ewyllys, gadawodd ddwy fferm fawr i Basset yn ychwanegol at stâd y Bewpyr. Yr oedd y Basset hwn yn bwriadu tori y coed oddiar y tir i gael arian i adgyweirio yr Hen Gastell; ond bu farw cyn cario ei fwrriad i weithrediad. Bu Mrs. Basset farw yn 1865; a daeth y lle yn eiddo ei nai, William West James Basset, Ysw., New Beaupre, yr hwn yw y perchenog presenol.

Yn y flwyddyn 1815, torwyd Castell Maes Essyllt, sef y Bewpyr gan Llywelyn Bren o Senghenydd, ond cafodd ei adeiladu drachefn. Mae iaith muriau adfeiliedig yr hen gastell hwn yn dweyd yn eglur mai nid plant yr un genedlaeth ydynt; ac nad ydynt yn perthyn yn agos iawn i'w gilydd o ran arddull adeiladol; etto, y mae yr arddull Roegsaidd a Gothaidd wedi eu cymhlethu â'u gilydd mor gelfydd a chywrair, fel pe baent wedi eu huno mewn priodas. Uwch ben porth allanol y Castell, y mae'r blwyddiad 1586. Arweinia y porth hwn i gyntedd eang ysgwâr. Mae'r porth sydd yn arwain o'r cyntedd i'r Castell, yn gywrelnwaith ardderchog a dweyd y lleiaf am dano. Mae cerfwaith celfydd y porth hwn yn taro pob ymwelydd a syndod; ac er fod dyrnau geirwon ystormydd 278 o flynyddau wedi curo arno, mae ei ogoniant heb ymadael. Mae hanes ei wneuthuriad fel y canlyn:—  
Tua thri chant o flynyddau yn ol, yr oedd dau frawd o'r enwau Richard a William Twrch, yn gweithio mewn chwarel cerreg nadd (*free stone*) ar lan afon Ogwy; ac hefyd yn dilyn yr alwedigaeth o adeiladwyr. Yn anfodus, syrthiodd y ddau mewn cariad â'r un ferch; a phan ddeallasant hyn, oododd eiddgedd,

a phenderfynasant beidio siarad gair a'u glydd. Pan ddeallodd y gariadferch sefyllfa pethau, penderfynodd hithau na fuasai yn siarad ag un o'r brodyr. Yn y cyfwng hwn, collwyd Richard Twrch yn hollol ddisymwth,—ymadawodd a'r lle heb fynegu ei fwiad i neb. Yn mhen tuag ugain mlynedd dychwelodd yn ol, wedi bod yn Llundain, Paris, Rhufain, a gwahanol ddinasoedd Ewrop yn perffoithio ei hun yn y gelfyddyd o faen gerfiwr, ac adeiladydd. Yr bedd erbyn hyn yn gyfarwydd â gwahanol arddulliau y cyfandir. Pan ddychwelodd, yr oedd ei frawd wedi gadael y chwarel, ac wedi symud i fyw i Benybont-ar-Ogwy; ac felly dechreuodd Richard fynu cerryg o'r hen chwarel, a thriniau hwy yn hynod gelfydd. Yn fuan tynodd ei fedrusrwydd sylw mawrion y wlad; a chan fod Richard Basset, Ysw., yn gwneyd cyfnewidiadau mawrion ar y Castell y pryd hwnw, cytunodd â Richard Twrch i wneyd yr holl addurnwaith a welir yno yn awr; yr hyn a ddengys i'r carwr siomedig ddyfod yn faen gerfiwr o'r dosparth blaenaf.

Mae'r porth a nodwyd yn dair *storey* o uchder, ac o arddull Roegsaidd, yn cynnwys y Dorig, yr Ionig, a'r Corinthaid. Yn uchel uwchben y porth y mae arwyddair y teulu yn Gymraeg:—

“GWELL ANGEU NA CHYWILYDD.”

Yna, yn is na'r arwyddair, mae a ganlyn wedi ei gerfio ar dri darn ysgwar:—

SAY COWLDST THOU E  
VER FYND, OR EVER HEARE  
OR SEE, WORDLEY WRETCH  
OR COWARD PROVE

A FAYTFUL FRYNDE  
TO BE, RYCHARDE BASS  
ETT, HAVING TO WYF  
KATHERNE, DAUGHTER  
TO

SIR THOMAS JOHNS KNIGHT  
BWYLT THIS PORCHE  
WITH THE CHYMNEY TUNNES IN ANO 1600  
HIS YEARS 65. HIS WYFE 55.

Yn un o'r ystafelloedd, uwchben lle'r tân y mae “1609” wedi ei gerfio yn gywrain iawn, a barnwyf mai R. Twrch a'i gwnaeth, gan

fod cyfeiriad y tu allan at y *Chymney Tunnes*. Y farn gyffredin yw, mai yr enwog Inigo Jones a ddygodd yr arddulliau Groegaidd a Rhufeinig gyntaf i'r wlad hon mewn adeiladwaith; ac y mae yn *Stow*, preswylfa Ardalydd Buckingham, *bust* o Inigo Jones, a'r cerfiad canlynol arno:—"Ignatius Jones, who to adorn his country introduced and rivalled the Greek and Roman Architecture." Yn awr, gan na ddaeth Inigo Jones a'r arddulliau hyn i sylw cyn amser Iago I., a'i fod yn ffaith i Richard Twrch orphen porth Castell Beaupre, dair blynedd cyn marwolaeth y frenines Elizabeth, mae yn eglur fod y clod a roddir i Inigo Jones, yn ddyledus i R. Twrch o Forganwg. Yn 1681, cynnaliwyd Eisteddfod fawreddog yn y Castell hwn am dri diwrnod, dan nawdd Syr Richard Basset, Farchog, Arlwydd y lle. Preswylir rhan o'r Hen Castell gan *Land Agent* y perchenog; a thrwy garedigrwydd hwnw y ceisais weled yr holl le.

ST. LYTHAN. — Llanfleiddian Fach. Plwyf yn nghantref Dinas Powys, undeb a dosparth llys sirol Caerdydd, deoniaeth, archddeoniaeth, ac esgobaeth Llandaf. Yr Eglwys yw'r unig addoldy sydd yn y plwyf, yr hon a saif tua saith milldir i'r Gorllewin o Gaerdydd, a chysgodir hi gan goedydd tew frigog, fel nas gellir ei gweld heb fyned i'w hymyl. Ficeriaeth yw'r fywoliaeth, gwerth £100 y flwyddyn, yn nawdd a rhodd archdeon Llandaf. Y ficer presenol yw'r Parch. Walter Evans, Ysgrifenydd y "*Cambrian Archaeological Society*." Perchenogir yr holl blwyf gan R. F. L. Jenner, Ysw., Castell Gwentof, ac etifedd y diweddar John Bruce Pryse, Ysw.

Tua hanner milldir i'r gorllewin oddiwrth bentref St. Lythans y mae Dyffryn House, a Dyffryn Goluch, lle y mae'r Gromlech fwyaf yn Mhrydain. Mae y rhai hyn yn mhlwyf St. Nicholas, ond yn nes i bentref St. Lythan's nag i bentref y plwyf lle y safant. Cynnelir ysgol ddyddiol yn y plwyf hwn ger yr Eglwys, dan nawdd yr offeiriad. Seisneg siaradri i gyd yn y parth hwn, fel y rhan fwyaf o Fro Morganwg; ac amaethyddiaeth yw galwedigaeth y trigolion. Maint y plwyf 1248 erw; gwerth ardrethol £1150. Tai 28. Pobl yn 1861, 186; yn 1871, 121.

ST. NICHOLAS. — Llaneinydd. Plwyf a phentref yn nghantref Dinas Powys, undeb, a dosparth llys sirol Caerdydd, deoniaeth, archddeoniaeth, ac esgobaeth Llandaf, tua chwech milldir i'r gorllewin o Gaerdydd, ar ochr y brif ffordd rhwng Caerdydd a'r Bontfaen, sef *Julia Strata Maritana* y Rhufeiniaid. Adeiladwyd Eglwys y plwyf hwn gyntaf gan Einydd ab Ithel, brenin Morganwg, ac wyr Morgan Mwynfawr. Bu yr ardal yma yn dra chyssegredig gan y Derwyddon cyn amser Einydd; oblegyd yn y plwyf hwn y saif Dyffryn Goluch, prif addolfan Derwyddon Morganwg, neu Essyllwg, yn ol pob tebygolrwydd; ac yma fel y sylwwyd, y mae'r Gromlech fwyaf yn yr Ynys, gydag amryw weddillion derwyddol ereill. Mae y gweddillion cyssegredig hyn yn aros yma er ys dwy fil o flynyddoedd, yn fath o gof golofnau i arddangos tuedd gryfyddol y genedl Gymreig, cyn darbyn goleuni Cristionogol. Ychydig i'r gogledd o'r pentref, mae hen Gaerfa Bufeinig hefyd, yr hon sydd yn dra adfeiliedig. Dywed traddodiad i

Oliver Cromwell gysgu noson yn y plwyf hwn, pan ar ei daith tuag Abertawy, ar ol brwydr St. Ffagan.

Yn y plwyf hwn y ganwyd yr enwog a'r hynod Morgan Howells, Casnewydd, yr hwn oedd weinidog parohus gyda'r Trefnyddion Calfinaidd. Ganwyd ef yn 1794, mewn tŷ bychan o'r enw Breach, tua thri chwarter milldir i'r gorllewin o'r pentref, ac o fewn ychydig i balas hynafol y Cottrell. Dechreuodd ei yrfa ysgolheigiol yn mhentref Tresimwn; ac yna yn ysgol pentref St. Nicholas. Yn 1810, cafodd ei osod yn egwyddorwas yn nhref Casnewydd, Mynwy. Yn 1815, dechreuodd bregethu. Yn 1824, ordeiniwyd ef i gyflawn waith y weinidogaeth. Bu farw Mawrth 21, 1852, yn 57 mlwydd oed. Yr oedd yn un o'r pregethwyr hynotaf a mwyaf dylanwadol a fagodd Cymru erioed. Yr oedd tuag wyth mil o bobl yn ei angladd, yr hyn a brawf fod ei barch yn fawr. Galarebodd lluaws o brif feirdd Cymru ar ei ol, ond ni wneir ond dyfynu ychydig linellau yn bresenol, gan fod hanes ei fywyd wedi ei gyhoeddi yn llyfryn. Dyma fel y dywedai yr anfarwol Eben Fardd am dano:—

Mawrygwn hewyd Morgan Howel,—dyn

A Duw yn ei arddel;  
Dyn awchwyd & dawn uchel,  
Dyn a min yn dwyn mêl.

Bwriai lawer i bêrlewyg—& nwyf

Ei nefol ddychymmyg;  
Hidlydd mwyn hyawdledd myg  
Heb yntho un dawn benthg.

Mâl gawodau, ac aml lygeidyn—gan

Ogoniant yn eu dilyn,  
Oedd nodau doniau y dyn,—  
Câr didwyll pob credadyn.

Efengylai ef yn ngwaeledd—y cnawd,

Nes cynyio tangnefedd;  
Llun salw oedd, yn llawn sylwedd,  
Un doeth fu,—ond aeth i'r fedd.

Dyma bortread o hono gan Hiraethog:—

Gwae ni! ha! Morgan Howel—s fu ddyn

Feddiannodd ddawn uchel,  
Boed i'r tywod wr tawel,  
Ei eneu sydd o dan sel.

Gwr oedd o feddwl gwreiddiol,—a doniau

Danient yn rhyfeddol;  
Athraw o ddull dweithriol,  
Un o'i ryw ni cheir o'i ol.

Yn y palas y cyfeiriwyd atto, sef y Cottrell, y ganwyd ac y magwyd Rice Merrick, Ysw., awdwr *Morgana Archatographia*, yr hwn sydd fath o Hanes Sir Forgawg yn amser y Frenines Elizabeth, ac a ysgrifenn-

wyd yn 1578. Cedwid y copi mewn ysgrif am oesoedd yn Rhydychain ; ond yn y diwedd, darfu i Syr Thomas Phillipps, Middle Hill, swydd Caerwrangon, fyned i'r draul o argraffu ychydig gopïau o hono i'w rhanu rhwng ei gyfeillion, a dim ond hyny.

Bywoliaeth y plwyf sydd rectoriaeth gwerth £280 y flwyddyn, gyda 58 erw o dir Eglwys. Cedwir Ysgol Genedlaethol yn y pentref, ac y mae dau gapel Ymneillduol yn y plwyf, sef un gan y Bedyddwyr, a Chapel Trehill gan y Methodistiaid Calfinaidd. Maint y plwyf yw 2,104 erw. *Valuation* yn 1871, £2,418. Tai, 76. Pobl. yn 1861, 854 ; yn 1871, 419.

SULLY.—Abersili.—Plwyf yn nghantref Dinas Powys, undeb a dosparth llys sirol Caerdydd, deoniaeth, archddeoniaeth, ac esgobaeth Llandaf. Saif yr Eglwys, yr hon sydd wedi ei chyssegru i Ioan Fedyddiwr, ar lan y mor, saith milldir i'r de-orllewin o Gaerdydd, a'i bywoliaeth yn rectoriaeth gwerth £250 y flwyddyn, gyda phersondy, yn nawdd a rhodd Syr Ivor B. Guest, Barwnig, yr hwn yw arglwydd y faenor a pherchen y plwyf. Bu y daiaregwr enwog Deon Conybeare yn rector yma am flynyddau lawer, ac yma yr ysgrifennodd ei sylwadau rhagorol ar ddaiareg. Ychydig oddiwrth yr Eglwys y mae adfeilion hen gastell Normanaidd, a adeiladwyd gan Syr Reginald de Sully, yr hwn a gafodd y faenor hon gan Syr B. Fitzhamon. Bu teulu Reginald de Sully yn perchenogi y faenor ac yn preswyllo yn y castell yn olynol hyd amser Iorwerth I., pryd y bu farw yr olaf o'r teulu yn y llinach wrywaidd, ac aeth yr etifeddiaeth yn eiddo y ferch, yr hon a briododd â Syr Morgan de Avan, Arglwydd Afan, yr hwn oedd yn un o hiliogaeth Iestyn ab Gwrgan. Syr John de Avan, eu mab, a adawodd un ferch, yr hon a gafodd y lle ar ol ei thad. Priododd hono â Norman o'r enw Blunt, a darfu i hwnw neu ei fab roddi arglwyddiaethau Afan a Sully i deulu'r Despensers am diredod yn Lloegr. Llwyrr ddinystriodd Owen Glyndwr y castell hwn, gyda lluwaws ereill o gestyll Morganwg, ac nid oes hanes iddo gael ei adeiladu ar ol y dinystriad hwnw. Daeth y lle i feddiant y perchenog presenol trwy i'w dad, y diweddar Syr Josiah John Guest, Barwnig, ei brynu. Prif balas y plwyf yw *Sully House*, yr hwn sydd yn un o balasau Syr Ivor B. Guest. Maint y plwyf yw 2,167 erw rhwng y dwfr. Pris ardrethol, £1,681. Tai, 85. Pobl. yn 1861, 192 ; yn 1871, 151.

THEGOLWRN—*Colwynston*.—Plwyf yn nghantref Ogwy, undeb Penybont, dosparth llys sirol Penybont a'r Bontfaen, deoniaeth Gronedd Isaf, esgobaeth Llandaf. Saif yr Eglwys a'r pentref tua phedair milldir i'r gorllewin o dref y Bontfaen. Yn y plwyf hwn y mae'r "Fill-dir Aur," yr hon a gafodd ei henwi felly am mai yma y talodd Iestyn ab Gwrgan i Robert Fitzhamon a'i gyd-farchogion am ei gynnorthwyo i orchfygu y Tywysog Rhys ab Tewdwr yn mrwydr fawr Aberdar a Hirwaun. Mae dau neu dri o weddillion adeiladau Rhufeinig yn y plwyf, o fewn ychydig bellder i'r brif heol, sef y *Julia Strata Mariana*. Mae Eglwys y plwyf wedi ei chyssegru i Michael Sant, a'r fywoliaeth yn ficeriaeth gwerth £125 y flwyddyn. Mae yn y plwyf gapeli Ymneillduol hefyd gan y Bedyddwyr, Methodistiaid, a'r Wesleyaid. Prif

balas y plwyf yw Pwllwyrach, yr hwn sydd adeilad hynafol a gwych, ac a breswylir yn bresenol gan John Richards Homphray, Ysw. Maint y plwyf, 1,760 erw. Tai, 58. Pobl. yn 1861, 274; yn 1871, 247.

**TYTHEGASTON.**—Llandudwg. Plwyf yn nghanntref Castell Newydd Penybont, undeb Penybont, dosparth llys sirol Penybont a'r Bontfaen, deoniaeth Gronedd, esgobaeth Llandaf. Saif yr Eglwys tua phedair milldir i'r de-orllewin o dref Penybont. Cynnwys yr Eglwys gorph a changhell yn unig. Yn 1864, gosodwyd seddau newyddion ynddi ar draul y plwyf, er ei gwneyd yn fwy cyfleus a chysurus i addoli ynddi. Mae'r plwyf wedi ei ranu yn ddau ddosparth, sef Uchaf ac Isaf; ond yr enw mwyaf cyffredin mewn arferiad am y dosparth uchaf yw Mynydd Cenffig; ac y mae'r pentref sydd yn dwyn yr enw hwnw yn rhanol yn mhilwyf y Pil a Llandudwg. Yr hyn sydd wedi gosod mwyaf o bwysigrwydd ar y plwyf hwn, yw y ffaith ei fod yn sefyll ar Frig Deheul Cawg Mwnawl Morganwg. Nid oes sicrwydd pa mor fore y dechreuwyd cloddio am lô yn y plwyf hwn, yn ardal Cefn Cribwr, &c., ond amlwg yw na fu nemawr lewyrch ar y gorchwyl hwnw, cyn agoriad y glofeydd sydd ar waith yn bresenol, tua'r flwyddyn 1838 a 1842. Yn y plwyf hwn hefyd y mae Gwaith Haiarn Cefn Cwsg, yr hwn sydd yn cynnwys dwy dawdd fwrnes. Adeiladwyd y gwaith hwn gan C. R. M. Talbot, Ysw., A.S., a bu yn cael ei gario yn mlaen ganddo am flynyddau. Ymddengys pa fodd bynag nad oedd yn talu yn dda, ac felly cafodd sefyll. Yr oedd wedi sefyll yn 1861, a bu hyn yn gryn golled i'r ardal. Yn 1871, ail gychwynwyd ef, ac y mae'r ddwy fwrnes yn gweithio yn bresenol (1878). Bu agoriad glofeydd, ac adeiladiad y fwrnesi yn y plwyf hwn, yn achos i luaws o annedduau gael eu codi ar Fynydd Cenffig, a Cefn Cribwr, &c.; ac y mae yma amryw gapeli wedi eu codi hefyd gan yr Ymneillduwyr, er cyfleustra iddynt addoli. Yn 1827, adeiladwyd Capel Siloam, Cefn Cribwr, gan yr Annibynwyr; ac ail adeiladwyd ef yn 1854. Yn 1848, adeiladwyd Nebo, (B.), yr hwn a ail adeiladwyd yn 1868. Yn 1847, adeiladodd yr Annibynwyr gapel Elim, ar Fynydd Cenffig. Yn 1850, codwyd Moriah, capel y Trefnyddion Calфинаidd yn yr un lle. Mae Ysgoldy Cenedlaethol da ar Fynydd Cenffig hefyd, yn yr hwn yr addysgir plant yr ardal. Maint yr holl blwyf yw 2871 erw. Tai 866. Pobl yn 1861, 1678; yn 1871, 1490. Achoswyd y lleihad gan safiad gwaith Cefn Cwsg; ond bellach y mae'r boblogaeth ar gynnydd gan fod y gwaith hwnw wedi ail gychwyn.

**WELSH ST. DONATS.**—Llanddunwyd Fach. Plwyf yn nghanntref y Bontfaen, undeb Penybont, dosparth llys sirol Penybont a'r Bontfaen, deoniaeth, archddeoniaeth, ac esgobaeth Llandaf. Saif yr Eglwys o'r pentref bychan hwn tua 8 milldir i'r Gogledd-ddwyrain o'r Bontfaen, o'r lechwedd iachus, lle y gellir cael golygfa eang. Amaethyddiaeth ddygir yn mlaen yn benaf yn y plwyf hwn, a'r Eglwys yw'r unig le o addoliad o'i fewn: bywoliaeth yr hon sydd Guradiaeth barhaol, wedi ei chyssylltu ag eiddo Llanfleiddan Fawr; ond Offeiriad Pendeulwyn sy'n gwasanaethu yma fynychaf. Mae tai y pentref wedi eu gadael i fyned yn adfeiliedig iawn yn ddiweddar, yr hyn sydd



wedi achosi i amryw o'r trigolion symmud o'r lle. Maint y plwyf yw 2175 erw. Tai, 47. Pobl yn 1861, 275; yn 1871, 200.

WENVOZ.—*Gwenfo*. Plwyf y phentref yn nghanntref Dinas Powys, Undeb, a dosparth llys sirol Caerdydd, deoniaeth, archddeoniaeth, ac esgobaeth Llandaf, 5 milldir i'r gorllewin o Gaerdydd. Maint y plwyf yw 2955 erw. Tai 96. Pobl yn 1861, 504; yn 1871, 466. Rectoriaeth yw'r fywioliaeth Eglwysig, gwerth £368 y flwyddyn, a phersondy, yn nawdd a rhodd R. F. L. Jenner, Ysw: yr hwn yw Arglwydd y faenor, a pherchen y rhan fwyaf o'r plwyf. Prif adeiliad y plwyf yw Palas, neu Gastell Gwenfo. Adeiladwyd ef tua'r flwyddyn 1801, gan un o'r enw Birt; a phreswylir ef yn awr gan Mr. Jenner. Bu dau gastell Normanaidd o gryn bwys yn y plwyf hwn, sef Castell Gwenfo a Chastell Greenstone, neu Grinstone, ond nid oes nemawr o'u hadfellion yn aros. Ymddengys mai Syr John le Fleming adeiladodd y blaenaf, tua'r flwyddyn 1092; a bu yn meddiant y teulu hyd amser Harri IV., pryd yr aeth yn eiddo Herberts, Abertawy. Ymosodwyd ar, a thorwyd hwn gan Owen Glyndwr; a dinystriodd ef mor llwyr, fel y barnwyd mai gormod traul a thrafferth fuasai ei ail adeiladu. Ffaith gwerth ei choffa yn nglyn a'r gwladgarwr dewr hwn yw, ei fod braidd yn ddi eithriad, yn gwneyd dinystr mor llwyr ar Gestyll y Normaniaid, fel nad adgyweiriwyd nemawr o honynt wedi hyny. Dim ond un Twr yn unig adawyd heb ei ddinystro ganddo o'r castell hwn; yr oedd yn sefyll yn 1540. Perchenogid y lle y pryd hwnw gan Harri VIII., fel rhan o arglwyddiaeth Morganwg. Mae yn bur debygol mai Owen Glyndwr ddinystriodd Gastell Grinstone hefyd, oblegyd nid oedd ond un Twr uchel o hono yn sefyll yn amser Leland, yn 1540; a pherchenogid ef gan Arglwydd Herbert Abertawy y pryd hwnw. Mae peth mwn haiarn i'w gael yn y plwyf hwn, sef Mwn Coch; ond prif orchwyl y trigolion yw Amaethu.

WIG.—*Wick*. Plwyf yn nghanntref Ogwy, undeb Penybont a'r Bontfaen, deoniaeth Gronedd Isaf, archddeoniaeth, ac esgobaeth Llandaf. Saif yr Eglwys a'r pentref tua 5 milldir i'r de-ddwyrain o dref Penybont, a 5 i'r de-orllewin o'r Bontfaen. Gelwid y lle gynt wrth yr enw Y Wig Fawr, yr hyn a ddengys i'r ardal fod yn hynod goediog unwaith, ond erbyn heddyw y mae'r coedydd wedi diflanu, a llaw ddeheuig Amaethyddiaeth yn diwyd drin y tir er ei wneyd i gynnyrchu ymborth dyn ac anifail. Mae Melin Wynt y Wig wedi bod yn enwog iawn am lawer o flynyddau: ac er nad yw yn gweithio yn awr, y mae'r adeilad fel twr uchel i'w weled am filldiroedd lawer o bob cyfeiriad. Un o'r pethau cyntaf sy'n tynnu sylw yr ymwelydd yn yr ardal oedd hyn ydynt dyrau uchel y Melinau Gwynt, megys eiddo y Wig, Llanilltyd Fawr, a Threberfed. Yr olaf yn unig sydd yn gweithio yn awr. Curadiaeth barhaol yw bywoliaeth Eglwys y Wig, yn unol â St. Brides Major, a'r ddwy yn werth £176 y flwyddyn, a phersondy, yn rhodd Iarll Dunraven, yr hwn yw arglwydd y faenor a phrif dirfeddianydd y plwyf. Mae yma ddau gapel hefyd, un gan y Bedyddwyr, a'r llall gan y Methodistiaid. Maint y plwyf yw 1870 erw, rhwng y dwfr a'r traeth. Tai, 91. Pobl yn 1861, 428; yn 1871, 814.

**YSTALYFERA.**—(Gwel Llangiwc, tud. 852).

**YSTRAD-DYFODWG.**—(Gwel Cwm Rhondda, tud. 281).

**YSTRAD OWEN.**—Plwyf yn nghantref y Bontfaen, undeb Penybont, dosparth llys sirol Penybont a'r Bontfaen, deoniaeth, archddeoniaeth, ac esgobaeth Llandaf. Saif Eglwys y plwyf tua 8 milldir i'r gogledd o dref y Bontfaen : ac y mae yn adeilad hardd, wedi ei hail adeiladu yn ddiweddar.

Cafodd y plwyf hwn ei enwi yn Ystrad Owen, oddiwrth y Tywysog Owen, mab Morgan Hen, brenin Morganwg. Yn y plwyf hwn y preswyliai Owen, ac yma y bu farw, ac y claddwyd ef yn y flwyddyn 987 o.c. Yr oedd efe yn enwog iawn fel rhyfelwr, a bu yn arwain ei fyddin amryw weithiau i faes y frwydr, yn erbyn Einion, ŵyr Hywel Dda, yr hwn oedd yn honi hawl yn Nhir Gwyr, a Bro Gwyr, ond llwyddodd Owen i gadw meddiant o honynt, er holl ymdrech Einion i'w cymmeryd. Bu bedd Owen a'i wraig yn cael ei gadw yn barchus am oesoedd yn mynwent Ystrad Owen, ond nid oes nemawr sylw yn cael ei wneyd o hono yn awr.

Yn 1081, ymladdwyd brwydr waedlyd iawn yma, rhwng y Cymry, dan arweiniad Cynan ab Seisyllt, Arglwydd Maes Essyllt, a byddin o Sacsoniaid. Yr oedd yn ymladd mor ffyrnig yn y frwydr hono, fel y lladdwyd lluwaws mawr o wyr Morganwg, ac yn eu plith, Cynan, a phob un o'i feibion. Er hyny ni lwfrhaodd y Cymry,—cymmerodd Robert ab Seisyllt, brawd Cynan, lywyddiaeth y fyddin Gymreig, anerchodd hi ag ychydig eiriau i'w chalonogi, ac ail ymosodwyd ar y gelynion gyda ffyrnigrwydd llewod : a'r canlyniad fu, llwyr orchfygiad yr estroniaid.

Wedi gorchfygiad Morganwg gan y Normaniaid yn 1091, rhoddwyd arglwyddiaeth Talyfan, yn y lle hwn i Syr Robert Syward ; yr hwn meddir a adeiladodd y castell, gweddillion yr hwn sydd tua hanner milldir i'r de-ddwyrain oddiwrth yr Eglwys. Digon tebygol yw fod yma balas yn flaenorol, a dichon mai yn hwnw y preswyliai Owen mab Morgan Hen. Pa fodd bynag, bu y castell a'r arglwyddiaeth yn meddiant teulu Syward o amser goresgyniad Morganwg, hyd amser Edward III., brenin Lloegr, pryd y gwerthwyd yr arglwyddiaeth i Arglwydd Spenser, yr hwn oedd ar y pryd yn Arglwydd Morganwg ; ac aeth teulu Syward i fyw i Wlad yr Haf. Dinystrwyd y castell hwn gan Owen Glyndwr yn 1410 ; ac nid oes hanes iddo gael ei adgyweirio ar ol hyny.

Yn 1864, gwnaed rheilffordd trwy y plwyf hwn, sef llinell y Bontfaen a Llantrisant ; ac y mae yn gryn fantais i'r trigolion. Yn y plwyf hwn y ganwyd ac y magwyd y diweddar David Williams, Ysw., (Alaw Goch), yr hwn a ddaeth yn enwog iawn fel masnachwr glo ager, a llengarwr gwych. Dechreuodd ei yrfa ar waelod y dyffryn fel glowr cyffredin, ond trwy rym penderfyniad, ac yspryd anturiaethus, dringodd i fyny i gopa bryn llwyddiant. Yn 1842, anturiodd i agor glofa ar dir Ynyscynon, Aberdar, a throes yr anturiaeth yn llwyddiant perffaith iddo. Wedi hyny anturiodd i suddo Glofa y Deep Dyffryn, yn Mountain Ash, a Glofa Cwmdar, y rhai a werthodd drachefn, gan

wneyd elw da arnynt. Yn ei anturiaethau gyda glofeydd, daeth yn un o brif fasnachwyr Deheudir Cymru ; a phrynodd amryw etifeddiaethau eang yn Morganwg a manau ereill. Safai yn uchel fel llenor Cymreig hefyd, ac yr oedd yn wladgarwr didwyll a thrwyadl ; a bydd ei enw yn barchus am oesau lawer. Ganwyd ef yn 1809, a bu farw yn hollol ddisymwth yn Mhenybont-ar-Ogwy, Chwef. 28, 1868. Claddwyd ef yn Mynwent Gyhoeddus Aberdar ; ac yr oedd ei angladd yn un o'r rhai mwyaf fu yn y lle erioed. Trueni na fyddai ei fab, Gwilym Williams, Ysw., Miskin, yn crynhoi ei farddoniaeth, ac yn cyhoeddi cyfrol o hono, er gwneyd coffadwriaeth ei dad yn fwy cyffredinol, a chadw ei waith rhag myned i gollu.

Ar hyn terfynir HANES—MORGANWG ;  
 Amryw geinion lechres  
 Geir o hyd yn hygar rës  
 O'i mewn, yn harddu 'i mynwes.

# ATTODIAD.

## I.

Gan ein bod wedi crybwyll yn fynych am *Leland* yn nghorff y llyfr, barnwn mai nid annerbyniol gan y darllenydd, fyddai cyfieithiad o'r desgrifiad a wnaeth y gwr hwnw o Forganwg, tua'r flwyddyn 1540.

Ganwyd John Leland yn Llundain, ac wedi derbyn addysg dda, troes ei sylw at Hanesiaeth ac Hynafiaethau, ac ystyrir ef yr eangaf ei wybodaeth yn y deyrnas gyda golwg ar y cangenau hyn.

Yn 1585, pennodwyd ef gan Harri VIII., yn "Hynafiaethydd Breninol," ac efe yn unig anrhydeddwyd a'r dyrchafiad hwnw yn y wlad hon. Anfonwyd ef gan y brenin i deithio yr holl wlad, ac i ysgrifenu desgrifiad o honi, yr hyn a wnaeth yn ffyddlawn. Bu ef farw yn 1552; ond y mae ei waith yn fyw o hyd.

Cawsom lawer o fwynhad wrth ddarllen ei Ddesgrifiad o Forganwg, wedi i ni fod yn teithio y Sir yn 1865 a 1871, gan ein bod wedi dyfod i gyffyrddiad a'r unrhyw wrthddrychau ag yntau, a chael fod ei ddesgrifiad o honynt mor gywir. Gwir fod rhai camsyniadau pwysig ganddo yn ei *fesuriadau*, sef y pellder a noda o'r naill fan i'r llall; ond er hynny, y mae ei ddesgrifiad o'r gwahanol wrthddrychau a noda yn hynod gywir a naturiol, fel y dengys a ganlyn:—

## DESGRIFIAD O FORGANWG.

*Gan John Leland.—1540.*

"Mae cyffiniau Morganwg yn rhedeg fel hyn:—Afon Elyrch (Rhymini) yw ei ffin ar y dwyrain; a nant fechan Crymlun yw ei ffin orllewinol. Mor Hafren yw ei therfyn deheuol o enau Elyrch hyd enau Crymlun; a godre y Mynydd Du yw ei therfyn gogleddol. Y nant fechan hon (Crymlun), a dardd ger Llansamlet, ac a gollir tua milldir yn is i lawr ar Forfa Crymlun. O Bont Rhymini hyd Nant Crymlun, tua milldir o Abertawy, yn y ffordd feraf, y mae 28 o filldir-oedd fel hyn:—Milldir o Bont Rhymini i Gaerdydd—i St. Nicholas pedair milldir,—oddiyno i'r Bontfaen, pedair milldir,—hyd Bont Ewenni, lle y mae pentref bychan, pedair milldir,—hyd y Bont Newydd ar Ogwy un filldir,—hyd Fynachlog Margam, pedair milldir,—hyd Lansawel, lle y mae tri neu bedwar o dai, a chapel ar y tu arall i

afon Nedd tua milldir,—lled yr afon ar y llanw yn fwy nag wythfed ran o filldir,—yna hyd aberiad y Crymlun, dwy filldir. Yn groes trwy ganol y wlad, fel o'r dwyrain i'r gorllewin, y mae tair ar hugain o filldiroedd. O lan Dyffryn Risca (ardal Caerffili) hyd afon Taf, ac yno dros Bont Erliesk, pont fawr o goed, tair milldir, hyd bentref Penrhys, lle yr arferid myned ar bererindod, un filldir,—oddiyno hyd Fwlech y Clawdd, yr hwn sydd fynydd creigiog olwech milldir,—hyd Aberpergwm, yr hon sydd nant wyllt, saith milldir. Lle bryniog yw'r ardal yma. Mae ychydig bentrefi yma yn ymyl yr afonydd, a pheth gwenith yn tyfu mewn dyffrynoedd lychain. Ar y mynyddau, ceir rhai ceirw cochion, a digonedd o eifr, gwartheg, a defaid. Mae tuag un-filldir ar-bymtheg oddiyma hyd For Hafren yn y Dê, a thua deng milldir i'r terfyn gogleddol.

Yn groes o'r dwyrain i'r gorllewin yn ngogledd-barth Morganwg, gyda godre y Mynydd Du, y mae 16 o filldiroedd o dir gwyllt agos i gyd.—O fin tir Gwent yn y Caedrain, dwy filldir; o Gastell Morlais, hyd le a elwir Hirwaun Wrgan, yr hon sydd yn Arglwyddiaeth Miskin, yn mhlwyf Aberdar, ac yn lle helaeth i fagu ceffylau, wyth milldir, i gyd dros fryniau uchel; a milldir o Hirwaun Wrgan y mae Fforest Llwydoed, wedi ei choedio yn dda yn Arglwyddiaeth Miskin.

O Hirwaun Wrgan hyd Arglwyddiaeth Rhigos, y mae pedair milldir.—O Rigos i Ystradgynlais, Arglwyddiaeth yn Sir Gaerfyrddin, pedair milldir. Y Gunlais hon sydd afonig fechan yn gwahanu Sir-oedd Caerfyrddin a Morganwg, ac yn arllwys i'r Tawy, fel y clywais, ryw dair neu bedair milldir tu yma i Abertawy, ar du dwyreiniol yr afon. Mae Arglwyddiaeth yr Ystrad tua deng milldir o Abertawy, yn nghyfeiriad gogledd-ddwyrain, ger y Mynydd Du.

\* \* \* \* \*

## CYMMYDAU MORGANWG.

### CIBWR,

A ymestyna o eneu Elyrch, i fyny hyd at fryn a elwir Cefn On, tua chwech milldir o enau yr afon Elyrch. Mae'r bryn hwn yn rhedeg fel mur rhwng afon Taf ac afon Elyrch. Tua dwy filldir i'r deheu o'r bryn hwn y mae olion hen balas, ger yr Eglwys Newydd yn mhlwyf Llandaf. I'r deheu o'r bryn hwn y ganwyd Richard Williams, alias Cromwell, yn mhlwyf Llanisan.

Os nad yw Caerdydd yn Gwmmwd ei hun, ymddengys ei bod yn Nghwmmwd Cibwr. Mae Cibwr yn ymestyn gyda'r traeth o enau y Rhymini hyd enau y Taf, sef tua dwy filldir neu yohwaneg.

Splot sydd Balas a Maenor yn perthyn i Bawdrem, ac yn sefyll ger genau y Rhymini ar y morfa, a delir y tir gan Esgob Llandaf; felly er ei fod yn Nghwmmwd Cibwr, ni pherthyn i'r llys hwnw. Ymestyna Cibwr lawn hanner milldir i fyny gydag afon Taf o Gaerdydd, ar y tu dwyreiniol i'r afon; ac yna y mae Cwmmwd Llandaf yn ymestyn ar ei glan ddwyreiniol, nes cyrhaedd uwchlaw Pont Llandaf; ac yna y

mae Cibwr yn cymmyrd glan ddwyreiniol y Taf drachefn, i fyny hyd fryn Cefn On, a hyn yw cyffiniau Cibwr. Tir gwastad yw Cibwr oddieithr Cefn On, yn cynnyrchu Rhyg, haidd, ceirch da, gydag ychydig wenith. Ceir y coed goreu yn Nghibwr ar Gefn On, yr hwn lle sydd fel forest; a diwellir Caerdydd i raddau a choed tanwydd o'r lle hwn. Mae Gweundir hefyd ar lanau Taf a Rhymini yn y cwmwd hwn.

\* \* \* \* \*

#### SENGHENYDD.

Rhenir Senghenydd gan rai yn Is-Caeau, ac Uwch-Caeau. Dechreuau Is-Caeau ar y tu gorllewinol i afon Rhymni, ger Cefn On, ac ymestyna i fyny am tua ohwe' milldir i gyfeiriad gogledd-ddwyrain hyd y Caebach, ger Dyffryn Risca; ac ar y tu dwyreiniol i'r Taf, o Gefn On, hyd \* \* \*. Yn Is-Caeau y mae Castell Caerffili, mewn gweundir, lle y mae adfeilion muriau o drwch aruthrol; a thwr, yr hwn a ddefnyddir yn garchardy troseddwy'r Senghenydd. Saif hwn tua thair milldir i'r gogledd-ddwyrain o Landaf, a dwy filldir o lan ddwyreiniol afon Taf. Mae palas gwyh a elwir y Fan, o fewn hanner milldir i'r dwyrain o Gastell Caerffili, ac yn y palas hwnw y preswylia Mr. Edward Lewis. Nid oes boneddwy'r ereill o unrhyw nód yn holl Senghenydd, oddieithr Dafydd Richard, Gelligaer, yn Uwch-Caeau, a Mathew ab Rhys Fychan, yr hwn sydd hefyd yn mhlwyf Gelligaer.

Saif y Castell Coch ar glogwyn uchel o graig neu bridd coch, tua dwy filldir o Landaf, yn uwch i fyny ar y Taf. Mae'r Castell Coch yn adfeilion oll. Nid yw yn fawr, ond yn uchel. Mae yn eiddo y brenin; a saif ger Cefn On.

#### UWCH-CAEAU,

A ymestyna i fyny gyda glan ddwyreiniol y Taf, hyd Gastell Morlais, a dwy filldir yn uwch i fyny i'r gogledd-ddwyrain hyd y Caedrain, lle y cyd-gyferfydd ffiniau Gwent Uwchcoed, Brycheiniog, ac Uwch-Caeau, yr hwn sydd yn Senghenydd.

Saif Castell Morlais mewn dyffryn da am rawn a phorfa, ac y mae ar du gorllewinol Nant Morlais. Mae'r Castell hwn yn adfeilion, ac yn eiddo'r brenin. Mae afonig Morlais yn dyfod o gyfeiriad gogledd-ddwyrain, o fryniau Brycheiniog tuag at Gwent-Uwchcoed, ac at Gastell Morlais, a thua milldir yn is mewn plwyf a elwir Merthyr, ymarllwysa i'r Taf ar ei thu dwyreiniol.

#### CWMMJVD LLANDAF

Sydd yn dechreu ar y tu gorllewinol i enau y Taf, gan redeg yn mlaen gyda Morfa Hafren hyd at enau afon Elai. Mae genauau y ddwy afon hyn tua milldir oddiwrth eu gilydd. Rhed y cwmwd hwn i fyny gyda glan orllewinol y Taf, nes cyrhaedd tua chwarter milldir

nwchlaw Pont Llandaf, hyd le a elwir Clawdd Cwnstabl, ac y mae hyny tua dwy filldir o enau y Taf, ac ychydig yn ychwaneg. Ymestyna hefyd yn groes i Bont Llandaf, dros afon Taf, a cheidw am tua milldir ar y tu dwyreiniol. Ar y tu yma i'r Taf y mae lle a elwir Splot, fel y crybyyllwyd yn Nghantref (Cwmmwd) Cibwr.

Ar du dwyreiniol Elai, rhed y Cwmmwd hwn (Llandaf), i fyny yn gyntaf hyd bont gerryg, a elwir Pont Leckwith, yr hon sydd filldir i fyny. Yna ymestyna hyd Bont Elai, yr hon sydd bont gerryg, milldir i fyny o Bont Leckwith. Oddiyno croesa dros yr Elai am tua milldir ar y tu gorllewinol, lle y mae plwyf Eglwys y Caerau. Hefyd o Bont Elai, ar ei thu dwyreiniol hyd *Tilhecoit* (Ty Coch?), yr hwn sydd bentref pert hanner milldir i fyny. Hanner milldir yn uwch, ar du dwyreiniol Elai, y mae plwyf Sant Ffagan, yr hwn sydd yn Nghwmmwd Dwyreiniol y Ddawen. Nid yw y Cwmmwd hwn (Llandaf), ond prin dwy filldir yn groes o Glawdd Cwnstabl, i Lan Sant Ffagan, ac yno, fel yn y canol, y mae yn cyffwrdd braidd a Ohwmmwd Meiscun. Prif adeilad y Cwmmwd hwn (Llandaf) yw Castell Llandaf, yr hwn yw Palas yr Esgob. Mae peth grawn-dir da yn y Cwmmwd hwn, a pherllan o goed ffrwythau ragorol yn *Tilcoyth* (Ty Coch). Ychydig goed sydd yn y Cwmmwd hwn, ond diwallir ef â thanwydd o Miskin.

#### CWMMWD MISKIN, NEU WLAD MISKIN.

Y Cwmmwd hwn ar ei du dwyreiniol, a red i fynygyda glan orllewinol afon Taf, hyd y fan yr ymarllwysa yr afon Cynoui'r Taf ar ei thu gorllewinol. Mae uniad Cynon a Thaf tua deng milldir yn uwch na Chlawdd Cwnstabl. Mae'r tir ar lan y Taf yn y parth hwn yn goediog iawn. Rhwng y Taf a Chynon saif mynydd a elwir Cefn Glas, ac efe yw'r ffin rhwng Miskin a Senghenydd. Mae bryn arall tua phum milldir yn nes i Frycheiniog a elwir Pennar, ac y mae calch i'r gogledd-ddwyrain oddiyno. Ymestyna y Cwmmwd hwn ar ei du gorllewinol oddiwrth *Penterith Sarn* (Sarn Pentyrech?), yr hyn sydd bum milldir o enau Elai, hyd le a elwir Muchydd, lle y mae afon Muchydd yn dyfod allan o Arglwyddiaeth Glyn Rhondda, ac yn ymarllwys i Elai ar ei thu dwyreiniol, yr hyn sydd bedair milldir o Sarn Pentyrech. Yna y mae Cwmmwd Miskin yn cadw y tu uohaf, hyny yw, y tu dwyreiniol i Muchydd am tua milldir, lle y daw nant fechan a elwir Pedwar i'r Muchydd ar ei thu dwyreiniol. Yna dilyna ochr ddwyreiniol y Pedwar am tua milldir a hanner, i le a elwir *Rethgough* (Rhiw Goch), lle y mae nant a elwir Cludach, yr hon filldir yn is a red i'r Rhondda ar ei thu gorllewinol. Rhyw filldir yn is, ymarllwysa y Rhondda i'r Taf.

O'r Rhiwgoch ymestyna y Cwmmwd hwn yn groes i'r mynyddau, a thros y Rhondda Fawr hyd Gefn Gwingil, am tua thair milldir; ac yna am tua saith milldir yn mbellaach hyd fynyddau Brycheiniog. Mae'r Cwmmwd hwn yn ymestyn yn union i'r gogledd o Bennar hyd ffin Brycheiniog; ac fel o ddwyrain i orllewin hyd Bolgoed. Mae'r holl barth hwn yn fynyddig a choediog. Mae'r Cwmmwd hwn yn ei gwr deheuol o Glawdd Cwnstabl hyd Sarn Pentyrech, yn bedair milldir

o dir grawn a choed. Mae Miskin oll pa fwyaf yr eir tua'r dé yn cynnyddu mewn ffrwythlondeb.

Mae Castell Llantrisant yn eiddo'r brenin, a chedwir ef ganddo fel prif dŷ Miskin. Saif ar fryn uchel tua hanner milldir islaw y fan yr ymarllwysa Muchydd i Elai. Bu hwn yn gastell hardd ac iddo ddau dwr, y mwyaf o honynt a elwid Twr y Gigfran. Mae ei furiau yn adfeilion, ond defnyddir rhanau o hono yn garchardy Cymmydau Miskin a Glyn Rhondda. Bu dau bare ardderchog ar y tu deheuol i Lantrisant, ond nid oes ceirw ynddynt yn bresenol. Gwneir haiarn yn un o honynt a elwir Gelynog. Tua dwy filldir i'r de o'r dref, y mae lle a elwir Craig Castellau, lle y mae olion hen adeiladau yn aros ar ben bryn. Mae rhyw hen le wedi bod hefyd yn *Galthe Gaurde* (Gelli Gawrdaf) ar y tu de i'r Llan.

#### GLYN RHONDDA.

Mae ffin ogleddol Dyffryn Rhondda, ger godre y Mynydd Du. Ar ei du dwyreiniol saif Miskin. Ar y tu gorllewinol mewn rhai manau ymestyna i myl Elai, ac oddiyno hyd lan ddwyreiniol yr afon Ogwy, gan redeg i fyny bum milldir i Fynydd Gelli Haidd, hyd Fwlch y Clawdd, a phedair milldir yn uwch hyd Fryniau Brycheiniog. Ar y de, ymestyna am filldir a hanner gyda glan Muchydd, gan gyffwrdd a Nant Pedwar am hanner milldir.

Mae y Rhondda Fawr a'r Rhondda Fechan yn tarddu yn Arglwyddiaeth Glyn Rhondda, o fewn dwy filldir i'w gilydd. Mae y Rhondda Fawr yn tarddu mewn craig uchel a elwir Drissiog. Tardd Rhondda Fechan ryw filldir uwchlaw Castell y Nos, ar y gogledd-orllewin iddo, yn nes i Arglwyddiaeth Miskin; tra y mae pen y Rhondda Fawr yn nes i'r gorllewin, yn fwy i fyny i Gymru. Nid yw Castell y Nos ond clogwyn creigiog ar ben bryn. Mae Dyffryn Glyn Rhondda, sef ei ranau deheuol yn lle da am haidd a cheirch, ond ychydig wenith geir ynddo. Mae ynddo ddigonedd o goed. Nid oes ynddo ond un plwyf cyfan yr hwn a elwir Ystrad, gyda rhan o Lantrisant, a rhan o Lanwynno.

#### CWMMWD DWYREINIOL Y DDAWEN.

Ymestyna ffin ddeheuol y Cwmmwd hwn am wyth milldir gyda Mor Hafren, o enau Elai, lle y saif Pwynt Penarth ar ei thu gorllewinol, hyd enau Dawen. O Aberddawen y mae'r ffordd feraf i Wlad yr Haf (*Somersetshire*). Hyd y drosglwyddfa dros Hafren yw un filldir ar bymtheg. Penarth sydd fryn neu bentir yn ymestyn i Hafren. Milldir a hanner uwchlaw iddo y mae Suli, lle y mae hafan i gysgodi llongau. Yma y rhed Suli, yr hon sydd nant hardd, i'r mor; ac y mae pentref o'r enw Suli, prin hanner milldir o enau yr hafan, ac y mae y nant yn rhedeg trwy ei ganol. Mae tarddle hon ar y gogledd-orllewin o bentref Suli, yn mhlwyf Gwenfo, mewn ffynnon wedi ei gwialio o amgylch, ar y tu gogleddol i Eglwys Gwenfo, yr hon sydd



tua dwy filldir o bentref Suli. Ar y nant hon yn gyntaf saif Castell Gwenfo, tua chwarter milldir i'r gorllewin o'i tharddle. Mae holl furiau (Castell) Gwenfo, yr hwn sydd ar fryn bychan, ar lawr, oddieithr un twr, a rhai muriau drylliedig. Perthynai gynt i etifeddion gwrrywaidd, yr olaf o'r cyfryw fu yn briod gyntaf â mam Mrs. Herbert, Abertawy. Eiddo y brenin yw yn awr, ac y mae Dr. Carne yn dal y tiroedd perthynol iddo dan y brenin.

Prin milldir yn is y mae pentref Suli, fel y mae hyd y nant o'i tharddiad i'r mor tua thair milldir. Mae grawndir da, yn nghyda gweundir ar bob tu i'r nant, a choed ar bob tu i Denis Powys; ond nid oes dim coed yn nes i'r mor.

O Aber Suli i Aber Barri, lle y mae cornant fechan yn rhedeg i'r mor, y mae tua milldir. Tardd y gornant hon mewn gwastadedd ar y gogledd-ddwyrain, prin milldir o'i haberiad. Saif Castell Barri tua chwarter milldir i'r gorllewin o lan y gornant. Mae'r castell ar fryn bychan, a'r rhan fwyaf o hono yn adfeilion. Mr. S. John, o swydd Bedford, yw ei berchenog. Maurice S. John, ewythr Syr John S. John, oedd ei berchenog.

Yn union ar gyfer genau y gornant hon y mae Ynys Barri. Mae'r pellder iddi ar y llanw tua thafiad dryll, neu tebyg i led y Tafwys (*Thames*) uwchlaw y bont. Ar y trai, y mae sarn agored i fyned iddi, neu yn groes i'r gornant ar y traeth. Mae'r ynys tua milldir o gwm-pas, ac arni rawn a phorfa da, gyda pheth coed. Mae'r fferm yn werth tua x.li. y flwyddyn. Nid oes tŷ annedd arni, ond yn y canol y mae capel bychan hardd i Sant Barro (Baruch), lle bu llawer o bercrindod. O ddiffyg etifedd gwrrywaidd, daeth yr ynys i feddiant Jasper Tudur, hanner brawd Harri VI., fel Arglwyddiaeth Morganwg. Eiddo'r brenin yw yn awr.

Hanner milldir neu ychwaneg tu hwnt i Aber Barri y mae genau Cwm Cudi. Mae'r nant hon yn tarddu filldir a hanner i'r gogledd o'r man yr ymarllwysa i For Hafren. Nid oes un adeilad neillduol ar y nant hon. Ar bob tu iddi y mae grawndir a thir pori da, yn nghyda choed. O enau y Cudi, lle nad oes le i longau, hyd enau y Dawen, tua thair milldir, y mae grawndir da. Gall llongau ddyfod i mewn i enau yr hafan yn Aberddawen.

Oddiyma ymestyns ffin y Cwmwd ar du dwyreiniol y Ddawen yn agos i'r Bontfaen, yr hyn sydd tua phedair milldir; ac y mae'r tir tua glanau yr afon yn isel, yn llawn o weunydd a thir pori, ac mewn rhai manau, tua hanner milldir o lan yr afon, y mae coed.

Hanner milldir o enau Dawen, ymarllwysa nant Censan iddi ar ei thu dwyreiniol. Saif Castell Fonmon ar fryn bychan yn mhlwyf Penmarc, chwarter milldir i'r dwyrain o enau y Gensan. Mae'r castell hwn yn sefyll etto, yn eiddo Syr John St. John. Mae i'r Gensan ddau ben, a gelwir yr un ar y gogledd-ddwyrain yn Nant Bran, pen yr hon sydd yn mhlwyf Llanfleiddian Fach (*St. Lythian*). Mae'r pen hwn dair milldir neu ychwaneg o'r uniad. Mae tir pori da, gyda grawndir, ar ei glanau. Tardd y pen arall yn mhlwyf Bolston (Cym-raeg, Tresimwn), tua thair milldir yn uwch i fyny na'r uniad. Daw

y gangen hon gyntaf heibio Carnellwed, a dwy filldir yn is, hyd at dŷ Mr. Regelands, ar y tu dwyrain iddi; yna trwy bentref Llancarfan, yr hwn sydd dri chwarter milldir yn is; a chwarter milldir yn is drachefn, fe una y ddwy a'u gilydd, a gelwir yr holl ffrwd yn Gensan. Mae ŷd a phorfa da iawn yn tyfu ar bob tu i'r fraich sydd yn dyfod trwy Llancarfan hefyd. Yn groes o Llancarfan i'r man agosaf ar y Dawen, mae tua milldir.

Mae ffin y Cwmmwd hwn ar y tu dwyreiniol, yn rhedeg o enau afon Elai, gyda ei glan orllewinol, yn gyntaf hyd *Cogan Pill*, yr hyn sydd agos i filldir. Mae yma balas gwych ar lan yr afon, yn perthyn i Mr. Herbert, Abertawy. Oddiyma hyd Bont Lecwith, y mae agos milldir. Pont geryg yw hon. Yna ymestyna'r Cwmmwd hyd Bont Elai—pont geryg,—lle y mae Cwmmwd Llandaf yn dyfod yn groes i'r Elai ar bob tu i'r bont. Daw Cwmmwd Dwyreiniol Dawen i mewn drachefn ar du gorllewinol Elai yn St. Ffagan. Nid oes mwy na dau neu dri o dai yn y pentref ar yr ochr hono i'r afon, ond safant y tu arall i'r bont geryg, ar lan ddwyreiniol Elai,—yno y mae plwyf (Eglwys) a Chastell Sant Ffagan yn sefyll yn nghanol y pentref, ac o fewn tafliad careg i'r afon. Yma, sylwer, y mae Cwmmwd Dwyreiniol Dawen yn ymestyn lawn dair milldir i gyfeiriad dwyrain-ogledd-ddwyrain, ar y tu yma i'r afon, i le a elwir Pont Rhydsarn, yn Miskin. Mae Castell St. Ffagan ar fryn bychan, a pheth o hono yn sefyll. Tua thriugain mlynedd yn ol, yr oedd yn eiddo un Dafydd Mathew. Oddiar hyny hyd yn awr y mae wedi disgyn i feddiant amryw trwy hawl etifeddol. Mae un Beynon o Fforest y Dean yn perchenogi rhan o hono yn bresenol. Mae Eglwys blwyfol St. Ffagan wedi ei chyssegru yn awr i'r Forwyn; ond y mae etto hen gapel ger y pentref a fu rywbryd yn Eglwys y plwyf.

O Sant Ffagan i Lanbedr, ar du dwyreiniol Elai, y mae dwy filldir. Mae yma bentref gwael, a phont geryg tua chwarter milldir i'r gorllewin iddo, a chastell adfeiliol ar dir gwastad yn ymyl yr afon. Boteler a George Mathew ydynt arglwyddi'r pentref. Mae Pont Rhydsarn tua milldir uwchlaw Llanbedr-ar-Elai.

Yn awr deunw drachefn i du gorllewinol Elai dros Bont Sant Ffagan. Tri chwarter milldir i fyny ar yr afon y mae pentref St. George, ac y mae castell yn ymyl ar y gogledd-orllewin i'r pentref, ar le gwastad. Disgynai gynt o etifedd i etifedd; yr olaf o'r cyfryw oedd yn fyw o fewn deugain mlynedd yn ol. Eiddo y brenin yw yn awr, ac un Roger Herbert (bastardd) yn ei breswylio.

Mae'r Cwmmwd hwn yn ymestyn etto am ddwy filldir yn uwch i fyny ar yr ochr hon i'r afon hyd blwyf a elwir Pendeulwyn, yr hwn sydd yn Nghwmmwd Tir Stuart; tra y mae y parth uchaf hwn o Gwmmwd Dwyreiniol Dawen, ar du gorllewinol Elai, yn union ar gyfer Llanbedr, mewn cyfeiriad dwyreiniol. Mae'r tir ar lanau Elai y ffordd yma yn dda am ŷd a phorfa, gyda rhai rhanau coediog, ac yn dir gwastad, heb fryniau.

Cyffyrdda y Cwmmwd hwn à Thir Stuart ar y gogledd-ddwyrain a'r gogledd-orllewin, fel nad yw yn fwy na phum milldir o ogledd-ddwy-

rain hyd ogledd-orllewin, a rhanau o'r tir yn dda am yd a phorfa, ond nid cystal â glanau Elai a Dawen.

#### CWMMWD GOBLLLEWINOL DAWEN.

Ymestyna y Cwmmwd hwn o enau afon Dawen ar lan Hafren, hyd Arglwyddiaeth a elwir *Tir y Brenin*, yr hwn sydd tua chwe milldir o Aberddawen. Mae'r tir gyda glanau y traeth yn dda am yd a phorfa, ond yohydig goed sydd yma. Mae'r caean wedi eu cau i mewn yn dda yn y parthau hyn. Mae Golue (*Colhugh*) ar y morfa rhwng y ddau le hyn, dwy filldir tu hwnt i enau Dawen; ac yma ar adegau daw badau a llongau i gysgodi. Mae Llanillyd dri chwarter milldir i'r gogledd-orllewin, yn uwch yn y wlad na'r lle hwn. Daw cornant oddiyno i Golue. Mae castell yn sefyll ar dir gwastad hanner milldir o Lanillyd, yn nghyfeiriad dwyrain-gogledd-ddwyrain a elwir Llanfaes. Bu hwn yn eiddo teulu o'r enw Malifaunt. Rhed cornant fechan ar y tu gorllewinol o fewn ergyd carreg i'r castell. Tardd hon tua hanner milldir i'r gogledd-ddwyrain o'r castell a rhed heibio iddo gan ymarllwys i Golue debygwyf. Tua milldir o Golue ar y de-orllewin y mae Castell St. Donatts, yr hwn a saif ar fryn tua chwarter milldir o For Hafren. Rhwng y castell a'r môr, y mae parc Bychod Denys (*Fallow Deer*). Mae parc Ceirw Cochion hefyd ar y tu gogledd-orllewin i'r castell. Perthyna y castell a'r parciau i foneddwr o'r enw Stradling, yr hwn sydd yn dal tiroedd rhagorol yn y sir.

Oddiyma gyda glan Hafren, ar gyfer Llanddunwyd, hyd enau Alain, y mae tair milldir. Ar du gorllewinol y nant hon y mae Tir y Brenin yn dechreu. Tardd Alain ar y gogledd-ddwyrain, i fyny yn y wlad mewn lle a elwir Lllysfroydd, tua phedair milldir o'r lle y daw wrthi ei hun i Hafren. Yma sylwer fod o enau Alain hyd enau afon Ogwy, dair milldir; a chyfrifir y parth hyn yn Arglwyddiaeth ar ei phen ei hun, a pherthynai y tir i Syr Maurice Launder, yn amser Harri II. Yn awr, y mae yn eiddo y brenin yn unol a Duciaeth Lancaster. Ar y parth hwn o'r morfa nid oes ond un palas, yr hwn a elwir Dunraven, a saif tua hanner y ffordd rhwng Alain ac Ogwy. Perthynai hwn gynt i deulu o'r enw Boteler, priododd chwaer y Boteler olaf ag un Richard Fychan o Aberdourde (*Aberdyrdwy*), yn mediant yr hwn deulu y mae yn bresenol. Mae'r parth deheuol hwn o Dir y Brenin, yn dda am yd a phorfa, ond ychydig goed geir yma.

Ymestyna Tir y Brenin o eneu afon Ogwy ar du dwyreiniol yr afon am dair milldir, hyd Benybont, yr hon sydd bont geryg.

Saif Castell Ogwy ar wastadedd ar lan ddwyreiniol yr afon, tua milldir yn uwch i fyny na'i haber; ac y mae mewn cadwraeth dda. Bu hwn yn eiddo y Launder, unwaith, ond eiddo y brenin yw yn awr. Ar du dwyreiniol yr Ogwy, o'i geneu hyd Benybont, y mae tir da am yd a phorfa, ond ychydig goed sydd yma. Daw afon Ewenni i'r Ogwy ar ei thu ddwyreiniol, hanner milldir yn uwch na'r castell. Tardda Ewenni tua phump neu chwech milldir i fyny ar y gogledd-ddwyrain o'r lle hwn, a daw i'r Ogwy o gyfeiriad de-orllewin, ar yr

oehr ddwyreiniol. Ar lan ddwyreiniol Ewenni, yn Nhir y Brenin, rhyw filldir o'i haberiad, y saif Priordy Ewenni, ac ychydig yn uwch ar yr un oehr y mae Corntown, ac ychydig yn uwch drachefn y mae'r Filldir Aur, ac yn uwch i'fyny na'r Filldir, gelwir y tir ar bob tu i'r Ewenni, wrth yr enw *Tir y Sir*; ac felly y mae tu gorllewinol Ewenni o'i geneu i'w tharddiad yn Nhir y Coetty, oddi eithr rhyw dair milldir uwchlaw Corntown, yr hwn sydd yn Nghwmwd Gorllewinol Dawen.

I'r gogledd o Benybont y mae dau blwyf, sef Llandyfodwg a Llangainor, yn Nhir y Brenin, tua chwech milldir ymaith, a thir y Coetty yn gorwedd rhyngddynt.

Daw Cwmwd Gorllewinol Dawen i mewn drachefn ar du gorllewinol geneu afon Ogwy, ac ymestyna am tua phedair milldir ar ei thu gorllewinol uwchlaw Penybont, nes cyfarfod â Thir Iarll. Ceir darnau o dir da am yd a phorfa y ffordd hon, oddi eithr am tua milldir o eneu yr Ogwy, lle mae tywod y mor yn niweidio'r tir.

Merthyr Mawr sydd balas gwyoh o foini, ar du gorllewinol Ogwy, tua milldir o'i geneu.

Yn Mhenybont, agos dwy filldir yn uwch, y mae pentref, a gelwir y rhan hono o'r lle ag sydd ar y tu gorllewinol i'r bont, wrth yr enw Castell Newydd, ac y mae yn Nghwmwd Gorllewinol Dawen. Gelwir y rhan arall, yr hwn sydd ar du dwyrain y bont yn Hen Gastell, yr hwn sydd yn Nhir y Brenin. O enau Ogwy hyd Dre Newydd Nottais, gyda glan y traeth, y mae pedair milldir. Mae yma bentref port ar lan ddwyreiniol nant Dudawg, lle mae hafan i longau.

\* \* \* \* \*

Tardd y Ddudawg, yr hon sydd nant fechan, mewn fflynnion yn Llanddudawg, (*Tytheystone*) tua dwy filldir i'r gogledd o Dre Newydd.

O Dre Newydd i afon Cenffig y mae tua chwech milldir, ac o'r chwech milldir hyn, y mae tair yn greigle uchel ger y traeth, a'r tair ereill yn draeth isel a thywodlyd, am fod Mor Hafren yn ei erwinder yn taffu llawer o dywod yma. Clywais un yn dweyd y gelwir Nantyglo ar afon Cenffig. Tua dwy filldir o'r traeth y mae palas hardd a elwir y Scer, lle y preswylai un Richard Lougher, boneddwr. Mae yd a phorfa da, ac ychydig o goed am tua thair neu bedair milldir gyda'r traeth, rhwng Tre Newydd a Chenffig. Nant fechan yw Cenffig, ac nid yw ar amcianaeth yn dyfod mwy na thair milldir o'r morfa gerllaw. Mae pentref bychan ar y tu dwyreiniol i Cenffig, yn nghyda chastell, y naill a'r llall o honynt yn adfeilion, ac yn agos a bod yn gladdedig gan y tywod a dafwyd i'fyny yma gan For Hafren. Yr oedd Cenffig yn amser y Clares, yn Fwrdeisdref; saif ychydig y tu fewn i ddyfroedd Cenffig.

Saif Abbatty Margam tua dwy filldir ar y gogledd-ddwyrain.

O Genffig i Aberafan y mae tua dwy filldir, dros draeth isel, rhannu o'r hwn sydd yn ddyfrllyd, o herwydd gor-lifadau Hafren; ond ceir rhai ysmotiau coediog ger Aberafan.

Mae pentref gwael ar du gorllewinol yr afon, tua dwy filldir o eneu Afan. Gelwir y pentref hwn yn Aberafan. Mae'r tir o'i amgylch yn poeth a sur. Saif y pentref hwn ger y brif ffordd trwy swydd For-

ganwg. Mae hafan i longau yn ngenau Afan. Mae afon Afan yn dyfod o ddwy fraich, a gelwir yr hon sydd ar y gogledd-ddwyrain Afan Fawr, a'r un sydd ar y gogledd-orllewinol, Afan Fechan; ymunant yn Llanfihangel, tua dwy filldir uwchlaw Aberafan.

O eneu yr Afan hyd eneu y Nedd, y mae tua dwy filldir a hanner, dros draeth isel tywodlyd, gyda pheth morfa porfaog. Saif tref fechan a Chastell Nedd tua phedair milldir o eneu y Nedd, ar du dwyreiniol yr afon; ac ar y tu gorllewinol, ychydig yn is na'r dref, y mae Mynachlog Nedd, y gwychaf yn Nghymru. Nid oes daear dda ar un o lanau yr afon yn y parth hwn, ond y mae porfeydd gweddol, a pheth tir coediog gerllaw y dref.

Mae glo, hanner milldir uwchlaw Castell Nedd . . . . ac ychydig yn is na'r dref . . . .

Daw llongau o Hafren yn agos i'r dref, a daw badau mor uchel ag ymyl y bont goed sydd dros yr afon ychydig islaw'r dref. Wrth eneu y Nedd, ar y tu dwyreiniol iddi, y mae pentref yn cynnwys tri neu bedwar o dai, a elwir *Britanne Ferry*. Croesir oddi yma i Abertawy a sir Benfro. Mae un Lleyson, boneddwr o hen gyff, ond yn awr yn dal tyddyn gwerth tua XL y flwyddyn, yn byw yn nhref Castell Nedd. Dywed y Lleysoniaid fod eu teulu hwy yma mewn bri ac enwogrwydd cyn y Goresgyniad Normanaidd.

O eneu y Nedd hyd eneu y Crymlun, y mae tua dwy filldir, dros draeth isel a thywodlyd, heb un pentref na thir da rhyngddynt. Crymlun yw y ffin rhwng Cwmwd Gorllewinol Dawen, a Thir Gwyr.

#### FFINIAU GORLLEWINOL DAWEN AR Y TU DWYREINIOL.

O eneu afon Dawen, i fyny hanner milldir ar ei thu gorllewinol, y mae palas teg a elwir Gilestown, a phentref o'r un enw, y rhai sydd tua chwarter milldir i'r gorllewin o lan yr afon. Un Giles, boneddwr o hen deulu, a chanddo etto dir gwerth cant Marc y flwyddyn, yw arglwydd y lle. Ychydig yn uwch i fyny y mae pont geryg a elwir Pont Newydd, ac yn ymyl yr afon, chwarter milldir uwchlaw'r bont, y mae Maenordy o'r enw Norchet, lle y preswyliai Mr. Stradling ei berohenog, yn achlysurol. Rhyw gwarter milldir yn uwch i fyny na Norchet, ac ychydig o lan yr afon, y mae Maenordy o'r enw Castletown, yr hwn sydd yn sefyll ar fryn. Perthynai yn ddiweddar i un Hugh Adam, tir-feddiannydd, merch yr hwn yw ei berchenog yn awr. Hanner milldir uwchlaw Castletown y saif Treffleming, ac un Ffleming yw arglwydd y lle. Mae'r Ffleming hwn yn ddiagynydd o un o 18 arglwyddi Morganwg.

O Dreffleming hyd Bont Gigman, yr hon sydd bont geryg, y mae hanner milldir, ac o Bont Gigman hyd Bont Hugh, pont geryg, y mae tri chwarter milldir. Oddi yno hyd Landochwy y mae hanner milldir. Mae pentref a chastell yma yn adfeiliedig iawn, ar fryn bychan. Prynwyd yr arglwyddiaeth hon gan Syr Edward Carne, oddi wrth Iarl presenol Worcester. Ar gyfer y pentref hwn y mae pont geryg

a elwir Pont Llandochwy. Dywed rhai i Dochwy ddyfod gyda Ffagan a Dyfan o Rhufain i Brydain.

O Llandochwy i bentref Llanfleiddian, lle mae pont gerryg, y mae hanner milldir. Saif y rhan fwyaf o'r pentref ar du gorllewinol yr afon, tra y saif y castell, gyda rhan o'r pentref ar y tu dwyreiniol. Mae'r castell, yr hwn sydd yn eiddo'r brenin, yn Arglwyddiaeth Tir Stuart, a defnyddir ef yn garchar yr Arglwyddiaeth hono.

Mae'r Bontfaen tua chwarter milldir uwchlaw Llanfleiddian. Mae tir da am yd a phorfa o enau Dawen hyd y Bontfaen, ar du gorllewinol yr afon. Mae cymmaint o'r dref ag sydd wedi ei hamgylchu â muriau, ar y tu dwyreiniol i'r bont. Mae'r mur sydd o amgylch y Bontfaen, tua thri chwarter milldir, ac ynddo dri phorth—yr un dwyreiniol,—y gorllewinol, a phorth y felin tua'r de. Mae Eglwys yn y dref, ond dywedir mai Llanfleiddian yw prif Eglwys Blwyfol y Bontfaen. Saif y dref mewn dyffryn. Agos i filldir i'r gogledd-orllewin o'r Bontfaen y saif Castell Penllin, yr hwn sydd yn gyfan, ac yn eiddo Turberville. Yr oedd gynt ddau frawd o'r Turbervilles, yr hynaf a adawodd ferch yn etifeddes, a'r ieuangaf fab. Priododd y ferch ag un Loughor, ac ar ol llawer o ymryson, rhanodd plant y ddau Durberville y tir. Ychydig uwchlaw'r Bontfaen, ar y tu dwyrain y mae ffin Tir Stuart.

#### BONEDDIGION YN BYW RHWNG DAWEN AC ALIAN.

James Thomas, Llanfihangel, milldir i'r gogledd o Lanilltyd.

Richard, etifedd y Carnes, mewn lle a elwir Asshe (Nash), lle y mae Parc Bychod Denys.

Edmund Vanne, a breswylia yn Lanilltyd, ac y mae ganddo dy yn Marcros, agos milldir i'r gorllewin o Lanilltyd.

Preswylia James Turberville, tad yr hwn oedd fastardd yn Lanilltyd.

Edward Stradling, ieuangaf, brawd yr etifedd, a breswylia yn Lanilltyd. Priododd hwn ferch ac etifeddes y brawd ieuangaf o'r Regelandes.

John Thomas, Lanilltyd.

Syr Edward Carne, Llandochwy.

Thomas Regelande, o frawd ieuangaf y Regelandes, a breswylia yn Lllysfronydd.

Gorwedd tair arglwyddiaeth i'r gogledd yn Morganwg o lan afon Elai, hyd lan ddwyreiniol afon Nedd. Tir Stuart yw'r gyntaf o'r cyfryw, ac arglwyddiaeth Ruthyn yn gangen o honi, ac yn gorwedd ar ei thu gorllewinol. Mae yn Nhir Stuart gyflawnder o rawndir, a choed-dir, yn nghyd a phorfaeodd lawn cystal ag a ellir gael mewn gwlad fynyddig.

Mae Castell Talafan yn yr arglwyddiaeth hon mewn lle gwastad, ac oll yn adfeillion. Saif tua dwy filldir i'r gogledd-ddwyrain o'r Bontfaen,—milldir a hanner o afon Dawen, a dwy filldir o'r Elai. Mae'r castell a'r arglwyddiaeth yn eiddo'r brenin. Bu parc ar du gogleddol y castell. Nid oes un pentref yn ei ymyl.

Yr ail arglwyddiaeth ogleddol yw Tir y Coetty, yr hon sydd yn ffinio a Thir Stuart, ar y gorllewin-ogledd-orllewin. Nid yw hon gymmaint a Thir Stuart. Ceir yn neheubarth Tir y Coetty gyflawnder o rawndir, fel yn mhlwyf y Coetty. Ar ei dde-ddwyrain y mae digonedd o goed yn mharc y Coetty, a Choed y Mwstwr. Mae yd a phorfa rhagorol yn y parth gorllewinol hefyd, tra y mae ei gogledd-barth yn fwy mynyddig a llai ffrwythlawn.

Saif Castell y Coetty ar wastadedd, filldir i'r gogleddd-ddwyrain o Benybont, yr hon sydd dref farchnad dda ar yr Ogwy. Mae Castell y Coetty hanner milldir i'r gorllewin o afon Ewenni, a milldir i'r dwyrain o'r Ogwy. Mae'r castell hwn yn gyfan, a dywedir y perthynai gynt i Payne, yr hwn a elwid Y Diafol, o herwydd ei hyllwch. Gamage yw arglwydd y lle yn awr, a hwn yw ei brif breswylfod.

Y drydedd arglwyddiaeth yw Tir Iarll, a'i mynyddau yn llai ffrwythlawn na'r ddwy arglwyddiaeth ereill; ond y mae ynddi amryw bawrleoedd da mewn dyffrynoedd, a digon o goed yn y Dyffryn.

#### LLYFNWY.

Mae'r dyffryn hwn tua thair milldir i'r gogledd o Fargam. Tardd afon Llyfnwy yn mhlwyf Glyn Corrwg, ac ar ol rhedeg tua dwy filldir, derbynia Nant Corrwg, yr hon sydd tua dwy filldir o hyd. Tua saith milldir yn is, rhed y Llyfnwy i'r Ogwy ar ei thu gorllewinol, mewn lle a elwir Llansantffraid, dwy filldir uwchlaw Penybont. Margam yw'r pentref goreu yn Nhir Iarll, lle mae Abbatty Mynaehod Gwynion. Mae nant yn Nhir Iarll a elwir Ffrwdwyllt, y tu yma i Afan, ac y mae yn myned trwy blwyf Llangynwyd.

#### CAERDYDD.

Mae Caerdydd, fel prif dref swydd Forganwg, wedi eu hamgylchu a mur da, yr hwn sydd tua milldir o gwmpas. Mae yn y mur bump porth. Yn gyntaf, Porth y Llongau yn y de. 2. Porth y Dwr yn y de-orllewin. 3. Porth Meiscun yn y gogledd-orllewin, ac a elwir felly am ei fod yn arwain i'r ffordd tuag at Arglwyddiaeth Meiscun. 4. Porth Senghenydd yn y gogledd, ac a enwir felly am ei fod yn arwain i ffordd Senghenydd. 5. Porth Crokerton ar y dwyrain, ac a enwir felly am ei fod yn ymyl maesdref o'r enw.

Mae'r castell ar du gogledd-orllewin mur y dref, yn adeilad mawr a chryf, ond ei fod i raddau yn adfeilion yn bresenol. Mae dau borth yn arwain i'r castell: y mwyaf a elwir Porth Heol y Sir, a'r llall y Toll Borth, neu Borth y Trysordy. Mae yn ymyl Porth Heol y Sir dwr mawr a elwir y Twr Gwyn, yr hwn a ddefnyddir yn arfdy y brenin. Mae Twr y Ddaiargell yn fawr a gwyoch. Mae'r castell ar yr ochr nesaf i'r dref yn ddiamddiffyn; ond y mae ffos ar ei du gogleddol, ac afon Taf yn ei amddiffyn ar ei du gorllewinol. Mae ystafelloedd neillduol yn y castell, yn gyfyngedig i bob un o'r 18 marchogion a ddaethant gyda Haymo (Fitzhamon), Iarll Cserloyw, yn am-

ser William y Goresgynydd, i ennill Gwlad Forgan, ac yr oedd pob un o honynt yn perthyn i warchodlu y castell.

Mae dwy Eglwys blwyfol yn y dref: y brif un a saif ar y tu dwyrain, a'r llall, sef Eglwys Fair, yn y deau, ar ochr yr afon. Mae Capel hefyd yn Heol y Cryddion i Sant Perin, ac un arall yn yml Porth Meiscun.

Yr oedd hyd yn ddiweddar dŷ gwych yn y dref, a elwid Plas Newydd. Y faesdref fwyaf sy'n perthyn i'r dref yw Crokerton, lle y bu Tŷ y Myneich Llwydion. Mae maesdref arall llai o faint y tu allan i Borth y Llongau. Safai Ty y Mynachod Duon y tu allan i Borth Meiscun, lle y mae adeilad bychan yn awr.

#### PYNT NEILLDUOL AR AFON RHYMNI.

Pont Bedwas o goed; Pont Llan Edeyrn o goed, bedair milldir yn is; a Phont Rhymini, dair milldir yn is drachefn. Milldir a hanner sydd o hono i Hafren.

#### PYNT NEILLDUOL AR AFON TAF.

Pont Rhehesk (yr Hseg?) o goed; Pont Newydd o goed, tair milldir yn is; Pont Llandaf o goed, pedair milldir yn is; Pont Caerdydd o goed, filldir yn is. Mae dyfroedd y Taf yn dyfod i lawr o fynyddoedd coediog, ac felly yn cludo cymmaint o goed i waered ar lifogydd, fel na allai y wlad godi y pynt pe buasant o geryg, am y cawsent eu tori mor fynych.

#### PYNT AR RHONDDA FAWR.

Pont goed, tua chwarter milldir i'r gorllewin o Benrhys; Pont-y-Cymmer, tua dwy filldir yn is, ac ychydig yn is drachefn y mae'r uniad.

#### PYNT AR RHONDDA FECHAN.

Mae dwy bont ar Rondda Fechan; y flaenaf ar gyfer Penrhys, sef tri chwarter milldir o'r lle, a'r llall ychydig uwchlaw uniad y ddwy Rondda, yn union ar gyfer y bont sydd ar y Rhondda Fawr. Mae pont goed hefyd ar yr holl Rondda, a elwir Pont Newydd, filldir yn is na'r Cymmer, a chwarter milldir o'r lle y mae yn ymarllwys i'r Taf.

#### PYNT AR AFON ELAI.

Pont Ynys-allan o goed; Pont Rhyd-Owen, filldir a hanner yn is; Pont y Felin Fawr, milldir yn is. Daw Nant Dylais i'r Elai ar ei thu dwyreiniol tua chwarter milldir uwchlaw Pont y Felin Fawr. Tardd y nant hon tua phedair milldir yn uwch, ar y gogledd-ddwyrain-wrth-



ddwyrain, ac y mae pont goed arni, a elwir Pont Rhyd Lydan. Pont y Saeson o goed, ddwy filldir yn is; Pont Clun neu Cloun, tua milldir yn is; ac yohydig yn is drachefn, una'r nant a'r Elai. Milldir yn is na Plont y Felin ar Elai y mae Pont *Risclidog* o goed. Pont Rhyd-sarn (Pont Talybont?) o goed, tua milldir yn is. Yn nesaf, Pont Llanbedr, yn dri bwa o geryg, filldir yn is. Milldir a hanner yn is drachefn y mae Pont St. George wedi ei hadeiladu o geryg. Milldir yn is y mae Pont St. Ffagan yn dri bwa o geryg. Mae Pont ar Elai yn ddau fwa ryw filldir a hanner yn is. Pont Lecwith yw'r nesaf, yn dri bwa, yr hon sydd tua milldir o Hafren.

## PONT AB ALAIN.

Pont Alain o geryg, ddwy filldir i fyny o Hafren.

## PYNT AR Y DDAWEN.

1. Pont y Fon (y Bontfaen) o geryg. 2. Pont Llanfleiddian o geryg, tua chwarter milldir yn is. 3. Pont Llandoehwy, dri chwarter milldir yn is, yr hon sydd bont geryg. 4. Pont Melin Hugh o geryg, hanner milldir yn is. 5. Pont Gigman o geryg, milldir yn is. 6. Pont Newydd o geryg, milldir a hanner yn is, yr hon sydd hanner milldir o Hafren.

## PYNT AR NANT CENSAN.

1. Pont Censan, dau fwa o geryg. 2. Pont *Britoun*, o un bwa, hanner milldir yn is. Tardd Censan ar y dwyrain, a rhed i'r Ddawen yohydig o Aberddawen.

## PONT AR EWYN-WY (EWENNI).

Pont Ewenni, o gerryg. Rhed Ewenni i'r Ogwy ar y tu dwyreiniol, hanner milldir uwchlaw Castell Ogwy.

## PYNT AR OGWY.

1. Pont Llansantffraid, o goed. 2. Pont Penybont, yn bedwar bwa, o geryg. 3. Pont Newydd o geryg, filldir a ——— yn is, a thua milldir a hanner o Hafren.

Nid oes pynt nodedig ar nentydd Llyfnwy a Garw (Garw-wy). Tardd Garw i'r gogledd, mewn lle o'r enw Blaen Garw; ac ar ol rhedeg tua chwe' milldir, ymarllwysa i'r Ogwy ar ei thu gorllewinol, tua dwy filldir uwchlaw Pont Llansantffraid. Tardd y Llyfnwy ar gogledd-orllewin, yn mhlwyf Glyn Corrwg, ac ymarllwysa i'r Ogwy tua chwarter milldir uwchlaw Pont Llansantffraid.

## PYNT AB AFAN.

1. Pont-rhyd-y-fen (Rhyd y Waun, medd rhai; Rhyd Ifan, medd ereill), o goed, ar Afan Fawr, tua milldir uwchlaw uniad y ddwy Afan. 2. Pont Ynys Afan, o goed, tua milldir islaw'r uniad.

## PYNT AB NEDD.

1. Pont Castellnedd, o goed. 2. Pont goed wyth milldir uwchlaw Castellnedd yn Rhigos."

---

Dyna ddesgrifiad Leland o Forganwg tua'r flwyddyn 1540.

# ATTODIAD.

## II.

### AWDL I WYRY FAIR WEN O BENRHYS.

Gan mai ychydig gopiau sydd ar gael o'r Awdl hon o eiddo Gwilym Tew i Fair Penrhys, ac Awdl Lewys Morganwg i Fynachlog Nedd, bernais mai derbyniol fuasant yn y man yma.

Cyfansoddwyd yr Awdl hon erbyn Eisteddfod Mynachlog Penrhys, Cwm Rhondda, yr hon a gynnaliwyd dan nawdd Owen Glyndwr, Tywysog Cymru, tua'r flwyddyn 1410. Feallai mai nid amhriodol fyddai egluro y cyssylltiad rhwng Owen Glyndwr a'r lle hwn. Un o brif gadfridogion byddin Owen oedd Cadwgan Fawr, ab Dafydd, ab Cynfrig Fychan, yr hwn oedd ddisgynydd o Einion ab Collwyn, a Nest, merch Iestyn ab Gwrgan. Yr oedd Cadwgan yn byw yn Nghastell Miskin; ac felly ar ei dir ef yr oedd Mynachlog Penrhys wedi ei ohodi. Gan ei fod ef ac Owen Glyndwr mor gyfeillgar, yr oedd yn naturiol i'r mynachod bleidio Owen, yn unol ag ewyllys Cadwgan, yr hwn oedd wir berchenog holl Gwm Rhondda. Llantrisant oedd prif dref Cantref Miskin y pryd hwnw, ac am oesoedd wedi hyny, ac yr oedd heol bwrpasol wedi ei gwneyd o'r dref hono hyd Fynachlog Penrhys. Yr oedd yn y Fynachlog ddelw oreuriedig o Mair Forwyn, a'r ddelw hono oedd testyn yr Awdl ganlynol.

Wedi gorchfygu Owen Glyndwr, darfu i Harri V. brenin Lloegr, orchymyn i'w swyddogion milwrol lwyrr ddinystrio y Fynachlog tua'r flwyddyn 1414, a gwerthwyd yr holl gyfoeth a berthynai iddi. Symmudwyd y ddelw hefyd o honi i Lundain, ond ni ddinystrowyd hi am flynyddoedd lawer ar ol hyny, am fod hyn cyn y cyfnod Protestanaidd. Pa fodd bynag wedi i Harri VIII. ymryson a'r Pab, ac i'r wlad hon fabwysiadu Protestaniaeth, a phan hymyfyrdai y swyddogion gwladol ac Eglwysig yn y gorchwyl o ddinystrio delwau Pabyddol, cawn hanes ddarfod i Hugh Latimer, Esgob Worcester, anfon llythyr at Arglwydd y Sêl, yn yr hwn y cyfeiriai at dair delw o Mair, sef un o Ipswich, un o Doncaster, ac un o *Penryesse* (Penrhys), a dangosai y priodoldeb o'u llosgi yn Smithfield, Llundain, am meddai, ei fod yn ofni i'r tair fod

yn foddion yn llaw'r diafol i ddwyn llaweroedd i dân tragwyddol : *Ellis Letters, Third Series, iii, 207.*

I. PROEST CYFNEWIDIOG.

Morwyn Wry Mair Wineurydd,  
Mae mewn Eurwy Mam Nawradd,  
Mair wâr Mam y Drugaredd,  
Mewn llaw Fair mae'n lleferydd.

II.

Lleferydd y Llafuriaid  
Llu'n Mhen Rhys lle maen erioed,  
*Llu'n Wry* a'i lliw'n euraid  
Lle mae braich llaw mab a roed.

III. UNODL CRWCCA.

Ef a roed y Wry Fair Wen  
Wrth fesur Araeth Foesen  
Iesu yn ei bru ar bren—yn Brynwr  
A Brenin Nef bresen.

IV. UNODL GYRCH.

Mair Amherodres Presen :  
Mair, nid a'r pumgair o'm pen ;  
Mair Gabriel mawr ei gobrwy  
Mair yn fwy na mur nef wen.

V. UNODL UNION.

Mair Frenheindref nef, Mair gynnifer—cred  
Yn cae'r wybr a'r lleufer,  
Mair a glyw'n llef, burdref ber,  
Ar gwbl iawndal rhag blinder.

VI. TRIBAN MILWR.

Mair rhag blinder a'n gweryd  
Mab Mair i bawb a ddairyd  
Mair a gâr y meirw i gyd.

VII. TRIBAN TODDAID.

I'r byd y deiryd derwen—eurwerthog  
Ar warthau'r Ffurfafen ;  
Morwyn weddw, Mair Winwydden.

## VIII. HEN ENGLYN, A ELWIR BALCHNOE.

Ud o Winwydd  
 Duwfab Dafydd,  
 Mae'm mhell enw mam llawenydd,  
 Mair a'n rhoes fyw a meirw yn rhydd.

## XI. ENGLYN OIL DWEN.

Rhydd dynu pumpllu o'r poen—a wna Fair  
 Wen Forwyn eiry unhoen,  
 I rad yr Oen.

## X. ENGLYN GAR HIR.

Oen Duw a'r Wryr Fair yn dal—am erchi  
 A mawrchwant yr Afal :  
 Rhingyll fu'r Angel  
 Yn dwyn gair dan gel  
 Yn gyfiawn dawel, rhag ofn dial.

## XI. GAR HIR AMGENBYW.

Ynial fu'r dial rhoi'r dyn,—a'i werthu  
 Dan warthair i'w Elyn,  
 Prisiwr Presen  
 Ein Pont a'n Pen,  
 Ym mynwes pren mwy ni's pryn.

## XII. CYWYDD DEUAIR FYR A DEUAIR HIR YN ENGLYN.

Yn mynwes Mair  
 Y Gwr fu'r gair,  
 Gwir Ysryd Glân diddanair,  
 A gwir Fab o fru Gwryr Fair.

## XIII. CYWYDD LLOSGYRNOG.

Os enw Mair y sy'n y moroedd,  
 A'r tyrau aruthr a'r tiroedd,  
 O'i Nefoedd mae a'i Nafiad,  
 Cynnadlai 'mhlaid cenedloedd,  
 Addewid oedd o Dduw Dad.

## XIV.

Duw Dad o'i gariad gyrai  
 I a garai'r byw gwirion,  
 Y Forwyn Wen frenhinol  
 I lwyr eiriol yr awrhon.

## HANES MORGANWG.

## XV. HYPFYNT BYE.

Awr hon y rhydd  
 Ei phwys a'i fydd,  
 Beunydd Bannon,  
 Ar yr Iesu,  
 I'n croyw Iesu,  
 Cirie Eleuson.

## XVI. HYPFYNT HIR.

Mair berllan bêr,  
 Mair loyw leuer,  
 Mair wybr a ser mor bur y son ;  
 Mair yw'n seren,  
 Mair offeren,  
 Mair Weneren Morwyn wirion.

## XVII. CYHYDEDD NAWBILL.

Mawr yw Mair Wen a phen a ffynnon,  
 O Bab Duw Ener i bob dynion,  
 A gannwyf ar dir ag nofio'r don,  
 Yr anifeiliaid a'r nefolion.

## XVIII. HYPFYNT HIR AR BUMP RHAGOLL.

Mair nos a dydd,  
 Mair a geidw'n fydd,  
 Mair a'n gwna'n rhydd,  
 Mair fu, Mair fydd, Gwinwydd gwynion  
 Mair yn Ben Rhaith,  
 Mair mawr ei gwaith,  
 Mair ni wna'n llaith,  
 Mair yn mhob maith,  
 Mair yn mhob iaith a daith doethion.

## XIX. CLOGYRNACH.

Mair enaid corph morwynion,  
 Diddrwg yn ngolwg angelion ;  
 Mair y sy i'm arwain,  
 Mair fu Em Wryr fain,  
 Yn y dwyrain yn dirion.

## XX.

Mair Lyfr Eglwyswyr, Mair loyw afon—ffydd,  
 A ffoddes creulonion,

Mair ddadleuwrraig ysgolhaigion,  
 Mair yw'n gofeg Morwyn gyfion,  
 Mair Wryy a'i henw yn mru hinon,  
 Mair a ddeail Meirw Iuddewon,  
 Mair gyffes neges Crist'nogion—wyrth drud,  
 Wrth y drain a'r hoelion.

## XXI. CYHYDEDD WYTHSILL.

Mair dawelwybr, Mair Duwiolion,  
 Mair, o'i heddwch, mawr ei haddon,  
 Mair a egyr y mor eigion,  
 Mair adwaenir rhag marw dynion.

## XXII. HIR A THODDAID.

I Fair da wyniaith a fu'r Dewinion,  
 O Raith resymol wrth eiriau Simon,  
 Mawr oedd y Ddeulu!—myrdd o urddolion ;  
 Yngais a'r Seren, megys Rhos irion,  
 Gwiriondeb Sioseb dewisason—hi  
 Gadu'r Gair iddi gyda'r Gweryddon.

## XXIII. CYBCH A CHWTTA.

A dyn dall a'r glwyd yn don,  
 A'r gwaew aruthr a'r goron,  
 A Duw fry'n rhoi gwaed ei fron  
 Yn Dudedd i Brydyddion :  
 Yn grair y Ffurfafen gron,  
 O Fair Wryy ef yw'r Aeron,  
 A llwyr Dduw, a Llew'r ddaiar,  
 Ag oen gwar gan y gwirion.

## XXIV. GWAWDODYN HIR.

Mair deladai amryw dylodion ;  
 Mair Mam i D'wysog y Tywysogion ;  
 Israel a phobl hael, iaith a phobl hon,  
 I Fair a Iesu llafuriason,  
 Fe greodd o'i fodd ufuddion—lle 'ddynt  
 Ei weis un gerynt Moesen ac Aaron.

## XXV. CYHYDEDD HIR A THODDAID HIR YN NGHYD.

Cyn oes cynnesu  
 A phwys cyffesu  
 Y bo'm ar Iesu heb ymryson.

## HANES MORGANWG.

## XXVI. TODDAID HIR.

Gwnaeth i'r byd wynfyd anfon—y Forwyn  
Gwawr fwyn gwedi dwyn i gadw dynion.

## XXVII. CADWINGYRCH BYR O'R HEN DDULL.

Mair yw'n golwg ym mron gelyn,  
Mair yw'n telyn am rentolion,  
Morwyn dirion yn marn Derwyn,  
Ag annherwyn rhag annhirion ;  
Mae rhwym difraw Mair i'm dwyfron,  
Mwy argelwch Mair y galon.

## XXVIII. TAWDDGYRCH CADWYNOG.

Onen wyra dan wn Urael,  
A'n dyrchafael yn dra chyffion,  
Ar lun Adda wawr luneiddiael,  
I bur wasael Ebrwywysion ;  
Mair pan aned,  
Mair fu'n planed,  
Mair o'i glaned meirw gelynnion,  
Mair amcaned,  
Mair ym maned,  
Mair ddiddaned myrdd o ddyinion.

## XXIX. GAWDODYN BYR.

Arglwydd Iesu Grist, ceidw bob Cristion,  
A biau f'ensaid heb ofynion,  
Ei basiwn gwyliwn rhag ein galon—grair  
Morwyndod Mair, nawddair ein addon.



## AWDL I ABBAD AC ABBATTY NEDD,

A GANODD LEWYS MORGANWG ERBYN YR EISTEDDFOD A FU YN Y  
FYNACHLOG, SULGWYN, 1490, ER DYSGU YR HEN FESURAU  
I'R BEIRDD IEUAINGC.

---

### I. UNODL UNION.

Oesoesoedd Llysoedd Lleision—Abad Nedd,  
Ynyswedd enwason ;  
Gwisger ac enur goron  
Am ei ben wisg un mab Non.

### II. PROEST CYFNEWIDIOG.

Abad pob Abad a'u pen,  
Afal Duw o'i fodeuyn,  
O fias Eurant fel Sieron,  
O felusder fel Awstin.

### III. PROEST CADWYNOG.

Eglwyswr teg o Leision,  
Abostol o fab Iestyn,  
Ail Daniel o waed Einion,  
Allwedd dysg a Lleuddad Wyn.

### IV. UNODL CROWGA.

Teml Nedd, Tai aml newyddion,  
Duw mawlheir yn y Deml hon ;  
Dunawd Tad Abad atebion,—Bernet,  
Barnwr crefyddolion.

### V. UNODL CYRCH.

Bugail ffydd, a bagl a ffon,  
Bugeilwriaeth bagl Aaron ;  
I Blas Mair fal Balsamwn,  
Band aeth swm Bendith Simon.

## HANES MORGANWG.

## VI. UNODL CYRCH ETTO.

Hyfawl wybr hafal Ebron,  
 Yw 'ohlog hi'r Fonachlog hon ;  
 Trwm yw'r plwm sy'n trumio'r Plas,  
 To dulas tai Duwiolion.

## VII. TRIBAN MILWR.

Erchi'r Wyri arch yr awrhon  
 I un Duw fry'n waed ei fron,  
 Eiriol oes hir i Leision.

## VIII. HEN FESUR.

Glaslwys glwysion,  
 Glosydd gleision,  
 Ir yw'r tir, yr âr a'r ton,  
 Aml y stor am hoywllys tirion.

## IX. HEN FESUR ETTO.

Dethol doethion,  
 Hydr dysgodron,  
 O grefyddwyr gwâr ufuddion,  
 Noddfa'n hiaith, nawdd Dduw fo'n hon.

## X. CYWYDD LLOGYRNOG.

Pob lliw'n y gwydr, pob llun gwiwdranl,  
 Peuliw drwy hwn fel pelydr haul,  
 Pyrth araul Porthorion.

## XI. ENGLYN O'R HEN GANIAD.

Urddas gobau heirdd Esgobion,  
 Aras hoyw aurwyau sywion,  
 A roe wynion riaredd  
 I'w dai ar Nedd o dir Non.

## XII. HYPPYNT BYR.

Pur imperial,  
 Pob iaith rial, Pab Athrawon ;  
 Bardd yw i'n mysg,  
 Bwrwed addysg i Brydyddion.

XIII. CYWYDD.

Geiriau dethol gwyr doethion,  
O grawn hir, a geir yn hon.

XIV. CYHYDEDD HIR.

Ag aur yn gerygl,  
Naf, Eurnaf fernygl,  
Tyrau a phinygl, tair ffynon.

XV. AWDL GYWYDD.

To uwch a Sin yn taccau  
Y Neuaddau newyddion,  
Lliw aur a gwyrdd, llawer gem  
O Gaersalem gras haelion.

XVI. HIR A THODDAID.

Erfai mae ar wydr arfau 'mherodron,  
Arfau Nen olau yn freninolion,  
Ar fwd sy ogyloch, arfau T'wysogion,  
Arfau Nedd gannoes ar fain nadd gwynion,  
Arfau gwyr gorau dan goron—Harri,  
A muriau'r Eglwysi o'r marmor gleision.

Y Nen fawr uchel yn y Nef wreichion,  
Goruwch yng ngolwg archangelion,  
Y llawr i bobloedd holl wyr Bablon,  
Obry a weithiwyd â main brithion;  
Y Clych, a'r Menyeh, a'r mwynion—moliant  
Mynych ogoniant *Meneich Gwynion*.

Dyma Lys eilmodd i Deml Salmon,  
Neu gaerau Rhufain goror afon,  
Menychlys a Llys Lleision—sy gyfuwch,  
A'i Ffreutyr sy uwch na PHRETER SION.

XVII. MATH O HYFFYNT.—(*Dull Casnodyn Fardd*).

Ni bu adeilad bywydolon,  
Na tho muriau, na thai mawrion,  
Ni bu rhyw seilwydd, bu rasolion,  
Neu dderi o'i hyd ar y ddaiar hon.  
Ni bu ac ni bydd  
Y rhyw waith ar wydd,  
Yr hwn ni dderfydd  
Na'r dydd na'r don,

## XVIII. CYHYDEDD WYTHSILL.

Gyr y Meneich eu gwyr mwynion,  
 A'u gwyrdd arwisg i gerddorion,  
 Ail i rif gro ael yr afon  
 Bwydau llys yr Abad Lleision.

## XIX. CYHYDEDD NAW SILL.

Heddyw anhawdd iawn yw i ddynion  
 Difanw y dwr a deifn y don ;  
 Un anhawsed wrth bob hanesion  
 Yw enwi o les a wnai Leision.

## XX. CYWYDD.

Erfai yw'r Llys ar for llon,  
 Hyn o les a wnai Leision ;  
 E geir gwres yn y Gaer gron,  
 E geir seigiau gwresogion,  
 Y Ceirw fry o barcau'r fron,  
 A'r Eogiaid o'r eigion ;  
 Y gwenith a phob gwinoedd,  
 O'r tiroedd a'r mor tirion.

## XXI. BYR A THODDAID.

Unifersi Nedd, llyna fawr son—Lloegr,  
 Llugorn Ffrainge a'r Werddon ;  
 Ysgol hygyrch Ysgolheigion  
 I bob syw fel pe bae Seion,  
 Ag organau i'r gwyr gwynion,  
 A mawr foliant amrafaelion,  
*Rhithmetic, Music, Grymusion—safant,*  
 Rhetric, Suff, a Chanon.

## XXII. HEN FESUR CYRCH ODL.

I gael addysg a byw'n y gwleddoedd,  
 O dir a moroedd y daw'r mawrion ;  
 Cawell gweiniad, cell yw i gannwr,  
 Caer uwch y dwr, lle nis cyrch y don.

## XXIII. TAWDDGYRCH CADWYNOG.

Tonau grawnwin, tân gwerinoedd,  
 Trilliw gwinoedd, trallaw gweinion,  
 Tai byrnhawnwin, tŷ Brenhinoedd,  
 Troe fyddinoedd, torfoedd ddynion :

Teml urddolwaith, trwy rasolwaith,  
 Twr nefolwaith, tai'r nefolion :  
 Tŷ rheolwaith, trwy fanolwaith,  
 Tŷ duwiolwaith, y Tadolion.

## XXIV. CADWYN GYRCH BYR.

Naf ysgolion nefwisg heiliawdr,  
 Urdd i seiliawdr urddasolion.

## XXV. HIPPYNT HIR CYFOCHRAWDL.

Eurwyd nenan  
 Uwch eu penau,  
 Teg o lenau, tai gleinion ;  
 Offerynau,  
 Ysgrifnau,  
 Ar ddalenau urddol union.

## XXVI. CYHYDEDD WYTHSILL ETTO.

Bernard Lysoedd Barned Leision,  
 Boed le Assa'r Abad Leision ;  
 Beuno Laswyr o'i Ben Leision ;  
 Bo'i hoedl oesog Abad Leision.

## XXVII. TODDAID Y BARDD GLAS.

Bywyd yn wynfyd anfon—o Nefoedd,  
 Boed i'w Lysoedd yr Abad Leision ;  
 Boed rhodd wrth ei fodd Caerfaddon—Cymru,  
 Bid o law Iesu, Abad Leision.

DIWEDD.

# ENWAU'R TANYSGRIFWYR.

---

## ABERAFON.

Morgan, Rev. Richard, (Rhydderch ab Morgan).

## ABERCANAID, MERTHYR.

*David Lewis, 1, River Row, Dosparthwr.\**

Beynon, William, Abercanaid.

Davies, David, do.

Davies, Richard, do.

Edwards, Arthur, do.

Evans, William, do.

Griffiths, David, do.

Griffiths, John, do.

Griffiths, Jonathan, do.

Griffiths, William, do.

Hopkins, David, do.

James, David, (Llew Wernlas), do.

Llewellyn, David, (Dewi Glan Canaid), do.

Mezey, Jacob, do.

Morgan, John, do.

Morgans, Rees, do.

Morgans, Thomas, do.

Rees, William, do.

Richards, Watkin, do.

Williams, John, do.

Williams, Thomas, do.

## ABERCARNE.

*Thos. Lewys Rhys (Llew Morlais), Dosparthwr.*

Evans, Evan, Abercarne.

Harris, Thomas, do.

Price, Evan, do.

Rees, David, do.

Rees, Evan T., do.

Rees, Thomas T., do.

Thomas, David, do.

Williams, Thomas, do.

## ABERKENFIG.

*E. Thomas (E. ap Iewan), Dosparthwr.*

Barrows, John, Mason, Aberkenfig.

Bowen, John, Collier, Cefnhirgoed.

David, Mrs. Margaret, Old House, Llangynwyd.

Davies, James, Carpenter, Tondy.

---

\* Mae pob dosparthwr a'i ddosparth gyda'u gilydd,—y dosparth yn canlyn enw'r dosparthwr, yr hwn sydd mewn llythyrenau Italaid.

Gravell, Dan, Baller, Aberkenfig.  
 Jones, David, Manager, do.  
 Jones, Edward, Carpenter, Kenfig Hill.  
 Lewis, Thomas, Collier, Bryncoch.  
 Lloyd, William, (Gwilym Glan Ogwy), Aberkenfig.  
 Mordecai, David, Collier, do.  
 Rees, Thomas, Collier, do.  
 Thomas, Jenkin, Collier, Cefnhirgoed.  
 Williams, Morgan, Tycandy, Treos.  
 Williams, William, Engineman, Aberkenfig.

ABERDARE.

Canon Jenkins, M.A., D.D., Vicarage, Aberdare.

*Davies, Thomas, Butcher, Trecynon, Dosparthwr.*  
 Davies, John R., Bell Court, Trecynon.  
 Davies, William, Plymouth Arms, Harriet Street, Trecynon.  
 Jones, Thomas, Corner House, Margaret Street, do.  
 Lewis, David, Collier, do. do.  
 Phillips, Benjamin, Ebenezer Street, do.  
 Williams, Lewis, Furnace Manager, Abernant.

Edwards, David, 84, Cardiff Road.  
 Harries, Rev. W., Heol-y-felin  
 Hughes, John, Assistant Overseer, 8 copies

*Hopkins, Evan, (Cynonfab), Trecynon, Dosparthwr.*  
 Davies, Lewis, Grocer, Trecynon  
 Davies, Thomas, Llwydoed  
 Edwards, David, Master Carpenters, Abernant  
 Evans, M., Seymour street, Aberdare  
 George, Thomas, Llwydoed  
 Gethin, Thomas, Abernant  
 Harries, D. M., Clydach  
 Hopkins, David, Meirion street, Trecynon  
 Humphreys, Jesse, Abernant  
 Humphreys, Richard, do.  
 Jenkins, David, do.  
 Jones, George, do.  
 Jones, Thomas John (Cynonwyson), do.  
 Lewis, William, Meirion street, Trecynon  
 Morgans, William, Abernant  
 Morris, John, Gadlys road  
 Price, Rees, Abernant  
 Roberts, Thomas, do.  
 Thomas, Benjamin, do.  
 Thomas, John, Cwmdare  
 Thomas, John, Llwydoed  
 Thomas, John E., Mount Pleasant street, Trecynon  
 Treharne, Treharne, Master Fitters, Abernant  
 Wigley, William, Maesywmmwr  
 Cyfaill yn America

*Corwyst John, James, 6, Phillip st., Roberts Town, Dosparthwr.*  
 Arnold, William, Abernant  
 Darby, David, Aberdare  
 Davies, Daniel T., 8, Bridge street, Aberdare  
 Davies, David, 11, Forge row, Abernant  
 Davies, Rev. D., Ty'nllwyn, Mon  
 Davies, David, 15, Dumfries street, Aberdare

Davies, Henry, 6, Alma street do.  
 Davies, John, 1, Bond street do.  
 Davies, William, Seymour street do.  
 Dyer, Griffith, 6, Weatheral street, Aberdare do.  
 Edwards, Edward, Seymour street do.  
 Evans, David, Colliers row, Abernant do.  
 Evans, Thomas, Cwmaman, Aberdare do.  
 Evans, Price, 51, Dean street do.  
 Gibbons, David, Trecynon do.  
 Gray, David, 8, Little Wind street, Aberdare do.  
 Hughes, John, 6, Rachel street do.  
 James, John, Unity Terrace do.  
 John, Phillip, 41, Albert street do.  
 Jones, Edward, Mill Manager, Trefforest do.  
 Jones, Evan, Aberdare do.  
 Jones, Rees, Cwmaman do.  
 Landeg, John, 8, Clifton place do.  
 Lewis, H. C., Thomas Town, Ohio, North America do.  
 Morgau, Thomas, 28, Dumfries street, Aberdare do.  
 Morris, David, 26, Hall street do.  
 Morris, Morris, 64, Bute street do.  
 Price, Joseph, Grocer, Canon street do.  
 Prichard, Daniel, Trecynon do.  
 Punter, William, 1, Monk street do.  
 Reynolds, John, 7, Moss street, Abernant do.  
 Rosser, Thomas, 1, Unity Terrace do.  
 Rowlands, William, 88, Ynyslwyd street do.  
 Thomas, David, 5, Market street do.  
 Thomas, John, Abernant, 2 copies do.  
 Thomas, Thomas, 85, Dean street do.  
 Thomas, William, (Morfab), Aberaman do.  
 Williams, George Cynonlange, Trap road do.  
 Williams, Samuel, 17, Ynyslwyd street do.  
 Williams, Thomas, Bush Inn, 2 copies do.  
 Williams, W., 9, Wind street do.

*John, John, Engineman, Bwlfa Colliery, Cwmdare, Dosparthwr*

Beynon, Thomas, Overman do.  
 Davies, James, Blacksmith, Bwlfa do.  
 Davies, John, 12, Cardiff street, Aberdare do.  
 David, Owen, Bwlfa road, Cwmdare do.  
 Edwards, John, 2, Charlotte place, do.  
 Edwards, William, Engineman, Bwlfa, do.  
 Evans, Benjamin, Colliers' Arms, do.  
 Griffiths, David, Bwlfa row, do.  
 Griffiths, Ezer, 4, Highland place, Aberdare do.  
 Griffiths, Margaret, Bwlfa row, Cwmdare do.  
 Jacob, Richard, Carpenter (deceased), do.  
 James, James, 11, Bwlfa road, do.  
 Jenkins, Morgan, 26 do. do.  
 Jones, Hugh, Blacksmith, Bwlfa Colliery, do.  
 Jones, Isaac, Nantmelin Terrace, do.  
 Jones, John, 19, Dare Road, Cwmdare do.  
 Jones, Mordecai, Esq., Colliery Proprietor do.  
 Jones, Rees D., Checkweigher, Bwlfa Colliery, do.  
 Jones, Thomas E., Bwlfa row, do.  
 Lewis, Arnold, Carpenter, Bwlfa Colliery, Cwmdare do.  
 Llewellyn, R. Surveyor, do.  
 Morgan, Thos. Nantmelin Terrace, do.  
 Morris, John, Carpenter, Bwlfa, do.



Owen, Caleb, 12, Stag st., Trecynon.  
 Palmer, James, Enginman, Bwlfa, Gwmdare.  
 Rhys, Leyson, C.E.F.G.S. Colliery Manager, 2 copies  
 Thomas, Dan, Blacksmith, Bwlfa  
 Thomas, David, Jeweller, 44, Commercial-st., Aberdare  
 Thomas, D. E. 2, Clifton Place, do.  
 Thomas, Evan, Ironmonger, Cardiff-st., do.  
 Thomas, Griffith, (Gutyn Hydref), Ivy Cottage, Nr. Trecynon  
 Thomas, John, Bwlfa Row, Cwmdare  
 Thomas, Theophilus, Safety Lamp Maker, 70, Gadlys St  
 Thomas, Thomas, 2, Nantmelin Terrace, Cwmdare  
 Thomas, William, Mount Pleasant, Trecynon  
 Williams, David, 4, David-st., Cwmdare  
 Williams, Joseph, Carpenter, do.

Jones, Jenkin, Bookseller, Aberdare, 80 copies

John, Rev. T., Ynyslwyd

Jones, Ll. (Tissilio), Colliery Manager, Merthyr Dare, 10 copi

*Jones, Rhys Etna, Gadlys Road, Dosparthwr.*

Gwyn, Dan, Blaenllechau  
 Howells, Dd. 48, Gadlys Road  
 Lewis, J. W., Commercial Traveller, Leicester  
 Jones, W. 49, Gadlys Road, Aberdare  
 Price, Walter, Glan Road, do.

*Llewellyn, Rees (Maelog), 62, Wind st., Dosparthwr*

Davis, David, Esq., Maesyffynnon, Aberdare  
 Davies, John, David st., do.  
 Davies, William, Foundry Town, do.  
 Evans, D. R. Bute st., do.  
 Evans, Lewis, Gadlys Trip, do.  
 Evans, Moses, Bodringallt House, Rhondda Valley  
 Griffiths, James, Albert st., Aberdare  
 Jones, John, Ferndale, Rhondda Fach  
 Jones, William, Seymour st., Aberdare  
 Joshua, David, (Caerwysion), Dumfries st., do.  
 Lewis, D. R. Wind st., do.  
 Meredith, J. Colliery Manager, Blaengwawr, do.  
 Morris, David, Wind st., do.  
 Phillips, Caleb, Maesydfref, do.  
 Phillips, David, Photographer, Commercial st., do.  
 Rees, Phillip, Cardiff Road, do.  
 Thomas, D. Balaclava, Oak st., do.  
 Thomas, Josiah, Wind st., do.

*Rees, Jonathan, (Nathan Wyn), 61, Wind st., Dosparthwr, do.*

Davies, David, Elizabeth st., Aberdare  
 Evans, David, Esq., Mining Engineer, Bodringallt House.  
 Evans, John, Enginman, Blaengwawr, Aberdare.  
 Jenkins, Thomas, Fireman, do.  
 Jones, James, Cardiff Road, do.  
 Jones, John, Tailor and Draper, Cardiff st., do.  
 Lawrence, Wm. (Gwilym Nedd), Sunny Bank, do.  
 Lewis, Thos. Cardiff Road, do.  
 Morgan, John, (Ioan Llwehwr), Griffith st., do.  
 Morgan, William, (William), Clifton Cottage, do.  
 Rees, Evan, (Dyfedfab), Cardiff Road, do.  
 Richards, David, Overman, Blaengwawr, do.

Bosser, William, Manager, do.  
 Simon, William, Fountain st., Blaenllechau, do.  
 Thomas, John, Little Wind St., Aberdare.  
 Thomas, Thomas, Sunny Bank st., do.  
 Thomas, Thomas, Contractor, Blaengawr, do.

*Thomas, David, Collier, Dosparthwr, Trecynon.*

Bryant, John, Trecynon.  
 Curtis, Wm. do.  
 Davies, David, do.  
 Davies, Gad, do.  
 Davies, James, do.  
 Davies, John, do.  
 Davies, Thos. do.  
 Evans, Thos. do.  
 Harries, Henry, do.  
 Lewis, James, do.  
 Lewis, John, do.  
 Lewis, William, do.  
 Morgan, Rees, do.  
 Morgan, Richard, do.  
 Oliver, William, do.  
 Parker, Evan, do.  
 Phillips, Levi, do.  
 Powell, Wm. 32, Hirwain Rd, do.  
 Rees, Isaac John, do.  
 Scourfield, John, do.  
 Thomas, Jonah, do.  
 Wilson, Griffith, do.

*Thomas, Ebenezer, 37, Bullfa Road, Cwmdare, Dosparthwr*

Davies, Thomas, Tailor, Cwmdare.  
 Edwards, George, Blacksmith, Nantmelyn Terrace, do.  
 Edwards, Thomas David, do.  
 Evans, David, Collier, do.  
 Evans, David, Engineman, do.  
 Francis, Thomas, Blocklayer, do.  
 Griffith, Lewis, Contractor, do.  
 Griffiths, Mark, Collier, Trecynon  
 Harries, Edward, Weigher, Nantmelyn Colliery  
 Hughes, John, Cwmdare  
 Jenkins, John, Fireman, do.  
 Jones, David Evan, do.  
 Jones, Thomas Evan, do.  
 Jones, William, Collier, do.  
 Lacey, John, Ty'nywaun, do.  
 Lewis, Mrs. Christianna, Gadlys, do.  
 Lewis, Thomas, Cwmdare  
 Lloyd, Evan, do.  
 Lloyd, John, do.  
 Lloyd, William, do.  
 Morgan, William, do.  
 Phillips, Caleb, do.  
 Phillips, Isaac, Timberman, Nantmelyn Terrace, Cwmdare  
 Phillips, James, Overman, do.  
 Price, John, Trecynon  
 Price, Thomas, Dare Road, Cwmdare  
 Rees, Daniel, Fireman, do.  
 Rees, Daniel, Haulier, do.  
 Richards, Thomas, Collier, do.

Thomas, John, Cwmaman  
 Williams, David, Cwmdare  
 Williams, Griffith, Collier, do.  
 Williams, Richard, do.

Thomas, William Amos

*Treharne, Jacob, (Tiberog), Trecynon, Dosparthwr*

Davies, Daniel, Mill st., do.

Davies, Morgan, do.

Davies, William, Harriet st., do.

Edwards, Richard, Esq., Fedw Hir

Erasmus, John, Harriet st., Trecynon

Evans, David, 3, Cemetery Road, do.

Evans, David, 7, Cemetery Road, do.

Evans, John, Mount Pleasant st., do.

Evans, Thomas, Church Row, Trecynon

Howells, Mrs. Gwenllian, Llwynceelyn Inn, do.

Isaac, Thomas, (Daronwy)

Jenkins, Thomas, Windsor st., do.

Jones, Evan (Hedydd Cynon), do.

Jones, Evan, Margaret st., do.

Jones, John, Windsor st., do.

Jones, Thomas, Margaret st., do.

Jones, Thomas, Ysgubor Wen

Lewis, Evan, Llewelyn st., Trecynon

Llewellyn, Richard, Butcher, do.

Moore, John, 68, Gadlys st., Aberdare

Morgan, Enoch, 15, St. John st., Trecynon

Morgan, John, 3, St. John st., do.

Price, Rees, Mill st., do.

Roberts, Daniel, Monk st., Aberdare

Thomas, David, Ysgubor Wen

Timothy, David, Stag street, Trecynon

*Walters, Thomas, Trecynon, Dosparthwr.*

Davies, Rees

Davies, Thomas

Jones, Evan

Lloyd, David

Rees, William

Walters, Walter, Llandybie

*Wigley, Thomas, Roberts' Aberdare, Dosparthwr*

Bowen, Henry

Francois, Thomas

Griffiths, Benjamin

Harris, Rees

Jamas, David

Williams, David

Williams, Evan

Williams, John

Williams, Thomas

*Williams, Thomas, (T. ab Gwilym), Dosparthwr, Cwmdare*

Abraham, William, Engineman, Nantmelyn do.

Davies, Thomas, (Eos Glan Rhanell), 7, Glan road, Aberdare

Evans, Thomas, (Barid Cynon), Trecynon

Howells, David, Timberman

Howells, Evan, Maesgwyn Farm, Cwmdare

Howells, Rees, Collier

Humphreys, John, Tailor, Trecynon  
 James, Thomas R., Colliery Manager, Nantmelyn, Cwmdare  
 Jones, Evan, Cwmdare  
 Jones, John, (Bethelfab)  
 Owen, John, Gadlys  
 Phillips, Rees, Collier, Park row  
 Price, Rees, Penywaun  
 Rees, David, Cwmdare  
 Rees, Thomas  
 Richards, John, Cross Inn, Trecynon  
 Richards, Thomas, Timberman, Cwmdare  
 Thomas, Phillip, Office Clerk do.  
 Williams, Hugh Dawkin, Surveyor  
 Williams, Thomas, Gadlys  
 Williams, Thomas, Bell street, Trecynon  
 Woods, John, (Prydydd y Coed), do.

## ABERDULAS.

*Lewis, Llewellyn, Dosparthwr*  
 Darry, William, Aberdulas  
 Davies, Alexander, do.  
 Davies, Evan, do.  
 Harries, Henry, do.  
 Jones, Thomas, do.  
 Lewis, Lewis, do.  
 Phillips, John, do.  
 Preese, James, do.  
 Prosser, James, do.  
 Rees, Thomas, do.  
 Roberts, David, do.  
 Rosser, William, do.  
 Williams, John, do.

## ABERGAVENNY.

Price, W. Esq., Solicitor, 12, Castle st., Abergavenny.

## ABERTAWY.

Levi, Rev. T. do.  
 Lewis, David, B.A., 4, Kilvey Terrace, Kilvey, Swansea  
 Rees, Robert, Esq., (Eos Morlais)

## AMERICA.

James, Owen, Lewisburgh College, P.A.  
 Jones, John W. 408, Greenwich st., New York.  
 Jones, W. Watkin, Parsons, Luzerne, Co. Pa.

## AUSTRALIA.

Jones, Daniel Elias, Schoolmaster, Snake Valley, Carngham, Victoria.  
 Jones, Thomas Elias, Snake Valley.

## BAD UCHAF.

*Evans, Posthumous, Dosparthwr*  
 Cosslett, Cosslett (Carn Elian)  
 Davies, William  
 Edmunds, Daniel, Nantgarw  
 Edwards, Miss Mary  
 James, John E. (Ioan Eiddil)  
 Jones, John  
 Lewis, Thomas, Nantgarw  
 Phillips, David

Phillips, John, Gwaelod y Garth  
 Thomas, Richard  
 Thomas, Thomas, Ty'n y Wern  
 Williams, Abraham (Elianwyson)  
 Williams, Ifor  
 Williams, Isaac  
 Williams, John

## BETTWS.

*Abraham, Rhys, Dosparthwr*  
 Butler, William, Bettws  
 Davies, John (1), do.  
 Davies, John (2), do.  
 Davies, William, do.  
 Evans, John, do.  
 Job, David, do.  
 Jones, William, do.  
 Lewis, Thomas  
 Phillips, Phillip  
 Price, Thomas  
 Richard, David  
 Richard, Mary  
 Walters, John  
 Waters, David  
 Williams, Evan

## BLAENLLECHAU.

Jones, Thomas, Esq., (Gwenffrwd Gwent), Colliery Manager, Ferndale Colliery  
 BRYNAMAN.

*Evans, William E. (Wil o'r Mynydd), Dyffryn Clwyd, Brynaman, Dosparthwr*  
 Daniel, Richard (Gwydderig), Brynaman  
 Davies, Daniel, Gwaun Leision  
 Davies, David, Gwauncaegurwen  
 Davies, John do.  
 Davies, William Morgan, do.  
 Edmunds, George, Schoolmaster, do.  
 Evans, Benjamin, Colliery Manager, Cwmgors  
 Evans, David, Cashier, Gwauncaegurwen  
 Evans, Josuah, Blacksmith, do.  
 Evans, Rees, Cwmbach  
 Evans, William (Gwilym Curwen), Cwmaman  
 Gwilym Glan Fferws, Cross Inn  
 Harris, Henry, Bettws  
 Howells, David, Gwauncaegurwen  
 James, Benjamin, do.  
 James, David (Dewi Iago), do.  
 James, John (Ioan Curwen), do.  
 Jenkins, John, Blue Cottage, do.  
 Jones, Thomas Daniel, Penhow, do.  
 Lewis, David, Bettws  
 Meredith, David, Manager, Gwauncaegurwen  
 Morgan, David, Maerdy do.  
 Morgan, Thomas do.  
 Moses, D. L., Post Office, Brynaman  
 Prichard, —, Surveyor  
 Rees, David, Abernant Brewery, Cwmgors  
 Rees, Evan, Gwauncaegurwen  
 Rees, Phillip, do.  
 Rees, John Thomas, Woollen Factory, do.  
 Thomas, David, Llanrhidiiau Colliery, do.

Thomas, David, New Star, Cwmgors  
 Thomas, John, Mountpleasant, Gwaencaeaurwen  
 Thomas, Thomas, Cwmndrysiem, do.  
 Wateyn Wyn, Brynmanan  
 Williams, Gwilym, Gwrhyd

## BRYNMENYN.

*Thomas, Thomas H., (Dyryslwyn), Dosparthwr*  
 Davies, David (1)  
 Davies, David (2)  
 David, William  
 Evans, William  
 Jarret, John  
 John, Christopher  
 John, Thomas  
 Joseph, Edward  
 Morgan, Evan  
 Morgan, Thomas  
 Thomas, John  
 Watkins, Rees (Cadwaladr), New Zealand  
 Watkins, Thomas  
 Walters, William  
 Williams, Evan

## BIRKENHEAD.

Bees, Griffith, Tax Collector

## CAERDYDD.

*Frost, Dr. W. F., Bellevue House, Tredegarville, Dosparthwr*  
 Atkins, John (Ieuan Ddu), Stanford-on-Avon  
 Gedrych, John, Cardiff  
 Howells, Rev. D. (Llawdden), Vicar, Cardiff  
 Price, Joseph, Victoria, Australia  
 Price, William do.  
 Richards, James, Postmaster, Treforest  
 Thomas, —, The Grove, Wenvoe  
 Thomas, Rev. J. C., Vicar, Bryncoch, Neath

Evans, David, Loudown Place, Cardiff

## CAERNARFON.

Roberts, Rev. John (Ieuan Gwylt), Fron, Caernarvon

## CASTELL NEDD.

Williams, John, Bookseller, 86 copies

## CLYDACH.

Griffiths, William, Bookseller, 6 copies

## CWM AFAN.

*Jones, William, 24, Davies Row, Cwmavan, Dosparthwr*  
 Davies, William T., Copperman do.  
 Evans, William, Collier do.  
 James, John, Copperman do.  
 Lewis, William J., do. do.  
 Lloyd, Thomas (Llwydfab), do. do.  
 Morgans, Samuel, do. do.  
 Owen, Evan, do. do.  
 Owen, John, Roller do.  
 Richards, William, Copperman do.  
 Roberts, David do. do.  
 Vaughan, John, Mason do.

Williams, James, Copperman, Cwmafan  
Woolcock, ———, do. do.

*Morgan, Thomas (Trebwr Afan), 20, Somerset place, Cwmafan, Dosparthwr*  
Davies, Samuel, Shearer, Cwmafan  
Davies, William, Engineman, do.  
Davies, William, Tin Roller, do.  
Hopkins, Joseph, Roll Turner, do.  
Jenkins, Evan, Doubler, do.  
Jenkins, Jenkin, Cross row, do.  
Lewis, Robert, Tin Roller, do.  
Mainwaring, John, Washman, do.  
Michael, David (Dewi Afan), do.  
Morgan, David, Aberafan  
Rees, William, Chemical Works, Cwmafan  
Richards, Thomas, London row, do.  
Thomas, Evan, Doubler, do.

Griffiths & Sons, Publishers, do., 6 copies

CWM FELIN.

Rees, Rev. J., Curate, Cwmfelin, Troedyrhiw, Merthyr, 2 copies

CWM TWRCH.

*Gwilym, William John (Alaw Llynfell), Dosparthwr*  
Daniel, William, Dderi, Cwmtwrch  
Davies, John, Cwmllynfell  
Edwards, Thomas T., Rhiwfawr  
Hopkins, D. G., (Dewi Glan Twrch), Cwmtwrch  
Morgan, William do.  
Rees, Ebenezer do.  
Roberts, Thomas do.  
Samuel, John, Cwmllynfell do.  
Thomas, D., Gwys do.  
Thomas, John, Cwmllynfell do.  
Williams, Evan (Ieuan Glan Twrch) do.  
Williams, John do.  
Williams, William, Ddolgam do.

CYMMER, CWM RHONDDA.

*Edwards, Edward (Trodynfab), Troedyrhiw, Cymmer, Dosparthwr*  
Davies, David Peleg, Troedyrhiw, Cymmer  
Llewellyn, Thomas, do.  
Morgan, Edward, Engineman, Ynyshir Colliery, do.  
Rees, David, do.  
Rees, David, junior, do.  
Thomas, John, Tafarn Isaf, do.  
Williams, David, do.

DINAS, PONTYPRIDD.

Williams, Ismael, Stamp Office, 12 copies

DINAS POWYS.

*Dewi Wyn o Essyllt, Dosparthwr*  
Edwards, David, Dinas Powys  
John, Edwin, do.  
Miller, John, do.  
Rees, Richard, do.

## DOWLAIS.

Evans, Daniel, Coedcae Cottage, 20 Houses, Dowlais

*Evans, Mrs. E., 23, Mary Ann street, Dosparthwraig*

Argust, Ivor, Dowlais

Argust, Richard, do.

Davies, Daniel, do.

Davies, John, do.

Evans, David, do.

Evans, Thomas, do.

Price, Rees, do.

Rosser, William, do.

Rummins, Samuel, do.

Samuel, David, do.

Williams, William, do.

*Richards, David (Gwernfab), 40, Alma st., Dosparthwr*

Davies, Thomas, Miner, Dowlais

Evans, Thomas, Grocer, do.

Jones, David, Carpenter, do.

Morgans, Rosser, Tea Dealer, do.

Owen, William (Ab Brutus), do.

Thomas, David, Engineman, do.

Thomas, Thomas, Collier, do.

Williams, Griffith, Puddler, do.

Williams, Morgan, Collier, do.

## FOCHRIW.

*Evans, Thomas, Colliery Manager, Dosparthwr*

Cole, James, Collier, Fochriw

Davies, Benjamin, do.

Davies, David, Engineman, do.

Davies, Mrs. Elizabeth, Dowlais

Davies, Henry, Blocklayer, Fochriw

Davies, John, Overman, do.

Davies, Thomas, Overman, Bargoed Colliery

Edwards, Edward, Colliery Manager, Dowlais

Evans, Daniel, Collier, Fochriw

Evans, Lewis, Farmer, Penybanc, Gelligaer

Evans, Taliesin, Esq., Mary st., Twynrodyn, Merthyr

Evans, Theophilus, Horse Inspector, Fochriw

Evans, Thomas, Carpenter, do.

Evans, Thomas, Overman, do.

Evans, William, Collier, do.

Evans, William do. do.

Francis, John do. do.

Griffiths, William, do., Deri

James, Thomas, Fireman, Fochriw

James, Thomas, Foreman Engineman, Maesteg

Jenkins, John, Collier, Brithdir

Jenkins, Thomas, Collier, Fochriw

Jones, Aneurin, Horse Inspector, Fochriw

Jones, Daniel, Collier, Deri

Jones, John, Collier, Deri

Jones, John, Collier, Fochriw

Jones, Thomas, Fireman, Fochriw

Jones, Thomas, Overman, do.

Jones, W. R., Esq., Cefnoedycymmer, Merthyr

Lewis, John, Foreman Carpenters, Dowlais



Llewellyn, Thomas, Engineman, Fochriw  
 Morgan, Edward, Traffic Manager, Dowlais  
 Morgan, John, Fireman, Fochriw  
 Owen, Jeremiah, do.  
 Shankland, Henry, Overman, do.  
 Thomas, Thomas, Collier, Brithdir  
 Williams, Theophilus, Fireman, Fochriw

## GILFACH GOCH.

*Jones, David (Dafydd o Went), Dosparthwr*  
 Benjamin, Thomas, Cynfelyn, Gilfachgoch  
 Boneel, Isaac, do.  
 Daniel, David, do.  
 Davies, David, do.  
 Davies, John (Ioan Heulog), do.  
 Davies, John, do.  
 Davies, Thomas, 1af, do.  
 Davies, Thomas, 2il, do.  
 Davies, Thomas, 3ydd, do.  
 Davies, William, do.  
 Edmunds, Richard, do.  
 Edmunds, Robert, do.  
 Edwards, John, do.  
 Evans, James, do.  
 Evans, Jenkin, do.  
 Evans, John, do.  
 Evans, Robert, do.  
 Foster, Evan, do.  
 Howells, William, do.  
 Hughes, Joseph, do.  
 Hughes, S. do.  
 Jenkins, Evan, do.  
 Jenkins, John, (Ioan Cribwr), do.  
 Jenkins, John, do.  
 Jenkins, Richard, do.  
 John, Joseph, do.  
 Jones, Isaac, Ystrad  
 Jones, Thomas, 8 copies, Gilfach Goch  
 Meyrick, David, do.  
 Morgan, David, do.  
 Owen, John, T. do.  
 Pearce, John, do.  
 Price, Daniel, do.  
 Price, Richard (Rhedynog), do.  
 Pugh, Hugh, do.  
 Rees, John, do.  
 Rees, Morgan, do.  
 Rowlands, Henry, do.  
 Thomas, Evan, do.  
 Thomas, Frederick, do.  
 Thomas, James, do.  
 Weeks, Evan, do.  
 Williams, Charles, do.  
 Williams, Jeremiah, do.  
 Williams, John, do.  
 Williams, Thomas, do.

## GLANDWR.

Williams, W., Bookseller, Wern House, 6 copies

## GLYN NEDD.

*Williams, Rev. Jenkin, Dosparthwr*  
 Bevan, Richard, Penrhiw Glyn Neath  
 Davies, Solomon, Blaenllumby, do.  
 Evans, David, Cwmgwrach, do.  
 Evans, David, Maesymarchog, do.  
 Jenkins, Henry, Fforch Goch  
 Jones, John, Glyn Rosser  
 Jones, Thomas, Pont Walby  
 Lewis, Lewis J. Hirwain  
 Morgana, Thomas, Pont Nedd Fechan  
 Morris, Caleb, Blaenclaiach  
 Perkin, Ioan Hirwain  
 Rogers, William, Ty Melyn  
 Thomas, Thomas, Glyn Rosser

*Williams, John (Dyffrynfab), deceased, Dosparthwr, 10 copies*

## HEREFORD.

Parry, Robert (Robyn Ddu Eryri), Venn Wood Cottage, Marden, Hereford

## HIRWAIN.

*Beynon, David, Cashier, Cefn Merthyr Colliery, Dosparthwr*  
 Beynon, David, Cyfarthfa, Merthyr  
 Beynon, Ebenezer, America  
 Evans, E. Merthyr  
 Evans, Thomas, Colliery Manager, Hirwain.  
 James, W. H. Hirwain  
 Jones, Joseph, Dowlais  
 Lewis, Thomas, Hirwain  
 Llewellyn, Richard, do.  
 Morgans, Morgan, do.  
 Roberts, John, Cyfarthfa Office, Merthyr  
 Williams, Morgan, Twynnyrody, do.

*Drew, Thomas, Dosparthwr, Hirwain*  
 Bevan, John, Collier, Hirwain  
 Davies, William, Traffic Manager, do.  
 Evans, Isaac Thomas, do.  
 Griffiths, William, Collier, do.  
 Griffiths, William, Fireman, do.  
 James, David, Collier, do.  
 Jones, David, Collier, do.  
 Morris, Richard, Engineman, do.  
 Thomas, John, Collier, do.  
 Williams, William, Blacksmith, do.

*Lewis, David J., Dosparthwr*  
 Bevan, Rees, do.  
 Bryant, Evan, do.  
 Davies, Ferdinand, do.  
 Davies, Lewis, Llwydcoed  
 Davies, Thomas, Nailor, Hirwain  
 Davies, Thomas, Collier, do.  
 Evans, John, Collier, do.  
 Griffiths, John, do.  
 Havard, Llewellyn, do.  
 James, James, do.  
 Jenkins, Robert, do.

John, G. W., Grocer, Hirwain  
 Jones, Daniel, do.  
 Jones, Evan, do.  
 Jones, Isaac, do.  
 Jones, John, do.  
 Jones, Morgan, do.  
 Jones, Thomas, Brickmaker, do.  
 Lewis, Benjamin, do.  
 Lewis, Hopkin, do.  
 Lewis, Lewis, do.  
 Lewis, William, do.  
 Morgan, Thomas, Bryncethin, do.  
 Morris, David, do.  
 Powell, Thomas, do.  
 Price, Thomas, do.  
 Rees, Thomas, do.  
 Richards, Edmund, do.  
 Richards, Llewellyn, do.  
 Richards, James, do.  
 Richards, W. E., do.  
 Roberts, Thomas, do.  
 Stanford, John, do.  
 Thomas, John, do.  
 Williams, David, do.  
 Williams, Phillip, do.

*Thomas, Mary, Dosparthwaig, Hirwain*

Davies, D. S., do.  
 Davies, Evan, Shoe Maker.  
 Downy, Francis, do.  
 Jenkins, Lewis, 74, High st., do.  
 Jones, Bosser, do.  
 Lewis, W. L., do.  
 Lewis, W. T., do.  
 Lewis, W. W., do.  
 Lloyd, Thomas, do.  
 Richards, John, do.  
 Voss, Margaret, do.  
 Watkin, David, Red Cow, do.

*Thomas, Thomas, Risca, Dosparthwr, Hirwain*

Bevan, David, do.  
 Davies, Daniel, 1, do.  
 Davies, Daniel, 2, do.  
 Davies, David, do.  
 Davies, David Daniel, do.  
 Davies, David Isaac, do.  
 Richards, Thomas, Collier, do.  
 Rowlands, James T. do.  
 Thomas, John Thomas, do.

*William Thomas, Weigher, Dosparthwr, Hirwain*

Davies, Thomas, Hair Dresser, Dowlais  
 Evans, John (Eos Myrddin), do.  
 Jones, David, Collier, do.  
 Jones, Mrs. Margaret, Bevan Terrace, Hirwain  
 Scourfield, John, Dowlais.  
 Thomas, Thomas (Eos Ifor), do.  
 Williams, John, do.  
 Watkins, Walter, do.

*Young, Thomas, Engineman, Dosparthur, Hirwain*  
*Evans, Jenkin, do.*  
*Young, John, do.*

## COPIAU UNIGOL.

*Davies, William, Coal dresser, Hirwain*  
*Jones, Thomas, Cashier, do.*  
*Lewis, David Samuel, do.*  
*Phillips, John, Contractor, do.*  
*Powell, David, Engineman, do.*  
*Richards, D. M. (Haminiog), do.*  
*Thomas, Thomas, G. W. R. Station, do.*  
*Watkin, William, do.*  
*Williams, David, Builder, do.*

## LALESTON.

*Powell, T. (Llawles), Dosparthur*  
*Howell, Jenkin*  
*John, David, Laleston*  
*Jones, Thomas, do.*  
*Morris, William, Coetty*  
*Rees, John, Laleston*  
*Thomas, Edward, Coetty*

*Williams, Gwilym, Dosparthur*  
*David, Rees, Laleston*  
*Edwards, Richard, do.*  
*Jenkins, Morgan, do.*  
*John, Rees, do.*  
*Jones, John, do.*  
*Powell, John, do.*  
*Thomas, John, do.*  
*Rees, William, do.*  
*Thomas, Lewis, Cefn*  
*Thomas, Rees, do.*  
*Thomas, William, do.*  
*Wylde, Thomas, Laleston*

## LIVERPOOL.

*Jones, N. M. (Cymro Gwyllt), 84, Union st., dosparthur*  
*Hughes, John, Marine Engineer, Liverpool*  
*Morgan, John, " " "*  
*Rees, James, Emigration Agent, do. "*  
*Williams, Thomas, Mersey Steel Works, do.*

## LLANEDI.

*Jenkins, J. E. (Creidiol), Curate, Llanedy, Llanelly*

## LLANELLI.

*Rees, W. T. (Alaw Ddn), Stepney Place, Llanelly*  
*Richards, Daniel (Calfn), " " "*

## LLANFABON.

*Thomas, W. (Glanffrwd), Brynlefrith House*

## LLANSAMLET.

*Jones, Rev. T. H. Dosparthur, Llansamlet*  
*Clement, David, do.*  
*Davies, David, do.*  
*Griffiths, John, do.*  
*Harries, William, do.*  
*Jenkins, Thomas, do.*

Jones, David D., Llansamlet  
 Jones, John, do.  
 Lewis, Lewis, do.  
 Phillips, David, do.  
 Rosser, John, do.  
 Rosser, Rees, do.  
 Thomas, Rosser, do.  
 Walters, John, do.

*Thomas, A. H. (Crymlun), Dosparthwr*

Davies, Daniel R., do.  
 Edwards, Edward, do.  
 Griffiths, Samuel, do.  
 Jenkins, D. W., do.  
 Maddock, Evan, do.  
 Thomas, Benjamin, do.  
 Thomas, H. H. do.  
 Thomas, J. Daniel, do.

*Rosser, William, Bookseller, Fozhole, Llansamlet*

|                                   |     |
|-----------------------------------|-----|
| Daniel, William D., Trallwm       | do. |
| David, Thomas J. do.              | do. |
| David, William J., Ffynnon Samled | do. |
| Jones, Arthur D., Bonymaen        | do. |
| Jordan, W. W., Talchopa           | do. |
| Leyshon, John J., Cefn            | do. |
| Phillips, Evan, Pentre'r Dwr      | do. |
| Rosser, W. T.                     | do. |
| Thomas, John T., Penielgreen      | do. |
| Thomas, E. Thomas, Tir Sam        | do. |
| Williams, John W., Cefn           | do. |

*Morgan, Lewis, Cefn Bonymaen, Llansamlet, Dosparthwr*

Davies, David, Llansamlet  
 Morgan, David, do.  
 Poley, David, do.  
 Richards, Henry, do.  
 Thomas, William (1), do.  
 Thomas, William (2), do.  
 Williams, John, do.

LLANTRISANT.

Slade, J. D., Chemist & Bookseller, 8 copies

LLANYSTUMDWY.

Jones, John (Myrddin), Llanystumdwy, Carnarvonshire

MELIN IFAN DDU.

*Thomas, Edward, 2, Ivor Terrace, Black Mill, Dosparthwr*

Collier, John, Grocer, Brynmenyn  
 Edwards, Joseph W., Park Lane, Llandeilo  
 Griffiths, Thomas, Woollen Factory, Black Mill  
 Griffiths, William, Bootmaker do.  
 Jenkins, Rev. Hopkin, Farran do.  
 Jenkins, Lewis, Builder do.  
 Jeremy, Thomas, Ivor Terrace, Black Mill  
 John, Gwilym, Buarthau do.  
 Jones, David H., Tailor do.  
 Lewis, George, Tanygraig do.

Lewis, Thomas, Taillwydion, near Neath  
 Llewellyn, Mrs. Sophia, Lit street, Maesteg  
 Morgan, Evan, Old Shop, Black Mill  
 Morgan, Thomas, Grocer do.  
 Thomas, Miss Margaret, Ogmores Junction, do.  
 Thomas, Moses, Garth road, Maesteg  
 Williams, Howell, Bryncoethin Farm, near Bridgend  
 Williams, Jenkin, Maerdy Farm  
 Williams, Thomas T., Chapel House, Black Mill

## MAESYCWMMER.

Davies, D. S., Esq., Brynhyfryd, Maesywmmmer

## MERTHYR TYDFIL.

*Abraham, William (Abram Fardd), 86, Nantygwenith street, Dosparthwr*  
 Abraham, David, Penheolgerrig, Merthyr  
 Bevan, John Rees, Brecon road do.  
 Beynon, William, Pleasant View do.  
 Davies, David, Grocer, Glebeland do.  
 Davies, David, Pleasant View do.  
 Davies, John, Wasteman, Upper Colliers' row, do.  
 Davies, William, Colliery Manager, Coedcae Colliery  
 Edwards, Job, Tranoebach, Merthyr  
 Hughes, John Elias (Llwcharian), do.  
 Hughes, William, Old Holly Bush, do.  
 James, Rev. O. Waldo, do.  
 James, John, Lampman, Gethin, do.  
 James, William, Wasteman, Cefnocoedycymmer, do.  
 Jehu, Thomas, Morgan Town, do.  
 Jenkins, Thomas, Upper Colliers' row, do.  
 John, David, Overman, Ynysfach, do.  
 Jones, David, Cabinet Maker, Treorky  
 Jones, David, Caebryant, Merthyr  
 Jones, Edward (Iorwerth Tydfil), Penydarren, do.  
 Jones, George, Dynevor street, do.  
 Kirkhouse, Bedlington. Manager, Cyfarthfa, do.  
 Kirkhouse, Rev. Howell, Vicarage, Cyfarthfa, do.  
 Lewis, David, Cwmglo, do.  
 Lewis, Elias, do.  
 Lewis, Richard, Cwmglo, do.  
 Lewis, Thomas, Upper Colliers' row, do.  
 Morgan, Evan, Morgan Town, do.  
 Morgan, Lewis (Morgrugyn Morganwg), Pleasant View  
 Owen, Evan, Furnace Manager, Cyfarthfa  
 Rees, John, Weigher, Twynyrodyn  
 Rees, William, Cwmglo  
 Roberts, Lewis, Brecon road, Merthyr  
 Thomas, Benjamin. Penheolgerrig  
 Thomas, David, Manager, Werfa Colliery  
 Thomas, James, Sunny Bank, Merthyr  
 Watkins, Howell, Yard Overman, Ynysfach, do.  
 Watkins, Thomas, Pleasant View, do.  
 Williams, Lewis, Wern, do.  
 Williams, Morgau Rees (Asaph Cwm Ffrwd), Cefn, do.  
 Williams, William, Farmer, Blaencanaid Farm, do.

*Jones, D. W. (Llwchaiarn), Dosparthwr. Merthyr*  
 Hatton, William, William street, do.  
 Jordan, ———, Weigher, do.

Lewis, Lewis Phillip, Contractor, Abercanaid, Merthyr  
 Lewis, Phillip, Abercanaid, do.  
 Lewis, William P., Abercanaid, do.  
 Reynolds, Rees, Colliery Manager, Dyffryn, do.  
 Thomas, Isaac, Abercanaid, do.

Lewis, Rees, Bookseller, "Y Felten" Office, 9 copies

*Thomas, John, 10, David st., Morgan Town, Dosparthwr*  
 Beynon, Dd., 2, Plantation square, Troedyrhiw, Merthyr  
 Davies, David, 28, Yew street do. do.  
 Davies, Morgan, 9, Sand street, Morgan Town do.  
 Davies, Rev. William, Vicar, Penyardren, Merthyr  
 Dyer, William, 10, Gethin st., Abercanaid, do.  
 Edwards, Isaac, 27, William Town Pantywyll, do.  
 Ellis, David, 4, Garth st., Morgan Town, do.  
 Evans, Christmas, Penheolgerrig, do.  
 Evans, J. R. (Ioan Egwest), Printer, do.  
 Griffiths, Richard, Fountain Inn, do.  
 Humphreys, Benjamin, 108, Brecon Road, do.  
 Jenkins, Gwilym, Plasterer, Cefn, do.  
 Jenkins, Thomas, 5, Church st., Pentrebach, do.  
 Jenkins, Thomas, 6, Morgan st., Grawen Terrace, do.  
 Jones, David, Printer, 85, Penyardren Road, do.  
 Jones, David, 86, Walter st., Dowlais  
 Jones, John T. (Shon o Ferthyr), Merthyr  
 Jones, Rees, 9, George st., George Town, do.  
 Lewis, Richard, 9, Brewery street, Bryants Field, do.  
 Rees, Thomas, 26, Gillar street, do.  
 Richards, James, 127, High street, Penyardren, do.  
 Roderick, David, 37, Tramroad side North, do.  
 Samuel, Morgan, Draper, High street, do.  
 Thomas, Benjamin, Weaver, 86, Pontmorlais street, do.  
 Thomas, Thomas, Ironmonger, High street, do.  
 Vaughan, John, 18, Newcastle street, do.  
 Watkins, Howell, 87, Gethin street, Abercanaid, do.  
 Williams, David, 19, Bridge street, Troedyrhiw, do.  
 Williams, David, 105, Tydfil's Well, do.  
 Williams, Watkin, 6, Vaughan's Houses, Tramroad, do.

*Evans, Howell (Hywel Morganwg), Heolgerrig, dosparthwr*  
 Daniel, John, Taspwllwyth, Merthyr  
 Davies, David, Clwydyfagwyr, do.  
 Davies, John Arthur, Heolgerrig, do.  
 Griffiths, Edward Paul, Heolgerrig, do.  
 Howells, William, Blaennant, do.  
 Jones, Robert, Heolgerrig, Merthyr  
 Rees, John, Cefncoedycymer, do.

*Griffiths, Robert (Trebwr Tydfil), Heolgerrig, dosparthwr.*  
 Beynon, David, Heolgerrig, Merthyr  
 Davies, Rees, Heolgerrig, do.  
 Edmunds, Thomas, Heolgerrig, do.  
 Evans, David, Darlwm  
 Evans, Griffith  
 Griffiths, Benjamin (Gruffyth Emlyn)  
 Griffiths, Lewis  
 Griffiths, Thomas  
 Hatton, Henry

Jones, David  
 Jones, Evan  
 Jones, Morgan  
 Morgan, William  
 Peter, Lawrence  
 Pugh, Lewis  
 Watkins, John  
 Williams, Watkin

Williams, Joseph, Printer, "Tyst a'r Dydd" Office, 4 copies

*Williams, John, 167, Plymouth street, dosparthwr*  
 Davies, William, Collier, Plymouth street, Merthyr  
 Edwards, Samuel, Foreman Engineers, Penydarren, do.  
 Hughes, Griffith David, Collier, Gellideg, do.  
 James, Daniel, Collier, Iron Lane, Georgetown, do.  
 James, Margaret, Cuba Inn, Dowlais, do.  
 Jones, Benjamin, Collier, Glyndyrys, do.  
 Jones, Daniel, Collier, William street, do.  
 Jones, David, Collier, Cefn, 2 copies, do.  
 Jones, Samuel, Fireman, Cefn, do.  
 Jones, William, Blacksmith, Penydarren, do.  
 Jones, William, Collier, Cefnoedycymmer, do.  
 Jones, William, Collier, Mount Pleasant, Georgetown, do.  
 Lewis, Morgan, Mason, Plymouth street, do.  
 Morgan Samuel, Collier, Cefn, 2 copies, do.  
 Morris, John, Collier, Twynyrodyn, do.  
 Phillips, Samuel, Collier, Gilfachgoch  
 Powell, Benjamin, Signalman, G.W.R., Merthyr  
 Rees, Griffith, Iron Worker, do.  
 Rees, Rees, Collier, Bethesda street, do.  
 Richards, John, Collier, Cefn, do.  
 Richards, Joseph, Plymouth street, do.  
 Roberts, Evan, Accountant, 18, Thomas street, do.  
 Thomas, Rev. Basset, Thomas Town, do.  
 Thomas, William, Clerk, Morgan Town, do.  
 Webber, John, Collier, Gellideg, do.  
 Williams, Richard, Engineman, Twynyrodyn, do.

*Jones, John Watkin, Dosparthwr, Merthyr*  
 Beynon, Rosser (Asaph Glan Taf)  
 Davies, Morgan, Wellington street  
 Evans, Rees, Commercial Traveller, Alma Terrace  
 Jenkins, Thomas  
 Jones, J. T. Tailor, & Co., Lower Thomas street  
 Jones, Morgan (Morgan Morganwg)  
 Lloyd, Thomas, Schoolmaster  
 Matthews, Edward, Weaver, 87, Pontmorlais  
 Maurice, Elias, Tailor & Draper, Glebeland  
 Morgan, John, Coal Merchant  
 Owen, William, Engineman, Lower Thomas street  
 Reynolds, Jonathan (Nathan Dyfed)  
 Reynolds, Llywarch, B.A., Mill street  
 Wilkins, Charles, Postmaster  
 Williams, Herbert, Alma Terrace

#### MORRISTON.

Roberts, R. Bookseller, 12 copies



## MOUNTAIN ASH.

*Rees, John (Mac Hydref), 19, Allen street, Dosparthwr*  
 Coleman, D. E. (Eos Hefin), Mountain Ash  
 Davies, John, Cynon street, do.  
 Davies, Robert, Baenllechau  
 Davies, Thomas, High street, Mountain Ash  
 Edwards, Thomas (Iorwerth Goch), do.  
 Evans, John, Butcher, Price street, do.  
 Evans, Joshua, Manager, Lower Duffryn Colliery, do.  
 Griffiths, Griffith, Henry street, do.  
 Harry, William, Dover street, do.  
 Hopkin, William, Bruce street, do.  
 Jones, Thomas, Woodland street, do.  
 Lewis, Lewis, Jeffrey's street, do.  
 Lewis, Richard, Craig street, do.  
 Lewis, W. T., Clerk, Navigation Colliery, do.  
 Llewellyn, Thomas D. (Llywelyn Alaw), do.  
 Morgan, Iscael, Knight street, do.  
 Morgan, William, Craig street, do.  
 Morris, William, Craig street, do.  
 Phillips, Thomas, Margrave Terrace, do.  
 Phillips, William, Bruce street, do.  
 Rees, Evan, Rock street, do.  
 Richards, Seth, Craig street, do.  
 Stephens, William, Woodland street, do.  
 Thomas, William, Oxford street, do.  
 Thomas, William, Tailor, Commercial street, do.  
 Thomas, William, High street, do.  
 Walters, Griffith, Phillip street, do.  
 Williams, Henry, Craig street, do.  
 Williams, William, Caradog street, do.

## MYNYDD CENFFIG.

*Jenkins, Morgan (Cynffigwyson), Dosparthwr*  
 Jenkins, John, junior, Elim Chapel, Kenfig Hill  
 Jenkins, Thomas, Crown road do.  
 Lewis, David do.  
 Lewis, George, New road do.  
 Powell, Thomas, Mason do.  
 Powell, William do.  
 Roberts, Richard, Blacksmith, Bryndu do.  
 Rosser, Evan do.  
 Thomas, John, Pitman, Bryndu Colliery, do.

## NELSON VILLAGE.

Morgan, Daniel (Daniel ab Gwilym)

## PENCARREG.

James, Price, Tailor, Pencarreg, Llanybyther, Carm.

## PENCOED.

Howells, John, Esq., (Bardd Coch), Pencoed

*Treharne, Treharne (Cymro Coch), Ceridwen Cottage, Pencoed, Dosparthwr*  
 David, William, Pencoed  
 Edwards, Thomas, Penprysg  
 Evans, Jenkin, Pencoed

Griffiths, William, Maesyfelin Fach, Pencoeed  
 James, ———, Schoolmaster do.  
 Jenkins, Thomas, Llwyn Ffrwd do.  
 Jones, Rev. Edward T. do.  
 Jones, Mathew do.  
 Lewis, Evan do.  
 Leyshon, Jenkin do.  
 Leyshon, John do.  
 Rees, Edmund do.  
 Richards, Elizabeth, Melin y Gantref, Llanilid  
 Samuel, Daniel, Hendir Isaf  
 Thomas, David, Penpryag  
 Thomas, Thomas, do.  
 Williams, Evan, Pencoeed  
 Williams, Thomas, Eglwys Fair

## PENDYRY'S (RHONDDA FACH).

*Williams, James, Cashier, Dosparthur*  
 Francis, Thomas, Pencoeed  
 Griffiths, William, do.

## PENGAM.

*Waters, William (Medyr y Glan Elyrch), Pengam, Maesywmmmer, Dosparthur*  
 Davies, Edward (I. Glan Elyroh), Trelyn  
 Davies, Lemuel, Pengam  
 Davies, John, Gelligaer  
 Davies, William, do.  
 Dennis, Thomas (Elyrchwyson), Trelyn  
 Francis, Thomas, Gelligaer  
 Howells, John, Pengam  
 Jenkins, William, Bargoed  
 Jones, David, Cwm yr Allt, Gelligaer  
 Jones, David, Pengam  
 Jones, Ebenezer, Gelligaer  
 Jones, John, Pengam  
 Llewellyn, Thomas, Trelyn  
 Morce, Thomas, Pengam  
 Morgan, John, Trelyn  
 Parry, William, Pengam  
 Pascoe, Thomas, Fleur-de-lis  
 Rees, William, Cwm yr Allt, Gelligaer  
 Rees, William do.  
 Williams, Thomas, Coed Duon  
 Williams, William, Fleur-de-lis

## PENTRE, YSTRAD RHONDDA.

*Roderick, Daniel (Morleisfryn), 4, Stone row, Dosparthur*  
 Evans, John  
 Gethin, Thomas  
 Hill, John  
 Howells, William (Gwilym Ddu Glan Ewyn)  
 Rosser, Thomas

*Matthews, Thomas, Dosparthur*  
 Jones, David, Ton  
 Matthews, Morgan, do.  
 Matthews, Richard, do.  
 Price, John, do., 2 copies

## PENYBONT-ABOGWY.

*Jones, Griffith (Aneurin), Dosparthwr, Penybont*  
 Bowen, Rev. W. P., Kenfig Hill  
 David, Gwilym, do.  
 David, Thomas, Grocer, Cefncribwr  
 David, William, Bridgend  
 Davies, David, Weigher, Kenfig Hill  
 Davies, John, Police Officer, Bridgend  
 Evans, David, Llangewydd  
 Evans, John, Printer, Bridgend  
 Evans, Rev. John, Llanallgo Rectory, N. Wales  
 Evans, John, Prince of Wales, Kenfig Hill  
 Hopkins, Frederick, do.  
 Howells, Thomas, Longlands, Pyle  
 Jenkins, Rees, Engineman, Kenfig Hill  
 Jenkins, William, Aberkenfig  
 Jones, Rev. Griffith, Cefncribwr  
 Jones, Rev. John Bowen, B.A., Aberhonddu  
 Lewis, Miss Ada, Pyle Inn, Pyle  
 Llewellyn, Rees, Kenfig Hill  
 Rees, Morgan, Postmaster, Pyle  
 Rees, Rees, Post Office, do.  
 Richards, William (Gomer Bach), Bridgend  
 Roberts, John (Alawydd), Cefncribwr  
 Stenner, Charles, Cefncribwr  
 Williams, Thomas, Grocer, Kenfig Hill

## PENYFAI, NEAR BRIDGEND.

*Jones, William, Ty'n y Waun, Dosparthwr*  
 David, Evan, Penyfaï  
 David, Hopkin, Coetty  
 David, Thomas, do.  
 David, William, do.  
 John, John, Fforddygyfraith  
 John, Lewis, Coetty  
 Leyshon, John, do.  
 Morgan, John, Penyfaï  
 Rees, Morgan, Coetty  
 Rees, Owen, Penyfaï  
 Rees, William, Coetty  
 Stradling, David, do.  
 Thomas, Evan, Fforddygyfraith  
 Thomas, Jehu, do.  
 Thomas, Thomas, Penyfaï  
 Thomas, William, do.  
 Williams, Charles, do.  
 Williams, Jehu, do.  
 Williams, John, do.  
 Williams, Richard, do.

## PONTARDAWE:

*Williams, W. Tawenfryn, Dosparthwr*  
 Anthony, David, Alltwen  
 Bowen, William, Fforest Goch  
 Hinkin, James (Telorfab), Alltwen  
 Jones, John Owen, do.  
 Jones, John, Weaver, Ynysymendwy

Lewis, Jacob, Primrose Row, Alltwn  
 Mainwaring, John (Panther), Ynysmeudwy  
 Morgan, Rees, Alltwn  
 Rees, Jeremiah, Boot & Shoe Maker, Pontardawe  
 Thomas, John, Mill, do  
 Walters, Richard, Craig, Llangiwi  
 William, Thomas (Glan Llechau), Alltwn  
 Young, John, do.

## PONTLLANFRAITH.

Williams, Edmund, 2 copies

## PONTYPRIDD.

Davies, D. (Dewi Alaw), "Y Gerddorfa Office," 8 copies.

## RHIGOS.

*Griffiths, Thomas, Fitter, Dosparthwr*  
 Edwards, William, Rhigos  
 Evans, David, Hirwain  
 Griffiths, John, Rhigos  
 Griffiths, John, Cwmdar  
 Howells, Thomas, Rhigos  
 James, Ebenezer, do.  
 Jones, Jenkin, do.  
 Jones, Rees, do.  
 Morgan, Evan, do.  
 Morgan, Morgan, do.  
 Morgan, W. T. (Gwilym Alaw), do.  
 Powell, Morgan, do.  
 Rees, Rees, do.  
 Rees, Richard, do.  
 Rees, William, do.  
 Richards, David, do.  
 Rowlands, John, do.  
 Williams, Thomas, do.  
 Williams, William, do.

## RESOLFEN, CWM NEDD.

*Williams, John, Colliery Manager, Ynysarwed House, Dosparthwr*  
 Bowen, William, Melin Court  
 Davies, John, Erw'r Coed, Ynysarwed  
 Evans, David, Resolven  
 Griffiths, Thomas, Melin Court  
 Hrarison, Morgan, Resolven  
 Herbert, Daniel, do.  
 Hopkins, Rees, Maes yr Hendre, Creunant  
 Hughes, Rees, Maes yr Hendre, Creunant  
 Hughes, William, Pentwyn, Gwaun Defaid, do.  
 Jenkins, John, Mill, do.  
 Jones, David, Ynysygollen  
 Jones, David, 51, Nant Road, Merthyr  
 Jones, David Harris, Ceunant  
 Jones, Philip, Ynysarwed  
 Jones, William, Ty'n y Garn, do.  
 Lewis, William, Star, Creunant  
 Morgan, John, Resolven  
 Richards, Richard, Creunant  
 Thomas, William, Stag, Ynysarwed

Watkins, John, Ysgubor Fach, Creunant  
 Williams, John, Creunant  
 Williams, Thomas, Pentwyn, Gwaun Defaid, Creunant

## SKEWEN.

*Jones, Lewis, Grocer, Francis street, Dosparthwr*  
 Bowen, Edward, Skewen  
 Davies, Daniel, do.  
 Davies, John  
 Deer, Jacob  
 Deer, John  
 Evans, Jeremiah (Sciwenfab)  
 Evans, Joseph  
 Hughes, William  
 Isaac, Griffith  
 James, David  
 Jenkins, John  
 Jones, Lewis (Llew Llwyd)  
 Jones, John (Ioan ab Gruffydd)  
 Jones, Thomas  
 Lonerig, John  
 Lloyd, John  
 Nicholas, William  
 Owen, Hopkin  
 Owen, Samuel  
 Phillips, Thomas  
 Rees, Francis  
 Rees, Thomas  
 Rees, Walter  
 Richards, William, 1  
 Richards, William, 2  
 Thomas, Evan  
 Thomas, Joseph, do.  
 Thomas, Thomas (Glasyns), do.  
 Walters, William  
 Wedlock, Thomas  
 Williams, David 1  
 Williams, David 2  
 Williams, Thomas

## STOCKTON-ON-TEES.

Daniel, Rhys, T. 6, Paxton street, 2 copies  
 Rees, Christopher, 26, Joseph street, Portrack Lane

## TIRPHIL.

Lloyd, David, Grocer, Tirphil, New Tredegar

## TONYPANDY.

Williams, W. Bookseller, Wrexham House, 12 copies

## TREHERBERT.

*Weeks, David (Honddu), Dosparthwr*  
 Curnew, T., Esq., Colliery Manager, Bute Merthyr Colliery  
 Davies, Daniel, Grocer, Treherbert  
 Davies, David, do.  
 Davies, Joseph, do.  
 Davies, Thomas Ll., Penynglyn  
 Dyer, George, do.  
 Edward, William, do.  
 Evans, David, do.  
 John, Daniel, Blaen Rhondda

John, David, Treherbert  
 Jones, Rees, Penynglyn  
 Jones, Thomas, do.  
 Jones, William, Treherbert  
 Lodwig, Thomas, do.  
 Llewellyn, Thomas, Penynglyn  
 Morgan, Morgan, do.  
 Morgan, Rees, Kilhesta  
 Owen, John, Tregaron  
 Phillips, John, Penynglyn  
 Rees, James, Treherbert  
 Rees, Jonathan, do.  
 Rees, William E. Penynglyn  
 Roberts, Daniel, Blaen Rhondda  
 Thomas, Thomas, Manager, Ynyswen Colliery  
 Thomas, Thomas, Treherbert  
 Thomas, William, do.  
 Timothy, Evan, Merthyr  
 Weeks, Edward, Treherbert  
 Weeks, Elizabeth, do.

*Williams, Rees T., Abertonllwyd Row, Dosparthur*

Bebb, William, Treherbert  
 Daniel, Thomas, do.  
 Davies, Daniel, do.  
 Davies, David, 1, do.  
 Davies, David, 2, do.  
 Davies, David, 3, do.  
 Davies, Jacob, do.  
 Davies, Thomas G., Esq., do.  
 Davies, William, do.  
 Evans, John, Walnut Tree Junction  
 George, John, Treherbert  
 Harris, Henry  
 Harries, William  
 Hughes, Roderick  
 James, John  
 James, Joseph  
 Jones, Arthur  
 Jones, David  
 Jones, Elias  
 Jones, John  
 Jones, M. O., Esq.  
 Jones, Thomas, 1.  
 Jones, Thomas, 2.  
 Jones, William  
 Lewis, Edwin  
 Lewis, Owen, Brynaman  
 Morgans, Noah, Treherbert  
 Morgans, Rees, do.  
 Morgans, W. R. do.  
 Phillips, David, do.  
 Roberts, David  
 Roderick, John  
 Scurlock, Thomas G.  
 Watkins, Thomas  
 Williams, Jonah  
 Williams, Phillip  
 Williams, William, 1.  
 Williams, William, 2.

## TREORCHY.

*Skym, David (Dewi Araul), Dosparthwr*

Davies, Benjamin (Verwick), Collier, Treorky

Davies, David, Collier, Treorky

Davies, Edward, Mechanic, do.

Davies, John, 1, Collier

Davies, John, 2, do.

Davies, Morgan, do.

Davies, Peter, do.

Davies, T. (Gaerwen), Fireman, do.

Edwards, Daniel, Collier, do.

Edwards, John, do.

Edwards, Thomas, Timberman, do.

Einion, Daniel, Manager, do.

Evans, Evan, Carpenter

Evans, Lewis, Fireman

Evans, Richard, Mason

Griffiths, Thomas, Carpenter

Griffiths, Thomas (Ab Cennech), Fireman

Gwyn, William, Timberman

Hancock, Peter, Collier

Harris, Henry, do.

Henry, Llewellyn, do.

Hughes, Thomas, do.

Jacob, T. (Brithyll Rhondda), Blacksmith

James, Benjamin, Collier

Jenkins, Thomas, Lampman

Jones, Benjamin, Enginedriver

Jones, David, Overman

Jones, Ebenezer, Collier

Jones, George, Blacksmith

Jones, Griffith B. (Caradog), Hotel Keeper

Jones, Henry, Fireman

Jones, J. Defyn, do.

Jones, Morgan, Collier

Jones, Thomas, 1, do.

Jones, Thomas, 2, do.

Jones, Thomas, 3, do.

Jones, William, do.

Lewis, David, do.

Lewis, Hopkin, do.

Mainwaring, David, Mason

Meredith, William, Fireman

Morgan, David, Collier

Morgan, Evan, Overman

Morgan, Richard, Collier

Morgan, R. (Aberog), Butcher

Morgan, William (Dewrddyn), Fireman

Morgan, W. L., Collier

Morgan, William, do.

Morris, Rev. W. (Rhosynog)

Parry, Evan, Collier, Treorky

Phillips, Evan, Fireman, do.

Phillips, Llewellyn, Gent., do.

Powell, William, Collier, do.

Rees, William, do.

Richards, David, Fireman, do.

Richards, Herbert, Cashier, do.

Samuel, William, Collier, do.

Skym, Gomer, do.

Skym, Taliesin, Treorchy  
 Thomas, David, Collier, do.  
 Thomas, George, Mason, do.  
 Thomas, John, Collier, do.  
 Thomas, Samuel, Blacksmith, do.  
 Thomas, Thomas, Fireman  
 Treasure, Richard, Collier  
 Williams, John, do.  
 Williams, J. R., Surveyor  
 Williams, Lewis, Collier  
 Williams, Lodwick (L. ab Nedd), do.  
 Williams, Phillip  
 Williams, Rees (Alaw Twroh)  
 Williams, Thomas (Brynfab), Farmer  
 Williams, Thomas, Manager  
 Williams, William, 1, Collier  
 Williams, William, 2, do.  
 Winter, William, Office Clerk

## WORKINGTON. CUMBERLAND.

*Davies, Rhys Gwilym, Derwent Tin Plate Works, dosparthur*  
 Davies, John  
 James, Rees  
 Jones, Griffith  
 Rees, Thomas

## YSTRAD MYNACH.

Evans, T. Prichard (Mabon)  
 Rees, Watkin, Twyn Farm


## YSTRAD RHONDDA.

*Evans, Thomas, 7, Ton Row, dosparthur*  
 Bowen, Joseph  
 Davies, John  
 Davies, Thomas  
 James, Henry  
 Jones, David  
 Lewis, Lewis  
 Morgans, Samuel  
 Prichards, Thomas  
 Rees, John  
 Rees, Moses  
 Thomas, Richard  
 Watkins, Edward  
 Watkins, Thomas  
 Williams, Thomas

*Rees, William, (Deincodyn), Old Bethel, Ystrad, dosparthur*  
 Butler, John, Heol Fach  
 Davies, Thomas, do.  
 Goronwy, Elias, do.  
 Llewellyn, Evan, do.  
 Morgans, David, do  
 Morgans, Jenkin, do.  
 Morris, Evan, do.  
 Nicholas, Evan, do.  
 Rees, John, do.  
 Richards, Benjamin, do.  
 Selathiel, John, do.  
 Thomas, Thomas, Grocer, do.  
 Williams, Benjamin Lewis  
 Williams, John, do.  
 Williams, Morgan, do.  
 Williams, Phillip, do.







This book should be returned to  
the Library on or before the last date  
stamped below.

A fine of five cents a day is incurred  
by retaining it beyond the specified  
time.

Please return promptly.